In Welch language,
Mrs E H G

Presented to

Mrs Jas V Williams

Apr 1895

by

Mrs E. Evans

CYFIEITHAD

O

EIRIADUR YSGRYTHYROL

Y PARCH. W. GURNEY, A.C.

YN CYNNWYS

HANES PERSONAU, DESGRIFIAD LLEOEDD,

AC HEFYD

EGLURHAD

O'R

AMRYWIOL EIRIAU, ATHRAWIAETHAU, CYFREITHIAU, GORCHYMYNION, DEDDFAU, GOSODIADAU, A CHYFFELYBIAETHAU,

YN YR

Oraclau Sanctaidd:

WEDI EI GASGLU O WAITH

CALMET, BROWN, NEWTON, HURD, &c.

GAN ISAAC JONES,

Athraw Ysgol Rammadegol Aberystwyth;

YR HWN A 'CHWANEGODD

BIGION HELAETH O WAITH Y PARCH. T. CHARLES,

Buck, Coke, ac amryw ereill.

CYFROL I.

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN J. COX.

1831.

Y RHAGDRAITH.

Yr Ysgrythyrau Sanctaidd ydynt nid yn unig wedi eu hamcanu er addysg i ni, ond hwy hefyd ydynt reol sefydledig a pharhaol ein ffydd a'n hymarferiad, wrth yr hon y rhaid i ni gymmeryd ein llywodraethu yn awr, a'n barnu ar fyrder. Am hyny, dyledswydd pob Cristion yw chwilio yr ysgrythyrau yn ddyfal. Pa mor ddefnyddiol bynag yw Llyfr y llyfrau ynddo ei hun, ni bydd o unrhyw ddefnydd i ni, os na wnawn ein hunain yn adnabyddus âg ef, trwy ei ddarllain a myfyrio arno yn feunyddiol, fel y deallom feddwl Duw ynddo, ac y cymhwysom yr hyn a ddeallwn attom ein hunain er ein cyfarwyddyd, cerydd, neu gyssur, fel y byddo achos. Nodwedd y gwir sanctaidd a dedwydd, ydyw, fod ei *hyfrydwch yn nghyfraith yr Arglwydd*; ac, fel tystiolaeth o hyny, y mae yn ymgyfeillachu â hi fel ei gydymaith gwastadol, ac yn ymgynghori â hi fel ei gyfarwyddydd doethaf a ffyddlonaf.

Y mae yn perthyn i ni hefyd fod yn barod yn yr ysgrythyrau, a gwneud ein hunain felly trwy ddarlleniad gwastadol, sylw gofalus, ac yn enwedig trwy weddi daer ar Dduw am y ddawn addawedig, sef yr Ysbryd Glan, swydd pa un yw *dwyn peth ar gof i ni* a ddywedodd Crist wrthym (Ioan xiv. 26.), fel y byddo genym ryw air da neu gilydd wrth law yn ein herfyniadau ar Dduw, a'n cymdeithas â dynion—yn ein gwrthwynebiad i Satan, ac wrth ymddyddan â'n calonau ein hunain; ac y byddom alluog, gyda'r penteulu da, i ddwyn allan o'r trysordy hwn bethau newydd a hen, er ein difyrwch a'n hadeiladaeth ein hunain ac ereill hefyd. Os gwna dim *ddyn Duw yn berffaith* yn y byd hwn, gyflawni Cristion a Gweinidog hefyd, a'i *berffeithio i bob gweithred dda*, rhaid mai hyn ydyw, 2 Tim. iii. 17.

Llawer o gynnorthwyon duwinyddol, yr wyf yn gwybod, a feddwn ni, y Cymry, eisioes yn ein hiaith, y rhai y mae genym achos mawr i'w gwerthfawrogi, a bod yn ddiolchgar i Dduw am danynt: ond y mae yr ysgrythyr yn destun nas gellir byth ei ddyhysbyddu, fel, pa mor fynych bynag y darllenom hi, cyfarfyddwn o hyd â rhyw beth newydd. Pan oedd Dafydd wedi pentyrru trysor dirfawr at adeiladu y deml, er hyn, eb efe, wrth Solomon, *ychwanega dilhau attynt hwy*, 1 Cron. xxii. 14. Y cyfryw drysor ydyw gwybodaeth ysgrythyrol, y mae fyth yn gynnyddadwy, hyd oni ddelom oll yn wr perffaith.

Canfyddir fy mod wrth ddyfynu adnodau, yn yr YCHWANEGIADAU a wnaed at y gwaith hwn, bob amser yn gosod y testun ei hun i lawr yn unol â'r cyfieithad Cymraeg cyffredin, yr hwn, y rhan amlaf, cyn belled ag y gallaf fi farnu, yw y goreu. Er hyny, nid wyf yn dywedyd, nad oes modd i'w ddwyn yn nês i'r iaith wreiddiol. Nid wyf yn cadarnhau ychwaith fod y copïau Groeg hyny o ba rai y gwnaed y cyfieithad hwn, yn rhai mwyaf cywir bob amser. Ac oblegid hyny, cymmerais fy rhyddid i wneuthur ychydig gyfnewidiadau yma ac accw, fel y byddai yr achos yn gofyn; etto, gallaf dystio yn gydwybodol na chyfnewidiais gymmaint âg un lle, *er mwyn cyfnewid*; ond y fân hono, a'r fân hono yn unig, lle y byddai y synwyr yn well, yn gryfach, yn amlycach, yn fwy cysson â'r cyd-adnodau, neu yn agosach i'r iaith wreiddiol.

Bum yn amheus dros ryw hyd, pa un a gyssylltwn wrth bob sylwad a gefais oddi wrth ereill, enw yr awdwr y cymmerasid ef oddi wrtho; yn neillduol wrth ystyried fy mod wedi adysgrifenu rhai, a thalfyrru llawer mwy, bron yn ngeiriau yr awduron. Eithr wrth ystyried yn mhellach, penderfynais na wnawn hyny, fel na byddai i ddim droi meddwl y darllenydd i'r neillâu oddi wrth y pwngc mewn golwg, ac y derbynid yr hyn a ddywedwyd yn ol ei unig *werth* naturiol ei hun.

Mewn gwaith o gymmaint anhawsdra, nis gallaf feithrin y dyb na syrthiais i un camgymmeriad. Ond y mae fy nghydwybod yn fy rhyddhau na chamddarluniais yn fwriadol un adnod o'r ysgrythyr, ac nad ysgrifenais un llinell, er cyffroi calonau Cristionogion uniawn-gred yn erbyn eu gilydd. Wrth gymhwyso y gair *uniongred* at bersonau a wahaniaethant yn hynod yn eu Credöau crefyddol ar byngciau neillduol, hwyrach mai nid diangenrhaid a fyddai egluro fy meddwl. Y neb a dâlio yr athrawiaeth o gwymp dyn, a thrwy hyny, llygredd cyffredinol yr anian ddynol—duwdod ein Prynwr bendigedig—yr iawn a wnaed trwy ei ufudd-dod hyd angau—cyfiawnhad trwy ffydd yn unig yn ei waed—ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glan, yn adgenhedlu ac adnewyddu y galon, yn gyffredinol a gyfrifir genyf yn *uniawngred*, pa un bynag ai Arminiad neu Galfiniad a fyddo mewn rhanau ereill o'i gredo. O! na byddai yr holl enwau pleidgar, a'r ymadroddion a'r ffurfiau anysgrythyrol, y rhai ydynt wedi achlysuro y fath ymraniadau yn y byd Cristionogol, wedi eu hanghofio; ac i ninau oll allael eistedd i lawr yn nghyd, megys dysgyblion gostyngedig a chariadus, wrth draed ein Hathraw cyffredinol, i wrandaw ei eiriau, derbyn ei Ysbryd, a chopïo ei fywyd ynom ein hunain.

ISAAC JONES.

Aberystwyth, Mawrth, 1831.

GEIRIADUR YSGRYTHYROL,

&c. &c.

A, ydyw y llythyren gyntaf yn egwyddor pob iaith adnabyddus ond yr Ethiopaeg, yn egwyddor yr hon, medd Ludolphus, y drydedd ar ddeg ydyw.—A, cyssyllt-air yn rhagflaenu geiriau yn dechreu a chydseiniaid, fel y gwna *ac* rai yn dechreu a llafariaid; megys *a* fum, mam *a* thad, *ac* ein, *ac* yr, aur *ac* arian, hen *ac* ieuangc, &c.

A, hefyd, sydd rag-enw yn arwyddo *pwy*, *beth*, *yr hyn*, *yr hwn*, megys, *A* wnelo hyn, nid ysgogir yn dragywydd, Salm clv.

A, sydd ferf, neu berwyddiad, megys, yr halogedig nid *a* ar hyd-ddi.

A, hefyd sydd orair, yn arwyddo, *tra*, *cyhyd*, megys, *a'r* dynion yn cysgu, sef, tra yr oeddynt yn cysgu.

AARON, *(athraw, neu uchelwr)* Lefiad, mab Amram, a brawd Moses a Miriam; saith mlwydd iau na'i chwaer, a thair blwydd hŷn na Moses, Exod. ii. 2. a'r vii. 7. Num. xxvi. 59. Ganed ef, *A.M.* 2430, yn nghylch blwyddyn cyn i Pharaoh orchymyn i blant gwrryw yr Hebreaid gael eu lladd. Wedi myned yn fawr, priododdd Eliseba, merch Aminadab, pen tywysog o lwyth Judah, chwaer Nahaason, un o hynafiaid Crist. Trwy hyn yr unwyd y teuluoedd offeiriadol a brenhinol, yn rhag-gysgod o Grist, yr hwn o ran ei swyddau sydd yn offeiriad ac yn frenin. Bu iddo bedwar o feibion o'i wraig, sef Nadab ac Abihu, Eleazer ac Ithamar, Exod. vi. 23. Yr oedd ef yn ddyn sanctaidd a thosturiol, yn ymadroddwr hyawdl, ac wedi ei osod gan Dduw i fod yn llefarwr dros ei frawd Moses wrth Pharaoh a'r Hebreaid, Exod. iv. 14—16. Yn nghyd a'i frawd, lled hysbysodd i'w gyd-genedl orthrymedig am fwriad grasol Duw o'u gwaredu ar frys; ac yn enw Duw, a ofynodd ganiatâd iddynt yn ddioed i fyned i anialwch Arabia i wasanaethu yr Arglwydd eu Duw. Gorchymynodd Pharaoh i Aaron a Moses fyned ymaith o'i wydd, ac a chwanegodd wasanaeth yr Hebreaid, gan nacâu gwellt iddynt i wneuthur pridd-feini. Ar hyn edliwiwyd i Aaron a Moses, a melldithiwyd hwynt gan eu brodyr, am ofyn eu gollyngdod, ac felly fod yn achos o drymhau eu llafur a'u trueni, Exod. v.

O ddeutu dau fis gwedi hyny, tra yr oedd yr Hebreaid, newydd gael eu gwared o'r Aipht, yn ymladd âg Amelec yn Rephidim, Aaron a Hur a ganlynasant Moses i ben bryn gerllaw, ac a gynnaliasant ei ddwylaw i fynu, tra yr oedd efe yn parhau i galonogi yr Hebreaid ymdrechgar, ac yn gweddio am fuddugoliaeth iddynt, Exod. xvii. 10. 13. Wrth Sinai, efe, ynghyd a'i ddau fab hynaf, a deg a thriugain o henuriaid Israel, a hebryngasant Moses ran o'i ffordd i ben y mynydd: ac heb dderbyn dim niweid, a gawsant olwg dra agos ac eglur ar yr arwyddion gogoneddus o'r presennoldeb dwyfol, pan yr ymddiddanodd yr Arglwydd â Moses, Exod. xxiv. 1, 2. 9—11. Bron yn ddiatreg gwedi'n, etholwyd ef a'i hiliogaeth gan Dduw, i offeiriadu yn mysg yr Iuddewon, hyd ddyfodiad a marwolaeth y Messiah addawedig, Exod. xxix. Prin yr oedd yr anrhydedd rhagorol hwn wedi ei roddi iddo, pan i nodi ei annigonolrwydd personol ei hun i orchymyn ereill i ffafr Duw, y syrthiodd efe ei hun i'r bai mwyaf gorthrwm. Deisyfodd yr Hebreaid arno wneuthur iddynt ddau wiau, i fod yn arweinyddion iddynt, yn lle Moses, yr hwn oedd yn aros o hyd yn

y mynydd. Gorchymynodd iddynt ddwyn eu holl glust-dlysau iddo ef, y rhai a ddygwyd, ysgatfydd, yn barottach nac y disgwyliodd; ac wedi eu casglu mewn cód, parodd iddynt gael eu toddi yn llo aur, ar lun yr ych Apis, yr hwn y buasai y brodorion, a, tebygol, gormod o'r Hebreaid, yn ei addoli yn yr Aipht. Gorchymynodd i'r eilun hwn gael ei osod ar drostan, i'w wneuthur yn fwy eglur; penododd ŵyl arbenig i gael ei chadw er anrhydedd iddo; a pharodd gyhoeddi o'i flaen, "Dyma dy Dduwiau di, Israel, yrhai a'th ddygasant i fynu o wlad yr Aipht;" tra yr oedd efe yn gwneuthur hyn, discynodd Moses oddi ar fynydd Sinai, ac a'i ceryddodd ef yn llym am ei drosedd erchyll. Yn nghanol y gwarthrudd dyfnaf ceisiodd ymesgusodi, trwy osod y bai ar ddrygioni y bobl: a thrwy esgus gau a disynwyr, na wnaethai efe ond bwrw y clust-dlysau i'r tân, ac i'r llo aur gael ei ffurfio o honynt o wir ddamwain, Exod. xxxii.

Edifarhaodd Aaron â'i holl galon am ei fai gwarthus: ac yn nghylch dau fis gwedi'n, efe, yn nghyd â'i bedwar mab, a wisgwyd mewn modd arbenig â'r gwisgoedd sanctaidd, ac a gyssegrwyd trwy olchiad arbenig, enneiniad, ac aberthau, i swydd yr offeiriadaeth, Lef. viii. Yn ddioed aberthodd aberth dros gymmulleidfa Israel; a thra yr oedd efe a'i frawd Moses yn bendithio y bobl, y tân sanctaidd a ddiscynodd o'r nefoedd, ac a ysodd y poeth-offrwm ar yr allor bres, Lef. ix. Ei ddau fab hynaf, wedi meddwi hwyrach gan y gwin a yfasent ar ddydd eu cyssegriad, yn lle cymmeryd tân sanctaidd oddi ar yr allor brês, a gymmerasant dân cyffredin, i aroglddarthu ar yr allor aur: Duw wedi ei gyffroi gan eu hanystyriaeth a'u hanufudd-dod, a'u difaodd nwynt yn ddioed, â thân o'r nefoedd; ac a orchymynodd na byddai i un offeiriad o hyny allan broti gwin pan yn myned i weinyddu mewn pethau sanctaidd. Ymostyngodd Aaron yn gyfangwbl i'r dyrnawd cyfiawn, ond arswydus, hwn; ac ni wnaeth efe na'i feibion oeddynt etto yn fyw, un galar am danynt, oddieithr ymattal oddi wrth fwyta cig pêch-aberth y bobl y diwrnod hwnw, Lef. x.

Yn mhen llai na blwyddyn gwedi hyn, hwyrach, Aaron a Miriam, gan genfigenu wrth awdurdod Moses, yn anfoesgar a edliwiodd iddo ei briodas â Zippora yr Ethiopes; ac am edrych drostynt hwy yn ngosodiad y deg henuriad a thriugain. Aaron, am fod angen am ei wasanaeth offeiriadol ef yn feunyddiol, a arbedwyd; ond Miriam a darawyd â gwahanglwyf drosti. Aaron yn ddioed a wybu ei euogrwydd, a gydnabu ei fai, a erfyniodd am faddeuant iddo ei hun a'i chwaer, ac am iddi hi gael ei hadferyd ar fyrder i'w hiechyd, Num. xii. Cyn pen hir gwedi hyn y bu i Cora a'i gyfeillion, gan genfigenu wrth anrhydedd Aaron, feddwl ymwthio i swydd yr offeiriaid. Wedi difetha y gwrthryfelwyr hyn yn wyrthiol gan Dduw, yr Hebreaid a waradwyddasant Moses ac Aaron fel yn euog o'u lladd hwynt; yr Arglwydd, wedi ei gyffroi wrth hyn, a anfonodd blâ niweidiol yn mysg y bobl, yr hwn a fwgwthioddd ddifa yr holl gymmulleidfa. Aaron, yr hwn, ychydig yn ol, trwy ei weddiau, a attaliasai eu llwyr ddinystr gyda Cora, yn awr, yn ddaionus, a beryglodd ei fywyd ei hun er mwyn gwared ei frodyr anniolchgar a chamweddus: rheddodd i mewn rhwng y byw a'r meirw, a thrwy offrymu aroglddarth, a wnaeth gymmod am eu camwedd, ac felly y plâ a attaliwyd. I wobrwyo y weithred gariadus hon, ac i rwystro ymrysonau rhagllaw am yr offeiriadaeth, Duw a'i cadarnhaodd hi i Aaron, trwy wneuthur i'w wialen yn ddisymmwth, wedi ei gosod ger bron y drugareddfa, flodeuo a dwyn almonau; tra yr oedd gwiail y llwythau ereill yn para yn eu hystad gwywedig, Num. xvi. xvii.

Ni chlywn ddim rhagor am Aaron, nes iddo ef, ynghyd a'i frawd Moses, bechu yn Meriba, trwy beidio mynegu yn ddigonol ei ymddiried yn ngwaith yr Arglwydd yn darparu dwfr i'r gynnulleidfa. I gospi hyn, ac i nodi anmgonolrwydd offeiriadaeth Aaron i ddwyn dynion i'r etifeddiaeth nefawl, cauwyd Aaron allan rhag myned i mewn i Ganaan. Yn nghylch blwyddyn cyn i'r Hebreaid fyned i mewn i'r wlad hono, a thra yr oeddynt yn gwersyllu yn Mosera, efe, wrth orchymyn yr Arglwydd, a aeth i fynu i fynydd Hor; ac wedi

ei ddiosg o'i wisgoedd sanctaidd gan Moses, a'u gwisgo am Eleazer ei fab a'i ganlynwr, yn ddisymmwth, bu farw yn yr Arglwydd, yn 123 mlwydd oed, A. M. 2552. Ei feibion ei hun a'i frawd a'u cladasant mewn ogof, a holl Israel a alarasant am dano ddeng niwrnod ar hugain, Num. xx. Deut. x. 6. Gelwid ei hiliogaeth ef *Aaroniaid*; ac yr oeddynt mor lluosog, a bod tair ar ddeg o ddinasoedd wedi eu penodi iddynt, o lwyth Judah a Benjamin, 1 Cron. xii. 27. a'r vi. 54—60. Jos. xxi. 13—19.

Y mae rhai awdwyr cyfrifol yn meddwl i hanes Merchur y gau dduw cenhedlig gael ei dychymygu allan o eiddo Aaron. Ond oni allwn ni, gyda llawer mwy o adeiladaeth, ei ystyried ef fel cysgod personol o Iesu Grist? Heb. v. 4, 5. Ei alwad i swydd yr offeiriadaeth oedd yn brydlawn, ac yn dra nefolaidd; enneiniad difesur yr Ysbryd Glân, a pherffaith burdeb natur, a'i cymhwysodd ef i'w chyflawni; gwyrthiau aneirif; dinystr ei elynion Iuddewig ac ereill; hlaguriad rhyfeddol *gwiaten* ei efengyl yn nychweliad a sancteiddhad dynion, sydd yn ei chadarnhau yn helaethlawn. Efe ydyw arweinydd ei bobl o'u caethiwed ysbrydol; ac y mae efe yn eu tywys, yn eu cyfiawnhau, ac yn eu sancteiddio hwynt ar eu taith yn yr anialwch. Efe ydyw eu prophwyd mawr, yr hwn a all lefaru yn addas wrth eu hamrywiol gyflyrau ac ammheuon. Efe ydyw eu *Harchoffeiriad* arddercho, a Thad ysbrydol yr holl dorf ddirif o ddynion, y rhai a wneir yn offeiriaid i Dduw. Gyda phurdeb, amynedd, tosturi, gwroldeb, a llafur digyffelyb, mae efe yn nghanol sarhad a phrofedigaethau anamgyffredadwy, yn cyflawni ei waith yn ffyddlon. Ar draul ei fywyd ei hun, efe a drôdd heibio y plâ llosgadwy o ddialedd ddiddwedd oddi wrth ei elynion direswm; ac wedi gorphen ei waith o ufudd-dod, Efe, yn gyhoeddus ac yn wirfoddol ar Galfaria, a roddodd ei hun i fynu i angau; gan adael ar ol ei wisgoedd o gyfiawnder gorphenedig i'w had ysbrydol.

AB, yr unfed mis ar ddeg o'r flwyddyn wladol Iuddewig, a'r pummed o'r un gyssegredig. Y mae yn cyfatteb i'r lloer sydd yn dechreu yn Gorphenaf, ac yn cynnwys deg diwrnod ar hugain. Ar y dydd cyntaf y mae yr Iuddewon yn ymprydio am farwolaeth Aaron; ar y nawfed, ymprydiant am gauad allan yr Hebreaid grwgnachlyd o wlad yr addewid, ac am losgiad y deml gyntaf a'r ail; ar y deunawfed, ymprydiant am ddiffodd y lamp hwyrol yn nheyrnasiad Ahaz; ar y pedwarydd ar hugain, cadwant wyl er cof am ddiddymiad y ddeddf Saduceaidd, yr hon oedd yn gefyn i feibion a merched fod yn gyd-etifeddion meddiannau eu rhieni.

ABADDON, yr hwn sydd yn arwyddo *dinystr*; ac *Apolyon* y *dinystrydd*, ydyw enw brenin a phenaeth y *locustiaid* yn y Dadgudddiad, dan y pummed udgorn. Nodir ei enw ef yn Hebraeg a Groeg, i arwyddo ei fod yn ddinystrydd Iuddewon a Chenedloedd; ond pwy ydyw efe, nid ydys yn gyffredinol yn cyduno. Y mae rhai yn meddwl mai y diafol ydyw efe, yr hwn sydd yn rhodio oddi amgylch *gan geisio y neb a allo ei lyngcu*. Heb gau allan Satan, yr hwn oedd *yn llediddiad dyn o'r dechreuad*, yr ydym yn tybied fod Ysbryd Duw, wrth frenin y locustiaid hyn, angel y pydew diwaelod hwn, yn unionyrchol yn meddwl y Pabau, y meibion colledigaeth hyny, y rhai, gan flaenori offeiriaid aneirif, a goruchwylwyr ereill, sydd yn dinystrio eneidiau ac yn lladd cyrph lluoedd anamgyffredadwy o ddynion; — a Mahomet, a'r rhai oedd yn gweithredu dano ef, y rhai mewn rhan trwy dwyll, ac mewn rhan trwy yspail a llofruddiaeth, a ddinystrasant luoedd dirif. Dychrynllyd fyddai adrodd pa filoedd a myrddiynau a laddwyd gan Hejajus ac Abu Moslem, Saracenaiaid; Tamerlane y Tartariad; Bajazet a Mahomed II. Tyrciaid; a phenaethiaid ereill y blaid Fahometanaidd, Dad. ix. 11. Gwel Anghrist, Arabiaid, Scythiaid.

ABANA, a *Pharpar*, dwy o afonydd Syria, y rhai y tybiodd Naaman y gwahanglwyfus eu bod yn addasach i'w iachau ef o'i ffieiddglwyf, na holl afonydd Israel. Tebygol mai yr un ydyw Abana â Barrady neu Chrysorroas, yr hon sydd yn tarddu o fynydd Libanus, ac yn llyfn-lifo yn hyfryd tua'r dehau; ac yn ol rhedeg rhai milltioedd sydd

yn ymranu yn dair ffrwd; y ganol ar fwyaf sydd yn rhedeg yn gywir trwy ddinas Damascus, ac y mae y ddwy ereill yn rhedeg un o bob tu i'r ddinas, ac yn ffrwythloni y gerddi i radd anghyffredin. Y ffrydiau, yn ymuno o du y dehau i'r ddinas, ar ol rhedeg yn nghylch pumtheg milltir, a gollir mewn anialwch cras. Myn Benjamin o Tudela mai y rhan hono o Barrady sydd yn rhedeg trwy Damascus, ydyw Abana, ac mai y ffrydiau sydd yn dyfrhau y gerddi o'r tu allan i'r ddinas ydyw Pharpar; ond ysgatfydd mai yr un ydyw Pharpar a'r Orontes, yr afon fwyaf nodedig yn Syria, yr hon sydd yn tarddu ychydig o du y gogledd neu gogleddddwyrain i Damascus, ac yn myned yn araf trwy wastadedd hyfryd, nes, ar ol myned heibio i Antioch, a rhedeg yn nghylch 200 o filltiroedd i'r gogledd-orllewin, y mae yn ymarllwys i Fôr y Canoldir, 2 Bren. v. 12.

ABARIM, enw cyffredin a roddir i rês o fynyddoedd cribog o du y dwyrain i'r Iorddonen, ac o du y dehau a gogledd i'r afon Arnon. Cyrhaeddent i diriogaethau y Reubeniaid a'r Moabiaid. Y mae yn debyg iddynt gael yr enw hwn oddi wrth yr Abarim, neu'r mynediadau rhwng y bryniau neilltuol, *Pisga*, *Nebo*, *Peor*, &c. y rhai eu gyd oeddynt yn rhanau o honynt. Yn agos i'r mynyddoedd hyn y bu gan yr Israeliaid amryw wersyllfaoedd, Num. xxxiii. 44. a xxvii. 12.

ABBA. Y mae rhai geiriau Hebrëig, wedi cael eu cadw gan ysgrifenwyr ysbrydoledig y Testament Newydd, er iddynt hwy ysgrifenu yn y Groeg, megys *Abba*, *Hosanah*, *Jehofah*, *Sabbath*, &c. Y mae hyn yn eglur yn arwyddo, fod geiriau yn cynnwys rhyw ystyr nad oedd yn hawdd ei drosglwyddo i un iaith arall; yn y modd yma, y mae *Abba* nid yn unig yn arwyddo *tad*, ond hefyd yn dynodi'r iaith serchog, anwylaidd, a chyfeillgar, yn yr hon y mae plentyn anwyl yn cyfarch ei dad, yn mynegu ei gariad gwresog a'i ymddiried. Y mae yn nodadwy, tra y parhaodd dirfawr ddyoddefiadau ein Iachawdwr yn yr ardd, fel eu coffheir gan Marc xiv. 36. pan yr oedd yn dyoddef dan donnau dwyfol lid, iddo gyfarch y Tad wrth yr enw hwn, "*Abba Dad*," &c. Trachefn, pan y mae Paul yn gosod ger bron y Rhufeiniaid (Cenhedloedd) y breintiau gogoneddus oeddynt yn awr yn fwynhau yn nghymdeithas yr Eglwys, efe a ddywed, Rhuf. viii. 15. "Chwi a dderbyniasoch Ysbryd Mabwysiad, trwy yr hwn yr ydym yn llefain, *Abba Dad*," hyny ydyw, chwi a ddygwyd i'r cyfundeb agosaf a'r gymdeithas fwyaf cyfeillgar. Gwel hefyd i'r un perwyl, Gal. iv. 6. Sylwyd yn gyfiawn mae'n debyg, fod yn mhob iaith gyffelybrwydd rhyfeddol rhwng bloesg-iaith gyntaf plentyn wrth ei dad a'r gair Hebrëig Abba.

ABDA, (*gwas*) tad Adoniram, 1 Bren. iv. 6.

ABDI, (*fy ngwas*) tad Cis, 2 Cron. xxix. 12.

ABDIEL, (*gwasDuw*) mab Guni, o lwyth Gad, 1 Cron. v. 15. Tad Selemiah, Jer. xxxvi. 26.

ABDON, (*gwas barn*) (1.) Mab Hilel, Ephraimiad; canlynodd Elon, A. M. 2840, ac a farnodd yr Israeliaid wyth mlynedd; ar ol hyn bu farw, a chladdwyd ef yn Pirathon yn ngwlad Ephraim. Gadawodd ddeugain o feibion, a deg ar hugain o wŷron, y rhai oeddynt yn marchogaeth ar ebolion asynod, yn ol arfer mawrion yr oes hono, Barn. xii. 13. (2.) Mab Micah un o'r cenhadau a anfonwyd gan *Josiah* i ymgyngori â *Huldah*, 2. Cron. xxxiv. 20. (3.) Dinas oedd yn perthyn i lwyth Aser; ac a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Gershon, Jos. xxi. 30.

ABEDNEGO, (*gwas goleuni*) ydyw yr enw Caldëig a roddwyd gan ben-ystafellydd brenin Babilon ar *Azariah* cyfaill Daniel. Y mae yr enw hwn yn arwyddo gwas Nago neu Nego, yr hwn ydyw yr haul neu'r seren foreu, a'r hwn a elwir felly o herwydd ei dysgleirdeb. Bwriwyd Abednego i'r ffwrn dân yn Babilon, yn nghyd a'i ddau gyfaill, Shadrach a Mesach, o herwydd iddynt nacâu addoli y ddelw a gyfodasid trwy orchymyn Nebuchodonosor. Yr oedd Daniel wrth bob tebygoliaeth yr amser hwnw yn absenol o Babilon, o herwydd nid ydym yn cael iddo ef gael yr un driniaeth a'i gyfeillion. Bu condemniad Shadrach, Mesach, ac Abednego, trwy drefniad Duw, yn foddion i helaethu ei anrhydedd, o herwydd na oddefodd iddynt gael eu

niweidio gan y ffamiau, ond a anfonodd ei angel i'w plith, i'w gwared hwynt allan o'r ffwrn. Y mae ymadrodd Nebuchodonosor ar yr achos hwn, "Dull y pedwerydd sydd debyg i Fab Duw" yn dystiolaeth foddhaol nad oedd y Cenhedloedd yn enwedig y rhai yr oedd yr Iuddewon wedi eu gwasgaru yn eu mysg, yn ddyeithriaid i'r addewid am ddyfodiad y Messiah; Pa fath ddarluniad hynod a rydd yr hanes hwn o'r iachawdwriaeth a orphenodd efe, yr hwn a ymddangosodd mewn agwedd gwas, mab Duw, gan rhodio yn ffwrnais dwyfol lid, mewn cyssylltiad a'i eglwys, etto yn eu dwyn hwynt allan heb i gymmaint a sawr y tân fyned arnynt.

ABEL, ail fab Adda ac Efa, a anwyd yn yr ail neu'r drydedd flwyddyn o oed y byd. Oddi wrth ddull yr ymadrodd yn Gen. iv. 1, 2. yr hwn sydd yn dywedyd i Efa *esgor* eilwaith heb son iddi *feichiogi* eilwaith, y mae dehonglwyr yr ysgrythyr, yn canlyn dychymygion chwedlwyr halogedig ar y pwnc, wedi llafurio yn ddwfn yn y ddadl ddivstyr, pa un ai gefeilliaid oedd Cain ac Abel, ai i Abel gael ei eni gyda chwaer-efell. Nid ydyw y pwnc, pe ei sefydlid, o un math o bwys. Enwodd ei rieni ef *Abel* neu *gwagedd*, o herwydd, fel y tybia rhai, yr oeddynt yn awr wedi eu hargyhoeddi yn ddigonol o *wagedd* pob mwyniant crëedig. Pa fodd bynag, y mae i sylwi arno, yn mysg *y llawer modd y llefarodd Duw wrth y tadau trwy y prophwydi*, nad oedd yr ysbrydoliaeth brophwydoliaethol, trwy yr hwn yr oedd enwau yn cael eu gosod, yn un o'r rhai lleiaf hynod. Abel, fel y cyntaf ar yr hwn y cyflawnwyd y felldith ddwyfol, *pridd wyt ti ac i'r pridd y dychweli*, oedd, o ganlyniad, y prawf cyntaf o haeriad y Salmydd, *dyn yn ddiau sydd yn rhodio mewn cysgod —diau mai cwbl wagedd yw pob dyn pan fo ar y gorau. Abel oedd fugail defaid, ond Cain oedd yn llafurio'r ddaear*; yn y modd hwn yr ymddengys i ran arall o'r felldith gael ei chyflawni, *trwy chwys dy wyneb y bwytai fara*. Er eu bod yn etifeddion amherodraeth, etto rhaid iddynt lafurio am eu cynhaliaeth. Y mae natur eu haddoliad yn cael ei darlunio yn fyr, ond yn hynod, gan yr ysgrifenydd sanctaidd. *Wedi talm o dyddiau*, neu yn hytrach *ar ddiwedd y dyddiau*, hyny ydyw, ar y *Sabbath*, dygodd Abel o flaen-ffrwyth ei ddefaid, ac o'n brasder hwynt. Hyn wedi ei gyssylltu a Heb. xi. 4. *Trwy ffydd yr offrymodd Abel, &c.* a eglura ddull ac arwyddocâd addoliad boreuol; trwy ffydd yn y Messiah addawedig, *had y wraig*, trwy ysigiad sawdl yr hwn yr oedd gweithredoedd y diafol i gael eu dattod, efe a ddygodd o *flaen ffrwyth* ei ddefaid, ac o'u *brasder* hwynt, gan gyfeirio at ddwyfol urddas a pherffeithrwydd anfeidrol y Bendigedig, at yr hwn yr oedd ei ffydd yn edrych, ac a'u hoffrymodd hwynt yn aberth i Dduw, fel cyffelybiaeth neu ddarluniad o angau a dyoddefiadau Crist, yn lle yr euog. Duw a edrychodd ar Abel ac ar ei offrwm. Os gofynir Pa ham? yn lle mabwysiadu dychymygion unrhyw Esponiwr, yr ydym yn atteb gyda Paul yn y rhagddywededig, Heb. xi. 4. Yr oedd offrwm Abel yn fwy cymmeradwy na'r eiddo Cain o herwydd iddo offrymu trwy *ffydd*. Cain, wedi anfoddloni wrth y blaenoriaeth a roddwyd yn amlwg i offrwm Abel, a lanwyd â'r digasedd hwnw a ddarlunir mor rymus yn 1 Ioan iii. 12. Dan lywodraeth yr un drwg, y lleiddiad dyn o'r dechreuad, lladdodd ei frawd, ac y mae ei hanes yn parhau yn wers hynod i broffeswyr Cristionogol yn mhob oes o'r byd.

Abel, *wedi marw, sydd yn llefaru etto*. Rhestrir ef yn mysg y rhai hyny a gawsant air da trwy ffydd; yn mysg y rhai hyny y cynghorir ni i ddyfod yn ddilynwyr o'u ffydd a'u hamynedd. Yn ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth, oddi wrth arf yr un drygionus, yr oedd efe yn gysgod ardderchog o'r Dyoddefydd mawr, a'i waed heddychlawn. Etto, yn mhellach, yr oedd gwaed Abel yn llefain ar Dduw o'r ddaear, ac a attebwyd trwy ddialedd saith dyblyg ar Cain. Gyda pha bwys gorthrwm y syrthiodd gwaed Iesu, ac y mae o hyd yn gorwedd ar eu penau hwy a'u plant, y rhai â dwylaw anwir a'i croeshoeliasant ac a'i lladdasant ef! Os ydyw gwaed Abel yn sefyll yn mlaenaf ar y gof-restr o'r rhai hyny y dialwyd eu marwolaeth ar y gen-

hedlaeth hono, a roddodd Arglwydd y gogoniant i farwolaeth, o herwydd daeth dial arnynt hyd yr eithaf; Pa ddigofaint ofnadwy a amlygir, pan y bydd i waed gwrth-gysgod Abel gyfiawn, pen yr holl ferthyri a dyoddefwyr, gael ei ddial ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear! Cydmar. Mat. xxiii. 34—38. â Dad. xi. 10.

2. *Abel*, a'r hwn a elwid mewn modd arall Maes Josuah, lle yn agos i Bethsemes, a alwyd felly er côf am *alar* yr Hebreaid am eu cyfeillion a darawyd yn feirw am edrych i'r arch. Ymddengys i faen mawr gael ei godi er côf am y dygwyddiad digllawn hwnw, 1 Sam. vi. 18, 19.

3. *Abel-Misraim*, lle a elwid hefyd *llawr-dyrnu Atad;* Galwyd ef felly oddi wrth *alar mawr yr Aiphtiaid* uwch ben corph Jacob, tra yr oeddynt yn ei ddwyn ef i Machpela. Meddylir ei fod yn gorwedd rhwng yr Iorddonen a Jericho, lle yr adeiladwyd y ddinas Beth-hogla ar ol hyny; ond prin y gallwn ni feddwl ei fod ef mor belled i'r dwyrain, Gen. l. 11. Gwel *Josephus*.

4. *Abel Sittim*, lle saith neu wyth milltir o du y dwyrain i'r Iorddonen, gyferbyn a Jericho, yn ngwlad Moab, ac yn agos i'r bryn Peor. Yma y gwersyllodd yr Hebreaid ychydig cyn marw Moses, ac y syrthiasant i eilun-addoliaeth ac aflendid, trwy hudoliaeth y Moabessau a'r Midianessau; ac a gospwyd â marwolaeth 24,000 mewn un dydd. Tebygol mai eu *galar* uwch ben y plâ hwn a roddodd yr enw *Abel* i'r fan, Num. xxv.

5. *Abel Mehola*, dinas neu le o du y gorllewin i'r Iorddonen yn perthyn i hanner llwyth Manasseh, 1 Bren. iv. 12. Myn Jerom ei bod hi 10 milltir, ond y mae ereill yn meddwl ei bod hi yn nghylch 16 milltir o du y dehau i Bethsean. Yn agos i'r ddinas hon y gorchfygodd Gideon y *Midianiaid* mewn modd gwyrthiol, Barn. vii. 22. ond ei hanrhydedd penaf oedd, ei bod yn lle genedigaeth Eliseus y Prophwyd, 1 Bren. xix. 16.

6. *Abel*, *Abel-Bethmaaca*, *Abel-Maim*, dinas gadarn yn rhyw le oddeutu terfynau deheuol mynydd Libanus. Perthynai, yn debygol, i lwyth Naphthali. Ffôdd Seba mab Bicri yma, pan erlidiwyd ef gan wyr Dafydd. I ymryddhau oddi wrth warchae cyneddeiriog Joab, y trigolion, yn ol cyngor gwraig ddoeth, a dorasant ben y gwrthryfelwr, ac a'i taflasant dros y mur, 2 Sam. xx. 14—18. Yn nghylch 80 mlynedd wedi hyn, Benhadad Brenin Syria a'i hynnillodd ac a'i hanrheithiodd hi, 1 Bren. xv. 29. Yn nghylch 200 o flyneddoedd wedi hyny, Tiglath-pilezer a'i hynnillodd, ac a gaeth-gludodd y trigolion i Assyria, 2 Bren. xv. 29. Adeiladwyd hi wedi hyn, a bu yn brif ddinas talaeth Abilene.

ABER—OEDD, ffrwd, nant; ymgyfarfod dyfroedd; ymarllwysiad afon fechan i un fwy, neu i'r môr. Trwy draws-ddwyn, porthladd neu angorfa, megys Aberddawen yn Morganwg, Aberdwygleddyf yn Mhenfro. (2.) Yn gyffelybiaethol aberoedd a arwyddant lawnder a helaethrwydd, "ffrydiau ac aberoedd o fêl ac ymenyn," sef cyflawnder parhaol o bethau gwych a moethus, Job xx. 17.

ABERTH—AU, (*a*-perth) offrwm, anrheg wirfoddol mewn ufudd-dod i Dduw; offrwm sydd yn benaf yn arwyddo yr hyn a roddir i Dduw. Yr oedd offrymau yn gyffredin o ddau fath, sef *rhoddion* lle nad oedd un bywyd yn cael ei ddistrywio; ac *aberthau* lle yr oedd bywyd y peth offrymedig yn cael ei gymmeryd ymaith, Heb. v. 1.

1. Yr oedd y *poeth-offrwm* yn gynnwysedig o fustach, oen gwrryw, neu fyn, neu os byddai yr offrymwr yn dlawd, turtur neu gyw colomen. Arweinid yr anifail fyddai wedi cael ei fwriadu yn aberth, i'r tu dwyrain i'r babell neu'r deml: gosodai yr offrymwr ei ddwylaw ar ei ben ef, gan gyfaddef ei euogrwydd, a throsglwyddo ei haeddiant ei hun o farwolaeth ar yr anifail. Yna lladdai yr offeiriad ef o du y gogledd i'r allor bres, a thaenellai ei waed o amgylch yr allor. Yna blingid ef, a byddai y croen yn rhan i'r offeiriad. Golchid y perfedd a'r traed, ac wedi halltu y cig i gyd, llosgid ef ar yr allor aur â thân sanctaidd. Os turtur neu gyw colomen fyddai yr offrwm, torai yr offeiriad ei ben ef a'i ewinedd; gwesgid y gwaed ar ystlys yr allor, ac wedi tynnu ymaith y grombil a'r plu, a'i hollti bron, ond nid yn gwbl, llosgai yr offeiriad ef ar yr allor. Ymwisgai yr offeiriad mewn dillad cyffredin, a dygai ludw a biswail y bustach, yr

oen, neu'r myn, a lludw, plu, a chrombil yr aderyn, i le glân o'r tu allan i'r gwersyll. Byddai bwyd-offrwm a diod-offrwm yn canlyn pob poeth-offrwm, heblaw eiddo'r turtur a'r cyw colomen. Y poeth-offrwm oedd y penaf o'u holl aberthau. Ac heblaw yr hyn ydoedd yn ewyllysgar, yr oedd y gyfraith yn gofyn poeth-offrymau ar naw achlysur gosodedig, sef ar yr holl *wyliau* beunyddiol, wythnosol, misol, a blynyddol; ac ar yr amrywiol achlysuron o gyssegriad offeiriaid, halogiad Nazaread, neu orpheniad ei adduned; ac mewn puredigaeth oddi wrth wahanglwyfau, &c. Lef. i. ii, 13. vi. 8—13, vii. 8. xxii. 19—24. Num. xv. 1—16. Exod. xxviii. xxix Num. xxviii. xxix Lef. xii. xiv. 15

2. Trwy yr *aberth hedd*, y byddai yr offrymwr yn diolch i Dduw am drugareddau a dderbyniasai, yn talu addunedau, neu yn ceisio ffafr. Wrth gyssegru offeiriad, yr ydym yn cyfrif hwn yn aberth hedd; oen gwrryw oedd i fod ar orpheniad adduned Nazaread. Ar y Pentecost hefyd, ysgatfydd mai gwrrywiaid oedd y ddau oen i fod; ond mewn achosion ereill gallai'r anifail offrymedig fod naill ai gwrryw neu fenyw; yn unig yr oedd yn gweddu iddynt fod yma, fel mewn pob offrwm arall, yn ddianaf; a gallent fod yn ychydig neu lawer o nifer, fel y gwelai yr offrymwr fod yn dda. Hwyrach ei bod yn arferol i bron bob Hebrewr a fyddai yn benteulu, i offrymu ebyrth hedd ar y tair gwyl arbenig. Gwedi y gosodai yr offrymwr ei law ar yr aberth hwn, byddai yn cael ei ladd o du y gogledd i'r allor, a'i waed yn cael ei daenellu o amgylch yr allor; byddai y gwêr fyddai ar y gloren, a'r perfedd, a'r arenau, a'r rhwyden oddi ar yr afu, yn cael eu halltu, a'u llosgi ar yr allor bres heblaw y poeth-offrwm; yr ysgwyddog ddehau, yn nghyd â'r cernau, a'r cylla, wedi eu derchafu, a'u cyhwfanu, gyda rhan o'r bwyd-offrwm cydfynedol, a roddid i'r offeiriaid, fel y byddai iddynt hwy a'u meibion a'u merched ymborthi arnynt, mewn lle glân. Dychwelid y gweddill o'r cig a'r gweddill o'r bwyd offrwm i'r offrymwr, fel y byddai iddo ef a'i gyfeillion wledda arnynt. Os aberth diolch a fyddai, yr oedd y cig i gael ei fwyta y diwrnod hwnw: os adduned neu offrwm ewyllysgar a fyddai, yr oedd i gael ei fwyta y diwrnod hwnw a'r nesaf; ac os byddai dim o hono yn ngweddill ar ol yr amser gosodedig, yr oedd i gael ei losgi â thân, Lef. iii. vii, 11—34. xix, 5—8. xxiii, 19, 20. Deut. xviii. 3.

3. Yr oedd yr *aberth dros bechod* yn amrywio yn ei ddefnydd, i nodi allan amrywiol raddau y trosedd, neu i gyfatteb i allu y rhoddwr. Tros bechod offeiriad neu bechod achlysurol yr holl gynnulleidfa, neu dros y Lefiaid ar eu cyssegriad, bustach a fyddai, Exod. xxix. 10—14. Lef. iv, 3—21. a xvi. 6. Num. viii. 12. Llwdn gafr gwrryw oedd y pech-aberth gosodedig dros yr holl genedl ar eu gwyliau arbenig, a thros bechodau achlysurol penaeth. Num. xv. 24, xxviii, 29. vii. Lef. iv. 22—26. Llwdn gafr fenyw, neu oen, oedd dros bechodau achlysurol person unigol; neu os byddai y dyn mor dlawd fel na allai gyrhaedd myn fenyw, rhoddai ddwy durtur neu ddau gyw colomen, y naill yn aberth dros bechod, a'r llall yn boeth-offrwm; neu os na chyrhaeddai ei law y rhai hyn, rhoddai ddegfed ran epha o beilliaid, heb nag olew na thus, Lef. iv. 28—35. a v. 9, 10, 11. Oen blwydd oedd y pech-aberth dros Nazaread ar orpheniad ei adduned; a thros buredigaeth gwraig ar ol esgor; neu dros wahanglwyfus, a thros doriad Nazaread o'i adduned; neu os byddai analluogrwydd i offrymu oen blwydd, yn yr achosion blaenorol, pâr o durturod, neu ddau gyw colomen a fyddai, Num. vi. Lef. xii. xiv. 22. a xv. 14. 15. a 29, 30. Arweinid anifail yr aberth dros bechod at yr allor bres; a throsglwyddai y troseddwr ei eunogrwydd ei hun arno, trwy osod ei law ar ei ben ef. Oddieithr gwaed bustach yr offeiriad a llwdn gafr y bobl, yr hwn a ddygid i'r cyssegr, yr oedd gwaed aberthau dros bechod yn cael ei dywallt allan wrth ystlys neu waelod yr allor brês; a'r brasder wedi ei halltu, a losgid ar yr allor i'r Arglwydd; a'r gweddill o'r offrymau fyddai yn eiddo yr offeiriad; ar gig pa rai, y byddai efe a'i feibion yn gwledda yn y lle sanctaidd. Byddai hyd yn nod y crochanau yn mha rai y berwasid y cig yn cael eu cyfrif yn aflan; ac os o bridd fyddent, dryllid hwynt yn ddarnau; ond os o fettel, golchid hwynt yn lân mewn

dwfr. Pan ddygid y gwaed i'r cyssegr, dygid y cig a'r croen i'r lle fyddai wedi cael ei benodi i ludw y poeth-offrymau, a llosgid hwynt yno; felly ni chaffai yr offeiriaid ddim rhan oll o'u pech-ebyrth eu hunain, a byddai yr hwn a losgai y cig a'r croen yn cael ei wneuthur yn aflan. Am nad oedd dim brasder i bech-aberth o aderyn, yr oedd dau yn angenrheidiol, fel y byddai i'r naill gael ei ddefnyddio yn lle y brasder, ar ddull poeth-offrwm, ac y byddai i'r llall, wedi tywallt ei waed wrth yr allor, fel aberth dros bechod, gael ei roddi i'r offeiriad. Nid oedd dim o waed aberth dros bechod, i gael ei ddwyn allan o'r llysoedd sanctaidd, dim cymmaint a diferyn ar wisg yr offeiriad, ond yr oedd i gael ei olchi ymaith cyn yr elai efe allan. Os o flawd y byddai y pech-aberth, byddai dyrnaid o hono yn cael ei losgi ar yr allor yn lle y brasder, a'r gweddill a berthynai i'r offeiriad, Lef. iv. v. vi.

4. Fod yr *aberth dros gamwedd* mewn gwirionedd yn wahanol oddi wrth yr *aberth dros bechod*, sydd yn eglur yn achos y gwahanglwyfus, lle y mae y ddau yn cael eu cyd-gyssylltu, Lef. xiv. 10—20; ond nid ydyw yn hawdd nodi y gwahaniaeth rhyngddynt. Mae rhai yn meddwl fod yr aberthau dros bechod yn golygu pechodau o esgeulusiad; aberthau dros gamwedd, pechodau o wneuthuriad; y mae ereill yn meddwl fod y blaenaf yn gwneuthur iawn am bechodau a gyflawnid trwy anwybodaeth o'r gyfraith, a'r olaf am bechodau a wnai un trwy ddiofalwch am ei ymarweddiad. Nid ydyw y naill na'r llall o'r rhai hyn yn cyduno â deddfau Moses. Ysgatfydd fod Dr. Owen ar yr iawn wrth feddwl fod yr aberthau dros gamwedd yn perthyn i ryw achosion neilltuol heb fod yn gynnwysedig yn y rheolau cyffredinol am aberthau dros bechod. Os byddai i un, pan ei gelwid, gelu y gwirionedd yn erbyn anudonwr, neu dyngwr aflan; os byddai iddo trwy esgeulusdra ymhalogi trwy gyffwrdd â chyrph meirw; neu os tyngai yn fyrbwyll, oen fenyw neu fyn gafr oedd i fod yn offrwm dros ei gamwedd; neu bâr o durturod neu gywion colomenod, os byddai yn dlawd, neu ddegfed ran epha o beilliaid os byddai yn dlawd iawn; ond os cyssegr-ladrad fyddai y camwedd, neu anonestrwydd arall, yr oedd yn gyntaf i dalu gwerth yr hyn a gymmerasai yn anghyfiawn, a rhoddi y bummed ran yn ychwaneg atto; ac yna i offrymu hwrdd yn aberth dros ei gamwedd. Oen gwrryw oedd yr offrwm dros gamwedd y gwahanglwyfus. Oddieithr yn achos y gwahanglwyfus, yr oedd yr offrwm dros gamwedd yn cael ei drefnu yn gymmwys yr un modd â'r aberth dros bechod, Lef. v.

5. Nid oedd y *bwyd-offrymau* a'r rhai sydd yn canlyn, yn aberthau, ond rhoddion. Yr oedd bwyd-offrymau bob amser i ganlyn poeth-offrymau ac ebyrth hedd, a phech-aberth, ac offrwm dros gamwedd y gwahanglwyfus; ond pa un a oeddynt yn canlyn pech-aberthau ereill, ac offrymau dros gamwedd, braidd y gallwn benderfynu. Mewn achosion lle yr oedd y bwyd-offrwm wedi ei sefydlu, yr oedd tair omer o beilliaid yn canlyn aberth y bustach; dwy, eiddo'r hwrdd; ac un, eiddo'r oen neu fyn. Yr oedd hanner hîn o olew yn canlyn y tair omer, i rostio y bustach âg ef; a'r drydedd ran o hîn yn canlyn y ddwy omer; a'r bedwaredd ran yn canlyn yr un omer. Yr oedd thus hefyd yn un o ddefnyddiau yr offrwm hwn, a byddai halen yn cael ei chwanegu atto. Pan y byddai bwyd-offrymau yn cael eu cyflwyno wrthynt eu hunain, ac yn ewyllysgar, nid oedd y mesur wedi cael ei sefydlu. Weithiau pobid y defnyddiau yn deisenau croywon, ac weithiau offrymid hwynt heb eu pobi. Mewn ebyrth diolch, yr oedd rhai teisenau o fara lefeinllyd i gael eu hoffrymu gydag ef; a chyda y rhai hyn y gellir gosod y ddwy dorth lefeinllyd fyddai yn cael eu hoffrymu ar ddydd y Pentecost; ond nid oedd dim surdoes i gael ei osod ar yr allor. Pan y byddai bwyd-offrwm yn cael ei gyflwyno, cymmerai yr offeiriad ran o'r blawd, neu o'r bara wedi ei falurio ac wedi tywallt olew, halen, gwin, a thus arno, a'i llosgai ar yr allor, a chaffai yr offeiriad y gweddill iddo ei hun a'i feibion i'w fwyta yn y llys sanctaidd: ond yr oedd bwyd-offrwm dros yr offeiriaid yn cael ei losgi yn gwbl. Yr oedd offrwm yr ysgub, neu omer o haidd ar wyl y Pasg, a'r torthau ar ddydd y Pentecost, a blaen-ffrwythau yr olew, yr

haidd, neu'r peilliaid, o'r un natur a'r bwyd-offrwm; ac yr oedd offrwm y wraig ddrwg-dybiedig o omer o haidd, yn perthynu i'r pech-aberth o flawd.

6. Nid oedd y *diod-offrymau* byth, hyd y gwn i, yn cael eu hoffrymu wrthynt eu hunain, ond yr oeddynt yn canlyn y bwyd-offrwm. Yr oedd yr un mesur o win ag o olew. Byddai rhan o'r gwin yn cael ei dywallt ar y bwyd-offrwm, a llosgid hyny, a'r gweddill a fyddai yn eiddo yr offeiriad; ac os byddai y bwyd-offrwm i gyd yn cael ei losgi, diammau y byddai y gwin yn myned gydag ef.

7. Yr hanner sicl o arian yr oedd pob Iuddew wedi dyfod i faintioli gwr i'w rhoddi yn flyneddol, fel yr ymddengys, yn *brydwerth* am ei enaid, tuag at wasanaeth y tabernacl neu'r deml. Nid oedd un dyn, pa mor gyfoethog bynag, i roddi rhagor, na pha mor dlawd bynag, i roddi llai.

Yr oedd *degymau, cyntaf anedig dyn, cyntaf anedig anifail, blaenffrwythau*, pethau *cyssegredig* a'r *olew* sanctaidd a'r *arogl-darth*, yn perthyn hefyd i'r *rhoddion* fyddai yn cael eu hoffrymu. Gwel dan y geiriau hyn.

Weithiau byddai yr offrymau yn gymmysg, megys ar y *gwyliau, gwyl* y cymmod, a phuredigaeth *gwahangleifion*, cyssegriad *offeiriaid* y *tabernacl*, neu'r *deml*; gwel hefyd y gair *Tarw*. Nid oedd yr *offrymau derchafael a chyhwfan* yn wahanol yn eu defnydd oddi wrth y rhai a grybwyllwyd eisioes, ond gelwid hwynt felly o herwydd eu bod yn cael eu derchafu neu eu codi fynu tua'r nefoedd, a'u cyhwfanu tua phedair congl y byd, fel arwydd eu bod yn perthyn iddo Ef, sydd a'i orseddfainge yn y nefoedd, ag sydd yn Greawdwr a Llywodraethwr holl gyrau y ddaear. Y cyfryw offrwm oedd y Lefiaid, ar eu cyssegriad, yn cael eu derchafu, neu eu dewis o fysg y gynnulleidfa, ac, ysgatfydd, yn rhodio yn ol ac yn mlaen tua phob parth. Yr oedd gwêr, arenau, rhwydyn yr afu, parwyden, ac ysgwyddog ddehau yr aberth wrth gyssegru offeiriad, yn nghyd â thorth ac afrlladen o fara croyw, a theisen o fara olewedig, yn cael eu derchafu a'u cyhwfanu, a'u llosgi i gyd ar yr allor, ond y barwyden, Lef. viii. 11—19. Exod. xxix. 22—26. Yr oedd parwyden, ysgwyddog ddehau, ac, ysgatfydd, gwêr pob aberth hedd, a theisen lefeinllyd yr aberthau diolch, Lef. vii. 13, 14. 30. a x. 15.; aberth dros gamwedd y gwahanglwyfus, a'i log o olew, Lef. xiv. 12, 14.; yr offrwm eiddigedd, Num. vi. 20.; yr ysgub neu'r omer o dywys addfed, Lef. xxiii. 15.; dau oen y Pentecost, yn nghyd â'r aberth hedd oedd yn canlyn, Lef. xxiii. 19, 20.; yr offrwm o does, Num. xv. 19. 21.; degymau y Lefiaid a'r offeiriaid, Num. xviii. 24. 28. 30.; teyrnged yr Arglwydd o yspail Midian, Num. xxxi. 29, 41.; yn cael eu cyhwfanu, ac, yr wyf yn tybied, eu derchafu hefyd.

Ni ddarfu Duw erioed ofyn yr aberthau hyn megys yn dda ynddynt eu hunain, nag fel moddion effeithiol o wir gymmod neu lanhad oddi wrth bechod; ni ofynodd erioed mo honynt, fel mor angenrheidiol â dyledswyddau moesol; ac ni ddarfu iddo sy wi arnynt mewn ffordd yn y byd, pan eu hoffrymid mewn ffordd ddrygionus; ac ar ol marwolaeth ein Hiachawdwr yr oeddynt yn ffiaidd ganddo, Salm xl. 6. a li. 16. Jer. vii. 22. 1 Sam. xv. 15. 22. Hos. vi. 6, Salm lxix. 30, 31, a l. 9—14. Esa. i. 11, 12, 13, a lxvi. 3. *Ebyrth cyfiawnder*, ydynt naill ai rhai a ennillwyd yn gyfiawn; neu aberthau ysbrydol o honom ein hunain, gweddiau a gwasanaeth sanctaidd, Salm iv. 5. a li. 19. Yr *aberthau* ac offrwm pur o gyfiawnder a offrymir gan yr Aiphtiaid ac ereill, dan y Testament Newydd, ydynt eu cyssegriad o honynt eu hunain, a'u calonau dryllieidig, gweddiau, moliant, gwasanaeth sanctaidd, ac elusenau yn cael eu cyflwyno i Ddiuw fel eu hallor, er derchafiad ei anrhydedd a'i ogoniant. Mal. i. 11. Salm li. 27. Rhuf. xii. 1, xv. 16. Heb. xiii. 16.

ABEZ, *(wy)* dinas o fewn terfynau llwyth Issacar, Jos. xix. 20.

ABI, *(fy nhad)* merch Zacharlah a mam Hezeciah brenin Judah, 2 Bren. xviii. 2.

ABIAH, *(y tad, Jehofah.)* (1.) Ail fab Samuel a brawd Joel. Gwedi i Samuel eu gosod yn farnwyr a'u derbyn hwynt i ran o'r llywodraeth, hwy a gyflawnasant eu swydd mor ddrwg, fel y gorfu ar y bobl ofyn brenin ganddo ef, 1 Sam. viii. 2.

1 Cron. vi. 28. Dygwyddodd hyn yn y flwyddyn o oed y byd 2909, cyn Crist 1191, cyn y cyfrif cyffredin 1195. (2.) Mab Jeroboam, yr hwn yn unig a gafodd ras o'i deulu. Yr hwn hefyd a fu farw yn ol gair y prophwyd, a bu galar mawr am dano, 1 Bren. xiv. 1, 18. (3.) Gwraig Ahaz, mam y brenin Hezeciah; mae rhai yn meddwl ei bod yn ferch i Zachariah yr archoffeiriad, yr hwn a laddodd y brenin Joas, 2 Cron. xxix. 1. (4.) Mab Rehoboam, a Michaiah merch Uriel o Gibeah. Efe a ryfelodd â Jeroboam brenin Israel, ac a laddodd mewn ymladdfa 500,000 o wyr Israel. Yr oedd 400,000 gan Abiah o wyr grymus, ond yr oedd 800,000, gan Jeroboam. Tra bu Abiah yn adrodd ddâed oedd ei achos wrth Israel, a phechadurusrwydd eu hymddygiad hwythau, y mae Jeroboam yn peri gosod cynllwyn, ac yn dyfod o'u hol hwynt, fel yr oedd rhyfel yn mlaen ac yn ol, ac Abiah a'i fyddin yn yr enbydrwydd mwyaf. Yn y cyfyngder hwn gwaeddasant ar yr Arglwydd, a'r offeiriaid a leisiasant mewn udgyrn. A phan waeddodd gwyr Judah, Duw a darawodd Jeroboam a'i fyddin o flaen Abiah a Judah, a hwy a orchfygwyd â lladdfa fawr, 2 Cron. xiii. Ni theyrnasodd ond tair blynedd. Yr oedd ganddo 14 o wragedd, a bu iddo 22 o feibion, ac 16 o ferched. (5.) Offeiriad, a phenaeth yr wythfed dosparth yn ngwasanaeth y deml. Yr oedd Zachariah, tad Ioan Fedyddiwr, o'r dosparth hwn, 1 Cron. xxiv. 10. Luc i. 5.

ABI-ALBON, *(tad synhwyrol,)* priodor o Arbath, ac un o gedyrn llu Dafydd, 2 Sam. xxiii. 31. Gelwir ef hefyd Abiel, 1 Cron. xi. 32.

ABIAM, *(tad y moroedd)* un o frenhinodd Judah, mab Rehoboam ac ŵyr Solomon, yr hwn a deyrnasodd dair blynedd yn annuwiol yn Jerusalem, 1 Bren. xiv. 31. xv. 1, 7.

ABI-ASAPH, *(tad-diofal)* un o feibion Cora, Exod. vi. 24.

ABIATHAR, *(tad rhagorol)* degfed arch-offeiriad yr Iuddewon, a'r pedwerydd o lin *Eli*. Pan laddodd Saul *Abimelech* ei dad a'r offeiriaid ereill, yn Nob, ffodd Abiathar at Dafydd yn yr anialwch, ac ymunodd â'i wyr ef; a thrwyddo ef ymofynodd Dafydd â'r Arglwydd yn Ceila a Ziclag, 1 Sam. xxii. a xxiii. 9. a xxx. 7. Gosodasai Saul Zadoc o hilogaeth Eleazer, yn yr arch-offeiriadaeth, yn lle Abiathar; ond pan ddaeth Dafydd i'r orsedd, gwnaeth Abiathar a Zadoc yn nesaf atto ef, yn arch-offeiriaid: ac fel hyn y bu pethau tra y bu Dafydd yn teyrnasu, 2 Sam. xx. 25. Bwriadodd Abiathar a Zadoc gamlyn Dafydd a'r arch, pan ydoedd yn ffoi rhag Absalom; ond efe a'u cynghorodd hwynt i ddychwelyd â hi a cheisio iawn hysbysrwydd iddo ef, 2 Sam. xv. 24—29. Ychydig cyn marwolaeth y brenin Dafydd, bradfwriadodd Abiathar i wneuthur Adoniah yn ganlyniedydd ei dad; diswyddwyd ef gan Solomon o'r achos hwnw; a chaethiw-wyd ef i'w ddinas Anathoth; a gosodwyd Zadoc yn ei le, 1 Bren. i a'r ii. Fel hyn y torwyd tŷ Eli ymaith mewn digllonedd am byth o'r arch-offeiriadaeth, 1 Sam. ii. 29, 36. Nid Abiathar, ond ei fab, sydd yn cael ei alw *Ahimelec* neu Abimelec. Ac nid tad Abiathar ond efe ei hun a goffheir yn Marc ii. 26.; o herwydd dilys ydyw, ei fod ef yn fyw y pryd hwnw, a thebygol iddo wneuthur llawer i gaffael y bara gosod i Dafydd: ac nid ydyw y testyn hyn yn crybwyll fod Abiathar y pryd hwnw yn cyflawni swydd arch-offeiriad.

ABIB, neu *Nisan*, enw y mis cyntaf cyssegredig, a'r seithfed mis gwladol o'r flwyddyn Iuddewig. Yr oedd yn cynnwys deg diwrnod ar hugain; ac yn cyfatteb i'n lleuad Fawrth ni. Y mae y gair hwn yn arwyddo *tywys irion* neu *ffrwyth addfed*; ac a roddwyd i'r mis hwn, o herwydd mai yn ei ganol ef y dechreuai yr Iuddewon ar eu cynhauaf. Ar y degfed dydd or mis hwn y cymerid oen y Pasg; ar y pedwerydd ar ddeg y bwytaent y Pasg; ac ar y saith dydd canlynol y cadwent wyl y bara croyw, y diweddaf o ba rai a gedwid yn gymmanfa sanctaidd, Exod. xii. xiii. Ar y 15fed y casglent ysgub blaen-ffrwyth eu haidd, ac ar yr 16eg yr offrymient hi; gwedi hyny gallent ddechreu ar eu cynhauaf, Exod. xiii. 4. Ar y dydd cyntaf o hono y mae yr Iuddewon diweddar yn cadw ympryd am farwolaeth Nadab ac Abihu; ar y 10fed, ympryd am farwolaeth Miriam; ar y 27ain, ympryd am farwol-

aeth Josuah; ar y 29ain y gweddiant am y diweddar wlaw. Nid ydyw eu Megillath-Taanith modd bynag yn cymmeryd sylw o'r gwyliau chwangol hyn; yr hyn sydd yn brawf na buont erioed yn gyffredinol. Yr oedd y ffwyddyn, yn mysg yr Iuddewon, yn dechreu yn Medi; ac am hyny yr oedd eu *Jubili* a'u materion gwladol ereill, yn cael eu trefnu yn y ffordd hono, gwel Lef. xxv. 8, 9, 10.; ond yr oedd eu blwyddyn *gyssegredig* yn dechreu yn *Abib*. Cymmerodd y cyfnewidiad hwn le ar waredigaeth Israel o'r Aipht, Exod. xii. 2. "Y mis hwn fydd i chwi yn ddechreuad misoedd." Y mae *Ravaneli* yn sylwi yn dra phriodol, iddo, fel ag yr oedd y waredigaeth hon o'r Aipht yn arwydd-lun o bryndeigaeth yr Eglwys gan Iesu Grist yr hwn a fu farw, ie, yn hytrach a *adgyfodedd* yn y mis hwn, gael ei wneuthur yn *ddechreuad misoedd* i arwain yr eglwys i ddisgwyl blwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd. Fel y cafodd y mis *cyntaf* cyssegredig ei ddwyn yn mlaen i'r *wythfed*, yr ydoedd yn cysgodi yr un gwirioneddau arwydd-luniol ag yr oedd cyfnewidiad y Sabbath hefyd yn osod allan.

ABIDA, *(tad gwybodaeth)* un o feibion Midian, ac ŵyr Abraham.

ABIDAN, *(tad barn)* tywysog o lwyth Benjamin, yr hwn a offrymodd, Num. i. 11. ii. 24.

ABIEL, neu *Jehiel*, *(fy nhad sydd Ddiw)* tad Cis a Ner, a thaid Saul brenin cyntaf yr Iuddewon, 1 Sam. ix. 1.

ABIEZER, *(cymhorth fy nhad)* o lwyth Benjamin, a thref Anathoth, oedd un o'r deg ar hugain wyr cedyrn llu Dafydd, 2 Sam. xxiii. 27.

ABIGAIL, *(llawenydd fy nhad.)* (1.) Chwaer Dafydd a gwraig Jether, 1 Cron. ii. 17. (2.) Gwraig Nabal. Yr oedd hon yn wraig synhwyrol a doeth iawn; ond er hyny priododdt y gloddestwr cyfoethog Nabal. Pan glywodd fod dinystr yn dyfod am ben ei gwr a'i theulu, aeth i gyfarfod Dafydd â'i weision âg anrhegion mawrion. Adroddodd ei hachos o'i flaen mor bwyllig, synhwyrol, a doeth, fel y dyhuddwyd ei lid, a hi a gafodd ffafr yn ei olwg. Dychwelodd i fynegu i'w gwr y perygl yr oeddynt wedi bod ynddo trwy ei ynfydrwydd, a'r modd yr oedd hi wedi rhagflaenu yr aflwydd. Pan fynegodd bi iddo, aeth y peth fel saeth at ei galon; ac yn nghylch pen deg niwrnod efe a fu farw. Cyn pen hir wedi hyn hi a briododd Dafydd, 1 Sam. xxv.

ABIHAEL. *(cadernid fy nhad.)* 1. Ail fab Huri, a thad Michael, Meshulam, a rhai ereill, 1 Cron. v. 12. 14.

2. *Abihael* tad Zariel, o dylwyth Merari, Num. iii. 35.

3. *Abihael* tad Esther, ac ewythr Mordecai, Esth. ii. 15.

4. *Abihael* ydoedd ferch Eliab, brawd Dafydd, a gwraig Rehoboam brenin Judah: hi ydoedd fam Jeus, Samaria, a Zaham, 2 Cron. xi. 18.

ABIHU, *(fy nhad ei hun)* mab Aaron yr arch-offeiriad, ac Eliseba, a yswyd, ynnghyd a'i frawd Nadab, gan dân o'r nefoedd, o herwydd iddo arogl-darthu â thân dyeithr, yn lle ei gymmeryd oddi ar allor y poeth-offrwm. Dygwyddodd yr anffawd hwn o fewn wyth niwrnod ar ol cyssegriad Aaron a'i feibion, a chyssegriad y tabernael yn y flwyddyn o oed y byd 2514, cyn Iesu Grist 1486, cyn y cyfrif cyffredin 1490. Yn anghoño ystyr ysbrydol holl wasanaeth y cyssegr daearol, y mae un dosparth o ddehonglwyr wedi tybied, fod Nadab ac Abihu yn feddw, o herwydd y gwaherddir i'r offeiriaid arfer gwin yn ddiatreg wedi hyny. Y mae dosparth arall yn haeru, nad oedd dim mor ysgeler yn eu trosedd, ond iddo gael ei gospi mor arswydus, i ddysgu i weinidogion ffyddlondeb a chywirdedd wrth gyflawni eu swydd. Yr oedd iddo ystyriaeth dirfawr mwy pwysig—y mae y prawf hwn o ddialedd yn esiampl sefydlog o'r dwyfol lid hwnw, a ysa bawb a gymmerant arnynt wasanaethu Duw, ond âg arogl-darth wedi ei gyneu oddi ar yr un allor ac offrwm trwy y rhai y mae efe am byth yn perffeithio ei saint.

ABILENE, *(trigfan y tad)* talaeth fechan yn Syria, rhwng Libanus ac Antilibanus. Ymddengys ei bod yn gorwedd o du y gorllewin i Damascus, ac iddi gymmeryd ei henw wrth Abila, yr hon tebygol ydoedd yr un ag *Abelmaim*. Lysanias oedd yn llywodraethu yma yn y bymthegfed flwyddyn i Tiberius, Luc. iii. 1.

ABIMAEL, *(tad oddi wrth Dduw)* mab Joctan, mab Heber, Gen. x. 28. Preswyliodd ef a'i hiliogaeth yn Arabia, tebygol.

ABIMELEC, *(fy nhad y brenin)* brenin y Philistiaid, yr hwn oedd yn trigo yn Gerar, wedi cael ei hudo gan degwch pryd *Sarah*, a'i hysbysu gan Abraham mai ei chwaer ydoedd hi, efe a'i cymmerth i'w lys ar feddwl ei phriodi. Ni chaniataodd Duw iddo ef gyd-orwedd â hi; ond a ymddangosodd iddo mewn breuddwyd, ac a'i bwgwthiodd âg angau disyfyd, oni adferai efe hi yn ddioed i'w gwr; ïe, Efe a'i tarawsai ef eisioes, a gwragedd ei dŷ, â chlefyd oedd yn eu hanalluogi hwynt i genhedlu neu esgor ar blant. Ymesgusododd Abimelec ger bron ei Wneuthurwr, oddi wrth haeriad Abraham, nad oedd Sarah ond chwaer iddo ef. Er hyny, adferodd hi dranoeth, gan geryddu y Patriarch yn llym am ei diwyllo. Cyfaddefodd Abraham ei bod hi yn wir yn wraig iddo; ond ei bod hi hefyd yn chwaer un-dad âg ef. Rhoddodd Abimelec i Abraham nifer o roddion gwerthfawr, ac a gynnygodd iddo le i breswylio mewn unrhyw ran o'r deyrnas. Efe hefyd a ddeisyfodd ei weddiau ef am iachad ei dŷ; ac a'i rhybyddiodd i ymgadw rhag y cyfryw ragrith rhaglaw. Rhoddodd hefyd i Sarah fil o ddarnau arian, neu ynghylch £115 o'n harian ni, i brynu gorchudd i orchuddio ei hwyneb, yr hwn oedd o hyd, er yn 90 mlwydd oed, yn deg a bywiog; fel hyn y cafodd hi ei haddysgu a'i cheryddu yn gyhoeddus. Abraham a weddiodd dros dŷ Abimelec, ac iachawd hwynt o'u clefyd. Yn nghylch pedair blynedd ar ddeg wedi hyn, Abimelec yn ofni perygl iddo ei hun neu ei hiliogaeth, oddi wrth gynnydd gallu Abraham, a ddaeth gyda Phicol ei ben tywysog, ac a erfyniodd wneuthur ammod o gyfeillgarwch âg ef; yr hyn a ganiatawyd yn ewyllysgar, Gen. xx. a xxi. 22—32.

2. *Abimelec*, mab a chanlyniedydd y cyntaf, a fu yn debyg o gael ei dwyllo gan Isaac, yn yr un modd ag y cawsai ei dad gan Abraham; ond yn dygwydd canfod trwy ei ffenestr, ryw gyfeillgarwch chwareugar rhwng Isaac a Rebecca, yn ddioed casglodd mai ei wraig, ac nid ei chwaer oedd hi, fel y cymmerai Isaac a hithau arnynt. Anfonodd yn ddioed am Isaac, ac a'i ceryddodd ef fel yn feius o'r hyn oedd yn tueddu i ddwyn enogrwydd a chospedigaeth arno ef a'i ddeiliaid. Ofni cael ei ladd o achos ei wraig landeg, oedd yr unig beth a ddadleuodd Isaac fel yn esgus drosto ei hun. Abimelec, gan hyny a orchymynodd yn ddioed, na byddai i neb o'i ddeiliaid ef, dan boen marwolaeth, yn y modd lleiaf, wneuthur cam âg Isaac a Rebecca. Abimelec, yn cael fod ei ddeiliaid yn dychrynu rhag, ac yn dirfawr genfigenu wrth, fawr lwyddiant a gallu Isaac, yn foneddigaidd a geisiodd ganddo ymadael â hwynt, o herwydd *ei fod wedi myned yn gryfach na hwynt*; neu *wedi mawr gynhyddu ar eu traul hwynt*. Ryw amser wedi hyn, Abimelec, yn gofus ganddo y cyngrair a wnaethai ei dad âg Abraham, ac yn ofni perygl oddi wrth gynnydd gallu a golud Isaac, a gymmerth gyd âg ef Ahuzzah ei gyfaill, a Phicol ei ben tywysog, a chan fyned at Isaac, mewn modd arbenig a adnewyddodd y cyfamod âg ef yn Beersebah, ac a groesawyd yno ganddo â gwledd ardderchog, Gen. xxvi.

3. *Abimelec*, brenin Israel, ydoedd fab *Gideon*, o'i orderch-wraig yn Sichem. Adyn drygionus, uchelgais, a gwaedlyd iawn oedd efe. Er mwyn cael y llywodraeth iddo ei hun, efe a roddodd awgrym i wyr Sichem, pa faint gwell a fyddai iddynt hwy ei gael ef, eu cyd-ddinasydd a'u carenydd, i fod yn llywodraethwr iddynt, na chael deg mab a thriugain ei dad oll i reoli arnynt hwy. Ei gyfeillion yn Sichem a gymmerasant iddo ef, allan o deml eu hellun Baal-berith, ddeg sicl a thri-ugain o arian, neu ychydig yn rhagor nac wyth punt o'n harian ni. A'r rhai hyn y cyflogodd lu o grwydriaid, y rhai a'i cynnorthwysasant i ladd ar un garreg yn Ophrah, ei ddeg brawd a thri-ugain, ond *Jotham* yr ieuangaf, yr hwn yn unig a ddiangodd. Yna y Sichemiaid a'u hurddasant ef yn frenin. Ar amser y coroniad, neu yn fuan gwedi hyny, y traethodd Jotham ei ddammeg oddiar ben mynydd Garizim, yr hwn oedd yn gyfagos, wrth wyr Sichem; yn arwyddocau y byddai i'w gwaith yn rhoddi y llywodraeth i'r unig berson drygionus yn uheulu Gideon, a llofrudd

anniolchgar y lleill, dori allan yn ninystr buan pawb ag oedd ganddynt law yn y peth. Y dygwyddiad yn fuan a wriodd ei rag-ddywediad. Ni theyrnasasai Abimelec dros dair blynedd, pan y dygwyddodd amrafael rhyngddo ef a gwyr Sichem. Tra, y mae'n debyg, yr oedd Abimelec yn symmud ei breswylfod i Arumah, lle yn agos i Sichem, ac y gadawodd Zebul i lywodraethu y ddinas, Gaal mab Ebed, a'i gyfeillion, a gynhyrfasant ac a flaenorasant y cyd-fwriad. Yn un o'u gwleddoedd eilun-addolgar, hwy, yn y modd mwyaf ysgeler, a ddirmygasant ac a felldithiasant Abimelec. Gwedi hysbysu iddo am hyn gan Zebul ei swyddog, cychwynodd ei luoedd liw nos, yn bedair byddin, yn erbyn y Sichemiaid; Gaal a'i gyfeillion, heb gael amser i ymbarottoi, a orchfygwyd yn hawdd. Dranoeth, pan oedd gwyr Sichem yn dyfod allan i'r maes, ysgatfydd i fedi, Abimelec a'i fyddinoedd a syrthiasant arnynt ac a'u lladdasant. Yn nesaf, ynnillodd y ddinas trwy ruthr, lladdodd y trigolion, a distrywiodd yr adeiladau. Ffodd mil o'r Sichemiaid i deml Baal-berith, gan obeithio amddiffyn eu hunain, neu ddisgwyl y byddai i sancteiddrwydd y lle eu noddi hwynt; Abimelec a'i fyddinoedd a ddygasant danwydd o goedwig oedd gerllaw, a osodasant y deml ar dân, ac a'u hysasant hi, a chwbl ag oedd ynddi. Yn nesaf aeth i Thebez, lle yn nghylch naw milldir tua'r dwyrain. Ffodd y trigolion i dŵr cadarn oedd yn nghanol y ddinas; Abimelec, a ymladdodd yn erbyn y tŵr gydag eithaf ffyrnigrwydd, ac yr oedd yn myned i'w losgi ef â thân, pan y darfu i wraig oddi ar y nen ei daro â darn o faen melin, yr hwn â ddrylliodd ei benglog. Gorchymynodd i'w gludydd-arfau ei wânu ef a'i gleddyf, fel na ddywedid 'Gwraig a'i lladdodd ef.' Cyflawnwyd ei orchymyn, ac efe a fu farw. A. M. 2798. Barn. ix.

ABINADAB, *(tad adduned)*. (1.) Un o drigolion Ciriath-jearim yn nhŷ yr hwn y bu arch yr Arglwydd ddyddiau lawer, a sancteiddiwyd Eleazar ei fab i'w chadw. Efe oedd tad Uzzah ac Ahio, 1 Sam. vii. 1. 2 Sam vi. 3. (2.) Ail fab Jesse, tad, tebygol, i un o dywysogion Solomon, yr hwn a briododd Taphath merch Solomon, 1 Bren. iv. 11.

ABIRAM, *(fy nhad goruchel)*. (1.) Mab Eliab y Reubeiniad. Efe, yn nghyd a'i frodyr Dathan a Cora, a gyd-fwriadasant i yspeilio Moses ac Aaron o'r anrhydedd a roddasai Duw iddynt; ac o achos hyny efe a'i holl deulu a'u meddiannau, a lyngcwyd i fynu yn fyw gan y ddaear, ac a ddisgynasant i uffern. Num. xvi. 27. 33. (2.) Mab hynaf Hiel y Betheliad; collodd ei fywyd pan oedd ei dad yn sylfaenu muriau Jericho, 1 Bren. xvi. 34.

ABISAG, *(cyfeiliornad fy nhad)* llances ieuanc, priodor o Sunam, yn llwyth Issacar. Dafydd yn nghylch deng mlwydd a thriugain oed, yn methu cynhesu yn ei wely, a gynghorwyd gan ei feddygon i geisio rhyw un ieuanc, yr hon allai gyfranu iddo ef y gwres oedd arno eisiau. I'r dyben hwn cyflwynwyd Abisag iddo, yr hon oedd yn un o'r llancesau teccaf yn holl Israel. Y brenin a'i priododd hi, ond ni bu iddo a wnaeth â hi am flwyddyn gyfan y trigodd hi gydag ef. Ar ol ei farwolaeth ef, ceisiodd Adoniah ei phriodi hi. Solomon a gredodd, gyda rheswm, y gallai efe ymegnio am yr awdurdod brenhinol, wedi priodi un o wragedd y brenin diweddar; am hyny efe a'i dihenyddodd yn y flwyddyn o oed y byd 2991, cyn Iesu Grist 1008, cyn y cyfrif cyffredin 1013, 1 Bren. i. 4.

ABISAI, *(gwobrwy fy nhad)* mab Serfiah, chwaer Dafydd. Rhyfelwr nodedig ydoedd efe, cynnorthwywyr cynnar, a chyfaill dianwadal i'w ewythr. Aeth i mewn i babell Saul gydag ef, a mynnasai gael cennad i ladd y gormesdeyrn hwnw, ond ni chaniatawyd iddo, 1 Sam. xxvi. 7—11. Gwasanaethodd yn rhyfeloedd Dafydd ac Isboseth, ac yn rymus a erlidiodd y gelyn ffoedig. Yn y rhyfel a'r Edomiaid, torodd ymaith 18,000 o honynt yn nyffryn yr Halen. Yn y rhyfel â'r Syriaid a'r Ammoniaid efe a lywiodd y byddinoedd a ymladdasant â, ac a orchfygasant, y diweddaf. Yn y rhyfel â'r Philistiaid, efe a laddodd Isbibenob, cawr nodedig, yr hwn oedd ar fedr lladd ei ewythr a'i frenin. Ar amser arall efe yn unig a ymosododd ar fyddin o dri chant, ac

a'u lladdodd bob gwr. Gwedi ei gyffroi yn ddirfawr gan watwariad *Simei*, erfyniodd gennad ei ewythr i ladd yr adyn trahaus, ond ni chaniatawyd iddo. Efe a lywodraethodd y drydedd ran o'r fyddin a orchfygodd Absalom, ac yr oedd yn flaenor ar y byddinoedd teuluaidd a erlidiasant ar ol Seba mab Bicri, 2 Sam. ii. 18—24. a x. 10—14. a xvi. 11. a xviii. 2. a xx. 6, 7. a xxi. 15—17. a xxiii. 9, 18, 19. 1 Cron. ii. 16. a xi. 20, 21. a xviii. 12.

ABNER, *(lamp fy nhad)* mab Ner. Yr ydoedd efe yn ewythr i'r brenin Saul, ac yn dywysog ei lu ef. Am ei fod gan mwyaf yn y gwersyll ac mewn sefyllfa uchel, nid ydyw yn ryfeddod na adwaenai efe mo Dafydd yn Ephes-dammim: ond yr ydoedd yn fwy beius iddo ef wylied ei feistr mor ddrwg yn y wersyllfa yn Hachilah, pan yr aeth Dafydd ac Abisai i waered iddi, ac yr aethant ymaith heb gael eu canfod, 1 Sam. xiv. 50. a xvii. 55—58. a xxvi. 5—14. Ar ol marw Saul, gwnaeth Isboseth yn frenin; ac am saith mlynedd a gynnaliodd deulu Saul i fynu, yn erbyn Dafydd; ond yn y rhan fwyaf o'i frwydrau a ddaeth ymaith yn golledwr. Pan yr oedd byddinoedd Dafydd ac Isboseth yn aros yn agos y naill i'r llall, wrth Gibeon, Abner yn greulon a roddodd hèr i Joab i ddwyn yn mlaen ddeuddeg o ryfelwyr Dafydd, i ymladd â'r un nifer o'i eiddo yntau; Joab a gydsyniodd: y pedwar ar hugain a ymdarawsant; a chan ymaflyd y naill yn marf ei gymhar, a gyrru ei gleddyf i'w ystlys, hwy a gyd-syrthiasant yn feirw ar y fan; brwydr greulon a ganlynodd; Abner a'i wyr a orthrechwyd; Abner ei hun a ymlidiwyd yn frwd gan Asahel; efe a erfyniodd arno attal ei ymlid, ac ar ei waith yn nacau, efe a'i lladdodd ef âg ergyd â bôn ei wayw-ffon. Modd bynag erlidiwyd ef o hyd gan Joab ac Abisai, nes y gorfu arno ef, ag oedd yn y boreu yn cellwair â llofruddiaeth, yn yr hwyr erfyn ar Joab attal ei wyr o'u hymlyd gelyniaethol, 2 Sam. ii.

Cyn pen hir wedi hyn, Abner, yn mawr anfoddloni wrth Isboseth am ei gyhuddo ef o anlladrwydd â Rizpah, gordderch-wraig Saul, a addunedodd y gwnai ef yn fuan fradychu y deyrnas i ddwylaw Dafydd; nid oedd efe ond prin wedi bwgwth hyny, pan y dechreuodd ymgystlwn â Dafydd; a bu cynadledd rhyngddynt yn Hebron i'r dybenhwnw. Nid oedd Abner ond newydd adael y wledd ardderchog â pha un y derbyniasai Dafydd ef, pan y darfu Joab, wedi hysbysu y peth iddo, wrth-dystio yn wresog i'w ewythr mai fel yspiwr y daethai Abner. O'i ben ei hun, anfonodd gennad i'w wahodd ef yn ol, i gael ymddyddan yn mhellach â'r brenin. Nid oedd Abner ond wedi bron dyfod i ŵydd Joab, pan y darfu iddo, mewn rhan, o eiddigedd rhag y byddai i Abner ddyfod yn uwch nag ef, ac mewn rhan, i ddial marwolaeth ei frawd Asahel, ei frathu ef yn farwol, pan yr oedd yn cymmeryd arno gyfarch iddo. Dafydd, wedi ei hysbysu am hyn, a fficiddiodd y weithred o'i galon, a waeddodd yn erbyn Joab, ac a anrhydeddodd Abner â chladdedigaeth ardderchog, ac â marwnad alarnadus, 2 Sam. iii.

ABRAM, *(tad derchafedig neu nerthol,) ac Abraham (tad y llu,)* Yr ydym yn awr yn dyfod i ystyried person a buchedd-nôd y mwyaf rhagorol o bawb y mae yr ysgrythyrau yn galw ein hystyriaeth attynt; a hyn, pa un bynag a wnelom ai meddwl am ei hanes personol ei hun, neu yn hytrach am ei sefyllfa yn eglwys a thŷ Duw. Dywed yr Apostol Iago i ni, ei fod yn cael ei alw *cyfaill Duw;* ac nid all fod dim ammheuaeth nad ydyw ef yn cael ei osod mewn sefyllfa sydd yn gwneuthur ei hanes o bwys i bawb dynion, hyd yn nod hyd gyfnod diweddaf amser. Os achubir ni yn y diwedd, megys *had Abraham* ein hachubir; os bendithir ni â gwybodaeth a ffydd y gwironedd, *bendith Abraham* yn dyfod arnom ni ydyw, o herwydd yn *Abraham y bendithir yr holl genhedloedd;*—pa fodd y mae hyn yn dyfod i ben, yr ydym i ddysgu oddiwrth yr hyn y mae yr Ysgrythyr yn goffhau am dano ef.

Abram ydoedd fab Terah, a brawd Nachor a Haran, tebygol yr ieuangaf; a'r degfed o Noah yn llinach Sem. Ganwyd ef A. M. 2008; ac yn yr130 flwyddyn o einioes ei dad. Y mae yn wirionedd diammheuol, yn mha oleuni bynag yr ystyrir ef, fod pob milfed flwyddyn o barhad y byd

yn gyssylltedig â rhyw gyfnewidiad anghyffredin yn sefyllfa yr egwys. Y mae genedigaeth Abraham yn brif-nod newydd a phwysig mewn amser. Yr oedd y fendith hono, yr hon yn yr addewid gyntaf a fynegasid yn *gyffredinol* i'r fam gyntaf, am *had y wraig*, yn awr yn cael ei chyfeirio i redegfa *neillduol*; ac o lwynau Abraham yr oedd yr *Iachawdwr bendigedig* ei hun i ddeillio, yr hwn allai ddywedyd, *cyn bod Abraham yr wyf fi*. Am ei enedigaeth, a rhan fawr o'i fywyd boreuol, nid oes genym un hanes arall ond ei fod ef gyda ei dadau, yn *eilun-addolwr*, "yn gwasanaethu duwiau dyeithr tu hwnt i'r afon;" mor hynod y mae y Pen-arglwyddiaeth Dwyfol yn llewyrchu, hyd yn nod yn newisiad y personau mwyaf enwog y coffheir eu hanes. Yr un gallu a ddygodd Moses oddi wrth braidd Jethro, Dafydd oddi wrth ddefaid ei dad, Paul oddi wrth ei zel erlidgar, a ddygodd Abraham oddi wrth ei eilunod, *fel y byddai godidawgrwydd y gallu o Ddiw, ac nid o ddynion*. Buasai bywgraffwyr dynol ar waith yn olrhain amgylchiadau hynod a dengar, hyd yn nod mewn ieuenctyd boreuol neu febyd, yn rhag-ddangos ei addasrwydd i'w dderchafiad dyfodiadwy. Nid ydyw y bywgraffydd pwysydoledig ond yn dywedyd yn unig, "Yr Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, dos allan o'th wlad," &c. Am y modd yr oedd Dadguddiad Dwyfol yn cael ei wneuthur yn yr oes batriarchaidd, cawn achlysur i lefaru yn ol hyn; digon i'n dyben presennol ydyw sylwi ei fod yn gyfryw ag a argyhoeddodd Abram mai yr *Arglwydd* oedd yn llefaru wrtho ef; ac fel hyn, gan dderbyn y Dadguddiad, nid fel gair dynion, ond iel ac yr oedd yn wir air Duw, efe a ufuddhaodd, gan adael pob peth ag oedd yn agos neu anwyl ganddo, a myned nis gwyddai i ba le. Yma yr oedd y cam cyntaf o'r ffydd hono o eiddo Abraham, yr hon oedd ganddo ef, yn y dienwaediad, ac a ganmolir mor fawr gan Paul, Rhuf. iv. a Heb. xi. Yr efengyl yr hon a bregethwyd o'r *blaen* i Abraham, ydyw yr un ag sydd yn cael ei phregethu i ninau *yn awr*. Y mae yn galw arnom i ymwrthod âg eilun-addoliaeth tŷ ein tad, ein chwantau cynhenid, a'n gobeithion, ac i ganlyn Iesu, Oen Duw, i ba le bynag y mae efe yn myned neu yn galw. Aeth i mewn i Ganaan, gwlad yr addewid, gan groesi yr Iorddonen o du y dehau i for Galilea; estynodd ei babell yn Sichem, ac a sefydlodd yno addoliad y Duw hwnw yr hwn a *ymddangosasai* iddo, gan adeiladu allor i'w enw ef. Yma drachefn yr *ymddangosodd* Duw iddo, gan gadarnhau ei addewidion blaenorol, ac addaw Canaan yn etifeddiaeth iddo ef ac i'w had. Y mae rhai amgylchiadau yma yn rhy hynod i fyned heibio iddynt yn ddisylw. (1.) Yr allor oedd sylfaen pob addoliad, yn yr oes batriarchaidd, megys yn mhob un arall; nid oedd un addoliad yn gymmeradwy gan Dduw, ond yr hwn oedd wedi ei sylfaenu ar athrawiaeth yr iawn trwy waed Crist. (2.) Y lle yr adeiladwyd yr allor hon, *Sichem*, yn mha le yr ymddangosodd Duw i Abraham ar y cyntaf, a ddaeth wedi hyny yn enwog fel lle addoliad yn Israel. (Sichem sydd yn arwyddo, *yn gynnar yn y boreu.*) (3.) Yma yr oedd derwen gyssegredig, neu lwyn; gwel Gen. xxxiii. 4. (4.) Duw Abraham a wnaeth ymddangosiad gweledig i Abram; gwel *Ymddangosiad*. Trwy gydmaru yr hyn a grybwyllir dan y geiriau hyn, y galluogir y darllenydd i farnu am natur addoliad y patriarchiaid; pa mor agos berthynas ydoedd i eiddo y tabernacl yn yr anialwch, a pha mor gyfaddas i fod yn gysgod o ddaionus bethau i ddyfod!

Cyn myned yn y blaen yn mhellach i ystyried damweiniau bywyd Abraham, dichon y bydd yn briodol i gymmeryd peth sylw o'r addewidion a wnaed iddo ef yn Haran; ac a adnewyddwyd yn Sichem; a pha rai, wedi eu hegluro yn fwy llawn wedi hyny, a flurfiant yr hyn a elwir y *cyfammod Abrahamaidd*. Y mae dyryswch mawr wedi cymmeryd lle yn mysg ysgrifenwyr ar y pwnc hwn, o herwydd y mae yn eglur, i addewid union-gyrchol dymhorol gael ei gwneuthur i Abraham, o dderbyn Canaan fel etifeddiaeth i'w had ar ei ol ef; addewid yr hon a gyflawnwyd mewn modd daearol, llythyrenol: oddi yma y mae, fod y cyfammod Abrahamaidd wedi cael ei ystyried gan lawer fel yn dymhorol ac yn gnawdol, ac yn wrthwyneb i'r cyfammod newydd, yr hwn sydd yn nefol

ac yn ysbrydol; tra ar y llaw arall, yr oedd Abraham yn mynegu yn eglur, ei fod ef, trwy yr addewidion hyn yn cael ei arwain i edrych am wlad well, hyny ydyw, un nefol; fel y mae yn eglur, fod yr addewidion hyny mewn perthynas i Isaac, yn golygu y Messiah; a'r rhai hyny am Ganaan yn cyfeirio at y nefoedd ei hun, y mae y pynciau hyn wedi cael eu cymmysgu, a'u dyrysu yn y fath fodd, fel y maent yn meddyliau llawer, wedi myned yn hollol annealladwy. Y gwir yw, mai dyben mawr yr holl ddadguddiadau dwyfol a wnaed i Abraham, oedd i osod ger ei fron ef yr efengyl dragywyddol, a'r gobaith am fywyd tragywyddol yn gyssylltedig â hi. Er cadarnhau y gwirioneddau hyn, Duw a dyngodd wrtho ef iddo ei hun, gan wystlo y ddau beth anghyfnewidiol hyn; sef ei air a'i lw; ac er mwyn eu hegluro hwynt etto yn mhellach, efe a roddodd iddo *gyfammod yr enwaediad*. Y mae Paul, wrth ysgrifenu at y Rhufeiniaid, yn cyfrif manteision yr Iuddewon, ac yn dywedyd, mai iddynt hwy yr oedd yn perthyn, yn mysg pethau ereill, y *cyfammodau*, hyny ydyw, yr hen gyfammod a'r newydd; yn awr yr oeddynt yn *perthyn* i'r Iuddewon; o herwydd eu bod hwy yn had Abraham, ac iddo ef ac i'w had y rhoddwyd y cyfammodau hyn. Y *cyfammod mawr Abrahamaidd*, ydyw y cyfammod tragywyddol hwnw, yr hwn a saif yn sicr hyd fil o genhedlaethau; gwel Salm cv. 8, 9, 10. Mewn ffydd yn nghyfnawniad hwn y bu farw Abraham, nid wedi derbyn yr addewidion, ond eu gweled o bell, &c. ac er egluro a chadarnhau yr addewidion hyn, y rhai sydd yn gwneuthur i fynu y *cyfammod tragwyddol hwnw*, yr hwn sydd wedi ei luniaethu yn mhob peth, ac yn sicr, y rhoddwyd cyfammod yr enwaediad; neu, fel y mae Paul yn ei osod allan, *y ddeddf a roddwyd yn ychwaneg hyd oni ddelai'r had i'r hwn y gwnaethid yr addewid*. Yr *is*-gyfammod hwn, ynte, os gallwn ei alw felly, a wahaniaethir oddi wrth y llall i Abraham, wrth yr enw *cyfammod yr enwaediad*. Yr oedd enwaediad yn ddiymwad yn ordinhad *gnawdol*, ond yr oedd yn *arwydd neu insel cyfiawnder y ffydd*; nid oedd yn cyfranu dim cyfiawnder; o herwydd, medd Paul, *Beth! gan hyny, a ydym ni (Iuddewon) yn fwy rhagorol na hwy (Genhedloedd)? Nac ydym ddim!* ond yr ydoedd yn arwydd neu insel y gwir *enwaediad calon hwnw, nid y llythyren, yr hon y mae ei glod nid o ddynion ond o Dduw*, Rhuf. ii. 20. Yn awr megys nad oedd y cyfiawnder hwnw, o'r hwn yr ydoedd yn wystl, neu arwydd, i gael ei gyfynqu i'r Iuddewon, felly gorchymynwyd i Abraham, nid yn unig i enwaedu ar Isaac, ond ar bawb a anwyd yn ei dŷ ef, Gen. xvii. 12. Yr oedd y gorchymyn i enwaedu neu dorri ymaith flaen-groen ei had, yn arwydd i Abraham o'r cyfiawnder tragywyddol hwnw, yr hwn a ddygid i mewn trwy *dorriad ymaith* y Bendigedig hwnw, yr hwn, pan yn dyfod i'r byd a ddywedodd, *fel hyn y mae'n weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder*. Sylfaen, gan hyny, y cyfammod hwn oedd, ymddangosiad Mab Duw yn y cnawd; yr ydoedd, gan hyny yn angenrheidiol fod yr *is*-gyfammod yn cynnwys gwystl o hono. I'r perwyl hwn, y rhoddwyd yr addewid am Isaac; ac megys yr oedd dirgelwch mawr duwioldeb yn waith dwyfol goruch-anianol, yr hwn ni allasai manyl-chwiliad dynol byth dreiddio iddo, felly yr oedd genedigaeth Isaac yn cael ei ddal allan i Abraham, dan y fath amgylchiadau, fel ag mai ffydd yn ngeirwiredd Duw ei hun a allasai yn unig eu gorfod. "Nid ystyriodd ei gorph ei hun, *yr hwn oedd yr awr hon wedi marweiddio*, na *marweidd-dra bru Sarah*" &c. Etto,

Fel ag mai y dyben mawr er mwyn pa un y cyfranogodd Mab y Goruchaf o gig a gwaed, oedd, fel "*trwy farwolaeth* y dinystria efe farwolaeth," &c. cafodd natur a dull yr iawn hwnw, yr hwn mewn iawn bryd hefyd a orphenwyd o'r tu allan i byrth Jerusalem, eu dangos i Abraham yn y gorchymyn rhyfedd i offrymu ei fab, ei unig fab Isaac, yr hwn a hoffai, Gen. xxii. I'r un dyben, yr oedd y dadguddiad hynod hwnw a wnaed iddo ef, dan ddychryn tywyllni mawr, ar fachlud haul, a gôffheir yn Pen. xv. *Yn olaf*, megys ag mai dyben diweddaf dyoddefiadau Crist ydoedd dwyn meibion lawer i ogoniant, felly cafodd y modd y byddai i hyny gael ei gyflawni ei arddangos iddo ef, nid yn unig yn Nghanaan ei hun, ond yn

ei brofedigaethau, &c. yn ystod ei ymdeithiad yno fel dyeithryn, heb ganddo un etifeddiaeth ynddi, gymmaint a lled troed.

Oddi wrth y nodiadau hyn, os ydynt ar sail dda, bydd yn amlwg ein bod, wrth ddarllain hanes Abraham, i'w olygu fel wedi ei gof-lyfru er addysg i ni, wrth olrhain yr athrawiaethau pwysig hyn o ddadguddiad, megys eu gosodir allan yno; a hyn a ymddengys yn amlycach etto os daliwn sylw ym mhellach, fod yr ysgrythyr yn ein hawdurdodi, nid yn unig i ystyried Abraham ei hun fel *tad pawb a gredai ar ol hyny*, ond fod ei dŷ a'i dylwyth, y rhai a orchymynodd efe ar ei ol, yn arddangos i ni eglwys y Duw byw. Yn y golygiad hwn y mae Paul, yr ysgrifenydd hwnw, yr hwn oedd mor ddysgedig yn yr Hen Destament, yn ystyried Sarah megys cynnrychiolydd y cyfammod newydd, a'r Jerusalem sydd oddi uchod, ein mam ni oll; Hagar megys yr hen gyfammod, ac eglwys yr Hen Destament, &c. ac y mae hyn yn agor y pwnc etto yn mhellach, trwy ein harwain i ystyried y dygwyddiadau hanesiol y rhai a goffheir fel yn cymmeryd lle yn nheulu Abraham, megys yn brophwydoliaethol o hanes yr eglwys. Yn llyn, dywedir i ni pan ddiddyfnwyd Isaac, fod mab y gaeth-forwyn yn gwatwar; a'r gorchymyn a roddwyd, *Bwrw allan y gaeth-forwyn hon a'i mab*. Yn awr Paul a ddywed i ni yn bendant, fod hyn yn ddarluniad mewn alegori, o wrthodiad yr Iuddewon, eglwys yr Hen Destament, am watwar, hyny ydyw, erlid i farwolaeth, wir Blentyn yr addewid; a hyn a ddygwyddodd pan oedd eglwys Dduw i gael ei diddyfnu oddi wrth ordinhadau cnawdol y ddeddf.

Gyda hyn fel ein hallwedd, cawn yn awr daflu cip-olwg ar y dameiniau mwyaf eu pwys yn hanes Abraham. O fewn terfynau y gwaith hwn, ni ddichon fod ond *cip-olwg* yn unig. Y mae y pwnc yn teilyngu olrheiniad llawer manylach nag a allwn ni roddi iddo ef.

Gwelsom Abraham yn codi ei babell a'i allor wrth dderwen Sichem, ac yno yn addoli y Duw yr hwn a *ymddangosodd* iddo ef: ni chawn gan hyny ond yn unig ychwanegu, fod yn ofid nad ydyw ein cyfeithwyr yn troi y gair, yr hwn yn Gen. xii. 6. a gyfeithir *gwastadedd* More, yn *dderwen* More. Y cam-gyfeithiad hwn a ddygwydd yn fynych; ac fel hyn y darllenwn am *wastadedd* Mamre, Gen. xviii. 1. tra, pe dywedasid yn gywir, *derw* Mamre, y buasem yn ddioed yn ail-adnabod Mamre, fel wedi bod yn lle addoliad. Sylwa'r cyfeithwyr yn achlysurol ar yr ystyr hwn i'r gair ar ymyl y ddalen, megys yn Josuah.

Am y cyssylltiad rhwng y dderwen, y ffeinidwydd, a choed gwyrdd-leision ereill, â lleoedd addoliad, gwel *Llwyn*, *Derwen*, &c. Y mae newyn yn cyfodi, ac Abraham yn gadael Sichem, ac yn myned i waered i'r Aipht, lle, o herwydd glendid Sarah, y mae hi yn cael ei chymmeryd i dŷ Pharaoh y Brenin; o ba le, ar ol amryw bläau oddi wrth yr Arglwydd, y gwaredir hi. Y mae amcan ysbrydol y rhan hon o hanes Abraham yn dra amlwg. Y mae yn cyfatteb i fynediad Jacob i waered wedi hyny i'r Aipht gyda ei dylwyth, yntau befyd yn cael ei yrru gan newyn; o ba le y gwaredwyd ei deulu gan fraich estynedig, a chyda barnedigaethau mawrion ar deyrnas yr Aiphtiaid. Adgofia y darllenydd yn barod y cyd-darawiad á'r hyn a gymmerth le yn nheulu Abraham ar ol hyny, yn y Sodom a'r Aipht ysbrydol, oddi wrth ba rai y gwaredir yr eglwys yn gyflawn, gyda barnedigaethau mawrion. Yn y drydedd bennod ar ddeg o Genesis, cawn ef yn dychwelyd i le yr allor a wnaethai efe yno o'r *cyntaf*; hyny ydyw rhwng Bethel a Hai; (gwel adn. 3, a 4.) Adgofir, mai rhwng Bethel a Hai y mae y pentref hwnw yn sefyll am yr hwn y dywed y prophwyd, "A thithau Bethlehem Ephrata, er dy fod yn fechan yn mhlith miloedd Judah, *etto* o honot ti y daw allan i mi un, i fod yn Llywydd yn Israel," Micah v. ii. Yn sicr, gan Arglwydd y Lluoedd y cyfarwyddwyd Abraham, i adeiladu ei allor gyntaf yn y lle yr oedd Oen Duw mewn amser dyladwy i gael ei eni, (gwel yn fwy llawn, mewn perthynas i hyn, dan y geiriau *Bethel*, *Rahel*, &c.) Yn nesaf, cawn yr ymneilludad rhwng Lot ac Abraham, yn rhan bwysig o hanes Abraham; ond daw

hyny yn fwy naturiol i gael ei ystyried dan y gair *Lot*. Gan ganlyn y gorchymyn dwyfol i rodio trwy'r wlad, y mae efe yn dyfod at dderw Mamre, yn mha le, fel o'r blaen, yr adeilada allor i'r Arglwydd. Daeth y lle hwn hefyd yn hynod yn hanes yr eglwys. Y *Mamre* yma oedd yn Ciriath-Arba, wedi hyny Hebron, lle y teyrnasodd Dafydd saith mlynedd ar Judah. Y mae y bedwaredd bennod ar ddeg yn cynnwys hanes am laddiad y pedwar brenin, gwaredigaeth Lot, a'i gymmundeb gyda Melchisidec; mewn perthynas i ba rai, gwel y geiriau *Lot* a *Melchisedec*.

Yn y bymthegfed bennod o Genesis cawn hanes dra pwysig a neilldуol am ddadguddiad mwy amgylchiadol yn cael ei wneuthur i Abraham, o'r bwriadau dwyfol tuag atto ef a'i had. Dywedir i ni, adn. 1. i'r *Gair, Jehofah*, ddyfod atto ef mewn *gweledigaeth*, adadguddio y cynllun dwyfol; (1.) Mewn perthynas i'w had, *Crist*; (2.) Mewn perthynas i'w had tymhorol fel yn arwyddoccau had Abraham o bob cenedl; am ba rai y dywed Paul, "Ac os eiddo Crist ydych, yna had Abraham ydych, ac etifeddion yn ol yr addewid," Gal. iii. 29; (3.) Mewn perthynas i'r etifeddiaeth a addewir. Arddangosiad mwy mawreddog o'r efengyl, o sylfaen gobaith pechadur, ac o'r iawn trwy farwolaeth Crist, ni ellir ei gyfarfod mewn un lle nag yn y dadguddiad a wnaed i Abraham, fel ei coffheir yn y bennod hon. Yn ad. 8. y mae efe yn gosod y gofyniad pwysig, "Trwy ba beth y cai wybod yr etifeddaf hi?" Rhyddfodol yn wir ydyw yr atteb. Y mae y *Gair, Jehofah*, yn ei gyfarwyddo ef i gymmeryd y pum gwahanol rhywiogaeth o anifeiliaid a orchymynwyd wedi hyny gan y ddeddf, i'w defnyddio yn aberth, sef, anner, gafr, hwrdd, turtur, a chyw colomen; i'w hollti hwynt, a'u gosod ar gyfer eu gilydd. Y mae dychryn a thywyllni mawr yn syrthio arno; a phan fachludodd yr haul, a hi yn dywyll, wele lamp danllyd, a ffwrn yn mygu, yn tramwyo rhwng y darnau, a'r Arglwydd yn dywedyd; *Gan wybod, gwybydd*, &c. Ni wnaed erioed amlygiad mwy ardderchog i euog ddyn o'r hyn a gymmerth le yn *awr y tywyllwch*, pan offrymwyd yr aberth mawr i Dduw; yr aberth hwnw o eiddo mab y Duw byw, yn yr hwn y gwelwn yn cael ei ddarlunio, yr hyn oll oedd yr amrywiol offrymau dan y ddeddf yn arwyddo; pan oedd y ffwrn fygiyd o ddwyfol lid, a'r lamp danllyd o ddwyfol gyfiawnder yn myned trwy enaid Mab Duw. Bydded i ni arolygu, am ychydig, yr hyn a fu gydag Abraham, ac yna bydded i ni droi ein golygon at ddyoddefaint Arglwydd y Gogoniant, yr hwn, er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd; yma y gwelir, nid yn unig pa fodd yr etifeddaAbrahamyr addewidion, ond ei holl had hefyd. Pan y mae y gofyniad pwysig yn cyiodi yn meddwl yr euog, "Arglwydd Dduw, trwy ba beth y caf wybod yr etifeddaf deyrnas nefoedd, yGanaan nefol?" Pa atteb a rydd yr ysgrythyr? Cyfeiria at ardd Gethsemane; try ein meddyliau at y Pryniawdwr croeshoeliedig, ac yno amlyga sylfaen ein hetifeddiaeth.

Rhoddir hanes neilldуol am yr hyn a gaffai ei gyflawni yn llythyrenol i'w had ef yn ol y cnawd; ond, megys y dangosasom eisoes, nid ydyw hyn yn un rheswm yn erbyn ei ystyr ysbrydol a mwyaf eang. Nid oedd Abraham yn gofyn mewn perthynas i'w had, a pha un ai gaent hwy etifeddu, ond "trwy ba beth y câf wybod yr etifeddaf i hi." Nid etifeddodd Abraham Ganaan erioed; pe gwnaethai, nid ellir yn hawdd ddeall yr anner, yr hwrdd, &c. fel sail o etifeddiaeth tymhorol. Ac ar yr un amser, y pethau a grybwyllir mewn perthynas i'r rhan dymhorol o'r addewid, ei caethiwed dros 400 mlynedd mewn gwlad ddyeithr; eu gwaredigaeth, yn gyssylltedig â golud mawr iddynt hwy, a barnedigaeth ar eu gelynion; y byddai eu dychweliad yn y bedwaredd genhedlaeth; yr achos o'r oediad, nad oedd yr Amoriaid etto wedi cyflawni mesur eu hanwiredd; ydynt oll yn amgylchiadau tra rhyfedd yn eu cyflawniad llythyrenol, ond yn fwy felly etto yn eu golygiad prophwydoliaethol; pwnc yr hwn nis gallwn gymmaint a chyffwrdd ag ef o fewn ein terfynau cyfyng. Yn yr unfed bennod ar bymtheg, cawn hanes tra neilldуol am ymgyssylltiad Abraham â Hagar, a genedigaeth Ismael

Y cyfryw ydyw gwrthwynebrwydd yr oes bresennol i ddadguddio meddwl *ysbrydol* yr ysgrythyr, fel oni buasai i apostol wedi ei ysbrydoli nodi i ni y ffordd, y buasem yn cael ein trin megys gwag-freuddwydwyr am gymmaint a thaflu atto o bell. Ond rhaid i ni yma gymmeryd y cyfleusdra i sylwi, fod y rhai hyny sydd yn diddymu amean ysbrydol a phrophwydoliaethol hanesion yr Hen Destament, yn enwedig y fath ag sydd yn awr dan ein bystyriaeth, yn gwneuthur mwy tuag at atteb dybenion gwadwyr y gwirionedd na gelynion cyhoedd y dadguddiad dwyfol. Nid oes genym ond yn unig cyfeirio ein darllenwyr at Gal. iv. 22—31, lle y cant awdurdod goruchel am y golygiad y cyfeiriasom atto mewn perthynas i destun y bennod hon. Saif Sarah yn gynnrychiolydd y cyfammod mawr tragywyddol, yr hon oedd yn garenydd i Abraham trwy gwlwm parhaus ac anwylaidd priodas; ei wraig, ac fel hyn yn cael ei henwi Sarai, fy Arglwyddes, fy nhywysoges. Fel y byddai i Sarai *gael plant o honi hi*, (gwel ad. 2.) rhydd Hagar, ei llaw-forwyn, i Abraham. Diosger yr hanes hwn o'i ddyben arallegol, y mae yn destun addfed i'r gwatwarwr: golyger ef fel yn brophwydoliaethol, y mae yn dyfod yn deilwng o hono Ef, oddi wrth yr hwn y deilliodd, sef *y cyngh-horwr rhyfeddol*. Hagar ydyw cyfammod yr enwaediad, yr hen gyfammod, yr hwn a chwanegwyd at y cyfammod tragywyddol, i gyfodi had i Abraham, hyd nes y deuai amser yr addewid. Ond y mae rhaid i ni beidio ymhelaethu: y mae pob dosparth o'r hanes pwysig hwn yn fwn-glawdd mor oludog o ddirgelion teyrnas nefoedd, fel y gofynai pob un lyfr maith i'w egluro. Gwel yn fwy helaeth, *Hagar, Ismael, Alegori*.

Yn y ddwyfed bennod ar bymtheg cawn eglurhad pellach etto o'r cyfammodau, a hanes neilluol am ddygiad i mewn yr enwaediad. Yn y ddeunawfed, cawn gyfran tra phwysig o'r hanes pwysig hwn. Tri o wyr a ddaethant at Abraham, ac efe yn eistedd wrth ddrws ei babell: yr hanes am yr hyn sydd yn cymmeryd lle rhynggdynt a adroddir yn dra amgylchiadol, ac a esyd allan sefyllfa bersonol Abraham gyda ei Arglwydd mewn goleuni tra hynod. Canniateir gan y rhan fwyaf o Esbonwyr, i'r dadguddiad hwn gael ei wneuthur i Abraham gan yr Arglwydd Iesu Grist ei hun megys angel y cyfammod gan ragddangos ei ymgnawdoliad rhagllaw, tra yr oedd dau angel yn ei ganlyn ef. Abraham yn ganlynol a'i hadnabu fel y cyfryw, ac a'i cyfarchodd yn y gweddnod hwnw. Y mae yr addewid am Isaac yn cael ei gwystlo yn sicr, a Sarah yn ymddangos yn ei hanghrediniaeth naturiol. Y mae bwriad Duw i ddad-ymchwelyd Sodoma a Gomorra yn cael ei ddadguddio y pryd hwnw; ac eiriolaeth hynod Abraham yn cael ei goffhau yn neilluol. Gorchymynir y benmod hon yn neilluol i sylw ac ystyriaeth y darllenydd, yn y pethau canlynol: (1.) Y cymundeb union-gyrchol a digyfrwng sydd yn ymddangos rhwng Abraham a'r Arglwydd, Barnydd yr holl ddaear; (2.) Llettygarwch Abraham, fel y cyfeirir atto gan yr apostol; (3.) Pwysigrwydd y pwnc a ddadguddir yn ngenedigaeth Isaac, pan y cymmerir y fath drafferth i'w adnewyddu a'i gadarnhau ef: yr hyn a ddengys yn eglur fod mater mwy pwysig na genedigaeth Isaac mewn golwg; (4.) Anghrediniaeth Sarah, gweithred naturiol y meddwl, oddi wrth yr amgylchiadau o amser ei bywyd hi; y modd y gorchfygir ei hanghrediniaeth, sef yr unrhyw ag y maeddir yr anghrediniaeth naturiol o'r cfengyl yn y galon ddynol, sef, *A fydd dim yn anhawdd i'r Arglwydd?* (5.) Dadymchweliad Sodoma a Gomorra, anghraifft o ddyoddef dialedd tân tragywyddol; (6.) Cyfryngdod Abraham, cysgod o gyfryngdod yr Eiriolwr Mawr; (7.) "*Nis difethaf er mwyn deg*," ernes na wneir dinystr tragywyddol yn erbyn yr annuwiol, nes i ddynolryw gyflawni mesur eu hanwiredd, a bod ffydd yn brin ar y ddaear: mor ddilys ydyw, mai yr efengyl ydyw halen y ddaear, ac nad ydyw y byd hwn yn cael ei gadw rhag y farn hono i ba un y mae yn addfed, ond yn unig hyd nes y byddo i'r llestr etholedig diweddaf gael ei ddwyn i mewn.

Nis gallwn adaw y bennod hon heb sylwi ar yr eglurhad tra *ansylweddol* a ddyry Mr. Brown o'r 18

a'r 19 adnod o honi. "A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf? Canys Abraham yn ddiau a fydd yn genhedlaeth fawr a chref, ac yndde ef y bendithir holl genhedloedd y ddaear? Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol ef, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn, fel y dygo'r Arglwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am dano." I'w wobrwyo ef am ddwyn ei dylwyth i fynu yn grefyddol, yr Arglwydd a ddadguddiodd iddo ei fwriad i ddinystrio y dinasoedd drygionus hyn, medd Mr. Brown. Yr oedd dyben llawer mwy ardderchog mewn golwg. Ni ddichon i ddarlleuydd yr ysgrythyr, a fu un amser yn ystyried cyfatteb-iad prophwydoliaethol damweiniau, lai na sylwi fod dinystr Sodoma, a dinasoedd y gwastadedd, yn un o'r amlygiadau mwyaf eglur o'r farn ddiweddaf ar yr annuwiol a ddangosir yn yr ysgrythyr. Y mae'n nodadwy, mai fel y mae'r *efengyl* ydyw y newydd da o lawenydd mawr, fod iachawdwriaeth i'w chael rhag'y llid a fydd, felly rhaid fod ein prisiad o'r efengyl hono yn gyfartal i'r golygiadau sydd genym am y llid hwnw rhag pa un y mae yn gwaredu. Yn y lle cyntaf, ynte, nid er mwyn *gwobrwyo* Abraham am ddwyn ei deulu i fynu yn grefyddol; ond er mwyn ei alluogi i ddysgu ei dylwyth yn ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn, efe a osododd ger bron Abraham ei amcan mawr o wneuthur barn yn erbyn yr annuwiol; o herwydd medd Jehofah, y *mae eu pechod hwynt yn drwm iawn.* Ond, yn yr ail le, dadblygwyd y ddamwain arswydus hon i Abraham, ac y mae yn sefyll mewn cofiadwriaeth er addysg i dŷ a thylwyth mawr Abraham yn mhob oes, ac er sefydlu eu gobaith yn ngwir Fab yr Addewid. Y mae o bwys i adgofio etto yn mhellach, i hyn gael ei wneuthur yn adnabyddus i Abraham, o herwydd ei fod ef yn sicr o ddyfod yn genhedlaeth fawr a chref. Ni ddaw Abraham yn genhedlaeth fawr a chref, hyd nes y goddiwedda dinystr fyd yr annuwiolion; pan y bydd i fŵg poenedigaeth Sodoma fawr esgyn i fynu tua'r nef, megys y darfu i eiddo yr hen Sodoma yn gysgodol, yna y gorfoledda teulu Abraham a thrachefn y llefant, Aleluia.

Yr ydym yn awr yn dyfod i ystyried, yr hyn a ellir yn gyfiawn ei alw y ddamwain mwyaf gwiw-gofus yn holl hanes y tad hwn i eglwys Dduw: cyfeiriwn at ei offrymiad o'i fab Isaac. Y mae yr amgylchiadau sydd yn nglyn â'r weithred hon mor lluosog, ac ar yr un pryd mor bwysig, fel y gofynant lawer helaethach terfynau na'r eiddom ni, i'w holrhain hwynt, hyd yn nod yn dra ysgafn; ond yr ydym yn teimlo fod hyn yn llai angenrheidiol, am na cheir bron un Esboniwr, yr hwn nid ydyw yn cydnabod ein bod yma yn cael ein galw i ystyried aberthiad mawr Arglwydd Isaac, sef gwir *ac unig Fab y Tad yr hwn y mae'n hoffi.* Cawsom ein harwain i weled ffydd Abraham yn cael ei phrofi yn hynod, yn yr addewid am enedigaeth Isaac, ac yn cael ei alw i gredu mewn gobaith yn erbyn gobaith; ac wedi derbyn y mab hwn yn groes i drefn naturiaeth, a'i arwain i'w ystyried ef megys â'r holl addewidion yn ymgyfarfod yn yr had a enid o hono, etto gelwir arno i aberthu hyd yn nod y *mab hwn.* Y profiad hwn o'i *serch naturiol* ef y mae pawb yn gydnabod; ond gelwir ar y Cristion i ystyried y pwnc fel yn ddirfawr mwy ei bwys, fel profiad ei *ffydd ef;* o herwydd o bydd marw Isaac, pa le y mae holl addewidion Duw? ac fel hyn, fel y dywed Paul, y gallai ef yn unig ei offrymu, sef trwy gyfrif fod Duw yn abl i'w adgyfodi oddi wrth y meirw. Yma hefyd gelwir arnom i feddwl am yr amlygiad o'r arfaeth dwyfol yn Iesu Grist: a aned Isaac yn groes i drefn naturiaeth? yr ydoedd hyny i'w rag-nodi Ef yr hwn a anwyd trwy nerth y Goruchaf yn cysgodi morwyn, yr hon nid adwaenasai wr. A ydoedd Isaac, oddi wrth yr hwn yr oedd had megys llu y nef i ddeiliaw, i gael ei aberthu? yr ydoedd hyn i'w rag-gysgodi Ef, yr hwn, fel y gronyn gwenith, a heuid yn y ddaear, oddi wrth ba un y tarddai llu, fel y tywod ar fin y mór, yn aneirif. Yr oedd y gorchymyn hwn i Abraham i aberthu ei fab, tra yr ydoedd yn *temtio,* hyny ydyw, yn *profi ffydd* Abraham, yn cael ei fwriadu

etto yn mhellach i ddadgan iddo ef, ac y mae yn ysgrifenedig er amlygu i ninau, y dirgelwch gogoneddus o ewyllys da Duw tu ag at yr euog.

Y mae Abraham yn cael ei alw i fyned i dir *Moria*, hyny ydyw, *ofn*, neu yn hytrach, *addoliad y Jehofah*. Mor hawdd ydyw darllain, yn y fath amgylchiad, cynllun Duw, yr hwn yn nghyflawnder yr amser, a sefydlai ei *addoliad* yn y tir hwn, ac a aberthai ei anwylyd, ysgatfydd ar y fan ei hun lle y rhwymwyd Isaac. Dir ydyw, fod Jerusalem a'i chymydogaeth yn cael ei galw *tir Moria*; ar un o'r mynyddoedd hyn yr adeiladwyd y deml, lle yr oedd addoliad y Jehofah yn cael ei amlygu. Ac megys y galwodd Abraham y lle *Jehofah-jire*, ni ddichon fod ammheuaeth nad yn y lle hwn y *gwelwyd yr Arglwydd*.

Gallwn sylwi yn mhellach, y dywedir i ni yn Gen. xxii. 4. mai ar *y trydydd dydd*, y gwelodd Abraham y lle o *hirbell*. Gwedi gadaw cartref, teithiodd Isaac dan ddedfryd marwolaeth oddi wrth ei dad; ac ar y *trydydd dydd* efe a'i derbyniodd ef oddi wrth y meirw mewn cyffelybiaeth. Yn yr un modd gwrth-gysgod mawr Isaac, Iesu Grist, yr hwn a orweddodd dan ddedfryd marwolaeth, y poeth-offrwm cymmeradwy i Dduw, ar y trydydd dydd a dderbyniwyd oddi wrth y meirw gan ei dad: mor foreu y mae yr ysgrythyrau yn dwyn tystiolaeth, megys y dywed Paul, 1 Cor. xv. 4. "A'i gladdu a'i gyfodi y trydydd dydd, *yn ol yr ysgrythyrau*." Hwn ydoedd y *dydd Crist* hwnw, y gorfoleddodd Abraham wrth ei weled o hirbell.

Y mae yr amrywiol amgylchiadau a grybwyllir gan Ysbryd Duw, yn dwyn y fath gyfattebiad hynod i ddyoddefaint a marwolaeth Crist, fel y rhedo yr hwn a'u darlleno; ac nid ydyw yn angenrheidiol i ni gadw ein darllenwyr yn hwy gydag unrhyw fanwl gyfrifiad o honynt.

Yn y drydedd bennod ar hugain, gelwir ni i ganfod marwolaeth Sarah. Abraham, ar yr achlysur hwn, a brynodd yr unig feddiant a fwynhaodd efe erioed yn Nghanaan, sef, meddiant beddrod. Yma y claddwyd Abraham, Sarah, Isaac, a Jacob; ac i'r dyben o gael ei osod yma, Joseph, pan yn marw, a roddodd orchymyn am ei esgyrn. Fel ag y mae hyn yn anghraifft o'i ffydd ef; gwel Heb. xi. 21. y darllenydd ystyriol a genfydd yn hawdd, yn y pryniad o'r meddiant hwn o feddrod, bryniad lle o ddiogelwch yn y bedd rhag *gwir fab Heth*, yr hwn sydd â nerth marwolaeth ganddo, hyny ydyw, y diafol. Y mae'r hanes neillduol sydd genym am y modd y daeth Rebecca yn wraig i Isaac, yn hytrach na merched Canaan, yn rhoddi i ni amlygiad tra phrydferth ac arallegol am y cyssylltiad rhwng Crist a'i eglwys. Yn y flwyddyn ganlynol, prioddodd Abraham Cetura, o'r hon y bu iddo chwech o feibion, i ba rai y rhoddodd efe roddion, ac a'u hanfonodd i dir y dwyrain, lle y daethant yn benau llwythau lluosog. Y wybodaeth am y gwir Dduw a ddygasant gyda hwynt; ac y mae olion addoliad Cristionogol, er yn dra llygredig, etto yn mysg eu hiliogaeth. Bu farw Abraham yn 175 mlwydd oed, A. M. 2183, cyn Crist 1822; a chladdwyd ef gan ei feibion, Isaac ac Ismael, yn ogof Macpelah gyda Sarah ei wraig.

Fel hyn yr olrheinasom yn anmherffaith yr hanes pwysig hwn; yr hwn sydd yn bur deilwng o ymchwiliad ac ymofyniad dwys. Yr oedd Abraham yn enwog yn mysg cenhedloedd hen hanesyddiaeth; y mae hyd yn nod paganiaid, cenhedloedd, a Mahometaniaid, wedi benthyco oddi wrth hanes ei fywyd ef i brydferthu eu gwroniaid. Y mae'n dra thebygol i aberthau dynol, sef gwneuthur i'w had fyned trwy y tân, &c. gymmeryd eu dechreuad yn mhlith y Canaaneaid, oddi wrth aberthiad Isaac.

Had Abraham yn benaf ydyw *Crist*. "Nid ydyw efe yn dywedyd am *hadau*, medd Paul, megys am lawer, ond am *un*, sef, Crist." Yn ail, Had Abraham yn ol y cnawd, "o'r rhai yn ol y cnawd, y daeth Crist." Yr oedd yr Iuddewon yn ymffrostio fod ganddynt Abraham yn dad iddynt; ond Crist a ddywedodd wrthynt, y gallai Duw hyd yn nod o feini (Cenhedloedd) gyfodi had i Abraham. Yr ydoedd cyssylltiad yn ol y cnawd âg Abraham, yn dra manteisiol; "yn bennaf, o herwydd ymddiried iddynt hwy am ymadroddion Duw."

"Duw," medd Pedr, "wedi cyfodi ei fab Iesu, a'i hanfonodd ef i chwi yn gyntaf i'ch bendithio chwi." Paul a ddywed i ni, i Iesu Grist, pan y gwnaed ef dros ychydig yn is na'r angelion, *gymmeryd gafael* yn had Abraham. Y mae Ravoneli yn sylwi yn dra chywir, fod y gair *epilambanetai* yn arwyddo cymmeryd gafael yn un sydd yn ffoi ymaith. Cymmerodd Crist sylwedd dynol o lwynau, neu had Abraham i undeb personol a'i Berson Dwyfol, fel y byddai yn Achubwr addas i'w bobl. Yr oedd Crist mewn bôd, fel Person Dwyfol er tragywyddoldeb; ac wedi ymrwymo i achub dynion ac nid angelion syrthiedig; i'r dyben i'w hachub, cymmerodd natur arall, sef had Abraham, i undeb a'i Berson Dwyfol, yn ol yr addewid i Abraham. Nid dynoliaeth yn unig ydoedd, ond *had* ydoedd, a had Abraham; felly mae Crist o ran ei berson mor wirioneddol yn had Abraham a neb o'i blant ef; ac fel y cyfryw, y mae yn lachawdwr addas ac yn drysordŷ yr addewidion i'r holl genhedloedd. Nid person dynol a gymmerodd y Person Dwyfol iddo ei hun; ond natur ddynol a gymmerwyd i undeb a'r Person Dwyfol. Nid oes gan hyny, amlhad personau, ond chwanegiad natur i'r Person, fel y mae natur ddynol yn un i'r Person Dwyfol, ac yn eiddo iddo, ac yn rhan o Grist: a hyny nid trwy gymmysgiad, sylwedd, ond trwy undeb personol, ac anwahanol. Y mae ein Harglwydd yn gwadu fod yr Iuddewon yn *had Abraham*, onid ê *gweithredoedd Abraham* a wnaethent; a Phaul a ddywed i ni, mai y rhai a gyfrifir yn had, ydyw y rhai sydd wedi eu bendithio â ffydd Abraham; yna, medd efe wrth y Galatiaid, had Abraham ydych, ac etifeddion yn ol yr addewid.

'*Abraham* yr Hebread,' Gen. xiv. 13. Tebygol iddo gael yr enw hwn oddiwrth ei waith yn dyfod o'r tu hwnt i'r afon Euphrates, i fyned i Ganaan: o herwydd arwydda y gair gwreiddiol a gyfeithir *Hebread*, *myned trosodd*, neu *dyfod o tu hwnt*. Er fod rhai yn barnu iddo gael ei enw oddiwrth *Eber*, neu *Heber*, mab Selah, Gen. xi. 15.; ond paham y rhoddwyd enw iddo oddiwrth Heber yn hytrach nag oddi wrth ei dad ei hun, neu ryw un arall o'i henafiaid, nis gellir dangos un rheswm. Gellir penderfynu, gan hyny, iddo gael ei alw ya Hebread oddiwrth y dygwyddiad uchod ac nid oddiwrth Heber, am ba un nis gwyddom ddim ond yr enw, a'r hwn a fu byw chwech o genhedlaethau o'i flaen ef; a thrwy yr holl amser hwn, ni alwyd neb o'i hiliogaeth yn *Hebreaid*.

ABREC, *(plygwch y glin,)* enw a orchymynodd Pharaoh ei gyhoeddi o flaen Joseph, er anrhydedd a pharch iddo ef, Gen. xli. 43.

ABSALOM, *(tad heddwch)* trydydd mab y brenin Dafydd: ei fam oedd Maacah, merch Talmai brenin Gesur, 2 Sam. iii. 3, 4. Yr oedd efe yn wr tra phrydferth: bob blwyddyn efe a gneifiai wallt ei ben, ac yr oedd yn pwyso 200 sicl, neu oddeutu chwech pwys Saesnig, neu ysgatfydd, yn hytrach, a brisid yn werth 200 sicl o arian, yr hyn sydd o leiaf yn nghylch 23, neu, yn ol Prideaux, yn 30 punt o arian Lloegr. Bu iddo dri o feibion, y rhai a fuant oll feirw yn eu mhebyd, ac un ferch dêg yr olwg a elwid *Tamar*, 2 Sam. iii. 3. a xiv. 25—27.

Pan y treisiwyd Tamar ei chwaer gan Amnon, bwriadodd Absalom ymddial yn drwyadl arno ef. Ar ol dwy flynedd, gwahoddodd ei frodyr i gneif-wlêdd oedd ganddo yn Baalhasor. Pan yr oedd Amnon gwedi yfed yn galed, gorchymynodd Absalom i'w weision ei ladd ef; ac yna ffôdd at ei daid i Gesur yn Syria. Efe a arosasai dair blynedd mewn alltudaeth, pan y darfu i Joab, gan sylwi fel yr oedd Dafydd yn caru cymmodiad, gynhyrfu gwraig weddw ddoeth o Tecoa, trwy ymadrodd ffugiol am berygl ei mab, yr hwn, hi a gymmerth arni, mewn drwg anwyd, a laddasai ei frawd, i daer erfyn am hyny. Galwyd Absalom yn ol, ond bu ddwy flynedd yn Jerusalem heb fyned i mewn i wyddfod ei dad. Gwedi ei wânu gan ofid a digllonedd, anfonodd am Joab, gyda golwg i'w rwymo ef i fod yn eiriolwr drosto gyda y brenin. Joab ar y cyntaf a nacaodd fyned: ond Absalom, trwy losgi ei haidd ef, a barodd iddo wneud. Yn ol dyfod, deallodd Joab ei fwriad, ac aeth yn union at y brenin Dafydd, a chafodd dderbyniad iddo i'r llys. Prin yr oedd y cymmod hwn wedi cael ei ddwyn i

ben, pan y parotodd Absalom i draisfeddiannu gorsedd ei dad. Mynnodd iddo ei hun nifer o feirch a cherbydau, a deng wr a deugain i redeg o'i flaen. Trwy drin yn garedig y rhai a ddeuent at ei dad am farn, trwy awgrymau dichellgar fod eu materion yn dda, ond fod ei dad yn esgeuluso gwneuthur cyfiawnder â hwynt, a thrwy ddymuniadau ar fod ganddo ef allu i wneud yn uniawn â hwynt, lladratodd galonau y bobl.

Yn nghylch y Sulgwyn, A. M. 2980, yn y 40fed flwyddyn ar ol ei enniniad Dafydd gan Samuel, a'r 4edd ar ol dychweliad Absalom o Syria, efe, dan esgus o dalu adduned, a erfyniodd genad ei dad i fyned i Hebron, dinas o du y dehau i Jerusalem. Dau cant o wyr enwog a aethant gydag ef yno, heb ddrwg-dybio ei fwriadau. Yn ddiatreg, agorodd iddynt ei feddwl; a pharodd gyhoeddi yn holl ddinasoedd Israel, ei fod ef yn teyrnasu yn Hebron. Ahitophel, prif gynghorwr Dafydd, wrth gael gwahoddiad, a giliodd atto yn mhlith y rhai blaenaf: a chorph yr Israeliaid a ddilynasant ei esampl ef. Dafydd, gyda dyrnaid o'r cyfryw gyfeillion ag y gallai ymddiried iddynt, a ffodd o Jerusalem. Ahitophel, wedi peri iddo yn gyhoeddus halogi deg o ordderchwragedd ei dad, a gyngorodd Absalom yn ddioed i roddi y llywodraeth ar 12,000 o wyr dewisedig iddo ef, ac efe a ymlidiai yn union ar ol ei dad, ac a'i daliai, cyn y caffai amser i ymiachau o'i fraw. Y cyngor hwn oedd dra chymmwys i atteb ei ddyben. Ond ymgyngorwyd â Husai hefyd: efe a gymmerth arno nad oedd cyngor Ahitophel yn brydlawn, am fod Dafydd a'i gyfeillion yn wyr cryfion a chreulon eu meddwl, ac y neidient allan yn ddiattal o byllau, neu y cyfryw ymguddfeydd, ac, yn ddisymmwth, a dorrent ymaith rai o wyr Absalom; ac felly llwfrhau yr holl blaid cyn y byddai iddi ymsefydlu yn gadarn. Er mwyn gwneicithio i wagedd Absalom, a rhoddi amser i Dafydd i osod ei hun mewn agwedd ddiffynol, roddodd gyngor i gasglu holl Israel ag oeddynt yn alluog i ddwyn arfau yn nghyd; ac i Absalom eu llywio hwynt yn bersonol: efe a gymmerth arno, y byddai iddynt â'r llu dirfawr hwn yn ddifeth. Ddinystrio Dafydd a'i wyr, pa un bynag ai yn y ddinas ai yn y maes y deuent o hyd iddynt.

Cymmeradwywyd a dilynwyd cyngor Husai. Absalom a gasglodd ei wyr; aeth dros yr Iorddonen i ymosod yn erbyn ei dad; ac ymladdwyd brwydr yn nghoed Ephraim: ei lu anhyfedr ac anhyfforddedig a orchfygwyd yn hawdd gan ragluniaeth Duw, a hen filwyr cyfarwydd ei dad. Y coed a ddryliiasant lawer iawn o honynt, neu, a barasant eu dinystr. Gorchymynasai Dafydd i'w ryfelwyr arbed bywyd ei fab gwrthryfelgar; ond, pan yn marchogaeth trwy y coed, cangen o dderwen a afaelodd yn ei wallt gwerthfawr, ac a'i crogodd ef wrtho yn lle cebystr, tra yr aeth ei ful ymaith. Joab, wedi mynegu hyny iddo, a brysurodd i'r lle, ac a derfynodd ei fywyd ef. Efe a gyfodasai faen-coffadwriaeth uchel-falch i fytholi ei glod; ond ni chafodd yr anrhydedd o gael ei gladdu dano. Ei gorph a fwriwyd i'r ffos, fel celain asyn, a gosodwyd carnedd fawr o gerrig arno. Pa un a ddarfu i'w dad, yr hwn a alarodd gymmaint am ei farwolaeth, ei symmud i feddrod mwy anrhydeddus, nis gwyddom, 2 Sam. xiii. xiv. xv. xvi. a xvii.

Yn 2 Sam xiv. 27, dywedir fod i Absalom dri o feibion ac un ferch, sef Tamar: ond yn 2 Sam. xviii. 18. dywed Absalom ei hun "Nad oedd ganddo fab i wneuthur coffa am dano." Rhaid barnu, gan hyny, i'w feibion farw o'i flaen ef, er nad oes coffa am hyny. Nid oes un ffordd arall i gysoni yr ymadroddion yn y ddau le.

ABSEN—NU, *(ab-sen)* sen, enllib, athrod, cerydd-air; goganu, rhoddi anair, enllibio. Mae y gair Heb. *regel, absen*, yn arwyddo olrhain, chwilio, neu yspio allan, dilyn ôl traed. Mae yr absenwr yn yspio traed ei gymmydog, i edrych a genfydd ef yn llithro yn un lle, i'r dyben o gyhoeddi ei fai. Gelwir ef *athrodwr* yn Diar. xxv. 23. Mae yr ysbryd hwn a'r cyfryw arferiad, yn holiol groes i gariad at ein cymmydog; ac am hyny yn bechadurus, ac yn nodi dyn heb ei adeni, a phell oddi wrth Dduw.

ABSENOL, *(ab-sen)* anmhresennol, allan o wydd, allan o olwg; gwydd ac absen, neu bresennol ac anmhresennol, 1 Cor. v. 3. 2 Cor.

x. 1, 11. a xiii. 2, 10. Phil. ii. 12. Col. ii. 5.

ABWYDYN, *(abwyd)* pryf, pryfedyn. "Mab dyn yr hwn sydd *abwydyn*," Job. xxv. 6. Mae Duw mor fawr ac ardderchog, fel nad oes dim yn meddiannu ardderchogrwydd digonol i osod allan ei fawrhydi dwyfol. "I bwy medd Duw y'm gwnewch yn debyg, ac y'm cystedlwch, ac y'm cyffelybwch?" Esa. xl. 18. Y mae dyn, ynte, mor wael a dirmygedig, fel nad oes dim yn y greadigaeth yn rhy wael i'w gyffelybu iddo, Gen. iii. 19. Job xiv 2. Salm. xxxix. 5, a lxii, 9. Esa. xl. 6, 16, 17.

Abwydyn yw, am mai o'r ddaear y gwnaed ef—ar y ddaear y mae yn byw—yn ddarostyngedig, fel *abwydyn*, i gael ei sathru bob munud; heb allu i amddiffyn ei hun; i'r ddaear y dychwel at y pryfed, *abwydyn at abwydyn*. Darostyngodd pechod ddyn o fod yn uchder, neu yn ben llwch y byd *(Diar.* viii. 26.) i fod yn *abwydyn*, a'r gwaelaf o'r cwbl; etto er gwaeled ydoedd, cofiodd Duw am dano, ac ymwelodd âg ef mewn modd tra rhyfedd, trwy gymmeryd ei natur arno a dyfod yn bryfyn ei hunan, Salm. viii. 4. a xxii. 6.

ACELDAMA, *(maes y gwaed)* maes y dywedir ei fod yn gorwedd o du y dehau i Jerusalem, ac o du y gogledd i afon *Siloah*. Dywedir mai yr un ydoedd â *maes y panwr*, lle yr oeddynt yn cannu eu lliain, Esa. vii. 3. Sier ydyw mai efe ydoedd *maes y crochenydd*, lle yr oeddynt yn cloddio eu defnyddiau: ac o herwydd fod ei bridd wedi ei lwyr dreulio ganddynt, nid oedd ond o ychydig iawn o werth. Pan ddygodd Judas y deg ar bugain arian yn ol, y rhai a gawsai efe am fradychu ei Feistr, yr Archoffeiriad a'r llywodraethwyr a gymmerasant arnynt nad oedd gyfreithlon eu bwrw i'r drysorfa sanctaidd, am mai gwerth gwaed oeddynt, a phrynasant â hwynt y maes hwn i gladdu dyeithriaid ynddo; ac felly daeth i gael ei alw *Aceldama, neu Haceldama, maes y gwaed*, Zec. xi. 12, 13. Mat. xxvii. 8. Act. i. 18. Dywedir mai yma yr ymgrogodd Judas. Y mae teithyddion yn sicrhau i ni, fod y lle wedi ei amgylchu â muriau gan yr amherodres Helena, yn debyg i dŵr, ac ar ei nen saith o wahanol ddorau, trwy ba rai y gollyngir y cyrph i'w claddu, a bod y dwfr mewn deuddydd neu dri yn eu difa hwynt; a'i fod yn 52 trodfedd o led wrth 70 o hyd.

ACTAU, neu *weithredodd yr Apostolion*, sydd hanesyddiaeth ysbrydoledig am eu gweithredoedd a'u dyoddefiadau, ar, neu ar ol esgyniad eu Hathraw addoledig. Y mae yn adrodd yn benaf eiddo *Pedr, Ioan, Paul*, a *Barnabas*. Rhydd hanes neillduol am escyniad Crist; am ddewisiad Mathias yn lle Judas; am dywalltiad yr Ysbryd Glân ar wyl y Pentecost; am bregethiad gwyrthiol yr efengyl gan yr apostolion, a'i llwyddiant a'u herlidigaethau hwythau o'r achos hyny, pen. i. hyd v.; am ddewisiad y diaconiaid; erlidigaeth, a llofruddiaeth Stephan, un o honynt, pen. vi. a vii, am erlidigaeth mwy cyffredinol, a gwasgariad y pregethwyr Cristionogol i Samaria a'r lleoedd cyfagos; am fedydd a difeithder Simon y swynwr; ac am droedigaeth a bedydd yr eunuch o Ethiopia, pen. viii; am Pedr yn cyfodi Dorcas i fywyd, yn pregethu i, ac yn bedyddio y cenhedloedd o dŷ Cornelius, ac yn amddiffyn ei ymddygiad yn hyn, pen. ix. 32—43, a'r x. xi. 1—18.; am daeniad yr efengyl yn mysg y Cenhedloedd gan y pregethwyr gwasgaredig; a'r cyfraniad i'r saint yn Jerusalem, yn amser drudaniaeth, pen xi. 19—39; am Herod yn lladd Iago, yn carcharu Pedr, a'i farwolaeth arswydus yntau, pen xii.; ac am ordinhadau yr eglwys yn Jerusalem, y rhai oeddynt yn condemnio gosodiad seremoniau Iuddewig, ac yn gorchymyn ymgadw oddi wrth fwyta pethau a aberthwyd i eilunod, neu y pethau a dagwyd, neu waed, pen. xv. Y mae y gweddill o'r llyfr yn adrodd troedigaeth, llafur, a dyoddefiadau Paul, pen. ix. 1—31 a xiii., a xiv. a xvi. hyd y diwedd. Cynnwys hanes am blaniad a rheolaeth yr eglwys Gristionogol am o ddeutu 30 o flyneddoedd.

Yr efengylau sydd yn traethu am Grist y pen: yr *Actau* sydd yn dangos fod yr unrhyw bethau wedi dygwydd i'w Gorph ef, yr hwn a fywhawyd gan ei Ysbryd, a erlidiwyd gan y byd, a amddiffynwyd ac a dderchafwyd gan Dduw,

Yn y llyfr hwn y dangosir yr Athrawiaeth Gristionogol a'r modd i'w chymhwyso at Iuddewon, Cenhedloedd, a Chredinwyr; hyny yw, at y rhai a ddychwelir, ac at y rhai a ddychwelwyd; y rhwystrau sydd iddi mewn dynion neilduol, mewn amrywiol fath o ddynion, mewn gwahanol raddau a chenhedlaethau; ymdaeniad yr efengyl a'r cyfnewidiadau gogoneddus a wnaed trwyddi yn mhlith Iuddewon a Chenhedloedd; y fuddugoliaeth a gafodd hi er gwaethaf yr holl wrthwynebiadau oedd iddi oddi wrth holl allu, malais, a doethineb y byd i gyd: hi a aeth ar led o un ystafell i demlau, tai, heolydd, marchnadoedd, maesydd, tafarnau, carcharau, gwersylloedd, llysoedd, cerbydau, llongau, pentrefydd, dinasoedd, ynysoedd; at Iuddewon a chenhedloedd, llywiawdwyr, tywysogion, milwyr, eunuchiaid, carcharorion, caethweision, gwragedd, llongwyr, i *Athen*, ac o'r diwedd i *Rufain*.

Luc yr efengylwr ydoedd ysgrifenydd yr banes hwn: ysgrifenodd ef fel parhad o'i hanes am Grist. Yr Hereticiaid Marcionaidd a Manicead yn oesoedd boreu Crist'nogrwydd a'i gwrthodasant yn hollol. Ond ni bu dim o'r fath yn mhlith neb o'r hen dadau, eithr ei farnu yr oeddynt yn drysor gwerthfawr o roddiad dwyfol i'r eglwys, hyd ddiwedd amser. Cafodd ei gyfeithu i'r Hebraeg gan yr Ebioniaid, y sawl a'i llygrasant yn gywilyddus. Cynnygodd Hereticiaid ereill gymhell ar yr eglwys amryw iol o ffug-ysgrifeniadau o hono: megys *Actau* yr Apostolion o waith Abdias, Actau Pedr, Paul, Ioan, Andreas, Tomas, Philip, Mathias, &c. Bernir i St. Luc ysgrifenu yr banes hwn yn Rhufain, pan oedd Paul yn garcharor yno, wrth ddymuniad y brodyr yno, a thrwy orchymyn Paul ei hun. Am yr amser, dywedir mai yn nghylch 60 mlynedd ar ol genedigaeth Crist, 27 wedi troedigaeth yr apostol Paul, a'r 4 i Nero ydoedd.

ACWILA, *(eryr)* Iuddew a anwyd yn Pontus; a thebygol gan hyny, mai ei enw priodol ydoedd *Nesher*, yr hwn, yn Hebraeg, sydd o'r un ystyr â'r enw Lladin *Acwila*, enw a gymmerodd efe, neu a roddwyd iddo, pan ydoedd yn Rhufain. Efe a'i wraig Prisca, neu Priscila, oeddynt yn gweithio pebyll lledr i luoedd y Rhufeiniaid; yr hyn, y pryd hyny, oedd waith enillfawr ac anrhydeddus. Dychwelwyd hwynt yn foreu i'r ffydd Gristionogol; hwyrach, trwy bregeth Pedr ar ddydd y Pentecost. Gwedi bod yn trigo am beth amser yn Rhufain, gorchymyn Claudius i alltudio yr holl Iuddewon o'r ddinas hono, a barodd iddynt ei gadael hi, a dychwelid i Gorinth: yno y bu Paul yn llettya gyda hwynt, ac yn cyd-weithio pebyll â hwynt, nes, tebygol, er mwyn boddio y Cenhedloedd, yr aeth efe ac y llettyodd gyda Justus. Canlynasant Paul i Ephesus, ac yno y peryglasant eu bywydau er mwyn ei amddiffyn ef: yma y buont yn addysgu Apolos yn ffordd yr Arglwydd yn fanylach. Ymddengys i orchymyn Claudius gael ei ddiddymu, ac iddynt hwythau ddychwelyd yn ol i Rufain: ac yn eu tŷ hwynt yr oedd y Cristionogion yn cyfarfod; ac yno y cyfarchwyd hwynt gan Paul, yn ei Epistol at yr eglwys hono. Dychwelasant i Asia, a thrigasant yn neu yn agos i Ephesus: ac yr oeddynt yno pan ysgrifenodd Paul ei ail Epistol at Timotheus. Act. xviii. Rhuf. xvi. 4, 5. 2 Tim, iv. 19.

ACCW, (*ac*, neu *oc*) draw. Esa. xxviii. 10. Marc xiii. 21. "Ai hyn yma ai hyn *acew*." Preg. xi. 6.

ACH—AÛ, cyff, llin, llin-ach, gwaedoliaeth, trâs, edryd, llwyth neu genedl. Num. i. 18. 1 Cron. v. 1, 7, 17.

ACHAIA, *(blinder)* gwlad yn perthyn i'r Groegiaid yn Ewrob, a alwyd felly oddi wrth Achæus, mab Xuthus. Y mae yn nghylch 180 milltir o hyd a 35 o led. Weithiau yr oedd yn cael ei chymmeryd mewn ystyr helaeth, ac yn cyfatteb i Grecia Briodol, a elwir yn awr *Livadia*: ond *Achaia Briodol* oedd dalaeth fechan iawn o du y dehau i dir Groeg, a gogledd i Peloponesus neu Morea. Ei phrif a'i hunig ddinas o enwogrwydd, oedd Corinth. 2 Cor. i. 1. Galio oedd y Rhaglaw Rhufeinig yma pan y bu Paul yn pregethu yr efengyl, ac y sylfaenodd amryw gynnulleidfaoedd Cristionogol. Act. xviii. 1, 2.

ACHAICUS, un genedigol o Achaia, a dysgybl Paul. Dywedir ei fod ef, a Stephanas, a Ffortunatus o deulu Cloe, ac yn bregethwyr;

pa fodd bynag, ymddengys eu bod yn llafurio gyda Paul, trwy ba rai yr anfonodd efe ei Epistol cyntaf at y Corinthiaid. 1 Cor. i. 11

ACHAN, neu Achar *(trallod,* neu *trallodwr)* un o hiliogaeth Judah trwy Zerah, Zabdah, Charmi. Wrth gymmeryd Jericho, efe, yn groes i orchymyn pendant Josuah, a chwennychodd ran o'r yspail felldigedig; ac wedi cymmeryd mantell Fabilonig a llafn aur, yr hwn oedd yn werth uwchlaw pedwar ugain punt a deg o'n harian ni, a dau can sicl o arian, sef yn nghylch deg punt ar hugain o'n harian bathol ni, efe a'u cuddiodd hwynt yn ei babell. Duw, wedi anfoddloni wrth y trosedd hwn, a nododd ei ddigofaint tu ag atto trwy adael i dair mil o'r Hebreaid gael eu gorchfygu o flaen *Ai*, a 36 o honynt gael eu lladd. Yn boenus gan ofid, Josuah a henuriaid Israel a rwygasant eu dillad, ac a waeddasant ar yr Arglwydd am gynnorthwy. Yr Arglwydd a hysbysodd i Josuah, fod un o'r bobl wedi cymmeryd o'r diofryd-beth, a'i guddio yn mysg ei ddodrefn; hyd nes y chwilyd allan ac y cospid hyny, na chaent ddim cynnorthwy oddi wrtho ef. Trwy gyfarwyddiad Duw, holl gynnulleidfa Israel a ymsancteiddiodd, ac a ymbarotodd tu ag at ymchwiliad arbenig dranoeth: gadawyd yr ymofyniad ar benderfyniad y coel-bren: yn gyntaf, llwyth Judah; yn ail teulu Zerah; yn nesaf teulu Zabdah; ac yn ddiweddaf, Achan ei hun a ddaliwyd: wedi ei rybuddio gan Josuah, efe a gyfaddefodd ei drosedd; a thebygol iddo wir edifarhau. Y lladrad a ddygwyd allan, ac a ddangoswyd ar gyhoedd i'r gynnulleidfa; yna, efe, a'i blant, a'i holl anifeiliaid, a labyddiwyd yn gyhoeddus i farwolaeth; a'r cyrph meirw, a dodrefn ei dŷ, a wnaethpwyd yn lludw yn nyffryn Gilgal, a alwyd oddi wrth y ddamwain hono *Achor*, hyny yw, *trallod*; a chodwyd carnedd fawr o gerrig arnynt, 1 Cron. ii. 5—7. Jos. vii.

"A holl Israel a'i llabyddiasant ef â meini, ac a'u llosgasant hwy (sef y dodrefn, a'i feddiannau) â thân," wedi (yn hytrach *neu)* a'u llabyddiasant â meini, Jos. vii. 25. Tebygol mai llosgi a wnawd y pethau oedd yn llosgadwy yn unig, ac na effeithiai llabyddio arnynt. Llabyddiasant y pethau â bywyd ynddynt, a llosgasant y pethau difywyd; sef y babell, y dodrefn, &c.; os llabyddiasant ei feibion a'i ferched (nid oes son am ei wraig) tebygol eu bod hwythau, ryw ffordd, mewn gradd yn cyfranogi o'i fai.

Oddi wrth yr hanes hwn, *Nodwn* (1.) Ni ddichon cydwybod enog gael esmwythdra ond trwy hunangyhuddiad, ac addef ei gorthrwm bechod yn erbyn Duw. (2.) Gosodir i lawr yma ddull pechod o gael ei ben yn y blaen: trachwant yw'r gwreiddyn; Satan a esyd abwyd i'r llygad, y galon a ddelir ganddo, y llaw a estynir atto, ac o'r diweddaf y pechod a esgorir arno, ac a orphenir. Mor ofalus y dylem wylied dros ein llygaid! Mor wresog y dylem wrthsefyll a chadw lawr gymhelliadau cyntaf trachwant! (3.) Hûd mawr y diafol yw, "Nid oes llygad a'th wel; hawdd y celir dy bechod;" ond fe fedr Duw droi y pechadur yn hunan-gyhuddwr, a gwneuthur iddo *chwydu y cyfoeth yr hwn a lyngcodd*, Job. xx. 15. Oddi wrth y cwbl, gwelwn mor chwerw yw ffrwyth ariangarwch a lladrad; lle y gallwn ddysgu, fod y rhai sydd yn serchu pethau'r byd hwn, ac yn casglu cyfoeth anghyfiawn, yn debyg o ddyfod i ddiweddd truenus. Ac oddi wrth y modd rhyfeddol y dadguddiwyd pechod Achan, dysgwn nad oes dim dirgel yn guddiedig oddi wrth yr Hollalluog; ac am hyny, mai nid digon cael gair da ger bron dynion, beb gydwybod dda ger bron Duw.

ACHAT, sydd faen gwerthfawr, bron yn dryloyw, wedi ei amryliwio â gwythenau a manau tywyll, yn gyfansoddedig o grisial, ac wedi ei ddifwyno âg ychydig o bridd. Y mae y maen hwn yn rhagorol at gaboli aur, a selio cwyr. Y mae i rai o honynt orlliw gwyn; ereill sydd yn gochaidd; ereill yn felynaidd; a rhai yn wyrdd eisoes. Yr achat oedd yr ail faen yn y drydedd rês o ddwyfroneg yr archoffeiriad, Exod. xxviii. 19.

ACHBOR *(llygoden)* yr oedd amryw o'r enw, sef, (1.) Tad Baalhanan, Gen. xxxvi. 38. (2.) Un o swyddwyr Josiah, 2 Bren. xxii. 14, yr hwn hefyd a elwid *Abdon*, 2 Cron. xxxiv. 20. (3.) Tad Elnathan, Jer. xxvi. 22.

ACCHO, *(caredig)* oedd dinas yn

Galilea, ar lan môr y Canoldir, yn nghylch 28 medd rhai, 32 medd ereill, o filitiroedd o du y dehau i Tyrus. Yr oedd wedi ei hadeiladu ar wastadedd, ond yr oedd mynyddoedd yn ei hamgylchynu ar bob llaw, ond tua'r môr; o du y dehau yr oedd Carmel; o du y dwyrain mynyddoedd Galilea; ac o du y gogledd esgynfa Tyrus, yn nghylch 12 milltir o bellder. Yr oedd ganddi borthladd hardd, ac o du y gogledd iddi yr oedd yr afon Belus; ac ar lan y môr yr oedd helaethrwydd o dywod i wneuthur gwydr. Rhoddwyd hi i lwyth Aser; ond goddefasant hwy i'r Canaaneaid aros yndi, Barn. i. 31. Nis gwnaeth ymddangosiad gwych nes i Ptolemi Philadelphus brenin yr Aipht ei hailadeiladu, a'i galw *Ptolemais*; ond wedi hyny cyfranogodd yn fynych yn nghyfyngder rhyfel Syria. Sefydlwyd y grefydd Gristionogol yma yn foreu; ac yma yr ymwelodd Paul â'r Saint yn ei ffordd i Jerusalem, Act. xxi. 7. Y mae hanesyddiaeth Eglwysig yn ein hysbysu fod yma esgobion yn yr 2, 3, y 4, y 5, a'r 6 ganrif o'r cyfrif Cristionogol. Yn y 12 a'r 13 ganrif yr oedd yn lle cadarn iawn, ac yn wrthddrych angbydfod nid bychan rhwng y Mahometaniaid a'r Ewropeaid yn y rhyfeloedd sanctaidd (*Crusades*). Dechreuodd yn nghylch yr amser hwnw gael ei galw St. Ioan de Acre; ac yma yr amgaerodd marchogion St. Ioan o Jerusalem eu hunain am hir amser. Yma yr oedd y brenin Edward I. pan yn dywysog, ac ei clwyfwyd gan saeth wenwynig, ond a feddyginiaethwyd gan Eleanor ei wraig, yr hon a sugnodd ymaith y gwenwyn. Y mae y lle hwn wedi dyfod yn hysbys i feddyliau y Britaniaid, fel ymddangosfa llawer o wrolder ein cyd wladwyr dan Sir Sydney Smith, yn y rhyfel-gyrch diweddar i'r Aipht.

ACHIS, *(felly y mae, neu sicr yw,)* neu ABIMELEC, brenin neu arglwydd y Philistiaid yn Gath. Achis oedd ei enw priodol, ond, fel yr oedd pob brenin yr Aipht yn cael ei alw Pharaoh, (Gen. xli. 1. Exod. v. 1. 1 Bren. xi. 18,) felly y gelwid pob brenin y Philistiaid Abimelec, Gen. xx. 2. a xxvi. 1. Er mwyn gochelyd erlidigaeth Saul, ciliodd Dafydd i Gath. Gwyr y llys a osodasant ger bron Achis mai y Dafydd hwn a laddasai Goliath, a'i fod yn enwog fel dinystrydd hynod o'u cenedl hwynt. Dafydd, wedi mynegu iddo am y lled-ryb yddion hyn i ddiogeli ei hun, mewn gwaeledd a gymmerodd arno ynfydu. Achis a grybwyllodd wrth ei weision nad oedd achos iddynt ofni, ac nad oedd arno ei hun eisiau ynfydyn i beri iddo chwerthin. Gorchymynodd iddynt ei fwrw ef allan o'r ddinas. Yn nghylch pedair blynedd wedi hyny dychwelodd Dafydd i Gath. Achis, yr un a'i diystyrasai ef gynt, neu, hwyrach, ei fab a roddodd iddo dderbyniad cyfeillgar. Rhoddodd iddo ef a'i ryfelwyr. Siclag, un o'i ddinasoedd i drigo ynddi. Bron dwy flynedd wedi hyny, ceisiodd gan Dafydd a'i filwyr ei gynnorthwyo ef yn erbyn Saul a'r Hebreaid, ac a addawodd eu gwneuthur hwynt yn ddiffyn-gôr iddo, ond arglwyddi y Philistiaid a wrthodasant yn bollol ganiatau i Dafydd a'i wyr wasangaethu yn eu byddin hwynt. Achis, gan hyny, yn synhwyro l a'u gollyngodd hwynt adref, Salm xxxiv. titl. 1 Sam. xxi. xxvii. xxviii. a'r xxix.

ACHLYSUR—ON, *(ach-llys)* achos, tymhor, oedfa, pryd, amser cyfaddas, 1 Sam. xxii. 22. Jer. ii. 24. Dan. vi. 4, 5.—"Pechod yn cymmeryd *achlysur* trwy y gorchymyn yn gweithio mewn un bob trachwant." Rhuf. vii. 7, 8. sydd yn dangos natur ffyrnig, anmhlygadwy, y reddf o bechod yn ei llywodraeth ar bechadur, ac analluogrwydd y ddeddf i ddarostwng pechod, a gwared pechadur oddi wrtho. Trwy y ddeddf y mae *adnabod* pechod, ond nid trwy y ddeddf y mae *darostwng* pechod, na sancteiddio pechadur mwy na'i gyfiawnhau; ond yn hytrach y mae y reddf o bechod yn cymmeryd achlysur oddi wrth waharddiad, ysbrydolrwydd, a barn o gondemniad y ddeddf i weithio allan yn egniol ac yn rymus bob trachwant mewn ffordd o wrthryfel yn erbyn y gorchymyn. *Eithr pechod*—Fy llygredd tu fewnol, *wedi cymmeryd achlysur* neu *wedi cymmeryd y fantais trwy'r gorchymyn*—yn gwahardd, ond nid yn ei ddarostwng, nid oedd ond ei ffromi: *a weithiodd ynof fi*—yn fwy o gymmaint a hyny, *bob trachwant*. Canys tra yr oeddwn *heb* wybodaeth o'r *ddeddf, marw oedd pechod*, nid oedd mor eglur a bywiog;

ac nid oeddwn yn canfod yn y gradd lleiaf fy mod mewn un perygl oddi wrtho; y mae'r apostol yn cyngori y gwragedd ieuainc i briodi, planta, a gwarchod y tŷ, fel na roddent ddim *achlysur* i'r gwrthwynebwr i ddifenwi, neu ymsenu, a rhoi drygair, 1 Tim. v. 14. Er mai ymsenu a wna y gwrthwynebwr, etto ein gofal a ddylai fod na roddem *achlysur* iddo wneuthur hyny trwy ein rhodiad anaddas, a chroes i orchymyn Duw.

ACHMETHA. *(mewn blwch neu gist.)* Tybia rhai ei fod yn arwyddo Ecbatana mam neu brif-ddinas Media a adeiladwyd gan Dejoces, neu Phraortes, ac a amgylchynwyd â mur saith-blyg o amrywiol liwiau, a gwahanol uchder: ond ysgatfydd, nad ydyw yn arwyddo ond *cist* neu *gloer* cadarn, lle yr oedd hen gleingion* y llys Medo-Persiaidd yn cael eu cadw.

ACHOR, *(trallod)* dyffryn yn agos i Jericho, lle y llabyddiwyd Achan. Glyn Achor, yn *orweddfa gwartheg*, ac yn *ddrws gobaith*, sydd yn arwyddo y bydd dan yr efengyl, yn benaf tra parhao teyrnasiad y Saint am fil o flyneddoedd, i ddybeniad trallodion tor-calonus, ac ordinhadau a dylanwadau gras Duw, roddi porfa orphwyslawn i'w bobl, a chefnogi eu gobaith sylweddol am y gwynfyd nefol; sydd yn nod fel ac yr oedd gwersyllfa gyntaf yr Hebreaid yn nyffryn Achor, iddynt hwy yn wystl gobeithlawn o'u cyflawn feddiant o wlad yr addewid, Jos. vii. 26. Esa. lxv. 10. Hos. ii. 15. Dialedd Duw yn cael ei dywallt ar Achan yn y dyffryn hwn, fel un melldigedig gan Dduw, trwy iddo gymmeryd o'r peth melldigedig: a'r dyffryn hwnw yn dyfod wedi'n yn *ddrws gobaith*, a'n tywys i feddwl am dano Ef yr hwn a wnaed yn felldith drosom ni, a thrwy farwolaeth yr hwn yr agorwyd *drws gobaith* i'r euog.

ACHOS—ION, *(a-caws)* effaith, gallu effeithiol;—*achos dybryd*, godineb. (1.) Hawl, dadl, Exod. xxii. 9. Esa. i. 23. (2.) Rheswm paham, neu amgylchiadau yn galw am, 1 Sam. xvii. 29. (3.) Er mwyn, o herwydd, Gen. iii. 17. 2 Cor. vii. 12. (4.) Cyhuddiad, neu y bai a roddir yn erbyn un i'w euogfarnu, Math. xxvii. 37. Marc. xv. 26. Ioan xviii. 38. (5.) Un peth yn haeddu, neu yn cymmell i beth arall, fel effaith o hono, Act. xxviii. 18.

ACHUB, *(a-cub)* diogelu, cadw, gwaredu, achub yn ngwyneb gelynion a pheryglon tymhorol, ysbrydol, a thragywyddol, Mica v. 6. Esa. xlv. 22. Esa. xlv. 17.

ACHUBYDD, *(achub)* gwaredwr, diogelwr, noddwr, iachawdwr; un a achub ereill yn wyneb eu hanghysur, eu peryglon, a'u hofnau. (1.) Gelwir dynion ar yr enw hwn am y gallant amddiffyn, neu wared o beryglon tymhorol, Deut. xxii. 27. Barn. iii. 9, 15. Nehem. ix. 27. (2.) Yr Arglwydd Iesu, yr hwn yw ACHUBYDD y rhai a ymddiriedant ynddo o bob peryglon tymhorol ac ysbrydol, Salm. xvii. 7. Zech. ix. 9. Esa xlv. 15, a'r xlix. 26, a'r lx. 16. Tit. iii. 4.

ACHWYN—ION, *(cwyn)* galaru, cwyno, beio, cyhuddo; rhoi cwyn mewn llys yn erbyn un, Barn. xxi. 22. Ezra. iv. 6. Mat. xii. 10. *Cam-achwyn*, cam-gyhuddo un fel troseddwr o gyfraith, Exod. xxii. 1. Luc iii. 14. a xix. 8.

ADAH, *(cynnulleidfa)* gwraig Lamech, a mam Jabal a Jubal, Gen. iv. 19. Edrych *Lamech*.

ADAIL—EILIAU, *(ad-ail)* adeilad, tŷ; arferai yr hen Gymry wneuthur eu tai trwy osod polion ar eu penau yn y ddaear, ac yna eu heilio â gwiail; oddi wrth hyn y tarddodd y gair adail, adeiladu, &c. am wneuthur tai hyd y dydd hwn. Duw yn *adeiladu* pob peth sydd yn arwyddo ei greäad doeth a galluog o honynt, yn eu cyssylltiad a'u trefn briodol, Heb iii. 4 a'r xi. 10. Ei waith *yn adeiladu un i fynu* sydd yn arwyddo ei fod yn rhoddi iddo blant, golud, neu lwyddiant, Job. xxii. 23. Ei waith yn *adeiladu* teuluoedd, dinasoedd, a chenhedlaethau, sydd yn nodi ei fod yn amlhau eu nifer, eu golud, eu hanrhydedd, a'u hawdurdod 1 Cron. xvii. 10. Salm lxix. 35. Jer. xviii. 9.

ADAM, *(daear goch)* dinas oedd yn perthyn i lwyth Naphtali. Yr oedd yn sefyll yn agos i'r pen deheuol i fôr Tiberias: yn ei hymyl hi y safodd dyfroedd yr Iorddonen yn bentwr nes i'r Hebreaid fyned trosodd, Jos. iii. 16, a'r xix. 33, 36. Ysgatfydd

* Rhôlau neu lyfrau.

fod Adami yn ddinas wahanol oddi wrth Adama.

ADAMANT, *(anorchfygedig)* Yr un maen gwerthfawr ag a alwn ni diemwnt. Hwn ydyw y caletaf a'r gwerthfawrocaf o'r gemau. Y mae o sylwedd têg dysclaer drwyddo, ac nid ellir ei ddiwyno gan unrhyw gymmysgedd o ddefnydd garw, ond y mae yn barod i dderbyn gwawr dlws oddi wrth ronynau mettelaidd. Gwedi ei rwbio wrth sylwedd meddal, dyscleiria yn y tywyllwch, ond attelir ei dysgleirdeb os, allan o dŷ, y bydd i unrhyw beth rwystro ei gyfranogiad o'r awyr. Tery dân â dur, ond nid ydyw yn gweithio gyda thoddedigion surion. Nid oes dim tân heblaw gwres pelydrau'r haul trwy wydr a wna yr argraff lleiaf arno, ac nid ydyw hyd yn nod hwnw yn effeithio ond ar ei ranau gwanaf. Dywedir hefyd y gwna gwaed gafr ei feddalhau. Ceir peth diemwnt yn Brasil, ond y rhai hyny yn yr India Ddwyreiniol, yn nheyrnasoedd Golconda, Visapour, Bengal, ac ynys Bornea, ydynt y goreu. Nis gwyddom am ychwaneg na phedwar o fwn-gloddiau adamant yn yr India; cloddfa Gani neu Coulour, yn nghylch taith saith diwrnod o Golconda, sydd yn ymddangos y fwyaf nodedig. Y mae yn nghylch 60,000 o wyr yn gweithio ynddi. Y mae daioni y diemwnt yn gynwysedig yn ei liw, ei ddysgleirdeb, a'i bwysi. Y lliw mwyaf perffaith ydyw y gwynaidd. Ei ddiffygion ydynt wythenau, agenau, brychau o dywodydd cochion neu dduon, a las neu felyn arno.

Y diemwnt tecaf yn y byd yn awr ydyw eiddo diweddar frenin Ffraingc Louis XVI. yn pwyso 136¾ o *caratau*;* eiddo y Dûg o Tuscany, yn pwyso 136½, o caratau, ac yn werth 195,374 o bunoedd o arian Lloegr; eiddo y Mogul Mawr, yn pwyso 279½ o caratau, ac yn werth 779,244 o bunoedd; eiddo rhyw farsiandwr, yn pwyso 242½ o caratau; y mae un hefyd yn nghoron Ffraingc sydd yn pwyso 106 o caratau. Dywedir fod tair wns o'r rywiogaeth oreu o hono yn werth 78,000 o bunnoedd. Yr adamant oedd y trydydd maen gwerthfawr yn yr ail rês o ddwyfroneg yr archoffeirad, Exod. xxviii. 18. Talcen Ezeciel oedd wedi ei wneuthur yn debyg i *adamant*. Yr oedd efe wedi ei gynysgaethu â hyfdra diofn i fynegu cenadwri Duw wrth yr Iuddewon, Ezec. iii. 9. Calonau dynion dryginous sydd fel *adamant*. Pechod Judah a *ysgrifenwyd â phinŷ o haiarn ac ewin o adamant*. Eu tueddiadau llygredig oeddynt wedi gwreiddio yn ddwfn, ac ymsefydlu yn eu calonau, a'u holl droseddau oeddynt wedi eu nodi yn annileadwy gan Dduw.

ADAR, *(godidog, mantell arddercho g)* a alwyd felly am fod y blodau yn tori allan y pryd hwn mewn gwledydd cynes, a'r ddaear yn cael ei gwisgo megys â mantell odidog o amryw liwiau. Hwn oedd y deuddegfed mis o'r flwyddyn eglwysig Iuddewig a'r chwechfed o'r un wladol, yr oedd ynddo 29 o ddyddiau, ac yn cyfatteb i ein Chwefror ni, a rhan o Fawrth; ar y trydydd dydd o hono, y gorphenwyd ac y cyssegrwyd yr ail deml, Ezra vi. 15. ar y seithfed y mae yr Iuddewon yn ymprydio am farwolaeth Moses; ar y trydydd ar ddeg y maent yn cynnal coffadwriaeth am ympryd Esther a Mordecai; ar y pedwerydd ar ddeg, y maent yn cadw gwyl y Pwrim, Esth. vi. a'r ix. 17. Ar y pummed ar hugain, y maent yn adgoffhau rhyddhad *Jehoiachim* o'r carchardŷ, Jer. lii. 31. Bob tair *blynedd* yr oedd ail Adar yn cael ei chwanegu, yn cynnwys deg diwrnod ar hugain. (2.) *Adar*, mab Ismael, Gen. xxv. 16. (3.) Brenin Edom, Gen. xxxvi. 39; a enwyd hefyd *Hadad*, 1 Cron. i. 50. (4.) Enw lle, Jos. xv. 3.

ADAR, ADERYN, *(atar, cyffroad)* neu ehediaid. Y mae eu cyrph wedi eu gorchuddio â phlu; a dwy o adenydd, a gylfin o gyfansoddiad tebyg i gorn iddynt oll. Y mae y fenyw yn dyfod a chywion trwy ddeor ar wyau: Ni feddant na dannedd, gweflau, na chlustiau allanol; na llestri llaethog, arenau, na chwysigen ddwfr. Y mae rhai o honynt yn ysglyfaethus, yn ymborthi ar gig; ereill yn ymborthi ar rawn: y mae rhai o honynt yn adar tramwyol, yn symmud yn y gauaf i ardaloedd gwresocach. Y mae rhai o'r adar yn canu, ereill yn peidio. Y mae rhai o honynt yn ymgyrchu i

Carat, y drydedd ran o wns.

ddyfroedd a chorsydd; ereill i dir sych, coedydd, &c. Yr estrys ydyw yr eheiad mwyaf, adnabyddus i ni, ac aderyn mwngialog* America, y lleiaf. Oddi wrth ddull eu gylfin y mae Linnæus yn dosparthu adar yn chwech rhyw: y rhyw hebogaidd, â gylfinau bachog; y rhyw biogaidd, â gylfinau discynedig; rhywiogaeth yr wydd, â gylfinau danheddog; rhyw y cyffylog, â gylfinau lled-grwn a phŵl; rhywiogaeth yr iar, â gylfinau ceimion, blaenfain; a rhywiogaeth aderyn y tô, â gylfinau teneu blaenfain. Prin y mae yn debygol, y dichon y gwahanol rywiogaethau o adar fod dros 200: nid oedd neb o honynt, heblaw turturau neu gywion colomenod, yn perthyn i'r seremoniau Lefiaidd, oddieithr fod, ysgatfydd, adar y tô yn cael eu defnyddio yn nglanhad gwahangleifion. Gwarafunodd Duw i'r Hebreaid ddal y fam gyda'r cywion, ond gadael i'r fam ddiange pan y byddent yn yspeilio ei nyth. Gwaharddodd hefyd iddynt fwyta cig lluaws o honynt, Deut xxii. 6, 7, a'r xiv. Lev. xi. Y ddau aderyn a gymmerid i lanhau y gwahanglwyfus, un o ba rai a leddid goruwch llestr pridd llawn o ddwfr rhedegog, a'r llall wedi ei drochi yn y cymmysgedd o waed a dwfr, a ollyngid yn rhydd ar wyneb y maes, a allan i arwyddo dwy natur Crist, y naill yn dyoddef a'r llall yn buddugoliaethu ar angau: ac hefyd ei ddau gyflwr, yn y naill efe a offrymodd ei hun trwy yr ysbryd tragywyddol, yn y llall efe a adgyfododd, ac a escynodd i'r gogoniant, Lev. xiv. 3—7. Y mae yr Arglwydd yn amddiffyn ei bobl, *megys adar yn ehedeg*; y mae yn edrych i lawr arnynt gyda thosturi; y mae yn dyfod ar frys i'w cynnorthwyo, ac yn eu gorchuddio hwynt â dylanwad ymgeleddol ei allu, ei drugaredd, a'i ddaioni, Esa. xxxi. 5. Dynion yn gyffredinol a gyffelybir i *adar ac ehediaid*; y maent yn weiniaid, yn hawdd i'w maglu, yn drallodus, ac yn crwydro yn fynych oddi wrth eu priodol orphwysfa, Diar. v. a'r vii. xviii. a'r xxvii. 8. Galar. iii. 52; ac y maent yn llettya dan nawdd, ac yn cael eu cynnal gan gynhaliaeth Crist, neu lywodraethwyr daearol, megys brénhinoedd Babilon, yr Aipht, &c. Ezec. xvii. 23. a'r xxxi. 6. Dan. ii. 38. Y mae y saint yn gyffelyb i *adar*, yn weiniaid, yn hawddgar, yn fywiog, yn agored i orthrymder, yn cael eu gwared yn fynych yn rhyfeddol o faglau, ac yn canu mawl yn beraidd; ac y maent yn gorphwys dan gysgod, ac ar gangeuau cynnaliaethol Iesu, pren y bywyd, Can. ii. 12. Ezec. xvii. 23. Salm cxxiv. 7. Y mae ein cyfleithad ni yn cyffelybu yr Iuddewon i *aderyn brith*, a'r Caldeaid i *adar ysglyfaethus*: ond, oni allai yr ymadrodd gael ei gyfleithu yn well, *Fy etifeddiaeth sydd i mi fel hyena gwyllt a ffyrnig?* Y mae wedi camddefnyddio fy ngharedigrwydd, ac wedi talu i mi gâs am fy nghariad; *am hyny y mae'r adar o amgylch yn ei herbyn hi*, Jer. xii. 9. Yr oedd yr Israeliaid yn dychrynu *fel aderyn o'r Aipht*; ei cyssylltiad â'r Aipht a hudodd yr Assyriaid i'w difetha hwynt, Hos. xi. 11. Eu gogoniant a ehedodd ymaith *fel aderyn o'r enedigaeth, ac o'r beichiogi*. Nid oedd eu gallu a'u hanrhydedd ond prin wedi eu hadferu dan Jehoas, Jereboam ei fab, a Peca, pan y llwyr ddinystriwyd hwynt gan yr Assyriaid, Hos. ix. 11. Y Moabiaid gorthrymedig, a Dafydd yn ei alltudaeth oeddynt fel *adar crwydredig* wedi eu gyrru o'u cartref, heb wybod i ba le i fyned, Esa. xvi. 2. Salm xi. 1. Yr Anghristiau a osodir allan fel *adar afian ac atgas*, am eu gorthrymder, llofruddiaeth, a halogrwydd eu hathrawiaeth a'u hymarferiad, Dad. xviii. 2. Y rhai a ddinystrant Anghrist, Gog a Magog, a elwir yn *adar*; fel eheiadiaid ysglyfaethus, hwy a ddrylliant eu personau, ac a ymafaelant yn eu gallu a'u golud, Dad. xix. 21. Ezec. xxxix. 17. Cyrus y Persiad ydyw yr *aderyn ysglyfaethus* yr hwn a alwodd Duw o'r dwyrain. Efe gyda ei lu, a frysiodd i ddifrodi a darostwng Babilon, a gwledydd ereill o du y gorllewin i'w eiddo ei hun, Esa. xlvi. 11. *Ehediad yr awyr a fynega'r peth*; cyhoeddir ef trwy foddion na feddyliasom erioed am danynt, Eccl. x. 20. Fel y *mae yr aderyn wrth grwydro*, a'r *wennol wrth ehedeg*, yn diogelu ei hun rhag yr adarwr; *felly y felldith ddiachos ni ddaw* ar y dyn diniwed; neu,

* *Humming.*

melldithion a rhegion diachos a ehedant dros benau dynion, heb gyffwrdd â hwynt, fel y gwna yr adar hyn, Diar. xxvi. 2.

ADARWR—WYR, *(adar-gwr)* un sydd âg arfau tân, saethau, neu rwydau, yn ymgais a dal adar. Y mae Satan yn *adarwr;* gyda mawr gyfrwysdra a dichell, y mae efe a'i offerynau yn gosod maglau a phroffedigaethau er dinystr dynolryw, Salm xci. 3. Diar. vi. 5. Y cyfryw ag sydd yn gorthrymu, ac yn ceisio dinystr eu cymmydogion, neu yn ymdrechu eu rhwydo hwynt i bechod neu berygl, a elwir yn *adarwyr*, Salm cxxiv. 7. Jer. v. 26.

ADEILAD—U, *(ad-ail)* adail, eiliad, tŷ. (1.) Gwneuthur tŷ neu fur, trwy gasglu a gosod amryw ddefnyddiau yn nghyd, Deut. xxviii. 30. Mat. vii. 24. (2.) Llwyddo achosion teulu, neu deyrnas, yr hyn ni ddichon neb ei wneuthur ond yr Arglwydd, Salm cxxvii. 1. Pan sonir am Dduw yn *adeiladu* dynion, dinasoedd, muriau, &c. meddylir eu cynnal a'u helaethu, Job xxii. 23. Salm li. 18. Jer. xviii. 9. (3.) Cryfhau a chynghori ein gilydd yn y ffydd Gristionogol, 1 Cor. iii. 10. Col. ii. 7. (4.) Cyfodi eglwys o'r Cenhedloedd i uno â'r Iuddewon yn addoliad Duw, Can. xiii. 9.

ADEILADAETH, *(adail)* adeilad; cyngor, addysgiad, hyfforddiad (1.) Tŷ o waith dwylaw dynion, Ezra v. 4. (2.) Cynghorion ysbrydol i'r saint, 1 Cor. iv. 3. 1 Tim. i. 4. (3.) Eglwys a phobl Dduw ar y ddaear, 1 Cor. iii. 9. (4.) Nef y gogoniant, cartrefle y saint, 2 Cor. v. 1.

ADEILADWR—WYR, *(adail)* adeiliwr, saernïwr. Arwydda (1.) Duw, yr hwn a wnaeth bob peth trwy ei air, Gen. i. 3. Heb. xi. 10. (2.) Gweinidogion ffyddlon yr efengyl, y rhai sydd yn *adeiladu* y saint ar Grist fel eu sylfaen, 1 Cor. iii. 10. (3.) Llywodraethwyr achosion tymhorol, Salm cxxvii. 1. (4.) Yr Iuddewon, y rhai a wrthodasant Grist, pen congl-faen, a sylfaen safadwy ei eglwys, Salm cxviii. 22. 1 Pedr ii. 7.

ADEN—YDD, (o *adaw* ehedeg) asgell, adain, ffilawg. Yr aelodau pluog hyny o eiddo adar, â pha rai yr ehedant yn yr awyr, y diogelant ac y cynhesant eu cywion, Job xxxix. 13. Yr oedd yr Hebreaid yn rhoddi yr enw *aden* i unrhyw beth a fyddai yn gyffelyb iddi; megys, yn (1.) Cwr mantell, Ruth iii. 9. Jer. ii. 34. (2.) Eithafoedd neu derfynau gwlad, Job xxxviii. 13. Esa. xxiv. 16. (3.) Mur-ganllaw tŷ; oddi yma, ysgatfydd yr oedd y rhan hono o'r deml yr oedd ein Iachawdwr yn sefyll arni, yn cael ei galw pinacl neu *aden*, Mat. iv. 5. (4.) Pelyderau ymdaenol a chynes yr haul, Mal. iv. 2. (5.) Hwyliau llong, neu gysgodau mynyddoedd uchel, Esa. xviii. 1. (6.) Llu wedi ymdaenu allan fel adenydd, Esa. viii. 8; ac felly, geill *asgell ffleidd-dra* arwyddo lluoedd y Rhufeiniaid y rhai a wnaethant Judea yn anghyfanedd-dra dan Titus Vespasian, Dan. ix. 27. (7.) Summudiadau y gwynt, a'r Arglwydd yn marchogaeth ar ei *adenydd*, sydd yn arwyddo cyflymdra yr Arglwydd, yn gwared, yn dyddanu, ac yn diogelu ei bobl, Salm xviii. 10. Wrth *adenydd* y cerubiaid a'r seraphiaid y dangosir parodrwydd a chyflymdra angelion, ac ereill o wir weision Duw at ei waith, ac yn ei wasanaeth, Esa. vi. Ezec. i. a x. *Adenydd y saint*, â pha rai y maent yn ehedeg i fynu at Dduw a'r pethau sydd uchod, ydynt eu ffydd, eu gobaith, eu cariad, eu serchiadau sanctaidd, a'u myfyrdodau nefolaidd, Esa. xl. 31. *Adenydd* neu *esgyll* Haul Cyfiawnder ydynt yn arwyddo effeithiolddeb rhinweddol gwir adnabyddiaeth o Grist yn ei berson a'i swyddau, i feddyginaethu a dyddanu ei bobl yn eu holl orthrymderau, Mal. iv. 2.

ADENEDIGAETH, (*ad* a *geni*) ailenedigaeth, adgenhedliad, adnewyddiad. Gwaith yr Ysbryd Glân, trwy ba un, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Iesu, y mae ei ras yn cael ei blanu ynom, a ninau yn cael ein had-eni, a'n cyfnewid yn ysbrydol yn ein holl ddyn. Y mae ein meddwl yn cael ei adnewyddu; wedi ei gynysgaethu â goleuni ysbrydol, y mae yn deall, yn barnu, yn hoffi, yn bwriadu, yn chwilio, yn rhesymu, yn meddwl, ac yn myfyrio ar bethau newyddion, ac mewn dull newydd.

I. Arwydda *adeni* fod deiliaid adenedigaeth mewn bod eisoes fel creaduriaid. (1.) Nid rhoddi bod iddynt yw eu hailenì; ond gweithredu ynddynt wahanol ddull o fod o

ran eu sancteiddrwydd, a'u perthynas â Duw, â Christ. Y mae y ddwy enedigaeth yn wahanol i'w gilydd. Eu genedigaeth gyntaf sydd ar ddelw eu rhieni pechadurus; ond yr adenedigaeth sydd ar ddelw Duw—yr enedigaeth gyntaf sydd o had llygredig; ond yr ail o had anllygredig—yr enedigaeth gyntaf sydd mewn pechod; ond yr ail sydd mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd—yn yr enedigaeth gyntaf y maent yn blant digofaint; ond yn yr ail ymddengys eu bod yn wrthddrychau cariad Duw. (2.) Gelwir adeni yn *fywhau*: "A chwithau a *fywhaodd* efe," &c. Eph. ii. 1. Golygir hwynt, fel ereill, cyn eu hadeni, yn feirw mewn pechod; ac yn gwbl amddifaid o'r bywyd hwnw sydd yn cael ei gyfranu iddynt yn yr adenedigaeth, a hollol groes iddo. Y mae y deall yn dywyll—yr ewyllys yn gyndyn—y serchiadau yn gnawdol ac yn ddaearol—y meddyliau yn ofer—ac amryw chwantau yn cael eu gwasanaethu gan yr holl ddyn. Y mae pob peth tu yma i fywhau yr enaid yn sanctaidd ac yn dduwiol, yn ei adael yn fyr o adenedigaeth. (1.) Geill dyn gael ei fedyddio ac etto heb gael ei ail-eni. Arwydd weledig o ras ysbrydol oddi fewn ydyw bedydd; ond meddiannu y gras ysbrydol hwnw yw adeni dyn. (2.) Geill dyn gael ei olchi, ei oleuo, ei ddiwygio, a phrofi llawer o dymherau athrist a gorfoleddus; meddiannu doniau, a lle parchus yn yr eglwys, ac etto heb ei fywhau yn ysbrydol trwy adenedigaeth. (3.) Y mae bywhad, a golchiad yr adenedigaeth, yn tra rhagori ar bob peth mwyaf golygus yn y rhagrithiwr mwyaf enwog, ac ar yr holl ystumiau ac agweddau o amrywiol fath yn y dorf o broffeswyr gwag, amserol, a thwyllodrus, Mat. vii. 15, &c. a x. 43, 45, a xiii. 19, 20, 21, a xxv. 3, 4. Hos. vi. 4, 10. Yn y bywhad hwn, y mae yr holl enaid, yn ei holl alluoedd, yn cael gweithredu arno. Y mae yr hen ddyn yn cael ei ddiosg, a'r *dyn* newydd yn cael ei wisgo, Eph, iv. 22—24. Y maent, sef yr adgenhedlig, yn byw bywyd newydd, nid iddynt eu hunain nac i chwantau dynion, ond i Dduw, i Grist, yr hwn a fu farw drostynt ac a gyfodwyd; y maent yn rhodio mewn newyddeb buchedd.

3. Gelwir *adenedigaeth*, "*Ffurfio Crist yn y galon*" Gal. iv. 10. Y mae y dyn newydd yn ol delw yr hwn a'i creôodd yn newydd, yr hon yw delw Crist. Tebygola y sawl a ail-anwyd i Dduw fel Tad, ac i'r Arglwydd Iesu, Mab y Tad, fel eu brawd. Os ydynt yn cael eu geni o Dduw, y maent yn debyg iddo, ac yn debyg i Grist yr hwn yw delw Duw. Y mae rhyw anwyldeb parchus, diolchgar, a gostyngedig yn nghariad y dyn newydd at Dduw fel Tad, ac at Grist fel ei Achubydd. Y mae delw yr hwn sydd yn cenhedlu ar yr hwn a genhedlir o hono, 1 Ioan iii. 2, 9. Nid sancteiddrwydd mewn creadur, yn unig, sydd yn yr adenedigion, fel yn Adda, ac yn yr angelion; ond sancteiddrwydd yn gweithredu mewn pechadur a fabwysiadwyd, a adgenhedlwyd, ac y mae ei holl weithrediadau yn cyfatteb i hyny.

4 Gelwir *adenedigaeth*, "*Cyfranogi o'r dwiol anian*," 2 Pedr. i. 4. Nid o anian Duw, a'i hystyried yn hanfodol ynddo; hyny nis dichon un creadur wneuthur; ond yn yr adenedigaeth, gweithredir hyny yn yr enaid ag sydd yn ei debygoli i'r natur ddwyfol mewn cariad, sancteiddrwydd, daioni, ysbrydolrwydd, &c. ac am hyny a elwir y dduwiol anian.

II. Priodolir *adenedigaeth* i bob un o'r Personau Dwyfol. (1.) I'r Tad, yr hwn o'i fawr drugaredd sydd yn ein hadgenhedlu ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw, 1 Pedr i. 3. (2.) I'r Mab, efe yw'r adgyfodiad a'r bywyd; y mae yn bywhau y neb y mynno, fel y Tad; ac y mae y meirw yn clywed llef Mab Duw yn yr efengyl, Ioan v. 25. (3.) Ond yn nhrefn fawr yr iachawdwriaeth, priodolir y gwaith ardderchog hwn i'r Ysbryd Glân mewn modd arbenig, Ioan iii. 4. Efe sydd yn uno yr enaid á Christ, ac yn ei fywhau a'i nerthu i gymmeryd gafael arno; ac yn parhau i drigo yn ei galon fel gwreiddyn pob gras, a'r achos effeithiol o bob tueddiad sanctaidd.

III. Yn gyffredinol, trwy gyfrwng yr efengyl, y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu y cyfnewidiad hwn. Am hyny dywedir eu bod wedi eu hail eni *trwy air* Duw, 1 Pedr. i. 23. Eu bod wedi eu hynnill trwy air y

gwirionedd, Iago i. 18: a gelwir gweinidogion y gair yn *daduu ysbrydol*, 1Cor. iv. 15. Gweinidogaeth yr efengyl yw y moddion trwy ba rai y mae yr Ysbryd yn gweithredu, ac yn cyfranu gras i enaid y pechadur. Ymae pregethiad yr efengyl yn ordinhad o sefydliad dwyfol i'r dyben hwn, yn un peth, Ezec. xxxvii. Marc xvi. 15, 16. Y mae ei effeithiolded yn dybynnu ar ewyllys Duw, ond y mae, fel moddion, yn ddigonol ac yn addas at bob gwaith sydd gan Dduw i'w wneuthur ar ei bobl; sef eu hail-eni, eu bywhau, eu dysgu, eu dychwelyd, eu rhyboddio, a'u dyddanu, 2 Tim. iii. 16. Heb. iv. 12. Y mae yr efengyl, fel moddion, mor addas i genhedlu bywyd, ag ydyw i fagu a chynnal bywyd. Yr un gair sydd yn braenaru ac yn gwneuthur y tir yn dda, ag y sydd, wedi hyny, yn had da yn tyfu ynddo, ac yn dwyn ffrwyth.

IV. Ffrwythau yr *adenedigaeth*. (1.) O ran y deall, yr hwn, trwy bechod sydd dywyll, o herwydd dallineb y galon, Eph. iv. 18: trwy y cyfnewidiad ysbrydol hwn, y mae y dyn newydd yn feddiannol ar ddeall da ger bron Duw a dynion, Diar. iii. 4. Ac y mae wedi derbyn goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist, 2 Cor. iv. 6. Y mae yn gwybod fod Duw yn gyfiawn, ac yn gwybod hefyd, fod pob un ar sydd yn gwneuthur cyfiawnder, wedi ei eni o Dduw, 1 Ioan. ii. 29. (2.) O ran yr ewyllys, yr hwn drwy bechod, nid yw ddim amgen nag ewyllys-grefydd, a rhith gostyngeiddrwydd, [Col. ii 23; wedi ei gyfnewid, y mae y credadyn a'i ewyllys ef yn nghyfraith yr Arglwydd, Salm i. 2. Y mae ei ewyllys ef yn cyd-ymffurfio âg ewyllys Duw, mewn ufudd-dod; ac yn golygu ei ogoniant yn y cyfiawniad o bob dyledswydd. (3.) Y serch: y mae y dyn sydd heb ei ail-eni, a'i serch arno ei hunan, 2 Tim. iii. 2; ond wedi ei gyfnewid, y mae ei serch ef ar y pethau sydd uchod, Col. iii. 2. Y mae efe yn cashau pechod, ac yn caru yr Arglwydd; yn galaru oblegyd llygredd, yn llawenhau yn yr Arglwydd, ac yn hiraethu am gymundeb âg ef.

Gallasid dangos yn mhellach fel y mae y gydwybod, y cof, &c. trwy y cyfryw gyfnewidiad yn tueddu at yr hyn sydd dda: ond gan y cawn achlysur dan y cyfryw eiriau i ymhelaethu arnynt yn eu lleoedd priodol, ymattaliwn yn bresennol.

ADERYN Y TO, y golfan, aderyn digon adnabyddus; â cheg ddu ac arleisiau llwyd-dduon iddo: ymddengys eu bod yn ymborth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon, a bod dau o honynt yn cael eu gwerthu er ffyrling, Mat x. 29. Luc xii. 6. Er lleied eu gwerth, etto y mae gofal Duw am danynt y fath, fel na chânt syrthio o flaen yr heliwr, nac ychwaith ddiscyn ar y ddaear i gasglu eu lluniaeth, heb ei sylw arnynt; yr hyn sy'n dangos manylrwydd rhagluniaeth Duw, a'i ofal am ei holl greaduriaid, hyd yn nôd y rhai gwaelaf a mwyaf diwerth. Y mae yr Hebraeg *Tzippor*, yn arwyddo unrhyw aderyn glân. I nodi ei gyflwr adfydus, ac athrist, y mae Dafydd yn cyfelybu ei hun i aderyn y tô unig ar ben y tŷ, Salm cii. 7.

ADFER—U, *(ad-meru,* dihoenu,) edfryd, adnewyddu, talu adref; gosod i fynu o newydd; dwyn yn ol yr hyn a gollwyd; ail-adeiladu, neu ailsefydlu, Esa. i. 26. Dan. ix. 25. Zeph. iii. 9.

ADFERIAD, *(ad-meriad)* adnewyddiad, edfrydiad, dychweliad yn ol i'w le priodol. "Yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn hyd amseroedd *adferiad* pob peth," Act. iii. 21. Sef diwedd byd a dydd barn. Y mae yr apostol yn cynnwys yma ar unwaith holl ystod amser y Testament Newydd, yr hyn sydd rhwng escyniad ein Harglwydd a'i ddyfodiad mewn gogoniant. Y rhan fwyaf ragorol o'r amser hwn oedd yr oes apostolaidd, a'r un hono o ddidd'r eglwys ddifrycheulyd, pan y bydd yr holl Iuddewon wedi eu huno yn nghyd, a phob erlidigaethau a gwrthgiliadau wedi myned heibio.

ADFERWR, *(adfer-gwr)* aderiedydd, adgyweiriwr, amgeleddwr, "Efe fydd i ti yn adferwr einioes," Ruth iv. 15. Rhan o gyfarchiad gwragedd duwiol Bethlehem i Naomi, ar waith Boaz yn priodi Ruth ei merch yn nghyfraith; yn gosod allan y byddai Boaz yn gynnaliaeth ac yn amgeleddwr iddi, yn ei hen ddyddiau, ar ol yr holl gyfnewidiadau a'r siomedigaethau yr aethai hi drwyddynt.

ADFESURAW, *(ad-mesuraw)* mesur eilwaith. "A pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau," Math. vii. 2. Diareb Iuddewig

ydyw, ac yn arwyddo, na ddylid gwneuthur â neb, ond fel yr ewyllysiom iddynt hwythau wneuthur â ninau. Felly y gallwn, fel pe byddai ar ein dewisiad ein hunain, ddysgu, pa un ai llym ai trugarog fydd Duw wrthym. Mae Duw a dyn yn hoffi yr hynaws a'r cariadus: ond rhaid i'r rhai na *wnaethant drugaredd* ddisgwyl *barn ddidrugaredd*.

ADFYD, (*ad-byd*) blinfyd, trallod, blinder, cystudd. Y mae adfyd tymhorol ac ysbrydol yn cyfarfod yn fynych â'r duwiolion yn y byd hwn Esa. xxvi. 16. Luc xvi. 25. Dywed Solomon, "Yn amser gwynfyd bydd lawen," pan yr enfyn Duw ei fendithion ysbrydol a thymhorol yn gawodydd i lawr arnat, cydnebydd ei law, canmol ef am ei drugaredd, a defnyddia hi er ei ogoniant: "Ond yn amser adfyd ystyria" y dyben i'r hwn y cafodd cystudd ei anfon, a chais gyd-fynod âg amcan Duw yndo. Y byd hwn sydd gyfnewidiol; am hyny ni ddylem fod wedi derchafu ein meddwl ormod gan lwyddiant; na'i ddarostwng gan adfyd; eithr llawenhau mewn ofn, ac edrych yn mlaen mewn gobaith, Preg. vii. 14.

ADFYWIO, (*ad-byw*) dadebru, dadlewygu; (3.) Dyfod yn fywiog, ac yn siriol, ar ol llawer o lesmair a thristwch, Gen. xlv. 27. (2.) Byw drachefn ar ol bod yn farw, neu fel un marw, Rhuf. xiv. 9. Hos. xiv. 7. (3.) Bywhau, a gwneuthur yn fywiog ac yn heinyf, Salm lxxxv. 6. "*A ifywiodd* pechod, a minau a fum farw," Rhuf. vii. 9. Cymmerodd fy mhechod tufewnol dân, a'm holl rinweddau a'm gallu a ddiflanasant ymaith. Ac yna gwelais fy bun yn farw mewn pechod, ac yn agored i'r farwolaeth dragywyddol.

ADGENHEDLU, (*ad-cenedl*) ailgenhedlu, ail-eni, ad-ffurfio; gweithred yr Ysbryd Glân trwy weinidogaeth y gair, yn cenhedlu y dyn newydd, neu yn crëu y creadur newydd, yn ol Duw, mewn cyfiawnder a gwir sanctoiddrwydd; adferu y ddelw a gollwyd yn Eden, a'i gosod yn yr enaid, 2 Cor. v. 17. Eph. iv. 24. Gwel ADENEDIGAETH.

ADGYFOD—I—IAD, (*ad-cyfod*) ail godiad, neu gyfodiad drachefn oddi wrth y meirw, sydd naill ai (1.) Gwladol, pan y mae person neu genedl yn cael ei hadferu o gyflwr o adfyd a chaethiwed, megis yn achos Dafydd, Hezeciah, Paul, &c. Salm xxv. 3, 4. Esa. xxxviii. 16. 2 Cor. i. 9, 10. Y genedl luddewig, Galar. iv. 20. Hos. vi. 1, 2. Ezec. xxxvii. 1—14. (2.) Ysbrydol, o gyflwr o farwolaeth mewn pechod, i fywyd a dedwyddwch ysbrydol; ac y mae hyn naill ai yn adgyfodiad personau neilldual, pan y byddant yn cael eu hadgenhedlu a'u hail eni, Ioan v. 25. Eph. ii. 1, 5. Col. ii. 12, a iii. 1, neu yr eglwys, pan trwy ddylanwadau Crist, y bydd hi yn cynnyddu yn ddirfawr yn ei haelodau, a hwythau yn eu rhodiad bywiog gyda Duw, ac yn eu cyssur a'u llwyddiant allanol. Cymmer hyn le yn ardderchog yn nechreu y Mil blynedd-oedd, ac a elwir yr *adgyfodiad cyntaf*, Esa. vi. 5, 9, 12, a lx. 1. Rhuf. xi. 14. Dad. xx. 1—3. (3.) Corphorol, pan yr adferir cyrph meirw i fywyd. Y bydd cyfodiad cyffredinol cyrph meirw gwyr a gwragedd, sydd yn dra chydunol â rheswm.

(1.) "Crist a *gyfodwyd* oddi wrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant," 1 Cor. xv. 20. (1.) Y mae adgyfodiad Crist yn athrawiaeth sylfaenol yn y grefydd Gristionogol, ac yn cynnwys pob athrawiaeth arall yndi. Os cyfododdCrist, bu farw; os bu farw, ymgnawdoloddd; canys heb hyny nis gallasai farw. Fel yr oedd yn Dduw ac yn ddyn hollol rydd oddi wrth bechod, nis gallasai angau gael awdurdod arno, ond o'i wir-fodd ei hun: os bu farw o'i wir-fodd, bu farw i atteb rhyw ddybenion pwysfawr i ereill; ac os cyfododdo feirw, y mae y dybenion hyny wedi eu hatteb yn gyflawn. (2.) Rhagddywedwyd gan y prophwydi am ei adgyfodiad, a'r amgylchiadau o hono, Job xix. 25. Salm xvi. 10, 11, a xxii. 19, a cx. 7. Esa. xxv. 8, a liii. 8. (3.) Rhagddangoswyd ei adgyfodiad trwy lawer o gysgodau; megys, yn ngwaredigaeth Isaac pan oedd ei dad yn bwriadu ei offrymu; yn nerchañad Joseph o'r carchar: yn ngwaredigaeth Jonah o fol y morfil; Gen xxii. Heb. xi. 19. (4.) Y mae genym y sicrwydd mwyaf o wirionedd ei adgyfodiad. Y mae genym dystiolaeth gelynion, sef y milwyr a'r arch-offeiriaid—angeion a sierhasant ei adgyfodiad wrth

y gwragedd a aethant at y bedd—ymddangosodd i'w ddysgyblion dros ddeg o weithiau wedi adgyfodi—ymddyddanodd lawer â hwynt, a bwytaodd ac a yfodd yn eu gwŷdd, Mat. xxviii. Ioan xx. a xxi. Act. ix. 3—17. 1 Cor. xv. 5, 6, 8.

Y mae discyniad yr Ysbryd Glân, yn neilldiol, yn *sicrhau hyny, yn ol addewid Crist ei hun*, Act. i. 11. Y mae rheswm yn lled-arwyddo fod cyfraith Duw wedi cael ei rhoddi i ein holl ddyn, a'i bod yn cael ei throseddu gan ein henaid a'n corph yn gyssylltiedig. Y mae y corph, fel porthladd agored, yn derbyn awgrymau i ddaioni, a deniadau i bechod. Y mae chwantau y cnawd yn ymddibynu ar y corph, yn llygru, yn camarwain y meddwl a'r serchiadau. Y gweithredoedd allanol y mae'r enaid yn fwriadu, pa un bynag ai da ai drwg, y mae y corph yn eu cyflawni. Pan y mae y galon yn llawn casineb at Dduw, a phob anghyfiawnder, y mae y tafod, ac aelodau ereill y corph, yn offerynau i'w cyflawni. Pan y mae yr enaid a adnewyddwyd, yn caru ac yn glynu wrth Iesu Grist, y mae y tafod yn traethu ei foliant, a'r aelodau corphorol ereill yn llafurio, neu yn dyoddef er ei fwyn. Os ydyw y gwahanol ranau hyn o'r natur ddynol yn cyfranogi, fel hyn, o weithredoedd da neu ddrwg, rhesymol ydyw iddynt hefyd gyd-gyfranogi o'r wobr, neu gospedigaeth tragywyddol. Ac oddi wrth hyn rhaid adferu y corph i fywyd, a'i ad-uno â'r enaid, nid byth i'w gwahanu mwy. Y mae marweiddiad hadau, fel y bydd iddynt adfywio a thyfu i fynu, ymadfywiad coed gwiwedig, a gwreiddiau, yn y gwanwyn, yn rhag-arwyddion naturiol o'r adgyfodiad hwn, Ioan xii. 24. 1 Cor. xv. 36. Trosglwyddiad Enoch ac Elias i'r nefoedd, enaid a chorph; adferiad amryw i fywyd trwy law Elias, Eliseus, ac Iesu Grist a'i apostolion, ond, yn benaf, adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw, ydynt rag-arwyddion annadleuadwy o hyn. Dangosodd Duw y gwirionedd o hyn i Moses wrth y berth, trwy alw ei hun yn Dduw y Patrieirch ar ol eu marw; yr hyn oedd yn arwyddo fod eu henaid, ac y gwnai eu cyrph fyw i Dduw, Luc xx. 37, 38. Yn nghanol ei holl gystudd, yr oedd Job, yn credu yn gadarn, nid y byddai iddo gael dychwelyd i lwyddiant yn y bywyd hwn, o herwydd hyn ni wnaeth efe, Job vi. 8, 9, a vii. 7, 8, a x. 21, a xvi. 22. ac y mae ei eiriau yn rhy dderchafedig i osod allan y fath ddygwyddiad à hwnw; ond, yn y diwedd, y byddai i'w Brynwr ei gyfodi ef oddi wrth y meirw, a pheri iddo yn ei gnawd, yn yr un corph ag oedd ganddo y pryd hwnw, weled Duw, fel ei gyfaill, a'i gyfran, Job xix. 25, 26, 27. Gyda golwg ar hyn y mae Duw yn dyddanu ei eglwys, Esa. xxvi. 19. Dan. xii. 2, 3. Yn y Testament Newydd, haerir y gwirionedd hwn yn amlwg, mewn lluaws o destynau, Luc xiv. 14. Ioan vi. 39, 40, 44, a 54, a'r xi. 24—26, a'r xiv. 19. Mai yr un corph a gyfodir, sydd yn eglur oddi wrth y rhesymau rhag-grybwylledig, yn gystal ag oddi wrth natur yr adgyfodiad ei hun. O herwydd os nid yr un corph a gyfodir, ni ddichon fod yn adgyfodiad, ond creadigaeth newydd. Y corph a fu unwaith yn wael, yn farwol, yn afiach, a fu farw ac a gladdwyd, ac a ddygodd ddelw yr Adda daearol, hwnw a gyfodir, a newidir, ac a ogoneddir, Phil. iii. 21. Rhuf. viii. 11. Job xix. 26, 27. Ioan v. 28. Mai cyrph y saint a gyfodir yn gyntaf, ac a wneir yn ogoneddus, yn gyffelyb i gorph gogoneddus Crist, ac yn ysbrydol, fel ag i fod heb eisiau bwyd na diod, ac yn ddirwystr i'r enaid, sydd hefyd yn amlwg. Nid oes dim ag sydd yn gymhwys, yn anmhosibl i allu a doethineb Duw. Ond bydded i ni wyhod, a chofio yn ddifrifol, mai trwy *adgyfodiad bywyd*, y bydd i'r duwiol, yn gyntaf, mewn trefn ac mewn modd gogoneddus, gael eu cyfodi i fwynhau gwynfyd tragywyddol: a thrwy *adgyfodiad barn*, y bydd i'r annuwiol gyfodi i warth a phoen tragywyddol; tra y bydd i uffern roddi fynu ei heneidiau ymadawedig, a'r môr a'r ddaear ddwyn allan eu cyrph meirw, Ioan v. 28, 29. Dad. xx. 12, 13, 14.

ADGYWEIRIO, *(ad-cywair)* ail drefnu, tacclu, trwsio, "Os goddiweddir dyn ar ryw fai, chwychwi y rhai ysbrydol, *adgyweiriwch* y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder," Gal. vi. 1. *Adgymmalwch* y cyfryw un, neu dygwch ef i deimlad o'i bechod, i grediniaeth o drugaredd

faddeuol Duw, ac i wellhad mewn ymarferiad; ac i gael dyfodfa i ordinhadau seliawl fel o'r blaen. Dylai pob un a allo, roddi cynnorthwy yn hyn, trwy geryddon, hyfforddiadau, neu gyngorion.

ADNABOD, (*nabod*) gwybod, deall. "Am hyny, o hyn allan nid adwaenom neb yn ol y cnawd; ac os buom hefyd yn *adnabod* Crist yn ol y cnawd, etto yn awr nid ydym yn ei adnabod ef mwyach," 2 Cor. v. 16. O'r amser yr adwaenasom gariad Crist, nid oes genym un pleidgarwch i'r Iuddew, mwy na'r Cenedl-ddyn, ar gyfrif gwaedoliaeth y cyntaf. Nid ydym yn parchu neb yn awr ar gyfrif unrhyw fanteision bydol, cyfoeth, dysgeidiaeth, neu ddoethineb; ac nid oes gan y rhai a welsant, ac a ymddyddanasant â Christ, tra yr oedd ef ar y ddaear, un hawl yn awr i flaenoriaeth arnom ni. Nid oes neb yn adnabod Crist i unrhyw leshad parhaus, mewn un ffordd, ond yn y graddau y mae ef yn teimlo ei allu, ac yn ufuddhau i'w ddeddfau.

"A hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy *adnabod* di yr unig wir Dduw," Ioan xvii. 3. Gan ei barchu, ei garu, a rhoddi pob ufudd-dod iddo; *yr unig wir Dduw*—Nid ydyw hyn yn cau allan **'y** Mab a'r Ysbryd Glân, ddim mwy nac y mae y Tad yn cael ei gau allan rhag bod yn Arglwydd, 1 Cor. viii. 6. Ond cau allan gau dduwiau y Cenedloedd y mae yr apostol—*a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist*—i'n hachub, trwy ei gyffessu, ac ymddiried ynddo, fel yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion; *adnabod* Duw yn y modd hwn, fel ein Creawdwr ac Achubwr ein heneidiau trwy ei Fab, *yw y bywyd tragywyddol*—y ffordd iddo a'r sylwedd o hono.

ADNEWYDDU, (*ad-newydd*) diwygio, ail-gyweirio; (1.) Gwneuthur peth drosodd drachefn, Rhuf. xii. 2. (2.) Adgyweirio a glanhau, 2 Cron. xv. 8. (3.) Cadarnhau, sefydlu, 1 Sam. xi. 14. Y mae Duw yn *adnewyddu* wyneb y ddaear, pan y mae yn dychwelyd y gwanwyn yn ol, ac yn rhoddi cenedlaeth newydd o greaduriaid i adlenwi y ddaear, Salm civ. 30. Y mae efe yn *adnewyddu* dyddiau ei bobl, pan y mae yn eu dwyn hwynt allan o gaethiwed ac yn eu hadferu i gyflwr blodeuog, Galar. v. 21.

ADONAI sydd un o enwau Duw, ac yn arwyddo, yn briodol, fy Arglwyddi, yn y nifer lluosog, fel y mae Adoni yn arwyddo fy Arglwydd, yn y rhif unigol. Yr Iuddewon, allan o barch neu goel-grefydd, nid ydynt yn lleferu yr enw Jehofah, ond darllenant Adonai yn ei le ef, mor fynych ag y cyfarfyddont â Jehofah yn y testun Hebrëig. Nid oedd yr hen Iuddewon, pa fodd bynag, mor betrusol; nid oes un gyfraith yn gwahardd iddynt lefaru enw Duw.

ADONIBEZEC, brenin Bezec. Yehydig cyn i Josuah fyned i mewn i wlad Canaan, yr oedd Adonibezec yn rhyfela yn gynddeiriog â'r brenin-oedd cymmydogol: deg a thri-ugain o honynt a gymmerasai efe yn gaethion; a chan dorri ymaith fodiau eu dwylaw a'u traed hwynt, a barodd iddynt, fel cwn, ymborthi ar y briwsion oeddynt yn syrthio oddiar ei fwrdd ef. Ar ol marwolaeth Josuah, llwythau Judah a Simeon, yn gweled eu bod yn cael cyfyngu arnynt gan y Canaaneaid, a benderfynasant waredu eu rhandiroedd o law y cenedloedd meliidgedig hyn. Yn mysg ereill, syrthiasant ar Adonibezec, ynnillasant ei brif ddinas, a chymmerasant yntau yn garcharor; ac a dorasant ymaith fodiau ei ddwylaw a'i draed ef: efe, ar hyny, a gydnabu ddialedd cyfiawn y Nefoedd arno am ei greulondeb tuag at ei gyd-dywysogion. Dygasant ef gyda hwynt i Jerusalem, lle y bu efe farw, yn nghylch A. M. 2570. Barn. i. 4—7.

ADONIAH, oedd pedwerydd mab y Brenin Dafydd, a anwyd yn Hebron. Pan oedd ei ddau frawd hynaf, Amnon ac Absalom, wedi marw, a Cileab efallai yn egwan a diegnïol, a'i dad yn dihoeni dan wendidau henaint, cymnygodd Adoniah feddiannu teyrn-gadair Israel ei hun. Darparodd iddo ei hun osgordd fawreddog o feirch a marchogion, a deng wr a deugain i redeg o'i flaen: ni wnaeth hyn anfoddloni ei dad ef. Ei awdurdod yn y llys oedd yn myned yn gadarn. Joab tywysog y filwriaeth, Abiathar yr Archoffeiriad, ac ereill, oeddynt o'i blaid ef; er fod Benaiah, Sadoc, a Nathan y prophwyd, a'r rhan fwyaf o'r gwyr cedyrn yn ei erbyn. I'r dyben o ddwyn ei hun i'r orsedd, gwnaeth

wledd ardderchog yn Enrogel, ac a wahoddodd ei holl frodyr ond Solomon, yr hwn a wyddai efe fod ei dad wedi ei fwriadu i eistedd ar yr orsedd ar ei ol; yn gystal a holl fawrion Judah, heblaw y cyfryw ag oeddynt o blaid Solomon.

Tra yr oeddynt yn eu gloddest, ac yn dymuno teyrnasiad dedwydd i Adoniah, cafodd Nathan y prophwyd wybod am eu hamcanion hwynt. Efe a Bathseba, yn ddioed, a'i hysbysasant i'r brenin Dafydd, ac a attolygasant arno dros Solomon. Gorchymynwyd i wrthwynebwyr Adoniah enneinio Solomon yn uniawn gydag eithaf rhwysgfawredd. Dychrynwyd pleidwyr Adoniah gan y bloeddau o glodforedd; ac wedi cyflawn hysbysu iddynt am yr achos o honynt gan Jonathan mab Abiathar, hwy a ymwasgarasant mewn arswyd a syndod mawr. Gwedi ei adaw gan ei gyfeillion, ac yn ymwybodus o'i fai, ffodd Adoniah am nodded at gyrn yr allor, ysgatfydd yr un hono ar lawr dyrnu Arauna. Solomon a anfonodd atto y cai ei fywyd ei arbed, os ymddygai efe yn bwyllog rhagllaw. Daeth a chyflwynodd ei hun ar ei liniau ger bron Solomon; ac yna, ar ei orchymyn ef, dychwelodd i'w dŷ ei hun. Cyn hir ar ol marwolaeth ei dad, gwnaeth Bathseba yn offeryn iddo, i erfyn yn wraig iddo, Abisag y Sunamees, yr hon a fuasai yn ordderchwraig i'w dad. Tybiodd Solomon fod hyn fel dyfais i ennill y deyrnas, ac wedi hysbysu iddo, mae'n debyg, mewn modd amgen am ei fwriadau bradwrus, gorchymynodd i Benaia tywysog ei lu ei ladd ef. Dygwyddodd ei farwolaeth yn nghylch blwyddyn ar ol ei ymgais i draisfeddiannu y deyrnas, 1 Bren. i. 5—53, a ii. 13—25.

ADONICAM, *(yr Arglwydd a'm derchafodd,)* crybwyllir am dano yn mysg y rhai a ddychwelasant o'r caethiwed, Ezra ii. 13. Sylwyd ar ddau amgylchiad fel yn hynod mewn perthynas iddo ef. Yn (1.) ei enw, megis gwedd-nod Anghrist. Yn (2.) ei blant, 666, yn cyfateb i rifedi y bwystfil, Dad. xiii. 8.

ADONIRAM, *(fy Arglwydd sydd uchel,)* prif dderbyniwr teyrnged Solomon, a chyfarwyddwr y 30,000 a anfonwyd i dorri coed yn Libanus, at adeiladu y deml, ac adeiladau ardderchog ereill, 1 Bren. v. 14.

ADONIZEDEC, *(Arglwydd cyfiawnder,)* brenin Jerusalem, A.M. 2554. Gwedi hysbysu iddo fod Josuah wedi ynnill Jericho ac Ai, ac fod y Gibeoniaid wedi ymostwng i Israel, efe a ymgyngreiriodd â Hoham brenin Hebron, Piram brenin Jarmuth, Japhia brenin Lacis, a Debir brenin Eglon, i ymosod ar, a chospi y Gibeoniaid; ac felly rhwystro ereill rhag ymostwng i'r goresgynwyr Hebreaidd. Y Gibeoniaid a attolygasant am nawdd Israel, ac a'i cawsant yn ebrwydd. Ymladdodd Josuah â byddinoedd cyngreiriol y pum brenin Canaaneaidd, ac a'u gorthrechodd hwynt yn hawdd: cerrig cenllysg dirfawr eu pwys a laddasant hyd yn nod fwy o'r gweddillion ffoedig, nag a laddwyd gan y cleddyf. Safodd yr haul yn llonydd dros ddiwrnod cyfan, nes i Josuah lwyr ddyfetha y gwrthwynebwyr ysgeler hyn i'r Nefoedd. Y pum brenin a ymguddiasant mewn ogof yn agos i Maccedah. Cauwyd ei enau â meini mawrion, hyd nes y cai yr Hebreaid oedfa i'w dihenyddu hwynt. Yn y prydnawn, Josuah, yn dychwelyd o'r erlid, a fynodd eu dwyn hwynt allan. Ar ol gwneuthur i dywysogion y rhyfelwyr osod eu traed ar eu gyddfau, efe a'u lladdodd ac a'u crogodd hwynt ar bum pren: ar fachlud haul, efe a orchymynodd i'w celaneddau gael eu bwrw i'r ogof lle yr ymguddiasent. Yn fuan gwedi'n, y dinasoedd a berthynent iddynt hwy, oddieithr Jerusalem, a ynnillwyd, a'r preswylwyr a laddwyd, Jos. x.

ADORAM, *(eu moliant)* (1.) Prif-gasglydd teyrnged y brenin Dafydd, 2 Sam. xx. 24. Ai yr un ydoedd efe ag Adoniram, nis gwyddom. (2.) Adoram, neu Hadoram, pen trysorwr y brenin Rehoboam, ac arolygwr ei weithiau ef. Anfonodd ei feistr ef i ymdrin â'r deg llwyth gwrthgiliedig, ac i'w darostwng i'w hufudd-dod i'r brenin. Ond hwy, yn drwg-dybio ei fod yn annogwr eu trethau gorthrymus hwynt, neu oddi wrth gynddeiriogrwydd at ei feistr, a'i llabyddiasant ef â meini, ac efe a fu farw yn y fan, 1 Bren. xii. 18. 2 Cron. x. 18.

ADRAMELEC, ac ANAMELEC, oeddynt ddau o eilunod gwyr Sepharfaim. Yn yr Hebraeg, a thebygol yn yr Assyraeg, y mae y cyntaf yn arwyddo *brenin mawreddog*, a'r di-

weddaf *brenin addfwyn.* Yn y Persaeg, y mae y cyntaf yn arwyddo *brenin y praidd*; ac y mae y diweddaf yn yr Arabaeg yn arwyddo bron yr un peth. Dichon fod y ddau yn cael eu haddoli fel ceidwaid anifeiliaid.

ADRAMELEC a SAREZER oeddynt feibion *Senacherib* brenin Assyria. Fe ddichon i'r blaenaf gael ei enwi oddi wrth yr eilun rhag-grybwylledig. Gan arswydo rhag bwriad eu tad i'w haberthu hwynt, neu wedi magu rhyw rag-farn gynddeiriog yn ei erbyn ef, hwy a'i lladdasant pan yr oedd yn addoli Nisroch ei dduw, ac yna a ffoisant i wlad Armenia, Esa. xxxvii.38. 2 Bren. xix.37.

ADRAMYTIUM, *(llys-angau,)* (1.) Dinas ar duedd gogleddol Affric, o du y gorllewin i'r Aipht. (2.) Dinas ar duedd gorllewinol Mysia, yn Asia Leiaf, ar gyfer ynys Lesbos. Mewn llong yn perthyn i'r lle hwn y mordwyodd Paul o Cesarea i Myra yn Lycia, Act. xxvii. 2. Cafodd ei henw oddi wrth ei hawyr afiachus, neu ei phorthladd peryglus.

ADRIA, yn bresennol nid ydyw môr Adria yn cynnwys yn unig ond y môr hwnw o du y dwyrain i'r Ital, ac a elwir mewn modd amgen Cilfach Venis; ymddengys iddo gymeryd ei enw oddi wrth Adria, hen ddinas, yr hon oedd yn sefyll yn rhyw le yn nhiriogaeth Venis, o du y gogledd-ddwyrain i'r Ital: ond ymddengys oddi wrth Ptolemy a Strabo, fod yr holl fôr sydd yn gyfagos i ynys Sicily, ac hyd yn nod môr Ionia o du y dehau-orllewin i'r Ital, yn cael ei alw gynt Adria. Yn rhyw le yn y môr hwn, y tafiwyd y llong a drosglwyddodd Paul i Rufain yn ddychrynllyd gan y dymhestl, Act. xxvii. 27.

ADULAM, *(eu tyst,)* dinas tra phrydferth: ac oddi wrth hyn a elwid *gogoniant Israel.* Myn rhai ei bod yn gorwedd o du y deau-ddwyrain i randir Judah, yn agos i'r Môr Marw, ond ymddengys yn hytrach ei bod yn sefyll ar y gwastadedd o du y dehau-orllewin i Jerusalem, yn agos i Jarmuth ac Azeca, Jos. xv. 35. Yr oedd iddi gynt frenin o'r eiddi ei hun, yr hwn a laddwyd gan Josuah, pen. xii. 15. Yn agos iddi, yr ymguddiodd Dafydd rhag Saul mewn ogof; ac yma yr ymgyrchodd ei rieni, a nifer o wŷr cedyrn atto ef, 1 Sam. xxii. 1, 2, &c. Rehoboam a'i hail-adeiladodd ac a'i cadarnhaodd hi, 2 Cron. xi. 7. Llu Senacherib a'i hynnillodd ac a'i hanrheithiodd hi dan Hezeciah, Micah i. 15. Judas Maccabeus a'i wŷr a gadwasant y Sabbath mewn modd arbenig ar y gwastadedd gerllaw iddi. Yr oedd yn lle o beth enwogrwydd yn nghylch 400 mlynedd ar ol Crist; ond y mae yn awr, ers amser maith, wedi ei llwyr ddinystrio.

ADUMIM, mynydd a dinas yn gyfagos i Jericho, ac yn rhandir llwyth Benjamin. Yr oedd yn gorwedd ar y ffordd o Jerusalem i Jericho, a dywedir ei fod yn llochesu yspeilwyr lawer; ac oddi wrth hyn, ysgatfydd, y derbyniodd ei enw, yr hwn sydd yn arwyddo y *rhai cochion* neu *waedlyd,* Jos. xv. 7, a'r xviii. 17. Yma y gesyd Iesu olygfa ei hanes neu ddammeg am y gwr a syrthiodd yn mhlith lladron, Luc x. 30—36.

ADWAEN—IAD, *(ad-gwaenu,* gosod yn ngolwg un,) adnabod, cydnabod. "Gwyn eu byd y bobl a *adwaenant* yr hyfrydlais: yn llewyrch dy wyneb, O Arglwydd, y rhodiant hwy," Salm lxxxix. 15. Hyfrydlais yw llais yr efengyl, yr hwn yn unig sydd yn hyfryd i bechadur mewn cyferbyniad i bob llais arall. Yr oedd llais yr udgyrn yn cyhoeddi y Jubili, yn dra hyfryd i'r dyledwyr tlodion a'r caethion; pa faint mwy hyfryd yw llais yr efengyl, yn cyhoeddi edifeirwch a maddeuant i bechadur euog a thlawd! Udgorn ffoedd brenin Sion yn mysg ei bobl, yw yr efengyl, Num. xxiii. 21.

ADWY—AU—OG, *(adaw,* llithro ymaith,) agoriad, bwlch mewn clawdd neu fur. Y gau brophwydi luddewaidd *ni safasant ar yr adwy;* ni wnaethant ddim tuag at rwystro rhedfa anwiredd, yr hwn oedd yn agor drws i ddialedd dwyfol dorri i mewn am ben eu cenedl, Ezec. xiii. 5, a xxii. 30. *Cyfodi yr adwyau,* sef, cynnorthwyo, amddiffyn, ac amgeleddu, mewn cyfyngder a chaledi, Esa. xliv. 26.

ADDA. Creodd Duw ddyn ar y ddaear yn wrryw a benyw; ac efe a'u bendithiodd hwynt, ac a alwodd eu henw Adda. Y mae yn enw gwir ddarluniadol o ddyn; ac yn arwyddo *Daear,* a'r Arglwydd Dduw a luniodd ddyn o bridd y ddaear. Y mae yr enw hwn, pa fodd bynag, yn gyff-

redinol yn cael ei gyfyngu i'r dyn cyntaf, ein tad ni oll. Pan oedd y Creawdwr Hollalluog wedi dodrefnu yr adeilad ddirfawr hon, pan yr oedd wedi ffurfio, trefnu, a ffrwythloni yr aneirif a'r amrywiol lwythau llysieuol ac anifeilaidd; efe a orphenodd ei waith, pen-gorchwyl Creadigaeth, trwy greu dyn ar ei ddelw ei hun, ac wrth ei lun ei hun. Gwnaeth Duw ddyn yn uniawn; ac, yn ddiammau, daeth Adda o ddwylaw ei Wneuthurwr, nid yn unig yn *berffaith* o ran ei gorph, ond hefyd yn ei feddwl; delw ddifrycheulyd ei Greawdwr, mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd: yn odidawg gymhwys i lywodraethu ac arglwyddiaethu ar ei amherodraeth dirfawr, y pryd hwnw yn ei holl ranau yn *dda iawn;* un olygfa gyffredinol o gyssondeb a gwynfyd; yGoruchaf Lywodraethwr a osododd bob peth dan ei draed ef. Y mae yr ysgrythyrau yn eu dull syml arferedig, etto tra nodedig, yn coffhau un anghraifft hynod o weithrediad penarglwyddiaethol Adda. Ei osgorddiaid lluosog o'r greadigaeth anifeiliaidd a ddygir at eu Harglwydd, "i weled pa enw a roddai efe iddynt hwy; a pha fodd bynag yr enwodd y dyn bob peth byw, hyny fu ei enw ef." Ond etto yr oedd efe ei hun yn unig wedi ei greu er y byd hwn, a'i fwyniant, mewn modd nag allai y mwyaf synwyrol o'i îs-lwythau gyd-gyfranogi âg ef; "I Adda," yn y greadigaeth ddysclaer ëang, "ni chafwyd ymgeledd cymhwys iddo." Paradwys a gwblhawyd, o herwydd "yr Arglwydd Dduw a wnaeth i drym-gwsg syrthio ar Adda, ac efe a gysgodd; ac efe a gymmerodd un o'i asenau ef, ac a gauodd gig yn ei lle hi. A'r asen a gymmerasai yr Arglwydd Dduw o'r dyn, a wnaeth efe yn wraig, ac a'i dûg at Adda." Gen. ii. 21, 22. Gosodir ef allan megys yn ei derbyn hi mewn dull ag sydd ar unwaith yn mynegu ei serch, a'r teimlad oedd ynddo am agosrwydd eu hundeb. Priodas yn awr a sefydlwyd gan Dduw ei hun. A chan nad oedd dim afrywiogrwydd yn yr awyr, dim cywilydd, o herwydd fod euogrwydd, tad cywilydd, yn anadnabyddus, hwy a aethant eill dau yn noethion. Cyn yr elom yn mlaen i sylwi ar y chwildröad arswydus a ymddengys i ganlyn yn fuan y perffeithrwydd dedwyddwch hwn, geill fod yn angenrheidiol i chwilio ychydig yn fwy neilltuol, yn (1.) i ansawdd dechreuol y dyn cyntaf, fel delw Duw; ac, yn (2.) i natur ei sefyllfa yn Mharadwys; o herwydd y mae cam-ddeall y ddau bwnc hwn, ar y naill law, wedi agor drws i watwareg yr anghredadyn, ac ar y llaw arall, i'r rhai sydd yn cadw parch i ddadguddiad, y mae wedi taflu llen dros y pwnc pwysig, sef dyfodiad pechod i mewn. Yn Gen. ii. 7. mynegir i ni i Dduw anadlu i mewn i ddyn, anadl *bywydau*, (fel y mae y testyn gwreiddiol) trwy yr hyn y daeth efe yn *enaid byw*. Y mae dyn yn ymddangos yn feddiannol ar fywyd llysieuol ac anifeiliaidd, yr un modd ag anifeiliaid ereill, ond y mae efe yn *enaid byw*, mewn golygiad gwahanol oddiwrthynt hwy; y mae efe yn meddu bywyd wedi cael ei anadlu ynddo gan Dduw yspryd-oedd pob cnawd, yn mha un nis geill neb o'r greadigaeth dyfiadol neu deimladol gyd-gyfranogi âg ef. Nid yw y gallu i *resymu* ond cyfrif cloff iawn am yr egwyddor wahaniaethol hon mewn dyn uwchlaw yr anifeiliaid sydd yn trengu. Pan y bu Tywysog y bywyd ei hun farw ar y groes, ei fywydau tyfiadol a theimladol, yn mha rai y buasai yn gyd-gyfranog â'i blant, trwy ba rai y cynnyddodd efe mewn *corpholaeth*, &c. a derfynwyd yn ddiammheuol. Pilat a ryfeddodd ei fod wedi *marw* eisioes. Etto ni a'i cawn ef yn dywedyd wrth ei dad, "I'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd." Hwn yw, yn amlwg, "yr ysbryd hwnw sydd yn dycnwelyd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef." Y mae eisteddle benaf bywyd mewn dyn yn cael ei gwahaniaethu yn dra hynod oddi wrth gynneddfau ereill y meddwl dynol, trwy y gair *cydwybod*. Yn awr, fel âg y daeth Adda yn uniawn, (y gair gwreiddiol a arwydda *syth*, cywir) o ddwylaw ei Wneuthurwr, efe a aeth yn enaid byw, i radd tra nodedig o herwydd yr oedd ei gydwybod, yr hon, wedi hyny, a'i cyhuddodd ac a'i condemniodd ef fel troseddwr, yn awr yn ddifrycheulyd; ac ymddyscleiriai, fel delw ei Wneuthurwr, mewn cyfiawnder difrycheulyd; gan fyw dan ei wenau, y gwir fywyd

hwnw, am ba un y dywed y Salmydd, "Bywyd sydd yn gorwedd yn dy foddlonrwydd;" yr oedd yn byw y bywyd gwirioneddol hwnw, i ba un y mae yr ail Adda yn adnewyddu ei feibion; canys, eb efe, yn nyddiau ei gnawd, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y mae yr awr yn dyfod, ac *yn awr y mae*, pan y clywo y meirw lef mab Duw; a'r rhai a glywant, a fyddant byw," Ioan v. 25.

Yr ydym yn cael Adda wedi ei osod yn ngardd Eden i'w chadw hi; a'r rhyddid llawnaf wedi ei ganiatau iddo i fwyta o, a mwynhau ei holl ffrwythau, "*ond* am *Bren Gwybodaeth Da a Drwg*, ebe Duw, na fwyta o hono; canys yn y dydd y bwytai o hono, gan farw, ti a fyddi farw." Cafodd y gorchymyn hwn ei ystyried gan rai, fel gorchymyn o ddim pwys neu ganlyniad yndo ei hun, ond fel y dysgid i Adda yr ufudd-dod perffaith hwnw oedd yn ddyledus i'w Wneuthurwr. Yr oedd efe yn awr wedi cael ei osod yn Eden, ar gyfammod o weithredoedd, yn cynnwys, y byddai iddo ef a'i holl hiliogaeth, ar yr ammod o'i ufudd-dod perffaith ef i bob gorchymyn o'r gyfraith ddwyfol, gael eu gwobrwyo â dedwyddwch a bywyd naturiol, ysbrydol, a thragywyddol; ond os y methai, y darostyngid hwy i'r hyn oedd wrthwyneb i hyny, sef marwolaeth; â pha un efe a gydsyniodd. Trwy fwrw golwg ar y geiriau *Cyfammod, Eden, a Chyfraith*, cenfydd y darllenydd pa faint y mae athrofâwyr wedi tywyllu gwybodaeth, trwy arwain cyfammod o weithredoedd i mewn, &c. heb y cefnogiad lleiaf oddi wrth yr ysgrythyrau. Eglurir natur neilldiol dau bren Eden yn fwy cyflawn yn eu lle priodol. Digon yw sylwi yn bresennol, mai bywyd *o ffydd* oedd bywyd Adda yn Mharadwys. Efe a dderbyniodd ben-arglwyddiaeth y byd wedi ei thraddodi i'w ddwylaw; ond cadwyd un pren, fel arwydd o'i ddarostyngiad: ac i'w goffhau ef nad trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddêl allan o enau Duw. Efe a ddywedasai, *yn y dydd y bwytai o honi, gan farw, ti a fyddi farw*, Cyhyd ag y credodd ein rhieni cyntaf Dduw, buant byw trwy ffydd, fel y gwna y cyflawn yn mhob oes; pan yr hudodd y twyllwr Efa, gwnaeth hyny trwy arwain anghrediniaeth i mewn i'w meddwl hi. A'i diau ddywedyd o Dduw felly?

Gan ochelyd yr amrywiol chwedlau, y rhai a sylfaenwyd ar hanes Adda, gan yr hen brydyddion, y Talmudiaid Iuddewig, y Mahometaniaid, a llawer ereill, cawn adrodd yn fyr, yr amgylchiadau trwy ba rai y daeth pechod a marwolaeth i mewn i'r byd, yn ol yr hanes ysgrythyrol am hyny. Sylwodd y diafol fod y sarph yn greadur o gyfrwysdra neilldiol; trwyddi hi, fel moddion, a thebygol gan gymmeryd arno ei llun, efe a hudodd Efa, trwy eiriau dengar, fel ag i lygru ei meddwl oddi wrth *symlrwydd* ei chred yn y gwirionedd a glywsai gan Dduw. Fel hyn, wedi cael ei thwyllo ei hunan, hi a dwyllodd ei gwr, a gwnaed y ddau yn ddarostyngedig i'r felldith a fwgwthiesid. Y mae yn beth rhyfeddol o nodedig, fod yr hen sarph yn mhob oes, ond nid erioed yn fwy hynod nag yn y dyddiau presennol, wedi defnyddio yr un moddion i lygru meddyliau dynion mewn perthynas i sicrwydd y gair hwnw o eiddo Duw, ar ba un y mae y bywyd yn ymddibynu. Nid yw waeth pa un a gyrhaeddo yr athrawiaeth ein clustiau o enau sarph, athronydd manyldysg, neu resymwr didduwaidd; y mae pob amheuaeth, mewn perthynas i wirionedd y Dadgudddiad dwyfol, yn deilliaw oddi wrth yr un dysgawr, a bydd yn sicr, os gwrandewir arno, o beri yr un canlyniadau ag yn Eden. Yn y modd hwn yr anffurfiwyd delw Duw ar ddyn. Euogrwydd a ymaflodd yn eu cydwybodau. Yn y dydd hwnw y buant feirw. Gan gyhoeddi eu cywilydd eu hunain, a'u hanalluogrwydd i guddio eu noethni eu hunain, hwy a wniasant ddail y ffigysbren yn arffedogau. Gydag awel y dydd, clywsant y *lluis*, y *Gair*, y *Jehofah*, yn rhodio yn yr ardd, ac a geisiasant ymguddio. Duw a alwodd ar Adda; a ymholodd i'w euogrwydd ef ac eiddo Efa, gan ei sefydlu ef ar eu cydwybodau hwynt. Yna y mae efe, yn raslawn, yn myned rhagddo i bregethu yr *efengyl*, ac yn agor o flaen y pâr condemniedig ddrws trugaredd yn yr addewid gyssurlawn yr ysigai had y wraig siol y sarph; wedi hyny y mae efe yn cyhoeddi y

rhanau hyny o'r felldith, y rhai oeddynt o hyd i gael eu cyflawni yn erbyn Adda a'i holl hiliogaeth euog, heb wneuthur gwahaniaeth rhwng, hyd yn nod, y rhai hyny ag oeddynt i fod yn gyfranogion o'r waredigaeth fawr. Tristwch, esgoriad poenus ar blant, a darostyngiad iselhaol i'r wraig a'i heppil fenywaidd. Llafur a lludded, cnydiau prinion wedi gweithio yn galed am danynt, a chystuddiau ereill i Adda; ond, yn benaf i'r ddau, ac ar eu hiliogaeth hyd ddiwedd amser, *Marwolaeth!* Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli; dedfryd drugarog yn wir, pan ei cymharir â'r farwolaeth dragywyddol hono i ba un y darostyngasent eu hunain! Eu cymmwynaswr dwyfol yna a aeth yn mlaen i ddysgu iddynt, er eu bod nid yn unig wedi gosod eu hunain yn agored i gywilydd a gwarth tragywyddol, ond hefyd yn hollol anaddas i ddarparu gorchudd iddynt eu hunain, etto y cymmerai efe y swydd hono fel ei eiddo ei hun: efe a'u gwisgoedd hwy â chrwyn, sef rhai yr anifeiliaid aberthedig, tebygol; ernes o'r lliain glân, y dillad gwynion wedi eu golchi yn ei waed ef, â pha rai y gwisgid ei Etholedigion prynedigol yn oes oesoedd. Gan fod y baradwys ddaearol yn awr wedi ei cholli, gyrwyd hwy allan o'r ardd hono o eiddo Duw, i'r byd hwn, yn mha un y mae pechod a marwolaeth wedi teyrnasu byth wedi hyny, gyda rhwysg benarglwyddiaethol. Yn fuan ar ol hyn, ganwyd Cain ac Abel ar ddelw eu Tad. Eu hanesion a geir dan eu henwau priodol. Gwedi marwolaeth Abel, ganwyd Seth i Adda, yn yr 130ain flwyddyn o'i oedran; ac, wedi hyny lliaws o blant ereill. Efe a fu byw 930 o flyneddoedd, ac a fu farw.

Yn gydunol â'n cynllun, cawn grybwyll, cyn fyred ag y gallwn, am ychydig o'r pethau mwyaf hynod yn yr "Adda cyntaf, yr hwn oedd o'r ddaear, yn ddaearol," yn mha rai y gallwn olrhain agwedd yr "ail Adda, yr Arglwydd o'r nef." Yn mhob rhan o'r hanes, y buom yn rhoddi bras-lun gwanaidd o hono, y mae llawer o addysg bwysig i'w chael. Pan y cymharwn gysgod â gwrth-gysgod, rhag-fynediad â dygwyddiad, addewid â chyflawniad, y mae yr ysgrythyr yn cyrhaedd cadernid y sydd yn rhoddi hèr i bob nerth crëedig. Y mae y personau a ddangosir, y dygwyddiadau a goffheir, y golygfëydd a ddarlunir, y sefyllfaoedd a ordeinir, mewn un oes, y rhai oeddynt gysgodau daionus bethau i ddyfod, nid yn unig yn addysgiadol a phwysig ynddynt eu hunain, ond yn cyrhaedd pwys a chanlyniad na feddent o'r blaen, pan eu golygir yn eu perthynas âg ef, i'r hwn yr oedd yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth; a pherson, noddweddiad, a gwaith pa un, ydynt yn gyflawniad o'r hyn oll a ysgrifenwyd am dano. Pa mor rymus yw ymadrodd yr Apostol Paul, am yr Adda cyntaf. "yr hwn yw ffurf yr un oedd ar ddyfod!" Rhuf. v 14. Ië, y mae Crist yn cael ei alw yr ail Adda, o herwydd y cyffelybrwydd a ddygai y cyntaf iddo ef. Adda oedd yn fab Duw, Luc iii. 38; yr oedd efe yn eppil digyfrwng—yn waith uniawn-gyrchol y Creawdwr. Crist oedd yn Fab Duw, unig-anedig y Tad. Yr oedd y dechreuad hwn o'r greadigaeth newydd yn wir yn beth newydd ar y ddaear. Crëwyd Adda ar ddelw Duw, mewn cyfiawnder ac mewn gwir sancteiddrwydd; ond Crist sydd *wir lun* ei berson ef, yn gystal â dysceleirdeb gogoniant ei Dad. Gwnaed yr Adda cyntaf yn enaid byw, yr âil yn ysbryd yn bywhau. Holl genedlaethau yr hil ddynol a darddasant oddi wrth Adda; ac yn y cwbl a ddygwyddodd iddo ef, yr oedd efe yn sefyll fel eu cynnrychiolydd hwynt. Trwy ei un trosedd ef, gwnaed llawer yn bechaduriaid; o'i achos ef, yr aeth marwolaeth ar bawb, yn gymmaint a phechu o bawb ynddo ef. Pa mor ardderchog yr oedd efe fel hyn yn rhag-gysgodi yr un gwr hwnw, trwy gyhawndder pa un y daeth y dawn ar bawb i gyfiawnhad bywyd! Yr holl etholedigion prynedigol ydynt yn tarddu oddi wrth yr ail Adda. Efe yw y dyrnaid o ŷd y bydd ei ffrwyth yn ysgwyd fel Libanus. Y naill a gyfranodd enaid byw i'w holl hiliogaeth; y llall, fel ysbryd yn bywhau, a'u cyfyd i fynu yn y dydd olaf. Trwy gyfriflad pechod yr Adda cyntaf, teyrnasodd marwolaeth ar y rhai hyny na phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda;

trwy gyfriiad cyfiawnder yr ail Adda i fabanod, rhagor amlha gras ynddynt hwy i fywyd tragywyddol. Adda oedd gogoniant y greadigaeth gyntaf; Crist yw gogoniant rhagorol yr ail. Yn Adda ymdangosodd yr anian ddynol yn ei lliwiau dyscleiriaf, ond efe a'i diwynodd hwynt—pa fodd y mae eu llewyrch wedi cael ei adferu yn Mab y Dyn, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd ar ddeheulaw Duw! Y mae Adda a Christ yn dwyn cyffelybrwydd rhyfeddol i'w gilydd o ran awdurdod a phen-arglwyddiaeth. "Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar waith dy ddwylaw," a ddywedwyd mewn gwirionedd am yr Adda cyntaf—am yr ail, sicrheir i ni, ei fod, hyd yn nod yn nyddiau ei gnawdoliaeth, tra yn pabellu yn mhlith dynion, yn arferyd awdurdod diderfyn ar yr holl fyd anianol, a hyny mewn dull nas gallasai yr Adda cyntaf byth honi hawl iddo—pethau gweladwy ac anweladwy—tywysog llywodraeth yr awyr a ffodd wrth ei orchymyn ef; yr elfenau terfysglyd a glywsant ac a ufuddhasant i'w air ef; afiechyd, marwolaeth, a'r bedd a gyfiawnasant ei ewyllys ef, Ond pan yr ydym yn gweled Iesu, yr hwn a fu dros ychydig yn is na'r angelion, yn mhell uwchlaw pob pendefigaeth, a gallu, a nerth, ac arglwyddiaeth, ar ol ei adgyfodiad, ni a'i cawn ef â phob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear yn ei law; y mae efe yn teyrnasu ac yn llywodraethu yn nghanol ei elynion. Ar foreu yr adgyfodiad, pan yr ymddengys ef yn ei ogoniant ei hun, ac yn ngogoniant ei Dad, a'r holl angelion sanctaidd gydag ef, dyna yr amser yr ymddengys efe fel gwrthgysgod gogoneddus Adda. A oedd y greadigaeth gyntaf, ar ba un y llywodraethai Adda, yn *dda iawn?* Pa mor dda yr ymddengys y nefoedd a'r ddaear newydd, yn mha rai y mae cyfiawnder yn trigo! Y mae holl hanes Adda yn Mharadwys yn rhoddi i ni gynllun bywiog o ansawdd yr adgyfodiad. Yr hyn a ysgrifenwyd o'r blaen am y llywodraethwr cyntaf yn Mharadwys a'i hudiad, a ysgrifenwyd er lles i ni, pan y byddwn yn ei ddarllain gyda llygad ar Baradwys nefawl Duw, lle, i'r Oen yn nghanol yr orseddfainc, y cenir yr haleluia yn dragywydd. "Teilwng yw i'r Oen, yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd," &c. Priodas y pâr cyntaf sydd yn llefaru wrthym am Grist a'r eglwys. Gwedi ei fwrw i drym-gwsg, darostyngiad, a marwolaeth, ffurfiwyd ei eglwys, a'i ddyweddi o'i gorph drylliedig—ei ystlys drywanedig ef, a thrwy oesoedd diderfyn tragywyddoldeb y pery eu cyssylltiad hwynt. *Asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i.* Bendigedig ydynt hwy a elwir i swpper neithior yr Oen.

ADDAS, *(a-das,* crug, twr*)* gweddus. "Dygwch ffrwythau *addas* i edifeirwch," Math. iii. 8. sef tymher a gweithredoedd croes i'r pechodau yr ediferheir o'u plegid. Ffrwyth addas i edifeirwch am feddwdod yw sobrwydd a chymhedrolder; ffrwyth addas i edifeirwch am gybydd-dod yw haelioni; i elyniaeth yn erbyn Duw, yw caru Duw, &c. Nid oes dim a brawf yr edifeirwch yn wirioneddol heb y ffrwythau addas, sef pethau sanctaidd, croes i'r bai. Nid haelioni yw y ffrwyth addas i edifeirwch am feddwdod, ond cymhedrolder; nid sobrwydd yw y ffrwyth addas am gybydd-dod a gorthrymder, ond unioni y cam a wnaed, a gweithredu y gras gwrthwynebol. Y mae llawer yn twyllo eu hunain yn hyn; y ffrwythau croes i'r bai, ydynt y ffrwythau addas i edifeirwch am y bai.

ADDAW, *(a-daw)* gair yw yn rhwymo un i gyflawni rhyw beth cyfreithlawn i arall, yn anammodol, neu ar ryw ammodau cytunedig rhwng pleidiau. Y cyfryw a wnaeth Laban â Jacob am roddi iddo ei ferch, &c. *Addewid Duw,* yw gwaith Duw, o'i wir-fodd a'i raslonrwydd ei hun yn *addaw* rhoddi ymwared, neu rodd ddaionus, i ddynion, Salm lxxvii. 8. 2 Pedr i. 4. Y mae pob *addewid* yn gorphwys am y cyflawniad o honi, (os na bydd ammodau o'r tu arall, heb eu cyflawni, yn attal,) ar ffyddlondeb, anghyfnewidioldeb, a gallu y blaid sydd yn addaw. Gan hyny, nid oes dim a ddichon fod yn fwy sicr nag addewidion Duw; canys ni newid ei feddwl,—y mae yn analluadwy iddo fod yn gelwyddog, ac ni phalla ei nerth i gyflawni. (2.) Y mae y gair *addewid,*

yn y Testament Newydd, yn arwyddo, yn aml, y rhag-fynegiad sicr a roddodd Duw i Abraham, a'r Patricirch ereill, am anfoniad y Messiah, Rhuf. iv. 13, 14. Gal. iii, 16. (3.) Y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei alw, *Glân Ysbryd yr addewid*, am ei fod wedi ei addaw gan yr Arglwydd i'r rhai sydd yn credu ynddo; yn eu nerthu i gredu yr addewidion, ac i fyw arnynt; ac yn ernes eu hetifeddiaeth dragywyddol, Eph. i. 13. (4.) Amser yr *addewid*, a arwydda amser cyflawniad addewid Duw i Abraham, Gen. xv. 13, 14. Act. vii. 17. Fel yr oedd yn nghyflawniad yr addewid hono, felly y mae gan Dduw, yn ei olwg a'i rag-osodiad, drefn ac amser i gyflawni ei addewidion oll. Rhaid aros amser yr addewid, a chael ffydd ac amynedd, i etifeddu yr addewidion. (5.) Plant yr *addewid*, (1.) ydynt yr Iuddewon, hiliogaeth Isaac, yr hwn oedd mab yr *addewid*, mewn cyferbyniad i'r Ismaeliaid, hil Ismael, a'i fam Hagar, y gaeth-forwyn. (2.) Yr Iuddewon crediniol, mewn cyferbyniad i'r Iuddewon anghrediniol, y rhai a wrthodasant Grist. (3.) Yr holl wir credinwyr, yn Iuddewon a Chenedloedd, y rhai sydd wedi eu geni oddi uchod, trwy nerth yr *addewid*, ac yn credu yn Nghrist er iachawdwriaeth; y rhai ydynt had ysbrydol Abraham, ac yn gyfranogion o holl fendithion ysbrydol cyfammod Abraham, Rhuf. ix. 8.

ADDAWL—OLI—IAD, (*add-awl* mawl) anrhyddedu, arddunaw, ymgrymu gyda pharch; ac felly y mae *addoliad* yn arwyddo (1.) Parch gwiadol a roddir i benadur neu deilyngwr, Math. ix. 18. xviii. 26. Luc xiv. 10. Yn (2.) Gwarogaeth allanol crefyddol a roddir megys cydnabyddiaeth o Dduwdod, Math iv. 9. Dan. iii. 5, 12, 14. Yn (3.) Anrhydedd tufewnol crefyddol, trwy yr hwn y mae un yn meddwl am Dduw—yn ymddiried iddo, yn ei garu a'i ofni o herwydd ei ragoroldeb, ei drugaredd, ei allu, ei ddoethineb anfeidrol, a'r cyffelyb, Ioan iv. 24. Gelynion yr eglwys a ddeuant i *addoli* wrth ei thraed hi, pan y byddant yn ymostwng i'w hawdurdod, ac yn amlygu parch ac anrhydedd dyladwy iddi, Dad. iii. 9. Y mae dynion yu *addoli* y bwystfil a'r ddraig, pan y byddant yn mawrhau yr amherawdwyr Rhufeinig a'r Pabyddion, ac yn cydsynio â'u cyfreithiau coel-grefyddol, pechadurus, a chableddus, Dad. xiii. 4. Y mae dynion yn *addoli cythreuliaid*, pan, mewn cydsyniad â'u hudoliaethau hwy, y byddant yn proffesu eu gau athrawiaethau, yn addoli delwau sydd yn eu cynnrychioli, ac yn masnachu â hwy mewn swynion a dewiniaeth; neu, pan y byddant yn addoli dynion anferth eu drygioni, tan yr enw o seintiau, Dad. xix. 20. Deut. xxxii. 17.

Y mae y geiriau *Heb.* a *Gr.* a gyfeithir *addoli* yn arwyddo ymgreiniaw, neu orwedd â'r wyneb i waered ar y llawr, fel arwydd o ddwfn ymostyngiad a pharch; ac felly yn arddangosiad o'r parch dyladwy oddi wrth is-raddolion i uwch-raddolion, mewn urddas neu awdurdod. Ond nid yw y gair *addoli* yn cael ei arfer gan ein cyfieithwyr ni, ond pan y byddo parch yn cael ei ddangos i'r Duwdod, neu i rai y tybid eu bod yn dduwiau. Yn (1.) Arwydda *addoliad*, cydnabyddiaeth parchus o fawredd, perffeithrwydd, a daioni Duw; a'n rhwymedigaeth au ninau iddo fel ein Creawdwr, Cynnaliwr, a Duw ein hiachawdwriaeth. Dangosiad allanol o barch ydyw *addoliad* trwy ddull gweddaidd ar ein cyrph ger bron Duw, o'r parch a'r cariad tufewnol yn ein meddwl, i'w dduwiol fawredd. Yn (2.) Y mae yn ofynol hefyd, fod ein dull o ddangos y parch hwnw, mewn *addoliad* dirgel a chyhoeddus, yn ol trefn a rheol gair Duw. Y mae wedi ein cyfarwyddo yn mhob peth perthynol i'w ordinhadau a'i *addoliad*; ac y mae parch manwl i'w drefn a'i osodiadau yn un ffordd o ddangos parch i'r Arglwydd ei hun. Yn (3.) Nid oes neb yn deilwng o *addoliad*, ond Duw, Marc. ix. 10. Act. xvii. 23—28. Nid oes neb yn haeddiannol o barch, er ei fwyn ei hun, ond y Bod Dwyfol; ond y mae pawb arall i'w parchu er ei fwyn ef, yr hwn a'u gwnaeth y peth ydynt, ac nid er eu mwyn eu hunain. Dim ydynt hwy; a Duw sydd bob peth. Gan fod pob un o'r Personau Dwyfol yn feddiannol o'r un hanfod, a phriodoliaethau yr hanfod hwnw yn *gydradd* yn perthyn i bob un o honynt, y

mae *addoliad* cydraddol, o'r achos hwnw, yn deilwng i bob un o honynt; sef i'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, Ioan v. 28. Mat. xxviii. 19. Heb. i. 6.

Gan fod addoliad dwyfol yn orchymynedig, ac yn cael ei roddi i'r Arglwydd Iesu, ac i'r Ysbryd Glân, y mae yn brawf diammheuol o ddwyfoldeb eu personau, Math. ii. 2, 8, viii. 2. a xxviii. 19. Luc iv. 7. Y mae *addoliad* i'w olygu naill ai yn dufewnol, neu yn allanol. Duwioldeb yn y galon yw sail addoliad tufewnol; ac os na bydd addoliad tufewnol, nis dichon fod yn allanol yn wirioneddol: canys rhaid i'r rhai a addolant Dduw, ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd, Ioan iv. 24, sef yn dufewnol, â'r ysbryd, a holl alluoedd yr enaid. Oddiwrth *dduwioldeb* a *duwiol-frydedd* y mae gwir addoliad yn tarddu; gan hyny, nis dichon un dyn *annuwiol*, heb dduwioldeb yn ei galon, wir addoli Duw, 1 Pedr iv. 18. Gan hyny, (1.) Heb wir adnabod Duw, nis dichon neb ei wir addoli. Nis dichon addoliad allanol, a thywyllwch yn y meddwl am Dduw, fod yn wir addoliad; canys pa fodd y parcha neb un yn wirioneddol heb ei adnabod? Y mae mor amlwg, hefyd, rhaid i'r wybodaeth hono fod yn gywir, yn ol tystiolaeth y gair am dano; os nad ydyw yn gywir, nid gwybodaeth mo honi, ond *cam-farn* am dano, yn tarddu o'n hanwybodaeth. Y mae iawn adnabod Duw, yn rhan o ddelw Duw ar enaid dyn, ac yn ei debygoli iddo. Yn (2.) Heb ffydd, cangen arall o wir dduwioldeb, annichonadwy rhyngu ei fodd ef, Heb. xi. 6. Trwy ffydd yr addolodd Abel, Jacob, Moses, a'r holl dduwiolion yn mhob oes, Heb. xi. Heb ffydd, nis dichon neb weddio, gwrando, na gwneuthur un weithred arall yn sanctaidd, Heb. iv. 2. Yn (3.) Nis dichon neb addoli Duw, heb ei ofni. Gosodir ofn Duw, weithiau, am holl addoliad Duw; ac arwydda, y parch tufewnol yn enaid dyn i Dduw, oddiar gydnabyddiaeth o'i fawredd, ei sancteiddrwydd, a'i berffeithrwydd, yn mhob ystyr, Salm ii. 11. a v. 7. Yn (4.) Ni ddichon neb wir addoli Duw, heb gariad atto. Y mae parch a chariad yn cyd-weithredu tuag at Dduw, mewn gwir addoliad. Y mae y cythreuliaid yn credu, yn ofni, ac yn crynu; ond nid ydynt yn caru Duw; am hyny, nid ydynt yn addoli Duw, Iago ii, 19. Pob peth nad yw yn tarddu o gariad at Dduw, nid ydyw yn gymmeradwy ganddo. Hyn y mae y gyfraith yn ei ofyn, a hyn y mae yntau wedi addaw i'w bobl, Deut. x. 12, a xxx. 6.

ADDEF—IAD, *(a-def,)* cydnabod mewn geiriau eglur: felly y mae troseddwr yn addef ei fai ger bron brawdwr, Jos. vii. 19. Iesu Grist a *addef* ei bobl yn y dydd diweddaf; a'u harddel yn gyhoeddus megys ei blant a'i ffyddlon weision, Luc xii. 8. Y maent yn ei *gyffessu yn ngwydd dynion*, pan, er pob peryglu gwrthwynebiad, y byddant yn proffessu yn yr amlwg, ac yn ymlynu wrth ei wirionedd, yn cadw ei orchymynion, ac yn rhodio yn ei ffyrdd ef, Math. x. 32. *Cyffessu i Dduw* ydyw ei foli a diolch iddo, Heb. xiii. 15. *Addef pechod*, ydyw cywir gydnabod ein heuogrwydd ger bron Duw, yr hwn a eill faddeu i ni, neu ein cospi; neu wrth ein cymmydog y pechasom yn ei erbyn, neu yr hwn a all roddi i ni addysg priodol a chyssur, Diar. xxviii. 13.

Ar y degfed dydd o'r seithfed mis, byddai yr arch-offeiriad Iuddewig, yn cyffessu pechodau yr holl genedl ar ben y bwch diangol, yr hwn oedd yn eu dwyn ymaith yn gysgodol i'r anialwch, Lef. xvi. 15. Yn ystod y deg diwrnod blaenorol, dywedir y gwnai yr Iuddewon gyffes neilldiol, bob un o'i bechodau ei hun; os troseddiadau o'r llech gyntaf a fyddent, cyffessent hwy i Dduw yn unig; os troseddiadau o'r ail a fyddent, cyffessent hwy hefyd i'r un a gawsai y cam. Pan y byddai troseddwr wedi dyfod o fewn deg cufydd i'r dihenyddfa, gorfyddai arno gyffesu ei feiau, ac erfyn ar i'w farwolaeth fod yn iawn am danynt. Yn nechreuad y flwyddyn, y mae yr Iuddewon diweddar yn cyffesu eu pechodau, gan sefyll mewn celwrn llawn o ddwfr. Bydd rhai o honynt, pan yn gleifion, yn eu cyffessu i Rabbi, neu ddysgawdwr o'r gyfraith, yr hwn sydd yn eu nodi i lawr yn ol trefn yr egwyddor. Ar eu gwelyau angau, y cyffessant hwy gyda llawer iawn o wâg ddefodau, lled debyg i ddull y Pabyddion.

Ar ddydd mawr y cymmod, gwnant gyffes o'u pechodau yn y modd canlynol, yr hyn a elwir *Cippur:* Dau luddew a ymneilldnant i gongl o'r synagog, y naill a ymgryma yn dra isel ger bron y llall, â'i wyneb tua'r Gogledd: y llall, megys derbynydd y gyffes, a rydd iddo 39 o ergydion ar ei gefn â charai o ledr, gan adrodd y geiriau hyn, *Duw, yn drugarog, a faddeuodd eu hanwiredd, ac ni ddyfethodd hwynt; ie, trodd ymaith ei ddigofaint yn fynych, ac ni chyffrodd ei holl lid.* Am nad oes ond tri ar ddeg o eiriau Hebrëig yn yr adnod hon, bydd efe yn ei hail-adrodd deirgwaith, gan ddilyn pob gair ag ergyd. Trwy gydol yr amser hwn, y mae y penyddiwr yn cyffessu ei bechodau, ac wrth gyffessu pob un, yn curo ei ddwyfron. Yna y maent yn newid eu sefyllfaoedd, a'r penyddiwr a dderbyn gyffes ei gyfaill yn y cyffelyb fodd.

Cawn ddau fath o gyffes yn yr Hen Destament; sef, cyffes moliant a chyffes pechodau. Nid oes dim yn fwy cyffredin yn yr ysgrythyr, na'r cyfryw ymadroddion â'r rhai hyn, Molienwch yr Arglwydd, Molaf yr Arglwydd. Yr oedd gan yr Israeliaid hefyd gyffesiadau dirgeleiddd a chyhoeddus, a chyffesiadau i Dduw ac i'r offeiriaid. Wrth gyflawni y ddefod ar ddydd mawr y cymmod, byddai yr arch-offeiriad yn cyffessu, mewn geiriau cyffredinol, ei bechodau ei hun, eiddo gweinidogion ereill y deml, ac eiddo yr holl bobl. Ar achlysuron ereill, pan y deuai Iuddew i offrymu aberth dros bechod, efe a osodai ei ddwylaw ar ben yr aberth, a chyffessai ei euogrwydd. Y mae rhai dehonglwyr yn meddwl fod rhwymedigaeth arno i ddadgan ei hun, nid yn unig yn bechadur, ond i gyffessu y pechod neilldnol hwnw, er gwneuthur cymmod am ba un yr oedd efe yn aberthu.

ADDFED—U, (add-med, *medi)* ffaeth, parod i'w dorri i lawr, neu i'w dynu. Y mae yr Anghristiau ac ereill, yn *addfed* i gryman barnedigaethau Duw, pan y bydd eu pechod yn amlhau yn gyffredinol; y maent wedi myned yn y blaen yn hir yn y drygioni mwyaf cyffrous, ac ni all amynedd Duw gyd-ddwyn â hwy ddim pellach, Dad. xiv. 18. Joel iii. 13.

ADDFWYN-DER, *(add-mwyn)* hynaws, llednais, tirion, tawel. Tymher ysbryd isel ac ymostyngol i ewyllys Duw, ac na chythruddir yn hawdd gan gamwri a sarhad. Yn y cwymp, collodd dyn yr addurn hardd hwn o eiddo Duw, ar ei enaid; ac a aeth yn gyndyn, yn waedwyllt, yn greulawn, ac yn anhawdd i'w drin. Yr oedd Moses yn dra llariaidd, ond yn y dyn Crist Iesu, gwelwn y tlws gwerthfawr hwn yn ymddangos ar ein daear yn ei berffeithrwydd a'i ogoniant. "*Addfwyn* ydwyf," medd efe, "a gostyngedig o galon." Y mae *addfwynder* hefyd, yn perthyn i bawb sydd yn dyfod at Grist, ac yn credu ynddo, Gal. v. 22. Iago iii. 17. Y mae yr Ysbryd Glân, trwy ddwys argyhoeddiad o bechod, yn darostwng, yn plygu, ac yn llariaiddio pechaduriaid ystyfnig, ac yn eu dwyn attynt eu hunain, i ymostwng ac ufuddhau i'r Arglwydd; megys y gwnaeth â Saul greulawn, (Act. 9.) Zaccheus y publican, y mab afradlon, a miloedd ereill o'u bath. Pan y gwelont nad oes ond trugaredd Duw a eill eu hachub, y mae y golwg hwnw yn eu darostwng i'r llwch ger bron Duw; ac yn eu gwneuthur yn dirion tuag at ereill. "Gwyn eu byd, y rhai *addfwyn:* canys hwy a etifeddant y ddaear," Math. v. 5. Y rhai o ysbryd llariaidd, dyoddefus, a maddeugar, o duedd pwyllog a thawel; yn cadw eu hanwydau dan iawn lywodraeth, y cyfryw a *etifeddant y ddaear,* sef bendithion y bywyd presennol, y penaf a'r goreu o ba rai a darddant oddi wrth addfwynder a llariaiddra. Yr ysbryd rhagorol hwn a rydd barch a harddwch i ddyn yn ngolwg ereill, ac a'i gwna yn wrthddrych eu hoffder, tra y byddo y serthaidd a digllawn yn myned yn ddirmygedig, er ei fawrhau âg amryw enwau gogoneddus. Y mae y diffyg o'r gras hwn yn gadael dyn yn agored i amryw ddrygau, tra byddo y dyn addfwyn yn rhagflaenu y dymhestl a ddûg y balch a'r digllawn ar ei ben ei hun. Y mae gostyngeiddrwydd ac addfwynder yn nglyn â'u gilydd, megys y mae balchder a digllonrwydd, i Pedr. iii. 4. Diar. xv. 1. Salm xxxvii. 11.

ADDUNED—U, *(add-uned,* undeb) gofuned, addewid a wneir i Dduw am gyflawni rhyw weithred dda yn ol hyn. *Addunedodd* Jacob i Dduw y degwm o'i holl feddiannau, Gen. xxviii. 20—22. *Addunedodd* Hannah ei mab Samuel i'r Arglwydd, ac i'w wasanaeth, 1 Sam. i, 12, 28. Rhoddir amryw reolau mewn perthynas i *addunedau* yn Lef. xxvii. Yr oedd *addunedau* plant, heb gydsyniad eu rhieni; a gwragedd, heb gydsyniad eu gwyr, yn hollol ddirym, Num. xxx. 1, 2, 3, &c. Tan yr Hen Destament, yr oedd *addunedau* yn dra chyffredin: ond dan y Testament Newydd, nid oes un gorchymyn neilldiol mewn perthynas iddynt. Oddi wrth hyn y casgl rhai eu bod yn perthyn mwy i'r hen oruchwyliaeth na'r newydd. Y mae enw Duw yn cael hefyd ei halogi trwy addunedau esgeulus ac anystyriol: Pan bydd y sylwedd o honynt naill ai yn anghyfiawn, yn analluadwy, neu yn afresymol; neu fod y peth a addunedir yn anfuddiol, ac heb duedd ynddo i ddwyn yn mlaen wir grefydd; neu fod y dull o wneuthur yr addoned yn fyrbwyll a digrefydd. Gan hyny, yr oreu a'r unig reol dda yn y peth hwn yw, nad ydyw yn mysg Cristionogion o un gwasanaeth, o un llesbad, ac nac oes yr un annogaeth yn cael ei roddi i ddim o'r cyfryw beth á gwneuthur addunedau mewn un modd: o herwydd pa ham y bydd i ddynion, yn ddiangenrhaid, ddwyn maglau ar eu heneidiau eu hunain, neu ymddyryssu mewn anhawsderau, lle nad oes yr un gorchymyn am hyny! Y mae yr addunedau y crybwyllir am danynt yn yr Hen Destament, oll naill ai yn rhanau o'r ddeddf seremoniawl Iuddewig, yr hon sydd yn awr wedi ei llwyr ddiddymu; neu, ynte, yn arwyddo yn unig, bwriadau cyffredinol i wasanaethu ac ufuddhau i Dduw, pa rai, nis gellir byth eu hadnewyddu yn rhy fynych, neu yn rhy ddifrifol; megys, pan yr *addunedodd* Jacob y byddai yr Arglwydd yn Dduw iddo; hyny ydyw, y byddai iddo ef barhau byth yn ddiymmod yn y wir grefydd. Yn wir y mae bedydd a swpper yr Arglwydd yn addunedau arbenig o ufudd-dod tuag at Dduw; ond y mae y sylwedd o honynt yn gyfryw ag oedd yn ddyledswydd anhebgorol arnom o'r blaen: ac y mae y fath adnewyddiad difrifol o'n bwriadau sanctaidd i gyflawni yr hyn, sydd yn hollol angenrheidiol i'w wneuthur, yn ddiammheuol, o ddefnydd mawr a pharhaus. Ond mewn achosion ereill, nid ydyw addunedau ar y goreu ond maglau afreidiol i ddynion; ac, yn gyffredinol, y maent o arferiad coel-grefyddol ac anghyfiawnadwy; o herwydd gellir gwneud yr hyn sydd gymhwys i'w wneuthur heb osod arnom ein hunain rwymedigaethau diraid; ac ni ddichon y cyfryw rwymedigaethau fod o un buddioldeb ond gosod dynion mewn maglau ac ammheuaeth heb achos. Felly y cyfarwyddyd goreu a ellir ei roddi i Gristionogion am y peth hwn, ydyw, peidio byth ymddyrysu mewn neb rhyw rwymedigaethau ereill mewn un modd; ond yn unig i ofalu cadw yr addunedau a'r bwriadau sanctaidd hyny, y rhai yr aethant iddynt mewn modd arbenig yn eu bedydd a swpper yr Arglwydd, Deut. xxiii. 21. Salm xxii. 25. Preg. v. 4. 5.

ADDURN—O, (*add-gwrn,* math o ysten bridd i gadw lludw y meirw; harddwch; trwsio, hoywi, tegychu. "Efe a *addurnodd* y nefoedd â'i ysbryd," Job xxvi. 13. Y mae y gronglwyd serenog hon wedi ei thaenu fel cysgod-len uwch ben trigolion y ddaear; a'r addurniadau gwychion a goddodog yn ymddangos i'n llygaid ni, i'r dyben o'n dwyn i ryfeddu a mawrhau yr hwn sydd wedi eu gosod, ac yn parhau i'w cynnal yn ý drefn oddiog y gwelir hwynt. Mae y lloer a'r sêr, *addurniadau* ysplenydd y nefoedd, wedi eu gosod a'u trefnu yn gyfaunedd, yn y modd mwyaf hardd a hyfryd i edrych arnynt. Y sêr ydynt fel cynnifer o dlysau heirdd yn addurno holl wyneb yr wybren oleu-las uwch ein penau. Yr hwn a ennynodd y lampau goleu hyn, sydd yn eu cadw trwy yr holl oesoedd heb ddifoddi. Er eu bod yn y ffurfafen yn gosod allan lawer o bethau am yr Arglwydd fel Creawdwr a Chynnaliwr y byd; etto rhaid i ni gael y cyfan o'n gwybodaeth am dano fel Duw yr iachawdwriaeth, allan o'r ysgrythyrau sanctaidd. Efe, yr hwn sydd wedi addurno y nefoedd mor bryd-

ferth, ydyw yr hwn a fedr addurno calon halogedig dyn âg addurn sanctaidd ei Ysbryd Glân, yr hwn a bery pan na lewyrcho y sêr mwyach.

ADDYSG—U, *(a-dysg,)* athrawiaeth, cyfarwyddiad; athrawiaethu. *Ceryddon addysg*, sef ceryddon er *addysg*, yn athrawiaethol, neu yn rhagluniaethol, Diar. vi. 23. Y mae pechaduriaid sydd yn byw mewn cariad at eu pechodau, yn casâu *addysg* duwiol, sanctaidd oddi wrth Dduw, Salm l. 17.

AELOD—AU, *(ael,* cangeniad oddi wrth beth.) Yn (1.) Rhan o gorph dyn, megys coes, llaw, clust, llygad, &c. Salm cxxxix. 16. O herwydd fod ein holl ddyn, enaid a chorph, wedi ei uno yn y cyfansawdd, y mae cynneddfau yr enaid, yn gystal â rhanau y corph, yn cael eu galw *aelodau*, Rhuf. vi.12. (2.) Crist a'i bobl, a'u hystyried megys corph, y seintiau a elwyr ei *aelodau* ef, ac *aelodau o'u gilydd*. Y mae undeb agos rhyngddynt âg ef megys eu pen, ac y maent wedi eu cyd-gysylltu â'u gilydd fel ei eiddo, trwy fod ganddynt yr un ysbryd, rhwymedigaethau, proffes, ac ymarferiad, Ephes. iv. 25, a v. 30. (3.) A'i ein hegwyddor dufewnol o, lygredd a'i chyffelybu i *gorph*, y mae yr amrywiol wyniau a chwantau perthynolíddi, yn cael eu galw *aelodau*, ac *aelodau ar y ddaear*; y rhai sydd â'u tuedd at bethau daearol, ac yn cael eu mawr gyffroi a'u cynhyrfu gan y corph daearol, Rhuf. vii. 23. Col. iii. 5.

AELWYD, *(ael,)* lle y llosgir tân arno. Esgyrn pobl trwm-gystuddiol a gyffelybir i *aelwyd*, o herwydd fod barnedigaethau Duw, a'u blinder tufewnol eu hunain, megys yn llosgi arnynt, ac yn gwneud eu cyflwr yn ddigyssur, ac yn dra gofidus, Salm cii. 3. Lywodraethwyr Judah, y Maccabëaid ac ereill, ydynt, neu a fyddant fel *aelwyd*, neu ffurnef danllyd yn mhlith coed; lladdasant neu lwyr a laddant ac a ddyfethant eu gelynion o amgylch yn rhyfeddol, Zech. xii. 6.

AENEAS, *(canmóladwy.)* enw dyn yn Lyda, yr hwn a orweddodd wyth mlynedd yn glaf o'r parlys, ac a iachawyd gan Pedr, Act. ix. 33. Teilwng ydyw i ni sylwi ar y dull y gwnaeth Pedr y gwyrth hwn, a'r gwahaniaeth sydd rhyngddo â'r modd yr oedd Crist yn cyflawni ei weithredoedd o ddwyfol allu a daioni. Y mae gwahanol nodweddiad y *gwas* a'r *mab*, y *Creadur* a'r *Creawdwr* yn weledig yn mhob man. Wrth gyflawni y weithred hon, pa fodd bynag, tebygol i Pedr ganlyn ein Harglwydd, mewn rhan, yn y dull o ymadrodd, ond yn benaf, yn yr arwydd a'r prawf fod y weithred yn berffaith, (Marc ii. 9. Ioan v. 8.) gyda y gwahaniaeth hynod hwn yn unig; sef, nad oedd y ddau ddyn a iachaodd ein Harglwydd yn eu cartrefydd eu hunain; ac, oblegid hyny, gorchymynwyd iddynt, *gymmeryd i fynu eu gwelyau*, neu yr hyn y gorweddasent arnynt, a rhodio ymaith. Ond Aeneas, yr hwn a iachaodd St. Pedr, oedd gartref, ac yn cael ei wely; ac, am hyny, gorchymynwyd iddo gyfodi, a chyweirio, *ysgwyd* a *gwastadtau* ei wely ei hun, fel prawf fod yr iachad yn wirioneddol a pherffaith.

Gellir sylwi, na ofynwyd dim *ffydd* yma gan y gwr ag oedd i gael ei iachau; ac felly yr oedd ar lawer achos arall, pan fyddai dynion, fe allai, anwybodus am Grist, yn cael eu hiachau yn annisgwyliadwy. Ond pan fyddai dynion eu hunain yn erfyn am wellhad, yr oedd mynegiad o'u ffydd yn cael ei ofyn yn fynych, fel na byddai i neb gael eu cefnogi i wneud profiadau o ran cywreinrwydd, mewn modd ag fyddai yn dra anweddiadd, ac yn arwain i amryw ganlyniadau drwg. Effeithiodd y gwyrth hwn mor hynod ar drigolion Lyda a Saron, fel yr ymchwelasant at yr Arglwydd.

AERON, ffrwythau haf, megys afalau, gellaig, cnau, &c. Dad. xviii. 14.

AFAL, *(a-bal,* crogiad drosodd.) Y pren afalau sydd blanhigyn digon adnabyddus, mawr, prydferth, a ffrwythlawn; y mae y rhywiogaethau yn lluosog; a'u ffrwyth yn grynaidd, yn adlonnawl, yn oerawl, ac yn feddyginiaethol. Ysgatfydd fod yr Hebreaid yn helaethu yr enw hwn i brenau gellaig, ceirios, a choed ffrwythlawn ereill. Ië, dywed *Brochard*, nad oedd ond ychydig o'r naill na'r llall o honynt yn Nghanaan. Er fod llawer o rifedi o brenau eur-afalau a lemwn yn tyfu yn y

wlad bono yn awr, annilys ydyw a oeddynt felly yn oes ein henafiaid. Tebygol ydyw, gan hyny, fod y gair Hebreig *tappuah* yn arwyddo yn briodol y pren *citron*, a'i ffrwyth. Y mae y prenau *citron* yn dra arddorchog. yn fawrion iawn, a'u dail yn hynod brydferth, ac yn aros ar y pren dros y flwyddyn; y maent yn arogli yn beraidd odiaeth, ac yn rhoddi cysgod tra hyfryd. Y mae eu ffrwyth, neu yr afalau, yn dra melus a hyfryd, o liw euraidd, yn dra pheraidd eu sawr, ac yn gymhwys i'w harogli gan rai a fyddant ar lesmeirio, Can. viii. 5; ii. 3, 5; vii. 8. Diar. xxv. 11. Yr oedd Damascus, yn Syria, yn hynod neilltuol am ei hafalau a'i gellaig rhagorol, a'r Aipht am ei rhai drwg. Y mae Iesu Grist yn cael ei gymharu i *bren afalau yn mysg prenau y coed*; hwyrach mai pren yr eur-afal, *(citron,)* a feddylir, i nodi ei uchder gogoneddus, ei harddwch, ei ffrwythlondeb, a'i gysgod tirion; yn nghyd â rhinwedd calon-adlonnol, esmwythaol, a meithrinol ei ddylanwadau, Can. ii. 3. Y mae addewidion ysbrydol a bendithion y cyfammod newydd yn cael eu galw *afalau*; fel y maent yn dyddanu, yn maethu, yn adnewyddu, yn adfywio, ac yn iachau ein henaid! Can. ii. 5. Geiriau da a ddyweder mewn amser, ydynt fel yr eur-afalau *(citrons) mewn gwaith arian cerfiedig*; y maent yn ymddangos yn dra heirdd, ac yn gweithredu yn dra hyfryd ac adeiladol, Diar. xxv. 11.

AFIECHYD, *(af-iechyd)* saldra, anhwyl corphorol. Y mae llawer o afiechyd dynion yn tarddu oddi wrth eu dull o fyw: y mae segurdod, diogi, moethau ac anghymmedroldeb yn cenhedlu y plâau mwyaf gofidus a dychrynllyd ar ddynion; megys y gymmalwst, y graeanwst, afiechyd yr ysgyfaint, &c. O'r tu arall, y mae glanweithdra, cymmedroldeb, boreu godiad, gochelyd syrthni, ac awyr laith, yn gymhorth mawr at gadw y corph yn iach. Doluriau a marwolaeth ydynt ganlyniadau ac effaith pechod; hwn yw y meddyldrych sydd genmym am danynt o'r ysgrythyr. Yr oedd yr hen Hebreaid, y rhai oeddynt yn hynod o anghyfarwydd mewn myfyrdodau ar athronyddiaeth naturiol, ac anfynych yn cyrchu at achosion anianyddol, ac i ymofyn â meddygon, pan fyddent yn gleifion, yn priodoli eu clefydau, gan mwyaf, i ysbrydion drwg, megys ewbl hawyr y dwyfol ddialedd. Os byddai eu anhwyldeb yn ymddangos uwchlaw cyffredin, a'r achos o hono yn anadnabyddus iddynt, ni phetrusent ddywedyd, mai dyrnawd oddi wrth law ddialeddol Duw ydoedd; atto ef y byddai y doethaf a'r mwyaf crefyddol yn cyrchu am iachâad; ac achwynir ar y brenin Asa am osod ei hyder ar feddygon, pan yr oedd arno y droedwst, ac am beidio galw ar yr Arglwydd am borth, 2 Cron. xvi. 12. "Ni cheisiodd efe yr Arglwydd yn ei glefyd, ond y meddygon." Yr oedd cyfeillion Job yn bwrw yr holl glefydau, â pha rai y cystuddid y gwr sanctaidd hwnw, ar gyfiawnder Duw, Job iv. 7, 8. Gwahanglwyfau, y rhai oeddynt mor gyffredin yn mhlith yr Iuddewon, a drinid megys clefydau wedi eu danfon gan Dduw; yr offeiriaid oeddynt y personau a farnent am natur ac ansawdd y drwg hwn, a gauent ar y claf, ac a gyhoeddent ei fod wedi iachau, neu fod y gwahanglwyf arno; ac ar ol iddo wellhau, byddai yn offrymu ebyrth, fel pe bai, er gwneuthur cymmod am ei gamweddau. Tarawyd Miriam, Gehazi, a'r brenin Uzzia yn ddisymmwth â'r gwahanglwyf; y flaenaf, megys cosp am ei hymadroddion enllibus; yr ail, am ei ariangarwch; a'r trydydd, am ei ryfyg, Num. xii. 10. 2 Bren. v. 27. 2 Cron. xxvi. 21.

Yn y Testament Newydd, y mae yr achos o amryw ddoluriau yn cael ei briodoli i'r diafol. Dywedir yno, fod y diafol wedi rhwymo y wraig, yr hon oedd wedi cyd-grymmu ers deunaw mlynedd, Luc xiii. 16. "Oni ddylai hon, a hi yn ferch i Abraham, yr hon a rwymodd Satan, wele ddeunaw mlynedd, gael ei rhyddhau o'r rhwym hwn ar y dydd Sabbath?" Yn adnod 11, cryhwyllir am yr un person, megys ag ynddi ysbryd gwendid, hyny yw, clefyd trwm wedi ei osod arni gan y diafol. Dywedir i ni, am gythraul mud, Luc xi. 14. hyny ydyw, un oedd yn achlysuro y gwendid hwn yn y dyn oedd wedi ei feddiannu ganddo; a pha bryd bynag y byddai Crist neu ei apostolion

yn ewyllysio adferu y dynion anhwylus hyn i'w hiechyd, dechreuent gan fwrw allan y cythreuliaid; o herwydd yna byddai yr iachäad yn canlyn yn ddiattreg.

Y mae yr apostol Paul yn priodoli marwolaeth a selni amryw i'w cyfranogiad annheilwng o swpper yr Arglwydd, 1 Cor. xi. 30. "Oblegid hyn y mae llawer yn weiniaid ac yn llesg yn eich mysg, a llawer yn huno." Y mae yr un apostol yn bwrw yr anhwyl, â pha un y cystuddiwyd ef, ar angel drwg, 2 Cor. xii. 7. "Rhoddwyd i mi swmbwl yn y cnawd, cennad Satan i'm cernodio." Yr angel dinystriol oedd yr un a wnaeth y fath ddifrod yn ngwersyll yr Assyriaid, 2 Bren. xix. 35. Yr angel dialeddawl oedd yr un a dynodd ei gleddyf yn erbyn y bobl, ac a'u tarawodd â haint y nodau, fel cosp am bechod Dafydd, 1 Cron. xxi. 15, 16. Dim cynt y cymmerasai Abimelec brenin Gerar Sarah gwraig Abraham ymaith trwy drais, nac y bwgwthiwyd ef â marwolaeth, Gen. xx. 3, 4. Dygwyd bywydau Er ac Onan, meibion Judah, ymaith gan lleintiau dyeithr, am iddynt gyflawni gweithredoedd gwarthruddus ac adgas, Gen. xxxviii. 7, 10. A'r Philistiaid a darawyd â chlwyf ffiaidd am beidio trin yr arch gyda'r parch a haeddai, 1 Sam. v. 12. Crybwyllir am luaws mawr o glefydau yn yr ysgrythyr, a anfonwyd gan Dduw mewn ffordd o gosp am bechod.

Clefydau yr Aipht, rhag pa rai yr addawodd Duw amddiffyn ei bobl, Exod xv. 26. a pha rai a fwgwthiodd efe, os yr anufuddhaent, eu dwyn arnynt, Deut. xxviii. 60. ydynt naill ai y plâau y blinodd Duw yr Aipht â hwy cyn ymadawiaid yr Israeliaid, neu y clefydau oeddynt fwyaf cyffredinol yn y wlad, megys dallineb, llynorau yn y coesau, y darfodedigaeth, a'r gwahanglwyf a elwir *Elephantiasis*, yr hwn oedd briodol i'r wlad hon, megys y sylwa Pliny.

Megys y cafodd añechyd ar y corph dynol ei arwain i mewn ar y cyntaf gan bechod, ac y mae yn parhau hyd heddyw, fel un o dystion safadwy y felldith, gwel Lef. xxvi. 16.; felly pan y daeth Crist i ddinystrio gweithredoedd y diafol, efe a aeth oddiamgylch, gan iachau pob math o afiechyd, Math. ix. 35, a Ioan v. 4, yr hyn oedd yn arddangos yn eglur mai Efe yn unig oedd meddyg yr enaid a'r corph. Os oedd ei air yn nerthol i ddywedyd, cyfod, cymmer i fynu dy wely a rhodia; pa fath wystl cyssurus sydd genym, y dichon ei air, gwirionedd yr efengyl, ein gwared rhag ein anhwyldeb mawr, sef PECHOD!

AFLAFAR, *(af-llafar)* mud, anghydseiniol. "Y mae cymmaint o rywiogaethau lleisiau yn y byd, ac nid oes un o honynt yn *aflafar*," 1 Cor. xiv. 10, sef heb ei briodol ystyr gwahaniaethol oddi wrth bob swn neu lais arall. Y mae, er anghraifft, llawer o wahanol ieithoedd yn y byd, a'r rhai hyn oll âg ystyr iddynt. Ond os nad wyf yn deall yr iaith, myfi a fyddaf, mewn perthynas i'r hwn sydd yn ei harfer hi, megys estrawn, a bydd yntau felly i minau. Gan fod yn eich plith y fath orchest i ragori mewn doniau ysbrydol, ceisiwch ragori yn y rhai sydd yn tueddu fwyaf i adeiladaeth y gynnulleidfa.

AFLAN—HAU, *(af-glan)* budr, halogedig, Y mae personau neu bethau yn aflan, yn (1.) yn naturiol; felly y mae tomenau a chreaduriaid adgas yn *aflan*, Dad. xviii. 2. **Yn** (2.) yn seremoniawl; yr oedd y cyfryw bersonau ag a gyffyrddent â chyrph meirw, a alarent am y marw, a lluaws mawr o anifeiliaid, fel hyn yn *aflan*, Num. xix. Lef. i. hyd yr xvi. Yn (3.) yn gyfammodol; fel hyn y mae plant Cenedl-ddynion yn *aflan;* nid ydynt mewn cyfammod â Duw, ac nid oes ganddynt hawl i dderbyn insel y bedydd, 1 Cor. vii. 14. Yn (4.) mewn meddwl petrusaidd; felly yr oedd rhai bwydydd yn cael eu cyfrif yn *aflan*, gan y prif Gristionogion, Rhuf. xiv. 14. Yn (5.) yn foesawl, wedi ymhalogi â phechod; felly y mae y cythreuliaid yn ysbrydion *aflan*, Math. x. 1. ac y mae pawb dynion megys peth *aflan*, Esa lxiv. 6. yn neilldiol, pechaduriaid yn erbyn y seithfed gorchymyn, yr hyn sydd ar unwaith yn halogi enaid a chorph, ydynt *aflan*, Eph. v. 5.

AFLES—OL, *(af-lles)* anfuddiol, dielw. Dywed yr apostol fod "dirymiad o'r gorchymyn (neu ddeddf Moses) o herwydd ei lesgedd a'i *afles*," Heb vii. 18. Yr oedd y ddeddf yn ddiffygiol mewn dau beth, trwy yr hyn, yn yr ystyr caëth hwn, yr

ydoedd yn *anfuddiol*, mor belled a gwneuthur un peth yn berffaith. Yn gyntaf, yr oedd yn ddiffygiol, o herwydd ei hanallu i gynnorthwyo y rhai oeddynt dani, i ennill yr oruchafiaeth ar eu cnawd, neu eu tueddiadau llygredig: yr oedd y ddeddf yn gofyn cyflawn ufudd-dod, ond ni roddai un cynnorthwy yn erbyn eu chwantau drwg. Yr ail beth oedd ei thoster llym, yn erbyn yr hyn, ni wnai un darpariaeth, mewn ffordd o dynerwch. Ni adawai le i gymmod; y troseddd lleiaf oedd farwol; marwolaeth oedd cosp anocheladwy troseddiad, yn ol dedfryd y ddeddf. Mae epistolau Paul yn llawn o hyn; ac fe ddengys yn Heb. x. 5. 10. pa fodd y'n gwaredir oddi wrth hyn trwy gorph Crist. Y mae hi (y gyfraith) fel dryeh goleu i ddangos pechod, ac yn gref i euog-farnu pechadur; ond nis gall ei achub na'i lanhau.

AFLUNIAIDD, *(af-llun)* anferth, dilun. "A'r ddaear oedd *afluniaidd* a gwag," Gen. i. 2. Yr oedd yr elfenau yn gymmysgedig, heb eu neilldua oddi wrth eu gilydd, heb drefn, harddwch, na defnyddioldeb. Yr oedd y cwbl yn un telpyn tywyll a chymmysglyd, heb laswellt na llysiau, coed nac anifeiliaid; y môr a'r tir heb eu didoli oddi wrth eu gilydd.

AFLWYDD-O *(af-llwydd)* amffawd, dryglam. "Distryw ac *aflwydd* sydd yn ffyrdd pechaduriaid," Rhuf. iii. 16. Gan fod eu ffyrdd yn groes i Dduw, y mae Duw, yn ei briodoliaethau, yn ei oruchwyliaethau, a'i ragluniaethau, yn groes iddynt hwythau; am hyny nis gallant lwyddo: ond tynu pob trueni a gofidiau arnynt eu hunain, heb newid eu ffyrdd.

AFON-YDD, *(aw,* hylifedd) 1. Ffrwd o ddwfr croyw yn llifo tua'r môr mewn dyfr-le cenol, Gen. ii. 10. Gelwir amryw *afonydd* yn Lloegr yn awr wrth yr enw hwn; megys yr un hono sydd yn ymarllwys i'r Hafren, ychydig islaw Caerodor, ac un arall o'r enw, yn swydd Caerloyw: y Saeson yn eamgymmeryd yr enw cyffredinol am *afon* fel yn enw ar ryw *afon* neilldnol. Y prif afonydd yn Asia, ydynt yr Euphrates, Tigris, Indus, Ganges, Kyang, Lena, Jenisea, ac Oby. Y rhai sydd yn nghyfandir Ewropa, ydynt y Wolga, Don, Nieper, Niester, Danube, Duina, Duna, Weissel, Oder, Elbe, Weser, Rhine, Po, Tiber, Rhodwyn, Seine, Garonne, Loire, Ebro, Tajo, Guadiana, Guadalquir. Rhai Affrica ydynt y Nilus, Senegal, Zaire, a Bravagal. Rhai America ydynt yr afon De la Plata, yr afon Amazons, y Mississippi, a St. Lawrence. Yn Nebeu-dir America, y mae yr afon De la Plata, wedi rhedeg amryw filoedd o filltiroedd, yn ymdywallt mor nerthol i'r môr, fel y mae yn cadw ei chroywder amryw filltiroedd oddi wrth y tir. Y mae ei lled, yn agos i'w cheg, yn 150 o filltiroedd. Yr afon Amazons, hefyd, yn y dehau, sydd yn rhedeg 3000 o filltiroedd cyn cyrhaedd y môr, rhwng Brazil a Guiana, lle y mae yn ymdywallt, yn 200 o filltiroedd o led. St. Lawrence, hefyd, sydd afon fawr iawn yn y gogledd, yn cael y môr yn agos i Newfoundland. Y mae y Mississippi, yn Ngogledd America, yn rhedeg, a chyfrif ei throellau, 4500 o filldiroedd cyn cael y môr. Yr afonydd penaf yn Mhrydain ydynt yr Hafren, Tafwys, Dyfrdwy, Hymyr, Tyne, Wysg, Clwyd, Tweed, Forth, Tay, Spey, a Nesse. Yr afonydd a grybwyllir yn yr ysgrythyr ydynt y Nilus yn yr Aipht, yr Iorddonen, Cison, Jabboc, ac Arnon, yn Nghanaan. Dyfroedd Nephtoa ac Etam a ddylent gael eu rhestru yn hytrach, yn mhlith y nentydd. Yn Syria, yr ydym yn darllain am yr Abana a Pharpar. Yn Caldea, a gerllaw yno, cawn yr Euphrates, Hidecal, Gihon, Pison, Cebar, Ahafa, ac Ulai. Y mae yr Euphrates a'r Nilus, weithiau, yn cael eu galw yr *afon* mewn ffordd o odidogrwydd, Ezra iv. 10, 16. Salm lxxx. 11. Esa xxiii. 3. Y mae y Môr Coch, ac, ysgatfydd, hefyd, Môr y Canoldir, yn cael ei alw yr *afon*, Salm lxxiv. 15. Hab. iii. 8. Esa xxiii. 3. *O'r afon hyd derfynau y ddaear*, ydyw o'r Euphrates hyd làn Môr y Canoldir; neu, geill y geirian arwyddo, y byddai i'r eglwys Gristionogol hanfodi dros amryw oesoedd rhwng yr Euphrates yn y dwyrain, ac Hispaen yn y Gorllewin, Salm lxxii, 8. Zec. ix. 10. Y mae Duw yn cael ei gyffelybu i *afonydd llydain*; mor helaeth a digonol ydyw y dylanwad adfywiol a gyfrana i'w bobl!

ac mor gyflawn ydyw ei ddiogelwch o honynt! Esa. xxxiii. 21. Crist a gyffelybir i *afonydd o ddyfroedd* mewn sychdir; mor helaethlawn, rhad, a pharhaus, yw dylanwad glanhawl, a daddlinawl ei waed a'i Ysbryd! Esa. xxxii. 2. Yr efengyl, a'i hordinhadau a'i bendithion, yr Ysbryd Glân a'i ddylanwadau, a'r llawenydd a berthyn i'r ystâd nefol, a *gyffelybir i afon*, i nodi eu cyflawnder, purdeb, bythol barhad, a'u gweithrediad sancteiddiol a diffynol, Ezec. xlvii. 5, 9. Ioan vii. 38. Joel iii. 18. Salm xlvi. 4. a Ioan xvi. 7. Y mae Duw *yn cyfodi ei law ar yr afon, yn taro ei ffrydiau, ac yn gwneyd mynediad drosodd yn droedsych*, pan y bydd efe, yn hawdd ac effeithiol, yn symud pob anhawsder sydd, megys afon gyfryngol, yn gorwedd ar ffordd ei gyflawniad o'i fwriad, ac iachawdwriaeth a gwaredigaeth ei bobl. Amlwg yw, mai wrth yr *afon* sydd i'w tharo, y meddwl y prophwyd yr Euphrates, ac nid y Nilus, fel y barnodd llawer. Ni buasai taro yr *afon* Nilus yn agor ffordd i'w bobl o Assyria, Esa. xi. 15. a xlix. 27. *Afonydd a ffynnonau dyfroedd* llywodraeth Anghrist a allant fod yn dynodi ei dysgawdwyr ac amddiffyniadau ei hachos, a'r hyn sydd yn tueddu i'w chynnal a'i chwanegu, neu y gwleddydd dyfradwy yn ngogledd yr Ital a gwlad y Swiss, Dad. xvi. 4. Myned trwy y wlad megys *afon*, ydyw ffoi ymaith mor gyflym ag y byddo alluadwy, yn dorfeydd, ac i beidio dychwelyd, Esa. xxii. 10. *Afon* Pharaoh a wnaed ganddo ei hun a all fod yn nodi ei awdurdod a'i olud, Ezec. xxix. 3. Pa beth bynag sydd yn dra helaeth a gyffelybir i *afon*, megys amldra o ddagrau, neu o heddwch, olew, neu ddigrifwch, Esa. xlviii. 18. Job xxix. 6. Salm xvi. 11. Trancell fawr y Behemoth o ddwfr a elwir yn *afon*, Job xl. 23. Y mae *afonydd o ddwfr byw'iol* yn dylifo o groth y seintiau, pan y bydd eu cyflawnder tufewnol o ras ysbrydol yn ymddangos yn lluosogrwydd ei gweithredoedd da. Y mae *afonydd* o gyssuron sanctaidd yn dufewnol, a'r rhai hyny yn torri allan yn *afonydd* ffrwythlawn, yn eu bucheddiad a'u rhodiad allanol, Ioan vii. 38. Efe a ŷf o'r *afon* ar y ffordd, &c. Y mae awduron yn amrywio yn eu meddyliau am ystyr priodol y geiriau hyn, Y mae rhai yn eu priodoli i ddyoddefiadau Crist; ereill a farnant fod *yfed o'r afon* yn ddarluniad mwy priodol o gyfranogiad helaeth y natur ddynol, yn mherson y Mab, o gymorthwyon dwyfol yr Ysbryd Glân, i fyned trwy ei holl ddyoddefiadau, er eu trymed, a derchafu ei ben yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion, ac i'w addasu i weinyddiad ei swydd gyfryngol, yn yr holl waith pwysig perthynol iddi, Salm cx. 7.

AFRADLON—I, *(af-rhad)* difrodwr, un yn gwastraffu trugareddau, megys bwyd, diod, dillad, &c. Diar. xxviii. 7. "Ac yno efe a wasgarodd ei dda, gan fyw yn *afradlon*." Gwedi iddo gymmeryd ei daith i wlad bell, efe a wasgarodd ei dda yno, gan fyw yn drythyll ac anllad, gan foddio ei drachwant, trwy ganlyn pob math o goeg-ddifrifwch cnawdol a phechadurus, Luc xv. 13.

AFREOLUS, *(af-rheol)* annhrefnus, direol. "Rhybuddiwch y rhai *afreolus*," neu *allan o drefn*, 1 Thes. v. 14. Gair milwraidd ydyw, yn mynegu gweddnod milwyr, y rhai ni chadwant eu lle, ac ni adwaenant eu lluman. Y rhai sydd yn sefyll, fel pe bai, allan o'u rhestr eu hun, yn y rhyfel ysbrydol; yr oedd rhai o'r fath hyd yn nod yn yr eglwys yn yr oes gyntaf.

AFRLLAD—EN, *(afr-llad)* teisenau teneuon. Teisen beilliad groyw, wedi ei chymmysgu trwy olew, neu *afrlladen* groyw wedi ei heneinio âg olew, Lef. ii. 4. Yr oedd y teisenau hyn wedi eu cymmysgu âg olew; ond nid oedd yr *afrllad* i gael eu cymmysgu âg olew, ond eu heneinio âg ef, Exod. xxix. 2. Lef. vii. 12. Num. vi. 15. Y peilliad gwenith, o ba un y gwnaent yr *afrllad*, oedd yn arwyddo purdeb Crist, a'i holl bobl a'u holl wasanaeth ynddo; yr olew a arwyddai gras a chyssurion yr Ysbryd Glân. Yn y teisenau, yr oedd y peilliad wedi ei gymmysgu âg olew, a'r *afrllad* wedi eu heneinio âg ef; felly y mae gras yr Ysbryd Glân oddi fewn ac oddi allan i'r duwiolion: y maent wedi eu cyd-dymheru âg ef, ac wedi eu heneinio hefyd, 1 Ioan ii. 27. 2 Cor. i. 21.

AFU, *(a-bu* egwyddor fywiol,) rhan dufewnol o ddyn ac anifel. Darn o gnawd cilchwyrnog mewn dyn, yn gorwedd yr ochor ddehau, ac yn ymestyn dros yr ochr ddehau i'r cylla, ac yn meinhau tua'r pen. Y pethau sydd yn chwanegu pwysau y galon ydynt yn gydradd yn lleihau pwysau yr *afu;* a'r pethau sydd yn lleihau pwysau y galon, ydynt yn chwanegu pwysau yr *afu* yn yr un gradd. Yn ganlynol, pan fyddo rhyw anifel yn tewychu trwy lawer o gysgu, ymborth, segurdod, ac ychydig o waith, y mae y galon yn lleihau, a'r *afu* yn cynnyddu; ac felly yn y gwrthwyneb. Yr oedd yr *afu* yn un o'r perfedd anifeiliaid a edrychid gan y Caldeaid a Chenedloedd ereill, yn eu dewiniaeth, Ezec. xxi. 21. Bŏd *yr afu wedi ei dywallt ar y ddaear*, sydd yn mynegu gofid mawr, a thrallod tufewnol, Galar. ii. 11. Bod *yr afu wedi ei ddryllio*, sydd yn arwyddo treulaid poenus yr ymysgaroedd, a llwyr ddinystr o'r herwydd, Diar. vii. 23.

AFFRICA. Un o bedryfanoedd y byd. Y mae agos yn ynys, wedi ei chydio âg Asia yn unig a llain o dir yn nghylch 60 milltir o led, a elwir *Isthmus of Suez*, neu Gyfyngdir Suez, rhwng y Môr Coch a Mor y Canoldir. Y mae Affrica yn 4300 o filltiroedd o hyd, o'r Penryn Bona wrth Fôr y Canoldir, i Benryn y Gobaith Da, sef, *Cape of Good Hope;* sef o'r gogledd i'r dehau. Ei led, yn y man llettaf, yw 3500 o filltiroedd, o'r dwyrain i'r gorllewin. Y mae Mór y Canoldir o du y gogledd iddi, yn ei gwahanu oddi wrth Europa; Cyfyngdir Suez, y Môr Coch, a Mór India o du y dwyrain iddi, yn ei gwahanu oddi wrth Asia; a Mór Werydd o du y gorllewin iddi, yn ei gwahanu oddi wrth America. Gellir ystyried Affrica yn y drefn ganlynol: yn gyntaf, yr Aipht; yna Abyssinia a Bornou; y Teyrnasoedd Mahometanaidd yn y gogledd; y cenhedlaethau ar yr arfordir gorllewinol; trefedigaeth y Gobaith Da yn y dehau; ac yna y teyrnasoedd dwyreiniol gyferbyn a Madagascar. Poblwyd y wlad hon, gan mwyaf, gan biliogaeth Ham: a chan y Canaaneaid a ffoisant yno pan y goresgynodd Josuah eu gwlad. Y mae llawer o honi yn hynod boeth, ac yn annyoddefol i drigolion Ewropa. Nid oes eira i'w weled yma, ond ar benau y mynyddoedd. Y mae llawer o honi yn ddiffaethwch a thywodydd poethion, yr hyn sydd yn mawr chwanegu poethder yr awyr yno. Y mae anial-fanau tywodog Zahara yn 1500 o filltiroedd o hyd, wrth 800 o led. Y mae y diffeithleoedd hyn yn gyffelyb i foroedd, y tywodydd yn cael eu cyffroi gan y gwyntoedd yn debyg i ddyfroedd, ac y mae tymhestloedd arnynt hwy yn fwy dinystriol i deithyddion nag ydyw y môr i forwyr. Y mae ynddynt *Oases* neu fanau ffrwythlawn, yn gyffelyb i ynysoedd, trigolion pa rai ydynt wedi eu neilduo oddi wrth bawb ereill o'r byd; a galluogir minteioedd o farchnadyddion ac ereill trwy y rhai hyn, i groesi ardaloedd dirfawr eu maint. Y prif afonydd yn Affrica ydynt y Nilus yn yr Aipht, y Niger, Gambia, Zaire, a'r Senegal. Meddylir fod y Niger, ar ol rhedeg ychwaneg na 1100 o filltiroedd tua'r gorllewin, yn ymgolli mewn gwyllt'anoedd tywodog. Mewn gwirionedd, ychydig a wyddys am y rhanau tufewnol o'r cyfandir gorfawr hwn, er fod llawer o hysbysrwydd wedi cael ei dynu oddi wrth amryw ymgyrchfaoedd buddiol diweddar. Mewn canlyniad i'r gwlawogydd cylchynol, y mae afonydd Affrica yn llifo dros eu glanau o Fehefin hyd Fedi, trwy ba foddion y maent yn ffrwythloni y wlad, ac yn gadael ar eu hol, mewn dyfr-ffosydd a ddarparwyd i hyny, fesur digonol o ddwfr am y gweddill o'r flwyddyn. Y mynyddoedd mwyaf enwog ydynt, yr *Atlas* yn Morocco, yr hwn a rydd yr enw *Atlantic* i For Werydd, mynyddoedd y Lleuad o du y dehau i Darffur ac Abyssinia; a mynyddoedd Sierra Leone. Y mae sefyllfa Affrica yn hynod o gyfleus at farchnadaeth, gan ei bod yn sefyll megys yn nghanol y byd, a thrwy hyny, yn nes at y parthau ereill nag ydynt hwy at eu gilydd: ond y mae mewn gradd mawr wedi ei hesgeuluso gan y brodorion a pheiledigion. Bu ynddi, yn yr hen oesoedd, deyrnasoedd mawrion, megys yr Aipht, Carthage, Abyssinia, &c. Bu Carthage, yn sefyll yn agos i'r lle a lenwir yn awr gan y ddinas Tunis.

unwaith yn cyd-ymerlyn â Rhufain am yr oruchafiaeth, ac yn estyn ei masnach dros bob rhan o'r byd adnabyddus. Y mae ei thrigolion oll, naill ai yn felynion neu yn ddduon; ac o ran crefydd, y maent naill ai yn Baganiaid, Mahometaniaid, neu yn Gristionogion. Dygwyd yr efengyl yn foreu i rai parthau o'r wlad hon, a bu eglwysi blodeuog yn y cyn-oesoedd yn yr ardaloedd ar Fôr y Canoldir, yr Aipht, Abyssina, &c. a bu amryw o wyr enwog yno; megys St. Cyprian, Awstin, &c.; ond wedi dirywiad Cristionogaeth, gorescynodd y Saraceniad y wlad, a dygasant au-grefydd Mahomet ar adenydd eu byddinoedd gyda hwynt. Gwlad anghenfilod ydyw Affrica, pob rhywiogaeth o greaduriaid niweidiol ac ysglyfaethus a deyrnasa yn anghyffroedig yn anialwch gorfawr y cyfandir hwnw, gan amlhau yn fawr trwy wres angherddol y fro. Hyd yn nod dyn, yn y rhan hon o'r byd, sydd yn hanfodi yn y cyflwr o'r anwybodaeth dyfnaf. Ond wedi diddymu y gaeth-fasnach greulawn, y mae ymdrechiadau llwyddiannus yn cael eu gwneuthur yn barhaus i daenu gwybodaeth o'r efengyl yn amryw barthau o honi; yn enwedig yn ngwlad yr Hottentotiaid, tua'r penryn deheuol, lle y mae amryw yn parhau i lafurio yn llwyddiannus.

"Anfonaf y rhai diangol o honynt at y Cenedloedd, i Tarsis, *Affrica*, a Lybia," Esa. lxvi. 19. Yn ol yr Hebraeg, *Put a Lud* ydyw. Ni cheir y gair *Put* yn yr ysgrythyr, ond yn y fan hon; anaddas, tebygol, ei gyfeithu *Affrica*, fel y mae yn ein cyfeithiad ni. Mewn perthynas i'r gwledydd a enwir yma, y mae awduron yn amrywio. Tybia Vitringa, ac ereill, mai *Philas*, dinas ar ynys yn yr afon Nilus, yn uwch i fynu na Syene, neu ryw dalaeth neu ddinas yn y parthau pellaf o'r Aipht, a feddylir; beth bynag am hyny, y mae'r ystyr yn eglur, sef, y byddai i'r apostolion ac ereill fyned i bob gwlad, yn mhell ac yn agos, ïe, hyd ynysoedd pellaf y môr, gan gyhoeddi gogoniant yr Arglwydd.

AGABUS, *(ceiliog y rhedyn)* prophwyd a rag-fynegodd newyn dros yr holl fyd, sef amherodraeth Rhufain, yr hwn a ddygwyddodd yn nyddiau Claudius Cæsar, A. D. 44. Act. xi. 28. Yn nghylch A. D. 60, ymwelodd a Phaul yn Cæsarea, a rhag-ddywedodd y byddai iddo gael ei rwymo yn Jerusalem, Act. xxi. 10. Dywedir iddo oddef merthyrdod yn Antiochia.

AGAG, *(goruwch ystafell)* Ymddengys fod hwn yn enw cyffredin ar freninoedd Amalec. Mae yn amlwg fod gan yr Amalaciaid frenin cadarn o'r enw hwn, mor foreu âg amser Moses, Num. xxiv. 7. Un o'r enw hwn a'u llywodraethai hwy yn nyddiau Saul. Gwr tra chreulawn a didrugaredd ydoedd; amddifadasai ei gleddyf amryw famau o'u plant. Saul, pan y gosodwyd ef gan Dduw i ddyfetha yr holl genedl hono, a arbedodd Agag a'r goreu o'r praidd. Ymddangosodd ger bron Samuel y prophwyd yn y modd mwyaf hoewgad ddadgan ei obaith, nad oedd iddo ddim achos i ofni marwolaeth ddisyfyd a phoenus; ond y prophwyd â'i law ei hun, neu arall trwy ei orchymyn, a'i darniodd ger bron yr Arglwydd yn Gilgal, 1 Sam. xv. 8, 20, 32, 33. Gelwir Haman yn *Agagiad*, tebygol, oblegid ei fod yn Amalecïad, ac o'r gwaed breninol, Esth. iii. 1.

AGEN, *(ag*, holltiad, agoriad) gagen, fflochen. Yr oedd y graig ar ba un y rhoddodd Duw Moses i sefyll, yn *agen* yr hon y cuddiwyd ef tra yr oedd y gogoniant yn myned heibio, yn ddiammheuol, yn cysgodi Crist; yn yr hwn yn unig, y gallwn ni bechaduriaid weled ac edrych ar ogoniant yr Arglwydd. Y rhai a brofasant o ras Duw, ydynt gyda Moses, yn hiraethu am gael gweled ei ogoniant, ïe, ei weled ef wyneb yn wyneb. Cyflawnder gogoniant digrëedig, ni ddichon hyd yn nod yr angellion ei oddef, llai o lawer dyn, yr hwn sydd bryf. Eithr efe a gaiff weled cymmaint âg a allo ef ei ddyoddef, a byw. Mae Duw yn gwneuthur i'w ddaioni fyned heibio o flaen ei wyneb, ac yn rhoddi iddo ryw gip-olwg ar ragorol ddiscleirdeb ei osgordd nefol, tra yn ymguddio yn agen y graig, rhag y ffiam annyoddefol. *Nodwn*, (1.) Y gogoniant y mae Duw yn ei amlygu fwyaf, yw ei drugareddrad ac anfeidrol. (2.) Y golygiadau ëangaf a feddwn ni o Dduw, ydynt wael ac anmherffaith. Cedwir hyn i wynfydigrwydd

cyfiwr gwell, i'w weled ef megys âg y mae, ac i'w adnabod ef megys y'n hadwaenir. (3.) Pwy bynag a ddisgwylio gyrhaedd y gwynfyd hwn, cofied nad oes un ffordd i'w fwynhau ond trwy fod yn Nghrist, fel Moses yn agen y graig hon. Yn wyneb Iesu Grist y mae llewyrchiad dysclaer gogoniant Duw yn dyner ac yn oddefol i ni, waeliaid euog. Attolwg, Arglwydd, dyro olwg ar ogoniant dy ras yn wyneb Iesu Grist ar y ddaear, a dwg ni i weled ei ragorol ddyscleirdeb ger dy fron yn y nef! Exod. xxxiii. 22. Salm xviii. 2, a xci. 4. Can. ii. 14. Esa. vi. Rhuf. xi. 35. 1 Bren. xix. 11.

AGOR—I, *(ag,)* dadguddio, amlygu. Yn (1.) Gosod drws yn agored, fel y byddo i ryw un fyned i mewn, neu ddyfod allan, Act. xvi. 26. Yn (2.) Dynoethi; gwneud yn weledig, neu yn amlwg, Exod. xxi. 33. Yn (3.) Dadgan, dadblygu, egluro, Luc xxiv. 32. Llygaid a chlustiau Duw yn *agored*, a ddynodant ei sylw manwl ar ymarweddiad dynion, ei ofal am esmwythder ei bobl, a'i barodrwydd i atteb eu gweddïau, Neh. i. 6. Jer. xxxii. 19. 1 Pedr iii. 12. Y mae ei ddwylaw a'i drysorau yn *agored*, pan, trwy ei allu a'u ddaioni, y cyfrana ei drugareddau yn haelionus i'w greaduriaid, Salm civ. 28. Deut. xxviii. 12. Y mae Duw yn *agor trysordŷ ei arfau*, pan, yn ei ragluniaeth, y bydd yn cyfodi byddinoedd, ac yn eu cynnysgaethu âg offerynai rhyfel, i gyflawni ei ddigofaint cyfiawn ar bechaduriaid, Jer. l. 25. Y mae efe yn *agor ei wefusau* yn erbyn dynion, pan y bydd, trwy ei air a'i ragluniaeth, mewn modd eglur a nerthol, yn eu hargyhoeddi o'u heuogrwydd, Job xi. 5. Y mae efe *yn agor calonau*, pan y golena lygaid y deall, i ganfod gwirioneddau dadguddiedig, Luc xxiv. 32, 45. Act. xxvi. 18, a xvi. 14. Clustiau Crist yn cael *eu hagor, eu tyllu, a'u cloddio*, a eill dydnodi gwaith Duw yn ei gymmeryd yn was dros byth, ac yn ei gynnysgaethu â dynoliaeth ufudd, Salm xl. 6. Y mae efe yn *agor clustiau dynion*, pan y bydd yn eu dwyn i wrando, yn ystyriol, ei air a'i ragluniaeth, Job xxxvi. 10. Y mae yn *agoryd eu gwefusau*, pan y bydd yn rhoddi iddynt annogaeth i weddïo, a sail i'w foliannu, Salm li. 15. Y mae Duw yn *agor* i ddynion, pan y cyfrana iddynt ei roddion a'i fendithion, Mat. vii. 7. Efe a *agorodd ystlys Moab*, pan y rhoddodd i'r gelyn ddyfodfa hawdd i mewn i'w gwlad neu eu dinasoedd, Ezec. xxv. 9. Yn yr ystyr hwn hefyd, y dywedir fod pyrth Assyria, Ninefeh, a Babilon, yn cael eu *hagor* ganddo Nah. iii. 13, a ii. 6. Esa. xlv. 1. Crist sydd yn *agoryd, ac nid yw neb yn cau; ac yn cau, ac nid yw neb yn agoryd;* y mae yn rhoddi yr efengyl, cadwedigol ras, nen freintiau ereill, neu yn eu hattal, fel y gwelo fod yn dda, Dad. iii. 7. Y mae dynion yn *agor*, neu yn *dadguddio* eu hachos i Dduw, pan y byddant, yn ngweddi y ffydd yn ei osod ger ei fron, ac yn ymddiried iddo am ddial eu cam, Jer. xi. 20. a xx. 12. Dynion *yn agoryd eu drysau i'r ffordd'olion*, a arwydda eu gwahoddiad siriol o ddyeithriaid i gael croesaw a lletty, Job xxxi. 32. Eu bod yn *agoryd eu calonau, eu pyrth, neu eu drysau* i Grist, sydd yn dangos eu derbyniad parod o hono, trwy ffydd a chariad, Can. v. 2, 6. Dad. iii. 20. Salm xxiv. 7. Y mae y nefoedd, y deml, y babell neu eglwys Dduw yn *agored*, cyn cyfodiad ac wedi dinystr Anghrist, pan y mae dyfodfa rydd i addoli a gwasanaethu Duw yn ei dŷ; neu pan y mae gweithrediad Duw o blaid ei eglwys yn eglur ac yn amlwg. Yn y modd hwn gosododd ddrws agored o flaen eglwys Philadelphia, Dad. iv. 1. iii. 8. xi. 19. xv. 5.

AGORIAD—AU, *(agor,)* allwedd. Yn (1.) Arwydda offeryn i gloi a dadgloi cloiau, Barn. iii. 25. Yn (2.) Gallu ac awdurdod, trwy ba un y ceüir dynion i fynu, neu y rhyddheir hwynt. Rhoddi *agoriad tŷ Dafydd* i Eliacim, ydoedd rhoddi awdurdod i oruchwyliaethu yn nheyrnas Judah, fel rhaglywydd gwladol, i Hezeciah, yr hwn oedd o hiliogaeth Dafydd, Esa. xxii. 22. Crist sydd ganddo *agoriad Dafydd*, ac yn agoryd ac nid yw neb yn cau, ac yn cau ac nid yw neb yn agoryd; y mae ganddo gyflawn allu ac awdurdod i ddarbyn dynion i mewn, neu eu cau allan o'r eglwys neu o'r nefoedd, ac i agor neu gau calonau dynion, ac i agor neu i selio oraclau Duw

fel y gwelo yn dda, Dad. iii. 7. Y mae ganddo *agoriad y pydew diwaelod*; *agoriadau uffern a marwolaeth*; sef, gallu ac awdurdod i ganiatau neu rwystro Satan a'i offerynau, fel y myno; ac i achub rhag, neu euog-farnu i, farwolaeth ac uffern, fel y gwelo yn oreu, Dad. xx. 1, a i. 18. Dawn ac awdurdod i egluro yr ysgrythyrau i ddynion, a elwir *agoriad y gwybodaeth*, Luc xi. 52. *Agoriadau teyrnas nefoedd*, ydynt allu ac awdurdod i bregethu yr efengyl, a gweinyddu y sacramentau, ac i arfer llywodraeth a dysgyblaeth, fel y byddo i ddynion gael eu derbyn i'r eglwys, neu eu bwrw allan, fel y byddo cymhwys, Mat. xvi. 19. *Agoriad y pydew heb waelod* a roddwyd i'r seren syrthiedig, ydyw y gallu a'r awdurdod a ganiatawyd gan Dduw i Anghrist a Mahomet, i anfon allan a defnyddio cyfrwysdra a llengau uffern, i'w cynnorthwyo yn eu hamcanion twyllodrus, Dad. ix. 1.

AGOS—AU, *(a-caws,* ymuniad.) Duw sydd *agos* at ei bobl yn mhob peth y galwant arno, trwy ei fod yn barod i faddeu iddynt a'u cynnorthwyo. *Agoshaodd* Duw attom ni, pan na chymmerodd afael yn naturiaeth angelion, ond yn had Abraham, Salm lxxv. 1. Heb. ii. 16. Israel oedd yn bobl *agos* at Dduw; tra yr oedd y cenedloedd yn mhell, yr oeddynt hwy mewn perthynas agos âg ef fel ei bobl briodol; yr oedd ganddynt ei ordinhadau ac arwyddion ei bresennoldeb yn eu plith; ac yr oedd efe yn barod i'w cynnal a'u hamddiffyn, Salm cxlviii. 14. Esa. lvii. 19. Yr ydym yn *nesau* at Dduw, pan y byddwn yn ei addoli, a thrwy ffydd, gweddi, &c. yn cael cymundeb agos âg ef, Lef. xvi. 1. Zeph. iii. 2. Y mae gweddi yn dyfod yn *agos*, pan, yn raslawn, y bydd yn cael ei gwrandaw a'i chymmeradwyo, 1 Bren. viii. 59. Blinder sydd *agos*, pan y bydd yn gweithredu ac yn trywanu hyd yr enaid, neu ar wneuthur felly, Salm xxii. 11.

AGRIPPA, *(caled oedd esgor arno,)* mab Herod Agrippa. Yr oedd yn Rhufain gyda'r Amherawdwr Claudius pan y bu farw ei dad, A. D. 44. Yr oedd tuedd yn yr amherawdwr i roddi iddo yr holl dywysogaethau oeddynt yn meddiant ei dad, ond gwŷr ei lys a'i hannogasent ef yn y gwrthwyneb. Y flwyddyn ganlynol, meddyliodd llywodraethwr Syria wneuthur i'r Iuddewon osod heirdd wisgoedd ei harch-offeiriad yn nhŵr Antonia, tan gadwraeth y gwarchawd-lu Rhufeinig; eithr, trwy awdurdod Agrippa, caniatawyd iddynt gan yr amherawdwr eu cadw hwy eu hunain. Yn A.D. 49, bu Herod brenin Chalcis, ei ewythr, farw, a gosodwyd yntau gan yr amherawdr yn ganlyniedydd iddo: ond, yn mhen pedair blynedd, cymmerwyd y deyrnas hono oddi arno, a rhoddwyd iddo daleithiau Gaulonite, Trachonite, Batanea, Paneas ac Abilene, yn ei lle. At y rhai hyn, yn fuan gwedi'n, chwanegodd Nero, Julias yn Perea, a rhan o Galilea o du y gorllewin i fôr Tiborias. Pan y gwnaed Ffestus yn rhaglaw ar Judea, A.D. 69, daeth Agrippa a'i chwaer Bernice i Cesarea i'w gyfarch. Yn ystod eu hymddyddan, mynegodd Ffestus iddo am brofiad Paul, a'i appeliad at Cæsar. Yr oedd Agrippa yn dra ymofyngar am gael clywed beth oedd gan Paul i ddywedyd drosto ei hun. Tranoeth, rhyngodd Ffestus ei fodd ef a'i chwaer, trwy iddynt gael gwrandaw arno yn llys-dŷ y dref. Paul, wedi dymuno arno gan Agrippa ddywedyd yr hyn a allai o'i blaid ei hun, a adroddodd pa fodd y dychwelwyd ef o fod yn erlidiwr ffyrnig i fod yn bregethwr gwresog; a pha fodd yr oedd, yn ol yr hen brophwydi, wedi pregethu adgyfodiad y meirw. Boddhawyd Agrippa gymmaint gan synwyr rhagorol ac ardderchawgrwydd yr araith, a chyda cyfarchiad bonheddigaidd yr apostol iddo yntau, fel y mynegodd ei fod o fewn ychydig wedi ei ennill i fod yn Gristion. Gwedi dinystr Jerusalem, aeth ef a'i chwaer Bernice i Rufain, lle y bu farw, yn 70 oed, A.D. 90.

AGUR, *(ailtud,)* mab Jaceh. Dychymmyga rhai mai Solomon oedd efe: ond nid oedd achos i Solomon ddirgelu ei enw fel hyn; ac nid allai efe weddio ychwaith yn erbyn cyfoeth; ac nid yw ei iaith na'i ddull o ysgrifenu yn debyg i eiddo Agur, yr hwn trwy yr Ysbryd Glân a draethodd y 30 bennod o'r Diarebion wrth ei ddau gyfaill, Ithiel ac Ucal. Ereill a dybiant mai doethion oedd Agur a

Lemuel, a grybwyllir yn y bennod nesaf, ag oeddynt yn cyd-oesi â Solomon, ac yn cyd-ymddyddan âg ef yn llyfr y Diarebion; ond y mae hyny yn annebyg. Nid yw y llyfr yn ymddangos mewn dim, i fod wedi cael ei ysgrifenu mewn ffordd o ymddyddan. Y mae yn debyg mai gwr sanctaidd oedd Agur, gwahanol oddi wrth Solomon, ymadroddion moesol a diarebol pa un a farnwyd yn addas i'w cyssylltu âg eiddo y brenin hwnw, o herwydd eu tebygolrwydd i'w gilydd. Y mae efe yn cyffessu ei ddirfawr anwybodaeth am fawredd anchwiliadwy a rhyfeddol weithredoedd Duw; ei barch i air Duw, a'i ddymuniad am ran gymmedrol o bethau bydol.

AGWEDD, *(a-gwedd,)* llun, dull, "Gan gymmeryd arno *agwedd* gwas," Phil. ii. 7. Yr oedd Crist yn ffurf Duw, sef yn wir Dduw; er hyny, gwelodd yn dda, trwy weithred ryfeddol o ddarostyngiad, mor belled i ymddiosg, neu ymwaghau o'i ymddangosiad dysclaer o fawrhydi a gogoniant, â pheidio gwneuthur ymddangosiad rhwysgfawr o honynt, ond mewn mesur eu cuddio rhag sylw dynion: tra ymddynt eu hunain yr oeddynt yn parhau yr un, a holl gyfiawnder y Duwdod yn preswylio yn sylweddol ynddo yntau, Col. ii. 9. Efe yn ewyllysgar a gymmerodd y natur ddynol i undeb personol âg ef ei hun, mewn cyflwr mor isel a thlawd, âg i fod yn was i'w Dad, gan fyw a gweithredu, gwaedu a marw, yn ol ei orchymyn, Ioan x. 18, ac hyd yn nod i wneuthur rhan gwas i'w ddysgyblion, Luc xii. 37, a myned trwy y gwasanaeth mwyaf poenus, gostyngedig ac anhawdd, er iachawdwriaeth y ffyddloniaid. Y mae *agwedd* gwas, yn yr adnod hon, yn cael ei osod mewn cyferbyniad i *ffurf* Duw, yn yr un o'r blaen.

AHAB, *(brawd y tad,)* mab a chanlyniedydd Omri. Dechreuodd deyrnasu ar Israel, A. M. 3086, a theyrnasodd 22 o flyneddoedd. Rhagorodd ar holl frenhinoedd Israel mewn annuwioldeb. Priododd Jezebel merch Ethbaa brenin Zidon, yr hon a arweiniodd i mewn holl ffieidd-dra ac eilunod ei gwlad, Baal ac Astaroth. Yn ei amser ef y bu tair blynedd a chwe' mis heb ddim gwlaw ar y ddaear, Iago v. 17.

Yn nghylch A. M. 3103, anfonodd Benhadad brenin Syria, yr hwn oedd yn gwarchae ar Samaria â llu nerthol, gennadwri at Ahab, yn cynnwys fod ei holl arian, ei aur, ei wragedd, a'i blant yn eiddo ef. Ahab yn ddiattreg a gyd-syniodd â hyny. Trwy ail gennadwri, gorchymynodd Benhadad iddo i roddi i fynu ei arian, ei aur, ei wragedd, a'i blant; ac a fwgwthiodd yr anfonai ei weision, yn nghylch y pryd hwnw dranoeth, i yspeilio y ddinas a'r llys o bob peth gwerthfawr. Yr henuriaid a'r bobl a wrthgynghorasant Ahab, rhag gwrando ar hyn. Benhadad, wedi clywed o hono am ei naccad, a dyngodd yn gynddeiriog y distrywiai ei luoedd ef, Samaria, cyn pen hir, nes na byddai dim o'i hol i'w weled. Duw, wedi anfoddloni o herwydd balchder y Syriad, trwy brophwyd, a addysgodd Ahab yn ei fesurau ef, ac a sicrhaodd iddo yr ennillai efe y fuddugoliaeth. Gorchymynodd Ahab i'w lu bychan o 7000 o wyr, gyda 232 o weision, neu bendefigion ieuainc o'u blaen, i fyned allan o'r ddinas ganol dydd. Benhadad a orchymynodd i'w luoedd i ddwyn y tywysogion ieuainc yn uniawn atto ef, beth bynag oedd ei bwriad; ond yr oedd llu yr Hebreaid yn neshau o hyd, ac yn lladd pawb a'u gwrthwynebent hwynt. Benhadad a'i fyddin a orchfygwyd yn hollol, ac a adawsant anrhaith ddirfawr ar eu hol. Ennillwyd y fuddugoliaeth hon gan lywyddion anghyfarwydd a dibrofiad, fel y byddai iddi ymddangos yn gwbl o Dduw.

Mynegodd y prophwyd i Ahab, y torrai Benhadad i mewn i'w deyrnas yn y gwanwyn canlynol: ac a'i cynghorodd ef i wilied ar ei gamrau. Y rhuthr a gymmerodd le gyda llu cadarn. Ahab, wedi ei sicrhau am y fuddugoliaeth gan y prophwyd, a gyfleodd ei fyddin fechan am saith diwrnod olynol ar gyfer y Syriaid, ac, yn y diwedd, a ymladdodd â hwynt. Lladdwyd can mil o'r Syriaid yn y fan. Y lleill a ffoisant i Aphec, lle y lladdodd y murian, wedi eu dadymchwelyd gan ddaear-gryn, 27000 yn ychwaneg o honynt. Bwriwyd Benhadad ar drugaredd Ahab, ac a dderbyniwyd yn garedig ganddo. Gwnaed cyttundeb rhyngddynt, ar yr ammod fod i'r holl ddi-

nasoedd a gymmerasid oddi arno ef a'i dad, gael eu hadferu i Ahab; a bod caniattad iddo wneuthur at ei wasanaeth ei hun *heolydd, marchnadfeydd*, neu yn hytrach *cestyll*, yn Damascus. Y caredigrwydd hwn i gablwr a llofrudd erchyll, yr hwn a roddasai Rhagluniaeth yn ngallu Ahab i'w ladd, a gyffrôdd yr Arglwydd yn fawr. Prophwyd, ar ei waith ef yn dychwelyd adref, a sierhaodd iddo, gan iddo ef oddef i Benhadad ddianc, yr ae ei einioes yn lle ei einioes ef, a'i bobl yn lle ei bobl ef. Ahab, ar y cyntaf, a ymofidiodd yn ddirfawr; ond argraff geiriau y prophwyd a wisgwyd ymaith yn fuan, 1 Bren. xx.

2. *Ahab* mab Colaiah a *Sedeciah* mab Maaseiah, oeddynt ddau brophwyd celwyddog, y rhai, yn nghylch A. M. 3406 a dwyllent y gaeth-glud luddewig â gobaith am waredigaeth buan, ac a'u cyffroent yn erbyn Jeremiah. Bwgwthiodd yr Arglwydd hwy â marwolaeth gyhoedd a gwaradwyddus, yn ngwydd y rhai a dwyllasent; ac y byddai i'w henwau ddyfod yn rhêg; am y dymunai dynion i'w gelynion gael eu gwneud fel Ahab a Sedeciah, y rhai a rostiodd Nebuchodonozor brenin Babilon wrth y tân, Jer. xxix. 21.

AHAFA, *(cenedlaeth)* rhyw afon fechan yn Caldea, neu, yn hytrach, yn Assyria. Yma y bu Ezra a'r gaeth-glud yn cadw ympryd arbenig, am hyfforddiad a llwyddiant yn eu dychweliad i wlad Judea, Ezra viii. 15—21.

AHASFERUS, neu Astyages, y Mediad, Dan. ix. 1. Efe ydoedd fab y dewr-wych Cyaxares, yr hwn a fu yn gynnorthwydd i Nebuchodonozor i ddadymchwelyd amherodraeth Assyria, a dinystrio dinas Ninefeh. Canlynodd ei dad ar orsedd Media, a theyrnasodd 35 o flyneddoedd; ond ni wnaeth ddim o bwys, heblaw gwrthguro rhuthr a wnaeth Etil-merodac brenin Babilon ar ei diriogaethau. Bu farw A. M. 3444.

2. *Ahasferus*, neu Cambyses, brenin Persia. Canlynodd ei dad Cyrus, A. M. 3475, a theyrnasodd saith mlynedd a phum mis. Nid oedd ef ond prin wedi escyn i'r orsedd, pan yr attolygodd y Samariaid arno osod attalfa ar ail-adeiladu y deml yn Jerusalem. Ni wnaeth, ac ysgatfydd nis gallai, yr rheoladd adalw gorchymyn ei dad. Pa fodd bynag, rhwystrwyd yr adeiladaeth tra parhaodd ei deyrnasiad ef. Nid oedd nodedig am ddim ond trais, ynfydrwydd, a chreulondeb. Yr oedd ei ddrwg-anwydau yn fynych yn ei yrru i lwyr wallgofrwydd. Yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, aeth i mewn i'r Aipht, darostyngodd y gwrthryfelwyr, difrododdeu gwlad, lladdodd eu hŷch cyssegredig, a dygodd ymaith filoedd o'u heilunod. Yma yr arosodd am bum mlynedd, a distrywiodd ran fawr o'i lu yn anialeoedd sychion Lybia, yn ei ymgais ynfyd i dorri i mewn i Ethiopia; a beunydd aberthodd rai o bendefigion Persia i'w gynddaredd, a'i frawd a'i chwaer ei hunan yn ei mysg. Gwedi hysbysu iddo fod Patizithes y Magiad, yr hwn a adawsai efe i lywoddraethu ar Persia yn ei absennoldeb, wedi gosod ei frawd ei hun, Smerdis, ar yr orsedd, gan gymmeryd arno mai efe oedd Smerdis brawd Cambyses, efe a frysiodd i'w deyrnas. Dywedir iddo dywallt ei lid ar y genedl luddewig, wrth fyned heibio i'w tiriogaethau. Yn agos i fynydd Carmel, escynodd ar gefn ei geffyl gyda'r fath gynggdeiriogrwydd chwydr-frys, fel y syrthiodd ei gleddyf o'i waun, ac a archollodd ei forddwyd yn enbydus. Gwedi ymddangos o'r archoll yn farwol, casgloddd Cambyses ei brif bendefigion yn nghyd, a hysbysodd iddynt fod ei frawd Smerdis wedi cael ei lofruddio trwy ei orchymyn ef; ac erfyniodd na oddefent i'r twyllwr Magiaidd drosglwyddo y llywodraeth i'r Mediaid; ac yn ebrwydd gwedi hyn a drengodd. Mai Cambyses ydyw Ahasferus, a Smerdis y Magiad ydyw Artaxerxes yr ysgrythyr, yr hwn a rwystrodd ail-adeiladu y deml, sydd yn ddigon amlwg. Ni lywodraethodd neb ond hwy ar Persia, rhwng Cyrus, yr hwn a roddodd orchymyn i adeiladu, a Darius, yr hwn a'i hadnewyddodd ef, Ezra iv. 6, 7.

3. *Ahasferus*, gwr Esther. Yr ydym yn ymfoddloni yn marn y dysgedig *Usher, Calmet*, &c. mai Darius Hystaspis oedd yr Ahasferus hwn. Efe, y cyntaf o freninoedd Persia, a deyrnasodd o India hyd Ethiopia uwchlaw yr Aipht; a nodedig oedd o ran gosod trethau, a phen-

tyrru arian, Esth. i. 1. a x. 1. Gwnaem ei gyfrif ef yn rhy ddiweddar, pe byddai yn alluadwy i ni sefydlu ar ryw un o'i flaen. Ffurfir Atossa, enw ei anwyl wraig ef, yn hawdd oddi wrth Hadassa, cyfenw Hebrëig Esther. Gallasai Herodotus gamgymmeryd yn dra hawdd mewn perthynas i'w llinach, gan ei bod hi wedi celu hyny yn hir ei hunan ; a braidd y methai y Persiaid ei harddelw hi megys un o'u gwaed breninol hwy, yn hytrach na'i rhoddi i'r Iuddewon dirmygedig.

Ahasferus, os Darius Hystaspis, oedd, ydoedd o waed brenhinol Persia, o hiliogaeth Achæmenes, ac yn ngosgordd Cyrus yn ei ryfel-gyrchoedd. Yn fuan wedi dyfod Mordecai yn brif swyddog iddo, gosododd Ahasferus dreth ar ei daleithiau diarferol, ac ar y rhan hono o Asia Leiaf, a'r ynysoedd oeddynt yn perthyn iddo ef. Yn nghlych A.M. 3495, goresgynodd yr India, a rhwymodd y trigolion i dalu iddo ef yn flyneddol 365 o dalentau arian. Bu rhyfeloedd yn fynych rhyngddo â'r Groegiaid yn Asia Leiaf, ac â'r Atheniaid ac ereill yn Ewropa, y rhai oeddynt yn terfynu gan mwyaf mewn colled a gwaradwydd iddo. Ychydig cyn ei farwolaeth, ciliodd yr Aiphtiaid oddi tan ei iau. Bu farw A.M. 3519, ar ol teyrnasu 36 o flyneddoedd, a chanlynwyd ef gan Xerxes ei fab.

AHAZ, (*meddiannu,*) mab Jotham brenin Judah, yr hwn a deyrnasodd yn ei le. Priododd Abia merch Zechariah, o'r hon y bu iddo ei fab Hezeciah. Pan yn 20 mlwydd oed, daeth Ahaz yn etifedd i'r goron, A.M. 3265, a theyrnasodd 16 o flyneddoedd. Er mwyn dilyn brenhinoedd Israel, ymroddodd i'r eilunaddoliaeth ffieiddiaf. Aberthodd un o'i feibion i'r eilun Moloch ; ac, ysgatfydd, parodd i'r lleill fyned trwy y tân er mwyn puredigaeth. Gwnaeth nid yn unig gyd-ddwyn â'r bobl yn offrymu ebyrth yn yr uchelfeydd, fel y gwnaethai amryw o'i ragflaenoriaid, ond efe ei hun a orchymynodd i aberth ac arogl-darth gael eu hoffrymu yn yr uchelfeydd, ar y bryniau, dan y llwyni, a phob pren gwyrddlas. Bu farw yn yr 16 flwyddyn o'i deyrnasiad, a chladdwyd ef yn Jerusalem ; ond ni chafodd yr anrhydedd o gael ei osod yn y beddau breninol, 2 Bren. xv. 38. 2 Cron. xxviii. Esa. 7.

AHAZIAH, *(gweledigaeth yr Arglwydd,)* mab Ahab. Gwnaed ef yn gyfrango â'i dad yn y llywodraeth, pan yr aeth i'r rhyfel yn Ramoth Gilead ; a theyrnasodd yn nghyleb blwyddyn ar ol ei farwolaeth. Dilynodd ei rieni yn addoliad Baal ac Astaroth, a phob pechod arall. Parotöodd ef a Jehosaphat lynges yn Ezion-geber, i fasnachu âg Ophir mewn aur ; ond curodd tymhestl eu llongau yn chwilfriw, bron ar eu gwaith yn myned allan o'r porthladd. Bwriadodd Ahaziah ddarparu ail lynges, ond naccaodd Jehosaphat fod â llaw yn y gorchwyl. Trwy syrthio o un o'i ffenestri, neu oddiar nen ei dŷ, clwyfwyd ef yn farwol, a chlafychodd ; cyn pen hir wedi hyny trengodd, a'i frawd Jehoram a deyrnasodd yn ei le, 1 Bren. xxii. 51. 2 Cron. xx. 36, 37. 2 Bren. i. 2.

2. *Ahaziah, Azdriah,* neu Jehoaaz, ŵyr Jehosaphat, a mab Jehoram ac Athalia merch Ahab. Yn y 22 flwyddyn o'i oedran, a'r 42 o frenhinolaeth teulu ei fam, canlynodd ei dad ar orsedd Judah. Yn ol cyngor ei fam Athalia, rhodiodd yn llwybrau Ahab ei daid, gan addoli Baalim ac Astaroth ; a gofynodd i'w ddeiliaid wneuthur felly hefyd. Nid oedd ond prin wedi teyrnasu blwyddyn, pan yr aeth i Jezreel i ymweled â Jehoram brenin Israel, ei ewythr, yr hwn a ddychwelasai yno o Ramoth Gilead i gael ei iachau o'i archollion. Yn yr amser hwnw yn gywir daeth Jehu, dinystrydd tŷ Ahab, i dorri Jehoram ymaith. Heb wybod dim am ei amcanion, aeth Jehoram ac Ahaziah allan i'w gyfarfod : yn ddiattreg tarawyd Jehoram yn farw â saeth ; a ffodd Ahaziah i Samaria ac a ymguddiodd. Trwy chwilio, cafwyd o hyd iddo gan fintai a anfonasai Jehu ar ei ol ef. Ymddengys iddynt ei ddwyn yn ol ran o'r ffordd i Jezreel ; ond yn Gur, yn agos i Ibleam dinas yn llwyth Manasse, hwy, trwy orchymyn Jehu, a roddasant iddo ei glwyfau marwol. Ei weision ei hun a frysiasant âg ef ymaith yn ei gerbyd, hyd nes y daethant i Megiddo, tref yn llwyth Issachar ; bu farw yno, a dygwyd ei gorph i gael ei gladdu yn meddau

breninol Jerusalem, 2 Bren. viii. 24. 2 Cron. xxii.

AHIA, *(brawd yr Arglwydd,)* prophwyd yr Arglwydd, yr hwn oedd yn trigo yn Siloh. Tebygol mai efe oedd yn annog Solomon pan yn adeiladu y deml; ac a'i bwgwthiodd â rhwygiad ei deyrnas ymaith, ar ol ei gwymp gwarthus, 1 Bren. vi. 11, xi. 6. Cyfarfu a Jeroboam mab Nebat, yn y maes, rhwygodd ei fantell yn ddeuddeg darn, a rhoddodd iddo ddeg o honynt, fel arwydd y byddai efe yn frenin ar *ddeg llwyth* o Israel. Yn nghylch ugain mlynedd wedi hyny, unig fab duwiol Jeroboam a glafychodd. Yn ofni myned ei hun, anfonodd Jeroboam ei wraig mewn dyeithr-wysg i ymofyn âg Ahia, pa un a fyddai iddo iachau. Hi, yn ol arferiad yr amseroedd hyny, a ddug i'r prophwyd anrheg o ddeg torth o fara, rhai teisenau, a chostrelaid o fêl. Er na allai weled, o herwydd ei oedran, Ahia, trwy gyfarwyddyd Duw, a fynegodd i'r frenines, ar ei mynediad i mewn, y gwyddai efe pwy oedd hi. Sicrhaodd iddi, y byddi i'w mab cystuddiedig farw ar ei dychweliad; ac y deuai y lleill o'i theulu i ddiwedd truenus a gwarthus, 1 Bren. xi. a xiv. Ysgrifenodd Ahia ran o hanes teyrnasiad Solomon, 2 Cron. ix. 29.

AHICAM, *(brawd yn cyfodi)* mab Saphan, a thad Gedaliah. Un o dywysogion Judah, a anfonwyd gan Josiah i ymgynghori â Hulda yn nghylch bwgwthion Duw yn erbyn y genedl o herwydd eu drygioni, 2 Bren. xxii. 12. Ymegniodd yn fawr i amddiffyn bywyd y prophwyd Jeremiah, Jer. xxvi. 24.

AHIMAN. *(brawd darparedig)* (1.) Un o gawri meibion Anac, yr hwn oedd yn byw yn Hebron yn amser yr yspïwyr a anfonwyd gan Moses, Num. xiii. 22. o ba le yr ymlidiwyd ef a'i frodyr, Sesai a Thalmai, gan Caleb, Jos. xv. 14. (2.) Un o borthorion y deml, 1 Cron. iv. 17.

AHIMAAS, *(brawd y cynghor)* mab a chanlyniedydd Sadoc yr archoffeiriad. Gwnaeth ef, a Jonathan mab Abiathar wasanaeth dra phwysig i Dafydd, yn ystod gwrthryfel Absalom. Eu rhieni hwy a Husai, oll yn gyfeillion diysgog i Dafydd, a arosasant yn Jerusalem, heb eu drwg-dybio gan Absalom, a'r ddau lanc a ddisgwyliasant yn agos i Enrogel, o'r tu allan i'r ddinas, er dwyn hysbysrwydd priodol i'r brenin. Gwedi cael copinod oddi wrth Husai, trwy rhyw lances, yn nghylch yr hyn a ddygwyddasai yn nirgel gyngor Absalom, brysiasant i fynegu i Dafydd. Absalom, wedi hysbysu hyny iddo gan wr ieuanc a'u gwelsai hwy, a ddanfonodd fintai i ymlid ar eu hol a'u dal. I ochelyd yr ymlidwyr hyn, ciliodd Ahimaas a Jonathan i dŷ cyfaill yn Bahurim. Yr oedd gan y gwr bydew dwfn yn ei gyntedd: yno yr aethant hwy i waered; tra y lleddodd y wraig glawr ar wyneb y pydew, ac a daenodd arno falurion ŷd. Nid oedd ond wedi prin gorphen eu gwaith, pan y daeth yr ymlidwyr i chwilio am danynt. Cadarnhaodd y wraig eu bod wedi myned ymaith. Yr erlidwyr, yn methu eu cael, a ddychwelasant i Jerusalem. Yna yr offeiriaid ieuainc a orphenasant eu taith at y brenin Dafydd, ac a fynegasant iddo am gyngor y gwrthryfelwyr; a bod Husai yn ei gynghori i fyned tros yr Iorddonen gyda y brys mwyaf, fell y gallai fod allan o'u cyrhaedd.

Cyn pen hir wedi hyny, cafodd byddinoeddAbsalom eu llwyr orchfygu. Llwyddodd Ahimaas trwy ei daerni gyda Joab, i ganiatau iddo redeg â'r newydd i Dafydd. Gan redeg ar hyd ffordd y gwastadedd, daeth i fynu o flaen Cusi, yr hwn a anfonasai Joab ymaith o'i flaen ef. Pan y rhybuddiodd gwyliedydd Mahanaim Dafydd am ddynesiad un rhedegydd ei hunan, casglodd y brenin yn ddiattreg ei fod yn dwyn cennadwriaeth: o herwydd pe dryllasid y llu, ffoisai y bobl yn dorfeydd. Pan y daeth Cusi o fewn golwg, ac y canfuwyd pwy oedd Ahimaas, dywedodd Dafydd, gan mai gwr da oedd ef, ei fod yn gobeithio ei fod yn dwyn newydd byfryd. Daeth Ahimaas i fynu, a hysbysodd i'r brenin fod pob peth yn dda; a chan ymgrymu ar ei wyneb ger ei fron, a fendithiodd yr Arglwydd, yr hwn a dorrasai ei elynion ymaith. Gofynodd Dafydd, ai diangol oedd Absalom? Attebodd Ahimaas, yn synwyrol, os yn wirioneddol, iddo, cyn cael o Cusi ac yntau eu hanfon ymaith, weled cythrwfl mawr, ond na wyddai beth yd-

oedd. Trodd heibio nes y daeth Cusi i fynu, a hysbysu mewn geiriau eglur i'r brenin am farwolaeth Absalom. Yn mhen rhai blyneddau wedi hyny, canlynodd Ahimaas ei dad yn yr archoffeiriadaeth; ac Azariah ei fab a'i canlynodd yntau, 2 Sam. xv. 27. a xvii. 17. a xviii. 19. 1 Cron. vi. 8.

AHIMELEC, *(fy mrawd sydd frenin)* mab Ahitub, gorŵyr Eli, a brawd Ahia, yr hwn a ganlynodd efe yn swydd yr archoffeiriad. Tra y parhaodd llywodraeth Saul, yr oedd ef, gyda lluaws o offeiriaid ereill yn nghyd â'r babell, yn preswylio yn Nob. Aeth Dafydd atto yn ei ffoedigaeth o lys Saul, a chan osod ger ei fron, fod Saul wedi ei anfon ef ar neges tra anhebgorol, yr hwn oedd yn gofyn y prysurdeb mwyaf i'w gyflawni, erfyniodd arno roddi iddo ef a'i ganlynwyr ychydig ymborth. Sicrhaodd Ahimelec iddo nad oedd ganddo ond bara gosod, yr hwn ni chaniateid i neb ond i'r offeiriaid yn unig; pa un, efe a goeliai, y gallai Dafydd a'i weision ei fwyta, os yr ymgadwasent oddi wrth wragedd am unrhyw yspaid dyladwy o amser. Sicrhaodd Dafydd iddo na chyffyrddasent hwy â neb o lelaf er's tri diwrnod. Rhoddodd Ahimelec rai torthai iddynt. Gofynodd Dafydd iddo yn mhellach am gleddyf neu waywffon. Rhoddodd Ahimelec iddo gleddyf Goliath, yr hwn a grogasid i fynu yn y babell, megys coffadwriaeth am y fuddugoliaeth, 1 Sam. xxi. a xxii.

2. *Ahimelec*, neu *Abimelec*, mab Abiathar. Yr oedd efe a Sadoc, yr hwn a wnaethai Saul yn archoffeiriad ar ol lladd yr Ahimelec blaenorol, yn ail neu is-offeiriad oddeutu diwedd teyrnasiad y brenin Dafydd. Ger ei fron ef ac amryw wyr enwog ereill, yr ysgrifenodd Semaiah yr ysgrifenydd, drefnau a dosparthiadau yr offeiriaid, y cantorion, a'r Leiaid; a bwriasant eu coelbrenau am eu cylchoedd o'r gwasanaeth yn nheml Duw, 1 Cron. xxiv. 3, 6, a xviii. 16. 2 Sam. viii. 17.

AHIO, *(ei frawd)* mab Abinadab. Efe a'i frawd Uzza oeddynt yn gyrru y fen newydd, ar yr hon yr oedd yr arch, pan oedd Dafydd yn ei symmud o dŷ Abinadab i'r lle a ddarparasai efe iddi, 2 Sam. vi.

AHITOPHEL, *(brawd y dinystr)* priodor o Giloh yn llwyth Judah. Yr oedd efe yn wladwriaethwr a chyngorwr mor rhagorol, fel yr oedd ei gyngor yn cael ei dderbyn yn gyffredin fel gair o enau Duw. Gwedi anfoddioni wrth Dafydd am ei waith yn halogi Bathseba, yr hon, dywedir, oedd yn ŵyres iddo, neu yn hytrach am ryw achos arall anadnabyddus i ni, er blinder nid bychan i Dafydd, gwrthgiliodd yn gynnar at blaid Absalom. Dafydd, trwy weddi, a erfyniodd ar i Dduw droi cyngorion Ahitophel yn ffolineb. Pan y gwelodd fod cyngor Husai yn cael ei dderbyn o flaen yr eiddo ef, cyfrwyodd ei asyn, aeth adref i Giloh, trefnodd ei dŷ, ac yna ymgrogodd, 2 Sam. xv. xvi. a xvii. Y mae ei hanes, megys ei gosodir allan yn Salm lv. yn arddangosawl o eiddo Judas, yr hwn a fradychodd ei Arglwydd i'w elynion, ac a ymgrogodd.

AHITUB, *(brawd daioni)* mab Phineas, brawd Ichabod, ac ŵyr Eli. Gwedi lladd ei dad yn y frwydr anffodiog hono, pan y cymmerwyd arch Duw gan y Philistiaid, efe a ganlynodd Eli ei daid yn yr archoffeiriadaeth; cyflawnodd y swydd hono dan Samuel; a chanlynwyd yntau gan ei feibion: yn gyntaf Ahia, ac yna Ahimelec, 1 Sam. iv. a'r xiv. 3. Yr oedd dau ereill o'r enw Ahitub, ag iddynt eill dau feibion o'r enw Sadoc, yn hanu o Eleazer. Ond nid ymddengys y gallai y cyntaf o honynt gyflawni swydd archoffeiriad, 1 Cron. vi. 8, 11.

AHOLA ac **AHOLIBAH,** dau enw ffugiol, trwy ba rai y mae y prophwyd Ezeciel yn gosod allan deyrnasoedd Israel a Judah: y cyntaf, yn arwyddo *pabell*, sydd yn dynodi Samaria a'r deg llwyth: yr ail, yn arwyddo *fy mhabell sydd ynddi*, sydd yn dynodi Jerusalem a'i thrigolion. Gosodir y ddwy allan megys o wreiddyn Aiphtaidd, o herwydd ymdeithiad yr Hebreaid yn yr Aipht, a'u ymwerthiad megys i wneuthur godineb â'r Aiphtiaid a'r Assyriaid; gan ddynwared eu heilun-addoliaeth, a phwyso arnynt am gynnorthwy. Am ba achos y mae yr Arglwydd yn bwgwth gwneuthur y bobl hyn yn orthrymwyr iddynt, ac yn foddion i'w dwyn i gaethiwed a gwasanaeth creulawn, Ezec. xxiii. 4.

AHUZZAH, *(gweledigaeth)* cyfaill yr ail Abimelec, oedd yn teyrn-

asu yn Gerar, yr hwn, yn nghyd a Phicol, tywysog ei lu, a'i canlynodd ef pan y daeth i sefydlu cyngrair âg Isaac. Y mae y Targum Caldeaidd, a'r cyfryw gyfeithiadau ag sydd yn ei ddylyn, yn troi yr enw hwn, *tyrfa* o gyfeillion, Gen. xxvi. 26.

AI, AIATH neu HAI, (*carnedd*) dinas yn nghylch 9 milltir o du y gogledd-ddwyrain i Jerusalem, ac un o du y dwyrain i Bethel. Yn agos iddi y bu Abraham ryw bryd yn ymdeithio, ac yn adeiladu allor, Gen. xii. 8. a xiii. 3. Gwedi ennill Jericho, anfonodd Josuah yr yspiwyr i edrych ansawdd Ai; gosodasant ger ei fron ei fod yn anaddas anfon uwchlaw 3000 o wyr dewisedig i ymosod yn erbyn ile mor fychan; ac ni anfonwyd dim ychwaneg. Er mwyn cospi trosedd Achan, goddefodd Duw iddynt gael eu gwrthguro, a lladdwyd un ar bymtheg ar ugain o honynt. Gwedi gwneuthur iawn am y trosedd hwnw trwy farwolaeth ei awdwr, cychwynodd Josuah, yn ol cyfarwyddiad Duw, i ryfela yn erbyn y ddinas hono. Gosododd ddwy fintai, un o 25,000 o wyr, a'r llall o 5000, mewn cynllwynfa. Aeth yntau ei hun, gyda chorph y llu, yn ngwydd pawb, ta a'r muriau. Brenin Ai, wedi ymchwyddo o herwydd ei lwyddiant bychan diweddar, a ruthrodd allan yn erbyn yr Hebreaid; ciliasant hwythau yn ol, megys mewn ffoedigaeth, nes iddynt dynu gwyr Ai, a'u cynnorthwywyr o Bethel, i'r gwastadedd agored. Yna Josuah, gan dderchafu ei darian ar flaen ei waywffon, a roddodd yr arwydd osodedig i'r lluoedd a gynllwynent o'r tu arall i'r ddinas. Yn ddiattreg, hwy a ruthrasant i mewn, ac a'i gosodasant oll ar dân. Gwedi gwneuthur hyn, goddiweddasant olafion y Canaaneaid, tra yr oedd Josuah a'i wŷr yn troi yn erbyn eu blaenafion; a chan eu hamgylchynu, a'u drylliasant hwy oll, heb oddef i un ddianc. Cymmerwyd y brenin yn garcharor, a dygwyd ef at Josuah. Ar ol i breswylwyr y ddinas hon gael eu llwyr ddinystrio, a'r ddinas ei llosgi, a'i gwneuthur yn garnedd, crogwyd y brenin yntau; a phan fachludodd yr haul, disgynwyd ef, a bwriwyd ei gelain i ddrws porth y ddinas, a gosodwyd carnedd fawr o gertig arni. Gorphenwyd gwaith y dydd gan yr Hebreaid trwy rannu yr yspail. Ailadeiladwyd Ai drachefn gan y Benjaminiaid; ac yn mhen hir amser wedi hyny, ennillwyd hi gan Sennacherib, Esa. x. 28. Adeiladwyd hi drachefn ar ol caethiwed Babilon, Neh. xi. 31.

(2.) *Ai*, dinas yn ngwlad Moab, a gymmerwyd ac a yspeilwyd gan y Caldeaid, Jer. xlix. 3.

AJALON. *(plunfa derw)* (1.) Dinas yn llwyth Dan, a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Cohath, ond cadwodd yr Amoriaid feddiant o honi. Safai rhwng Timnah a Bethsemes. Ymddengys iddi gael ei hennill gan Uzzia, neu ryw un arall o frenhinoedd cedyrn Judah; ond dygwyd hi oddi arnynt o'u hanfodd gan y Philistiaid, Jos. xix. 42. a'r xxi, 24. Barn. i. 35. 2 Cron. xxviii. 18. Hwyrach mai yma yr attaliodd Ilu Saul eu hymlidiad ar ol y Philistiaid gorchfygedig, 1 Sam. xiv. 31. (2.) Dinas yn llwyth Benjamin, yn nghylch tair milltir o du y dwyrain i Bethel. Cadarnhawyd hi gan Rehoboam, 2 Cron. xi. 10. (3.) Dinas yn llwyth Ephraim, yn nghylch dwy filltir o du y dehau i Sichem, ac a roddwyd i'r Cohathiaid, a nodir gan rai awduron; ond nid yw hanfodiad y lle hwn yn sicr, ac ysgatfydd, nad ydyw amgen na'r un hwnw yn llwyth Dan, wedi dyfod i ddwylaw yr Ephraimiaid; cymhar Jos. xxi. 24. a'r 1 Cron. vi. 69. (4.) Un arall yn llwyth Zabulon, lle y claddwyd Elon, barnwr Israel, Barn. xii. 12. Nid ydym sicr uwch ben pa un o'r dinasoedd hyn yr oedd Josuah yn dymuno i'r lleuad aros. Yr oedd y gyntaf yn gorwedd o du y dehau-orllewin; yr ail o du y gogledd-ddwyrain; a'r bedwaredd o du y gogledd-orllewin iddo, Jos. x. 12.

AIELETH HASAHAR, titl Salm xxii. Y mae yn arwyddo, fel y mae ar ymyl dalen rhai Biblau, *hydd*, neu *ewig y bore*. Y mae y gair gwreiddiol a gyfeithir *hydd*, yn arwyddoccau *nerth*; ac felly y mae un gwr dysgedig yn barnu y dylid ei ddarllain *nerth y boreu*; a'i fod yn golygu Crist, megys y Seren foreu eglur; neu "godiad haul o'r uchelder," fel mae yn cael ei alw, Luc i. 78. Y titl hwn, gan hyny, a'n harwain i fyfyrio yn y Salm hon, ar ddyfnder y cariad a'r gostyngeiddrwydd trwy yr

hwn yr ymostyngodd Mab Duw yn y modd a grybwyllir yma, a hyny hyd angau y groes, er mai efe oedd y Seren foreu eglur, a chodiad haul o'r uchelder.

AIN, dinas a roddwyd gyntaf i lwyth Judah, ac wedi hyny ymadawyd â hi i'r Simeoniaid, Jos. xv. 32. 1 Cron. iv. 32. Am fod *Ain* yn arwyddo ffynnon, y mae yn fynych yn rhan o enwau cyfansawdd lleoedd, ac a seinir En.

AIPHT, gwlad o du y gogledd-ddwyrain i Affrica a dehau-orllewin i Canaan. Y mae yn gorwedd rhwng y 24 a'r 33 gradd o ledred gogleddol a rhwng y 29 a'r 34 o hydred dwyreiniol o Lundain. Ei hyd mwyaf o'r gogledd i'r dehau ydyw 600 o filltiroedd, a'i lled mwyaf o'r dwyrain i'r gorllewin, 300. Terfynir hi o du y gogledd gan Fôr y Canoldir; o du y gorllewin gan Cyrene ac anialwch Lybia; o du y dehau gan Abyssinia; ac o du y dwyrain gan y Môr Coch a elwir tafod môr yr Aipht, Esa, xi. 15. am ei fod ar lun tafod. Gelwid hi gan y cynfrodorion Chemia, neu dir Ham; a'r Coptiaid presennol a'i galwant Chemi, ysgatfydd o herwydd bod Ham wedi bod yn cyfaneddu ynddi. Yr Hebreaid a'i galwent Mizraim; a'r Arabiaid hyd heddyw a'i galwant Mizr, oddiwrth Mizraim mab Ham, yr hwn a'i poblogodd. Ei henw presennol, Aipht, neu *Aia Coptou*, a roddwyd iddi gan y Groegiaid, ac y mae yn arwyddo naill ai *gwlad y Coptiaid*, enw a roddai y prif drigolion arnynt eu hunain; neu *wlad y dŷedd*, o herwydd fod y ddaear a'r afon o liw tywyll. Y mae yr afon Nilus yn rhedeg trwyddi tua'r gogledd, ac yn ei dyfrhau yn flyneddol, trwy doddiad yr eira ar y mynyddoedd, fel nad yw gwlaw prin yn angenrheidiol; ac, yn wir, anfynych y mae yn dygwydd yn yr Aipht uchaf. Yr oedd yr Aipht, yn y cyn-oesoedd, yn dra ffrwythlon; ond gan fod y Nilus wedi dyfnhau ei dyfr-le, neu yn hytrach trwy chwanegiadau blyneddol o laid wedi cyfodi ar wyneb y ddaear yn llawer uwch, a bod y llifeiriant yn awr yn llawer is, a'r afon hithau yn dwyn gwaeth llaid gyda hi; a chan fod y trigolion caethion wedi digaloni oddi wrth eu gofal a'u diwydrwydd gynt, nid yw yn bresennol ond cymedrol o ffrwythlawn, ac yn mhen amser, geill fyned yn ddigon diffrwyth. Yr oedd yr Aipht unwaith yn boblog iawn, ac yn cynnwys yn nghylch 20,000 o ddinasoedd, y penaf o ba rai oeddynt Syene, No, Memphis, Zoan, Sin, On, Phibesoth, Pithom, Ramases, Migdol, Taphanes, Pathros, &c. Rhanwyd y wlad yn dair o daleithiau mawrion; sef, yr *Aipht Uchaf* a elwid Thebais gan y Groegiaid, yr hon, yn ol y rhan fwyaf o awduron, ydyw gwlad Pathros, prif ddinas pa un oedd Thebes neu No, Ezec. xxx. 14; yr *Aipht Ganol*, prif ddinas yr hon oedd Noph, Moph, neu Memphis; a'r *Aipht Isaf*, prif ddinas pa un, ymddengys, gynt oedd Zoan; yr oedd hon yn cynwys y cyfan rhwng ceinciau y Nilus, a elwir yn awr Delta, o ran ei thebygolrwydd i'r llythyren Roegaidd o'r enw hwnw, yn gystal a gwlad Gosen o du y dwyrain, a thiriogaeth Mareotis o du y gorllewin; ac o herwydd llaid y Nilus, y mae wedi ennill chwanegiadau mawrion oddiwrth y môr. Yn mhellach, dosparthwyd yr Aipht yn 36 o Swyddau; y rhai a enwyd yn gyffredin yn ol enw y brif ddinas yn mhob un.

Yr oedd yr Aiphtiaid yn bobl a thuedd tra mawr ynddynt at ddewiniaeth ac eilun-addoliaeth. Eu prif eilunod oeddynt Osiris ac Isis, neu yr haul a'r lleuad, Jupiter Ammon, Serapis, Anubis, Harpocrates, Ovus a Canopus, &c. Yr oedd y *tarw brith*, yn addoliad pa un yr oedd cymmaint o'u crefydd yn gynnwysedig, yn cynnrychioli Osiris. Yr oeddynt hefyd yn addoli defaid, gelfr, cathod, ac hyd yn nod cenyn ac winwyn. Yr oedd amryw o'u trefniadau gwladol, pa fodd bynag, yn dra rhesymol: a chyfrifid hwy gan yr hen Roegiaid, fel y rhai mwyaf nodedig am athroniaeth. Nid oeddynt yn llai enwog am eu hadeiladau; y tri pheiramid sydd wedi sefyll yn nghylch 3000 o flyneddoedd, ydynt o du y dehau-orllewin i Grand Cairo. Y mae y mwyaf o honynt yn 499 troedfedd o uchder, ac yn 693 yn y gwaelod ar bob tu, yr hyn sydd yn gwneuthur holl faintioli arwynebol ei sylfaen yn 480, 249 o droedfeddi pedeironglog, neu ryw faint yn ychwaneg na 11 Cyfar Saesonig; y mae yr adeilad hon yn meinhau yn raddol at

y nen. I ba ddefnydd yr oedd y peiramidau hyn yn gwasanaethu, pa un ai megys bedd-adeiladau i'w brenhinoedd meirwon, nis gwyddom. Dywedir fod 360,000 neu ychwaneg, o ddynion ar waith yn adeiladu y mwyaf. Y Dyrys-dy oedd fath ar adeilad ag un drws yndde, ac yn cynnwys 12 o neuaddau, a 3000 o ystafelloedd, un hanner o honynt dan y ddaear. Yma, ymddengys, yr oedd cyd-gasgliad o'u holl eilunod; ac yma yr oedd swyddogion yr holl genedl yn cynnal eu cymmanfaoedd mawrion. Yn Alexandria, y mae colofn Pompey etto yn sefyll, a gyfodwyd gan Julius Cæsar, er cynnal coffadwriaeth am ei fuddugoliaeth ar Pompey. Y mae o farmor gronynog, *(granite)* ac yn 70 troedfedd o uchder, a 25 o gylchedd. Cawn fyned heibio i amryw adfeiliau mawrwychion ereill heb eu coffáu. Yn ol *Manetho*, teyrnasodd y duwiau yn yr Aipht, 20,000 o flyneddoedd, a deg cenedlaeth ar hugain o ddynion, 5300 o flyneddoedd cyn amser Alexander Fawr: ond y mae rhai hen haneswyr ereill yn gwneud y cyfan yn 36,525 o flyneddoedd. Y mae y cyfrifiad hwn yn eithaf afresymol, wedi ei ddychymmygu gan falchder henafiaeth, neu fawr chwenychiad i ymddangos yn rhyfeddol. Yr ydym yn cymmeryd mai y 1656 o flyneddoedd cyn y dylif, yw ystod teyrnasiad y duwiau a'r hanner-duwiau. Ni ddylai y 30 cenedlaeth gael eu cymmeryd megys yn olynol, ond fel yn cyddeyrnasu, dau neu dri ar y tro, yn amrywiol daleithiau yr Aipht, yr hyn a ddichon ddarostwng yr holl gyfrif i yn nghylch 2000 o flyneddoedd.

Mizraim, neu Menes, mab Ham, yn nghyd a'i hiliogaeth y Pathrusim, Casluhim, a'r Captorin, a boblogasant yr Aipht ar ol y dylif; ac efe oedd ei brenin cyntaf, ac a ganlynwyd gan luaws o freninoedd o'r enw Pharaoh; dywed rhai fod 60 o honynt. Un o honynt, A. M. 2081, a gymmerodd wraig Abraham i'w lys, gan fwriadu ei gwneuthur yn ddyweddi iddo; ond plâau, oeddynt yn nodi yr achos, a barasant iddo ei rhoddi yn ol. Yn mhen dau eant o flyneddoedd wedi hyny, dygwyddodd saith cnwd hynod belaethlawn, yn olynol, y rhai a ganlynwyd gan saith mlynedd o newyn, yn mha rai y trengasai y rhan fwyaf o'r Aiphtiaid, oni buasai iddynt gael eu hachub trwy ddoeth drefniad Joseph. Oddeutu yr amser hwn y daeth yr Hebreaid i waered i'r Aipht. Gwedi iddynt fod yno uwchlaw can mlynedd, defnyddiodd brenin yr Aipht bob moddion i'w gorthrymu, a dyfetha eu plant gwrryw. Yn A. M. 2513, gorchymynodd Duw i frenin yr Aipht ganiatau i'r Hebreaid ymadael o'i wlad. Wrth iddo naccau, deg o blâau, sef troi y dyfroedd yn waed, y llyffaint, yr heidiau ednog, y llau, haint yr anifeiliaid, y cornwyd llinorog ar ddyn ac anifail, taranau a chenllysg, locustiaid, tywyllwch, a marwolaeth y cyntafanedig, a'i cymhellasant ef i wneuthur hyny o'r diwedd. Prin yr oeddynt wedi ymadael, pan yr erlidiodd efe ar eu hol hwy; a chyda ei holl fyddin, a foddwyd yn y Môr Coch. Yn nghylch yr amser hwn y mae yr haneswyr Aiphtaidd yn gosod ymgyrchiad i'w gwlad gan heidiau o fugeiliaid Pheniciaidd, ond pwy oedd y bugeiliaid hyn, pa un ai Amaleciaid a ffoisent rhag Cedorlaomer, neu Ganaaneaid a ffoisent rhag Josuah, neu Arabiaid, nis gallwn benderfynu yn ddilys, Gen. xli. a xlviii. Exod. i.—xiv. Yn nghylch A, M. 2989, priodoedd Solomon dywysoges Aiphtaidd; a Pharaoh ei thad, wedi ennill Gezer oddi ar y Canaaneaid, a'i rhoddodd yn gynnysgaeth iddi. Sisac, yr hwn a allai fod yn frawd neu nai iddi, oedd oresgynydd nerthol. Gwedi iddo uno yr Aipht yn un deyrnas, a helaethu ei amherodraeth bron i gyfyng-for Gibraltar, arweiniodd lu dirfawr i Asia, a gorchfygodd y parth gorllewinol o honi. Tra y bu efe oddi cartref, gwrthryfelodd ei frawd Danaus; ac ar ol ei farwolaeth, syrthiodd yr amherodraeth yn ddarnau, ac aeth hyd yn nod yr Aipht ei hun dan iau yr Ethiopiaid. Gwedi rhai oesoedd, adenillasant eu rhyddid; ond ymddengys i'r deyrnas gael ei rhanu yn dair. Sabaccon, neu So yr Ethiopiad, a'n darostyngodd hwy oll, ac a gymmerodd feddiant o'r holl wlad. Ar ei ol ef y teyrnasodd Sethon, offeiriad Vulcan, ond tebygol yw, nad oedd efe ddim ychwaneg na rhaglaw Tirhacah. Ar ol ei farwolaeth, anrheithiwyd yr Aipht yn ddychrynllyd gan yr As-

syriaid, a gosodwyd deuddeg o arglwyddi ar y cyfan o honi. Ar ol oddeutu 15 mlynedd o ryfel cartrefol, gorescynodd Psamitichus yr un-arddeg ereill, a chymmerodd feddiant o'r holl wlad. Yn ei amser ef y sefydlodd y Groegiaid gyntaf yn yr Aipht; a 200,000 o'i filwyr, wedi eu sarhau o herwydd pwnc o urddas, a ymadawsant i Ethiopia. Tano ef a'i fab Pharaoh Necho y meddyliodd yr Aiphtiaid osod i fynu eu mawredd ar adfeiliau Assyria. Ennilliad Asdod a gostiodd i'r tad 29 mlynedd o warchae arni; a'r mab, wedi darostwng teyrnas Judah, a gafodd feiddiad arswydus yn agos i'r Euphrates.

Yn nghylch 30 o flynyddoedd wedi hyny, A. M. 3430, yr oedd yr Aipht mewn cyflwr truenus, o achos y rhyfeloedd cartrefol rhwng Pharaoh Hophra ac Amasis y gwrthryfelwr, yr hwn a ennillodd yr orsedd, a hyny o herwydd difrodiadau y Caldeaid. Yn mhen yn nghylch 40 mlynedd, yr oedd y wlad bron yn anialwch, ac Amasis dan deyrnged i'r Caldeaid. Tua chwymp amherodraeth y Caldeaid, adennillodd yr Aiphtiaid eu rhyddid, ond gorescynwyd hwy yn ebrwydd gan Cyrus, ac anrheithiwyd eu gwlad yn ofnadwy gan Cambyses ei fab, a throsglwyddwyd rhai miloedd o'u heilunod i Persia. Hyn a'u llidiodd gymmaint, fel y ciliasant drachefn a thrachefn o dan iau y Persiaid, ond darostyngwyd hwy o hyd i gaeth-wasanaeth mwy blin; a'u terfysgoedd cartrefol eu hunain a dueddasant yn fawr i brysuro eu dinystr. Yn nghylch A. M. 3672, ymostyngasant i Alexander Fawr: o'r pryd hwnw llywodraethwyd hwy gan lin o freninoedd Groegaidd, gan mwyaf o'r enw Ptolemy, dros yn nghylch 320 o flynyddoedd. Yn nghylch A. M. 3995, darostyngodd y Rhufeiniaid yr Aipht i ddull talaeth, a pharhaodd dan eu hiau hwy hyd A. D. 630. Tan y Groegiaid, sefydlodd nifer dirfawr o Iuddewon, myrddiynau medd *Philo*, yn yr Aipht, ac yr oedd yr Hen Destament yn cael ei ddarllain yn gyffredinol. Tan y Rhufeiniaid cafodd yr Efengyl ei phlannu yn dra boreu yn mhlith yr Aiphtiaid, a blodeuodd yr eglwys yno yn lled fawr. Er pan y cymmerodd yr Arabiaid feddiant o'r wlad yn A. D. 640, ac y distrywiasant bob coffadwriaeth o ddysgeidiaeth, y mae y dwyll-grefydd Fahometanaidd wedi cael ei sefydlu, a Christionogaeth yn cael ei goddef yno; ond y mae wedi bod mewn cyflwr tra isel a thruenus. Yn ngylch A. D. 970, tynodd Califf Cyrene yr Aipht oddi wrth Galiff Bagdad trwy drais, a bu ef a'i hiliogaeth yn ei llywodraethu yn nghylch 200 o flynyddoedd. Oddeutu A. D. 1171, Saladin y Curdiad a gymmerodd feddiant o honi trwy ystryw, a'i hiliogaeth a elwid *Jobiaid*, a deyrnasant yno hyd 1250. Rhwng hyny â 1527, llywodraethwyd hi gan freninoedd a ddewsasai y caeth-weision Mamalucaidd allan o'u corph eu hunain, 24 o ba rai oeddynt Dyrciaid, ac 28 yn Circasiaid. Er y pryd hwnw y mae wedi bod yn ddarostyngedig i gaeth-wasanaeth y Tyrciaid Otomanaidd. Fel hyn y mae teyrnwialen yr Aipht wedi *ymadael:* y mae wedi bod am filoedd o flynyddoedd *heb dywysog* o'i heiddo ei hun, ac wedi bod yn *isaf o'r breniniaethau*, yn cael ei llywodraethu am hir amser hyd yn nod gan gaethion, a'r bobl mwyaf hurtaidd, 1 Bren. iii. 1. ix. 16. xi. xiv. 21—26. 2 Bren. xvii. 4. xxiii. xxiv. Esa. xix. xx. xxx. xxxi. Jer. xxv. 18, 19. xxxvii. 9. xliii. 8, 13. Ezec. xxix.—xxxii. Dan. xi. Joel iii, 19. Zech. x. 11. Esa. xix. 18—25. Salm lxviii. 31. Cafodd yr Aipht ei gorescyn gan y Ffrancod dan Buonaparte yn 1798, gyda bwriad, tebygol, i dreiddio trwy yr ymgyrch hwnw i'r India; ond, wedi cadw meddiant o honi am beth amser, difeddiannwyd hwy gan luoedd Prydain, dan y Cadfridogion Abercromby a Hutchinson.

Y mae Anghrist yn cael ei alw *Aipht*, am ei eilun-addoliaeth, ei greulondeb, a'i orthrymiad o bobl Dduw, ac o herwydd y bydd iddo gael ei ddyfetha gan farnedigaethu ofnadwy Duw, Dad. xi. 8,

AIPHTIAID, preswylwyr yr Aipht. "A bydd blin gan yr *Aiphtiaid* yfed dwfr o'r afon," Ex. vii. 18. Y mae yn yr Aipht rai ffynonau; ond nid yfir eu dyfroedd, am eu bod yn annymunol ac afiachus. Dwfr yr afon Nilus sydd yn cael ei arfer yn gyffredin yn y wlad, o herwydd ei fod yn cael ei ystyried yn iachus dros ben, ac ar yr un pryd yn *beraidd* iawn; mor beraidd, (medd un

awdwr dysgedig) fel na ddymunai un i gynhesrwydd y wlad fod yn llai, nac ychwaith i gael ei ddisychedu. Yr oedd y dwfr hwn mor hynod ddymunol gan y Tyrciaid, nes y byddent yn cynhyrfu eu hunain i'w yfed, trwy fwytta halen. Y mae yn ddywediad yn eu plith, pe buasai Mahomet wedi yfed o hono, y buasai yn gweddio ar yr Arglwydd am gael peidio marw, fel y gallai fwynhau yr hyfrydwch hwn yn wastadol. Bydd i un na chlywodd erioed o'r blaen am felusdra y dwfr hwn, ac am yr belaethrwydd mawr sydd yn cael ei yfed hono, o herwydd hyny, weled rhyw rym yn y geiriau hyn na sylwodd arno erioed o'r blaen. Bydd blin ganddynt yfed o'r dwfr hwnw a ddewisent o flaen pob dyfroedd ereill; yn lin ganddynt yfed o'r hwn yr arferent hiraethu yn fawr am dano: gan ddewis yn hytrach yfed o ddwfr ffynnonau, yr hwn, yn y wlad hono, sydd mor ffiaidd ac annymunol.

ALABASTER, maen dysclaer hardd, yn tebygu i'r marmor, ond yn fwy breuol; gweithia gyda defnyddiau surllyd; calch-losga yn tân, ond ni rydd ffiam gyda dur: wedi ei falurio yn deg a'i osod ar tân, ymddengys yn donau chwyddedig, eyffelyb i ddwfr. Y mae tri math o hono; sef y *gwynaidd*, a elwid gan yr henafiaid marmor Lygdin; y *melyn-wyn*, a elwid Phengites; a'r *melyn-goch*, a elwid yn unig alabaster; ac weithiau onyx. Dywed *Pliny* y ceir ef yn agos i Thebes yn yr Aipht, a Damascus yn Syria. Y diweddaf yw y gwynaf o'r ddau; ond caent y goreu yn Carmania. Yr henafiaid a alwent fychau a gynnwysent enaint gwerthfawr, *blychau alabaster*, er na byddent wedi eu gwneuthur o'r maen hwnw: ac oblegid hyny yr oedd mesur a gynnwysai ddeg wns o win a naw o olew yn cael ei alw *alabaster*. Yn mha un o'r tair ystyr hyn, yr oedd y blwch o enaint, â pha un yr enciniodd Mair yr Iesu, yn cael ei alw *alabaster*, ni feiddiwn benderfynu yn sicr; er ein bod yn tueddu i feddwl fod y blwch o faen alabaster, Mat. xxvi. 7.

ALAMOTH, titl y Salm 46. Cyfieithir y gair hwn gan rai, y *gwyryfon*, a chan ereill *pethau dirgel*: ac, yn ganlynol, tybir ei fod ar y naill law yn cyfeirio naill ai at ryw dôn mewn arferiad cyffredin yn yr amser hwnw, neu at ryw offeryn cerdd anhysbys i ni, ag oeddynt yn neilduol briodol i'r gwyryfon a ganent yn y côr, 1 Cron. xv. 20. ac ar y llaw arall, tybir ei fod yn cyfeirio at ddirgeledigaethâu tywyll a chuddiedig yr efengyl.

ALCAN, *(al* metel, a *càn* gwyn) metel digon adnabyddus, yn galetach na phlwm, ac i'w gael yn aml yn gymmysgedig âg arian, yr hwn oedd yn gwneuthur i fynu ran o fasnach y Syriaid â Tarsis, Ezec. xxvii. 12. Ysgatfydd fod mwn-gloddiau alcan yn adnewyddu eu trysorfa mewn yspaid hir o amser. Ceir coed ynddynt, mewn dyfnder o 50 gwrhyd. Pechaduriaid drygionus, â'u llygredigaethau mawrion, y rhai sydd barod i dân digofaint Duw, a gyffelybir i blwm, haiarn, *alcan*, pres, a sorod, Ezec. xxii. 20. Esa. i. 25.

ALEGORI, cyffelybiaeth. Ymddengys fod y gair yn deilliaw oddi wrth y Groeg *allos*, arall, a *logos*, araith, ac felly y mae yn arwyddo traws-symudiad estynedig, neu gyfres barhaol o draws-symudiadau, yn cynnwys eglurhad o un arbenig; megys yn Nghaniad Solomon; neu osodiad allan o ryw bwnc athrawiaethol, trwy hanes: yn y modd hwn yr oedd dwy wraig Abraham yn gysgodluniau o'r *ddau gyfammod* o weithredoedd a gras; ac o ddwy oruchwyliaeth y cyfammod, sef trwy seremoniau a thrwy efengyl eglur. Y mae Hagar yn arwydd-lun o'r blaenaf; Sarah o'r olaf; Ismael o'r rhai sydd yn glynu wrth y ddeddf megys cyfammod, a'r seremoniau; ac Isaac o'r rhai sydd yn glynu wrth y cyfammod gras, a goruchwyliaeth yr efengyl, Gal. iv. 24, 31. Cyfeirir yn fynych at yr ysgrythyrau fel yn llawn o'r cyffelybiaethau hyn; a dyfynir Salm lxxx. 8, 17, megys un o'r rhai mwyaf rheolaidd a phrydferth. Tân yr arwyddlun o winwydden, cawn arddangosiad o hanes eglwys yr Hen Destament; ond yn Ezec. xix. 10. gelwir yr un arwydd-lun yn *ddammeg*. Ymddengys mai y gwahaniaeth ysgrythyrol rhwng dammeg ac alegori ydyw, fod dammeg yn gyffredin yn hanes *dychymygol*, ac alegori yn un *gwirioneddol*. Pan yr agorodd yr Athraw mawr ei enau mewn dam-

megion, cawn ef naill ai yn defnyddio ffugyrau oddiwrth naturiaeth, megys *y gronyn o had mwstard*, Luc. xiii. 19. neu yn adrodd hanesion ffugiedig oddiwrth helyntion cyffredin bywyd, megys dammeg y *Goruchwyliwr anghyfiawn*, Y *ddafad goll*, Y *mab afradlon*, &c. Luc xx. a xxi. Y mae prydferthwch alegori, yn gystal a phob ffugyrau ereill, yn gynnwysedig yn nghyd-darawiad cywir yr hanes, â'r hyn a fwriedir osod allan trwyddo.

ALELÚIA, neu *Haleluia*. Cyfarfyddir â'r gair Hebrëig hwn sydd yn arwyddo *molwch yr Arglwydd*, ar ddechreu a diwedd amryw Salmau, yn benaf tua diwedd y llyfr, Salm cxi. cxii. cxiii. cxvii. cxxxv. cl. Y lle cyntaf y cawn ef yw Salm civ. 35. "Darfydded pechaduriaid o'r tir (*aleluia*) molwch Jah." Arferir ef fel byr-dôn gan y seintiau, ar gwymp Anghrist, Dad. xix. a geill fod yn gosod allan ofal dwys yr Iuddewon yn nghylch hyny, a'u priodoliad cyffredinol o'r holl fawl i Dduw.

ALEXANDER a Rufus, dau Gristion enwog, meibion Simon o Cyrene, yr hwn a gynnorthwyodd ein Hiachawdwr i ddwyn ei groes i ben Calfaria, Marc. xv. 21. Rhuf. xvi. 13. (2.) Alexander Lysimacus, brawd yr enwog Philo. Yr oedd efe yn is-lywydd yn Alexandria; ac yn cael ei gyfrif yr Iuddew cyfoethocaf yn ei amser; a gwnaeth rifedi nid bychan o anrhegion gwerthfawr i'r deml. Bwriwyd ef i garchar gan Caligula, tebygol, am naccau addoli yr arch-deyrn gorphwyllog hwnw; a pharhaodd felly nes i'r Amherawdwr Claudius ei rhyddhau. Tybir mai efe oedd yr Alexander oedd yn nghymdeithas yr arch-offeiriaid a'r henuriaid pan y rhoddwyd yr apostolion yn ngharchar, am iachau y gwr dirym, Act. iv. 6. (3.) Alexander y gof-copr. Tros amser, amddiffynodd y ffydd Gristionogol; ond, gan iddo droi yn gablwr, rhoddodd Paul ef i fynu i Satan. Ennynodd hyn ei lid ef fwy-fwy; a gwnaeth i'r apostol bob drwg ag oedd yn ei allu, 1 Tim. i. 20. 2 Tim. iv. 14, 15. Amlilys ydyw ai efe oedd yr un a fu mewn peth enbydrwydd am ei fywyd, trwy gynnyg gostegi y terfysg a yfododd Demetrius y gof-arian yn Ephesus: ac nid yw chwaith yn sier pa un ai fod yr *Alexander* hwnw yn Gristion, ai nad oedd, Act. xix. 33.

ALEXANDRIA, dinas enwog yn yr Aipht Isaf. Yr oedd hi yn sefyll rhwng y llyn Mareotis, a'r gainc Ganahaidd neu orllewinol o'r Nilus, nid yn nebpell oddi wrth Fôr y Canoldir. Alexander Fawr oedd ei sylfaenydd; ac yn mhen ychydig flynedd oedd wedi hyny, cladd wyd ef yno mewn arch o aur. Adeiladwyd hi ar lun cochl Facedonaidd; a chuddiai yn nghylch pumthep milltir o le. Yr oedd y breninlys, yr hwn oedd yn bummed rhan o'r ddinas yn sefyll gerllaw y môr, ac yn cynnwys yr annedd freninol, yr amgueddfa a'r bedd-adeiliau. Yr oedd y brif heol, yr hon a gyrhaeddai holl hyd y ddinas, yn gant o droedfeddi o led. Y Ptolemiaid a ganlynasant Alexander i'awr yn yr Aipht, a'i gwnaethant yn drigfa iddynt eu hunain dros ychwaneg na 200 o flynedd-oedd; trwy ba foddion y daeth yn fam-ddinas yr Aipht. Ei hagosrwydd at y Môr Côch a Môr y Canoldir a dynodd iddi fasnach y dwyrain a'r gorllewin, ac a'i gwnaeth, dros amryw oesoedd, yn farchnadfa y rhan fwyaf o'r byd adnabyddus; ac yn un o'r dinasoedd mwyaf blodeuog mewn bod, yn ail i neb ond Rhufain. Yr oedd yn enwog am lyfr-gell yn cynnwys 700,000 o gyfrolau, yr hon, am y tro olaf, a losgwyd mewn modd gorphwyllog, gan yr Arabiaid, neu y Saraceniaid. A. D. 642. Adrodd ei hamrywiol warchaeadau a'i chymeriadau gan Roegiaid Syria, y Rhufeiniaid, y Persiaid, y Saraceniaid, y Tyrciaid, ac ereill, a fyddai yn anmhriodol i'r gwaith hwn. Pan ennillodd yr Arabiaid hi, cynnwysai 4000 o balasau, 400 o bed rorau, a 12,000 o ddynion yn gwerthu llysiau a ffrwythau. Y mae yn awr wedi lleihau nes ydyw ond pentref helaeth, heb ddim hynod, ond gwe ddillion adfeiliedig o fawredd henafol, a chryn lawer o fasnach. Yr oedd lluaws mawr o Iuddewon yn cyfaneddu yma er amser Alexander, weithiau yn nghylch, neu uwchlaw, 100,000 ar y tro: a rhan o'r rhai hyn, pan oeddynt yn Jerusalem, a gyfodasant erlidigaeth greulawn yn erbyn Stephan, Act. vi. 9. Yma

y ganwyd Apolos, Act. xviii. 24. Llofruddiwyd 50,000 o Iuddewon yma dan yr Amherawdwr Nero. Pan ennillodd yr Arabiaid hi, megys y dywedwyd uchod, cawsant yno 40,000 o Iuddewon, yn talu teyrnged. Mewn llong o Alexandria, y mordwyodd Paul tua Rhufain, Act. xxvii. 6. Planwyd Cristionogrwydd yn foreu yn y lle hwn. Dywedir mai Marc yr Efengylwr oedd yr offeryn. Yma y bu *Clemens, Origen, Athanasius*, a lluaws dirfawr o wyr enwog ereill yn blodeuo. Bu esgob y lle hwn, dros amryw oesoedd yn cael ei gynnal fel un o bedwar penaeth yr Eglwys Gristionogol, a chanddo yr eglwysi yn y rhan ddwyreiniol o Affrica dan ei awdurdod: ac nid oes nemawr o amser er pan oedd yr esgobion yma yn meddu y rhan-fraint o gyssegru prif esgobion eglwys Ethiopia, os nad ydyw ganddynt etto.

ALMON, (*cuddiedig*). (1.) Dinas yn perthyn i lwyth Benjamin, Jos. xxi. 18. (2.) Pren o'r enw. Y mae blodeuyn y pren hwn o ryw y rhosyn, yn gyfansoddedig o amryw flodeu-ddail, wedi eu gosod mewn dull cylchgrwn. Y mae pump math o honynt; ond hwy a wahaniaethir yn fwy cyffredinol, wrth eu ffrwyth melus a chwerw, i ddau. Tyfant naill ai mewn meusydd sychion neu wlyb-ion; a chyfodir hwy yn fynych trwy impio ysgewellyn almon i gyff pren gellaig, pëatus, neu almon. Y mae enw Hebrëig y pren almon yn deilliaw oddi wrth *shacad*, a'i ystyr yw *gwylied*; ac arwydda, ei fod yn cadw ei sefyllfa, gan ei fod y cyntaf sydd yn blodeuo yn y gwanwyn, a'r diweddaf yn gwywo yn yr hydref. Blodeua yn mis Ionawr: ac yn mis Mawrth, yn y gwledydd poethion, y mae ei ffrwyth yn addfed. Ei ffrwyth sydd werthfawr a maethawl. Anfonodd Jacob anrheg o hono i Joseph, Gen. xliii. 11. Pedyll y canhwyllbren aur wedi eu gwneud ar lun *almonau* a osodent allan rinwedd flodeuog, ac enaid-faethol, goleuni yr efengyl, Exod. xxv. 33. Yr *almonau* a dyfent ar wialen Aaron, wedi ei gosod ger bron yr Arglwydd dros nos, a arwyddent flodeuad a pharhad yr offeiriadaeth gysgodol yn ei deulu; dyledswydd yr offeiriaid Hebreaidd ac ereill weinidogion, i fod yn ddeffröus a defnyddiol yn eu gwaith; dynesiad prysur dialedd ar eu gwrthwynebwyr; ond yn benaf, rhinwedd faethlawn yr efengyl, gwialen nerth Crist, a dinystr disymmwth pob gelyn, Num. xvii. 8. Y wialen *almon*, a ddangoswyd i Jeremiah mewn gweledigaeth, oedd yn gosod allan, y byddai barnedigaethau Duw yn addfed ar frys, neu yn barod i gael eu cyflawni ar Iuddewon drygionus ei amser ef, Jer. i. 11. Dywedir fod pen hen wr yn *blodeuo fel pren almon*, o herwydd fod ei wallt gwyn ef yn tebygu i'w flodau gwynion yntau, Preg. xii. 5.

ALMUGIM, neu **ALGUMIM**: nid y *cwrel* ydyw, yr hwn ni ellir ei ffurfio yn risiau neu offer cerdd; ond naill ai yr *ebenus*, helaethrwydd o ba un a dyf yn yr India; neu *bren Brazil;* neu y *pren Citron;* neu ryw fath ar goed gludiog, ysgatlydd y rhai sydd yn dwyn y gwin Arabaidd; ac felly tybir gan rai mai yr un oedd a'r pren Sitta, 1 Bren. x. 11. 2 Cron. ii. 8. a ix. 10.

ALOES. Y mae y pren hwn yn tyfu yn awr yn mhob un o bedwar parth y byd. Cyfododd un yn Ewrop 23 troedfedd o uchder, a dygodd ar unwaith 12,000 o flodau. Hyd yn nod yn Sweden blodeuodd pren Aloes yn Hydref 1708, a daliodd yn ei flodau trwy y gauaf canlynol, er ei fod yn dra gerwin. Y mae *Tournefort* yn cyfrif pedair rhywiogaeth ar ddeg o'r pren hwn. Y mae *aloes* America yn enwog am ei flodau heirdd o ryw y lili; yr un Asiaidd am y defnydd meddyginiaethol llesol a ddarparir o hono. Gwneir y defnydd hwn o sudd y dail, wedi eu tynu yn irion a'u gwasgu, a'u gosod i galedu yn yr haul. Y mae y cyffyr hwn yn enwog am ei rinwedd puredigol. Y mae y pren a'i sudd yn beraidd eu harogl, ac yn gyfareddion rhag llygredigaeth. Defnyddid aloes gynt i ber-arogli cyrph meirw, ac i fwg-darthu gwelyau a dillad, Ioan xix. 39. Diar. vii, 17. Effeithiau yr Ysbryd Glân yn Nghrist, a'i bobl, a gyffelybir i *aloes*, oblegyd eu harogl hyfryd: eu tuedd i attal, neu buro, llygredigaeth pechadurus, ac i gadw eu deiliaid am byth yn iraidd ac iachus, Salm xlv. 8. Can. iv. 14. Yr Hebreaid a gyffelybir i *aloewydd*, i osod allan eu cynnydd rhyfeddol;

eu cyfiwr blodeuog; a'u buddioldeb nodedig, Num. xxiv. 6.

ALPHA ac OMEGA, y llythyrenau cyntaf a diweddaf yn yr egwyddor Roegaidd. Gelwir Crist felly, i ddynodi, mai efe ydyw y dechreu a'r diwedd: efe ydyw dyluniwr, awdwr, ceidwad, a chynhaliwr pob peth; a'i ogoniant yw y dyben o honynt, Dad. i. 8. xxi. 6. a xxii. 13. Efe oedd cyn yr holl fydoedd, ac a barha yr un, pan fyddo holl gyfnewidiadau y byd hwn wedi myned heibio, a diwedd pob peth a berthyn iddo wedi dyfod i ben. Y mae yr adnodau hyn yn brofion gogoneddus o dduwdod ein Harglwydd a'n Hiachawdwr mawr; ac, er fod rhai wedi ceisio gwanhau eu grym trwy ddehongli y geiriau fel wedi eu llefaru gan y Tad, pob darllenydd diragfarn a wêl nad all dim fod yn fwy anghysson â'r cyd-destyn. Heblaw hyn, y mae y rhan fwyaf o'r geiriau a arferir yma wedi hyn, yn cael eu cymhwyso at ein Harglwydd Iesu Grist. Gwel Col. i. 17. Heb. i. 3.

ALPHEUS, *(mil)* tad yr apostolion Iago a Judas. Tybir fod Mair ei wraig ef yn chwaer i'r forwyn sanctaidd; ac o herwydd hyny, gelwir ei feibion yn frodyr ein Harglwydd, Gal. i. 19. Marc vi. 3. Cyfrifir mai yr un oedd yntau ei hun â Chleopas, Mat. x. 3. (2.) Tad Matthew, neu Leŵ yr Efengylwr, Marc. ii. 14.

AL-TASCITH, *(na ddyfetho)* titl Salmau lvii. lviii. lix. a lxxv. Tybir fod y Salmau hyn yn cael ei cyfenwi felly, am fod rhai o wyr Dafydd, gan weled y fantais oedd ganddo ar Saul, pan syrthiodd ef i'w ddwylaw yn yr ogof, ac y torrodd gwr ei fantell, a fynnent ei ladd ef, oni buasai i Dafydd attal yr hwn oedd yn myned i roddi y dyrnawd, trwy ddywedyd, *Na ddyfetha*. Ereill a feddyliant fod y gair yn mynegu hyder Dafydd ar Dduw, na oddefai iddo gael ei ddyfetha gan ei elynion. Hyn sydd fwyaf tebygol.

ALLAN—OL, oddifaes. Gorchymyna Paul i Timotheus bregethu yr efengyl "mewn amser, *allan* o amser," 2 Tim. iv. 2. Nid yn unig ar amser gosodedig cynnulleidfaoedd crefyddol, ond allan o'r amser hwnw, sef yn wastadol, bob amser, ac yn mhob lle; pa bryd bynag y rhoddo rhagluniaeth gyfleusdra i hyny. Gellir cyfiethu y geiriau, *gyda chyfleusdra, a heb gyfleusdra*.

ALLOR-AU, *(a-llawr.)* Ar allorau y cyflwynid yr offrymau sanctaidd i Dduw; ac a ysid, o leiaf mewn rhan, â thân, er anrhydedd iddo. Nid ydym yn darllain am *un allor* cyn y dylif, er eu bod yn aberthu; tebygol eu bod yn llosgi yr aberthau ar y ddaear. Y mae yn amgylchiad nodedig fod bron pob cenedl, pa ddull bynag a fyddai ar eu haddoliad, âg allorau ganddynt. Yr oedd yr Israeliaid, yn fwy enwedigol yn amseroedd eu heilun-addoliaeth gwrthun, wedi lluosogi eu hallorau gymmaint, nes eu bod megys *carneddau yn rhychau y meusydd*, Hos. xii. 11. Yr oedd gan addolwyr Baal amryw allorau; yr oeddynt wedi eu cyfodi i'w priodol ddiwiau; ac y mae Paul yn crybwyll am un yn Athen, ag arni yn ysgrifenedig, *I'r Duw nid adwaenir*. Y mae yr enwog Cadbeu *Cook* yn rhoddi hanes tra phwysig am *allorau* trigolion gwylltion ynysoedd y môr deheuol. Y mae *Forbes*, yn dra chyfiawn yn ei draethawd rhagorol, a gyfenwir, *Cristionogrwydd yn agos iawn cyn hened a'r greadigaeth*, wedi dwyn yn mlaen y gwirionedd anwadadwy hwn am arferiad cyffredinol allorau, megys prawf cyfochrol tra hynod o wirionedd dadguddiad. Athrawiaeth yr iawn ydyw athrawiaeth sylfaenol Cristionogrwydd; a pha mor anwybodus bynag am wirioneddau yr efengyl ydyw dynion, y mae hyn yn gyffaddefiad di-gêl, yn (1.) Fod yr addolydd yn bechadur, ac yn (2.) Ei fod, trwy offrymu aberth, yn gobeithio dyhuddo y Duwdod. Yr oedd henafiaid pob cenedl yn tywallt gwaed ar eu hallorau, ac yn credu fod y rhinwedd o hono yn rhyfeddol. Cymmerodd y cyfan ei ddechreuad oddi wrth yr addewid ddwyfol, Y byddai i sawdl had y wraig gael ei hysigo; neu, mewn geiriau eraill, y byddai i Grist, i'r dyben o waredu meibion lawer, a'u dwyn i ogoniant, farw yn eu lle; y byddai i'r dwyfol lid, i ba un yr oeddynt yn agored fel pechaduriaid yn erbyn Duw, gymmeryd gafael yn y Machniydd gogoneddus hwn. Er taflu goleuni ar y gwirioneedd pwysig hwn a roddwyd mewn addewid, y sefydlwyd aberthau ac y cyfodwyd allor-

au. Pan *ymddangosodd* Duw i Abraham, Gen. xii. 7. yn ganlynol i'r dadguddiad a roddwyd yno iddo, efe a adeiladodd allor. *Ymddangosiad* yr Arglwydd oedd yr achos iddo adeiladu, fel y galwodd efe wedi hyny enw y fan, lle yr estynasai Isaac ar yr allor, Jehofah Jire. Er dwyn yr Arglwydd Iesu Grist, fel yr aberth mawr i'r golwg, y cyfodwyd allorau; ac yr oeddynt yn offrymu ar yr allorau hyn yn gymmeradwy, pan yr offryment trwy ffydd ynddo ef. Y fan lle yr adeiladodd Abraham allor gyntaf, oedd yn agos i Bethel, Gen. xiii. 3, 4. Yno, wedi hyny, yr eneiniodd Jacob ei golofn, ac yr offrymodd; ac nis gall fod un gwir Bethel, neu dŷ Dduw, ond lle byddo allor i'r Arglwydd. Ni ddichon fod un gwir eglwys i Dduw, lle nid yw athrawiaeth y groes, a'r iawn trwy waed Crist yn sylfaen yr adeilad. Rhwng y dylif a gosodiad y babell i fynu gan Moses, ac ar ol hyny, ar achosion anghyffredin, byddai yr allorau o gerrig geirwon heb eu naddu, neu o bridd. Ar gyssegriad y demi, yr oedd canol y cyntedd wedi ei gyssegru gan Solomon, fel allor i losgi ei boeth-offrymau lluosog, Gen. viii. 20. 1 Bren. viii. 64. a xviii. 30. Yr oedd y rhai hyn yn rhag-gysgodi Crist yn ei gadernid a'i holl ddigonolrwydd i oddef llid ei Dad; ac yn ei ddarostyngiad isel a'i ofid; y gwreiddyn o dir sych, heb bryd na thegwch ynddo i'w ddymuno. Gwedi gosodiad y babell i fynu, nid oedd ond dwy allor i'w harferyd mewn achosion cyffredin; y naill i losgi yr offrymau, a'r llall i losgi arogl-darth. Allor y poeth-offrwm a wnaeth Moses, oedd fath o gist o goed Sittim, wedi ei gorchuddio â dalenau pres, i'w hamddiffyn rhag y tân: yr oedd yn nghylch tair llath ei hyd, a chymmaint â hyny ei lled, ac yn nghylch pum troedfedd a hanner ei huchder. Yn mhob congl, yr oedd iddi bigwrn, neu gorn, o'r un defnyddiau â'r rhan arall o honi. Ar ei nen yr oedd alch o bres, trwy yr hon yr oedd lludw yr offrwm yn discyn i badell oddi tanoedd. Yr oedd yr allor hon yn gludadwy, ac yn cael ei dwyn, a gorchudd drosti, ar ysgwyddau y Lefiaid, ar drosolion o goed Sittim wedi eu gwisgo â phres, a'u gosod mewn modrwyau pres ar ei hystlysau. Gwnaeth Solomon allor bres i aberthu, yn llawer mwy na hon: ond pa un ai bod oll o bres, neu fod cerrig yuddi, neu ei bod yn geuol oddi mewn, nis gwyddom. Yr oedd yn nghylch 37 troedfedd ei hyd a'i lled, a hanner cymmaint a hyny ei huchder. Gwedi y caethiwed, ymddengys mai carnedd fawr o gerrig oedd allor y poeth-offrwm, yn nghylch 60 troedfedd ar bob tu yn y gwaelod, a 45 ar y nen, Exod. xxvii. 1—9. 2 Cron. iv. 1.

Allor yr arogl-darth oedd fwrdd bychan o goed Sittim, wedi ei wisgo âg aur, yn nghylch 22 o fodfeddi ei hyd a'i lled, a 44 ei huchder. Yr oedd ei nen wedi ei hamgylchu âg ymylwaith aur: yr oedd cyrn iddi ar ei phedair congl; a dygid hi ar drosolion o goed Sittim wedi eu gwisgo âg aur. Cyssegrwyd y ddwy allor hyn mewn modd arbenig trwy daenelliad gwaed, ac eneiniad âg olew; a gosodid gwaed y cymmod cyffredinol bob blwyddyn ar eu cyrn hefyd. Yr oedd allor y poeth-offrwm yn sefyll yn y cyntedd oddi allan, nid nebpell oddi wrth y pen dwyreiniol i'r babell, neu y deml: arni yr offrymid yr aberthau boreuol a hwyrol, a lluaws o aberthau ereill. Atti hi y byddai yr enog yn ffoi am noddfa. Yr oedd allor yr arogl-darth yn sefyll yn y cyssegr sanctaidd, ger bron y wahanlen; ac arni yr oedd arogl-darth sanctaidd, a dim arall, yn cael ei offrymu a'i losgi bob bore a hwyr. Yr oedd allor bres y poeth-offrwm yn rhag-gysgodi Iesu, megys ein holl-ddigonol iawn, a'n noddfa rhag digofaint; ac allor yr arogl-darth yn ei rag-gysgodi megys ein Heiriolwr o fewn i'r llen. yr hwn sydd yn byw bob amser i ddadleu drosom, Exod. xxx. Heb. ix. 21.

Y mae Iesu yn cael ei osod allan fel yr *allor* sydd gan Gristionogion. Yn ei natur a'i berson dwyfol, cyflwynodd ei hun yn gymmod-aberth i Dduw: y mae ei anfeidrol urddas yn gwneuthur ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth yn offrwm o anfeidrol werth; ac fel hyn y mae o hyd yn cyflwyno ac yn gwneuthur ei eiriolaeth yn llwyddiannus drosom: a thrwy ei berson, ei farwolaeth, a'i eiriolaeth ef, y mae ein personau, a'n haberthau nimnau o foliant, gweddi, a gweithredoedd da i gael eu cyflwyno i Dduw; ac yn

cael eu gwneuthur yn gymmeradwy yn ei olwg, Heb. xüi. 10. Gwaith Crist yn *sefyll ger bronyr allor aur i offrymu arogl-darth lawer*, sydd yn dynodi ei barodrwydd parhaus, a'i fywiogrwydd dianwadal, i ymddangos yn ngwydd Duw trosom, ac i ddadleu ein hiachawdwriaeth, ar sail ei haeddiant anfeidrol ei hun, Dad. viii. 3. Gosodir eneidiau gogoneddus y prif ferthyron allan, megys *dan yr allor*; syrthiasant yn ebyrth er mwyn achos a gwaith Iesu; yn y nef y maent yn agos atto, ac yn ddeddwydd am dragywyddoldeb trwy effaith ei waed a'i gyfrynedod. Yr *allor yn nghanol tir yr Aipht, a'r golofn ger llaw ei therfyn hi*, nid ydynt yn dynodi teml Onias, a adeiladwyd mewn gwrthryfel yn erbyn cyfraith Duw, ond goruchwyliaeth sefydlog a chyhoedd yr efengyl, ac eglwys Gristionogol yn Alexandria a manau ereill o'r Aipht, Esa. xix. 19.

AMALEC—IAID, (*pobl yn cymmeryd ymaith.*) Yr oedd i Eliphaz mab Esau, o'i ordderch-wraig Timna, fab o'r enw hwn, pa un a ganlynodd Gatan i lywodraethu ar yr Edomiaid, Gen. xxxvi. 16. 1 Cron. i. 36. Tybir, gan amryw, mai efe oedd tad yr Amaleciaid, cenedl gref a breswyliai yn Arabia Garregog, rhwng Hafilah a Sur, yr hyn sydd bron yr un peth â rhwng y Môr Marw a'r Môr Coch; a meddylir iddynt gael eu neillduo oddi wrth yr Edomiaid ereill o achos genedigaeth anghyfreithlon eu tad; a'u bod yn cashau yr Israeliaid, o herwydd i Jacob amddifadu ei henafiad o'i enedigaeth-fraint a'i fendith. Ond pan ystyriom fod Moses yn darlunio yr Amaleciaid fel yn bod yn nyddiau Cedorlaomer, hwyrach 200 o flynyddoedd cyn geni yr Amalec hwn; fod y dewin Balaam yn eu gosod allan fel y *cyntaf*, neu *ddechreu y cenedloedd*, Gen. xiv. 7. Num. xxiv. 20. fod plant digyfrwng Amalec, tebygol, yn fyw, pan daeth yr Hebreaid allan o'r Aipht, ac felly, yn dra annhebyg i fod mor lluosog, ag oedd yn ofynol i ymladd â'r llu dirfawr hwnw; ac yn mhellach, nad ydyw ymosodiad yr Amaleciaid ar yr Israeliaid byth yn cael ei ddarlunio fel wedi cael ei wneuthur ar frodyr; ac ni ymddengys ychwaith i'r Edomiaid erioed gynnorthwyo yr Amaleciaid; y mae yn ddiogel gennym nad hiliogaeth Esau oeddynt, ond llwyth llawer henach; wedi hanu, tebygol, o Ham, fel y dywed yr ysgrifenyddion Arabaidd i ni.

Yn nghylch A. M. 2091, anrheithiodd Cedorlaomer wlad yr Amaleciaid yn arswydus, Gen. xiv. 7. Yr amser hwnw, tebygol, yr ymadawodd lluaws o honynt â hi, ac ymdywalltasant i'r Aipht; a hwy oeddynt y bugeiliaid a goffa *Manetho* fel anrheithwyr a gorthrymwyr dychrynllyd yr Aipht. Yn nghylch 420 o flyneddoedd wedi hyny, hwy, ysgatfydd mewn cyngrair a'r Aiphtiaid, neu yn hytrach yn awyddus am yspail, a ymosodasant ar yr Hebreaid yn Rephidim, gerllaw y pen gogleddddwyreiniol i'r Môr Coch, ac a darawsant y sawl oeddynt luddedig a gweiniaid yn eu plith; ond trwy weddi Moses a gwroldeb Josuah, curwyd hwy yn ol. Yr ymosodiad annheg hwn a gynhyrfodd Dduw i dyngu, y gwnai efe, yn raddol, ddifrodi yr Amaleciaid, nes y byddai iddynt, gael eu llwyr-ddinystrio; a gorchymmynodd i'r Hebreaid ymddial arnynt, Exod. xvii. Deut. ix. 14. a xxv. 19. Yn nghylch dwy flynedd wedi hyny, cynnorthwyasant y Canaaneaid i daro lluaws o'r Hebreaid gwrthryfelgar yn Hormah, Num. xiv. 29, a 30. Yn mhen hir amser ar ol hyn, cynnorthwyasant Eglon brenin Moab, ac, ryw bryd wedi hyny, y Midianiaid, i orthrymu a lladd yr Israeliaid, Barn. iii. 13. a vi. 6.

Yr oedd eu drygioni parhaus wedi eu gwneuthur yn addfed i ddinystr. Yn nghylch A. M. 2930, gorchymmynodd Duw i Saul dorri i mewn i'w gwlad gyda holl nerth Israel; ac i'w llwyr ddyfetha hwy, a'r hyn oll a feddent. Anrheithiodd eu tiriogaethau, a lladdodd luaws dirfawr o honynt; ond yn groes i orchymyn yr Arglwydd, arbedodd Agag eu brenin, a'r goreu o'r praidd a'r da, 1 Sam. xv. Ni wnaeth yr Amaleciaid ymddangosiad gwych byth wedi hyn. Tra yr oedd Dafydd mewn alltudaeth yn Siclag, rhuthrodd ef a'i filwyr i mewn i'w gwlad, a lladdodd gynnifer o honynt ag a allodd gael: er dial am hyn, hwy, pan oedd Dafydd oddi cartref, a losgasant Siclag â thân, ac a ddygasant ei wragedd ef ac eiddo ei weision, a'u plant a'u golud

ymaith: eithr efe a ymlidiodd ar eu hol, a laddodd ran, a wasgarodd y lleill, a chafodd yr yspail yn ol, gyda mawr elw, 1 Sam. xxvii. a xxx. Yn nyddiau Hezeciah, 500 o feibion Simeon a darawsant y gweddill o honynt, a gwladychasant yn eu lle, 1 Cron. iv. 43. Yn nghylch A. M. 3498, bwriadodd Haman yr Amaleciad lwyr ddyfetha yr Iuddewon. Ei ddinystr ei hun a'i gyfeillion a fu y canlyniad o'i fradwriaeth. Er y pryd hwnw, ni chrybwyllir am enw yr Amaleciaid mwyach mewn hanes, ond darfu am dano byth, Esth. iii. a ix. Exod. xvii. 14. Num. xxiv, 20—22.

Y mae yr Amaleciaid yn genedl â llawer o son am dani yn y rhan flaenorol o'r ysgrythyr, a hyny yn benaf, fel gelynion i eglwys Dduw. Pan ddywedodd Duw, "*Gelyniaeth* a osodaf rhwng had y wraig a had y sarph," lled-grybwyllodd am yr hyn sydd wedi bod yn dra amlwg fyth er hyny. Pa mor foreu yr ydym yn darllain am feibion Duw a merched dynion! Yr Aipht oedd erlid-wraig gyntaf Israel; yna Amalec, y Philistiaid, Syriaid, Caldeaid, Babyloniaid, &c. pawb yn eu tro, fuant elynion i Eglwys Crist: ac yn y dyddiau diweddaf hyn, y mae teyrnas Anghrist, y dirgelwch anwireddhwnw, wedi tywallt eithaf ei chynddaredd ar ganlynwyr dirmygedig yr Oen. Nid ydyw distryw Amalec ond cysgod gwan o'r dialedd arswydus hwnw a gyflawnir ar y cenedloedd nad adwaenant Dduw, pan godo efe i'w hysgwyd yn ddychrynllyd, ac i roddi y deyrnas i'w saint.

AMANA, *(gwirionedd)* naill ai y mynydd Amanus, yr hwn sydd yn gwahanu Syria o du y gogledddwyrain oddi wrth Cilicia; o herwydd cyn belled a hyny y cyrhaeddai llywodraeth Dafydd a Solomon; neu yn hytrach, mynydd tu hwnt i'r Iorddonen, yn rhandir llwyth Manasseh, Can. iv. 8. Gwel *Libanus*.

AMASA, *(pobl yn maddeu)* mab, gordderch-fab Jether, hwyrach neu Ithra, ac Abigail chwaer Dafydd. Yr oedd efe yn flaenor ar y gwrthryfelwyr dan Absalom; ond Dafydd, wedi anfoddloni wrth Joab am ladd Absalom, a faddeuodd yn rhwydd i Amasa, ac a'i gwnaeth yn dywysog ei lu yn lle Joab. Pan hudodd Seba, mab Bicri, yr Israeliaid i wrthryfel newydd, gorchymynwyd i Amasa gasglu gwyr Judah, ac erlid ar ol y gwrthryfelwyr gyda phob prysurdeb. Ond efe a drigodd yn hwy na'r amser a osodasid iddo. Gan hyny, afonwyd Abisai gyda'r byddinoedd teuluaidd i erlid ar ol Seba mab Bicri, cyn i'r lleill ddyfod i fynu. Aeth Joab gyda ei frawd fel milwr gwirfoddol. Nid oeddynt ond newydd gyrchu at faen mawr Gibeon, pan y daeth Amasa i fynu attynt gyda ei lu. Wrth gyfarfod, Joab, mewn rhith caredigrwydd, a ofynodd am iechyd ei gefnder; ac a ymafiodd yn ei farf i'w gusanu ef: yn y cyfamser brathodd ef yn fradwrus â'r cleddyf dan y bummed ais, tywalltodd allan ei berfedd, a pharodd orchuddio ei gorph â chadach, o herwydd fod y llu yn sefyll wrth fyned heibio, i edrych arno, 2 Sam. xvii. 25. a'r xx.

AMASAI, *(rhodd y bobl)* mab Elcanah. Tebygolei fod yn benaeth ar dywysogion Judah a Benjamin dan Saul, ac a ddaeth at Dafydd, yn ei alltudaeth, yn nghyd a lluaws o'i gyfeillion. Dafydd, wedi mynegi iddo am eu dynesiad, a aeth i'w cyfarfod; gan sicrhau iddynt, os mewn heddwch y daethent, y byddai ei galon yn un â hwynt; a chan ddymuno i Dduw eu ceryddu os oeddynt yn bwriadu ei fradychu ef i ddwylaw Saul. Amasai, wedi ei gynhyrfu gan Dduw, a attebodd yn eu henw, "Eiddo ti, Dafydd, a chyda thi, mab Jesse, *y byddwn ni*; heddwch i ti, a hedd i'th gynnorthwywyr." Dafydd, yn ddiattreg, a'u croesawodd hwynt, ac a'u gosododd yn benaethiaid ar y fyddin, 1 Cron. xii. 16—19.

AMAZIAH, *(nerth yr Arglwydd)* wythfed brenin Judah, mab a chanlynwr Joas. Yn y 25 flwyddyn o'i oedran, dechreuodd ei deyrnasiad, A. M. 3169, ac a deyrnasodd 25 o flyneddoedd. Yn nechreuad ei deyrnasiad ymddygodd yn dda, ond nid â chalon union. Yn ebrwydd gosododd goap gyflawn ar leiddiaid ei dad; ond yn ol cyfraith Moses, ac yn wrthwyneb i arferiad gwaedlyd amryw wledydd yr amser hwnw, ni ddrygodd eu plant diniweid. Gan fwriadu taro yr Edomiaid, y rhai, oddeutu 54 o flyneddoedd o'r blaen, a giliasant oddi wrth y brenin Jehoram, cyfododd 300,000 o'i ddeiliaid ei

hun, ac er can talent o arian, neu £34,218 15s. o'n harian ni, a gyflogodd 100,000 o wyr o Israel. Gwr Duw a ymresymodd âg ef yn erbyn hyny, gan haeru y byddai i'r Israeliaid eilun-addolgar ddwyn melldith ar ei orchwyl, oni anfonai hwynt ymaith: gyda grwgnachrwydd nid bychan am y golled o'i 100 talent, anfonodd hwy i'w mangre eu hun. Yna aeth yn mlaen yn erbyn yr Edomiaid; ymosododd arnynt yn nyffryn yr halen; ac a laddodd ddeng mil o honynt ar y fan. Yn nesaf, gwnaeth ei hun yn arglwydd ar Sela eu mamddinas: tafiodd ddeng mil o'i garcharorion yn greulon o ben y graig, ar yr hon yr oedd y ddinas wedi ei hadeiladu, ac a'u drylliodd hwy oll; a newidiodd enw y lle i *Joctheel*, yr hwn, fe ymddengys, oedd ei hen enw cyn i'r Edomiaid ei hennill oddi ar Judah. Dygodd ymaith hefyd eu duwiau, ac yn fuan aeth yn addolwr ynfyd o honynt. Ceryddodd prophwyd ef am addoli y cyfryw dduwiau, ar nas gallent, fel y gwelsai, achub eu pobl eu hun allan o'i law ef. Bwgwthiodd gospi y prophwyd oni pheidiai. Y prophwyd a beidiodd; ond dywedodd wrtho, fod yr Arglwydd, o herwydd ei gyndynrwydd yn ei eilun-addoliaeth, wedi arfaethu ei ddinystrio ef.

Yn y man, byddinoedd Israel, gan gymmeryd fel sarhad mawr iddynt gael eu troi yn ol, ac hwyrach, wedi eu siomi am eu hyspail ddysgwyliedig o Edom, yn eu dychweliad adref, a syrthiasant ar ddinasoedd Judah; llosgasant amryw o'u dinasoedd o du y gogledd i Bethlehem; lladdasant 3000 o'r trigolion, a dygasant anrhaith lawer ymaith. Gwedi ymchwyddo o herwydd ei fuddugoliaeth ar Edom, gofynodd Amaziah iawn am y camwedd a wnacthid. Gan na chaniatteid hyny, efe, mewn modd ffroen-uchel a feiddiodd Joas brenin Israel i ryfel. Anfonodd Joas yn atteb iddo, ddammeg am fwystfil y maes yn sathru ysgellyn balch oedd yn gofyn merch cedrwydden gref ac uchel yn wraig i'w fab; ac a'i cyngharodd i ymattal oddi wrth ryfel, os prisiai ei lwyddiant ei hun a'i ddeilaid. Gan ddiystyru yr atteb uchelfrydig, ond synhwyrol hwn, yn ddiattreg arweiniodd Amaziah ei fyddinoedd i Bethsemes. Yno yr ymladdodd Joas âg ef, gorchfygodd ei luoedd, a chymmerodd yntau yn garcharor: dygodd ef i Jerusalem; torrodd i lawr fur y ddinas hono, gymmaint a 240 o latheidiau; dygodd ymaith holl olud y deml a thŷ y brenin, a lluaws o wystion er diogelu yr beddwch. Gwedi hyn, teyrnasodd Amaziah bymtheg mlynedd; ond ni ddychwelodd byth at yr Arglwydd; am hyny caniattawyd i'w weision ei hun lunio bradwriaeth yn ei erbyn. Gwedi hysbysu iddo am hyn, ffodd i Lacis; ond hwy a anfonasant wyr ar ei ol, ac a'i lladdasant. Dygwyd ei gorph yn ol, a chladdwyd ef yn meddau breninol Judah, ac Azariah, neu Uzziah, ei fab, a deyrnasodd yn ei le, 2 Bren. xiv. 2 Cron. xxv.

(2.) *Amaziah*, arch-offeiriad eilun-addolgar y llo aur yn Bethel. Pan ragfynegodd Amos y prophwyd ddinystr uchelfeydd Israel, a llwyr ddiwreiddiad teulu Jeroboam mab Joas, cyhuddodd Amaziah y prophwyd wrth y brenin fel bradwr a ddigalonai ac a flinai y bobl; a chynghorodd y prophwyd i fyned adre i'w wlad ei hun os oedd yn gofalu am ei ddiogelwch, ac na phrophwydai mwyach yn Bethel, lle yr oedd capel a llys y brenin Jeroboam. Sierhaodd y prophwyd yn hyf iddo, y byddai i'w waith yn ei erlid ef gyffroi Ysbryd yr Arglwydd: y byddai i'w wraig, o herwydd eu dyhirwch neu dlodi, butteinio yn y ddinas; y byddai i'w feibion a'i ferched syrthio gan y cleddyf; y byddai i'w etifeddiaeth gael ei meddiannu gan ei elynion; y byddai yntau farw mewn alltudaeth; ac y caeth-gludid Israel allan o'u gwlad, Amos vii. 9—17.

AMBER, defnydd meddal tryloyw, o ddull a thewder glud, yn archwaethu fel ystor, ac yn arogli yn debyg i olew *turpentine*. Cloddir ef mewn amryw fanau yn yr Almaen, Pwyl, &c. ond yr un a geir o amgylch tueddau Prwssia a gyfrifir yn oreu. Y mae yn ddechreuol yn deneu-wlybaidd; o herwydd ceir dail, trych-filod, &c. weithiau mewn talpau o hono. Y mae o ddefnyddioldeb mawr mewn meddygiaeth, a chelfyddydau ereill. Y mae math o amber yn cael ei wneud trwy gelfyddyd o aur a phres coeth. Myn Bochart a Le Clerk mai hwn yw y *chasmal* neu yr amber a grybwyllir yn yr

ysgrythyr, Ezec. i. 4. a'r viii. 2. a thrwyddo y geill fod undeb dwy natur Crist, gwerthfawrogrwydd ei berson, a mawredd ei arglwyddiaeth a'i allu yn cael eu gosod allan. Ond y mae ereill yn cyfeithu y gair *marworyn tanllyd;* ac felly geill fod yn gosod allan Iesu fel dyscleirdeb gogoniant ei Dad; yn llosgi gan zel dros anrhydedd ei enw, gan gariad at ein heneidiau, ac â digofaint yn erbyn ei elynion.

AMCAN—Ü, *(am-can)* bwriad, meddylfryd. "Yr ydwyf fi, gan hyny, felly yn rhedeg, nid megys ar *amcan,*" 1 Cor. ix. 26. Yr oedd rhedegfa y Groegiaid yn debyg i redegfa y meirch gyda ni, wedi ei nodi â physt ac arwyddion ereill, y rhai a ddangosent i'r rhedegwr pa ffordd yr oedd iddo redeg, fel nas gallai fod yn anwybodus yn nghylch hyny; ac arferir y gair a gyfeithir ar *amcan,* yn fynych am *anwybodus.* Geill hefyd gyfeirio at y sicrwydd o dderbyn y camp-dlws ar yr ammod o gadw rheolau y rhedegfa; a gellir deall ein cyfeithiad ni yn hawdd yn yr ystyr hwnw. Geill fod ystyr arall i'r gair Groeg, sef *anamlwg,* neu *allan o olwg,* yr hwn a olyga, yr edrychwyr, y rhai nid aent heibio i'r rhedegwr buddugoliaethus heb gymeryd sylw neilluol o hono. "Yr wyf fi yn rhedeg, nid fel un sydd i fyned heibio yn ddisylw; eithr, gan wybod pa lygaid sydd arnaf, yn brydferus am ennill cymmeradwyaeth fy marnwr, a chan graffu yn ofalus ar y terfynau gosodedig, yr wyf yn ymdrechu hyd yr eithaf. Y mae gennyf nod yn fy ngolwg, rheolau i redeg wrthynt, ac yr wyf yn rhedeg yn ngwydd dynion ac angelion, a Duw barnwr pawb," 1 Cor. xiv. 9.

AMDO, *(am-tó)* amwisg corph marw. "A'r hwn a fuasai farw a ddaeth allan, yn rhwym ei draed a'i ddwylaw, mewn *amdo,*" Ioan xi. 44. Yr oedd hwn wedi ei rwymo o amgylch pob llaw a phob troed iddo. Os oedd yr Iuddewon yn claddu fel yr Aiphtiaid, nid oedd yr wyneb wedi ei orchuddio â napcyn, ond yn unig yr oedd yn myned o amgylch y talcen, ac o dan yr én; felly yr oedd yn dra bawdd iddo ganfod ei ffordd allan.

AMEN. Y mae y gair Hebrëig hwn yn cael ei arfer mewn amryw ieithoedd, ac yn arwyddo (1.) Gwirionedd, ffyddlondeb, sicrwydd. Y mae ein cyfeithiad ni, yn fynych, yn ei droi *yn wir;* ac yn enwedig pan ei hail adroddir, y mae yn dynesu at ddifrifoldeb llw, Ioan iii. 3. (2.) Y mae yn cael ei arfer, yn aml, fel gair o gadarnhad, neu gydsyniad; ac yn arwyddo, *bydded felly, felly y caiff fod,* Jer. xxviii. 6. Dad. i. 18. Gelwir Crist yr *Amen;* Duw y gwirionedd yw efe; sylwedd y gwirionedd dadguddiedig; y prophwyd anghyfeiliornadwy, a'r tyst ffyddlon a chywir, Dad. iii. 14. Yr holl addewidion ydynt *ie ac amen* yn Nghrist; y maent wedi eu cadarnhau yn ddifeth â'i air a'i lw, wedi eu sicrhau yn anniddymadwy trwy ei farwolaeth, ac wedi eu selio â'i Ysbryd, 2 Cor. i. 20. Gal. ii. 17. Eph. i. 3. 1 Tim. ii. 5.

AMETHYST, *(difeddw,* oddi wrth y Groeg *a,* nid, a *methuo,* meddwi) maen gwerthfawr o liw glascoch. Y mae amrywiol fath o honynt; rhai Asia ydynt o liw coch dwfn; a hwy ydynt y caletaf, y prinaf, a'r gwerthfawroccaf; y mae rhai o honynt o liw gwelwlas, ac ereill yn wynion. Amethyst yr Almaen sydd o liw glasaidd. Yr Hispaenaidd ydynt, rai o honynt, ynddu leision; ereill yn wynion; a rhyw ychydig â gwawr felen arnynt. Y mae rhai o honynt yn ddiliw, a gellir eu gwneud oll felly; ac yna, braidd y gellir eu gwahaniaethu oddi wrth yr adamant, ond wrth eu meddalwch. Dywedir fod y maen hwn, ond yn ddisail, yn rhwystro meddwdod, am hyny byddai yfwyr trymion yn arferol o'i wisgo yn grogedig wrth eu gyddfau; yn diogelu rhag gwenwyn; ac yn cynnorthwyo beichiogiad. Hwn oedd y nawfed yn nwyfroneg yr arch-offeiriad, a'r deudeggfed yn sylfaen y Jerusalem newydd, Exod. xxviii. 19. Dad. xxi. 20.

AMGEN, *(am-can* o herwydd) mewn modd arall, yn wrthwyneb. "Na byddo i neb uchel synied yn *amgen* nag y dylid synied," Rhuf. xii. 3. Na byddai i neb synied yn uwch am dano ei hun, ac yn ìs am ereill, nac y dylasai; ond synied yn gywir ac yn gyfiawn, "synied i sobrwydd," ac ymddwyn yn gall ac yn ddefnyddiol yn ei sefyllfa, ac heb

ymgais am sefyllfa a swydd uwch yn yr eglwys, nad oedd addas iddi.

AMGYFFRED,*(am-cyffred* cynnwys) argynnwys, dirnad. "*Amgyffred* cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth," Eph. iii. 18. Arwydda y gair Groeg, *derbyn, cymmeryd i mewn.* Nid oes un rheswm yn ymddangos paham y dylid cyfyngu y geiriau hyn at gariad Crist yn galw y Cenedloedd. Da y gallwn gofio, ar yr achos hwn, yr holl gariad a ddangosodd Crist trwy waredu ei ffyddlawn seintiau, o bob gwlad a chenedl dan y nef, Cenedloedd yn gystal âg Iuddewon, oddi wrth drueni yn ol llaw, a'u derchafu i ogoniant tragywyddol: ac y mae hyn mor hynod a rhyfeddol, fel mai yr eglurhad helaethaf o'r adnod hon raid fod, yn sicr, y mwyaf priodol. Ac nis gall yr ymadrodd *uwchlaw gwybodaeth,* arwydclo yn unig ei ragoriaeth ar yr oruchwyliaeth Iuddewig, yr hon a elwir ond anfynych, os un amser, yn *wybodaeth;* ond ei ragoriaeth uwchlaw ein synïadau mwyaf derchafedig ni. Wrth *wybod,* y meddylir *gwybod yn brofiadol,* neu gael gwybodaeth eglur, helaeth, a chalon-orlonawl am ei natur a'i effeithiau.

AMGYLCH—YNU, *(am-cylch)* oddautu, yn nghylch. Y mae Duw yn *amgylchynu dynion yn ol ac yn mlaen;* y mae efe yn eu hadnabod yn gywir, yn eu cynnal ac yn eu llywodraethu, fel na allant fyned i un man ond yn ol ei ganiattâd, a lle y maent yn gylchynedig gan ei bresennoldeb, Salm. cxxxix. 5. Y mae gweithredoedd pechadurus dynion yn eu *hamgylchynu,* pan y byddant yn ymddangos i dystiolaethu yn eu herbyn, a chyda mawr nerth, yn eu dyrysu yn eu cospedigaeth haeddiannol, Hos. vii. 2. Y pechod sydd barod i *amgylchu* dynion, ydyw pechadurusrwydd eu natur, neu eu chwant gorchfygol, yr hwn, wedi gwreiddio mor ddwfn yn eu calonau a'u serchiadau, ac mor gyssylltiedig â'u hamgylchiadau allanol mewn bywyd, sydd yn barod i'w cynhyrfu heb lawer o attaliad, ac fel pe bai a'u caua i mewn i gyflawni gweithredoedd drwg, Heb. xii. 1.

AML, AMLDER, helaethrwydd, cyflawnder; megys amlder camweddau, geiriau, heddwch, trugareddau, tywod, &c., Salm v. 10. Jer. xiii. 22.

AMMI, *(fy mhobl,)* gosodiad yr enw hwn ar y deg llwyth ar ol eu gwrthodiad, a arwydda y byddai i Dduw, yn y dyddiau diweddaf, neu y Mil blyneddoedd, eu gwaredu o'u trueni a'u caethiwed, a'u dwyn i berthynas gyfammodol âg ef ei hun, Hos. ii. 1.

AMMINADIB, *(fy mhobl sydd dywysogaidd)* (1.) Mab Aram, o lwyth Judah, tad Nahason ac Eliseba, gwraig Aaron yr archoffeiriad, Exod. vi. 23. (2.) Enw un o feibion Saul, a laddwyd gydag ef yn mrwydr Gilboa, 1 Sam. xxxi. 2. (3.) Enw trigiannydd o Ciriath-jearim, Lefiad, gyda'r hwn yr oedd yr arch yn nghadw wedi ei dwyn yn ol o law y Philistiaid, 1 Sam. vii. "Cerbydau *Amminadib,*" Can. vi. 12. Nid yw hysbys pwy oedd yr Amminadib hwn. Y mae yn dangos yr â gweinidogaeth efengyl Crist i'r ardd gnau (sef eglwys yr Iuddewon), ac y deuant hwythau gyda'r Cenedloedd, yn rhyddion ac ewyllysgar, i groesawu Crist; yna bydd pawb yn ewyllysgar, Salm. cx. 3. yn derbyn y gair gyda pharodrwydd meddwl, Act. ii. 41. a xvii. 11. Y pryd hwnw y bydd Crist fel cerbydau iddynt, i'w dwyn yn mlaen mewn gras, trwy weinidogaeth ei air; gan eu cadw hwynt, a dyfetha eu holl elynion, Esa. lxvi. 14, 15.

AMMON, *(ei bobl)* neu BEN-AMMI, *(mab fy mhobl)* y mab a genhedlodd Lot o'i ferch ieuangaf. Efe oedd tad yr Ammoniaid, y rhai oeddynt yn trigo o du y deau-ddwyrain i Gilead, ac o du y gogledd i wlad Moab, Gen. xix. 38. Dyfethasant hen genedl o gawri a elwid Zamzummiaid, a phreswyliasant yn eu lle; eu prif ddinas oedd Rabbah; yr oeddynt yn eilun-addolwyr nodedig; eu heilun-dduw penaf oedd Moloc, yr hwn allai fod yr un â Baal, Milcom, Adrammelec, Anammelec, a Cemos. Difeddiannwyd hwy o ran o'u tiriogaethau gan Sehon brenin yr Ammoriaid; ond ni chaniattaodd Duw i'r Hebreaid gymmeryd meddiant o un rhan o honynt a gadwasent hwy yn eu dwylaw. Pa fodd bynag, cauwyd hwy allan am byth rhag mwynhau unrhyw awdurdod yn Israel, o herwydd iddynt ymuno â'r

Moabiaid i gyflogi Balaam i felldithio y bobl hyny, Deut. ii. 19. a xxiii. 4. Ymunasant âg Eglon brenin Moab yn erbyn yr Israeliaid, a buant gyfrannogion o ganlyniadau y rhyfel hwnw Barn. iii. Yn nghylch 150 o flyneddoedd wedi hyny, torrasant i mewn i dir Israel, ac am 18 mlynedd, a'u gorthrymasant yn ddirfawr, yn benaf y rhai hyny oeddynt o du y dwyrain i'r Iorddonen. O'r diwedd, Jephthah, wedi ei ddewis yn dywysog gan wyr Gilead, a anfonodd genadwri at frenin meibion Ammon i ymliw âg ef mewn perthynas i'w ymddygiad. Yr un-benaeth hwnw a attebodd, ei fod yn sefyll yn daer am adferiad o'r hyn a gymmerasai yr Israeliaid oddi arno wth ddyfod allan o'r Aipht. Gwrthresymodd Jephthah nad oedd yr Hebreaid wedi cymmeryd unrhyw diriogaethau oddi ar yr Ammoniaid ar yr achlysur hwnw; ac os gwnaethant, fod yr Ammoniaid wedi cael amser digonol, am yn agos 300 o flyneddoedd i sefydlu eu hawl. Gan fod brenin Ammon a'i fryd ar ryfel, daeth Jephthah arno ef yn agos i Aroer, gorchfygodd ei lu, ac ennillodd ugain dinas oddi arno, Barn. x. a xi. Yn nghylch A. M. 3009, Nahas, brenin yr Ammoniaid a adfywiodd yr hen hawl i wlad Gilead: anrheithiodd ran fawr o'r wlad; preswylwyr Jabes Gilead a amddiffynasant eu hunain rhagddo, ond ar eu waith yn gwarchae ar eu dinas, cynnygasant gydnabod ei awdurdod. Nacaodd ganiattau iddynt unrhyw ammodau, oni chydsynient i'w llygaid dehau gael eu tynu allan, fel gwaradwydd i'w cenedl. Efe, pa fodd bynag, a ganiattaodd iddynt amryw ddyddiau i ystyried ei ammodau. Ar yr wythfed, pan oedd yn disgwyl iddynt ddyfod allan, ymosododd Saul, gyda byddin nerthol, arno yn ei wersyllfa, a llwyr orchfygodd ei lu, fel nas gallid prin weled dau o honynt yn nghyd, I Sam. xi. Dangosodd y Nahas hwn, neu yn hytrach ei fab, beth caredigrwydd i Dafydd, pan yr alltudiwyd ef gan Saul; Dafydd, gan hyny, ar yr achlysur o'i farwolaeth ef, a anfonodd genadau i gyd-alaru â Hanun ei fab. Hanun, wedi ei gynhyrfu gan ei weision, a'u cymmerodd yn lle yspiwyr, ac, yn anfoneddigaidd, a'u hanmharchodd yn ddirfawr. Er mwyn ymddial arno am y ddrwg-driniaeth hon, ymosododd Dafydd ar yr Ammoniaid mewn rhyfel: yn y diwedd efe a'u gorchfygodd hwy, a'u cyngreirwyr Syriaidd, a orescynodd yr holl wlad, ac a driniodd eu penaethiaid gyda gerwindeb nid bychan. Parhasant i dalu teyrnged i Dafydd a Solomon, a, tebygol, i freninoedd Israel, hyd farwolaeth Ahab, 2 Sam. x. xi. a xii. 1 Cron. xix. 19. Yr oeddynt hwy yn gwneuthur i fynu ran o'r cyngrair mawr yn erbyn Jehosaphat, 2 Cron. xx, 1—3.

Tra yr oedd y Syriaid yn anrheithio y deg llwyth yn ddychrynllyd, gwnaeth yr Ammoniaid y difrodiadau mwyaf annynol yn ngwlad Gilead, gan rwygo y gwragedd beichiogion, Amos. i. 13. Gosododd Uzziah, brenin Judah, hwy dan deyrnged. Tan ei fab, Jotham, y gwrthryfelasant; ond gorfu arnynt eilwaith ymostwng; ac, am dair blynedd, talasant deyrnged o gan talent o arian, ac yn nghylch 10,000 corus o wenith a haidd, 2 Cron. xxvi. a xxvii. Pan y dygodd Tiglath-pileser y rhan fwyaf o'r Reubeniad a'r Gadiaid i'r tu dwyreiniol i Assyria; cymmerasant feddiant o'r wlad; ond tebygol iddynt, yn nghyd a'u cymmydogion y Moabiaid, deimlo cynddaredd yr Assyriaid. Yn mhen hir amser wedi hyny, ymgyngreiriodd Baalis eu brenin diweddaf â Zedeciah, yn erbyn y Caldeaid; ond pan y dinystriwyd Jerusalem, gorfoleddasant uwch ben trychineb yr Iuddewon annedwydd. O herwydd y camweddau hyn ac ereill i'r genedl hono, bwgwthiodd y prophwydi hwy â barnedigaethau a dinystr. Yn nghylch pum mlynedd wedi dinystr Jerusalem, anrheithiodd byddinoedd Nebuchodonozor eu holl wlad; llosgasant Rabbah eu prif ddinas, a chaeth-gludasant y gweddill o honynt, gan adael y wlad yn anghyfannedd. Ymddengys i Cyrus ganiattau iddynt ddychwelyd ac ail-breswylio yn eu tir. Yn amser Nehemiah, un Tobiah oedd yn benaeth arnynt. Yn ystod yr amrafaelion rhwng breninoedd Groegaidd yr Aipht a Syria, yr oeddynt yn ddarostyngedig, weithiau i'r naill, a weithiau i'r llall, o honynt. Ennillodd Antiochus Fawr Rabbah eu prif-ddinas, distrywiodd ei muriau, a gosododd warchawd-lu ynddi. Tra

y parhaodd erlidigaeth Antiochus Epiphanes, yr Ammoniaid, yn greulon, a afionyddasant yr Iuddewon yn eu cymmydogaeth hwy. I ddial am hyn, ymosodsodd Judas Maccabeus arnynt, gorchfygoddd eu byddinoedd, llosgodd eu dinasoedd, a chaeth-gludodd eu gwragedd a'u plant. Yn yr ail ganrif Gristionogol, y mae *Justin Ferthyr*, tebygol, mewn camsynied, yn eu galw yn genedl luosog. Dilys yw, i'r ychydig weddillion o honynt, yn fuan ar ol hyn, ymgymmysgu yn y fath fodd â'r Arabiaid, nes y peidiodd ei coffadwriaeth o fysg dynion, Amos i. 11. Jer. ix. 25. Ezec. xxi. 28. Zeph. ii. 9—11.

AMNAID—EIDIO, *(am-naid)* awgrym a wnelo un â'i lygad neu ei ben. "Efe a *amneidia* â'i lygaid," Diar. vi. 13. Y dyn i'r fall, y gwr anwir sydd mor llawn o ddrwg fel nas dichon fod yn llonydd heb yn mhob modd geisio tynu ereill i ddrygioni. Y mae *amnaid* y llygad yn arwydd naill ai o gariad, neu dwyll dirgel, neu anniweirdeb, neu gasineb a gelyniaeth.

AMNON, *(ffyddlawn)* mab henaf Dafydd o Ahinoam ei ail wraig. Gwedi magu serch angerddol at Tamar ei hanner chwaer, curiodd o'r achos. Yn ol cyngor Jonadab ei gefnder, gwr cyfrwys iawn, cymmerodd arno fod yn glaf; ac attolygodd ar ei dad ganiattau i Tamar ddyfod a gwneuthur teisenau iddo yn ei wydd, fel y bwyttai o'i llaw hi: ei ddeisyfiad a ganiattawyd. Parottodd Tamar y teisenau, a dygodd hwynt iddo. Efe a naccaodd fwytta, nes i bawb ond Tamar fyned allan o'r ystafell. Yna efe a ddaduddiodd iddi ei fwriad anniwair. Gwrthresymodd Tamar, gan ddangos y peth fel yn ynfyd a drygionus; ac naill ai yn anwybodus am y gyfraith sydd yn gwahardd priodas brodyr a chwiorydd, neu wedi hurtio gan arswyd a chyfyng-gyngor, hi a'i cynghorodd i ddeisyf ar eu tad iddo gael ei phriodi. Gan droi y clust byddar at ei holl erfyniadau, efe a'i treisiodd, ac a orweddodd gyda hi. Ei drachwant angerddol, wedi ei foddloni fel hyn, a drowyd yn ddiattreg i gasineb llawn mor angerddol. Gorchymynodd iddi fyned ymaith o'i wydd ef; gan ei bod yn anewyllysgar i ymddangos yn gyhoeddus mewn arwyddion o ofid a gwaradwydd, archoddi'w weinidog ei gyrru hi allan oddi wrtho, a chloi y drws ar ei hol. Pan y clybu Dafydd am y gorchwyl hwn, ymofidiodd yn ddirfawr; ond tiriondeb pechadurus tuag at ei feibion, a'i gwnaeth ef yn anfoddlon i gospi ei fab henaf. Absalom, brawd cyflawn Tamar, a'i cyfarfu hi yn wylo, wedi ei gyrru allan gan Amnon: cynghorodd hi i ymlonyddu dan y camwedd a dderbyniasai, ac ymddangosodd yntau mor garedig at Amnon âg erioed, ond yr oedd yn llawn fwriadu i ymddial. Yn mhen dwy flynedd, cafodd gyfleusdra i hyny. A chanddo wledd wrth gneifio ei ddefaid, Absalom a wahoddodd ei dad a'i frodyr iddi. Dafydd a ymesgusododd; ond caniattaodd i'w weision ladd Ammon pa bryd bynag y gwelent ei galon yn llawen gan win; cyflawnwyd ei archiad yn gywir, a bu farw Amnon yn nghylch A. M. 2974. 2 Sam. xiii.

AMON, *(cywir)* (1.) Llywodraethwr Samaria, yr hwn y gorchymynodd Ahab iddo garcharu y prophwyd Michea, hyd oni ddychwelai efe adref yn ddiogel o ryfel Ramoth Gilead, 1 Bren. xxii. 26. (2.) Mab Manasseh o Mesullemeth merch Hacuz. Efe oedd y 14 brenin ar Judah. Dechreuodd ei deyrnasiad yn y 22 flwyddyn o'i oedran, a theyrnasodd ddwy flynedd; un annuwiol ofnadwy oedd efe: ac ni wnaeth, fel ei dad Manasseh, edifarhau, ond aeth yn waeth-waeth o hyd. Ei weision ei hun a'i lladdodd yn ei dŷ; ac ymddengys iddynt hwythau, yn eu tro, gael eu lladd gan y melein-lu. Claddwyd Amon yn ngardd Uzzah, a Josiah ei fab a deyrnasodd yn ei le, 2 Bren. xxi. 18—26. 2 Cron. xxxiii. 20—25. (3.) Amon, neu Ami, blaenor enwog yn y dychweliad o'r caethiwed, Ezra ii. 57. Neh. vii. 59.

AMOR—IAID, *(gwrthryfelgar)* llwyth o'r Canaaneaid, a hanasant o Amor, pedwerydd mab Canaan. Llawer o honynt oeddynt gawri uchel fel cedrwydd, a chedyrn fel derw, Amos ii. 9. Yr oedd ganddynt ddwy freiniaeth gref o du y dwyrain i'r Iorddonen, dan lywodraeth Sehon ac Og. Y blaenaf a feddiannasai ran fawr o diriogaethau Moab ac Am-

mon; ond gorchfygodd Moses eu holl wlad hwy, a rhoddodd hi i'r Reubeniaid, y Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh. Yr oedd gan yr Amoriaid freniniaethau ereill, oll yn nehau Canaan, o du y gorllewin i'r Iorddonen: gorchfygodd y rhai hyn yr Israeliaid yn Hormah; ond yn mhen oddeutu deugain mlynedd wedi hyny, darostyngwyd hwy gan Josuah, a rhoddwyd ei gwlad i lwythau Judah, Simeon, Dan, a Benjamin, Num. xxi. a xxxii. Deut. i. 44. Jos. xii. a xix. Gan mai yr Amoriaid oeddynt y llwyth galluoccaf, yr oedd y lleill o'r Canaaneaid yn cael eu galw weithiau ar eu henw hwynt, Barn. vi. 10 2 Bren. xxi. 11. Rhieni y genedl Iuddewig a osodir allan megys *Amoriaid* a *Hethiaid*: yr oeddynt mor annheilwng ger bron Duw, ac mor ddrygionus ynddynt eu hunain â'r ddau lwyth gwaethaf o'r Canaaneaid; ïe, gwraig Judah, mam Sela a Tamar, mam Phares a Zara oeddynt eill dwy yn Ganaaneaid, Gen. xxxviii. Ezec. xvi. 3.

AMOS, *(trwm llwythog)*. Y mae dau o'r enw; sef Amos, neu Amots, tad Esaiah, ac Amos y pedwerydd o'r prophwydi lleiaf. Bugail oedd efe ar y cyntaf, o Tecoa, dinas fechan yn perthyn i Judah, yn nghylch deuddeg milltir o Jerusalem, a chwech o Bethlehem, a chasglydd dirmygedig ffrwyth y sycamorwydd. Anfonodd Duw ef i brophwydo i'r deg llwyth, yn ystod eu llwyddiant mawr yn nyddiau Jeroboam mab Joas, dwy flynedd cyn y ddaear-gryn, ac felly yn y rhan ddiweddaf o deyrnasiad Jeroboam. Dechreuodd gan ragfynegu dinystr y Syriaid, Philistiaid, Tyriaid, Edomiaid, Ammoniaid, a Moabiaid, pen. i. a ii. Yn nesaf, y mae efe yn achwyn yn erbyn eilun-addoliaeth, trais, hyder cnawdol, nwyfiant, hunanolrwydd, a gwrthnysigrwydd Israel a Judah; ac yn eu bwgwth hwy â chaledi, difrodiad, caethiwed, ac anghyfanedd-dra o'r achos, ac yn enwedig, y byddai i dŷ Jeroboam, pa mor llwyddiannus bynag yr oedd y pryd hwnw, farw yn fuan trwy y cleddyf. Trwy ei osod allan fel bradwr i'r llywodraeth, a blinwr i'r bobl; a thrwy ei fwgwth, os arosai yn Bethel, meddyliodd Amaziah yr offeiriad eilun-addolgar, ei ddychrynu a chau ei enau. Efe a haerodd yn hyf i'r offeiriad, y deuai dinystr disymmwth ar warthaf tŷ Jeroboam, a theyrnas y deg llwyth; ac ychwanegodd brophwydoliaeth am wae yn erbyn teulu Amaziah ei hun, pen. ii. hyd vii. Aeth yn mlaen i'w bwgwth â dinystr annocheladwy, a chaethiwed am eu gorthrymder, trais, a'u dibrisiad o'r Sabbath, &c.; ac y mae yn diwedd-gloi ei waith gyda phrophwydoliaeth am ddychweliad yr Iuddewon o Babilon; am gynnulliad y Cenedloedd at Grist; ac am droedigaeth Israel a Judah; a'u dychweliad i'w gwlad eu hunain yn nechreuad y Mil blynedd oedd, pen. viii. a ix.

Gallasai Amos fod yn fyw i weled rhan fawr o'i brophwydoliaethau yn cael eu cyflawni yn y rhyfel cartrefol, a chaethiwed dechreuedig y deg llwyth. Haerodd rhai fod iaith y prophwyd hwn o'r fath isel a chyffredin; a'i fod ef yn anghyfarwydd ar ymadrodd: ond prin y geill iaith fod yn fwy gwych a derchafedig na'i ddarluniad o Dduw yn pen iv. 13. Am yr amser a'r modd y bu farw, ni wyddys dim; er fod rhai yn barnu iddo gael ei ladd gan Amaziah.

AMPHIPOLIS, *(dinas wedi ei hamgylchu)* dinas yn Macedonia, ar gyffiniau Thracia. Adeiladwyd hi gan Cimon yr hyglod Atheniad, yn nghylch 470 o flynyddoedd cyn Crist, a phoblogwyd hi â 10,000 o'i gydwladwyr. Ennillwyd hi oddiar yr Atheniaid gan Brasidas y Lacedemoniad. O herwydd ei bod yn ddraen dychrynllyd yn ystlys breniniaeth Macedonia, cymmerodd Philip, tad Alexander, feddiant o honi. Yr oedd yr afon Strymon yn ei hamgylchynu. Aeth Paul a Silas trwyddi ar eu taith o Philippi i Thessalonica, ond nid ydym oll yn darllain am un eglwys Gristionogol enwog yno, Act. xvii. 1. Y mae yn bresennol yn meddiant y Twrc, yn dra diddym, ac yn cael ei galw Emboli.

AMRAFAEL—ION, *(am-rhygafael)* amryson, ymddadleu. Mae y gair Groeg a gyfeithir *amrafaelion* yn 1 Cor. xi. 18. yn arwyddo yr un peth ag *ymraniadau*. Y mae yn eglur na feddylir wrth *amrafaelion*, unrhyw ysgariaeth oddi wrth yr eglwys, ond ymraniadau angharïaidd yndd: canys parhaodd y Corinthiaid yn un eglwys; ac er yr holl amryson ac ymddadleu, nid oedd

un ymraniad o unrhyw naill blaid oddi wrth y llall, o ran cymmundeb allanol. Gan hyny, coleddu unrhyw dymher wahanol oddi wrth ofal tyner y naill am y lall, yw y gwir *amrafaelion* ysgrythyrol. Mae *heresïau* ac *ymrafaelion* yn cael eu crybwyll yma yn agos iawn yn yr un ystyr, oddieithr y meddylir yn hytrach wrth *amrafaelion*, y dygasedd tufewnol hwnw ag sydd yn achlysuro *heresïau*, hyny yw, ymraniadau allanol, neu bleidiau.

AMRAM, *(pobl dderchafedig)* mab Cohath. Priododd Jocebed ei gyfnither, neu yn hytrach ei fodryb, merch Lefi; a bu iddo o honi Aaron, Moses, a Miriam: bu farw yn yr Aipht, yn 137 mlwydd oed, Exod. vi. 20.

AMRANT, *(am-gran*, asgwrn y rûdd) caead y llygad. "Mae llygaid y lefiathan fel *amrantau* y bore;" yr oedd llygaid y crocodil yn cael eu harfer fel nôd gan yr hen Aiphtiaid, i arwyddo codiad yr haul; oblegid, pan y bydd yn gwneud ei ymddangosiad wrth ddyfod allan o'r dwfr, ei lygaid a ganfyddir gyntaf o'r holl gorph, Job xli. 18. Mae "*amrantau* Duw yn profi meibion dynion," sef, yn sylwi ac yn craffu ar ddirgel giliau eu calonau, ac yn canfod pob dyfais a ddychymygant yn erbyn y ffyddloniaid; ac felly, gan fod iddynt y fath Geidwad, hawdd y gallant ymddiried eu hunain i'w ofal. Hefyd, "yr Arglwydd a brawf y cyfiawn, a'u gesyd yn ffwrn cystudd, nid i'w difa, eithr i'w puro, i nerthu eu ffydd, i brofi eu hamynedd, ac i beri iddynt adnabod ei fawr gariad yn well, Salm xi. 4.

AMRYFUS—EDD, *(am-rhyf*, ymchwydd) cyfeiliornus. Lladd cymmydog yn *amryfus*, yw ei ladd mewn anwybodaeth, heb fwriad drwg yn ei erbyn, Deut. iv. 42. *Amryfusedd* cadarn, sef nerthol weithrediad cyfeiliornad, i gredu celwydd, 2 Thes. ii. 11. Yr oedd yr apostol yn fawr ei fryd i ragddywedyd am ddinystr *dyn pechod;* ac i'r dyben hwnw, wedi torri i mewn ar ei destun, dychwel atto drachefn, a darlunia y cynneddfau ereill trwy y rhai y byddai i'r *anwir hwn* ymdderchafu a sefydlu ei hun yn y byd. Yr oedd i gyfodi i barch ac awdurdod, trwy y moddion mwyaf dieflig; gan honi doniau goruch-anianol, ac ymffrostio mewn dadguddiadau, gweledigaethau, a gwyrthiau, tywyllodrus ynddynt eu hunain, ac yn cael eu harfer i gadarnhau gau-athrawiaethau. Fe fyddai iddo hefyd, arfer pob math o ddichellion drygionus; fod yn euog o'r twyll crefyddol mwyaf, gan hudo dynolryw; ond a lwyddai yn sylweddol yn unig yn mhlith y rhai ni feddent wir gariad at y gwirionedd, trwy yr hwn y gallent gyrhaedd iachawdwriaeth dragywyddol. Ac yn wir, nid yw ond cyfiawn farn yn Nuw, eu rhoddi hwy fynu i oferedd a thwyll yn y byd hwn, ac i farnedigaeth yn y diwedd, y rhai ni pharchant wirionedd a sancteiddrwydd, ond a ymhyfrydant mewn celwydd a drygioni.

AMRYW, *(am-rhyw)* aml ryw, gwahanol. Gwaharddir yn nghyfraith Moses i anifeiliaid gydio o amryw rywogaethau, hau y maes âg amryw had; na gwisgo dilledyn cymmysg o lîn a gwlan, Lef. xix. 19. Deut. xxii. 9. Tebygol fod y rheolau hyn wedi eu rhoddi i'r Iuddewon yn ymarferiadol, i'w cadw rhag ryw ffieidd-dra neillduol, cynnefin yn mhlith y Cenedloedd eilunaddolgar. Y mae y duwiolion "yr awrhon mewn tristwch, trwy *amryw* brofedigaethau," 1 Petr i. 6. Nid *un* rhyw o brofedigaethau sydd yn eu cyfarfod, ond *amryw;* profedigaethau tufewnol ac allanol; ar eu cyrph, ac ar eu heneidiau; yn eu personau, perthynasau, a meddiannau; oddi wrth Dduw, ac oddi wrth y diafol; oddi wrthynt eu hunain, ac oddi wrth eu brodyr; trwy ymdrechiadau a dyoddefiadau oddi wrth y byd, y cnawd, a'r diafol; wrth fyw, ac wrth farw. Ond, er hyny, y mae iddynt achos o fawr lawenydd; canys, eu profi yr ydys, ac nid eu distrywio; a bydd profiad eu ffydd er mawl, anrhydedd, a gogoniant, yn ymddangosiad Iesu Grist, Rhuf. v. 3. Iago i. 2. 1 Cor. iv. 11. Rhuf. viii. 17. Job xxiii. 10.

AMSER, *(am-ser)* tymp, oedfa, adeg. Yn (1.) Mesur ysgogiad, neu barhad pethau, Salm lxxxix. 47. (2.) Y tymhor neu gyfleusdra neillduol, neu osodedig i wneuthur peth. Preg. iii. 1. Gen. xviii. 10. Salm lxxxi. 1. *Mewn amser ac allan o amser*, hyny yw, pan fyddo cyfleus-

dra mwy neu lai, 2 Tim. iv 2. Amser dyoddefaint y saint am ddeng mlynedd dan Dioclesian, a llid angerddol y diafol ar ddiwedd y Mil blyneddoedd, a elwir *ychydig amser*, Dad. vi. 11. a xx. 3. Tymhor gosodedig gan Ddaw i ddial ar ddynion, a elwer ei *amseroedd*, neu *ddyddiau* ei allu a'i erlidigaethau ynddynt; a'u *hamser* hwy, neu *amser y Cenedloedd*, am eu bod y pryd hwnw yn derbyn y gwobrwy dyledus am eu gweithredoedd, Job xxiv. 1. Jer. l. 27. Ezec. xxxv. 5. *Amser* Crist ydyw naill ai amser ei fynediad i fyny i wyl y pebyll, neu amser ei farwolaeth, Ioan vii. 6. neu amser ei ymddangosiad i farn, 1 Tim. vi. 15. yr hwn a fydd yn *amser gorphwysdra* ac *adferiad pob peth*, am y bydd iddo, y pryd hwnw, amlygu ei ogoniant yn y modd mwyaf goruchel, cyflawn gyssuro ei bobl, ac adferu y greadigaeth resymmol i'w phurdeb a'i hanrhydedd dechreuol, Act. iii. 19, 21. Y tymhor hwnw, pan y bydd Duw yn galw pechaduriaid atto, ac yn bywiocau ac yn uno eu heneidiau â Christ, a elwir *amser ei serchogrwydd*, Ezec. xvi. 8.: ac y mae yn *amser cymmeradwy*, a *dydd iachawdwriaeth*, pan y bydd Duw yn cyfrannu ei roddion neilltuol i ddynion, Salm lxix. 13. 2 Cor. vi. 2. *Amser* bywioliaeth, ydyw naw mis o feichiogrwydd, Gen. xviii. 10. Yr *amseroedd* neu ddyddiau diweddaf, ydynt yn dynodi naill ai yr holl ran ddiweddaf o barhad y byd, neu holl amser yr efengyl; yn enwedig, pan oedd y defodau luddewig ar gael eu diddymu, Esa. ii 2. Mic. iv. 1. 1 Ioan ii. 18. neu y rhan ddiweddaf o amser Cristionogrwydd, a osodir allan yn amseroedd enbyd, pan y bydd llawer o watworwyr a gau-broffeswyr, 1 Tim. iv. 1. 2 Tim. iii. 1—5. 2 Petr. iii. 3. Gwybod yr *amserau*, ydyw gwybod hanes yr amseroedd gynt, a dal sylw ar yr amseroedd presennol yn eu hamrywiol amgylchiadau, a pha beth sydd gymhwys i'w wneuthur yn ddynt, fel hyn yn adnabod *amser* a barn, Esth. i. 13. Preg. viii. 5. ond nid yw gwybodaeth o amseroedd dyfodol, yn eu canlyniadau, i ddynion i fanwl chwilio iddi, yn mhellach nag y rhyngo bodd i Dduw eu dadguddio, Act. i. 7. Yr oedd doethion Caldea yn ceisio oedi yr *amser*, hyny yw, ei roddi heibio nes y byddai i'r brenin alw ei freuddwyd i gof, neu gael ei droi ymaith at ryw orchwyl arall, Dan. ii. 8. *Amser* yn yr iaith brophwydoliaethol, a arwydda blwyddyn; felly cyfnewidiwyd *saith amser* ar Nebuchodonozor yn ei wallgofrwydd; bu saith mlynedd ynddo, Dan. iv. 16. neu flwyddyn brophwydoliaethol; felly, *amser* ydyw 360 o flyneddoedd, ac *amser, amseroedd*, a *hanner* neu *ran o amser*, ydynt dair blynedd a hanner brophwydoliaethol, neu 1260 o flyneddoedd naturiol, Dan. vii. 25. a xii. 7. Dad. xii. 14. a xi. 2, 3.

AMYNEDD, *(a myn)* dyoddefgarwch, ymaros. Y gair a arwydda dyoddef gofidiau gyda llonyddwch, a boddlondeb meddwl; heb derfysgu, cythruddo, a digaloni; heb ogwyddo i arfer ffordd anghyfreithlon i gael gwaredigaeth, Mat. x. 22. a xxiv. 13. Amynedd yw y rhinwedd hono sydd yn ein cymhwyso i gyd-ddwyn â phob cyflwr, ac a phob damwain sydd trwy drefn Duw, yn dygwydd i ni, gyda y cyfryw amgylchiadau a thyb meddwl, gyda y cyfryw dymherau a serchiadau calon, a chyda y cyfryw ymarweddiad allanol ag y mae Duw a chyfiawnder yn eu gofyn, hyny yw, gyda chredíniaeth drwyadl nad oes dim yn dygwydd i ni, ond naill ai trwy ganiatâd neu gyfarwyddiad dwyfol ragluniaeth; gyda ffydd gadarn fod pob dygwyddiadau, pa mor werthfawr bynag i'n dymuniadau ni, yn gydunol â phriodoliaethau sanctaidd Duw, ac yn gweinyddu er ein lles ninau; gyda chyflawn hyder ar ymddiried ynddo ef, naill ai am nerth i'n galluogi i oddef ein cystuddiau, neu am symudiad prydlawn ac esmwythad o honynt; gan ochel pob achwyniadau anfoddlongar, a grwgnach yn erbyn rhagluniaeth; pob meddyliau drwg a dialgar yn erbyn offerynau ein dyoddefiadau; a phob ffordd anaddas ac afreolaidd i ymddiwrydo o honynt; fel gan ddyoddef felly yn ol ewyllys Duw, yn gallwn orchymyn ein heneidiau iddo ef, megys i Greawdwr ffyddlon, gan wneuthur yn dda, 1 Petr. iv. 19. o herwydd y mae y ddyledswydd hon yn cael ei harfer trwy oddef drygau presennol, neu ddis-

gwyl am ddaioni dyfodol, a'r cyflwr gwynfydig o anfarwoldeb yn y byd a ddaw. Tymher meddwl ydyw, sydd ein cadw yn dawel a digynhwrf yn ein hwyl, ac mewn cyflawniad diysgog o'n dyledswydd dan deimlad o gystuddiau, neu mewn oeddiad o'n disgwyliadau. Ac â'r amynedd hon y mae Crist yn cynghori ei ddysgyblion i feddiannu eu heneidiau, wedi iddo ragfynegu iddynt am y dyoddefiadau a'r peryglon y byddent yn agored iddynt yn ystod eu gweinidogaeth, a'u milwriaeth gristionogol; ac ynddynt hwy dysg ninau, y dylem yn wastad, yn mhob amgylchiad a fydd yn tueddu i'n cythruddo, ymwroli trwy ganiattau i reswm a gras gael y llaw uchaf.

Y mae clefydau, poenau, colli cyfeillion, anniolchgarwch, siomedigaethau yn ein gorchwylion, a'r holl amrywiol flinderau i ba rai y ganed dyn, yn dygwydd i ran y da yn gystal a'r drwg. O herwydd, fel y mae twyll cyfoeth yn dallu llygaid dynion, y mae meluswedd buchedd yn lladratta oddi arnynt eu dealldwriaeth; y mae awdurdod yn dra chwannog i'w harwain i daer erlyn ar ol anrhydedd, a thra-arglwyddiaeth; helaethrwydd, i anghymedroldeb; a llwyddiant parhaus, i ysbryd diofal, ac esgeulusdod, ac anghof o Dduw; felly y mae cystuddiau o bob math, er na allant lai na bod yn anhyfryd dros yr amser presennol, â thueddiad naturiol ynddynt, yn y diwedd, i arwain dynion i feddyliau difrifol, a chyngorion pwyllog; i'w diddyfnu oddi wrth amrywiol wageddau a ffolineb y byd; ac i wellhau cynneddfau a thymher eu meddyliau, trwy eu gogwyddo i ddisgwyl cyflwr gwell a mwy parhaus. Am hyny, na chesglwch o herwydd fod Duw yn goddef i chwi syrthio i amryw anhawsderau a chystuddiau; o herwydd eich bod yn cael eich gwasgu gan amgylchiadau celyd a chyfyng; o herwydd fod colledion gofidus a thrymion, neu hirfaeth a phoenus afiechyd, neu farwolaeth, neu anffyniant eich perthynasau agosaf, neu y cyffelyb ddygwyddiadau trymion yn ymweled â chwi: na chesglwch, meddaf, oddi wrth hyn, fod Duw yn ddigllawn wrthych, neu nad oes ganddo gymmwynasgarwch tu ag attoch. Y mae efe yn tybied yn addas i drin y goreu o'i blant yn y ffordd hon, er profi a chwangeu eu rhinweddau, er arferyd eu hamynedd, er diwygio eu beiau, ac er eu glan-buro, fel y dygont ffrwyth fwyfwy, nes y delont i orphwysfa a gogoniant byth barhaol: yr hwn ogoniant nis gallwn ei etifeddu heb amynedd, ddim mwy nag heb ffydd ddiffuant ac edifeirwch.

Y mae y cyfryw amynedd a hon, yn wobrwy iddi ei hun, ac *anamynedd* sydd yn gosp iddi ei hun; o herwydd y mae yn dodi o'r neilldu y dyn, ac yn gosod i fynu y creadur, neu y diafol; yn ein harwain i weithredu yn ynfyd neu ffromwyllt, ac yn lle lleihau, chwanega ein dyoddefiadau. Ysgafnheir ein baich trwy amynedd; tra y mae anamynedd, yr hon sydd yn gwanu y galon â chynnifer o ofidiau, yn ei fwyhau gymmaint arall. Y mae achwynion, grwgnachrwydd, anamynedd, ac anfoddlonrwydd, yn digio Duw, ac yn ein hyspeilio o'r budd a'r lleshad o ddyoddef er mwyn ei enw. Y sawl a ymddarostyngant i ewyllys Duw, fe gynnydda eu rhinwedd; ond y sawl sydd yn grwgnach, nid yw eu dyoddefiadau yn unig ond gwasanaethu er lluosogi y rhai sydd yn nghadw iddynt yn y byd a ddaw. Am hyny, goddefwch gydag amynedd, ac na wnewch eich hunain yn ddeublyg druenus. Braidd y mae yn gredadwy, y dichon un dyn fod yn ddigon wyneb-galed i achwyn yn erbyn Duw, nac i feiddio beio ar y rhagluniaeth hono y dylai efe fod yn ddiolchgar am dani, a'i haddoli; etto rhai a led-ddywedasant ei fod ef yn erwyn-dost; ei fod yn ymddangos i'w llwyr adael hwynt; ac nad ydynt yn haeddu y driniaeth a dderbyniant. A rhai a ddygant eu hanfoddlonrwydd mor uchel, fel ag y torrant allan mewn ymadroddion ysgeler. Ni ellir dwyn y cyfryw bobl byth i gredu, fod Duw yn dad tirion a maddeugar, yr hwn sydd yn ceryddu ei blant er eu lles; ei fod yn feddyg caredig, yr hwn sydd yn rhag-nodi meddyginiaethau chwerwon a dryg-fiasus er gwellhad eu hiechyd; ac o ganlyniad, y maent yn byw heb ffydd, heb yr hon nid oes iachawdwriaeth. Felly y mae y dyn diamynedd yn dyfod yn boenydiwr iddo ei hun, ac yn ymddyrysu trwy anfodd-

lonrwydd ac anesmwythder afreidiol; y mae yn myned yn annoddefadwy iddo ei hun, yn yspeilio ei enaid o heddwch a llonyddwch, ac yn arwain drwg anwydau i mewn; yn yr hon ddrwg dymher meddwl, ni ddylem ryfygu atteb, neu gymmeryd yn llaw un peth o bwys, o herwydd y mae yn cymmylu ac yn analluogi y meddwl i weithredu er ein lles.

"Caffed *amynedd* ei pherffaith waith," Iago i. 4. Gweithreded amynedd yn gyflawn ac hyd y diwedd; fel y gallo gyfodi i'r cynnydd uchaf, tra fyddo y gyfran fer hon o amser yn parhau, yn mha un yn unig y mae i chwi gyfleusdra i barottoi erbyn gogoniant, a gwneud daioni yn eglwys Crist, fel y byddo i chwi felly gael eich gwneuthur yn berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim: canys grasusau Cristionogol ereill, yn gyffredin, a lewyrchant ddyscleiriaf lle byddo amynedd yn fwyaf amlwg. Y radd isaf o amynedd a ymddengys mewn ymostyngiad dystaw i ewyllys Duw: "Aethum yn fud, ac nid agorais fy ngenau; canys ti a wnaethost hyn," Salm xxxix. 9. Yr ail radd yw, ymfoddloni gyda diolchgarwch, dan y cerydd, neu y blinderau presennol arnom; gan waeddi gyda Job, "bendigedig a fyddo enw yr Arglwydd," Job i. 21. Y drydedd radd, ac amynedd yn ei pherffaith waith, yw, "cyfrif yn bob llawenydd, pan syrthiom mewn amryw brofedigaethau," Iago i. 2. Rhuf. v. 2.

"Duw'r *amynedd* a'r dyddanwch," Rhuf. xv. 5. Gelwir ef felly oblegid ei ddyoddefgarwch a'i ymaros tuag at ei greaduriaid. Y mae *amynedd* yn Nuw yn hanfodol, ac yn tarddu o'i ddaioni a'i drugaredd; ac yn cael ei dangos tuag at bechaduriaid, heb ddim niweid i'w gyfiawnder a'i sancteiddrwydd, ar sail cyfryngdod ac aberth Crist. Gelwir ef yn "Dduw yr *amynedd*," am fod amynedd yn briodol iddo, mewn modd hynod a neilluol iawn. Y mae ei amynedd yn anfeidrol fel ei hun; ac oddi wrtho ef y mae amynedd yn deillio i bawb ereill. Y mae ynddo *olud* o ddaioni a dyoddefgarwch, 2 Petr iii. 9. Salm ciii. 8.

ANAB, dinas yn mynydd-dir Judah, o du y dehau i Jerusalem; oddi yma y torrodd Josuah ymaith rai o gawri yr Amoriaid, Jos. xi. 21. Ysgatfydd mai yr un ydoedd a Nob.

ANA, *(tylawd, cystudd iol)* mab Sibeon yr Horiad, un o ddugiaid mynydd Seir, a thad Aholibama, gwraig Esau. Tra yr oedd efe yn porthi asynod ei dad, Sibeon, yn ol y cyfieithad Cymreig a Saesoneg, cafodd allan y ffordd i ddirywio mulod, trwy gydio asynod a chesig; ond nid ydyw y gair Hebreig *ienim*, byth yn cael ei arfer i arwyddo *mulod;* ac nid ymddengys ychwaith ei fod yn flynodi ffynnonau meddyginiaethol o ddwfr twymn: ond yn hytrach yr Emiaid, cenedl gawraidd, oedd yn cyfaneddu yn nghymmydogaeth mynydd Seir. Ymddengys i Ana dalu y pwyth i'r yspeilwyr hyn, a'u gorchfygu. Yn yr ystyr hwn y mae y cyfieithad Caldeig a Samaritanaidd yn deall y geiriau, Gen. xxxvi. 24.

ANAC, *(torch, addurn)* mab Arbah, a thad neu benneth yr Anaciaid cawraidd: ei feibion oeddynt Sesai, Ahinam, a Thalmai. Yr oedd yr Anaciaid hyn, neu feibion Anac, yn lluosog iawn, yn trigo yn Hebron, Debir, Anab, a lleoedd ereill, Jos. xi. 21. Eu golygon creulon, a'u maintioli dirfawr, a lwyr ddychrynasant yr yspiwyr anghrediniol a anfonasai Moses i edrych ansawdd gwlad yr addewid, Num. xiii. 33. Yn nghylch 45 o flynedd oedd wedi hyn, erfyniodd Caleb grediniol am gael eu trigfan hwy yn etifeddiaeth iddo ei hun yn Nghanaan, fel y gallai gael yr anrhydedd o'u diwreiddio allan. Gwedi caffael ei ddymuniad, a'i gymmorthwyo gan ei frodyr o Judah, efe a'u torrodd hwy ymaith o Hebron; ac Othniel ei nai a'i fab-yn-nghyfraith a'u hymlidiodd hwy allan o Debir, Jos. xiv. 6—15. a xv. 13—19. Barn. i. Tybia *Bochart* i weddillion y Beneanac, neu feibion Anac, gilio tua'r gogledd i diriogaethau Tyrus a Sidon, a rhoddi yr enw *Phenecia* i'r wlad.

ANAD, arbenig. "Mor llygredig oedd ei wedd yn *anad* neb," neu yn *fwy na neb*, Esa. lii. 14. Darluniad ydyw y geiriau o Grist yn ei gyflwr o ddarostyngiad yn y byd. Er ei fod yn deccach na meibion dynion, etto, yn awr yr oedd wedi treulio ymaith gan ofidiau, gofidiau heb gyffelyb iddynt; ei ben wedi ei goroni â

drain; ei wyneb wedi ei gernodio, a chael poeri arno; ei bryd wedi ei newid, ac yntau yn ymddangos yn ddrych o ofid. Diammau fod golwg ryfedd arno pan ddygodd Pilat ef allan, ac y gwaeddodd wrth yr Iuddewon, "Wele y dyn!" Ioan xix. 5. Salm xxii. 6.

ANADL, (*an*, einioes, *adl*, ffun) chwyth, awyr gyrchiad, Job ix. 18. Ein bywyd naturiol sydd yn cael ei alw *anadl:* trwy anadlu yr awyr y mae yn cael ei gynnal; ac megys awel o wynt, y mae yn hawdd ei ddiddymu, Salm cxlvi. 4. Esa. ii. 22. Y mae gwroldeb nerthol, a bywyd ysbrydol, yn cael eu galw *anadl:* deilliant oddi wrth wynt Ysbryd Duw, a gwnant ddynion yn weithgar a bywiog, Ezec. xxxvii. 5. *Anadl* Duw yw ei Ysbryd, yr hwn sydd yn deillio oddi wrth y Tad a'r Mab, a thrwy yr hwn y trosglwyddant fywyd i greaduriaid, Salm xxxiii. 6. a civ. 30. Y brenin Zedeciah oedd *anadl* ffroenau yr Iuddewon: trwy gynnorthwyon brenhinoedd y mae ein bywyd yn cael ei ddiogelu, a'i wneuthur yn gyssurus, Galar. iv. 20. Wrth Dduw yn *anadlu* y meddylir ei ffurfiad nerthol a hawdd o enaid mewn corph dyn, Gen. ii. 7. Crist yn *anadlu* ar ei ddysgyblion, a gysgodai ei waith yn eu hysbrydoli hwy â doniau hynod a grasusau yr Ysbryd Glân, Ioan xx. 22. Yr Ysbryd yn *anadlu* ar yr esgyrn sychion sydd yn arwyddo ei waith yn rhoddi zel, hyfder, a gobaith i'r Iuddewon caethion yn Babilon; yn rhoddi bywyd ysbrydol a bywiogrwydd yn ei bobl: ac yn bywhau ac adgyfodi cyrph y saint yn y dydd diweddaf, Ezec xxxvii. 9.

ANADNABYDDUS, *(an-adnabod)* anhysbys, dyiethr. Paul a'i gyd-bregethwyr oeddynt megys yn *anadnabyddus* gan y byd yn eu cyflwr ysbrydol a'u llafurwaith; ac yn annerbyniol, digyfrif, ac anenwog gan ddynion cnawdol; ond yn *adnabyddus* a derbyniol gyda Duw Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, 2 Cor. vi. 9.

ANAELE, *(an-ael)* erchyll, poen neu fryw anfeddyginiaethol, Jer. xv. 18.

ANAFUS, *(a-naf,* gweithrediad) â cholli arno, â diffyg rhyw ran arno. Cafodd amryw o rai anafus eu hiachau gan Iesu Grist, Mat. xv. 30.

ANAIR, *(an-gair)* anghlod, enllib, cabl. Trwy anghrediniaeth y rhoddodd deg o'r ysbiwyr *anair,* neu anghlod i'r wlad yr anfonasid hwy i edrych ei hansawdd; am ba bechod y buant feirw o bla ger bron yr Arglwydd, Num. xiii. 32.

ANAMIM, neu ANAIM, ail fab Mizraim. Poblogodd ei hiliogaeth ef barth o Affrica, sef y rhan hono, tebygol, o du y gorllewin i'r Aipht, lle y cawn deml gyssegredig i Jupiter-Ammon; a lle yr oedd y Nasamoniaid, neu *wyr Ammon* yn byw; ac oddi wrth ba rai, tebygol, y deilliodd yr Amianiaid, a'r Garamantiaid, neu *Amianiaid dyeithrol a chrwydraidd,* Gen. x. 13.

ANAMLWG, *(an-amlwg)* cuddiedig. "Nid oes greadur *anamlwg* yn ei olwg ef," Heb. iv. 13. Y mae pob peth, nid pob creadur yn unig, yn noeth, heb un gorchudd arno, ac yn agored i'w lygaid ef; ac o hyn y mae ei air yn rhoddi y prawf mwyaf, trwy weithredu ar y gydwybod. Y mae yma gyfeiriad amlwg at yr aberthau dan y gyfraith, y rhai a leddid yn gyntaf, ac yna (megys y mae y gair Groeg yn arwyddo) a *holltid ar wahan* trwy y gwddf, ac asgwrn y cefn; hyd nes y byddai pob peth oddi fewn, ac oddi allan yn eglur i'r golwg.

ANANIAS, *(gras Duw)* enw Iuddewaidd, yr un a Hananiah, Dan. i. 6. Yr oedd efe a Saphira ei wraig yn mysg proffeswyr cyntaf Cristionogrwydd yn Jerusalem. Gwerthasant eu tir, a chymmerasant arnynt roddi yr holl werth i drysorfa gyffredin y credinwyr, eithr darn-guddiasant ran o hono at eu gwasanaeth eu hunain. Er y gwyddai fod yr Apostolion wedi eu cynnysgaethu gan yr Ysbryd Glân â dawn i ddirnad dirgelion, etto, sicrhaodd wrth Petr ei fod wedi dwyn yr holl werth iddo. Ceryddodd Petr ef yn llym am ei ragrith; o herwydd iddo, pan y gallasai yn gyfreithlon gadw y cyfan, gymmeryd arno gyflwyno y cwbl i wasanaeth Crist, ac etto ddarnguddio rhan iddo ei hun. Tra yr oedd yn llefaru, tarawyd Ananias yn farw gan ddialedd digyfrwng y Nefoedd, a dygwyd ef i'w fedd. Yn nghylch yspaid tair awr wedi hyn, daeth Saphira i mewn; ac wedi eu holi, ai er cymmaint y gwerthasid eu

tir, ag y dywedasai ei gwr, hi a gadarnhaodd ei ddywediad. Petr a'i ceryddodd hi am gyduno â'i gwr i demtio Ysbryd yr Arglwydd, a gwneuthur prawf pa un a allai efe ganfod a chospi eu twyll neu beidio; dywedodd wrthi, y byddai i'r gwyr oedd newydd gladdu ei gwr hi, yn ddiattreg eu dwyn hithau i'w bedd. Tra yr oedd efe yn llefaru, tarawyd hi yn farw yn ei wydd. Dygwyddodd hyn, A. D. 33, neu 34, ychydig wedi escyniad Crist, a gwnaeth argraff arswydus ar gyfeillion a gelynion y ffydd Gristionogol. Yr oedd y gosp hon arnynt, nid yn unig yn gyfiawn, wrth ystyried fod y weithred yn cynnwys cydblethiad o wag-ogoniant, cybydd-dod, twyll, ac annuwioldeb; ond yr oedd hefyd yn ddoeth a grasol, yn gymmaint ag y byddai yn attalfa effeithiol i rwystro ereill rhag dilyn yr un esampl. Wrth sefydlu hyd yn nod cyfreithiau dynol, y mae cosp drom ar y troseddwyr cyntaf, yn fynych yn rhagflaenu cosp ereill, y rhai a gedwir rhag cyffelyb feiau, trwy ddyoddefaint y drwg-weithredwyr cyntaf: a bu yr effaith ar yr achos presennol felly. *Porphyry* a gyhuddodd St. Petr o greulondeb, am roddi y gosp hon; i'r hyn y mae'r henafiaid wedi atteb yn dda, "Na ddarfu i'r Apostol mewn un modd weddio am eu marwolaeth; ond, trwy yr yspryd prophwydol, cyhoeddodd farn Duw arnynt, fel y byddai cospedigaeth dau ddyn, er addysg i laweroedd." Y mae yma brawf cadarn o Dduwdod yr Ysbryd Glân, yn gymmaint a bod dywedyd celwydd wrtho ef (adn. 3) yn ddywedyd celwydd wrth Dduw, (adn. 4) Act. v. 1—11.

2. *Ananias*, dysgybl i Iesu Grist, à thebygol ei fod yn un o'r 70. Pregethodd yr efengyl yn Damascus; ac wedi ei gyfarwyddo mewn gweledigaeth i ymofyn yn nhŷ Judas, am Saul o Tarsis, yr hwn oedd newydd ddyfod i'r lle, efe a ddymunodd gael ei esgusodi; o herwydd ei fod wedi ei hysbysu fod Saul yn erlidiwr creulon, a bod ganddo awdurdod o Jerusalem i garcharu yr holl Gristionogion a gaffai yn y ddinas hono. Sierhaodd yr Arglwydd iddo nad oedd dim perygl; oblegid beth bynag a fuasai Saul, ei fod yn awr wedi ei ddewis gan Dduw i bregethu Crist i'r Cenedloedd, ac i fod yn ddyoddefwr nodedig er ei fwyn ef. Ananias, wedi ei annog gan hyn, a aeth i'r tŷ; a gafodd Saul yn ddall; a roddodd ei ddwylaw arno; ac yn enw'r Iesu a archodd iddo gael ei olwg, a'i lenwi â'r Ysbryd Glân; ar hyn syrthiodd cên oddi wrth ei lygaid; a chafodd ei olwg; bedyddiwyd ef, a derbyniodd yr Ysbryd Glân, a thrigodd yn nghymdeithas yr apostolion, Act. ix. 1—18.

3. *Ananias*, mab Nebedeus, yn nghylch A. D. 48, a ganlynodd Joseph mab Camith, yn yr archoffeiriadaeth Iuddewig. Quadratus, llywodraethwr Rhufeinig Syria, wedi gostegu rhyw gythrwfl a gyfodasid gan yr Iuddewon a'r Samariaid yn Judea, a anfonodd Ananias i Rufain, i roddi cyfrif am ei ymddygiad yn nghanol y terfysgoedd hyn. Yr archoffeiriad wedi dienyogi ei hun er boddlonrwydd i Claudius yr Amherawdwr, a anfonwyd adref i'w wlad.

Rai blynedd'oedd wedi hyn, Paul, wedi ei ddal, a'i ddwyn ger bron yr archoffeiriad hwn, a ddechreuasai, yn y modd mwyaf pwyllog, lefaru drosto ei hun, gan gadarnhau ei fod wedi gwasanaethu Duw mewn pob cydwybod dda, hyd y dydd hwnw. Ananias, mewn modd cynddeiriog, a archodd i'r rhai oeddynt yn sefyll yn ei ymyl, ei daro ef ar ei enau. Heb wybod mai yr archoffeiriad oedd efe, neu heb ei gydnabod fel y cyfryw, Paul a attebodd, "Duw a'th dery di, bared wedi ei wyn-galchu: canys a ydwyt ti yn eistedd i'm barnu i yn ol y ddeddf, a chan droseddu y ddeddf, yn peru fy nharo i?" Ananias hefyd, yn nghyd âg ereill, a annogasant luaws o furnwyr i ladd Paul yn ddirgel: ond, o herwydd i hyn gael ei ragflaenu trwy drosglwyddiad Paul i Cesarea, aeth Ananias yno i ganlyn ar ei ol ef. Appeliad Paul at Cæsar a fu yn foddion i anfon y mater i Rufain i'w brofi, Act. xxiii. 3.

Y rhagddywediad am Ananias, "y byddai i Dduw ei daro yntau," a gyflawnwyd wedi hyny, pan y llosgwyd ei dŷ yn ulw, mewn terfysg a ddechreuasid gan ei fab ei hun, Eleazer; amgylchwyd a chymmerwyd yntau yn ei balas; ac wedi iddo ef, yn nghyd ag un o'i feibion yn ofer ymdrechu ymguddio mewn hen ddyfr-

ffos, llusgwyd hwy allan a lladdwyd hwynt. Cymmerodd y dygwyddiad hwn le, bum mlynedd ar ol hyn, ar ddechreu y rhyfel Iuddewig.

ANATHEMA. Y gair Groeg hwn a arwydda peth neu berson wedi eu neillduo, a'i ddiofrydu; diofryd-beth, ysgymmun-beth. Mewn hen awduron Groegaidd, y mae y gair yn cael ei arferyd i arwyddo rhyw berson, yr hwn, yn amser pla neu haint gyffredin a ddiofrydasai ei hun i ddistryw, fel aberth, i heddychu eu duwiau cythreulig, a thrwy hyny symmud y gofid a'r trallod oddi arnynt, 1 Cor. xii. 3. "Canys mi a ddymunwn fy mod fy hun yn *anathema* oddi wrth Grist, dros fy mrodyr, sef fy nghenedl yn ol y cnawd." Oddi wrth Grist, neu *gan* Grist, fel y mae y rhagddodiad Groegaidd *apo* yn arwyddo yn y lleoedd canlynol: Mat. xii. 38. Marc viii. 31. Gal. i. 1. Iago i. 13. Nis geill geiriau dynol, yn gyflawn, ddarlunio cynhyrfiadau eneidiau sydd lawn o Dduw. Megys pe dywedasai efe, *Mi a ddymunwn* ddyoddef yn eu lle; ïe, i fod yn *anathema oddi wrth* Grist yn eu lle. Yr wyf mor belled oddi wrth gymmeryd hoffder yn ngwrthodiad y genedl Iuddewig, fel, yn y gwrthwyneb, y mae yn ofid gwastadol i mi feddwl am dano; yn gymmaint, fel, megys y darfu i Moses gynt pan y cynnygodd Duw eu torri hwy ymaith, a'i wneuthur ef yn genedl fawr yn eu lle, ddeisyf cael marw ei hun yn hytrach nag i feibion Israel gael eu dinystrio, Exod. xxxii. 32. felly gallwn i ddymuno i'r difreiniad a'r gwrthodiad a ddygwydd i'r eglwys a'r genedl Iuddewig, syrthio ar fy mhen fy hun, pe byddai alluadwy iddynt hwy, trwy hyny, gael eu cadw. Yn mha ystyr goruchel y dymunodd efe hyn! pwy all ddywedyd, oddieithr y buasid yn gofyn iddo, ac iddo ef ei hun benderfynu y ddadl! Diau nad oedd efe, ar y pryd, yn ystyried dim o hono ei hun, ond yn unig ereill, a gogoniant Duw. "Od oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded *anathema*," 1 Cor. xvi, 22. Pan gollodd yr Iuddewon awdurdod ar fywyd a marwolaeth, hwy a arferent, er hyny, gyhoeddi *anathema*, ar y rhai a ddylasent gael eu dienyddu yn ol deddf Moses; a'r cyfryw un a fyddai yn *anathema*, neu *felldigedig*, neu wedi ei neillduo i ddinystr. Yr oeddynt yn llawn gredu na fyddai y felldith yn ofer, ac, yn wir, y mae yn ymddangos eu bod yn disgwyl y byddai i ryw farn, gyfattebol i'r hyn a gyhoeddai y ddeddf, syrthio ar y troseddwr. Yn awr, i fynegu eu ffydd, y byddai i Dduw, ryw ffordd neu gilydd, weithredu, er mwyn rhoddi grym i'r ddedryd, ag na allasent hwy roddi iddi, y mae yn debygol iawn yr arferent y geiriau Syriaeg *Maranatha*; hyny yw, "Mae yr Arglwydd yn dyfod;" sef i wneuthur dial arno. Dewisodd yr apostol ysgrifenu y ddedryd bwysig hon â'i law ei hun, a'i gosod rhwng ei annerchiad a'i fendith apostolaidd, fel y byddai iddi gael ei derbyn gyda mwy o ystyriaeth. Nid ydyw y cyfryw ymadroddion yn arwyddo y dylem *ni* eu melldithio, na chynnwys digasedd tuag attynt; yn y gwrthwyneb, dylem, mewn addfwynder, ddysgu y rhai gwrthwynebus, i edrych a roddo Duw iddynt ryw amser, edifeirwch i gydnabod y gwirionedd, 2 Tim. ii. 2. ond y mae y geiriau yn hysbysu beth yw eu cyflyrau ger bron Duw.

ANATHOTH, *(attebiadau)* mab Becer, ac ŵyr Benjamin. Dichon mai efe a roddodd enw i'r ddinas Anathoth, yr hon oedd yn sefyll yn nghylch tair milltir o du y gogledd i Jerusalem, ac a roddwyd i'r offeiriaid gan lwyth Benjamin, 1 Cron. vii. 8. a vi. 60. Yma y caethiwodd Solomon Abiathar, yr arch-offeiriad diswyddedig, 1 Bren. ii. 26. Difrodwyd hi gan Senacherib, Esa. x. 30. Yma y ganwyd y prophwyd Jeremiah, ac am eu gwaith yn ei erlid ef, cospwyd y trigolion yn ddychrynllyd gan y Caldeaid, Jer. i. 1. a xi. 23. Dychwelodd 128 o honynt o gaethiwed Babilon, Neh. vii. 27. Ezra ii. 23. ac ail-adeilasant eu dinas, Neh. xi. 32.

ANCHWILIADWY, *(an-chwiliad)* yr hyn ni ellir ei chwilio. Y mae mawredd Duw, a doethineb, dybenion, a daioni ei farnedigaethau, a'i ragluniaethau, yn *anchwiliadwy*, Salm clxv. 3. Rhuf. ix. 33. "*Anchwiliadwy* olud Crist," Eph. iii. 8. ydyw y trysor helaeth o ras, trugaredd, a chariad, a roddwyd yn nghadw yn Iesu Grist, nid yn unig

i'r Iuddewon, ond hefyd i'r holl fyd-Cenhedlig, i bawb o honynt a gredant; yr hyn oedd tu hwnt i gallineb dynol i'w gael allan, ac nis gallesid ei adnabod ond trwy ddadguddiad. Y mae golud Crist i'w chwilio yn barchus, yn ddyfal, ac yn ddiddarfod; ond nis gellir byth chwilio allan amrywiaeth, gwerthfawrogrwydd, a lleshad y bendithion cynnwysedig ynddo; na dyfnderoedd y doethineb a'r daioni a amlygir yn y darpariad a'r cyfraniad o honynt.

ANDREAS, *(gwr cadarn)* brawd Simon Petr, priodor o Bethsaida, ac apostol Iesu Grist. Pysgodwr oedd efe ar y cyntaf. Pan dechreuodd Ioan Fedyddiwr bregethu, daeth Andreas yn un o'i ganlynwyr. Wrth ei glywed yn nodi Iesu Grist allan fel Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechod y byd, efe yn nghyd âg un arall o ddysgyblion Ioan, a ganlynasant yr Iesu, ac a arosasant gydag ef y diwrnod hwnw. Tranoeth cyfarfu â'i frawd Simon, ac a'i dug ef at yr Iesu. Ar ol treulio diwrnod gydag ef, dychwelasant at eu galwedigaeth arferedig o bysgotta. Yn mhen rhai misoedd wedi hyn, cafodd yr Iesu hwy wrth y gorchwyl hwn ar fôr Galilea; galwodd hwy i'w ddilyn, ac addawodd eu gwneud yn *bysgodwyr*, neu ennillwyr eneidiau *dynion*. Yn uniongyrchol gadawsant eu hwydau, a chanlynasant ef; ac nid ymddengys iddynt ei adael byth mwyach, Ioan i. 35—44. Mat. iv. 18—20. Yn nghylch blwyddyn wedi hyny, pan y gofynodd yr Iesu i'w ddysgyblion, pa fodd y gallai gael bara i'r 5000 o bobl, y rhai a'i canlynasant ef dri diwrnod, attebodd Andreas, fod gan fachgenyn o'r fintai, bum torth haidd, a dau bysgodyn; *ond beth*, medd efe, *yw hyny* rhwng cynnifer? Ioan vi. 9. Ychydig cyn dyoddefaint ein Hiachawdwr, dymunodd rhai Groegiaid ar Philip gael golwg arno ef. Philip, yn nghyd âg Andreas, a ddywedasant i'r Iesu; a diammau i'r Groegiaid gael eu derbyn i mewn, Ioan xii. 22. Yn mhen dau neu dri diwrnod wedi hyn, gofynodd Andreas a rhai ereill i'r Iesu am amser dinystr yr ail deml, ac arwyddion ei ddyfodiad, Mat. xxiv. 3. Ar ol escyniad Crist, pregethodd Andreas dros rai blyneddau yn Jerusalem. Dywedir iddo o'r diwedd, bregethu yr efengyl yn Scythia, Ethiopia, Asia Leiaf, Thracia, a Macedonia, a chael ei groeshoelio yn Ptrae, yn Achaia, yn nheyrnasiad Vespasian yr Amherawdwr Rhufeinig. Ond traddodiadau ansicr yw yr hyn oll a adroddir am dano, ond yr hanes am dano gan yr efengylwyr.

ANELWIG, *(an-elwig*, ffurfiedig) afluniaidd. "Dy lygaid a welsant fy *anelwig* ddefnydd," Salm cxxxix. 16. Y mae pob peth mor amlwg i Dduw, cyn ei wneuthur, ag ydyw wedi iddo ei lunio. Nis gall fod ychwanegiad at wybodaeth yr Hollwybodol. "Pan yn ddefnydd afluniaidd yn y groth, tu a edrychaist arnaf, ac â'th fraich nerthol a'm lluniaist yn gywraint, gan osod asgwrn wrth asgwrn, ac aelod wrth aelod, a phob aelod ac asgwrn yn ei le ei hun. Ac, yn awr yr wyf yn rhyfeddod i mi fy hun; mor ofnadwy a rhyfedd i'm gwnaed! dirgelwch anolrheinadwy! y cwbl a wn i yw hyn, mai "Rhyfedd yw dy weithredoedd!" yn dra addoladwy, ac yn deilwng o gael eu cadw mewn tragywyddol goffadwriaeth.

ANER, ESCOL, a MAMRE, oeddynt dri o dywysogion y Canaaneaid, y rhai a gynnorthwyasant Abraham â'u byddinoedd, i erlid a gorchfygu Cedorlaomer, a'r rhai oeddynt mewn cyngrair âg ef. Heb ddynwared haelfrydigrwydd y Patriarch hwnw, cymmerasant eu rhan o'r yspail a ynnillasid oddi ar y Sodomiaid, ac a'i dygasant ymaith, Gen. xiv. 13—24.

2. *Aner*, dinas yn hanner llwyth Manasseh, o du y gorllewin i'r Iorddonen. Naill ai yr un oedd hi â Taanac, neu rhoddwyd hi yn gyfnewid am dani, 1 Cron. vi. 70. Jos. xxi. 25.

ANESMWYTH—AU, *(an-esmwyth)* afonydd, gonddus. "Pan esmwythâo efe: pwy a anesmwythâ," Job xxxiv. 29. Y mae Elihu yma yn dangos awdurdod a phen-llywodraeth yr Arglwydd ar bob peth fel nad yw alluol i neb ddadwneuthur yr hyn a wnelo efe, pa un bynag ai er cyssur ai er anghyssur y byddo. Duw bia rhoddi esmwythder, heddwch, a llonyddwch i bawb. Pan esmwythao efe, pa un bynag ai ar wlad, mewn heddwch a diogelwch, trwy ei chadw rhag rhuthriadau ei gelynion, ai ar bersonau neilldu-ol, trwy eu llwyddo yn eu gorch-

wylion bydol, yn enwedig llenwi eu heneidiau â llawenydd a heddwch ysbrydol trwy gredu: pwy a anesmwythâ? a bair derfysg neu aflonyddwch iddvnt yn y mwynhad o'r esmwythder a rydd efe. Mae ei allu goruwch pawb, ac nid oes neb a ddichon lwyddo, er ei holl ymgais i aflonyddu.

ANFAD, (*an-mad*, daionus) drwg, echryslawn, "Oerfraw anfad," braw echryslon, Salm lxvi. 3. —*E. Prys.*

ANFARWOLDEB, (*an-marw*) didranc, tragywyddol. Y mae Duw yn anfarwol, ac efe yn unig sydd ganddo *anfarwoldeb*; y mae bywyd ganddo, ynddo ac o hono ei hun, ac y mae yn ddiogel anfeidrol rhag marwolaeth, niweid, neu ddinystr o un math. Y mae anfarwoldeb yn berthynol iddo fel ei hanfod. Nid oes iddo "na dechreu na diwedd, na chysgod troedigaeth," Iago i. 17. Y mae pob peth tebyg i farwolaeth, yn anfeidrol bell oddi wrtho; ac y mae efe o angenrheidrwydd yn anfarwol, ac yn rhoddi anfarwoldeb i ereill, 1 Tim. vi. 16. Y mae tragywyddol wynfyd y saint yn cael ei alw *anfarwoldeb*; nis dichon byth ballu, ac y mae yn rhydd oddi wrth y cyfryw boen, llygredigaeth, neu anmhrydusrwydd ag sydd yn canlyn marwolaeth, Rhuf. ii. 7. ac y mae wedi ei ddwyn i oleuni, hyny yw, wedi ei ddadguddio yn fwy eglur dan oruchwyliaeth yr efengyl, na than yr oruchwyliaeth gysgodol, 2 Tim. i. 10. Ein corph marwol ni a wisg *anfarwoldeb*, pan y cyfyd yn ogoneddus oddi wrth y meirw, ac na bydd mwyach yn ddarostyngedig i unrhyw beth a thuedd ynddo at ymddattodiad neu nychdod. Ni arwydda yr anfarwoldeb hwn, yn unig, y bydd y cyrph mewn bod byth; canys bydd cyrph y damnedigion felly: ond y gwisgir hwy âg anllygredigaeth ac anfarwoldeb llewyrchus, dysclaer, blagurog, a gogoneddus, yn debyg i gorph gogoneddus Crist. Ni bydd cyfnewidiad yn y cyrph o ran ei sylwedd, ond o ran amgylchiadau y sylwedd hwnw, 1 Cor. xv. 53.

ANFEIDROL, (*an-meidr*, mesur) anfesuradwy, yr hyn ni ellir ei fesur. Y mae anfeidroldeb yn perthyn i'r hanfod dwyfol; a phan ddywedir fod Duw yn *anfeidrol*, y meddwl yw, ei fod yn annherfynedig, yn anchwiliadwy, ac yn anghynnwysadwy. Yn benaf, perthyna hyn i'w holl bresennoldeb, a'i dragywyddoldeb: ni chynnwysir ef mewn lle, am hyny y mae yn mhob lle; ni therfynir ef gan amser, gan hyny y mae yn dragywyddol. Dywedir yn gyffredin fod pechod yn *anfeidrol*, a'r achos yw, am fod y gwrthddrych y pechir yn ei erbyn yn anfeidrol; canys fel y mae yn weithred, y mae yn derfynedig ac yn feidrol; gan na ddichon un weithred i greadur meidrol, fod ynddi ei hun yn anfeidrol. Ond o ran y gwrthddrych y pechir yn ei erbyn, y mae yn anfeidrol ddrwg, ac yn gofyn anfeidrol iawn drosti, yr hyn ni ddichon neb ei roddi ond Person anfeidrol, yr hyn yw Crist fel Person Dwyfol; rhoddodd trwy hyny anfeidrol werth i ddyoddefiadau y natur ddynol oedd mewn undeb âg ef, trwy ba un y derbyniodd cyfiawnder anfeidrol iawn, Esa. xliii. 10. a xliv, 6.

ANFERTH, (*an-berth*, glân, tlws) gwrthun, anhardd. "Ymehangodd uffern, ac agorodd ei safn yn *anferth*," Esa. v. 14. Y mae uffern, hyny yw, rhyw bwll dwfn megys Tophet, a gloddiwyd i'r cyrph ag oeddynt yn meirw mor aml trwy y newyn, yr haint, a'r cleddyf; neu ynteu y pwll diwaelod yn cael ei gyffelybu yma i anghenfil newynllyd, yn agor ei safn yn ddifesur, i lyncu y rhai a fuant byw yn foethus yn y byd, heb edrych am waith yr Arglwydd, "nac ystyried gweithred ei ddwylaw," ann. 12. Bydd eu distryw yn ddisyfyd. yn gyflawn, ac yn ofnadwy, Hab. ii. 5. Num. xvi. 30, &c. a xvii. 32.

ANFON, (*an-mon*, didoledig) gyrru, hebrwng. Arwydda (1.) Gosod i fyned, Deut. i. 22. (2.) Peri i ddyfod, Deut. xxviii. 20. (3.) Trosglwyddo, Act. xi. 30. Duw yn *anfon* Crist sydd yn arwyddo ei waith yn ei osod ef i gymmeryd arno ein natur ni, ac yn y byd hwn i gyflawni y gyfraith dorredig yn ein lle, ac i'n hachub oddi wrth ein pechod a'n troseni, Gal. iv. 4. Crist a'i Dad yn *anfon* yr Ysbryd Glân, sydd yn arwyddo eu gwaith yn ewyllysio yn effeithiol iddo amlygu ei gariad, ei allu, a'i bresennoldeb yn gweithredu gwyrthiau, ac yn argyhoeddi, dychwelyd, sancteiddio, a chyssuro ei bobl; yn gosod i fynu a sefydlu eglwys

sanctaidd ogoneddus yn mhlith dynion, ac yn iachawdwriaeth gyflawn eneidiau pechadurus, Ioan xiv. 26. a xvii. 7. Duw yn *anfon* prophwydi, apostolion, a gweinidogion, a arwydda ei waith yn eu hawdurdodi, eu galluogi, a'u cymhwyso i gyflawni y cyfryw swydd, yn y lle, yr amser, a'r dull gosodedig ganddo ef, Rhuf. x. 15.

ANFUDDIOL, *(an-budd)* diles. "Bwriwch allan y gwas *anfuddiol*," Mat. xxv. 30. Am ba beth? Pa beth y wnaeth ef? Mae yn wir na wnaeth efe ddim daioni; ond ni chyhuddir ef am ddrwg. Pa ham y bwrir ef i'r tywyllwch eithaf ynte? Ai am y rheswm hwn yn unig, am na wnaeth ddim niweid, y mae yn cael ei drosglwyddo yno? Gelwir ef yn ddrwg, o herwydd ei fod yn *ddiog*, ac yn was *anfuddiol*. Felly, bod yn ddiniweid yn unig, ar yr hyn y mae llawer yn syfaenu eu gobaith am iachawdwriaeth, oedd yr achos o'i ddamnedigaeth ef! Yr hyn a wnai ei gospedigaeth yn chwerwach ac yn drymach, oedd cyfran ddedwydd ei gyd-weision, y rhai a gawsant y fath ganmoliaeth a'r fath wobr gan eu Harglwydd. Gwelwn yma, mai gwedd yr Iesu, a chael ei gymmeradwyaeth ef, yw bywyd; ond digon o ddamnedigaeth fydd cael ein gyrru o'i wyddfod, a bod tan ei soriant, pe na byddai un uffern mwy na hyny.

ANFFRWYTHLAWN, *(an-ffrwyth)* diffrwyth. "Ac na fydded i chwi gyd-gyfeillach â gweithredoedd *anffrwythlawn* y tywyllwch," Eph. v. 11. Gweithredoedd a wneir yn y tywyllwch, rhy gywilyddus i'w cwblhau yn y dydd; gweithredoedd yn perthyn i gyfiwr tywyll dyn wrth naturiaeth, ac na chwblhai mo honynt oni bai ei fod yn dywyll ac yn anwybodus o'u natur a'u canlyniadau. Y mae yn gwbl anaddas i blant y goleuni i gymdeithasu â'r cyfryw, ac â'r neb a'u gwnelo. Nis gallai dim fod yn fwy afian a ffiaidd na rhai o ddirgeledigaethau crefyddol y Cenedloedd ar hyd y nos, at y rhai y mae'r apostol, tebygol, yn eu brif ystyr yn cyfeirio.

ANFFURFIO, *(an-ffurf)* difwyno, anharddu. "Canys *anffurfio* eu hwynebau y maent," Mat. vi. 16. Gwnaent i'w wyneb-pryd naturiol ddiflannu, fel chwareuwyr yn arliwio eu hwynebau, neu yn rhoddi gorchudd i'w cuddio. Cyfnewidient eu hedrychiad naturiol, i olygiad athrist a rhith sancteiddiol. Dyna y fath yw y rhai sydd yn cymeryd arnynt rith o grefydd, ac yn chwennych ymddangos yn dra defosiynol a gwresog ger bron dynion, tra byddont heb deimlo nemawr o alar, neu lawenydd ysbrydol, yn dufewnol: ac heb eu meddiannu gan gariad ac ofn Duw, Esa. lviii. 5.

ANFFYDD—LONIAID, *(an-ffydd)* bradwrus, tywyllodrus. "O genedlaeth *anffyddlon* a throfäus," Mat. xvii. 17. Am eu bod yn anghrediniol, yr oeddynt yn drofäus; heb gredu y gwirionedd, yr oeddynt yn cael eu cylch-arwain â phob awel o ddysgeidiaeth gyfeiliornus. Ein Harglwydd a ddywedodd hyn yn fwy neilltuol wrth ei ddysgyblion.

ANGEL, *Ll. (angelion, engyl)* neu genad, yw yr enw cyffredin a roddir i'r bodau ysbrydol a deallgar hyny, trwy ba rai y mae Duw, weithiau, yn cyflawni ei waith rhagluniaethol: y maent yn dra pharod a bywiog yn ei wasanaeth. Y mae goleuni natur yn rhoddi rheswm cadarn i gredu bodoliaeth y cyfryw fodau; ond yr ysgrythyr yn unig sydd yn ei wneuthur yn anammheuadwy. Yn ofer y mae llawer o'r Tadau, y Sosiniaid, ac awduron diweddar ereill wedi haeru iddynt gael eu creu yn mhell cyn sylfaeniad y byd. Moses, ie Duw ei hun, a sierha i ni i holl lu y nefoedd gael eu creu yn ystod y chwe diwrnod cyntaf a grybwyllir ganddo yn Gen. ii. 1. Exod. xx. 11. Pan y sylfaenodd Duw y ddaear ar y dydd cyntaf neu ail, cydganasant a gorfoleddasant, Job xxxviii. 7. Crewyd hwynt gyda doethineb, sancteiddrwydd, a phurdeb noddedig, a gosodwyd hwy mewn cyflwr tra gwynfydedig ac anrhydeddus; ond yn agored i gyfnewidiad. Y mae eu gwybodaeth yn fawr, ond nid yn anfeidrol; y maent yn *chwennychu edrych* i ddirgelwch ein hiachawdwriaeth, a dysgu *trwy yr eglwys* fawr amryw ddoethineb Duw. Ac nis gallant ychwaith chwilio calonnau dynion, na gwybod pethau i ddyfod, ond fel eu haddysgir yn bennodol gan Dduw, 1 Petr. i. 12. Eph. iii. 10. Jer. xvii. 10. Mat. xxiv.

36. Nid ydym hefyd yn deall eu dull o adnabod pethau corphorol a gweladwy: na'r modd y maent yn gwneuthur argraphiadau ar gyrph, neu pa fodd y maent yn ymgyfeillachu â'i gilydd. Y mae en gallu hefyd yn dra helaeth; ond nid ydyw yn cyrhaedd i ddim a ellir ei alw, mewn ystyriaeth, yn wyrthiol. Y mae eu rhifedi yn fawr iawn, miloedd, myrddiwn, sef nifer aneirif, Salm lxviii. 17. Mat. xxvi. 53. Dad. v. 11. Dan. vii. 10. ac y mae eu henwau, sef archangelion, thronau, arglwyddiaethau, tywysogaethau, a meddiannau, yn arwyddo fod rhyw drefn ogoneddus yn eu plith; ond pa fath ydyw, nis gwyddom, Col. i. 16. Yr angelion etholedig a gadwasant eu cyflwr dechreuol. Y mae y rhai hyn, heblaw eu gweinidogaeth anrhydeddus i Ddduw, er eu mawr hyfrydwch, yn ddarostyngedig hefyd i Grist fel Cyfryngwr, a thrwyddo ef mewn cymmod â'r saint; ac yn cael eu hanfon allan i *weini i*, addysgu, ceryddu, dyddanu, cyfarwyddo, a noddi y rhai a *gânt etifeddu iachawdwriaeth;* ac i drosglwyddo eu heneidiau i'r nefoedd yn angau. Dau lu o angelion a weiniasant i Jacob ar ei ddychweliad o Mesopotamia, gan ei amddiffyn rhag cynddaredd Laban ac Esau. Angelion a darawsant gyntaf-anedigion yr Aipht, ac a gymmorthwyasant yr Hebreaid ar eu mynediad allan o'r wlad hono, ac ar eu taith trwy yr anialwch. Miloedd o honynt a weiniasant i Jehofah, ar roddiad y ddeddf ar fynydd Sinai; ac, ysgatfydd, a wnaethant y llais clywedig yn yr awyr, trwy ba un y cyhoeddwyd hi, Gen. xviii. a xix. a xxxii. Exod. xii. a xxiii. 20. Num. xx. 16. Salm lxviii. 17. Act. vii. 53. Gal. iii. 19. Heb. ii. 2. Angel yr Arglwydd o borthodd Elias yn anialwch Judah; a thrachefn angelion a'i dygasant ef, enaid a chorph, i'r nefoedd. Torfeydd o honynt a noddasant Eliseus ar ei daith i Dothan. I gospi Dafydd am rifo y bobl, lladdodd angel 70,000 o honynt mewn un dydd. Angel, mewn un noswaith, a dorrodd ymaith 185,000 o wyr yn myddin Senacherib, ac a waredodd Jerusalem rhag ei gynddaredd ef. Angelion yn fynych a ymddyddanasant â Daniel, Zechariah, ac Ioan y Duwinydd, Exod. xxxiii. a xxxiv. 1 Bren. 19. 2 Bren. ii. 11. a vi. 7. a xix. 35. 2 Sam. xxiv. 16, 17. Angel, ar amserau, a fu yn cynhyrfu dyfroedd llyn Bethesda, Ioan. v. 4.

Angel a ragfynegodd enedigaeth Iesu Grist, ac Ioan Fedyddiwr. Lluaws o honynt a weiniasant ar enedigaeth ein Hiachawdwr, ac a'i cyhoeddasant i fugeiliaid Bethlehem. Angel a rybuddiodd Joseph a Mair i ffoi i'r Aipht gyda y plentyn dwyfol; ac i ddychwelyd oddi yno i Judea. Angelion a weiniasant i'r Iesu yn yr anialwch, pan y gadawodd y diafliaid ef. Angel a'i cymmorthwyodd ef yn ei ing gwaedlyd. Dau o honynt a dreiglasant y maen ymaith oddi ar enau ei fedd, ac a fynegasant i'r gwragedd ei fod wedi cyfodi oddi wrth y meirw. Lluoedd o honynt a weiniasant iddo ar ei escyniad; a rhai o honynt a fynegasant i'r dysgyblion oeddynt yn edrych yn ddyfal tua'r nef, y caent, yn yr un modd, ei weled ef yn dychwelyd o'r nef. Angel a ollyngodd yr apostolion yn rhyddion yn Jerusalem, a ddygodd Petr allan o garchar Herod, ac a ryddhaodd Paul a Silas yn Philippi. Angel a sierhaodd i Paul y byddai iddo ef, a'r rhai oedd gydag ef yn y llong, dirio yn ddiangol, Mat. i. 20, 21. ii. 13. iv. 11. a xxviii. 25. Luc xxii. 43. a xxiv. 45. Act. i. 10. a v. 19. xii. 7—10. xvi. 26. a xxvii. 3.

Myn rhai fod pob dyn â chanddo angel i weini iddo; fod gan bob teyrnas ei hangel gwarcheidwadol neilluol; fod gan bob elfen, megys tan, dwfr, &c. un i'w llywodraethu; ond nid oes awdurdod digonol o'r ysgrythyr i un o'r tybiau hyn. Gosodir un angel allan weithiau, megys yn gweithredu ar luoedd o ddynion; a darlunir lluoedd o angelion fel yn amgeleddu un dyn. Pa gyfarfodydd arbenig sydd ganddynt i roddi cyfrif am eu gweithredoedd, ni feiddiwn benderfynu. Pa fodd bynag, y mae yn ddilys nad ydyw eu gweinidogaeth i ddynion mewn un modd yn rhwystr iddynt i fwynhau y weledigaeth wynfyd-lawn o Dduw; fod pawb o honynt yn ymbyfrydu yn annhraethadwy yn ngwaith ein prynedigaeth, ac yn clodfori yr unrhyw yn eu caniadau uchaf o fawl; ac yn y dydd diweddaf, y bydd i'w holl fyrddiynau dirifedig ganlyn ein Pryn-

wr i farn; y cynnullant yr etholedigion yn nghyd o bedwar gwynt y nefoedd at ei ddeheulaw: ac y gyrrant y colledigion i ardaloedd erchyll trueni tragywyddol, Act. xii. 15. Dan. x. 20. Dad. xix. 18. a xvi. 5. Esa. xxxvii. 36. Salm xxxiv. 7. Gen. xxxii. 1. Job i. 6. a ii. 1. Mat. xviii. 10. xxv. 31. a xiii. 39, 49.

Rhifedi dirfawr o angelion, yn fuan wedi eu creadigaeth, a syrthiasant o'u cyflwr dedwydd; ond pa un ai balchder, cenfigen at wynfydedigrwydd dyn, neu ryw fai arall, oedd yr achos, ni hysbyswyd i ni yn eglur. Cyfenwir y rhai hyn yn gyffredin, *diafliaid, ysbrydion aflan, Satan,* &c. Pan y pechasant, yn ddiattreg cauwyd hwy allan o'r trigfanau nefol, a bwriwyd hwy yn anniddymadwy i drueni diddiwedd. Pa fodd bynag, ni chyfyngwyd hwy i garchar uffern; ond goddefwyd iddynt grwydro oddi amgylch yn y byd, er profiad a chospedigaeth dynolryw. Y cyfryw yw eu malais ddiriaid, fel, er y gwyddant y bydd pob sarhad a wnant i blant dynion yn sicr o ychwanegu eu poenau tragywyddol; er y gwyddant y bydd i bob profedigaeth o'r saint derfynu yn iachawdwriaeth y rhai hyn, ac yn eu hanneddwyddwch trymhaol hwythau, etto ni pheidiant byth a myned o amgylch gan geisio y neb a allant ei lyncu, 2 Petr ii. 4. Jndas vi. 1 Tim. iii. 8. Ioan viii. 44. 1 Petr. v. 8. Ymddengys fod gan yr ysbrydion gwrthgiliedig hyn, un yn benaeth arnynt, yn yr hwn, ysgatfydd, y dechreuodd y gwrthgiliad; neu yr hwn, hwyrach, a fuasai yn archangel yn ei gyflwr gwynfydedig. Gosodir y lleill allan fel angelion neu weision iddo ef, a gelwir ef y *Diafol, Satan, Beelzebub, Tywysog llywodraeth yr awyr, Tywysog a Duw y byd hwn.* Tebygol mai efe oedd yr hwn, ar lun sarph, a hudodd ein rhieni cyntaf, ac a dderbyniodd felldith ychwanegol o'r achos hwnw, i gael ei chyflawni arno yn benaf trwy ein prynedigaeth gan Grist. Tebygol mai efe a ymsodododd ar ein Hiachawdwr yn yr anialwch a lleoedd ereill, ac a'i temtiodd i'r beian mwyaf gwarthus, Mat. xxv. 41. Gen. iii. Mat. iv. Luc iv. Ioan xiv. 30.

Y mae yr angelion drwg hyn yn ddibaid yn twyllo, neu yn aflonyddu, plant dynion; ac y maent, dan wahanol eilunod, wedi cael eu haddoli gan y rhan fwyaf o honynt. Ant yn fynych mewn ymddyddan cyfeillgar â llawer o ddewiniaid, swyngyfareddwyr, &c. gan eu twyllo, a'u galluogi hwythau i fwrw hud ar, neu niweidio eu cymydogion. Bydd yr ysbrydion drwg hyn yn fynych yn cymmeryd arnynt rith o sancteiddrwydd, ac yn annog dynion yn wresog i ffugio eu bod yn grefyddol anghyffredin; ond y mae hyny bob amser er dwyn yn mlaen ryw ddybenion drwg a phechadurus. Gorchymynodd Duw i luaws o'r angelion hyn aflonyddu yr Aiphtiaid. Un, neu ychwaneg o honynt, trwy ganiattâd Duw, trwy yspeilwyr fel moddion, a thrwy felit a thymhestloedd, a ddinystriodd olud Job, ac a darawodd ei gorph oll drosto â chornwydydd. Trwy ganiattâd Duw, hudasant y brenin Dafydd i rifo yr Hebreaid; a llithiasant brophwydi Baal i ddenu Ahab i fyned i fynu a syrthio yn Ramoth Gilead. Cennadwyd i nifer dirfawr o honynt gymmeryd meddiant rheolaidd o gyrph dynion yn amser ein Hiachawdwr, fel y byddai i'w allu gael ei wneuthur yn fwy nodedig wrth eu bwrw hwy allan, 1 Petr v. 8. Eph. ii. 2. Deut. xxxii. 17. 1 Cor. x. 20. 2 Bren. xxi. 6. 2 Cor. xi. 14. Salm lxxviii. 49. Job i. a ii. 1 Cron. xxi. 1. 1 Bren. xxii. Act. x. 38.

Un o'r tystiolaethau cadarnaf dros ddiwdod Iesu Grist, ydyw, y gellir dangos yn annadleuadwy oddi wrth ysgrythyrau yr Hen Destament, iddo ef ymddangos yn fynych yn y cynddydd, a'i fod yn cael ei wahaniaethu oddi wrth bawb angelion crëedig, wrth yr enw, *Yr angel Jehofah.* Yn y modd hwn yr addysgodd efe ei bobl, mewn perthynas i'w ymddangosiad dyfodol yn y cnawd, a dyben yr ymddangosiad hwnw. Cennad, neu was, ydyw angel, a daeth Mab y Dyn fel cennad y Tad, cennad y cyfammod. Mynegir i ni, Gen. xvi. 19. mai angel yr Arglwydd a ymddangosodd i Hagar. Galwodd hi ef yn Dduw, a sicrheir i ni mai Jehofah oedd efe, adn. 13. Y mae hi yn priodoli hollwybodaeth iddo, o herwydd hi a'i geilw ef, Y *Duw oedd yn edrych arni hi, ac a glywsai ei chystudd,* adn. 11. Trachefn, hwn yw

yr angel a alwodd ar Abraham o'r nefoedd, gan ddywedyd, "Nid atteliaist dy fab, dy unig fab, oddi wrthyf fi," Gen. xxii. 11. A ydoedd Abraham yn offrymu ei fab i unrhyw angel crëedig, unrhyw *gyd-was*, fel y cyfenwodd yr angel ei hun ger bron yr hwn y syrthiodd Ioan i addoli? Yn Gen. xxxii. 24. dywedir i ni, i Jacob ymdrechu â gwr, Hosea xii. 3, 4. a sierha i ni mai yr angel Duw, oedd y gwr hwn. Yr un angel a ymddangosodd i Jacob mewn gweledigaeth yn Bethel, Gen. xxxi. 11, 13. "Angel yr Arglwydd a lefarodd gan ddywedyd, Myfi yw Duw Bethel," &c. ac am hyny, y mae Jacob, pan yn marw, yn gorchymyn plant Joseph i ofal yr un angel, y Gwaredwr oddi wrth bob drwg, Gen. lxviii. 16. Yr un angel digrëedig, Hollalluog, a ymddangosodd i Gideon, Barn. vi. 12—22. Gwelodd Gideon yr angel Jehofah wyneb yn wyneb; i Manoah a'i wraig, ac a roddodd iddynt addewid am fab, Barn. xiii. 3. ac ar lawer achlysur arall. Gelwir ef weithiau, angel cyd-ddrycholdeb, neu wyneb Duw, Esa. lxiii. 9. gan gyfeirio atto yn y gwedd-nod gogoneddus hwnw yn mha un yr amlygwyd ef i Israel yn yr anialwch. Pan y cafodd Moses fod y swydd o ddwyn meibion Israel i fynu i wlad yr addewid, yn orchwyl dirfawr gormod ei bwys iddo ef, gwnaed yr addewid raslawn, "Wele fi yn anfon angel o'th flaen di, &c. Fy enw sydd ynddo," Exod. xxiii. 20, 21. Ac, yn ganlynol, yn Exod. xxxiii. 14. dywedir, "Fy wyneb a gaiff fyned gyda thi, a rhoddaf orphwysdra i ti." Felly, lle yr oedd yr angel hwn, yr oedd y cyd-ddrycholdeb, neu y wyneb dwyfol, yn weledig. Ac i'r dyben mawr hwn yr amlygwyd mab Duw fel yr angel a ai o flaen ei eglwys, a'i cadwai yn y ffordd, ac a'i dygai i orphwysdra. Ni fydd alluadwy i ni ddwyn cystal awdurdod yn gwbl dros dyb arall, sef, fod gweinidogion yn cael eu cyfenwi yn angelion. Y mae y prawf o hyny a ddygir o'r ysgrythyrau yn gorphwys yn benaf ar hyn, fod yr epistolau at y saith eglwys yn cael eu cyfeirio at angelion y gwahanol eglwysi hyn, yr hyn, medd rhai, sydd yn meddwl esgobion yr eglwysi; medd ereill, y llywodraethwyr a flaenorent ynq; ac, medd ereill, y gweinidogion yn gyffredinol. Y mae *Dr. Mede* yn tafiu lawer o oleuni ar y pwnc hwn yn ei draethawd ar weinidogaeth angelion. Y mae yn hynod amlwg, megys y crybwyllasom eisoes, fod angelion ar waith yn gweini i etifeddion iachawdwriaeth; felly, eglwysi y saint ydynt y lleoedd y maent hwy yn bennodol yn trigiannu ynddynt Pan y gwelodd Jacob dŷ Dduw yn Bethel, gwelodd yr angelion yn escyn ac yn discyn, Gen. xxviii. Y mae Solomon yn cadarnhau ei annogaeth i wylied ar ein gwefusau yn nhŷ Dduw, am ein bod *ger bron yr angel*. Preg. v. 6. ïe, y mae Paul yn dadleu dros ei gyfarwyddyd am weddeidd-dra angenrheidiol, pan yn chwennych i'r gwragedd orchuddio eu penau yn y cynnulleidfaoedd, o *herwydd yr angelion*, 1 Cor. xi. 10. Os yw yr ysbrydion anweledig hyn yn gweini i bob un o'r saint yn neilluol, llawer mwy y maent yn gwneud hyny iddynt oll yn nghyd; ac y mae eu gofal gwarcheidwadol dros yr eglwysi yn fynych yn cael ei led-arwyddo hefyd. Yr hyn a gafodd ei ddywedyd, mewn amddiffyniad o'r golygiad gwrthwynebol ydyw, fod ganddynt orchymyn oddi wrth Dduw i gyhoeddi ei gennadwri, a chwblhau ei waith trwy ddwyn dynion at ei Fab; ac, fel yr angelion yn y nef, felly y dylent hwythau ragori mewn gwybodaeth, gostyngeiddrwydd, sancteiddrwydd, cyfundeb, twymfrydedd, a pharodrwydd i wasanaethu Iesu Grist a'i bobl; ac mewn edrych yn graffus i ddirgeledigaethau ein prynedigaeth; mewn moli Duw; a llawenychu o herwydd dychweliad pechaduriaid, Dad. i. 20. a xiv. 6—8. Bydd lluaws o weinidogion yn cael eu gosod allan weithiau fel un angel, i ddynodi eu hundeb a'u cydgordiad; ac fod ganddynt un yn llywodraethwr arnynt yn eu cynnulleidfaoedd barnedigaethol, Dad. ii. 1—18. a iii. 1—14. Hwy ydynt, ysgatfydd, yr *angelion sydd yn dyfod allan o'r deml a'r allor, â gallu ganddynt ar y tân.* Y maent yn gweini yn eglwys ac addoliad Duw; y maent yn cyhoeddi barnedigaethau *tanllyd* Duw, a chwymp Anghrist; a thrwy eu gweddiau a'u pregethau yn prysuro ei ddiwystr, Dad. xiv. 16, 18. Yr *angelion a gasglant yn nghyd etholedigion Crist*, ydynt

naill ai y gweinidogion sydd yn eu cynnull hwy at Grist ar eu troedigaeth, neu angelion priodol, y rhai a'u casglant hwy at ei ddeheulaw yn y dydd diweddaf, Mat. xxiv. 31.

Y mae gweinyddwyr barnedigaethau Duw yn erbyn ei elynion yn cael eu galw yn angelion. Gosodir y Tyrciaid allan fel *pedwar angel* wedi eu gollwng yn rhydd o'r afon Euphrates, ac wedi eu parottoi erbyn awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn, fel y lladdent y traian o ddynion. Er fod y Tyrciaid, yn yr 11 ganrif, wedi sefydlu pedair breniniaeth yn agos i'r afon Euphrates, etto, gwnaeth ymgyrch y Tartariaid, *rhyfel sanctaidd* y Ffrancod, neu y croes-ryfeloedd Pabaidd, a'u terfysgoedd cartrefol eu hunain, eu battal am hir amser. O'r diwedd yn nghylch A. D. 1281, neu yn oi ereill 1302, aeth Ortogrul, a'i dri mab, dros yr Euphrates, tua'r gorllewin, a dechreuasant ddifrodi rhan fawr o amherodraeth Rhufain, a thorrasant ymaith rifedi dirfawr o Saraceniaid, ond yn benaf o Gristionogion wnen enw, yn Asia, Europe, ac Affrica, dros 391 o flyneddoedd, o 1281 hyd 1672; neu dros 396, o 1302 hyd heddwch Carlowitz, yn 1698, Dad. ix. 14. Offerynau dialedd Duw yn erbyn y Pabyddion a Mahometaniaid, pa un bynag di angelion priodol, gweinidogion, pen-swyddogion gwladol, neu fyddinoedd, a osodir allan fel *saith angel*, yn tywallt phiolau o ddigofaint ar *y ddaear, dyfroedd, afonydd, haul, awyr*, &c. Gwedi eu gosod gan Dduw, y maent yn cyflawni ei ddialedd ef yn ddigonol; a chyda mawr fywiogrwydd a llwyddiant, y maent yn gyfan-gwbl, ond yn raddol, yn dyfetha y gelynion hyn i Grist, Dad. xv. 8. a xvi.

ANGERDD, gwres tanbaid, poethder llosgedig. "Ffiam *angerddol*," Can. viii. 6. Yn ol yr Hebraeg, ffiam *Jah*. Mae yr eglwys yn galw ei chariad at ei hanwyl-yd yn "ffiam Jah," neu Jehofah. Ffiam gref, angerddol; neu ffiam a ennynodd Jehofah yn ei chalon, ac nad oes diffodd arni, nac un rhwystr a saif o'i blaen. Meddwl fiam mai yr un peth a feddylir wrth ffiam Jah, ac wrth *Tân Duw*, yn Job i. 18. a xv. 30. sef mellt, y rhai y mae Duw yn eu hennyn, ac yn eu saethu, Salm cixiv. 6. Ereill a feddyliant fod cyfeiriad yn y geiriau at dân yr allor, yr hwn a ddaeth allan oddi ger bron yr Arglwydd: hyny yw, o'r Schecinah, Lef. ix. 24.

ANGAU, *(ang*, rhydd, ac *au*, myned) marwolaeth. Dywedir fod cariad yn *gryf fel angau*, sef cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth; anaddas yw cyfeirio y geiriau hyn at gariad yr eglwys; y maent yn ddarlun hynod o'i gariad ef, yr hwn, wedi caru ei eiddo, a'u carodd hyd y diwedd, Can. viii. 6. Y mae traed y butain yn discyn i *angau*, a'i cherddediad yn *sangu uffern*; y mae yn prysuro ei hun, a'r rhai sydd yn ymwneud â hi mewn godineb, i farwolaeth naturiol, a dinystr tragywyddol, Diar. v. 5. 6. Crist a *ddiddymodd angau, ac a'i llyncodd mewn buddugoliaeth*; trwy ei farwolaeth ei hun, symmudodd y felldith a'r colyn oddi wrth farwolaeth naturiol ei bobl; ac a'u prynodd hwy oddi wrth angau ysbrydol a thragywyddol: ar ol hyn cyfyd hwy oddi wrth y meirw, a rhydd iddynt gyflawn feddiant o ddedwyddwch tragywyddol, 2 Tim. i. 10. 1 Cor. xv. 54, 55. Arfau *angeuol*, arfau marwol, yn lladd ac yn llwyr ddifa. Y mae Duw wedi eu parottoi ac yn eu defnyddio yn erbyn annuwiolion annychweledig; ac, am hyny, ni ddiangant hwy ddim, Salm vii. 13. Deut. xxxii. 23, 41, 42.

ANGENRHAID—IOL, *(angenrhaid)* yr hyn ni ellir ei hebgor. "Un peth sydd *angenrheidiol*," Luc x. 42. Un peth, sef cael Crist yn rhan yn ei holl gyflawnder anfeidrol, Ioan iii. 16. 1 Ioan v. 12. Hi a'i dewisodd o'i gwirfodd ac yn ddigymhell, ac y mae i ninau gynnygiad i wneuthur yr un modd, trwy yr hwn sydd yn gweithio ynom i ewyllysio a gweithredu, fel y byddo i ni weithio allan ein hiachawdwriaeth. Rhan Martha oedd gwasanaethu yn y teulu a darparu y wledd, ond yr oedd hyny i ddarfod yn fuan, eithr Mair a wnaeth ddewisiad o'r rhan dda, sef, eistedd wrth draed yr Iesu, a gwrando ar ei ymadroddion ef. Am hyny y dywedodd ei Harglwydd, na ddygid ei rhan oddi arni. Gwyn eu byd y rhai y mae hoffder a hyfrydwch eu bywyd, i wrando geiriau yr Iesu, a'u trysori yn eu calonau; sydd yn dy-

muno mwynhau ei wedd a bod yn ei gymdeithas, yn ei ordinhadau a chyfeillach y saint. Pan ddarfyddo y ddaear a'i thrysorau, eu rhan hwy fydd gyda Christ mewn dedwyddwch anfarwol. Ddarllenydd, a wyt ti wedi dewis y rhan dda?

ANGHOFIO, *(an-cof)* colli,coffadwriaeth am berson neu beth, neu roddi i fynu bob gofal yn eu cylch, Deut. iv. 9. Y mae Duw yn aml, yn eu golwg hwy, yn *anghofio* ei bobl, pan y bydd yn peidio rhoddi amlygiadau gweladwy o'i diriondeb a'i gariad attynt; a thros ennyd yn nacceu iddynt yr arwyddion teimladwy o'i ewyllys da, Salm xiii. 1. a lxxviii. 9. ond ni *anghofia* hwynt mewn gwirionedd; ni phaid a'u cynnal, a darparu yr hyn sydd anhebgorol angenrheidiol i'w gwir leshad, Esa. lxix. 15. Ni *anghofia* byth mo weithredoedd yr annuwiolion; fe a'u cospa yn sicr, Amos viii. 7. na gweithredoedd da y saint, ond a'u gwobrwya hwy yn raslawn, Heb. vi. 7. Y mae merch Sion yn *anghofio* tŷ ei thad a'i phobl ei hun, pan, fel y gadawodd Abraham ei berthynasau, ac yr ymwrthododd yr apostolion â phob peth, ac a ganlynasant yr Arglwydd, y bydd yn rhoddi i fynu ei gobaith daearol am obaith bywyd tragywyddol, Salm lxv. 10. Paul a *anghofiodd* y pethau o'r tu ol, pan ddygwyd ef i gyfrif yr hyn oll a ddysgasai wrth draed Gamaliel, a'i holl gyrhaeddiadau yn y grefydd Iuddewig fel tom a chollel, Phil, iii. 8. Y mae dynion yn *anghofio* Duw, pan esgeulusant feddwl am dano, a'i addoli; pan torrant ei gyfreithiau; ac y diystyrant unrhyw beth sydd yn perthynu i'w waith; ei achos, a'i bobl yn y byd. Y mae ein gwaith yn anghofio Duw yn brawf galarus o ymadawiad y galon âg ef; ein diffyg o gariad atto, ffydd yndo, ac ufuddod iddo. Yr ydym yn ei farnu yn annheilwng o feddwl am dano. Pa anmharch mwy! Barn. iii. 7.

ANGHREDINIAETH, *(an-crediniaeth)* anymddiried yn ffyddlondeb Duw a wystlir yn ei addewidion a'i fygythion cyhoeddig, ac yn neilduol anghoelio tystiolaethau ei efengyl, yn cynnyg ei Fab i bechaduriaid o ddyn-olryw, hyd yn nod i'r penaf; yr hwn sydd yn bechod tra erchyll a damnïol, am ei fod yn gwneud Duw yn gelwyddog, yn cablu ei holl briodoliaethau, yn dirmygu ac yn gwrthod Iesu a'i holl iachawdwriaeth, ac yn arwain i bechodau ereill. Ac nid ydym yn coelio fod y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan yn ddim amgen nag anghrediniaeth wedi ei dwyn i'r radd uchaf, Ioan xvi. 10. Heb. iii. 12. 1 Ioan v. 10, 11. Heb. x. 26—31. Y mae anghrediniaeth naill ai yn *nacaol* yn y cyfryw ag na chlywsant yr efengyl, ac felly y mae y Paganiaid yn cael eu galw yn rhai *digred*, 1 Cor. vi. 6. 2 Cor. vi. 14. neu yn *gadarnhaol* yn yr anghredinwyr hyny, y rhai, er eu bod yn clywed yr efengyl, ac yn cymmeryd arnynt wneuthur cyfrif o honi, etto nid ydynt yn credu â'u calon y dystiolaeth am Dduw yn cynnyg ei Fab a chyflawn iachawdwriaeth iddynt hwy yn neilduol, Luc xii. 46. Tit. i. 15. Dad. xxi. 8. Anghrediniaeth sydd naill ai gyda golwg ar ryw ddadguddiad neilldiol o eiddo Duw, megys pan anghoeliodd Zecharias addewid Duw am fab iddo, Luc i. 20. neu yn gyffredinol, gyda golwg ar holl ddadguddiadau Duw. Y mae naill ai yn *rhanol*, yn arwyddo rhyw raddau o anymddiried, Marc. ix. 24. neu yn *gyfan-gwbl*, lle nid oes dim ymddiried ol, 1 Tim. i. 13. Nis gallai yr Iuddewon a ddaethant allan o'r Aipht fyned i mewn i Ganaan o herwydd *anghrediniaeth*; o herwydd na hyderent yn ngallu a daioni Duw, ac yn ei addewid i'w dwyn hwy i fynu; ac o herwydd eu gwrthryfel a'u grwgnachrwydd, yr oedd yn anghysson âg anrhydedd ac amcan Duw i'w derbyn hwy i mewn, Heb. iii. 9. Nis gallai Crist wneuthur dim gwyrthiau yn ei wlad eihun, o herwydd eu *hanghrediniaeth* hwy; eu hanhyder a'u diystyrwch a'u gwnaethant hwy yn wrthddrychau anghymwys i wyrthiau gael eu gwneuthur arnynt neu yn eu plith, Marc. vi. 5, 6. Gwaith yr apostolion yn gwrthod hyderu yn addewid Crist i'w galluogi hwy i fwrw allan gythreuliaid, a'u gwnaeth yn analluog i fwrw un allan, Marc xvii. 16. a gwaith Petr yn ammau gallu ei Feistr, a barodd iddo suddo yn y dyfroedd, Mat. xiv. 30, 31. Yr *anghrediniaeth* am ba un y torwyd yr Iuddewon ymaith o'u cyflwr eglwysig, oedd eu gwaith yn ammau Duwdod Crist, eu diystyrwch a'u

gwrthodiad o hono, a'u herlidigaeth greulon o'i achos a'i aelodau ef, Rhuf. xi, 20. Maddeuwyd i Paul ei waith yn cablu ac yn erlid y saint, o herwydd iddo ei wneud mewn anwybodaeth, *ac anghrediniaeth*, cyn iddo wybod y gwir am yr Iesu, neu deimlo tyniadau ei ysbryd, 1 Tim. i. 13.

ANGHRIST, gwrthwynebwr Iesu Grist. Yr oedd y gau-athrawon a wadent athrawiaeth y Drindod, neu Ddiwdod a chnawdoliaeth Crist, &c. yn cael eu galw *Anghrist:* o'r fath yr oedd llawer yn amser yr apostol Ioan, 1 Ioan ii. 13. a iv. 2. Eithr un corph neilldiol o ddynion, egwyddorion, ac ymarferiadau drygionus, a fwriedir wrth yr enw yn benaf; mewn arswyd beunyddiol o ba un yr oedd y prif Gristionogion yn byw. Y mae yr ysgrythyr yn gosod yr Anghrist hwn allan megys y *dyn pechod*, a *mab y golledigaeth*; megys amryfusedd cadarn yn ymdaenu dros holl amherodraeth Rhufain; megys barn ddychrynllyd wedi ei harwain i mewn o herwydd anwybodaeth a chasineb at y gwirionedd, ac ymadawiad oddi wrthò; megys yn cyfodi o'r pydew diwaelod yn nghanol mwg dychrynllyd o goelgrefydd ac anwybodaeth; megys yn eistedd yn nhemi neu eglwys Dduw; megys yn ymdderchafu uwchlaw swyddogion gwladol, angelion, a phob peth a elwir yn Dduw; megys dirmygwyr duwiau y Cenedloedd eilun-addolgar, a Duw ei dadau profesedig, yn y brif eglwys, ac yn gosod i fynu ddosparth newydd o *Fahuzzim*, neu dduwiau i noddi ei amrywiol arglwyddiaethau; megys wedi ymroddi i'r cableddau, cyfeiliornadau, creulondeb, ac erlidigaethau mwyaf ysgeler; megys yn meddu awdurdod gwladol ac eglwysig ar ddeg rhan o amherodraeth Rhufain, ac yn cymmeryd gafael mewn tair o honynt fel ei etifeddiaeth neilldiol ei hun; megys yn sefydlu ei aneirif ffeidd-dra trwy wyrthiau a rhyfeddodau gau; megys yn cau allan oddi wrth gyd-fasnach wladol y cyfryw ag nad ydynt, fwy neu lai, mewn modd arbenig, yn cydnabod ac yn ymostwng i'w awdurdod ef.

Gwedi eu cyssylltu yn nghyd dan un pen, sef *angel dinystriol y pydew heb waelod*, yr oedd cynnorthwywyr yr amryfusedd hwn i fod yn llawer ac yn niweidiol, fel locustiaid ac ysgorpionau; yn ddinystriol i'r rhai oeddynt heb wir ras Duw ganddynt; a'u cydwybod wedi ei serio megys â haiarn poeth; yn dywedyd celwydd mewn rhagrith; yn taenu athrawiaethau cythreuliaid; yn gwahardd priodi; ac ar achosion, yn erchi ymattal oddi wrth fwydydd cyfreithlon ac iachus; tra yr oedd eu gwrandawyr â'u clustiau yn merwyno, yn pentyrru iddynt eu hunain athrawon, ac yn rhoddi coel i chwedlau: yr oeddynt i fod â'u serch arnynt eu hunain, yn ariangar, yn feilchion, yn gabliwyr, yn anufuddion i rieni, yn anniolchgar, yn annuwiol, yn angharedig, yn torri cyfammod, yn enllibaidd, yn anniwair, yn ymdreiglo mewn pob math o afiendid, yn anghymmesur, yn anfwyn, yn ddiserch i'r rhai da, yn fradwyr, yn waed-wyllt, yn chwyddedig, yn caru melus-chwant yn fwy nag yn caru Duw, yn ymlusgo i dai, ac yn dwyn yn gaeth wrageddos llwythog o bechodau. Prif breswylfod yr anghenfil hwn oedd i fod yn Rhufain: ei enw yw *Dirgelwch, Babilon fawr, mam puteiniaid, a ffieidd-dra y ddaear.* Rhifedi ei enw yw 666, rhif-lythyrenau pa un a wnant i fynu Latinus neu Romiith. a gwreiddyn pedeironglog *(square root)* yr hwn yw 25, sef rhifedi erthyglau y ffydd, ac amryw bethau ereill yn eglwys Rhufain. Dechreuodd yr Anghrist hwn weithio yn yr oes apostolaidd, ond attaliwyd ef gan awdurdod amherodraeth Rhufain nes i honno gael ei dinystrio, ac i ymadawiad arswydus oddi wrth y ffydd ddygwydd yn yr eglwys. Ei barhad sydd i fod yn 1260 o flyneddoedd; yn ystod pa amser, bydd iddo ddwyn yn mlaen eilunaddoliaeth, celwyddau, a chabledd, gan sathru yr eglwys dan draed, ac erlid y saint, y rhai a fyddant o hyd yn dwyn tystiolaeth yn erbyn ei ffieidd-dra; ac ni bydd difrodiadau dychrynllyd yr *angelion Tyrciaidd* wedi eu gollwng yn rhydd o'r Euphrates, yn y mesur lleiaf, yn peri i'w ddeiliaid edifarhau am eu heilunaddoliaeth, llofruddiaeth, swynion, godinebau, a lladradau. Yn niwedd ei deyrnasiad, bydd iddo, gyda chynddaredd a chyfrwysdra, bron lwyr ddyfetha tystion ffyddlon Crist:—ond yn ddisymmwth, trwy bregethiad pur o'r efengyl; trwy dywalltiad o saith pla, neu phiolau o ddwyfol ddigof-

aint; a thrwy wrthryfel a gwrthwynebiad ei ddeiliaid ei hun, caiff ei ddinystrio yn ddychrynllyd, er syndod i'w ganlynwyr, a mawr orfoledd i'r saint, yn Iuddewon a Chenedloedd, Dan. vii. 8—12. a xi. 36—40. 2 Thes. ii. 3—12. 1 Tim. iv. 1—3. 2 Tim. iii. 1—7. a iv. 3. Dad. ix. 1—11. xi. a xiii. hyd y xix. pennod.

Nis gellir, gyd ag un math o gyfiawnder, gymhwyso y darluniad uchod a dynwyd o'r ysgrythyr, at amherawdwr paganaidd Rhufain; llawer llai at Anghrist Daniaid dychymmygol yr ysgrifenwyr Pabaidd, *Armillus* yr Iuddewon, neu *Daggial* y Mahometaniaid. Gellir, yn wir, ystyried y grefydd Fahometanaidd fel Anghrist is-raddol a mwy anmhriodol; ond nid yw y rhan fwyaf o'r darlun, ychwaith, yn gymhwysiadol iddi hi. Nid yw hi yn eistedd yn yr eglwys, nac yn cynnwys unrhyw ymhoniadau o eiddo dynion i awdurdod gogyfwch â Duw; nid yw yn caniattau dim eilun-addoliaeth, nac yn hynod am erlid y saint; ac ni sefydlwyd hi ychwaith trwy au-ryfeddodau, ond trwy nerth y cleddyf.

Ond, amlwg yw, y gellir cymhwyso pob rhan o'r gwedd-nod uchod at y grefydd Babaidd. Yn yr oes apostolaidd, dechreuodd weithio yn swydd-ymgais a gau athrawiaethau yr apostolion celwyddog; o hyd yn yr oesoedd canlynol, gweithredodd fwy-fwy yn nghynnydd cyfeiliornadau a choel-grefydd; ac yn nhymher ymdderchafol y gwyr llên, yn benaf, esgobion Rhufain. Bu awdurdod parhaol yr amherawdwyr am hir amser yn attalfa i falchder yr esgobion Rhufeinig; ond pan y symmudwyd eisteddle yr amherodraeth i Gaer Cystenyn, yn nghylch A. D. 330; pan y llwyr ddadgyssylltwyd yr amherodraeth orllewinol gan y Barbariaid, A. D. 476; ac yn ddiweddaf, pan, yn A. D. 566, y diosgwyd Rhufain o'i phrif-swyddogion a'i senedd, gan yr amherawdwr Justin, ac y gwnaed hi yn ddarostyngedig i Raglyw Ravenna, yna cawsant gyflawn gyfcusdra i erlyn ar ol eu hanrhydedd a'u derchafiad yn egniol.

Cawsai saith ffurf o lywodraeth, sef, gan freninoedd, prif-swyddogion *(consuls)*, dengwyr *(decemvirs)*, noddwyr y cyffredin *(tribunes)*, prif-reolwyr *(dictators)*, amherawdwyr, Paganaidd a Christionogol, a chan freninoedd Gothaidd, eu cylch eisoes yn Rhufain; a chafodd yr amherodraeth ei dosparthu yn ddeg o benaduriaethau gwahanol. Yr oedd yr offeiriaid Cristionogol wedi pentyrru yn nghyd y derchafiaethau anysgrythyrol o esgobion arglwyddaidd, archesgobion, esgobion y Fameglwys, patrieirch, &c. y naill uwchlaw y llall. Yr oedd arnynt o hyd eisiau blaenor i'w huno yn nghyd yn un corph. Esgobion Rhufain, trwy annog dynion i gyfeirio am farn at eu brawdleoedd hwy, trwy gymmeryd arnynt fod gweithredoedd eu Cyngorfèydd o'u plaid, ac aneirif foddion dichellgar ereill, a ymdrechasant yn galed am yr oruchafiaeth; ac ni bu patrieirch Caer Cystenyn ychwaith yn segur. Gregori Fawr a lenwai esgobaeth Rhufain yn nghylch A. D. 600. Yn wrthwyneb i Ioan o Gaer Cystenyn, efe a ddywedodd yn hyf, fod pwy bynag a hònai hawl i arglwyddiaeth gyffredinol ar yr eglwys Gristionogol yn ddianmheuol yn rhagflaenor Anghrist, os nad Anghrist ei hun mewn gwirionedd. Yn y cyfamser, llafuriodd gyda ei holl egni i chwanegu gwageddau ffol coel-grefydd; lluaws pa rai, yn nghyd â'u cyfeiliornadau cydfynedol, yn awr a dywyllasent wyneb yr eglwys Gristionogol, ac, er mwyn caffael derchafiaeth, yn nghylch A. D. 606, neu 608, yr esgob Boniface y trydydd, trwy wenieithio wrth Phocas, amherawdwr Caer Cystenyn, un o'r bradwyr a'r llofruddion atgasaf, ac un o'r dyhirwyr mwyaf annynol a drygionus a anadlodd erioed, a gafodd iddo ei hun y cyfenw o *Esgob cyffredinol*. Yn ddiattreg anfonwyd rhaglawiad trwy yr eglwysi gorllewinol, i arwain y goel-grefydd newydd i mewn, a mynnu ymostyngiad i'r iau Rufeinaidd. Yr oedd y Rhaglawiaid hyn yn fynych yn dra anwybodus, ac yn gwbl analluog i weinidogaethu yn iaith y gwleddyd y deuent. Ond cafwyd meddyginiaeth: oddeutu A.D. 666. dywedir i'r Pab Vitalian ordeinio i bob addoliad crefyddol cyhoeddus gael ei gyflawni yn y *Lladinaeg*. Hyn ar unwaith a guddiodd anwybodaeth y rhaglawiaid, ac a nododd yr eglwysi âg ymostyngiad diymchwyl i Rufain.

Rhoddodd y Pabau eu gallu sanctaidd allan trwy ddwyn yn mlaen addoliad delwau, creiriau, saint, ac

angelion; trwy chwanegu at y goelgrefydd fiaenorol; trwy osod i fynu swyddau ac urddau newyddion o fonachod, nes oedd y teyrnasoedd yn ochain dan lwyth yr eglwyswyr lluosog a gorthrymus, y rhai, trwy foddion cyfrwys-ddrwg a diffaith, a briodolent iddynt eu hunain y rhan fwyaf o olud ac awdurdod y byd Cristionogol. Heb ymfoddloni ar yr awdurdod eglwysig, tynnodd y Pabau yr un gwladol hefyd i'w crafangau. Yn nghylch 750, neu 756, daethant yn dywysogion yr Ital, yn arglwyddi ar dair henaduriaeth dugiaeth Rhufain, rhaglawiaeth Ravenna, a thalaeth Pentapolis. Yn raddol aethant yn mlaen i hôni hawl i ornwch-awdurdod ar yr holl freniniaedd ac amherawdwyr trwy Gred; gan ddiorseddu amherawdwyr yr Almaen, breninoedd Ffrainc, Lloegr, &c. wrth eu hewyllys, a rhyddhau eu deiliaid oddi wrth eu hufudd-dod iddynt. Cymmerasant arnynt osod allan y gwledydd yn Asia, Affrica, ac America, i'r Portugiaid a'r Hispaenlaid a'u goresgynnasent. Estynasant eu hawdurdod hyd at yr angelion, gan orchymyn iddynt dywys i'r trigfanau nefol, y cyfryw eneidiau ymadawedig ag a welent hwy yn dda; a pheri i'r diafliaid adael y cyrph a feddiannasent. Cymmerasant iddynt eu hunain uwchafiaeth ymarferol dros y personau dwyfol eu hunain, trwy gymmeryd aruynt ffurfio a rhanu corph gogoneddus yr Iesu wrth eu hewyllys: trwy gyfnewid y cyfreithiau dwyfol; trwy anfon allan ysgrifau maddeuant am bechod; a thrwy ddiddymu rhwymedigaeth llwon, &c. Pa fath gablwyr beilchion, anwybodus, didduwiaid, hudolion, llofruddion, godinebwyr, ymlosgwyr, ac anudonwyr, a fu llawer o'r Pabau; a pha fodd yr oedd anwybodaeth, coel-grefydd, eilun-addoliaeth, a phob bai arall yn amlhau trwy eu gwaith hwy, sydd amlwg i bob un cydnabyddus â'u banes.

Yn y 10ed a'r 11eg ganrif, yr oedd pethau mewn cyflwr tra gresynus: y rhan fwyaf o'r Cristionogion Pabaidd oeddynt yn gyffelyb i anifeiliaid mewn hurtrwydd ac anwybodaeth; ac i uffernolion mewn annuwioldeb. Yn yr oes ganlynol, dechreuodd y ddysgeidiaeth athrofäol. Ei phrif dueddiad oedd i ŵyr-droi a thywyllu yr ysgrythyr, gwneuthur yr egwyddorion Cristionogol yn gwbl annealladwy, a chynnal i fynu y ffeidddra a arweiniasid i mewn y pryd hwnw. Er mwyn ei gwneuthur yn beth analluadwy i'r gwyr lleyg i ddadguddio cyfeiliornadau a gweithredoedd ysgeler y gwyr llên, gosodwyd allan eu gwaith yn darllain yr ysgrythyrau fel yn dra pheryglus, ac ordeiniwyd y byddai yn ddim llai nag anghyfreithlon. Er rhagflaenu pob grwgnach yn erbyn eu hymddygiad, gosodwyd chwil-lysoedd i fynu, trwy ba rai yr oedd y ddrwg-dybiaeth leiaf o wrth-grefydd, neu hyd yn nod y cyhuddiad mwyaf anwireddus, yn rhoddi lluoedd yn agored i'r perygl o gael attafaelu eu da, neu gerhariad, arteithiau, a marwolaeth.

Yn mhob rhan o'r oes Anghristaidd yr oedd gan Dduw ei dystion dros y gwirionedd; a dychrynllyd y cafodd y rhai hyn eu herlid a'u lladd gan y Pabyddion. Y Waldensiaid yn Piedmont a Ffrainc, yn y 12ed a'r 13eg ganrif; y Wickliffiaid yn Lloegr, yn yr 16eg; a'r Bohemiaid yn y 15ed, oeddynt y mwyaf hynod; a chafodd rhwng un a dau fyrddiwn, neu hwyrach ychwaneg, eu llofruddio o'r achos hwnw. Yn yr 16ed ganrif, cynhyrfodd annuwioldeb erchyll, hoccd a gorthrymder eglwys Rhufain, luaws aneirif o bobl i daflu eu biau ymaith. Diddymwyd awdurdod y Pab yn Mrydain, Sweden, Denmarc, yr Is-Almaen, ac mewn cryn lawer o daleithiau yn yr Almaen, a gwlad y Swiss. Lluoedd yn Ffrainc, Pwyl, Hungary, ac hyd yn nod yn yr Ital ac Hispaen, a lwyr argyhoeddwyd o dwyll Pabyddiaeth, ac a ymwrthodasant â hi. Trwy sefydliad o'u ffeidd-dra yn Nghyngor Trent, ond yn benaf trwy ryfeloedd ac erlidigaethau angeuol yn yr Almaen, yr Is-Diroedd, a Ffrainc; trwy laddfeydd echryslon yn Ffrainc ac Ywerddon; a thrwy erlidigaethau gwaedlyd yn Pwyl, Hungary, Lloegr, yr Alban, Savoy, &c. y mae goruchwylwyr y Pab wedi bod yn ceisio eu hennill hwy yn ol.

Rhai gwyr dysgedig ydynt wedi meddwl fod *lladdiad* cyffredinol Anghrist *o'r tystion* a'u marwolaeth am *dair blynedd a hanner*, wedi dygwydd eisoes. Y mae rhai pethau

cyffelyb yn wir wedi cymmeryd lle. Gwedi bod cyngor Constance oddeutu 1414, yn eistedd dair blynedd a hanner i'w dinystrio hwy, a sefydlu Pabyddiaeth, llwyddodd y Bohemiaid yn hynod. Ar ol bod achos y Protestaniaid am yn nghylch tair blynedd a hanner mewn cyflwr dinystriol, cyfododd Morris, yr hwn gynt a'u bradychasai, arfau i fynu o'u plaid, ac ad-ennillodd iddynt eu rhydd-did yn nghylch A. D. 1551. Ar ol oddeutu tair blynedd a hanner o erlidigaeth, y mae Protestaniaid Savoy, fwy nag unwaith, wedi cael esmwythder. Am dair blynedd a hanner yr ymddangosodd y grefydd Brotestanaidd bron wedi ei dinystrio yn Lloegr, tan y Frenines Mair; a thrachefn dan y brenin Iago II. o Brydain; ond yn niwedd hyny, ail-sefydlwyd hi gan Elizabeth, a'r brenin Gwilym; ac ni bu llawer dros dair blynedd a hanner o amser nes y dechreuodd esmwythid oddi wrth y galanastra hwn gael ei ganiattau i'r Protestaniaid yn Ffrainc ac Ywerddon. Ond dylid sylwi, fod yr holl laddfëydd hyn yn neilduol; ac nid yw teyrnasoedd y byd hwn etto wedi dyfod yn deyrnasoedd ein Hargiwydd ni, a'i Grist ef. Rhaid i ni gan hyny gredu fod y frwydr ddiweddaf a mwyaf llem-dost âg Anghrist etto yn ol.

Y mae amlhad presennol anwybodaeth, y diystyrrwch o'r ysgrythyrau, y cyfeiliornadau yn nghylch cyfiawnhad ac ewyllys rydd, yr ymlyniad wrth goeg rwysg yn addoliad Duw, yn nghyd a balchder, swydd-ymgais, cynnenau, a buchedd benrydd y Protestaniaid, yn ymddangos fel cynifer o gamrau hirion tuag at ddychweliad i Rufain.

Dychrynllyd y cafodd yr Anghristiau eu taro eisoes gan Dduw. Yn nghylch A. D. 713, y Saraceniaid, y rhai a gashaent y Pabyddion am eu heilun-addoliaeth, a ymdywalltasant i'r Hispaen, ac a'i gwnaethant hi bron yn ddiffaethwch. Aethant yn mlaen, gan anrheithio dehau-dir Ffrainc, nes i Siarls Martel dorri ymaith Abdilraeman eu tywysog, a 300,000 o'i wyr, yn A. D. 734. O 830 hyd 980, yr amrysonau rhwng eppil Siarls Fawr, amherawdwr yr Almaen, a brenin Ffrainc, a difrodiadau yr Hungariaid a'r Saraceniaid yn yr Ital, a barasent i'r gwleydd hyn ddylifo o waed. O 1090 hyd 1290, dyfethwyd lluoedd aneirif yn y rhyfel sanctaidd; yr hwn a gynhyrfodd y Pabyddion, er mwyn sefydlu eu hawddurdod eu hunain gartref, dywysogion Cred i'w wneuthur â'r Tyrciaid Seljuciaidd a'r Saraceniaid, er adfeddiannu Palestina. Nid oes bron deyrnas yn Europe ar nas dyoddefodd yn ddirfawr trwy yr ymgyrch gorphwyllog hwn. O 1200 hyd 1370, yr amrysonau rhwng y Guelffiaid a'r Gibelliniaid, neu blaid y Pab a'r amherawdwr, a orchuddiasant yr Ital a'r Almaen â gwaed. O 1370 hyd 1447, parodd ymraniad y Pabau ryfeloedd arswydus yn yr Hispaen, Ffrainc, yr Almaen, a'r Ital. Y Bohemiaid hefyd am hir amser, a faluriasant y Pabyddion yn ddychrynllyd. Rhwng 1486 a 1534, math o afiechyd chwyslyd, a chlefydau heintus ereill, a ddygasant fywydau aneirif ymaith yn Lloegr, yr Almaen, a Ffrainc. O 1370 hyd 1698, bu y Tyrciaid Ottomanaidd yn ffangell arswydus i'r Anghristau a gyfanedddent yn Hungary, Pwyl, y parthau o du y dwyrain i fôr Adria, ynysoedd Môr y Canoldir, yr Ital a'r Almaen.

Tybia y deallgar *Lowman*, *Doddridge*, *a Guise*, fod y drwg-ddamweiniau hyn yn cynnwys y pum phiol gyntaf o ddigofaint a ddarparwyd i Anghrist; ond yr ydym ni, yn hytrach, gyda *Newton* a *Gill* yn barnu eu bod oll etto i ddyfod, ac y dygwyddant yn ddiattreg ar ol lladdiad y TYSTION; er ein bod yn barod i ganiattau fod y pethau uchod ac ereill ynr hag-brofion o honynt. Tan y phiol gyntaf a dywelltir ar y *ddaear*, dysgwyliwn y bydd i anfethedigrwydd y Pab; awdurdod traddodiadau; yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy weithredoedd; a sylfaenau daearol a chnawdol ereill Pabyddiaeth gael eu dadymchwelyd; neu y bydd i awdurdod y Pab yn ngwledydd diarforol yr Almaen, Pwyl, a Hungary, er mawr warth a gofid iddo ef a'i gyfeillion, gael ei ddiddymu. Tan yr ail, a dywelltir ar y *mor*, dysgwyliwn y bydd i'r grefydd Babaidd ddwyn anair hynod ar ei hun, a'i hanian waedlyd a damniol gael ei dadguddio yn eglur, neu i arforwledydd Portugal, ac Hispaen gael eu blino gan newyn, haint, daear-

grynfäau, a'r cleddyf. Tan y drydedd, a dywelltir ar yr *afonydd*, tybiwn y bydd i noethder y dysgawdwyr Pabaidd, a'u hamddiffyniadau o Babyddiaeth, gael eu dangos ar gyhoedd yn ngolwg pawb, ac y dangosir fod eu penurddolion *(cardinals)*, eu hesgobion, a'u hoffeiriaid yn lleiddiaid eneidiau, a bod amryw o honynt wedi cael eu torri ymaith trwy farwolaethau disyfyd; neu y bydd i wleidydd dyfradwy y Swiss, Gogledd yr Ital, a Dehau-dir Ffrainc, lle y llofruddiwyd y Waldensiaid a saint ereill, gael eu dylifo â gwaed Anghrist. Tan y bedwaredd, a dywelltir ar yr *haul*, gobeithiwn y bydd i oleuni addysgiadol a gwres ysbrydol gwirionedd dwyfol, er gofid ofnadwy i'r Pabyddion, dynu ymaith Amherawdwr yr Almaen, neu Frenin Ffrainc, ac ereill a fuant yn hir yn ogoniant, ac yn gynhaliaeth iddynt, at y blaid Brotestanaidd; ac hwyrach dichon y bydd i'r haul naturiol gyda ei wres ddwyn rhyw bla tra dinystriol. Tan y bummed, a dywelltir ar *orseddfainc y bwystfil*, tybiwn, y bydd i drefn y deyrnas Babaidd gael ei chwilfriwio, ac y llenwir hi âg annhrefn a chymmysgedd; ac yr ymddengys holl gyfundraith Pabyddiaeth yn ffiaidd ddieflig; neu Rufain ei hun gael ei throi yn anialwch erchyll, yr hyn a achlysura boen, cabledd a gofid ofnadwy yn mhlith y Pabyddion; yn benaf y rhai a ymgyfoethogasent trwy ei choelgrefydd hi. Tan y chwechfed, a dywelltir ar yr afon fawr *Euphrates*, dysgwyliwn y diddymir Mahometaniaeth, ac y dechreua dychweliad y cenedloedd dwyreiniol; ac y derbynia y Pabyddion a'u cynnorthwywyr ddadymchweliad dychrynllyd yn mrwydr Armageddon, nes y bydd i ran fawr o'r wladwriaeth eglwysig yn yr Ital gael bron ei gorthoi â chelaneddau, yr afonydd eu chwyddo gan waed, y bwystfilod wedi tewychu trwy ymborthi ar gyrph meirw, a'r buddugoliaethwyr Protestanaidd wedi eu cyfoethogi ar yspail; a llawer, trwy hyny fel moddion, yn dychwelyd at yr Arglwydd. Tan y phiol ddiweddaf, a dywelltir i'r *awyr*, dysgwyliwn y bydd i weddillion yr athrawiaeth, addoliad, dysgyblaeth, a'r llywodraeth Babaidd, mynachlogydd ac uchel-swyddau, gael eu cwbl ddiddymu; ac y bydd i Babyddion cyndyn, y rhai a ffoisent i ynys Sicily, Malta, &c. gael eu torri ymaith gan ddialedd Duw, Dad. xvi.

Bydd y brenifioedd a'r tywysogion y rhai a ymostyngasent am hir amser i'r iau Babaidd, trwy dynu eu hufudd-dod a'u hardreth yn ol, a thrwy wrthwynebiad bywiog, yn gynnorthwyon mawrion tuag at ddinystrio Anghrist. Barnwn y bydd i'r pläau hyn gymmeryd lle yn niwedd y 1260 mlynedd o deyrnasiad Anghrist; ac y parhant hyd y 1290. Ie, bydd yn y 1335 flwyddyn er ei gyfodiad, cyn y sefydlir yr eglwys yn gyflawn yn ei chyfiwr Mil-blyneddol, Dan. xii. 11, 12. Os, gyda y ddau *Newton* enwog a *Lowman*, y bydd i ni amseru cyfodiad Anghrist, pan y daeth y Pab yn dywysog gwladol, yn A.D. 750, neu 756, cyd-dery y flwyddyn 1335 âg A.D. 2085, neu 2091. Yr wyf fi yn hytrach yn gogwyddo i amseru cyfodiad Anghrist pan yr honodd hawl i benaduriaeth cyffredinol dros yr eglwys Gristionogol, yn A.D. 606, neu 608; o herwydd yn hyny, meddyliaf, y mae ei wedd-nod o *Anghrist* yn benaf yn gynnwysedig; ac yna y 1335 a gyduna âg A.D. 1941, neu 1943.

ANGHYDFOD, *(an-cyd-bod)* amryson, amrafael. "Craffu ar y rhai sydd yn peri *anghydfod*," Rhuf. xvi. 17, Y mae rhai yn yr eglwys, yn mhob oes, yn peri pleidiau, ac ymraniadau, er mwyn eu helw a'u parch eu hunain, trwy ddwyn i mewn athrawiaethau gau, yn wrthwyneb i athrawiaeth iachus. Y pethau hyn a arwyddant diffyg cariad, a llawer o gnawdolrwydd; y mae gwir dduwioldeb yn heddychol, yn foneddigaidd, ac yn hawdd ei thrin. Cyngor yr apostol yw, *cilio oddi wrthynt*, 1 Cor. iii. 3. Gal. v. 20.

ANGHYFANNEDD—OL, *(an-cyd-annedd)* heb drigiannydd. "Wele yr ydys yn gadael eich tŷ i chwi yn *anghyfannedd*," Mat. xxiii. 38. I'r dyben o fod yn breswylfod i Dduw yr adeiladwyd y deml; pan ymadawodd Duw â hi, aeth yn anghyfannedd, heb drigiannydd. Gogoniant yr Arglwydd, am yr hwn y mynegasai y prophwyd Haggai y llenwai efe yr ail dŷ, oedd yn ymadael. Yr oedd y deml, yn awr, yn dŷ iddynt *hwy*, ac nid tŷ i Dduw.

Yr oedd ein Harglwydd yn dywedyd hyn, wrth fyned allan o honi am y tro diweddaf. Gwedi ei gadael gan Dduw a'i Grist ef, yr oedd wedi derbyn y goll-farn i ddinystr hollol; a llnoedd y Rhufeiniaid a'i gwnaethant, yn fuan wedi hyny, yn anialwch disathr, Jer. xii. 7, a xxii. 5. "Ffieidd-dra *anghyfanneddol*," Mat. xxiv. 15. Yr oedd byddin y Rhufeiniaid yn ffieidd-dra i'r Iuddewon, am eu bod yn baganiaid, ac yn dwyn banieri, a'r rhai yr oedd amryw luniau a delwau. Arwydd y Rhufeiniaid oedd yr eryr, am eu bod yn cyfrif yr aderyn hwnw yn gyssegredig i Jupiter, tad yr holl dduwiau cenhedlig. Anghyfreithlon oedd i'r Iuddewon arfer un math o ddelw, nac o ddyn, nac o un creadur arall, am hyny pan y ceisiodd Herod osod eryr euraidd fel arwydd yr amherawdwr, uwchben porth y deml, bu cythrwfl mawr yn mhlith yr Iuddewon, canys yr oeddynt yn golygu hyny fel arwydd o ymddarostyngiad, yn gystal a throsedd yn erbyn y gorchymyn. Pan yr ynnillwyd y ddinas, y Rhufeiniaid a ddygasant eu banieri i'r deml, ac a'u gosodasant gyferbyn a pborth y dwyrain, ac a offrymasant eu haberthau iddynt yno. Yn dra chymhwys, gan hyny, y gelwir hwy yn ffieidd-dra *anghyfanneddol*, neu *anrheithiol*.

ANGHYFANNEDDFA, man anghyfannedd. "Cyfodant yr *anghyfanneddfa* gynt," Esa. lxi. 4. Cynnwys y geiriau addewid neilltuol am adferiad yr eglwys ar ol hir ddirywiad. Pan yr oedd dwfn anghyfannedd-dra wedi ei daenu dros y byd gan bechod, anwybodaeth, ac eilunaddoliaeth, rhyngodd bodd i Dduw anfon ei Fab, a thrwy ei weinidogaeth ef, a'r rhai a ordeiniodd, gyfodi i fynu eglwys ogoneddus yn nghanol byd anial: ac yn mhob enaid a adgenhedlwyd trwy ras, y mae gweddillion y llygredd yn cael eu gwanhau hefyd, a'r galon ei hadnewyddu fel yn deml santaidd, yn breswylfod i Dduw trwy yr ysbryd.

ANGHYFARWYDD, (*an-cyfarwydd*) anfedrus. "Pa wedd y dywed yr hwn sydd yn cyflawni lle yr *anghyfarwydd*, Amen," 1 Cor. xiv. 16. Wrth yr *anghyfarwydd*, y deallir dyn cyffredin, heb fod mewn un swydd, mewn cyferbyniad i ddyn o ddysg, neu awdurdod. Arwydda geiriau yr apostol, ei fod yn arferiad yn y brif eglwys o'r dechreuad, fod y bobl, yn ol yr hen ddull yn y synagogau, yn rhoddi eu Hamen yn niwedd y gweddiau, er dangos eu cydsyniad a'u cadarnhad o honynt. O'r arferiad hwn yn mhlith yr Iuddewon y mae genym lawer o esamplau. Gwel Deut. xxvii. 15. Neh. viii. 6. 1 Cron. xvi. 36. *Dr. Heylyn* a ddarllain y geiriau, "Pa fodd y gall gwrandawr, yr hwn nid yw yn deall ond ei iaith ei hun yn unig, ddywedyd Amen," &c. "Os ydwvf hefyd yn *anghyfarwydd* ar ymadrodd, etto nid wyf felly mewn gwybodaeth," 2 Cor. xi. 6. Sylwyd uchod fod y gair *anghyfarwydd* yn fynych yn arwyddocau *dyn cyffredin*; un na all lefaru yn well na'r cyffredinolrwydd o'i gymmydogion, heb ei ffurfio yn ol rheolau areithyddiaeth. Ond pa un ai bod yr ystyr hwn yn gymhwysiadol i St. Paul, barned y rhai hyny sydd yn alluog i gymharu ei iaith ef â'r ysgrifenwyr goreu yn mhlith y Groegiaid: barnent hwy hefyd, y rhai a wresogir â thynerwch ac ardderchogrwydd ei syniadau ef. Dywedyd mai hyn oedd ei feddwl, wedi y fath gymhariaeth, a ymddangosai yn neilltuol wrthun; ond ei gymhwyso at attal naturiol yn ei leferydd, sydd gysson â thynerwch, ardderchogrwydd, a chymhwysder ei iaith ef; a'r unig ystyr yw, yr wyf vn coelio, ag y gellir ei ddeall gydag un gradd o briodoldeb.

ANGHYFIAITH, (*an-cyfiqith*) iaith ddyeithr. "Pan aeth tŷ Jacob oddi wrth bobl *anghyfiaith*." Salm cxiv. 1. Bernir fod y gair *anghyfiaith* yn arwyddo, yn hytrach, ymddygiad estronol, creulawn, yr Aipht-iaid at bobl Israel, na dyeithrwch eu hiaith. Duw a ddygodd Israel o'r Aipht; ac aethant allan gyda gorfoledd, cyfoeth, ac anrhydedd mawr. Fel hyn y dug Duw ei blant o'r Aipht ysbrydol, ac a'u geilw o'r wlad ddyeithr hon, y byd, i gyduno â'r rhai a lefarant groyw-iaith Canaan. Y mae rhyfeddodau y dyddiau gynt yn haeddu eu cadw mewn tragywyddol goffawdriaeth, fel y byddo i Dduw gael ei ogoneddu am danynt, a ninau ein hannog i obeithio yn barhaus yn ei drugaredd.

ANGHYFIAWNDER, *(an-cyfiawn)* cam, yr hyn sydd wrthwyneb i uniondeb. Anghyfiawnder yw naill ai (1.) yr hyn sydd wrthwyneb i gyfraith Duw yn gyffredinol, 1 Cor. vi. 9. 1 Ioan i. 9; neu (2.) yr hyn sydd wrthwyneb i'r ddyledswydd sydd arnom tuag at dduon, Rhuf. i. 18; neu (3.) yr hyn sydd dwyllodrus, anwireddus, a chyfeiliornus, ac yn anghyfiawn yn tueddu i gam-arwain dynion, Ioan vii. 18. *Anghyfiawnion* ydynt (1.) y cyfryw ag sydd yn gwneud cam â'u cymmydogion, megys y gwnaeth gwrthwynebwyr Dafydd, dan Saul neu Absalom, iddo ef, Salm xliii. 1; neu (2.) pechaduriaid yn gyffredinol, y rhai sydd yn gwneud cam â Duw am ei wasanaeth a'i anrhydedd dyledus, ac yn ei olwg ef yn gwneuthur cam mawr â'u cymmydogion, 1 Petr iii. 8.

Y mae pob pechod yn *anghyfiawnder.* Gan nad yw y gyfraith yn gorchymyn dim ond sydd gyfiawn, y mae pob anghydffurfiad â'r gyfraith gyfiawn hon yn anghyfiawnder; nid ydym yn rhoddi y peth y mae hi, yn *gyfiawn,* yn ei ofyn. Peth cyfiawn yw i ni garu Duw â'n holl galon; am hyny, anghyfiawnder yw palldod yn y cariad perffaith hwn, yn mhob gradd o hono, ac yn mhob dull o addoliad, ufudd-dod, a pharch rhwymedig arnom i ddangos y cariad hwn trwyddo. Peth cyfiawn yw i ni garu ein cymmydog fel ni ein hunain; y mae pob agwedd arnom, tuag at ein gilydd, tu yma i hyny, yn anghyfiawnder. Y mae dyn yn wreiddiol yn anghyfiawn, trwy y cwymp. Colledd y cyfiawnder gwreiddiol oedd ganddo cyn y cwymp. Mae yr anghyfiawnder gwreiddiol hwn yn ymddangos yn ei ffrwythau; ac yn torri allan yn weithredol, fel y byddo cyfleusdra yn rhoddi lle, ac yn annog i hyny. "Ffiaidd gan yr Arglwydd Dduw bawb a'r a wnêl *anghyfiawnder.* Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder; ac ni chaiff y rhai *anghyfiawn* etifeddu teyrnas Dduw," Deut. xxv. 16. Jer. xxii. 13. Salm xi. 7. 1 Cor. vi. 9. Rhaid, gan hyny, i'r anghyfiawn gael "eu golchi, eu sancteiddio, a'u cyfiawnhau, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy ysbryd ein Duw ni," neu fod allan o deyrnas Dduw, adn. 10. Jer. xxii. 3. Deut. xvi. 20. Mat. vii. 12. Rhnf. xiii. 7.

ANGHYFRAITH-EITHLAWN, *(an-cyfraith)* anneddfol, afreoladd. "Canys *anghyfraith* yw pechod." 1 Ioan iii. 4. Y mae trosseddiad o gyfraith sanctaidd, gyfiawn, a da Duw, a gosodiad o'i awdurdod yn ddim, yn gynnwysedig hyd yn nod yn natur pechod. Pob peth mewn dyn o ran ei feddyliau, geiriau, a gweithredoedd, a'r nad yw yn berffaith gydun â chyfraith sanctaidd Duw, sydd *anghyfraith,* ac felly yn bechod. "Canys y cyfiawn hwnw, ydoedd yn poeni ei enaid cyfiawn, trwy eu *hanghyfreithlon* weithredoedd hwynt." 2 Petr ii. 8. Mae y gair gwreiddiol a gyfieithir *poeni* yn arwyddo poenedigaeth yr artaith-glwyd *(rack).* Arferir ef yma er gosod allan mewn modd cryf alar annrhaethadwy a phoen meddwl y cyflawn wrth weled pechod yn rhwysgfawr ar led yn yr amser a'r lleoedd y maent yn byw ynddynt, yn enwedigol anlladrwydd dynion drwg, eu hannuwioldeb cyhoeddus, a'u llid yn erbyn y cyfiawn. Mae *Grotius* yn sylwi, yn ol i Lot ymadael âg Abraham, iddo fyw un mlynedd ar bymtheg yn Sodoma; amser hir i drigo yn y ddinas fwyaf ddrygionus yn y byd, ac heb gael ei lygru gan eu pechodau.

ANGHYMHARUS, *(an-cyd-pâr)* anghydweddol, yr hyn nis gellir ei gymharu. Y mae aredig âg ych ac asyn yn nghyd, yn yr un iau, yn ieuo yn anghymharus. Yr oedd hyn yn waharddedig dan gyfraith Moses, Deut. xxii. 10. Lef. xix. 19. Nid oeddynt o'r un rhyw, ac am hyny, yn anghymharus: hefyd, yr oedd un yn lân a'r llall yn afian. At hyn y cyfeiria yr apostol yn ei orchymyn i'r credinwyr yn Corinth; "Na iauer chwi yn *anghymharus* gyda'r rhai digred." 2 Cor. vi. 14. Na fyddwch gymdeithion mewn priodas, mewn addoliad, nac mewn un peth âg anghrediniwyr. Gan nad yw y geiriau yn nodu allan *un math* o gydieuo yn fwy neilldiol na'u gilydd, amlwg yw ei fod yn gwaharddd *pob math* o ieuo gyda'r digred. Y mae y rhesymau a ddygir yn mlaen ganddo yn sefyll yn gyfartal yn erbyn unrhyw gyfeillach afreidiol gyda hwynt. Ond yn enwedig, ac yn fwyaf

neillduol, cyd-ieuo mewn priodas; gan mai hyny yw yr ieuo mwyaf agos a ddichon fod rhwng neb a'u gilydd yn ol trefn natur. Y mae y cyd-ieuo hwn yn erchyll bechadurus ynddo ei hun, pa fath bynag a fyddo y ffrwythau, gan ei fod yn drosedd o orchymyn neillduol, a hyny nid trwy brofedigaeth ddiysmmwth, ond gyda dewisiad rhagfwriadol. Nis galiant dystio yn fwy eglur i bawb, mai bywyd o annuwiolderb yw eu dewisiad, na thrwy ddewis priod annuwiol i dreulio dyddiau eu bywyd gydag ef.

ANGHYMMEDROL—DEB, (*an-cyd-meidr*, mesur) gormodol, anghymmesur. Dywed yr Arglwydd am yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, eu bod, er eu holl ymddangosiad crefyddol yn allanol, yn dufewnol "yn llawn o drawsder ac *anghymmedroldeb*." Mat. xxiii. 25. Mae y gair Groeg yn arwyddo, diffyg nerth mewn dyn i lywodraethu ei hun, ac i attal ei flys a'i chwant anghymmesur ac anwesol. Y mae y sen yn ddeublyg, os y cymmerir anghymmedroldeb yn yr ystyr cyffredin. Yr oedd y dynion truenus hyn yn mynu yn anghyfiawn yr hyn oeddynt yn ei dreulio mewn anghymmedroldeb. Y mae trawsder ac anghymmedroldeb, yn gyffredinol, yn cyd-fyned â'u gilydd. Nid rhyfedd fod byrddau a lwythid fel hyn yn dyfod yn fagl, megys y mae llawer yn teimlo hyny trwy brofiad blin. Yn y modd hwn y mae glythni yn cospi twyll, gan ei fod yn porthi afiechyd â ffrwythau anghyfiawnder. Ond y mae anghymmedroldeb yn yr ystyr helaethaf yn cynnwys ynddo, nid yn unig bob math o anghymmedroldeb allanol, yn neillduol mewn bwytta ac yfed. Ond mae pob chwennychiad llygredig ac anghymmedrol, pa un bynag ai am dderchafiad, ennill, neu bleserau cnawdol, yn groes i anian yr efengyl. A phan y byddo un yn gwisgo gorchudd o grefydd dros y fheidd-dra hwn, y mae cyfiwr y dyn hwnw yn agos i felldith, Heb vi. 7, 8.

ANGHYMMERADWY, (*an-cymmer*) annerbyniol, gwrthodedig. Yn mhlith mettelyddion, arwydda yr hyn nis gall oddef ei brofi, heb ymddangos yn sothachlyd, neu o gymmysgedd garw. Felly dywedir fod dynion drygionus yn *arian gwrthodedig* neu anghymmeradwy; nid ydynt wedi eu puro, na'u coethi, ac ni dderbynir hwy yn gymmeradwy yn ol prawf-faen cyfraith Duw. Jer. vi. 30. Pan arferir y gair mewn perthynas i ymdrechfeydd a rhedfaoedd, arwydda yr un sydd yn aflwyddo, neu yn colli y gamp-dlws. "Rhag i mi mewn un modd, fod fy hun yn *anghymmeradwy*;" rhag fy nghael i yn dwyllwr rhagrithiol, yn un amddifad o wir ras, yn un na wobrwya Duw byth mo hono fel rhedegwr yr yrfa Gristionogol, neu fel ymladdwr buddugoliaethus yn *ymdrech deg y ffydd*. Mae'r apostol yn cyfeirio, tebygol, at drefniadau y Groegiaid, yn eu campau gorchestol. Yn nechreu y chwarëyddiaethau, byddai crïwr yn cyhoeddi enwau yr ymdrechwyr. Gwedi cyhoeddi eu henwau, ymddangosent eu hunain, a chaent eu holi, "a oeddent yn Roegwyr, yn bobl ryddion, ac o enw difefl?" Gwedi hyny, rhoddai y crïwr ei law ar ben yr ymdrechwr, ac a'i harweiniai ar hyd y chwareule, ac a ofynai i'r golygwyr a oedd gan neb ddim i'w roddi yn ei erbyn? A ydyw ef yn lleidr, yn gaethwas, neu o foesau a bywyd halogedig? Byddai holiad drachefn arno wedi iddo ennill y gamp, gan y barnwyr, y rhai oeddynt i'w goroni, A oedd efe wedi ymdrechu yn gyfreithlawn ac yn rheoliaidd, wrth gyfreithiau yr ymdrechfa. Os caid ei fod wedi pallu neu ŵyro yn y mesur lleiaf oddi wrth y rheolau, byddai yn *anghymmeradwy* ac yn wrthodedig: ni choronid ef. 1 Cor. ix. 27. *Meddwl anghymmeradwy*, yw un wedi ymgaledu mewn drygioni, ac na ddichon wahaniaethu rhwng da a drwg. Gan nad oedd gymmeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth, rhoddodd Duw hwynt i fynu i'r farn ofnadwy hon. Rhuf. i. 28. Y mae dynion yn *anghymmeradwy* o ran y ffydd, pan y byddant yn gwrthgilio oddi wrth athrawiaethau Crist, ac yn ymroddi i'r cyfeiliornadau erchyllaf. Nid hir y cyd-saif gwir athrawiaeth iachus â meddwl llygredig: naill ai fe bura yr athrawiaeth y galon, neu gwrthodir hi gan y galon lygredig. 2 Tim. iii. 8. Y maent at *bob gweithred dda yn anghymmeradwy*, pan y

byddant yn gwbl analluog a gwrthnebus i'w cyflawni hwy eu hunain, ac i ereill chwaith sydd yn eu cyflawni, Tit. i. 16.

ANGOR, offeryn digon adnabyddus, a thra angenrheidiol i forwyr i sicrhau neu attal hynt llong ar y môr. Yr angorau henaf a wnaed o gerrig mawrion: y fath hwn oedd angorau yr Argonautiaid, y rhai a wnaethant for-daith i fynu i'r *Hellespont*, yn nghylch amser Asa. Gwedi hyny, gwnaed hwy o goed, â phwysau mawrion o biwm, neu fasgedau llawnion o gerrig, wrth un pen iddynt: a'r cyfryw hyd heddyw ydynt angorau y Japaniaid. Yr angor â dau ddant neu adfach iddo a ddyfeisiwyd gan Eupalamius, neu Anacharsis, athronydd o Scythia, cyn pen hir wedi dychweliad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon. Mewn llestri mawrion byddai ganddynt dri neu bedwar angor; un o honynt na ddefnyddid byth ond mewn achosion o'r angenrheidrwydd mwyaf, oedd yn cael ei alw yr *angor sanctaidd*, ac yn awr a elwir y *prif-angor (sheet-anchor)*. Yr oedd yr angorau yn cael eu bwrw gynt o'r llyw neu ben ol y llong. Act. xxvii. 29. Yr angor diweddar sydd ddarn mawr o haiarn, ar lun bach, fel, ar ba ochr bynag y syrth, y bydd iddo afaelu yn y graig neu y ddaear: sicrheir hwn wrth drawst mawr o bren, yr hwn, gyda rhaff gref, a rwymir wrth ben blaen y llong. Gobaith yw *angor* yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen; pan y mae ein sylw yn cael ei dynu at y sail sicr ar ba un y mae gobaith yr efengyl yn sefyll, y mae yn effeithiol yn diogelu ein henaid rhag cael ei dafiu yn ol ac yn mlaen yn nghanol temhestloedd o drallodion, ac yn ei gadw yn ddiymmod mewn nosweithiau tywyll o brofedigaethau ac enciliad; neu Iesu yr hwn trwy ei escyniad sydd yn ddifeth yn sicrhau diogelwch a dedwyddwch ei bobl, Os na phalla yr addewid, ac os na fetha gafael ffydd ynddi, y mae gobaith yn ddiogel ac yn sier. 1 Cor. xv. 20. Rhuf. viii. 25.

ANHARDD—WCH, *(an-hardd)* anmhrydferth. "Gwyn ei fyd, gan hyny, yr hwn sydd yn gwylio ac yn cadw ei ddillad, fel na rodio yn noeth, ac iddynt weled ei *anharddwch ef*," Dad. xvi. 15. Rhodio yn noeth o ras yr Ysbryd Glân, a ffrwythau ffydd, yw rhodio mewn anharddwch mawr. Y mae gras a thymher sanctaidd, ysbrydol, fel gwisg ddilwgr, yn hardd ac yn olygus; ond y mae y diffyg o honynt yn noethder, a llygredigaethau yn frynti ac yn anharddwch. "Y mae ein haelodau *anhardd* yn cael ychwaneg o harddwch," 1 Cor. xii. 23. Ymddengys fel pe dywedasai, 'yr wyneb, ar yr hwn y mae delw Duw wedi ei hargraffu yn neillduol, ni a adawn yn noeth; ond am y rhanau ereill y mae gweddeidddra ac arfer yn ein dysgu i'w cuddio, yr ydym yn trefnu nid yn unig i'w cuddio, ond hefyd, mor belled ag y gallom yn gyfleus, i'w haddurno.' Y mae yr aelodau gwanaf yn angenrheidiol; a'r aelodau anhardd yn y corph naturiol yn cael ychwaneg o harddwch; felly hefyd, y gweddai fod yn nghorph Crist, sef ei eglwys; a bod i'r aelodau ofalu yr un peth dros eu gilydd.

ANHAWDD, *(an-hawdd)* caled, peth na ellir ei wneuthur heb lawer o ymdrech. Nid oes dim yn *anhawdd* i Dduw ei ddeall, ei drefnu, na'i wneuthur; ond pob peth sydd alluol a *hawdd* gyda Duw. Y mae anhawsdra yn arwyddo anmherfeithrwydd a gwendid yn y naill beth i gyfarfod â mawredd neu bwysau mewn peth arall; ond y mae pob peth mewn cyd-radd o fychanrwydd mewn cymhariaeth iddo. Nid ydyw y naill beth yn fwy anhawdd na'r llall i allu diderfyn: nid yw crëu a chynnal miloedd o fydoedd o greaduriaid, ond yr un mor hawdd â chrëu a chynnal un creadur. Gen. xviii. 14. Jer. xxxii. 27. "Mor *anhawdd* yr â y goludog i mewn i deyrnas nefoedd." Mat. xix. 23. Marc x. 24. Luc xviii. 24. Y mae ymuniad cryf iawn rhwng calon dyn daearol â golud. Mae y cyfryw yn ddall ysbrydol; nid ydyw yn gweled gwagedd y byd, gogoniant Duw, na'r perygl y mae ei enaid ynddo; am hyny, y mae yn ymadael â Christ, fel y gwr ieuanc hwnw, ac yn rhoddi y blaen i'r byd. Cofied y Cristion goludog, er nad yw Crist yn galw arno i werthu ei feddiannau a'u rhoddi i'r tlodion, fod dyledswydd arbennig arno i gyfrannu yn hael o'i dda bydol at gynnal achos Duw, a

dangos cariad a thosturi at ei gydgreaduriaid anghenus, ac yn enwedig, y rhai sydd o deulu y ffydd, canys os câr neb y byd, nid yw cariad y Tad yn aros ynddo ef.

ANHUDDO, *(an-hudd)* dynoethi, egluro. "Er iddynt ei *anhuddo* ef mewn dillad." 1 Bren. i. 1. Y mae yn amlwg mai *amhuddo* a ddylai y gair fod yn y lle hwn, ac nid *anhuddo*. Y mae *am* mewn cyfansoddiad yn arwyddo yn nghylch, amgylch; ac *an*, fel rhag-ddodiad, âg ystyr naccâol iddo. Felly yma, *anhuddo* yw dinoethi; ond *amhuddo* a arwydda rhoddi am, gorchuddio.

ANHUN—EDD, *(an-hun)* effröad. "Mewn *anhunedd* yn fynych," 2 Cor. xi.27. Yn Troas, pregethodd o hyd y nos hyd dorriad y dydd. Byddai weithiau yn gweithio nos a dydd, tuag at ei gynnaliaeth, fel na phwysai ar neb. Byddai hefyd mewn gwyliadwriaethau, ac mewn ymprydiau yn aml. 2 Cor. vi. 5. Y fath syniad a rydd yr adnod hon i ni am ffyddlondeb a zêl yr apostol! Mor anhawdd oedd i ddyn a ddygwyd i fynu yn ddysgedig a boneddigaidd, fel ag yr oedd St. Paul, i ddyoddef y fath doster, a myned o amgylch fel crwydryn yn nëwynog, ac yn mron noeth; etto yn dyfod i wyddfod gwyr o sefyllfaoedd uchel mewn bywyd, ac yn llefaru mewn cynulleidfaoedd lluosog ac amrywiol, ar bethau o'r pwys mwyaf. Dyma fywyd apostol mawr y Cenedloedd, a gwas Iesu Grist! Nid elw, ond y swydd, a'r gwaith perthynol iddi, oedd ei orfoledd a'i ymgais penaf.

ANHYDYN, *(an-hy-tyn)* cyndyn, ystyfnig. "Rhoddasant ysgwydd *anhydyn*." Zech. vii. 11. Ymadrodd cyffelybiaethol yw, oddi wrth anifel yn gwrthod cymmeryd yr iau arno, ond yn tynu yn ol ei ysgwydd, ac yn cilio yn anhywaith; ac a arwydda anufudd-dod mawr, a gwrthodiad o Dduw a'i orchymynion, o dra serch at eu pechodau.

ANHYFRYD, *(an-hyfryd)* blin, annymunol. "Ni welir un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, eithr yn *anhyfryd*." Heb. xii. 11. Er, ar y cyntaf, fod pob cerydd, pa un bynag ai oddi wrth ein daearol, ai ein nefol Dad, ynddo ei hun yn achos o alar, ac nid o lawenydd; etto, wedi hyny mae yn dwyn llonyddwch meddwl, a'r fath dawelwch tufewnol, trwy gynnydd sancteiddrwydd a daioni, ag sydd yn gwneud i fynu yn llawn am y galar a deimlir ar y cyntaf gan y rhai sydd wedi eu *cynnefino âg ef*; nid yn unig wedi eu *ceryddu*, ond eu haddysgu, a'u hadeiladu; gan roddi eu hunain i chwilio allan y gwersi priodol, ag mae goruchwyliaethau blinderus wedi cael eu hamcanu i'w dysgu. Y mae yn rhaid i'r cerydd fod yn *anhyfryd*, ac onidê, paid a bod yn gerydd, a byddwn yn amddifaid o'r ffrwyth heddychol.

ANHYGOEL, *(an-hygoel)* anghredadwy. "Gwelsom bethau *anhygoel* heddyw," Luc v. 26. Mae y gair *anhygoel* yn atteb yn agos iawn i'r gair Groeg, ac yn arwyddo pethau *anhawdd i'w credu*, ac uwchlaw ein crediniaeth, oni bai fod ein llygaid a'n clustiau yn dystion o honynt; sef gwneuthür gwyrthiau a maddeu pechodau. Geiriau dynion ydynt, wedi eu llenwi â syndod gan y rhyfeddodau anghyffredin a welsent; ac y buasai yn anhawdd credu tystiolaeth neb am danyut, oni buasai eu bod yn eu gweled, Luc vii. 16.

ANHYGYRCH, *(an-hygyrch)* anhawdd cyrchu. *Llwybrau anhygyrch*, yw llwybrau anhawdd myned ar hyd-ddynt. "Y llwybrau a aethant yn *anhygyrch*, a'r fforddolion a gerddasant lwybrau ceimion," Barn. v. 6. Y mae y brophwydes Deborah yn rhoddi yn yr adnodau hyn ddarluniad o druenus gyflwr yr Israeliaid, tra y parhaodd y caethiwed, o'r hwn, trwy gymhorth Duw, y gwaredodd hi hwynt. Y mae yn hawdd iawn i droi o'r ffyrdd yn ngwleddyd y Dwyrain, ac i fyned i ryw le, trwy droi yma ac accw ar draws caeau, os y meddylir hyny yn fwy diogel. Mae *Dr. Shaw* yn sylwi ar hyn, ac yn dywedyd, nad oedd yn Barbary un math o wrychoedd na chloddiau i'w hafrwyddo neu i'w rhwystro ychwaith. Y mae yn ddiammau mai at hyn y cyfeiria Deborah.

ANHYNOD, *(an-hynod)* aneglur. "Sain *anhynod*," sef, sain anamlwg, nas gwyddir i ba ddyben y rhoddir hi. Mae y cyfryw sain yn hollol ddiddefnydd; nid yw yn cynhyrfu neb i barottoi i ryfel. Felly y mae llefaru yn yr eglwys wrth ddynion, mewn ymadrodd anneallus, yn gwbl annefnyddiol. Os na wybyddir

y peth a lefarir, nid ydyw ond llefaru wrth yr awyr, 1 Cor. xiv. 8. Dyben llefaru yw bod yn ddealladwy: os na bydd un yn ddealladwy, nis geill fod yn ddefnyddioi yn yr hyn y mae yn ei lefaru.

ANHYSBYS, *(an-hysbys)* ansier, anamlwg. "A myñ yn *anhysbys* i ymofyn am hyn," Act. xxv. 20, neu, yn agosach at ystyr y gair Groeg, a mi yn *petruso*, neu mewn *cyfyng gyngor*, fel y cyfeithir yr un gair yn 2 Cor. iv. 8. Mae y gair yn arwyddo fod Ffestus yn ymofyngar, ac yn ewyllysio penderfynu yn gyflawn, ond ei fod mewn anmheuaeth a chyfyng gyngor am yr achos ger ei fron.

ANHYWAITH, *(an-hywaith)* anhydrin, afrywiog, cyndyn. "Fel anner *anhywaith* yr anhywaithodd Israel," Hos. iv. 16. Y mae y geiriau yn gosod allan afreolaeth, cyndynrwydd, a gwrthryfelgarwch Israel, yn erbyn yr Arglwydd, a'i ddeddfau sanctaidd. Er bod yr iau yn esmwyth, yr oeddent hwy, o herwydd eu cyndynrwydd a'u calon-galedwch, yn afrywiog ac yn anesmwyth dani. Er eu ceryddu am eu beiau, nid oedd hyny yn eu dofi ac yn eu plygu; ond yr oeddynt yn gwrthod yr iau, ac yn gwingo yn erbyn y wialen, Deut. xxi. 18. a xxxii. 15. Zech. vii. 11. Jer. vii. 24. "Ar ein gwared ni oddi wrth ddynion *anhywaith*," 2 Thes. iii. 2. Yn ol y Groeg, *allan o'u lle*, neu heb *un lle*. Dynion ffol, afrywiog, ac afresymol; rhai ydynt heb gyflawni un lle er defnyddioldeb.

ANIALWCH, *(an-ial,* tir agored) lle anniwylliedig ac heb ei lafurio. Yr oedd yr Hebreaid yn galw lleoedd yn *anialwch*, pan y byddai y dinasoedd neu y trefydd yn mhellach y naill oddi wrth y llall ynddynt, yn gystal a lle na byddai dim trefydd oll. Yr *anial-leoedd* mwyaf hynod y darllenwn am danynt yn yr ysgrythyr, ydynt yn yr Aipht; o du y dwyrain-ogledd i'r wlad hono, Ezec. xx. 36.; *anialwch* Etham, o du y gorllewin i'r Môr Coch; *anialwch Sur, Sin*, a *Sinai*, o du y dwyrain i gilfach orllewinol y Môr Coch; *anialwch Paran*, o du y gogledd i'r un o'r blaen, ac anialwch Sin, yn y pen dwyreiniol iddo. Ysgatfydd mai yr un ydyw *anialwch Edom*, ag un Paran neu Zin; neu, yn hytrach, un wrth y pen deheuol i'r Môr Marw. *Anialwch Cades*, a allai fod y parth gogleddol o anialwch Paran. *Anialwch Moab*, Arnon, a Cedemoth, a allent fod yr un, yn agos i darddiad yr afon Arnon. *Anialwch Tadmor*, a orweddai o du y dwyrain-ogledd i wlad Canaan. *Anialwch* Judah, Ziph, Jesamon, a Maon, a orweddent o du y gorllewin i'r Môr Marw. Y *diffeithwch* lle y temtiwyd yr Iesu, oedd, tebygol, fynydd-oedd Quarantana, o du y dwyrain i Jerusalem, y rhai sydd nawr yn ymddangos yn dra gerwin ac anolygus; neu hwnw gerllaw Pisga, o du y dwyrain i'r Iorddonen. Yr oedd amryw ddiffeith-leoedd yn cael eu henwi oddi wrth y dinasoedd cyfagosaf iddynt; megys *diffeithwch* Dibla, Engedi, Jeruel, Tecoah, Gibeon, Bethafen, &c. *Anialwch* Arabia, lle y bu yr Israeliaid yn crwydro ddeugain mlynedd, sydd yn cynnwys diffeithwch Sur, Sin, Paran, Zin, a Cedemoth, ac yr oedd yn anialwch ofnadwy, gwag, ac erchyll iawn, Deut i. 19. a xxxii. 10. Gelwid holl barthau gogleddol Arabia yn *anialwch;* o herwydd fod cyn lleied o hono yn cael ei ammaethu, neu â dinasoedd wedi eu hadeiladu ynddo, Jer. xxv. 24. Y mae Caldea yn cael ei galw *anialwch y mor;* yr oedd yn dra dyfradwy; llawer o honi yn sigiennydd: yr oedd diffeithwch rhyngddi a'r Mediaid a'r Persiaid; a chanddynt hwy y dechreuodd gael ei throi yn anialwch; ond gellid cyfeithu y geiriau *gwastadedd y môr*, Esa xxi. 1. *Anialwch y bóbloedd*, ydyw naill ai Caldea, yr hon, er yn llawn o drigolion, oedd yn amddifad o bethau daionus yn ysbrydol; neu wledydd anniwylliedig Media a Scythia, Ezec. xx. 35. Pa beth bynag nad yw yn gweini cyssur a chynhaliaeth, ond gofidiau a chythrudd meddwl, a elwir yn *anialwch;* oddi wrth hyn y mae Duw yn gofyn i'r Hebreaid, a fuasai efe yn *anialwch* iddynt a *thir tywyllwch?* Jer. ii. 31. Y mae y byd Cenhedlig, o fiaen ymdaeniad yr efengyl, yn cael ei alw yn *anialwch;* yr oedd y Paganiaid truain yn byw fel anifeiliaid gwyllt'on, gan ddifa y naill y llall, heb dref'n dwyfol gyfreithiau ac ordeiniadau, heb bresennoldeb cyssur-

us Duw, ac heb unrhyw ffrwyth gweithredoedd da er anrhydedd iddo, Esa xxxv. 1, 6. a xli. 19. a xliii. 19. Yr *anialwch* i ba un y dygodd Duw yr Iuddewon, fel y gallai ddywedyd wrth fodd eu calon, oedd eu cyflwr cystuddiedig o gaethiwed yn Babilon, a'u cyflwr annedwydd presennol o wasgariad, Hos. ii. 14. Y *diffeithwch* yn mha un y mae yr eglwys yn aros dan deyrnasiad Anghrist, yw ei chyflwr unig a chystuddiol; a dichon ei fod yn cyfeirio at y wlad anwastad o amgylch Savoy a Piedmont, lle y bu y Waldensiaid, dros amryw oesoedd, yn hyfion yn proffesu y gwirionedd, Dad. xii. 6. Yr *anialwch*, o'r hwn y mae y saint yn dyfod i fynu, yw eu cyflwr diffrwyth, digyssur, a pheryglus, o anwybodaeth ac anghrediniaeth; y byd drwg presennol, yn ei gyfeiliornadau a'i lygredd: a chyflwr o erlidigaeth a gorthrymderau, Can. iii. 6, a viii 5. lle dylai y geiriau gael eu cyfeithu *myned i fynu* o'r anialwch.

ANIAN—OL, (*an*, sylwedd bywiol) greddf, tuedd naturiol. "Arfer *anianol*," yw arfer yn un a thuedd natur; "arfer yn erbyn *anian*," yw arfer yn erbyn naturiaeth, neu duedd natur. Yr oedd y Rhufeiniaid Paganaidd wedi ymroddi i'r rhai hyn i'r graddau eithaf, y pryd hwnw, ac nid neb mwy na'r amherawdwr ei hunan, Rhuf. i. 26. "Fel trwy y rhai hyn (yr addewidion) y byddech gyfrannogion o'r ddwiol *anian*," 2 Petr i.4. Wrth gyfrannogi o'r ddwiol *anian*, y mae i ni ddeall cyfrannogiad o sancteiddrwydd Duw; neu fod yn sanctaidd, megys y mae yr Arglwydd ein Duw yn sanctaidd; gan fwynhau y fath gymmundeb âg ef yn ei sancteiddrwydd, ag a elwir gyda phriodoldeb yn *anian* ddwiol, oblegid ei chyffelybrwydd i Dduw, a'i hyfrydwch ynddo. Nid gweithredu ar yr hen anian y mae yr Ysbryd Glân yn yr adenedigaeth, ond creu anian newydd, a honno yn deilio oddi wrth Dduw, ac yn tueddu yn ddwiol; yn ganlynol, y mae y dyn yn ysbrydol ac yn ddwiol. Y mae yn synio pethau yr Ysbryd, dyfnion bethau Duw; sef athrawiaethau gras, yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb. Nis dichon neb byth ddychwelyd at Dduw, ei addoli, ac ymhyfrydu ynddo, heb y ddwiol anian hon.

ANIFEL, (*an-bel*, terfysg) creadur byw, yn amddifad o wybodaeth resymol, a drefnwyd at wasanaeth dyn, ac i addurno y greadigaeth. Y mae anifeiliaid yn meddiannu craffder synwyr mewn graddau gwahanol iawn. Y mae rhai anifeiliaid yn llawer cyflymach eu hymsyniad na dynion. Y mae gan feirch, cwn, afancod, llwynogod, morgrug, gwenyn, epâod, yn neilldуol yr *ourang-outang*, graffder deall rhyfeddol, yn tynu yn agos at reswm. Y mae cynneddfau amrywiol rywiogaethau y greadigaeth anifeilaidd yn fynych yn amrywio yn ol y wlad y byddont byw ynddi. Y mae y gwahaniaeth cywir rhwng ysbryd dyn, yr hwn sydd yn esgyn i fynu, a chwythad anifel, yr hwn sydd yn discyn i waered i'r ddaear, Preg. iii. 21, wedi peri llawer o ddwys-fyfyrdod a gwrth-ddadleuaeth ofer. Y mae enaid neu ysbryd dyn yn cael ei ystyried yn gryn helaeth dan y gair *Adda*, lle y meddylir fod y gwahaniaeth mawr rhwng dyn ac anifel yn gynnwysedig yn y *bywyd* hwnw, sydd yn gorwedd yn ffafr Duw; ymarfer cydwybod; gwybodaeth o dda a drwg; gobaith am fywyd tragywyddol, ac ofn dinystr tragywyddol. Y mae gwybodaeth, dymuniadau, ac amcanion anifeiliaid, yn *discyn i waered;* terfynir hwy i wybod a chanfod yr hyn eill fod yn gynnorthwyol tuag at eu dedwyddwch tymhorol, cadwedigaeth eu cyrph, a lluosogiad eu rhywogaeth. Y maent yn alluog i farnu a gwahaniaethu rhwng gwres ac oerfel; rhwng yr hyn sydd lesol, a'r hyn sydd niweidiol i'w hiechyd. Pan y mae dyn, gan hyny, yn serio ei gydwybod, y mae yn myned yn debyg i'r anifeiliaid a ddyfethir. Pan, gan hyny, y mae anghrediniaeth yn dihreiddio iaith naturiol cydwybod, a sicrwydd adgyfodiad y meirw a'r farn dragywyddol yn cael ei wadu, yna y mae dyn yn cyfatteb i ddarluniad Solomon, Preg. iii. 18, 19.

Duw, yn y dechreuad, a greodd bysgod y mor, ac ehediaid yr awyr, ar y pummed dydd o'r byd; efe, wedi hyny, a greodd ŷwystfilod y ddaear, a dyn, ar y chwechfed dydd: yn ddiweddaf, dygodd ehediaid yr awyr, a bwystfilod y ddaear at Adda, fel y gallai efe eu henwi wrth eu henwau neilldуol, a thrwy hyny ddechreu ymarfer

arfer yr arglwyddiaeth hwnw a roddasai Duw iddo ar yr holl greaduriaid. Yr Arglwydd a feudigodd y dyn, yr ehediaid, pysgod, a bwystfilod y ddaear; a orchymynodd iddynt luosogi, ac a roddodd iddynt holl lysiau a ffrwyth y ddaear yn fwyd. Ni chaniattaodd i ddynol-ryw arfer cig yn fwyd, nes ar ol y dylif; ac hyd yn nod y pryd hwnw, gwaharddodd iddynt fwytta gwaed, gan fwgwth cospi y sawl a droseddent ei orchymyn hwn, a cheryddu hyd yn nod anifeiliaid a dywalltent waed dynol. Felly, yn yr un modd, wrth gyfraith Moses, yr oedd pob anifel ag oedd naill ai wedi lladd dyn, neu gael ei arfer mewn ffordd annaturiol, i gael ei gospi â marwolaeth, Exod. xxi. 28. a Lef. xx. 18. O herwydd fod anifeiliaid yn eiddo priodol i ddynion pechadurus, y maent yn ddarostyngedig i lawer o galed-fyd o achos eu pechod hwy: trengodd y rhan fwyaf o anifeiliaid y tir yn y dylif; yr oedd anifeiliaid dinasoedd Hebreaidd a wrthgilient at eilun-addoliaeth, yn gystal ag eiddo yr Amaleciaid, i gael eu tori ymaith yn gwbl; ac, mewn esamplau aneirif, y mae Duw yn bwgwth ac yn gwasgu ar anifeiliaid, yn gystal a dynion, Gen. vi. 17. a viii. 21. Deut. xiii. 15. 1 Sam. xv. 3. Ezec. xiv. 13—31. Zeph. i. 5. Hos. iv 3. Pa mor belled y bydd i ddyoddefiadau yr anifeiliaid diniweid gael eu cyfartalu, pan, yn y diwedd, y rhyddhëir y creadur o gaethiwed llygredigaeth, i rydd-did gogoniant plant Duw, nis gwyddom, Rhuf. viii. 20—22. Aeth Duw mewn cyfammod â Noah, yr hwn oedd yn cyrhaedd at fwystfilod y maes, na byddai i ddylif cyffredinol mwyach eu dyfetha hwynt, Gen. ix. 10. Gorchymyn ar iddynt gael cyfranogi o orphwysfa y Sabbath, Exod. xx. 10. a xxiii. 12. Rhybuddia yn erbyn pob rhith o greulondeb tuag attynt, Exod xxiii. 5, 19. Deut. xxii. 6, 7. Diar. xii. 10. Mewn rhan, oddi ar ofal am y creaduriaid, yr arbedodd efe Ninefeh, Jon. iv. 11. Megys weithiau y mae yn gwneuthur bwystfilod yn offerynau iddo i gospi cenedlaethau anwir, fel yr Aiphtiaid, yr Israeliaid, ac ereill; felly efe a wna gyfammod o heddwch â hwynt, ar ran ei bobl. Exod. viii. a x. Ezec. xiv. a xxxiv. 25. Hosea ii. 18. Nid oes dim anifeiliaid yn llefaru o anian. Diafol yn y sarph oedd yr hwn a leferodd wrth Efa; ac mewn modd gwyrthiol y ceryddodd asen Balaam ei rheistr, Gen. iii. 1—14. Num. xxii. 28—30. Yr oedd yr hen Aiphtiaid ac ereill, mae yn debyg, yn dychymmygu fod anifeiliaid uwchlaw dynion, ac am hyny, addolent luaws o honynt; ac y mae amryw o honynt yn cael eu haddoli etto yn Affrica, &c. Yr oedd yr athrawiaeth am eneidiau dynol wedi ymadael yn myned i mewn i anifeiliaid, yn gyffredin trwy y dwyrain oll; ac nid oedd yr Iuddewon ychwaith, yn nyddiau ein Hiachawdwr, yn rhyddion oddi wrthi. Y mae pennod yn y Cylch-gwybodaeth Ffrengig yn cymmeryd arni broñ fod anifeiliaid yn cael eu cyfanneddu gan ddiafliaid, y rhai sydd yn eu gwneuthur yn niweidiol. Tan y ddeddf, yr oedd yr anifeiliaid yn cael eu dosparthu yn dri math. (1.) Yr oedd rhai yn *gwbl lân*. Y rhai hyn oedd y mwyaf buddiol i ddynion, hawddaf eu cael, a chymhwysaf i gysgodi ein Pryniawdwr, ac felly yn ganniattaol i'w haberthu; y rhai hyn oeddynt ychain, defaid, geifr, turturod, a cholommenod: ni channiätteid i neb fwytta brasder un o honynt, hyd yn nod pe buasent heb eu haberthu. A'r rhai hyn, tebygol, oeddynt y cwbl a gyfrifid yn lân ar fynediad Noah i mewn i'r arch, Lef. i. 18, 19, 22. a xxvii. 3. Gen. vii. 8. (2.) Eraill oeddynt lân i'w bwytta fel ymborth cyffredin, ond nid i'w haberthu. Yr oedd y rhywiogaeth hon yn cynnwys y cyfryw bedwar-carnolion, ag oeddynt yn cnoi eu cil ac yn fforchogi yr ewin; amryw o ehediaid a phob pysgod ag oeddynt âg esgyll a chen iddynt: yn nghyda phedwar math o drychfilod o ryw y locust; ond os byddai i un o'r rhai hyn farw o hono ei hun, neu gael ei larpio, ac felly ei gyffwrdd gan anifel aflan, byddai yn aflan, Lef. vi. 3, 9, 22. Deut. xiv. 4—6, 20. Exod. 22, 31. (3.) Y lleill o'r anifeiliaid oeddynt yn llwyr *aflan*, yn enwedig y rhai ysglyfaethus, angbydymmeithgar, a nosawl, &c. megys yr eryr, yr wydd-walch, y for-wennol, y fwltur, y barcud, y gigfran, y ddylluan, y frân nos, y gog, y fulfran, yr alarch, y pelican, y crŷr, y gornchwigl, a'r ystlum. Ac ymhlith yr ymlusgiaid, y wenci, y llygoden, y

llyfant crogenod, y ffured, y cameleon, y genau goeg, y falwen a'r wâdd. Lef. xi. Deut. xiv. Y mae gweledigaeth hynod Petr, Act. x. yn amlygu i ni y mawr wahaniaeth oedd tan y gyfraith, rhwng anifeiliaid glân ac afân. Y mae Ezeciel, wrth geryddu yr offeiriaid, dan yr Hen Destament, yn gosod, megys un o'r cyhuddiadau trymaf yn eu herbyn, eu halogrwydd trwy beidio amddiffyn y gwahaniaeth rhwng glân ac afian; i addysgu y bobl ar y pen hwn oedd un o'u prif ddyledswyddau hwy. Yr oedd hyn yn ddealledig hyd yn nod cyn rhoddiad y ddeddf; aberthodd Noah o aniferiaid glân ac afian; ac y mae yn dystiolaeth ddilys o athrawiaeth afian, pan y mae cymundeb afian yn cymmeryd lle. Gwel yn fwy cyflawn ar y pen hwn dan y gair *Glân*.

Nid oes gennym ond gwybodaeth anmherffaith iawn am enwau Hebrëig amryw anifeiliaid a grybwylliryn yr ysgrythyr, er, diammau, fod yr hen luddewon yn eu deall hwynt: ac oddi wrth yr hyn a wyddom ni, y mae doethineb Adda, yn ei waith yn eu henwi, mor gydunol a'u hanian, yn ymddangos yn eglur. Nid oes un esponiwr wedi trin y pwnc hwn gyda y fath graffder ag eall a dysg, a'r enwog Bochart, yn ei Hierozoicon; ac etto ni byddai ddiogel i ymddiried yn ddiymchwiliad, i'r arweinydd digyffelyb hwn. *Anifeiliaid* y ddaear ydynt weithiau yn dynodi bwystfilod ysglyfaethus, Jer. xv. 3. *Anifeiliaid* gwylltion yr anialwch, neu *Ziim* ac *Iim*, ydynt gathod gwylltion, a math o fleiddiaid sydd yn gwneud udlais dychrynllyd, Esa xiii. 21. Jer. l. 39. Yn y bedwaredd, y bummed, a'r chwechfed bennod o'r Dadguddiad, cawn fynych grybwylliad am *bedwar anifel*: dylai y gair gael ei gyfeithu yn unwedd yn *bethau byw*, megys yn Ezec. i. Synia *Hutchinson* a'i ganlynwyr, fod y *pedwar anifel* hyn, megys eu darlunir yn neilduol gan Ezeciel, yn gosod allan y dwyfol Dri mewn cyssylltiad â'r eglwys; ac, ar yr un seiliau, a'u cymharant hwy â'r *cerubiaid*: ereill a haerant, o herwydd fod pedwar wyneb y pethau byw yn cyfatteb i bedwar llumman eglwys Israel, eu bod, gan hyny, yn gosod allan eglwys y prynedigion, yr hon a ellir yn fwy cyfaddas ei hystyried megys yn syrthio i lawr, ac yn addoli; yr hyn yn ngolygiad *Mr. Hutchinson*, ni ellir yn hawdd ei amgyffred. Eithr mwy tebygol yw mai gweinidogion yr efengyl â feddylir: wedi eu cynnysgaethu gan Dduw âg amryw ddoniau a chymmwysderau at ei waith. Rhai yn hyfion a diofn fel llewod; rhai yn amyneddgar a llariaidd, fel ychain; ereill yn fwy call a synhwyrol, megys dynion; ac ereill yn canfod ac yn treiddio yn mhell i ddyfnderoedd teyrnas Crist, am hyny, yn cael eu cyffelybu i eryrod. Cyffelybu i *anifel*, sydd yn fynegiad cryf o waelder, anwybodaeth, &c. Diar. xxx. 3. Salm lxxiii. 22. Dynion yn gyffredin a elwir yn *anifeiliaid*, o herwydd eu cnawdolrwydd, daearoldeb, anwybodaeth, anhyddysgedd, amryson, a'u niweid i'w gilydd, Preg. iii. 18. A'r anifeilaid mwyaf gwaraidd, megys ychain, gwartheg, lloi, defaid, ŵyn, a chwlomenod, ydynt arwydd-luniau o'r saint; tra y mae llewod, eirth, bleiddiaid, a seirph, yn cael eu gwneud yn gysgodau o rai drygionus, creulon, Esa. xi. 6, 7, 8. Gwneir yr anifeiliaid mwyaf nerthol, megys eryrod, llewod, bustych, bychod, geifr, hyrddod, lefiathan, &c. yn arwyddion o freniniaeth ac ereill cedyrn a goludog. Gosodir deiliaid breninoedd Assyria, Caldea, â'r Aipht, allan fel *anifeiliaid* yn llettya *dan gysgod eu nodded* hwy, megys bwystfilod dan bren, Ezec. xxxi. 6. Dan. iv. 14. Dynion drygionus a elwir yn *anifeiliaid*, o herwydd eu hafresymoldeb, bydol-frydedd, esgeulusdra o bethau tragywyddol, a'u cynddaredd yn erbyn Duw a'i bobl, 2 Petr ii. 12. Y Cenedloedd ac ereill a elwir yn *anifeiliaid y maes*, o herwydd eu pellder oddi wrth Dduw; eu hangen am gymdeithas â'i bobl; a'u hegwyddorion gwaedlyd, drwgfwriadol, a llofruddiog, Esa xliii. 20. Amherodraeth y Caldeaid, y Persiaid, Groegiaid, Rhufeiniaid, ac Anghrist, a gymharir i *anifeiliaid*; o herwydd mai trwy foddion cnawdol, creulon, ac anghyfiawn, y derchafwyd ac y cynhaliwyd hwynt, Dan. vii. 11. a viii. 4. Mynediad yr Hebreaid trwy y Môr Coch a'r anialwch, a gyffelybir i *anifel yn discyn i'r dyffryn*: yr oedd yn rhwydd ac yn ddiogel, tan ddylanwad ymgeleddol Duw, Esa lxiii. 18.

"Os yn ol dull dyn yr ymleddais âg *anifeiliaid* yn Ephesus," 1 Cor. xv, 32. Mae *Dr. Whitby* wedi talu cymmaint o sylw i'r hanes a rydd *Nicephorus* a *Theodoret*, fod Paul, èr mwyn amddiffyn ei fywyd, wedi bod yn ymdrechu âg anifeiliaid gwyllt'on, megys llewod, eirth, &c. yn Ephesus, trwy ddedfryd y swyddogion, ac i foddhau creulondeb y bobl, fel y mae ef am ddehongliad *llythyrenol* o'r fan hon. Tan lywodraeth y Rhufeiniaid, fel mewn llecoedd ereill, byddid yn bwrw dynion i blith creaduriaid gwyllt'on, i lfau y llewod; ereill a gondemnid i ymladd yn arfogion â bleiddiaid, &c. Haerir hefyd dros hyn, pe llefarasai am ddynion *anifeiliaidd*, yr enwasai yn hytrach y rhuthr a wnawd arno yn Lystra, lle y llabyddiwyd ef, ac y meddyliwyd ei fod yn farw. Ac y mae y geiriau, "yn ol dull dyn," sef yn ol arfer dynion barbaraidd, creulon, yr oes honno, yn ein barn ain yn naturiol i ddeall y geiriau heb un ffugyr. Er nad yw Luc yn coffhau am hyny yn ei hanes am dano, etto, gallasai fod, gan fod amryw bethau ereill yn cael eu gadael heb grybwyllïad ganddo ef: megys ei waith yn ceryddu Petr, Gal. ii. Rhai a farnant fod hyn yn ngolwg yr apostol pan yr ysgrifenodd am ei beryglon yn 2 Cor. i. 8. Ond mae dystawrwydd St. Luc yn ei hanes am y fath ddygwyddiad hynod a raid fod ymladd âg *anifeiliaid*, a gwaith Paul yn ei adael allan yn y gofrestr fawr o'i ddyoddefiadau, yn 2 Cor. xi. 23, yn nghyd a'i fraint adnabyddus fel dinasydd Rhufeinig, yr hyn, mae yn debyg, megys yn sicr y dylasai wneud, yn ol y gyfraith, a'i diogelasai ef rhag y fath anmharch, oblegid y drwgweithredwyr a'r caethweision fyddent fwyaf arferol o gael y driniaeth hon, i gyd yn mhlaid dehongliad *ffugyraidd*. Ond, pa fodd bynag y deallir y testyn, mae yn dangos y peryglon dirfawr yr aeth Paul trwyddynt, er mwyn gobaith o adgyfodiad gwyn-fydedig, Act. xix. 29. Gwel *Whitby*, *Hammond*, &c. ar y lle.

ANIS, llysieuyn rhinweddol, yr hwn ni thyf braidd ond mewn gwledydd cynhes. Y mae ei flodeuyn o liw rhosyn, yn gyfan- ddedig o amryw flodeu-ddail wedi eu trefnu mewn cylch crwn, a'u gosod ar gwpan, yr hwn a ddaw drachefn yn ffrwyth, yn gyfansoddedig o ddau hedyn o lun hir-grwn. Y dail ydynt debyg i eiddo y ffenigl. Y mae had anis yn beraidd eu harogl, ac yn cael eu defnyddio yn fynych gan gyffeithwyr a gwneuthurwyr per-aroglau. Yr had, yr olew, a'r dwfr, a ddystyllir o honynt, ydynt feddyginiaethau rhagorol tuag at gyssuro y gaion a thori gwynt. Ymddengys ei fod yn tyfu yn helaeth yn ngwlad Judea, Mat. xxiii. 23 Eithr dylai y gair Groeg *anecthon*, gael ei gyfieithu yn hytrach *ffenigl*; gan mai *anison* yw y gair Groeg am *anis*.

ANLLAD—RWYDD, (*an-llad*, daioni,) nwyfus, anniwair: afiendid, trythyllwch. Y mae *anlladrwydd* yn cynnwys ynddo ymddygiad anniwair; gwisgoedd anniwair, anaddas a ffol; ymadroddion yn arwain at lygru moesau; pob peth yn tueddu i gynnyddu neu gyffawni chwantau y cnawd. Pob peth yn ein hymddygiad gwrthwyneb i'r seithfed gorchymyn, Marc vii. 20. 1 Cor. vii. 5. Gal. v. 19. Edrych *Godineb*.

ANLLYGREDIGAETH, (*anllwgr*) pur, dilwgr. Y mae Duw yn hanfodol *anllygredig* yn mhob ystyr: nis gall ymhalogi, llygru, anharddu, anmhuro, na gwaethygu, mewn un gradd. Nid oes rhanau ynddo i'w colli, ac nid oes harddwch na gogoniant ond sydd yn hanfodol iddo. Bod pur, di-ranau, di-gymmysgedig ydyw, yn cynnwys pob perffeithrwydd, yn hanfodol ynddo ei hun; yn dibynnu yn hollol arno ei hun, ac yn ddigyfnewid. Aeth y Cenedloedd doethion yn ffyliaid, pan y "newidiasant ogoniant yr *anllygredig* Dduw, i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, &c." Rhuf. i. 23. Fel yr oedd eu hynfydrwydd ynamlwg mewn amrywiol o bechodau ereill, yn y rhai yr oedd athronyddion y Cenedloedd yn neilldu'ol, yn ymdaeniad boreuol, ac yn mhob cyffredinol eilun-addoliaeth yn eu plith; trwy yr hyn, y newidiasant yr holl fawrhydi gogoneddus Dduw yn dyscleirio trwy'r nef i'r ddaear, i gyffelybiaeth llun dyn marwol a llygredig, yr hyn, pa mor gywraint bynag y gwnaed ef, oedd yn ddiraddiad mawr ac annyoddefol i Dduw. Y gospedigaeth a osodir arnynt am hyny yw, i Dduw eu

rhoddi hwynt i fynu. Os na wna dyn addoli Duw, fel Duw, mae wedi ei adael yn y fath fodd iddo ei hun, fel y mae yn bwrw ymaith ei wir ddynoliaeth.

"O herwydd rhaid i'r llygradwy hwn, wisgo *anllygredigaeth,*" 1 Cor. xv. 53. Rhaid i'r cyrph darfodedig a llygradwy hyn, sydd yn agored i llygredigaeth mawr, ac a bydrant yn fuan yn y bedd, gael eu hadnewyddu, a'u cyfodi i gyflwr o nerth a bywiogrwydd, o gynneddfau ysbrydol ac anllygredig, a'u gwisgo âg anfarwoldeb gogoneddus. Y mae y Pen yn *anllygredig;* mae yr undeb rhyngddynt hwy âg yntau yn *anllygredig;* ac o herwydd hyny y maent yn gydetifeddion â Christ, ac i fod yn debyg iddo yn eu cyrph a'u heneidiau. Mewn disgwyliad diysgog o hyn, gall y Cristion, hyd yn nod yn awr, mewn ffydd a gobaith, gyda'r hyfrydwch mwyaf, gymmeryd i fynu ei gân o oruchafiaeth, *O angau, pa le mae dy golyn? O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth?*

ANLLYTHYRENOG, *(an-llythyrenog)* annysgedig. Yr oedd Petr ac Ioan yn wyr *anllythyrenog;* sef yn ddynion heb ddygiad i fynu, ac heb un sefyllfa gyhoeddus mewn bywyd, fel yr oedd yr offeiriaid a'r swyddogion. Hyd yn nod trwy y fath ddynion (er mai nid trwy y cyfryw yn unig) y darfu Duw trwy yr holl oesoedd beri i'w air gael ei bregethu ger bron y byd, Act. iv 13.

ANLLYWODRAETHUS, *(anllywodraethus)* afreolus, dilywodraeth. "Drwg *anllywodraethus,*" y geilw yr apostol y tafod, Iago iii. 8. Cymhariaeth yw y gair a gyfeithir *anllywodraethus,* a gymmerir oddi wrth wylltfilod, y rhai gyda anhawsdra a gedwir o fewn terfynau, â gwaliau, cloddiau, neu ffosydd. Tra byddo y galon heb fod tan lywodraeth Ysbryd Duw, ac ofn duwiol, bydd y tafod felly hefyd; ond yn tywallt allan o'r ofereedd a'r drygioni sydd yn y galon, yr hyn a fydd o'r canlyniadau mwyaf dinystriol. Yr hwn ni fedr ffrwyno ei dafod rhag absennu, sarhau, ac enllibio, *cymmeryd arno* y mae ei fod yn grefyddol; canys nid yw felly mewn gwirionedd. Ac os yw ef yn twyllo ei hun yn y rhan bwysfawr hon o grefydd, y mae yn cael ei dwyllo yn y cyfan o honi. Ac yn wir, y mae cynnifer o bechodau y tafod yn cael eu cyflawni, heb un meddwl o'u bod yn ddrwg, fel y mae y gocheliad hwn o bwys mawr; ac ystyried pa mor lleied y mae llawer yn meddwl am y drwg o waradwyddo eu brodyr gyda chwerwder, o herwydd gwahaniaeth mewn barn; pechod ag oedd, debygyd, yn neilduol mewn golwg gan yr apostol. Eithr y mae dynion da, trwy ddwyfol ras, wedi llywodraethu eu tafodau eu hunain; onide, buasai eu *crefydd* yn *ofer.* Y mae ef, yn wir, yn ei ddarlunio fel peth anhawdd iawn, mewn trefn i'w cyffroi i fwy o ofal a diwydrwydd; ond os nad oedd alluadwy i ddynion lywodraethu eu tafodau trwy gymhorth gras, nid eu bai hwy fuasai y drygau a gyfodasent oddi wrth hyny, Iago i. 26. a iii. 8.

ANMHLANTADWY, *(an-plant)* diffrwyth. Yr oedd dieppileddgyn cael ei ystyried, dan yr Hen Destament, fel barn neilduol oddi wrth yr Arglwydd; tra, o'r tu arall, yr oedd y wraig, fel gwinwydden ffrwythlawn a'r plant, fel planhigion o amgylch y bwrdd, yn gosod allan nodded uchaf y Nefoedd. Ymddengys mai y prif achos o'r cyfrif mawr a wneid o ffrwythlondeb y pryd hwnw, oedd, fod gobaith dyn euog er cyhoeddiad yr addewid gyntaf, oll yn gorphwys ar *had y wraig;* gan ei fod wedi ei ddadguddio fod Arglwydd nef a daear i gyfranogi gyd a'i euog bobl, o gig a gwaed, trwy gael ei wneuthur o wraig, yr oedd bod yn *fam yn Israel* âg anrhydedd nid bychan yn perthyn iddi: attynt hwy, yn ol y cnawd, y daeth Crist, yr hwn sydd fendigedig yn oes oesoedd. Y mae amryw amgylchiadau yn hanes Sarah, Rebecah, Rahel, &c. nad ellir eu deall, heb ddal sylw ar hyn. Drachefn, y wraig *anmhlantadwy,* yn iaith brophwydoliaethol yr Hen Destament, yw eglwys y Cenedloedd, Esa. liv. 1. Ni esgorodd hi ar feibion i eglwys Dduw. Ond ni âd yr Arglwydd ei eglwys mewn cyflwr dieppilgar; ar ol cuddio ei wyneb mewn soriant dros enyd awr, efe a ymwel â hi drachefn; ac a drugarha wrthi â thrugaredd tragywyddol, ac a amlha ei had fel sêr y nefoedd. Bu Sarah yn hir yn anmhlantadwy, cysgod o'r eglwys efengylaidd, tra yr oedd Hagar yn eppilio, cysgod o'r

eglwys Iuddewig; ond amlach oedd meibion Sarah na Hagar yn y diwedd, Ioan viii. 56. a xi. 52. a xiv. 18. Dad. vii. 4, 9.

ANMHOSIBL, analluol. Mewn perthynas i natur Duw, y mae yn *anmhosibl* iddo fod yn gelwyddog, neu wadu ei hun, Heb. vi. 18. Tit. i. 2. Mewn perthynas i'w allu, nid oes dim da yn *anmhosibl* iddo, Luc i. 37. a xviii. 27. Mewn perthynas i arfaethau a threfn ragluniaethol Duw, mae yn *anmhosibl* na ddaw rhwystrau, Luc xvii. 1. Mewn perthynas i'w allu cydfynedol ef, nid oedd dim gwyrthiol yn anmhosibl i'r apostolion, Mat. xvii. 20. Yr hyn sydd *anmhosibl* gyda dynion, ydyw yr hyn sydd uwchlaw eu gallu i'w ddwyn i ben, Math. xix. 26.

ANMHWYLL, (*an-pwyll*) anoethineb. "Yn *anmhwyllo* yn nghylch cwestiynau," 1 Tim. vi. 4. Yn ol y Groeg, yn *glaf*; sef yn dra hoff o ymddadleu. Clefyd drwg, ond yn dra chyffredin; yn enwedig lle yr anghofir cariad. Y cyfryw, mae yn wir, a ddadleuant yn awyddus dros ymadroddion neilluol, a phynciau hoff ganddynt eu hunain. Y mae pob peth arall, pa mor debyg bynag y byddo i bregethiad Crist a'r apostolion, i gyd yn ddeddf a chaethiwed, a *rheswm anianol*.

ANMRWD, (*an-brwd*) heb ei ferwi, neu ei boethi drwyddo. "Na fwyttewch o hono yn *anmrwd*, Ex. xii. 9. Nid oedd i gael ei fwytta yn *anmrwd*; hyny ydyw, *wedi haner ei rostiaw*: yr oedd i gael ei gyflawn drin, fel na byddai dim o'r gwaed yn aros ynddo; yn wrthwyneb, medd *Spencer*, i'r hyn a wnai yr Aiphtiaid wrth addoli eu Duw Bacchus, neu Osiris, pan y bwyttaent gig anmrwd: *na 'chwaith wedi ei ferwi mewn dwfr*, fel yr arferent hwy wneuthur, medd ef, yn eu haberthau i'w duw Hori. Crybwyllir yn benodol, fod yr oen i gael ei rostio wrth dân; yn wrthwyneb, medd rhai, i'w harfer o rostio eu haberthau yn yr haul; yr hyn a arferid ei wneuthur yn mhlith rhai cenedlaethau Paganaidd. Ac yr oedd yn rhaid ei rostio i gyd, gyda'i ymysgaroedd, yn wrthwyneb i drefn goel-grefyddol y Paganiaid, y rhai a arferent ymgynghori âg ymysgaroedd yr aberthau, ac hefyd i ddysgu i'r Iuddewon, fod y cwbl oedd yn perthyn i oen y pasg, yn sanctaidd, ac yn gofyn cael ei ystyried felly.

ANNAH, (*graslawn*) merch Phanuel, o lwyth Aser; priododd yn ieuanc, ac a fu byw saith mlynedd o'i morwyndod gyda gwr. Gwedi ei farw, cyflwynodd ei hun i wasanaeth Duw; ac ar bob aberth boreuol a hwyrol yn y demi, yr oedd hi yn tywallt ei gweddiau. Pan oedd hi yn bedwar ugain mlwydd oed, cafodd y wyryf fendigedig, gyda'r baban dwyfol, yn y demi, a Simeon yn bendithio Duw am dano ef. Gwedi ei chynhyrfu gan yr Ysbryd Glân, hi a foliannodd yr Arglwydd, ac a lefarodd am y baban, fel y Messiah addawedig, wrth bawb oedd yn aros am ei ddyfodiad, ac yn disgwyl ymwared i Israel trwyddo ef, Luc ii. 36, 37. Bydded i esampl y duwiolion oedranus hyn, Simeon ac Annah, fywiogi y rhai y mae eu penllwydni, megys hwythau, yn goron o ogoniant iddynt, gan ei fod yn ffordd cyfiawnder. Bydded i'w gwefusau henaidd a pharchedig, y rhai a fyddant yn fuan yn oerion a dystaw yn y beddrod, gael eu defnyddio yn awr i ddercha fu moliant eu Gwaredwr, Boed iddynt ymdrechu trwy eu hyfforddiadau a'u gweddiau, i adael ar eu hol genedlaeth ieuanc, i ba rai y bydd Crist mor werthfawr ag y bu iddynt hwythau; ac y byddant yn disgwyl am iachawdwriaeth yr Arglwydd, pan y byddant hwy wedi myned i'w mwynhau yn nhragywyddoldeb.

ANNAS, neu ANNANUS, (*trugarog*) mab Seth. Mwynhaodd yr archoffeiriadaeth am un-mlynedd-ârddeg, a chyfrifir ef yr unig un ag oedd iddo bum mab, y rhai a wasanaethasant y swydd hono yn olynol. Pan ddiswyddwyd ef, o herwydd ei bwyll a'i oedran, cadwodd ran fawr o hyd yn y llywodraeth cyhoeddus. Pan ddaliwyd Crist yn mynydd yr Olew-wydd, dygwyd ef yn gyntaf at Annas, ac yna at Caiaphas ei fab-ynnghyfraith, yr hwn oedd arch-offeiriad, neu ysgatfydd ddim ychwaneg nac ail-offeiriad y flwyddyn honno, Ioan xviii. 13. Yr oedd y naill a'r llall yn erlidwyr maleisus o'r apostolion, o achos eu gwaith yn pregethu Crist. Gan eu bod hwy wedi dwyn i ben farwolaeth ein Harglwydd, yr oeddynt yn ystyried eu hunain megys

yn rhwym i attal eu ddysgyblion a'u hathrawiaeth, Act. iv. 6.

ANNEALLUS, *(an-deall)* annoeth, ynfyd. "A'u calon *anneallus* hwy a dwyllwyd," Rhuf. i. 21. Y mae calon dyn llygredig yn *anneallus* am Dduw ac am bethau Duw; ac o herwydd hyny, y mae yn agored i gamsyniadau a chyfeiliornadau, yn mhob peth a berthyn i Dduw, ei briodoliaethau, a'i adddoliad. Mae y gair Groeg *asunetos*, a gyfeithir *anneallus*, yn arwyddo *anystyriol*, yn y gradd uchaf a mwyaf beius, mewn cyferbyniad i ddefnydd difrifol o'r moddion a'r wybodaeth am Dduw ag oedd ganddynt. *Eu calon oedd anystyriol;* hyny yw, ni wnaent ddefnydd cydwybodol o'u deall. Hwy osodasant ganwyll yr Arglwydd dan lestr, a'r ganwyll a ddiffoddodd. Mae y peth yr un fath, fel mae mwyaf trueni, dan bob goruchwyliaeth, hyd yn nod yr egluraf. "Trwy genedl *anneallus* y'ch digiaf chwi," Rhuf. x. 19. Megys yr oeddynt hwy yn canlyn duwiau y rhai nad oeddynt dduwiau; felly y darfu iddo ef dderbyn yn eu lle hwy, genedl nad oedd genedl; hyny yw, cenedl nad oedd mewn cyfammod gyda Duw.

ANNEL-AU-OG, *(an-del*, anystwyth) cyfeiriedig, plygedig. "Bwa ar *annel*," bwa wedi ei blygu. "Hwy a annelasant eu tafod fel eu bwa i gelwydd," Jer. ix. 3. Y maent yn cyfeirio eu geiriau yn gelwyddog, fel saethau at y nod: yn amddifaid o bob brwdfrydedd dros y gwirionedd, ie, yn hytrach, yn ei wrthwynebu a'u holl rym: gan fyned rhagddynt o un drygioni i ddrygioni gwaeth, yn lle edifarhau ac ymddiwygio; heb adnabod yr Arglwydd, ac yn chwennych parhau felly. Duw yn *annetu Judah iddo ei hun*, ac yn llanw y bwa âg Ephraim, yw ei waith yn eu nerthu hwy i orchfygu y lluoedd Syro-groegaidd yn amser y Maccabeaid. Efe oedd yn ymladd, ac yr oeddynt hwythau fel bwa a saethau yn ei law, i orchfygu a distrywio y gelyn, Zech. ix. 13, 14. "A'r brenin a wnaeth o'r coed almugim *annelau* i dŷ yr Arglwydd, ac i dŷ y brenin," 1 Bren. x. 12. Yn ol y Saesonaeg, *colofnau*, ac hefyd ystyr yr Hebraeg *sood* yw *cynnal, cynnaliaeth, cryfhad.*

ANNER, *(an-der*, afrywiog). Cymmerir y gair yn *briodol* am fuwch ieuanc tair blwydd oed, yn Gen. xv. 9, a Jer. xlviii. 34. Arferid hi i aberthu, Deut. xxi. 3. Cyffelybir amryw genedlaethau i *annair*, megys yr Aiphtiaid, y Babiloniaid, &c. Cymmerir y gair yn *gysgodol*, am wraig gwr, Barn. xiv. 18. *Anner* goch, berffeith-gwbl, ddianaf, a roddid yn llaw yr offeiriad i'w dwyn o'r tu allan i'r gwersyll, ac i'w lladd yno ger ei fron. Num. xix. 1, &c. Yr oedd y ddefod hon, fel y dywed *Jerome*, yn cael ei chyflawni bob amser ar fynydd yr Olew-wydd, ar gyfer y deml. Y mae yr *anner goch* yn un o'r cysgodau mwyaf rhagorol o'r Aberth Mawr am bechod, Iesu Grist, ag sydd i'w gael yn yr Hen Destament. Y mae Crist yn berffaith ddianaf; heb fod iau pechod arno; yn wyn a gwridog; yn cyfranogi o gystuddiau ei bobl; a'i waed yn glanhau oddi wrth bob pechod: "O blegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw *anner* wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd, pa faint mwy y bydd i waed Crist," &c. Heb. ix. 13, 14.

ANNHEILWNG — YNGDOD, *(an-teilwng)* anhaeddiannol, anaddas. "Pwy bynag a fwyttâo y bara hwn, neu a yfo o gwppan yr Arglwydd yn *annheilwng*, euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd," 1 Cor. xi. 27. Ein Hiachawdwr wrth sefydlu swpper yr Arglwydd, a ddywed wrth yr apostolion, mai ei gorph a'i waed ef oedd y bara a'r gwin yn sacramentol, a'u bod i gael eu bwytta a'u hyfed er coffa am dan ef; yr hyn, yn ol dehongliad St. Paul, oedd, *i ddangos ei farwolaeth hyd oni ddelo.* Pwy bynag, gan hyny, a fwyttaent, neu a yfent, yn y fath fodd a pheidio yn ddifrifol ddangos ei farwolaeth ef, ni chanlyn ent osodiad Crist, ond a'u harferent yn *annheilwng;* hyny yw, heb barch i'r hwn a'u trefnodd, nac i'r dyben y sefydlwyd hwynt. Neu ynte, eu derbyn i ddybenion o anghymmedroldeb, neu ymbleidio, yr hyn, yn sicr, oedd yn dderbyniad *annheilwng* iawn. Y mae anmharchu yr ordinhad, yn anmharchu yr hyn a arwyddoceir ynddi, sef Iesu Grist, a hwnw wedi ei groes-

hoelio. Gellir, pa fodd bynag, helaethu ymadrodd yr apostol at bob math o dderbyniad yn groes i natur a dyben yr ordinhad ddifrifol hon, ac yn ganlynol at yr amgylchiad o wneuthur felly *gyda golwg bydol yn unig*, yr hyn y byddai dda i bawb y perthyn iddynt i ystyried yn ddifrifol. Y mae ysbryd addas, a dybenion sanctaidd, yn ofynol yn ein harferiad o ordinhadau dwyfol; heb ba rai nis gallwn ryngu bodd Duw, na chael bendith i ni ein hunain, yn ein harferiad o honynt.

ANNHRAETHADWY, *(antraethu)* yr hyn nis gellir ei draethu. "Ocheneidiau *annhraethadwy*," Rhuf. viii. 26. Ocheneidiau, griddfanau, a dymuniadau nad ydynt yn cael eu traethu mewn geiriau wrth yr Arglwydd. Y mae defnydd y cyfryw ocheneidiau o honom ni ein hunain; ond yr Ysbryd sydd yn eu ffurfio hwy; ac y maent yn fynych yn annhraethadwy, hyd yn nod gan y ffyddloniaid eu hunain. Y mae y gair *cynnorthwyo*, yn yr adnod hon, yn ol yr iaith wreiddiol, yn arwyddocau yn llythrenol, "gweithred un fyddo yn cynnorthwyo un arall i godi neu gynnal baich, trwy gymmeryd gafael yndd0 ar y naill ochr, a'i godi neu ei gynnal gydag ef;" ac felly, tebygol, y mae yn rhoddi ar ddeall i ni, y rhwymau sydd arnom i arferyd ein ychydig nerth, er mor wanned ydyw, mewn cydymdrech â'r cynnorthwy Hollalluog hwn.

ANNHRUGAROG, *(an-trugarog)* creulawn, didosturi. Y gair *annhrugarog* a arwydda annheimladrwydd, a annhosturi yn y meddwl; ac hefyd, anhaelioni o ran cyfranu yn weithredol. Dyma'r agwedd bechadurus sydd ar ein calonau fel pechaduriaid syrthiedeg; ac sydd yn ein hannhebygu i Dduw yn fawr, ac yn ein gwneuthur yn afrywiog, yn greulawn, ac yn ddideimlad tuag at ein gilydd. Nid oes dim mewn dyn yn cynhyrfu digofaint Duw yn fwy yn ei erbyn, nag *annhrugarogrwydd* a chreulondeb. Gan mor drugarog yw efe ei hun, nis geill ddyoddef hyn heb ddial y cam ar yr hwn a fydd yn ei wneuthur. Ond y mae y rhai sydd wedi eu geni drachefn, "yn drugarogion, fel y mae eu Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn drugarog," Luc vi. 36. Rhuf. i. 31. Eph. v. 1, 2.

ANNHYMMIG, *(an-tymp,* amser, tymhor) anamserol, annhymhorol. "Un *annhymmig*," 1 Cor. xv. 8. Mae esgoriad ag sydd yn dyfod cyn ei amser (yr enw a rydd St. Paul iddo ei hun yma) yn gyffredin yn *ddisymmwth* ac annisgwyliadwy, ac y mae hefyd yn wan ac eiddil. Mae y rhan gyntaf yn gymhwysiadol i waith Paul yn cael ei wneuthur yn Gristion ac yn apostol, heb y rhagbarottoad i hyny a gafodd yr apostolion ereill, trwy fod gyda'r Iesu yn ei weinidogaeth yma ar y ddaear; er mai mewn perthynas i'r diweddaf y mae ef yn ostyngedig yn galw ei hun yn *un annhymmig*. Yr oedd yn analluadwy iddo iselu ei hun yn fwy, nag y mae efe yn wneud trwy yr enw hwn. Megys nad yw *un annhymmig* yn deilwng o'r enw dyn, felly mae efe yn cadarnhau nad oedd efe yn deilwng o'r enw Apostol. Ond cyflawnwyd pob diffyg yn helaeth iddo, trwy yr amryw ddadguddiadau a gafodd o'r Arglwydd wedi ei wneuthur yn apostol, 1 Cor. ix. 1.

ANNIWAIR. *(an-diwair)* anllad, nwyfus. Troseddiad o'r seithfed gorchymmyn mewn meddwl, gair, neu weithred. "Mewn gofid trwy *anniwair* ymarweddiad yr anwiriaid:" 2 Petr ii. 7. Annhraethol oedd galar a phoen meddwl y cyfiawn hwnw wrth weled pechod yn rhwysgfawr ar led yn ei amser a'r lle yr oedd yn byw yndd0, yn enwedig anlladrwydd dynion, a'u hannuwioldeb cyhoeddus.

ANNOG, *(an-dog,* rhan) cymhell, cynhyrfu. Y mae Satan yn *annog* dynion i'r hyn sydd ddrwg: yr oedd Jezebel yn *annog* Ahab i wneuthur drwg yn ngolwg yr Arglwydd. Nis geill Satan *beri* i neb yn groes i'w ewyllys, ond y mae yn *annog*. Yn (1.) y mae efe yn naturiaetlwr mawr, ac wedi cael hir brofiad a manteision i sylwi yn fanwl ar ddynion, i ddeall ansawdd eu hysbrydoedd, a'r tueddiadau mwyaf cynnefin, a'r gogwyddiadau mwyaf arferol iddynt. Yn (2.) y mae yn gosod o'u blaen wrthddrychau, addas i'r tueddiadau hyny. Yn (3.) y mae yn cynhyrfu meddyliau ynddynt, cyfattebol i'r gwrthddrychau hyn:

Rhoddodd y diafol yn nghalon Judas i fradychu yr Iesu. Ioan xiii. 1. *Llanwodd* Satan galon Ananias i ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân, Act. v. 3. Yn (4.) heblaw y pethau hyn, geill Satan fyned yn mhellach ; dichon, nid yn unig dañu y meddwl i'r dyn, ond dichon gynhyrfu, ac annog y galon i fod yn ewyllysgar i roddi derbyniad a chydsyniad i'r cyfryw feddyliau. Yr ydym ni yn weiniaid ac yn ffolion, ac yntau yn fileinig, yn weithgar, ac yn gyfrwys-ddrwg ; am hyny, da i ni weddio ar ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, am ein cadw a'n gwared rhag ei ddrygau.

ANNUWIOL, (*an-dwiol*) annhebyg i Dduw, a gwrthwyneb i ewyllys a gogoniant Duw. Cyflwr pawb wrth natur yw cyflwr *annuwiol*, didduw. Y maent heb wybodaeth o hono ; heb ei heddwch a'i dangnefedd ; heb gariad yn eu calonau tuag atto ; heb ffydd ac ymddiried ynddo ; heb ofn a pharch iddo ; ac heb addoliad ac ufudd-dod iddo. Rhuf. iv. 5. Am eu bod yn *annuwiol* ac yn ddiymgais am ffafr Duw, a'i ddelw, y mae y Cyfryngwr yn ddiwerth ganddynt i'w cymmodi â Duw ; a'r Ysbryd Glân yn ddiystyr ganddynt i'w hadferyd i'w ddelw ; am hyny, nid oes gadddynt dueddiad i weddio ar Dduw, nâ chymdeithasu âg ef. Tra y byddo agwedd y meddwl yn *annuwiol*, ac yn ddibarch i Dduw, nis geill fod ynom, yn wirioneddol, un rhinwedd foesol, na dim attalfa rhag cyflawni pob drwg, ond attalfëydd allanol, neu lygredig ; inegys cybydd-dod yn attalfa rhag afradlondeb, &c. Gan mai wrth ymadael â Duw yr ymadawsom â phob dedwyddwch, heb ddychweliad yn ol at yr un ffynnon, nis gallwn byth fod yn feddiannol o'r tlws a gollasom, Heb. vii. 26. 1 Petr. iii. 18, Salm x. 4, 13. *Annuwioldeb* ; drygioni yn gyffredinol, ond yn neilldiol y mae yn cynnwys pob pechodau yn erbyn y llech gyntaf o'r gyfraith, megys anwybodaeth a didduwiaeth, delw-addoliaeth, coel-grefydd, cabledd, esgeulusdod o addoliad Duw, &c. Titus ii. 11. &c.

ANNYSGEDIG, (*an-dysgedig*) anllythyrenog, rhai heb gael llawer o hyfforddiadau mewn celfyddydau, Act. iv. 13 : neu rai anadnabyddus o feddwl Duw, a dysgeidiaeth ei Ysbryd, 2 Petr. iii. 16. *Annysgedig* gwestiynau ydynt rai heb weini dim gwybodaeth wirioneddol a sylweddol, 2 Tim. ii. 23.

ANOBAITH—EITHIO, (*an-gobaith*) diobaith. "Am hyny mi a droais i beri i'm calon *anobeithio* o'r holl lafur a gymmerais dan yr haul," Preg. ii. 20. Trôdd oddi wrth ei lafur am nad oedd yn cael ynddo y peth ag oedd efe, yn gamsyniol ac yn bechadurus, yn ei geisio. Y mae efe yn rhoddi heibio ei holl lafur, yn cau ei lyfrau, yn gollwng ymaith ei adeiladwyr, yn ymwrthod â'i ddigrifwch ; ac yn awr, gan fod yn sier nad oes un dedwyddwch i gael dan yr haul, yn dechreu, gyda rhyw oerfelgarwch tuag at wagedd y byd hwn, ymofyn am y dedwyddwch sylweddol sydd i'w gael mewn byd gwell. Gwyn ein byd ni, pan bydd i wir brofiad o annigonolrwydd y creadur, ein harwain at holl ddigonolrwydd y Creawdwr. Duw yn Nghrist yw yr unig gyfran a all ddiwallu eisiau enaid anfarwol, Esa lvii. 10. Jer. ii. 25. Rhuf. vi. 21.

ANOLRHEINADWY, (*an-olrhain*) anchwiliadwy. "A'i ffyrdd mor *anolrheinadwy* ydynt." Rhuf. ii. 33. Mae y diwedd nerthol hwn, tebygol, yn perthynu mewn modd neilltuol, i'r Iuddewon, i'r rhai y dysgai yr apostol trwy hyn, ymostyngiad i law oruwch-lywodraethol Duw anfeidrol ddoeth, anghymmwys, fel ag yr oeddynt, i'w alw ef i gyfrif am ymddwyn mor dyner tuag at y Cenhedloedd. Ei *ddoethineb* a'i *ffyrdd* ef ydynt anfeidrol uwchlaw eu hamgyffred hwynt ; ac a gymmerant hwy arnynt i'w gynghori ef pa beth i wneuthur ? neu, a ydyw Duw yn eu dyled hwy ? Dywedent am beth, ac efe a dal iddynt drachefn. Y mae hyn yn gerydd cryf i'r Iuddewon, ond yn cael ei roddi mewn ffordd dyner a didramgwydd iawn : dull ag y mae yr apostol yn ymdrechu yn mhob man i gadw at ei genedl ei hun.

ANORPHEN, (*an-gorphen*) diddiwedd. "Achau *anorphen*." 1 Tim. i. 4. Nid y rhai a roddwyd yn yr ysgrythyr, ond y cofrestrau hirion a dyrys, trwy ba rai yr oeddynt yn ymdrechu i brofi eu disgyniad oddi wrth y cyfryw a'r cyfryw ber-

rwydd ac i iselder, gwarth a dirmyg. Y Cristionogion luddewig a ymffrostient yn fawr yn eu perthynas âg Abraham a'r prophwydi, er y dichon mai prin y gallasai rhai o honynt wneuthur allan yr holl âch; ond pe gallasent wneud hyny yn berffaith, nid oedd y Cristionogion i barchu neb yn ol y cnawd, nac i wrthod na dirmygu y Cristionogion Cenedlig o eisiau y fath âch. Sancteiddrwydd a chariad oedd yn ofynol mewn Cristion: yr hwn a feddai y rhai hyn, a feddai bob peth gwerthfawr; a'r hwn oedd hebddynt oedd yn *ddim* yn ngolwg Duw.

ANRHAITH, (*an-rhaith*, deddf) yspail, ysglyfaeth. "*Anrhaith* y creulawn a ddiange," Esa xlix. 25. Y mae yma wrthddadl yn cael ei dwyn yn yr adnod flaenorol, naill ai gan eu gorthrymwyr beilchion, brenfnoedd Babilon, megys yn diystyru gair y brophwydoliaeth: neu, ynte, gan yr Iuddewon anghredinfol, megys yn ammau gwirionedd yr hyn oedd cynlleied o debygolrwydd yn ymddangos iddo gymmeryd lle. Eithr y mae Duw yn addaw yn bennodol y gwneir felly; ac er mor gadarn ac ofnadwy yw eu gorthrymwyr, nad ydynt yn ormod iddo Ef amryson â hwynt. Efe a ddadla eu dadl, a oresgyn eu caseion, ac a achub eu meibiou, gan eu dwyn o dan feddiant eu gelynion. Eithr gellir cymhwyso hyn at ein heneidiau wedi eu dwyn yn gaeth gan ddiafol, a thrwy ein gwasanaeth gwirfoddol yn ymroddi i'w ddwylaw, yr hwn sydd yn gadarn, yn arfog, ac yn greulon i gadw ei garcharorion, Col. i. 13. 1 Petr ii. 9. "Ond *anrhaith* y creulawn a ddiange." Y mae Gwaredwr a gwaredigaeth wedi eu trefnu gan Dduw iddynt; ac y mae amcan Duw yn hyn, fel yn mhob peth arall, yn sicr o gael ei gyflawni. Y mae un cryfach wedi ei orchfygu, a dwyn ymaith ei holl arfogaeth; ac efe a ran ei *anrhaith*, Esa xxxi. 4. Jer. l. 34 Heb. ii. 14, 15. Aelodau yr eglwys ydynt yn cael eu *hanrheithio*, pan y byddant yn cael eu hamddifadu o'u hegwyddorion, tymherau, neu ymarferiadau ysgrythyrol, ac, fel pe bai, yn cael eu harwain yn rhwym ac yn gaeth i ryw syniad ac ymarferiad ofer a phechadurus. Col. ii. 8.

ANRHEG, (*an-rheg*, rhodd) dawn. "Offrymasant iddo *anrhegion*," Mat. ii. 11. Arfer eu gwlad, wrth ymweled â rhyw bersonau ardderchóg, megys brenineddoedd a gwyr urddasol ereill, oedd en hannerch â rhyw anrhegion gwerthfawr. Hyn a ymddengys oddi wrth Gen. liii. 11, 1 Sam. ix. 7, 8. Diar. xviii. 16. Ac felly y mae, medd teithyddion, yn y gwledydd dwyreiniol hyd y dydd hwn, ac mewn rhai o ynysoedd y Môr Deheuol, a ganfuwyd yn ddiweddar. Yr oedd hyn yn gymhorth tra phrydlawn a rhagluniaethol, i gynnysgaethu Joseph a Mair â'r pethau angenrheidiol i'w cynnal ar eu taith hir a chostfawr i'r Aipht; gwlad lle yr oeddynt hwy yn hollol ddyeithrol, ac i aros ynddi am lawer o amser.

ANRHYDEDD—U, (*an-rhydedd*, uchafiaeth) gosod nodau o barch ar un, mewn meddwl, gair, neu weithred. *Anrhydeddu* Duw yw credu ynddo, ei garu, ei addoli, a'i wasanaethu, fel ein daioni penaf, a'n Pen-llywydd mawr, 1 Tim. i. 17.; neu gymmeryd arnom wneuthur felly yn allanol, Mat. xv. 8. Y mae Duw yn *anrhydeddu* dynion, trwy eu gwneuthur yn barchus a gwynfydedig, 1 Sam. ii. 30. Y mae dynion yn anrhydeddu eu gilydd, trwy edmygu, parchu, a gwneud gweithredoedd o gymmwynasgarwch, &c. i'w gilydd, 1 Petr ii. 17. "*Anrhydeddus* yw priodas yn mhawb," Heb. xiii. 4.; sef gwyr llên yn gystal a gwyr llëyg; er fod y *Pabyddion* yn dysgu yn wahanol. Y mae rhai am droi yr adnod fel hyn, *Bydded priodas mewn parch gan bawb*; ac y mae y cyd-destyn, yn eu barn hwy, yn dangos fod yr adnod yn *annogaethol*. Y mae cyssylltiad y rhan olaf, pa fodd bynag, a'r gair *eithr* o'i flaen, yn marn ereill, yn cyfiawnhau ein cyfeithiad ni.

ANSAFADWY, (*an-safadwy*) anwadal. "*Ansafadwy* oeddit fel dwfr," Gen. xlix. 4. Yr oedd Reuben, yn ymchwydd ei lygredigaethau, wedi torri dros ben y terfynau a roddodd Duw i ddynion, trwy ddringo i wely ei dad, a'i halogi. Rhuthrodd gyda ffrwd ei chwantau dros ben terfynau cyfiawnder, sancteiddrwydd, a gweddeidd-dra: o uchder braint y cyntaf-anedig, syrthiodd i anenwogrwydd. Ni bu llwyth Reuben, mewn

un ystyr, yn enwog; nid oes hanes am na barnwr, na brenin, na phrophwyd, o'r llwyth hwn.

ANTIOCHIA. Sylfaenwyd unar-bymtheg o ddinasoedd o'r enw hwn yn Asia orllewinol, gan Seleueus Nicator, yr unbenaeth Syro-groegaidd cyntaf, er bytholi coffadwriaeth ei dad, ond nid oes sôn yn yr ysgrythyr ond am ddwy yn unig, sef,

1. *Antiochia* prif ddinas Syria. Tybia rhai mai yr un oedd hi â Riblah yn ngwlad Hamath, lle y treuliodd Nebuchodonozor ei amser tra y parhaodd rhan o'r gwarchae ar Jerusalem, ac y lladdodd feibion Zedeciah, ac y tynodd ei lygaid yntau; ac y rhoddodd i farwolaeth rai ereill o benaethiaid Judah. Yr oedd hi yn sefyll ar ddau tu yr afon Orontes, yn nghylch deuddeg milltir oddi wrth Fôr y Canoldir; ac yn agos iddi yr oedd teml enwog Daphne. Yr oedd hi yn nghylch deng milltir o gwmpas; yn drigfan y llywodraethwyr Groegaidd a ddylynasant Alexander Fawr, ar Syria, ac yn un o'r dinasoedd mwyaf blodeuog, cyfoethog, a masnachol yn y byd. Yma yr oedd yr Iuddewon yn mwynhau yr un breintiau â'r Groegiaid. Llwythodd Vespasian, Titus, ac amherawdwyr Rhufeinig ereill y ddinas hon, âg urddasoedd a breintiau. Bu Paul a Barnabas yn pregethu ynddi am ennyd o amser; yma y rhagrithiodd Petr, trwy naccau bwytta gyda y Cenedloedd; ac yma y galwyd canlynwyr ein Prynwr gyntaf yn *Gristionogion*, yn mhen ychydig flynedd-oedd ar ol ei escyniad, Act. xi. 19—27. a xiv. 26. a xv. 35. Gal. ii. 11. Parhaodd yr eglwys ynddi yn glodfawr dros amryw oesoedd; ac yma yr oedd gan un o'r Patricirch ei eisteddle; yma y bu'r enwog *Chrysostom* yn niwedd y bedwaredd ganrif, yn pregethu gyda chlod a llwyddiant rhyfeddol. Bu y ddinas hon bron a chael ei dinystrio deir-gwaith gan ddaear-grynfâau yn y bedwaredd ganrif, ac mor fynych â hyny yn y bummed. Yn A. D. 548, enillodd y Persiaid hi, llosgasant y ddinas, a rhoddasant y trigolion oll i'r cleddyf. Gwedi hyny adeiladodd yr amherawdwr Justinian hi yn fwy prydferth a rheol aidd nag erioed; ond adenneillodd y Persiaid hi yn ebrwydd, a dinystriasant ei chaerau. Yn A.D. 588, darfu am driugain mil o'i thrigolion mewn daear-gryn. Ailadeiladwyd hi yn fuan, ond ennillodd y Saraceniaid hi yn A. D. 637; er pa amser, ni wnaeth Cristionogrwydd ond ymddangosiad gwael iawn yno. Adennillodd Nicephorus yr amherawdwr Groegaidd hi yn A. D. 966. Cyn pen hir wedi hyny, cymmerodd y Saraceniaid, neu y Tyrciaid Seljucaidd feddiant o honi. Yn 1098, dygodd y croes-filwyr *(crusaders)* hi oddi arnynt hwy drwy drais; ond, yn 1188, adennillasant a llwyr ddinystriasant hi. Yn bresennol nid yw hi prin ddim amgen na charnedd o adfeiliau.

2. *Antiochia*, prif ddinas Pisidia. Yma y bu Paul a Barnabas, wedi cael cennad gan lywodraethwr y synagog Iuddewig, yn pregethu yr efengyl gyda llwyddiant mawr, nes i'r Iuddewon gyfodi erlidigaeth yn eu herbyn, a rhoi gorfod arnynt i ymadael â'r lle, Act. xiii. 14—51.

ANTIPAS, *(yn erbyn pawb)* merthyr neu dyst ffyddlon i Grist, Dad. ii. 13. Dywedir ei fod yn un o ganlynwyr cyntaf ein Hiachawdwr, ac iddo ddyoddef merthyrdod yn Pergamus, o dan Domitian, lle yr oedd efe yn esgob, neu olygwr ar yr eglwys.

ANTIPATRIS, *(yn erbyn tad)* dinas yn Nghanaan, yn gorwedd mewn dyffryndir hyfryd, ac yn agos i'r mynyddoedd, ar y ffordd o Jerusalem i Cesarea; ac yn nghylch 17 neu 18 milltir o Joppa, 42 o du y gogledd-orllewin i Jerusalem, a 26 o Cesarea. Addurnwyd ac helaethwyd hi gan Herod Fawr; ac oddi wrth ei dad Antipater y derbyniodd ei henw. Yma y cymmerodd Paul a'i wylwyr ychydig orphwysdra ar eu ffordd i Cesarea, Act. xxiii. 31.

ANUDON, *(an-udon,* rheg) camlw, twyll-lw; tyngu *anudon*, sef tyngu anwiredd, neu dorri llw cyfreithlon. Y mae hwn yn bechod tra echryslon; yn anmharch mawr i Dduw; yn wadiad, neu, o leiaf, yn anghydnabyddiaeth o holl-wybodaeth Duw; yn halogi ei enw; ac yn ei arfeiddio yn ei wyneb. Y mae yn drosedd o'r trydydd a'r nawfed gorchymyn; ac yn dwyn pawb sydd yn euog o hono dan felldithion trymaf y gyfraith sanctaidd. Y mae yn ar-

swydus meddwl am un creadur gwael wedi ymgaledu mor bell, ag iddo, ger bron y Duw mawr, ac yn ei enw, gyfeirio atto am wirionedd! yr hyn a wyr efe, y pryd hwnw, sydd gelwydd; ac yn rhoddi hèr i Dduw i'w daro â barn, os nad yw y celwydd yn wir. Y mae barn Duw yn cael ei chyhoeddi yn ofnadwy yn erbyn *anudonwyr*, Lef. vi. 3. Jer. vii. 9. Mal. iii. 5. Mat. v. 33.

ANUFUDD—DOD, *(an-ufudd)* cyndynrwydd, gwrthryfelgarwch. Adda a flaenorodd yn y llwybr pechadurus hwn, a thrwy *anufudd-dod* yr un dyn hwnw y gwnaed llawer yn bechaduriaid, sef ei holl hiliogaeth. Y maent oll yn blant *anufudd-dod;* ac o ganlyniad, yn blant digofaint, Rhuf. v. 19. Eph. ii. 2, 3. Tit. i. 16. Y mae dyn yn ei anufudd-dod, yn gosod ei ewyllys ei hun i fynu, yn lle ewyllys Duw; hyny yw, yn gosod ei hun yn lle Duw, yr hyn sydd ddelw-addoliaeth. Oddi wrth arglwyddiaeth yr ysbryd anufudd hwn, y mae pawb a achubir yn cael eu gwaredu trwy ras, yn yr ail-enedigaeth, Luc i. 16. Act. xxvi. 19. Rhuf. vi. 14—23.

ANWADAL, *(an-gwadal,* sefydlog) ansefydlog, anwastad. "Eneidiau *anwadal;*" sef, eneidiau heb eu cadarnhau a'u sefydlu yn y gwirionedd, o ran eu cred; ac, o achos eu hanwadalwch, yn hawdd iddynt gael eu llithio (neu yn ol y Groeg, *abwydo,* fel y delir pysg neu adar) gan auathrawon, oddi wrth y gwirionedd, ac uniawn-lwybrau Duw, 2 Petr ii. 14.

ANWASTAD—RWYDD, *(an-gwastad)* anwadal, sigledig. "*Anwastad* yn ei holl ffyrdd," Iago i. 8. Y mae'r hwn sydd yn rhanu ei serch rhwng Duw a'r byd, ac nis gall yn siriol a chalonog roddi ei hun yn hyderus i ddwyfol gynnorthwy, i gael ei arwain lle bynag y gwelo Rhagluniaeth fod yn dda, yn ansefydlog yn ei holl ffyrdd; fe fydd iddo o hyd redeg i anghyssondeb yn ei ymddygiad; a'r teimlad anmherffaith o grefydd sydd ganddo, a wasanaetha yn hytrach i aflonyddu y meddwl, nac i'w dywys a'i ddiogelu. Drachefn, rhaid i'r hwn sydd yn dymuno y dyben, ddymuno, neu o leiaf, lawn ymfoddloni yn y moddion angenrheidiol; onite, y mae efe yn *ddau-ddyblyg yn ei feddwl.* Fe fynai, ac ni fynai.

ANWE, *(an-gwe)* yr edef a fwrir ar draws yr ystof. "Pa un bynag ai yn yr ystof ai yn yr *anwe,*" Lef. xiii. 48. *Calmet* a ddywed fod yn hawdd rhoddi rheswm am y math neilluol hyny o'r afiechyd ag oedd yn glynu wrth ddillad, o ba wneuthuriad bynag y byddent, trwy sylwi, am nad oedd gan yr Israeliaid nemawr o ddillad, fod yr hyn oedd ganddynt, o eisiau cael eu newid a'u golchi, yn aml yn dueddol i fagu y pryfed heintus hyny ag oeddynt yn peri yr afiechyd hwn; a hyny yn hytrach, gan nad oedd y defnydd o ba un y gwnaent eu dillad, mae'n debyg, wedi ei drin yn y ffordd oreu, gan nad oeddynt etto wedi cyrhaedd nemawr o wybodaeth yn y gelfyddyd o ddiseimio brethynau a gwlaneni; a hwn oedd un rheswm, fel y meddylia efe, pa ham y gwaharddai Moses yr arferiad o lin a gwlan gael eu cyd-wau, am y byddai y cyfryw wisgoedd mor agored i'r haint, neu'r llwgr, â'r rhai a gaffent eu gwneuthur o wlân yn unig.

ANWEDDAIDD, *(an-gwedd)* anhardd, gwrthun. "Cariad nid yw yn gwneuthur yn *anweddaidd,*" 1 Cor. xiii. 5. Y mae hyn yn cynnwys nad yw cariad yn daeog, neu yn rhoddi tramgwydd gwirfoddol i neb. Y mae yn rhoddi i bawb eu dyledion; ofn i'r hwn y mae ofn; parch i'r hwn y mae parch; caredigrwydd, mwyneidd-dra, a dynoliaeth i'r holl fyd; yn eu gwahanol raddau, yn rhoddi parch i bob dyn. Darlunir moesgarwch, ïe, y radd uchaf o honi, sef boneddigeiddrwydd, i fod yn ddymuniad parhaus i foddhau, yn ymddangos yn yr holl ymddygiad. Os felly, nid oes neb mor foneddigaidd â'r Cristion—earwr holl ddynolryw; canys nis geill lai na boddhau pob dyn yn yr hyn sydd dda iddo er adeiladaeth; ac nis gellir cuddio y dymuniadau hyn; hwy o angenrheidrwydd a ymddangosant yn ei holl gyfrinach â dyn; canys y mae ei gariad ef yn ddiragrith; fe ddengys ei hun yn ei holl ymddyddanion a'i weithredoedd; ïe, ac a'i cymbell ef, er heb ddim twyll, i ddyfod yn bob peth i bawb, os mewn un modd y geill gadw rhai, Phil. iv. 8. 1 Petr iii. 5. a v. 5. Eph. iv. 22—24.

ANWELEDIG, *(an-gweledig)* cuddiedig, allan o olwg. Y mae Duw felly yn *anweledig* i ni; ond y mae yn weledig i lygad ffydd; sef, deall wedi ei oleuo gan Ysbryd Duw i'w adnabod yn ol tystiolaeth ei air am dano. "Fe ymwrolodd Moses fel un yn gweled yr *anweledig*;" a thrwy hyny, gadawodd yr Aipht, heb ofni llid y brenin, Exod. x. 28, 29, Heb. xi. 27.

ANWIR, *(an-gwir)* twyllodrus, celwyddog. "Trwy ddwylaw *anwir*," Act. ii, 23. Wrth ddwylaw anwir y meddylir y *Rhufeiniaid*, y rhai oeddynt y gweithwyr digyfrwng yn nghroeshoeliad Crist, etto nid oeddynt hwy ond offerynau cynddaredd a chreulondeb yr Iuddewon yn yr hyn a wnaethant. Yma y mae'r apostol yn rhagflaenu yg wrthddadl hwnw, paham y goddefodd Duw i'r fath berson a hwn gael y fath driniaeth a hyn? Ai oni wyddai efe pa beth oedd dynion drygionus yn amcanu ei wneuthur? Ond oedd ganddo ef allu i attal hyny? Gwyddai yn sicr ac yn gwbl am yr holl bethau oedd y dynion drygionus hyny yn fwriadu eu gwneud. Ac yr oedd ganddo allu i attal eu holl amcanion mewn munudyn. Ond ni ddefnyddiodd efe y gallu hwnw, *felly y caroddefe y byd!* o achos mai terfynedig gyngor ei gariad oedd gwaredu dynolryw oddi wrth farwolaeth dragywyddol, trwy farwolaeth ei unig-anedig Fab.

ANWIREDD, *(an-gwir)* camwedd, celwydd. Y mae gwaith Duw yn craffu ar *anwiredd* yn arwyddo ei sylw o hono yn y fath fodd fel y mae yn ei gadw i'w gospi yn y personau euog o hono. Mewn cyferbyniad i'r craffu hwn, dywedir fod Duw heb weled anwiredd; yn cuddio, ac yn anghofio; yn dileu, ac yn maddeu anwiredd, Salm cxxx. 3. Num. xii. 21. Salm xxxii. 1, 2. a li. 9. Mic. vii, 18. Wrth lanhau *anwiredd*, deallwn, ei faddeu, a gwaredu oddi wrtho. Glanhau peth allan ydyw tynu ymaith y peth sydd yn ei allanhau, trwy gymhwysiad o drydydd peth. Y trydydd peth hwn yw gwaed Iesu Grist; yr hwn, trwy y cymhwysiad o hono gan yr Ysbryd Glân i'r enaid, sydd yn glanhau oddi wrth bob pechod, 1 Ioan i. 7. Salm li. 2. Esa xxvii. 9.

ANWYBODAETH, *(an-gwybodaeth)* diwybodaeth. Yn (1.) diffyg o wir wybodaeth am Dduw a'i wirioneddau, Eph. iv. 18. Anwybodaeth o Dduw sydd yn peri i ni beidio yn ddiarswyd yn ei erbyn, ei angharu, anufuddhau iddo, a'i anghredu. Anwybodaeth o Grist a'i iachawdwriaeth, sydd yn peri i ni ei esgeuluso a'i ddirmygu, a pharchu a dewis pob peth o'i flaen. Y mae anfeidrol werth a gogoniant ynddo, rhagor pob gwrthddrych arall; ond heb adnabod y gwerth hwnw, y mae yn ddiystyr genym am dano. "Duw wedi esgeuluso amseroedd yr *anwybodaeth* hon, Act. xvii. 30. Y mae y gair gwreiddiol am *esgeuluso*, yn arwyddo *edrych dros*, hyny yw, nid oedd yn ymddangos i gymmeryd sylw o honynt, trwy anfon cennadau penodol attynt, megys y gwnaeth ef at yr Iuddewon, ac yn awr hefyd at y Cenedloedd; fel y canlyn, *ond sydd yr awr hon yn gorchymyn:* gwel y darllenydd fod mawrhydi yn yr ymadrodd diweddaf hwn, gweddus i un ag oedd yn deimladwy ei fod yn wir gennad oddi wrth Frenin y nefoedd. Yr oedd y gorchymyn cyffredinol hwn, yn mynegu, yn y modd cryfaf, euogrwydd cyffredinol, ac yn hynod wrthwynebu balchder y *Stoic* mwyaf ffroen-uchel o honynt oll; ac, ar yr un pryd, yr oedd yn distrywio pob gwag-esgus a gymmerent oddi wrth dynged-fen; oblegyd pwy a allasai edifarhau am wneuthur yr hyn ag y meddyliai nad allasai lai na'i gwneuthur.

ANWYL—YD, *(an-gwyl)* cu, hoff, cymmeradwy. Crist yw *anwylyd* Duw; y mae Duw yn ei barchu yn anfeidrol, yn ei garu ac yn ymhyfrydu ynddo, fel ei fab, a'i was cyfryngol. Y mae Crist yn ei berson, ei swyddau, a'i holl waith yn *anwylyd* y Tad; y mae y Tad yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu ynddo. Mae y Tad yn caru y Mab, a'r Mab yn caru y Tad â'r un cariad dwyfol, anfeidrol, perthynol i'r Duwdod yn unig, Mat. iii. 17. a xvii. 5. Efe yw *anwylyd* y seintiau; y maent yn ei barchu yn fawr, yn ei ddymuno, ei foli, ac ymhyfrydu ynddo â'u holl galon, meddwl, a nerth; y maent wedi ei ddewis a'i briodi, fel unig anwylyd eu henaid, Can. ii. 16. a iv. 16. Y mae y seintiau yn *anwyl* gan Dduw a Christ; a'r eglwys yn ddinas

anwyl. Mewn cariad anfeidrol tuag attyut, y trefnodd Duw eu hiachawdwriaeth: y dododd Iesu ei einioes i lawr, ac y mae yn eiriol drostynt, a'r holl Bersonau dwyfol yn cyduno i'w hachub ac ymhyfrydu ynddynt, Can. v. 1. Dad xx. 9. Zeph. iii. 17.

ANYMLADDGAR, (*an-ymladdgar*) heddychol. "Rhaid gan hyny i esgob fod yn dirion, yn *anymladdgar*," sef nid yn garwr cynhen, neu un ag sydd a mor lleied o lywodraeth ganddo arno ei hun, a thori allan mewn natur ddryg-wyllt yn erbyn ereill. Os yw y tymher hwn, a'r ymddygiad cyfattebol iddo yn ofynol oddi wrth holl aelodau eglwys Crist; pa faint mwy yn ei holl flaenoriaid, fel y gallont yn hyn, fel yn mhob peth arall, fod yn esamplau i'r praidd, 1 Tim. iii. 3. Tit. iii. 2.

ANYNAD, (*an-ynad*, barnwr) croes, anfoddawdwy. "Grwaig *anynad*," yw gwraig anfwyn, anniddig, geintachlyd, Diar. xxi. 9. Yr anghyssur o fyw gyda y cyfryw ymgeledd anghymhwys, a gyffelyba y gwr doeth i'r anghyssur o drigo, ar ddiwrnod gwlawog, mewn tŷ â defni parhaus ynddo.

APOCRYPHA, nifer o lyfrau a osodir yn fynych rhwng yr Hen Destament a'r Newydd; neu ynte a rwymir i fynu gyda hwynt. Y maent yn cael eu galw felly oddi wrth y gair Groeg *Apocrypto, cuddio, cuddiedig*. Yr oeddynt, o leiaf mewn rhan, yn cael ei darllain yn ddirgel gan yr hen Gristionogion, fel yn ddefnyddiol; ond ni dderbyniwyd hwy i ganon yr ysgrythyr. Ni dderbyniwyd un o honynt erioed gan yr Iuddewon, i ba rai yr ymddiriedwyd ymadroddion Duw y pryd hwnw. Nid oes un o honynt i'w gael yn nghofrestr *Melito* o'r llyfrau canonaidd yn yr ail ganrif; ac nid yw *Origin* ychwaith yn y drydedd; nac *Epiphanius* yn y bedwaredd, yn y modd lleiaf, yn addef eu hawdurdod. Ni chaniattawyd ond i ychydig o honynt fod yn canonaidd hyd y 9fed a'r 10fed ganrif, pan yr oedd anwybodaeth y bobl, a dyhirwch yr offeiriaid yn alluog i ganiattau i unrhyw beth fyned yn lle dwyfol; ac ni sefydlwyd eu dwyfol awdurdod erioed, ond gan adgas gyngor Pabaidd Trent, yr hwn a'i cyhoeddodd oll yn canonaidd, ond gweddi Manasseh, a Thrydydd a Phedwerydd llyfr Esdras, a chan ychydig o hwrthgenod Pabyddol yn Florence. Rhaid i bob darllenydd ystyriol ganfod, fod y llyfrau hyn mewn diffyg o fawrhydi yr ysgrythyr ysbrydoledig; a bod ynddynt amryw o bethau annuwiol, anwireddus, ac anghyttun â gair Duw.

Nid yw llyfr cyntaf Esdras yn gyffredin ddim ond talfyriad drwg o'r ddwy bennod ddiweddaf o'r Croniel, a llyfr Ezra. Y mae yr awdwr yn anwireddus yn gwneud Zorobabel yn ŵr ieuangc yn nyddiau Darius Hystaspis, a Joacim yn fab iddo, pen v. 5.; tra yr oedd yntau yn fab i Jesua yr arch-offeiriad, Neh. xii. 10. Geilw Darius yn frenin Assyria, yn hir wedi i'r amheroedraeth hono gael ei dadymchwelyd yn llwyr; ac y mae yn gwneud i rai pethau gael eu cyflawni dan Darius, y rhai a wnaethpwyd dan Cyrus. Cymhara pen iv. 48, 57, 58, âg Ezra i. a'r iii. 1. Nid ymddangosodd ail lyfr Esdras erioed gymmaint ag yn y Groeg, ond yn Lladin: a chasgliad yw o chwedlau, breuddwydion, a gweledigaethau, mor ddrwg, fel yr oedd yn gywilydd gan, hyd yn nod cyngor Trent, gydnabod ei ddwyfoldeb. Oddi wrth luaws o fanau ynddo, ymddengys fod yr awdwr wedi darllain y Testament Newydd; ac oddi wrth hyn y mae yn llefaru am *arwyddion yr amserau*, ac am y *trydydd udgorn*.

Pa un a ysgrifenwyd llyfr Tobit yn wreiddiol yn yr Hebraeg, nis gwyddom; ond yr ydym yn hytrach yn tueddu i feddwl mai y Galdaeg, o'r hon y gwnaeth *Jerome* ei gyfieithad, oedd y wreiddiol. Y mae y priod-ddulliau Groegaidd o ymadroddi a ganfyddir yn adysgrifen *Castalio*, neu yn yr adysgrifeniadau Hebrëig a gyhoeddwyd gan *Munster* a *Fagius*, yn profi yn rhy amlwg nad gwreiddiol mo honynt, ond cyfieithiadau o'r Groeg. Ysgatfydd nad yw y llyfr ond ffug-chwedl yn gyfan-gwbl. Annhebygol iawn yw, y buasai, yn amser Senacherib ac Esarhaddon, y tad byw 158 o flynedd oedd, a'r mab 127. Dilys yw, nas gallai un angel i Dduw alw ei hun yn dywyllodrus *Azarias fab Ananias*, fel yr haera yr ysgrifenydd hwnw. Mor anwireddus yw y

chwedl am saith gwr Sarah yn cael eu lladd yn olynol ar noswaith eu priodas, gan ysbryd drwg! ac am yr ysbryd hwnw yn cael ei yrru ymaith gan arogl a mwg calon ac afu pysgodyn wedi ei osod ar farwydos, ac yn cael ei rwymo yn eithafoedd yr Aipht! ac am wellhad dallineb Tobit â thaenelliad o fustl pysgodyn; ac am ei waith ef a'r angel yn cymeryd y fath folaid o'r gweddill o hono! neu am waith yr angel Raphael yn cyflwyno gweddiau y saint ger bron Duw, pen. v. 12, ii. 8. viii. 2, 3, ix. 8—13. a xii. 15.

Llyfr Judith sydd hanes neu ffugchwedl am waredigaeth fawr a weithiwyd i'r Iuddewon gan wraig o'r enw hwn, pa un, yn ddichellgar a dorrodd ymaith ben Holophernes, tywysog llu yr Assyriaid. Ymddengys iddo gael ei ysgrifenu yn y Caldaeg; ac oddiyno y gwnaeth *Jerome* ei gyfieithad. Ond pa le i osod yr hanes hwn yn gysson âg ef ei hun, nis gwyddom, Dywedir i'r waredigaeth hynod hon ddygwydd wedi i'r Iuddewon ddychwelyd o'u caethiwed; ac wedi i'r deml gael ei hail-adeiladu; ac etto yn nghylch y ddeunawfed flwyddyn \ Nebuchodonozor, a chwedi hyny, ni chawsant ddim blinder dros bedwar ugain mlynedd neu uchod, pen. ii. 1. iv. 3, v. 18, 19, a xvi. 20—25. Mor annalluadwy yw cyssoni y pethau hyn â'u gilydd, neu â'r gwirionedd! Mor annhebygol y buasai i Bethulia, tref fechan, sefyll allan yn erbyn llu mor nerthol! neu y gwnaethai marwolaeth y tywysog i'r holl fyddinoedd ffoi ymaith yn warthus! Pa mor rhyfedd oedd canmol gwraig fel un yn ofni yr Arglwydd mewn gwirionedd, yr hon oedd euog o gelwydd goleu-eglur; o wneud rhan carn-butain; o dyngu yn halogedig; o lofruddiaeth; ac o ganmol yr un hwnw a gyflawnwyd gan Simeon! pen. ix, xi, a xiii.

Y chwanegiadau at Lyfr Esther a gynnwysant bron saith pennod, ac nid ydynt un mymryn gwell na'r un blaenorol; ac ni chafwyd hwy erioed yn yr Hebraeg. Pa mor wrthwynebol i'r hanes ysbrydoledig yr haera yr awdwr hwn, i ymgais yr eunuch i ddwyn ymaith fywyd Ahasferus fod yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad; i Mordecai gael ei wobrwyo y pryd hwnw am ei ddadguddiad o'r peth; i Haman gael ei dderchafu cyn y dygwyddiad hwn, a'i fod wedi cael ei gyffroi gan Mordecai am ei waith yn dynoethi yr eunuchiaid: mai Macedoniad oedd Haman, ac iddo amcanu trosglwyddo llywodraeth Persia i'r Macedoniaid! cymhar pen. xi. 2. a xii. 1. âg Esth. i. 3. a ii. 16—21. a pen. xi. 3. a xii. 5. â'r vi. 3. a pen. xii. 6. a xvi. 10, 11 â'r iii. 1—5. Mor fusgrell oedd ef wrth osod allan Ahasferus yn edrych ar Esther *fel llew llym*, ag etto *gyd âg wyneb yn llawn gras!* pen. xv. 7, 13, 14, i'w osod ef allan fel yn galw yr Iuddewon *yn blant i'r Duw byw Goruchaf a mwyaf*, pen. xvi. 16.: neu fel yn gorchymyn i'r Cenedloedd gadw gwyl y Pwrim.

Ni chafodd llyfr y Doethineb ei ysgrifenu gan Solomon, fel yr haera ei awdwr yn anwireddus; ac ni chafwyd ef erioed yn yr Hebraeg. Ymddengys fod yr awdwr hwn wedi darllain *Plato*, a'r prydyddion Groegaidd, ac y mae yn benthycio ymadroddion oddi wrthynt: megys Ambrosia; afon anghof; breniniaeth uffern, &c. pen. i, 14, vii. 13, a xix. 20. Ymddengys fod amryw ymadroddion o hono wedi eu cymmeryd allan o'r prophwydi; ac hyd yn nod y Testament Newydd; cymhar pen. vii. 26. â Col. i. 15. a Heb. i. 3. Rhai a fynant mai *Philo* yr Iuddew oedd ei awdwr: ond ymddengys yn hytrach mai Cristion twyllodrus oedd efe. Y mae yn condemnio gwely priodas fel yn bechadurus; ac yn cau plant godineb allan o obaith am iachawdwriaeth; y mae yn siarad fel pe bai eneidiau yn cael eu llettya mewn cyrph yn ol eu haeddiant blaenorol; yn gwneud lladdiad Abel yn achos o'r dylif; yn darlunio yr Aiphtiaid fel yn cael eu blino gan eu heulunod eu hunain; er mai dilys yw nad addolasant erioed *lyfaint, locustiaid, neu lau*; yn galw y *Logos* dwyfol, neu'r ail berson yn y Drindod yn *angerdd* a *ffrwd*, pen. iii, 13, 18, viii. 20, x. 3, 4, xiii. 23, 24, a vii. 25.

Y mae llyfr Ecclesiasticus yn waith llawer mwy ei werth na'r un blaenorol. Un Jesus mab Sirach, trwy ddarllain yr ysgrythyrau, a llyfrau da ereill, a gyrhaeddodd gryn gyfran o wybodaeth. Casglodd yn nghyd ymadroddion byrion a dwys y cyfryw

a aethant o'i flaen ef, a chwanegodd amryw o'i eiddo ei hun. Ysgrifenwyd ei lyfr yn wreiddiol yn yr Hebraeg neu y Galdaeg: ond Jesus ei Wyr a'i cyfeithodd i'r Groeg, yn nheyrnasiad Ptolemy Euergetes, brenin yr Aipht, yn nghylch 240 o flynedd oedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr; ac y mae yn deisyf maddeuant, os gwnaethai ddim ar fai; yr hyn a ddengys yn eglur nad oedd efe wedi ei ysbrydoli. Ac, yn wir, er ei fod y goreu o lawer o holl lyfrau yr Apocrypha, etto y mae ynddo amryw o bethau gwrthwyneb i athrawiaeth iachus. Y mae yn gosod allan y *Logos* dwyfol, neu y *Mab*, fel wedi ei greu gan Dduw; yn gwneud fod anrhyddedu rhieni, a rhoddi elusen, yn iawn am bechod;[s] yn haeru i Samuel brophwydo ar ol ei farwolaeth, a dangos i Saul ei ddiwedd; ac fod Elias y Thesbiad wedi ei orchymyn i ostegu digter yr Arglwydd, ac i droi calon y Tad at y Mab, pen. xxiv. 9, iii. 3, 30, xii. 4, 5, xlvi. 20, a xlviii. 10.

Llyfr Baruch sydd ffug-hanes cyfwiyddus. Y mae yn afresymol yn cymmeryd arno iddo gael ei ysgrifenu gan Baruch yn Babilon, pan, mae'n debyg, nad aeth efe erioed yno; iddo gael ei ddarllain i Jechonias wrth yr afon Sud, yr hon ni chrybwyllir am dani mewn un man arall; ac nid allasai Jechonias ei glywed yno, pan yr oedd efe yn gaeth yn ngharchar. Y mae yn crybwyll am gasgliad i brynu ebyrth, a wnaed gan y caethion yn Babilon, ac a anfonwyd i Joachim yr offeiriad, yn nghyd â'r llestri cyssegredig a wnaethai Zedecias; ond, pa fodd y gallai y caethion, newydd eu caethiwo yn Babilon, wneuthur casgliadau? pa fodd y gallent eu hanfon i archoffeiriad nad oedd yn bod y pryd hwnw? pa fodd y gallai y llestri cyssegredig, a wnaethai Zedecias, gael eu hanfon yn ol o Babilon, pan nad yw yn ymddangos iddo wneuthur dim o honynt? neu pa fodd y gallent gael eu hanfon yn ol, cyn iddynt gael eu dwyn ymaith gydag ef ei hun? Y mae yr awdwr yn benthycio amryw o ymadroddion oddi wrth Daniel; ac felly rhaid ei fod yn byw wedi marw Baruch. Nid yw y llythyr a briodolir i Jeremi wedi ei ysgrifenu yn ei ddull ef, nac yn null iaith yr ysgrythyrau chwaith. Y mae yn chwerthinus yn troi *deng mlynedd a thriugain* i *saith o genedlaethau*. Cân y Tri Llanc yn y ffwrn dân, sydd mewn rhan yn efelychiad gwaelo'r 148 Salm; ac mewn rhan yn wrth-erfyniol, heb fod yn gyfaddas i'r cyfryw waredigaeth. Ymddengys yr hanes am y ffiam yn tafiu uwchlaw'r ffwrn, "naw cufydd a deugain;" a'r angelion yn "gyrru ffiam y tân allan o'r ffwrn, ac yn gwneud canol y ffwrn megys gwynt llaith yn sïo," yn hollol anwireddus ac anhygoel; ac nid yw yn gysson iawn chwaith â gwaith y tân yn dattod eu rhwymau. Ac nid oes gan ystori Susanna y rith leiaf o wirionedd. Ei bod hi yn ddechreuol yn y Groeg, sydd eglur oddi wrth y cyfeiriad, yn y gosp a gyhoeddwyd ar yr henurfaid, at y lentysc-bren a'r brinwyddenen, dan ba rai y dywedasant iddynt gael Susanna a'r gwr ieuange yn nghyd. Mor afresymol oedd honni, fod, yn nechreu y caethiwed, Joacim gwr Susanna wedi mynedyn gryn gyfoethog; fod barnwyr Iuddewig ar fywyd a marwolaeth yn Caldea; fod Daniel, yr hwn a ddygasid i fynu yn y llys, a chanddo hamdden, neu, ag yntau mor ieuange, iddo gael ei dderbyn i fod yn farnwr; i Susanna fyned i'w gardd i ymolchi ganol dydd, ac iddi wneud hyny heb ymofyn a oedd neb yno; neu i'r ddau henuriaid gynnyg ei threisio, pan na allasent lai na disgwyl dychweliad ei morwynion hi bob munudyn.

Y mae ystori Bel a'r Ddraig yn fwy anhygoel fyth. Pa mor annheb yg y buasai Cyrus, Persiad, yn addoli eilun Babilonaidd; ïe, eilun a dorasid yn ddarnau wrth emmill y ddinas! Pa mor afresymol i feddwl, y gallasai dyn o'i synwyr ef gredu fod delw o bres a chlai yn bwytta ac yn yfed yn wirioneddol! Pa mor wael beth oedd i Daniel gael allan yr offeiriaid yn dyfod ac yn bwytta yr ymborth trwy beri i weision y brenin daenu lludw dros gwbl o'r llawr, pan y gallasai yr offeiriaid mor hawdd eu canfod, neu y gweision fynegu mor barod am danynt! Pa mor afresymol ydyw, y gallasai y Babiloniaid oedd newydd eu gorchfygu, trwy fygythion, beri i Cyrus roddi fynu ei anwyl Ddaniel iddynt, i gael ei fwrw i ffau y llewod! Pa mor afresymol, fod y prophwyd Habac-

cuc yn fyw y pryd hwnw i ddwyn ciniaw iddo! neu y buasai Cyrus saith niwrnod cyn myned at y ffau, i weled beth a ddaethai o'i hoff-ddyn! Y weddi a briodolir i Manasses ni ymddangosodd erioed yn yr Hebraeg; ac ymddengys mai ffrwyth rhyw ysbryd phariseaidd yw hi. Y mae yr awdwr yn llefaru am rai cyñawn, megys Abraham, Isaac, a Jacob, fel *heb bechod, ac heb eu galw i edifarhau.*

Llyfrau y Maccabeaid ydynt hanes am y dygwyddiadau perthynol i'r Iuddewon dan lywodraeth yr offeiriad Mattathias a'i hiliogaeth; ac y maent, yn enwedig y llyfr cyntaf, yn dra defnyddiol. Ymddengys iddo gael ei ysgrifenu yn wreiddiol, yn yr Hebraeg neu y Galdaeg; yn yr iaith hon y gwelodd Origen ef; ac o'r iaith hon yr ymddengys i Jerome wneud ei gyfieithiad. Ni allai gael ei ysgrifenu trwy ysbrydoliaeth; yr ysgrifenydd a sylwa yn fynych *nad oedd prophwyd yn eu plith* yn ei amseroedd ef, pen. iv. 46, a'r xiv. 41. Ac y wir, y mae efe wedi camddywedyd amryw o bethau; megys, i Alexander Fawr ranu ei deyrnas yn mysg ei whsanaethwyr anrhydeddus, pan oedd efe etto yn fyw; i Antiochus Fawr gael ei ddal yn fyw gan y Rhufeiniaid; iddynt hwy roddi India a Media, rhanau o'i deyrnas ef, i Eumenes brenin Pergamus; fod cyngor Rhufain yn cynnwys 320 o wyr; mai mab i Antiochus Epiphanes oedd Alexander Balas, &c. pen. i. 16, a'r viii. 6—8, 15, 16, a x. 1.

Ail lyfr y Maccabeaid sydd lawer llai ei werth na'r cyntaf. Hanes yw o bymtheg mlynedd; a thalfyriad o waith un Jason o Cyrene. Y mae yr awdwr yn ei ddiweddu, gan ddeisyf ei esgusodi, os dywedasai ddim yn anweddus i'r ystori; ac yn wir 'yr oedd ganddo achos i wneuthur felly, wrth ystyried pa nifer o bethau anwireddus a drwg y mae ef yn adrodd yma ac acw: megys, fod Judas y Maccabead yn fyw yn yr 188 mlynedd o'r Seleusidœ, pan yr oedd yntau wedi marw yn yr 152; i Antiochus Epiphanes gael ei ladd yn nheml Nanea yn Persia, pan y bu yntau farw ar gyffiniau Babilon, o glefyd dychrynllyd; i Nehemiah adeiladu yr ail deml a'r allor, tra yr oeddynt hwythau wedi cael eu hadeiladu driugain mlynedd cyn iddo ef ddyfod o Persia; i Jeremiah guddio y babell, yr arch, ac allor y poethoffrwm mewn ogof; fod Persepolis mewn bod 100 mlynedd gwedi i Alexander ei llosgi yn ulw; i Judas wneud yn dda trwy offrymu gweddiau ac ebyrth er gwneuthur cymmod dros y meirw; i Rasis wneud yn dda trwy ladd ei hun, er mwyn diange rhag cynddaredd y Syriaid, pen. i. a ii. a'r ix. 2, 26—28, a'r xiii. 43—45, a'r xiv. 37.

Trydydd llyfr y Maccabeaid sydd yn rhoddi hanes am erlidigaeth a fwriadwyd yn erbyn yr Iuddewon yn yr Aipht, ond a ragflaenwyd yn wyrthiol. Rhai a alwant hanes Josephus am y merthyron a ddyoddefasant dan Antiochus yn *hedwerydd*; ond ni ymddengys yr hyn a eilw *Calmet* felly, i ni, yn ddim amgen na'r hanes Arabaidd am y genedl Iuddewig, yr hon sydd genym yn Mibl amryw-ieithiog Llundain. Y mae yn cyrhaedd i yn nghylch 160 o flyneddoedd; yn dechreu ar ymgais Saleucus i yspeilio y deml; ac yn diweddu o fewn ychydig i enedigaeth Iesu Grist.

APOLONIA (*colledigaeth*). Yr oedd dinas o'r enw hwn o du y gorllewin i Ganaan; ond yr un y crybwyllir am dani yn yr ysgrythyr, oedd ddinas yn Macedonia, wedi ei syllaenu gan y Corinthiaid, ac heb fod yn enwog am ddim bron, ond i Cesar Augustus ddysgu yr iaith Roëg yno. Safai yn agos i Amphipolis, o du y dehau iddi; a gelwir hi yn awr Erisso. Act. xvii. 1.

APOLOS (*dinystrydd*). Iuddew o Alexandria, yr hwn a ddaeth i Ephesus pan yr oedd Paul newydd gychwyn ar ei drydedd taith i Jerusalem. Yr oedd efe yn wr ymadroddus iawn, a chadarn yn yr ysgrythyrau. Bu yn wresog a diwyd hynod i athrawiaethu y pethau a berthynent i'r Arglwydd Iesu, heb ddeall ond bedydd Ioan yn unig. Acwila a Phriscila wedi ei glywed ef yn llefaru yn bŷf yn y synagog, ac yn dangos mai Iesu oedd y Messiah a'r Iachawdwr addawedig, a'i cymmerasant ef adref attynt, ac a agorasant iddo ffordd yr Arglwydd yn fanylach. Ymadawodd oddi yno gyda llythyrau o ganmoliaeth, i

Achaia; lle y bu yn ddefnyddiol iawn i gadarnhau y dychweledigion newydd, a dangos, trwy yr ysgrythyrau, i'r Iuddewon, mai Iesu o Nazareth oedd y gwir Fessiah addawedig i'w tadau. Yma, fel yn Ephesus, bu yn dyfrhau yr eglwys, y rhai a blanasai Paul. Bu ei wybodaeth ac hyawdledd ei ymadrodd bron yn achlysur o ymraniad yn Corinth; rhai yn cymmeryd arnynt fod o blaid Paul, ac ereill o blaid Apolos, ereill o blaid Cephas, ac ereill, yn cymmeryd arnynt fod yn uwch etto, o eiddo Crist. Yn fiin ganddo o herwydd hyn, gadawodd Apolos Achaia; a chyda Zenas y cyfreithiwr, mordwyodd i Crete. Oddi yno aeth i Ephesus; ac yno yr oedd ef pan ysgrifenodd Paul ei epistol cyntaf at y Corinthiaid; at ba rai nis gellid prin gael ganddo ddychwelyd. Act. xviii. 28. 1 Cor. i. 12, iii. 4—6, a xvi. 12. Tit. iii. 15.

APOSTOL, sydd yn arwyddo cennad anfonedig ar neges tra phwysig, ac wedi ei gynnysgaethu â chred-lythyrau nodedig. Apostol mawr y gyffes Gristionogol yw Crist Iesu ei hun; ac y mae ei nodwedd fel *Apostol* yn deilwng o fawr ystyriaeth. Heb. iii. 1. "Yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnnw a'i hysbysodd ef." Daeth allan oddi wrth Dduw, fel ei apostol, *i bregethu* y newydd da i'r rhai addfwyn, y dryllieidig o galon, a'r caethion; attynt hwy y mae ei gennadwri yn cael ei chyfeirio, a chanddynt hwy yr edrychir arno fel Apostol mawr. Nid ellir barnu yn gymhwys am ei nodwedd a'i swydd fel *Apostol* ond wrth y geiriau grasol a ddaethant allan o'i enau ef. Y rhai a'i hystyriant ef fel dysgawdwr *moesoldeb* yn unig, ydynt ddyeithriaid i'w swydd fel Apostol.

Efe a ordeiniodd *ddeuddeg*, y rhai a alwodd efe hefyd yn *Apostolion*, o herwydd yr oedd wedi eu dewis a'u cymhwyso *i ddwyn ei enw ef*. Act. ix. 15. Gallwn ddeall arwyddocâad *dwyn ei enw*, wrth y cyfenw a roddir iddynt hwy. Dad. xxi. 14. *Apostolion yr Oen*: yr oeddynt wedi eu hawdurdodi i fyned i'r holl fyd, a phregethu yr *efengyl* i bob cenedlaeth; y newydd da hwnw o lawenydd mawr, fod Duw wedi edrych iddo ei hun am oen y poeth-offrwm; fod Crist wedi dwoddef unwaith dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw. 1 Petr iii. 18. Athrawiaeth y deuddeg apostol am yr Oen sydd yn ffurfio deuddeg sylfaen y Jerusalem Newydd; ni osodir maen ar yr adeilad ysbrydol hono ar un sylfaen arall. Yr oedd y gennadwri apostolaidd yn un bwysig iawn. "Y neb a gredo a fydd cadwedig, ond y neb ni chredo a ddemnir." Yr oeddynt wedi cael eu cymhwyso gan Dduw. Traethasant yr hyn a *welsent* ac a *glywsent*, ie ac a deimlasai eu dwylaw am Air y Bywyd. 1 Ioan i. 1. "I hyn yr *ymddangosais* i ti, i'th osod ti yn *dyst o'r pethau a welaist*," Act. xxvi. 16. "Yn ddiweddaf oll y gwelwyd ef gennyf finnau hefyd." &c. 1 Cor. xv. 8 Gan fod y gwirionedd mawr oeddynt hwy yn gyhoeddi, yn troi ar sicrwydd adgyfodiad Crist, yr oedd yn angenrheidiol fod yr apostolion wedi gweled yr Arglwydd. Yr oedd eu pregethiad yn cael ei ganlyn gan holl wyrthiau ac effeithiau anghyffredin yr Ysbryd Glân. Ni chawsant ddim canlynwyr yn eu swydd, ond y maent yn parhau i bregethu a thystiolaethu yn eu hysgrifeniadau; ac mewn perthynas i'r rhai hyn, yr Arglwydd a ddywedodd, *Wele! Yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.* Cymmaint a hyn mewn perthynas i natur gyffredinol y swydd apostolaidd. Yn y Testament Newydd, cawn wybod y pethau canlynol am danynt. Enwau y deuddeg apostol cyntaf, oeddynt, Simon Petr, ac Andreas ei frawd; Iago, mab Zebedeus, ac Ioan ei frawd; Philip a Bartholomeus; Tomas a Mathew: Iago mab Alpheus, a Judas ei frawd; Simon y Canaanead, a Judas Iscariot. O'r apostolion hyn, yr oedd Mathew wedi bod yn bublican; pedwar o'r lleill, os nad pawb o honynt, yn bysgodwyr Galileaidd. Gan na syllfaenwyd eglwys y Testament Newydd nes ar ol adgyfodiad ein Hiachawdwr, nid oedd eu hanfoniad cyntaf ond amserol, wedi ei gyfyngu i ddinasoedd Israel; ac mewn dim uwchlaw eiddo y deg dysgybl a thriugain, a anfonwyd wedi hyny ar yr un gennadwri. Eu gwaith oedd pregethu fod *teyrnas nefoedd wedi nesau*; a chadarnhau eu hathraw-

iaeth, trwy iachâd gwyrthiol o'r cleifion, a bwrw allan gythreuliaid; nid oeddynt i ddarparu dim lluniaeth ar gyfer eu taith, ond i'w ddisgwyl oddi wrth eu gwrandawyr; ac nid oeddynt i arfer un rhyw fwyneidd-dra gweincithus i ennill ewyllys da; ond i ysgwyd y llwch ymaith oddi wrth eu traed, fel tystiolaeth yn erbyn y ddinas neu y tŷ a'u gwrthodai. Yn y cyflawniad o'u cennadwri, cawsant lwyddiant priodol. Pan fyddai yr Iesu yn teithio, hwy oeddynt ei gydymdeithion cyffredin; a phan yr amlhaodd efe y torthau, hwy, fel ei weision, a ranasant y bara i'r dyrfa. Mat. x. xiv. a'r xv. Marc iii. a'r vi. 7—13. Luc vi.

Ar eu deisyfiad, gosododd iddynt gynllun er gwneuthur trefn ar eu gweddiau; yr hyn a bregethai efe yn gyhoeddus i'r dyrfa, byddai yn ei egluro yn ddirgel iddynt hwy; ymddyddanodd yn fynych â hwy am eu ddyoddefiadau; a rhoddodd iddynt allweddau teyrnas nefoedd. Pan yr amlygodd Iago ac Ioan eu hymgais am ryw swydd uchel yn ei lywodraeth ef, tramgwyddodd y lleill yn ddirfawr, am nad oeddynt etto yn gwybod natur ei deyrnas ef. Ychydig cyn ei farwolaeth, hysbysodd yr Iesu iddynt am ddinystr neshaol yr eglwys a'r wladwriaeth Iuddewig, ac am ei ddyfodiad ei hun i farn; sierhaodd iddynt y byddai i un o honynt, yn mhen ychydig ddyddiau, ei fradychu ef i ddwylaw ei elynion, i'w groeshoelio. Ymddengys fod y rhan fwyaf o honynt, ar y cyntaf, yn cydsynio â Judas i gymmeryd tramgwydd wrth waith Mair yn enneinio eu Meistr mewn modd mor gostfawr. Gyda hwynt oll cadwodd ei basg diweddaf; gyda hwynt oll, ond Judas hwyrach, y cadwodd ei swpper sanctaidd cyntaf; ac a'u llonnodd a lluaws mawr o annogaethau cyfaddas, ac addewidion cyssurlawn, yn enwedig am yr Ysbryd Glân oedd i gael ei dywallt arnynt. Yr oeddynt wedi ymhyfrydu cymmaint yn hyn, fel pa holiadau anmherthynol bynag oeddynt wedi eu gofyn gynt, yr oeddynt yn addef yn awr ei fod yn *dywedyd yn eglur*. Pan ddaliwyd yr Iesu, dymunodd ar eu erlidwyr, beidio cyffwrdd â hwy; pa fodd bynag, hwy, yn ansyber a gadawsant ef, ac a ffoisant; taflodd ei groeshoeliad ef hwy i lawer iawn o gyfyng-gyngor, gan eu bod o hyd wedi breuddwydio am ei waith yn gosod i fynu deyrnas dymhorol. Pan yr oedd Judas wedi marw, a Tomas yn absennol, efe, yn y pryd nawn wedi iddo adgyfodi, a ymddangosodd i ddeg o honynt, yn nghanol eu petrusder; adnewyddodd eu cennadwri, ac anadlodd arnynt, fel arwydd o'i anfoniad o'r Ysbryd Glân. Luc xi. Mat. xvi, a'r xx. a'r xxiv, hyd xxvi. Ioan xii.—xviii. a'r xx.

Gwedi rhoddi iddynt fynych brofion o'r adgyfodiad, efe, ychydig cyn ei escyniad, a roddodd iddynt orchymyn rheolaidd, *i fyned i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur*; ac a ddilys addawodd iddynt ei bresennoldeb a'i amddiffyniad; ac y gwnai gadarnhau eu hathrawiaeth trwy brofion gwyrthiol; parodd iddynt aros yn Jerusalem am dywalltiad o'r Ysbryd Glân, yr hyn a ddygwyddai yn mhen ychydig dyddiau. Gwedi iddynt fod yn dystion o ymadawiad eu meistr i'r trigfanau nefol, hwy a ddewisasant Mathias yn lle Judas. Ar dydd y Pentecost, gwyl wedi ei gosod i adgoffau rhoddiad y gyfraith, discynodd yr Ysbryd Glân, megys tafodau gwahanedig o dân, ar bob un o honynt; a'u gwnaeth hwy yn hyfion ac anfethedig i bregethu yr efengyl; a'u cynnysgaethodd hwy â gallu i lefaru yn mhob iaith, i adnabod tymhorau dynion, ac i gyfranu y ddawn wyrthiol o lefaru â thafodau i ereill, hwy arddodiad dwylaw. Pregethasant i'r dyrfa, a dwysbigwyd miloedd. Aent yn feunyddiol at byrth y deml, lle, yn nghanol lluoedd dirfawr, y profent mai Iesu oedd y gwir Fessiah, yr hwn a gyfodasai oddi wrth y meirw, ac oedd wedi escyn i ogoniant. Cadarnhasant eu cennadwri trwy wyrthiau aneirif. Gwedi eu brathu gan ddiglonedd o herwydd eu bod yn derchafu un a osodasent hwy i farwolaeth fel drwg-weithredwr, ac o herwydd eu cyhuddiadau hyfion mewn perthynas i'r euogrwydd o'i ladd ef, rhoddodd y cynghor Iuddewig hwy yn ngarchar; ac angel a'u rhyddhaodd hwy, a dychwelasant at eu gwaith o bregethu. Daliwyd hwy eilwaith, ac a'u gollyngwyd ymaith, mewn modd llidiog, i bregethu yn enw eu meistr. Gyda

gorfoledd annhraethol, dygasant eu dyoddefiadau ; ac aethant yn mlaen â'u gwaith, yn ddirgel a chyhoedd. Pan ddaliwyd *hwy nesaf*, yr oedd y cyngor wedi cyduno i'w rhoddi i farwolaeth ; ond trwy gynghor Gamaliel, gollyngwyd hwy yn rhyddion, gyda gorchymyn arbennig, i beidio pregethu byth mwyach yn enw ein Hiachawdwr. Yn fuan wedi hyn, ordeiniasant nifer o ddiaconiaid i drefnu elusen yr eglwys. Cyfododdtymhestl angerddol o erlidigaeth yr hon a wasgarodd y pregethwyr ereill, eithr arosodd yr apostolion yn Jerusalem. Gwedi bod yr apostolion yn Jerusalem yn nghylch deunaw mlynedd, cawn hwy yn galw yn nghyd yr holl eglwys, Act. xv. 22, i ymgynghori yn nghylch gofyniad a ddygasid, er eu hystyriaeth, oddi wrth eglwysi y Cenedloedd, mewn perthynas i awdurdod deddf Moses ar gydwybodau Cristionogion ; y canlyniad o'r gofyniad hwn fu y gorchymyn hynod a gaffeir yn Act. xv. 29, yn gosod allan, gan nad oedd deddf Moses yn unig ond cysgod daionus bethau i ddyfod, nad oedd hi yn ddefnyddiol yn mhellach ; o herwydd fod Crist, y corph, wedi ymddangos, nid oedd un rhan o'r deddf seremoniol yn rhwymo yn awr, oddi eithr y pethau angenrheidiol hyn, sef, ymgadw oddi wrth odineb, gwaed a'r pethau a dagwyd.

Cyn pen hir wedi hyn, ymddengys i'r apostolion ymwasgaru i wledydd ereill ; gan gymmeryd eu cyfarwyddo i'w hamrywiol cylchoedd, fel y dywedir, wrth goelbren ; Petr i Pontus, Galatia, a'r lleoedd o amgylch ; Andreas i Scythia a Sogdiana ; Ioan i Asia leiaf ; Philip i Armenia, Media, a Colchis ; Bartholomeus i Arabia Ddedwydd ; Mathew i Caldea, Persia, a Parthia ; Tomas i Hyrcania, Bactria, ac India ; Judas i Syria a Mesopotamia ; Simon y Canaanead i'r Aipht, Cyrene, Lybia, a Mauritania ; Mathias i Cappadocia a Colchis ; Iago brawd Judas a arosodd yn Jerusalem. Yn y cyfamser, yr oedd Paul, yr hwn oedd yn cyflawni lle Iago yn helaeth, yn teithio i bob man, gan bregethu a thystiolaethu y gwirionedd am Grist, yn enwedig yn mysg eglwysi y Cenedloedd, gan fawrhau ei swydd ; fel hyn, cawn ef yn dweud fod gofal yr holl eglwysi yn benodol arno ef.

Heb un cysgod o brawf, y mae ein Credo cyffredin yn cael ei briodoli i'r apostolion, fel awduron o hono. Nid all neb ddywedyd i ni, pa bryd, neu yn mha le, yr ymgyfarfuant i'w ffurfio ; neu ddangos i ni, pa fodd y gallai credo wedi ei ffurfio gan wyr ysbrydoledig, lai na chael dwyfol awdurdod. Nid oes un o'r Tadau, yn y tair canrif gyntaf, yn haeru mai cyfansoddiad yr apostolion yw efe ; ac nid yr un oedd ef ychwaith yn y prif oesoedd, yn mhob un o'r eglwysi, nac yr unrhyw chwaith ag sydd gennym ni yn awr. Llawer llai y dylai y Canonau a'r Gosodedigaethau, a elwir wrth eu henw hwy, fyned yn lle *apostolaidd*. Heblaw amryw o gamsyniadau ereill, y maent yn cyfeirio at esgobion mam-eglwysi, a phethau ereill nad oeddent i'w cael yn yr eglwys Gristionogol, yn hir wedi claddu yr apostolion yn eu beddau ; ac nid yw yn debygol iddynt cael eu casglu na'u llunio hyd y bummed ganrif, pan yr oedd twyllwyr wedi myned yn ddigon digywilydd, a'r bobl hwythau mor hawdd ganddynt goelio pob chwedl.

APOSTOLIAETH, swydd apostol. I gyrhaedd hon yr oedd yn angenrheidiol fod y person wedi gweled yr Arglwydd ; fod ganddo awdurdod a gorchymyn i fyned i bob man, i sylfaenu a chasglu eglwysi ; ei fod yn meddu anfethedigrwydd mewn athrawiaeth ; a gallu i lefaru â thafodau heb eu dysgu erioed : i wneuthur gwyrthiau ; a chyfrannu yr Ysbryd Glân trwy arddodiad dwylaw, 1 Cor. ix. 1, 2. 2 Cor. xii. 1.

APOTHECARI, un sydd yn cymmysgu neu yn parottoi cyfferi meddygol, neu ber-aroglau, Exod. xxx. 25, 35. Preg. x. 1.

APPELIO ; gwrthod barn un, a gadael yr achos ar arall, Act. xxv. 11, 21, 26, 32.

APPII—FFORUM, lle yn y rhan ddehau-orllewinol o'r Ital, yn nghylch 50 milltir o du y dehau i Rufain, a 18 o'r *Tair Tafarn*. Hyd yma y daeth Cristionogion Rhufain i gyfarfod Paul yn ei ffordd yno o Puteoli, Act. xxviii. 15.

APPHIA. Enw Rhufeinig oedd hwn. Mae Paul yn ei ysgrifenu *Apphia*, yn ol y ffordd Hebrëig ; y Rhufeiniaid a'i hysgrifenent *Ap-*

pia. Mae rhai o'r Tadau wedi meddwl, ac ereill wedi haeru, mai *gwraig* Philemon ydoedd; a chan ei bod yn cael ei henwi yn nesaf at Philemon, ac o flaen *Archippus*, yr hwn oedd weinidog yn Colossa, ni ymddengys y dyb yn afresymol. Trwy fod yr apostol yn ei galw hi yn *chwaer* (yn ol amryw hen gopiau) neu *anwylyd*, yn ol y darlleniad cyffredin, ymddengys ei bod yn Gristion.

APPEC, *(nerth)* 1. Dinas yn llwyth Judah, lle y gwersyllodd y Philistiaid pan ddygwyd arch Duw o Siloh ac y cymmerwyd hi; a thebygol mai yr un oedd ag Aphecca, 1 Sam. iv. 1 Jos. xv. 53. (2.) Dinas yn llwyth Issachar, a gwastadedd Jezreel, yn agos i fynyddoedd Gilboa, lle y lladdwyd Saul a'i feibion. Tebygol mai brenin hon a laddodd Josuah, 1 Sam. xxix. 1. Jos. xii. 18. (3.) Dinas yn llwyth Aser, ar derfyn y Zidoniaid, lle y gadawsant i'r Canaaneaid aros, Jos. xix. 20. Barn. i. 31. Tebygol mai i un o'r ddwy ddiweddaf hyn y ffodd lluoedd gorchfygedig Benhadad, ac y lladdwyd 27,000 o honynt, trwy syrthiad muriau y ddinas arnynt; os nad Aphec yn agos i Biblos yn Syria oedd hi yn hytrach, lle yr oedd teml i Venus, hynod am yr anniweirdeb mwyaf gwarthus, 1 Bren. xx. 26.

AR, ARDDWR, AREDIG. *Ar* yw tir wedi ei aredig, neu a ellir ei aredig. *Judah a ardd, a Jacob a lyfna iddo;* rhwymwyd yr Hebreaid mewn llafur caled a gwael, yn eu caethiwed yn Assyria neu Caldea, neu gwneir hwy yn fywiog i gyflawni gweithredoedd da, Hos. x. 11. Gwnaeth cyfeillion Samson *aredig a'i anner* ef, pan yr ymdriniasant a'i wraig i gael allan ei ddychymyg, Barn. xiv. 18. *Arddu anwiredd, a'i fedu*, yw ei lunio a'i gyflawni, ac yn y diwedd, goddef cosp am dano, Job iv. 8. Hos. x. 13. *Arddu ar y cefn*, yw ffiangellu yn erwin-dost, nes byddo y ffonnodiau yn gwneud, fel pe bai, gwysau yn y cnawd; erlid a blino yn ddirfawr, Salm cxxix. 3. *Arddwyd Sion fel maes*, pan ddinystriwyd y deml; a dywedir i Turnus Ruffus y Rhufeiniad beri aredig i fynu ei sylfaen hi, Jer. xxvi. 18. Mic. iii. 12.

AR, *(yn gwylio)* prif ddinas y Moabiaid, yn agos i'r afon Arnon. Sehon, brenin yr Amoriaid, a'i llosgodd â thân, Num. xxi. 28. Dinystriodd Salmanezer brenin Assyria, neu ei ganlynwyr, hi mewn un noswaith, Esa. xv. 1. Tebygol iddi fod yn gyfranog o anffawd cyffelyb oddi wrth y Caldeaid. Yn nghylch 300 o flynedddoedd wedi marwolaeth ein Hiachawdwr, llyngcwyd hi gan ddaear-gryn. Yn Deut. ii. 9. ymddengys fod holl wlad Moab yn cael ei galw *Ar*, oddi wrth enw y brif ddinas.

ARABIA, *(cymmysg)* gwlad ëang yn Asia, yn gorwedd mewn rhan o du y dwyrain, ond yn benaf o du y dehau i Ganaan. Y mae yn sefyll rhwng 13 a 35 gradd oddi wrth y cylch cyhydedd tua'r gogledd, a rhwng 35 a 60 gradd oddi wrth gylch hanner dydd tua'r dwyrain o Lundain. Ei hyd mwyaf o'r dwyrain i'r gorllewin sydd yn nghylch 1620 o filltiroedd; a'i lled mwyaf o'r gogledd i'r dehau yn nghylch 1350. Ac yn y parthau gogleddol o du y dwyrain i Canaan, y mae yn llawer llai na hanner un o'r rhifedi hyn. Y mae Môr yr India o du y dehau iddi, y Môr Coch a Chyfyng-dir Suez o du y gorllewin, Canaan a Syria o du y gogledd-orllewin a gogledd, a mynyddoedd Caldea a chil-for Persia o du y dwyrain. Dosparthir hi yn gyffredin yn dair rhan, sef, (1.) *Arabia Petrea*, neu y garegog, o du y gogledd-orllewin, yr hon a elwir yn awr Hejiaz. Yn y rhan ddehau-orllewinol o hon y mae y dinasoedd enwog Mecca a Medina yn awr yn sefyll, y rhai yr ymwelir â hwy mor fynych gan bererinion Mahometanaidd. Y mae y dosparth hwn yn cynnwys gwlad Edom, anialwch Paran, gwlad Cusan, &c.; ac ymddengys iddo gael ei alw *Arabia*, oddi wrth ei sefyllfa orllewinol, neu y llwythau cymmysg oeddynt yn preswylio ynddo. Yn (2.) *Arabia Deserta*, neu anial, yr hon oedd yn gorwedd o du y dwyrain i Canaan, ac yn cynnwys gwlad Uz, Ammon, Moab, Midian, yn nghyd â gwlad yr Hureaid, Hagareniaid, &c. Yn (3.) *Arabia Felix*, neu ddeddwydd; o du y dehau i'r ddwy flaenorol. Ymddengys fod y ddwy olaf yn cael eu galw *Kedem*, neu y *Dwyrain*, gan yr Hebreaid. Nid oes bron un rhan o Arabia yn ddyfradwy; ond y mae Arabia Felix yn enwog am helaethrwydd o ber arogl-au a ffrwythau.

Ymddengys i *Arabia Felix* gael ei phoblogi yn benaf gan deulu Iluosog Joctan, o hiliogaeth Sem: ymddengys fod y ddwy ran arall yn cael eu cyfaneddu gan y Rephaimiaid, Emiaid, Zamzumiaid, Amaleciaid, Huriaid, ac ereill o hiliogaeth Cus, mab hynaf Ham. Ymlidiwyd y Cusiaid allan yn raddol gan hiliogaeth Nachor, Lot, ac Abraham. Sefydlodd Ismael gyntaf yn Hejiaz, a ffurfiodd ddeuddeg llwyth nerthol o Nabatheaid, Cedareniaid, Hagareniaid, &c.; ond hwy a ymdaenasant yn raddol, o leiaf, i holl barthau gogleddol Arabia; ac ymunodd gweddillion yr Uziaid neu Ausitae, Buziaid, Ammoniaid, Moabiaid, Midianiaid, &c. yn un corph â hwy. Yr oedd yr hen Arabiaid yn eilun-addolwyr ffiaidd; addolent yr haul, y lloer, a'r ser, a lluaws o angelion a fuasent enwog yn eu golwg hwy; addolent lawer o feini mawrion, y rhai oeddynt, tebygol, ar y cyntaf, ddim ond lleoedd y buasai eu henafiaid yn addoli y gwir Dduw. Gwel Gen. xxviii. 18. Dygodd y Persiaid grefydd eu Magiaid, i blith rhai o honynt. Yr Iuddewon a ffoisent rhag cynddaredd y Rhufeiniaid, a ddygasant ran o honynt drosodd at eu heiddo hwy. Pregethodd Paul mewn rhyw ran o Arabia; a dywedir i ddeg llwyth o honynt dderbyn y ffydd Gristionogol yn yr oes hono, neu yr un ganlynol. Er pan gyfodiodd Mahomet, yn nghylch A. D. 608, neu yn hytrach ei fuddugoliaethau, yn nghylch A. D. 630, y maent wedi bod yn gyffredin yn ganlynwyr i'r twyllwr hwnw.

Cymmeryd sylw neilldiol o'r llwythau Arabaidd, neu banes didoraeth eu hen freiniaethau, Hamyer neu Yaman, yr un ag Arabia Felix; Cassan a Hira, yn Arabia Deserta; neu Hejiaz, trigle dechreuol yr Ismaeliaid, fyddai prin yn gyfaddas i natur y gwaith hwn. Y mae yn fwy i'n dyben ni, i ddangos yn mha fodd rhyfeddol y mae hen rag-ddywediadau yr ysgrythyr wedi eu cyflawni yn eu mysg, am fwy na thair mil o flynedd-oedd a aethant heibio. Prophwydwyd y byddai yr Ismaeliaid yn *ddynion rhyddion, gwyllt ion;* y byddent a'u llaw yn erbyn pawb, a llaw pawb yn eu herbyn hwythau; ag etto y trigent ger bron eu holl frodyr, ac y lluosogent i ddeuddeg llwyth' ac y deuent yn genedlaeth fawr; neu' mewn geiriau ereill, mai pa fodd bynag y caent eu hanrheithio, na llwyr ddarostyngid mo honynt byth; ac yr ymgornient, yn y dyddiau diweddaf, yn erbyn amherodraeth Rhufain; ac, fel cynnifer o locustiaid, a finent y dydedd ran o ddynion, Gen. xvi. 11, 12, xvii. 20, xxi. 10—13. Esa xxi. 11—17. Num. xxiv. 20. Jer. xxv. 23—25, a xlviii. 28—33. Dan. xi. 40. Dad. ix. 1—11. Bydded i ni olrhain y cyfiawniad.

Yr oedd i Ismael ddeuddeg o feibion, yn dadau bob un i lwyth; preswyliasant yn nesaf at eu perthynasau, hiliogaeth Lot, ac Abraham o Cetura, ac Esau tad Edom. Cynnyddasant yn raddol nesiddynt lyngcu eu cymmydogion o du y gogledd a'r dwyrain, os nid y rhan fwyaf hefyd o blant Joctan, yn Arabia Felix. Dechreuodd llawer o honynt fasnachu yn foreu â'r Aiphtiaid mewn peraroglau, Gen. xxxvii. 27, a xxxix. 1. Yn mhen oesoedd wedi hyny, masnachasant â'r Tyriaid, mewn ebenus, ifori, brethynau gwerthfawr, peraroglau, meini gwerthfawr, aur, ac anifeiliaid, Ezec. xxvii. 15, 20—22. Nifer dirfawr o honynt a grwydrent oddi amgylch, gyd â'u hanifeiliaid, gan drigo mewn pebyll, heb un preswylfod sefydlog, Esa xiii. 20. Y maent wedi bod bob amser yn hynod am eu trachwant, yspail, ymddial, anrhaith, a llofruddiaeth; y fath, i arfer geiriau hanesydd Rhufeinig, "ag na ddymunai un eu bod yn gyfeillion nac yn elynion iddo." Gan hyny, yr oedd yn lleshad i bob buddugoliaethwr i'w diwreiddio hwynt; ac y mae yn nodadwy fod bron bob gorescynwr enwog wedi gwthio ei fuddugoliaethau hyd yn nod i'w cyffiniau, ac etto wedi eu gadael hwy heb eu darostwng. Gorthrymasant yr Hebreaid, ond ceryddwyd hwy yn llym am hyny gan Gideon, Barn. viii. 24. Anfonasant anrhegion i Solomon, ond nid ymddengys i'w dad nag yntau eu darostwng, 1 Bren. x. 15. Nid oedd gan Sesostris, neu Sisac, y buddugoliaethwr Aipthaidd ddim Arabiaid yn y llu dirfawr a chymhwys a dywysodd efe yn erbyn Rehoboam; ie, gorfu arno dynu llinyn ar hyd eu cyffiniau hwy, er amddiffyn ei wlad ei hun rhag eu hymgyrchiadau a'u

difrod. Anfonasant anrhegion o ddeadellau i Jehosaphat, ond yn fuan wedi hyny, ymunasant yn y cynghrair mawr yn ei erbyn, 2 Cron. xvii. 11. Salm lxxxiii. 6. Anrheithiasant Judea yn ddychrynllyd dan Jehoram, a lladdasant ei holl feibion, oddi eithr yr ieuangaf, 2 Cron. xxi. 16, 17. Tebygol iddynt ymosod yn erbyn Uzziah, ond talasant yn ddrud am eu poen, 2 Cron. xxvi. 7. Salmanezer, neu Senacherib, a anrheithiodd ran o'u gwlad mewn modd gelyniaethol, a gyrrodd y Dedaniaid i'r coedydd, lle y bu feirw amryw o honynt o newyn; lladdodd y Cedareniaid, a dygodd ymaith eu cyfoeth yn yspail. Aeth Nebuchodonozor i mewn i'w gwlad, a difrodod hi; lladdodd rifedi dirfawr o'r Dedaniaid, Buziaid, Temaniaid, Sceniaid, Cedareniaid, a Zamareniaid; dygodd Hazor, a phrif ddinasoedd ereill, i ddinystr parhaus; a chludodd ymaith eu pebyll a'u hanifeiliaid yn anrhaith.

Cymmerodd Cyrus feddiant o holl amherodraeth yr Assyriaid a'r Caldeaid; ac hyd yn nod darostyngodd íntai o Arabiaid, o amgylch y pen gogleddol i Arabia Deserta: ond y mae Herodotus yn hysbysu i ni, fod yr Arabiaid, dan Darius Hystaspis, yr hwn a estynasai arglwyddiaeth Persia yn mhellach, *yn rhyddion oddi wrth deyrnged*. Cyffrodd y bobl hyn Alexander ffroen-uchel yn ddirfawr, trwy ryw ddiystyrwch a ddangosasent tuag atto. Bwriadodd eu gorchfygu neu eu dinystrio hwy; ond rhagflaenodd angau iddo gyflawni ei amcan. I'w ceryddu am eu gwaith yn difrodi ei diriogaethau ef oedd gerllaw iddynt, meddyliodd Antigonus, un o ganlynwyr Alexander, yn gyntaf trwyddo ei hun, ac yna trwy ei fab Demetrius, ddarostwng eu gwlad. Ond gorfu arno wneud heddwch á hwynt, bron ar eu hammodau eu hunain. Pompey, y buddugoliaethwr Rhufeinig enwog, a anrheithiodd ran o'u gwlad: ond galwyd ei fyddin yn ol, a chanlynodd yr Arabiaid hwy ar eu sodlau; ac am beth amser wedi hyny, blinasant y deiliaid Rhufeinig yn Syria yn arswydus. Yn nghylch 23 o flynedd-oedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr, mordwyodd Elius Gallus, tywysog Rhufeinig arall, i fynu i'r Mor Coch, i ddarostwng eu gwlad; ond aflwyddodd ei ymgais yntau. Yn nghylch A. D. 120, meddyliodd Trajan amherawdwr Rhufain, ddarostwng Hejiaz Arabaidd, ac a anrheithiodd ran o honi. Gwarchaeodd ar Petra, eu prif-ddinas; eithr taranau, mellt, cenllysg, corwyntoedd, heidiau o wybed, a ddychrynasant ac a gurasant ei fyddinoedd yn ol, mor fynyched ac yr ail-wnaent eu hymosodiadau. Yn nghylch A. D. 200, y rhyfelwr enwog hwnw, yr amherawdwr Severus a warchaeodd arni ddwy waith á llu nerthol, a chyda chyflawn-rif hardd o beirianau rhyfel. Ond parodd rhyw anghydfod rhyfedd rhyngddo ef a'i wyr iddo roddi i fynu y gwarchae. Yn y 400 mlynedd nesaf, cawn ran o'r Arabiaid weithiau mewn cynghrair á'r Persiaid, ac ereill á'r Rhufeiniaid; ond heb un darostyngiad o'r genedl i'r naill na'r llall o'r amherodraethau cedyrn hyn.

Yn y 7fed ganrif, dechreuodd Mahomet, Arabiad o Hejiaz, ar ei dwyll hynod; ac wedi ffurfio cynllun newydd o au-grefydd, ei gyd-wladwyr, dan yr enw Saraceniaid, i'r dyben i'w thaenu ar led, a ddarostyngasant holl Arabia; y rhan fwyaf o Asia orllewinol; holl Affrica o du y gogledd i'r afon Senegal; yn nghyd âg Hispaen, Sicily, a chryn lawer o ynysoedd yn perthyn i Ewrop; a gwnaethant i fynu amherodraeth, yn nghylch 7000 o filltiroedd o hyd. Eu hymraniadau eu hunain yn Affrica ac Hispaen, y cyffelyb yn Asia, yn nghyd á gallu cynnyddol y Tyrciaid Seljuciaidd, ac, o'r diwedd, difrodiadau dychrynllyd y Tartariaid, &c. rhwng A. D. 900 a 1260, yn raddol a ddarostyngasant yr amherodraeth ymwasgarol hwn. Yn y tair canrif nesaf, darostyngodd y Tyrciaid Ottomanaidd a'r Hispaeniaid y darnau gweddilledig o honi yn Affrica ac Hispaen. Eithr Hejiaz, gwlad ddechreuol yr Ismaeliaid, a'i brodorion, ni ddarostyngwyd erioed. Hyd heddyw y mae amherawdwyr y Tyrciaid yn talu iddynt deyrnged flynyddol o 40,000 o goronau, am gael tramwy yn ddiogel i'w dinasoedd sanctaidd, Mecca a Medina. Ac, os esgeulusir taledigaeth, y mae yr Arabiaid yr sicr o ad-dalu iddynt eu hunain, trwy syrthio ar finteioedd o farchnadyddion, neu bererinion, fyddo yn cyddeithio trwy eu gwlad; neu trwy

ddifrodi Mesopotamia neu Syria; o ba bethau y mae mynych siamplau wedi dygwydd yn y ganrif hon a diwedd yr un o'r blaen.

ARADR, *(ár,)* offeryn digon adnabyddus i drin tir. "Nid oes neb a'r sydd yn rhoddi ei law ar yr *aradr*, ac yn edrych ar y pethau sydd o'i ol, yn gymmwys i deyrnas Duw." Mae'n debyg fod ymadrodd o'r fath hwn yn arferedig yn mhlith yr Iuddewon, am ddyn yn tynu yn ol oddi wrth ei amcan. Yma y mae yn arwyddo ymrwymo yn ngwasanaeth Crist, yn enwedig yn y weinidogaeth, a throi yn ol drachefn at waith bydol neu ddrygionus. Wedi i ni unwaith wynebu y daith tu a *Sion*, gochelwn edrych ar y pethau tu ol i ni, neu ymresymu á chig a gwaed.

ARAETH—EITHIWR, *(ar*, ymadrodd) arawd; un yn cyfansoddi ac yn traethu ymadroddion hardd, yn debyg i'n dadleuwyr ni. Act. xxiv. 1. Pan byddai lle dan lywodraeth y bobl, megys Athen, &c. yr oedd llawer yn myfyrio ar areithyddiaeth, a byddai yr areithwyr yn fynych yn alluog i ddwyn y bobl gyffredin i'r ochr a fynent. Hyn a barodd iddynt yn fynych fod yn offeryn-weision cyflog i'r cyfryw fawrion ag fyddent á'u bryd ar eu hamcanion hunanol.

ARAF—WCH, *(a-rhaf*, taeniad, gwasgariad) esmwyth, tirion, llonydd. "Bydded eich *arafwch* yn hysbys i bob dyn." Phil. iv. 5. Mae dwy ran yr adnod hon yn dangos fod Paul yn ystyried y Philippiaid mewn cyflwr o erlidigaeth. Yr oedd *arafwch*, mwyneidd-dra, ac amynedd yn eu hymddygiad tu ag at bob dyn, yn neilduol weddus i hyn; a bod yr *Arglwydd yn agos*, oedd yn annogaeth priodol i beri iddynt ddyoddef gyda y cyfryw dymher. A chan mai Iuddewon, neu ddychweledigion pleidgar i Iuddewaeth, oedd y prif elynion mae efe yn olygu yn ei gyngorion i'r Philippiaid, gellir yn ddigon da ddehongli fod yr *Arglwydd yn agos*, am y distryw a ddygai yr Arglwydd yn ddisymmwth ar yr Iuddewon, ; yr hwn, trwy ddinystrio y deml a dileu y rhan fwyaf o'r gwasanaeth Iuddewig, mewn ffordd a osodai derfyn ar eu hymdrech, yn gystal a bod yn ddial hynod ar elynion gwaethaf yr achos Cristionogol.

ARAFNA, neu ORNAN, y Jebusiad; yr oedd ganddo lawr-dyrnu ar Moria. Pan ganfu Dafydd angel yr Arglwydd yn crogi uwch ben Jerusalem, ac yn parottoi i ddinystrio y trigolion, fel cosp am ei waith yn rhifo y bobl, efe wedi ei rybyddio gan Nathan i adeiladu allor, ac offrymu aberth er attal y pla, ac wedi mynegu o Dduw iddo, mai yno yr adeiledid y deml, a frysiodd at Arafna. Ymguddiodd y Jebusiad da a'i feibion rhag ofn yr angel dinystriol; ond pan ganfu ef Dafydd yn dyfod, rhedodd i'w gyfarfod; gostyngodd ei wyneb hyd lawr wrth ei draed, a gofynodd iddo ei ddymuniad. Gwedi hysbysu iddo, fod arno eisiau prynu ei lawr dyrnu i adeiladu allor, ac offrymu aberth i'r Arglwydd, fel yr attelid y pla dinystriol, cynnygodd Arafna y llawr, a digon o gynnud ac ychen i'r brenin yn rhodd. Yn gas ganddo wasanaethu yr Arglwydd ar draul un arall, nacaodd Dafydd eu derbyn, nes y sefydlid y pris. Rhoddodd iddo am y llawr ei hun a'r ychen 50 sicl o arian, ac am y maes i gyd a ddewisodd efe wedi hyny i adeiladu y deml arno, 600 sicl o aur, 2 Sam. xxiv. 16—25. 1 Cron. xxi. 15—28.

ARALL, *(ar—all)* un gwahanol oddi wrth y cyntaf. Y mae gauathrawiaeth yn cael ei galw yn *efengyl arall*. Gal. i. 6. 7. Er nad oedd ynddi dim cymhwysder i'r enw, oblegyd nad oedd yn dwyn dim newyddion da i bechadur colledig, ond felly y galwai y gau-athrawon eu hathrawiaeth gyfeiliornus: mynent ei galw yn *efengyl*; ond yr apostol a'i geilw yn *efengyl arall*, ac y mae yn cyhoeddu anathema yn erbyn y rhai sydd yn ei phregethu.

ARAM *(uchder)*. 1. Pummed mab Sem, Gen. x. 22. (2.) Wyr Nachor, tad yr Aramiaid, neu y Syriaid, Gen. xxii. 21. Ac y mae yn nodadwy fod Hesiod a Homer, yr hen awduron Groegaidd hyn, yn galw y Syriaid yn Aramiaid. Aram yw yr enw Hebrëig am Syria, Num. xxiii. 7; ac oddi wrth hyn yr ydym yn darllain am Aram-Naharaim, neu Mesopotamia; Aram Zobah, neu Syria Zobah; Aram Damascus, neu Syria Damascus; ac Aram Bethrehob, neu Syria Bethrehob, &c. (3.) Aram, neu Ram, gorwyr Judah, a

thad Amminadab, Ruth, iv. 19. Luc iii. 33. 1 Cron. ii. 10.

ARARAT. Cyfeithir *Ararat* yn 2 Bren. xix. 37, *Armenia*. Gwlad yn Asia, rhan o ba un a elwir yn awr Turcomania, a chynnwysir y gweddill yn Persia. Y mae Georgia o du y gogledd iddi, Media o du y dwyrain, Curdistan neu Assyria o du y dehau, a Natolia, neu Asia Leiaf, o du y gorllewin. Yma y mae tarddiad yr afonydd enwog Euphrates, Tygris, Araxes, a Phasis. Yma y mae y mynyddoedd enwog, y Moschic o du y gogledd-orllewin, y pen dwyreiniol i Taurus neu Antitaurus o du y gorllewin, y mynyddoedd Niphates a Gordian, &c. yn sefyll. Y mae rhai a feddyliant mai mynydd Ararat, ar ba un y gorphwysodd arch Noah, oedd yr un hwnw o du y dwyrain i Persia, a gogledd i'r India. Ond mwy tebygol yw mai yr Ar-dagh neu Parmah-dagh, y bysfynydd, yn agos i'r pen gogledddwyreiniol o Armenia, oedd efe. Y mae yn sefyll ar wastad-dir ëang, 36 o filltiroedd o du y dwyrain i Erifan, ei lun yn debyg i dorth sugyr, ac yn weledig yn nghylch 160 neu 200 o filltiroedd o bellder: ei ben sydd anhygyrch gan uchder; ac o herwydd yr eira sydd yn ei orchuddio yn wastadol. Y mae y canol yn cael ei gynniwair gan luaws o ddywalgwn *(tigers)*; ychydig o ddeadelloedd clafrllyd, a dau fonachlys gwael, ydynt i'w gweled o amgylch ei odre. Heblaw pellder gogleddol y mae y mynydd hwn a elwir hefyd Masius, yn cael ei osod, gan y daear-ddarlunwyr mwyaf cywir, yn nghylch 100 o filltiroedd o du y dwyrain i Sinar; ond, os cymmerwn fynydd Cardu neu Gordian am yr un y gorphwysodd yr arch arno, bydd teithiau Noa a'i deulu etto yn fyrach ac yn hawsach. Y mae Armenia yn gyffredin yn wlad uchel ac oer; dosperthid hi gynt yn ddwy freniniaeth, sef Armenia Fwyaf tu ar dwyrain, ac Armenia Leiaf tu a'r gorllewin. Tebygol iddynt gael eu poblogi gan Hui mab Aram, tad y Syriaid; ac ymddengys fod iaith y ddwy genedl yn lled debyg; ac oddi wrtho ef, neu ei huchder ei hun, neu oddi wrth Harminni, mynydd y Minni, yr ymddengys iddi gael ei henw. I'r wlad hon y ffodd dau fab gwaeddyd Senacherib; yr hyn sydd yn fynhywys i feddwl nad oedd hi y pryd hwnw dan deyrnged i Assyria. Esa. xxxvii. 38. 2 Bren. xix. 37. Cynnorthwyodd byddinoedd Armenia Cyrus yn erbyn y Caldeaid, Jer. li. 27. Bu gan yr Armeniaid wedi hyny, genedlaeth faith o freninoedd o'u heiddo eu hunain, er eu bod yn fynych yn ddarostyngedig i ganlynwyr Alexander yn Syria. Yn nghylch 50 o flynyddoedd cyn Crist, dechreuasant i syrthio dan y Rhufeiniaid; ac yn nghylch cymmaint â hyny gwedi'n, cafodd eu breninoedd hwy eu diddymu. Yn nghylch A. D. 687, tynodd y Saraceniaid, neu yr Arabiaid, Armenia, trwy drais oddi wrth amherawdwr Rhufeinig y dwyrain. Prin yr oeddynt wedi cadw gafael ynddi 150 o flynyddoedd, pan y cymmerodd y Tyrciaid ysglyfaethgar feddiant o honi, ac yn mhen rhai oesoedd wedi hyny, gosodasant i fynu yno freniniaethau y *Ddafad Wen a'r Ddu*, yr olaf o ba rai a fu yn dra chadarn a helaeth. Yn 1472, daeth Armenia yn dalaeth o amherodraeth Persia. Yn 1522, gorchfygwyd hi gan y Tyrciaid, y rhai sydd yn dal gafael ar y parthau gorllewinol o honi hyd heddyw.

Dygwyd Cristionogrwydd yn fore i mewn i Armenia, ac y mae yn parhau yno etto. Y mae yn awr yn nghylch deg can mil, neu ychwaneg, o Gristionogion Armeniadd. O herwydd fod yr Armeniaid yn farchnadyddion mawrion, y mae yn nghylch 40,000 o honynt yn cyfaneddu yn Persia i ddwyn masnach yn mlaen, ond y maent wedi suddo yn druenus mewn anwybodaeth a chlel-grefydd wag.

ARBED, *(ar-ped*, cludiedydd yn mlaen, troed) cadw, noddi, gwared. (1.) Y mattal, mewn tosturi, oddi wrth doster dyledus, 2 Petr ii. 4. Duw nid *arbedodd ei briod Fab*; ni chadwodd ef yn ol rhag bod yn Gyfryngwr i ni; ac, wrth ei gospi, ni wnaeth efe, o dosturi, dynu ymaith y radd leiaf o'r hyn oedd ddyledus. Nid *arbedodd* ei roddi a'i draddodi; nid *arbedodd* ef wrth ei daro a'i ddryllio, Rhuf. viii. 32.

ARCH, *ll.* OEDD, cist, coffr. *Arch* Duw, pan oedd Jehofah yn preswylio rhwng y Cerubiaid, gogoniant Israel. Safai yn y cyssegr sancteiddiolaf, yn y babell a'r deml

Cist fechan oedd hi o goed Sittim, wedi ei gwisgo âg aur; pedair troedfedd a hanner ei hyd, dwy droedfedd ac agos naw modfedd ei lled, a chymmaint â hyny ei huchder. Ei chauad a elwid y *drugareddfa*, o herwydd uwch ei ben yr arosai y Shecina, neu arwyddion y presennoldeb dwyfol, oedd o aur pur; ac allan o ddau ben y cauad hwn, yr oedd dau gerub aur wedi eu gwneuthur o gyfan-waith morthwyl; y rhai, â'u hesgyll ar led, a dôent holl wyneb y drugareddfa oddi arnodd, ac, â'u wynebau a ymddangosent yn syllu arni hi. O fewn yr arch hon yr oedd dwy lech y gyfraith foesol wedi eu rhoddi; ac mewn rhyw ystorfa wrth ei phen blaen yr oedd y crochan aur a'r manna ynddo, a gwialen Aaron, yr hon a flagurasai, ac adysgrifen o bum llyfr Moses, wedi eu gosod. Yr oedd i'r arch hon befyd bedair modrwy aur, trwy ba rai y dodid y trosolion o goed Sittim, ar ba rai y dygid hi gan y Leñiaid, pan fyddai achos yn gofyn. Yr oedd y dodrefnyn hwn mor sanctaidd, fel yr oedd yn farwolaeth i neb heblaw yr offeiriad, i edrych arno; ac am hyny yr oedd yn cael ei ddwyn dan orchudd, Exod. xxv. 10—22, a xxxvii. 1—9 Num. iv. 5, 6, 20, a xvii. 10. Deut. xxxi. 26. 1 Bren. viii. Heb. ix. 4. Gwedi cyssegru yr arch hon, trwy daenellu gwaed arni, a'i heneinio âg olew, yr oedd yn cael ei dwyn o amgylch gyda'r Hebreaid yn eu teithiau yn yr anialwch. Gwedi ei dwyn i ganol yr Iorddonen, dyfroedd chwyddedig yr afon hóno a ymranasant ac a agorasant ffordd rydd i holl gynnulleidfa Israeli fyned trwodd. Oddi yno trosglwyddwyd hi i Gilgal. Gwedi ei dwyn hi 13 o weithiau mewn saith niwrnod o amgylch y ddinas Jericho, â sain ¡cyrn hyrddod yn ei chanlyn, syrthiodd y muriau i lawr o'i blaen hi. Gwedi goresgyn yn Canaan, gosodwyd yr arch yn y babell yn Siloh, ac yno yr arosodd yn nghylch 300 mlynedd. Ychydig iawn cyn marw Eli, yr Israeliaid yn cofio, tebygol, ei rhinwedd wyrthiol wrth Jericho, a'i dygasant hi allan i'r maes. Ennillodd y Philistiaid y fuddugoliaeth, a daliasant yr arch; gosodasant hi yn nheml Dagon eu heilun fel arwydd cyssegredig o'i fuddugoliaeth ef ar Dduw yr Hebreaid. Drylliwyd eu heilun yn ddarnau o'u blaen; a pha le bynag y gosodent hi, byddai pla o glwyf y marchogion ar y bobl, ac ysgatfydd un arall o lygod ar y wlad, yn canlyn. Bu dda gan y Philistiaid ei hanfon yn ol, â llawer o anrhegion gyda hi. Safodd yn Bethsemes, lle y tarawodd yr Arglwydd luaws o Hebreaid, hwyrach ddeng wr a thriugain a deng mil a deugain o wyr, yn feirw, am eu gwaith yn edrych yn halogedig ynddi. Oddi yno, symmudwyd hi i dŷ Abinadab, yn y bryn, yn Ciriath-jearim, yn mha le, oddi eithr pan ddygodd Saul hi i'r gwersyll yn Gibea, 1 Sam. xiv. 18, yr ymddengys iddi aros 50 os nad 90 o flyneddoedd; oddi yno y cynnygodd Dafydd ei chyrchu, nid ar ysgwyddau y Leñiaid, yn ol y gorchymyn, ond ar fen newydd, i Jerusalem. Cospedigaeth Uzzah am gyffwrdd â hi, a wnaeth iddo ei gadael, ar y ffordd, yn nhŷ Obed-edom y Gethiad; ond wedi iddo glywed, yn fuan wedi hyny, fod tŷ Obed-edom wedi cael ei fendithio er mwyn yr arch, Dafydd, gyda difrifwch mawr, a barodd iddi gael ei dwyn i fynu i Jerusalem, i'r babell a ddarparasai efe iddi yn, neu yn agos i'w dŷ ei hun. Yn mhen oddeutu pedair blynedd ar ol hyny, ac hwyrach 130 o flyneddoedd wedi iddi gael ei gwahanu oddi wrth dabernacl Moses, y parodd Solomon iddi gael ei throsglwyddo i'r gafell sanctaidd yn ei deml ef, Num. x. 33—36. Jos. iii. 6, a xviii. 1. 1 Sam. vi—vii. 2 Sam. vi. 1 Cron. xiv. —xvi. 1 Bren. viii. 11. Pan osododd Manasseh, neu Ammon ei fab, eu heilunod i fynu yn y cyssegr sanctaidd iolaf, tebygol i ryw offeiriad brwd-frydig ddwyn yr arch allan, a'i chadw, nes y gorchymynodd Josiah iddi gael ei hail-osod yn y deml, 2 Cron. xxxv. 3.

Pan ddinystriwyd y deml gyntaf gan y Caldeaid, nis gwyddom beth a ddaeth o'r arch; ond sier yw, ei bod hi a'i holl ddodrefn yn eisiau yn yr ail deml. Gan mai hi oedd yr arwydd penaf o'r presennoldeb dwyfol, yr oedd y golled o honi yn rhag-argoelu diddymiad nesaol yr holl seremoniau, ac yn ddigon i beri i'r hen bobl wylo â llef uchel wrth sylfaenu yr ail deml, Ezra iii. 12. Hag. ii. 3. Dywedir i'r Iuddewon, ar ol y Caeth-

iwed, wneud un lled debyg iddi, a rhoddi prawf-gopi o'r Hen Destament ynddi. Yr oedd yr arch Iuddewig yn cael ei galw *arch y cyfammod a'r dystiolaeth*, o herwydd ei bod yn cynnwys llechau cyfraith Duw, a llyfr y cyfammod a wnaed âg Israel; ac yr oedd hi ei hun yn wystl o barhad y cyfammod hwnw â hwynt, Deut. xxxi. 25, 56. Exod. xxxix. 35. Yr oedd yn cael ei galw hefyd, *arch cadernid yr Arglwydd*. Yma yr oedd arwydd ei bresennoldeb hollalluog a gogoneddus, a gwystl o amlygiad ei allu, yn aros, Salm cxxxii. 8, a lxxviii. 61. Tebygol mai er dynwared yr Hebreaid, yr oedd gau yr Aiphtiaid, gwyr Caer-droia, Groegiaid, Rhufeiniaid, &c. eu cistau cyssegredig, yn mha rai y cloënt i fynu y pethau mwyaf sanctaidd fyddent yn perthynu i'w heilunod. Onid oedd yr arch Iuddewig yn gysgod o Iesu Grist? Mor rhagorol a gogoneddus yw ei berson! pa mor rhyfeddol yw undeb ei ddwy natur! deddf ei Dad oedd yn ei galon, a mawrhawyd a gwnawd hi yn anrhydeddus trwy ei iawn dwyfol a thragywyddol; efe yw gorphwysfa hyfryd ei Dad; canol-bwynt mawr pob addoliad crefyddol, sylwedd y ddau gyfammod, rhyfeddod angelion ac ysbrydoedd y cyñawn wedi eu perffeithio. Cyssegrwyd ef mewn modd arbenig i'w waith, gau Ysbryd y gras; dros hir amser, bu fel yr arch yn yr anialwch, heb un drigfa sefydlog ar y ddaear: ond wedi iddo ddybenu camwedd, a gorphen pechodau, aeth, gydag ardderchogrwydd mawr, i'r deml uchod, ac ni chollir mo hono byth; ac ni newidia ei breswylfod mwyach, nes darostwng ei holl elynion. Y mae *arch cyfammod Duw i'w gweled yn ei deml ef*, pan y bydd Iesu Grist, a dirgeledigaethau ei ras, yn cael eu dadguddio yn eglur a'u hadnabod, Dad. xi. 19.

"Ac efe a osodwyd mewn *arch* yn yr Aipht," Gen. l. 25. Yr oedd hyn yn cael ei ystyried fel nod o barch a rhagoriaeth. Gyda ni rhoddir y tlotaf, yn gystal â'r cyfoethocaf mewn arch; ond yn ngwledydd y dwyrain, nid oes na thlawd na chyfoethog yn gwneuthur defnydd o honynt, hyd heddyw. Mae yn ymddangos i'r hen Iuddewon arfer yr un drefn i gladdu ei meirw; ac ni chafodd corph ein Harglwydd ychwaith, mae yn debyg, ei roddi mewn arch, ond yn unig, "amdowyd ef â lliain main:" nac eiddo Eliseus, esgyrn yr hwn a gyffyrddwyd â hwy, wrth roddi corph i lawr ychydig wedi hyny, yn ei fedd ef, 2 Bren. xiii. 21. Er hyny, fod archoedd mewn arferiad yn yr hen amseroedd yn yr Aipht, pawb a gydunant; ac fod archoedd o feini ac o sycamorwydd i'w gweled yn y wlad honno hyd y dydd hwn. Rhai o archoedd yr Aipht wedi eu gwneud o ronyn-faen (*granite*), a'u gorchuddio âg arwydd-luniau, y rhai nas gallesid eu naddu heb lawer o amser a chost, oeddynt yn gystfawr iawn. Y cyfryw un, tebygol, oedd arch Joseph. Sylwn yma (1,) Pan gollom ein cyfeillion anwylaf, ein cyssur yw, y bydd Duw yn sicr o'u dwyn i'r lan yn nydd yr adgyfodiad diweddaf. (2.) Y dylai gofal gweddus gael ei gymmeryd am y corph, nid o ran dim lles a ddichon ef weini i'r enaid, ond er parch ei fod unwaith yn demi i'r Ysbryd Glân, a chyda golwg y bydd iddo etto gyfodi yn gorph gogoneddus, i fod yn gydymaith i seintiau ac angelion trwy gydol tragywyddoldeb.

ARCH (*Ll. arca*). Arch Noah oedd lestr mawr nofiadol, yn yr hwn yr achubwyd ef a'i deulu, yn nghyd â phob math o anifeiliaid y tir, rhag y dylif. Yr ydys yn credu yn lled gyffredin, er nad yw yn sicr, iddo ef dreulio yn nghylch 120 o flyneddoedd yn ei hadeiladu, a bod ganddo amrywiol o ddwylaw wrthi. Dull yr arch hon oedd yn bedaironglog hirgul, â gwaelod gwastad, yn nghyd a neu oleddfog iddi, wedi ei chyfodi yn gufydd yn y canol; nid oedd ganddi hwyliau na llyw, ac nid oedd hi ychwaith yn llem yn y blaen i dori trwy y dwfr. Yr oedd y dull hwn yn hynod gyfaddas i wneuthur iddi hi orwedd yn wastad ar y dwfr, heb ymdreiglo, yr hyn a allasai beryglu bywydau yr anifeiliaid o'i mewn; ond a'i gwnai yn dra anghymhwys i symmud i beilder mawr, neu i hwylio mewn mor terfysglyd.

Hyd yr arch hon oedd 300 o gufyddau, yr hyn, yn ol cyfrifiad *Dr. Arbuthnot*, sydd yn dyfod i ychydig ychwaneg na 547 o droedfeddi; ei

lled yn 50 cufydd, neu 91,2 o droedfeddi; ei huchder yn 30 cufydd, neu 54,72 o droedfeddi; a'i chynhwysiad cyfan yn 2,730,782 o droedfeddi sylweddol, yn ddigonol i gludo 81,052 o dunelli. Yr oedd o dri uchder llofft, a gallai pob un o honynt, heblaw trwch y lloriau, fod yn nghylch 18 troedfedd o uchder, a diammau ei bod wedi ei dosparthu yn gelloedd i'r amrywiol anifeiliaid a'r adar a gadwyd yn fyw gyda Noah a'i deulu. Yr oedd y llestr hwn wedi ei ffurfio yn y fath fodd, diammau, ag i dderbyn yr awyr a goleuni i mewn ar bob tu, er nad yw gwneuthuriad neilduol y ffenestri yn cael ei grybwyll. Ymddengys fod gan yr arch orchudd arall heblaw y nen; ac fel un wedi ei wneud o groen, hwyrach, yr hwn oedd yn cael ei dafiu dros, a'i grogi o flaen y ffenestri, i ragflaenu dyfodiad y gwiaw i mewn; a hwn, tebygol, a symmudodd Noah, i edrych a sychasai wyneb y ddaear, Gen. viii. 13.

Cafodd yr arch ei hadeiladu o goed Gopher, y rhai, meddyliwn, nid oeddynt na chedrwydd, pinwydd, na fycyswydd, ond y *Cypress-wydd*, math o goed celyd a pharhaus, ac heb fod yn hawdd yn ddarostyngedig i bydrni. Ac y mae hyn yn naturiol yn arwain un i feddwl mai yn Caldea yr adeiladwyd hi, lle yr oedd helaethrwydd mawr o cypress-wydd yn tyfu mor ddiweddar ag amseroedd Alexander Fawr; o ba rai y gwnaeth efe lynges, ar ol iddo ddyfod i Babilon; a chadarnheir y dychymyg hwn gan y traddodiad Caldeaidd, yr hwn sydd yn gwneud mai o'r wlad hono yr hwyliodd *Xisuthrus* neu Noah; ac oddi wrth hyn gwnai gwynt deheuol, neu symmudiad gogleddol y dyfroedd wrth dreio, yn naturiol ddwyn yr arch i orphwys ar fynyddoedd Ararat.

Y mae rhai wedi dychymygu fod yr arch, fel y darluniasom hi, yn annigonol i gynnwys ei llwyth bwriadol o anifeiliaid, yn nghyd âg ymborth iddynt am flwyddyn. Ond, trwy gyfrifiad mwy manwl, y mae cyfattebiad ei mesurau i'w llwyth yn amlygu trefniad "yr hwn y mae holl fwystfilod y maes ac ehediaid yr awyr yn adnabyddus iddo." Rhiwiau y pedwar-carnolion nas gallant fyw yn y dyfroedd, ydynt yn nghyd yn 72, neu, fel y mae *Calmet* yn eu dosparthu, yw 130, a geill rhywiogaethau yr ehediaid a gellog a'r ymlusgiaid, fod yn nghylch 200. Yn awr, o'r ddau uchder isaf, gallai un yn hawdd roddi lle i'r holl bedwar-carnolion, a'r llall gynnwys eu hymborth. Yr oedd yr uchaf yn ddigonol i Noah a'i deulu, yn nghyd â'r ehediaid a'u hymborth. Y mae yn bur debyg y gallai amryw o'r seirph fyw dan y dwfr, mewn cyflwr marwaidd; ac os felly, nid oes dim achos i dybied fod y cyfryw seirph ag sydd briodol i'r America, yn yr arch; neu, os oeddynt, gallasai y lleoedd o amgylch Caldea eu dwyn y pryd hwnw, er nad ydyw yn gwneud felly yn awr.

Ar ddiwedd yr 120 mlynedd o hir amynedd Duw tuag at yr hen fyd, nid yn unig aeth Noah a'i wraig, a'u tri mab a'u gwragedd, i mewn i'r arch; ond hefyd arweiniwyd dau bâr o bob math o anifeiliaid afian, a saith pâr o bob math o rai glân, trwy gyfarwyddyd Rhagluniaeth, i'w lleoedd priodol yn yr arch, ac yna cauwyd arnynt yno. Y dyfroedd, wedi ymgryfhau, a'i cyfodasant hi oddi wrth y ddaear, ac a'i dygasant ymaith, gan ei chyfeirio dros rai misoedd tua'r gogledd; yna wedi treio o'r dyfroedd, gorphwysodd hithau ar fynyddoedd Ararat, a Noah a'i deulu, a'r amrywiol anifeiliaid, a ddaethant allan o'r arch, ac a adlenwasant y ddaear, Gen. vi, vii, viii. Heb. xi. 7. 1 Petr. iii. 20.

Y mae yn ddiammau i Noah, o fewn yr amser y bu yn adeiladu yr arch, ddyoddef llawer o wawd a dirmyg oddi wrth y rhan gellweirus, anystyriol, ac anghrefyddol o'r genedlaeth honno. Ac, am hyny, y mae adeiladu yr arch yn cael ei ystyried gan yr ysgrifenydd sanctaidd, megys yn weithred yn tarddu oddi ar ffydd fuddugoliaethus, gwel Heb. xi. 7. Mae traddodiad yn mhlith y Mahometaniaid, pan ddechreuodd Noah weithio ar y llestr hynod hwn, ddarfod i bawb a'i gwelodd ei ddifrio a'i wawdio, gan ddywedyd, 'Yr ydych yn adeiladu llong; os gellwch ddwyn dwfr atti, chwi a fyddwch yn brophwyd yn gystal ag yn saer.' Eithr efe, gan eu hatteb, a ddywedodd, 'Chwi a chwarddwch am fy mhen i yn awr, ond y mae yr amser yn dyfod, y chwarddaf finnau am eich penau chwithau; canys chwi a gewch wy-

bod, er eich gofid, fod Duw yn y nef yn cospi yr annuwiol.'

Cyn gynted ag y mae Noah yn cael y gorchymyn i adeiladu yr arch, y mae efe yn ufuddhau: y cyfryw yw parodrwydd pob gwir gredadyn, "Llefara Arglwydd, canys y mae dy was yn clywed." Bydded i minau ryfeddu, a dylyn ffydd a diwydrwydd Noah. Mor gadarn y credodd efe y rhybudd pwysig, ac mor amyneddgar y parhaodd yn ei orchwyl llafurus, nes ei orphen! Ei waith yn adeiladu yr arch oedd yn bregeth barhaus; pob dyrnod a roddai efe â'r morthwyl, oedd yn alwad i edifeirwch. Dian nad argyhoeddodd efe y byd, eithr efe a'i condemniodd.

Yr oedd y waredigaeth ryfedd hon i Noah a'i deulu, trwy yr arch, yn gysgod nodedig o Grist, a'r iachawdwriaeth drwyddo. Nid cryfder gwr, uchder ei fynydd, na chadernid ei drigfan, a allasai ei achub rhag boddi yn y dylif. Crist yw awdwr iachawdwriaeth; ac nid oes diogelwch ond ynddo ef, Esa xlv. 20, 21, 22. Yr oedd drws agored i'r anifeiliaid glân ac aflan i'r arch; felly y mae dyfodfa at Grist i Iuddewon a Chenedloedd, Esa xlv. 22. Fel yr oedd y creaduriaid yn dyfod yn waglaw, heb ddim ganddynt, i'r arch, ac yn cael pob peth yno at eu cynhaliaeth, yn gystal a'u diogelu; felly, y mae yn Nghrist bob peth angenrheidiol er diogelwch, ac er sancteiddiad, cyssur, a dyddanwch y pechaduriaid a ddeuant atto, 1 Cor. i. 3. Col. iii. 11.

ARCHANGEL, y tywysog neu y prif angel. Ymddengys nad yw yr enw hwn byth yn cael ei roddi i un angel crëedig. Gwir yw y dywedir yn 1 Thes. iv. 16, y bydd i Grist "yr Arglwydd ddisceyn gyda llef yr *archangel*;" ond nid ydym i ddeall hyn fel yn cynnwys y bydd efe yn defnyddio llais un angel; pan ddel, efe a ddwg yr angelion sanctaidd gydag ef i gasglu yn nghyd ei etholedigion; a'i lais a seinia fel llais yr archangel mawr, udgorn Duw, yn cyfeirio, tebygol, at y discyniad ar fynydd Sinai, pan roddwyd y gyfraith, ac yr udganwyd hi trwy drefniad angelion.

Ni chrybwyllir am *archangel* ond unwaith etto yn y Testament Newydd, sef yn Judas 9. Enwir yr archangel yno *Michael, pwy sydd fel Duw.* Geilw Daniel ef, pen. xii. 1, y Tywysog mawr, yr hwn sydd i sefyll dros feibion ei bobl yn adgyfodiad y meirw. Pwy all hwn fod ond yr *Adgyfodiad a'r Bywyd ei hun.* Ei waith yn ymddadlen â diafol yn nghylch corph Moses, sydd yn gyfeiriad amlwg at Zech. iii. 1—9. Corph Moses yw eglwys yr Hen Destament, wedi ei gwisgo â dillad budron, ac yn sefyll yn ngwydd (yn cael ei nodi gan) yr *Angel*, sef Michael; a'r angel hwn a dystiolaethodd wrth Joshua, adn. 7, "Os rhodi di yn fy ffyrdd, ac os cedwi fy nghadwraeth, tithau hefyd a ferni fy nhŷ, ac a gedwi fy nghyntedoedd, &c." Pwy angel *crëedig* allasa ddywedyd hyn!

ARCHELAUS, *(tywysog y bobl)* mab Herod Fawr o Malthace ei bummed gwraig. Cyfrifid ef y mwyaf creulawn a didrugaredd o holl blant ei dad. Herod, wedi lladd ei feibion Alexander, Aristobulus, ac Antipater, a diosg Herod Antipas o'i hawl i'r freniniaeth, a osododd Archelaus, yn ei ewyllys ddiweddaf i fod yn ganlynwr iddo, ar yr ammod os byddai yr amheradwr Rhufeinig yn cydsynio â hyny. Ymddangosodd y bobl a'r milwyr yn dra boddus pan y darllenwyd yr ewyllys hwn, ac a addawsant ufudd-dod a ffyddlondeb. Claddodd Archelaus ei dad gyda rhwysg mawr; ac wedi dychwelyd yn ol i Jerusalem, cynnaliodd arwyl arbenig dros saith niwrnod am dano; a gwnaeth wledd ardderchog iawn i'r bobl; ac wedi eu cydgasglu hwy yn nghyntedd y deml, rhoddodd iddynt addewid ddilys o lywodraethiad tyner, ac na chymerai efe yr enw o frenin arno, nes ei gadarnhau iddo gan yr amheradwr.

Yn fuan ar ol A.D. 1, ymgasglodd y werinos, a gofynasant iddo roddi i farwolaeth y dynion a gynghorasent ei dad i ladd brwdfrydigwr *(Zealot)* hynod, am dynnu i lawr yr eryr euraidd oddi ar borth y deml; gofynasant i Joazas gael ei ddiosg o'r archoffeiriadaeth; a llwythasant gofiadwriaeth Herod ei dad â'r melldithion a'r cableddau chwerwaf. I ymddial am yr anmharch hwn, gorchymynodd Archelaus i'w luoedd syrthio ar y werinos, a lladdasant 30,000 o honynt yn y fan, gorllaw y

deml. Yn nesaf, cyrchodd i Rufain er cadarnhau ewyllys ei dad; ond parhaodd ei frawd Herod Antipas yn ddiysgog yn ei arch ar i ewyllys blaenorol ei dad, yr hwn oedd yn ei osod ef yn ganlyniedydd iddo, gael bod yn safadwy; gan roddi fel esgus dros hyny, iddo gael ei wneud pan oedd ei farn yn fwy cywir. Gwedi gwrandaw ar y ddeu-du, oedodd Augustus roddi dedfryd. Deisyfodd y genedl Iuddewig ar yr amherawdwr ddiawdurdodi teulu Herod oll, a'u gwneud hwy yn dalaeth Rufeinig, dan deyrnged i lywodraethwr Syria. Gwythwynebodd Augustus y deisyfiad hwn. Gwrandawodd yr amherawdwr ar y ddwy blaid, ond oedodd roddi barn. Yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyn, galwodd Augustus am Archelaus, rhoddodd iddo ran o deyrnas ei dad, gyda y titl o Ethnarch, ac addawodd y goron iddo, os byddai ei ymddygiad canlynol yn ei haeddu.

Gwedi dychwelyd yn ol i Judea, efe a ddiswyddodd Joazas yr archoffeiriad, gan gymmeryd arno, ei fod wedi cyffroi y terfysgwyr yn ei erbyn ef; a gwnaeth Eleazar ei frawd, yn offeiriad yn ei le. Gwedi hod Archelaus yn llywodraethu yn nghylch saith mlynedd, gyda'r trais a'r gorthrymder mwyaf, cyd-gyhuddodd yr Iuddewon a'r Samariaid ef o flaen yr amherawdwr. Gorchymynwyd i'w oruchwyliwr yn Rhufain ei ddwyn ef yno; gwrandawyd ei achos; ac alltudiwyd ef i Vienne yn Ffrainge; ac arosodd yno, mewn alltudaeth, hyd ei farwolaeth. Tymher greulawn yr anghenfil hwn a barodd i Joseph a Mair ofni cyfaneddu yn Judea gyda eu baban dwyfol, Mat. ii. 22, 23.

ARCHIPPUS, *(rheolwr meirch)* pregethwr enwog o'r efengyl yn Colosse, Gorchymynir i aelodau yr eglwys ei gyffroi ef i ddiwydrwydd, gofal, a gwrolder yn ngwaith y weinidogaeth, Col. iv. 17. Y mae Paul yn ei annerch trwy Philemon.

ARCHOLL—U, (*arch*, corph, a *holl*, hollt) 1. Briw ar y corph trwy darawiad â chleddyf, fflangell, neu y cyffelyb: "*archoll* am *archoll*," Exod. xxi. 25. (2.) Blino, gofidio, Deut. xxxii. 39. Can. v. 7: ac felly y mae cystudd mawr yn yr enaid, ac yn allanol ar y corph, yr enw da, teulu, neu genedl, yn cael ei alw yn *archoll*, Esa i. 6. Jer. xxx. 12, a x. 19. Y mae cerydd brawdol yn cael ei alw *archoll*, o herwydd ei fod yn blino y troseddwr, ac yn tueddu i ddwyn allan, neu ymlid ymaith lygredd ei drosedd, os cymmerir ef yn garedig, Diar. xxvii. 6. "Geiriau yr athrodwr sydd megys *archollion*;" y maent yn anafu ac yn dinystrio dynion yn eu henwau da, eu masnach, eu hiechyd, neu eu llwyddiant, Diar. xxvi. 22. "Mi a leddais wr i'm *harcholl*;" y mae geiriau Lamech wrth ei wragedd yn ddarn o brydyddiaeth henaf yn y byd, wedi eu cyfansoddi cyn y dylif, gan Lamech, y pummed olynol o âch Cain. Mae yn amlwg oddi wrth ei gwynfan wrth ei wragedd, ei fod yn euog o lawer mwy trosedd na Chain; ac am hyny meddyliodd y gallasai Duw, gyda chyfiawnder, ei wneuthur ef yn wrthddrych mwy ofnadwy o'i ddigllonrwydd nag y gwnaethai efe Cain; ac yn nghanol ei fraw a'i ddychryn oblegyd hyn, y mae y waedd chwerw hon yn dyfod oddi wrtho, *Os Cain a ddielir seithwaith, yna Lamech saith ddengwaith, a seithwaith*, Gen. iv. 23, 24.

ARCTURUS, *(cynffon yr arth)* enw seren ogleddol, o'r maintioli mwyaf, yn o bell oddi wrth yr Arth Fawr, a rhwng morddwydydd y Bootes, neu y Saith Seren: eithr y mae yn llwyr annilys pa un ai bod y gair Hebraeg *Hash*, neu y seren gron gylch-droawl yn arwyddo *Arcturus* neu beidio. Geill fod y ser bychain o amgylch iddi yn cael eu galw ei meibion hi yn Job ix. 9. a xxxviii. 32. Eithr y mae beirniaid dysgedig a feddyliant nad yw y gair Hebrëig yn arwyddo un seren na chyd-sêr, ond yn hytrach y *deifiad*, neu yr *awel ddifäol*; yr hon a elwir felly am ei bod yn dwyn gyda hi rifedi lluosog iawn o bryfed mân, pa rai ydynt yn difa pob peth yr arosant arno, fel y gwna gwyfyn ddilledyn.

ARDDANGOS, *(ar-dangos)* dangos allan. "Efe a'u *harddangosodd* hwy ar gyhoedd," Col. ii. 15, Wrth y *tywysogaethau* ac *awdurdodau*, y deallir yn gyffredin, yr angelion syrthiedig, ein gelynion ysbrydol a'u llywodraeth traws-feddiannol. Mae yr apostol yn cyfeirio yma at arfer gwaradwyddus y rhyfelwyr Rhufeinaidd, y rhai, ar eu

dychweliad buddugoliaethus i Rufain, a wnaent arddangosiad cyhoeddus o'u caethion. Gwel 2 Cor. ii. 14. Eph. iv. 8. Wrth *efe* y meddylir Duw y Tad; ac yn lle *arni hi*, sef y groes, trwy yr hon y gobeithiai y gelynion hyn orchfygu Crist, rhai a ddarllenant *ynddo* neu *trwyddo* ef, sef trwy Grist. Fel hyn bydd y wahanran hon o ymadrodd yn dechreu gyda *Christ*, yn myned yn mlaen gydag *ef*, ac felly yn diweddu gydag *ef*. Emillodd oruchafaeth arnynt, y bydd gwaradwydd byth i Satan a'i lueedd o'i phlegyd: a bydd clod a goruchafiaeth byth i'r Iesu, a thragywyddol fuddugoliaeth a gorfoledd i'r eglwys.

ARDDERCHOG—RWYDD, (*arderch*, derchafedig) godidog, gogoneddus. Y mae yr Arglwydd yn *ardderchog* ynddo ei hun: y mae pob mawredd a phob harddwch yn hanfodol ynddo; ac nid oes dim yn fychan ynddo, ac yn anhardd. Y mae ei fawredd yn harddwch i gyd, a'i harddwch yn fawredd i gyd. Y mae ei hanfod, ei briodoliaethau, ei feddwl, ei gyngor, ei arfaeth, &c. yn ardderchog ac yn hardd anfeidrol. Nid oes dim dymunol nad yw ynddo; ac nid oes dim annymunol yn perthyn iddo. Pan y mae efe yn *gwisgo* ardderchogrwydd, nid yw yn rhoddi am dano y peth nad oedd ganddo o'r blaen; ond yn unig yn *ymddangos* y peth ydoedd, ac mewn dull addas iddo ei hun, Salm xciii. 1. Gan ei fod yn *ardderchog* yn hanfodol ynddo ei hun, y mae ei ardderchogrwydd, o angenrheidrwydd, yn ymddangos yn ei holl enwau a'i weithredoedd. *Ardderchog* yw ei enw ar yr holl ddaear, yn mhob dull a modd a gymmerodd efe i ddadguddio ei hun, Salm viii. 1. *Ardderchog* yw ei waith yn y greadigaeth, yn ei ragluniaethau, ei farnedigaethau, a'i waredigaethau: ond mewn modd arbenig, yn mhrynedigaeth ac iachawdwriaeth tragywyddol ei bobl, Esa xxviii. 29.

ARDDODIAD, *(ar-dodiad)* gosodiad ar. Yr oedd arddodiad dwyllaw yn arferedig gan bersonau anghyffredin ar bersonau anghyffredin; a hyny, nid i'w gosod mewn unrhyw swydd, ond er cyfranu *dawn* i ryw orchwyl anghyffredin. Yr oedd Saul a Barnabas yn eu swyddau eisioes, pan roddwyd dwylaw arnynt gan benuriaid Antiochia, Act. xiii. 1—3. Nid i swydd newydd yr oeddynt yn cael eu neilduo yr amser hwnw, ond i'r *gwaith* y galwodd yr Ysbryd Glân hwynt iddo, y pryd hwnw. "Rhodded *dawn* i Timotheus trwy brophwydoliaeth ac arddodiad dwylaw yr henuriaeth," 1 Tim. iv. 14. Paul a Silas, tebygol, y mae efe yn ei feddwl wrth yr henuriaeth: canys y mae yn tystio iddo dderbyn dawn trwy arddodiad ei ddwylaw ei hun arno, 2 Tim. i. 6. Y saith a ddewisiwyd yn swyddwyr anghyffredin, i weini mewn gwaith neilduol yn lle yr apostolion y pryd hwnw, wedi eu hethol gan y bobl, a osodwyd ger bron yr apostolion; ac wedi iddynt weddio, gosodasant eu dwylaw arnynt, yn arwydd o'u cymmeradwyaeth o honynt, ac i gyfranu iddynt, trwy hyny, *ddawn* yr Ysbryd Glân i'w haddasu i'w gwaith, Act. vi.

AREN, *(a-gren*, math ar lestr pridd mawr) lwlen, elwlen. (1) Rhanau tumewnol, mewn dyn ac anifel, Lef. iii. 4. Job xix. 27. Salm cxxxix. 13. (2.) Eneidiau dynion, yn nghyd a'u tueddiadau a'u meddyliau, Gal. iii. 13. Dad. ii. 23. Mae Duw yn mhell oddi wrth *arenau dynion*, pan y byddant heb wir wybodaeth o hono, ofn, cariad, a dymuniad atho, a hyfrydwch ynddo, ac heb roddi dim gwir ufudd-dod iddo, Jer. xii. 2. Mae dynion yn cael eu pigo yn eu *harenau*, pan archoller eu henaid gan feddyliau aflonydd, nwydau poenus, cenfigen, galar, digofaint, Salm lxxiii. 21. Y mae eu *harenau yn dysgu* dynion, pan y bydd Duw, trwy ei Ysbryd, neu mewn modd amgen, yn cyffroi ynddynt addysgiadau a golygiadau newyddion, Salm xvi. 7.

AREOPAGUS, *(bryn Mars)* uchel lys Athen, rhagorol am gyfiawnder ei benderfyniadau, a alwyd felly o herwydd ei fod yn eistedd ar fryn o'r un enw, neu yn maes pentrefol y ddinas, yr hwn oedd wedi ei gyssegru i Mars, duw y rhyfel, fel yr oedd y ddinasi Minerva ei chwaer. Pa bryd y sefydlwyd y llys hwn, pa un ai gan *Solon* yn amser Cyrus, neu gan *Cecrops*, yr hwn oedd yn byw amryw oesoedd cyn hyny, sydd yn gwbl ansicr. Ar'y cyntaf, nid oedd yn cynnwys ond naw o farnwyr, y

rhai a fuasent ben-llywodraethwyr yn y ddinas, ac, ar ol ymofyniad manwl, a gawsid yn gyfiawn yn eu hymdriniaethau: ond, wedi hyny, cynnwysai weithiau 30, neu hyd yn nod 500. I'r dyben iddynt fod yn fwy gwrandawgar, ac heb ogwyddo at un gwrthddrych o dosturi neu barch, byddent yn eistedd o hyd nos allan dan yr wybren. Yr oedd eu llywodraeth yn cael ei chyfyngu ar y cyntaf i feiau cyhuddol yn unig; ond ymestynwyd hi yn raddol at fatterion ereill. Yr oedd y dadleuon ger eu bronau i gael eu mynegu yn y dull mwyaf syml ac eglur. *Aristides* a sylwa, mai y llys hwn oedd y frawdle fwyaf parchus a chyssegredig yn holl wlad Groeg: a dywed *Demosthenes* wrthym, na bu yn ei amser ef, gymmaint ag un o'u penderfyniadau, ac yr oedd achos gan y gofynwyr, neu'r amddiffynwr i achwyn o'i blegyd. Yr oedd ganddynt dri chyfarfod yn yr Areopagus bob mis. Y mae olion eu heisteddleoedd i'w gweled etto, wedi eu naddu mewn craig, lar wedd hanner cylch, ac o amgylch y frawdle, neu eisteddleoedd y barnwyr, y mae math o le crwn, yr hwn oedd yn gwasanaethu fel dadleu-dŷ. Am bregethu Crist yn Athen, gwysiwyd Paul ger bron y llys hwn, fel un yn mynegu duwiau dyeithr; ond efe a ymresymoddi mor gadarn fel y gollyngwyd ef yn rhydd; a Dionysius, un o'r barnwyr, a ddychwelwyd i'r ffydd Gristionogol, Act. xvii. 19—34.

ARETAS *(rhinweddol)*. Bu amryw freninoedd o'r enw hwn, neu fel y geilw y trigolion ef, Hareth, yn teyrnasu yn y freniniaeth Arabaidd Ghassan, o du y dwyrain i wlad Canaan; ond ni chrybwyllir yn yr ysgrythyr ond am ganlynwr Obodas, a thad-yn-nghyfraith Herod Antipas. Meddyliodd un Sylleus anafu ei gymeriad ef gyda'r amherawdwr Augustus; gan haeru ei fod wedi camfeddiannu gorsedd Arabia trwy ei law ei hun. Gwedi cael allan fradwriaeth Sylleus, cadarnhawyd Aretas mewn modd arbenig yn ei lywodraeth. Gwedi anfoddloni o hono wrth Herod, am roddi ei ferch ef ymaith er gwneud offordd i Herodias, cyhoeddodd Aretas ryfel yn ei erbyn, dan esgus o gyfartalu eu terfynau yn Galilea. Gorchfygwyd Herod amryw weithiau, ac erfyniodd am gynnorthwy ar yr amherawdwr Tiberius, yr hwn a orchymynodd i'w raglaw yn Syria ddwyn Aretas iddo ef naill ai yn fyw neu farw. Cychwynodd Vitelius yn ddiattreg i ymosod yn erbyn brenin Arabia: ond wedi iddo glywed am farwolaeth Tiberius, dychwelodd yn ol heb ymladdi âg ef. Cyn pen hîr wedi hyny, ymunodd y llywydd oedd dan Aretas yn Damascus â'r Iuddewon, yn eu gwaith yn erlid Paul; a chadwodd y pyrth yn gauad nos a dydd i'w ddal ef, Act. ix. 23, 24. 2 Cor. xi. 32, 33.

ARF—AU ac EIRF, *(ar)* offerynau rhyfel. Yr *arfau ymosodol* gan yr Hebreaid a hen genedloedd ereill i ruthro ar ei gelynion, oeddynt cleddyfau, piccellau, gwaywffyn, bwâau a saethau, tafl-ffyn, &c.: eu *harfau amddiffynol*, y rhai a arferent i noddi eu hunain, oeddynt helmau, llurigau, tarianau, durbeisiau, &c. Yn amser Deborah, tebygol fod Jabin wedi diarfogi yr Israeliaid; o herwydd nid oedd na tharian na gwayw-ffon i'w gweled yn mysg 40,000 o honynt, Barn. v. 8. Yn amser Saul, gwnaethai y Philistiaid yr un peth, a gwaharddasent ofaint iddynt yn gwbl; ac, o herwydd hyn, ni chaed na chleddyf na gwaywffon yn llaw un o honynt ond Saul a Jonathan, 1 Sam. xiii, 22. Yr oedd yn arferiad cyffredin gynt i grogi arfau i fynu mewn lleoedd cedyrn neu sanctaidd; crogwyd cleddyf Goliah yn y babell, ac yr oedd wedi ei gyssegru i anrhydedd Duw fel cofnod o'r fuddugoliaeth hynod, 1 Sam. xxi. 9. Yr oedd *nîl o darianau y cedyrn* wedi eu rhoddi i gadw yn nhwr Dafydd, Can. iv. 4. Y Tyriaid, Persiaid, Lybiaid, a Lydiaid, a grogasant eu helmau a'u taranau ar furiau Tyrus, Ezec. xxvii, 10. Pan adeuniliodd y Maccabeaid y demi oddi ar Antiochus, crogasant goronau a tharianau euraidd o amgylch ei phorth.

Y mae arfogaeth, pan ei priodolir i Dduw, yn dynodi ei addasrwydd a'i holl-ddigonolrwydd tuag at a'r ffyrdd a'r moddion trwy ba rai y mae efe yn gorchfygu ac yn amddiffyn ei bobl, ac yn dyfetha ei elynion, Salm xxxv. 2. Y mae arfogaeth ysbrydol y seintiau yn gynnwysedig o *darian* y ffydd, hyny yw, y Duw mewn cym-

mod yn Nghrist yr ydym yn credu ynddo, a'r gras o ffydd, trwy yr hwn yr ydym yn credu ynddo; *helm* gobaith iachawdwriaeth; dwy-froneg gwirionedd wedi ei chymhwyso attom, ac uniondeb wedi ei weithio ynom; a chyfiawnder cyfrifedig a phlanedig; *gwregys* gwirionedd wedi ei ddadguddio i ni, ac anllygredigaeth meddwl ynom ni; *esgidiau* parottoad efengyl y tangnefedd; yn nghyd â'r peiriant o weddi ddyfal, Eph. vi. 13—20. A'r arfau hyn yr ydym i ymladd yn erbyn pechod, Satan, a'r byd; ac i amddiffyn ein hunain rhag eu hymosodiadau lluosog a pheryglus, Eph. vi. 11—20. Y mae yr arfogaeth hon yn cael ei galw *arfogaeth Duw*.

Arfogaeth Duw, neu *arfau ei ddigofaint* yn erbyn y Caldeaid, oeddynt y Mediaid a'r Persiaid, trwy ba rai y cyflawnodd efe ei ddialedd cyfiawn trwy ddinystrio y bobl hyny, Jer. l. 25.

ARFAD, dinas yn Phenicia, yn sefyll mewn ynys fechan, o du y deau i Tyrus, ac yn nghylch tair milltir oddi wrth y Cyfandir. Yr Arfadiaid, o hiliogaeth Canaan, a'u hadeiladasant ac a'i poblogasant hi yn yr oesoedd boreuaf wedi y dylif. Yr oedd hi yn enwog gynt am forwriaeth a chyfoeth, ac yn gyffredin yn cyfranogi o'r un damweiniau â Tyrus a Zidon. Yn amser Ezeciel, gwasanaethai yr Arfadiaid fel morwyr yn llyngesoedd y Tyriaid, ac fel gwylwyr ar eu caerau, Gen. x. 18. Ezec. xxvii. 8, 11. Gelwir hi yn awr gan y Tyrciaid *Ruwadde*; ac er ei bod, o achos uchder yr ynys yn ymddangos yn brydferth ar lân y mor, etto, ar y fan, y mae yn dlawd iawn; heb ynddi bron ddim ond gwarch-glawdd adfeiliedig, ac ychydig o hen fanglenau i'w hamddiffyn.

ARFAETH—U *(ar-maeth)*. Y gair Groeg am *arfaeth*, sydd yn arwyddo *rhag-fwriad*, *rhag-drefniad*, *rhag-osodiad*. Gelwir arfaeth Duw wrth amrywiol enwau yn yr ysgrythyrau. Weithiau (1.) *meddyliau ei galon*, Salm xxxiii. 11. Jer. xxix. 11. Y rhai hyn ydynt ddyfnion bethau Duw, sydd yn trigo yn ddirgelaidd yn ei feddwl, hysbys yn unig iddo ei hun, ac a chwilir gan ei ysbryd, 1 Cor. ii, 10, 11. (2.) *Cynghorion Duw*, y rhai y dywedir eu bod er ys talm, sef er tragywyddoldeb; ac ydynt wirionedd a sicrwydd; sef yn sier o gael eu cyflawni mewn amser. Eu bod yn cael eu galw yn gynghorion, nid arwydda ddiffyg gwybodaeth yn Nuw, neu fel pe nas gwybuasai pa beth i'w wneuthur; ac am hyny yn ymgynghori âg ef ei hun, neu arall, pa beth i wneuthur; ond am eu bod yn cynnwys y doethineb mwyaf y gelwir hwynt *cynghorion*.

Ystyriwn ychydig yn mhellach am arfaeth Duw; (1.) *Y mae yn dragywyddol*. Duw tragywyddol sydd yn arfaethu; am hyny y mae ei arfaeth yn arfaeth dragywyddol. Y mae etholedigaeth yn gangen o arfaeth Duw; ond etholwyd y credinwyr yn Nghrist cyn seiliad y byd, sef er tragywyddoldeb, Eph. i. 4. (2.) *Y mae yn annibynol ac yn gwbl rydd*. Nid holl-wybodaeth Duw yn unig sydd ar waith yn ei arfaeth; ond hefyd ei ben-arglwyddiaeth, ei ddaioni, ei gyfiawnder, ei ddoethineb, a'i sancteiddrwydd. Y mae yn ei ben-arglwyddiaeth yn arfaethu yn ddoeth, yn dda, yn gyfiawn, ac yn rasol. (3.) *Y mae yn anfeidrol ogoneddus*. Y mae ei arfaeth yn anfeidrol ogoneddus ac yn addas i Dduw, o ran ei doethineb a'i huniondeb; ac y mae yn dda i'w greaduriaid, o ran ei ddaioni a'i raslonrwydd. (4.) *Y mae yn anfeidrol dirion a grasol tuag at bechaduriaid*. Y mae wyneb yr arfaeth yn anfeidrol dirion a grasol tuag at bechaduriaid colledig: oblegyd fod achubiaeth pechaduriaid wedi ei arfaethu ynddi, 2 Tim. i. 9. Ni buasai un Ceidwad i achub, oni buasai i Dduw drefnu Ceidwad addas a gogoneddus yn yr arfaeth. Ni buasai un enaid cadwedig, nac un pechod yn cael ei faddeu, oni buasai fod Duw wedi arfaethu achub a maddeu. Nid oes dim daioni, graslonrwydd, na thiriondeb, mewn un modd, yn cael ei amlygu a'i weithredu tuag at bechaduriaid, mewn amser, nad oedd yn yr arfaeth er tragywyddoldeb. (5.) *Y mae yn arfaeth dda*. Os yw *achub* yn waith da, yr oedd *arfaethu* achub yn arfaeth dda. Os yw yr efengyl yn cyhoeddi newyddion da, y mae yr arfaeth yn arfaeth dda, yn yr hon y trefnwyd y cwbl a gyhoeddir yn yr efengyl. Ymryson

âg arfaeth Duw, yw ymrysoŋ â Duw ei hun, yn gweithredu yn ei ben-arglwyddiaeth, fel y mae yn addas iddo; yn trefnu pob peth gydag anfeidrol ddoethineb, daioni, ac uniondeb, yn y modd goreu er ei ogoniant ei hun, a daioni tragywyddol ei bobl. (6.) *Arfaeth yn Nghrist ydyw.* Efe yw gwrthddrych penaf yr arfaeth. Ei osod ef i fynu, yr hyn a amlygir ei fod o ran ei berson fel Duw-dyn, o ran ei swyddau a'i waith, ei ddarostyngiad a'i dderchafiad, yw y dyben penaf yndd. Os dyrchefir ef, yr hwn yw y pen, dyrchefir yr holl gorph, sef ei eglwys hefyd; a darostyngir ei holl elynion.

ARFFEDOG—AU, *(arffed)* lliain arffed. "A dail ffigys wedi eu gwnio yn nghyd, neu gangau y ffigysbren wedi eu gosod yn briodol wrth y tu blaen i'w cyrph, y cyflawnodd ein rhieni cyntaf le *arffedogau,* Gen. iii. 7. Tebygol mai yn *arffedog* Ruth, ac nid ei *mantell,* y rhoddodd Boaz y chwe mesur o haidd, i'w ddwyn i'w mham, Ruth iii. 5.

ARGLWYDD—ES, *(ar-clwydd,* parwr llwyddiant neu ffyniant) naf, ner, iôn, iôr. Y gair *Arglwydd* a arwydda un â chanddo lywodraeth ac awdurdod, megys gwr priod, Gen. xviii. 12: meistr, Ioan xv. 15; prophwyd, 1 Bren. xviii. 7; tywysog neu wr enwog, Gen. xlii. 10. Pan y mae y gair *Arglwydd* yn yr Hen Destament, wedi ei argraphu mewn prif lythyrenau, cyfeithad ydyw yn gyffredin o'r gair *Jehofah.* Pan mewn llythyrenau bychain, cyfeithad ydyw o'r gair *Adon,* yr hwn a arwydda rheolwr cyfrwymol a chynnaliol. Duw, Tad, Mab, ac Ysbryd Glân, sydd yn fynych yn cael ei alw *Arglwydd,* i ddynodi eu hunan-hanfodiaid, ei waith yn rhoddi bod i, yn cynnal, ac yn llywodraethu pob creadur, Salm cx. 1. 1 Thes. iii. 5. Gelwir ef *Arglwydd y Lluoedd,* neu Arglwydd y Sabaoth; gan mai efe a wnaeth, a bïau, sydd yn cynnal, ac yn llywodraethu holl luoedd yr angelion, dynion, a chreaduriaid ereill, Salm xxiv. 10. Iago v. 4. Pan y mae Arglwydd, yn y Testament Newydd, yn gyfeithad o'r gair *Kyrios,* y mae yn fynych iawn yn arwyddo Crist, Dad. xiv. 13; ond pan y mae *Arglwydd* yn gyfeithiad o'r gair *despotes,* neu feistr, nid yw byth, ysgatfydd, yn cael ei briodoli i Grist, ond i Dduw yn hanfodol, Gwel Act. iv. 24. Luc ii. 29. Judas 4. Dad. vi. 10. 2 Petr ii. 1. Gelwir Iesu Grist *Arglwydd yr Arglwyddi,* ac *Arglwydd pawb oll;* efe sydd yn cynnal ac yn llywodraethu pawb breninoedd, pennaethiaid, a llywodraethwyr ereill, ïe, pawb a phob peth, yn y nef a'r ddaear, Dad. xix. 15. Act. x. 36. Efe yw *Arglwydd y gogoniant;* y mae yn meddiannu gogoniant anfeidrol ynddo ei hun, wedi ennill gogoniant tragywyddol, ac yn ei gyfranu yn rhad i'w bobl, 1 Cor. ii. 8. Efe yw *Arglwydd* yr eglwys, ac yn enwedig y seintiau, ei gwir aelodau hi; efe a dynodd y portreiad, ac sydd yn adeiladu yr eglwys, efe sydd yn sefydlu pob ordinhad ynddi, ac y mae yn sefyll mewn perthynas neilltuol âg aelodau yr eglwys, fel eu priod, eu pen-athraw, a'u llywydd; ac efe yw priod ysbrydol, cyfarwyddwr, llywydd, a ffynnon ddiwyddwch tragywyddol i'r seintiau, Rhuf. v. 1.

ARGOB, *(tywarchen)* talaeth yn hanner llwyth Manasseh, yn ngwlad Basan. Yr oedd hon yn dra ffrwythlawn, ac yn cynnwys 60 o ddinasoedd caerog, y rhai a adgyweiriodd Jair, mab Machir, ac a'u galwodd Hafoth-Jair. Galwyd hi Argob, tebygol, oddi wrth ei phrif-ddinas, neu oddi wrth ryw Amoriad enwog, i'r hwn y buasai yn perthynu, Deut. iii. 4, 14,. 1 Bren. iv. 13.

ARGRAFF—U, *(ar-craff)* cerfnod ar ysgrifen. "Wele, ar gledr fy nwylaw y'th *argreffais,*" Esa. xlix. 16. Cyfeiria y geiriau at ryw ddefod yn mhlith yr Iuddewon o nodi ar eu dwylaw, neu eu breichiau, trwy big-dyllau, arwydd-nod, neu lun y deml, a'r ddinas Jerusalem, fel arwydd o'u traserch a'u brwd-frydedd atti. Felly y mae yr Arglwydd yn meddwl ac yn gofalu am ei seintiau, ac yn gwneud daioni iddynt yn barhaus. "Gweinidogaeth angau, mewn llythyrenau wedi eu *hargraphu* ar gerrig," 2 Cor. iii. 7. Hyny yw, yr oruchwyliaeth Foesenaidd, yr hon a brofodd felly i'r sawl a'i dewisasant yn lle yr efengyl, y rhan fwyaf ardderchog o ba un, sef y gyfraith foesol, a ysgrifenwyd ar y ddwy lech hyny, ac a ganlyn wyd gyda

gogoniant mor fawr. Ymddengys oddi wrth yr ysgrythyrau hyn, mai dyma yr argraffiad llythyrenau cyntaf, ag y mae dim hanes genym am dano, Exod, xxiv. 4, 7, 12, xxviii. 21, 36, xxxi. 18, a xxxii. 16.

ARGYHOEDD—U, *(ar-cyhoedd)* dwyn peth i'r golau ar gyhoedd, sierhau y meddwl am wirioneedd peth. Y mae yr Ysbryd yn *argyhoeddi* dynion o bechod, pan y bydd, trwy gymhwysiad o orchymynion a bygythion y gyfraith at eu cydwybodau, yn rhoddi iddynt olwg gyffrous ar natur, trymhad a ffrwythau annedwydd eu pechodau. Yn ngoleuni yr Ysbryd, y mae y bod o Dduw yn dwyn sierwydd i'r enaid am dano; a pha fath un ydyw yn ei fawrhydi gogoneddus, ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i ddaioni: ac yn peri teimladau a gweithredoedau cyfattebol iddo yn yr enaid, a'r fath a weddai fod tu ag atto. Y mae yn dangos Crist, heíyd, yn ei fawredd gogoneddus, yn mherffeithrwydd ei waith cyfryngol, cyfoeth ei drugaredd, dyfnderoedd ei gariad, a thrysorau diderfyn ei ras. Y mae yn arwydd da fod argyhoeddiadau yn drwyadl ac yn achubol, pan y bydd ant yn cyrhaedd yn benaf at anghrediniaeth, a llygredd ein natur, a pherffeithir hwy trwy amlygiad o'r Gwaredwr croeshoeliedig, Ioan xvi. 9, 10, 11. Rhuf. vii. 9—14. Zec. xii. 10.

ARIAN *(air,* dyscleirdeb). Nid ydym yn darllain fod arian mewn arferiad cyn y dylif; ond yn amser Abraham yr oedd masnach yn cael ei ddwyn yn mlaen âg ef, er nad oedd dim bathu arian am hir amser wedi hyny. Byddai yr aur a'r arian yn cael eu pwyso, nid eu bathu. *Pwysodd* Abraham y pedwar can sicl o arian y rhai a roddodd efe am ei feddrod, Gen. xxiii. 15, 16. Gwerthwyd Joseph er ugain darn o arian, a'i frodyr a ddygasant drachefn i'r Aipht yr un *pwysi* o arian, ag a roddasid yn ol yn ngeneu eu sachau, Gen. xxxvii. 28, a xliii. 21. *Pwysodd* Jeremiah y ddwy sicl ar bymtheg y rhai a roddodd ef am faes ei gyfyrder, Jer. xxxii. 10. Siclau a thalentau, wrth ba rai y cyfrifid arian, oeddynt bwysau, ac nid bathau, 2 Sam. xii. 30, a xiv. 26. Nid ydym yn sier am ddim arian bathol yn y byd, hyd yn nghylch A. M. 3460, pan y bathodd *Crœsus* brenin Lydia ei Grœsi, a *Darius* y Mediad ei Ddaricau, neu Ddaremonau. Ac nid ydym yn gwybod i'r Iuddewon fathu dim, hyd yn nghylch 400 o flynyddoedd wedi hyny, pan y rhoddodd Antiochus Sidetes ragorfraint i'r dyben hwnw i Simon y Maccabead. Dechreuodd y Rhufeiniaid fathu arian yn nghylch A. M. 3735, ac aur yn A. M. 3797. Yr oedd yr hen Frutaniaid yn arfer tyrch a llafnau o haiarn yn lle arian. Y Lacedemoniaid a arferent farau o haiarn. Mewn amgylchiadau cyfyng, gynt, byddent yn bathu lledr, coed, glud-leni *(paste-board)* &c. yn lle arian. Nid yw y Chiniaid yn bathu hyd heddyw, ond torant a phwysant eu haur a'u harian erbyn marchnadaeth; ac yn mysg rhai cenedloedd, y maent yn masnachu â'u gilydd â chregin a ffrwythau, yn lle arian. Y mae mŵn arian yn dra anmhur, a rhaid ei buro yn fynych i'w wneuthur yn goeth, Salm xii. 7. Ceir ef yn gymmysgedig â phlwm, alcan, &c. Yr oedd arian pur yr henafiaid i'w gael yn mŵn-gloddiau Tarsis, Jer. x. 9. Defnyddiwyd llawer o hono wrth adeiladu y deml Iuddewig gan Solomon, 1 Cron. xxix. 4. Y mae yn cael ei roddi am bob golud tymhorol, Hos. ix. 3. Yn gysgodol, arwydda bob peth sydd yn ddefnyddiol, gwerthfawr, pur, a gogoneddus. Llywodraethwyr gwladol ac eglwysig a gyffelybir i *arian,* i nodi mor werthfawr a defnyddiol y dylent fod, Esa i. 22, 23. Y seintiau a gyffelybir i *arian coethedig;* i nodi eu rhagoriaeth gwirioneddol; a'u bod wedi eu profi yn nhân amryw gystuddiau, Esa lxvi .10. Zech. xiii. 9. Doethineb, a'i hardreth, neu farsiandaeth, hyny yw, Crist a'i ddoniau, sydd fwy pur, gwerthfawr, hawddgar, a defnyddiol, nag *arian.* Job. xxviii. 15. Diar. xvi. 16, viii. 10, 19, a iii. 14. Yr Iuddewon oeddynt fel *arian gwrthodedig,* heb allu dal i'w profi; yr oedd ganddynt rith daioni, ond pan eu profid gan y gyfraith, neu ragluniaeth Duw, deuai eu drygioni a'u sorod i'r amlwg, Jer vi. 30. Tafod y cyfiawn sydd fel *arian detholedig;* eu hymadrodd sydd bur, defnyddiol, ac adeiladol, Diar. x. 20. Ceisio peth fel *arian,* a chwilio am dano fel am *drysorau*

cuddiedig, yw ei ceisio yn ddifrifol, a thrwy bob moddion priodol, Diar. ii. 4. *Cludwyr arian*, yw y cyfoethogion, y marchnadyddion, a'r cyfnewidwyr, Zeph. i. 11. *Darn o arian*, yr un peth ydyw â sicl. Gosodir pobl Dduw allan fel *darn o arian wedi ei golli*, a chwilir am dano ganddo yn nydd ei nerth, Luc xv. 8.

ARIANGARWCH (*arian caru*). "Canys gwreiddyn pob drwg yw *ariangarwch*," 1 Tim. vi. 10. Gelwir hi yn gyffredin, *gofal dyledus* am y peth sydd gan ddyn, ond yma, *gwreiddyn pob drwg*, neu fam pob math o ddrygau; yr hon, â rhai yn chwannog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddi wrth y ffydd, neu, yn ol yr iaith wreiddiol, a *fethasant y nód*. Nid oeddynt yn annelu at *ffydd*, ond at ryw beth arall, ac a'u gwanasant eu hunain â llawer o ofidiau; neu a deimlasant boenau parhaus ac anfeddyginiaethol oddi wrth gydwybod euog, tymherau annyddanus, a dymuniadau gwrthwyneb i reswm, crefydd, a'r naill i'r llall, fel pe bai, ar bob ochr iddynt. Mae y gair gwreiddiol yn rymus iawn, ac yn arwyddo yn briodol, *Hwy wanasant eu hunain*, fel pe bai, *o'r pen i'r traed*, yn y fath fodd a bod yn glwyfau i gyd drostynt. Y mae hyn, yn wir, yn mynegu gyda phrydferthwch, y trais a'r drygau aneirif a wneir ar gydwybod, gan yr ymlydion hyny ag ydynt wedi penderfynu yn mhob modd i fod yn gyfoethog. Pa mor greulon yw dynion bydol iddynt eu hunain!

ARIEL (*llew Duw*). Gelwir Jerusalem felly, o herwydd ei nerth rhyfelgar; neu geill fod *Ariel* yn arwyddo y deml ac allor y poeth-offrwm. *Gwae oedd i Ariel*; pan ddinystriwyd y ddinas a'r deml gan y Caldeaid a'r Rhufeiniaid. Duw a *gyfyngodd ar Ariel, ac yr oedd hi fel Ariel*, pan y gwnaed y ddinas a'r deml yn olygfa lladdedigaeth a gwaed, fel yr oedd allor y poeth-offrwm, gyda golwg ar yr anifeiliaid, Esa xxix. 3.

ARIMATHEA, (*lle uchel*) dinas yn Judea, lle yr oedd Joseph, y cynghorwr anrhydeddus yn byw. Myn rhai ysgrifenwyr mai yr un oedd hi â Ramathaim Zophim, lle genedigol Samuel, yn nghymydogaeth Bethel: eithr yna, gofynol oedd iddi fod yn ddinas y Samariaid, ac nid eiddo yr Iuddewon, yn wrthwyneb i Luc xxiii. 50. Y mae *Jerome*, ac ereill sydd yn ei ganlyn, yn sicr yn nes i'r gwir, y rhai a'u gosodant yn agos i Lyda, yn nghylch 36 neu 37 o filltiroedd o du y gorllewin i Jerusalem, lle mae y pentref Ramolah yn sefyll yn awr.

ARIOCH (*eich llew*). (1.) Brenin Elasar, un o'r rhai oeddynt mewn cynghrair â Cedorlaomer, Gen. xiv. 1. (2.) Tywysog milwriaeth Nebuchodonozor, yr hwn a osodwyd i ladd holl ddoethion Babilon: wrth ymbiliad Daniel, oedodd gyflawni yr hyn a orchymynasid iddo, a dygodd y prophwyd hwnw i mewn at y brenin, i fynegu a dehonglu ei freuddwyd iddo, Dan. ii. 14.

ARISTARCHUS, (*tywysog da*) brodor o Thessalonica; daeth yn Gristion gwresog, a chanlynodd Paul i Ephesus, lle y bu agos iddo golli ei fywyd, yn y terfysg a gyfodwyd gan Demetrius y gof arian. Canlynodd Paul yn ei ddychweliad i dir Groeg; ac yn ei daith oddi yno i Asia; ac wedi myned gyd ag ef o Jerusalem i Rufain, dywedir iddo gael tori ei ben gydag ef yno, Act. xix. 29, xx. 4, a xxvii. 2. Col. iv. 10.

ARISTOBULUS (*cymhorwr da*). meddylir ei fod yn frawd i Barnabas, ac yn un o ddeg dysgybl a thriugain ein Hiachawdwr, ac iddo bregethu gyda llwyddiant mawr, yn Mrydain, dan yr enw *Arwystle hen*: ond y mae yn hollol ansicr pa un ai fod ef yn Gristion; gan mai nid efe ei hun, ond ei dylwyth yn unig, a gyferchir gan Paul, Rhuf. xvi. 10.

ARLAIS—EISIAU, (*ar-glas*) eneidrwydd. "Dy *arleisiau* rhwng dy lywethau sydd fel darn o bomgranad, Can. iv. 3. a vi. 7. Y mae lliw ffrwyth y pomgranad, wedi ei hollti, yn gymmysg o goch a gwyn; a gellir ei gymhwyso at y gwrid cydwybodol, gyda'r hwn y mae teimlad o'i annheilyngdod ei hun wrth neshau ger bron yr Arglwydd, yn gorchuddio y creddyn, ac yn derchafu ei brydferthwch. Y mae yr agwedd hon yn gweddu iddo, ac yn harddwch sanctaidd, ac yn hoff gan yr Arglwydd. Y mae ei bechodau, ei wendidau, a'i lesgrwydd yn mhob peth, yn peri iddo wridio; felly hefyd y mae yr ystyriaeth o'r prawf beunyddiol y mae

yn gael o diriondeb a daioni yr Arglwydd tuag atto, Num. xi. 29. Ezra ix. 6.

ARLOESI, (*ar-lloesi*, bwrw allau, gwaghau) glanhau, puro. *Arloesi tŷ, arloesi ffordd*, yw parottoi tŷ neu ffordd, trwy symmud rhwystrau oddiar y ffordd, a rhoddi y tŷ mewn iawn drefn, Lef. xiv. 36. Mal. iii. 1. *Arloesi mynyddoedd*, a arwydda symmud ymaith y coed a'r anialwch, fel y byddont addas i dderbyn hadau a dwyn ffrwythau.

ARMAGEDON, *(mynydd Megido)* yr enw Hebreig a roddir i'r fan lle y dinystrir y lluoedd Pabaidd a Mahometanaidd, dan y chwechfed phiol. Y mae ei enw yn cyfeirio at Megido, lle y gwnaeth Barac a Deborah, gyda 10,000 o wyr digalon, a diarfog, agos hollol orchfygu, a bron lwyr ladd llu nerthol y Canaaneaid, dan Iabin a Sisera, a gellir ei ddehongli *dinystr y byddinoedd*. Pa un ai yn yr Ital y bydd hyn, neu yn India, neu ysgatfydd yn hytrach yn y ddwy, oddeutu yr un amser, ni feiddiwn benderfynu yn bendant, Dad. xvi. 13, 14.

ARNON, *(llammu o lawenydd)* afon fechan sydd yn codi yn mynyddoedd Gilead, ac yn rhedeg ar hyd terfyn gogleddol y Moabiaid, tu a'r dehau-orllewin. nes yw yn ymarllwys i'r Môr Marw, Barn. xi. 18. Esa xvi. 2. Num. xxi. 13.

AROER *(mynydd-dir)*. 1. Dinas yn sefyll mewn rhan o du y gogledd, ac mewn rhan ar ynys o'r afon Arnon. Schon yr Amoriad a'i hennillodd hi oddiar y Moabiaid; Moses a'i hennillodd hi oddi arno yntau, ac a'i rhoddodd i lwyth Gad, y rhai a'i hail-adeilasant hi, Num. xxxii. 34. Pan y caeth-gludwyd y Gadiaid i Assyria, ymddengys i'r Syriaid gymeryd meddiant o honi; ond gorfu arnynt ei gadael yn fuan i'r Moabiaid, dan ba rai yr ymddengys i'r Assyriaid ei gwneud hi yn ddifeithwch, Esa xvii. 2. Cafodd yr un ddamwain oddi wrth y Caldeaid, dan Nebuchodonozor, Jer. xlviii. 20. (2.) Dinas o du y dehau i Judah, i drigolion yr hon yr anfonodd Dafydd ran o'r anrhaith a ddygasai oddi ar yr Amaleciaid, 1 Sam. xxx. 28. Ond hwyrach y geill fod mai yr un oedd hon â'r flaenorol; trigolion pa un a fuasent garedig i rieni Dafydd, tra buont yn ymdeithio yn ngwlad Moab. (3.) Dinas yn agos i Rabba yr Amoriaid.

AROGL *(a-rhogl*, sawr) gwynt. Synwyr yw mewn dyn ac anifeiliaid, trwy ba un y maent yn barnu am arogl pethau, a thrwy hyny yn dirnad am eu natur a'u heffeithiau. Yr hen aberthau oeddynt yn arogl peraidd, neu yn *arogl o orphwysfa*, i Dduw; yr oedd efe yn eu derbyn, ac ymhyfrydu ynddynt, fel yn gysgodol o ufudd-dod a dyoddefaint Crist, y rhai sydd yn anrhydeddu ei holl berffeithderau yn ddigonol, ac yn gwneud mwy na chyd-bwyso ein troseddiadau anmheraidd ni, Gen. viii. 21. Exod. xxix. 18. Ephes. v. 2. *Arogledd gwybodaeth* ac *eŵnaint daionus Crist*, yw natur adfywiol a hyfryd ei wirionedd, pan yr adnabyddir ef yn iawn, yn nghyd â'r gras a'r rhinwedd a ddeilliant oddi wrtho fel ein Cyfryngwr, 2 Cor. ii. 14. Can. i. 3. Salm xlv. 8. Gweinidogion yr efengyl ydynt yn *ber-arogl Crist* i Dduw; eu cyflawniad gofalus o'u swydd sydd gymmeradwy gan Dduw, pa un bynag ai bod dynion yn gadwedig trwy eu gweinidogaeth neu beidio; ac y maent yn *arogl marwolaeth i farwolaeth* i rai, ac yn *arogl bywyd i fywyd* i ereill; maent yn achlysur o ddinystr deublyg i anghredinwyr, ac yn foddion o iachawdwriaeth a bywyd tragwyddol yma ac oddi yma i ereill, 2 Cor. ii. 15, 16.

AROGL—DARTH, yr hwn a arferid yn yr offrymau luddewig, o leiaf yr un a losgid ar allor yr *arogldarth*, a cher bron yr arch, oedd gymmysgedd gwerthfawr o beraroglau, sef stacte, onycha, galbanum, a thus pur, yr un faint o bob un, wedi eu curo yn fân iawn. Nid oedd neb ond yr offeiriaid i losgi hwn; na neb, dan boen marwolaeth, i wneuthur dim yn gyffelyb iddo. Yr oedd yr arogl-darth hwn yn cael ei losgi ddwy waith yn y dydd, sef fore a hwyr, ar yr allor aur. Ar ddydd y cymmod, llosgid llonaid dwylaw o hono o flaen yr arch yn y cyssegr sancteiddiolaf, i ragflaenu unrhyw sylldremiad ymofyngar a pheryglus ar yr arch. Trwy hyn yr arwyddocceid eiriolaeth werthfawr, galonog, gadarn, effeithiol, a pharhaus Crist yn y tu fewn i'r llen, ar

sail ei gyfiawnder ei hun, yr hwn sydd yn ein gwneud ni a'n holl wasanaeth ysbrydol yn gymmeradwy gan Dduw, Exod. xxx. 34—38. Lef. xvi. 12—14.

AROS, *(ar-aws,* dechreu symmud) trigo, parhau. Y mae dynion *yn aros yn Nghrist a'i gariad,* pan, wedi eu huno âg ef trwy ffydd, y byddant yn parhau i lynu wrth ei berson, i gredu ei gariad, ac i rodio yn ei ffyrdd. Ni wna cymmundeb eglwysig yn unig y tro; geill un fod fel hyn yn Nghrist, ac er hyny, fod yn *wywedig* ar yr un pryd, yr holl amser, Ioan xv. 6, 10.

ARPAD, *(golcuni iachawdwriaeth)* dinas enwog gynt, yn agos i Hamath yn Syria. Rhai a feddyliant mai yr un oedd hi âg Arfad yn Phenicia; ond mwy tebygol yw, ei bod yn lle gwahanol, yn gorwedd o du y gogledd-ddwyrain i Basan, a mai yr un yw ag Arphas a osodir yno gan *Josephus.* Dinystriwyd hi a'i heilunod gan yr Assyriaid, 2 Bren. xviii. 34. Esa x. 9, xxxvi. 19, xxxvii. 15; a difrodwyd hi yn llwyr gan y Caldeaid, Jer. xlix. 23; ond ymddengys iddi gael ei hail-adeiladu drachefn.

ARPHAXAD, *(un yn meddyginiaethu)* mab Sem, a anwyd yn mhen dwy flynedd ar ol y dylif. Gwedi byw 430 o flyneddoedd, bu farw A. M. 2088, Gen xi. 10—13, a x. 22. 1 Cron. i. 27, Luc iii. 36.

ARTAXERXES, *(rhyfelwr cadarn)* neu Smerdis Mardus, Sphendadates, Oropastes. Ahasferus Cambyses a adawodd Patizithes y Magiad i lywodraethu ar wladwriaeth Persia, tra y bu efe yn anrheithio yr Aipht. Patizithes, wedi clywed o hono fod Cambyses wedi lladd ei unig frawd Smerdis, ac ystyried pa mor debyg oedd Smerdis ei frawd ei hun i'r tywysog lladdedig, a'i gosododd ef ar yr orsedd, yn absennoldeb Cambyses, ac a roddodd allan mai efe oedd gwir frawd y brenin. Cambyses, wedi clywed am hyn, a gychwynodd tuag adref, i'w ddiorseddu ef; ond bu farw ar y ffordd, a deisyfodd ar ei bendefigion i dynu Smerdis i lawr, gan haeru nad oedd ef yn frawd iddo, ond twyllwr Magiaidd. I egluro y peth gyda sicrwydd, cafodd Ostanes, pendefig, yr hwn a wyddai fod clustiau y Magiad wedi cael eu torri ymaith gan Cyrus neu Cambyses, hysbysrwydd trwy ei ferch ei hun, yr hon oedd yn un o ordderch-wragedd Smerdis, fod ei glustiau ef yn eisiau mewn gwirionedd; yna efe, Darius Hystaspis, Gobrias, a phedwar o ŵyrsogion ereill, wedi ymrwymo trwy lw i ladd y Magiad, neu drengu yn yr ymgais, a ruthrasant i'r llys, ac a'i lladasant ef a'i frawd.

Yn ystod teyrnasiad byr y twyllwr hwn, o bum mis, ysgrifenodd Bistam, Mithredath, Tabeel, Rehum, a Simsai yr ysgrifenydd, yn nghyd â'r llwythau Samaritanaidd, lythyr, yn cynnwys fod Jerusalem wedi bod gynt yn ddinas gadarn a gwrthryfelgar iawn; ac os adeiledid hi, gallai ddisgwyl y gwnai yr Iuddewon wrthryfela yn erbrwydd, a'i amddifadu ef o'i holl deyrnged, o du y gorllewin i'r Euphrates. Ei atteb i'r llythyr hwn oedd yn gosod allan ei fod, trwy chwilio yr hen hanesion, wedi cael ei bod hi megys y lled-grybwyllasent hwy; a gorchymynodd iddynt rwystro yr Iuddewon i ail-adeiladu na'r ddinas na'r deml, nes y caent orchymyn'yn mhellach oddi wrtho, Ezra iv. 7—24.

2. *Artaxerxes* Longimanus oedd fab ieuangaf Xerxes, ac ŵyr i Darius Hystaspis. Artabanus, tywysog y gwarchawd-lu, yn bwriadu cymeryd meddiant o orsedd Persia ei hun, a laddodd Xerxes ei dad ef yn ddirgel, ac a ddygodd Artaxerxes i gredu, mai Darius ei frawd hebaf a wnaethai hyny, a'i fod yn bwriadu ei ladd yntau hefyd. Artaxerxes, wedi clywed hyn, a aeth yn ddiattreg i ystafell ei frawd Darius, a chyda chynnorthwy Artabanus a'r gwarchawd-lu, a'i lladdodd ef ar y fan.

ARTEMAS, *(difai)* un o gymdeithion Paul, ac ymddengys ei fod yn bregethwr enwog. Bwriadodd Paul ei anfon ef, neu Tychicus, i Crete, tebygol, i gyflawni lle Titus, tra byddai efe yn myned i ymweled â'r apostol yn Nicopolis, Tit. iii. 12.

ARTH, *(ar)* creadur pedwartroediog ysglyfaethus. Anifel mawr anolygus ydyw, mewn rhai manau cymmaint a gwaed-gi mawr, ac mewn lleoedd ereill cymmaint ag anner fechan. Y mae wedi ei orchuddio â mân-flew cedenog, fel ag i ymddangos yn glamp afluniaidd.

Mae ŷr arthod yn gyffredin o liw llwyd-ddu; ond, mewn gwledydd oerion, ceir rhai o honynt yn wynion. Mae eu peng'ogau yn deneuon, ond yn gedyrn, a llawer iawn o ymmenydd ynddynt; oddi wrth yr hyn, ysgatfydd, y maent mor gyfrwys. Eu llygaid ydynt fychain; a'u dannedd blaen ydynt chwech ar bob ochr, ac yn hwy na'r lleill. Y mae eu traed wedi eu ffurfio yn y fath fodd, fel y maent bob amser wrth rodio, yn sengu ar eu sodlau; y mae ganddynt bum bys ar bob un, ond y mae y mwyaf yn atteb i'r lleiaf, ar ddwylaw a thraed dyn Eu crafangau ydynt fachog a chryfion iawn, ac yn gyfaddas at ddringo. Dywedir, pan gânt ei bwrw, nad ydynt ddim mwy na llygod, a'u bod heb lygaid a blew. Y mae eu mamau yn nghylch 30 diwrnod cyn eu bwrw, ac yn gyffredin yn dwyn pump ar y tro. Arthod a ymborthant ar ffrwythydd, mêl, gwenyn, a chig; ac y maent yn dra ffyrnig, cyfrwys, a medrus ar ddringo coed; yn anwyl iawn o'u cenawon; ac yn cynddeiriogi ac yn rhuo yn ddychrynllyd pan gymmerir hwy oddi arnynt. Yn ystod y gauaf, y maent yn ymlochesu mewn anialwch, ac yn cysgu, y gwrrywaid yn nghylch deugain diwrnod, a'r benywaid yn nghylch pedwar mis; ar ddiweddpa amser, mae y gwrrywiaid yn dra thewion. Arthod ydynt i'w cael yn y rhan fwyaf o wledydd lle y mae coed ŷ yr oeddynt yn gyffredin yn Palestina. Bu Dafydd yn ymosod ar un o honynt, pan oedd yn cadw defaid ei dad; dwy arthes a ddrylliasant ddau-a-deugain o blant Bethel, y rhai a watwarasant Eliseus y prophwyd, 1 Sam. xvii. 34. 2 Bren. ii. 23, 24.

Y mae Duw yn cyffelybu ei hun i *arth wedi colli ei chenawon*, i nodi ei farnedigaethau digllawn, didrugaredd, a dinystriol yn erbyn ei elynion, Hos. i. 38. Galar. iii. 10. Dynion digllawn a gyffelybir i *arthod wedi colli eu cenawon*, y mae eu rheswm wedi ei wanhau a'i gythryblu; ac y mae tuedd ynddynt i ddryllio enwau da, meddiannau, a phersonau y rhai y byddant wedi sori wrthynt, 2 Sam. xvii. 8. Diar. xvii. 12. Dynion drygionus, yn benaf, llywodraethwyr gormesol, a gyffelybir i *arthod*, o herwydd eu malais, eu hymddial, eu ffyrnigrwydd, eu herchylldod, a'u creulondeb, Diar. xxviii. 15. Esa. xi. 7. Gofid a galar annobeithiol a gyffelybir i ruad *arthod*, Esa lix. 11. Darlunir un-benaeth Persia fel *arth yn ymgyfodi ar y naill ystlys, a chanddo dair asen rhwng ei ddannedd, ac yn cael ei wahodd i fwytta cig lawer;* yn llai bywiog a gogoneddus nac amherodraeth lewaidd y Caldeaid, ond ddim yn llai creulon a didrugaredd, ymgyfododd i fynu o du y dwyrain i'r un Galdeaidd. Cyrus, wedi ei wahodd gan Ragluniaeth Duw, gan yr Hyrcaniaid, gan Cyaxerxes y Mediad, a Gobrias, enciliwr Caldeaidd enwog, gyda chyfrwysdra, gwrolder, llafur, a thywallt gwaed nid bychain, a ddinystriodd amherodraeth Caldea, ac a chwanegodd at y fuddugoliaeth honno deyrnas oludog a nerthol Lydia o du y gogledd, a'r Aipht o du y dehau, Dan. vii. 5. Dywedir fod i Anghrist *draed arth;* y mae efe a'i oruchwylwyr yn medru dringo i'r uwchder mwyaf yn eu swydd-ymgais; y mae ei gynhalwyr a'i ddirgel-genhadau, yn fywiog a difiin yn ei wasanaeth, ac yn dal gafael sicr ar, ac yn dryllio pa beth bynag a allant, Dad. xiii. 2.

ARWAIN (*ar-gwain*, gweini, tywys). 1. Cyfarwyddo, Salm xxxi. 3. (2.) Llywodraethu, dwyn yn mlaen, Salm lxxx. 1. (3.) Denu; tynu i amryfusedd a drygioni, 2 Tim. iii. 6. Y mae yr Ysbryd Glân yn *arwain* dynion; trwy gymhwyso gair Duw at eu calonau; a thrwy ei ddylanwadau cyfarwyddol a thynol, y mae yn peri iddynt rodio yn uniawn yn llwybrau sancteiddrwydd, Rhuf. viii. 14. Gal, v. 18. Y mae y seintiau yn *arwain ac yn dwyn* Iesu i dŷ eu mam, pan y byddant yn ddifrifol ac yn fynych, yn erfyn ei bresennoldeb yn ei eglwys a'i ordinhadau, yn parottoi erbyn ei ddyfodiad, ac yn disgwyl yn serchog am gynhyrfiadau ei Ysbryd, Can. viii. 2.

ARWYDD—O, (*ar-gwydd*) nod. argoel. Y mae Iesu Grist a'i bobl yn *arwyddion* a rhyfeddodau; pa gymmaint y syllddremir arnynt, y dywedir yn eu herbyn, ac eu gosodir yn agored i niweid. Luc ii. 34. Esa viii, 18. A pha fodd y mae Iesu yn

cael ei osod i fynu yn yr efengyl, fel y delo dynion atto! Esa lxvi. 19, xi. 10, a lix. 18. Prophwydi oeddynt yn *arwyddion*, pan fyddai eu cyfwr a'u hymddygiad yn nodi allan yr hyn oedd i ddigwyn ar genedlaethau, Esa xx. 3. Ezec. iv. 3. Dynion drygionus ydynt yn *arwydd*, pan y bydd cyfiawnder a ffyddlondeb Duw yn cael eu hamlygu yn eu dinystr hynod, ac ereill yn cael eu rhyboddio i ochelyd y cyfryw bechodau, Ezec. xiv. 8. Yr haul, y lleuad, a'r ser, ydynt yn *arwyddion*, ac yn dymhoran: y mae eu cyllead a'u hymddangosiad yn nodau cyffredin i arwyddo pa dymhor a thywydd a fydd; ac y mae eu hymddangosiadau anghyffredin yn fynych wedi bod yn nodi allan drallodion neshaol, Gen. i. 14. *Deuddeg arwydd* y ffurfafen, ydynt 12 tŵr o ser yn y rhan honno o'r wybren weledig, trwy ba rai y mae yr haul, y lleuad, a'r planedau ereill yn ymsymmud. Y rhai hyny y mae yr haul yn symmud drwyddynt yn nhymor y gwanwyn, ydynt yr Hwrdd, y Tarw, a'r Gefeilliaid; y rhai y mae yn symmud drwyddynt yn ein hâf ni, ydynt y Crânc, y Llew, a'r Forwyn; y rhai yn nhymhor yr Hydref, ydynt y Fantol, y Sarph, a'r Saethydd; y rhai yn y gauaf, ydynt yr Afr, y Dyfrwr, a'r Pysg. Ymddengys fod yr arwyddion hyn yn adnabyddus yn nyddiau Job, pen. xxxviii. 32; a'u bod yn cael eu hadnabod gan yr Iuddewon, dan deyrnasiad Manasseh ac Amon, 2 Bren. xxiii. 5. Ond *arwyddion y nefoedd*, ac *arwyddion* dewiniaid celwyddog, ydynt ymddangosiadau naturiol yr wybren; megys y mae haul coch a phruddaidd yn nod o ddynesiad tywydd garw; a'r arwyddion a rydd dewiniaid o fod yr hyn a ragfynegasent hwy, yn dygwydd, Jer. x. 2. Esa xliv. 25. *Arwyddion* dyfodiad Crist yn erbyn yr Iuddewon, oeddynt daeniad yr efengyl, erlidigaeth y Cristionogion, cyfodiad gau-brophwydi, ymddangosiadau anghyffredin yn yr awyr, ac o amgylch y deml, &c. y rhai hyn a nodent fod dinystr eu cenedl yn neshau ar frys, Mat. xxiv. 3—29. Ond *arwydd Mab y Dyn* yn ymddangos wedi hyny yn y nef, oedd y dystiolaeth eglur, neu y nôd o'i fod yn Fessiah, yn nghospedigaeth y genedl Iuddewig, yr hon a'i gwrthododd ef; neu yr ymddangosiadau arswydus a ragfaenant ei ymddangosiad diweddaf, yn y cymmylau, Mat. xxiv. 30. Gwaith yr haul yn myned yn ei ol, oedd *arwydd* neu *argoel*, yr â'i Hezeciah i fynu i'r deml, 2 Bren. xx. 8. Y bwa oedd yn *arwydd* fod Duw wedi sefydlu ei gyfammod â Noah a'i had, ac yn dystiolaeth sicr na orchuddiai efe'r ddaear mwyach a dylif, Gen. ix. 12, 13. Yr oedd yr enwaediad, y Sabbath, a'r cadwad seremoniol o hono, a defodau ereill, yn *arwyddion*, neu *nodau* sicr, fod Duw wedi sefydlu ei gyfammod neillduol â'r Hebreaid, ac y rhoddai, neu ei fod wedi rhoddi iddynt wlâd Canaan yn feddiant, Gen. xvii. 11. Rhuf. iv. 11. Exod. xxxi, 13.

ASA *(meddyg)* a ganlynodd ei dad Abiah ar orsedd Judah, A.M. 3049, ac a deyrnasodd 41 o flyneddoedd. Cafodd ei ddwyn i fynu gan Maachah, merch Abisalom, eiluniaddolwraig hynod; ond yr oedd efe yn ddduwiol ei hun. Yn y deng mlynedd gyntaf o'i deyrnasiad ni chafodd ryfel, ac ymroddodd i ddiwygio ei deyrnas. Ni ddistrywiodd efe yr uchelfëydd, lle yr oedd ei ddeiliaid, yn groes i'r hyn a orchymynasid iddynt, yn addoli y gwir Dduw; ond efe a ddiddymodd y delwau, a'r allorau, yr uchelfëydd, a'r llwyni oedd yn perthyn iddynt, ac a orchymynodd i'w ddeiliaid addoli y gwir Dduw yn unig. Efe hefyd a lwyr ddiwreiddiodd y creaduriaid adgas hyny, y gwyr Sodomaidd, o'r tir. Yn y cyfamser, efe a amgylchodd y prif-ddinasoedd oedd ar ei derfynau â muriau, ac a gymmerth y fath ofal i hyfforddi ei ddeiliaid mewn rhyfel, fel yr oedd ganddo yn fuan lu o 300,000 o Iuddewon yn dwyn tarianau a gwaywffyn, a 280,000 o Benjaminiaid yn arfogion â tharanau a bwäau. Prin yr oedd wedi teyrnasu 12 neu 14 o flyneddoedd, pan y torodd Zerah, brenin Ethiopia i mewn i Judea, gyd a llu o fil o filoedd o wyr traed, a 300 o gerbydau arfog â phladuriau. Wedi gweddio ar Dduw, ymosododd Asa arnynt yn Maresath, gyda llu llawer llai, gorchfygodd ac erlidiodd hwy mor belled â Gerar, o du y dehau-orllewin i Ganaan, a tharawodd y dinasoedd o amgylch yno ag oeddynt mewn cynghrair â hwynt, ac a

ddychwelodd adref yn llwythog o yspail.

Mewn diolchgarwch i Dduw, ac ufudd-dod i'w brophwyd Azariah, ymrôdd Asa yn mhellach i ddiwygio ei deyrnas. Ymrwymodd ef a'i ddeiliaid mewn cyfammod i wasanaethu yr Arglwydd; a chydunasant, y byddai yn cael ei gyfrif, yn ol y gyfraith, yn drosedd angeuol i addoli un eilun. Difuddiodd ei fam Maachah o'r awdurdod oedd ganddi, o herwydd ei bod yn addoli, os nid yn offeiriadu, i ryw ddelw, un afian iawn hwyrach. Sathrodd ei delw a'i llwyn tan draed, a llosgodd hi â thân yn nyffryn Hinnom, ac a fwriodd y lludw i'r afon Cidron, i ymgymysgu â buddreddi y ddinas. Cyflwynodd gyssegredig bethau ei dad, yn nghyd â llawer iawn o'i anrheithiau diweddar ei hun, i wasanaeth Duw; ac wedi iddo adgyweirio allor y poeth-offrwm, efe a aberthodd arni 700 o ychain, a 5000 o ddefaid, o'i yspail Ethiopaidd.

Bu son am ei ddiwygiad, a'r bendithion oedd yn ei ganlyn, yn foddion i annog lluaws mawr o'r Israeliaid duwiol i drosglwyddo eu hunain i'w deyrnas ef. I ragflaenu y golled o'i ddeiliaid, dechreuodd Baasa brenin Israel, yn yr 16 flwyddyn i Asa, a'r 36 o *raniad* y llwythau, ryfela â Judah; ennillodd Ramah a dechreuodd ei hadeiladu hi, fel moddion i rwystro pob ymgystyniaeth rhwng y ddwy deyrnas. Ar yr achlysur hwn, cloddiodd Asa bydew hynod; ond i ba ddyben, pa un ai i guddio ei hunan, neu yn hytrach i guddio ei olud, neu i faglu Baasa, ni ddywedir i ni, Jer. xli. 9. Er mwyn croesi amcanion Baasa, cymmerodd Asa yr holl arian a'r aur ag oedd yn ei drysorau ei hun neu yn y deml, ac a'u hanfonodd i Benhadad brenin Syria; gan ddeisyf arno dori ei gyfammod â Baasa, a myned mewn un âg ef. Benhadad wedi ei gynhyrfu gan y rhodd werthfawr, a'r gobaith o helaethu ei awdurdod, a darawodd barthau gogleddol teyrnas Baasa, ac a enillodd amryw o'u dinasoedd. Yn y cyfamser, Asa, o du y dehau, a adeinillodd Ramah, ac a gludodd ymaith y defnyddiau a ddarparesid i'w hadeiladu, ac â hwynt a adeiladodd Geba a Mispah or llewinol.

Anymorphwysiad Asa ar y gallu a'r daioni dwyfol, yr hwn a'i gwnaethai ef mor ddiweddar yn fuddugoliaethus ar elyn mor arswydus, a'i ymgais bradwrus am gynnorthwy cenedlig, a anfoddlonodd yr Arglwydd yn fawr. Trwy gyfarwyddyd dwyfol, ceryddodd Hanani y prophwyd ef yn llym; ac a sicrhaodd iddo y byddai rhyfeloedd i'w erbyn o hyny allan. Yn lle derbyn ceryddon Duw yn ddiolchgar, efe, yn ddigllon a roddodd y prophwyd yn y carchard?, ac a orthrymodd y cyfryw o'i ddeiliaid, tebygol, a ddangosent eu hanfoddlonrwydd i'w ymddygiad. Parhaodd efe a Baasa o hyny allan mewn ansawdd rhyfelgar. Yn y rhan ddiweddaf o'i fywyd, ymddengys ei fod yn dra anniddig; ac yn y 39 flwyddyn o'i deyrnasiad, cymmerodd y gymmalwst, neu ryw afiechyd arall yn ei draed, afael arno.

Efe a geisiodd ei feddygon yn hytrach na'r Arglwydd am esmwythâd. Gwedi bod yn afiach ddwy flynedd, efe a fu farw. Tywysir ni i feddwl, mai arogl ffiaidd ei gorph a barodd iddynt lanw ei wely â pher-aroglau o wahanol rywiogaethau; ac nis gallwn ddweud pa un a losgwyd ei gorph yn gyntaf, ac yna ei gladdu, ai peidio, 1 Bren. xv. 2 Cron. xiv. xv. a'r xvi.

ASAHEL *(gwaith Duw)* mab Seraiah, a brawd Joab, yr oedd efe yn un o 30 cedyrn Dafydd, ac yn dra buan ar ei draed. Yn mrwydr Gibeon canlynodd ar ol Abner mor dyn, fel y gorfu ar y tywysog hwnw ei ladd ef. Dangosodd Joab wedi hyny ei anfoddlonrwydd i'r lladdfa hon, trwy ladd Abner ei hun, 2 Sam. ii. 18, 19, a'r iii. 26, 27.

ASAPH *(cynnullydd)*. Ei hynafiaid, a'u cyfrif tuag i fynu, oeddynt Beraciah, Simea, Michael, Baaseiah, Malciah, Ethni, Zerah, Adaiah, Ethan, Zimmah, Shimei, Jahath, Gersom, Lefi; ei feibion oeddynt Zaccur, Joseph, Nethaniah, ac Asarela. Yr oedd efe yn un o'r tri phrif gantorion, a'i feibion a wnaent i fynu y 1, y 3, y 5, a'r 7fed dosparth o gerddorion y deml, 1 Cron. vi. 39—43, a'r xxv. 2, 9—14. Ymddengys fod eu sefyllfa o du y dehau i'r allor bres. Y mae y 50, y 73, a'r deg Salm canlynol, yn cael eu priodoli i Asaph; ond sicr yw nad allai efe eu cyfansoddi hwy oll, am fod [amryw o honynt yn perthynu i amser diwedd-

arach. Ysgatfydd nad yw eu titl yn meddwl dim ychwaneg, na bod y Salmau hyny i'w canu yn benaf gan ei hiliogaeth ef.

ASCELON *(tân enllib)* prif ddinas y Philistiaid, ar lán Mór y Canoldir, yn nghylch 16 milltir o du y gogledd i Gaza, a 9 o du y dehau i Asdod, ac yn nghylch 40 o du y gorllewin i Jerusalem. Yr oedd hi yn enwog gynt am ei gwinoedd blasus, a'i ffrwythau ereill; ac am ei themi a'i physgod-lyn cyssegredig i'r dduwies Derceto. Hi oedd y ddinas gadarnaf yn perthyn i'r Philistiaid; ond dygwyd hi, yn nghyd â Gaza ac Ecron, oddi arnynt trwy drais gan Iwyth Judah; dan rai o'r Barnwyr ennillodd y Philistiaid hi yn ol drachefn, Barn. i. 18, a'r xiv. 19. Ennillwyd ac anrheithwyd hi gan yr Assyriaid; dinystriwyd hi gan y Caldeaid; ail-adeiladwyd ac ennillwyd hi gan Alexander a'r Groegiaid; a thrachefn gan y Maccabeaid Iuddewig, Amos i. 8. Jer. xlvii. 5—7, Zech. ix. 5. Planwyd yma eglwys Gristionogol yn fuan ar ol esgyniad Crist, a pharhaodd dros amryw oesoedd. Yn awr, nid yw y lle ond prin teilwng o sylw.

ASCENAS *(tân yn ymdaenu)* mab henaf Gomer. Tebygol fod yr Ascantiaid, y rhai oeddynt yn preswylio o amgylch y Palus Mœtis; a'r hen Almaenwyr, os nid rhan o'r Phrygiaid hefyd, wedi hanu o hono ef, Gen. x. 3, 1 Cron. i. 6.

ASDOD, *(lludratta gwlad)* neu AZOTUS, dinas gadarn ar y lán ddehau-orllewinol i Fôr y Canoldir, yn nghylch 25 o filltiroedd, neu yn ol Diodorus 34, o du y gogledd i Gaza, 13 neu 14 o du y dehau i Ecron, a 34 o du y gorllewin i Jerusalem. Rhoddwyd hi i Iwyth Judah, Jos. xv. 47; ond naill ai cadwodd y Philistiaid feddiant o honi, neu adennillasant hi. Yma yr oedd teml enwog Dagon yn sefyll. Yma y dygwyd arch Duw gyntaf wedi ei chymmeryd, ac y dryliodd yr eilun hwnw yn ddarnau, a flinodd y trigolion yn ddirfawr, 1 Sam. v. 1—6. Dadymchwelodd Uzziah furian y lle hwn, ac adeiladodd rai amddiffynfeydd gerllaw yno, i fod yn ben arno, 2 Cron. xxvi. 6. Tartan, tywysog llu yr Assyriaid, a'i hennillodd trwy drais, ac ymddengys iddo osod gwarchawd-lu cadarn ynddi, y rhai a ddaliasant allan 29 o flynyddoedd yn erbyn gwarchae Psammiticus brenin yr Aipht, Esa xx. 1. Ennillodd ac anrheithiodd lluoedd Nebuchodonozor hi yn ddychrynllyd. Yr un modd y gwnaeth Alexander a'i luoedd Groegaidd. Llosgodd Jonathan, y Maccabead Iuddewig, hi a theml Dagon yn ulw: ond adeiladwyd hi drachefn. Bu Philip yr efengylwr yn pregethu yma yn gynnar; a pharhaodd eglwys Gristionogol ynddi hwyrach hyd anrheithiad y *Saraceniaid* o honi, Zeph. ii. 4, Zech. ix. 6, Act. viii. 40.

ASEN—AU, *(as,* arwyneb llyfn) yr esgyrn hyny ar ystlysau amryw anifeiliaid sydd yn diogelu eu calonau a'u hymysgaroedd. Gwaith Efa yn cael ei llunio o asen wedi ei chymmeryd o ystlys Adda, oedd yn gosod allan y cyfartalwch agos, a'r serch cryf a ddylai gymmeryd lle rhwng gwyr a gwragedd, Gen. ii. 21. Y tair teyrnas Lydia, Babilon, a'r Aipht, a orchfygwyd gan Cyrus a'i luoedd Medo-Persiaidd, a gyffelybir *i dvir asen yn safn arth,* Dan. vii. 5.

ASER, *(dedwydd)* mab Jacob a Zilpah, llawforwyn Leah, athad un o'r llwythau Hebreaidd. Ei feibion oeddynt Jimna, Isua, Isui, Beria, a Sera eu chwaer, o ba rai y deilliodd y Jimniaid, Jesuiaid, a Beriaid. Daeth un mil a deugain a phum cant o'r llwyth rhyfelgar hwn allan o wlad yr Aipht, dan dywysiad Pagiel mab Ocran. Eu hyspiwr i chwilio ansawdd gwlad yr addewid, oedd Sethur mab Michael; a'u pennaeth i'w chyfranu hi oedd Abihu mab Selomi, Gen. xlvi. 17. 1 Cron. vii. 30—40. Num. xxvi. 44, i. 13, 40, xiii. 13, a'r xxxiv. 27. Cynnyddasant yn yr anialwch i 53,400, Num. xxvi. 47. Syrthiodd eu hetifeddiaeth wrth goelbren yn y rhan ogledd-orllewinol i Ganaan, lle yr oedd y ddaear yn dra ffrwythlawn, a'r mwn-gloddiau yn helaeth; eithr, tuwy lesgedd a llwfrdra, goddefasant i'r Canaaneaid gadw gafael yn y dinasoedd Zidon, Abiah, Acrib, Helbon, Aphec, a Rehob, Deut. xxxiii. 24, 25. Jos. xix. 24—31. Barn. i. 31, 32. "*Aser,* bras fydd ei fwyd ef, ac efe a rydd ddanteithion brenhinol," Gen. xlix. 20. Trwy ysbryd prophwydoliaeth,

i'boddodd Jacob iddo wlad ffrwythlawn, yn rhoddi lluosogrwydd o ffrwythau iddo ef ac ereill; ïe, ddanteithion breninol i fyrddau breninoedd cartrefol a phellenig, Yr ŷd a dyfai yn rhandir Aser a gyfrifid y goreu, a bara Jerusalem a ragorai ar bob bara arall. Yr oedd ei etifeddiaeth ar dueddau Carmel, yr hon oedd wlad ffrwythlawn i ddiareb. Jos. xix. 26. Esa xxxv. 2. Yr oedd y llwyth hwn yn un o'r chwech a attebasant *Amen* i'r melldithion oddi ar fynydd Ebal. Ymostyngasant yn ddiwrthwynebiad i orthrymder Jabin brenin Canaan: ac yn mhen ennyd wedi hyny, cynnorthwyasant Gideon i erlid y Midianiaid, Barn. v. 17, a vii. 16, 23. Bu deugain mil o honynt oll yn ryfelwyr glewion, yn gweini i Dafydd pan goronwyd ef i fod yn frenin ar Israel. Baana mab Husai oedd yn is-lywodraethwr arnynt dan Solomon; ac ymunodd amryw o honynt yn niwygiad Hezeciah, 1 Cron. xii. 36. 1 Bren. iv. 16. 2 Cron. xxx. 11.

ASGWRN *(as-cwrn)*. 1. Yr rhannau celyd o gyrph anifeiliaid, y rhai sydd yn eu cynnal hwy yn eu llun, Job. x. 11. (2.) Corph marw, 1 Bren. xiii. 31. 2 Bren. xiii. 21. (3.) Yr holl ddyn, Salm xxxv. 10. Cyffelybir enaid trallodedig i *esgyrn dryliedig, llosgedig, gwânedig, pwdr*; ei wasgfa sydd ofnadus iawn, yn barhaus ac anhawdd ei meddyginiaethu, Salm lii. 8. Galar. i. 13. Salm xli. 10. Jer. xxiii. 9. Hab. iii. 16. Bod yn *asgwrn o asgwrn*, a *chnawd o'i gnawd ef*, neu *aelod o'i gnawd*, ac o'i *esgyrn* ef, sydd yn arwyddo cyfranogiad o'r un anian, a'r undeb a'r serch agosaf, y fath ag sydd rhwng yr holl gredinwyr â Christ, Gen. ii. 23. 2 Sam. v. 1. Eph. 5. 30. *Blingo y cig oddi wrth esgyrn un*, neu *eu dryllio a'u briwo hwynt*, yw gorthrymu a lladd yn dra chreulawn, Mic. iii. 2, 3. Y mae anwireddau *yn* ac *ar esgyrn* dynion, pan y bydd eu cyrph yn halogedig ganddynt, ac yn gorwedd dan yr euogrwydd neu y gospedigaeth arswydus am danynt, Job xx. 11. Ezec. xxxii. 27.

ASIA *(ymuniad)*. Nid yw y gair hwn yn arferedig yn yr Hen Destament: yn y Testament Newydd y mae yn cael ei arfer yn fynych; ond nid arwydda unwaith yr un peth âg a ddeallir yn bresennol wrtho, sef un o bedair rhanau mawrion y ddaear; eithr (1.) *Asia Leiaf*, Natolia, neu y Lefant, yn gorwedd rhwng yr Hellespont a Môr Euxin o du y gogledd, a'r pen dwyreiniol i Fôr y Canoldir o du y dehau. Yr oedd hon yn nghylch 600 o filltiroedd o hyd, a 320 o led, ac yn cynnwys taleithiau Mysia, Lydia, Ionia, a Caria o du y gorllewin; o du y dwyrain yr oedd Bithynia, Phrygia, Pisidia, Pamphylia, a Lycia; o du y dwyrain iddynt yr oedd Paphlagonia, Galatia, a Lycaonia; o du y dwyrain i bar ai yr oedd Pontus a Cappadocia. (2.) *Asia Briodol*, yr hon a adawodd Attalus yn ei ewyllys diweddaf i'r Rhufeiniaid. Yr oedd hi yn cynnwys Phrygia, Mysia, Caria, a Lydia. Ysgatfydd mai yn yr ystir hwn yr arferir y gair Asia bob amser yn y Testament Newydd. Yma y safai y saith eglwys enwog, Act. xvi. 6. Dad. i. 11. Yma y gwarafunodd yr Ysbryd Glân i Paul bregethu yr efengyl yn ei daith gyntaf tua'r gogledd: ac yma y magodd rhan fawr o'r Cristionogion proffesedig, trwy waith gau apostolion, gasineb tuag atto ef, tra bu yn gorwedd yn garcharor yn Rhufain, Act. xvi. 6. 2 Tim. i. 15. Poblogwyd Asia Leiaf oddi eithr Lydia hwyrach, yn ddechreuol gan hiliogaeth Japheth; a dosparthwyd hi gynt i lawer o benaduriaethau bychain; y mwyaf enwog oedd breiniaethau Troas, Lydia, Pontus, Cappadocia, a'r taleithiau Groegaidd. Nid ymddengys iddynt gael eu darostwng gan y buddugoliaethwyr Assyriaidd na Chaldeaidd; ond, diammau, fod rhai o'r lleill yn ddarostyngedig i'r Lydiaid yn eu cyfiwr blodeuog. Estynodd y Persiaid eu hawdurdod dros y rhan fwyaf o honi, yr hyn a'i gwnaeth yn wrthddrych o amrafael rhynggdynt hwy a'r Groegiaid. Yn nghylch 350 o flyneddoedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr, gwnaeth y Groegiaid, dan Alexander, eu hunain yn arglwyddi ar y cyfan o honi. Yn nesaf, syrthiodd dan y Rhufeiniaid, a pharhaodd felly mewn rhan, hyd nes yr ennillodd y Saraceniaid a'r Tyrciaid hi trwy drais oddi ar amherawdwyr y dwyrain. Am 300 o flyneddoedd a aethant heibio, y mae wedi bod yn gwbl ddarostyngedig i'r

Tyrciaid Ottomanaidd, trwy anrhaith a thraws-lywodraeth pa rai y mae y wlad hon a fu mor ogoneddus gynt, wedi ei darostwng i ddiffeithlwch mewn cymhariaeth, heb fod yn hynod am ddim bron ond hen adfeiliau.

Diammau fod y wlad hon yn un o'r rhai a gyfenwir mewn hen brophwydoliaethau yn *Ynysoedd y Môr*; ac yma planwyd Cristionogrwydd bron yn gyffredinol yn yr oes apostolaidd; yma y bu, am hir amser, eglwysi blodeuog; ac yma y cynnaliwyd cynghorion enwog Nicea, Ephesus, Calcedon, &c. Dechreuodd anrheithiau yr Arabiaid neu Saraceniaid yn y seithfed, a pharhasant yn y tair canrif ganlynol; buddugoliaethau y Tyrciaid Seljuciaidd yn yn unfed-ar-ddeg; a chyn pen hir wedi hyny, ymgyrchiadau milwyr y Groes: ac yn y diwedd, awdurdod caethiwus y Tyrciaid Ottomanaidd a wnaeth eu cyfiwr eglwysig yn dra gresynus. Yn bresennol y mae ganddynt uifer o esgobion; ond y mae y rhai hyn mewn cyflwr tlawd a thruenus iawn, Esa xlii. 4, 10, Zeph. ii. 11.

ASIMA, eilun y Samariaid Hamathiaidd. Pa un a oedd efe yr un-rhyw âg *Asemath* Samaria, i'r hwn y tyngai yr Israeliaid, Amos viii. 14, neu y *Samaim*, sef y nefoedd; neu pa un ai eilun tebyg i lew oedd efe, ac yn arwyddo yr haul; neu fel gafr noeth neu eppa, yr ydym yn gwbl ansicr. Ac nid yw coffhau am ffieidd-dra ac eilunod y Cenedloedd o ddim defnydd arall ond i ddangos ynfydrwydd dyn wedi iddo golli Duw, a'r angen mawr am yr efengyl i'w gymmodi a'i ddwyn yn ol at Dduw, 2 Bren. xvii. 30.

ASNAPPAR, (*annedwyddwch*) brenin enwog Assyria, yr hwn, o amrywiol fanau, a ddygodd ac a sefydlodd y Samariaid gwreiddiol yn ngwlad y deg llwyth; eithr ansicr ydym, ai yr un oedd efe â Salmanaser, neu yn hytrach Esarhadon, neu un o'i dywysogion enwog ef, Ezra'iv. 10.

ASP, math o sarph fechan, wenwynig, yr hon y mae ei brathiad yn farwolaeth buan, ond yn gyffredin yn esmwyth megys cwsg. Cyfrifir fod tri rhyw o aspiaid; y Cersea, Celidonia, a'r Ptyas, brathiad y diweddaf o ba rai a fernir y mwyaf angeuol. Dywedir fod yr aspiaid yn lladd trwy beri cwsg, syched, neu golli gwaed. Yn ddiatreg ar ol y brathiad, mae yr olwg yn tywyllu, y rhan a frathwyd yn chwyddo, a phoen cymhedrol yn cael ei deimlo yn y cylla. Dywedir nad oes meddyginiaeth i'r brathiad gwenwynig hwn, ond trwy dori ymaith y rhan archelloedig yn ddioed. Dynion drygionus a gyffelybir i *aspiaid*, o herwydd eu cyfrwysdra, eu nythiad cnawdol yn y ddaear, eu lladdiad graddol, ond effeithiol, o honynt eu hunain ac ereill, a'r bustl chwerw, a'r gwenwyn creulon a dinystriol o bechod sydd ynddynt, ac yn barod bob amser i ymddangos yn eu geiriau a'u buchedddau o herwydd eu gwrthodiad cyndyn i wrando ar lais dengar Iesu Grist yn yr efengyl, Deut. xxxii. 33. Job xx. 14. Salm cix. 3.

ASSOS, porthladd yn y rhan ogledd-orllewinol i Asia Leiaf, o du y dehau i Troas, ac ar gyfer ynys Lesbos. Ymddengys ei bod wedi ei hadeiladu ar fryn. Gerllaw iddi yr oedd cloddfeydd enwog o'r maen ysgnawdog (*Sarcophagus*), yr hwn a ddifa gyrph meirw, ond y dannedd, mewn deugain niwrnod. Ymwelodd Paul â hi yn ei bedwaredd taith i Jerusalem, ond nid ydym yn darllain am un eglwys Gristionogol ynddi hyd yr wythfed ganrif, Act. xx. 13, 14.

ASSUR (*dedwydd*). 1. Ail fab Sem, a thad yr Assyriaid. (2.) Assur weithiau a arwydda pobl Assyria, Num. xxiv. 22. Hos. xiv. 3. Pan yr ystyriwyn fod Eupolemus yn dywedyd i Dafydd orchfygu yr Assyriaid yn Galadene, neu Gilead; i Isboseth gael ei wneud yn frenin ar yr Assyriaid yn Gilead; fod Assur mewn cynghrair â'r Ammoniaid a'r Moabiaid yn erbyn Jehosaphat; ac i'r Assyriaid wneud meinciau o ifori i'r Tyrciaid, 2 Sam ii. 9. Salm lxxxiii. 8. Ezec. xxvii. 6, nis gallawn lai na meddwl fod trefedigaeth o Assyriaid wedi sefydlu yn Arabia Anial, hwyrach yn nghylch amser Cusanrisathaim.

ASSYRIA, hen freniniaeth yn Asia. Yr oedd Armenia o du y gogledd iddi; Media a Phersia o du y dwyrain; Susiana, talaeth o Persia, o du y dehau; a'r afon Tigris neu Hiddecel o du y gorllewin iddi, i'r hon yr oedd y pedair afon fechan, sef Lycus, Capros, Gorgus, a Silla yn rhedeg trwy Assyria, gan gyfeirio

tua'r dehau-orllewin. Y dinasoedd mwyaf enwog ynddi oeddynt Ninefeh, Resen, Calah, Bossara, a Cteiophon ar lan ddwyreiniol yr afon Tigris; ac Arbela ac Artemias, &c. yn mhellach i'r dwyrain yn y wlad. Gelwir hi yn awr mewn rhan Curdistan; ac o herwydd ei bod mor fynych yn orsaf rhyfel rhwng amherawdwyr a chenedlaethau nerthol, y mae yn gwaethygu yn gyffredin er ys agos i 2000 o flynyddoedd, ac y mae yn bresennol wedi myned bron yn anialwch diffaith.

Cafodd y wlad hon ei henw, a'r trigolion eu dechreuad, oddi wrth Assur. Gwedi anfoddloni wrth draws-lywodraeth ormesol Nimrod yn Babel, symmudodd tua'r gogledd-ddwyrain, lle yr adeiladodd Ninefeh, Rehoboth, Calah, a Resen ar lan y Tigris, Gen, x. 11, 12. Myn *Bochart* yn wir, ac ereill, i Nimrod fyned i Assyria ac adeiladu y dinasoedd hyn. Ond deallir y testun yn fwy naturiol yn y ffordd a grybwyllasom ni. Hebiaw hyn, darlunia y prophwyd Micah dir Nimrod fel yn wahanol oddi wrth Assyria, Mic. v. 6.; a *Diodorus* a fynega yn eglur, fod y Babiloniaid yn freiniaeth wahanol pan orchfygodd yr Assyriaid hwynt.

Mynai *Ctesius*, *Diodorus*, *Trogus*, *Justin*, &c. fod amherodraeth Assyria yn hynod boblog yn fuan wedi y dylif, ac iddi barhau 1300 neu 1400 o flyneddoedd. Yr oedd *Ctesias*, oddi wrth yr hwn y cafodd y lleill hyn, â sôn mawr am dano yn ei amser ei hun fel dychymygwr anwireddau gwarthus, ac y mae ei hanesion ef yn amlwg yn ffugiol. Nid yw *Herodotus*, hanesydd llawer henach a chywirach, yn pennu ond 520 o flyneddoedd i amherodraeth Assyria; a haera *Halicarnasseus* nad oedd hi ond cyfyng iawn ei therfynau ar y cyntaf; a dygir ni i gredu iddi barhau felly hyd oes Pul. Yn amser Abraham, cawn Cedorlaomer, a'r tri oedd mewn cynghrair âg ef, yn meddiannu teyrnasoedd gwahanol ar gyfnïau Assyria, heb yr arwydd lleiaf o ymddibyniad ar yr amherodraeth honno. Gen. xiv. 1. Yn amser y Barnwyr, clywn am freiniaeth gadarn yn Mesopotamia, o du y gorllewin i Assyria, Barn. iii. 8—11. Teyrnasodd Dafydd a Solomon ar yr holl wlad y tu hwn i'r Euphrates, heb y gwrthwynebiad lleiaf oddi wrth amherodraeth Assyria, 2 Sam. viii. 10. 1 Bren. iv. 24. Yn yr hanesion sydd gennym am fuddugoliaethau Sisac a Memnon yn Asia, ni chlywn am ddim gwrthwynebiad a gyfarfu-ant oddi wrth amherawdwyr Assyria. Yn amser Jonah y prophwyd, yn nghylch A. M. 3142, clywn am frenin yn Ninefeh; ond ni elwir ef yn frenin Assyria; ac ymddengys mai bechan iawn oedd ei deyrnas ef, o herwydd iddynt, wrth rybudd Jonah, ddychrynu rhag llwyr ddinystr o fewn deugain niwrnod oddi wrth rai o'u cymmydogion. Clywsai *Homer*, yr hwn oedd yn byw yn nghylch yr un amser, am Bacchus neu Sisac brenin yr Aipht, ac am Memnon brenin Cusestan neu Ethiopia; ond dim am frenin galluog yn Assyria, er fod y diweddaf yn llawer nes atto. Nid oes un o'r prophwydi yn crybwyll am frenin Assyria hyd ar ol dyddiau Pul.

Tan Pul y dechreuodd breniniaeth Assyria fod yn nerthol: ac ymestynodd yn mhellach dan ei ganlynwyr, Tiglath-pileser, Salmanazer, Sennacerib, ac Esarhadon. Ymddengys i Pul neu Tiglath-pileser, ranu ei freiniaeth ar ei farwolaeth; ac iddo roddi Babilonia i Nabonassar y mab ienangaf; ond gan nad oedd, ysgatfydd, dim llawer o gydfod rhwng y ddau, adgyssyltodd Esarhadon, trwy fuddugoliaeth, neu o ddiffyg etifeddion digyfrwng, Babilon wrth Assyria. Yn yr amser hwn, yr oedd amherodraeth Assyria yn ei helaethrwydd mwyaf, ac yn cynnwys Media, Persia, Caldea, Mesopotamia, Syria, Palestina, a rhan o Arabia.

Tan Saosducinus a Cinaladan, dadfeiliodd amherodraeth Assyria yn raddol: yn gyntaf, y Mediaid, o du y dwyrain, ac yna y Babiloniaid, o du y dehau-orllewin, a wrthgiliasant, ac a wnaethant ryfel ar yr amherodraeth. Brawychodd Cinaladan gymmaint gan y cynghrair a ffurfiasid rhwng Astyages y Mediad, a Nabopolasser y Caldead, yn ei erbyn ef, fel y llosgodd ei lys mewn anobaith arno ei hun. Ar ol ei farwolaeth, dyhoenodd y freiniaeth dros oddeutu 25 o flyneddoedd yn ychwaneg; ond yn y diwedd dadymchwelwyd hi yn llwyr, a Ninefeh a ddinystriwyd gan Cyaxerxes y Mediad, a Nebuchod-

onozor y Caldead, A. M. 3403, 2 Bren. xv—xix. 2 Cron. xxxii. 22, a'r xxxiii. 11. Esa v. 26—30, xxxiii. 36, 37. Nah. i—iii. Zeph. iii. 13—15. Ezec. xxxi.

ASTAROTH, neu **ASTARTE**, (*deadellau*) duwies enwog y Sidoniaid. Y mae ei henw, yn y Syrieg, yn arwyddo *defaid a'u tethau yn llawn llaeth*; neu geill ei fod yn deillio oddi wrth *Asera, llwyn; un bendigedig*. Geill ei fod yn y rhif lluosog, o herwydd fod gan y Pheniciaid amryw o dduwiesau. Y Pheniciaid o amgylch Carthage a gyfrifent Astaroth yr un â Juno y Rhufeiniaid; myn ereill mai yr un oedd hi â gwraig Ham, tad y Canaaneaid. Meddyliai *Lucian*, ac, yr ŷm yn tybied, yn dra chymhwys, mai y lleuad, neu frenines y nef, oedd yn cael ei haddoli dan yr enw hwn. Geilw *Cicero* hi yn bedwaredd Venus Syria. Haerai offeiriaid Phenicia wrth *Lucian*, mai Europa, merch eu brenin Agenor, yr hon a ddygasai Jupiter ymaith trwy drais, oedd hi; a pha un a addolwyd fel duwies gan ddeiliaid ei thad, i'w gysuro ef am ei golled o honi. Ysgatfydd mai yr un yw hi âg *Aestar*, neu *Eostre*, eilun yr Eilmyn. I'r dduwies hon yr aberthai yr hen Saxoniaid yn Ebrill, yr hwn a elwid ganddynt hwy *Eostur Monath*, oddi yno y daeth *Easter* y Saison, yr enw a roisant i ŵyl y Pasc, wedi eu dychwelyd oddi wrth Baganiaeth at Gristionogrwydd: a thebygol nad oedd gwahaniaeth mawr rhyngddi â'r dduwies Brydeinaidd Andraste. Arddangosir hi mewn amryw ddulliau; weithiau mewn gwisg laes, ac weithiau mewn un fer; weithiau megys yn dal pren hir a chroes ar ei ben; weithiau coronir hi â phelydr dysclaer; brydiau ereill â phentarw, cyrn yr hwn, yn ol *Sanchoniatho*, oeddynt arwydd-luniau o'r newydd loer. Yr oedd ei theml yn Aphec, ar fynydd Libanus, yn llyngelyn erchyll o'r anniweirdeb mwyaf anifeiliaidd; o herwydd yno, dywedir, y bu y dduwies Venus yn ymgystlwn gyntaf â'i hanwyl Adonis, neu *Tammuz*. Tebygol ei bod yn cael ei haddoli gan yr Amoriaid, yn nyddiau Abraham; ac iddi roddi enw i Astaroth-carnaim, hyny yw, *Astaroth â'r ddau gorn*, Gen. xiv. 5. Yn fuan ar ol marwolaeth Josuah, dechreuodd yr Israeliaid ei haddoli hi; ac yn eu holl adlithradau i eilunaddoliaeth, megys tan Jephtha, Eli, Solomon, &c. yr oedd hi yn un o'u heilunod. Sefydlodd Jezebel, gwraig Ahab, ei haddoliaid yn ei holl ffieiddra cywilyddus, yn mysg y deg llwyth; a gosododd bedwar cant o offeiriaid yn ei gwasanaeth. Tan Manasseh ac Amon, yr oedd hi yn cael ei haddoli gyda rhwysg a gofal mawr, yn Judah; a'r gwragedd a weithient grog-leni i'w phreswylfod. Ymlynodd y gweddil o'r Iuddewon a adawsid gyda Gedalia, yn wrthnysig, wrth ei haddoliad hi; gan gymmeryd arnynt mai eu gwaith yn ei gadael dan Josiah a fuasai yr achos o'u holl anffodau dylynol, Barn. ii. 13, a'r x. 6. 1 Bren. xi. 15, a'r xviii. 19. 2 Bren. xxiii. 4, 13. Jer. xliv.

ASTRONOMYDDION, seryddwyr, y rhai, trwy sylwi ar y ser a'r wybren, a chyfrif wrth osodiad y planedau, a gymmerent arnynt ragfynegu dygwyddiadau dyfodol. Yr oeddynt mewn parch ac enwogrwydd mawr yn mhlith y paganiaid, ac yn benaf yn Babilon, Esa xlvii. 13. Dan. i. 20, a'r ii. 2, &c.

ASSUPIM. "T◊ *Assupim*," 1 Cron. xxvi. 15. Ar ymyl y ddalen, *ymgynnullfan*, sef lle yr ymgasglai y Lefiaid iddo ar achlysuron, i ymgynghori yn nghylch pethau perthynol i wasanaeth y deml; eithr y mae Houbigant yn ei gyfeithu, *ystor-dŷ*, neu y man y cedwid arlwyaeth neu gynhaliaeth y porthorion yuddo. Gwel Mica vii. 1, a Neh. xii. 25, yn yr Hebraeg. Ereill a dybiant mai lle oedd hwn y cedwid llestri a thrysorau y deml yndo.

ASYN—EN—OD, (*a-syn*) anifel o ryw y march, hir ei ben a'i glustiau, crwn ei gorph, ac wedi ei orchuddio â byr-flew geirwon. Yr asynod yn gyffredin yn ein gwlad ni ŷnt o liw llwyd-goch, â llinell ddu ar hyd y cefn, ac un arall ar draws yr ysgwyddau, a chynffon, flewog yn ei blaen yn unig. Mae yr asynod dwyreiniol yn fwy ac yn harddach na'r eiddom ni; ac arnynt hwy yr oedd hyd yn nod gwyr mawrion, megys Abraham, Moses, a theulu Abdon a Dafydd yn marchogaeth: ac arnynt hwy yr anfonodd tywysogion Israel, dan Peca, y caethion Iuddewig oeddynt yn aughymhwys i deithio, yn ol mewn dull boneddigaidd. Yn am-

ser Deborah, yr oedd y rhai ardderchocaf yn Israel yn marchogaeth ar asynod gwynion. Ac nid oedd gan y caethion yn eu dychweliad o Babilon, nemawr o anifeiliaid pynoriog, heblaw 6720 o asynod, Gen. xxii. 5. Exod. iv. 20. Barn. xii. 14. 2 Sam. xvi. 20. Neh. vii. 69. Barn. v. 10. Y mae asynod gwylltion i'w cael, y rhai oeddynt unwaith yn gyffredin yn ngwlad Canaan ac Arabia, ac y maent felly etto yn Affrica; y maent yn rhai heirdd iawn, a llinellau croesion o wyn, llwyd, a pheth du ar hyd-ddynt; yn byw mewn anialwch a mynyddoedd, ac y maent yn dra chyflym, eiddigus o'u rhyddid, trythyll, ŷf-gar, ac yn gyffredin i'w gweled yn yr-roedd, Job x. 15. a xxxix. 5—8. Salm xiv. 11. Jer. xiv. 6. Ac iddynt hwy y cyffelybir yr Ismaeliaid, i ddangos eu rhyddid parhaus, a'u tymher drythyll, aflonydd, wyllt, a chreulawn. Gen. xvi. 12. *Heb.*

Tan y gyfraith yr oedd yr asynod yn greaduriaid aflan, a'u cyntaf-anedig a brynid âg oen, neu a dorfynyglid; ac y maent yn arwydd-luniau o ddynion drygionus, cyndyn, digywilydd, ansefydlog, annofadwy, ac yn dueddol i ymborthi ar ddychymygion ofer, y rhai y mae yn rhaid eu prynu trwy farwolaeth Iesu Grist, Oen Duw, neu fod yn golledig yn dragywydd, Exod. xxxiv. 20. Job xi. 12. Esa. i. 3. Jer. ii. 24. Hos. viii. 9. Yr oedd yr asen mewn anrhydedd hynod gynt, trwy iddi gael ei chynnorthwyo yn wyrthiol gan yr Arglwydd i wahardd ynfydrwydd Balaam, pan y tarawodd hi wedi iddi gael ei hattal gan ofn yr angel; ac ni ddylai dynion wawdio yr banes hwn, nes y dangosont analluogrwydd nerth anfeidrol i beri i'r anifel hwn lefaru; neu yr anmhriodoldeb o gerydu dewin balch trwy y fath greadur cyndyn a dirmygus, Num. xxii. 2 Petr ii. 16. Ond anrhydedd penaf yr asen yw, pan oedd wedi myned fwyaf dirmygus, fod ein Hiachawdwr addoladwy wedi myned i mewn yn orfoleddus ar ei chefn i Jerusalem, Zech. ix. 9. Math. xxi. Ioan xxi. Cafodd yr Iuddewon a'r Cristionogion eu cyhuddo yn anghyfiawn gan y Paganiaid o addoli asen. Ond annheilwng o ein sylw ydyw nodi yr achlysur o'r gwarthrudd hwn.

ATTAL, (*ad-dal*) rhwystro, lluddias. "Canys nid oedd bossibl ei *attal* ef ganddo," Act. ii. 24. Sef bydded hysbys i chwi, fod Duw wedi cyflawn amddiffyn anrhydedd ei anwyl Fab, yr hwn fel hyn yn waradwyddus a anmharchasoch chwi, a dwyn tystiolaeth ogoneddus i'w ddiniweidrwydd, ei wirionedd, a'i deilyngdod; canys hwn y mae Duw wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, trwy weithrediad gwyrthiol ei allu dwyfol, gan ryddhau y rhwymau ag yr oedd efe yn gorwedd ynddynt, wedi i ofidiau angau orphen eu gwaith arno; canys anmbossibl oedd iddo dros oll gael ei attal dan ei awdurdod.

ATTALIA, (*cynnydd*) yn awr a elwir Sattalia, dinas yn Pamphylia, yn sefyll mewn cilfach hardd o'r Môr Canoldir. (2.) Dinas yn Lycia; sylfaenwyd pob un o'r ddwy, tebygol, gan Attalus, brenin Pergamus. Bu Paul a Barnabas yn pregethu yr efengyl yma, yn nghylch 16 neu 17 o o flynyddoedd ar ol marwolaeth ein Hiachawdwr, Act. xiv. 25; ond nid ydym yn darllain ychwaneg am ei Christionogrwydd, ond bod gan y trigolion esgob sefydledig yn eu plith yn y bummed a'r chwechfed ganrif.

ATTEB—IAD (*ad-eb*, dywedyd). 1. Gwneuthur amddiffyniad neu esgus ger bron barnwr, 2 Tim. iv. 16. (2.) Dechreu llefaru, Dan. ii. 26. (3.) Caniattau yr hyn y gweddïir am dano, Salm xxvii. 7. (4.) Cyfatteba; dwyn tebygoliaeth, Diar. xxvii. 19. Gal. iv. 23. *Ymatteb cydwybod dda*, angenrheidiol i feddydd, yw proffes ac ymarferiad cydwybodol o'r efengyl, trwy yr hyn y cyflawnir yr ymrwymiadau yn y beddydd, 1 Petr iii. 21. Y mae yr ynfyd i'w *atteb*, ac etto i beidio ei *atteb*, yn ol ei ynfydrwydd; y mae ei ynfydrwydd i gael ei ddynoethi, ond nid yn ei ddull annoeth a chynddeiriog-wyllt ef ei hun, Diar. xxvi. 4, 5.

ATHALIA, (*amser yr Arglwydd*) ŵyres Omri, merch Ahab, a gwraig Jehoram, brenin Judah. Tra drygionus oedd hi ei hun, ac felly hudodd ei gŵr a'i mab Ahaziah i ddylyn llwybrau eilun-addolgar ei thad, 2 Bren. viii. 18, 26. 2 Cron. xxi. 6, 13. a'r xxii. 34. Gwedi mynegu iddi fod Jehu wedi lladd ei mab, a 70 ereill o deulu breninol Judah, amryw o honynt yn ŵyrion iddi, tebygol, hi a gymmerodd y llywodraeth arni; ac i'w ddiogelu iddi ei hun, torrodd ymaith yr holl weddill o'r had breninol

heblaw Joas ei hŵyr, yr hwn a ddygwyd ymaith gan ei fodryb, ac a guddiwyd am chwe blynedd mewn rhyw ystafell a berthynai i'r deml; yn ystod pa amser, llywodraethodd Athalia ar yr Iuddewon, a dygodd yn mlaen yr eilun-addoliaeth fieiddiaf gyda ei holl egni.

Yn y seithfed flwyddyn, dygodd Jehoiada yr arch-offeiriad, wedi iddo rwymo goreuon y deyrnas i fod o'i blaid, y tywysog ieuangc allan mewn cymmanfa gyhoeddus, yn nghyntedd y deml: parodd i'r bobl gymmeryd llw o ffyddlondeb iddo; a rhwymodd hwy a'u brenin i wasanaethu yr Arglwydd. Gwedi iddo arfogi y Leñiaid a chyfeillion ereill âg offerynau oeddynt yn nghadw yn y deml, gosododd un rhan o honynt i wylied corph y brenin: a'r lleill i ddiogelu pyrth y llysoedd cyssegredig; yn nesaf dygodd allan y tywysog ieuangc, gosododd y goron ar ei ben, enneiniodd ef âg olew, a chyda sain udgorn, a bloeddiadau y dorf yn canlyn, cyhoeddodd ef yn frenin. Gwedi brawychu gan y swn, rhedodd Athalia i'r deml i weled pa beth a ddygwyddasai: wedi synu wrth weled y brenin ar ei orsedd, rhwygodd ei dillad, a gwaeddodd *Bradwriaeth, Bradwriaeth!* Wrth orchymyn Jehoiada, dygodd y gwarchawd-lu hi yn ddiattreg allan o'r cyntedd oedd, ac a'i lladdasant yn mhorth y meirch, wrth dŷ y brenin, A.M. 3126. 2 Bren. xi. 2 Cron xxiii.

ATHEN. Y gair hwn a ddeillia oddi wrth y Groeg *Athene*, yr enw a roddid i *Minerva*, duwies ddysg y Groegiaid; dinas enwog yn nhir Groeg, yn nghylch 25 o filltiroedd o du y dwyrain i Corinth, yn sefyll ar wastadedd tra hyfryd. Dywedir iddi gael ei hadeiladu 1580 o flynyddoedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr, ond y mae hyny, tebygol, yn dwyn ei henafiaeth yn rhy uchel o rai cannoedd o flynyddoedd. Yr oedd y trigolion yn hynod gynt am ddysgeidiaeth, golud, coel-grefydd, moesau da, a'u buddugoliaethau lluosog: dywedir iddynt blannu deugain o drefedigaethau mewn amrywiol barthau o'r byd. Llywodraethwyd hwy gan freninoedd o deulu *Cecrops*, eu sylfaenydd Aiphtaidd, dros 17 o genedlaethau, neu 487 o flynyddoedd. Llywodraethwyd hwy am yn nghylch 472 o flynyddoedd yn ychwaneg gan swyddwyr a elwid *Archons*, neu benaethiaid parhaol a blynyddol, cyn iddynt sefydlu yn wladwriaeth gyffredin yn nghylch A. M. 3412. Y ddinas hon a fagodd *Solon, Socrates, Aristides*, ac athronyddion enwog ereill; y penareithiwr *Demosthenes*, a lluaws aneirif o areithyddion clodfawr ereill; yma hefyd y ganwyd *Miltiades, Cimon, Themistocles, Alcibiades, Phocion*, a llawer iawn o gâd-flaenoriaid enwog ereill. Yr anneddwyddwch oedd, fod cenfigen yn ei gwneuthur yn beryglus i ragori, mewn lle yr oedd gan y werinos gymmaint o awdurdod. Amrysonau dychrynllyd y wladwriaeth hon â'r Persiaid, y Lacedemoniaid, ac ereill, a'i dygasant hi yn fynych i fin dinystr. Dwy waith y llosgodd y Persiaid y ddinas yn ulw; er iddynt dalu yn ddrud am eu llafur yn y diwedd.

Yn nghylch A. M. 3668, darostyngwyd yr Atheniaid i'r Macedoniaid gan Alexander. Yn nghylch 87 o flynyddoedd cyn Crist, ennillwyd eu dinas gan Sylla, câd-flaenor Rhufeinig, a rhoddwyd y rhan fwyaf o'r trigolion i'r cleddyf, a daeth y lle dan lywodraeth y Rhufeiniaid. Yn y bedwaredd a'r bummed ganrif o Gristionogrwydd, amrheithiwyd a dinystriwyd rhan fawr o honi gan y Gothiaid. Er y flwyddyn 1455, y mae wedi bod bron yn barhaus dan gaethiwed y Tyrciaid; ac yn bresennol y mae yn cynnwys yn nghylch wyth neu ddeng mil o drigolion; ac nid yw bron yn enwog am ddim ond *ffraethlymder y bobl, a gweddillion nifeiriol o henafiaeth.*

Yn nghanol eu holl hymoniadau i ddysgeidiaeth, yr oedd yr hen Athenaiid â thuedd hynod ynddynt at yr ymofyngarwch mwyaf ofer am bethau newyddion, a'r eilun-addoliaeth wrthunaf. Heblaw eu parch i dduwiau y Groegiaid, y rhai a gyfrif *Hesiod* a *Varro* yn 30,000, ymddengys eu bod yn codi allorau yn eu meusydd i'r duwiau nad adwaenant, fel y byddent yn sicr na fethent yn eu dyledswydd i neb o honynt. Yma y pregethodd Paul yr efengyl, ac y dadleuodd â'u philosophyddion hwynt Ond bychan oedd ei lwyddiant: etto ei wrth-dystiolaeth synwyrol ger

bron llys yr Areopagus, o leiaf yn y lle yr oeddynt yn ymgyfarfod ynddo, a dychwelodd Dionysius, un o'r barnwyr. Efe, a phendefiges o'r enw Damaris, a rhai ereill oeddynt flaen-ffrwythau cglwys Gristionogol, yr hon sydd wedi parhau hyd heddyw, gan fod tair rhan o'r trigolion yn Gristionogion, a chanddynt esgob yn ben arnynt, Act. xvii. 16—34. 1 Thes. iii. 1.

ATHROD—WR, *(a-trawd*, mynediad drosodd) enllib, cabl, dywedyd yn ddrwg am ddyn yn ei anmhresenoldeb. Y gair Groeg a gyfieithir *athrodwr*. Rhuf. i. 30, a gyfieithir weithiau hefyd *goganwr*, 1 Petr. ii. 1, 12. 2 Cor. xii. 20. Y gair Hebraeg am dano sydd yn arwyddo myned yn ol ac yn mlaen i gasglu a thaenu enllib. Trwy wenieithio yn anffyddlon â'i wefusau, y mae yr athrodwr yn dadguddio cyfrinach, ac yn ennyn cynnen. Gelyn Duw a dynion, a melldith pob cymdeithas yw y cyfryw un, Diar. xi. 13, a xx. 19.

ATHRAWIAETH, *(a-traw*, arweiniad,) addysg, hyfforddiad. (1.) Daliad neu dyb, Math. xvi. 12. (2.) Gwirioneddau yr efengyl yn gyffredinol, Tit. ii. 10. (3.) Addysg, hysbysiaeth, a chadarnhad yn ngwirioneddau yr efengyl, 2 Tim. iii. 16. Gwirioneddau yr efengyl ydynt yn *athrawiaeth Duw*, ac *yn ol duwioldeb*, ac yn *athrawiaeth iachus*. Duw yn Nghrist ydyw eu Hawdwr, eu sylwedd, a'u dyben: ac y maent yn bur, yn gadarn, yn sylweddol, ac heb eu llygru â chyfeiliornadau, 1 Tim. vi. 1, 3, Heb. vi. 1, 2 Tim. iv, 3. Ac y maent yn *athrawiaeth Crist*, gan mai efe yw y prif bregethwr, a'r sylwedd mawr o honynt, Tit. ii. 10. *Athrawiaeth* Balaam, Dad. ii. 14. Cryhwyllir am hanes Balaam yn Num. pen. xxii. xxiii, a xxiv. Anfonwyd am dano gan Balac, brenin Moab, i ddyfod a melldithio Israel; ac ar ol cael fod Duw wedi ei attal, a'i droi ef oddi wrth felldithio, i gyhoeddi bendithion arnynt, efe a ddysgodd Balac o'r diwedd pa fodd i fwrw rhwystr ger eu bronau, i wneuthur iddynt syrthio. Dywedodd wrth Balac a'r Midianiaid, os gwnaent ddioglelu eu bunain rhag yr ymosodiadau allai yr Hebreaid wneuthur yn eu herbyn, a chaffael rhyw fantais arnynt, y byddai iddynt eu denu hwy i eilun-addoliaeth a phutteindra: yna y caent eu gadael gan eu Duw, ac y deuent yn ysglyfaeth i'w gelynion. Gwahoddodd llancesau Moab yr Israeliaid i wleddoedd Baal-peor; ac wedi iddynt eu hynnill i gofleidio eilun-addoliaeth, hwy a'u hudasanti a flendid. Yr un yw yr athrawiaeth hon â'r hyn a elwir *athrawiaeth* y Nicoliaid. Gan fod *Balaam* o'r un arwyddocâad yn Hebraeg â *Nicolas* yn y Groeg, a'r ddau yn arwyddo, *gorchfygwr y bobl*, (yr hwn enw a roddwyd i Balaam, hwyrach, ar gyfrif ei awdurdod yn y man lle yr oedd yn byw,) y mae yn debygol iawn fod athrawiaethau Balaam a'r Nicoliaid yr unrhyw. Cymmerodd y blaid hon ei henw, medd rhai, oddi wrth Nicolas, un o'r saith diacon cyntaf, am yr hwn y crybwyllir yn Act. vi. 5. Efe a ymsuddodd mewn aflywodraeth, fel y dywedir, ac a roddodd ddechreuad nid yn unig i'r blaid hon, ond hefyd i eiddo y Gnosticiaid, ac i amryw ereill, y rhai, gan ganlyn tueddiad eu hanwydau drwg eu hunain, a luniasant lawer math o bechodau a drygioni. Yn mysg y Nicoliaid hyn, yr oedd godineb, a bwytta bwydydd wedi eu haberthu i eilunod yn cael eu cyfrif yn bethau dibwys. Dywed *St. Awstin*, Hœres. 5. fod eu gwragedd ganddynt yn gyffredin, ac nad oeddynt yn petruso i gydymffurfio â holl goel-grefydd y Paganiaid.

ATHRYWYNWR, *(a-trywyniaw*, cymmodi) heddychwr, dyhuddwr, ysgarwr amrafaelwyr. "Nid oedd *athrywynwr* rhyngddynt hwy," 2 Sam. xiv. 6. Yn ol yr Hebraeg, *gwaredwr*.

AUGUSTUS CÆSAR, ail amherawdwr Rhufain. Canlynodd ei ewythr Julius, A. M. 3965. Gwedi bod yn gyfranog â Marc Antony, efe a'i gorchfygodd ef yn mrwydr Actium, A. M. 3975, ac a gymmerodd y llywodraeth oll arno ei hun. Dim cynt yr oedd efe wedi sefydlu heddwch cyffredinol a threfn yn ei amherodraeth ddirfawr, nag y trefnodd i'w holl ddeiliaid, yn nghyd a gwerth eu meddiannau, gael eu cof-restru yn y llyfrau coffadwriaeth cyffredin, fel y gallai wybod yn berffaith pa ddeiliaid oedd ganddo yn gymhwys i ryfel, neu yn amgen; a pha dreth a allai efe osod yn rhesymol arnynt. Gwnaeth

dri o'r cyfryw gofrestriadau; dechreuwyd yr ail yn nghylch saith mlynedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr, ac nid oedd wedi ei orphen y pryd hwnw, ond a fu yn achos o daith ei fam a'i dad cyfrifedig i Bethlehem, yn gymhwys ar amser ei enedigaeth ef, Luc ii. 1, 6, er na alwyd un dreth i mewn am amryw flynyddoedd wedi hyny. Prin y byddai yn addas i'n dyben presenol i adrodd am ryfeloedd yr amherawdwr hwn â Brutus, Cassius, a gelynion ereill ei ewythr; ei ryfeloedd âg Antony, a'r Hispaeniaid, Rhetiaid, Parthiaid, a'r Arabiaid; neu grybwyll am ei gyfeillgarwch at Herod Fawr, ac at Iuddewon yr Aipht a Cyrene; neu am ei waith yn dosparthu y llyfrau Sybilaidd, ac yn dinystrio pa bethau bynag a dybiai efe yn ffuglol a llygredig ynddynt. Gwnaeth ei lywodraeth dirion ran fawr o'r byd adnabyddus yn ddedwydd, ac, bron a ddiwreiddiodd ragfarn y Rhufeiniaid yn erbyn unbeneeth annibynol. Ond putteindra ei ferch Julia, a'i phlant, a therfysgoedd teuluaidd ereill, a wnaethant ei fywyd yn faich iddo ei hun. O'r diwedd, wedi cyhoeddi Tiberius yn ganlynwr iddo, a chymyg lluaws o addysgiadau rhagorol i'w sylw, parodd gael ei wisgo fel chwarëydd, ac yna gofynodd i'w gyfeillion, os ydoedd wedi chwareu ei ran yn dda. Dim cynt y clywodd efe ei fod, nag y trengodd yn mreichiau Livia ei anwyl wraig, yn y 75 flwyddyn o'i oedran, y 56 o'i deyrnasiad, a'r 15 wedi genedigaeth ein Hiachawdwr.

AUR, (*air*, dyscleirdeb) mettel gwerthfawr, melyn-goch, y trymaf, a'r mwyaf pur, a dysclaer o'r holl adwynau. Anfynych y ceir ef mewn cyflwr mwnawl, yn gymmysgedig â llosg-feini, fel y mae metteloedd ereill yn gyffredin: ond mewn cyflwr gwreiddiol; ac nid yw byth i'w gael mewn mwn o'r eiddo ei hun, ond mewn eiddo metteloedd ereill, yn enwedig elydn ac arian: ac mae mewn hyd yn nod aur gwreiddiol bron bob amser beth cymmysgedd o'r metteloedd hyn. Ceir aur gwreiddiol weithiau hyd yn nod yn mwn-gloddiau yr Almaen, yn dalpau pur yn nghylch pwys bob un; a dywedir, yn Peru yn llawer trymach, sef yn nghylch 25 o bwysau bob un; a hwn oedd yn cael ei alw eu *haur dilin;* ond yn fwy mynych ceir ef yn ronynau rhyddion, yn gymmysgedig â thywod afonydd, yn neilldnol yn Guinea, o du y gorllewin i Affrica. Ceir aur yn fynych yn gorwedd mewn cerrig o amrywiol fath, ac hyd yn nod yn y ddaear, mewn 150 gwrhyd o ddyfnder. Aur yw y mwyaf estynadwy o bob metteloedd, tynwyd *wns* o hono yn wifr neu edef, o 210,433 gwrhyd, neu 240 o filltiroedd o hyd. Nid yw yn ddarostyngedig i rydu; ac nid eill ei doddiad mewn tân cyffredin leihau ei bwysau; ond os rhoir ef yn agored i belydr llosg-wydr cryf, ehed ymaith yn ronynau bychain; a, dywedir, yr â ymaith weithiau yn fŵg, a'r gweddill a gyll ei natur euraidd, ond a fydd yn fath ar *vitriol.* Nid yw yn gofyn gwres mawr i doddi aur; a chyn y rhêd, ymddengys yn wyn; a phan y todda, ymddengys o liw gwelw gwyrdd-las ar yr wyneb. Yn y cyn-oesoedd, ymddengys fod aur yn dra helaeth: yr oedd yr arch sanctaidd, bwrdd y bara dangos, allor yr arogl-darth, a cholofnau a chroes-estyll y babell wedi eu gwisgo âg aur pur; y drugareddfa, a'r cerubiaid oeddynt arni, y canwyllbren sanctaidd, &c. oeddynt yn gyfangwbl o aur pur. Holl ddiod-lestri Solomon oeddynt o'r unrhyw; yr addurn-gadwynau, breichledau, coronau, saf-ddelwau, a chof-dlysau oeddynt o aur. Helaeth rwydd mawr o hono a berthynai i Dafydd a Solomon, ac a aeth i adeiladu y deml, &c. Cafodd Alexander beth aneirif o hono yn nhrysorau Darius, brenin Persia. Byddai rhai o'r câd-flaenoriaid Rhufeinig, yn peri dwyn llawer iawn o hono o'u blaenau, wedi iddynt ei gymmeryd, yn eu llawenychiadau cyhoeddus am ryw fuddugoliaeth a ennillasent; a threuliodd rhai o'u amberawdwyr symiau dirfawr o hono mewn gloddest rhyseddgar. Ei guddio neu ei esgeuluso, yn ystod anrheithiadau ëang-ymdaenol y Gothiaid, Huniaid, Vandaliaid, Saraceniaid, Tyrciaid, a'r Tartariaid, tebygol, a achlysurodd y prinder o hono mewn oesoedd diweddarach, hyd nes cafwyd mwngloddiau America gan yr Hispaeniaid.

Y mae *aur* yn fynych yn cael ei wneud o gysgod o'r hyn sydd yn ddwyfol, pur, gwerthfawr, sylwedd-ol, defnyddiol, anllygredig, neu bar-

haus, a gogoneddus. Gallai aur y babell a'r deml arddangos rhagoriaethau dwyfol Crist, ac ordinhadau gwerthfawr ac anllygredig ei eglwys. Y mae ei ben, a'r goron freninol arno, fel *aur coeth*, a'i ddwylaw sydd fel *modrwyau aur* wedi eu llenwi o beryl; *aur* yw efe wedi ei buro trwy dân; ei wregys, ei thuser, a'i goron, ydynt o *aur coeth*. Mor ddwyfol, gwerthfawr, sylweddol, pur, ac anllygredig yw ei Dduwdod a'i lywodraeth, ei allu a'i waith, ei berson a'i gyfiawnder! ei barotoad tuag at, a'i barodrwydd i gyflawni ei swydd! ac mor werthfawr a gogoneddus yw ei wobrwy tragywyddol! Can. v. 11, 14. Dan. x. 5. Dad. iii. 18. a'r viii. 3. a'r xiv. 14. Cyffelybir Duw i *aur*: y fath gyfrau bur, werthfawr, gyfoethogol, a thragywyddol yw efe i'w bobl! Job xxii. 25. Gair Duw a gyffelybir i *aur* coeth, o herwydd fod pob gair i'r Arglwydd yn bur, ac yn fwy ei werth na'r gemau; y mae yn cynnwys y perl o uchel bris, Salm. xix. 10. Y mae phiolau digofaint Duw yn *aur*; yn ddwyfol, pur, a digymmysg o bleidgarwch neu nwydau, Dad. xv. 7. Gelwir yr hyn sydd oludog, dangosiadol, a dengar, yn *aur*, neu *auraidd*; felly gelwir Babilon yn dref *aur*, pen *aur*, neu phiol *aur*, Esa. xiv. 4. Dan. ii. 32, 38. Jer. li. 7; a dywedir fod gan Rufain anghristaidd yn ei llaw gwppan *aur* yn llawn ffieidd-dra, Dad. xvii. 4.

AWDURDOD *(awdur)*. Yn (1.) Gallu, llywodraeth, arglwyddiaeth, Math. xxviii. 18. (2.) Mawrhydi ac effeithioldeb nerthol, yn tueddu i ddeffroi y gydwybod, ac ennill y galon, Math. vii. 29. (3.) Arwaesaf, gorchymyn, neu ganiattâd oddi wrth uwchafiad, Math. xxi. 23. Act. ix. 14.

AWEL—AU, gwynt, chwyth. "*Awel* y dydd," Gen. iii. 8, sef oerni y dydd, pa un bynag ai yn y bore neu yr hwyr. Mae yn debygol fod Adda yn ddigon cyfarwydd â chlywed y llais hwn, ac fel arwydd o bresennoldeb Duw, yr oedd yn hyfryd ganddo ei glywed yn ei gyffwr o ddiniweidrwydd: ond ar ol ei droseddiad, yr oedd y llais a fuasai gynt yn seinio mor beraidd, yn awr yn ei ddychrynu. I bechaduriaid, mae llais yr Arglwydd fel taran, ond i'r saint, yn llais dystaw main o gariad ac o hedd.

AWR *(aw*, dylifiad). Ymddengys na wyddai yr Hebreaid ddim am *oriau* hyd amser y caethiwed Caldeaidd. Y crybwylliad cyntaf am danynt sydd gan Daniel, pen. v. 5. Rhanent eu dydd yn bedair rhan; sef bore, o godiad haul i yn nghylch 9 o'r gloch; anterth, yr hwn oedd yn diweddu ar hanner dydd; yr hwyr cyntaf, yr hwn oedd yn cyrhaedd o ganol dydd i yn nghylch ein 3 o'r gloch ni yn y prydnhawn; a'r ail hwyr, yr hwn a gyrhaeddai hyd ymachludd haul, Exod. xii. 5. Dosparthent y nos yn dair rhan; sef, nos, hanner nos, a'r wyliadwriaeth fore. Gwedi iddynt ddyfod dan deyrnged i'r Rhufeiniaid, rhanasant eu nos yn bedair gwyliadwriaeth, a elwid felly, o herwydd fod y gwyliedyddion yn cael eu cyfnewid bob tair awr, Math. xiv. 25; a dywedir fod y dydd, yn ngwasanaeth y deml, yn cael ei ddosparthu i bedair o wyliadwriaethau neu oriau mawrion; y drydedd o ba rai a ddiweddai yn nghylch 3 o'r gloch yn y prydnhawn, Marc xv. 25. Yn y Testament Newydd, amlwg yw fod y dydd yn cael ei ranu yn 12 awr, y rhai oeddynt, hwyrach, yn ymestyn ac yn byrhau fel y gwnai y dydd; y drydedd awr oedd yn nghylch ein 9 o'r gloch ni; y chweched, hanner dydd; y nawfed, yn nghylch 3 o'r gloch yn y prydnhawn; a'r unfed awr ar ddeg, ychydig cyn ymachludd haul, Math. xx. 1—6. Ioan xi. 9. a'r xix. 14. *Awr* hefyd a arwydda unrhyw amser nodedig, neu oedfa, ac yn enwedig ennyd bach: felly yr ydym yn darllain am *awr* o brofedigaeth, o farn, o farwolaeth Crist neu ei ail ddyfodiad, o allu Satan a'i oruchwylwyr yn erbyn Crist, Dad. iii. 3, 10. a'r xiv. 7. Ioan viii. 20. Luc xxii. 53. Hwyrach fod *awr* yn arwyddo y 24 rân o fuwyddyn, neu 15 niwrnod. Dad. xix. 5. Yr *hunner awr* o osteg yn y nef, yw y 15 mlynedd o heddwch mawr yn yr eglwys Gristionogol, o A. D. 323, hyd 338, Dad. viii. 1. Mewn *un awr*, ydyw yn nghylch yr un amser, Dad. xvii. 12; neu yn ddisymmwth, ar unwaith, Dad. xviii. 10.

AWYR, corph teneu, ffrydiol, tryloyw, cyd-wasgadwy, a lledadwy,

sydd yn amgylchynu ein daear i gryn uchder; yn cyrhaedd, hwyrach, 50 o filltiroedd. Y mae yr awyr gyffredin yn gynnwysedig yn benaf o oleuni a thân yn dylifo iddi oddi wrth y cyrph nefol; ac o darthoedd ac agerddau sychion oddi wrth y ddaear a'i chynnyrch. Pa un a wnai yr awyr elfenol wrth-dorri y goleuni heb y cymmysgedd hwn, nis gwyddom. Y mae yr awyr yn ffrydiol, yn caniattau mynedfa i gyrph ereill drwyddi; felly y mae y clyw a'r arogliad, &c. yn gryfion heu weinion, yn ol fel y byddo yr awyr yn dew neu deneu; ac ar benau mynyddoedd uchel, nid yw y synwyrau hyn ond o ychydig ddefnydd. Y mae yr awyr o gryn bwysau. Mewn cyfartalwch, gellir ei chyfrif yn filfed ran o bwysau dwfr; y mae yn nghylch 2160 o bwysau o honi yn gwasgu ar bob troedfedd bedair-onglog, a thrwy ganiattau fod arwyneb corph dynol yn 15 troedfedd bedair-onglog, rhaid fod gwasgiad yr awyr arno yn nghylch 32,400 o bwysau. Gyda'r gwasg hwn, heb ei deimlo yn amlwg, nes y dyhysbyddir yr awyr tufewnol, y mae Duw yn amwregysu ein byd ni, megys â rhwymyn. Y mae ei gwrthneidiolrwydd, neu ei gallu i ymgrynhoi pan ei gwasger, ac i ymehangu pan ei rhyddhaer, yn gwbl ryfeddol. Y mae yr awyr yr ydym yn anadlu ynddi, mewn cyfartalwch, yn cael ei chyfyngu, gan ei phwysau ei hun i'r 13,679 ran o'r lle a lenwasai mewn ehangder; a rhai a dychymmygant y gellir ei thewychu neu ei gwasgu yn nghyd, nes y delo yn drymach nag aur. Y mae yr awyr yn cael ei chyfnewid yn fawr gan y tarth, y mwg, ac agerddau ereill, a gyfodant oddi wrth y ddaear.

Yr *awyr* yw y fro lle yr eheda yr adar, a'r modd trwy ba un yr anadla yr anifeiliaid, 2 Sam. xxi. 10. Job xli. 16. *Curo yr awyr*, neu *lefaru wrth yr awyr*, a arwydda, gweithredu yn y dull mwyaf ofer ac anfuddiol, 1 Cor. ix. 26. a'r xiv. 9. Yr *awyr wedi tywyllu* wrth udganiad y pummed udgorn, a eill arwyddo yr ysgrythyrau a'r eglwys, y rhai ydynt y moddion i ddwyn goleuni ac iachawdwriaeth i ddynion; a'r ysgrythyr yw anadl Duw, trwy ba un y mae efe yn cyfranu ei ddylanwadau i ni; a'r ddwy, trwy amlhad amryfusedd a thwyll, trwy geliad a chamddehongliad o'r ysgrythyr, dan Anghristiaeth a Mahometaniaeth a dywyllir. Ac nid yw'n annheilwng o sylw, i'r haul naturiol, ychydig cyn cyfodiad y twyll deublyg hwn, dywyllu yn y fath fodd o Fehefin i Hydref, A. D. 626, fel nad oedd ond rhan fechan o'i oleuni yn ymddangos, Dad. ix. 2. *Awyr* y deyrnas Anghristaidd, i'r hon y tywallt odd y seithfed angel phiol ei ddigofaint, eill fod yn dynodi gweddillion olaf awdurdod Anghrist, wedi yr hyn ni hanfoda ei lun na'i fywyd mwyach, Dad. xvi. 17.

AZARIAH, *(cynnorthwy yr Arglwydd)* neu UZZIAH, brenin Judah. Mab 16 mlwydd oed oedd efe pan ganlynodd ei dad Amaziah, A. M. 3194, a theyrnasodd 52 o flynyddoedd; enw ei fam oedd Jecoliah. Yr oedd ei ymarweddiad personol yn uniawn ger bron Duw, ond efe a esgeulusodd ddinystrio yr uchelfëydd, neu rwystro y bobl i aberthu arnynt. Yn y rhan gyntaf o'i deyrnasiad, bu yn dra llwyddiannus; maluriodd y Philistiaid yn ddychrynllyd, torrodd i lawr furiau Gath, Jabne ac Asdod, ac adeiladodd amddiffynfëydd iddo ei hun yn eu gwlad: gorchfygodd yr Arabiaid yn Gurbaal, a'r Mehuniaid, y rhai oeddynt oll, tyhiwn, yn preswylio o du y dehau-orllewin i wlad Canaan; a thaenodd ei arswyd hyd y ffordd yr eir i mewn i'r Aipht. Bu lawen gan yr Ammoniaid, er eu bod yn byw encyd o ffordd oddi wrtho, i ymofyn am ei nawdd gyda rhoddion. Cynnwysai ei lu 310,000 o wyr; 2600 o ba rai oeddynt lywyddion nerthol; a Jeiel, Maascia, ac Hanania oeddynt y pen-tywysogion. Adeiladodd lawer iawn o dyrau; cadarnhaodd ei ddinasoedd; a chynnysgaethodd ei lu â tharianau, a gwayw-ffyn, a helmau, a llurigau, a bwäau, ac â cherrig tafl. Parodd i'w gelfyddydwyr wneuthur iddo offerynau cywraint, i dafiu cerrig aruthrol eu maint i bellder mawr, ac i ergydio saethau gyda grymusder anghyffredin. Yn y cyfamser, coleddodd trwy ei esampl ei hun, bob math o arddwriaeth. Tra y parhaodd Zecariah dduwiol yn gynghorwr iddo, yr oedd ymarweddiad Uzziah yn rheolaidd; ond, ar ol ei farwolaeth, wedi i'w lwyddiant ei wneud

ef yn falch a thrahaus, rhuthrodd i mewn i'r deml i arogl-darthu. Azariah yr archoffeiriad a'i ceryddodd yn hyf, ac a ddywedodd wrtho, y byddai i'w gynnyg ansanctaidd i arogl-darthu droi allan yn ddianrhydedd mawr iddo. Tra yr oedd Azariah yn sefyll wedi llidio wrth hyn, dechreuodd y gwahan-glwyf ymddangos yn ei dalcen; yr offeiriaid a'i gwthiasant yn ddiattreg allan o'r deml; ïe, ac yntau ei hun a frysiodd i fyned allan. Parhaodd yn wahan-glwyfus hyd ddydd ei farwolaeth, gan drigo mewn tŷ gwahanol, a'i fab Jotham oedd yn trin gorchwylion y deyrnas, 2 Bren. xv. 2. 2 Cron. xxvi. Myn *Josephus* i'r daear-gryn mawr ddygwydd yn y mumud hwnw pan darawyd Uzziah â'r gwahan-glwyf; ni ddichon dim fod yn anwiredd mwy amlwg. Dygwyddodd y daear-gryn ddwy flynedd wedi i Amos ddechreu prophwydo; ac yn ganlynol, yn amser teyrnasiad Jeroboam, ac yn, neu cyn y 15 flwyddyn i Uzziah, sef deuddeng mlynedd o leiaf cyn geni Jotham, ac yn nghylch deg-ar-hugain cyn ei fod yn alluog i lywodraethu y deyrnas; cymhar. Amos i. 1. 2 Bren. xiv. 23. a'r xv. 33.

2. *Azariah*, mab Oded, prophwyd, yr hwn, wedi gorchfygu y Cusiaid, a achwynodd wrth Asa o herwydd cyflwr isel crefydd, ac nad oedd dedwyddweh i'w addisgwyl ond yn y ffordd o wasanaethu Duw; ac a'i hannogodd ef i fyned yn mlaen yn mhellach mewn diwygio y deyrnas; ufuddhawyd i'w gyngho'r, 2 Cron. xv. Yr oedd i Jehosaphat ddau o feibion o'r enw hwn; rhoddodd eu tad iddynt hwy a'u brodyr Jeheiel, Zecariah, Micael, a Sephata, roddion cyn ei farwolaeth; ond yn fuan wedi hyn lladdwyd hwy gan eu brawd henaf Jehoram, 2 Cron. xxi. 2—4, 13. Cawn bedwar o dywysogion ereill o'r enw hwn; dau dan Solomon, un o honynt yn fab Nathan y prophwyd, 1 Bren. iv. 2, 5, 15. Un arall, yr hwn, yn nghyd a Berecia, Jehizeia, ac Amasa fab Hadlai wrth annogaeth Oded y prophwyd, a wrthwynebasant ddwyn y caethion Iuddewig a gymmerasid oddi ar Ahaz i Samaria, gan ddangos fod camwedd y deg llwyth eisioes yn rhy fawr: ac y gwnai eu gwaith yn cadw y caethion hyn o'u brodyr chwanegu atto ef. Parasant i'r sawl o honynt ag oedd arnynt angen, gael eu dilladu a'u gwisgo âg esgidiau, a phawb o honynt i gael eu diwallu yn ddigonol â bwyd a diod; i'r rhai oedd yn llesg, hwy a ddarparasant asynod; ac fel hyn, yn y modd mwyaf haelionus, dygwyd hwy yn ol i Jericho, 2 Cron. xxviii. 11—15. Tywysog arall o'r enw hwn, a mab i Hosaia, yn nghyd a Johanan mab Carea, a gyhuddasant Jeremia o ddywedyd celwydd er twyllo y bobl; ac, yn wrthwyneb i rybudd Duw, aethant i waered i'r Aipht, a dygasant Jeremia gyda hwynt, Jer. xliii. 2. Cawn chwech o offeiriaid o'r enw hwn, mab ac ŵyr i Zadoc; tybia rhai mai yr un oedd yr olaf hwn âg Amaria yr archoffeiriad dan Jehosaphat, 1 Bren. iv. 2, 1 Cron. vi. 9, 2 Cron. xix. 11; y trydydd yn ŵyr i'r un a grybwyllwyd ddiweddaf; y nesaf a wrthsafodd Uzziah yn y dull a adroddwyd; y pummed oedd yn archoffeiriad dan Hezeciah; a'r chweched dan Josiah, 1 Cron. vi. 1—14. 2 Cron. xxxi. 10. Bu ereill o'r enw hwn ar ol y caethiwed; un o honynt a ganlynodd Ezra o Babilon; un arall a adgywairiodd ran o fur Jerusalem dan Nehemiah, Ezra vii. 3. Neh. iii. 23.

Y mae mynychder crybwylliad yr enw hwn, sydd yn arwyddo *cynnorthwy yr Arglwydd*, yn ein tueddu i feddwl fod yr Hebreaid duwiol yn byw lawer dan deimlad o'u hymddibyniad ar Dduw, a'r trugareddau a ddangosodd efe iddynt.

B

BAAL, yr hwn sydd yn arwyddo *arglwydd* neu *wr priod*, oedd hwyrach yn yr oesoedd boreäf yn arwyddocau y gwir Dduw. Dilys yw ei fod yn enw cyffredin iawn ar brif dduwiau y Dwyrain, fel yr oedd Astaroth yn un cryn gyffredin ar eu duwiesau. Bu eu Baal gan y Moabiaid, y Pheniciaid, yr Assyriaid, y Caldeaid, ac yn fynych gan yr Hebreaid; ac yn aml, yr oedd cyfenwau gwahaniaethol yn gyssylltiedig âg ef, oddi wrth le ei addoliadneu ei swydd gyfrifedig; megys *Baal-berith*, *Baal-peor*, *Baal-zebub*, &c. Yr oedd yr enw hwn, yn fynych, yn rhan o enwau dynion

a dinasoedd, i arwyddo, hwyrach, eu bod, gan mwyaf o honynt, wedi eu cyssegru i'w wasanaeth. Trodd yr Hebreaid duwiol hwn weithiau i *Boseth*, yr hwn sydd yn arwyddocau *cywilydd*; fel hyn troir Jerubbaal i Jerubbeseth; Esbaal i Isboseth: Meribaal i Mephiboseth, 1 Barn. vi. 33, a 2 Sam. xi. 21. 1 Cron. viii. 32, 34. a 2 Sam. ii. 12. a'r ix. 6. Darlunir yr eilun hwn weithiau fel duwies, Rhuf. xi. 4, *Gr.* ac, ar y tu arall, gosodir Astaroth allan, weithiau, fel duw. Yn fynych cyfenwir Baal yn Baalim yn y rhif llusosog, ysgatfydd o herwydd fod amryw o honynt, neu, o leiaf, lawer o ddelwau o hono ef.

Pwy oedd y Baal cyntaf, pa un ai Nimrod neu Belus y Caldeaid, neu Erewlff y Tyriaid, &c. nid yw mor amlwg, ag fod y Pheniciaid yn addoli yr haul dan yr enw yma, yr hwn y tybient ei fod yn arglwydd ac yn ben-llywydd y byd: er, ysgatfydd, nad yw ei addoliad a ddarlunir i ni gan ysgrifenwyr anghyssegredig, y dull henaf, ond un diweddarach a arweiniwyd i mewn gan yr Assyriaid. Yr oedd pob math o ffieidd-dra yn cael ei wneuthur ar wyliau yr eilun hwn, ac Astaroth ei gymhares. Yr oedd tân parhaus yn cael ei gadw yn ei *chamanim* neu demlau: a chyfodid allorau iddo mewn llwyni, uchelfëydd, ac ar nenau tai, 2 Bren. xxiii. 4—11. a xvii. 16. Jer. xxxii. 25. Hos. iv. 14.

Dechreuasai y Moabiaid addoliad Baal cyn dyddiau Moses; a dechreuodd yr Hebreaid yr eiddynt hwythau yn ei amser ef, Num. xxii. 41. Salm cvi. 28. Ail-syrthiasant i'r eilun-addoliaeth hwnw ar ol marwolaeth Josuah; a than y Barnwyr Ehwd, Gideon, a Jephthah, Barn. ii. 13. a iii. 7. a vi. 25. a x. 6. Ymddengys i Samuel lwyr ddileu addoliad yr eilun hwn o Israel, 1 Sam. vii. 4, ond Ahab a Jezebel, yn nghylch 200 o flyneddoedd wedi hyny, a'i hail-ddygasant i mewn o Sidon, yn ei holl ffieidd-dra: gosodwyd 450 o offeiriaid i'w wasanaethu; a chynnifer a hyny, bron, i Astaroth. Gwarthruddwyd yr offeiriaid hyn i Baal yn ddirfawr ar fynydd Carmel; ymddangosodd eu duw yn gwbl ddiystyr o'u bloeddiadau, a'u gwaith yn archolli eu cnawd, i gyffroi ei dosturi. Ië, wedi dwyn analluogrwydd eu heilun i'r amlwg, cawsant eu dal a'u lladd trwy orchymyn Elias. Ni addolodd Jehoram, mab Ahab, Baal ei hun, ond parhaodd ei ddeiliaid i wneuthur felly. Ar ol ei farwolaeth, Jehu, yn cymmeryd arno fod ganddo barch tra-rhagorol i Baal, a gasglodd ei brophwydi a'i offeiriaid i'w deml, ac, yno, a'u rhoddodd hwynt oll i'r cleddyf. Cyn pen hir wedi hyn, dyddymodd Jehoiada addoliad Baal o Judah; ond Ahaz a Manasseh a'i hail-arweiniasant i mewn. Ail-ddileodd Josiah ef; ond adferwyd ef gan ei feibion, 1 Bren. xvi. 31, a'r 18. 2 Bren. iii. 1, a'r a'r x, a'r xi, a'r xvii. 16, a'r xxi. 3, a'r xxiii. 3, 5. Jer. xix. 5.

Baalah. (1.) Ciriath-Baal, neu Ciriath-jearim, Jos. xv. 9. 1 Cron. xiii. 6. (2.) *Baalah*, neu *Balah*, dinas a drosglwyddwyd oddi wrth lwyth Judah i'r Simeoniaid, Jos. xv. 29, a xix. 3. Ymddengys i'r dinasoedd hyn gael eu cyfenwi oddi wrth *Baal*, yn gystal â'r rhai canlynol.

Baalath, dinas yn llwyth Dan, Jos. xix. 44. 1 Bren. ix. 18. Pa un ai hon neu Baalbec wrth flaen yr Abana, oedd yr un a adeiladodd Solomon, nis gwyddom, 1 Bren. ix. 18.

Baalath-Beer, *Baal*, dinas yn rhandir Simeon, ar y terfyn dehau-orllewinol, tebygol. Os yr un oedd hi â Ramah ddehenol, neu Ramoth, anfonodd Dafydd i'r trigolion ran o'r yspail a gymmerasai efe oddi ar yr Amaleciaid, Jos. xix. 8. 1 Cron. iv, 33. 1 Sam. xxx. 27.

Baal-Berith, yr eilun a addolid yn ei deml yn Sichem, a chan y lleill o'r Israeliaid ar ol marwolaeth Gideon, Barn. viii. 33. Ysgatfydd mai yr un oedd a Berith neu Beroc y Pheniciaid, merch Venus ac Adonis: neu yn hytrach Baal yw, fel *gwarcheidwad cyfammodau*; yr un a Horkios y Groegiaid, a Jupiter Sponsor, neu Ffidius ultor y Rhufeiniaid.

Baal-Gad, dinas wrth droed gogledd-orllewinol mynydd Hermon, yn nyffryn Libanus, yn y pen gogleddddwyreiniol i wlad yr addewid; neu, hwyrach, un o benau Hermon oedd, Jos. xi. 7, a xii. 7.

Baal-Hanan, mab Achbor, a seithfed brenin yr Edomiaid: y mae cienw, yr hwn sydd yn arwyddo *gras a thosturi Baal*, yn ein tueddu i

feddwl fod addoliad Baal yn ffynnu y pryd hwnw yn mysg yr Edomiaid, yn gystal a'r Canaaneaid, Gen. xxxvi. 38.

Baal-Hazor dinas yn agos i Ephraim, yn nghylch 8 milltir o du y gogledd-ddwyrain i Jerusalem, rhwng Bethel a Jericho. Tybir yn gyffredin mai yr un oedd a Hazorhadatta, yn rhandir Judah, Jos. xv. 25; ond os felly, dylid gosod ei sefyllfa yn fwy i'r dehau. Yma y cadwodd Absalom ei gneif-wledd, ac y lladdodd ei frawd, 2 Sam. xiii. 23.

Baal-Hermon, rhan o fynydd Hermon, Barn. iii. 3.

Baalis, brenin yr Ammoniaid: efe a anfonodd Ismael mab Nethania i ladd Gethalia, rhaglaw Nebuchodonozor ar yr Iuddewon, y rhai a weddilliasid yn y tir: eithr talodd yn ddrud am ei ymddygiad, pan y torrodd y Caldeaid i mewn i'w wlad, ac y gwnaethant hi yn ddiffeithwch, Jer. Jer. xl. 14.

Baal-Meon, *Bethbaal*, *Beon*. Ysgatfydd i Sehon ei hynnill hi oddi ar y Moabiaid: ynnillodd yr Hebreaid hi oddi arno ef, a rhoddwyd hi i'r Reubeniaid; ond adynnillodd y Moabiaid hi; ac, o'r diwedd, diuystriwyd hi gan y Caldeaid, Num. xxxii. 38. Ezec. xxv. 9. Ymddengys, modd bynag, iddi gael ei hail-adeiladu, a'i bod yn ddinas yn amser y Maccabeaid.

Baal-Peor, eilun y Moabiaid a'r Midianiaid. Meddylia rhai mai yr un oedd efe â Mizraim neu Osiris yr Aiphtiaid, neu â Priapus y Groegiaid. Dywedir fod y defodau anianaf yn cael eu harfer yn ei addoliad ef, megys dadguddio noethni, a bwrw allan ysgarthion ger ei fron; ond, hwyrach, nad yw hyn oll ond chwedl: ac iddo gael yr enw *Peor* oddi wrth le ei deml, megys y gelwid Jupiter yn Olympius, oddi wrth ei fod yn cael ei addoli ar fynydd Olympus. Myn rhai mai yr un oedd efe â *Cemos*, yr hwn a dybient hwy oedd yr haul, neu Comus, neu Apolo Comius, duw y meddwon; ac i'r hwn yr adeiladodd Solomon uchelfa ar fynydd yr Olew-wydd, 1 Bren. xi. 7; a pha un a ddygwyd ymaith gan y Caldeaid, Jer. xlviii. 7; ond nid ydym yn canfod un achos i uno yr eilunod hyn yn nghyd. Yn addoliad y duw *marw* hwn yr ymgyssylltodd yr Hebreaid, a bwyttasant ei ebyrth, a chospwyd hwy â marwolaeth 24000, Num. xxv. Salm cvi. 28.

Baal-Perazim, lle yn nyffryn Rephaim, meddylir yn nghylch tair milltir o du y dehau-orllewin i Jerusalem. Yma y gyrrodd Dafydd y Philistiaid i ffoi, 2 Sam. v. 20.

Baal-Tamar, lle yn agos i Gibea. Ymddengys i'r Canaaneaid addoli Baal yma, mewn *llwyn o balmwydd*. Yma y dinystriodd y llwythau ereill y Benjaminiaid bron yn llwyr, Barn. xx. 33.

Baal-Zebub, eilun-dduw Ecron. Nid ymddengys i'r enw hwn, yn arwyddocau *arglwydd y gwybed*, gael ei roddi iddo mewn diystyrwch, gan i Ahazia ei addolwr ei alw er wrthod ond naill ai o herwydd fod ei lun yn cael ei dynu fel gwybedyn, er y dywed ereill ei fod ar ddull brenin yn eistedd ar ei orsedd, neu o herwydd y meddylid ei fod yn ymlid ymaith yr heidiau niweidiol o wybed; a gallai fod yr un â'r duw Achor yn Cyrene, yr hwn a gyfrifid yn geidwad rhag gwybed. Gan fod penaeth y cythreuliaid yn cael ei alw, yn y Testament Newydd, wrth yr enw hwn, Beel-zebub, tueddir un i dybied y gallai efe fod yr un â Pluto, neu dduw uffern, y Groegiaid, 2 Bren. i. Math. xii. 24. a'r x. 25.

Baal-Zephon; pa un ai delw oedd hon wedi ei gosod i fynu yn y pen gogleddol i'r Môr Coch, i warchad terfynau yr Aipht, neu ynte ai amddiffynfa oedd, nis gwyddom. Exod. xiv. 2.

BAANA *(yn y trallod)* a Recab, meibion Rimmon y Beerothiad, o lwyth Benjamin. Yr oeddynt hwy yn swyddogion yn llu y brenin Isboseth, ac aethant i mewn i'w dŷ ganol dydd, torrasant ymaith ei ben ac efe yn cysgu, ac a'i dygasant i Dafydd, gan ddisgwyl rhyw wobrwy gwerthfawr. Gwedi gosod ger eu bronau natur erchyll y llofruddiaeth bradwrus hwn, gorchymynodd dorri ymaith eu dwylaw a'u traed (fel y mae y Tyrciaid yn fynych yn torri ymaith ben, dwylaw, a thraed y swyddogion hyny a'u hanfoddlonant hwy, a chyda pharch mawr a'u gosodant hwy wrth borth yr amherawdwr, tra y mae efe yn eistedd yn grynedig oddi mewn) a chrogi y rhain neu y cyrph uwch ben llyn Hebron, 2 Sam. iv. Yr oedd gan Dafydd wr cadarn o Netophath

o'r enw hwn; a Solomon ddau o dywysogion enwog; y naill yn fab i Abiiud, ysgrifenydd Dafydd, a'r llall yn fab i Haisai, 2 Sam. xxiii. 29. 1 Bren. iv. 12, 16.

BAASA. *(yn ngwaith yr Arglwydd)* mab Ahia, nid y Silonaid, pen-llywydd Nadab, mab Jeroboam, mab Nebat, brenin Israel. Yn A. M. 3051, efe, yn fradwrus, a laddodd ei feistr a'i deulu, ac a draisfeddiannodd ei goron. Parhaodd yn ffyrdd eilun-addolgar a drygionus ereill ei ragflaenoriaid ar yr orsedd. Gorchymynodd Duw i Jehu mab Hanani, y prophwyd, ddywedyd wrtho, ei fod wedi cael y goron trwy raglunaeth cydsyniol, ond nid cymmeradwyol Duw, ond gan ei fod yn parhau yn ffyrdd drygionus y tŷ, y cyflroasid Duw ganddo i'w draddodi i'w ddwylaw ef, y byddai iddo ef a'i deulu yn fuan, gael eu diwreiddio yr un modd, a'u celaneddau anghladdedig gael eu rhoddi i'r bwystfilod i'w bwytta. Yn ddiystyr ganddo y rhybudd hwn o'r nef, gwnaeth ryfel ar Asa, ac ar Judah ei deyrnas; ymnillodd Ramah, lle yn gorwedd mewn bwlch hynod rhwng eu teyrnasoedd, a dechreuodd ei amgaeru, fel na allai neb o'i ddeiliaid duwiol drosglwyddo eu hunain allan o'i lywodraeth i fwynhau addoliad pur Duw. Gwnaeth rhuthr o eiddo Benhadad y Syriad, a'i luoedd o'r gogledd, ei droi ef oddi wrth gyflawni ei amcan; tarawsant Jion, Dan, Abel-beth, Maacah, Cinneroth, a holl dir Naphtali. Gwedi rhai blynedd oedd o ryfel âg Asa, bu farw Baasa a chladdwyd ef yn Tirza ei brif-ddinas, ac Ela ei fab a'i canlynodd, 1 Bren. xv. a'r xvi.

BABEL. (1.) Tŵr enwog. O ddeutu amser genedigaeth Peleg, yn A. M. 1758, a 102 o flynyddoedd wedi y dylif, neu hwyrach yn ddiweddarach, daeth holl ddynolryw, wedi symmud yn raddol tua'r dehau-orllewin i Ararat, i wastadedd Sinar. Yma, gan eu bod oll o un iaith a chrefydd, hwy, ysgatfydd ar gynnygiad Nimrod, a gydunasant i adeiladu tŵr o faintioli ac uchder dirfawr. Nid oedd eu hamcan i ymddiogelu rhag ail ddylif; onide, adeiladasent eu tŵr ar fynydd uchel, nid mewn dyffryn isel; ond i ennill iddynt eu hunain enw clodfawr, ac i ragflaenu eu gwasgariad i adlenwi y ddaear. Ni wyddent am ddim cloddfëydd cerrig wrth law yn y tir bras lawnw; hwy, gan hyny, a losgasant briddfeini yn lle cerrig, a chlai oedd ganddynt yn lle calch. Tair blynedd, ddywedid, y buant yn darparu eu defnyddiau, ac am 22 mlynedd y dygasant eu hadeilad yn mlaen. Eu hymgais ffroen-uchel a gwrthryfelgar a anfoddlonodd yr Arglwydd; am hyny, efe, trwy wyrth, a gymmysgodd eu haith, fel na allai ond ychydig o honynt ddeall eu gilydd. Rhwystrodd hyn yr adeilad yn hollol, a chafodd iddi yr enw Babel, neu *Gymmysgedd;* a bu gorfod ar hilogaeth Noah ymwasgaru, ac adlenwi y byd. Dywedir nad oedd teulu Sem yn cydsynio i gyfodi yr adeilad hon; ond nid oes genym un tystiolaeth ddilys am hyn. Beth a ddaeth o'r tŵr hwn, nis gallwn benderfynu: yn nghylch 1700 o flynyddoedd wedi ei gyfodiad, gwelodd Herodotus adeilad yn Babilon, yn cynnwys wyth o dyrau, wedi eu cyfodi y naill uwch y llall, a phob un yn 75 troedfedd o uchder; ar yr uchaf o honynt yr oedd teml Belus wedi ei hadeiladu, y ffordd i'r hon oedd yn dirwyn o amgylch o'r tu allan, ac mor eang fel y gallai meuni dramwy beibio i'w gilydd arni; ond pa un ai hwn oedd yr un a grybwyllir gan Moses, neu a adeiladwyd ar ei sylfaen ef, nis gwyddom. Y mae teithyddion diweddar, a gymmer arnynt iddynt weled adfeiliau yr adeilad hon, yn amrywio cymmaint oddi wrth eu gilydd, mewn perthynas i'w sefyllfa a'i ddarluniad, fel nad allwn prin ddywedyd fod neb o honynt wedi gweled adfeiliau gwirioneddol y tŵr enwog.

2. *Babel*, neu *Babilon*, prif-ddinas Caldea, yn Asia, un o'r dinasoedd mwyaf dysclaer a fu erioed. Ei dull oedd pedryfal *(squure)* cywir, wedi ei hadeiladu ar wastadedd helaeth; ei chylchedd yn 480 o ystadau; neu 60 milltir, 15 ar bob ochr. Trwch y muriau oedd 87 troedfedd, a'u huchder yn 350; ar ba rai yr oedd 316 o dyrau wedi eu hadeiladu, neu, yn ol ereill, 250, tri rhwng pob porth, a saith ar bob congl; o leiaf lle nad oedd y gors gyfagos yn cyrhaedd bron at y mur. Yr oedd y muriau a'r tyrau hyn wedi eu hadeiladu â phridd-feini mawrion wedi eu cyssylltu â duglust *(bitumen)*, math ar

glai gludiog, yr hwn, yn y wlad honno, sydd yn tarddu allan o'r ddaear, ac mewn ychydig amser, yn myned yn galetach na'r priddfeini neu y cerrig eu hunain y mae yn gydio. Yr oedd y tu allan i fur y ddinas wedi ei amgylchu â chlawdd, llawn o ddwfr, ac wedi ei gadarnhau ar bob ochr â phriddfeini. Yr oedd yn ofynol fod hwn yn drá dwfn a helaeth, am fod yr holl bridd, o'r hwn y ffurfiasid y priddfeini i adeiladu y muriau, wedi cael ei gloddio allan o hono. Yr oedd y pyrth yn ganti gyd, 25 ar bob ochr, ac oll o bres caled. Oddi wrth y rhai hyn y rhedai 25 o heolydd, yn croesi eu gilydd yn union-onglog, pob un yn 150 troedfedd o led, a 15 milltir o hyd. Yr oedd rhes o dai yn wynebu y mur ar bob ochr, yn nghyd a heol 200 troedfedd rhyngddynt hwy â hi. Wrth fod yr heolydd yn croesi eu gilydd fel hyn, yr oedd yr holl ddinas wedi ei dosparthu yn 675 o bedrorau (*squares*) a phob un o honynt yn bedair ystad a hanner ar bob tu. O amgylch i'r pedrorau hyn y safai y tai yn wynebu yr heolydd, a'r gwagle oddi fewn a wasanaethai yn erddi, ac i ddybenion angenrheidiol ereill; ond nid ymddengys i'r holl bedrorau hyn gael erioed eu hadeiladu a'u cyfaneddu yn gyflawn; er y gallwn, oddi wrth hanes Curtius am dani, pan oedd Alexander yno, gasglu yn ddiogel pa ran o honi allai fod yn gyfaneddol yn ei dyscleirdeb mwyaf, cyn i Cyrus ei hemlill hi.

Yr oedd caingc, os nid holl ffrwd yr Euphrates, yn rhedeg trwyjy ddinas o'r gogledd i'r dehau, ac yn ei dosparthu yn ddwy ran. Y rhan honno ag oedd yn sefyll o du y dwyrain i'r afon, oedd yr hen ddinas; a'r rhan arall, o du y gorllewin, a chwanegwyd gan Nebuchodonozor. O bob tu i'r afon yr oedd llong-byrth, a mur uchel o'r un trwch â muriau y ddinas. Yn hwn, gyferbyn a phob heol, yr oedd pyrth pres, a discynfa oddi wrthynt ar hyd risiau i'r afon. Yr oedd y pyrth hyn yn agored y dydd, ac yn gauad y nos. Dyma y pyrth y mae yr Arglwydd yn addaw eu torri, a'u dryllio o flaen Cyrus, Esa xlv. 2. Yr oedd pont ardderchog, o ystad neu ychwaneg o hyd, sef lled yr afon, a 30 troedfedd o led, yn cyssylltu dwy ran y ddinas yn y canol. Er gosod ei sylfaen, a chyfodi pentanau, troisant yr afon ymaith tua'r gorllewin i lyn dirfawr a gloddiasent, yr hwn oedd yn nghylch 52 milltir bedryfal a 35, neu yn ol *Magastheny*, 75 troedfedd o ddyfnder. Yr oedd y cyfan o'r llyn hwn wedi ei weithio tu fewn â phridd-feini wedi ei syth-gudio â duglust gludiog. I rwystro yr Euphrates rhag niweidio y ddinas, pan fyddai toddiad yr eira ar fynyddoedd Armenia yn ei chwyddo i lifeiriant blyneddol dros ei cheulanau, troid rhan o'r ffrwd y pryd hwnw o'r neilldu i'r llyn hwn, ac ar amseroedd priodol, tywelltid ef allan drachefn i ddyfrhau y meusydd a orweddent islaw ei wastadedd. Wrth y pen dwyreiniol i'r bont hardd-wych hon, y safai yr hen balas, yr hwn a gymmerai i fynu bedwar o bedrorau (*squares*), ac oedd yn nghylch pedair milltir o gwmpas. Yn nesaf atto, y safai teml fawrwych y duw Bel neu Belus, ar nen y twr rhag-grybwylledig, yr hon a gymmerai i fynu un pedror. Darllenwn am olud y deml hon, ei fod yn dyfod i yn nghylch 21 myrddiwn o arian Lloegr. Yr oedd eu delwau a'u llestri oll o aur trwm. Yr oedd delw Jupiter Belus, sef yr un hóno, tebygol, a gyfododd Nebuchodonozor yn ngwastadedd Dura, Dan. iii. yn 40 troedfedd o uchder, ac yn pwyso 1000 o dalentau Babilonaidd, neu yn nghylch tair myrddiwn a hanner o'n harian ni; yr oedd yno hefyd ddelwau dwy o ddiuwiesau ereill heb fod yn llawer llai eu maint neu werth. Yr oedd ganddynt fwrdd aur ger eu bron, yn 40 troedfedd ei hyd, a 15 ei led. Yma y rhoddodd Nebuchodonozor ddodrefn sanctaidd y deml luddewig yn nghadw, a rhan fawr o'i yspeiliau gwerthfawr ereill. Wrth y pen gorllewinol i'r bont y safai y palas newydd, yr hwn a gymmerai i fynu yn nghylch 9 o bedrorau, ac oedd yn 7 neu 8 milltir o gwmpas. Ar furiau y palasau hyn, yr oedd rhifedi anfeidrol o gerfiadau heirdd a chywrain ar hun creaduriaid byw; ac aent i mewn iddynt trwy byrth mawr-wych o bres. Yr oedd cromnen islaw dyfr-le yr afon yn gweini cymmundeb dirgel rhwng y ddau balas.

Ond nid oedd dim yn fwy rhyfeddol na'r gerddi crogedig. I foddhau ei frenines Amyite â chyffelybrwydd o

fynyddoedd Media, ei gwlad enedigol, neu i gael golwg ar yr holl ddinas uwch ei phen, yr adeiladodd Nebuchodonozor hwy wrth ei balas newydd. Yr oeddynt yn 400 troedfedd bedryfal o faintioli, ac yn gynnwysedig o rodfëydd, y naill uwchlaw y llall, wedi eu dwyn i uchder muriau y ddinas; yr escynfa, o rodfa i rodfa, oedd ar hyd risiau deg troedfedd o led. Yr oedd yr holl garnedd yn gynnwysedig o fwäau sylweddol ar fwäau, ac yn cael ei chadw yn gadarn yn nghyd â mur amgylchynol o 22 troedfedd o drwch. Y lloriau ar bob rhodfa oeddynt wedi eu gosod yn y drefn hon; yn gyntaf, ar ben y bwäau yr oedd rhes neu balmant o gerrig wedi eu gosod, pob un yn 16 troedfedd o hyd, a 4 o led: ar hyn yr oedd haen o gyrs yn gymmysgedig â llawer iawn o ddu-glust: ar hyn dwy res o bridd-feini wedi eu hagos gyd-gyssylltu â simmant: ar hyn i gyd, yr oedd dalenau tewion o blwm; ac ar y rhai hyn, yr oedd daear neu bridd yr ardd mor ddwfn, ag i roddi gwraidd digonol i'r coedydd mwyaf, yn nghyd âg amrywiaeth o blanhigion, llysiau, a blodau ereill, hyfryd i'r olwg, a pher eu harogl. Ar y rhodfa uchaf, yr oedd cronfa, yn cael ei llanw gan fath ar beiriant, â dwfr o'r afon, ac o'r hon yr oedd y gerddi ar y rhodfëydd ereill, yn cael eu diwallu â gwlybaniaeth.

Yn y gerddi crogedig hyn, tebygol, yr oedd Nebuchodonozor yn rhodio, ac yn edrych oddi yno ar yr holl ddinas fawr, yn ei holl ogoniant, pan waeddodd, "Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenhindy, yn nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?" Am y geiriau rhyfygus hyn, yr awr honno syrthiodd barn Duw arno, a gyrwyd ef oddi wrth ddynion, i bori gwellt fel eidionau, dros saith mlynedd, hyd oni thyfodd ei flew fel plu eryrod, a'i ewinedd fel ewinedd adar, Dan. iv. 30, &c.

Caniatteir yn gyffredin mai Nimrod, brenin cyntaf Babilon, ac, ysgatfydd, yn y byd, oedd sylfaenydd y ddinas fawr hon. Dywedir i Belus, yr hwn a wneir gan rai yn gydoeswr â Samgar, barnwr Israel, a'r Frenhines Semiramis, chwanegu at ei maintioli, a'i haddurno: ond Nebuchodonozor, neu efe a Nitocris ei ferch-yn-nghyfraith, a'i gorphenodd, ac a'i gwnaeth yn un o ryfeddodau y byd. Yr oedd trigolion Babilon, a'r lleoedd cyfagos, yn dra ysgafngred, coel-grefyddol, anllad, a llygredig; rhieni a gwyr a gynnygent ddiweirdeb eu merched a'u gwragedd ar werth: nid oedd eu benywod yn cadw y cysgod lleiaf bron o wylder; ond ymddangosent yn gwbl noeth yn gyhoeddus mewn cymmanfaoedd. Yr oeddynt yn rhwym, unwaith yn eu hoes, i ymwerthu i ddyeithriaid i wneuthur putteindra, o anrhydedd i'w duwies Sucoth-benoth. Eilunod ereill y Babiloniaid oeddynt Bel, Nebo, Sesac, Nergal, Merodac, a'r Tân; ac oddi yma yr ymddengys i'r eilunaddoliaeth, a fu mor ffyniannol yn mhob lle, gael ei ddechreuad. Yr oedd y Babiloniaid yn honni medrusrwydd mawr mewn dewiniaeth, brudiaeth, a swynyddiaeth, Dan. ii. 2. a'r iv. 7. a'r v. 7. Esa. xlvii. 12. Oddi yma yr ymdaenodd y wybodaeth ffugiol hon i Canaan, Esa. ii. 6, os nid i'r Aipht. Ar ol marwolaeth Nimrod, bu Amraphel, yr hwn oedd mewn cyughrair â Cedorlaomer, os nid dan deyrnged iddo, yn frenin yn Sinar, lle y safai Babilon. Yn hir wedi hyn y teyrnasodd Belus, yr hwn, fel y tybir, oedd yr un â Pul, brenin Assyria. Ymddengys iddo ef adael Babilon i Baladan, Belesis, neu Nabonassar, ei fab ieuangaf; ac fel hyn y mwynhaodd ei fab Merodac, a'i ganlynwyr ereill, eu llywodraeth, trwy oddefiad y gangen henaf o'r teulu hwnw, yr hon a deyrnasodd yn Assyria, ac a estynodd ei buddugoliaethau. Modd bynag, rhai a feddyliant nad oedd Baladan yn frawd i Tiglath Pileser, ond gwrthryfelwr i'w erbyn. O ddeutu A.M. 3323, cymmerodd Esarhadon brenin Assyria, naill ai o ddiffyg etifeddion gwrryw aidd iddi, neu trwy drais, feddiant o frenin iaeth Babilon. Gwedi iddo ef a'i hiliogaeth ei chadw am yn nghylch triugain mlynedd, gwrthryfelodd Nabopolassar, o deulu Baladan hwyrach, a gosododd ei hun ar yr orsedd. Efe, yn nghyd â Cyaxares y Mediad, a ddechreuasant ddymchweliad amherodraeth Assyria, a'i fab Nebuchodonozor a'i gorphenodd. Y diweddaf hwn a ddygodd amherodraeth Babilon i uchder ei gogoniant. Estynodd ei fuddugoliaethau o Media, o

du y gogledd-ddwyrain, hyd Ethiopia tu hwnt i'r Aipht, o du y deheuorllewin, gan gynnwys brenhiniaethau Assyria, Persia, Syria, Phenicia, Canaan, Arabia Ogleddol, Idumea, yr Aipht, &c. Jer. xxv. xxvii, xlvi, xlvii, xlviii, a'r xlix. Ar ol ei farwolaeth, dechreuodd amherodraeth Babilon ddihoeni i ddinystr. Efil-Merodac ei fab a'i canlynodd ef. Neriglissoror, mab-yn-nghyfraith i Nebuchodonozor, a'i lladdodd ef; a theyrnasodd ef a'i blentyn Laboroscard dros ychydig flyneddoedd; ac wedi lladd y diweddaf, esgynodd Belsazzar, wyr Nebuchodonozor trwy Efil-Merodac, i'r orsedd; dan yr hwn, wedi rhyfel hir â'r Mediaid a'r Persiaid, yr ynnillwyd Babilon yn ddichellgar dan Cyrus; y gwnaed anrhaith a llofruddiaeth arswydus ynddi; ac y torwyd yr holl deulu breninol ymaith mewn modd gwarthus, A. M. 3468.

Yn nghylch 15 mlynedd wedi hyn, y Babiloniaid, wedi ymgynddeiriogi o herwydd fod y preswylfod breninol yn cael ei drosglwyddo i Susan yn Persia, ac o achos gorthrymiadau ereill, ffugiol neu wirioneddol, a barotoisant i wrthryfela; ac ar ol pedair blynedd o ddarpariaeth, addefasant eu gwrthryfel ar gyhoedd. Arweiniodd Darius Hystaspis, brenin Persia, lu nerthol i'w darostwng. Gan ymddiried i'w muriau, cauasant eu hunain i fynu yn eu dinas, lle y pentyrasent helaethrwydd mawr o luniaeth; ac fel na byddai i hwn gael ei dreulio gan eneuau did-lefnydd, casglasant eu hên wyr, eu gwragedd a'u plant, a llindagasant bob un anghymhwys i arfau, oddi eithr un anwyl wraig a morwyn i bob teulu. Gwedi bod Darius yn amgylchynu y ddinas am ddwy flynedd bron, ond yn ddiliwyddiant, torrodd Zopyrus, un o'i dywysogion, ei drwyn ei hun ymaith, ac anafodd ei wyneb, gan gymmeryd arno fod hyn oll wedi cael ei wneud iddo trwy orchymyn Darius, am lefaru o blaid y Babiloniaid, ffodd drosodd attynt hwy, a derbyniwyd ef yn ewyllysgar; a chwynodd mor chwerw yn erbyn creulondeb Darius, fel y gwnaethant ef yn gadben ar rai o'u byddinoedd, ac o'r diwedd yn llywodraethwr eu dinas. Hon, ar y cyfleusdra cyntaf, a ddadodod efe yn fradwrus i'w feistr; yr hwn, i wobrwyo ei ystyriw llwyddiannus, a'i ilwythodd ef âg anrhydedd a golud. Cospwyd tair mil o'r prif wrthryfelwyr yn llym trwy yrru polion drwy eu cyrph: darostyngwyd muriau y ddinas un rhan o dair neu bedair o'u huchder blaenorol; a dygwyd y pyrth pres ymaith. Yn nghylch 40 mlynedd wedi hyn, anrheithiodd Xerxes demlau, a distrywiodd eilunod Babilon. Pan oedd Alexander yma, yn nghylch A. M. 3672, yr oedd Babilon fyth yn helaeth a goludog, a bwriadodd ef ei hadferu i'w dysgleirdeb gynt, a'i gwneuthur yn eisteddle ei amherodraeth; ond yn fuan ar ol hyn, wedi i Seleucus Nicator ddyhysbyddu yn nghylch 500,000 o ddynion o honi, i boblogi ei ddinas newydd Seleucia, yr hon oedd yn gorwedd 40 milltir i'r gogledd, dihoenodd yn raddol i anialwch. Yn nghylch A. M. 3870, anrheithiodd un o freninoedd Parthia hi yn greulawn, a dinystriodd ran o honi. Yn amser Curtius, yr oedd wedi ei darostwng i un rhan o bedair. Yr afon Euphrates, gan newid ei rhedfa, a drodd ran o honi yn forfa, neu lyn sefydlog o ddwfr. O ddeutu amser marwolaeth ein Hiachawdwr, yr oedd yn gwbl anghyfannedd; cyn pen 400 mlynedd wedi hyn, yr oedd y fan lle y safai y ddinas oddiog hon, yn faes hela i freninoedd Persia. Oddi wrth hanesion *Rawolf* (Almaenwr a fu yno yn y flwyddyn 1574) *De la Valle* (Rhufeinwr a fu yno yn 1616) a *Hanway* (gwr bonedig o Loegr a fu yno yn y ganrif ddiweddaf) bysbysir i ni, ei bod yn awr, ac am oesoedd a aethant heibio, mor anial, fel y mae yn anhawdd dywedyd pa le y safai; ac fod y lle a bennodir iddi mor llawn o fwystfilod, a chreaduriaid gwenwynig ac alaethus ereill, fel na faidd un neshau atto, ond yn ystod dau fis oer y gauaf, Esa. xiii. xiv, xxi, xlvi, a'r xlvii. Jer. l, a li. Wrth ddarllen ei hanes, ac edrych arni yn ei holl ogoniant a'i chadernid, pwy a allasai ddychymygu y buasai byth yn cael ei hollol ddyddymu. Gallasai hi, os gallasai neb, ddywedyd, 'Byth y byddaf arglwyddes; myfi sydd, ac nid neb arall ond myfi: nid eisteddaf yn weddw, ac ni chaf wybod beth yw dieppildedd.'

3. *Babilon*, neu *Babilonia* oedd

hefyd enw y wlad o amgylch y ddinas enwog hon; ac weithiau gelwid hi Caldea; yn awr gelwir hi Irac, Salm cxxxvii. 1 Derbyniwyd Cristionogrwydd yn fore iawn yma gan yr Iuddewon ac ereill. Oddi yma yr ysgrifenodd yr apostol Petr un, os nid ei ddau epistol, at ei frodyr gwasgaredig yn Judea; yn y wlad hon y bu gan yr Iuddewon, wedi dinystr eu prif-ddinas, synagogau enwog, a chan un o Rabbiau neu athrawon pa rai y cyfansoddwyd eu Talmud mawr, a elwir *Talmud Babilon*, Sal. lxxxvii. 4. 1 Petr v. 13. Yr oedd y dalaeth hon yn cynnwys dinasoedd Babilon, Fologesocerta, Borsippa, Idiceara, Coche, Sura, a Pombeditha.

4. Y mae Rhufain babaidd yn cael ei galw *Babilon*, i nodi yr eiliunaddoliaeth, coel-grefydd, aflendid, golud cam-ddefnyddiedig, a'r erlidigaethau gwaedlyd yn erbyn pobl Duw, sydd yn cymmeryd lle yn y wladwriaeth Anghristaidd, Dad. xiv. 8. xvii. a'r xviii.

BACA, lle ar y ffordd i Jerusalem; yn cael ei alw felly oddi wrth yr helaethrwydd o *forwydd* neu *helyg wylofus* oedd yn tyfu ynddo. Ni chyfarfyddwn â'r gair ond unwaith yn yr ysgrythyr, sef yn Salm lxxxiv. 6. lle y gellir ei ystyried fel yn cyfeirio at ddyffryn *Rephaim*, lle yr oedd yr Iuddewon, yn eu teithiau i'w gwyliau arbenig yn Jerusalem, yn aros i ddiluddedu eu hunain, o herwydd ei fod mor gysgodfawr, a bod ynddo hefyd amledd o ffynnonau dwfr. Gellir darllain y testun yn gywir fel hyn, "Y rhai yn myned trwy ddyffryn *Baca*, a'i gwnant *ef* (sef yr Arglwydd) yn ffynnon," ac ni ddichon dim ddarlunio yn fwy prydferth y cysur, adfywiad, a'r cynnaliaeth, yr hwn a gâ "y dynion sydd â'u cadernid yn yr Arglwydd," (gwel adn. 5.) yn Nuw Jacob.

BACH—AU, offeryn cam i grogi pethau wrtho, ac i ddal pysgod, Math. xvii. 27. Yn allegol, gelwir gallu attaliol Duw, a'i drefniadau rhagluniaethol a'i farnedigaethau yn *fachau pysgotta*, o herwydd y gall trwyddynt rwystro pechaduriaid yn eu hamcanion drygionus, a pheri iddynt weithredu ac ymsymmud fel y gwelo efe yn dda, Esa. xxxvii. 29. Ezec. xxxviii. 4. Gall fod *bachau* a dolenau y tabernacl, yn dynodi y cyssylltiadau sydd rhwng rhagoriaethau Iesu, ac hefyd yr ordinhadau, y rhai ydynt yn cyfrwymo amrywiol aelodau yr eglwys, Exod. xxvii. 10. Onid yw y *bachau*, i grogi wrthynt gig yr offrymau, yn arwyddocau ordinhadau yr efengyl, fel yn arddangos Pryniawdwr croeshoeliedig i'n henaid? Ezec. xl. 43.

BACHELL—U, *(bach)* maglu, rhwydo. "Y rhai a twriadasant *fachellu* fy nhraed," Salm cxl. 4. Ystyr priodol y gair *Heb.* a gyfieithir *bachellu*, yw *gwthio, bwrw i lawr, bwrw allan.* Yr oedd gelynion y Psalmydd am ei ddisodli, ei fwrw i lawr, neu attal ei gerddediad, trwy ei rwydo a'i faglu. O blegyd hyn, mae yn derchafu ei enaid at yr Arglwydd mewn deisyfiadau taerion, am iddo ei gadw.

BACHGEN, *(bach-cen,* croen, tonnen) mab ieuanc, llanc, herlod. "*Bachgen* a aned i ni," Esa. ix. 6. "*Bachgen* bychan a'u harwain," Esa xi. 6. Y mae yn dra thebygol mai yr un Person a feddylir yn y ddau le, sef, yr Arglwydd Iesu. O ran ei Berson rhyfeddol, y mae yn *fachgen*, ac yn Dduw cadarn; o ran ei swydd, y mae yn frenin, a'r llywodraeth ar ei ysgwydd. Dyben penaf ei lywodraeth, yw darostwng a gwareiddio pechaduriaid gwyllion, penrhydd, creulawn, a'u gwneuthur yn ufudd iddo. Gwedi eu doñ a'u llarieiddio trwy yr efengyl, y maent yn cymmeryd eu harwain ganddo gerllaw y dyfroedd tawel, ac ar hyd lwybrau cyfnawnder, Salm xxiii. 1, 2. Dyfod fel *bachgenyn*, neu fod fel *plentyn wedi ei ddiddyfnu*, yw bod yn ostyngedig, yn hawdd ein dysgu, yn rhyddion oddi wrth falais a chenfigen, ac wedi ein diddyfnu yn ein serchiadau oddi wrth ewyniant cnawdol y byd hwn, Math. xviii. 3, 4. Salm cxxxi. 1, 2. *Y bachgen a fydd marw yn fab canmlwydd.* Yn y mil blyneddoedd dedwydd, ychydig a fyddant feirw o farwolaethau dirsyfyd; a meddianna y plant a fyddant feirw mewn ieuengctid, gymmaint o wybodaeth a phrofiad o bethau dwyfol, a llawer o rai a fuant byw, mewn amseroedd ereill, hyd nes oeddynt yn hên iawn, Esa. lxv. 20.

BAEDD. *(aedd,* twrf, trwst) mochyn gwrryw heb ei ddyspaddu, aflan wrth y gyfraith. Y mae y

rhywogaeth wyllt o honynt yn dra ffyrnig, gwangcus, a dialgar. Y *baedd gwyllt* o'r coed, yr hwn oedd yn turio gwinllan Duw, oedd y Philistiaid a'r Syriaid; neu, yn hytrach, yr Assyriaid, y Caldeaid, a'r Rhufeiniaid, y rhai, trwy ffyrnigrwydd a chreulondeb mawr, a ddinystriasant yr Iuddewon, Salm lxxx. 13.

BAGLOG, *(bagl)* ffon-faglog, tud-fachog. "A hen esgidiau *baglog* am eu traed," Jos. ix. 5. Yn ol y *Saes. Old shoes and clouted.* Anhawdd yw deall pa fath esgidiau yw *esgidiau baglog:* oni fuasai *clytiog* yn well cyfieithiad? canys hyny yw ystyr priodol y gair *Heb.*

BAHURIM *(dewisol)* dinas yn perthynu i'r Benjaminiaid, o ddeutu milltir, neu hwyrach encyd yn rhagor, o du y gogledd-ddwyrain i Jerusalem. Dywedir mai yr un oedd hi âg Almon; ond dilys yw, mai cyn belled â hyn yr hebryngodd Phaltiel Michal ei wraig yn ei dychweliad at Dafydd ei gwr cyntaf, 2 Sam. iii. 16. Daeth Dafydd heibio iddi yn ei fföad, pan aeth Absalom ei fab gwrthryfelgar i mewn i Jerusalem, a melldigwyd ef yn echryslawn gan Simei, un o'r trigolion; ac yma yr ymguddiodd Ahimaas a Jonathan mewn pydew, pan oeddynt yn dwyn hysbysrwydd i Dafydd, 2 Sam. xvi. 5, a'r xvii. 18. Gelwir y ddinas hon, hefyd, Bochar, Bochara, Choraba, a Choramon.

BAI. (1.) Trosedd, camwedd, Gen. xli. 9. (2.) Diffyg, 1 Cor. vi. 7. "Nid wyf yn cael dim *bai* ar y dyn hwn," Luc xxiii. 4, 15. Ioan xix. 4, 6. Er ystyried pob peth a allent ddwyn yn ei erbyn, a'i holi yn fanwl, ni chafodd ddim cyhuddiad wedi ei wneuthur yn dda, trwy brawf eglur, na dim achos ynddo yn haeddu dyoddef, ac yn enwedig dyoddef angau. Y mae y geiriau yn cynnwys tystiolaeth Pilat, drachefn a thrachefn, am ddiniweidrwydd Crist. Nid am ei feiau ei hun y dyoddefodd, ond dros ein pechodau ni; "y cyfiawn dros yr anghyfiawn," 1 Petr ii. 22. Yr oedd y cyfammod cyntaf yn *feius*, am nad allai *berffeithio* yr addolwyr. O herwydd anmhossibl yw i waed teirw a geifr, &c. gymmeryd ymaith bechod, Heb. viii. 7. Gosodir tyrfa y gwaredigion yn *ddifeius* ger bron Duw, wedi eu golchi yn ngwaed gwerthfawr Crist oddi wrth eu holl halogrwydd, Judas 24.

BAICH, BEICHIAU, pwn, llwyth, clud.

'Nid *baich* ond *baich* o bechod,
Yn y farn gwae ddyn o'i fod.'
D. M.

"A'm *baich* sydd ysgafn," Math. xi. 30. *Baich* Crist yw ei holl wasanaeth; y gorchymynion a'r athrawiaethau a ddysgodd; pob peth perthynol i ufudd-dod iddo, fel athraw, ac fel brenin. Ystyr y geiriau yw, Fy athrawiaeth sydd esmwyth, a fy ngorchymynion ydynt hyfryd a thirion, nid yn debyg i seremoniau deddf Moses, neu draddodiadau eich dysgawdwyr chwi, y rhai ydynt yn rhwymo beichiau trymion, ac yn eu dodi ar ysgwyddau dynion. Y mae baich Crist yn ysgafn ynddo ei hun, ac yn marn pawb sydd yn ei ddwyn. Nid ydyw yn drwm ond i bechaduriaid llygredig, i'r rhai y mae pob peth sanctaidd yn faich, o herwydd halogedigaeth eu meddwl. Er cyfarfod â chystuddiau wrth ei ganlyn ef, fe wyr ei wir ddysgyblion sydd wedi cynnefino â'r baich, fod ei ffyrdd ef yn ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau yn llwybrau heddwch. Mae Satan yn ceisio taflu gorchudd dros grefydd i aflunieiddio ei phrydferthwch, ond y mae yr Iesu bendigedig am chwalu y fath ofnau a chamdybiau.

BAITH, *(tŷ)* teml, neu ddinas lle yr oedd un, yn ngwlad Moab, i'r hon yr aeth y brenin i fynu yn aflwyddiannus i alaru am gyflwr ei genedl, ac i erfyn cynnorthwy ei eilur yn erbyn y gorescynwyr Assyriaidd, Esa. xv. 2. Tebygol mai yr un oedd hi â Baal-meon.

BALAAM, *(distrywiwr y bobl)* prophwyd enwog, neu ddewin, o ddinas Pethor ar lan yr Euphrates, a mab Beor neu Bosor. Geilw Petr enw ei dad Bosor, yr un dyn, ond fod enwau gwahanol iddo; neu swn gwahanol yn cael ei roddi i'r un llythyrenau mewn amrywiol ieithoedd. Y mae ei hanes fel ei coffeir yn yr ysgrythyr, wedi bod yn achlysur o lawer o ddadleuaeth; ac y mae y gofyniad, Pa un ai prophwyd yr Arglwydd oedd Balaam, neu swynwr yn unig, galluoedd yr hwn oeddynt wedi cael eu dechreuad oddi wrth Satan? yn aros etto heb ei ben-

derfynu yn mysg y dysgedigion. Ar y naill du, sylwir, ei fod, yn 2 Petr ii. 14, 15, yn cael ei alw yn *broph-wyd*; geilw ef ei hun Dduw Israel, Yr *Arglwydd* fy Nuw, Num. xxii. 18, Mor uchel oedd ei gymmeriad, fel y mae Balac yn cymmell ei gen-nadwri, gan ddywedyd, "Mi a wn mai bendigedig fydd yr hwn a fen-dithiech di, a melldigedig fydd yr hwn a felldithiech," Num. xxii. 6. Y mae y dull yn mha un y llefarodd Duw wrtho ef, yn ymddangos fel pe buasai yn adnabyddus o, ac yn gyn-nefin â'r cyfryw ddadguddiadau; gwnaed amlygiadau tra phwysig iddo; ac yn ddiweddaf, wrth yr hyn a ddywed Petr a Judas am dano, ys-tyriant ef fel gwrthgiliwr oddi wrth y gwirionedd, ac nid yn ddyeithr iddo. Ar y tu arall, sylwir, nad oedd efe yn perthyn i Israel, yn mhlith pa rai yr oedd y wybodaeth am y gwir Dduw, mewn mesur mawr, wedi ei chyfyngu. Iddo ddyfod o Aram neu Mesopotamia, allan o fynyddoedd y dwyrain, gwlad enwog am swynwyr a dewiniaid, Esa. ii. 6. Fod ei drefn o addoli yn wrthwyneb i ddeddf Moses; adeilad-odd saith allor, Num. xxiii. 1, 2, ac aeth i gyrchu dewiniaeth, Num. xxiv. 1; a gelwir ef yn bendant yn *ddewin*, Jos. xiii. 22. Barned y darllenydd drosto ei hunan. Y mae yn ddigon amlwg, nad oedd y wybodaeth am y gwir Dduw wedi ei chyfyngu i'r Iu-ddewon; dadguddiodd ei hun i Abi-melec, Gen. xx; i Pharaoh, Gen. xli; ac i Nebuchodonozor, Dan. ii. Pa fath iaith hynod a gawn yn llyfr Job! Y prif ddygwyddiadau a gry-bwyllir mewn perthynas iddo ydynt y canlynol: Brenin Moab a henur-iaid Midian, wedi eu dychrynu gan ymddangosiad a gweithredoedd nerthol yr Israeliaid, ac yn chwen-nych rhwystro eu taith, a anfonasant gennadau at Balaam, gan addaw gwobr gwerthfawr iddo, os deuai a melldithio yr Hebreaid; yr hyn, go-beithient, a roddai iddynt fuddugol-iaeth esmwyth arnynt. Yr oedd yn arferiad cyffredin iawn, yn mysg cenedloedd yr hen oesoedd, i ddio-frydu eu gelynion i ddinystr ar dde-chreu eu rhyfeloedd. Yr oedd gan, hyd yn nod, y Rhufeiniaid swyddog-ion cyhoeddus wedi eu gosod i gyf-lawni y ddefod hon; ac y mae ffurf eu melldithio fyth yn nghadw; gwel *Macrobii Saturnalia Llyfr* iii. *pen* 9. Y mae genym sail dda i ddywed-yd fod cybydd-dod yn chwant llyw-odraethol gydag ef, Judas xi. 2 Petr ii. 15. Yn awyddus i gydsynio, dy-munodd ar gennadau Balac i lettya gydag ef y noswaith honno, gan ym-drechu, os oedd modd, gwasanaethu Duw a Mammon. Efe, modd bynag, a'u gollyngodd hwy ymaith, o blegyd i'r Arglwydd nacâu gadael iddo fyned gyda hwynt. Balac, yn fwy pryderus fyth, a anfonodd dywysog-ion ereill a mwy anrhydeddus, chwa-negodd ei addewidion, ac erfyniodd na byddai i ddim luddias ei ddyfod-iad. Cadwodd Balaam ei ymadrodd-ion teg. "Pe rhoddai Balac i mi ar-ian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn fyned dros air yr Arglwydd fy Nuw i wneud na bychan na mawr." Eithr chwen-nychid gwobr anghyfiawnder ganddo yn ddifrifol; am hyny efe a chwanega, "arhoswch yma, *attolwg*, y nos hon, fel y caffwyf wybod beth a ddy-wed yr Arglwydd wrthyf yn ychwa-neg." Ymddangosodd Duw iddo liw nos, a chaniattaodd iddo fyned, os byddai y cennadau yn daer arno; ond sicrhaodd iddo, fod yn rhaid iddo fendithio neu felldithio y bobl hyny yn gymhwys fel y cyfarwyddai efe ef.

Heb aros am unrhyw wahoddiad yn mhellach, cododd Balaam yn fore dranoeth, a marchogodd ymaith gyd â'r cennadau. I gospi ei gybydd-dod cynddeiriog, safodd angel yr Argl-wydd ar ei ffordd, â chleddyf noeth yn ei law. Ni chanfu efe yr angel, eithr ei asen a wnaeth, ac a giliodd o'r neilldu: tarawodd Balaam hi i'w throi yn ol drachefn i'r ffordd. Sym-mudodd yr angel i le rhwng dwy winllan, rhedodd yr asen rhag ofn, yn erbyn y fagwyr, ac a wasgodd droed ei meistr. Yna gosododd yr angel ei hun mewn lle cyfyngach fyth; gorweddodd yr asen dano rhag ofn, ac ni feiddiodd fyned yn mlaen. Ennynodd llid Balaam wrth hyn, a churodd hi yn aunhrugarog. Yn y cyfamser, cymhwysodd yr Arglwydd yr asen yn wyrthiol i'w geryddu am ei ynfydrwydd a'i greulondeb, pan y gallasai efe ddychymygu yn hawdd fod ganddi ryw reswm anghyffredin am ei hymddygiad. Yn ddiattreg, amlygodd y Jehofah ei hun iddo â'i gleddyf noeth; ceryddodd ef am ei

gamwedd i'w anifel; a sicrhaodd iddo, oni buasai iddi hi gilio o'r neilldu, y trengasai efe yn awr yn ei fordd gyfeiliornus. Cyfaddefodd Balaam ei euogrwydd, ac yn anewyllysgar cynnygodd ddychwelyd adref. Caniattawyd iddo fyned rhagddo ar ei daith, ar yr ammod iddo gymmeryd gofal i beidio llefaru dim ond fel y cyfarwyddai Duw ef. Tra yn gadael y darllenydd, fel y crybwyllwyd eisioes, i farnu drosto ei hun, mewn gofyniad a chymmaint dadl yn ei gylch â chymmeriad Balaam, byddem yn feius trwy beidio crybwyll, mai, os *dewin* yn unig oedd, Pa fodd y bu i Dduw lefaru wrth, a thrwy Balaam? Gwnaeth y swynwyr eu heithaf yn yr Aipht; ond ni roddodd y Nefoedd hwy erioed ar waith i brophwydo: os *dewin* yn unig oedd, ni byddai ei waith yn caru gwobr anghyfiawnder yn rhybudd mor bynod i eglwys Duw. Y mae gwaith yr asen yn llefaru wedi bod yn drysorfa helaeth o watwar-gerdd i'r anghredadyn: y mae genym atteb sylweddol i hyn: "Cafodd Balaam gerydd am ei gamwedd; asen fud yn dyweud â llef ddynol, a waharddodd ynfydrwydd y prophwyd." Nid oedd y wyrth yn afreidiol, (medd *Esgob Newton*,) gan ei bod yn egiur ddangos, i'r un gallu dwyfol, yr hwn a barodd i'r asen fud lefaru, gymhell Balaam i draethu bendithion yn wrthwyneb i'w dueddiad.

Balac, wedi mynegu iddo am ddynesiad Balaam, a aeth i'w gyfarfod hyd gyrrau eithaf ei deyrnas; ac a'i beiodd yn garedig am beidio dyfod ar y gwahoddiad cyntaf. Esgusododd ei hun o herwydd yr attaliad dwyfol yr oedd efe dano. Arweiniodd Balac ef i Ciriath-huzoth ei brif-ddinas, ac a'i croesawodd yno â gwledd arderchog. Tranoeth tywysodd ef i ben bryn cyfagos, cyssegredig i'r eilun Baal, fel y gwelai oddi yno wersyll yr Hebreaid. I'r dyben i gael caniattâd gan Dduw i'w meilldithio hwy, dymunodd Balaam ar Balac adeiladu saith allor, ac offrymu bustach a hwrdd ar bob un. Ufuddhawyd i'w orchymyn yn ddiattreg. Tra yr oedd Balac yn sefyll wrth ei offrwm, aeth Balaam o'r neilldu i gyrchu dewiniaeth. Ysbrydolwyd ef gan Dduw â'r gennadwri anghroesawus hon, mai, yn ofer, y cyrchasid ef o'r dwyrain i regu yr Israeliaid, y rhai ni felldithiasai Duw; ac mai hwy fyddai anwyliaid lluosog a neilldu oly Nefoedd. Wrth draethu hyn, dymunodd i'w farwolaeth ei hun a'i biliogaeth fod yn gyffelyb i eiddo Jacob.

Y sail fawr i aumheuaeth mewn perthynas i gymmeriad Balaam yw ei ddull o addoli, yr hwn, pen. xxiv. 1, a elwir yn gyrchu dewiniaeth; ac y mae tu hwnt i bob dadl fod ei holl ymddygiad yn *fyned ar gyfeiliorn*. Geilw Petr ei ganlynwyr yn "blant y felldith, ac wedi gadael y ffordd uniawn:" ac, am hyny, er mai tebygol yw ei fod unwaith wedi bod yn brophwyd yr Arglwydd, ac iddo lefaru trwy ei ysbrydoliaeth, etto, wedi ei lithio gan gybydd-dod, cyrchodd at ddewiniaeth i ryngu bodd Balac, mewn gobaith am anrhydedd, os nid i gyflawni ei amcanion.

Tristâodd Balac yn fawr yn ei galon, ond gobeithiodd y gwnai cyfnewidiad lle a golygfa, beri gwell llwyddiant. Dygodd Balaam i ben Pisga, lle nid allai weled ond rhan o wersyll yr Hebreaid. Gwedi adeiladu saith allor, ac offrymu bustach a hwrdd ar bob un, aeth o'r neilldu drachefn i geisio rhyw swyn yn eu herbyn hwy. Cyfarfu Duw âg ef, a gorchymynodd iddo ddychwelyd i ddywedyd i Balac fod y Jehofah anghyfnewidiol a hollalluog wedi bendithio yr Hebreaid; ei fod wedi madden eu hanwireddi: wedi ymhyfrydu ynddynt; ei fod wedi eu dwyn allan o'r Aipht trwy wyrthiau; ac y nerthai hwynt, fel llewod, i ysglyfaethu eu gelynion, a chymmeryd gafael ar eu meddiannau. Balac, wedi anfoddloni wrth hyn, a erfyniodd arno, o leiaf, ymattal oddi wrth eu bendithio. Yntau a sicrhaodd iddo, bod Duw yn ei gymhell i weithredu fel y gwnaethai.

A'i fryd fyth ar felldithio Israel, cydunasant eill dau i wneuthur trydydd prawf. Ar ben Peor adeiladwyd saith allor ereill, ac offrymwyd bustach a hwrdd ar bob un. Gwedi ei lunıaethu gan Dduw, peidiodd Balaam a myned i gyrchu dewiniaeth, megys o'r blaen, ond gosododd ei wyneb tua phebyll yr Hebreaid, a chanmolodd drefn hyfryd eu gwersylloedd; rhagfynegodd y deuent yn genedl gref a blodeuog, yn mhell uwchlaw pob gelyn; y byddai eu

bendithwyr a'u noddwyr yn fendigedig; a'u melldithwyr a'u caseion yn felldigedig a dinystriedig. Balac, wedi ennynu gan ddigofaint, a orchymynodd iddo ffoi adref i'w wlad ei hun, gan ei fod, trwy ymlynu wrth yr hysbysiadau dwyfol, wedi ei sarhau ef, ac amddifadu ei hun o anrhydedd a golud. Attebodd Balaam iddo ef, ar y cyntaf oll, ddywedyd wrth y cennadau a anfonasid atto, nad allai efe wneuthur dim odd fel y caniattäai Duw iddo. Ychwanegodd, y byddai i dywysog o'r Hebreaid, mewn oesoedd a ddeuent, ddarostwng gwlad Moab; y byddai i Fessiah o'r Hebreaid, a nodid ar ei enedigaeth gan seren, ddarostwng y byd i ufudd-dod ffydd; y dinystrid Edom a Seir, pan y gwnai yr Hebreaid rymusder; y byddai i Amalec, pa mor nerthol bynag oeddynt yn bresennol, o herwydd eu camweddau i'r bobl hyny, ddarfod am danynt byth; y byddai i'r Ceneaid, er eu hanneddiad manteisiol yn mysg creigiau, ar ol amryw orthrymderau, gael eu caethiwo i Assyria; y byddai i'r Groegiaid o Macedonia, a'r Rhufeiniaid o'r Eidal, gymmeryd meddiant o Assyria a'i buddugoliaethau; ac yn y diwedd, darfyddai am danynt eu hunain byth.

Sylwyd yn uniawn i'r hyn a fethodd Balaam wneud fel prophwyd, gael ei gyflawni ganddo fel un medrus mewn matterion gwladwriaethol. Addysgodd Balac i fwrw tramgwydd o flaen meibion Israel, i fwytta pethau wedi eu haberthu i eilunod, ac i wneuthur godineb. Wrth ei awgrym ef, aeth merched Moab i mewn i blith Israel, a syrthiodd o'r bobl bedair mil ar hugain mewn un dydd. Mewn rhyfel wedi hyny â'r Midianiaid, bu farw Balaam, trwy syrthio i bydew a gloddiasai efe i ereill, Num. xxii. 25. Deut. xxiii. 4, 5. Jos. xiii. 22, a'r xxiv. 9. Neh. xiii. 2.

Er nad yw yn hollol gydweddol â'n cynllun, etto ni byddai yn anghymmwys i ddiweddu y pen hwn gyd âg ychydig nodau oddi wrth Esgob *Newton*, ar y rhagymadrodd i drydedd prophwydoliaeth Balaam, Num. xxiv. 4, a'r 16, yr hwn sydd wedi cael ei gam-ddeall yn fawr, yn benaf, trwy anghywirdeb y cyfeithiad Cymrëig a Saesneg. Geilw Mr. *Brown* ef yn rhagymadrodd coeg-falch.

Y mae Balaam yn arwain ei brophwydoliaethau diweddaf i mewn gyda'r rhagymadrodd hynod, "Balaam mab Beor a ddywed, a'r gwr a agorwyd ei lygaid a ddywedodd; Gwrandawydd geiriau Duw a ddywedodd, yr hwn a welodd weledigaeth yr Hollalluog, yr hwn a syrthiodd, ac yr agorwyd ei lygaid," adn. 3, 4. a'r 15, 16. Yr hwn sydd wedi peri llawer o ddyryswch a chymmysgedd, eithr y geiriau wedi eu cyfeithu yn iawn a oddefant ddehongliad esmwyth. "Balaam mab Beor a ddywed, a'r gwr a agorwyd ei lygaid a ddywedodd:" Dylent fod *a'r gwr oedd lygad-gauad:* o herwydd ni arferir y gair *shatam* ond yma, ac yn Galarnad, iii. 8, ac yno arwydda *cau;* ac y mae y gair *satam*, yr hwn sydd yn perthyn yn agos iawn iddo, tybiwn, a'r ystyr hwnw iddo bob amser. Cyfeitha St. *Jerome* ef, *cujus obturatus est oculus:* ac ar ymyl dalen ein Beiblau ni fe'i cyfeithir *yr hwn oedd lygad-gauad.* Cyfeiria yn eglur at waith Balaam yn methu canfod angel yr Arglwydd yn yr un amser ag y gwelodd yr asen ef. "Gwrandawydd geiriau Duw a ddywedodd, yr hwn a welodd weledigaeth yr Hollalluog;" o herwydd darllenwn amryw weithiau yn yr hanes hwn, i "Dduw gyfarfod â Balaam a dywedyd wrtho;" a dichon ei fod yn cyfeirio at ddaddguddiedigaethau blaenorol, "yr hwn a syrthiodd i *lewyg*, ac a agorwyd ei lygaid," ydyw yn ol y Saesoneg: ond ni chrybwyllir am *lewyg* yn yr iaith wreiddiol; dylid cyfeithu y lle fel y mae yn y Gymraeg, *yr hwn a syrthiodd, ac yr agorwyd ei ïygaid*, gan gyfeirio at yr hyn a ddygwyddodd ar y ffordd, ar waith Balaam yn syrthio pan orweddodd ei asen dano, ac yna yn cael agoryd ei lygaid: "A phan welodd yr asen angel yr Arglwydd, hi a orweddodd dan Falaam. Yna yr Arglwydd a agorodd lygaid Balaam, ac efe a welodd angel yr Arglwydd yn sefyll ar y ffordd, â'i gleddyf noeth yn ei law: ac efe a ogwyddodd ei ben, ac a ymgrymodd ar ei wyneb, 22, 27, &c. Bwriedir cyferbyniad rhwng bod ei lygaid yn *gauad*, a bod ei lygaid yn *agored;* y mae y naill yn cyfatteb i'r llall. Amcan y rhagymadrodd hwn oedd i ddeffroi ystyriaeth: ac felly y mae

Balaam yn myned yn mlaen *i fynegu* i Balac *yr hyn a wnai'r bobl hyn i'w bobl ef yn y dyddiau diweddaf.* wrth ba ymadrodd y mae'n meddwl yr amser i ddyfod, bydded ef yn fwy neu lai pell.

BALADAN. Y mae ei enw yn gyfansoddedig o enwau yr eilunod Baal ac Anan, neu Adonis. Yr un yw â Belesis, Belessus, Nanybrus, neu Nabonassar, brenin cyntaf Babilon yn nghanon Ptolemy. Yn ol Diodorus, gwrthgiliodd ef ac Arbaces y Mediad oddi wrth Sardanapalus brenin Assyria, cyfodasant lu o 400,000 o wyr, ac â hwynt dinystriasant Ninefeh ac amherodraeth Assyria. Ond yr ym ni, gyda Syr Isaac Newton, yn credu mai mab Pul brenin Assyria oedd efe, yr hwn a gafodd freniniaeth Babilon fel ei ran a'i etifeddiaeth, ac a ganlynwyd gan ei fab Berodac; ac ymddengys i'w deyrnas fwynhau heddwch âg Assyria hyd deyrnasiad Esarhadon, Esa. xxxix. 1. 2. Bren. xx. 12,

BALCH—DER, *(bal,* uchel) trahaus, mawryddig, ymffrostus. Arwydda, yn (1.) Uchder meddwl wedi ei lenwi â hunan-dyb, dibrisiad o Dduw, a diystyrwch o ddynion, 1 Sam. xvii. 28. Yn (2.) Yr hyn y mae un yn falch o hono, megys awdurdod, golud, ordinhadau eglwysig, a pherthynas â Duw, &c. Esa. xxiii. 9. Zeph. iii. 11. Yn (3.) Dynion y rhai ydynt yn feilchion a thrahaus iawn, fel pe byddent yn llawer mwy rhagorol na'u cymmydogion, Salm xxxvi. 11. Yn (4.) Y golygon a'r geiriau ffrostus, neu y gweithredoedd drygionus, trwy ba rai y maent yn amlygu balchder eu calonau, Hos. v. 5. *Balchder yr Iorddonen a ddifwynwyd;* torwyd y coedydd oeddynt ar ei glanau i lawr i'w defnyddio yn y gwarchae, dinystriwyd y dinasoedd oeddynt gerllaw iddi, a dyfethwyd gogoniant a golud Judea gan y Rhufeiniaid, Zech. xi. 3.

BALM, math o ystor neu sudd gwerthfawr, arogl-ber, a meddyginiaethol, a ddyfera o'r pren balm, yr hwn a drinir yn yr un modd â'r winwydden, ac a dyf mewn amryw leoedd yn Arabia Greigiog; ond balm Canaan yn agos i Engedi, ac yn mynydd Gilead, a gyfrifid y goreu; ac yr oedd y lle diweddaf hwn yn enwog iawn o'i herwydd. Yr Arabiaid a'i gwerthent i'r Aiphtiaid, a'r Iuddewon i'r Tyriaid, Gen. xxxvii. 25. Ezec. xxii. 17. Y mae yn ysgafn iawn pan yn newydd, ac a nofia yn y dwfr, yn mha un y toddir ef. Ei liw ar y cyntaf sydd wynaidd, ac wedi hyny yn wyrdd; ond pan elo yn hên, try yn felyn, yn debyg i fêl. Ei archwaeth sydd chwerw iawn, ac y mae o natur rwymawl. Cyfrifir ef yn ddefnyddiol i rwyddhau esgoriadau meirwon, i beraroglı cyrph meirwon, ac i iachau brathiadau gwenwynig, ac archollion a briwiau peryglus ereill; ond anfynych y ceir balm pur a digymmysg. Cyfrifir nad yw balm Brazil, Hispaen Newydd, ac yn enwedig Peru, nemmawr llai ei rinwedd nag eiddo Gilead gynt.

BANER, *(ban,* uchel, derchafedig) llumman neu liwiau a ddygir yn amser rhyfel i gasglu, cyfarwyddo, gwahaniaethu, a chefnogi y byddinoedd, ac i ddangos eu gwersyllfa. Yn yr anialwch, yr oedd gan bob un o lwythau Israel ei faner neilldуol; ac yr oeddynt yn cael eu byddino drachefn bob yn dri llwyth gwahanredol, dan lumman Judah, Reuben, Ephraim, a Dan, Num. ii. Duw yn *cyfodi baner* i'r Assyriaid, neu ereill, a arwydda ei waith yn eu harwain allan yn rhagluniaethol i geryddu ei bobl, a chospi ei elynion, trwy ryfel a difrod, Esa. v. 26, a'r xviii. 3. Cyfodi arwyddion neu *fanerau* mewn gwlad, a arwydda ddynesiad rhyfel a difrod, Jer. xlvi. 21, a'r l. 2. Crist sydd yn *faner* neu *arwydd;* yn cael ei bregethu i Iuddewon a Chenedloedd, efe yw yr offeryn mawr i'w casglu hwy atto ei hun, a'u gwahaniaethu oddi wrth ereill; efe sydd yn ei cyfarwyddo ac yn eu bywiogi i'w taith ysbrydol, a'u rhyfel â phechod, satan, a'r byd; ac yn eu nerthu i wrthwynebu llygredd ac amryfusedd: ac, am yr un achos, gelwir ef yn *llummanwr,* Esa. lix. 19, a'r xi. 10, a'r xlix. 22, a'r lxii. 12. Can. v. 10. *Heb.* Gelwir cariad Crist yn *faner;* y mae efe, wedi ei dderchafu, yn cynhyrfu ac yn tynnu dynion atto ei hun; ac yn eu cyfarwyddo, eu cefnogi, a'u hamddiffyn yn eu rhyfel ysbrydol, Can. ii. 4. Y mae Duw yn *rhoddi baner i'w bobl, i'w derchafu, o herwydd y gwirionedd,* pan y bydd yn cyflawni ei addewid, yn eu hamddiffyn ac yn

eu gwaredu yn rhyfeddol; neu yn rhoddi iddynt lu nertholi orchfygu eu gelynion. Neu, oni all fod y geiriau yn arddangos Crist y Messiah addawedig, fel diogelwch mawr y genedl Iuddewig? Salm lx. 4. Dinystr llu Sennacherib oedd yn gyffelyb i *lesmair banerwr;* yr oedd yn ddiysmwth iawn, ac mor gyffredinol yn mysg y tywysogion, fel nad oedd bron un yn aros i ddwyn y faner, Esa. x. 18. Yr Iuddewon, yn yr amseroedd hyn, oeddynt fel *baner ar fryn;* yr oeddynt wedi eu darostwng i ychydig iawn o rifedi, ac yn gorfod ffoi i fynyddoedd a bryniau am ddiogelwch, Esa. xxx. 17.

BARA. Yn yr iaith ysgrythyrol, cymmerir y gair hwn am bob math o ymborth angenrheidiol at gynnaliaeth: "Trwy lafur dy wyneb y bwyttâi fara." "Mi a ddygaf dammaid o fara," medd Abraham wrth ei westwyr, "a chryfhewch eich calon." "Os rhydd Duw i mi fara i'w fwytta," medd Jacob, pan wnaeth efe ei addunedyn Bethel. "Gelwch ef fel y bwyttao fara," gwahoddwch ef i ddyfod i fwytta gyda ni, &c. Gelwir y manna yn *fara o'r nef;* Duw wrth ei roddi a ddywed, ei fod *yn porthi ei bobl á bara; ei fodyn rhoddi iddynt ddigonedd o fara,* &c. Yr oedd gan yr hen Hebreaid amrywiol ffyrdd i bobi bara. Pobent ef yn fynych tan y lludw. Dygodd Abraham i'r tri angel, a dderbyniasai efe i'w babell, fara wedi ei bobi ar yr aelwyd: y gair Hebrëig *huggoth,* a arwydda torthau, neu deisenau llydain teneuon ni, y rhai a bobir tan y lludw, neu ar lafnau crynion o elydn wedi eu twymno yn dda; neu mewn pedyll. Gwnaeth yr Hebreaid, ar eu hymadawiad allan o'r Aipht, rai o'r torthau dilefeinllyd hyn erbyn eu taith. Cafodd Elias, yn y ffôedigaeth, deisen wrth ei obenydd, yr hon oedd wedi ei chrasu ar farwor, a phiolaid o ddwfr. Yr un Elias a ddymunodd ar y wraig weddw o Sarepta wneuthur teisen fechan iddo, a'i phobi tan y lludw. Geilw testun Hebrëig llyfr cyntaf y Breninoedd hwy *huggoth,* 1 Bren. xix. 6: a'r prophwyd Hosea a gyffelyba Ephraim i'r *huggoth* hyn, y rhai oeddynt heb eu troi, ond wedi eu pobi ar y naill ochr yn unig. Dywed *Bus-bequius* fod y fath yma o dorthau yn gyffredin iawn yn Bulgaria etto. Gelwir hwy yno *hogaces;* cyn gynted ag y gwelant westwr yn dyfod, y gwragedd yn ddiattreg a wnant y torthau dilefeinllyd hyn, y rhai a bobir tan y lludw, ac a werthir i ddyeithriaid; o herwydd nid oes pobyddion yn y wlad honno.

Y mae yr Arabiaid, a chenedloedd dwyreiniol ereill, yn mysg pa rai y mae coed yn brinion, yn pobi eu bara yn aml rhwng dau dân o dom gwartheg, yr hwn sydd yn llosgi yn araf, ac yn pobi y bara yn bwyllig iawn. Y mae ei fwydion yn dda iawn ei fâs, os bwyttëir ef yn yr un diwrnod ag ei pobwyd; ond ei donnen sydd ddu a llosgedig, ac yn cadw ychydig o arogl y peth a ddefnyddiwyd i'w bobi.

Geill hyn fod yn wasanaethgar i egluro adnod yn Ezeciel, yr hon sydd dra annealladwy i'r cyffredinolrwydd o awduron. Y mae yr Arglwydd yn gorchymyn i'r prophwyd hwn wneuthur toes, cyfansoddedig o wenith, haidd, ffa, ffacbys, milet, a chorbys, ac â hwn wneud teisen, a'i chrasu tan y lludw, a'i gorchuddio â thail tom dyn yn ngwydd yr holl bobl. Gan i'r prophwyd amlygu anewyllysgarwch dirfawr at hyn, caniattaodd Duw iddo i'w gorchuddio hi â biswail gwarthieg yn lle tom dyn. Nid ydym iddychymygu mai bwriad Duw oedd peri i'r prophwyd fwytta tom dyn; ni wnaeth efe ond yn unig gorchymyn iddo grasu ei fara tan y cyfryw ysgarthion. Gwedi hyny caniattaodd iddo i'w grasu tan biswail gwartheg, fel y gwna yr Arabiaid, Ezec. iv. 9.

Y mae gan yr Hebreaid, a phobl ddwyreiniol ereill, fyth hyd heddyw, fath o ffwrn a elwir *Taanour,* pa un sydd debyg i ystên fawr, o garreg iwyd, ac yn agored yn ei phen, yn yr hon y cynneuant dân. Pan y bydd wedi poethi yn dda, cymmysgant gann mewn dwfr, fel y gwnawn ni lud-does *(putty)* at ddalenau ffenestri: yna cyfleant y toes hwn y tu allan i'r ystên â chledr eu llaw; pobir ef fel hyn mewn munudyn, ac ar ol i'w wlybaniaeth sychu i fynu, cymmerir ef ymaith yn ddarnau teg teneuon, tebyg i'n hafrllad ni.

Creda y Dwyreinwyr mai un o'r fath yma oedd ffwrn Efa, iddi hi ei gadael i Noah, ac mai y dwfr berw-

edig a redodd drosti, a achlysurod y dylif. Gwib-feddyliau rhyfedd onidê?

Trydydd math o fara mewn arferiad yn mysg pobl y Dwyrain, yw yr un hwnw a gaisir mewn ystên fawr, hanner llawn o gerrig callestr bychain, ag ydynt wynion a dysglaer, ar ba rai y bwriant eu toes, wedi ei ledu ar ddull teisenau teneuon bychain. Y mae y bara yn wyn, ac yn arogli yn beraidd: ond nid yw ei flâs yn dda yn hwy na'r dydd y cresir ef, oni bydd peth surdoes yn gymmysgedig âg ef i'w gadw yn hwy. Hon yw y ffordd fwyaf gyffredin yn Palestina.

Yn ystod wyth niwrnod y Pasc, nid arferai yr Hebreaid ond bara *croyw* yn unig, fel coffadwriaeth o'u bod, ar amser eu hymadawiad allan o'r Aipht, mewn diffyg oedfa i bobi bara lefeinllyd; a chan iddynt adael y wlad yn ddisymmwth, buant foddlon i grasu bara yr hwn oedd heb ei lefeinio, tan y lludw. Cyflawnant hyn fyth hyd heddyw, gyda manylrwydd dichlynaidd.

Gorchymyn Moses i'r Israeliaid, ar eu dyfodiad i wlad yr addewid, "i offrymu teisen o flaenion eu toes yn offrwm derchafael trwy eu cenhedlaethau," Num. xv. 20, 21. Yr oedd y blaenffrwyth hwn o fara neu does yn cael ei roddi i'r offeiriad neu y Lefiad, yr hwn a fyddai yn preswylio yn y lle y crasid y bara ynddo; ac os na byddai un offeiriad na Lefiad yno, bwrid y gyfran o'r toes a fwriedid i'r Arglwydd neu ei weinidog, i'r tân neu y ffwrn. Nid oedd maintioli y bara a roddid yn flaenffrwyth wedi cael ei sefydlu gan y gyfraith; ond yr oedd arferiad a thraddodiad wedi ei benderfynu i fod, medd *St. Jerome*, rhwng y ddeugeinfed a'r driugeinfed ran o'r holl glamp toes.

Sylwa *Philo* fod rhyw ychydig yn cael ei osod o'r neilldu i'r offeiriad mor fynych ag y byddent yn tylino, eithr nid yw yn dywedyd pa faint oedd hyny.

Dywed *Leo* o Modena i ni, mai arferiad diweddar yr Iuddewon, pan y bydd y bara yn cael ei dylino, a darn o does cymmaint â deugain wy wedi ei wneud, yw cymmeryd rhan fechan o hono a'i gwneud yn deisen, yr hon a gyfrifir yn lle y blaen-ffrwyth a ofynid yn ol y gyfraith. Y mae wedi bod yn arferiad ganddynt i roddi y deisen hon i'r offeiriad; ond yn bresennol, teflir hi i'r tân, lle y gadawant iddi losgi ymaith yn gyfangwbl. Hwn yw un o'r tri gorchymyn a ddylai gael ei gadw gan y gwragedd, o herwydd hwy, yn gyffredin, a wnant y bara. Y weddi a adroddir ganddynt, pan y maent yn bwrw y gyfran fechan hon o does i'r ffwrn, neu y tân, sydd fel y canlyn: "Bendigedig wyt ti, O Arglwydd ein Duw, Brenin y byd, yr hwn a'n sancteiddiaist trwy dy orchymynion, ac a erchaist i ni neilldio teisen o'n toes."

Gwahardda Moses i'r offeiriaid "dderbyn bara o law dyeithriaid, neu unrhyw beth arall a roddent, o herwydd fod yr holl roddion hyn yn llygredig," Lef. xxii. 15.

Y mae Duw yn bygwth torri ffon *bara* yr Israeliaid: hyny yw, anfon newyn fel ffiangell yn eu plith, neu beri na byddai y bara a gymmerent yn alluog i'w digoni, neu anfon iddynt chwant bwyd diwala, Lef. xxvi. 26. Bwytta neu ddifa un fel *bara*, yw ei ddifa a'i ddinystrio yn ddiwrthwynebiad, yn ddibetrusder, ymddifyru ac ymddigryfu i wneud felly, Salm xiv. 4.

Arferir y geiriau *bara a dwfr* am bob math o gynnaliaeth yn gyffredinol. Fel hyn, y dywedir, i Moses aros deugain niwrnod ar fynydd Sinai, heb fwytta bara, nac yfed dwfr. Y mae Duw yn achwyn ar y Moabiaid a'r Ammoniaid, am na ddaethent i gyfarfod yr Israeliaid â bara a dwfr; Nabal, mewn attebiad i gennadwri Dafydd, a ddywedodd, "A gymmeraf fi fy *mara a'm dwfr*, a'u rhoddi i wŷr nas gwn o ba le y maent?" Porthodd Obadiah, yr hwn oedd bentelu y brenin Ahab, gant o brophwydi yr Arglwydd â *bara ac â dwfr*. Y peth penaf at fywyd yw bara a dwfr, medd awdwr yr Ecclesiasticus, xxix. 21.

Bara cystudd, a dwfr blinder, yn 2 Cron. xviii. 26, ydynt yr un peth âg ychydig fara ac ychydig ddwfr. Y mae Esaiah yn bygwth yr Iuddewon â digofaint Duw, ac yn dywedyd, y rhoddai iddynt gyn lleied o fara a dwfr, fel na chaent yr hyn a fyddai ddigonol i'w diwallu.

Gan fod yr Hebreaid yn gyffredin yn gwneud eu bara yn deneu iawn,

ac ar ddull teisenau neu afrllad bychain, ni byddent yn ei dafellu â chyllell, ond yn ei dorri; yr hyn a roddodd ddechreuad i'r ymadrodd hwnw sydd mor gyffredin yn yr ysgrythyr, sef *torri bara*, i arwyddo bwytta, neu eistedd i lawr wrth fwrdd. Sylwer hefyd, eu bod hwy a fyddent yn cychwyn i deithiau yn gyffredin yn gwneud arlwyaeth 'o fara; o herwydd, yn yr amseroedd hyny, nid oedd na llettyau cyffredin na phobyddion yn Palestina, o leiaf yr oeddynt yn anaml iawn. Dywed Iesu Grist wrth ei ddysgyblion, pan yr aent ar unrhyw daith, i'r dyben i bregethu yr efengyl, nad oedd achos iddynt ymdrafferthu yn nghylch darparu bara; etto, er hyny, yr oedd ganddynt beth yn gyffredin tra buont yn canlyn ein Hiachawdwr: ac, un diwrnod, amlygasant ofid mawr am iddynt angofio dwyn dim gyda hwynt, am yr hyn, ceryddodd yr Iesu hwynt yn llymdost, gan ddywedyd: "Chwychwi o ychydig ffydd, paham yr ydych yn ymresymu yn eich plith eich bunain am na chymmerasoch fara *gyda chwi?*" Mat. xvi. 8.

Y mae y Salmydd yn llefaru am "fwyd neu *fara* dagrau;" ac, mewn lle arall, "Porthaist hwynt â *bara* dagrau:" a thrachefn, "Tydi yr hwn wyt ynbwytta *bara* gofidiau." Gallwn amgyffred yn hawdd, mai wrth yr ymadroddion hyn oll y meddylir tristwch parhaus a dagrau, y rhai a barant i ni golli y meddwl am, a'r dymuniad i fwytta ac yfed, Salm lxxx. 5, a'r cxxvii. 2.

Bara annuwioldeb, yw y bara a gaffer trwy ymarferiadau beius a thwyllodrus, Diar. iv. 7. Wrth *fara galarwyr*, yn Hos. ix. 4, y meddylir bara afiau a halogedig. "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd; canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau." medd Solomon, Preg. xi. 1; hyny yw, yn llythyrenol, haua dy ŷd mewn tir dyfradwy, a thi a gai fedi cynhauaf toreithiog; neu, mewn ystyr foesol, bydd haelo'th elusenau, na nacâ dy gynnorthwy i neb, a thi a gai ddderbyn gwobrwy cyfattebol i'th haelioni, a helaethrwydd dy elusen.

BARABBAS, *(mab y tad)* lleidr hynod, euog o gythrwfl a lofruddiaeth. Dygwyddodd fod yn nghar char am ei gyflafan pan ddygwyd achos Crist yn mlaen. Gan ei fod er ys peth amser, yn arferiad i ollwng rhyw garcharor yn rhydd i'r Iuddewon ar wyl y Pasc, gosodood Pilat yr Iesu a Barabbas ger eu bron, fel y gallai yr Iuddewon ddewis un o honynt i'w ryddhau. Yn groes i'w ddisgwyliad a'i ddymuniad, erfyniasant yn daer arno ollwng y drwgweithredwr hynod yn rhydd, a chroeshoelio yr Iesu bendigedig, Mat. xxvii. 17, 21. Ioan xviii. 40.

BARBARIAD, dyn anfoesgar ac annysgedig, neu ymadrodd pa un ni fedrwn ei ddeall, 1 Cor. xiv. 11. Galwai y Groegiaid a'r Rhufeiniaid bob alltudion allan o'u cenedl eu hunain yn *Farbariaid*; o herwydd eu bod yn cyfrif eu hiaith yn drosgl, a'u dull o fyw yn anfoneddigaidd a gwyllt, Rhuf. i. 14. Act. xxviii. 2, 4. Col. iii. 11.

BARF, *(bar*, brig) cnu yr ên. Mewn amrywiol wledydd, caf odd gwahanol ranau o'r farf eu trin. Yr hen Hebreaid a wisgent farf ar yr ên, ond nid ar y wefus uchaf; a gwarafunodd Duw iddynt dorri blaenau a godreuon eu barf, yn ol dull y Cenedloedd, yr Aiphtiaid, ac ereill, y rhai ni wisgent ond tusw o flew ar yr ên yn unig. Yr Iuddewon diweddar a feithrinant gylch o flew, o hyd oddi wrth eu clustiau, a'r cyfan o honynt ar yr ên. Gwaith dynion *yn eillio eu penau a'u barfau*, neu *dorri a thynnu blew y farf*, oedd yn mynegu galar a gofid mawr, Esa. xv. 2. Jer. xli. 5. Ezra ix. 3. 2 Sam. xix. 24. *Eillio barf* neu hanner *barf* un, a gyfrifid y dirmyg a'r sarhad mwyaf anoddefadwy yn mhlith yr Iuddewon, 2 Sam. x. 4, 5. Gyda'r Lacedemoniaid, cenedl o Roegiaid, cosp ffoaduriaid o faes y frwydr oedd cael *eillio hanner eu barf*. Yn mhlith rhai o'r Indiaid, *eillio y farf* oedd y gospedigaeth drymaf. Pa mor arswydus yr ymddialodd Aureng-zeb amherherawdwr Mogul, yn y ganrif ddiweddaf, ar Sophi Persia, am *eillio barf* ei gennadau, nid yw anhysbys: na pha mor ddirfawr y tybia y Tyrciaid eu hunain wedi eu hanmharchu, os bygythia un eillio eu barf. Dywedir ei fod yn fwy gwaradwydd, yn eu plith, gael torri eu barfau, nag yw ffiangellu yn gyhoeddus yn ein plith ni. Duw yn *eillio pen, barf* pobl, neu *flew* eu traed, a arwydda

ei waith yn torri ymaith yn esmwyth, eu bonedd a'u gwreng, yn lluoedd aneirif, ac yn eu gosod yn agored i'r gwarthrudd eithaf, i'r dyben o'u glanhau oddi wrth eu gwahan-glwyf pechadurus, Esa. 7. 20.

BAR-IESU (*mab Iesu*). Yn yr Arabaeg, ei enw oedd Elymas neu y swynwr. Swynwr luddewig hynod oedd efe yn ynys Cyprus, Pan anfonodd Sergius Paulus, rhaglaw synwyrol neu rag-gynghorydd y lle hwnw, tan amberawdwr Rhufain, am Paul a Barnabas, i glywed gan-ddynt athrawiaethau Cristionogrwydd, ceisiodd y swynwr hwn rwystro dychweliad y rhagiaw. Gyd âg eiddigedd sanctaidd, edrychodd Paul yn graff arno, a mynegodd yn gyhoeddus ei fod yn gyflawn o bob twyll ac ysgelerder; yn elyn pob cyfiawnder; yn ŵyr-drŵwr dibaid o uniawn ffydd yr Arglwydd: yna rhagfynegodd, y byddai i'w waith yn gwrthwynebu goleuni gwirioneddau yr efengyl, gael ei gospi yn fuan â cholled o'i olygon naturiol ei hun. Cymmerodd y bygythiad hwn le yn ddioed, a gorfu ar y swynwr fyned o amgylch i geisio un i'w arwain ar hyd y ffordd. Gwnaeth golwg ar y wyrth hon i'r rhaglaw benderfynu cofleidio y ffydd Gristionogol yn ddiattreg; a thebygol yw iddo gyfranu ei enw ei hun, sef Paulus neu Paul i'r offeryn anrhydeddus o'i drŵedigaeth, Act. xiii. 8—12.

BARNABAS; ei henafiaid oeddynt Lefiaid, y rhai a giliasent i Cyprus, hwyrach i ochelyd difrodiadau y Syriaid, y Rhufeiniaid, neu eraill yn Judea. Yma y ganwyd ef, a'i enw priodol oedd Joses, neu Joseph; ond wedi ei ddychweliad i'r ffydd Gristionogol, chwanegwyd yr enw *Barnabas* atto, yn arwyddo *mab y brophwydoliaeth*, o herwydd ei ddoniau godidog, a'i rag-welediad o bethau i ddyfod; neu, *fab dyddanwch*. Ei fod yn un o 70 dysgybl ein Hiachawdwr, neu iddo gael ei ddwyn i fynu yn Jerusalem, tan y dysgawdwr enwog Gamaliel, yn nghyd â â Phaul, sydd yn gwbl annilys; ond efe oedd yr un a ddygodd Paul at y Cristionogion i Jerusalem, pan oeddynt yn ofni ei dderbyn, ac a sicrhaodd iddynt am wirioneedd ei ddychweliad, Act. ix. 26, 27. Anfonwyd ef i drefnu gorchwylion yr eglwys oedd wedi newydd gael ei phlanu yn Antiochia yn Syria; ac, wedi cael o hono fod y gwaith yn rhy drwm iddo ef, aeth i Tarsus, i geisio Paul i'w gynnorthwyo; yn mhen ennyd o amser wedi hyny, dygodd ef a Paul gydgasgliad helaeth a wnaed yn Antiochia i'w brodyr tlodion yn Judea, Act. xi. 22—30. Cyn pen hir wedi hyn, trefnodd Duw iddo ef a Paul adael Antiochia, a phlanu eglwysi newyddion yn mysg y Cenedloedd, Gwedi tair blynedd, dychwelasant i Antiochia. Yn eu hail daith i Asia Leiaf, cymmerwyd Barnabas, yn Lystra, yn lle Jupiter, tebygol o herwydd prydferthwch ei ddull corphorol a'i ymarweddiad difrifol. Yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi hyn, etholwyd ef a Paul i fod yn gennadau oddi wrth eglwys Syria at y gymmanfa yn Jerusalem; ac, ynddi, gosodwyd hwy i ddwyn y penderfyniadau i eglwysi y Cenedloedd; yn Antiochia, dygwyd Barnabas i gyd-ragrithio â Phetr. Ar eu dychweliad i Asia Leiaf, bu amryson angherddol rhyngddo ef â Phaul yn nghylch cymmeryd Marc, nai Barnabas gyda hwynt, fel yr ymadawsant oddi wrth eu gilydd; a Barnabas a Marc a fordwyasant i Cyprus, Act. xiii, xiv, a'r xv. Pa beth a ddaeth o hono wedi hyn, pa un ai ddarfod iddo bregethu yr efengyl yn yr Ital, a phlanu eglwys yn Milan, a chael ei labyddio â cherrig i farwolaeth yn Salamis yn agos i Athen, fel y dywed rhai, nis gwyddom. Y mae efengyl ac epistol ffugiol yn cael eu priodoli iddo.

BARN, *(bar)* a arwydda, (1.) Dedfryd neu benderfyniad barnwr, 1 Bren. iii. 28. (2.) Ysbryd doethineb a phwyll, yn galluogi dyn i adnabod a dosparthu rhwng iawnder a chamwedd, rhwng drwg a da, Salm lxxii. 1. (3.) Y cospedigaethau hynod hyny, y rhai y mae Duw yn eu gosod ar bobl am eu pechodau a'u troseddau, Diar. xix. 28. Ezec. xxx. 14. (4.) Llywodraeth ysbrydol ar y byd, yr hon a roddwyd gan Dduw y Tad i Grist y Cyfryngwr, a pha un a drinia efe gyda chyfiawnder ac uniondeb perffaith, Ioan v. 22, a ix. 39. (5.) Y cystuddiau a'r ceryddon hyny a ddwg Duw ar ei blant er eu profi a'u haddysgu, 1 Petr iv. 17. (6.)

Cymmedroldeb trugarog Duw yn ceryddu ei bobl, Jer. x. 24. (7.) Gwaith arbenig a phrawf y dydd mawr diweddaf, Preg. xii. 14. Judas 6. (8.) Deddfau a gorchymynion cyfiawn Duw, Salm cxix. 7, 10. (9.) Y gospedigaeth a roddwyd ar Grist am ein pechodau ni, Esa. liii. 8. (10.) Athrawiaeth yr efengyl, neu air Duw, Mat. xii. 18. Salm cxix. 7, 20. (11.) Cyfiawnder ac uniondeb, Esa. i. 17. Luc xi. 42. (12.) Gwaredigaeth ac amddiffyniad dynolryw rhag gallu a gormes y diafol, Ioan xii. 31. (13.) Arfaethau a bwriadau Duw mewn perthynas i genedlaethau a dynion, Rhuf. xi. 33. (14.) Dedfryd damnediguetli ar y drygionus, a rhyddhad y duwiol, Judas 15. (15.) Llysoedd barn, Mat. v. 21. (16.) Gwahaniaethau a dadleuon i gael eu penderfynu, 1 Cor. vi. 4. (17.) Syniad, tyb, 1 Cor. i. 10. (18.) Cynghor, 1 Cor. vii. 25. (19.) Efengyl neu deyrnas grâs, Mat. xii. 20.

BARNU; (1.) Profi a phenderfynu achos, Exod. xviii. 13. Yr oedd y dull o gyhoeddi dedfryd yn wahanol mewn amrywiol wledydd. Y barnwyr luddewig a roddent eu dedfryd trwy ddywedyd yn unig wrth y cyhuddedig, *Yr wyt yn euog*, neu *yr wyt yn ddieuog*. Y Rhufeiniaid a wnaent hyny trwy fwrw amryw lechau i fiwch neu gist, wedi eu harnodi âg A, os byddent yn gollwng y cyhuddedig yn rhydd; ac à C, os ei heuog-farnent ef. Rhaio'r Groegiaid a roddent arwydd o ddedfryd o ollyngdod, trwy roddi carreg *wen* i'r cyhuddedig; ac o gollfarn, trwy roddi carreg *ddu* iddo; at hyn y cyfeirir yn Dad. ii. 17. (2.) Deall matter; felly y mae y dyn ysbrydol yn *barnu pob peth, eithr efe nis bernir gan neb*: y mae ganddo wybodaeth sylweddol am bob peth o bwys; ond ni ddichon un dyn anianol ddeall ei olygiadau a'i brofiadau, 1 Cor. ii. 15. (3.) Parchu, gwneud cyfrif o, megys wrth broft un, Act. xvi. 15. (4.) Cospi, yn ganlynol i brofiad a dedfryd; a dadgan a chyhoeddi y cyfryw gospedigaethau, Heb. xiii. 4. Ezec. vii. 3—8, a'r xxii. 2. (5.) Rhag-farnu yn fyrbwyll, Mat. vii. 1. (6.) Ymddangos o blaid un, yn ganlynol i brofiad o'i achos, Diar. xviii. 18. Nid yw Crist yn *barnu wrth olwg ei lygaid, nac wrth glyw ei glustiau*; nid yw yn gwneuthur cyfrif o ddynion a phethau, neu yn rhoddi dedfryd wrth yr olwg allanol yn unig, Esa. xi. 3. Y saint *yn barnu y byd, yn barnu angelion*: y maent yn awr yn euog-farnu drygioni y byd, trwy eu profles a'u hymarweddiad sanctaidd; yn y dydd diweddaf, hwy a gyd-syniant â'r goll-farn a gyhoeddir yn erbyn angelion a dynion drwg, 1 Cor. vi. 2. *Bernir y saint yn ol dynion yn y cnawd, ac y maent yn byw*, er hyny, *yn ol Duw yn yr ysbryd*; pan y byddant yn cael eu ceryddu yn allanol am bechod, neu yn cael eu herlid gan annuwiolion, ac, etto, yn dufewnol yn yr ysbryd yn byw bywyd o gymdeithas â Duw, 1 Petr iv. 6. Y mae dynion yn mynedyn *farnwyr meddyliau drwg*, pan, mewn dull pleidgar, y maent yn cyfrif y naill ddyn o flaen y llall, Iago ii. 4.

BARNWR, yw un a fyddo yn profi achosion dynion ereill, ac yn rhoddi dedfryd arnynt, Salm ii. 10. Duw ydyw *barnydd yr holl* ddaear; efe sydd yn rheoli, yn profi achos, ac yn rhoddi dedfryd ar ei holl breswylwyr, Heb. xii. 23. Gen. xviii. 25. Crist a elwir y *Barnwr*, efe a osodwyd gan Dduw i brofi cyflwr a gweithredoedd pawb, ac i roddi dedfryd o drueni tragywyddol, neu o ddedwyddweh tragywyddol arnynt, 2 Tim. iv. 1, 8. Y mae awdurdod, doethineb, bywiogrwydd, gwroldeb, ac iawnder diduedd yn angenrheidiol i gymhwyso un i fod yn farnwr. Yr oedd gan yr Iuddewon farnwyr sefydledig, at achosion gwladol a chrefyddol. Wrth ddiwygio y genedl, sefydlodd Jehosaphat ddau ddosparth neu lys o farnwyr; y naill i chwilio matterion a berthynent i'r Arglwydd, a'r llall i chwilio yr hyn a berthynai i'r wladwriaeth, 2 Cron. xix. Dywedir fod y barnwyr neu'r henuriaid hyn wedi eu ffurfio yn dri llys: sef, (1.) Llys o dri barnwr, y rhai a benderfynent achosion bychain o golled, ennill, taliad adref, gosodiad dyddiau gorymddwyn mewn misoedd, &c. ond nid oedd ganddynt awdurdod i gospi ond â ffrewyll. Ysgatfydd nad oedd hwn ddim ychwaneg na math o lys cyfiafaredd; pob plaid yn dewis barnwr, a'r ddau farnwr dewisedig

yn ethol trydydd. Yr ail lys a gynnwysai 23 o farnwyr. Y rhai hyn a benderfynent fatterion o bwys mawr, perthynol i fywydau dynion. A'r trydydd llys, neu y *sanhedrim*, a gynnwysai 70 neu 72 o farnwyr. Y rhai hyn a benderfynent y materion trymaf, perthynol i eglwys a gwladwriaeth. Yr oedd yr archoffeiriad yn fath o farnwr arbenig. Ni chaniatteid i un barnwr dderbyn rhoddion, na chydnabod wynebau dynion o herwydd tlodi neu fawredd, neu ganlyn y lluaws; ac yr oedd yn ofynol i bawb i'w hanrhydeddu hwy, Exod. xxiii. Deut. xvi. Exod. xxii. 28. Nid oedd un dyn i gael ei gollfarnu heb ei glywed, nac ar dystiolaeth llai na dau neu dri o dystion, Ioan vii. 51. Deut. xvii. 6. Yr oedd gan yr Hebreaid hefyd farnwyr anghyffredin, y rhai, wedi eu cyfodi gan Dduw ar achlysuron angenrheidiol, a feddiannent fath o oruchawdurdod. Cafodd rhai o honynt eu galw yn ddigyfrwng gan Dduw ei hun, ac etholwyd ereill gan y bobl, megys Barn. iii, a'r xi. Ac nid ymddangos fod awdurdod pob un o honynt yn cyrhaedd dros holl Israel. Ysgatfydd nad arferodd Jephthah ei awdurdod o du y gorllewin i'r Iorddonen, na Barac ei eiddo yntau o du y dwyrain iddi. Yr oedd y barnwyr hyn yn meddu y llywodraeth eu hunain mewn heddwch a rhyfel, ac yn penderfynu achosion gydag awdurdod perffaith a chyflawn: hwy a roddent y cyfreithiau mewn grym, a ddiwygient neu a noddent grefydd, ac a gospent eilun-addolwyr a drwgweithredwyr ereill; ond nid oeddynt yn codi trethi, nac yn meddu unrhyw osgordd ond yr hyn a ganiattai eu cyllidau eu hunain iddynt; ac, yn ddiweddaf, yr oeddynt yn dra chyffelyb i lywodraethwyr Athen, penswyddogion Rhufain, *suffetes* Carthage, a llywiawdwyr yr Almaen, Ffraingc, a Prydain cyn rhuthr-oresgyniad y Rhufeiniaid. Gwedi marwolaeth Josuah a'r henuriaid a fuant byw ar ei ol, eu barnwyr oeddynt Othniel, Ehwd, Samgar, Barac, Gideon, Abimelec, Tolah, Jair, Jephthah, Ibzan, Alon, Abdon, Samson, yn nghyd âg Eli, a Samuel. Gan y dywedir yn bennodol i'r deml gael ei sylfaenu yn y 480 flwyddyn wedi dyfodiad yr Hebreaid allan o'r Aipht, nid hawdd yw olrhain amser y barnwyr, fel ag i gyfatteb iddi; a chymmaint yn fwy felly, gan yr haera Paul i Dduw roddi iddynt farnwyr yn nghylch 450 o flyneddoedd; 1 Bren. vi. 1. Act. xiii. 20. Eithr ysgatfydd nad yw ymadrodd Paul yn dynodi amser y barnwyr, ond yr yspaid rhwng genedigaeth Isaac a'r sefydliad yn Nghanaan, yr hyn oedd 447, neu yn nghylch 450 o flynedd-oedd; neu os yw yn cyfeirio at amser y barnwyr, rhaid cymmeryd 111 mlynedd y caethiwed i mewn i'r cyfrif; er, yn ol y cyfrifiad arall yn llyfr y Breninoedd, fod yn rhaid cynnwys blynedd oedd y caethiwed hwn dan flyneddoedd y barnwyr, neu yr orphwysfa a gafwyd trwyddynt hwy. A gellir chwanegu, pan y dywedir, i'r wlad gael gorphwysdra 40 mlynedd dan Othniel, fod hyny, hwyrach, yn meddwl hyd y 40fed flwyddyn ar ol eu sefydliad yndi, a than Ehwd a Samgar, nad yw y 80 mlynedd, hwyrach, yn meddwl dim ychwaneg na hyd y 80fed flwyddyn wedi eu sefydliad yno. Heblaw hyn, gallai blyneddoedd rhai o'r barnwyr redeg i flyneddoedd rhai ereill; neu nad oedd blyneddoedd Samuel a Saul, ysgatfydd, ond 40 mlynedd rhyngddynt. Neu gellir cyfrif y 480 mlynedd fel hyn: o'r ymadawiad o'r Aipht hyd y sefydliad yn Nghanaan, 47; oddi yno, tra parhaodd y gorphwysfaau o 40, 80, 40, a 40 mlynedd, dan Othniel, Ehwd, Barac, a Gideon, 200; at yr hyn chwaneger, am barhad llywodraeth Abimelec, Tolah, Jair, Jephthah, Ibzan, Elon, Abdon, Samson, ac Eli, 109; ac am Samuel, Saul, Dafydd, a'r pedair blynedd i Solomon, 124; ac yna y mae genym 480 yn gymhwys. Neu ynte o'r ymadawiad o'r Aipht, hyd sefydliad y Reubeniaid a'r Gadiaid yn ngwlad yr addewid, 40 mlynedd; oddi yno hyd ruthr yr Ammoniaid, 300, Barn. xi. 26; oddi yno hyd deyrnasiad Saul, 56; ac oddi yno hyd adeiladiad y deml, 84 mlynedd; yn y cwbl 480 mlynedd. Ar ol marwolaeth Gideon, dyddai dau, os nid tri barnwr, weithiau, yn llywodraethu yr un amser mewn gwahanol leoedd.

LLYFR Y BARNWYR. Arwyddocâd y gair Hebrëig am y llyfr hwn yw *dialydd* neu *waredydd*. Dosperthir ef yn gyffredin yn ddwy

ran; y gyntaf yn cynnwys hanes y Barnwyr, o Othniel hyd Samson; yr ail yn cynnwys adroddiad o'r amryw iol orchestion neilldnol a ddygwyddasant yn, neu yn nghylch amser y Barnwyr. Cawn yndclo hanes oddi amgylch i dri chan mlynedd o amser. Tebygol i'r llyfr hwn gael ei ysgrifenu gan Samuel, y diweddaf o'r barnwyr, ac i lyfr Ruth gael ei ysgrifenu fel angchwanegiad atto. Yn yr ail bennod, ar ei diwedd, rhydd i ni grynodeb o'r ewbl. Yr oedd y Jebusiaid yn meddiannu Jerusalem pan gyfansoddwyd ef, pen. i. 21; ac nid oedd tŷ Duw mwyach yn Siloh, pen. xviii. 32. Y mae gwaith ysgrifenydd y llyfr hwn yn crybwyll mor fynych (pen. xvii. 6; a xix. 1, a xxi. 25,) nad oedd brenin yn Israel, yn ystod amser yr hanes hwn, yn lled-arwyddo fod brenin yno pan oedd efe byw. Y mae y crybwylliad am *gaeth-gludiad* y wlad, pen. xviii. 30, yn ymddangos i gyfeirio cyfansoddiad y llyfr hwn at ryw ysgrifenydd diweddarach na Samuel; eithr gallai efe alw y difrod hwnw ar y wlad dan Eli yn *gaeth-gludiad*; neu gallesid chwanegu yr adnod honno yn hir wedi hyny gan Ezra.

BARSABAS, *(mab y llw)* neu, (1.) Joseph Justus, oedd, tebygol, yn un o 70 dysgybl Crist; dilys yw ei fod yn llygad-dyst o waith cyhoeddus Crist yn y weinidogaeth. Cydymgeisiodd â Matthias am yr apostolaeth, yn lle Judas, ond nid etholwyd ef gan Dduw, Act. i, 21—26. (2.) Barsabas Judas. Yr oedd efe yn aelod o'r gymmanfa yn Jerusalem; ac anfonwyd ef yn nghyd â Phaul, Barnabas, a Silas i gyhoeddi ei phenderfyniadau hi yn mhlith eglwysi y Cenedloedd. Gwedi pregethu dros ennyd yn Antiochia, dychwelodd i Jerusalem, Act. xv. 22—34.

BARZILAI (*haiarn*). 1. Simeoniad o Mehola, a thad Adriel gwr Merab, merch Saul, 2 Sam. xxi. 8. (2.) Gileadiad o Rogelim, yr hwn a borthodd Dafydd a'i lu bychan yn helaeth, tra yr oeddynt yn Mahanaim, yn amser trais-lywodraeth Absalom. Ar dychweliad Dafydd i'w briddinas, i gymmeryd meddiant o'i urddas freninol, hebryngodd Barzilai ef at ryd yr Iorddonen. Dafydd a fu daer wrtho am fyned gydag ef i breswylio i Jerusalem. Achwynodd Barzilai o herwydd ei henaint a'i anaddasrwydd i'r llys. Derbyniwyd ei esgus, a gollyngodd y brenin Dafydd ef adref ar ol yr ymgofleidiadau mwyaf caredig; ond cadwodd Chimham ei fab yn y llys, 2 Sam. xvii. 27—29, a'r xix. 31, 40. (3.) Offeiriad yr hwn a briododdi ferch y Barzilai blaenorol, a phenaeth lluaws o'r offeiriaid a ddychwelasant o gaethiwed Babilon, Neh. vii. 63.

BARTHOLOMEUS, *(mab Ptolemy)* mab Tolmai, un o ddeuddeg apostol ein Harglwydd. Gan nad yw Ioan byth yn crybwyll am enw Bartholomeus, ond Nathanael; ac nad yw yr efengylwyr ereill byth yn enwi Nathanael, ond Bartholomeus; gan fod Ioan yn rhestru Phylip a Nathanael yn nghyd, fel y gwna y lleill Phylip a Bartholomeus; gan y crybwyllir am Nathanael gyda'r apostolion ereill, a gyfarfuant â'n Hiachawdwr wedi ei adgyfodiad, wrth for Tiberias; gan nad yw Bartholomeus yn enw priodol, ond yn unig yn arwydd fod un yn *fab Tolmai*; a chan fod Petr yn cael ei alw Bar-jona, tybiwn mai yr un dyn oedd Bartholomeus â Nathanael. Gwedi i Phylip bysbysu iddo am ein Hiachawdwr fel y gwir Fessiah, anmheuodd Nathanael, pa fodd y gallai dim da ddyfod o le mor hynod ddrygionus â Nazareth. Dymunodd Phylip arno ymfoddloni mewn perthynas i ragoroldeb yr Iesu, trwy ymddyddan âg ef; yntau a gydsyniodd. Yr Iesu, pan ei canfu, a'i cyhoeddodd ef yn *Israeliad yn wir*, heb dwyll na rhagrith adnabyddus. Gofynodd Nathanael pa fodd yr adwaenai efe ef? Yr Iesu a attebodd y gwyddai efe beth a ddygwyddasai dan ryw ffigysbren, i ba le yr ymneilduasai efe at ei addoliad mwyaf dirgelaidd. Gwedi ei daraw â'r amlygiad hwn o holl-wybodaeth yr Iesu, Nathanael, mewn llesmair o lawenydd, a'i cydnabu yn Fab Duw, a'r Messiah addawedig, neu frenin Israel. Sicrhaodd yr Iesu iddo, y byddai i'w ffydd barod gael ei gwobrwyo yn fuan â phrawf pellach o'i Ddduwdod; y cai weled angelion Duw yn gweini iddo, ac yn ei wasanaethu fel eu pen a'u goruchaf Arglwydd. Yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi hyn, anfonwyd ef y'nghyd â Phylip i bregethu a gwneud gwyrthiau yn nhir Israel; a chyda yr

apostolion ereill, cafodd aml ymweliad oddi wrth ei Waredwr wedi ei adgyfodiad, Ioan i. 45—51, a'r xx, a'r xxi. Mat. x. 3. Marc iii. 13. Luc vi. 14.

Gwedi athrawiaethu yn nghylch 18 mlynedd yn Jerusalem, dywedir iddo bregethu yr efengyl i'r Indiaid Dwyreiniol, ac iddo draddodi iddynt yr *efengyl yn ol Matthew*. Teithiodd oddi yno, dywedir, i Lycaonia; ac, o'r diwedd, blingwyd ef yn fyw, ac, wedi hyny, croeshoeliwyd ef â'i ben i lawr gan yr Albaniaid wrth fôr Caspia. Y mae efengyl ffugiol yn cael ei phriodoli iddo ef.

BARTIMEUS, (*mab Timeus*) dyn dall, yr hwn a eisteddai ar fin y ffordd, yn cardotta, pan oedd yr Iesu yn myned heibio gyda thyrfa fawr o Jericho i Jerusalem. Gwedi hysbysu iddo fod yr Iesu yn mysg y lluaws, llefodd allan, "Iesu fab Dafydd, trugarha wrthyf." Yr Iesu a safodd, ac a orchymynodd ei ddwyn ef yn agos. Gwnaed felly. Gofynodd yr Iesu iddo, Beth a ddymunai efe ar ei law ef? Erfyniodd yntau am gael ei olwg; yr Iesu a barodd iddo fyned i'w ffordd, fod ei ffydd wedi ei achub. Yn y man derbyniodd ei olwg, a dylynodd ei Feddyg dwyfol, Marc x. 46—52. Y mae Matthew yn crybwyll am ddau ddall a iachawyd ar yr achlysur hwn, pen. xx. 30—34; ond gan mai Bartimeus oedd y mwyaf hynod, neu yr un a ddangosodd y taerineb mwyaf a'r ffydd grefaf; y mae Marc yn crybwyll am dano ef, ac yn gadael y llall allan. Y mae Luc yn adrodd am iachâd dyn dall arall, a wnaed gan Grist ar ei waith yn myned i Jericho, Luc xviii. 35—43.

BARUC, (*bendigedig*) tywysog Iuddewig, mab Neriah, ŵyr Maaseiah, a brawd Seraiah, un o wyr llys Zedeciah, yr hwn a ymlynodd wrth Jeremiah y prophwyd, ac a fu weithiau yn ysgrifenydd iddo. Pan roddodd y brenin Jehoiacim y prophwyd hwnw yn ngharchar, ysgrifenodd Baruc, trwy gyfarwyddyd Duw, ei brophwydoliaethau o'i enau ef, ac a'u darllenodd i'r bobl, pan yr oeddynt wedi ymgasglu yn nghyd ar ryw ddydd ympryd anghyffredin. Y tywysogion, wedi mynegu iddynt am hyn gan Micaiah, un o'i wrandawyr, a anfonasant am dano, ac efe a'u darllenodd drachefn yn eu clywedigaeth hwynt. Gwedi eu cyffroi gan yr hyn a glywent, cynghorodd y tywysogion Baruc a Jeremiah i ymguddio; o herwydd yr oedd yn ofynol iddynt hwy osod y peth ger bron y brenin. Gwedi gosod yr ysgrifen heibio yn ystafell Elisama yr ysgrifenydd, hwy a ddisgwyliasant wrth y brenin, ac hysbysasant iddo am ei chymmwysiad. Trwy ei orchymyn, cyrchodd a darllenodd Jehudi hi ger ei fron ef a'i dywysogion. Prin yr oedd pedair neu bum dalen wedi eu darllain, pan y gwnaeth Jehoiacim, mewn cynddaredd, ac yn groes i erfyniad amrywiol dywysogion, ei chymmeryd, ei thorri, a'i bwrw hi yn tân. Rhoddodd orchymyn i ddal Jeremiah a Baruc; ond nid ellid eu cael. Yn fuan drachefn, ysgrifenodd Baruc lyfr arall, mwy helaeth, o enau y prophwyd. Baruc, wedi colli pob dyfodfa debygol i anrhydedd a golud, ac mewn perygl am ei fywyd, a fu drist iawn. Jeremiah, trwy ysbrydoliaeth Duw, a'i ceryddodd ef am ei waith yn ceisio mawredd, pan oedd dinystr Judah gerllaw; ac a ddilys addawodd iddo nawdd Duw mewn pob cyflwr, Jer. xxxvi, a'r xlv.

Yn y 10fed flwyddyn o deyrnasiad Zedeciah, Baruc, trwy hyfforddiad Jeremiah, a ddygodd lyfr pryniad maes Hanameel, ac a'i dododd mewn llestr pridd, fel yr arosai yn ddiogel yno, hyd ar ol y caethiwed. Gwedi ynnill Jerusalem, caniattaodd Nebuzaradan i Jeremiah a Baruc aros yn Judea gyda Gedaliah. Ar ol lladd y rhaglaw daionus hwnw, cam-feiodd Jonathan a phennaethiaid ereill ar Baruc, am iddo, dan effaith cenfigen, gynhyrfu Jeremiah i warafun iddynt fyned i'r Aipht; a dygasant hwynt eill dau i'r wlad honno. Pa un a symmudodd Baruc, ar ol marwolaeth Jeremiah, o'r Aipht i Babilon, a marw yno, yn y ddeuddegfed flwyddyn o'r caethiwed, nis gwyddom. Y mae llyfr yn yr Apocrypha yn cael ei briodoli, yn anwireddus, iddo ef, Jer. xxxii. 12—16, a'r xliii. 3, 6.

(2.) *Baruc*, mab Zabbai, yr hwn, dan gyfarwyddyd Nehemiah, a adgyweiriodd ran o fur Jerusalem a'i holl egni. Ysgatfydd hefyd, iddo selio cyfammod y diwygiad, a'i fod yn dad Maaseiah, Neh. iii. 20, a'r x. a'r 6, xi. 5

BASAN *(newid)* neu BATANEA, un o'r gwledydd ffrwythlonaf yn y byd, yn gorwedd o du y dwyrain i'r Iorddonen a môr Tiberias, o du y gogledd i'r afon Jabboc, o du y gorllewin i fynyddoedd Gilead, ac o du y deau i Hermon a theyrnas Gesur. Heblaw pentrefydd, yr oedd yn cynnwys 60 o ddinasoedd caerog. Yr oedd yn enwog neillduol am ei phorfëydd breision, ei phraidd a'i hanifeiliaid rhagorol, a'i derw uchel-wych. Moses a'i hynnillodd oddi ar Og brenin yr Amoriaid, ac a'i rhoddodd i hanner llwyth Manasseh, Num. xxxii. Jos. xvii. 1. 1 Cron. ii. 21—23. Deut. xxxii. 14. Amos iv. 1. Ezec. xvii. 6. Arferir *Basan* a *Charmel* i osod allan wledydd ffrwythlon, neu gyflwr blodeuog cenedl neu eglwys, Nah. i 4. Jer. l. 19. Mic. vii. 14. Duw *yn dwyn ei bobl o fynydd Basan* o du dwyrain, ac *o ddyfnder y môr* o du y gorllewin, a arwydda ei waith yn dychwelyd yr Iuddewon o'u caethiwed a'u gwasgariad, i ba un y gyrwyd hwy gan yr Assyriaid, y Caldeaid, ac ereill o du y dwyrain, a chan y Rhufeiniaid ac ereill o du y gorllewin; a'i waith yn gwaredu ei bobl o gyfyngder ar bob llaw, Salm lxviii. 22. Yr Iuddewon, *yn cyfodi eu llef yn Masan*, a arwydda eu galar, pan oedd y Caldeaid yn gwneud eu mynediad trystfawr trwy y wlad honno i ddinystrio eu teyrnas, Jer. xxii. 20. Crybwyllir am y mynydd hwn mewn modd neillduol iawn yn Salm lxviii. 15. 16, yr hyn a ystyrir fel yn ddarluniad o uchder mawreddog mynydd Sion hyd yn nod uwchlaw Basan a Salmon. Eithr nid uchder mynydd Sion yw yr hyn a glodforir yma, ond gogoniant eglwys Duw. "*Paham y llemwch?*" *Esgob Horne* a'i cyfieitha yn iawn, *Pa ham yr edrychwch ar wyr gan genfigen?* Addolwyr Basan oeddynt eilun-addolwyr, yn elynion i Sion, ac a edrychent yn genfigenus ar ogoniant Sion. Ac, yn yr un modd, dwyn yn ol o Basan ac o ddyfnderoedd difäol y moroedd, yw gwaredu oddi wrth gaethiwed anghrist, ïe oddi wrth y bedd ei hun.

BASGED, *(basg*, dellt-blethiad) math o lestr ysgafn i ddwyn ymborth, neu y cyffelyb ynddo, Jer. vi. 9. Mewn *basged* y gollyngwyd Paul ar hyd mur Damascus, fel y gallai ffoi am ei einioes, 2 Cor. xi. 33. Mewn *basgedau* yr anfonodd pendefigion Samaria benau 70 o feibion Ahab i Jehu yn Jezreel, 2 Bren. x. 7. Y tri chawell neu *fasgedau* a welwyd gan bobydd yr Aipht yn ei freuddwyd, oeddynt yn gosod allan dri diwrnod o fywyd, Gen. xl. 16, 18. Gosodir *basged* neu gawell, weithiau, am yr ymborth a fyddo ynddynt, Deut. xxviii. 5, 17. Pan wleddodd ein Hiachawdwr 5000 o wyr, heblaw gwragedd a phlant, â phum torth haidd a dau bysgodyn, yr oedd *deuddeg basgedaid* o friw-fwyd yn ngweddill; pan y porthodd, dro arall, bedair mil â saith torth ac ychydig bysgod, yr oedd saith *basgedaid* yn llawn o friw-fwyd yn ngweddill. Ar y ddau achlysur hwn, yr oedd llawer mwy o fara yn ngweddill nag oedd yno ar y dechrau, fel gwobr i'r dysgyblion am eu haelioni, Mat. xiv. 20. a'r xv. 37. Tebygol fod gan bob un o honynt ei fasged, yn ol arfer yr Iuddewon, yn y rhai y dygent eu hymborth ar eu teithiau.

BASTARDD, *(bas-tardd)* Oddi wrth y Cymry, tebygol, y cafodd y Saison y gair *Bastard*. Plentyn wedi ei genedlu allan o'r cyflwr priodasol. Ysgatfydd fod y bastarddiaid a geuid allan rhag llywodraethu yn nghynnulleidfa Israel, yn gyfryw ag oedd ganddynt un o'r Canaaneaid melldigedig yn dad neu fam iddynt, Deut. xxiii. 2. Bu Jephthah, mab i butein-wraig neu *fastardd* o gymmeriad anghyffredin, yn waredwr a barnwr Israel, Barn. xi. Yr *estron*, neu y bastardd, *yr hwn oedd yn trigo yn Asdod*, a arwydda, hwyrach, Alexander Fawr, yr hwn a gyhoeddodd ei fam yn gyfryw; neu, yn hytrach, unrhyw ddyeithriaid heb ganddynt hawl i'r lle, Zec. ix. 6. *Bastarddiaid*, neu *feibion y fam*, yn nheulu Duw, yw y rhai y mae yr eglwys yn fam iddynt o ran proffes allanol, ond erioed heb eu geni yn achubol o Dduw, na'u mabwysiadu ganddo, Heb. xii. 8. Can. i. 6.

BATH, *(merch)* mesur gwlybwr yn mysg yr Hebreaid, o'r un maintioli â'r ephah at yr ŷd; cynnwysai yn agos i 1748 o fodfeddi cyfain, ac yr oedd yn gyfartal â thri pheccaid a thri pheint, a rhywfaint yn ychwaneg na 12 modfedd o fesur Caerwynt;

neu saith galwyn a phedwar peint o fesur gwin Brutanaidd. Meddylia rhai fod ganddynt *fath* cyffredin a chyssegredig; y diweddaf yn cynnwys un rhan o dair yn rhagor na'r blaenaf; o herwydd dywedir, mewn un man, y cynnwysai môr tawdd Solomon 3000 o *fathau*, ac mewn lle arall 2000; eithr, heb dybied hyn, gallai y llestr hwnw ddal 2000 yn gyffredin, ac yn ei ymestyniad eithaf, pan yn llawn hyd yr ymyl, gynnwys 3000; neu gallasai ei droed gynnwys y drydedd fil, 1 Bren. vii. 26. 2 Cron. iv. 5.

BATHSEBA, neu BATHSUA, *(merch y llw)* merch Eliam neu Ammiel, ŵyres Ahitophel, tebygol, a gwraig Urias yr Hethiad. Tra yr oedd ei gwr yn gwarchae ar Rabba, dygwyddodd iddi ymolchi, tebygol, yn ei gardd; canfu Dafydd hi oddi ar nen ei dŷ, yr hwn oedd yn gyfagos; ac, wedi hyshysu iddo pwy ydoedd, efe a anfonodd am dani, ac a orweddodd gyda hi. Gwedi iddi feichiogi, mynegodd hyny i'r brenin Dafydd, fel y gallai efe lunio ffordd i guddio eu heuogrwydd. Anfonodd yntau yn union-gyrchol am Urias, fel pe buasai yn bwriadu mynnu gwybodaeth am helynt y gwarchae; ond yr amcan gwirioneddol oedd rhoddi iddo gyfleusdra i orwedd gyda'i wraig, ac felly gael ei gyfrif yn dad y plentyn. Daeth Urias, ac, ar ol ychydig holiadau ofer, mewn perthynas i ansawdd a mynediad y fyddin yn mlaen, gorchymynodd Dafydd iddo fyned adref i'w dŷ, ac anfonodd saig oddi ar ei fwrdd ei hun ar ei ol: ond o herwydd ei ddiweirdeb a'i wroldeb diysgog, tybiodd Urias y byddai yn warth iddo i ymroddi i drythyllwch a chyfeddach, tra yr oedd ei gyd-filwyr yn gwersyllu ar y maes; ac felly cysgodd gyda'r gwilwyr wrth borth tŷ y brenin. Dafydd, wedi mynegu hyn iddo, a'i galwodd ef dranoeth at ei fwrdd, ac, er ennyn ei nwydau, parodd iddo yfed yn helaeth, ac yna gorchymynodd iddo ddychwelyd adref. Cysgodd Urias drachefn gyda'r gwilwyr, ac esgusodnodd ei hun wrth y brenin, trwy ddywedyd, fod yn anaddas iddo ef orwedd gyda'i wraig, tra yr oedd Joab gyda'r llu, ïe, arch Duw, yn gwersyllu ar wyneb y maes. Dafydd, wedi ei flino gan y siomedigaeth hon, a'i hanfonodd ef yn ol at y fyddin, gyda llythyr yn cyfarwyddo Joab pa fodd i gyflawni ei lofruddiaeth. Clywodd Bath-eba yn ebrwydd am farwolaeth ei gwr, ac ar ol galaru am dano yn y dull arferedig, anfonodd Dafydd am dani, ac a'i priododd. Yn fuan wedi i'r plentyn a genedlasid mewn godineb gael ei eni, efe a glafychodd, ac, er holl edifeirwch ac ympryd Dafydd, a fu farw, fel y bygythiasid gan Nathan yn enw yr Arglwydd. Ymddug Bathseba, modd bynag, i Dafydd bedwar o feibion ereill, a Solomon yn un o honynt, Nathan yn un arall, eill dau yn henafiaid Iesu Grist, 2 Sam. xi. a'r xii. 1 Cron. iii. 5. Mat. i. 6. Luc iii. 31.

Ymddengys fod Bathseba yn dra gofalus yn nghylch dwyn ei phlant i fynu, yn enwedig Solomon, mewn perthynas i'r hwn y gwnaethid llawer o addewidion: y mae y bennod olaf o'r Diarebion, hwyrach, yn cynnwys rhan o'i haddysgiadau iddo, Diar. iv. 3, a'r xxxi. Addawsai Dafydd iddi, y cai Solomon ei mab deyrnasu ar ei ol ef, a darfu i wrthachwyniad taer oddi wrthi hi a Nathan y prophwyd rwystro Adoniah i'r orsedd, a mynnu y goron i Solomon. Pan, trwy annogiad Adoniah, y deisyfodd hi am iddo gael caniattâd i briodi Abisag, gordderch-wraig ei dad, darfu i Solomon, er mor anrhyddeddus y derbyniodd efe hi, naccau ei chais, gyda gwrolder nid bychan, a nodau o anfoddlonrwydd, 1 Bren. i, a'r ii. 13—25.

BAWD, *ll.* BODIAU, bawd-fys. Yr oedd gwaith yr offeiriaid yn rhoddi gwaed yr aberth dros gamwedd ar *fawd* y llaw ddehau, ac ar *fawd* y troed dehau, yn arwyddo, yn gysgodol, bod angenrheidrwydd glanhau ein holl weithredoedd a'n holl gamrau yn ngwaed Crist, Lef. viii. 23, a xiv. 14, 17.

BDELIUM, math o lud neu ystor, rywbeth yn debyg i fyrrh. Ceir ef weithiau yn ddyferynau unigol o faintioli tra afreolaidd; rhai o honynt ydynt gymmaint a chneuen collen. Ei liw sydd lwyd-ddu, a'i archwaeth yn chwerw; y mae yn meddalhau ac yn glanhau yn nerthol pan y bydd yn newydd a chrai. Yr oedd helaethrwydd o hono yn agos i'r afon Pison, Gen. ii. 12, ac yr oedd y manna yn tebygu iddo yn ei liw,

Num. xi. 7. Gwedi y cwbl, y mae y dysgedigion yn anghyduno yn ddirfawr yn nghylch natur y *bdelium*, a dull ei gynnyrchiad; ac nid ydym yn gwybod, ychwaith, ai yr un yw y diweddar â'r hên. Myn rhai fod y gair Heb. *bedolach* yn yr ysgrythyr, yn arwyddo rhyw faen gwerthfawr, megys grisial teg, neu ddur; ac y mae yr enwog *Bochart* yn dadleu mai *perlau* sydd i'w ddeall wrtho, amledd o ba rai a geir nid nebpell oddi wrth eneu y Pison yn môr-gilfach Persia.

BEDAN, gwaredwr neu farnwr yr Hebreaid, 1 Sam. xii. 11; ond pwy oedd ef, nid ydys yn cyduno. Nid oes crybwylliad am Bedan yn mhlith barnwyr Israel. Myn rhai mai Barac oedd efe; darllen y LXX Barac, yn lle *Bedan*. Ereill a farnant ei fod yn arwyddo Samson, yr hwn oedd yn Bendan, yn *fab* neu o lwyth Dan. Ysgatfydd mai Jair oedd efe yn hytrach, ac yn cael ei alw Bedan, ar ol ei henafiad, gorwyrMachir.

BEDYDD, a arwydda *golchi* yn gyffredinol, Marc vii. 8. *Gr.* Ond y mae golchiad dynion fel arwydd o gyflwyniad i Dduw, yn cael ei alw felly yn neilltuol. Tebygol i'r ddefod hon ddechreu yn ddigyfrwng ar ol y dylif. Ymolchodd Jacob a'i deulu cyn eu dynesu at Dduw yn Bethel, Gen. xxxv. 2. Ymolchodd yr Hebreaid cyn iddynt ymgyfammodi â Duw wrth Sinai, Exod. xix. 14. Ymolchodd Aaron a'i feibion cyn eu cyssegriad i'r offeiriadaeth. Exod. xxix. 4. Byddai yr Iuddewon, ar ol enwaedu ar eu proselytiaid, yn eu golchi mewn dwfr. Yn ngweinidogaeth Ioan mab Zecharias, dechreuodd bedydd fod yn insel y cyfammod newydd. Cynnwysai ei fedydd ef holl sylwedd yr hyn a gymmerodd le wedi hyny, er nad oedd yn arddangos y Drindod o bersonau yn y Duwdod, a chnawdoliaeth gwirioneddol Crist mor eglur. Ac nid oes un tystiolaeth i neb a gawsant eu bedyddio gan Ioan gael eu hail-fedyddio gan ddysgyblion Crist. Ni chafodd ein Hiachawdwr, ac, ysgatfydd, y rhan fwyaf o'i ddysgyblion, un bedydd arall, amgen na bedydd Ioan. Crist ni *fedyddiodd neb* ei hun, fel na byddai iddo fedyddio neb yn ei enw ei hun; fel y byddai iddo gynnal ei urddas megys unig Arglwydd yr eglwys, a'r bedyddiwr â'r Ysbryd Glân; ac fel na byddai i bwysfawredd bedydd yn ddangos i ymddibynu ar deilyngdod y gweinyddwr, ond ar awdurdod Duw; ac, ysgatfydd, mai am y rheswm diweddaf hwn, y gochelodd Paul fedyddio gymmaint ag a allai, Ioan iv. 2. 1 Cor. i. 14. Cyn ei farwolaeth, anfonodd Crist ei ddysgyblion i fedyddio yn ngwlad Judea yn unig: ond ar ol ei adgyfodiad, awdurdododd hwynt i ddysgu a dysgyblu yr holl genedloedd, gan eu bedyddio yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, Ioan iii. 26, a'r iv. 1, 2. Mat. xxviii. 19. Nid arwydda bod Paul heb ei anfon i *fedyddio* ddim ychwaneg nag mai pregethu yr efengyl, ac nid bedyddio, oedd ei brif waith, 1 Cor. i. 17. *Bedyddio* dros y meirw, hyny yw, mewn crediniaeth o adgyfodiad y meirw, neu tros adgyfodiad y meirw. Mae y Dr. *Dodridge* yn cyfeithu yr ymadrodd, *Bedyddio yn lle y meirw*; megys pe buasai y rhai oeddynt yn derbyn y grefydd Gristionogol trwy fedydd yn cael eu gosod ar y maes i filwrio yn achos Crist yn lle y rhai a syrthiasant trwy farwolaeth, 1 Cor. xv. 29.

BEDD, (*edd*, tawelwch) lle i gladdu eyrph meirw ynddo. Yr oedd yr Hebreaid gynt yn gyffredin yn ofalus iawn yn nghylch eu beddau, ac y mae yr Iuddewon felly hyd heddyw. Claddwyd Abraham, Sarah, Isaac, a Rebecah, a rhai ereill o'r patriarchiaid, a breninoedd Israel a Judah, a gwyr anrhydeddus ereill, mewn ogofëydd, wedi eu ffurfio gan anian, neu eu naddu mewn creigiau. Claddwyd Moses, Aaron, Eleazar, a Josuah mewn mynyddoedd. Deborah, mammaeth Rebecah, dan dderwen, a Samuel yn ei dŷ ei hun. Ymddengys i rai o'u breninoedd gael eu claddu yn y mynydd ar ba un y safai y demi, Ezec. xlii. 9. Byddent yn claddu, weithiau, mewn gerddi; ond, yn gyffredinol, yr oedd eu claddfëydd o'r tu allan i'r ddinas. Ymddengys mai yn nyffryn Cedron, o du y dwyrain i'r ddinas, yr oedd y gladdfa gyffredin yn Jerusalem. Nid ymddengys eu bod, mewn achosion cyffredin, yn nodi eu beddau âg unrhyw ar ysgrifeniadau; ond ymddengys fod un o'r cyfryw ar fedd gŵr Duw, yr hwn a brophwydodd am ddinystr yr allor yn Bethel, 2 Bren. xxiii. 17. Pan gleddid hwy mewn creigiau, neu yn y ddaear, byddai carreg nâdd yn

cael ei gosod yn gyffrediu arnynt; a rhywbeth i rybuddio y ffordd o lion i ochelyd eu cyffwrdd, ac felly halogi eu hunain. Ar y 15fed dydd o fis Adar, dywedir, y byddent yn arfer gwyn-galchu eu beddau; a thrwy adeiladu neu wyn-galchu beddau y prophwydi, yr oeddynt yn proffesu eu parch mawr iddynt, Mat. xxiii. 19.

Cafodd *bedd Moses* ei guddio gan Dduw. Yn nghylch A. D. 1655, cymmerodd rhyw fugeiliaid Maroniaidd arnynt eu bod wedi ei gael. Dros ennyd, gwnaeth y dadguddiad hwn swn mawr yn Nhwrci, a'r llys Ottomanaidd; ond cafwyd o'r diwedd, mai twyll oedd y cwbl. Yr oedd bedd Dafydd, ac ereill o freninoedd Judah, nid yn unig yn aros hyd amser escyniad ein Hiachawdwr, Act. ii. 29; ond y mae yn parhau etto, er ei fod wedi adfeilio yn fawr iawn. Ynddo, yn gyntaf, chwi a ewch i mewn i gyntedd yn nghylch 26 troedfedd bedryfal, wedi ei naddu mewn craig farmor: ar y llaw chwith y mae oriel (*gallery*), a cholofnau yn ei gynnal, wedi ei naddu yn y cyffelyb fodd: wrth ben hwn, ymlusgwch drwodd i ystafell yn nghylch 24 troedfedd bedryfal. O amgylch hon, y mae ystafelloedd bychain ereill, a'u dorau, eu colynau, a'u hystlys-byst wedi eu naddu yn y graig. Yn yr ystafelloedd bychain hyn, y mae ceueddau wedi eu naddu yn y graig, yn mhararai y gosodent gyrph meirw eu breninoedd. Dywedir i Solomon roddi trysorau dirfawr yn nghladw yn medd ei dad, ac i Hyrcanus a Herod ei anrheithio; ond pwy bynag a ystyria pa mor fynych, er yr amser hwnw, yr ymnillasid Jerusalem gan ei gelynion, a fydd yn dra hwyrfrydig i gredu y gallai unrhyw drysorau barhau yno dros 900 neu 1000 o flyneddoedd. Ystafell fechan yn nghylch 16 troedfedd o hyd, 6 o led, ac 8 o uchder, yw bedd ein Hiachawdwr a ddangosir yn awr i deithwyr. Ei geneu sydd yn 4 troedfedd o uchder, a 2 droedfedd a 4 modfedd o led. Y mae iddi ddrws carreg, wedi ei naddu o'r un graig. Y maen hwn a seliodd yr Iuddewon; ond yr angel a'i treiglodd ymaith, ac a eisteddodd arno. Carreg wedi ei chyfodi ddwy droedfedd a phedair modfedd oddi wrth y llawr, yw y lle y dywedir y gorweddodd ei gorph arno.

Dywedir fod y bedd yn *llyngcu* dynion; ac, nas *diwellir* mo hono, Diar. i. 12, a xxx. 16. Aeth Crist yn drange iddo. Tiwy orwedd ynddo dnos ei bobl, gwaredodd hwynt oddi wrth ei allu i'w cadw yn garcharorion, ac a'i gwnaeth yn wely iddynt i orphwys ynddo, Hos. xiii. 14. Rhoddir y *bedd*, weithiau, am angau, Job iii. 22; neu am y meirw yn y bedd, Esa. xxxviii. 18. Cyffelybir rhagrithwyr i *feddau wedi eu gwynu*, ac hefyd i *feddau anamlwg*; tra maent yn ymddangos yn sanctaidd oddi allan, y maent o ran eu calonau a'u gweithredoedd dirgel yn llawn afiendid a llygredd, Mat. xxiii. 27. Luc xi. 44. Cegau pechaduriaid ydynt fel *bedd agored*; y maent yn bwrw allan arogl tra ffiaidd geiriau llygredig, y rhai a halogant ac a anurddant ereill, Rhuf. iii. 15. Cawell saethau y Caldeaid ydoedd fel *bedd agored*, yr oedd eu saethau yn taenu difrod a marwolaeth oddi amgylch, Jer. v. 16.

BEER, (*ffynnon*) dinas yn nghylch 12 milltir o du y gogledd i Jerusalem, ar y ffordd i Sechem. Yma yr ymguddiodd Jotham, mab Gideon, rhag Abimelec, Barn. ix. 21.

BEER-ELIM, lle yn ngwlad Moab. Am fod yr enw yn arwyddocau *ffynnon y tywysogion*, tebygol mai o amgylch yma y cloddiodd tywysogyr Hebreaid ffynnon i ddiwallu eu llwythau sychedig; ac yma y clybuwyd gwaedd y Moabiaid gorthrymedig, yn amser rhuthr yr Assyriaid, Num. xxi. 18. Esa. xv. 8.

BEER-LAHAI-ROI, (*ffynnon yr hwn sydd yn fyw ac yn fy ngweled*) ffynnon rhwng Cades a Sur, o du y dehau i Canaan, a alwyd felly gan Hagar, o herwydd i'r Duw byw ymddangos iddi yno, a darparu ar ei medr hi a'i mab, Gen. xvi. 13.

BEEROTH (*ffynnonau*). 1. Un o ddinasoedd y Gibeoniaid, a roddwyd i lwyth Benjamin, a'r lle y ganwyd y ddau wr hyny a laddasant Isboseth, Jos. ix. 17. 2 Sam. iv. 5, 6, 7. Gelwir preswylwyr y lle hwn, neu ryw le yn agos i Abel-bethmaaca, yn Berim, 2 Sam. xx. 14. (2.) Beeroth meibion Jaacan, neu Bene-jaacan, neu ffynnonau meibion Jaacan, ydoedd 28ain gwersyllfa yr Hebreaid yn anialwch Arabia, ychydig o du y gogledd i Ezion-geber. Ymddengys iddynt deithio o Mosera neu Moseroth i'r lle hwn, ac yna

drachefn tua'r dehau i Mosera, Num. xxxiii. 31. Deut. x. 6.

BEER-SEBA, *(ffynnon y llw, neu y saith)* lle a alwyd felly o blegyd i Abraham *wneud* yno *gytfammod* trwy lw ag Abimelec brenin Gerar, a rhoddi iddo saith hespin fel cadarnhad o hono. Yn anialwch Arabia gerllaw yma, y crwydrodd Hagar, Gen. xxi. 14. Yn Beerseba, y planodd Abraham lwyn at ei addoliad dirgel tano; ac yma y bu efe a'r patrieirch Isaac a Jacob yn trigo. Oddi yma y cymmerodd Jacob ei daith i'r Aipht, Gen. xxi. 14—33, a xxii. 19, a xxviii. 10, a xlvi. 1. Adeiladwyd dinas yma wedi hyny, yr hon a syrthiodd i ran y Simeoniaid, Jos. xix. 2. Safai yn nghylch 20 milltir o du y dehau-orllewin i Hebron, a 42 o Jerusalem; ac yr oedd hi ar derfyn dehenol yr Israeliaid, fel yr oedd *Dan* ar yr un gogleddol. Cyfrifid fod 156 neu 160 o filltiroedd Rhufeinig rhwng y ddwy, 2 Sam. xvii. 11. 1 Bren. iv. 25. Barn. xx. 1.

BEHEMOTH, *(anifel yr anifeiliaid)* un o'r pedwar-carnolion mwyaf hynod. Mae y gair *Heb.* am y creadur hwn, yn y rhif lluosog, a'r rhyw fenywaidd; i ddangos, hwyrach, ei ragoriaeth o ran maintioli. I argyhoeddi Job o'i annigonolrwydd ger ei fron, y mae Duw yn gofyn iddo ystyried yr anifel hwn. Darlunia ef megys wedi ei wneuthur gydag ef, neu yn agos i'w drigfan; megys yn ymborthi yn ddiniweid ar laswellt y mynyddoedd, ac yn gorwedd yn mysg helyg, cyrs, a siglennydd; megys yn dra ffyrnig a chalonog, yn ddibryder ped ymarllwysai hyd yn nod afon arno; megys â chanddo gynffon neu dduryn cryf fel cedrwydden, neu yn alluog i rwygo un; megys â chanddo ei gryfder yn ei lwynau, ac yn ngewynau ei fol; megys â gewynau ei forddwydydd neu ei gerrig wedi eu cydblethu; megys â chanddo esgyrn cryfion fel ffyn heiyrn, a phibellau pres, Job xl. 15—24. Ymddengys fod naturiaethwyr yn cyduno yn gyffredinol mai naill ai yr elephant neu yr afon-farch *(hippopotamus)* yw yr anifel hwn; ond barna Mr. *J. M. Good* fod y rhywiogaeth wedi ei cholli, gan nad yw y darluniad yn cyfatteb yn gyflawn i'r elephant na'r afon-farch.

Yn ei lawn dyfiant, y mae yr elephant o 17 i 20 troedfedd o uchder, a'i fol yn cyrhaedd bron i'r llawr. Ei ben sydd fawr, o ddull hir-grwn, ac yn lleihau tua'r geneu. Ni fedd ddim dannedd blaen, eithr y mae ei ddau ysgythr-ddant uchaf yn fawr ion iawn, a hwy ydynt ein hifori ni; pwysant eill dau yn fynych rhwng tri a phedwar can pwys. Yn mhob gên y mae ganddo bedwar cil-ddant, y rhai nid ydynt nemawr llai rhyfeddol eu maint a'u gosodiad na'r rhai blaenorol, a phob un o honynt wedi ei gyfansoddi fel pe byddai amrywiol ddannedd wedi eu cyssylltu yn nghyd. Ei lygaid ydynt fychain mewn cyfartalwch i'w gorph, eithr y mae ei glustiau yn fawrion, ac yn llawn pilenau. Cyrhaedda ei drwyn, neu ei ddwryn o un i bum troedfedd, neu ychwaneg; â hwn, ag sydd yn gynnwysedig o gnawd eraled, ac yn llawn o fân-wythi, y cyrcha ei ymborth i'w enau, ac y chwyrn-deifl beth bynag a gymmer yn lle gwrthwynebwr. Y mae ganddo ddwy ddiden ar ei fron. Y mae ei goesau yn hynod breiff, a phum bys ar bob troed, eithr y maent wedi eu cyssylltu yn y fath fodd, a'u gorchuddio â chroen cyffredin, fel nad ellir p in canfod y gwahaniad, oddi eithr tua'r blaen, lle maent wedi eu golymu â chrafangau neu ewinedd. Ei gynffon sydd fer a bechan. Y mae ei holl gorph wedi ei orchuddio â math o groen dafadenog, yn dra chryf a thrwchus, a bron o liw llygoden, gydag ychydig flew hirion anhyblyg yn tyfu yr un bellder oddi wrth eu gilydd. Y mae hir-hoedliad, cryfder, cyfrwysdra, hyddysgedd, ffyddlondeb, callineb, bywiogrwydd, ac hyd yn nod lledneisrwydd yr anifel hwn yn cael eu canmawl yn fawr. Y mae yn dra mwynaidd a diniweid oni chyffroir ef; ond os gwneir hyny, y mae yn dryllio â'i ddannedd, yn gwasgaru â'i dduryn, ac, hyd yn nod, yn dadymchwelyd coed, tai, a muriau; ac un ddyrnod iddo a ladd geffyl. Pan fyddo yr elephantiaid yn ymladd â'u gilydd, y maent yn gwthio â'u dannedd, fel y gwna teirw â'u cyrn. Yn y cyn-oesoedd, arferid hwy yn gyffredin mewn rhyfeloedd; a dywedir, y byddai tyrau o goed, yn cynnwys yn nghylch 30 o ryfelwyr, yn cael eu hadeiladu ar eu cefnau; ond yr ydym yn anmeu y gallai dros

bedwar neu bump ymladd oddi arnynt. Y mae y creadur hwn yn eppilio yn awr yn Asia ac Affrica; ond ysgatfydd mai brodor o Rwssia yn Ewrop oedd efe gynt. Delir elephantiaid gwylltion trwy eu dychrynu â thân a swn, nes, wrth redeg ymaith, y syrthiont i ffosydd dyfnion, wedi eu gorchuddio â chlwydau ag ychydig bridd arnynt; neu trwy amgau un fenyw mewn rhyw le cyfyng.

Yr afon-farch, neu yr Hippopotamus, sydd greadur pedwar-troediog hynod arall, yn tebygu mewn rhan i'r bual, neu y tarw gwyllt, ac mewn rhan i'r arth. Y mae yn fwy na'r bual. Ei hyd o'i ben i'w gynffon sydd yn nghylch 13 troedfedd; ei gylchedu o ddeutu y gwregys yn ogymmaint; a'i drwch sydd yn nghylch pedair troedfedd a hanner. Am ei fol yn gyffredin yn drathew, y mae ei fol yn lled anghrwm. Ei ben sydd fawr iawn mewn cyfartalwch i'w gorph; geill ei safn agor droedfedd o led; ei lygaid ydynt fychain; ei glustiau yn fychain a theneuon; y mae yr èn uchaf iddo yn symmudol; yn yr èn isaf y mae ganddo ddau ysgythr-ddant yn nghylch troedfedd o hyd, ac yn hytrach yn geimion; y mae ganddo bedwar cilddant ar bob tu i'w safn; ei ddannedd ydynt gelyd fel calle-tr, a rhoddant dân o'r dur. Y mae ei goesau yn debyg i eiddo arth, ac o ddeutu tair troedfedd o amgylch, a thair troedfedd a hanner o hyd; y mae i bob troed garn du, wedi ei ranu yn bedwar o ewinedd yn y blaen. Ei gynffon sydd fraisg iawn a ber, yn meinhau yn raddol at y blaen, ac nid ellir ei nydd-droi hi. Y mae ei groen yn ddu, caled, a gwydn, ac yn ddiflew, heblaw trawsweh wrth y trwyn. Ceir yr anifel hwn o amgylch y Nilus, y Niger, ac afonydd ereill, yn Affrica, &c. Gan nad yw wedi ei ffurfio at nofio, rhodia yn ngwaelod yr afon, ac oddi yno daw i ymborthi ar *rice*, llysiau, a gwreiddiau, a dyfant ar y glanau a'r bryniau cyfagos; a gorwedda yn fynych yn mysg y cyrs a'r llwyni ar y cenlanau. Ymddengys mai math o afon-farch yw môr-farch Rwssia a Gwerddon Ogledd-lol *(Greenland)*, yr hwn a âd y môr, ac a ddaw i bori ar y mynyddoedd cyfagos.

BEL, yr eilun Caldeaidd Baal. Pa un ai eu bod yn addoli Nimrod, eu Baal neu eu *hargiwydd* cyntaf dan yr enw hwn, neu Pul brenin Assyria, neu ryw unbenaeth arall, ynte yr haul, neu y cwbl a enwyd dan un, nis gwyddom. Pan emmillwyd Babilon gan Cyrus a Darius, dinystriwyd yr eilun hwn, a'i ddelw anferthol ei maint, a darostyngwyd ef i gwbl warthrudd, Esa. xlvi. 1. Jer. l. 2.

BELIAL, enw a roddir i'r diafol, yn ei osod allan yn *ddi-iau*, yn *ddijudd*, ac yn *ddiescyniad*. I nodi dynion tra drygionus, anfuddiol, ac afreolus; neu bethau tra erchyll a ffiaidd, gelwid hwy yn blant, meibion, neu bethau Beliál, 2 Cor. vi. 14. 2 Sam. xx. 1, a'r xxii. 6, a'r xxiii. 1 Sam. ii. 12, a'r xxv. 17.

BELSASSAR, *(arg'wydd y trysor)* mab Efil-Merodac a Nitocris, wŷr Nebuchodonozor, a brenin Babilon. Adyn tra anfuddiol a musgrell oedd efe; ond ymdrechodd ei fam glodus yn fawr i gynnal y freniniaeth i fynu. Yn nghylch y 17eg flwyddyn o'i deyrnasiad, A.M. 3466, a phan y gwarchaeôdd Cyrus y buddugoliaethwr enwog ar ei brif-ddinas, gwnaeth Belsassar, ar ddydd gŵyl, tebygol, cyssegredig i'r eilun Sesac, wledd arderchog i fil o'i dywysogion. Gwedi ei frydio gan win, gorchymynodd ddwyn y llestri cyssegredig ger bron, y rhai a gymmerasid o deml Duw yn Jerusalem; yn y rhai hyn yr yfodd efe, ei wragedd, ei ordderchadon, a'i dywysogion mewn modd anghymmedrol ac eilunaddolgar, gan ganu caniadau o anrhydedd i'w heilunod. Gwaith angel yn ffurfio llun llaw, ac yn ysgrifenu collfarn y brenin ar galchiad y pared, a roddodd attalfa ar eu llawenydd, ac a'u llanwodd âg arswyd. Tarawyd Belsassar â'r fath fraw disymmwth, fel yr ymddattododd cymmalau ei lwynau, ac a y crynodd yn ddirfawr. Nid allai neb oedd yn bresennol ddarllain na dehongli yr ysgrifen. Galwyd am y dewiniaid, y brudwyr, ac ereill enwog am ddoethineb; a gwisg borphor, cadwyn aur am ei wddf, a chaei llywodraethu yn drydydd yn y deyrnas, oedd y gwobrwy addawedig i'r hwn a'i darllenai ac a'i dehonglai. Yn anwybodus o'r llythyrenau, am eu bod yn Hebraeg, tebygol, neu wedi eu taraw âg arswyd disymmwth, nid allai neb o honynt gym-

meryd arno ddarllain na dehongli yr ysgrifen. Y synwyrol Nitocris, wedi clywed am gyffro ei mab a'i dywysogion, a ddymunodd arnynt anfon am Daniel, yr hwn, ymddengys, a fuasai, er's amser hir, yn ddyeithr i'r llys; a pha un, gobeithiai, a fedrai ei darllain a'i dehongli. Dygwyd ef yno yn ddiattreg, a chynnygwyd y gwobrwy iddo, yr hwn a wrthododd efe yn ostyngedig. Ar ol rhoddi cerydd ffyddlawn i'r brenin am ei eiliunaddoliaeth, a'i gamddefnydd anniolchgar o lestri cyssegredig y deml Iuddewig, darllenodd yr ysgrifen, yr hon oedd fel hyn: *Mene, tecel, upharsin;* Mene, eb efe wrth y brenin, a arwydda, fod Duw wedi rhifo dyddiau dy frenindod, a'th fod bron wedi ei orphen: Tecel, ti a bwyswyd yn nghlorianau arfaeth a chyfraith Duw, ac a'th gaed yn brin mewn daioni, a thorrir di ymaith yn ebrwydd: Pheres, rhanwyd dy frenieiaeth, dygwyd hi oddi arnat, a rhoddwyd hi i'r Mediaid a'r Persiaid. Derbyniodd Daniel, yn ddioed, y gwobrwy addawedig; ac, ymddengys, i'r brenin a'i dywysogion ddychwelyd at eu llestri. Gwarchaeasai Cyrus, tywysog y Persiaid, a'i ewythr Darius y Mediad, eisoes, ddwy flynedd ar Babilon, yn aflwyddiannus. Yn rhagweled y wledd hon, trôdd yr Euphrates o'i rhedfa gyffredin. Y noson honno, arweiniodd ei luoedd yn mlaen ar hyd dyfr-le yr afon; a chan fod y pyrth pres oeddynt arni wedi eu gadael yn agored gan y Caldeaid meddwon, rhuthrasant i mewn, a llanwasant y ddinas â thywallt gwaed a chythrwfl arswydus. Gobrias a Gadata, dan enciliwr Babilonaidd, yn nghyd â rhai milwyr etholedig o'r Persiaid, a ruthrasant i'r palas, a laddasant y gwilwyr, ac a wânasant eu cleddyfau i mewn i ymysgaroedd y brenin Belsassar a'i dywysogion, pan nad oeddent ond braidd wedi deffroi o'u cwsg a'u meddwdod. Ymddengys na chafodd corph y brenin gymmaint â chladdedigaeth gweddus.

Y mae yr haneswyr Cristionogol yn ddigon cydun, mai gan y Persiaid, y Mediaid, a'r Armeniaid yr ennillwyd Babilon, ac i'r amberodraeth gael ei throsglwyddo i'r Mediaid, ac oddi wrthynt hwy i'r Persiaid. Pawb a gydunant, na theyrnasodd un Caldead yn Babilon, ar ol Belsassar; ond gan fod *Herodotus* yr hanesydd yn adrodd y matter hwn mor wahanol oddi wrth yr ysgrythyrau, nid ydynt yn cyduno mai yr un dyn oedd Belsassar â Nabonedus, neu pa un a'i fod ef yn ŵyr i Nebuchodonozor. neu beidio. Myn *Scaliger* mai y plentyn Laboroscard, mab Neriglissar o ferch Nebuchodonozor, oedd ef. Myn *Marsham* mai Efil-Merodac oedd ef. Eithr dilys yw, i Dduw addaw gwasanaeth y cenedloedd i Nebuchodonozor, ac *i'w fab*, a *mab ei fab*. Gan hyny, amlwg yw, nad allai Belsassar fod yr un âg Efil-Merodac, yr hwn nid oedd ond mab i Nebuchodonozor. Ac nid Laboroscard allai ef fod, yr hwn nid oedd ond mab i ferch Nebuchodonozor, ac, heblaw hyny, ni theyrnasodd efe ond ychydig flsoedd, gan iddo farw yn blentyn; ond, bu Belsassar yn teyrnasu amryw flyneddoedd, ac yr oedd ganddo wragedd a gordderchadon, Jer. l, a'r li. Esa. xiii, a'r xiv. Dan. v, a'r viii. 1.

BENAIAH, *(mab yr Arglwydd)* mab Jehoiadah, un o gedyrn Dafydd, a thywysog ei ddiffyn-gôr. Efe a laddodd ddau o gedyrn enwog Moab. Lladdodd lew a aethai i waered i bydew yn amser eira. Gwedi ei arfogi â ffon, ymosododd ar Aiphtddyn golygus yn arfog â gwayw-ffon, tynodd ei wayw-ffon o'i law, a lladdodd ef â hi. Ymlynodd wrth Solomon yn erbyn Adoniah, a bu gynnorthwyol wrth ei enneinio yn frenin, ac, o herwydd hyny gosodwyd ef ar y filwriaeth yn lle Joab: a thrwy orchymyn Solomon, rhoddodd Joab ac Adoniah i farwolaeth, 2 Sam. xxiii. 20. 1 Bren. i, a'r ii.

BENDITH, BENDITHIO, BENDIGEDIG. Gellir egluro y golygiad ysgrythyrol o'r geiriau liyn oreu trwy yr hyn sydd wrthwyneb iddynt, sef *melldith*. Trwy ddyfodiad pechi'r byd, daeth melldith Duw ar yr holl greadigaeth honno a orphenasai Duw mor ddiweddar, ac y dywedasai am dani ei bod yn dda iawn. Ymdaenodd y felldith dros y ddaear, a'r hyn oll sydd ynddi: ac aeth hyd yn nod yr awyr yn eisteddle tywysog y tywyllwch. Daeth y felldith hon trwy drosedd yr Adda cyntaf; ac ymddangosodd Mab Duw i ddattod

gweithredoedd y diafol, a dwyn *bendith* i mewn, bendith mor helaeth â'r felldith, ïe, fel y dywed St. Paul gyda phwysigrwydd mawr, megys y teyrnasodd pechod i farwolaeth, felly hefyd y teyrnasai gras trwy gyfiawnder i fywyd tragywyddol. Daeth y felldith ar bawb trwy gyfrifiad pechod. Cyrhaedda y fendith at bawb a gyfranogant o honi trwy gyfrifiad cyfiawnder: am hyny, "gwyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd, ac y cuddiwyd ei bechod; gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd," &c. Salm xxxii. 1—3. Maddeuant pechod yw sylfaen pob gwynfydedigrwydd y gwneir plant Duw yn gyfranogion o hono, hyd yn nod pob bendithion ysbrydol mewn nefolion leoedd. Dyma y fendith sydd yn cyfoethogi, heb ddwyn dim blinder gyda hi. Heddwch, gorfoledd, a chyssur yn y byd hwn, ydynt flaen-ffrwythau y fendith hon; ac, yn y byd a ddaw, bywyd tragywyddol. Addawyd y fendith hon i Abraham, a gelwir hi mewn modd pwysig, *bendith Abraham*, yr hon oedd i ddyfod ar y cenedloedd; am hyny dywedodd Duw wrtho ef, Ti a fyddi yn fendith. Rhedodd y fendith hon yn lwynau hâ Abraham, nes ymddangosodd Crist, y Daioni addawedig; Duw wedi cyfodi ei Fab Iesu, a'i hanfonodd ef i'n bendithio ni. Dyddymodd y felldith i'w bobl, fel nad yw, hyd yn nod y bedd, lle yr oedd effeithiau y felldith yn ymddangos fwyaf arswydus, yn awr ond llwybr i wynfyd; o herwydd, *gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Ysbryd.* Eithr y mae perffeithrwydd dedwyddwch etto i ddyfod: *gwynfydedig a sanctaidd yw yr hwn sydd â rhan iddo yn yr adgyfodiad cyntaf; bendigedig yw y rhai a elwir i swpper neithior yr Oen.* Mewn gair, y mae holl fendithion y cyfammod newydd yn dylifo i ddyn euog trwy farwolaeth ac adgyfodiad Crist. Yr oedd bendithion gwlad Canaan ddaearol yn wystlon o fendithion yr un nefol. Arferir y gair mewn amryw ystyriaethau yn yr ysgrythyr, megys, Pan ddywedir fod Duw yn *bendithio*, arwydda (1.) Cyfranu digonedd o bethau da tymhorol i un, a gweuthur ei achosion allanol yn hwylus a llwyddiannus, Gen. xxx. 27. (2.) Cyfranu pethau daionus, yn dymhorol ac yn ysbrydol, Gen. xii. 2. (3.) Cyfiawnhau dyn, a'i wneud yn wynfydedig yn y mwynhad cyflawn o hono ei hun, Salm xxxii. 1, 2. Dad. xiv. 13. (4.) Neillduo pethau i wasanaeth sanctaidd, a'u gwneud yn attebol i'r dyben hwnw, Gen. ii. 3. (5.) Rhoddi nerth i greaduriaid i genedlu eu rhywiogaeth, Gen. i. 22. (6.) Cynnysgaethu dyn â gwroldeb arwraidd, nerth gwyrthiol, a doniau a grasau ereill angenrheidiol i'w alwedigaeth, Barn. xiii. 24.

Pan ddywedir fod dynion yn *bendithio*, arwydda (1.) Derchafu a moliannu Duw, o herwydd ei ragoriaethau anfeidrol, Salm civ. 1. (2.) Talu diolch iddo am ei drugareddau, a'r lles a dderbyniasom oddi ar ei law, Salm xvi. 17, a'r ciii. 1, 2. (3.) Dymuno yn awyddus, a rhagfynegu am lwyddiant i ryw un, Gen. xlix. Deut. xxxiii. (4.) Gweddio mewn modd arbenig tros un, a mynegu parodrwydd Duw i wneud daioni i ereill, Num. vi. 23, 24. 2 Sam. vi. 18. (5.) Cydnabod ein dedwyddwch mawr gyda diolchgarwch, fod genym Dduw yn Iachawdwr, yn Rhan, ac yn Arglwydd, Esa. lxv. 16. Jer. 4. 2. (6.) Cyfarch dynion, gan ddymuno heddwch a llwyddiant iddynt, Gen. xlvii. 7. Salm cxxix. 8. (7.) Gweddio tros ereill, a dywedyd y goreu am danynt, Luc vi. 28. (8.) Dychymygu, yn ffol, ein bod yn ddoeth, yn ddedwydd, ac mewn cyfeillgarwch â Duw, o blegyd ein llwyddiant yn y byd, Salm xlix. 18; neu wenieithio i ni ein hunaid na chospa Duw ein pechodau, Deut. xxix. 19. Duw yn gadael *gweddill bendith ar ei ol*, a arwydda ei waith yn cadw rhan o ffrwythau y ddaear at ei addoliad ei hun, a chynnaliaeth ei bobl, Joelii. 14.

BENHADAD, (*mab Hadad*) mab Tabrimon, a brenin Syria. Gwedi ei hudo gan roddion Asa, brenin Judah, torrodd ei gynghrair â Baasa brenin Israel, ac anrheithiodd barthau gogleddol ei deyrnas. Yn nheyrnasiad Omri, neu Ahab, gwnaeth heolydd, marchnad-leoedd, neu yn hytrach amddiffynfëydd, iddo ei hun yn Samaria, 1 Bren. xv. 18, a'r xx. 34.

2. *Benhadad*, mab a chanlynwr y

y cyntaf, a fu yn ffiangell fwy arswydus fyth i freniniaeth Israel. Yn nheyrnasiad Ahab, difrododd y wlad, gwarchaeodd ar Samaria ei brifddinas, gan hóni hawl mewn modd trahaus-falch, i'w wragedd, a'i blant, a'i olud, a phob peth gwerthfawr yn y ddinas. Gwrthododd yr Israeliaid y cynnygiad afresymol hwn, a nerthwyd hwy mewn modd gwyrthiol, gydag ychydig wŷr, i orchfygu ei lu cadarn ef, Yn gofus ganddynt i Dduw roddi y gyfraith oddi ar fynydd, a bod ei deml ar un arall, cynghorodd ei weision ef nad oedd Duw yr Hebreaid ond *Duw y mynyddoedd* yn unig; a phed ymladdasent â hwy yn y gwastadedd, y buasent yn sicr o ennill y fuddugoliaeth. Credodd yntau y dychymygffol hwn yn ebrwydd; a chan symmud ei 32 brenin teyrngedol o'u lleoedd, efe a'u llanwodd â thywysogion, y rhai, gobeithiai, a fyddent yn fwy medrus a ffyddlon mewn rhyfel; ac, yn mhen y flwyddyn, dychwelodd i ennill buddugoliaeth gyflawn ar y deyrnas. I geryddu ei ddrygioni, rhoddodd Duw iddo, trwy ddyrnaid o Israeliaid, orchfygiad arswydus. Lladdwyd can mil o'i wyr ar y fan. Bwriodd daear-gryn fur Aphec ar 27,000 yn rhagor, ac a'u llethodd i farwolaeth. Gwedi ei ddarostwng i fin anobaith, bwriodd Benhadad ei hun, trwy gyngor ei weision, ar drugaredd Ahab. Caniattawyd, nid yn unig ei fywyd, i'r cablwr trahaus, ond rhyddid i ddychwelyd i'w deyrnas ar yr ammodau esmwythaf. Yn wrthwyneb hyd yn nod i'r rhai hyn, cadwodd Ramoth-gilead, un o ddinasoedd Israel, yn ei ddwylaw; a phan gynnygiodd Ahab ei mynnu oddi wrtho, efe, yn y modd mwyaf anniolchus, a orchymynodd i'w wŷr gyfeirio eu hergydion atto ef yn bennigol, yr hwn, trwy ormodedd pechadurus o dosturi, a roddasai iddo ei fywyd a'i freniniaeth mor ddiweddar, 1 Bren. xx, a'r xxii.

Yn fuan ar ol hyn, gwnaeth ryfel â Jehoram, canlynwr Ahab, a dygodd luaws o Hebreaid ymaith yn gaethion. Gwedi mynegu iddo gan un o'r rhai hyn, y gallai prophwyd o'r Hebreaid iachau Naaman tywysog ei lu o'i wahan-glwyf, anfonodd ef at Jehoram y brenin i'r dyben hwnw. Prin y dychwelasai y tywysog adref wedi ei iachau o'i fleiddglwyf, pan y tywalltodd Benhadad ei luoedd anrheithiol i deyrnas Israel, gan amcanu, yn benaf, torri Jehoram ei hun ymaith. Gwedi hysbysu iddo fod Eliseus yn dadguddio ei fwriadau i Jehoram, anfonodd fintai o wyr i ddal y propwyd. Ar ddymuniad Eliseus, tarawodd Duw hwy â dallineb hannerol, ac efe a'u harweiniodd i Samaria, lle y mynnasai y brenin Jehoram eu lladd hwynt; ond trwy gyngor Eliseus, rhoddodd luniaeth iddynt, a gollyngodd hwynt ymaith mewn diogelwch. Gwedi ei ddychrynu gan allu Eliseus, neu ei dueddu i drugaredd o herwydd haelfrydedd Jehoram, tynodd Benhadad ei fyddinoedd ysglyfaethus ymaith, am yn nghylch pedair blynedd. O'r diwedd, cyrchodd am ben y wlad, a gwarchaeodd ar Samaria, nes oedd y newyn yn fawr dros ben. Gwerthid pen asyn am yn nghylch deg punt o arian Lloegr; a rhoddid am yn nghylch tair rhan o bedair o beint o dom colommenod, neu ŷdbys gwaelion, yn agos i ddeuddeg swllt; gwragedd a fwyttaent eu plant eu hunain. Rhagfynegodd Eliseus, y byddai mesur o beilliaid, a dau fesur o haidd, yn cael eu gwerthu, dranoeth, am yn nghylch hanner coron. Y noson honno, dychrynodd yr Arglwydd wersyll y Syriaid; tybiasant eu bod yn clywed trwst dirfawr, a chasglasant fod Jehoram wedi cyflogi llu anferthol o Aiphtiaid, Hethiaid, ac ereill, i'w llyngcu hwy i fynu. Ffoisant o'u gwersyllfa mewn dychryn aruthr, gan ei gadael yn llawn fel ag yr oedd; ar hyd y ffordd tafiasant ymaith eu gwisgoedd, a bwriasant oddi wrthynt pa beth bynag a gymmerasent gyda hwynt. Pedwar o wyr gwahan-glwyfus, y rhai a yrrasai newyn i fwrw eu hunain ar drugaredd y Syriaid, wedi cael o honynt fod y gwersyll wedi ei adael, a fynegasent byny i'r brenin Jehoram. Ar ol cymmeryd peth rhagocheliad i brofi pa un ai bod y Syriaid wedi ffoi mewn gwirionedd, neu beidio, anrheithiodd yr Hebreaid y gwersyll, a'r llawnder a attebodd i ragfynegiad y prophwyd, 2 Bren. v, vi, a'r vii. Yn mhen y flwyddyn, clafychodd Benhadad; ac wedi hysbysu iddo, fod Eliseus yn rhyw le yn agos i Damascus, anfonodd Hazael

tywysog ei lu atto, gydag anrheg o lwyth deugain o gamelod o'r pethau gwerthfawrocaf yn Syria, i ymofyn a fyddai byw. Attebodd Eliseus, nad oedd dim perygl angau yn ei afiechyd; ond, pa fodd bynag, efe a fyddai marw yn ddiau. Hysbysodd Hazael i'w feistr fod y prophwyd wedi rhagfynegu ei wellhad; ond i ragflaenu hyny, cymmerodd wrthban tew, gwlychodd ef mewn dwfr, ac a'i taenodd ar wyneb ei arglwydd, ac felly mogodd ef, a chymmerth feddiant o'r orsedd, 2 Bren. viii.

3. *Benhadad*, mab Hazael, a fu hefyd yn frenin ar Syria. Tano ef, darostyngwyd y deyrnas honno i fin dinystr. Curodd Jehoas a Jeroboam breninoedd Israel ei lnoedd ef mewn amryw frwydrau gosodedig, a gorfu arno adferu i'r Israeliaid pa beth bynag a feddiannasai ei ragflaenoriaid, 2 Bren. xii. 3, a'r xiii. 25, a'r xiv. 25.

BENJAMIN, mab ieuangaf Jacob a Rahel, a anwyd A. M. 2272. Bu farw ei fam ar ei gwely e-gor, a galwyd ei enw ef *Beroni*, sef *mab fy ngalar*; ond Jacob, yn anfoddlon fod ei enw yn adgoffâd parhaus iddo o farwolaeth ei anwyl Rahel, a'i galwodd ef *Benjamin*, sef *mab fy nehenlaw*. Priododd yn ieuange: ac nid oedd ond prin 32 mlwydd oed pan yr oedd iddo ddeg o feibion, sef Bela, Becir, Asbel, Gera, Naaman, Eli neu Ahiram, Ros, Muppim neu Supham, Huppim neu Hupham, ac Ard, pump o ba rai a fuant feirw yn ddiblant, Gen. xxxv. 16—18, a'r xlvi. 21. Pan barodd newyn i Jacob anfon ei ddeg mab arall i'r Aipht am ŷd, cadwodd Benjamin gantref gydag ef ei hun, gan ei gyfrif yr unig blentyn oedd yn fyw o'i anwyl wraig. Gorchymynodd Joseph iddynt i'w ddwyn ef i waered gyda hwynt ar eu dychweliad, neu y delid hwy yn lle yspïwyr. Gydag anewyllys-garwch nid bychan, cynghorwyd Jacob, o'r diwedd, i adael iddo fyned. I brofi serch ei frodyr atto, Joseph, ar ol rhoddi iddo anrhydedd arbenig wrth y wledd, a'i dygodd ef yn fuan i berygl mawr mewn ymddangosiad, trwy gael y cwppan arian yn ngenau ei sach ef, fel pe buasai wedi ei ladratta ganddo. Yn fuan wedi hyn, rhoddodd iddo bum pâr o ddillad, ac yn nghylch 35 punt o arian Lloegr. Yn ei fendith olaf, rhagfynegodd Jacob y byddai y llwyth hwn, yn nechreu a diwedd y wladwriaeth luddewig, yn hynod am wroldeb ac y-glyfaeth; a Moses a ddywedodd, y cai drigfan ddiogel yn ymyl teml Duw, Gen. xlviii.—xlv, a'r xlix. 27. Deut. xxxiii. 12. Pan ddaeth y llwyth hwn allan o'r Aipht, cynnwysai bump o deuluoedd, sef y Belaiaid, yr Asbeliaid, yr Ahiramiaid, y Suphamiaid, a'r Huphamiaid: eu pen tywysog oedd Abidan mab Gidioni; a rhifedi eu gwyr arfog dano ef oedd 45,600. Cynnyddasant yn yr anialwch i 35,400. Yr oeddynt yn gwersyllu gydag Ephraim y tu ol i'r babell. Eu hyspïwr i chwilio an-awdd gwlad yr addewid, oedd Palti mab Rapha; a'u tywysog i'w rhanu, oedd Elidad mab Ciston. Yr oedd eu hetifeddiaeth yn gorwedd o du y gogledd a gogledd-ddwyrain i randir Judah, Num. xxvi. 38—41, a'r 1, 11, 36, 37, a'r ii. 1—22, a'r xiii. 9, a'r xxiv. 21. Jos. xviii. Cyn pen hir wedi marwolaeth Josuah, amddiffynodd y llwyth hwn drueiniaid anllad Gibeah, a thynnasant ryfel arnynt eu hunain. Yr oeddynt, yr amser hwnw, yn rhyfelwyr enwog, yn enwedig am drin y bwa. Dwywaith, â 25,000 o wyr, y gorchfygasant 360,000 o'r llwythau ereill, a lladasant 40,000 o honynt. Yn y drydedd frwydr gorchfygwyd hwythau; a thorwyd eu holl fwyth ymaith oddi eithr 600, y rhai a ffoisant i graig Rimmon. Galarodd eu brodyr yn ddirfawr am ddinystr y llwyth hwn, mor gynted ag y cawsant hamdden i ystyried; a cheisiasant, gan hyny, wragedd i'r 600 oeddynt yn ngweddill, o wyryfon Jabes-gilead a Silo, Barn. xx, a xxi. Ysgatfydd mai prin 60 mlynedd oedd wedi hyn, pan y bu Ehwd, o'r llwyth hwn, yn barnu Israel, ac yn eu gwaredu oddi wrth orthrymder y Moabiaid. Yr oedd Saul ac Isboseth, breninoedd cyntaf Israel, o'r llwyth hwn. Daeth yn nghylch 20 o wŷr mwyaf cedyrn y llwyth hwn at Dafydd cyn marwolaeth Saul, 1 Cron. xii. 2—7; a 3000 ychwaneg yn fuan ar ol marwolaeth Isboseth, 1 Cron. xii. 1—7, 29. Pan gyfrifodd Dafydd hwynt yehydig cyn ei farwolaeth, yr oedd o'r Belaiaid 22,034 yn rhyfelwyr; o'r Becériaid 20,200; o'r Jediaeliaid 17,200, heblaw ereill, 1

Cron. vii. 6—12. Tywysog eu 24,000 milwyr hyfforddedig, oedd Abiezer yr Anathothiad; a'u pen tywysog oedd Jaasiel mab Abner, 1 Cron. xxvii. 12, 21. Pan y ciliodd y deg llwyth arall at Jeroboam, glynodd y Benjaminiaid wrth Judah, a theulu Dafydd: a buant gyfranogion o hyd o grefydd a dygwyddiadau y llwyth hwnw. Tan Jehosaphat yr oedd eu milwyr cartrefol yn dyfod i 280,000. Gwedi dychwelyd o'r caethiwed, cyfanneddodd lluaws mawr o honynt yn Jerusalem. 2 Cron. xi, a'r xvii, a'r 1 Cron. viii, a'r ix. Ond anrhydedd mawr y llwyth hwn oedd yr apostol Paul, yr hwn, yn moreuddydd ei oes, a ysgliyfaethodd fel erlidiwr; ac, yn y rhan ddiweddaf o honi, a drodd lawer at Grist, Phil. iii. 5. Gen. xlix. 27.

BENTHYG, echwyn. "A phob gwraig a *fenthycca* gan ei chymydoges," Exod. iii. 23, a xii. 35. Lle mae ein cyfeithiad ni yn cynnwys yr ystyr i'r Hebreaid *fenthyccio* pethau gwerthfawr, gan yr Aiphtiaid, nid arwydda y gair Hebräig ond *gofyn* neu *geisio* yn unig; ac nid yw yn cynnwys unrhyw addewid am eu dychwelyd. Yn awr, gan mai Duw yw goruchaf berchenog pob peth, onid allai efe drosglwyddo eiddo priodol yr Aiphtiaid i'w bobl ei hun, ac erchi iddynt geisio yr hyn a roddodd efe iddynt? Pan oedd yr Aiphtiaid wedi naccau iddynt eu cyflog gyfiawn, onid allasai Duw, y Barnwr goruchaf, gyfranu iddynt eu cyflog, a gorchymyn iddynt ei cheisio yn y modd hwn? Yr oedd hyn yn mhell oddi wrth fod yn gam, nac hyd yn nod yn *elusen*, gan nad oedd ond ad-daliad bychan am yr holl wasanaeth bir a phoenus a roddodd chwe' chan mil o'r Israeliaid i'r Aiphtiaid dros lawer o flynyddoedd. Ac, heblaw hyny, nid oedd gan yr Aiphtiaid un hawl i wasanaeth yr Hebreaid. O ba du, gan hyny, yr oedd y cam? ai nid o du yr Aiphtiaid? *Benthyccio* neu *echwyna* arian neu bethau, heb ymdrechu yn ddifrifol i *dalu* mewn amser priodol, sydd arwydd o ddyn cybyddlyd a drygionus, Salm xxxvii. 21; ac y mae yn bechod gwneuthur niweid i'r hyn a feuthycciasom, Exod. xxii. 14, 15.

BERA, *(ffynnon)* brenin Sodoma yn amser Abraham. Anrheithiwyd ei wlad yn ddychrynllyd gan Cedorlaomer, a'r rhai oeddynt mewn cynghrair âg ef. Pan orchfygodd Abraham y buddugoliaethwyr, ac yr adennillodd yr ysgail, cynnygodd Bera y cyfoeth oll iddo, ond y dynion yn unig; ond gwithododd Abraham unrhyw ran o hono, rhag y dywedid, mai nid y Jehofah, ond brenin Sodoma a'i cyfoethogasai ef, Gen. xiv. Y rhyfel a fu rhyngddo ef a Chedorlaomer ydyw y rhyfel cyntaf y mae genym hanes am dano, yn nghylch A. M. 2092.

BEREA, *(pwysig)* dinas fechan yn Macedonia; nid oedd ond mewn ychydig belider oddi wrth Pella, lle ganed Alexander. Bu Paul yn pregethu yma gyda chryn radd o lwyddiant; a'i wrandawyr oeddynt dra gofalus i gymharu yr hyn a glywent âg ysgrythyrau yr Hen Destament. Canlynodd Sopater, un o honynt hwy, ef i Asia, Act. 17. 10—13, a'r xx. 4.

BERNICE, *(un yn dwyn buddugoliaeth)* merch Agrippa Fawr, brenin yr Iuddewon. Dyweddiwyd hi, yn gyntaf, i Marc, mab Alexander, llywodraethwr yr Iuddewon yn Alexandria. Yn nesaf, priododd ei hewythr ei hun, Herod brenin Calcis. Ar ol ei farwolaeth ef, priododd Polemon brenin Pontus, ar yr ammod iddo gymmeryd ei enwaedu. Ymadawodd âg ef yn fuan gwedi hyn, a dychwelodd at Aprippa ei brawd, gyda'r hwn, tybir, y bu byw mewn llosgach ffiaidd. Ymddangosasant eill dau gyda rhwysg mawr i wrando ar amddiffyniad Paul o flaen Ffestus, yn Cesarea, Act. xxv. 13, 23, a'r xxvi.

BEROTH, BEROTHA, neu CUN, dinas yn Syria, a orchfygwyd gan Dafydd; ysgatfydd mai yr un oedd hi â Berytus yn Phenicia, 2 Sam. viii. 8. 1 Cron. xxiii. 8.

BERYL, gem dryloyw, o liw gwyrddlas. Cyll ei liiw yn hawdd mewn ychydig dân, ac, yna, cyfrifir hi ond o ychydig iawn o werth. Ni dderhynia byth unrhyw gymmysgedd o liw dyeithr; ond y mae ei liw gwreiddiol o raddau pur wahanol, sef o liw dwfn llwyd-ddu, i wawr welwlasaf dwfr y môr. Ymddengys iddi dderbyn ei henw Hebräig oddi wrth gyffelybrwydd ei liiw i'r môr. Y mae o faintioli efryn bychan, i eiddo ffäen, neu gneuen ffrengig. Y mae,

yn fynych, yn agos mor galed â'r gronyn-faen (*gr anite*). Ceir hi gan mwyaf, yn yr India Ddwyreiniol, ac o amgylch mwn-gloddiau aur Peru, yn neheudir America. Ceir rhai o'r meini hyn yn Silesia; ond y maent yn llawer llai eu gwerth na'r lleill, ac ysgatfydd nad ydynt ond math o grisial. Y *beryl* yw yr wythfed yn sylfaen y Jerusalem newydd; a chyffelybir corph Crist iddi, i nodi ei harddwch nefol, a dirgelwch ac arderchawgrwydd ei Berson, Dad. xxi. 20. Dan. x. 6. Hwn oedd y degfed maen yn nwyfroneg yr archoffeiriad; a gallai fod yn dynodi y seintiau yn eu hanian a'u serch nefol, ac yn nghymmysgedd eu cyfiwr a'u cyfran. Exod. xxviii. 20.

BERWI, (*bar*, brig) brydio, poethi. Cyffelybir dygyforiad y môr, a chystudd trwm yn nafewnol, i *ferwad crochan*, i arwyddo afonyddwch mawr, a therfysg, fel pe bai, yn dadymchwelyd un, Job xli. 31, a'r xxx. 27.

BESOR, (*newyddion da*) afon yn y gongl ddeheu-orllewinol i Ganaan. Yma yr arosodd 200 o wyr Dafydd ar ol, yn flinedig, tra y bu y 400 arall yn erlid ar ol yr Amaleciaid y rhai a losgasent Siclag, 1 Sam. xxx. 9. Dywedir ei bod yn ymarllwys i Fôr y Canoldir rhwng Gaza a Rhinocolura, ac mai yr un ydyw â nant neu *afon y diffeithwch*, Amos vi. 14. Rhoddodd *Dr. Shaw* dystiolaeth ddigonol i ni na ddichon y nant Besor fod ond bychan; ac nad all prin baeddu yr enw o afon. Tybia rhai mai yn y nant hwn y bedyddiwyd yr eunuch Ethiopaidd gynt, Act. viii. 26—29.

BETAH, (*hyder*) dinas a gymmerodd Dafydd oddi ar Hadadezer brenin Syria, 2 Sam. viii. 8. 1 Cron. xviii. 9. Tybir mai yr un yw hi â Beten, yr hon oedd yn perthyn i lwyth Aser, Jos. x, 25.

BETHABARA, man lle y bedyddiodd Ioan dorfëydd; ac, yn agos i ba un, y dangosodd efe Iesu Grist i ddau o'i ddysgyblion, Ioan i. 28. Gan fod y gair Heb. *beth* yn nechreuad geiriau, yn arwyddocau *tŷ* neu *deml*; y mae hwn yn arwyddo, *tŷ tramwyfa*. Gosoda *Calmet*, *Jerome*, ac ereill, ef ar lan ddwyreiniol yr Iorddonen, yn agos i'r lle yr aeth yr Hebreaid trwy yr afon honno, tan arweiniad Josuah. Myn ereill ei fod yn y lle yr aeth Jacob trwy yr Iorddonen, ychydig o du y dehau i fôr Tiberias. Dywed *Lightfoot* lawer iawn, i brofi ei fod yn gorwedd o du y gogledd-ddwyrain i'r môr hwnw, yn Ngalilea Ddwyreiniol. Ysgatfydd fod y rhan fwyaf o leoedd sydd â *beth* yn dechreu eu henwau, â themlau eilunod ynddynt.

BETHANIA, (*tŷ y gân*) pentref helaeth wrth droed mynydd yr Olewydd, yn agos i ddwy filltir o du y dwyrain i Jerusalem. Yma yr oedd trigfan Lazarus, a'i chwiorydd Martha a Mair. Yma y tywalltodd Mair yr olew ar ben yr Iesu, Ioan xi, a'r xii. Y mae yn gwbl ddigyfrif yn awr; eithr hwy a gymmerant arnynt o hyd ddangos i deithwyr gastell a bedd Lazarus, y rhai a ddefnyddia y Tyrciaid fel lleoedd o addoliad. Yn nghylch ergyd bwa o belldr oddi yma, dangosir tŷ Mair Magdalen; ac, wrth droed y bryn, y gorwedd y ffynnon o'r hon, meddir, yr arferai yr apostolion yfed.

BETH-AFEN, (*tŷ y gwagedd*) naill ai Bethel sydd yn cael ei galw felly, o herwydd y lloi aur a osododd Jeroboam i fynu yno, neu yw le yn agos iawn iddi, Hosea iv. 15. Jos. vii. 2.

BETH-BARA, man lle y galwodd Gideon ar yr Ephraimiaid i gyfleu eu hunain, er rhwystro y Midianiaid ffoedig. Os yr un yw hwn â Bethara, ymddengys yn eglur ei fod o du y dehau i fôr Galilea; gan mai yno yr aeth y Midianiaid trwy yr Iorddonen; ac yno yr oedd terfynau Ephraim, Barn. vii. 24.

BETH-CAR, (*teml yr oen*) dinas yn llwyth Dan. Hyd yma yr erlidiodd yr Hebreaid, yn amser Samuel, ar ol y Philistiaid: a gerllaw yma, y cyfododd efe ei *Eben-ezer*, 1 Sam. vii. 11.

BETHEL, (*tŷ Duw*) dinas yn sefyll yn nghylch wyth milltir, ond medd rhai deuddeg, o du y gogledd i Jerusalem, a milltir o du y gorllewin i Ai. Enw y lle ar y cyntaf oedd Luz, oddi wrth y prenau almonau a chyll a dyfent yno. Yma y treuliodd Jacob noswaith tan yr wybren noeth, ar ei ffordd i Padan-aram. Parodd gweledigaeth ryfedd a fwynhaodd efe yno, iddo alw y lle yn Bethel, sef *tŷ Duw*. Yn nghylch 30 o flynedd-

oedd wedi hyn, bu yn pabellu yma drachefn am ryw ennyd o amser. Adeiladodd y Canaaneaid ddinas ar y fan, a galwasant hi *Luz* neu Bethel. Ynnillodd Josuah hi, yn nghyd âg Ai, ac a'i rhoddes i'r Ephraimiaid. Bwriadodd y rhai hyn, ar ol marwolaeth Josuah, fwrw y Canaaneaid allan, y rhai a'i hail-gadarnhasent. Dangosodd un o'r trigolion iddynt dramwyfa ddirgel i mewn i'r ddinas, ar yr ammod iddo ef a'i deulu gael arbed eu bywydau. Enciliodd y gwr hwn a'i deulu i Arabia, lle yr adeiladodd efe ddinas arall o'r enw *Luz*. Rhoddwyd y lleill o'r trigolion i'r cleddyf. Yn Bethel y gosododd Jeroboam un o'i loi eilunaddolgar, ac, am hyny, galwyd hi Afen, neu Beth-afen, set *temi yr eilunod* neu *y drygioni*, neu *y gwagedd*. Dygwyd Bethel oddi ar yr Israeliaid gan Abiah, 2 Cron. xiii. 19; ond adynnillwyd hi yn fuan drachefn. Gwnaeth yn Assyriaid laddfa a difrod arswydus ynddi. Hos. x. 8.

BETHER, pa un a oedd hwn yn lle gwahanol oddi wrth Betharam, Bethhoron, neu Bithron, ynte yr un oedd, nis gwyddom; ond darlunir rhai mynyddoedd gerllaw iddo fel yn llawn o hyddod; os nad allwn yn hytrach gyfeithu y geiriau *mynyddoedd y clogwyni*, neu *raniadau*, Can. ii. 17. Dyoddefodd dinas o'r enw *Bither* neu *Bitter*, warchaead arswydus yn nghylch 100 mlynedd ar ol marwolaeth Crist. Dywedir fod y gwaed a redodd i waered i'r afon yn lliwio y môr bedair milltir oddi wrth y lan. Barna *Eusebius* fod y lle hwn yn gorwedd yn agos i Jerusalem; ond mwy tebygol yw ei fod yn sefyll yn agos i fynydd Carmel, nid nebpell oddi wrth Cesarea.

BETHESDA, llyn o du y dwyrain i Jerusalem, yn ymyl marchnad y defaid. Arwydda yr enw naill ai *ymolchdŷ* neu *dŷ trugaredd*; ac a elwid felly, o herwydd fod baddon cyffredin wedi ei adeiladu yma; neu o herwydd fod Duw yn rasiawn wedi cyfranu rhinwedd feddyginiaethol i'w ddyfroedd. Gan ei fod yn gorwedd ond ychydig oddi wrth y pen gogledd-ddwyreiniol i'r deml, hwyrach eu bod yn golchi yr aberthau yndo; ond nid oddi wrth hyn y cafodd ei rinwedd feddyginiaethol. Amrai blynyddau cyn dyfodiad ein Hiachawdwr a'n Meddyg dwyfol yn y cnawd, byddai angel, ar ryw amserau, yn disgyn ac yn cynhyrfu dwfr y llyn hwn. Pwy bynag a ymolchai ynddo gyntaf, ar ol y cynhyrfiad, a âi yn iach, o ba gleifyd bynag a fyddai arno. Byddai lluaws o ddynion cystuddiedig, gan hyny, yn disgwyl wrth ei bum porth, nes y cynhyrfid y dwfr. Bu yno un dyn yn disgwyl wrtho am iachâd dros 38 o flyneddoedd, ac yn y diwedd gwnaed ef yn iach gan ein Hiachawdwr bendigedig; rhinwedd feddyginiaethol gwaed, ysbryd, a gair pa un, yr oedd y llyn hwn, diammau, yn gysgod o honi, Ioan i. 1—6. Dywedir ei fod yn awr yn 120 o gamau (pum troedfedd bob un) o hyd, 40 o led, ac 8 o ddyfnder, ond yn wag o ddwfr.

BETH-GAMUL, dinas o eiddo y Reubeniaid, ond, wedi hyny, cymerodd y Moabiaid feddiant o honi, ac anrheithiwyd hi gan y Caldeaid, Jer. xlviii. 23.

BEH-HACEREM, *(tŷ y winllan)* dinas yn sefyll ar fryn, rhwng Jerusalem a Tecoah, yr hon oedd enwog, tebygol, am ei gwinllanoedd. Oddi yma y rhoddwyd rhybudd am ddyniesiad y Caldeaid i'r blaenaf, Jer. vi. 1. Ac yma yr oedd Malciah, adgyweiriwr mur Jerusalem, yn dywysog, Neh. iii. 14.

BETH-HOGLA, *(tŷ y wledd)* dinas yn nghylch hanner y ffordd rhwng Jericho a'r Iorddonen: perthynai i lwyth Benjamin, Jos. xviii. 21.

BETH-HORON, *(tŷ digofaint)* yr oedd dwy ddinas o'r enw hwn, y naill mewn sefyllfa is na'r llall, yn perthyn i lwyth Ephraim, 1 Cron. vii. 24. Adgyweiriodd ac amgaeraodd Solomon yr un isaf, 1 Bren. ix. 17.

BETH-JESIMOTH, *(tŷ yr anghyfannedd-dra)* dinas yn llwyth Reuben, yn nghylch deng milltir o du y dwyrain i'r Iorddonen. Cymerodd y Moabiaid feddiant o honi; ond, o'r diwedd, dinystriwyd hi gan y Caldeaid, Jos. xiii. 20. Ezec. xxv. 9.

BETHLEHEM *(tŷ bara)* dinas yn llwyth Judah, yn nghylch chwe' milltir o du y dehau i Jerusalem, yn sefyll ar ochr bryn. Gelwid hi hefyd Ephrath, neu Ephrata, a'i thrigolion yn Ephratëaid, oddi wrth ei sylfaenydd. Ni bu erioed yn hynod ei

chyfoeth na'i maintioli, ond daeth yn gyfrifol o achos geni Ibzan, Elimelec, Boaz, Dafydd, ac yn benaf Iesu y Messiah addawedig ynddi, Gen. xxxv. 16, 19, a'r xlviii. 7. Ruth i. 2. Salm cxxxii. 6. Mic. v. 2. Nid yw Micah y prophwyd mewn un modd yn gwrthddywedyd Matthew yr efengyiwr mewn perthynas i'w maintioli. Gallai fod yn fechan, ac etto nid y *leiaf*. Heblaw hyn, nid yw Matthew yn mynegu ond dehongliad yr Iuddewon o'r te-tun yn Micah, Mat. ii. 6. Yn mhellach, gellir troi y gair Heb. *tsahir*, a gyfeithir *bechan* yn Mic. v. 2, yno, ac yn Jer. xlviii. 4, a'r xlix. 20, Zech. xiii, yn *fawr*, *penaf*. Ymwelir yn fynych â Bethlehem etto gan bererinion. Y mae yma grefydd-dy gan y Cristionogion Lladinaidd, un arall gan y Groegiaid, a thrydydd gan yr Armeniaid. Yma dangosant i ddyeithriaid y bwrdd lle gauwyd Crist; y preseb oedd iddo yn lle cryd; a'r ogof lle y bu efe a'i fam yn ymguddio rhag llid Herod, cyn iddynt ymadael i'r Aipht. Yn nghylch hanner milltir tua'r dwyrain, dangosir y maesydd lle yr ymddangosodd yr angelion i'r bugeiliaid, Luc ii. 1—12. Mat. ii. 1.

BETH-PHAGE *(tŷ ffigys cynnar)* pentref bychan wrth droed mynydd yr Olew-wydd, yn perthyn i'r offeiriaid. Yr oedd yn gyfagos i Bethania, ac yn nghylch dwy filltir o du y dwyrain i Jerusalem. Yma y cafodd ein Hiachawdwr yr asen i'w ddwyn yn ei orfoleddiad gostyngedig, Mat. xxi. 1.

BETH-SAIDA, dinas yn Galilea; ond pa un ai ei bod yn gorwedd yn y tu gogledd-orllewinol, gogledd-ddwyreiniol, neu yn hytrach dehau-ddwyreiniol i fôr Tiberias, nid ydys yn cyduno. Ei henw a arwydda ei bod yn *lle pysgotta* neu *hela*; ac yn mha du bynag i'r Iorddonen y gorweddai, yr oedd yn gyfleus at y ddau beth hwn; yr oedd y wlad o'i hamgylch yn hynod am geirw, a'r môr yn llawn pysgod. Dywedir i Phylip y tetrach ei ffurfio yn ddinas adderchog, a'i galw *Julias*, yn ol enw merch Augustus Cæsar yr amberawdwr. Myn ereill mai yr un oedd Julias â Golan yn Basar. Ganedigion o Bethsaida oedd Petr ac Andreas, Ioan i. 44. Yma yr agorodd Crist lygaid dyn dall, trwy eu henneinio â chlai a phoeryn, Marc viii 22—26. Yma y cyflawnodd Crist amryw wyrthiau, ac y diystyrwyd ef; a goddiweddodd dialedd y dirmygwyr; gan fod y lle hwn yn un o'r cyntaf o'r rhai a ddifrodwyd yn dra arswydus gan y Rhufeiniaid, Mat. xi. 21, 22.

BETHSAN, neu BETHSEAN, dinas yn llwyth Manasseh, o du y gorllewin i'r Iorddonen, yn nghylch 75, neu yn hytrach 60 milltir o du y gogledd-ddwyrain i Jerusalem, ac yn y pen dwyreiniol i wastadedd Jezreel, Jos. xvii. 11. Cadwodd y Canaaneaid feddiant o honi yn hir; ysgatfydd mai am eu bod mewn cynghrair â'r Philistiaid, oedd yr achos paham y crogwyd corph Saul ar ei mur, Barn. i. 27. 1 Sam. xxxi. 10. Yn ol *Pliny*, galwyd hi wedi hyny, Scythopolis, oddi wrth wersylliad y Scythiaid yno, y rhai, o ddeutu amser Josiah, a wnaethant ruthr arswydus i Asia Orllewinol: ond ereill a feddyliant iddi gael ei galw felly oddi wrth y *succoth* neu y *bythod* a adeiladwyd o amgylch yno gan Jacob, ar ei ddychweliad o Padan-aram, Gen. xxxiii. 17, 18.

BETH-SEMES. (1.) Dinas yn llwyth Judah, a roddwyd i'r offeiriaid. Y mae ei henw yn tueddu un i feddwl fod gan y Canaaneaid *deml i'r haul* yma, Jos. xxi. 16. Safai yn nghylch 30 o filltiroedd o du y gorllewin i'r Iorddonen. Dygodd yr ychain, â pha rai yr anfonodd y Philistiaid yr arch a gaethgludasent yn ol, hi i Bethsemes. Edrychodd y trigolion iddi yn halogedig, a dinystriwyd hwy gan yr Arglwydd, sef 70 o'r pennaethiaid, a 50,000 o'r bobl gyffredin. Tybia *Bochart* ac ereill y dylai y geiriau gael eu cyfeithu *deg a thriugain o wyr*, h. y. *deg a deugain allan o fil*. Prin y gallant feddwl y cospai Duw edrychiad camsyniol mor llymdost: nis gallant gredu fod yn Bethsemes, pentref bychan, gymmaint â 50,000 o wyr yn alluog i droseddu. Nid oes dim caderniid yn yr ymresymiad hwn. Duw yn unig a wyr pa dostedd sydd gymhwys i'w arfer at dorwyr ei gyfreithiau. Gallai fod lluoedd, heblaw trigolion Bethsemes wedi ymgasglu ar yr achos hwn, 1 Sam. vi. 12—19. Yn agos i'r lle hwn y gorchfygodd ac y cymmerodd Jehoas brenin Israel, Amaziah yn garcharor, 2 Cron.

xxv. 21. Ynnillodd y Philistiaid y ddinas hon oddi ar y brenin Ahaz. 2 Cron. xxviii. 18

2. *Bethsemes*, dinas ar derfynau llwyth Issachar; ei:hr pa un ai ei bod hi yr un a berthynai i lwyth Naphtali, ac o'r hon y gyrrasant hwy y Canaaneaid allan, sydd annilys, Jos. xix. 22, 38. Barn. i. 33.

BETH-SITTA, lle i ba un y ffodd y Midianiaid pan orchfygwyd hwy gan Gideon. Yr oedd yn gorwedd, tebygol, o du y dehau-orllewin i for Tiberias, ac yn perthyn i lwyth Manasseh, ac yn aml ei choed Sitta, Barn. vii. 22.

BETH-TAPPUA, dinas neu dref ar derfyn dehau-orllewinol Canaan. Dywedir ei bod yn gorwedd 14 o filltiroedd tu hwnt i Raphia; ac, os felly, nid allai fod nebpell oddi wrth yr Iorddonen. Ei henw a arwydda ei bod yn enwog am *afalau*, neu fod ynddi deml gyssegredig i ddiuw y ffrwyth hwnw, Jos. xv. 53.

BETHUEL. (*mabolaeth Duw*) mab Nachor a Milca, nai Abraham, a thad Laban a Rebecca, Gen xxii. 20, a'r xxviii. 2.

BEULA, *(priodedig)* enw a roddir ar y genedl Iuddewig ac eglwys Duw yn y dyddiau diweddaf, yn arwyddo eu priodas â Christ, fel eu gwr a'u pen arglwydd, Esa. lxii. 4.

BEZALEEL, *(yn nghysgod Duw)* mab Uri, o lwyth Judah, ac Aholiab mab Ahisamac, o lwyth Dan, oeddynt ddau weithiwr celfydd, wedi eu galw gan Dduw, a'u cynnysgaethu mewn modd nodedig â doethineb a gwybodaeth; tan eu cyfarwyddyd hwy, yn benaf, y ffurfiwyd yr amrywiol bethau perthynol i babell Moses, a gwnaethant bob peth yn gywir yn ol y portreiad a gafodd efe yn y mynydd. Onid oeddynt, yn hyn, yn *gysgodau* o Iesu Grist, yr hwn, wedi ei alw gan Dduw, a'i gynnysgaethu âg ysbryd doethineb a deall, sydd yn adeiladu ei eglwys mewn cyssondeb cywir â bwriad ac ewyllys ei dad? Exod. xxxi, a'r xxxvi—xxxix.

BEZEC, *(mellt)* dinas yn rhandir Judah, yn y tu dehau i fryn o ddeutu dwy filltir o Beth-zur, ac encyd o ffordd o du y gorllewin i Bethlehem. Yma y bu Adoni-bezec yn teyrnasu, ac y cymmerwyd ef yn garcharor, Barn. i. 4—7. Pentref bychan oedd hi yn nghylch 100 mlynedd yn ol. (2.) Dinas o du y dehau i Beth-san, ac o du y gorllewin i'r Iorddonen. Yma yr adolygodd Saul ei lu cyn myned dros yr Iorddonen i gynnorthwyo gwyr Jabes-gilead, 1 Sam. xi. 8.

BIBL, (oddi wrth y gair Gr. *biblos, llyfr)* yr enw a roddir yn gyffredin, mewn ffordd o enwogrwydd a rhagoroldeb, ar y casgliad hwnw o ysgrifeniadau sanctaidd, y rhai yd ynt unig brawf faen a rheol ein ffydd a'n hymarweddiad. Gelwir ef gan yr Iuddewon *Micra* neu y *Llith*; y Cristionogion a'i galwant yn fynych, *y llyfrau cyssegredig; oracl-au Duw; y gyfrol ysbrydoledig; llyfr Duw.* Dosparthid ef bob amser yn llyfrau, ond nid yn bennodau ac adnodau fel yn awr. Ymddengys oddi wrth *Clemens* o Alexandria, *Athanasius*, ac ereill, ei fod, yn oesoedd boreol Cristionogrwydd, yn cael ei ddosparthu yn fath o wahanranau bychain. Priodolir ei raniad yn y dull presennol o bennodau yn gyffredin i *Arlott*, monach o Tuscany, neu yn hytrach i *Hugo Cardinalis*, yn y 13eg ganrif. Eithr amlwg yw, oddi wrth waith *Theophylact* ar yr efengylau, i hyn gymmeryd lle o leiaf 200 o flyneddoedd yn gynarach. Y mae y rhai a gredant yn awduroldeb y gwahan-nodiad Hebrëig, yn cyfrif fod yr Hen Destament bob amser wedi ei ddosparthu yn adnodau; ond ni chyfrifwyd hwy fel yn awr, nes, ysgatfydd, i *Mordecai Nathan* gyhoeddi ei fynegeir Hebrëig, yn nghylch A. D. 1450. O ddeutu y flwyddyn 1551, un *Robert Stephan*, argraffydd o Ffrainge, a ddosparthodd y Testament Newydd yn adnodau. Nid yw, gan hyny, yn rhyfedd nad yw y dosparthiad hwn yn bennodau ac adnodau bob amser yn hollol gywir; ac nid yw ddim yn feius i'w ddiwygio. Y mae yn eglur fod y Psalmau wedi eu dosparthu bob amser; o blegyd y mae Paul, yn ei bregeth yn Antiochia yn Pisidia, yn profi o'r *ail* Psalm, Act. xiii. 33. Nid yw dosparthiad y Testament Newydd yn wahan-ranau gan y Dr. *Dodridge* yn ansynwyrol.

Yn bresennol, y mae ein Bibl ni yn cynnwys yr Hen Destament a'r Newydd; ysgrifeuwyd y cyntaf cyn dyfodiad Crist yn y cnawd, a'r olaf

wedi hyny: cyfansoddwyd y cyntaf yn yr Hebraeg, oddi eithr rhan o Ezra a Daniel, ac adnod o Jeremiah, y rhai a ysgrifenwyd yn y Galdaeg. Ysgrifenwyd yr olaf yn y Groeg, eithr yn wahanol iawn oddi wrth eiddo Homer, ac awduron clodfawr ereill. Ysgrifenwyd y ddau yn yr faith oedd fwyaf adnabyddus, y pryd hwnw, i eglwys Duw; yr hyn sydd arwydd sicr y dylai pob cenedl lle dêl yr efengyl gael eyfieusdra i ddarllain yr ysgrythyrau yn ei hiaith ei hun.

Pa un a ysgrifenwyd yr Hen Destament yn y llythyren Galdeaidd, yn yr hon yr ymddengys yn awr, neu ynte yn yr un Samaritanaidd; a pha un ai bod y llafar a'r gwahan-nodau o awdurdod dwyfol neu nad ydynt, sydd wedi cael ei ddadleu yn wresog. Yn y ddau bwnge hwn, yr ydym yn tueddu at y syniad blaenorol, ond caniattawn yn rhwydd, fod ein gwrthwynebwyr wedi dwyn rhesymau nid diystyr mewn ymddangosiad o'u plaid hwy; ac fod amryw o'n cynnorthwywyr dysgedig yn anochelgar wedi dwyn y ddadl yn nghylch y nodau yn rhy bell, ac felly gwneuthur eu hachos yn llai amddiffynadwy. Rhaid addef, fod *Boston* wedi trin y pwnge yn nghylch yr acenion gyda gofal a medrusrwydd mawr. Y mae y llawes o gynlluniau gwaelion o eiddo Esgob *Walton*, ac ereill o elynion awdurdod dwyfol y nodau hyn: tueddiad eu cynlluniau i sylfaenu ein ffydd, o leiaf mewn amryw adnodau o'r Hen Destament, ar awdurdod dynol yn unig; cydymddibyniad yr acenion a'r adnodau y naill ar y llall, y llafariaid ar yr acenion, y cydseiniaid ar y ddau, ac arwyddocâd neu ystyr y testun arnynt oll, yn enwedig y llafariaid a'r cydseiniaid, a'u cymmeryd yn nghyd, yn ymddangos i ni yn rhesymau anattebadwy o blaid awdurdod dwyfol y nodau.

Yn nghylch amser ein Hiachawdwr, dosparthai yr Iuddewon eu Bibl yn 22ain o lyfrau, yn cyfatteb i 22ain llythyren eu hegwyddor, sef pum llyfr Moses; 13 o eiddo y prophwydi, Josuah, y Barnwyr, Ruth, Samuel, Breninoedd, a'r Croniel, Esaiah, Jeremiah, a'r Galarnadau, Ezeciel, a Daniel; y 12eg prophwyd lleiaf, a Job, Ezra, Nehemiah, ac Esther; a phedwar *Hagiographa*, neu ysgrifeniadau sanctaidd, sef y Psalmau, y Diarebion, y Pregethwr, a Chaniad Solomon. Fel hyn, yr oedd *cyfraith Moses*, y *proplıwydi*, a'r *Salmau*, yn cynnwys y cwbl, Luc xxiv. 44. Cyfrifa yr Iuddewon diweddar 24ain o lyfrau, y rhai a dybiant hwy eu bod yn meddu tair gradd wahanol o awdurdod. I bum llyfr Moses, y priodolant yr awdurdod uchaf. I'r prophwydi blaenaf, sef ysgrifenwyr Josuah, Barnwyr, Samuel, Breninoedd; ac i'r diweddaf, sef Esaiah, Jeremiah, Ezeciel, a llyfrau y rhai lleiaf, y priodolant ysbrydoliaeth ac awdurdod is. I'r un llyfr ar ddeg arall, sef y Salmau, y Diarebion, Job, Caniad Solomon, Ruth, Galarnadau Pregethwr, Esther, Daniel, Ezra, Nehemiah, a'r Croniel, ni phriodolant braidd unrhyw ysbrydoliaeth priodol, ond arolygiad Ysbryd Duw yn unig, yn gadael yr ysgrifenwyr mewn mesur mawr i gyfarwyddyd eu rheswm eu hunain. Y mae y dosparthiad Cristionogol o'r Hen Destament yn llawer mwy synwyrol. Y mae y llyfrau hanesol, y rhai ydynt fwyaf eglur ac angenrheidiol er amgyffred athrawiaethau a rhagddyweddiadau, wedi eu gosod yn mlaenaf, gan ddiweddu gydag Esther: y llyfrau athrawiaethol, yn diweddu gyda Chaniad Solomon, a osodir yn y canol: a'r llyfrau prophwydoliaethol, er amgyffred pa rai, y mae gwybodaeth o hanesion ac athrawiaethau yn angenrheidiol, ydynt wedi eu gosod yn olaf mewn trefn. Eithr yn mhob un o'r tair rhan, y mae hanesion, athrawiaethau, a rhagddywediadau yn fynych yn cael eu cyd-gymmysgu.

Yr Hen Destament a ordeiniodd Duw tros amser i un genedl, sef i'r Iuddewon yn unig. Y Testament Newydd a gyrhaedd at holl genedloedd y byd, heb wahaniaeth. Hefyd, y rheswm pa ham y gelwir y naill yn Hen a'r llall yn Newydd yw hyn; sef, yn Hen, am ei fod yn dysgu tragywyddol ewyllys Duw, y wir grefydd a Christionogaeth yr hen bobl cyn geni Crist; yn Newydd, am ei fod yn dysgu yr un peth i'r bobl wedi geni Crist. Yn Hen, am ei fod yn dysgu un genedlaeth yn unig, sef yr Iuddewon; yn Newydd, am ei fod yn dysgu holl genedloedd y byd yn ddiwahan. Yn Hen, am ei fod yn dysgu

trwy arwyddion elfenau bydol, a seremoniau corphorol; yn Newydd, am ei fod yn dysgu yn oleu ddiymgudd, trwy ysbrydoliaeth, y gwir yn ei rith ei hun.

Crybwyllir am amryw lyfrau yn yr ysgrythyr, megis eiddo Jaser, llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd, a llyfr banesion blyneddol breninoedd Israel a Judah, ag sydd wedi myned yn ngholl yn awr; ond ni feddianasant erioed fwy na dynoi awdurdod. Ychydig eyn teyrnasiad Josiah, ymddengys i'r llyfrau canonaidd oedd yn bod y pryd hwnw gael eu dinystrio gan mwyaf; ac, o herwydd hyn, y synnodd efe a gwyr ei lys gymmaint wrth glywed cynuwysiad un o lyfrau y gyfraith, sef cynysgrifen awdurediq. ysgatfydd, a gafwyd yn nhŷ yr Arglwydd. Diammau gymmeryd amryw adysgrifeniadau oddi wrthi. Yn ofer yr haeriir fyned o'r ysgrifeniadau sanctaidd ar goll yn amser caethiwed y Caldeaid, ac iddynt gael eu hadferu gan Ezra. Yr oedd gan Daniel lyfr Jeremiah i'w ddarllain, pen ix. 2. A allwn ni ammau nad oedd gan ddynion duwiol ereill hefyd adysgrifeniadau o honynt? neu fod hyd yn nod y Samariaid mewn diffyg o adysgrifeniadau o'r gyfraith? Eto, er hyny, y mae yn debygol i Ezra, tan ysbrydoliaeth Duw, ddiwygio adysgrif o'r llyfrau sanctaidd, a pheri i ereill gael eu cymmeryd oddi wrthi. Er eguro yr hanes, ychwanegodd amryw ymadroddion, ac weithiau, newidiodd enwau dinasoedd neu ddynion, i rai oeddynt ddiweddarach. Pa un ai efe a ychwanegodd y nodau llafarawl, a'r *certi-cetib*, yr amrywiol ddarlleniadau neu y diwygiadau ymyl-lenol, i 900 neu 1000 o rifedi, neu o leiaf rai o honynt, ni feiddiwn benderfynu. Gan fod llyfr Nehemiah yn dwyn achau yr arch-offeiriaid, a llyfr 1 Cronicl lin-ach Zerubabel, i waered yn agos i amser Alexander Fawr, y mae yn debygol na dderbyniwyd llyfrau Malachi, Ezra, Nehemiah, Esther, a'r Cronicl i'r ganon sanctaidd, tros ychwaneg na 100 mlynedd ar ol marwolaeth Ezra.

Yr Iuddewon a rannant bum llyfr Moses yn 54ain o ddosparthiadau, yn cyfatteb i nifer cu Sabbothau yn eu trydedd neu eu pedwaredd blwyddyn orymddwyn. Mewn blyneddau ereill, cyssyltent ddau dosparth byr, ar ddau Sabbath gwahanol, fel y gellid darllain yr holl gyfraith yn gyhoeddus bob blwyddyn yn eu cynnulleidfaoedd addoliadol. Adranent hi yn nifer o ddosparthiadau llai, lle, ymddengys y byddai eu darllenwyr yn aros i roddi y synwyr, neu estyn y llyfr i arall, Yn nghylch A.M. 3840, gwahariddodd Antiochus ddarllain y gyfraith; hwy gan hyny, a osodasant 54ain dosparth o'r prophwydi yn ei lle. Ar ol i Judas y Maccabead adfer eu haddoliad, cydgyssylltwyd y ddau, a darllenid dosparth o'r gyfraith, ac un arall o'r prophwydi bob Sabbath. Y mae Biblau Ilaw-ysgrifenedig yr Iuddewon yn yr Hispaen, yn llawer mwy cywir na rhai yr Almaen; eithr bernir nad oes bron un o'r rhai hyn tros 600 neu 700 mlwydd oed. Yn yr 16eg ganrif o'r cyfnod Cristionogol, argraffodd *Bomburg* luaws mawr o Fiblau Hebrëig yn bedwar ac yn unplyg. Yr argraffiad unplyg yn 1548 gyda'r Masora, y rhydd-ddehongliadau Caldeaidd, ac esponiadau *Jarchi*, *Aben Ezra*, a *Dafydd Cimchi*, yw y mwyaf cywir. Oddwrth hwn, oddeutu 70 o flyneddoedd wedi hyn, yr argraffodd *Buxtorff* a *Leo Modena* eu Biblau Rabbinaidd yn Bazil a Venice. Y mae rhifedi anfeidrol o Fiblau Hebrëig mewn pob dull bron, wedi cael eu hargraffu. Y mae i eiddo *Leusden* ac *Athias*, yn y flwyddyn 1667, enw ardderchog; ond nid oes un, mewn cywirdeb, gystal ag eiddo *Manasseh-ben-Israel*, yn y flwyddyn 1635, ac yn enwedig eiddo *Vander Hooght*, yn y flwyddyn 1705. Ar nid yw eiddo *Proop*, *Jablonsci*, *Opitus*, *Michaelis*, a *Simon*, yn anghywir, yn enwedig y blaenaf. Bibl mawr Houbigant sydd ry lawn o ddiwygiadau ffugiol, y rhai ydynt wedi eu sylfaenu yn fynych ar ddychymmyg noeth. Y Dr. *Kennicott* sydd, gyda llafur anfeidrol, wedi cymbaru yn nghylch 600 o gopiau o'r Hen Destament mewn llaw-ysgrifen.

Pan ddysgodd yr Iuddewon, yn eu caethiwed, iaith Caldea, ac yr anghofiasant ran o'u heiddynt eu hunain, yr oedd yn ofynol i ddarllenydd y gyfraith aros ar ddiwedd pob ymadrodd, a rhoddi y synwyr, Neh. viii. 8; pardodd hyn luaws o rydd-ddehongliadau neu Dargumau; ond nid un cyfieithad llythyrenol o'r Bibl i'r Gal-

daeg. Eiddo Oncelos ar bum llyfr Moses, a gyfansoddwyd oddeutu amser ein Hiachawdwr, yw y mwyaf llythyrenol a synwyrol o lawer. Y mae Targum Jerusalem, ar yr un llyfrau, wedi ei ysgrifenu mewn iaith tra annealladwy, ac nid oes gennym ond tammeidiau o hono. Priodolir rhydd-ddehongliad helaeth arall ar bum llyfr Moses, yn llawn ffùg-chwedlau i Jonathan mab Uzziel, er, os gallwn farnu oddi wrth ddull yr iaith, nid ei eiddo ef mo hono. Cyfansodd Jonathan, yn wir, rydd-ddehongliad ar y prophwydi blaenaf a diweddaf, ac y mae hwn yn mhell o fod yn haeddianol o ddiystyrwch. Ni wyddys yn sicr pwy oedd awdwr y rhydd-ddehongliad ar y Salmau, Diarebion, Job, Cân Solomon, Ruth, Galarnadau, y Pregethwr, ac Esther. Y mae yn gryn helaeth, yn fynych yn ddefnyddiol, ac nid yn anaml yn lled goeg-dybiol. Y mae Targum ganddynt hefyd ar ddau lyfr y Cronicl. Am ei ragoroldeb nis gwyddom. Y mae gan y Samariaid a osododd yr Assyriaid yn ngwlad Israel, ddau wahanol bum llyfr Moses, y naill yn yr Hebraeg, ond mewn llythyrenau Samaritanaidd, heb fawr wahaniaeth rhyngddo a'r Hebraeg, oddieithr yn mlynyddoedd y patrieirch o flaen Abraham, ac yn yr hyn a berthyn i fynydd Gerizzim, ac mewn lluaws o anghyssonderau; y llall yn eu hiaith eu hunain, yr hon sydd Hebraeg lygredig neu Galdaeg, ac nid yw hwn yn gwbl ddirmygadwy.

Yn ol *Aristabulus*, cyfieithwyd pum llyfr Moses a Josuah, os nid llyfrau ereill hefyd, i'r Groeg, cyn amser Alexander Fawr; a bernir i'r athronyddion Groegaidd fenthyccio rhan o'u gwybodaeth o hono. Ni chyfansoddwyd y cyfieithiad Groegaidd a briodolir i 70 o *ddehonglwyr* yn hir wedi hyn. Pe gallem gredu *Aristeas*, *Josephus*, *Justin Ferthyr*, ac *Epiphanius*, gwnaed ef gan 72 o ddehonglwyr Iuddewig, ar gais *Ptolemi Philadelphus*, brenin yr Aipht, at wasanaeth ei lyfrgell; a gyda chywirdeb ysbrydoliaeth gwyrthiol; eithr y mae y nodau amlwg o dwyll a gyd-weuir â'u hanes hwy, y gwahaniaeth dirfawr sydd mewn amrywiol ranau o'r cyfieithiad hwnw, ac anghywirdeb eglur y rhan fwyaf o hono, yn gwrth-brofi hyn yn ddigonol. Y mae yn fwy tebygol i bum llyfr Moses gael eu cyfieithu at wasanaeth yr Iuddewon gwrthgiliedig hyny, y rhai a adeiladasant deml, ac a sefydlasant addoliad eu gwlad yn Heliopolis yn yr Aipht, oddeutu 150 o flyneddoedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr; ac i'r gweddill, yr hwn sydd yn llawer llai cywir, gael ei gyfieithu gan amrywiol ddwylaw. Y cyfieithiad hwn, modd bynag, a balmantodd y ffordd i daeniad yr efengyl, a defnyddid ef yn fynych yn y brif eglwys, yn gystal ag yn mysg yr Iuddewon Groegaidd, ac y mae o wasanaeth mawr etto er sefydlu meddwl rhai geiriau Hebrëig. Y copiau argraffedig penaf o hono ydynt (1.) Yr un *Complutensiaidd*, a gyhoeddwyd gan Cardinal *Ximenes*, yn A.D. 1515. Newidiwyd ef mewn lluaws o fanau, i beri iddo gyfatteb i'r Hebraeg; ac felly, hwn yw y cyfieithiad goreu yn y Groeg, ond nid y gwir Ddeg-a-thriugain. (2.) Yr un *Venetiaidd*, a argraffwyd oddi wrth ysgrif-lyfr. Adargraffwyd ef yn fynych yn Stratsburgh, Basyl, &c. a newidiwyd ef mewn rhai mannau, i'w ddwyn yn nes at yr Hebraeg. (3.) Yr un *Vaticanaidd*, a argraffwyd yn Rhufain yn y flwyddyn 1587 oddi wrth ysgrif-lyfr hardd yn llyfr-gell y Pab. Y mae hwn, yn nghyd ag amrywiol ddarlleniadau yr ysgrif-lyfr Alexandriaidd rhagorol, wedi eu gosod i mewn yn Mibl aml-ieithog *Walton*. (4.) Adysgrif Alexandriaidd y *Dr. Grabe* yn Rhydychen, yn y flwyddyn 1707, ond cyfnewidiodd hi weithiau, fel y gwelai yn gymhwys.

Prin yr oedd Cristionogrwydd wedi ymdaenu yn y byd, pan y cyhoeddwyd cyfieithiadau newyddion o'r Hen Destament yn y Groeg. Oddeutu A.D. 128, cyhoeddodd *Acwila*, proselyt Iuddewig o Pontus, gyfieithiad llythyrenol iawn, o gasineb, ysfatfydd, at y Cristionogion, y rhai a'u hysgymmunasent ef. Oddeutu y flwyddyn 200, cyhoeddodd Symmachus, yr hwn a fu, ar droiau, yn Iuddew, yn Samariad, yn Gristion, ac yn Ebioniad, un arall, gan ymlynu wrth y *synwyr*, yn hytrach na'r *llythyren*. Oddeutu yr un amser, neu hwyrach ugain mlynedd yn gynnarach, cyhoeddodd *Theodotion*, yr

hwn a fu ar y cyntaf yn Varcionad, ac wedi hyny yn Iuddew, gyfeithiad arall, yn yr hwn y tarawodd efe i lwybr canol rhwng y ddau flaenaf, gan nad yw ei gyfeithiad ef yn gwbl lythyrenol, nac yn rhy bell oddi wrth hyny; ac felly y mae yn rhagori arnynt eill dau. Yr oedd dau gyfeithiad Groegaidd arall, awduron pa rai nid adwaenir. Yn y bedwaredd ganrif, gwnaeth *Lucian Ferthyr, Hesychius*, a *Sophronius*, bob un o honynt, gyfeithiad.

Cyhoeddwyd y Testament Newydd yn ei Roeg wreiddiol, rifedi anfeidrol o droion. Y mae rhai *Alcala, Erasmus, Stephans*, a *Beza*, wedi cael eu hadysgrifennu yn gyffredinol gan ereill. Eiddo *Mills, Custer, Wetstein*, a *Bengelius*, gyda'r amrywiol ddarlleniadau, ydynt y mwyaf gwerthfawr. Dangosodd *Mills* hoffder rhyfeddol i gasglu yn nghyd gymmaint ag a allai, o ddarlleniadau yn nghylch 30,000, am yr hyn, y cafodd ei ddrwg-liwio gan rai, ei geryddu yn llym gan *Whitby*, a'i argyhoeddi yn hynaws gan *Bengelius*; gadawodd y ddau ddiweddaf allan filoedd o'r rhai mwyaf diystyr. Y mae y lluaws dirfawr hwn o wahanol ddarlleniadau mor belled oddi wrth ddirymmu awdurdod yr ysgrythyr, fel, yn y gwrthwyneb, y mae yn ei gadarnhau yn hynod; casglwyd hwy gan gyfeillion Cristionogrwydd, yr hyn a ddengys eu manylrwydd dichlynaidd yn profi eu hachos eu hunain. Nid oes gymmaint ag un o'r lluaws dirfawr hwn yn tueddu i ddadymchwelyd un erthygl o'n ffydd, ond traethant ynghylch acenion, llythyrenau, sillau, a phethau llai eu pwys; a thrwy gymharu lluaws o adysgrifeniadau, y sefydlir y darlleniad gwirioneddol yn hawdd.

O lyfrau y Testament Newydd, y pump cyntaf ydynt hanesol, yr 21ain nesaf yn epistolaidd, a'r diweddaf yn brophwydoliaethol. Cynnygodd rhai geu-ffyddwyr ychwanegu efengylau, actau, ac epistolau ffugiol at hyn; ond gwrthodwyd y rhai hyn bob amser gan yr eglwys Gristionogol. Y cyfeithiad Syrieg o'r holl ysgrythyr sydd yn lled hen a defnyddiol. Haerir i Solomon fynnu cyfeithiad i'r Syrieg o'r llyfrau ysbrydoledig ag oeddynt yn bod y pryd hwnw; ac i Abagarus, brenin Edessa, yn fuan ar ol marwolaeth ein Hiachawdwr, geisio cyfeithiad o'r gweddill o'r Hen Destament. Y mae yn llawer mwy tebygol i Gristionogion Antiochia gaffael y cyfeithiad i gyd oddeutu A.D. 100. Dilys yw fod y cyfeithiad yn hen. Yn yr Hen Destament, y mae yn gadael yr Hebraeg wreiddiol yn rhy fynych, er canlyn y cyfeithiad Samaritanaidd, neu y Deg-a-thriugain; ac y mae yn gadael titlau y Salmau allan, er mwyn gosod i mewn eu cynnwysiad. Ië, y mae cyfeithiad Syrieg o'r Hen Destament wedi cael ei wneud oddi wrth y Deg-a-thriugain.

Yn oesoedd boreuaf Cristionogrwydd, yr oedd gan y Rhufeiniaid ac ereill yn yr eglwys Orllewinol, amryw o gyfeithiadau Lladinaidd, Un a elwid y Vulgate, wedi ei gyfeithu air am air oddi wrth y Deg-a-thriugain, oedd yn cael ei dderbyn yn fwyaf cyffredinol. Ffurfiodd *Jerome*, unig dad yr eglwys Ladinaidd yr hwn a ymddengys ei fod yn deall yr Hebraeg yn dra pherffaith, gyfeithiad newydd oddi wrth yr ieithoedd gwreiddiol. Gan fod hwn yn well, cyfrifwyd ef mewn rhai eglwysi o fiaen y Vulgate Gwedi dygwydd peth amrysau yn nghylch y ddau gyfeithiad, diwygiwyd y Vulgate wrth un *Jerome*, ac felly gwnaed un o'r ddau. Hwn, wedi ei lygru yn ddirfawr gan yr ysgrifenyddion, a arferir gan eglwys Rufain, ac y mae ei awdurdoldeb wedi derbyn cadarnhad oddi wrth Gyngor Trent. Y Pab *Sextus*, pa fodd bynag, a ddiwygiodd rai miloedd o feiau ynddo drachefn; a Chlement VIII. ei ganlynwr, a ychwanegodd rai miloedd o ddiwygiadau yn rhagor, a rhai o honynt er gwaeth. Ac nid yw *Belarmine* yn gamsyniol wrth haeru fod ynddo luaws o fannau mewn angen am ddiwygiad pellach. Cyhoeddwyd cyfeithiad *Jerome* ei hun yn Paris, yn y flwyddyn 1993, gan Martianay a Pouget.

Sierha *Chrysostom* a *Theodoret* i ni, fod y Testament Hen a Newydd i'w cael, yn eu hamser hwy, yn y Syrieg, yr Indieg, y Bersieg, yr Armenieg, yr Ethiopeg, y Scythieg, a'r Samariteg. Oddeutu A.D. 900, neu yn ddiweddarach, cyfeithwyd yr Hen Destament i'r Arabeg gan Saadias Gaon, Iuddew. Cyfeith-

odd un arall o Mauritania, bum llyfr Moses; ac argraffodd *Erpenius* ei waith ef. Ffurfiodd Esgob Seville gyfeithiad Arabeg oddeutu y flwyddyn 719. Cyfeithiodd Risius, monach o Ddamascus, hefyd y Testament Newydd. Ffurfiodd Cristion arall, oedd yn byw yn yr Aipht, gyfeithiad arall. Pwy oeddynt awduron y cyfeithiad Arabeg yn Mibl Aml-ieithog Llundain, nis gwyddom. Gwnaed ef gan mwyaf, oddiwrth yr adysgrif Roegaidd yn llyfr-gell Alexandria, ac er nad yn gywir, etto y mae yn ddefnyddiol.

Y mae gan yr Ethiopiaid yn Abyssinia, gyfeithiad o'r holl Fibl, yr hwn a briodolant i *Ffrumentius*, esgob yn y 4edd ganrif. Yn y rhan hono o'r Hen Destament a adwaenom ni, y mae yn cyfatteb yn agos i adysgrif y Deg-a thriugain yn Alexandria, ac y mae y Newydd yn mhell o fod yn gywir; eithr pa un ai bod y bai ar y gyn-ysgrifen, neu ar anwybodaeth yr argraffydd a diwygiwr y wasg, ni feiddiwn benderfynu. Dilys yw fod yr Ethiopiad oedd yn arolygu argraffiad y cyhoeddiad Rhufeinaidd yn y flwyddyn 1548, yn achwyn yn fiin nad oedd efe yn deall y gelfyddyd o argraffu, ac nad oedd y gweithwyr yn deall yr iaith, na braidd y llythyrenau.

Y mae gan y Coptiaid, neu weddill yr hen Aiphtiaid, gyfeithiad cryn hen o'r Bibl; cymmerwyd yr Hen Destament, gyda chywirdeb mawr, oddi wrth y Deg-a-thriugain Alexandriaidd, ond ni argraffwyd erioed mo hono am a wyddom ni. Argraffwyd y Newydd yn Rhydychen, yn y flwyddyn 1716; ond ni fedd *Jablonsci* a *La Croze* ond tyb isel am y gwaith hwn, yn enwedig y cyfeithiad Lladinaidd.

Y mae gan y Persiaid rai cyfeithiadau o'r Bibl mewn llaw-ysgrifen: y mae pum llyfr Moses gan *Rabbi Jacob*, Iuddew; a'r efengylau gan un *Simon*, Cristion, wedi eu gosod i mewn yn Mibl Amryw-ieithog Llundain: nid oes un o honynt yn hen; ac y mae y diweddaf yn mhell o fod yn gywir. Y mae gan yr Armeiaid gyfeithiad o'r Hen Destament, wedi ei gymmeryd oddi wrth y Deg-a-thriugain, gan *Moses* y Grammadegwr a dau ereill, oddeutu 1400 o flynyddoedd yn ol. Gwnaed ef oddi wrth y Syrieg a'r Groeg. Yn y flwyddyn 1666, diwygiwyd, neu yn hytrach, llygrwyd ef oddi wrth y Vulgate, ac argraffwyd ef yn Amsterdam, dan arolygiad esgob Armeniaidd. Mynnodd *Tudur Patreus* argraffiad o Destament Newydd Armeniaidd, yn Antwerp, yn y flwyddyn 1668, ac o'r holl Fibl yn y flwyddyn 1670.

Y mae gan drigolion Georgia y Bibl yn eu hen iaith eu hunain; eithr gan fod honno wedi myned bron yn anarferedig yn awr, a hwythau gymmaint eu hanwybodaeth bron âg anifeiliaid, nid all ond ychydig o honynt ei darllain na'i deall hi. Y mae y Bibl gan y Rwssiaid yn eu hiaith Sclafonaidd, wedi ei gymmeryd oddi wrth y Groeg, gan *Cyril*, eu hapostol. Cyhoeddwyd ef yn y flwyddyn 1581; ond gan ei fod yn rhy anneallddwy, dechreuodd *Ernest Gliic*, caeth-ddyn Swedaidd, oddeutu 90 o flyneddoedd yn ol, ffurfio un arall. Bu farw cyn ei orphen. Gorchymynodd Petr yr amherawdwr i nifer o'i wyr eglwysig mwyaf dysgedig orphen y gwaith hwn. Meddyliwn iddo gael ei argraffu, ac fod y Biblau hyny a ddosparthwyd trwy awdurdod breninol oddeutu y flwyddyn 1722, o'r cyfeithiad hwn.

Y cyfeithiad Almaenaidd henaf ydyw eiddo *Ulphilas*, esgob y Gothiaid, oddeutu y flwyddyn 360; eithr efe a adawodd lyfrau y Breninoedd allan rhag iddo gyffroi ei gyd-wladwyr creulawn i ryfel. Tua diwedd yr 16eg ganrif, cymmerodd *Junius* arno gyhoeddi argraffiad o hono oddi wrth lyfr a gaed yn monachlog Verden, wedi ei ysgrifenu mewn llythyrenau o aur. Argraffwyd cyfeithiad heb enw un awdwr wrtho, yn Nuremberg, yn y flwyddyn 1477. Rhwng y flwyddyn 1521 a 1532, cyfansoddodd *Luther* ei gyfeithiad, eithr tybia *Michaelis*, *La Croze*, a *Bayer*, mai nid hwn oedd cyfeithiad Gothaidd *Ulphilas*, ond un yn nghylch 200 o flyneddoedd yn ddiweddarach; a chyhoeddodd ef mewn saith dosparth, fel yr oedd yn dyfod yn barod. Bu rhai boneddigion hyddysg yn iaith yr Almaen, yn ei adolygu. Cyhoeddwyd dau gyfeithiad Pabaidd, y naill yn eiddo *Ecius*, o'r Hen Destament, ac *Emzer* o'r Newydd, a'r llall o eiddo *Ulembergius*, i iselhau clod un *Luther*; ond y mae

Protestaniaid yr Almaen a gwlad y Swiss yn ei arfer etto, wedi diwygio ychydig arno. Oddeutu y flwyddyn 1660, bu bwriad ar droed i'w ddiwygio ef yn drwyadl; ond meddyliwn i farwolaeth y dysgedig *Hottinger* wneud y bwriad bwnw yn afliwyddiannus. Oddeutu y flwyddyn 1604, trôdd *Piscator* gyfieithiad Lladin *Junius* a *Theremelius* i fath o Almaeneg, ond lladineiddiodd ormod arno. Oddeutu y flwyddyn 1529, cyhoeddodd yr Ail-fedyddwyr eu cyfieithiad Almaenaidd yn Worms. Yn y flwyddyn 1630, cyhoeddodd *Ioan Crelius*, Sosiniad, ei Destament Newydd yn Amsterdam, a *Ffelbinger* ei eiddo yntau yn y flwyddyn 1660. Oddeutu y flwyddyn 1680, cyhoeddodd *Athius* gyfieithiad o'r Hen Destament yn Hebraeg ac Almaeneg, er mwyn ei frodyr Iuddewig, a *Jecuthiel* un arall; ond gŵyr-dròdd y ddau, yn enwedig y diweddaf, amryw destynau perthynol i'r Messiah, &c. Ymddengys nad oedd cyfieithiad Almaenaidd *Schmidt* yn llawer mwy ei werth.

Priodolir y cyfieithiad cyntaf o'r ysgrythyr yn iaith Pwyl, i *Hadewich*, gwraig Jagelon, dug Lithuania, yr hon a gofleidiodd Gristionogrwydd yn A.D. 1390. Yn y flwyddyn 1596, cyhoeddodd y Protestaniaid un arall wedi ei ffurfio oddi wrth gyfieithiad *Luther*. Yn nghylch tair blynedd wedi hyny, cyhoeddodd *Iago Wic*, Jesuitiad, a rhai o'i frodyr, un arall yn fwy at archwaeth y Pabyddion. Cyhoeddodd y Sosiniaid ddau gyfieithiad at eu harchwaeth hwythau yn 1562 a 1572.

Oddeutu y flwyddyn 1506, cyhoeddodd y Bohemiaid Taboraidd Fibl yn eu hiaith eu hunain, wedi ei gymmeryd oddi wrth y Vulgate. Yn niwedd yr 16eg ganrif, cyhoeddodd wŷth duwinydd o Bohemia, ar ol astudiaeth fanol o'r ieithoedd gwreiddiol, yn Wittenberg a Basil, gyfieithiad oddi wrth y testun gwreiddiol.

Yn y flwyddyn 1534, cyhoeddodd *Olaus* a *Lawrens* Fibl Swedaidd, wedi ei dynnu oddi wrth gyfieithiad Almaenaidd *Luther*. Oddeutu y flwyddyn 1617, gorchymynodd Gustavus Adolphus i rai gwyr dysgedig i'w adolygu ef. Er pa amser, y mae wedi cael ei ddylyn bron yn gyffredinol yn y deyrnas honno. Gwnaed y cyfieithiad i iaith Ffinland, meddyliwn, oddi wrtho ef. Yn y flwyddyn 1550, cyhoeddodd *Petr Palladius*, a thri ereill gyfieithiad Danaidd, wedi ei gymmeryd oddi wrth un Almaenaidd *Luther*. Yn y flwyddyn 1605, cyhoeddodd *Paul Resenius*, esgob Zealand, un arall. Yn y flwyddyn 1624, cyhoeddodd *Ioan Michel* ei gyfieithiad o'r Testament Newydd. Y mae gan drigolion Iceland gyfieithiad o'r Bibl yn eu hiaith hwythau; ond ni wyddom ddim am yr awdwr.

Y mae y Biblau Ffiemiaidd neu Ellmynaidd, a gyfansoddwyd gan Babyddion yn lluosog iawn; ond y maent, oddi eithr un *Nicolas Finc*, yn y flwyddyn 1548, am ddim a wyddom ni, oll heb enwau eu hawduron wrthynt. Bu Calfiniaid yr Isdiroedd, yn hir ymarfer cyfieithiad wedi ei dynnu oddi wrth un Luther; ond gosododdd Cymmanfa Dort rai gwyr dysgedig i ffurfio un newydd oddi wrth yr ieithoedd gwreiddiol. Cyhoeddwyd ef yn y flwyddyn 1637. Ac nis gwyddom am un cyfieithiad arall mor gywir.

Yn y flwyddyn 1471, cyhoeddwyd Bibl Italaidd, wedi ei gymmeryd oddi wrth y Vulgate gan *Nicolas Malerme*, monach o urdd Sant Bened. Cyhoeddodd *Antoni Brucsioli* un arall yn y flwyddyn 1530. Gwaharddodd Cyngor Trent ef. Y mae gan y Protestaniaid ddau gyfieithiad Italaidd: y naill gan y cloffawr *Diodati*, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1607, a chyda diwygiadau yn 1641. Rhodda fath o ddehongliad rhydd, yn hytrach na chyfieithiad llythyrenol. Y llall gan *Maxen Theophilus*, ac wedi ei gyfiwyno i ddug Tuscani, oddeutu y flwyddyn 1551. Wrth orchymyn y brenin Iago o Arragon yn nghylch eu llosgi hwynt, yr ydym yn cael fod lluaws o Fiblau yn yr Hispaeneg, oddeutu y flwyddyn 1270; sef gwaith y Waldensiaid, tebygol. Oddeutu y flwyddyn 1500, cyhoeddwyd cyfieithiad Hispaenaidd, ond y mae y cyfieithwr yn anadnabyddus. Yn y flwyddyn 1543, cyhoeddodd *Driander* ei gyfieithiad o'r Testament Newydd, a chyflwynodd ef i'r brenin Siarls V. Ar ol ei arfer am hir amser yn ddirgel, cyhoeddodd yr Iuddewon eu cyfieithiad Hispaenaidd o'r Hen Destament yn y

flwyddyn 1553. Cyhoeddodd *Cassiodore*, Calfiniad dysgedig, ei Fibl, yn y flwyddyn 1569. Diwygiodd ac adgyhoeddodd *Cyprian de Valera* ef yn y flwyddyn 1602. Oddeutu A.D. 1160, cyhoeddodd *Petr de Faux*, penaeth y Waldensiaid, y cyfieithiad cyntaf o'r Bibl yn y Ffraneg. Oddeutu 1290, ffurfiodd *Guinard les Moulin* gyfieithiad, a thebygol yw, mai hwn a gyhoeddodd *Menard* yn y flwyddyn 1484. Oddeutu y flwyddyn 1380, gwnaeth *Raoul de Presle* un arall. Trwy orchymyn yr amberawdwr Siarls V. cyhoeddodd dysgedigion Lovain un arall yn y flwyddyn 1550; ond dywed *Ff. Simon* nad oedd yn gwahaniaethu ond ychydig oddi wrth eiddo *Le Empereur*, yn y flwyddyn 1534. Cyhoeddodd *Renatus Benoit* ei Fibl Ffrengig, yn y flwyddyn 1567, a *Chorbin* ei eiddo yntau yn y flwyddyn 1643. Dywedir mai llên-ladrad yw cyntaf, ac fod y llall yn drwsgl yn ei iaith, yn ymlynu yn rhy agos wrth y Vulgate. Yn y flwyddyn 1672, cyhoeddodd *Isaac le Maitre de Sacy* ei gyfieithiad gyda nodau byrion, i ddangos yr ystyr llythyrenol ac ysbrydol. Derbyniwyd ef gyda chymeradwyaeth mawr. Y mae Testament Newydd *Mons* a dynwyd oddi wrth y Vulgate, ac a gyhoeddwyd yn 1665, gyda llythyr trwydded brenin yr Hispaen, ac archesgob Cambray, mewn iaith dra eglur a hyfryd; ond gwaharddodd y Pab Clement IX. ac Innocent yr XI. yn nghyd â lluaws o esgobion Ffrainge, ef gyda llawer o fygythion. Oddeutu y flwyddyn 1670, *Amelotte*, yn cymmeryd arno ei fod wedi manwl-chwilio llyfr-gelloedd Europe, a chyda gofal mawr wedi cymharu yr hen law-ysgrifau, a gyhoeddodd ei Destament Newydd. Er gwaradwydd iddo, cafwyd, nad oedd efe bron wedi nodi unrhyw wahanol ddarlleniad o bwys; a gorfu arno ef ei hun gyfaddef ei fod wedi ymffrostio felly, er mwyn cael gwerthiad i'w lyfr. Yn y flwyddyn 1697, cyhoeddodd *Bohours* a dau Jesuit arall, eu Testament Newydd; eithr y mae eu hymlyniad manol wrth y Vulgate wedi gwneud eu hiaith yn drosgl ac anmealladwy. Yn y flwyddyn 1702, cyhoeddodd *Ff. Simon* ei Destament Newydd, gyda rhai nodau llythyrenol a beirniadol; condemniodd esgobion Paris a Meaux ef yn fuan. Cyhoeddodd *Martianay* ei Destament Newydd yn y flwyddyn 1712.

Y mae lluaws o Fiblau Ffrengig wedi eu cyfieithu gan Brotestaniaid. Argraffwyd cyfieithiad *Faber* o'r Testament i'r rhai oeddynt yn trigo yn Piedmont, yn y flwyddyn 1534. Yn mhen y flwyddyn, cyhoeddwyd Bibl *Petr Oblivetan* yn Geneva; ac o herwydd iddo gael ei adargraffu yn fynych gyda diwygiadau Calvin ac ereill, y mae yn awr yn waith o gryn gywirdeb. Ar ol peth croesdyniad âg offeiriaid Protestanaidd Ffrainge, cyhoeddodd *Diodati* ei un ef yn y flwyddyn 1644; ond fel ei gyfieithiadau Italaidd a Lladinaidd, y mae y cyfieithiad yn rhy anghaeth, ac yn rhy agos i ddull rhydd-ddehongliad. Cyhoeddodd *Castalio* ei eiddo yntau; ond y mae y cyfieithiad a'r iaith, â gormod o ysgafnder coegaidd ynddynt. Cyhoeddodd *Le Clerc* ei Destament Newydd yn Amsterdam yn y flwyddyn 1703, gyda nodau wedi eu benthyccio gan mwyaf oddi wrth *Grotius* a *Hammond*. Gwaharddodd y Taleithiau Cyffredinol ef, gan ei fod yn gogwyddo gormod at yr au-grefydd Sociniaidd a Sabeliaidd. Cyhoeddodd *La Cene* un arall, yr hwn a fu gyfranog o'r un dynged bron, o herwydd ei dybiau gwyrog a'i gyfeiliornadau.

Oddeutu A. D. 709, cyfieithodd *Adelm* y Salmau i Saesoneg Saxonaidd. Yn nghylch yr un amser, cyfieithodd *Eadfrid* ranau ereill o'r ysgrythyr; a chyfieithodd y parchedig *Beda* yr Efengylau, os nid y Bibl oll. Oddeutu 890, cyfieithodd y brenin *Alffred* ran fawr o'r ysgrythyr. Cyhoeddwyd cyfieithiad Saeson-Saxonaidd o rai llyfrau gan *Elffric*, yn y flwyddyn 1699. Cyhoeddwyd cyfieithiad o'r Efengylau gan *Parcer*, archesgob Caergaint, yn y flwyddyn 1571; eithr y mae yr awdwr yn anadnabyddus. Ar ddymuniad Arglwydd *Berceley*, cyfieithodd *Ioan Trevisa* y Bibl i'r Saesoneg, a gorphenodd ei gyfieithiad yn A.D. 1357, neu yn oed ereill, yn y flwyddyn 1392. Oddeutu 1360, cyfansoddodd *Ioan Wickliff* ei gyfieithiad, yr hwn sydd ar gael etto mewn amryw lyfr-gelloedd yn Lloegr. Yn 1526, cyhoeddodd *Tindal* ei Desta-

ment Newydd. Prynwyd y rhan fwyaf o'r llyfrau i'w llosgi, gan esgob Tonstal a Syr Thomas More. Galluogodd y pris a gafodd *Tindal* am danynt ef i fyned yn mlaen â chyfieithiad yr Hen Destament. Llosgwyd ef yn Ffianders, pan oedd yn darparu ei Fibl at ail-argraffiad. Gorphenodd *Ioan Rogers*, yr hwn a fu yn ferthyr wedi hyny, y diwygiad, ac argraffodd ef yn Hamburg, dan enw *Thomas Matthews*. Diwygiodd *Cranmer* a *Miles Coverdale* ef yn mhellach. Mynnodd *Cranmer* ei argraffu trwy awdurdod cyhoeddus yn Lloegr; a gorchymynodd y brenin Harri i lyfr o hono gael ei osod i fynu yn mhob eglwys, i gael ei ddarllain gan bob un a ewyllysiai. Trwy gyngor yr esgobion Pabaidd, adalwodd y gorchymyn hwn yn fuan, a gwaharddodd y Bibl. Pan oedd *Coverdale*, *Knox*, *Samson*, *Goodman*, *Gilby*, *Cole*, a *Whittingham* yn alltudion, yn amser erlidigaeth y frenines Mair, ffurfiasant gyfieithiad arall, gyda nodau byrion, a chafodd ei argraffu yn Geneva. Bu hwn mewn bri mawr gyda phlaid o grefyddwyr a elwid y Puredigion, ac mewn oddeutu 30 mlynedd cafodd gynnifer â hyny o argraffiadau. Yr esgobion a'u casaent ef o'u calonau, a gwnaethant un newydd o'r eiddynt eu hunain, yr hwn a ddarllenid yn yr eglwysi, tra yr oedd cyfieithiad Geneva yn cael ei ddarllain yn gyffredin mewn teuluoedd. Oddeutu 1583, cyhoeddodd *Lawrence Thomson* gyfieithiad o Destament newydd â nodau Beza. Yn niwedd yr 16eg, a dechreuad y 17eg ganrif, cyhoeddodd y Pabyddion Saesonig yn Rheims, gyfieithiad o'r holl Fibl. Yr oedd hwn yn llawn o eiriau anghyfiaith a nodau wedi eu cymhwyso i gynnal y grefydd Babaidd; ac ni faidd y Pabyddion eu hunain hyd yn nod ddarllain y cyfieithiad drwg hwn heb lythyr trwydded oddi wrth eu huchafion.

Yn y gymmanfa a gynnaliwyd yn llys Hampton, cyhoeddodd y Puredigion wrthddadleuon anattebadwy yn erbyn Bibl yr esgobion; ac yr oedd y brenin Iago yn casau cyfieithiad Geneva o'i galon. Efe, gan hyny, a osododd 54 o wyr dysgedig i gyfieithu yr ysgrythyrau o'r newydd, neu, o leiaf, i gyfansoddi cyfieithiad gwell allan o lawer ereill. Aeth 47 o honynt, wedi eu rhannu yn chwech dosparth, yn nghyd âg ef, A.D. 1607. Gwedi i bob un gyfieithu y gyfran a bennodasid iddo, cyfarfuant yn nghyd; darllenai un y cyfieithiad newydd; yn y cyfamser, daliai y lleill oll yn eu dwylaw naill ai cyn-y-grifau, neu ryw gyfieithiad gwerthfawr. Pa bryd bynag y cymmerent sylw neillduol o un peth, y darllenydd a arosai, nes y caent ystyried a chyduno yn ei gylch. Mewn tair blynedd, gorphenasant eu gorchwyl; a chyhoeddwyd eu cyfieithiad yn y flwyddyn 1610. Y mae ef etto mewn awdurdod cyhoeddus o fewn llywodraeth Prydain; ac, yn nesaf at yr un Ellmynaidd, hwn yw y goreu sydd yn bod. Y mae y cyfieithiad a'r nodau Ellmynaidd, wedi cael eu troi i iaith Lloegr. Hefyd y mae *Ainsworth*, *Doddridge*, ac ereill, wedi cyhoeddi eu cyfieithiadau eu hunain o ran o'r llyfrau sanctaidd yn y Saesoneg. Oddeutu 1630, rhoddodd *Bedel*, esgob Cilmore, un o'r enw King ar waith i gyfieithu y Bibl Saesoneg i'r Wyddeleg, Gwedi ei orphen, ac i *Bedel* ei brofi ef, bwriadodd ei argraffu ar ei draul ei hun. Rhwystrodd Archesgob *Laud* ac Arglwydd *Strafford* ef; gan gymmeryd arnynt y byddai yn waradwyddi'r genedl i arfer cyfieithiad adyn moi ddiystyrllyd â King. Pa fodd bynag, ni chollwyd y llaw-ysgrif, ond argraffwyd hi yn y flwyddyn 1685. Pa un a bod y Biblau Erse a arferir yn Uwchdiroedd yr Alban, yn agos yr un â hwn, nis gwyddom.

Y mae gan y Tyrciaid rai cyfieithiadau o'r Bibl mewn llaw-ysgrifen yn eu hiaith hwythau. Yn 1666, argraffwyd Testament Newydd Tyrciaidd yn Llundain, i gael ei wasgaru yn y Dwyrain. Yn 1721, gorchymynodd yr amherawdwr argraffiad o Fiblau yn Nghaer-Cystenyn, fel y gellid eu gosod gyferbyn â'r Koran, neu oracl y Mahometaniaid. Oddeutu 1650, cyhoeddodd *Ioan Eliot* ei gyfieithiad o'r Bibl i iaith trigolion Massachuset yn America. Oddeutu ugain mlynedd yn ol hyn, mynnodd yr anrhydeddus Syr *Robert Boyle* gyfieithiad o'r Testament Newydd i'r Malayeg, ac anfonodd yr argraffiad i'r Indïa Ddwyreiniol. Yn 1711, cyhoeddodd *Ziegenbald* a *Grindler*, cennadau Daniaidd, eu cyfieithiad o'r Testament Newydd

i'r Malabrieg; ac aethant yn mlaen wedi hyny i gyfeithu yr Hen. Y mae gan y Groegiaid diweddar yn Nhwrci hefyd, gyfeithiad o'r Bibl yn eu hiaith.

Er amser y Diwygiad, cafodd lluaws mawr o gyfeithiadau Lladinaidd eu ffurfio. O'r Pabyddion, cyhoeddodd *Pagnin* ei eiddo ef yn 1527: y mae hwn yn dra llythyrenol, ac yn gyffredin yn gywir. Diwygiadau *Montanus* a'u gwnaethant ef yn fwy felly fyth. Trwy gynnorthwy dau wr medrus yn yr Hebraeg, cyfeithiodd Cardinal *Cajetan* ran o'r Hen Destament. Cymmerodd *Isidore Clarius* arno ddiwygio y Vulgate oddi wrth yr Hebraeg, a haera iddo gywiro yn nghylch 800 o fannau ynddo. O'r Protestaniaid, cyhoeddodd *Sebastian Munster* gyfeithiad llythyrenol a synwyrol o'r Bibl. Y mae eiddo *Leo Juda* yn Lladin mwy pur, eithr yn llai cyd-ymffurfiol â'r iaith wreiddiol. *Castalio* yn fynych a olyga ei Ladiniaeth rwysgfawr, os nid coegaidd hefyd, weithiau, yn fwy na meddwl yr Ysbryd Glân. Y mae cyfeithiad *Junius, Tramelius,* a *Beza* yn lled gywir, a chawsant eu hadargraffu yn fynych. Cyfeithiad *Piscator*, yr hwn a gyhoeddodd efe ychydig cyn ei farwolaeth, yn nghyd â'i esboniad, sydd fyth yn fwy felly. Y mae cyfeithiad *Schmidt* yn hytrach yn arw yn yr iaith, eithr yn llythyrenol iawn; a thrwy ei attodiadau lluosog, gwasanaetha hefyd fel math o esponiad. Argraffwyd ef gyda chyhoeddiad anghelfydd o Fibl Hebraeg *Vander Hooght*.

I'r dyben o gymharu gwahanol gyfeithiadau yn fwy cyfleus, cafodd amryw o honynt weithiau eu cyd-gyssylltu. Yn ei Fibl wyth-plyg, rhestrodd *Origen*, mewn dosparthiadau gwahanol, adysgrif Hebräig, mewn llythyrenau Hebräig a Groegaidd, yn nghyd â chwech o gyfeithiadau Groegaidd gwahanol. Cyhoeddodd *Elias Hutter*, Almaenwr, oddeutu diwedd yr 16eg ganrif, y Testament Newydd, mewn deuddeg iaith, sef y Groeg, yr Hebraeg, y Syrieg, y Lladineg, yr Italieg, yr Hispaeneg, y Ffrangeg, yr Almaeneg, y Bohemieg, y Saesoneg, y Daneg, a'r Pwyleg; a'r holl Fibl yn yr Hebraeg, y Groeg, y Lladineg, a'r Almaeneg. Eithr y casgliadau mwyaf cyfrifol ydynt y rhai lle mae yr ieithoedd gwreiddiol a'r hen gyfieithiadau wedi eu cyssylltu ynghyd; megys y Bibl Complutiaidd gan Cardinal *Ximenes*, Hispaenwr; Bibl brenin yr Hispaen, dan arolygiad *Montanus*, &c.; Bibl Paris *Michael Jay*, boneddig o Ffraingc, mewn deg cyfrol un-plyg, anferth eu maint; adysgrifau o ba un a gyhoeddwyd yn yr Is-Almaen, dan enw y Pab Alexander VII.: ac eiddo *Brian Walton*, Esgob Caer wedi hyny. Y diweddaf hwn yw y mwyaf rheoladd a gwerthfawr. Cynnwys yr ieithodd gwreiddiol, sef yr Hebraeg a'r Groeg, yn nghyd â chyfieithiad rhwng-linellawl *Montanus;* y rhyddddehongliadau Caldeaidd; y Deg-athriugain; Pum llyfr Moses yn iaith y Samariaid; y Bibl Syriaidd ac Arabaidd; Pum llyfr Moses a'r Efengylau yn y Persieg: y Psalmau, Cân Solomon, a'r Testament Newydd yn yr Ethiopeg, gyda'u priodol gyfeithiadau Lladinaidd; yn nghyd a'r cyfieithiad Lladin a elwir y Vulgate, a chyfrol helaeth o wahanol ddarlleniadau, at yr hyn y chwanegir yn gyffredin Eiriadur Saith-ieithog *Castel*, y cwbl yn gynnwysedig mewn wyth gyfrol un-plyg.

Cyhoeddwyd y Testament Newydd yn y Creotieg gan *Taber Creim*, dau ereill yn y flwyddyn 1562 a 1563. Cyfieithiwyd y Bibl Malagaidd gan *Bower* a *Valentia*, dau dduwinydd o'r Is-Almaen. Cyfieithwyd Bibl Iceland gan *Thorlac*, a chyhoeddwyd ef yn y flwyddyn 1584. Cyfieithwyd Bibl y Grisoniaid, pobl yn cyfaneddu mewn rhan o wlady Swiss, gan *Coir*, a chyhoeddwyd ef yn y flwyddyn 1720. Gan bwy y cyfieithwyd Biblau Hungari a Georgia, nis gwyddom. Cyfieithwyd Bibl yr Erse gan Mr. *Stuart* o Luss, a chyhoeddwyd ef ers amryw flynyddau yn ol.

Gwedi i'r Bibl gael ei gyfieithu i amryw ieithoedd, daeth cyfawnder yr amser i ben, i'r haul gyfodi ar Brydain; canys Duw, yn nghyfoethogrwydd ei drugaredd, a agorodd ffordd i'r Cymry gael ei air ef, wedi ei gyfieithu yn eu hiaith eu hunain.

Fod y Bibl wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg yn y prif oesoedd, nid oes lle i ammau; y mae Dr. *Risiart Davies*, Esgob Menyw, yn ei lythyr argraffedig gyda Thestament *Gwiliym Salesburi* yn rhoddi rhesymau

cedyrn i broſi hyny. Ond nid oedd dim o hono i'w gael yn yr oesoedd hyny, heb ei adgyfeithu. Yn nheyrnsiad Harri VII. cyfeithwyd y Salmau; ac yn A.D. 1567, a'r ŵythfed flwyddyn o deyrnasiad y frenines Elizabeth, daeth y Testament Newydd allan yn Gymraeg. Argraffwyd ef yn yr hen lythyrenau *(Gothic)*, yn bedwar-plyg, ac wedi ei ddosparthu yn llyfrau a phennodau, ond heb ei rannu yn adnodau, oddigerth ychydig o'r Actau, ac o ddechreu yr Epistolau Paul at Timotheus hyd ddiwedd y Dadguddiad. Gwnaed y cyfeithiad hwn, meddant, o'r Groeg, wedi ei gymharu a'r Lladin, gyda ffyddlondeb a diwydrwydd mawr. Rhagddodwyd y *Calendar* iddo, a chyflwyniad Saesoneg i'r frenines Elizabeth, a llythyr maith at y Cymry, gan esgob Tŷ Ddewi. Yr oedd ynddo gynhwysiad ac ystyr pob pennod, yn nghyd âg eglurhad o eiriau tywyll, anghynefin. Y gwaith tra chanmoladwy hwn a wnaed gan Dr. *Risiart Davies*, esgob Tŷ Ddewi, a *Gwilym Salesburi*, gwr boneddig urddasol, cyfarwydd yn y Gymraeg, o'r Caedu, yn mhlwyf Llansannan, yn swydd Dinbych; coffadwriaeth pa rai a haeddai glod a pharch mawr gan eu cenedl. Ni chyhoeddwyd un cyfeithiad o'r Hen Destament yn y Gymraeg, nes dros ugain mlynedd wedi y cyhoeddiad hwn o'r Newydd.

O'r diwedd, yn y flwyddyn 1588, argraffwyd y Bibl yn gyflawn, sef y Testament Hen a Newydd, y waith gyntaf yn Gymraeg, yn Llundain. Yr oedd ynddo gynuwysiad pob pennod, ac wedi eu rhanu yn adnodau, ac â rhai cyfeiriadau ar ymyl y ddalen, *Calendar*, a chyflwyniad o hono gan Lladin i'r frenines Elizabeth. Pa nifer a argraffwyd sydd ansicr; ond y mae yn ddilys nad mwy, os cynnifer, nag oedd o eglwysi plwyfol yn y Dalaeth, y rhai ydynt 800. Y gorchwyl daionus hwn a gyflawnwyd dan oiygiad, a thrwy lafurus boen y Dr. *W. Morgan*, gwr genedigol o Ewybr-Nant, yn mhlwyf Dolwyddelen, yn swydd Gaernarfon. Gwnaed ef yn esgob Llandaf yn 1595, ac wedi hyny a dderchafwyd yn haeddianol i esgobaeth Llanelwy, yn A.D. 601, lle y bu farw y 10fed o fis Medi, 1604. Yn nghyflwyniad y gwaith i'r frenines Elizabeth, coffa yn ddiolchgar am y cynnorthwy a gafodd i ddwyn y gwaith yn mlaen, a'i orphen, gan yr Archesgob *Whitgift*; esgobion Llanelwy a Bangor; y Dr. *Dafydd Powell*, peryglor Rhiwabon, Cymro enwog, a mawr iawn ei ddysg; a Mr. *Edmund Prys*, archdiacon Merioneth, ac ereill. Ysgolhaig mawr oedd *Edmund Prys*, a phrydydd rhagorol, yn deall wyth o ieithoedd, ac yn tystio bod y Gymraeg yn rhagori arnynt oll. Efe a drodd y Salmau ar gân, y rhai sydd yn cael eu harfer yn ein heglwysi hyd heddyw.

Eithr gwyr dysgedig ereill a welsant fod yn angenrheidiol cael argraffiad arall o air Duw; canys nid oedd yr un uchod ond Bibl mawr wedi ei argraffu mewn llythyrenau *Gothic*, at wasanaeth yr eglwys yn unig: a gwelodd Cymry dysgedig eisiau diwygio, llyfnhau, a pherffeithio rhai pethau yn ngwaith y Dr. *W. Morgan*. Felly y gwaith pwysig hwn a gymmerwyd mewn llaw gan yr enwog *Risiart Parri*, D.D. o dref Ruthyn, yr hwn a wnaed yn esgob Llanelwy, ar ol marwolaeth y Dr. *Morgan*. Yn y flwyddyn 1620, argraffwyd y Bibl Cyssegr-lân yn Llundain yr ail waith, yn yr un fath blygiad â'r cyntaf; ond wedi cyfnewid cymmaint ar y cyfeithiad, fel y petrusa y Dr. *Parri* ei alw yr un â chyfeithiad y Dr. *Morgan*; a'r cyfeithiad hwn sydd gennym ni, gan mwyaf, yn arferedig hyd heddyw. Dywedir fod yr enwog Dr. *J. Davies*, offeiriad Mallwyd, ac awdwr y Geir-lyfr yn gynnorthwy nid bychan i esgob *Parri*, yn niwygiad y cyfeithiad o'r Bibl. Yr oedd yn Gaplan i'r Esgob, ac yn treulio llawer o'i amser gydag ef. Dygwyd ef i fynu with draed y Dr. *Morgan*, a chafodd fantais fawr tra yn ieuangc i ddyfod yn hyddysg yn y Gymraeg; ac ni pheidiodd wneuthur y defnydd goreu o'r cyfleusdra a roddwyd yn ei law; canys yr oedd efe yn rhyfeddol o gyfarwydd yn hanesion, arferion, a diarebion ei wlad, fel y tystia ei waith, sef ei Rammadeg, a argraffwyd yn A.D. 1621, a'i Eir-lyfr yn A.D. 1632. Y mae yr holl argraffiadau canlynol o'r Bibl yn atteb i hwn yn gyffredinol, oddi eithr ychydig gyfnewidiadau yn sill-

iad rhai geiriau, a'r prif lythyrenau yn eu deehreu hwynt.

Yn y flwyddyn 1804, sefydlwyd yn Llundain y gymdeithas a elwir y *Bibl Gymdeithas Frutanaidd a Thramor*, i'r dyben o ddosparthu Biblau nid yn unig yn ein gwlad ein hunain, ond hefyd yn y gwledydd pellenig. Y gorchwyl cyntaf dan ystyriaeth y Gymdeithas hon oedd argraffiad o Fiblau a Thestamentau Cymreig, deuddegplyg, yr hwn a ddaeth allan yn ddioed; ac o herwydd fod yr argraffiad hwn wedi ei wneuthur â llythyrenau sefydlog a elwir gan y Saison *Stereotype*, y mae modd felly i gael allan argraffiad o'r Ysgrythyrau mewn ychydig amser, yr hyn a wnaed amryw weithiau eisoes. Nid anweddus a fyddai sylwi yma am y diweddar Barch. *T. Charles*, o'r Bala, ei fod yn sylfaenwr neu gychwynwr blaenaf y Gymdeithas ardderchog hon, gan mai trwy ei waith ef yn ymorol yn Llundain âg ewyllyswyr da i grefydd a duwioldeb, pa fodd y gellid cael argraffiad helaeth o'r Bibl, am bris cymhedrol, yn y Gymraeg, ac os byddai alluadwy, i drefnu ystorfa barhaus o honynt, fel na byddai un amser mwyach brinder o Fiblau i'r Cymry tylodion, y rhoddodd yr Arglwydd y meddwl dyngarol ac ardderchog yn nghalonau rhai o'r gwyr duwiol yr oedd yn ymddyddan â hwynt, o ffurfio Cymdeithas i ddosparthu yr Ysgrythyrau, nid yn unig yn y wlad hon, ond hefyd yn y gwledydd tramor, pa un bynag ai Cristionogol, Mahometanaidd, neu Baganaidd; fel na byddai un genedl tan y nefoedd, nac un person neillduol, heb y trysor gwerthfawr hwn, a ewyllysiai ei feddiannu. Cyfarfu amryw o honynt â'u gilydd i ystyried yr achos. Yn y cyfarfod cyntaf hwn yr oedd y Parch. *T. Charles* yn wyddfodol. Wrth ymddyddan am fawredd bendithiol, a dymunoldeb y cyfryw sefydliad, effeithiodd y golygiadau ar hyny yn y fath fodd ar eu meddyliau, fel y cyd-dywalltasant ddagrau o orfoledd, yn y gobaith o lwyddo yn eu cynllun. Penderfynwyd i alw cyfarfod cyffredinol i ystyried yr achos; a chyhoeddwyd yn y Newyddiaduron y byddai y cyfryw gyfarfod i gael ei gynnal yn y *London Tavern*, Mawrth 7, 1804. Ar yr amser gosodedig cyfarfuant â'u gilydd, dros 300, rhwng Eglwyswyr ac Ymneillduwyr o amrywiol enwau. Gwedi llawer o ymddyddanion ac areithiau dwysion a gwresog, dros ddwy awr, ar yr achos pwysfawr a gogoneddus o'u cynnulliad at eu gilydd, penderfynwyd âg un llais, gyda gorfoledd nid bychan, i sefydlu cymdeithas tan yr enw a grybwyllwyd uchod. Yn y fan rhoisant eu henwau i lawr, ac addawyd tros £700, mewn ychydig fynydau, tuag at ddwyn y gwaith yn mlaen. Gosodwyd unar-bymtheg ar hugain i fod yn Oruchwylwyr *(Committee)* tros y flwyddyn; dewiswyd Trysorwr ac Ysgrifenyddion, a gosodwyd Arglwydd Teignmouth yn Llywydd y Gymdeithas, yr hwn sydd wedi llenwi ei swydd gyda'r ffyddlondeb mwyaf. Y mae y Gymdeithas hon wedi llwyddo, ac yn cynnyddu felly yn feunyddiol, tu hwnt i bob disgwyliad, ïe, wedi dosparthu amryw fyrddiynau o'r Ysgrythyrau mewn o ddeutu Deg a Thriugain o wahanol ieithoedd!! Heblaw yr argraffiad deuddegplyg uchod, y mae yr unrhyw Gymdeithas wedi cyhoeddi, yn y flwyddyn 1814, argraffiad o Fiblau a Thestamentau Cymreig, wythplyg, ar lythyrenau breision. Yr argraffiad hwn a barottowyd i'r wasg, ac a arolygwyd gan y Parch. *T. Charles*, ac a orphenwyd ganddo yn mis Awst, 1814, ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth.

Y mae yr awdurdod, mawredd, doethineb, sancteiddrwydd, a'r daioni dwyfol a amlygir yn yr ysgrifeniadau sanctaidd; dyfnder, uchder, purdeb, a charedigrwydd eu cynnwysiad: eu dyben i roddi y gogoniant oll i Dduw, a diddymu tueddiadau llygredig dynion: gorucheledd eu hiaith, hyd yn nod pan y mae wedi ei haddasu i amgyffred y gwanaf; tegwch amlwg yr ysgrifenwyr, yn adrodd eu gwendidau a'u beiau, eu hunain a'u cenedl; eu cyssondeb rhyfeddol, er eu bod mewn sefyllfaoedd ac oesoedd gwahanol iawn, ac yn cyhoeddi pethau gwrthwyneb i dueddiadau anianol dynion; cadarnhad yr ysgrifeniadau hyn trwy luaws dirfawr o wyrthiau pwysig, cyhoeddus, ac anwrthddadleuadwy; dyoddefiadau gorfoleddus myrddiynau o herwydd eu hymlyniad diys-

gog wrthynt; eu cadwedigaeth rhyfeddol, a dyrnodiau hynod dialedd dwyfol ar y cyfryw a gynnygent eu dinystrio; eu llwyddiant rhyfeddol yn darostwng chwantau dynion, a gwrthwynebiad cynddeiriog awdurdodau daearol, i'r dyben o warceiddio cenedloedd, ac argyhoeddi, dychwelyd, a chyssuro calonau myrddiynau o'r rhai mwyaf cyndyn; a chyflawniad cywir eu rhagddywediadau lluosog, a gwahanol o ran amgylchiadau, yn brofion anfethedig mai hwy yn *unig* ydynt air Duw, yn abl i'n gwneud yn ddoeth i iachawdwriaeth, a dwyn bywyd tragywyddol i ni, 2 Tim. iii. 15—17.

Byddai yn mhell tu hwnt i derfynau ac amcan y gwaith hwn, i fyned i chwilio yr anghyssonderau ffugiol a ddywedir eu bod yn gynnwysedig yn yr ysgrythyr, cawn, gan hyny, orphen y peu hwn gyda chynllun o'r hyn ellid wneud yn helaethach pe byddai angenrheidrwydd.

Pan y mae ammod mynegedig neu ddealledig yn nghlyn âg addewidion, bygythion, neu rybyddion, y mae palliant cyflawniad yr ammod, o gaulyniad, yn rhoddi lle i gasglu anghyflawniad y digwyddiad a ragfynegwyd yn ammodol. Mewn pethau ereill, y mae weithiau wrthddywediadau ymddangosiadol; ond, os eu chwilir yn iawn, peidiant ymddangos felly. Er rhagflaenu y cyfryw, priodol ydyw sylwi, (1.) Geill fod adysgrifenwyr yr ysgrythyr weithiau, trwy esgeulusdra, wedi gosod y naill lythyren yn lle y llall, neu hyd yn nod air, megys *Cainan* yn Luc iii. 36, lle ni ddylai fod; ond gellir cywiro hyn trwy gymharu lluaws mawr o adysgrifeniadau. (2.) Weithiau dywedir fod yr un peth wedi ei wneud gan wahanol bersonau, ac mewn gwahanol leoedd, o herwydd iddo gael ei wneuthur mewn rhan gan, neu mewn, ùn, ac mewn rhan gan, neu mewn, arall; neu yr oedd i'r un person neu le ddau enw. (3.) Wrth gyfrif amser, dechreuir y rhifyddiaeth weithiau ar un pryd neilltuol, ac weithiau ar un arall; dechreuai breninoedd weithiau gyddeyrnasu â'u tadau, ac wedi hyny, dechreuent deyrnasu wrthynt eu hunain yn unig; weithiau hefyd, gosodir rhifedi cyfain o gantoedd, miloedd, &c. am rai nad ydynt yn gwahaniaethu ond ychydig oddi wrthynt. (4.) Gall fod gwahanol bynciau yn cael traethu arnynt, er fod y geirian bron yr un. Felly nid *trwy weithredoedd* y mae cyfiawnhad ger bron Duw, ond trwy ffydd wirioneddol yn unig; ac etto, *trwy weithredoedd*, ac nid trwy ffydd farw yn unig, y mae cyfiawnhad ger bron dynion, neu dystiolaeth o gyfiawnhad, Gal. ii. 16. Iago ii. 14. (5.) Weithiau llefarir am beth yn gwbl annibynol mewn un man, ac yn gymhariaethol mewn un arall. *Casineb* at ddynion, yn enwedig at berthynasau, sydd bechadurus, Tit. iii. 3.; ac etto rhaid i ni *gasâu* ein perthynasau agosaf mewn cymhariaeth â Christ, hyny yw, eu caru yn llai, Luc xiv. 26. (6.) Mewn gwahanol bersonau ac amserau, gall yr unrhyw bethau fod yn gyfreithlon ac yn anghyfreithlon hefyd. Rhaid i ddynion anghyhoedd fod yn drugarogion, a maddeu y camweddau a wneir iddynt; ond rhaid i swyddogion, yn ol cyfiawnder, ddial ar anuniondeb, Luc vi. 36. Deut. xix. 21. Rhuf. xii. 19, 20, a'r xiii. 4. Bu enwaediad a defodau Iuddewig ereill, yn bir yn ddyledswyddau angenrheidiol; ond yr oedd eu cadw hwy, ar ol eu diddymu gan Grist, yn bechadurus, Gen. xvii. 10. Rhuf. iii. 1, 2. Gal. v. 2, a iv. 9, 10, 11. Esa lxvi. 3. Ystyrir yr un peth yn fynych mewn gwahanol olygiadau. Nid yw Crist *bob amser* gyda ei bobl ar y ddaear, yn ei bresennoldeb corphorol; ond y mae gyda hwynt *bob amser* yn ei bresennoldeb ysbrydol, Math. xxvi. 11, a'r xxviii. 20. Y mae efe *yn un â'i Dad* yn ei anian ddwyfol, cyfuwch âg ef yn ei berson; ag etto yn *is nag ef*, ac yn *was iddo*, yn ei ddyndod a'i swydd gyfryngol, Ioan x, 30, a'r xiv. 28. Phil. ii. 6, 7. Tyngu i Dduw pan fyddo angenrhaid, a chyda gwybodaeth, cyfiawnder, a gwirioneddd, sydd gyfreithlon; ac etto, tyngu i Dduw yn ddiangenrhaid, neu yn halogedig, neu dyngu i un creadur sydd wahanddedig, Jer. iv. 2. Math. v. 33. Iago v. 12. (8.) Weithiau, rhoddir y tad yn lle y mab, megys Abraham yn lle Jacob; un am lawer, a llawer am un, Act, vii. 16.

BILDAD, *(hen gyfeillach)* mab Suah, ac ŵyr Abraham o'i wraig Ceturah. Yr oedd efe yn un o'r

pedwar a ymwelasant â Job yn ei adfyd. Yn ei ddau atteb cyntaf i Job, cais brofi nad yw Duw yn cospi neb ond troseddwyr hynod â chystuddiau trymion; a lled grybwyll fod gofidiau blinion Job yn arwyddion sicr mai rhagrithiwr oedd. Yn ei atteb diweddaf, y mae yn clodfori mawredd a phurdeb anfeidrol Duw, Job ii. 11, viii, xviii, a'r xxv.

BILHAH *(hen)*. (1.) Llawforwyn Rahel, gordderchwraig Jacob, a mam Dan a Naphtali. Gwnaeth losgach ffiaidd â Reuben, Gen. xxix. 29, xxx. 3—8, a'r xxxv. 22. (2.) Dinas lle yr oedd rhai o hiliogaeth Simei yn byw, 1 Cron. iv. 29.

BITHYNIA, *(gwlad nesaf i mewn)* talaeth o du y deau i Fôr Euxine, o du y gorllewin i Pontus a Galatia, o du y gogledd i Asia Briodol, ac o du y dwyrain i Prepontis. Yr oedd hi yn enwog yn amser marwdaith yr Argonautiaid, yr hon a allai fod yn nheyrnasiad Jeroboam, os nid lawer yn gynnarach. Gelwir hi yn awr Becsangil: a pe cai ei gwrteithio, byddai yn ddaear ffrwythlawn. Y trefydd enwog yndді, oeddynt Prusa, Nicea, Nicodemia, Calcedon, Libyssa, a Therma. Pan ymdeithiodd Paul gyntaf i Europe, ni oddefodd yr Ysbryd Glân iddo bregethu gair Duw yma, Act. xvi. 7. Ond planwyd eglwys yma wedi hyn, a lluaws o Iuddewon ac ereill a gredasant, 1 Petr i. 1. Y mae haneswyr canmlyneddol Magdeburgh yn olrhain hanes Cristionogrwydd yma hyd y 10fed ganrif: fe, y mae rhai gweddillion gwael o honi yn aros yn y wlad hon etto.

BLAEN-FFRWYTH, y ffrwyth blaenaf neu gyntaf. I gydnabod awdurdod Duw trostynt, ac mai efe oedd perchen neilldуol eu tir, ac hefyd i sancteiddio gweddill eu cynnyrch, byddai yr Iuddewon yn offrymu eu *blaen-ffrwythau* i'r Arglwydd. Ar yr ail ddydd o ŵyl y bara croyw, cyn dechreu o honynt ar eu cynhaiaf, byddent yn medu ysgub o haidd, ac yn ei dyrnu yn nghyntedd y babell neu y deml. Gwedi iddynt ei nithio, crasent lonaid omer o hono wrth dân, a churent ef mewn *mortar*; yna wedi cymmysgu olew a thus âg ef, yr offeiriaid a'i cwhwfanai ger bron yr Arglwydd tua'r pedwar gwynt, ac a losgai ddyrnaid o hono ar yr allor bres; a'r gweddill fyddai yn eiddo ef. Gyda hyn offrymid oen blwydd yn boethoffrwm, yn nghyd a'i fwyd a'i ddiod offrwm priodol. Ar ol yr offrwm cyffredinol hwn o flaen-ffrwyth yr haidd tros yr holl genedl, yr oedd yn rhydd i bob dyn ddechreu ar ei gynhauaf. Ar ddiwedd cynhauaf y gwenith, ar ddydd y Pentecost, dygent ddwy dorth beilliaid wedi eu lefeinio yn offrwm cwhwfan, yn nghyd a saith o ŵyn, un bustach, a dau hwrdd yn boeth-offrwm, un myn gafr yn bechaberth, gyda dau oen yn hedd-offrwm, yn nghyd a'u bwyd a'u diod offrwm. Heblaw yr offrymau hyn o flaen-ffrwyth dros yr holl gynnulleidfa, byddai dynion neilldуol yn dwyn ei blaen-ffrwyth i dŷ Dduw; ond nid yw y gyfraith yn penderfynu pa fesur. Dygid hwn, gyda difrifwch mawr i fynu i ŵyl y Pentecost. Deuai y rhai fyddent yn preswylio yn yr un lle, neu yn agos iddo, i fynu yn nghyd; a byddai eu harweinydd, neu eu gwyliedydd, yn eu dihuno yn y bore, gan lefain "Codwch ac awn i fynu i Sion at yr Arglwydd ein Duw," Jer. xxxi. 6. Gyrrid bustach, wedi goreuro ei gyrn, a choroni ei ben â changenau yr olew-wydden, o'u blaen i'w aberthu. Pan ddeuent yn agos i Jerusalem, anfonent un o'u blaen i hyshysu eu dynesiad; a byddent yn addurno eu cawell âi blodau, ac â'u ffrwythau harddaf. Ai rhai o'r prif offeiriaid i'w cyfyrfod ar eu gwaith yn dyfod i mewn i'r ddinas. Wrth eu myned trwyddi, canent, "Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem!" a phreswylwyr Jerusalem, mewn ffordd o attebiad, a ganent yr hyn a ganlyn, Salm cxxii. 2. Pan ddeuent i gyntedd yr Arglwydd, cymmerai pob dyn, mawr a bychan, ei gawell yn ei freichiau ei hun, ac a'i dygai gan ganu yr xxx. a'r cxv. Salm, nes y deuent yn agos i droed yr allor, lle yr addefent mai Syriad, ar ddarfod am dano, oedd en tad; ac fod Duw, mewn trugaredd arbennig, wedi rhoddi iddynt wlad Canaan. Yn mhellach, rhoddent flaen-ffrwyth eu toes a'u gwlan, &c. i'r Lefiaid a breswylient yn agos attynt; a dywedir os na byddai un yn cyfaneddu yn agos iddynt, y llosgent y toes yn tân, Lef. xxiii. 10—21. Exod. xxii.

29, a'r xxiii. 19. Num. xv. 19, 20. Onid oedd y pedwar math hwn o flaen-ffrwyth yn cysgodi yr Iesu, y prif *flaen-ffrwyth*, yr hwn oedd cyn pob peth; ac sydd yn blaenori yn mhob peth; a thrwy ei gyssegriad, ei offrwm, a'i adgyfodiad ar yr ail ddydd o ŵyl y bara croyw, y sancteiddir ei bobl i Dduw, ac y sicrheir eu hadgyfodiad a'u bywyd tragwyddol, 1 Cor. xv. 20; ac Ysbryd yr hwn, trwy ddiscyn ar ddydd y Pentecost, a ddechreuodd gasglu y cenedloedd at Grist? Act. ii. Onid oeddynt yn gosod allan y seintiau, y rhai, fel *blaen-ffrwyth* i Dduw, a etholwyd er tragywyddoldeb at ei wasanaeth; ac, yn nydd ei nerth, a gyssegrant eu hunain iddo? ac y mae y rhai a ddychwelir gyntaf at Grist, mewn gwlad, yn cael eu gosod allan fel ei *blaen-ffrwyth* hi, Dad. xiv. 4. Iago i. 18. 1 Cor. xvi. 5. Yr hen batrieirch oeddynt *flaen-ffrwyth* y genedl Iuddewig, trwyddynt hwy y bendithiwyd eu hiliogaeth, ac y neillduwyd hwy i Dduw, Rhuf. xi. 16. Yr Hebreaid oeddynt *flaen-ffrwyth cnwd yr Arglwydd*; buont yn hir yn-bobl briodol iddo, cyn casglu y Cenedloedd at Siloh, Jer. ii. 3. *Blaen-ffrwyth yr Ysbryd* yw y cyfryw gyfraniadau o'i ras ar y ddaear ag a berffaith ddiogelant fywyhad cyflawn o Dduw ar ol hyn, Rhuf. viii. 23.

BLAGURYN, *(blagur)* planhigyn, bywullyn. Llefarir am eglwys Duw yn fynych yn yr ysgrythyr dan gyffelybiaeth pren. Dywed Crist ei hun, Ioan xv. 1—5. "Myfi yw y wir winwydden, a chwithau yw y *canghenau*." Llefarir am dano mewn modd neillduol iawn gan y prophwydi fel y Blaguryn, a *Blaguryn cyfiawnder*, yr hwn oedd i darddu o gyff Jesse, ac i fod yn hardd a gogoneddus. Ymddengys fod yr ymadrodd hwn yn cyfeirio atto ef, fel yn cymmeryd gafael yn had Abraham; Mab ac Arglwydd Dafydd; gwreiddyn ac hiliogaeth Dafydd. Er iddo darddu fel gwreiddyn allan o dir sych, yr oedd efe i flaguro yn hyfryd, a'r goron i flodeuo ar ei ben. Blaguryn oedd a'i ddechreuad yn fychan; ei ymddangosiad yn wael a dirmygedig, a'i dyfiant megys o'r ddaear; ond ei gynnydd a fu yn ddirfawr, a'i ffrwythau yn werthfawr ac yn aneirif, yn brydferthwch ac yn ogoniant, yn rhagorol ac yn hardd, i'r rhai a ddiangasant o Israel. Gwel y testynau canlynol ar y pwngc, Jer. xxiii. 5, a'r xxxiii. 15. Zec. iii. 8. a'r vi. 12. Esa. iv. 2, a'r xi. 1 a'r liii. 2. *Gosod blaguryn wrth y trwyn*, yw aroglu blagur neu ganghenau a ddygid mewn ffordd o barch ac addoliad i'w heilunod; neu aroglu thuser yr arogl-darth cyssegredig; neu, trwy bechod, chwanegu tanwydd i ddigofaint ysawl Duw, Ezec. viii. 17.

BLAIDD, *(blai,* blaid) bela: creadur pedwar-troediog o rywiogaeth y ci, ei gynffon yn plygu i mewn, a'i glustiau yn codi i fynu. Ei ben sydd bedwar-ochrog, a'i flew yn llwydion. Mae yn gyfrwys, gwangcus, ffyrnig, ac yn arogli peth yn fuan iawn, triga mewn coed, ac y mae yn elyn mawr i anifeiliaid: udo a wna yn lle cyfarth; medr ddyoddef newyn yn hir, ond y mae y pryd hwnw yn hynod greulon, ac a larpia y creadur cyntaf a'i cyfarfyddo, pa un bynag ai dyn ai anifel fyddo, neu weithiau, hyd yn nod y naill y llall. Yn yr hwyr, pan ddel allan o'i loches, yn newynog, y mae yn fwyaf creulon a pheryglus, Jer. v. 6. Hab. i. 8. Ie, mae yn gyffredin yn ofnus, ond pan fyddo newyn yn ei gynhyrfu. Dywedir y gwna tafiu cerrig, goleu tân, saln clych neu ganu, ei ddychrynu. Mewn dyddiau cymmylog a thywyll, ymosoda ar ddeadelloedd o ddefaid, ond â yn groes i'r gwynt, fel na byddo i gŵn y bugeiliaid ei sawyro. Dywedir fod y fenyw yn myned yn fwy ffrwythlon o un bob blwyddyn hyd y nawfed. Gadawn amryw o bethau ereill am dano allan, am ein bod yn lled dybied mai anwireddus ydynt. Llywodraethwyr drygionus ac ereill, erlidwyr yn benaf, a gyffelybir i *fleiddiau*; eu duw yw eu bol; ymhyfrydant mewn tywyllwch; blinant a llarpiant ddefaid Crist; ac oni chyfnewid trugaredd hwyut, cânt udo dros byth yn uffern, Ezec. xxii. 27. Math. x. 16. "Y blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpard a orwedd gyda'r myn; a chenaw y llew hefyd a'r anifel bras, fyddant yn nghyd, a bachgen bychain a'u harwain; a'r fuwch a'r arth a borant ac a orweddant yn nghyd; a'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp, a'r hwn a

ddiddyfnwyd a estyn ei law ar ffau y wiber;" pan y mae erlidwyr a'r gwaethaf o ddynion yn cael eu dychwelyd trwy yr efengyl, ac yn ymuno yn garuaidd â'r seintiau tlottaf a mwyaf addfwyn yn un eglwys. Neu, pan ddaeth yr Iuddewon a'r Cenedloedd yn un eglwys heddychol â'u gilydd; "Crist, ein tangnefedd ni, wedi gwneuthur y ddau yn un, a ddirymmodd, trwy ei gnawd, yr elyniaeth, gan wneuthur heddwch," Esa xi. 6—8. a'r lxv. 25. Eph. ii. 14, 15. Y Caldeaid, a'r liywodraethwyr Iuddewig, a gyffelybir i *fleiddiau yr hwyr*, i nodi eu cybydd-dod annigonol, a'u parodrwydd i ddyfetha pob un a ddeuai ar eu ffordd, Jer. v. 6. Hab. i. 8. Zeph. iii. 3.

BLAS, chwaeth, archwaeth, "Safodd ei *blas* ar Moab, ac ni newidiodd ei harogl," Jer. xlviii. 11. Yr oedd ei hawdurdod a'i beilun-addoliaeth, ei balchder, ei rhyfyg, ei thrythyllwch, a'i gweithredoedd drygionus ereill, yn parhau yr un o oes i oes, fel y mae gwin, wrth aros ar ei waddod, yn cadw ei gryfder, ei liw, a'i flas.

BLINO, gofidio, diffygio. Mae cyflawniadau crefyddol dynion rhagrithiol, y rhai ydynt yn byw yn rhyfygus yn eu pechodau, yn faich ar yr Arglwydd, ac y mae yn *blino* yn eu dwyn, Esa. xliii. 14. Mal. ii. 17. Mae y cyfryw addolwyr, yn lle anrhydeddu yr Arglwydd, yn ei wawdio, ac yn ei anmharchu yn fawr, fel pe bai rhyw fraddwyr yn parhau yn eu hamgaenion bradwrus, etto yn rhagrithiol yn cyrchu at y llys breninol am ewyllys da y brenin, fel pe baent yn ddeiliaid ffyddlon. Maent yn anmharchu Duw yn ei sanctteiddrwydd; ei holl-wybodaeth: yn ei lywodraeth a'i allu; yn ei gyfraith a'i efengyl.

BLINDER—OG, lludded, trallod. "Deuwch attaf fi bawb a'r y sydd yn *flinderog* ac yn llwythog." Mat. xi. 28. Gan fod y gwahoddiad yn y geiriau i'r *blinderog* yn gyffredinol, ac heb ei gyfyngu i'r naill ffiinder mwy na'r llall, y mae hawl gan bawb yddo, teimladwy o'u hangen am dano. Y mae mawredd person y Cyfryngwr, ei gyflawnder a'i dirionddeb anfeidrol, yn hynod i'w gweled yn y geiriau: y mae yn ddigonol i bawb, ac y mae i bawb wahoddiad atto i gael esmwythder, beth bynag fydd yn eu blino. Nid oes un baich yn rhy drwm, nac un blinder yn anaele iddo ef.

BLODEUYN—BLODAU (*blawd*, blodeuyn). (1.) Blaen-dardd peraidd a hardd rhai coed a llysiau cyn iddynt ffrwytho. Y *rhosyn*, y *lili*, y *pine*, &c. ydynt flodau digon adnabyddus. Y mae yr *haul-flodeuyn* yn un o'r rhai mwyaf, a'r *anwyd flodeuyn (passion flower)* yn un o'r cywreiniaf o ran ei ddull. Y mae blodau yn hyfryd iawn, eithr gwywant yn hawdd ac yn fuan, Iago i. 10. Yr oedd llun *blodau* ar y canwyllbren aur, ac o'r tu mewn i swmerau cedrwydd parwydydd y demi, ac ar ymyl y môr tawdd, nid yn unig er addurn a harddwch, ond hefyd yn cysgodi natur a rhinwedd feithrinol a ffrwythlonawl Crist, fel ein goleuni, ein modd o gymmundeb â Duw, a'n iawn am bechod, a'n glanhad oddi wrtho; a llwyddiant blodeuog yr eglwys, fel moddion goleuni i'r byd, ac o'n cymdeithas â Duw, Exod. xxix. 31, a'r xxxvii 20. 1 Bren. vi. 18, 29, a'r vii. 26, 49. 2 Cron. iv. 5. Cyffelybir gruddiau Crist, neu ei amlygiad o hono ei hun, yn ei ddarostyngiad neu ogoniant, i *flodau* peraidd, yn dra hardd, adfywiol, ac adlonol i'w bobl, Can. v. 13. Y saint, a'u grasau, ydynt debyg i *flodau;* mor hawddgar, adfywiol, a harddwch ydynt yn yr eglwys! Can. ii. 12. Dynion, yn gyffredinol, ydynt fel *blodau:* mewn ieuengetid a llwyddiant, mor hawddgar, blodeuog, a gogoneddus ydynt; ond mor fuan y mae cystudd ac angau yn peri i'w tegwch ddiflannu, ac yn eu hamddifadu o'u cyfoeth, eu goniant, neu ei bywyd! Job xiv. 2. Esa xl. 6. Iago i. 10, 11.

BLOESG—NI, (*blaw*, llef, ac *esg*, gwasgaredig) un ag attal dywedyd arno. *Tufod y bloesg a lefara yn eglur*, pan y mae y cyfryw ag oeddynt o'r blaen yn llefaru mewn dull tywyll, anmheus, a throfaus, am bethau dwyfol, yn cael eu nerthu i wneuthur felly gydag eglurdeb, cadernid, ac hyfrydwch mawr, Esa xxxii. 4. Yr Assyriaid oeddynt yn *floesgni gwefusau*, ac yn bobl floesg dafod, trwy ba rai yr oedd Duw yn dadgau ei lid a'i ddigofaint

yn erbyn yr Iuddewon, Esa xxviii. 11, a'r xxxiii. 19.

BLWYDDYN *(bal*, tarddiad, a *gwydd*, coed). Yr ysbaid hwnw o amser a gymmer yr haul i orphen ei yrfa trwy gylch y deuddeg arwydd yn y ffurfafen; ac a gynnwys bedwar tymhor, sef Gwanwyn, Haf, Cynhauaf, a Gauaf. Cynnwys 365 o ddyddiau, 5 awr, a 49 o fynydau. Ymddengys fod y patricirch, cyn y dylif, yn rhannu eu blwyddyn yn 12 mis, yn cynnwys 30ain diwrnod bob un: eithr pa un a oeddynt yn chwanegu 5 diwrnod at yr un diweddaf, neu fod ganddynt fis gorymddwyn bob 5fed neu 6fed flwyddyn, i lyngcu i fynu yr amser anghyfartal o 5 diwrnod, 5 awr, a 49 o fynydau oeddynt dros ben mewn pob blwyddyn, nis gwyddom. Medylia rhai fod yr Aiphtiaid ac ereill unwaith yn cyfrif amser un cylchdroad o eiddo'r lleuad yn lle blwyddyn, a mai hyn yw dechreuad eu cyfrifon chwidr-ffol mewn perthynas i henafiaeth. Mwy dilys yw, eu bod, cyn ymadawiad yr Hebreaid o'r Aipht, yn cyfrif wrth flwyddyn yn cynnwys 12 mis, pob un o ba rai a gynnwysai 30 diwrnod, ac yn dechreu eu blwyddyn oddeutu dechreu ein Medi ni. Ysgatfydd bod blwyddyn y Caldeaid yn lled debyg iddi, nes i Nabonassar, oddeutu amser Hezeciah, orchymyn iddynt gyfrif ei blwyddyn, wrth 12 mis o 365 o ddyddiau; a meddyliwn i'r Aiphtiaid dderbyn y drefn hon yn fuan wedi hyny. Gwedi hir ddyryswch, cyfrifai y Groegiaid y flwyddyn wrth 12 mis, o 30 diwrnod bob un; eithr ymddengys iddynt gyfrif, wedi hyny, wrth 12 lleuad, neu 354 o ddyddiau. Dechreuent eu blwyddyn, gan mwyaf, ar orsafiad yr haul yn yr haf, pan y mae fwyaf yn y gogledd yn Mehefin; eithr dechreuai y Macedoniaid eu heiddo hwy, oddeutu canol ein Medi ni. Ar y cyntaf, cynnwysai y flwyddyn Rufeinig ddeng mis, neu 304 o ddyddiau. Estynodd y brenin Numa hi i 12 mis, neu 355 o ddyddiau; a bob ail flwyddyn, chwanegent 22 neu 23 o ddyddiau ar gylch. Sefydlodd Julius Cæsar, eu hamerawdwr cyntaf, hi yn 365 o ddyddiau, a 6 awr, y rhai mewn pedair blynedd a wnant un diwrnod cyfan, yr hwn, yn y bedwar flwyddyn, a chwanegir at Chwefror, ac sydd yn peri i honno gael ei galw yn flwyddyn naid. Wrth y flwyddyn hon yr ydym ni etto yn cyfrif ein hamser; ond o herwydd eu bod yn cynnwys oddeutu 11 o fynydau yn ormod, y mae hyny, mewn 130 o flyneddoedd, yn rhedeg y cyfrif yn mlaen un diwrnod cyflawn, ac yr oedd wedi rhedeg y flwyddyn yn mlaen yn ein cyfrif ni 11 o ddyddiau, nes i hyn gael ei ddiwygio trwy ddwyn y cyfrif newydd i mewn i'n plith, fel yr oedd wedi cael ei wneud mewn amrywiol wledydd tramor, gan y Pab *Gregory*, oddeutu 200 o flyneddoedd yn ol. Dechreuai yr hen flwyddyn Bersiaidd oddeutu dechreu Mehefin, a chynnwysai 365 o ddyddiau, neu 12 o nsoedd. Cyfrifa y rhan fwyaf o'r Mahometaniaid eu blwyddyn wrth 12 lleuad, neu 354 o ddyddiau, 8 awr, 48 o fynydau, 38 o eiliau, a 12 o drydeddau; ac felly, mewn oddeutu 35 o flyneddoedd, y mae dechreuad eu blwyddyn yn rhedeg yn ol trwy yr holl dymhorau. Yr oedd y flwyddyn Iuddewig hefyd yn dylyn trefn y lleuad, gan gyfrif wrth 12 lleuad: dechreuai eu blwyddyn *gyssegredig* yn Mawrth, o herwydd yn y mis hwnw y daethant allan o'r Aipht ar y newydd loer; yn mha flwyddyn, enwau a threfn y misoedd oeddynt yn (1.) Abib neu Nisan; (2.) Ziff neu Jair; (3.) Sifan; (4.) Tammuz; (5.) Ab; (6.) Ed: (7.) Ethanaim neu Tizri; (8.) Bul neu Marchefan; (9.) Cisleu; (10.) Tebet; (11.) Sebet; (12.) Adar; ac ar bob trydedd flwyddyn, chwanegent fis gorymddwyn, wedi ei ffurfio o'r dyddiau anghyfartal, a galwent ef *Veadar*, neu ail Adar. Cydunir yn gyffredin fod eu holl flwyddoedd anghyfartal, megys y cyntaf, y trydydd, &c. yn cynnwys 30 o ddyddiau, a'r holl rai cyfartal, 29. Ond rhydd ben Fynegai y misoedd o eiddo *Selden*, 30 o ddyddiau i'r misoedd cyfartal, a 29 i'r rhai anghyfartal. Dechreuai eu blwyddyn wladol yn Ethanaim, sef y seithfed mis o'r flwyddyn gyssegredig, am y tybid i'r byd gael ei greu oddeutu yr amser hwnw; ac felly Abib oedd y seithfed mis o honi. Ymddengys i'r misoedd, yn nghyfrif pob cenedl, gael eu dechreuad oddi wrth gylch-droadau y lleuad.

Anwybodaeth o amseryddiaeth, a

balchder o henafiaeth, a wnaethant i'r Aiphtiaid, y Caldeaid, y Chineaid, yr Indiaid, ac ereill, i redeg creadigaeth y byd, neu hyd yn nod dechreuad eu cenedl eu hunain, i fynu i beliider cywilyddus o flyneddoedd. Ond y mae y dysgedigion yn gyffredin yn awr yn ymorphwys yn, neu yn agos i, amseryddiaeth yr Esgob *Usher*, yn ol pa un, cymmeroedd y greadigaeth le 4004 o flyneddoedd cyn ein cyfrif cyffredin ni oddi wrth enedigaeth ein Hiachawdwr, ond lled-dybir fod y cyfrif cyffredin yn dechreu ddwy neu dair blynedd yn rhy ddiweddar. Ond myn Dr. *Cassrhill* i'n Hiachawdwr gael ei eni A.D. 6. Dechreuodd y 400 mlynedd o ymdeithiad yr Hebreaid ar alwad Abraham i adael gwlad ei enedigaeth, Gen. xii. 1. Exod. xii. 40, 41. Dechreuodd y 400 mlynedd o ymdeithiad ei had ar enedigaeth Isaac, Gen. xv. 13. Geill fod yr *yn nghylch* 450 *mlynedd* a grybwyllir am danynt yn Act. xiii. 20, yn cyrhaedd o enedigaeth Isaac hyd y sefydliad yn Canaan; neu o'r sefydliad hwnw, gan gyfrif blyneddoedd y Caethiwed yn wahanol oddi wrth flyneddoedd y Barnwyr hyd lywodraeth Samuel. Y *pum mlynedd a thriugain*, erbyn diwedd pa rai yr oedd Ephraim neu y deg llwyth i gael eu torri o fod yn bobl: hyny yw, bod heb un ffurf o lywodraeth yn y byd, ac heb neb o honynt braidd wedi eu gadael yn Nghanaan, a gyrhaeddant o'r bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Ahaz i'r 22ain o eiddo Manasseh, Esa vii. 8. *Blynedoedd gwas cyflog*, a arwyddant rai heb fod yn fwy na llai na hyny; ac, ymddengys mai tair olynol oeddynt, gan mwyaf, Esa xxi. 16, a'r xvi. 14. Yn yr iaith brophwydoliaethol, y mae *blwyddyn* yn arwyddo tri chant a thriugain o flyneddoedd, a *mis*, degar-hugain: diwrnod yn cael ei roddi am flwyddyn; ac felly, *tair blynedd a hanner*, sef amser, amseroedd, a hanner amser, neu 42 o fisoedd, neu 1260 o ddyddiau, a arwyddant y deuddeg cant a thriugain mlynedd o barhad llywodraeth Anghrist, Dad. xi. 2, 3, a xii. 6, 14. Y *pum mis* o ddifrod y locustiaid allant fod yn arwyddo yr yspaid rhwng A.D. 606 a 769, yn yr hwn yr ennillodd Pabyddiaeth a Mahometaniaeth dir yn ddirfawr, Dad. ix. 5, 10. Y *flwyddyn, mis, y diwrnod, a'r awr* o ddifrodiad y Tyrciaid, ydynt 391 o flyneddoedd, sef o 1281 i 1672, neu 396, sef o 1302 i 1698.

Mae *blwyddyn* hefyd yn arwyddo y tymhor neu yr yspaid yn mha un y dygwydda peth. Geill y *tair blynedd* o amyneddDuw tuag at yr Iuddewon diffrwyth, fod yn dynodi amser gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, a Christ; a hwyrach hefyd, fod y bedwaredd yn arwyddo yr amser ar ol adgyfodiad Crist, cyn i'r rhyfel dinystriol eu torri hwynt ymaith, Luc xiii. 6, 10. *Blwyddyn gofwy*, yw amser trallodion hynod, Jer. xi. 23. *Blwyddyn* gwaredigion Duw, yw y tymhor hwnw yn mha un y mae efe yn effeithioli prynedigaeth ei bobl; megys yspaid ymddarostyngiad ein Hiachawdwr cynddyddiau yr efengyl, ac amser dinystr Anghrist, Esa xliii. 4. Mewn cyfeiriad at flwyddyn y rhyddhad a'r Jubili, y mae amser dychweliad yr Iuddewon at Grist, neu ddyddiau yr efengyl, yn cael ei alw, *blwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd*, Esa lxi. 2. Blyneddoedd Duw ydynt barhad annherfynedig ei banfod, Heb. i. 12, neu yspaid ei waith hynottaf ef, megys dwyn Israel allan o'r Aipht, cnawdoliaeth Crist, &c. Salm lxxvii. 10. Felly *misoedd* dyn ydynt amser ei fywyd, Job xiv. 5, ac y mae yn meddiannu *misoedd o oferedd*, pan y bydd efe yn hir tan gystuddiau a siommedigaethau, Job vii. 3.

BOAZ, *(mewn nerth)* Iuddew boneddigaidd a chyfoethog, mab Salmon a Rahab, yr hwn oedd yn byw yn Bethlehem; ac ar ol dangos llawer o garedigrwydd i Ruth, y Foabees weddw dlawd, priododdi hi, a chenedlodd o honi fab a elwid Obed. Am fod oddeutu 360 o flyneddoedd wedi llithro heibio rhwng priodas Salmon a genedigaeth Dafydd, tybiodd rhai fod dau neu dri o'r enw Boaz: ond y mae pedwar hanesydd sanctaidd, wrth goffau ei achau, yn cyduno i ddadymchwelyd y cyfryw dyb, Ruth iv. 20, 21, 22. 1 Cron. ii. 11—15. Math. i. 5, 6. Luc iii. 31, 32, ac nid yw hyn ychwaith yn angenrheidiol; o herwydd gallai Boaz gael ei eni oddeutu 60 mlynedd ar ol marwolaeth Moses. Yn y ganfed flwyddyn o'i oes, priododdi Ruth, a chenedlodd Obed o honi.

Yn y ganfed flwyddyn o'i oes, cenedlodd Obed Jesse. Pan oedd oddeutu yr un oedran ag Obed, cenedlodd Jesse Dafydd, yr ieuangaf o'i feibion. Onid oedd Boaz yn gysgod o'n Prynwr bendigedig, yr hwn, er ei fod yn fawr a chyfoethog, a feddyliodd am danom ni, bechaduriaid o'r Cenedl-oedd : ac ar ol dangos amrywiol arwyddion o garedigrwydd, a'n dyweddiodd ni iddo ei hun, fel ei eglwys a'i bobl? Ruth i.—iv. Esa liv. 1—6. Boaz oedd hefyd enw y golofn a safai o du y gogledd i borth y deml, 1 Bren. vii. 21.

BOCS. Y mae chwe math o hono. Ei flodeuyn sydd heb ddail iddo, ac hefyd yn ddiffrwyth, ond ymddengys rhith y ffrwyth mewn rhanau ereill o'r planhigyn; yr hwn, pan yn addfed, sydd debyg i lestr wedi ei droi yn y gwrthwyneb, ac a hyllt yn dair rhan; yn mhob un o ba rai y ceir coden yn cynnwys yr had. Y mae y pren hwn yn wyrddlas trwy y flwyddyn, ac mewn arferiad mawr i addurno gwrychoedd, ac ymylau rhodfeydd mewn gerddi; y pren sydd felyn, ac mor ddwys a thrwm, fel na noña mewn dwfr; ac mor galed, fel na ddichon braidd fraenu, na chael ei fwytta gan bryfed; a chymmer gaboliaid hardd yn hawdd. Cyffelybir y saint i *breniau bocs*, o herwydd eu harddwch, eu dwysder gwirioneddol, eu diysgogrwydd, ac anllygredigaeth eu gras, Esa xli. 19, a lx. 13.

BOD, barcud, aderyn digon adnabyddus o'r rhywiogaeth ysglyfaethus. Gelwir ef yn Hebraeg, *dah*, o herwydd ei ehediad cyflym; a *rah*, o herwydd craffder ei lygaid. Nid eill oddef oerfel, ac felly, anfynych y gwelir ef yn y gauaf; a thrwy ofn a llwfrdra, anaml yr ymesyd ar ddim ond ehediaid doñon, ieir, &c. Deut. xiv. 13. Gelwir ef yn *fwltur* yn Lef. xi. 14. Onid oedd yr aderyn afian hwn yn gysgod o erlidwyr, yn amddifaid o wrolder, oddieithr i ffino a dyfetha y seintiau?

BODDI, lladd trwy attal yr anadl mewn dwfr; megys Pharaoh a'i fyddin yn y Mor Coch, Exod. xv. 4. Y mae *Peclin*, *Derham*, ac ereill, yn adrodd i ni siamplau o ddynion yn cael eu hadferu i fywyd wedi yr ymddangosent eu bod wedi boddi er's hir amser. Bu yr Is-Almaenwyr yn ddyfal iawn i gael allan ffordd i adferu y rhai a fyddent newydd foddi, ac y maent wedi bod yn gryn llwyddiannus.

BODDLONRWYDD *(boddlawn). Boddlonrwydd*, gyda duwioldeb, *sydd elw mawr;* y mae yn gwneuthur bywyd dyn yn esmwyth, yn rhoddi iddo hyfrydwch yn yr hyn y mae yn fwynhau, yn ei wneud yn ddiolchgar i Dduw, ac yn gymhwys i fod yn gyfrannog o'r gogoniant nefol. Y mae *boddlonrwydd* yn ras. (1.) Croes i genfigen, 1 Tim. vi. 4. Diar. xiv. 30. Job v. 2. (2.) Y mae yn wrthwyneb i gybydd-dod, Heb. xiii. 5. (3.) Y mae yn wrthwyneb i falchder ac uchelfrydedd, Diar. xxx. 16. (4.) Y mae yn wrthwyneb hefyd i ragofalon gofidus, ac anesmwythder yn nghylch pethau ac amgylchiadau bydol, Mat. vi. 25—34. (5.) Y mae yn groes, befyd, i duchan a grwgnach tan ragluniaethau adfydus, a siommedigaethau, 1 Tim. vi. 6. 1 Cor. x. 10. Galar. iii. 39.

BOGEL, *(bog,* chwyddiad allan) y rhan hòno o'r corph, trwy ba un y mae maeth yn cael ei gludo i blant yn y groth, a dorrir ac a rwymir pan enir hwynt. Y mae nerth y Behemoth yn *mogel* ei fol, neu yn ei gorph, Job xl. 16. Rhoddir hi am yr holl ddyn, enaid a chorph. Y mae duwioldeb yn *iechyd i'r bogel, ac yn fér i'r esgyrn;* y mae yn achlysuro ac yn diogelu dedwyddwch enaid a chorph, yn tarddu o ffynnon dufewnol, sef cydwybod wedi ei golchi yn ngwaed Iesu, a chalon wedi ei hadnewyddu trwy ei ras ef, Diar. iii. 8. Bod *bogel yr Hebreaid heb ei thorri*, a arwydda, fod eu banian bechadurus heb ei gwella na'i chyfnewid; a'u bod, fel cenedl yn yr Aipht, mewn cyflwr tra diamgeledd a pheryglus, Ezec. xvi. 4.

BOGLYNAU, said-dyllau i sierhau y meini gwerthfawr yn ephod yr arch-offeiriad. Yr oedd y boglynau hyn, gyda'u meini yn gwasanaethu yn lle bottymau i sierhau y cadwyni aur yrth ba rai y crogid y ddwy froneg, Exod. xxviii. 11, 25.

BÒL, *(bwl)* rhumen, torr, (1.) Y rhan honno o'r corph sydd yn cynnwys yr ymysgaroedd; neu yr ymysgaroedd eu hunain, Mat. xv. 17. Dad. x. 9, 10. (2.) Y galon neu yr enaid, yr hon fydd wedi ei

chuddio yn ddofn, ac anhawdd ei chwilio allan, Diar. xviii. 8, a xx. 30, a xxii. 18. Mae *boliau* dynion *yn darpar twyll*, pan fydd eu calon yn dychymmygu pa fodd i lefaru, neu weithredu twyll, Job xv. 35. *Bol*, neu *ymysgaroedd* Crist, *fel dysclaer ifori wedi ei wisgo â saphir*, yw ei dosturi a'i gydymdeimlad pur, dianwadal, a pharhaus, Can. v. 14. Bol neu *fru* yr eglwys, *fel twrr gwenith wedi ei amgylchu* â lili, a arwydda ei hordinbadau dwyfol, trwy ba rai yr adgenedirr lluoedd dirfawr i Dduw, ac y meithrinir hwy hyd eu genedigaeth gogoneddus yn angau, neu y dydd diweddaf, Can. vii. 2. *Bol a morddwydydd* pres delw weledigaethol Nebuchodonozor, a arwyddent amherodraeth fawr a chadarn y Groegiaid presarfogedig, tan Alexander, yr hon a lanwyd yn fuan âg annhrefn, ac, ar ol amrywiol ymrysonau, a ffurfiwyd yn ddwy freiniaeth nerthol, sef yr Aipht yn y dehau, a Syria yn y gogledd, Dan. ii. 32, a'r xi. Y *bol* y mae lluoedd yn ei wasanaethu ac yn ei wneuthur yn dduw iddynt, yw eu chwantau a'u digrifwch cnawdol, y rhai sydd yn eu gwneud yn anifeiliaidd, a beunydd yn ymgais am gael eu boddloni o'r newydd, Rhuf. xvi. 18. Phil. iii. 19. Gelwir trigolion Crete yn *foliau gorddiog*, o herwydd eu glythineb, eu meddwdod, eu diogi, a'u seguryd, Tit. i. 12. Y mae Jonah yn galw bol y morfil yn *fol uffern;* o blegyd y tywyllwch mawr, y cyfyngder, a'r afionyddwch meddwl a brofodd yno, Jonah ii. 2.

BORE, *(bor*, canol-bwnc cylch) (I.) Y rhan honno o'r dydd cyn neu yn nghylch codiad yr haul, Marc xvi. 2. (2.) Y wawr, yr hon trwy ei hymwasgariad a ffurfia y bore, Joel ii. 2. Gosodir y *bore* allan fel â chanddo *amrantau*, i arwyddo ymddangosiad cyntaf y goleuni wrth ymgodi yn yr wybren goch, Job xli. 18; fel â chanddo *adenydd*, i ddynodi ymdaeniad cyflym y goleuni, Salm cxxxix. 9; ac fel â chanddo *groth*, o'r hon y dygir y gwlith allan, Salm cx. 3. *Bob bore*, yw beunydd, yn fynych, Salm lxxiii. 14. *Yn fore* yw yn gynnar, yn brydlawn, yn ddifrifol, yn ddiattreg, Salm v. 3, a'r xxx. 5. Gwneuthur barn yn y *bore*, yw ei gwneud yn ewyllysgar, ac mor brydlawn a buan ag y byddo modd, Jer. xxi. 12. Salm ci. 8. *Bwytta yn y bore*, a arwydda bwytta ac yfed yn anmhrydlawn ac anghymmedrol, trythyllwch, Preg. x. 16. Jer. v. 8. Cyffelybir yr eglwys i wawr y *bore*. Yn yr oes batriarchaidd, nid oedd ei goleuni ond bychan, eithr cynnyddodd yn raddol. Ar ol nos o seremoniau, y fath fore gogoneddus o oleuni yr efengyl a wawriodd! Yn ei chyfiwr milwrus, nid yw ei goleuni ond hanerog, ond y mae yn cynnyddu i ddyscleirdeb canol-ddydd o ogoniant; ac mor hyfryd yw ei hymddangosiad! y fath arwydd gwynfyddedig o ddeddwyddwch dyfodol sydd yn ymddangos! Can. vi. 10. Y mae cyfiwr o ras yn cael ei alw yn *fore*. Y mae yn dyfod ar ol nos athrist o bechod a thrueni; ac mor ddedwydd y mae dyn yn cael ei ddihuno, ei oleuo, a'i adfywio, trwy gynnyddiad graddol o'i wybodaeth ysbrydol, a chymmwysiad o gariad calon-wresogol Crist, nes y delo yn ganol dydd o wynfyd tragywyddol! Esa. viii. 20. Gelwir tymhor o lwyddiant ac oedfaon i glywed yr efengyl, yn *fore;* y maent yn dyfod ar ol nos o gystudd, neu anwybodaeth tywyll; ac mor hyfryd ac adfywiol ydynt! Esa. xxi. 12. Gelwir yr adgyfodiad cyffredinol yn *fore;* ar ol nos o dywyllwch a chwsg angau, y caiff dynion eu dihuno gan yr udgorn diweddaf, eu goleuo gan ogoniant, a'r amrywiol ddadguddiadau a wneir gan Fab y dyn! ac i ba fath ddydd tragywyddol yr arwain y saint i mewn! Salm xlix. 14. Cyffelybir barnedigaethau dychrynllyd i *fore-gwaith;* y maent yn gorddiwes troseddwyr yn eu cwsg ysbrydol a'u diogelwch cnawdol, a hyny yn fynych yn ddisymmwth, a bob amser yn brydlawn, pan y bydd eu pechodau yn eu haeddu yn helaeth. Ezec. vii. 7, 10.

BRAICH, *(bar*, penaf) yr aelod honno o'r corph a arferwn yn benaf er gosod allan ein nerth, 2 Sam. i. 10. Ac oddiwrth hyn y mae gallu, a pha beth bynag a fyddo yn addasu dyn at ryw wrolwaith yn cael ei alw, yn yr ysgrythyrau, yn *fraich. Braich* uchel, sanctaidd, gref, neu estynedig Duw, yw ei nerth hollalluog, yn cael ei amlygu mewn modd goruchel, sanctaidd, eguiol, a hynod.

yn ngwneuthuriad pob peth; yn nygiad Israel allan o'r Aipht; yn ngorpheniad ein prynedigaeth; yn nychweliad ei bobl; ac yn ngwaredigaeth ei eglwys, Jer. xxxii. 17. Exod. iv. 6. Esa. lii. 10, a'r lxii. 8, a'r lxiii. 12. Duw yw *braich* ei bobl, trwy roddi iddynt nerth, cynnaliaeth, amgeledd, ac amddiffyniad, Esa. xxxiii. 2. Y mae Crist yn cael ei alw yn *fraich yr Arglwydd*, hwyrach o herwydd mai ynddo a thrwyddo ef y mae Duw yn dangos rhagorol fawredd ei allu, yn ein creadigaeth, cadwedigaeth, ac yn benaf, yn ein prynedigaeth, Esa. liii. 1. *Braich* Crist, â'r hon y casgl efe ei ŵyn, neu ei bobl, yw ei allu achubol, ei gariad a'i drugaredd, trwy weithrediadau pa rai, y mae yn eu dwyn atto ei hun, Esa. xl. 11. Nerth allanol dynion, cyfoeth, neu feddiannau ereill, a elwir eu *braich*. Y maent yn ymbwyso arnynt, ac yn cael eu galluogi ganddynt i gyflawni eu hamcanion yn fywiog, Salm x. 15, a xxxvii. 17. Jer. xlvii. 25. Gallu dynol, a grym arfau, &c. a elwir yn *fraich o gnawd*; nid yw ond gwan a diflanedig, 2 Cron. xxxii. 8. Ymddengys fod yr hen ryfelwyr yn dynoethi eu braich ddehau mewn ymladdfeydd; neu y ddwy, os byddai y frwydr yn boeth: mewn cyfeiriad at hyn, dywedir fod Duw yn *dynoethi ei fraich*, pan y bydd mewn modd neilltuol a hynod iawn, yn rhoddi allan ei allu a'i drugaredd, er gwaredigaeth ei bobl, a dinystr ei elynion; neu pan y bydd yn dadguddio ei Fab yn amlwg i ddynion, ac ynddynt, fel gallu a doethineb Duw, Esa. lii. 9, 10. A *braich noeth* Ezeciel, yn ngwarchâeedigaeth gweledigaethol Jerusalem, a arwydda y dull cynddeiriog a bywiog yn mha un yr ymosodai y Caldeaid arni, Ezec. iv. 7.

BRASDER *(bras)*. Gwaharddodd Duw i'r Hebreaid fwytta gwer anifeiliaid, Lef. iii. 17. Meddylia rhai fod hyn yn cynnwys pob math o *wer*; ereill a feddyliant, nad oedd ond *gwer* y cyfryw greaduriaid ag a aberthid, megys ychain, defaid, a geifr, yn waharddedig, Lef. vii. 24. Yr oedd *llosgi y brasder ar yr allor i'r Arglwydd*, yn cysgodi tristwch a gofid annhraethadwy enaid Crist yn nghanol fflamau digofaint ei Dad; ac y gweddai i ninnau gyflwyno ein hunain i wasanaeth Duw, gyda chalon wedi ei gwresogi â chariad sanctaidd; ac y dylai ein chwantau mwyaf tumewnol ac anwyl gael eu dystrywio gan ysbryd barn a llosgfa, Lef. iii. 9, 11. Arferai yr Hebreaid y gair a gyfieithwn ni *brasder*, i arwyddo y goreu o unrhyw beth; o herwydd hyn ni a ddarllenwn am *frasder* gwenith; am *frasder* neu y man goreu o'r wlad; *brasder* y defaid, Salm lxxxi. 16, a'r cxlvii. 14. Gen. xlvii. 6. Gen. iv. 4. Gosodir dynion drygionus allan fel yn *freision*; fel *pasgedigion*; fel *wedi cau gan eu brasder*: pan fyddo eu hanrhydedd, eu gallu, a'u cyfoeth yn helaeth, Deut. xxxii. 14, 15. Salm. xvii. 10. Ezec. xxxix. 18; ac y mae eu calon yn *fras*, pan y maent yn hunanol, hurt, diofal, ac annysgadwy, Salm cxix. 70. Esa. vi. 18.

BRAT, cadach, carp. *Gwisg frâtiog*, a arwydda dlodi mawr, Diar. xxiii. 21: Cyffelybir ein hunan-gyfiawnder i *fratiau budron*, neu *gadach misglwyf*; nis gall addurno ein heneidiau, a'n gwneuthur yn gymmeradwy ger bron Duw ein Barnwr, mwy na bratiau budron; ond o herwydd ei waelder, a gyffry ei gasineb ef, Esa. lxiv. 6.

BRATHU, gwanu, trywanu. Niweidio â'r dannedd, Num. xxi. 6. Ymryson yn ddigllawn âg ereill, a'u niweidio, a elwir yn *gnoi* neu *frathu*: oddiwrth yr hen sarph y dysgwyd hyn; ac y mae yn dangos malais, ac yn taeru haint ddinystriol, Gal. v. 15. Cyffelybir barnedigaethau ofnadwy i *frathiad surph*; y maent yn dyfod yn annisgwyliadwy a disymmwth, ac yn ffinion a dinystriol yn eu canlyniadau, Preg. x. 8. Jer. 8. 17. Hab. ii. 7. Yr oedd llwyth Dan yn *frathu sodlau y march, fel y syrthiai ei farchog yn ol*; ymosododd chwe' chant o honynt yn ddisymmwth ar bobl Lais, a dinystrasant hwynt. Torrodd Samson, trwy ddyrnodiau hynod ac annisgwyliadwy, luoedd o'r Philistiaid ymaith, a thynnodd eu temli i lawr ar rai miloedd o honynt, Gen. xlix. 17. Yr oedd y gau-brophwydi luddewig yn *brathu d'u dannedd*: er mwyn boddio eu gwrandawyr, yr oeddynt yn gochelyd sôn am farnedigaethau Duw, y rhai oeddynt yn neshau i syrthio arnynt; yr oeddynt yn taenu eu hathrawiaethau gwenwynig; yr

oeddynt yn dyfetha meddiannau y bobl, ac yn lladd eu heneidiau; ac, hefyd, yr oeddynt yn gwaradwyddo ac yn erlid prophwydi ffyddlawn Duw, Mica iii. 5. Y gwin *sydd yn brathu fel sarph*, ac *yn pigo fel neidr;* y mae yr arferiad anghymedrol o hono yn dinystrio ac yn lladd eneidiau a chyrph dynion, yn annheimladwy, ond yn ddychrynllyd, Diar. xxiii. 32.

BRAWD *(rhawd,* ffordd,llwybr). Yn ol cyfraith Moses, os gadawai brawd henaf ei weddw yn ddiblant, yr oedd ei frawd nesaf atto, ieuangach nag ef, os byddai heb briodi, i'w chymmeryd hi yn briod, ac i gyfodi hâd i'w frawd a fuasai farw; ond os gwrthodai efe wneud hyny, yr oedd y weddw i boeri yn ei wyneb, a dattod ei esgid; a byddai ei deulu ef i gael eu galw, *teulu yr hwn y datodwyd ei esgid,* Deut. xxv. 5—10.

Y mae yr ysgrythyr yn arfer y gair *brawd* neu *frodyr* mewn amrywiol ystyriaethau: (1.) Y mae rhai yn *frodyr priodol,* trwy ddiscyniad digyfrwng oddi wrth yr un tad neu fam, Gen. xliii. 13. (2.) Y mae ereill yn frodyr trwy berthynas, carennydd, neu genedl; felly yr oedd Abraham a Lot yn *frodyr:* yr holl Israeliaid, ac hyd yn nod yr Edomiaid, oeddynt yn *frodyr,* Deut. xxiii. 7, 19. (3.) Trwy gyfraniogiad cyffredinol o'r natur ddynol; ac fel hyn y mae pawb yn *frodyr,* 1 Thes. iv. 6. 1 Ioan v. 16. (4.) Y mae holl ddysgyblion Crist i'w hadnabod wrth eu cariad brawdol; ac, am hyny, gelwir hwy yn frawdoliaeth sanctaidd, 1 Petr ii. 17. Col. i. 2. 1 Ioan iii. 14, 16. (5.) Trwy gydgyfiawniad o'r un gorchwyl; felly yr oedd Simeon a Lefi yn *frodyr mewn anwiredd,* Gen. xlix. 5, 6. (6.) Mewn cariad cryf, neu gydgyfammod; felly yr oedd Jonathan a Dafydd yn *frodyr,* 2 Sam. i. 26; a geilw Ahab Benhadad yn *frawd,* 1 Bren. xx. 32; ac felly un sydd yn caru doethineb yn anwyl, a'i geilw yn *chwaer* neu *gares,* Diar. vii. 4. (7.) Mewn tebygoliaeth cyflwr neu ymddygiad; a galwai yr Hebreaid unrhyw beth tebyg i beth arall, neu a fyddai mewn cyssylltiad âg ef, yn *frawd,* Exod. xxv. 2, 20. Joel ii. 8. Ezec. xxvi. 3, 5, 17. Fel hyn yr oedd Job yn *frawd i'r dreigiau,* ac yn *gyfaill i gwylion yr estrys;* yr oedd efe mewn cyflwr gresynus iawn, ac wedi ymroddi i'r galar mwyaf alaethus, fel y mae y creaduriaid hyn; dywedai wrth lygredigaeth, "Tydi yw fy nhad;" ac wrth y pryf, "Fy mam a'm chwaer wyt:" cyfrifai ei hun yn dra distadl, wedi tarddu o'r llwch, ac yn prysuro yn gyflym i'r bedd, lle y byddai y pryfed yn gyfeillion ysawl iddo, Job xxx. 29, a'r xvii. 14. Y diog yn ei waith sydd *frawd i'r treulgar,* y mae yr un tueddiad at dylodi ac eisiau yn ei ymddygiad, Diar. xviii. 9. Crist yw ein *brawd* ni; mae efe yn cyfranogi o'n natur, yn feddiannol ar bob serchogrwydd tuag atom, ac yn gwneuthur i ni ddaioni, Can. viii. 1. Gelwir y seintiau yn *frodyr* i Grist; y maent wedi eu cenedlu yn ysbrydol gan ei Dad; y maent yn ei garu, ac yn awyddus am weled llwyddiant ar ei achos, Mat. xii. 5. *Gau-frodyr,* yw y cyfryw a gymmerant arnynt fod yn bregethwyr ac yn apostolion, ond, yn eu calonau, a gashant y rhai ydynt felly mewn gwirionedd, Gal. ii. 4. Y mae *brawd wedi ei eni erbyn caledi;* y pryd hwnw y dylai, mewn modd neilltuol, amlygu ei gariad mewn cydymdeimlad, cynnorthwy, a chydsur i'w berthynasau cystuddiedig, Diar, xvii. 17. *Glynu yn well na brawd,* yw bod yn gyfeillion i un arall mewn adfyd a chaledi, hyd yn nod pan y bydd ein meddiannau, ein henwau da, neu ein bywydau mewn perygl, Diar. xviii. 24; ond ni ellir deall y ddau ymadrodd a grybwyllwyd ddiweddaf, ond pan eu hystyrir fel yn darlunio ei gymmeriad ef, yr hwn a wnaeth ran *brawd yn wir* i'w bobl euog. Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, fod i un roddi ei einioes dros ei gyfeillion. Ni alarodd yr Iuddewon am Jehoiacim, gan ddywedyd, Oh fy mrawd! Oh ŵr! Oh ei ogoniant ef! hyny yw, Och! frawd, pa mor fiin a gofidus yw'arnom o herwydd marwolaeth ein hanwyl frenin! Och! ein Ior, torwyd ein llywydd ymaith! Och! dyddymwyd ei ogoniant ef yn llwyr, Jer. xxii. 18. Y mae holl ddeddfau tŷ Crist wedi eu sylfaenu ar y golygiad hwn o'r frawdoliaeth Gristionogol, ac nid ydynt gymhwys i un cymdeithas arall; ac, am hyny, gelwir hwy yn

ddeddfau cariad. Y mae holl sefydliadau ac ordinhadau ei dŷ wedi eu cyfaddasu i feithrin a chwanegu y cariad hwn. Wele, mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd! Salm cxxxiii. 1.

BRAWDOL, yr hyn a berthyn i frodyr, neu sydd yn gweddu iddynt. Caredigrwydd neu gariad *brawdol*, yw yr hyn sydd fwyaf tyner a serchogaidd; ac a arwydda yn benaf ein gwaith yn parchu y saint, yn ymhyfrydu ynddynt, yn cydymdeimlo â hwynt, ac yn eu cynnorthwyo a'u cyssuro, o herwydd eu perthynas â Christ, a'u tebygolrwydd iddo, Rhuf. xii. 10. 2 Petr i. 9. Y *cyfammod brawdol* â'r Iuddewon, yr hwn ni *chofiodd* yr Edomiaid, oedd eu perthynas wreiddiol trwy ddiscyniad oddi wrth Isaac: a'u cyfammod o ymostyngiad, pan orchfygwyd hwynt gan Dafydd; ac, ysgatfydd, rhyw gynghrair diweddarach, Amos i. 9.

BREICHLED, cadwyn o arian, aur, &c. i'w gwisgo, er addurn, am yr arddwrn neu y goes, Gen. xxiv. 30. Ysgatfydd fod ffydd a chariad yn cael eu galw yn *freichledau am y dwylaw*; y maent yn dwyn yn mlaen ac yn addurno ein hymarweddiad efengylaidd, Ezec. xvi. 11. Y mae y dynion gwylltion yn Affrica ac America mor hoff o freichledau o wydr, &c. fel y gwerthant, hyd yn nod, eu rhieni neu eu plant am danynt.

BRENIN, (*brëen*, uwchafiaeth,) pen-llywydd llwyth neu wlad. Ar y cyntaf nid oedd awdurdod breninoedd ond cyfyng iawn, sef ar ond un ddinas neu bentref eang yn unig. Yr oedd gan Benhadad 32 o freninoedd yn ddarostyngedig iddo, Bren. xx. 1, 16. Yn Canaan, gorchfygodd Adonibezec 70 o freninoedd, a gwnaeth iddynt gasglu eu bwyd tan ei fwrdd ef. Gorchfygodd Josuah 31, Barn. i. 7. Jos. xii. Nimrod o Babilon yw y brenin cyntaf y darllenwn am dano; ond yn fuan wedi hyn, cawn fod breninoedd yn yr Aipht, Persia, Canaan, Edom, &c. Gen. x. 10, a'r xiii, a'r xiv, a'r xx, a'r xxxvi. Gwedi i'r Hebreaid gael eu gosod i fynu yn genedl wahanol, Duw, yn briodol, oedd eu *brenin*: efe a roddodd eu cyfreithiau gwladol iddynt; a thrwy yr Urim a Thummim, a thrwy brophwydi neu weledigaethau, yr oedd ei feddwl yn cael ei ddadguddio iddynt. Nid oedd Moses, yr hwn a elwir yn *frenin Jesurin*, neu y bobl uniawn, yn gystal â Josuah a'r Barnwyr, ond rhaglywiaid tan y Nefoedd ei hun, ac nid oeddynt yn meddu awdurdod i osod cyfreithiau. Gwedi bod yr Hebreaid tan y llywodraeth hon am o ddeutu 396 o flwyddau, hwy, gan gymmeryd arnynt fod meibion Samuel yn ymddwyn yn anghyfiawn, a ddeisyfiasant am gael brenin fel y cenedloedd o amgylch. Gan fod Duw wedi lled-hysbysu i Moses y cai yr Hebreaid freninoedd wedi eu dewis o blith eu brodyr, ac wedi gofyn ganddynt i ysgrifenu llyfr o'r gyfraith, bob un iddo ei hun, a dal ar yr unrhyw yn eu holl ymarweddiad, ac wedi gwarafun iddynt luosogi meirch, neu wragedd, neu drysorau; fe ymddengys nad oedd eu dymuniad am gael brenin yn bechadurus ynddo ei hun, eithr yn unig yn ei ddull, am ei fod yn cynnwys eu bod wedi blino ar y llywodraeth ddwyfol; ac yn ei ddyben, sef bod fel y cenedloedd o amgylch iddynt. Ar ol gosod ger eu bron y dull yn mha un y gwnai y rhan fwyaf o'r breninoedd a gaent, eu gorthrymu, gan werthu eu maesydd, eu cnydiau, eu meibion a'u merched, wrth eu hewyllys; rhoddodd Duw iddynt y brenin Saul yn ei ddig, a thrachefn a'i dygodd ef ymaith yn ei lid, Hos. xiii. 11. Gwedi hyn tynodd Duw ei lywodraeth neilldiol arnynt ymaith yn raddol, ac yr oedd awdurdod eu breninoedd yn lled debyg i awdurdod cyfiawn breninoedd yn ein hamseroedd ni ein hunain.

Mae Duw yn *Frenin*, ac yn Frenin y cenedloedd; mewn doethineb a gallu mawr, y mae efe yn llywodraethu ac yn amddiffyn pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, Salm xliv. 4, a xcv. 3. Mae Crist yn *Frenin*; yn *Frenin y Breninoedd*; ac *Arglwydd yr Arglwyddi*; ac yn *Frenin y saint*: Trwy osodiad ei Dad, y mae efe yn darostwng, yn llywodraethu, ac yn diogelu ei eglwys; ac y mae pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear wedi ei roddi iddo, er dwyn yn mlaen ei lles a'i llwyddiant; y mae efe yn attal ac yn gorchfygu ei gelynion; ac, yn y dydd olaf, rhydd ddedfryd anniddymadwy o farn ar yr holl fyd, Salm. ii. 6, a xlv. 1,

Mat. xxv. 34. Dad. xvii. 14, a xix. 16. *Y breninyr hwn oedd yn teyrnasu mewn cyfiawnder*, a'r *tywysogion a lywodraethent mewn barn*, oedd Hezeciah a'i raglawiaid, a Christ a'i apostolion a'i weinidogion, Esa. xxxii. 1. Mae y Lenathan yn *frenin* ar holl feibion balchder, neu anghenfilod a edrychant yn ffyrnig; mewn nerth a maintioli, y mae efe yn rhagori ar yr holl greaduriaid, Job xli. 34.

BRENINOL, *(brenin)* gwych, urddasol, yn perthyn neu yn addas i frenin. "Yn dalaith *freninol* yn mhlith y cenedloedd," Esa. lxii. 3. Y mae y geiriau ardderchog hyn yn cael yn llefaru am yr eglwys yn mhlith y cenedloedd, tan yr oruchwyliaeth efengylaidd. Y maent yn dysgu i ni, (1.) Fod yr Arglwydd yn edrych ar ei eglwys fel y peth mwyaf gwerthfawr, anwyl, a hardd yn ei olwg, Jer. xiii. 11. (2.) Y mae llawer am ddifeddiannu yr Arglwydd o'r harddwch hwn; sef am ddistrywio yr eglwys oddi ar y ddaear. I gael hyn i ben, y mae holl byrth uffern yn ymegniaw, sef Satan a'i holl offerynau. (3.) Ond y mae llaw gadarn Duw Hollalluog yn dal gafael sicr ynddi; ac nis dichon neb ei dwyn o'i law, a thrwy hyny, ei yspeilio o'i goron a'i ogoniant, Ioan x. 28, 29. "Y gyfraith *freninol*," Iago ii. 8. Wrth y *gyfraith* hon y mae i ni ddeall y gyfraith foesol, sylwedd yr ail lech, o ba un y mae yr apostol yn ei goffâu, "Câr dy gymydog fel ti dy hun." Gelwir hi y *gyfraith freninol*, oblegid ei dwyfoldeb, ei huniondeb, ei rhagoroldeb, ac mai cyfraith Duw yw, y Brenin mawr, a bod ei awdurdod breninol ynddi; o herwydd mai nid deddf i ryw berson neu genedl neilduol yw; ond cyfraith freninol Llywydd mawr yr holl ddaear, yn rhwymo pawb, yn mhob oes a than bob goruchwyliaeth.

BRENINES, *(brenin)* priodwraig brenin, banon. Yr eglwys, yn ei holl wir aelodau, a elwir yn *freninesau*; maent wedi eu dyweddio âg Iesu, Brenin y breninoedd; maent yn ardderchog, yn ddedwydd, ac yn ogoneddus yn nheyrnas y cyfammod newydd, Salm xlv. 9. Can. vi. 8. Yr au-eglwys anghristaidd, Dad. xviii. 7. *Brenines y nefoedd*, sef y lleuad; neu, hwyrach, yr holl oleuadau, yr haul, y lloer, a'r ser, y rhai y byddai yr Hebreaid eilunaddolgar yn aberthu iddynt, Jer. xliv. 17, 25.

BRETHYN, *(rhath,* rhwbio) defnydd gwisgoedd o wlân yn unig. Y gair Heb. *bagad*, a gyfeithir *brethyn*, a arwydda gorchudd yn gyffredinol, heb nodi o ba ddefnydd y bydd yn neilduol. Y wisg o sidan glas ac ysgarlad a daenid tros ddodrefn sanctaidd y babell, pan ei dygid o'r naill fan i'r llall, eill fod yn cysgodi ymddangosiad breninol, pur, a nefol, ac, hefyd, dyoddefgar, Iesu Grist, a'i eglwys, Num. iv. 6, 8. Y *brethyn* newydd, nad ellir ei ddodi yn briodol at hen ddilledyn, eill fod yn arwyddo cyfiawnder Iesu, yr hwn nid allwn gymmaint a'i gymmysgu â'r eiddom eir hunain, yn achos ein cyfiawnhad, heb wneuthur ein cyfŵr yn waeth; neu ynte arwydda yr anmhriodoldeb o gyssylltu ordinhadau yr Hen Destamen â'r Newydd, Mat. ix. 16.

BREUDDWYD *(bruadd)*. Wrth y gair hwn y deallir y ffug-ddelwau hyny, a ffurfir yn y dychymmyg, tra byddwn yn cysgu, Job xx. 8. "Efe a eheda ymaith megys breuddwyd, ac ni cheir ef; ac efe a ymlidir fel gweledigaeth nos." Yr oedd pobl y gwledydd dwyreiniol, ac yn enwedig yr Iuddewon, yn sylwi llawer ar freuddwydion; byddent yn dal arnynt, ac yn mysed at y rhai a gymmerent arnynt i'w dehongli. Canfyddwn henafiaeth yr arferiad hwn yn mhlith yr Aiphtiaid yn hanes trulliad a phobydd Pharaoh, ac hefyd yn Pharaoh ei hun, Gen. xlv. 8, xli. 15. Nebuchodonozor sydd brawf o'r un peth yn mhlith y Caldeaid, Dan. ii. 1, 2, 3, &c. Gwahardddodd Duw yn bennodol iawn i'w bobl ddal ar freuddwydion, ac ymgynghori â'r rhai a gymmerent arnynt i'w dehongli. Yr oedd efe yn coll-farnu pob un a gymmerai arno ei fod yn cael breuddwydion prophwydoliaethol, neu i ragfynegu pethau dyfodol, er i'r hyn a ragfynegasai efe felly ddyfod i ben, os, ar ol hyn, yr hudai y bobl i eilunaddoliaeth, Deut. xiii. 1, 2, 3. Ond nid oedd yn waharddedig iddynt, pan feddylient eu bod wedi cael unrhyw freuddwyd pwysfawr i ymofyn â phrophwydi yr Ar-

glwydd, neu â'r arch-offeiriad wedi ymwisgo yn ei ephod, i'r dyben o gael ei ddehongli.

Am hyny yn y fan lle y gwahardd Duw i'r Hebreaid ymgynghori â dewiniaid, brudwyr, a dehongliwyr breuddwydion, efe a ddywed wrthynt, "Y cenhedloedd hyn y rhai a feddienni di, a wrandawsant ar blandeyddion, ac ar ddewiniaid; ond am danat ti, nid felly y caniattaodd yr Arglwydd dy Dduw i ti. Yr Arglwydd a gyfyd i ti, o'th blith dy hun, o'th frodyr dy hun, Brophwyd megys finnau, arno ef y gwrandewch," Deut. xviii. 14, 15. Yr Israeliaid, gan hyny, oeddynt i ymgyfeirio at Dduw a'i brophwydi er gwybod dehongliad eu breuddwydion, a rhagfynegiad pethau dyfodol. Saul, ychydig cyn brwydr Gilboa, a ymgynghorodd â gwraig o berchen ysbryd dewiniaeth, o herwydd fod yr Arglwydd wedi ymadael oddi wrtho, ac yn naccâu i'w atteb, a dadguddio llwyddiant y rhyfel hwn iddo, na thrwy freuddwydion, na thrwy Urim, na thrwy brophwydi, 1 Sam. xxviii. 6, 15.

Ac yr ydym yn cael fod yr Arglwydd yn wir weithiau yn dadguddio ei ewyllys mewn breuddwydion, ac yn cyfodi dynion i fynu i'w dehongli. Mynegodd i Abimelec mewn breuddwyd fod Sarah yn wraig i Abraham, Gen. xx. 3, 6. Dangosoddd i Jacob yr ysgol gyfrinol mewn breuddwyd, Gen. xxviii. 12, 13, 14. Joseph a gafodd freuddwydion prophwydoliaethol yn ieuange iawn, arwyddoccâd pa rai a ddadguddiwyd yn hawdd gan Jacob ei dad, Gen. xxxvii. 4, 5, 6. Y mae yr Arglwydd yn dywedyd yn bennodol, y byddai iddo felly wneuthur ei hun yn hysbys weithiau, Num. xii. 6. Yr ydym yn darllain yn y Testament Newydd, fod angel yr Arglwydd wedi ymddangos felly i Joseph amryw weithiau, Mat. i. 20, a'r ii. 19, 22. Ac addawyd yn brophwydoliaethol, y byddai hyn yn mysg arwyddion ac effeithiau cyhoeddiad yr efengyl, Joel ii. 28. Y mae y prophwyd Jeremiah yn llefaru yn uchel yn erbyn y gau brophwydi, y rhai a gymmerent arnynt eu bod yn cael breuddwydion, Jer. xxiii. 25, 28. *Breuddwydion* ydynt, (1.) Naturiol, Preg. v. 7. (2.) Dwyfol, Gen. xxviii. 12, (3.) Diefiig a phechadurus, Deut. xiii. 1, 5. Jer. xxiii. 32.

Yr oedd y gau-brophwydi yn fynych yn cymmeryd arnynt eu bod yn derbyn meddwl Duw yn eu breuddwydion, Jer. xxiii. 25, a xxix. 8. Deut. xiii. 1. Dynion drygionus, a llu Assyria, a gyffelybir i *freuddwyd*; yr oeddynt hwy a'u llwyddiant, yn y diwedd yn hawdd i'w distrywio yn llwyr, Job xx. 8. Salm lxxiii. 20. Esa. xxix. 7, a xxxvii. 39. Yr Iuddewon oeddynt fel *rhai yn breuddwydio*, pan ddychwelodd yr Arglwydd eu caethiwed; nid oedd ganddynt fawr ddisgwyliad am y peth, nac ystyriaeth yn ei gylch, Salm cxxvi. 1. *Breuddwydwyr aflan y rhai a halogant y cnawd*, ydynt naill ai gau-athrawon y rhai ydynt yn tywallt allan eu daliadau atgas a ffiaidd, neu, ynte, dynion anllad a thrythyll, y rhai, trwy freuddwydion afian, a halogant eu cyrph, Judas 8.

BRON. (*bar*, pen, oddf) diden, neu teth, Gen. xlix. 25. (2.) Cymmwynas, cynnorthwy; yr hyn, yn debyg i laeth, sydd yn cryfhau, ac yn cyssuro, Esa. lx. 16. *Bronau wedi chwyddo*, a'r *gwallt wedi tyfu*, a arwyddant addfedrwydd i fyned i gyfammod priodasol â Duw, fel ei eglwys a'i bobl, Ezec. xvi. 7. Yr Iuddewon, a *bronau* neu *ddidenau* eu morwyndod wedi pwyso arnynt neu eu hysigo, a arwydda eu bod wedi cael eu hudo i odineb ac eilunaddoliaeth ysbrydol, ac yn euog o'r cyfryw, cynghreiriau pechadurus, a'r cyffelyb, Ezec. xxiii. 3, 8. Bod ganddynt eu godineb *oddi rhwng eu bronau*, a arwydda chwennychiad mawr ar ol putteindra ac eilunaddoliaeth, ac hefyd hyfrydwch ynddynt, Hos. ii. 2. *Curo* neu dabyrddu y *ddwyfron*, a arwydda cystudd a gofid mawr, Luc xxiii. 48. Nah. ii. 7. *Tynu ymaith ei fronau ei hun*, a arwydda ing a chynddaredd anobeithiol, Ezec. xxiii. 34. Pan ddywedir fod Crist *rhwng bronau* dynion, arwydda ei fod yn eu golwg yn dra pharchus, dymunol, ac anwyl, Can. i. 13. *Bronau* yr eglwys, ydynt ei dau Destament, ei hordinhadau a'i gweinidogion. Cyffelybir amherodraeth Persia i *ddwyfron a breichiau o arian*, i arwyddo y callineb, y dynoliaeth, a'r gwrol-

deb, â pha rai y sylfaenwyd hi, yn nghyd â'i golud, Dan. ii. 32.

BRONWEN, *(bron-gwen)* gwenci. Mae y creaduriaid hyn yn gyfrwys iawn, ac er nad ydynt ond bychain o faintioli, etto y maent yn dra chryfion: y maent yn elynion i seirph, gwaddod, a llygod bychain a mawrion, ac nid ydynt gyfeillion i ehediaid dofion; megys ieir, hwyaid, &c. chwareuant âg ysgyfarnogod, nes iddynt eu blino, ac yna a'u lladdant; cnoant yn waeth na chi, pan gyffroer hwynt. Dywedir fod y benywod yn dwyn eu rhai bychain gyda hwynt beunydd, o'r naill fan i'r llall, rhag i neb i'w dal. Yr oeddynt yn aflan wrth ŷ gyfraith seremoniol, Lef. xi. 27.

BRWMSTAN, sylwedd brâs olewog, a ellir ei doddi ac a ennyn yn fflam wyllt yn y tân, ond ni thawdd mewn dwfr. Tynir ef o'r *pyrites*, neu fath o garreg dân, ac y mae yn un o'r prif ddefnyddiau yn ngwneuthuriad pylor gwn. Y mae yn ddefnyddiol iawn hefyd i wellhau archollion llygol, ac i lanhau y coluddion. Y mae pedwar prif rywiogaeth o hono, sef y melyn, y gwyrdd, y llwyd, a'r coch. Distrywiodd Duw Sodoma a Gomorrah, Adma a Seboim, à *brwmstan* a *thân* o'r nefoedd, Gen. xix. 24. Mewn cyfeiriad at ba ddadymchweliad, y mae *gwasgaru brwmstan* ar le; *ei losgi â brwmstan*, neu ei wneud yn ffrwd ennynedig o *frwmstan*, yn arwyddoccau y barnedigaethau mwyaf arswydus a dinystriol, Job xviii. 15. Deut. xxix. 23. Poenau uffern a gyffelybir i *dân* a *brwmstan*, i nodi natur yr artaith ofnadwy, a'r twrf tragywyddol sydd yn y gerwyn echryslawn o ddigofaint Duw, Dad. xxi. 8. Salm xi. 6. Y *brwmstan* oedd yn dyfod allan o safnau meirch y Tyrciaid, a arwydda arferiad dychrynllyd y Tyrciaid o arfau tân, yn benaf o fagnelau dirfawr, yn eu hymladdfeydd a'u gwarchaeoedd rai oesoedd yn ol; a'r difrod ofnadwy a wnaethant o'r cenedloedd, Dad. ix. 17, 18.

BRWYNEN *(rhwyn,* estyniad allan). Y mae y brwyn yn tyfu mewn lleoedd gwlybion, ac a blyganti yn hawdd gan y gwynt; a phan dorrir hwy i lawr, gwywant yn fuan: felly ni ddylyn rhagrithwyr grefydd yn hir, heb ryw ddybenion cnawdol, a budd amserol; ac nid yw eu hymddangosiad blodeuog a'u dedwyddyd o hir barhad, Job viii. 11, 20. Ysgatfydd nad yw yr hyn a eilw ein cyfeithiad ni yn *llafrwyn*, ddim amgen na'r cyrs papyr, o ba rai y gwnai yr Aiphtiaid a'r Ethiopiaid fasgedau, ac hyd yn nod cychod, Exod. ii. 3. Crymmu y *pen fel brwynen*, a arwydda ymddangosiad allanol o ofid am bechod, gan blygu y pen, tra nad oes dim tristwch gwirioneddol yn y galon, Esa. lviii. 5.

BRYCHNI *(brwch,* ymchwydd). 1. Man bychan yn wahanol ei liw oddi wrth yr hyn sydd o amgylch iddo: felly y mae ar y llewpardiaid luaws o frychau heirdd, Jer. xiii. 23. (2.) Mefi neu anaf allanol, Num. xix. 2. Gelwir pechod yn *frycheuyn*, o herwydd ei fod yn gwneud ein natur, a gwisgoedd ein hymarweddiad yn hyll ger bron Duw a dynion da, 1 Tim. vi. 14. Judas 23. Y mae Crist yn un *difrycheulyd* a *dianaf*; mae yn rhydd oddiwrth bob gradd o lwgr pechadurus oddi wrth natur neu ymarferiad, 1 Petri. 19. Cyfrifir y saint yn ddifrycheulyd yn y bywyd hwn; nid oes ganddynt un pechod heb ei wisgo â chyhawnder cyfiawnhaol Iesu: ac o herwydd eu sanctеiddrwydd diragrith, nid ydynt yn goddef eu hunain mewn unrhyw bechod gwybodus, Can. iv. 7. Yn y cyfiwr i ddyfod, byddant *heb frycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw*; yn berffaith mewn sanctеiddrwydd, ac wedi eu rhyddhau oddi wrth bob gweddillion o bechod a tharueni, Eph. v. 27. 2 Petr iii. 14. Proffeswyr gwaradwyddus ydynt yn *frychau*; maent yn anfri i'r eglwys, ac yn foddion i lygru ereill, Judas 12.

BUDR—EDD, brwnt, aflan. Gelwir halogedigaethau pechadurus y galon neu yr ymarweddiad yn *frynti*; maent yn gwneuthur dynion yn llygredig a ffiaidd ger bron Duw a dynion da, Esa. iv. 4. Gosodir dynion allan fel yn *frwnt* neu yn *frynti*, o achos eu bod wedi eu llygru a'u halogi gan bechod, Dad. xxii. 11. Ezec. xxii. 15. *Budr-elw* yw ennill a geir mewn ffordd fas, anghyfreithlawn a phechadurus; fel pan y bydd gweinidogion yn gwneud eu hadeilad eu hunain yn brif amcan eu gwaith. Er fod yr elw yn gyfreithlawn ynddo ei

hun, etto y mae yn fudr ac yn halogi y sawl sydd yn ei gael, pan y maent yn myned i swydd mor sanctaidd er mwyn yr elw, ac yn gŵyr-droi gwir-ioneddau Duw i foddhau dynion llygredig, i gael tammaid o fara, Tit. i. 11. 1 Tim. iii. 8.

BUDDUGOLIAETH—U, *(budd)* 1. Gorchfygu gelyn mewn brwydr. Eiddo yr *Arglwydd yw*, am mai efe sydd yn nerthu i'w hennill, a dylai y clod am dani, gael ei briodoli iddo ef yn gwbl, 1 Cron. xxix. 11. *Buddugoliaeth* Crist yw ei waith yn gorchfygu Satan, yn dybenu camwedd, yn dinystrio angau, ac yn gwneud holl gynlluu ein hiachawdwriaeth yn llwyddiannus, Esa. xxv. 8. Mat. xii. 20. *Buddugoliaethy saint* yw eu gwaith yn gorchfygu profedigaethau y gwrthwynebwr, gallu pechod, a maglau Anghrist a'r byd; yn nghyd âg ofn, niweid, ac yn yr iawn bryd, llywodraeth angau, Dad. xv. 2. 1 Cor. xv. 57. (2.) Yr achos o fuddugoliaeth; felly gelwir ffydd ein *goruchafiaeth ni*, hyny yw, yr achos i ni gael goruchafiaeth ar y byd yn ei amrywiol chwantau a maglau, 1 Ioan v. 4.

BUGAIL *(bu,* buwch, a *cail,* corlan). Un sydd yn gwylied deadellau o ddefaid, &c. yn eu harwain i'w porfa briodol, yn eu dyfrhau, yn eu casglu pan byddo achos, i'r gorlan, ac yn eu diogelu rhag niweid. Ymddengys fod eu deadellau yn fynych yn eu canlyn, Ioan x. 1—27. Am fod golud gwyr mawrion yn gynnwysedig yn benaf, gynt, mewn deadellau o ddefaid a gwartheg, yr oedd eu swydd o'u harwain yn anrhydeddus iawn yn eu golwg. Darllenwn fod Abel, Abraham, Isaac, Jacob, Moses, Dafydd, ïe, y llancesi ieuainge, megys merched Laban a Jethro, wrth y gwaith hwn. Y mae Duw a Christ yn cael eu galw yn *fugail;* gyda pha diriondeb yr arweiniodd efe yr Hebreaid, y gofalodd am danynt, yr amddiffynodd ac y llywodraethodd hwynt, yn yr anialwch, ac yn nhir Canaan! Gyda pha ofal y mae efe etto yn casglu, llywodraethu, diogelu, iachau, ac yn gofalu am leshad ei eglwys a'i bobl! Gen. xlix. 24. Salm lxxx. 1, a xxiii. 1. Esa. xl. 11. Crist yw *bugail* Duw, o blegyd i'r Tad roddi iddo ei braidd o ddynion dewisedig, a'i osod yntau i farw drostynt, i'w galw, a'u porthi, Zech. xiii. 7. Gelwir ef yr *un bugail,* o herwydd mai efe yn unig a biau y defaid; a gall, yn mhob ystyriaeth, roddi attebiad i'w galwadau, a diwallu eu holl anghenion, Ezec. xxiv. 23. Ioan x. 16. Gelwir ef yn *Ben-bugail;* y mae efe yn anfeidrol fawr yndo ei hun; y mae wedi ei dderchafu yn uchel fel ein Prynwr; ac y mae ganddo brif dreflniad yr eglwys yn ei law, Heb. xiii. 20. 1 Petr v. 4. Efe yw y *bugail* da; mewn caredigrwydd anfeidrol, efe a brynodd ei ddefaid rhag dinystr, â gwerth ei waed; y mae yn cyd-ymdeimlo yn dosturiol â hwynt, ac yn rhoddi ei gnawd a'i waed ei hun iddynt yn ymborth; ac ni ettyl ddim daioni oddi wrthynt, Ioan x. 11. Efe yw *bugail ac esgob eneidiau;* o herwydd mai eneidiau dynion y mae efe yn arwain, yn adferu, ac yn ddigoni; a'u lleshad ysbrydol a thragywyddol ydyw gwrthddrych neilldnol ei ofal, 1 Petr ii. 25. Salm. xxiii. 2, 3. Jer. xxxi. 27. Y mae llywodraethwyr gwladwriaethol mewn teyrnas, a thywysogion mewn llu, yn cael eu galw yn *fugeiliaid;* mae eu swydd yn gofyn iddynt i gasglu, tywys, amddiffyn, a darparu ar gyfer llwyddiant eu deiliaid a'u lluoedd, y rhai ydynt eu praidd; eithr pa mor fynych y maent yn gweithredu yn wrthwyneb i hyny! Esa. xliv. 28, a lxiii. 14. Jer. xii. 10, a xxv. 34. Nah. iii. 18. Ser. xxiii. Ezec. xxxiv. Hwyrach nad yw *bugail* a *maen Israel* yn arwyddoccau Duw ei hun, ffynnon pob bendithion, eithr Josuah, Gideon, a llywodraethwyr ereill Israel, wedi tarddu o lwyth Ephraim a Manasseh, y rhai, fel, *bugeiliaid* a lywodraethasant, ac fel *maen,* a sefydlasant genedl yr Hebreaid, Gen. xlix. 24. Tywysogion y Caldeaid, a'u lluoedd oeddynt y *bugeiliaid* a'r *deadellau* a ddinystrasant Judea, Jer. vi. 3, a'r xii. 10. Tybia *Calmet* mai Darius Hystaspis, a'i gymdeithion, y rhai a dorrasant ymaith y Magiaid oddi ar orsedd Persia, oedd y saith bugail, *yr wyth o'r dynion penaf,* y rhai a gyfodwyd i fynu i ddinystrio tir Assyria a Nimrod â'r cledddyf; ond yr ydym ni yn hytrach yn deall mai yr wyth ysgrifenydd ysbrydoledig, yn nghyd â saith apostol arall Crist tan y Testament Newydd, trwy ba rai y darostyngodd

Duw deyrnas Satan yn y byd yn rhyfeddol, oeddynt, Mic. v. 5, 6.

BULWG, *(bul*, mesglyn) math o chwyn sydd yn tyfu yn mysg yr ŷd. Y gair Heb. *bosha* a arwydda un math o chwyn anmheraidd eu harogl, Job xxxi. 40.

BUL, *(benaint)* yr wythfed mis o'r flwyddyn gyssegredig, a'r ail o'r un wladol, yn mysg yr Iuddewon. Y mae yn cyfatteb mewn rhan i'n Hydref ni, ac ynddo 29 o ddyddiau. Ar y 6fed dydd o'r mis hwn, y mae yr Iuddewon yn ymprydio o herwydd tynnu llygaid Zedeciah, a lladd ei feibion, 2 Bren. xxv. 7. Ar y 15fed dydd o hono y gosododd Jeroboam ei ŵyl eilunaddolgar i fynu, yn wrthwyneb i ŵyl y pebyll yn y mis blaenorol, 1 Bren. xii. 32. Ar yr 17eg dydd o hono, y dechreuodd y dylif. Ar y 27ain o hono, yn mhen y flwyddyn, y daeth Noah, a'r creaduriaid byw ereill, allan o'r arch, ar ol sychu o'r dylif, Gen. vii. 11, a'r viii. 14. Yn y mis hwn, y gorphenwyd adeiladu teml Solomon; eithr ar ba ddiwrnod, ni fynegir i ni, I Bren. vi. 38.

BUSTL; math o lysieuyn neu wreiddyn, tebyg iawn i'n cegid ni. Y mae yn dra chwerw: ac i'w boeni neu ei feddwi, rhoddwyd ef wedi ei gymmysgu â gwinegr, i'n Hiachawdwr i'w yfed ar y groes, Salm lxix. 21. Mat. xxvii. 34. Cyffelybir unrhyw beth chwerw neu anhyfryd iawn iddo, megys rhan neu nodd o'r corph anifeilaidd, Job xvi. 13, a xx. 25. Anghyfiawnder, gorthrymder, a'r cyffelyb weithredoedd drygionus, a gyffelybir i *fustl* neu *wenwyn*; mor atgas a ffiaidd ydynt gan Dduw! mor niweidiol a dinystriol i ddynion! Amos vi. 12. Deut. xxxii. 32. Gelwir cyflwr pechadurus yn *fustl chwerwder*, a *rhwymedigaeth anwiredd*, Act. viii. 23. Trallodion chwerwon a gofidus iawn a elwir yn *fustl*, Jer. viii. 14, a'r ix. 15. Gal. iii. 5, 19.

BUZ, *(dirmygedig)* mab Nachor a Milcah, brawd Huz, ac henafiad Elihu, cyfaill Job. Preswyliai ei hil-fogaeth yn Arabia Anial, a chawsant eu gorthrymu yn arswydus, a'u harwain i gaethiwed gan Nebuchodonozor, Gen. xxii. 21. Job xxxii. 1. Mae Jeremiah yn bwgwth Buz â digofaint Duw, Jer, xxv. 23.

BWA, *(bw*, dychryn) offeryn rhyfel, wedi ei wneuthur o gorn, pren, dur, neu y cyffelyb; yr hwn, wedi ei blygu yn gryf â llinyn wedi ei sierhau wrth ei ddau ben, wrth ddychwelyd i'w gyflwr naturiol, a ergydia saethau ymaith gyda mawr nerth. Y mae hwn yn un o'r offernynau rhyfel henaf a mwyaf cyffredinol; i'w gael yn y gwledydd pellaf a mwyaf barbaraidd; ac a osodir weithiau am offerynau rhyfel yn gyffredinol, Salm xlvi. 6. Tebygol i'r Hebreaid ddysgu defnyddio bwâau gan y Philistiaid, ac na wnaethant fawr arferiad o honynt hyd ddyddiau Dafydd, yr hwn a ofalodd i'w dysgu i ladd eu gelynion o bell, yn gystal âg y gwnai eu gelynion â hwynt, 2 Sam. i. 18. *Torri* y *bwa*, neu y *bwa dur*, yw dinystrio gallu a nerth rhyfelgar cenedloedd neu bersonau, Hos. i. 5. Salm xviii. 34. *Bwa* Duw yw ei allu, ei ddoethineb, a'i ragluniaeth, trwy ba rai y mae yn amddiffyn ei bobl, ac yn niweidio ei elynion â'i saethau, sef y newyn, y rhyfel, a'r haint: neu yr offerynau dynol trwy ba rai y mae efe yn cyflawni ei farnedigaethau; y rhai ydynt hefyd yn *saethau* i lanw ei fwa: neu yr enfys, yr hwn a ffurfia efe i gadarnhau ffydd dynolryw yn yr addewid, na ddeuai dylif mwyach i ddyfetha y ddaear a'i chreaduriaid, Gen. ix. 13. Salm. vii. 12. Zec. ix. 13. *Bwa* efengyl Crist, yw yr ysgrythyrau, yn cael eu canlyn gan ei allu achubol; a gwirioneddau ac athrawiaethau yr efengyl ydynt y saethau a ergydir o hono, y rhai a ehedant yn gyflym, ac a darawant yn ddiysmmwth, yn ddirgelaidd, ac yn ddwfn i feddyliau a chydwybodau dynion, i'w hargyhoeddi, a'u darostwng i lywodraeth Crist, Dad. vi. 2. Salm xlv. 5. Dynion drygionus ydynt fel *bwa twyllodrus* heb ei wneuthur yn iawn, ac yn ergydio yn mhell oddi wrth y nôd; nid ydynt un amser mewn tymher addas i waith Duw; nid ydynt byth yn taraw ar yr iawn ddyben o hono; ac nid ydynt un amser yn sefydlog yn eu bwriadau, eu haddunedau, a'u haddewidion, Salm lxxviii. 57. *Arosodd bwa* Joseph *yn gryf*, a breichiau ei ddwylaw a gryfhawyd; parhaodd ei ffydd a'i obaith, ei gymmedroldeb a'i amynedd, mor gedyrn, fel ag y

gorchfygodd bob gwrthwynebiad, Gen. xlix. 24. *Adnewyddai bwa Job yn ei law;* ei lwyddiant parhaus a'i awdurdod blodeuog a'u nerthasant ef i amddiffyn ei hun, ac i niweidio ei elynion; ac efe a aeth fyth hyd yn nod yn gryfach mewn gallu ac awdurdod, Job xxix. 20.

BWCH, *(bu,* buwch) y gwrryw o'r geifr. Cyffelybir tywysogion a gwyr mawrion i *fychod*, y rhai a gerddant yn hardd: y mae eu sefyllfa yn gofyn iddynt fyned o flaen ereill mewn dull trefnus, a'u cyfarwyddo: ond och! pa mor fynych y maent yn mwyfus, yn halogedig, yn anhyfryd, ac yn ddrygionus, Zech. x. 3. Ger. l. 8. Cyffelybir y Groegiaid i'r rhai a elwir hefyd yn Egeaid, hyny yw, *pobl afraidd,* i fwch geifr âg un corn iddo; yr hwn, heb gyffwrdd â'r ddaear, a hedodd yn erbyn yr hwrdd gwthiol, ac a'i sathrodd ef. Tan Alexander eu llywodraethwr, teithiasant gyda chyflymder anghredadwy, i Asia, a dymchwelasant amherodraeth y Persiaid, Dan. viii. 5.

BWHWMAN, *(bw-hwman,* anwadal) gwibio yn ol ac yn mlaen, bod yn ansefydlog ac yn anwadal mewn barn, Eph. iv. 14.

BWLCH, *(bwl)* adwy, agendor. "Y dydd hwnw y codaf babell Dafydd yr hon a syrthiodd, ac a gauaf ei *bylchau,*" Amos. ix. 11. Wrth babell Dafydd, mae i ni ddeall 'pabell Crist,' had Dafydd, sef, ei eglwys; yn mha un y mae yn preswylio. Y mae yr apostol yn cymhwyso y geiriau at alwad y cenedloedd, yr hyn a ddechreuodd yn amser yr apostolion, ac sydd heb ddarfod etto, ond a bery tra bo amser, Act. xv. 16, 17.

BWN, *(bw)* ehediad o ddeutu yr un maintioli â'r creyr, ac o'r rhywiogaeth honno, er fod ei liw yn wahanol iawn. Coryn ei ben sydd yn ddu; ac y mae mau du yn agos i bob congl i'w gylfin.[1] Ei wddf sydd wedi ei orchuddio â phlu hirion. Y mae ei gefn a'i ranau uchaf wedi eu brithio yn hardd â liiw du, llwyd-ddu, a llwyd; a'i fol sydd wynaidd. Y mae yn arferol o fod mewn gwledydd dyfrllyd, yn llechu yn mysg y cyrs a'r hesg, ac yn sefyll yn gyfredin â'i wddf a'i gylfin yn sythion. Goddef i bobl ddyfod yn agos iawn atto; ac os bydd yn analluog i ddiange, ymosoda arnynt, yn benaf o ddeutu eu llygaid. Eheda o amgylch gan mwyaf yn y cyfnos, ac y mae yn gwneud swn hynod iawn yn mysg y cyrs, ac un gwahanol pan fyddo yn esgyn i'r awyr, i'r hon yr â yn syth nes byddo yn gwbl allan o'r golwg. Daeth Ninefeh a Babilon yn *feddiant i aderyn y bwn,* pan drowyd y lle, gan mwyaf, yn forfa, neu lyn o ddwfr, Esa. xiv. 23, a xxi. 1. Zeph. ii. 14. Ond cyfeithir y gair Heb. *kippod* gan rai dehonglwyr yn *ddylluan,* gan ereill yn *fór-wennol,* gan ereill yn *llyffant crogenog,* a chan ereill yn *afanc;* a *Bochart* a *Parkhurst* a farnant mai y *draenog* a arwydda a gair.

BWRDD, *(bur,* caead-le) 1. Atteg neu eisteddle i ddynion i fwytta bwyd oddi arno, Sam. xx. 29. Ymddengys fod yr Hebreaid yn anfer yr arogl-darth sanctaidd, a'r olew, wrth eu byrddau cyffredin, Ezec. xxiii. 41. Allor y poeth-offrwm a elwir yn *fwrdd* Duw, o herwydd fod yr aberthau a offrymid arni yn gymmeradwy ganddo ef, a'u bod yn ymborth i'r newynog, Mal. ii. 7, 12. Cyffelybir ordinhadau yr efengyl i *fwrdd,* am eu bod yn dangos cyflawnder Duw i ni yn meithriniad ein henaid, Can. i. 12. Luc xxii. 30. (2.) Yr arlwyaeth a osodir ar fwrdd i'w fwytta neu i'w yfed, fe, pob math o arlwyaeth ysbrydol a thymhorol, ac y mae Duw yn *arlwyo bord* un pan yn rhoi iddo lwyddiant ysprydol a thymmorol, Salm xxiii. 5. Y mae yr Iesu yn *eistedd wrth ei fwrdd,* pan oedd yn y nefoedd, cyn ei ddyfodiad yn y cnawd; pan oedd ar y ddaear, yn amser ei ymddarostyngiad; pan y mae efe, yn ein natur ni, yn eistedd ar orsedd ei Dad; a phan y mae yn bresennol yn ordinhadau yr efengyl, trwy effeithioldeb ei allu, Can. i. 12. Nid all dynion fod yn gyfranogion o *fwrdd* yr *Arglwydd,* a *bord* y *cythreuliaid;* nid aliant yn gysson fwytta o'r pethau a aberthwyd i eilunod fel y cyfryw, a chyfranogi hefyd o swpper yr Arglwydd, 1 Cor. x. 21. Swydd y diaconiaid eglwysig yw darparu angenrheidiau at fwrdd y tylodion, darparu cynnaliaeth i'r bugeiliaid, a gweini wrth ddosparthu yr elfenau wrth *fwrdd* yr Arglwydd, Act. vi. 2. *Parottoad bwrdd* pan gymmerwyd Babilon, a arwydda, naill ai gwaith y Mediaid a'r Persiaid

yn darparu lluniaeth i'w lluoedd, neu gyfeddach wttresgar a meddwdod y Caldeaid, Esa. xxi. 5.

Bwrdd y bara gosod oedd o goed Sittim, wedi ei wisgo âg aur, dau gufydd ei hyd, cufydd ei led, a chufydd a hanner ei uchder. Oddi arnodd, yr oedd wedi ei amgylchu âg ymylwaith deublyg, yr hwn a gadwai y bara rhag syrthio ymaith. Yr oedd yn cael ei ddwyn ar drosolion o goed Sittim wedi eu gwisgo âg aur. Yr oedd wedi ei gyssegru â thaenelliad gwaed, ac âg enneiniad olew. Safai yn y gongl ogledd-orllewinol i'r lle sanctaidd, ar gyfer y wahanlen, ac arno y gosodid y 12 torth o fara dangos. Gwnaeth Solomon 10 o fyrddau bara dangos. Onid oedd y bwrdd hwn yn gosod allan Berson yr Iesu, megys yn ei eiriolaeth yn cyflwyno ei holl lwythau dewisedig ger bron Duw: neu yr efengyl, fel yn cyflwyno Crist a'i gyfiawnder yn ymborth ysbrydol i ni? Exod. xxv. 23—30, a xxxiii. 27. 2 Cron. iv. 8, 19.

BWYD (byw). Yr oedd ymborth yr Hebreaid wedi cael ei drefnu trwy osodiad Duw. Pa greaduriaid a allent fwytta, a pha rai ni ddylent, oedd wedi cael ei nodi yn neilldnol, Lef. xi. Deut. xiv. Nid oedd dim gwaed, na chig yn nghyd â'r gwaed, na gwer anifeiliaid a offrymid yn ebyrth, i gael eu bwytta. Gall yr hyn a gyfrifid gan yr Hebreaid yn fywioliaeth frâs, ymddangos oddi wrth yr hyn oedd gan Solomon ar ei fwrdd: ei arlwyaeth beunyddiol ef oedd 30 corus neu fesur o beilliaid, yn nghyd â 60 corus o flawd; yn y cwbl o ddeutu 58,320 pwys o flawd, yn nghyd â 10 o ychen pasgedig, 20 o ychen porfadwy, a 100 o ddefaid, heblaw ceirw, ac iyrchod, a buail, ac ednod gwyllion, &c. Dywed yr Iuddewon fod 60,000 o wyr yn cael eu cynnal yn ei lys ef: ond y mae yn fwy tebygol nad oeddynt uwchlaw yr hanner, 1 Bren. iv. 22, 23. Nid ymddengys eu bod yn ddichlynaidd iawn yn nhymheriad, neu driniaeth eu hymborth. Halen oedd yr unig beth a arferent i dymheru yr hyn a ddarperid at wasanaeth y deml, oni chwanegwn yr olew â pha un y pobib y bwyd-offrymau. Bwytteid oen y pasc gyda dail chwerwon, halen, mêl, ymenyn, ac olew, a hwyrach fod pêr-lysiau yn cael eu defnyddio weithiau yn eu dysgleidiau danteithiol cyffredin. Yn y cyn-oesoedd, ymddengys fod pob un o'r gwahoddedigion yn arfer cael bwrdd ar ei ben ei hun; a dywedir fod trigolion China, a chenedloedd dwyreiniol ereill, yn arfer y dretn hon hyd heddyw; a'r anrhydedd mwyaf a wneid i westai, oedd rhoddi iddo gyfranhelaeth o'r danteithion, 1 Sam. i. 4, 5. Gen. xviii. 6—8. Byddai rhai cenedloedd weithiau yn ochelgar rhag bwytta gyda'u gilydd. Yr oedd yr Aiphtiaid yn casáu bwytta gyda bugeiliaid, Gen. xliii. 31. Gochelai yr Iuddewon fwytta gyda y cenedloedd, yn enwedig gyda y Samariaid, Ioan iv. 9; gwaradwyddasant ein Hiachawdwr am fwytta gyda phublicanod, Mat. ix. 11. Luc xv. 2. Byddai yr Iuddewon yn golchi eu dwylaw, cyn y cymmerent eu bwyd, Marc vii. Yr oeddynt, gynt, yn eistedd wrth eu byrddau, Diar. xxiii. 1, ond mewn oesoedd canlynol, dylynasant ddull y Persiaid, y Caldeaid, a'r Rhufeiniaid o orwedd ar welyau wrth eu bwyd; ac o herwydd hyn y dywedir fod Ioan yn yn pwyso ar fynwes yr Iesu wrth ei swpper diweddaf, Ioan xiii. Byddai y gwahanol rywiogaethau'n gwledda mewn gwahanol ystafelloedd, yr hyn oedd yn arferiad cyffredin mewn rhai manau yn y Dwyrain, ac y mae yn parhau felly etto yn yr Ital a'r Hispaen. Yr oedd perarogli eu gwallt, neu eu gweiyau, yn nghyd â cherddoriaeth a dawnsio, yn gyffredin yn eu gwleddoedd, Luc vii. 37, a'r xv. Ioan xii. Yn mysg yr Iuddewon diweddar, y mae y penteulu, neu y prif herson a fyddo yn bresennol yn bendithio y bara, ac, wedi hyny, yn bendithio y gwin. Ychydig cyn iddynt gymmeryd eu gwydraid olaf, y mae efe yn adrodd gweddi lled hir, yn nghyd âg yn talu diolchgarwch, a'r cyfeillion a adroddant y 9fed a'r 10fed adnod o'r 34 Salm. Maent mor goel-grefyddol a dichlynaidd, fel na chymmerant ddim bwyd a fyddo wedi ei drin gan y Cristionogion neu y Paganiaid. Nid ydynt byth yn cymmysgu dim llaeth-fwyd gyda chig; ac ni chymmerant ychwaith na llaeth, ymenyn, na chaws, yn union ar ol cig; ni wnant hyd yn nod arfer yr un offer-

ynau neu lestri i drin neu ddal llaeth-fwyd, ag a arferasent at gig-fwyd.

Cymmerodd dyddymiad y gyfraith seremoniol, trwy farwolaeth Iesu Grist, y gwahaniaeth cyfreithiol rhwng bwydydd ymaith; eithr er mwyn gochelyd rhoddi tramgwydd i'r Iuddewon gweinion y rhai a droasent yn Gristionogion, ac oeddent yn anhawdd eu diddyfnu oddi wrth eu hen arferiadau, gofynodd cymmanfa Jerusalem i'w brodyr Cristionogol ymogelyd rhag bwydydd a fyddent wedi eu haberthu i eilunod, a rhag y pethau a dagwyd, a rhag gwaed. Parodd y matter hwn, yn enwedig yr un yn nghylch bwytta pethau wedi eu hoffrymu i eilunod, y rhai a werthid weithiau, ar ol yr aberthiad, yn y farchnadfa, gythrwfl nid bychan. Y mae Paul yn penderfynu fod pob bwyd, tan yr efengyl, yn lân a diragoriaeth ynddo ei hun; ac y geilid bwytta pa beth bynag a brynwyd yn y farchnadfa gyhoeddus, heb unrhyw betrusder cydwybod; eithr y mae yn chwennych argraffu hyn yn ddwys ar eu meddyliau, sef am iddynt ymattal oddi wrth gig wedi ei aberthu i eilunod, neu oddi wrth unrhyw beth dibwys ynddo ei hun, os byddai tueddiad ynddo i osod tramgwydd o flaen un dyn, neu i flino unrhyw gydwybod dyner; ac y mae yn cyhuddo y rhai a wnaent yn amgen, o fod yn ddinystrwyr eu brodyr Cristionogol, dros ba rai y bu Crist farw,' Tit. i. 15. Rhuf. xiv.15. 1 Cor. vi. 11—13. Gosodir gwaith cyfryngol yr Iesu allan, fel ei *fwyd*; yr oedd yn fwy hyfryd ganddo na'i ymborth angenrheidiol, Ioan iv. 32, 34. Efe, yn ei Berson, ei gyflawnder, a'i gyflawnder, a Duw yndo ef, a osodir allan fel *bwyd*, hyny yw, fel yr ymborth gwirioneddol a digonol; trwy dderbyn a mwynhau pa un y meithrinir eneidiau dynion, yn hyfrydlawn, i fywyd tragywyddol, Ioan vi. 55. Gal. ii. 20. Salm xxxiv. 8. Gwirioneddau Duw yn yr ysgrythyrau, ydyat yn *fwyd*; maent yn adfywio ac yn meithrin eneidiau dynion: a'r dirgelion mwyaf dyfnion ydynt yn *fwyd cryf*, y rhai a allant adeiladu a meithrin ond Cristionogion cryfion yn unig, Jer. xv. 16. Heb. v. 13. Gelwir yr ordinhadau seremoniol yn *fwydydd a diodydd*; yr oedd llawer o honynt yn perthynu i fwydydd, Heb. xiii. 9. Col. ii. 16. Nid yw teyrnas Dduw gynnwysedig mewn *bwyd a diod*, ond mewn cyfnawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glan; nid yw goruchwyliaeth yr efengyl yn perthynu i fwydydd a diodydd; ac nid yw gwir grefydd dufewnol yn gynnwysedig mewn cadw y rhai hyn, ond mewn cymhwyso cyfnawnder yr Iesu attom, ac ymgais i gael cymdeithas, a chydymffurfiad â Duw, Rhuf. xiv. 17. Y mae ffrwyth y saint yn *fwyd* ac yn *fedddyginiaeth*; eu haddysgiadau duwiol, a'u hesiamplau sanctaidd, ydynt yn dra adeiladol, Ezec. xlvii. 12. Dynion ydynt yn *fwyd* i ereill, pan rodder hwy i fynu i gael eu dinystrio ganddynt, Salm xliv. 11, a liii. 4. Num. xiv. 9, a xxiv. 8. Y mae pechod yn *fwyd* i ddynion; maent yn ymhyfrydu ynddo, ac yn addaw maeth iddynt eu hunain oddi wrtho; ond y mae efe yn troi yn wenwyn aspiaid o'u mewn, Job xx. 14. *Bwyd gofidus*, yw lluniaeth gwael, yr hwn a fwyttai galarwyr, Job vi. 7. Y mae dagrau yn *fwyd*, pan y bydd triswch yn gwneud dyn yn ddichwant i fwyd, Salm xlii. 3. *Bwyd cyffredin* Israel, yr hwn a brinhaodd Duw, oedd eu llwyddiant arferol, Ezec. xvi. 27.

BWYELL, (*pwy*, tarawiad) offeryn llym i gymmynu neu i naddu coed, Deut. xix. 5. Yr Assyriaid a'r Caldeaid a gyffelybir i *fwyell*; hwy oeddynt y rhai a gymmerodd Duw yn ei law, i dorri, dinystrio, a gwasgaru y cenedloedd, o'u hamgylch, Esa. x. 15. Jer. l. 31. Yr *oedd y fwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y pren* gyda'r Iuddewon. Yn amser Crist, yr oedd barnedigaethau miniog a dinystriol Duw yn barod i gael eu cyflawni ar eu heglwys a'u gwladwriaeth, oni dderbynient Grist ar frys, onid ediflarhaent am eu pechodau, ac oni ddygent ffrwyth gweithredoedd da, Mat. iii. 10. Luc iii. 9.

BWYTTA (*bwyd*). 1. Cnoi lluniaeth, a'i dderbyn i'r cylla, Gen. xxvii. iv. (2.) Mwynhau mewn modd dedwydd, Esa. i. 19, ac o herwydd hyn arferir yr ymadrodd *bwytta ac yfed*, am fwynhau pethau da y byd hwn yn hael ac yn siriol, Preg. v. 18, a'r ii. 24; neu

bethau da y byd hwn, ac, hefyd, yr hwn sydd i ddyfod, Esa. lxv. 13. (3.) Ystyried yn ddifrifol a chredu, Jer. xv. 16. (4.) Difa, difrodi, Preg. v. 11. *Bwytta* pobl, neu *fwytta eu cnawd*, yw eu gorthrymu a'u dyfetha yn greulon; a'u hamddifadu hwynt o'r hyn oll a fwynhant, a hyny gyda hyfrydwch fel y *bwytteir* bara, Salm lxxix. 7. Mic. iii. 2, 3. Dad. xvii. 16, a'r xix. 18. *Bwytta cnawd*, ac *yfed gwaed* Crist, sydd ymadrodd cymhwysiadol yn unig at yr ordinhad sanctaidd o Swpper yr Arglwydd; y Swpper hwnw a fwyttaodd efe gyda ei ddysgyblion cyn iddo ddyoddef, ac a adawodd i fod yn ordinhad safadwy yn ei eglwys hyd oni ddelo drachefn. Wrth fwytta o'r bara, ac yfed o'r cwppan yn yr ordinhad honno, nid allwn wneuthur hyny yn *deilwng*, ond pan fwyttawn ac yr yfwn mewn ffydd yn y corph a'r gwaed hwnw, pa rai y mae y bara a'r gwin yn eu cynddrychioli, sef, corph a gwaed yr Arglwydd, Ioan vi. 53; ac wrth fwytta o'r bwyd ysbrydol hwn, ac yfed o'r cwppan ysbrydol hwn, yr ydym yn dangos marwolaeth yr Arglwydd hyd oni ddelo. *Bwytta* ac *addoli*, a olyga y ddefod tau yr hen oruchwyliaeth o addoli ar ol bwytta yr ebyrth; gan gyfeirio at hyn, darlunia St. Paul eu heilunaddoliaeth, trwy ddywedyd, Eisteddodd y bobl i fwytta ac i yfed, ac a gyfodasant i chwareu, 1 Cor. v. 7. Salm xxii. 29.

BWYSTFIL (*bwyst*, gwyllt, a *mil*, milyn). Gelwir y Cenedloedd ac ereill yn *fwystfilod y maes*, o herwydd eu pellder oddi wrth Dduw; eu diffyg o gymdeithas â Duw; a'u hegwyddorion gwaedlyd, creulon, ac ysglyfaethus, Esa. xliii. 20. Cyffelybir amherodraeth y Caldeaid, y Persiaid, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, ac Anghrist, i *fwystfilod;* o herwydd mai trwy foddion cnawdol, creulon, ac anghyfiawn, y gosodwyd hwy i fynu ac eu cynnaliwyd, Dan. vii. 11, a viii. 4. Dad. xii. 13, a'r xvii. Geill y ddau *fwystfil* a gynddrychiolent Anghrist, fod, y naill o honynt, yn arwyddo ei awdurdod gwladol, a'r llall, ei un eglwysig; neu ynte, y naill a arwydda ei awdurdod pabaidd, a'r llall ei un mynachaidd, Dad. xiii. 1, 11. Y *bwystfil o liw ysgarlad*, yr hwn y mae yr Anghrist Rhufeinaidd yn eistedd arno, yw amherodraeth waedlyd Rhufain, wedi ei dosparthu yn mysg tywysogion annuwiol, erlidgar, a chaethion i Babyddiaeth, Dad. xvii. 3. Y *bwystfilod* y rhai a ysant tyddinoedd lladdedig Anghrist, ydynt nid yn unig y rhai a elwir felly yn llythyrenol, eithr y Protestaniaid y rhai a gymmerant feddiant o'u hyspail hwynt, Dad. xix. 17—23.

BYD (*bod*). Gwahaniaethai yr Iuddewon y byd, o ran lle, yn fyd isaf, sef y ddaear a'r awyr; yn ail, sef byd y ffurfafen a'r ser; ac yn drydydd, sef y byd uchaf: neu, fel y dywed creill, y byd o ddaear ac awyr, y byd o angelion, y byd o gyrph crynion a ser, a'r byd uchaf o ysbrydoedd ymadawedig, yr hwn a elwir y drydedd nef. O ran parhad, dosparthent ef yn fyd cyn y dylif, y byd presennol o flaen ymddangosiad y Messiah, y byd iddyfod tan y Messiah, byd yr adgyfodiad, a'r byd tragywyddol. Mewn cyfeiriad at y rhaniadau hyn, crybwyll Paul am *fydoedd*, Heb. i. 2. Yn yr ysgrythyr, y mae y gair *byd* yn arwyddoccau, (1.) Y greadigaeth fel yn cynnwys holl gyfansoddiad y nefoedd a'r ddaear yn nghyd, a phob peth a'r y sydd ynddynt, Ioan i. 10; neu y nef a'r hyn a gynnwys hi, Salm xc. 2, nen y rhan gyfaneddol o'r ddaear, Salm xxiv. 1, a xcviii. 7. (2) Y dynion a breswyliant ar y ddaear, hon, hyny naill ai pawb o honynt, Rhuf. v. 12, neu ynte ran annherfynol o honynt, Ioan vii. 4. Esa. xiii. 11; neu lawer, rhan fawr o honynt, Mat. xviii. 7. Ioan iv. 42. Mat. xxiv. 14, a xxvi. 31. Rhuf. i. 8. x. 18; neu bawb neu y rhan fwyaf o ddeiliaid amherodraeth Rhufain, yn cael ei alw felly o herwydd ei helaethrwydd, Luc ii. 1. Dad. xiii. 3; neu y Cenedloedd megys yn wahanol oddi wrth yr Iuddewon, 1 Ioan ii. 2. (3.) Y llygredd cnawdol sydd yn ffynnu ar y ddaear, Gal. i. 4. Eph. ii. 2. Iago i. 27. 1 Ioan ii. 16. (4.) Cyfiwr a sefyllfa fydol neu ddaearol, Salm lxxiii. 12. Luc xvi. 8. Ioan xviii. 36. 1 Ioan iv. 5; at yr hyn y gellir chwanegu rhwysg allanol, digrifwch, a phethau da y bywyd presennol, Gal. vi. 14. 1 Cor. vii. 31. Y *byd sydd yr awr hon* a ar-

wydda y ddaear hon, yn y cyflwr cnawdol a llygredig y mae ei phreswylwyr ynddo yn bresennol, Tit. ii. 12. Nid yw breiniaeth Crist o'r *byd* hwn, nid yw o ddechreuad, dull, neu dueddiad daearol, Ioan xviii. 36. Y *byd newydd*, a arwydda y cyflwr o ogoniant nefol, Luc xx. 35. Y *byd a ddaw*, a arwydda amser yr efengyl ar ol adgyfodiad Crist, neu ddull yr eglwys tan y Testament Newydd, Heb. ii. 5. a'r vi. 5; neu y cyflwr tragywyddol yr hwn sydd i ddyfod, Mat. xii. 32. Tafod dynion drygionus sydd *fyd o anghyfiawnder*; y mae ei eiriau yn cynnwys drygioni anamgyffredadwy; neu y mae yn *addurn angyfiawnder*, yr hwn sydd yn fynych yn gosod pechod allan mewn lliwiau teg, Iago iii. 8.

BYDDAR (*dar*, swn). 1. Un heb glywedigaeth naturiol. Y gair Heb. *harash*, a arwydda hefyd, *mud* neu *ddystaw*; o blegid y rhai a anwyd yn fyddariaid, nid hawdd y dysgant siarad; er fod amrywiol esamplau wedi bod o'u gwaith yn dysgu adnabod pa beth a ddywedid, wrth symmudiad gwefusau y llefarwr. Yn ol yr hen brophwydoliaethau am dano, iachaodd Crist amryw o fudion a byddariaid, Esa. xxxv. 5, a xxix. 18, a xlii. 18. Mat. xi. 5. *Yr oedd melldigo y byddar, neu roi tramgwydd o flaen y dall*, yn gosod y gweithredydd yn agored i gospedigaeth hynod a digofaint, o herwydd ei fod yn anmharch ysgeler i Dduw yr hwn a'u gwnaethai hwyut felly, Lef. xix, 14. (2.) Un heb wybodaeth neu ofal ysbrydol, i ddal ar bethau dwyfol neu eu deall, Esa. xlii 18, 19, a'r xxix. 18. (3.) Y mae y saint fel *byddar* neu *fudan*, pan y maent yn dyoddef trallodion a gofidiau gyda'r amynedd a'r ymddarostyngiad mwyaf; heb na grwgnach yn erbyn Duw, nac amddiffyn eu hunain yn ddiglawn ger bron dynion, Salm xxxviii. 13, a xxxix. 9.

BYR—HAU, arwydda, (1.) O ychydig hŷd a pharhad, Job xx. 5. Yr oedd goleuni neu lwyddiant Job yn ymddangos yn *fyr*, o herwydd y tywyllwch, sef y gofid bliu oedd yn ei ganlyn, Job xvii. 12. Er mwyn cadwedigaeth yr etholedigion yn mysg yr Iuddewon, neu yn eu lwyn-au, *byrhawyd* dyddiau neu amser difrodiadau y Rhufeiniaid, Mat. xxiv. 22. Ni pharhaodd seithfed pen y llywodraeth Rhufeinig ond dros *fyr amser*. Ni pharhaodd yr amherawdwyr Cristionogol yno ond o ddeutu 160 o flyneddoedd, sef hyd, A. D. 476. Parhaodd breiniaeth yr Ostrogothiaid o ddeutu 60 mlynedd, hyd 553; parhaodd rhaglywiaid Ravenna o ddeutu 160 o flyneddoedd, hyd y flwyddyn 727, pan syrthiodd y ddinas tan awdurdod y Pab, Dad. xvii. 10.

BYS, rhan o'r llaw naturiol. Genir plant yn aml â gormod o fysedd ganddynt; y rhai hyn ydynt yn gyffredin yn afiuniaidd ac yn adëus. Y mae rhai o honynt âg esgyrn ac ewinedd ganddynt; eraill ydynt dalpau o gnawd yn unig. Y rhai hyn a ddylent gael eu cymmeryd ymaith yn mabandod y plentyn. Am fod y bysedd yn ystwyth, yn fywiog, ac yn ddehau iawn at waith, pan briodolir *bys* i Dduw, arwydda weithrediad ei allu; trwy hwn y crewyd y byd, Salm viii. 3; y gwnaed gwyrthiau yn yr Aipht, Exod. viii. 19; ac yr ysgrifenwyd y deg gorchymyn ar lechau o gerrig, Exod. xxxi. 18; trwy hwn yr oedd yr Iesu yn bwrw allan gythreuliaid, ac yn gwneud gwyrthiau ereill, Luc xi. 20. Gallu oedd dynion i weithio, a'r arferiadau a ddeilliant oddi wrth hyny, a elwir eu *bysedd*, Esa. lix. 3. *Bysedd* y saint yn diferu myrr, ar hyd hespenau clo eu calon gauedig, ydynt weithrediadau eu ffydd a'u cariad, wedi eu deffroi trwy ddylanwadau ysbrydol Crist, Can. v. 5. *Estyn bys* at un, a arwydda cellwair âg ef yn wawdus, a'i ddirmygu, Esa. lviii. 9. *Dysgu â'r bysedd*, a arwydda rhyw ddull dirgel ac anunion i ddenu ereill i ddrygioni, Diar. vi. 13. Rhwymo cyfraith Duw am y *bysedd*, yw ei bod genym yn wastad yn ein golwg, fel rheol a rheswm ein holl ymarweddiad, Diar. vii. 3. Bod *bys* bach Rehoboam yn freisgach na lwynau ei dad, a arwydda y byddai yr ymegniad esmwythaf o'i allu a'i awdurdod ef, yn fwy llym a gerwin na dim caeth-wasanaeth a chaledi a ddyoddefasent tan ei dad, 1 Bren. xii. 10. 2 Cron. x. 10.

BYW (*yw*). 1. Bod yn meddu gallu i ymsymmud a gweithredu, Gen. xliii. 28, (2.) Iachâu o glefyd trwm a pheryglus, Ioan iv, 50, 51. (3.) Cael ymborth, a phethau ereill

angenrheidiol at gynnaliaeth bywyd, 1 Cor. ix. 14. (4.) Bod wedi ein bywiogi, a'n maethu gan ddylanwad ysbrydol Duw, Gal. ii. 20. (5.) Cael ein cyssuro a'n hadfywio yn fawr, Salm xxii, 16. 1 Thes. iii. 1. (6.) Cael meddiant parhaus o ras yma, a gogoniant yn ol hyn, Ioan xiv. 19. Y mae Duw yn *byw* ynddo ac o hono ei hun; y mae ganddo fywiogrwydd a dedwyddwch anamgyffredadwy a thragywyddol, Num. xiv. 21. Y mae efe yn *byw* er mwyn ei bobl, yn eiriol trostynt yn ddiorphwys, ac yn dwyn ei fendithion gwerthfawr iddynt, Heb. vii. 25; ac y mae efe yn *byw* ynddynt hwy fel Ysbryd bywhaol; y mae yn trigo yn eu calon trwy ffydd, ac yn egwyddor fywiol oddi wrth yr hon y mae eu bywiogrwydd a'u cyssur ysbrydol yn deilliaw; ac y maent hwy yn *byw* arno ef trwy ffydd, gan dynnu rhinwedd oddi wrth ei air. ei Berson: ei gyfiawnder, a'i gyfiawnder, er eu bywhad, eu bywiogrwydd, a'u cyssur, Gal. ii. 20. Nid *trwy fara yn unig y bydd byw dynion, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw.* Hyd yn nod pan nad oes dim moddion o gynnaliaeth yn ymddangos, yr ydym yn ymddiried yn ngallu ac addewid Duw am ein diwallu âg angenrheidiau bywyd, Mat. iv. 4. Nid yw dynion *yn byw iddynt eu hunain, onde'i Ddaw*, neu Grist, pan na byddant yn gwneud eu hesmwythder cnawdol, eu lleshad, neu eu hanrhydedd eu hunain, yn ddyben penaf ganddynt, eithr ei ogoniant ef, ac adeiladaeth ei eglwys, Rhuf. xiv. 7, 8. 2 Cor. v. 5, 14, 15. *Byw ger bron Duw*, yw cael ein cynnal gan ei drugaredd a'i ddaioni, byw dan ei ofal neilltuol, ac yn yr ymarferiad o'i ofni a'i anrhydeddu, Hos. vi. 2. Gen. xvii. 18. Y mae *dynion yn byw wrth y cleddyf*, pan y byddant yn. cynnal eu hunain a'u teuluoedd trwy yspail a rhyfel, Gen. xxvii. 40. Petr *oedd yn byw fel y Cenedloedd*, pan oedd yn arfer ymborth glan, heb barchu y gyfraith seremoniol, Gal. ii. 14. *Bywioliaeth*, yw golud gwr, trwy yr hwn y cynhelir ei fywyd, Luc xv. 12. Marc xii. 44; neu yr amser nodedig i ymddwyn plentyn yn y bru, sef naw mis, Gen. xviii. 10. 2 Bren. iv. 16, 17. *Bywiol*, yw yr hyn sydd â bywyd ynddo; a gelwir hyd yn nod dwfr rhedegog yn ol dull priodol yr Hebraeg yn ddwfr *bywiol*, Num. xix. 17. Mae Crist yn *faen bywiol*, ac yn *ffordd fywiol*; y mae ganddo ef fywyd ynddo ei hun, ac efe a fywiocca hefyd, ac a ddyg i fywyd tragywyddol, yr holl rai a unir ac a rodiant gydag ef, 1 Petr ii. 4. Heb. x. 20. Gelwir dylanwadau ei Ysbryd yn ddwfr *bywiol*, am eu bod yn barhaus yn anfon allan rinwedd newydd, i geneddlu, cadw, adferu, a pherffeithio ein bywyd ysbrydol, Can. iv. 15. Ioan iv. 10. Dad. xxii. 17. Y *rhai byw*, ydynt naill ai y rhai sydd yn byw yn y byd hwn, Ezec. xxvi. 20, neu, ynte, y rhai sydd yn byw yn y sefyllfa dragywyddol, Mat. xxii. 32. Gelwir gwasanaeth crefyddol y saint yn aberth *bywiol* a *rhesymol* i'w wahaniaethu oddi wrth yr hen ebyrth o anifeiliaid; ac o herwydd ei fod yn deilliaw oddi wrth enaid wedi ei fywhau yn ysbrydol, y mae yn cael ei gyflawni mewn dull bywiol ac egniol, Rhuf. xii. 1. Mae ymadroddion Duw yn *fywiol*; maent wedi deilliaw oddi wrth y bywiol Dduw, yn tebygu iddo, ac yn foddion i fywioccau a chyssuro ein heneidiau, Act. vii. 38. Y saint ydynt yn *feini bywiol*, wedi eu bywhau gan yr Ysbryd Glan, ac yn fywiog mewn sancteiddrwydd, 1 Petr ii. 5; ac y mae eu gobaith yn *fywiol*, am ei fod yn tarddu oddi wrth fywyd ysbrydol, ac yn annog yn nerthol i sancteiddrwydd, 1 Petr i. 3.

C

CAB, mesur Hebreaidd, gwlyb a sych, yn cynnwys y chweched ran o seth, a'r ddeunawfed o epha; y mesur gwlyb a gynnwysai ddau *bein* Brutanaidd; a'r mesur sych neu sych, ddau *beint* a'r bummed ran o *beint*, 2 Bren. vi. 25.

CABAN, *(ca*, cadwraeth) cell fechan mewn carchardy. "I'r daeardy, ac i'r *cabanau*," Jer. xxxvii. 16. Ymddengys mai pydew dwfn oedd y daeardy, wedi ei gloddio yn syth i'r ddaear, yn nghanol cyntedd agored oddi amgylch, pan yr oedd y tai mawrion wedi eu hadeiladu; a bod yn ystlysau hwn, yn agos i'r gwaelod, gelloedd wedi eu naddu, er yn drigfaoedd gwahanol i'r trueiu-

iaid hyny y rhai a ollyngent i lawr yno.

CABL, *(ca-pyl*, pyledd) goganu a difenwi Duw, trwy wadu neu ddywedyd yn anweddus am ei berffeithrwydd, ei air, neu ei ordinhadau; a thrwy gyfrif iddo unrhyw beth anaddas neu bechadurus, 2 Sam. xii. 14. Tit. ii. 5. Dad. xiii. 6. Mewn ystyr anmhriodol, dywedir fod dynion yn cael eu cablu, pan fyddont yn cael eu bychanu, eu gwaradwyddo, eu gwatwor, a dywedyd pob drygair am danynt, 1 Bren. xxi. 10. Rhuf. iii. 8. Dylai *cabledd* yn erbyn Duw gael ei gospi â marwolaeth gan y swyddog gwladol, ac â thraddodiad i Satan gan yr eglwys, Lef. xxiv. 16. 1 Tim. i. 20. Beth yw y *gabledd* anfaddeuol *yn erbyn yr Ysbryd Glan*, sydd wedi bod â llawer o ddadleu yn ei chylch. Y mae yr achlysur a barodd i Grist grybwyll am dani, Mat. xii. 21—31, wedi iddo amryw i feddwl ei bod yn gorwedd mewn *priodoliad* o'i wyrthiau ef i awdurdod a llywodraeth y diafol: eithr pan ystyriwn hefyd Heb. vi. 4, 5, a'r x. 26—30, ymddengys mai gwrthodiad cyndyn a maleisus o Grist, a holl drefn yr iachawdwriaeth trwyddo ef, yn wrthwyneb i'r argyhoeddiadau cryfaf o eiddo yr Ysbryd Glan, yw yn wir y trosedd arswydus hwn, pa un, er rhwystro dynion rhag pechodau rhyfygus, y mae Duw wedi sefydlu i fod yn anfaddeuol.

CABUL *(budr)*. 1. Dinas oedd yn sefyll ar derfyn rhandir llwyth Aser, Jos. xix. 27. (2.) Yr enw a roddes Hiram brenin Tyrus ar yr ugain dinas a anrhegodd Solomon iddo, i ddangos ei anghymmeradwyaeth o honynt, 1 Bren. ix. 13.

CACWN, *(cwn)* math o wenyn gwyllion mawrion, â dwyfronau duon iddynt; maent yn finion a niweidiol iawn; a chanlynir brathiad eu colynau â phoen angherddol ac ennynfa, ac hyd yn nod perygl o farwolaeth. Ymddengys i heidiau mawrion o honynt fiino y Canaaneaid yn nyddiau Josuah, Deut. vii. 20. Jos. xxiv. 12. Dywed *Elian* i ni, i'r Phaseliaid, y rhai a breswylient o amgylch mynyddoedd Solyma, gael eu gyrru allan o'u gwlad enedigol gan gacwn. Gan mai Pheniciaid neu Ganaaneaid oedd y Phaseliaid hyn, y mae yn debyg mai yr un yw y dygwyddiad hwn â'r hyn a gymmerodd le yn nyddiau Josuah.

CAD—AU, *(ca)* rhyfel, brwydr, ymladdfa, Salm xxvii. 3. Esa ix. 5.

CADACH, *(tach*, difianiad) darn o liain, gwlanen, &c. (1.) Clwt, cerpyn, bril, Num. xix. 15. 2 Sam. xx. 12. (2.) Pethau ffiaidd a diwerth, Esa. xxx. 22.

CADARN *(cad)*. 1. Yr hyn sydd yn meddu llawer o nerth, neu yn amlygu llawer o hono, Exod. vi. 1. (2.) Diogel a sier, Salm xxx. 7. Gelwir Satan yn *un cadarn*, a Christ yn un *cryfach* nag ef; gyda nerth a bywiogrwydd mawr y mae Satan yn cadw meddiant o'r galon, ac yn arglwyddiaethu arni; eithr gyda rhagorach nerth, medrusrwydd, a bywiogrwydd, y mae yr Iesu yn ei orchfygu ef yn ei neuadd hon, ac yn ei yrru allan, Mat. xii. 29. Luc xi. 22.

CADES, *(sancteiddrwydd)* enw lle o du y dehau i wlad Canaan, o ddeutu 24 milltir o du y dehau i Hebron, ac ar gwrr anialwch Paran Gelwid hi gynt *Enmispat*, o herwydd mai yno y barnodd y Canaaneaid eu pobl, gerllaw ffynnon, Gen. xiv. 7. Hwyrach iddi gael ei galw Rithma, oddi wrth y coed meryw, neu *turpentine*, neu bryswydd ereill, y rhai ydynt yn agos iddi, Num. xxxiii. 18, a xii. 16, a xiii. 1, a xxxii. 8. Yma y bu yr Hebreaid yn hir yn ymdaith, ac oddi yma yr anfonodd Moses yr yspiwyr i edrych tir yr addewid, Deut. i. 46. Pa un ai hon oedd y Cades yn anialwch Zin, lle bu farw Miriam, ni feiddiwn sicrhau. Dywed *Lightfoot* yn bennodol mai é; a thybia *Wells* nad è. Yr oedd Cades arall yn rhandir Naphtali, yr hon a roddwyd i'r Gersoniaid, ac a wnaed yn ddinas noddfa, Jos. xxi. 32, a xx. 7. Yr oedd Cison, yn llwyth Issachar, yr hon a roddwyd hefyd i'r Gersoniaid, yn cael ei galw hefyd *Cades*, 1 Cron. vi. 72.

CADW *(cad)*. 1. Gwarchadw neu ddal gafael ar, 2 Tim. i. 14. (2.) Coño, Luc ii. 51. (3.) Amddiffyn ac amgeleddu, Salm cxxvii. 1. (4.) Cadw ac arfer, Salm cxix. 4. Act. xvi. 4. (5.) Achub neu waredu oddi wrth euogrwydd pechod, ei awdurdod lywodraethol, a'i lygriad, Ioan xvii. 15. (6.) Gwneuth-

ur yn gyflawn ac yn berffaith, Mic. xix. 17.

CADWYN *(cadw)*. A chadwynau y rhwymid y delwau yn eu temlau, Esa. xl. 19; neu droseddwyr yn y carchardy, neu gaethiwed, Jer. lii. 11. Byddai cadwynau aur yn cael eu gwisgo i addurno y gwddf, Gen. xli. 42. Cyfraith Duw sydd yn *gadwyn:* y mae yn attal rhag penrhydd-did cnawdol; yn anesmwyth i ddynion llygredig; ac yn addurn godidog i'r saint, y rhai a ufuddhant iddi, Diar. x. 9. Y *cadwynau aur* sydd yn addurno gwddf yr eglwys, a arwyddant ei gwirioneddau gogoneddus, a'i hordinhadau gwerthfawr, y rhai ydynt mewn cyssylltiad hardd a diwahan â'u gilydd; yn nghyd â doniau ei swyddogion a'i haelodau. Y *cadwynau aur* sydd yn addurno gyddfau saint neilldiol, a arwyddant eu doniau, eu grasau, eu bendithion, a'u gweithredoedd da, y rhai ydynt yn hynod addurniadol i'w ffydd hwynt, Can. i. 10, a iv. 9. Y *gadwyn* fawr â pha un y rhwymir Satan tros fil o flynyddoedd, yw attaliadau nerthol rhagluniaeth dwyfol, a'r cyfreithiau uniawn yn cael eu cyflawni yn ffyddlon yn erbyn troseddau gwaradwyddus, Dad. xx. 1. Y *cadwynau* tywyllwch, â pha rai y rhwymir yr angelion a syrthiasant hyd ddydd y farn, ydyw arfaeth wrthodawl Duw, meilldith y ddeddf dorredig, eu chwantau pechadurus eu hunain, a'u cydwybod gondemniol, 2 Petr ii. iv. Judas 6. Caethiwed a thrallod a elwir yn *gadwynau* neu *lyffetheiriau;* maent yn attal ein rhydd-did, yn ein gwneud yn anesmwyth, ac yn arwyddion gwaradwyddus o'n heuogrwydd; ac etto, os er mwyn Crist eu dygir, y maent yn addurn anrhydeddus, Galar. iii. 7. 2 Tim. i. 16. *Gwna gadwyn*, ymbarottoa erbyn caethiwed a chaledi, Ezec. 7. 23. Balchder sydd fel *cadwyn* yn cadw dynion tan ei awdurdod; ac y maent yn ei wisgo am danynt fel addurn, yn eu tyb ffol hwy, Salm lxxiii. 6.

CAE, *(ca)* gwrych i amddiffyn meusydd, gerddi, &c. 1 Cron. iv. 23. Gofal rhagluniaethol Duw, swyddogion, llywodraethwyr, neu ba beth bynag a fyddo yn amddiffyn rhag niweid a pherygl, a elwir yn *gae*, Job i. 10. Esa. v. 5. Ezec. xiii. 6. Gofidiau a rhwystrau a elwir yn *gaeau*, am eu bod yn attal ein ffordd, ac yn rhwystro i ni gyflawni a chaffael yr hyn a ewyllysiom, Galar. iii. 7. Job xix. 8. Hos. ii. 6. Ffordd y diog sydd fel *cae drain;* y mae efe bob amser yn ofni rhwystrau mawrion ar ei ffordd i wneuthur dim daioni, ac yn fynych yn ymddvrysu mewn anhawsderau nas gall ddiangc allan o honynt, Diar. xv. 19.

CAENEN, *(caen)* tôad, gorchuddiad. "A'r bore yr oedd *caenen* o wlith o amgylch y gwersyll," Exod. xvi. 13. Yr oedd dwy gaenen o wlith, un tan y manna, ac un arno; a'r tipynau manna oeddynt rhwng y ddau wlithyn yn cael eu cadw yn bur. Mewn cyfeiriad at hyn, y mae yn cael ei alw, y *manna cuddiedig*. Cymbar Exod. xvi. 13, 14, Num. xi. 7, â Dad. ii. 17.

CAER, *(cae)* amddiffynfa, twr. Arwydda, (1.) Mur o amgylch dinas, Heb. xi. 30. (2.) Iachawdwriaeth yr Arglwydd, yr hon sydd fel mur yn amddiffynfa gadarn, ddiysgog, a pharhaus i'w bobl, Esa. xxvi. 1, a xxxvii. 27, a lx. 14, 18. (3.) Eglwys y Cenedloedd, yn mynegu ei chadernid, wedi ei hadeiladu trwy ffydd, ar graig yr oesoedd, Can. viii. 9, 10.

CAETH, *(cae)* un wedi ei gymmeryd yn garcharor mewn rhyfel Y mae tri math o gaethiwed: (1.) Naturiol, pan y mae dynion yn cael eu dal gan y gelyn, ac yn cael eu dwyn allan o'u gwlad eu hunain, a'u cadw mewn caeth-wasanaeth, Deut. xxviii. 27, 48. (2.) Efengylaidd, pan ddelir ac y tynnir dyn gan gariad hollalluog Crist, ac y darostyngir ei holl galon a'i serchiadau i ufuddod ffydd, 2 Cor. x. 5. (3.) Pechadurus, pan ddygir dyn ymaith, ac y gorthrymir neu y caethiwir ef tan awdurdod Satan, a'i lygredd tufewnol ei hun, Rhuf. vii. 23. 2 Tim. ii. 26. Arwydda *caethiwed* befyd luaws o gaethion, y rhai a wnaethent ereill yn gaethion. Y mae yr Iesu yn *caethgludo caethiwed*, pan y mae yn gwneuthur i ddiaflaid a dynion drygionus wasanaethu fel caethion iddo wrth ddwyn ei waith yn mlaen; a phan y mae yn dal ac yn darostwng ei bobl trwy air ei ras; ac yn eu gosod yn rhwymyn y cyf-

ammod newydd, Salm lxviii. 18. *Caethgludodd* Barac y *gaethglud*, pan gymmerodd efe y Canaaneaid yn garcharorion, y rhai, ychydig cyn hyny a gaethiwasent yr Israeliaid yn ddychrynllyd, Barn. v. 12. Gellir gweled yr amrywiol droion o gaethwasanaeth a chaethgludiad a ddygwyddasant i'r Hebreaid dan y geiriau *Israel* a *Judah*.

CAFELL, *(caf)* côr eglwys. *Cafell y deml*, oedd y cyssegr sancteiddiolaf, i'r hwn yr âi yr archoffeiriad un dydd bob blwyddyn: lle yr oedd yr arch a'r drugareddfa, &c. a'r lle y byddai y Jehofah yn egluro ei feddwl, rai prydiau, trwy lefaru geiriau.

CAIAPHAS, *(chwiliwr dyfal)* archoffeiriad yr Iuddewon, yr hwn a ganlynodd Simeon mab Camith o ddeutu A.D. 16, neu 25, fel y tybia *Calmet*, ac a briododdi ferch Annas. Dilys yw mai efe oedd yr archoffeiriad y fiwyddyn honno pan y dyoddefodd ein Hiachawdwr. Pan ymgynghorodd yr offeiriaid a'r Phariseaid, y rhai oeddynt wedi blino yn eu calonau o herwydd cyfodiad Lazarus o feirw, pa un a wnaent ai dal yr Iesu neu beidio, a'i roddi ef i farwolaeth, edliwiodd Caiaphas iddynt eu hurtrwydd, a dywedodd wrthynt, fod yn angenrheidiol i'r Iesu farw dros y bobl, fel na ddyfethid yr holl genedl. Meddyliodd yn ddiammau fod ei farwolaeth ef yn angenrheidiol i rwystro y Rhufeiniaid rhag dinystrio eu cenedl; eithr Ysbryd Duw, yr hwn a gyfarwyddodd ei wefusau yn yr ymadrodd hwn, a fwriadodd iddo arwyddocau fod marwolaeth yr Iesu yn angenrheidiol er iachawdwriaeth plant Duw, Iuddewon a Chenedloedd, Ioan xi. 49, 50.

Pan ddaliwyd yr Iesu gan weision Caiaphas, ac ereill o'r dyhirwyr, dygwyd ef yn gyntaf at Annas, a holwyd ef ganddo; wedi hyny dygwyd ef i lys Caiaphas, lle yr oedd yr offeiriaid a'r henuriaid wedi ymgasglu i'w gollfarnu. Gwedi methu o'r gau-dystion i ddwyn dim yn ei erbyn i'r perwyl hwnw, Caiaphas, i'r dyben i'w gyhuddo, a'i tyngheddodd ef trwy y Duw byw, i fynegu pa un ai efe oedd y Crist, y gwir Fessiah, neu nad ê. Addefodd yr Iesu mai efe oedd, ac yr ymddangosai wedi hyny ar y cymmylau. Caiaphas, megys pe buasai wedi dychrynu, a rwygodd ei ddillad; a chan alw ei gyfeillion yn dystion o'r gabledd a glywsent, a ofynodd, beth a dybient hwy oedd efe yn haeddu? cydunasant oll ei fod yn haeddu marwolaeth. Diammau fod Caiaphas yn bresennol yn y cyngor y diwrnod hwnw, pan draddodasant yr Iesu i Pilat, ac yr erfyniasant am ei groeshoelio ef, Ioan xviii, 13—28. Mat. xxvi. 57—66. Luc xxii. 54—69. Marc xiv. 53—64. Yn fuan ar ol hyn, bu, mewn cyfarfod o eiddo y cyngor, yn ymresymu â'r apostolion paham y meiddient hwy, yn wrthwyneb i'r hyn a orchymynasid iddynt, bregethu yr Iesu fel y Messiah; hwythau a attebasant, eu bod yn rhwym i ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion, Act. v. 27—32. Yn A.D. 35, diswyddwyd Caiaphas a Pilat gan Vitilius, llywodraethwr Rhufeinig Syria; a gwnaed Jonathan, mab Annas, yn archoffeiriad yn ei le.

CAIN, *(meddiant)* mab hynaf Adda. Pan esgorodd ei fam Efa arno, ymddengys iddi dybied mai efe oedd y Gwr dwyfol, yr hwn a ddinystriai ben neu awdurdod y Diafol. Pan aeth yn fawr, ymroddodd i lafurio y ddaear, fel y gwnaeth ei frawd Abel i fugeilio defaid. Ar y dydd Sabbothaidd diweddaf o'r wythnos, neu yn niwedd y fiwyddyn, dygodd Cain ei ffaen-ffrwyth yn offrwm i'r Arglwydd, ac Abel ei frawd a ddug ffaen-ffrwyth ei ddefaid, o blegid bugail oedd efe. O herwydd i Cain offrymu ei aberth mewn anghredineiaeth, nid arwyddodd Duw iddo edrych arno trwy ddiscyniad tân o'r nefoedd, neu unrhyw nod cyffelyb, fel y gwnaeth i Abel. Ennynodd digllonedd Cain wrth weled ei frawd yn cael ei gydnabod a'i gymmeradwyo gan y Nefoedd; ac arwyddodd yr unrhyw trwy ei wynebpryd sarrug a'i dymher afrywiog. Ymresymodd Duw âg ef, a dywedodd wrtho, fod ei waith yn peidio edrych ar ei offrwm yn gyfan-gwbl o achos ei ddrygioni ef ei hun. Gwedi hyn, aeth Cain ac a drigodd yn nhir Nod; o du y dwyrain i Eden. Tra yr oedd yn trigo yn y wlad hon, ganwyd iddo fab, ac efe a alwodd ei enw ef Enoc, Gen. iv. 17.

CALAH, *(hen)* hen ddinas yn Assyria, a adeiladwyd gan Assur, yn

fuan wedi y dylif: oddi wrthi y cafodd y wlad o amgylch, o du y gogledd-ddwyrain i'r Tigris, ac o du y dehau i fynyddoedd Gordean yn Armenia, ei galw, *Calachene*, neu *Calacine*, Gen. x. 11.

CALAMUS, sydd fath o gorsen beraroglaidd, i'w chael yn ddarnau o 10 neu 12 modfedd o hyd, ac yn gygnog yn yr un modd â chorsen gyffredin, ond nid mor drwchus â hi. Y mae ei cheuedd yn llawn o sylwedd ysbwngog, rywbeth yn debyg i wê y pryf coppyn, ond ei fod yn bêr iawn ei arogl pan fyddo newydd ei agor. Y mae yn tyfu yn yr India Ddwyreiniol, ac a arferir yn fynych yn gyffaith, a dywedir ei fod yn adfywio ac yn iachau y galon, ac yn glanhau y cylla; a phan losgir ef gyda *thurpentine*, tybir fod ei fwg yn feddyginiaeth i afiechyd yn y ddwyfron. Yr oedd hwn yn rhan o fasnach y Tyriaid, a'r Groegiaid, a'r Daniaid, Ezec. xxvii. 19; ac yn un o ddefnyddiau yr ennaint sanctaidd Iuddewig, Exod. xxx. 23. Esa. xliii. 24. Cyffelybir rhadau y saint iddo: y maent yn beraidd, ac yn dderbyniol gan Dduw a'i bobl; y maent yn puro y galon, yn cyffroi cariad at Dduw, a gwresogrwydd dros ei ogoniant, ac awydd ditrifol am ei gyflawnder, Can. iv. 14.

CALCEDQN, maen gwerthfawr o liw llwyd, ac wedi ei dywyllu â glas, melyn, neu borphor. Y mae yn tebygu yn fawr i'r achat cyffredin. Y fath oreu yw y rhai sydd â gwawr welw-las arnynt; a galwyd hwy felly, medd *Arethas*, oddi wrth enw y ddinas *Calcedon* yn Bithynia. Hwn oedd y trydydd maen yn sylfaen y Jerusalem Newydd, ac y mae yn gosod allan yr Iesu yn rhagoroldeb a chyssylltiad rhyfeddol ei ddwy natur, Dad. xxi. 19.

CALCH, *(cy-alch)* math o sylwedd a ffurfir o gerrig, cregin, neu esgyrn, &c. wedi eu llosgi. Y mae yn ddefnyddiol iawn i adeiladu, ac i wrteithio meusydd. Un o freninoedd Moab, wedi cael gafael ar frenin Edom, yr un hwnw a gynnorthwyodd Jehoram, hwyrach, naill ai yn fyw ai yn farw, a losgodd ei esgyrn ef yn *galch*, Amos ii. 1. Lluoedd yr Assyriaid a gyffelybir i *losgfa calch*, pan y torrwyd y rhan fwyaf o honynt ymaith trwy fath o haint, gan dân digofaint Duw, Esa. xxxiii. 12. Gwneud cerrig yr allorau fel cerrig *calch* briwedig, yw eu tynnu i lawr, eu dryllio yn ddarnau, a diddymu yr addoliad eilunaddolgar yn llwyr, Esa xxvii. 9.

CALDEA, *(fel yspeilwyr)* gwlad yn Asia, yn gorwedd rhwng y 30ain a'r 35ain gradd o ledred gogleddol, a gan mwyaf rhwng y 45ain a'r 49ain gradd o Hydred dwyreiniol oddi wrth Lundain; ac felly nis gellir dywedyd ond ei bod yn sefyll o du y gogledd i Judea. O herwydd fod byddinoedd y Caldeaid i deithio heibio i Syria, wrth fyned i ruthro ar y wlad honno. Pan ei cymmerir mewn ystyr helaeth, y mae yn cynnwys Babilonia hefyd, ac yr oedd yr afon Tigris o du y dwyrain iddi, Mesopotamia o du y gogledd, Arabia Anial o du y gorllewin, a Llyngclyn Persia, a rhan o Arabia Ddedwydd o du y dehau iddi. Yr oedd y tir yn fras a ffrwythlawn iawn, ond heb nemawr wlaw, bron ddim, weithiau, dros wyth mis olynol; ac nid oedd llawer o'i eisiau, gan fod y Tigris a'r Euphrates yn ei dyfrhau yn flyneddol; a'r trigolion, trwy lafur poenus, a gyflawnent yr hyn oedd ddiffygiol. Ei henw cyntaf oedd *Sinar*, o herwydd i'r Argiwydd, trwy gymmysgiad yr ieithoedd, fel pe byddai, *ysgwyd* y trigolion allan o honi, i boblogi y rhan arall o'r byd. Pa ddinasoedd oeddynt yn Caldea a elwir yn briodol felly, yr hon a orweddai o du y dehau i Babilonia, ni pherthyn i ni chwilio: eithr pan ei cymmerid fel yn cynnwys Mesopotamia, yr oedd Ur, Carchemis, ac ereill yn perthyn iddi.

Ymddengys fod y Caldeaid, neu y *Casdim*, wedi deilliaw mewn rhan oddi wrth Arphaxad mab Sem, ac mewn rhan, oddi wrth Chesed mab Nachor brawd Abraham. Ymddengys oddi wrth *Herodotus* yr hanesydd, ac oddi wrth yr ysgrythyrau, fod y Caldeaid, tros rai oesoedd, wedi ymroddi i anrhaith ac yspail, yn yr un dull â'r Arabiaid. Dygodd tair byddin o honynt gamelod Job ymaith, Job i. 17. Ymddengys i'r Assyriaid, tan Pul, eu darostwng hwy i drefn, a'u ffurfio yn freniniaeth, sef Babilon, i Nabonassar ei fab ieuangaf, Esa. xxiii. 13. Y *Caldeaid*, a elwid felly mewn ystyriaeth, oeddynt blaid neu gymdeithas

o ddysgedigion neu ddynion gwybodus, megys offeiriaid, athronyddion, seryddwyr, planedyddion, dewiniaid, y rhai, dywedir, a drigent mewn talaeth wrthynt eu hunain; a'r lleill o'r bobl a elwid yn Fabiloniaid, Dan. ii. 2, 4.

CALEB *(fel y galon)*. 1. Mab Jephunneh, a brawd Cenaz, o lwyth Judah. Pan ddychwelodd yr yspiwyr o edrych ansawdd gwlad yr addewid, Caleb a Josuah, wedi eu cynnysgaethu âg Ysbryd yr Arglwydd, a wrthddywedasant y lleill, ac a ddarluniasant Canaan fel gwlad dda; a chan rwygo eu dillad gan ofnd o herwydd fod y gynnulleidfa, trwy goelio y lleill, ar fedr dychwelyd i'r Aipht, hwy a geisiasant yn ddifrifol i'w dwyn i gredu y gallent, gyda chynnorthwy yr Arglwydd, ei goresgyn yn hawdd. O herwydd eu ffydd, hwy yn unig, o'r dauddeg yspiwyr, a fuant byw ar ol y diwrnod hwnw; hwy yn unig, o'r holl wyr arfog, a ddaethant allan o'r Aipht, a aethant i mewn i Ganaan; ac addawodd Moses i Caleb feddiant o'r wlad o amgylch Hebron, yn mha le, heb yr arswyd lleiaf, y gwelsai efe y cawri anghenfilaidd. Yn mhen pum mlynedd a deugain ar ol hyn, gan nad oedd cryfder a gwroldeb Caleb wedi lleihau mewn un modd, efe a erfyniodd ar Josuah, yr hwn oedd yn myned i ranu y tir, roddi iddo ef wlad y cawri, megys y rhagfynegasai Moses; fel, trwy ymorphwys ar gynnorthwy y Nefoedd, y gallai efe gael yr anrhydedd o'u gyrru hwynt allan. Josuah a'i benditliodd ef, ac a roddodd iddo ei ddymuniad. Gyda chynnorthwyo rhai o'i frodyr o lwyth Judah, aeth i fynu yn erbyn Hebron, a lladdodd yno feibion Anac. Cychwynodd oddi yno tua Debir; a chan fod y lle yn hynod gadarn, efe a gynnygodd Acsa ei ferch i'r gwron a'i hynnillai. Othniel ei nai a'i hynnillodd, ac a gafodd Acsa, yn nghyd â chyfran helaeth o dir hefyd. Pa bryd neu pa fodd y bu farw Caleb, nis gwyddom. O'i dri mab, sef Iru, Elah, a Naam, bu iddo hiliogaeth luosog ac anrhyddedus, Num. xiii, a xiv. Jos. xiv. 6—15, a xv. 13—19. Barn. i. 9—15. 1 Cron. iv. 15—20.

2. *Caleb* neu Chelubai, mab Hezron, a brawd Jarameel; ei wragedd, hwyrach olynol, oeddynt Azubah, Jerioth, ac Ephrath; a'i orderchadon, Ephah a Maacah; ei feibion oeddynt Jeser, Sobab, Ardon, Hur, Mesah, Haran, Mozah, Garez, Seber, Tirhanab, Saaph, Sefah, a merch o'r enw Acsa; ac ereill hefyd, hwyrach. Ei hiliogaeth ef oeddynt yn dra lluosog, 1 Cron. ii. 9, 18—20, 42—45.

3. *Caleb*, mab Hur, ac wyr y Caleb blaenorol. Ei feibion oeddynt Sobal, Salmah, a Hareph. Poblogodd ei hiliogaeth ef yr holl wlad o amgylch Bethlehem, Ciriath-jearim, Beth-gader; &c. 1 Cron. ii. 50—55.

4. *Caleb*, yr hon sydd, hwyrach, yr un â *Caleb Ephrath*, dinas lle, ymddengys, y bu Caleb mab Hezron ac Ephrath yn cyfanneddu. I henuriaid Caleb yr anfonodd Dafydd ran o'r yspail a gymmerodd efe oddi ar yr Amaleciaid, 1 Sam. xxx. 14.

CALED *(cal, durfing)*. Heblaw ei arwyddoccad naturiol o galedwch unrhyw ddefnydd, mae y gair yn arwyddo, (1.) Galluog, neu â mawr awdurdod ganddo; felly yr oedd meibion Serfiah yn *rhy galed*, sef yn rhy gryfion ac anystwyth i Dafydd i'w plygu a'u dwyn i gospedigaeth, 2 Sam. iii. 39. (2.) Anhawdd, pethau nad ellir prin eu gwneuthur, neu eu deall a'u gwybod: felly darllenwn am achosion *celyd*, gofyniadau *celyd*, ac iaith *galed*, Exod. xviii. 26. 1 Bren. x. 1. Ezec. iii. 5. (3.) Peth creulon, annyoddefol, gofidus, ac annhrugarog; felly darllenwn am gaethiwed *caled*, ymadrodd *caled*, gwr *caled*, Exod. i. 14. Ioan vi. 60. Mat. xxv. 24. *Caledi* ysbryd, a arwydda ofid a galar mawr yn dufewnol, 1 Sam. i. 15. *Caledwch* calon, a arwydda hurtrwydd mawr ac ystyfnigrwydd mawr mewn pechod, Ezec. iii. 7. Ffordd troseddwyr sydd *galed*; maent yn gyndyn yn eu pechodau, a'u llwybr sydd anhyfryd a pheryglus, Diar. xiii. 15. Bod yr Arglwydd yn *caledu* dynion, a arwydda ei waith yn attal ei ddylanwadau graslawn oddi wrthynt mewn modd cyfiawn; ei waith yn eu taflu, yn ol ei benarglwyddiaeth gyfiawn, i'r cyfryw amgylchiadau ag y gall eu llygredd eu defnyddio i ddybenion drwg; a'i waith yn caniattau i Satan, cyfeillion pechadurus, a'u chwantau eu hunain, i'w tynnu i'r naill bechod ar ol y llall, a'u gwneud yn hyfion

ac ystyfnig mewn drygioni, Exod. iv. 21, a vii. 3, a xiv. 4. Rhuf. i. 24. Y mae dynion yn *caledu* eu calonau, eu hwynebau, neu eu gwâr-au, pan y byddant yn myned yn fwyfwy cyndyn a digywilydd mewn drygioni, ac yn nacâu cymmeryd eu diwygio, 1 Sam. vi. 6. Jer. v. 3. Diar. xxix. 1. *Ymgaledu* mewn gofid, yw goddef poenau angerddol, gyda gwroldeb, oddi ar chwennychiad difrifol am farwolaeth, Job vi. 10. "Brawd a anwyd erbyn *caledi*." Hwnw yn unig sydd yn frawd ac yn gyfaill cywir, a ymddyg felly mewn cyfyngder a *chaledi*, yn gystal âg mewn amser o lwyddiant ahawddfyd, Diar. xvii. 17. Y cyfryw un yw Crist.

CALNEH *(ein cyflawniad)*. *Calno*, dinas a adeiladwyd gan Nimrod yn ngwlad Sinar, Gen. x. 10. Esa. x. 9. Os yr un yw â Channe, yr oedd ei phreswylwyr yn marchnatta â'r Tyriaid, Ezec. xxvii. 23. Tebygol mai yr un ydyw â Ctesiphon ar lan yr afon Tigris, o ddeutu tair milltir o Seleucia, yr hon fu dros ryw gymmaint o amser, yn brifddinas y Parthiaid, ac a helaethwyd yn ddirfawr, ac a harddwyd gan Pacorus, un o'u breninoedd hwynt.

CALFARIA. Arwydda y gair Lladin hwn yr un peth â'r gair Hebreig Golgotha, sef *lle y benglog*; cafodd y bryn hwn ei alw felly oddi wrth ei debygolrwydd i lun penglog dyn; neu am mai hwn oedd lle dienyddiad drwg-weithredwyr; neu am mai yma y tefid penglogau yr holl anifeiliaid a leddid yn bech-eb-yrth yn Jerusalem. Yr oedd y bryn bychan yma yn sefyll o du y gogledd i fynydd Sion, ac yn y gogledd-or-llewin i Jerusalem; a chan mai yno y byddai drwg-weithredwyr yn cael eu dienyddio, yr ydoedd wedi ei gau o'r tu allan i'r ddinas, ac yn cael ei gyfrif yn lle afian a melldigedig. Dywed rhai mai yma y claddwyd Addaf; ond dilys yw mai yma y cafodd yr ail Addaf, sef Iesu Grist, ei groeshoelio, ac mewn gardd gyfagos iddo y claddwyd ef. Uwch ben ei fedd, adeiladodd Elen ferch Coel Godebog, a mam Cystenyn Fawr, eglwys hardd-wych, o ddeutu A. D. 330, â pha un y bu torfëydd o bererinion coel-grefyddol tan enw Cristionogion yn ymweled, gyda rhwysg a ffug-addoliant mawr, Luc xxiii. 33.

CALON, *(cal, canol)* meddwl. Dywed rhai mai o'r Hebraeg *chalon*, yr hwn a arwydda *ffenestr*, y mae y gair *calon* wedi deilliaw, am mai drwy dyllau y mae y galon yn derbyn awyr iddi, fel drwy ffenestr. Y mae y galon ddynol yn beth yr ydym yn dra chynnefin â hi, ac etto yn dra anwybodus am dani. Er ei bod yn eisteddle y serchiadau a'r anwydau, yn yr ystyr yr arferir hi yn yr ysgrythyr, a ninnau, am hyny, yn gynnefin â'i gweithrediadau ar bob achlysur, etto nid oes ond Duw yn unig a'i hedwyn hi, Jer. xvii. 10. Mynega yr Arglwydd a'r Iachawdwr Iesu Grist, yr hwn a ddangosodd ei Ddduwdod ar lawn achlysur, trwy arfer y briodoledd honno o eiddo y gwir Dduw, sef chwilio y galon, mai o galon dyn y mae pob drwg yn dyfod allan, Mat. xv. 18. Dim cynt y daeth anghrediniaeth i mewn i galon dyn, nag yr aeth y galon yn *ddrwg*; ac y mae pob peth a ddygodd hi allan wedi y pryd hwnw, wedi bod yn ffrwyth y drwg hwn; hi ydyw y gwreiddyn chwerwedd hwnw, oddi wrth ba un y tarddodd yr holl lygredd a'r chwantau hyny a fuant ac ydynt yn teyrnasu o fewn dyn. Tystiolaethwyd yn foreu fod y galon, a holl fwriad ei meddylfryd yn unig yn ddrygionus bob amser, Gen. vi. 5; ac nid oes genym achos i dybied ei bod hyd heddyw un gronyn gwell. Y *galon* meddwn, o herwydd, megys y mae wyneb yn atteb i wyneb, felly y mae calon dyn i ddyn, Diar. xxvii. 19. Ffurfiodd Duw eu calonau yn gyffelyb; am hyny, nid yw y prophwyd pan yn tynnu darlun cymhwys, er ei fod yn anhyfryd, o'r galon ddynol, yn gwneud dim gwahaniaeth: *Y galon sydd fwy ei thwyll na dim, drwg diobaith ydyw.* Yr ydys yn sylwi fod tymher anianol, dygiad i fynu, a gwahanol angylchiadau, yn peri amrywiaeth mawr mewn gweddiodau dynolryw; eithr fod y ffynnon fawr, sef y galon, wedi ei chyflawn anurddo a'i halogi yn mhawb o'r hil ddynol fel eu gilydd sydd yn *wirioned Duw*, dyweded dyn y peth a fynno. Dychryna y dadleuwyr tros *urddas y natur ddynol* wrth yr athrawiaeth hon, a thwyll pob calon a ymladd yn ei herbyn; gwna y rhai a angharant yr athrawiaeth, etto sydd mewn rhyw

radd yn gydnabyddus o'r ysgrythyr, ddyddyfnu o honi y cyfryw ymadroddion â'r rhai hyn, sef *calon gywir a da; dyn da o drysor da ei galon*, &c. y mae y pwngc yn deilwng o ddwys ystyriaeth. Mae yn nodadwy iawn, fel y mae y drwg mawr pa un, yn y galon ddynol, sydd yn ei llygru ac yn ei halogi, yw anghrediniaeth; felly unig burwr y galon y crybwyllir am dano yn yr ysgrythyr, yw *ffydd yr efengyl*, Act. xv. 9. Y mae yr efengyl yn dyfod i galon neu gydwybod dyn; mae yn llefaru yno; ïe, mor rymus yw ei hiaith, fel pan ei gwrthwyneber, y mae y weithred yn cael ei galw yn *galedu y galon*. Fel hyn y ceryddodd yr Arglwydd ei hun y dysgyblion pan ar eu taith i Emmaus; "O ynfydion, a *hwyrfrydig o galon i gredu*, &c. onid oedd raid i Grist ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant," Luc xxiv. 25. A'r galon y creda dyn i gyfiawnder, o herwydd y mae y gwirionedd am Grist, iddo farw dros ein pechodau, ac adgyfodi er ein cyfiawnhad, yn rhoddi ymatteb cydwybod dda tuag at Dduw. Lle y credir y gwirionedd hwn, y mae yn cael ei dderbyn mewn calon gywir a da. Yn awr, er, tra yn y corph hwn, fod yr unrhyw egwyddorion pechadurus a llygredig yn aros yn y galon, etto os bydd y galon wedi ei chryfhau â gras yr efengyl, hi a ddysg pa fodd i farweiddio gweithredoedd y corph; ac i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol. Bydd effaith yr efengyl ar y galon yn amlwg, o herwydd y mae deddfau uniawn yr Arglwydd yn *llawenhau y galon*, Salm xix. 8: y mae yn dysgu i lynu wrth yr Arglwydd o lwyrfryd calon; a dyma yw yr hyn a eilw Ezeciel yn roddi calon gig yn lle calon garreg, Ezec. xxxvi. 26. Y mae yr hwn sydd â'i galon wedi ei llawenhau trwy yr efengyl yn meddu gwledd wastadol, Diar. xv. 15. *Bod heb galon* a arwydda weithiau bod heb ddealltwriaeth a challineb, Hos. vii. 11. Ephraim sydd fel colomen ynfyd heb *galon*; galwant ar yr Aipht, âut i Assyria. Nid oes ganddynt ddim synwyr neu ddealltwriaeth o'r iawn ffordd i ymryddhau o'u trallodion a'u gofidiau, yr hyn sydd i'w weled yn eu gwaith yn ymgeisio â'r Aipht ac Assyria. *O ynfydion a hwyrfrydig o galon*, chwi ddynion anwybodus, heb ddim treiddgarwch a dealltwriaeth, Luc xxiv. 25. "Brasawyd calon y bobl hyn; rhag iddynt ddeall â'u calon," Mat. xiii. 15. Mae eu calon wedi syfrdanu, fel ag i fod yn amddifad o ddealltwriaeth; maent yn gwrthwynebu y goleuni, ac yn gwrthod pob argraffiadau o eiddo y gwirionedd. "Y prophwydi a brophwydant o'u calon eu hun," Ezec. xiii. 2. Prophwydant yn ol eu tueddiadau a'u chwennychiadau eu hunain, a'r hyn a ddangosai eu dychymygion eu hunain iddynt, heb un gorchymyn nac awdurdod oddi wrth Dduw. "Cymmeryd peth at y galon, gosod allan ar unrhyw beth," hyny yw, coño am dano, ymroddi iddo, a'i fod yn agos at y galon. "Nid oes neb yn ei gymmeryd at ei galon, nid oes neb yn gofalu yn ei gylch, Jer. xii. 11.

Y mae y galon yn ymchangu gan *lawenydd*, yn cyfyngu gan *dristwch*, yn torri mewn *adfyd*, yn brashau ac yn caledu mewn *hawddfyd*; mae yn gwrthwynebu y gwirionedd; y mae Duw yn ei hagor, yn ei pharottoi ac yn ei throi fel y mynno. *Calon Duw*, yw ei ewyllys a'i arfaeth, &c. Esa. lxiii. 4.

CALLESTR, CELLYSTR, *(callestr)* maen caled iawn a rydd dân yn hawdd pan darawer ef â dur, Deut. viii. 15. Parodd Duw i ddwfr bistyllio o'r graig gallestr, i ddisychedu Israel yn yr anialwch, Salm cxiv. 8. Wyneb neu dalcen fel *callestr*, a arwydda hyfder a gwroldeb digryn, Esa. l. 7. Ezec. iii. 9.

CAM—U, anghyfiawnder, geudeb. "Os dygais ddim o'r eiddo neb trwy *gam-achwyn*," Luc xix. 8. Y mae natur ysbryd yr efengyl yn ymddangos yn lled hynod yn Zaccheus, yn torri grym ei sychedau am eiddo anghyfiawnder; ac nid yn unig hyny, ond yn rhoddi ynddo egwyddor wrthwyneb i orthrymder a thrais, sef, egwyddor o gariad a haelioni. Natur ysbryd yr efengyl ydyw gweithio dynion at reol y gyfraith, beth bynag oeddynt o'r blaen, Exod. xxii. 1. 2 Sam. xii. 6.

CAMEL, *(ad-dalwr)* anifel mawr pedwar-troediog, heb ddim cyrn iddo. Nid oes ganddo ddannedd blaen yn yr ên uchaf, ac y mae yn

cnoi ei gil. Mae ganddo chwech neu wyth yn yr ên isaf, yn llydain, ac, yn tafiu allan. Mae iddo dri chil-ddant mawr yn ei ên uchaf, a dau yn yr isaf, yn sefyll yn gryn bell oddi wrth eu gilydd. Mae y camelod wedi eu gwisgo â blew hirion a theg, y rhai a fwriant hwy yn y gwanwyn; ac y maent yn cael eu casglu yn ofalus, a math o ddefnydd dillad yn cael ei wneud â hwynt, Mat. iii. 4. Eu gyddfau ydynt hirion a meinion. Pan goddant eu penau i fynu, y maent yn uchel iawn. Eu clustiau ydynt fyrion, a'u traed yn llydain, a diogel iawn rhag llithro; eu cynffon sydd yn nghylch troedfedd o hyd; geill rhai o honynt, er gwaethaf poethder dirfawr, fyw bedwar neu bum, ie, medd rhai, naw neu ddeuddeg, diwrnod, heb ddwfr. Arferir hwy nid yn unig fel anifeiliaid i ddwyn llwythau yn y gwledydd poethion, sychion, a thywodlyd, eithr y mae y Tyrciaid yn bwytta cig y rhai ieuainge, ac arferir eu llaeth yn fynych gan yr Arabiaid i feddyginiaethu y dyfrglwyf; ysgatfydd, am fod y creadur yn ddialgar, fod eu llaeth yn gynnorthwyol i gyfranu i'r Arabiaid y dymher wyllt, ddialgar, a gelyniaethol honno a feddiannant hwy yn gyffredinol. Mae pedair rhywiogaeth o gamelod: (1.) Y camel â dau oddfyn blewog ar ei gefn, yr hwn sydd i'w gael y rhan amlaf yn mharthau dwyreiniol Persia, ac a ddug 1300 o bwysau. Geilw rhai hwn, yn gamsyniol, yn *ddromedari*. (2.) Y camel sydd âg un oddfyn neu gnwc ar ei gefn, yr hwn a arferir yn benaf yn Arabia, a gogledd-dir Affrica. Y mwyaf prydferth o'r rhywiogaeth hon yw y dromedari, yr hwn sydd yn grynach ei lun, a'r oddfyn yn llai arno na'r llall; y mae yn dwyn llai o lwyth, ac yn gyflym iawn: a dywedir am dano gan yr Arabiaid, y rhêd gymmaint mewn un diwrnod âg a wna eu ceffylau gorau hwy mewn naw, ac o herwydd hyny, arferir ef yn benaf i farchogaeth arno, 1 Bren. iv. 28. Esther viii. 10. (3.) Camel Peru, yr hwn sydd â'i gefn yn llyfn a gwastad, a'i fol yn oddfawr. (4.) Y Pacos, yr hwn sydd heb un oddfyn ar un rhan o'i gorph.

Er fod y camelod yn cnoi eu cil, etto o herwydd nad oedd holltiad eu hewinedd yn gyflawn, y maent yn cael eu cyfrif gan y ddeddf yn mhlith yr anifeiliaid aflan; a gallant fod yn gosod allan ddynion drygionus, dialgar, a thrahaus, Lef. xi. 4. Deut. xiv. 7. Cyffelybir yr Iuddewon i *gamelod buain yn amgylchu eu ffyrdd*, o herwydd eu bysgafnder a'u hanwadalweh yn ngwasanaeth Duw, Jer. ii. 23. Lluawsoc *gamelod* a *dromedariaid* Midian, Epha, a Seba, a *defaid* Cedar a Nebaioth yn gorchuddio yr eglwys, a arwydda y câ yr Arabiaid yn yr oes apostolaidd, a'r Mahometaniaid yn y Mil blynyddoedd, eu dychweliyd at Grist, ac y defnyddiant eu nerth a'u golud yn ei wasanaeth ef, Esa. lx. 6—8.

"Haws yw i *gamel* fyned trwy grau y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Duw," Mat. xix. 24. Marc x. 25. Y mae yn Arabiayspeilwyr a fyddant yn marchogaeth, yn lled gyffredin, i mewn i dai, ac yn ymddwyn yno yn dra chreulawn, onis gellir arferyd moddion i'w rhwystro. O achos hyn, y maent yn fynych yn gwneuthur y drysau yn o isel, nid oes nemawr un o honynt yn fwy na thair troedfedd o uchder. Rhaid i'r rhai hyn fod yn lled anghyflëus i'r rhai a gadwant gamelod, pan fyddo arnynt eisiau eu dwyn i mewn i'r cyuteddau. Pa fodd bynag, y maent yn eu dysgu, nid yn unig i ostwng ar eu gliniau i'w pynorio, a'u dadbynorio, ond i ymlusgo ar eu gliniau trwy y fath fân ddryslau â hyn. Diammau y rhaid fod hyn yn dra anhawdd; ac y mae yn dangos cyffelybiaeth ein Hargliwydd yn naturiol iawn; sef fod yn haws gwthio camel trwy ddrws cyn lleied â chrau nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Duw. Y mae hyn yn dangos yr anmhosibl-rwydd i'r dyn sydd â'i galon yn ei gyfoeth fyned i mewn i deyrnas nefoedd. Arferir y gyffelybiaeth hon fel diareb gyffredin gan y Rabbiniaid a'r Arabiaid; ac hefyd, yn mhlith yr Indiaid Dwyreiniol, i ddangos anhawsdra neu anmhossibl-rwydd peth.

CAMP, *(amp*, tawelwch) ymdrech, chwarëyddiaeth. Yr oedd yn mhlith yr hen Gymry bedair camp ar hugain. Y rhai hyn a ranent yn dri dosparth; sef, deg *gwrol-gamp*; deg *mabol-gamp*; a phedair *go-*

gamp. Arwydda y gair *camp*, hefyd, dueddiadau, cynneddfau, ac arferion dyn, fel y dywed y ddiareb, 'Glendid dyn yw ei *gampau*.' "Un sydd yn derbyn y gamp," 1 Cor. ix. 24, sef y *gamp-dlws*. Cyfeiria yr apostol at y chwarëyddiaethau a'r ymdrechiadau yn mhlith y Groegiaid. Yr oedd pawb yn rhedeg neu yn ymdrechu, ond un oedd yn ennill y gamp. Ymdrechfa a rhedegfa yw bywyd y Cristion; yn enwedig gweinidogion y gair: ac y mae o'r pwys mwyaf eu bod yn ymdrech yn gyfreithlawn ac yn ffyddlawn. Yn yr ymdrechfa ysbrydol, geill pawb ennill y gamp; nid yw bod un yn cael ei goroni ddim yn rhwystr i ereill gael eu coroni hefyd. Coron anllygredig yw y gamp-dlws; y mae yn fawr ei werth, ac yn dragywyddol ei barhad.

CAMPHIR. Y mae y pren hwn o rywiogaeth y lawrwydd; dywedir fod rhai o bonynt yn 300 troedfedd o uchder, ac nad ellir prin eu hamgylchynu gan 20 o ddynion; y mae pob rhan o hono yn llawn o'r defnydd a elwir *camphir*, yr hwn nid yw nac ystor, na'r peth a elwir *volatile salt*, na math o sudd olewaidd, na duglust, na gwm; ond sylwedd cymmysgedig, sych, gwyn, tryloyw, a breuol, yn arogli yn gryf, treiddgar, a pheraidd, ond yn chwerw ei archwaeth; ac sydd yn defnynu yn raddol o'r pren ei hun, neu yn unig gellir ei dynnu allan trwy weithred fferyllol. Y mae yn ddefnyddiol mewn tân-weithiau, barneis, &c. geill losgi hyd yn nod tân y dwfr. Y mae yn peri chwys; ac felly o wasanaeth mawr mewn clefydau ennynol, braenllyd, heintus, gorphwyllog, ac ymrewyddol. Y mae camphir Japan yn arw; eithr y mae yr un a geir yn Borneo, Sumatra, Ceylon, a holl ynysoedd yr India Ddwyreiniol, a China, yn deg. Os ydyw y gair Hebreig *Copher* wedi ei gyfieithu yn iawn yn *Camphir*, y mae Iesu Grist yn cael ei gyffelybu i gangen o'i rawn ef, i arwyddo yr helaethrwydd mawr o rinwedd arogl-ber, enaid-iachaol, a dyddanus, sydd yn ei berson, ei *gyfiawnder*, a'i gyflawnder ef; eithr os yw yn arwyddoccau y planhigyn a elwir *gwinwydden Cyprus*, y mae yn dynodi ei ddylanwadau meithrinol, cryfhaol, a chysurlawn. Os ydyw yn arwyddoccau y *cypres-wydden*, y mae yn ei osod ef allan yn rhinwedd hyfryd, bur, iachaol, ac enneiniol, ei berson, ei waed, a'i ras. Os yw yn arwyddo y llysieuyn a elwir *Ysnoden Mair*, neu y *cleddyf-lys*, y mae yn ei arddangos ef yn ei ffrwythlondeb, ei ber-arogledd, ei ddylanwadau eryfhaol, a'i rinwedd nerthol, i iachau y briwian a'r archollion a wnaed gan bechod, gwenwyn yr hen sarph. Os yw yn arwyddoccau *dates*, neu ffrwyth y Balm-wydden, y mae yn ei osod ef allan fel yn anfeidrol werthfawr, hyfryd, a meithrinol. Os ydyw yn arwyddoccau y pren *Balsamum*, y mae fyth yn gysgod o hono ef yn ei brydferthwch, a'i rinwedd feddyginiaethol i eneidiau dynion. Cyffelybir y saint a'u grasau i'r *Copher*, i nodi pa mor dderbyniol yw eu personau, eu hanian newydd, a'u hymarweddiad sanctaidd, gan Grist, a dynion da; a pha fath rinwedd iachaol, adeiladol, a dyddanol sydd ganddynt yn yr eglwysi, ac yn mhlith y cenedloedd lle y preswyliant, Can. i. 14, a iv. 13.

CAN—U, *(caint)* cerdd, emyn. (1.) Cân o fawl a diolchgarwch; megys yr oedd cân Moses, Deborah, Hannah, Dafydd, &c. Exod. xv. Barn. v. 1 Sam. ii. Neu alarnad; megys Dafydd, a Jeremiah, 2 Sam. i. Galar. i—v. (2.) Yr achos ar ba un y cyfansoddir y gân; felly Duw yw cân ei bobl; ei ragoriaethau, a'i rad ddaioni, ydynt yr unig achos a'r defnydd o honi, Exod. xv. 2. "Cerdd yr Arglwydd," "*Cân* yr Oen," a elwir felly, am mai Duw a'r Oen ydynt destun y gân, a'r moliant, Salm xlii. 8, a'r cxxxvii. 3. Yr oedd Job a Dafydd yn *gân* i'w caseion; hyny yw, yr oeddynt yn wrthddrychau o wawd a dirmyg iddynt, Job xxx. 9. Salm lxix. 12. *Caniadau newyddion*, ydynt rai newydd eu cyfansoddi; neu, rai am waredigaethau a thrugareddau newyddion, y rhai sydd yn wastad yn felusion a hyfryd, Salm xxxiii. 3, a xl. 3. *Caniadau ysbrydol*, ydynt rai ar achos ysbrydol, ac o ddefnydd ysbrydol a dwyfol; mewn cyferbyniad i ganiadau gweigion, cnawdol, masweddol, a thrythyll, a elwir *cân ffyliaid*, Eph. v. 19. Col. iii. 16. Preg. vii. 5. Byddai gan yr Iudd-

ewon ganiadau yn cael eu canu agos trwy y nos, o flaen eu buchel-wyliau, yn enwedig y nos gyntaf o ŵyl y Pasc, Esa. xxx. 29.

Y mae *canu* fel rhan o addoliad dwyfol, i'w wahaniaethu oddi wrth bob gwaith crefyddol arall. (1.) Oddi wrth weddi; oddi wrth ba un y mae'n cael ei wahaniaethu yn Iago v. 13. 1 Cor. xiv. 15. Yr oedd Paul a Silas yn gweddio, ac yn canu mawl, Act. xvi. 25. (2.) Oddi wrth roddi diolch. Yr oedd yr Arglwydd Iesu, wrth weini y Swpper sanctaidd, yn diolch, ac wedi hyny yn canu hymn, Mat. xxvi. 26—30. Eph. v. 19, 20. (3.) Y mae yn wahanol oddi wrth foliannu Duw: er ein bod yn moliannu wrth ganu, eto, nid yw pob moliant yn ganu; un ffordd o foliannu Duw ydyw; ond y mae ffyrdd ereill i foliannu Duw heblaw hon, am y gellir ei foliannu yn ein gweddiau, ein pregethau, ein geiriau, a'n bucheddau. (4.) Nid llawenydd ysbrydol tufewnol yw; y mae yr agwedd hon yn addasu dyn i ganu, ond nid canu yw yr agwedd ei hun. Nid oes dim yn addas i'w alw yn ganu, heb y llais. "Canu a phyngcio yn y galon i'r Arglwydd," Eph. v. 19, nid yw ddim amgen na chanu â'r galon, neu o'r galon, yn wresog, ac yn wirioneddol. Arwydda *canu*, fod y llais yn cael ei roddi allan, a hyny yn drefnus, yn rheolaidd, ac yn beraidd, yn addas i'r Duw sydd yn cael ei foliannu, ac i sylwedd, neu fater y gân.

Y mae *canu* wedi bod, er y cynoesoedd, yn rhan o addoliad, yn gystal yn mhlith cenedloedd eilunaddolgar, âg addolwyr y gwir Dduw. Canodd Moses ac Israel yn beraidd wedi y waredigaeth ryfedd wrth y Môr Coch, Exod. xv. Felly y gwnaeth Deborah a Barac wedi hyny, ar ol gwaredigaeth Israel oddi wrth Jabin brenin Canaan, 1 Barn. v. Pan ddygwyd cerddoriaeth i'r graddau mwyaf o berffeithrwydd gan Dafydd, ac y cyfansoddodd lawer o ber-ganiadau ysbrydol, efengylaidd, i'w canu yn addoliad Duw yn y deml, y mae yn galw ar bawb, holl genedloedd y ddaear, i foliannu yr Arglwydd, Salm lxvi. 1, 2. Canodd Crist a'r apostolion hymn, neu salm, gyda'u gilydd, ar ol cyfranogi o Swpper yr Arglwydd; hyn a wnaethant fel eglwys, a Christ yn eu canol a ganodd hymn, a hwythau gydag ef, Mat. xxvi. 30. Yr oedd eglwys y Corinthiaid yn canu salmau yn nyddiau yr apostolion, 1 Cor. xiv. 26. Yr oedd canu, fel pob rhan arall o'r addoliad cyhoeddus, yn yr eglwysi Cristionogol, ar y cyntaf, yn symi a diadduru; a byddai yr holl gynnulleidfa yn cyd-ganu yn gerddgar, yn ddeallus, yn rheolaidd, ac yn ysbrydol.

CANA *(meddiant)*. 1. Afon ar gyffiniau deheuol y Manassiaid gorllewinol; tybia rhai mai yr un oedd hi â Cerith, a'i bod yn cael ei galw felly oddi wrth y cyrs neu y ceceys a dyfent o'i hamgylch; eithr ysgatfydd mai afon wahanol oedd, yn rhedeg tua'r gorllewin i For y Canoldir, Jos. xvi. 8, a'r xvii. 9, 10. (2.) Cana, dinas yn llwyth Aser, ac nid nebpell oddi wrth Sidon, Jos. xix. 28; eithr pa un ai hon, neu le arall o ddeutu pedair milltir o du y gogledd i Nazareth, oedd *Cana Galilea*, lle y bu ein Hiachawdwr yn gweini mewn priodas, nis gallwn benderfynu yn ddilys; er ein bod, gyda *Phocas* a *Maundrel* yn gogwyddo yn hytrach at y diweddaf, am ei bod yn nes o lawer at breswylfod mam Crist, Ioan ii.

CANAAN *(marchnattawr)*. 1. Mab ieuangaf Cam, ŵyr Noah. Nid oes banes am ei enedigaeth na'i farwolaeth wedi ei roddi gan Moses. Dychymygir iddo gael ei eni yn yr arch. Pan chwarddodd Cam am ben noethder ei dad, cyhoeddodd Noah felldith o'r caeth-wasanaeth gwaelaf, yn benaf, yn erbyn Canaan. Pa un a wnaeth Canaan ymuno yn y trosedd, a mynegu i'w dad am yr olygfa warthus; neu pa un ai nas gallai Noah gyhoeddi melldith yn erbyn Cam ei hun, yr hwn a gawsai ei fendithio gynt gan Dduw; neu pa un a ddylai y gair *tad* gael ei osod i mewn o flaen Canaan, fel y mae y gair *mab* yn Mat. iv. 21; a *gwraig* yn Ioan xix. 25; a *thad* yn Act. vii. 16; neu pa un ai bod y felldith yn cael ei chyfeirio yn benaf yn erbyn hiliogaeth Cam yn Nghanaan, am eu bod hwy i gael eu diwreiddio mewn rhan gan yr Hebreaid, sydd bwngc mewn dadl yn mhlith dehonglwyr. Dilys yw fod yr Arglwydd yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd; a diammau yw, hefyd, fod rhieni yn cael eu cospi

yn nhruenusrwydd eu biliogaeth; ac, oddi wrth yr hanes canlynol, fe ymddengys pa fodd y cafodd y Canaaneaid eu caethiwo yn ddychrynllyd gan biliogaeth Sem a Japheth, yn ol rheddiad y felldith honno. Tebygol i Canaan fyw a marw yn ngwlad yr addewid, yr hon a alwyd oddi wrtho ef *Canaan*. Dangosir ei feddrod i deithyddion mewn ogof yn mynyddoedd y llewpardiaid, yn agos i Jerusalem. Yr oedd ei biliogaeth yn lluosog; y Sidoniaid, y Tyriaid, yr Hetbiaid, y Jebusiaid, yr Amoriaid, y Girgasiaid, yr Hefiaid, yr Arciaid, y Simiaid, yr Arfadiaid, y Semariaid, yr Hamathiaid, y Perizziaid, a llwyth arall a elwid Canaaneaid, er, pa fodd y cawsant yr enw hwnw, mwy na'r lleill, nis gwyddom, a hanasant o hono ef. Saith o'r llwythau hyn, sef y Canaaneaid, yr Hethiaid, y Jebusiaid, yr Amoriaid, y Girgasiaid, y Perizziaid, a'r Hefiaid, a boblogasant Canaan; ceir gweled eu sefyllfaoedd dan eu henwau priodol; y llwythau ereill a boblogasant Phœnicia a rhan o Syria. Yn ol yr arferiad yn yr oesoedd hyny, cawsant eu dosparthu yn lluaws dirfawr o freniniaethau; nid oedd bron dref na dinas o euwogrwydd heb ei phennadur ei hun ynddi. Gan i Moses ddarostwng 2, Josuah 31, ac Adonibezec 70 o freninoedd ychydig o'r blaen, amlwg yw fod y Canaaneaid hyn wedi ei ffurfio unwaith yn uwchlaw cant o freniniaethau. Yr oeddynt, yn gyffredin, yn ddrygionus iawn, wedi ymroddi i'r eilun-addoliaeth gwaelaf; eithr gobeithiwn i freniniaeth Melchizedec lynu wrth y wir grefydd; dilys yw iddo ef ei hun wneud felly. Ymddengys i bump o'u breniniaethau yn y parth dehauddwyreiniol o'r wlad, sef Sodoma, Gomorrah, Adma, Seboim, a Soar, arwain i mewn yr arferiadau mwyaf annaturiol a gwarthus, dynion yn anmharchu eu hunain gyda'u gilydd. Darostyngodd Cedorlaomer brenin Elam hwy tan deyrnged iddo ei hun, o ddeutu A. M. 2078. Ar ol ei wasanaethu 12 mlynedd, gwrthryfelasant. Yn A. M. 2092, torrodd ef a'i gynghreiriaid i mewn i wlad Canaan, darostyngasant y breniniaethau gwrthgiliedig, a dygasant hwy a'r lleoedd cyfagos, i fin dinystr. Trwy Abraham, fel moddion, ymiachasant oddi wrth yr aflwydd hwn. Prin yr oedd pobl Sodoma, Gomorrah, Admah, a Seboim, wedi byw 16 mlynedd yn ychwaneg mewn helaethrwydd ac euogrwydd arswydus, pan yr ysodd Duw, trwy dân a brwmstan o'r nefoedd, eu gwlad, ac y trôdd hi yn llyn o ddwfr gwastadol. Er mwyn Lot, achubwyd Zoar rhag dinystr cyffelyb, Gen. ix. 25, a'r x. 6, 15—19, a'r xiv, a'r xviii, a'r xix. Ezec. xvi. 49, 50. Yn nghylch A. M. 2270, cyffrodd Sechem, mab Hamor, trwy ei waith yn halogi Dinah, feibion Jacob i ddinystrio ei deyrnas fechan a diystyr ef, Gen. xxxiv.

O ddeutu A. M. 2514, rhoddodd y Canaaneaid oeddynt yn preswylio ar gyffiniau deheuol Canaan, trwy gynnorthwy yr Amaleciaid, ddymchweliad dychrynllyd i'r Hebreaid gwrthryfelgar, yn Hormah. Yn nghylch 38 o flyneddoedd wedi hyn, blinwyd hwy yn ddirfawr gan Arad; eithr talodd yn ddrud am ei lafur, pan ddinystriodd yr Hebreaid ei deyrnas ef yn llwyr. Bu breniniaethau Canaaneaidd Sehon ac Og, o du y dwyrain i'r Iorddonen, mewn cyflwr blodeuog: eithr ar eu gwaith yn nacâu mynedfa i'r Israeliaid trwy eu gwlad, dinystriwyd hwy yn hollol gan Moses. O du y dwyrain i'r Iorddonen, gorchfygodd Josuah 31 o freniniaethau, sef Jericho, Jerusalem, &c. ac ymostyngodd teyrnas y Gibeoniaid iddo hefyd. Rhanwyd tiriogaethau y teyrnasoedd hyn, ac ereill, yn mysg llwythau Israel. Gwedi marwolaeth Josuah, bwriodd llwyth Judah a Simeon y Canaaneaid a adawsid yn eu rhandiroedd hwy allan yn llwyr, neu ynte darostyngasant hwynt. Bwriodd llwyth Ephraim, a Manasseh hefyd, ran o honynt ag oedd yn eu hetifeddiaeth hwythau allan. Yn y rhan fwyaf o randiroedd y llwythau ereill, cadwodd y Canaaneaid feddiant o amryw o'r prif ddinasoedd, lle y gwnaethant ar unwaith hudo yr Hebreaid i eilun-addoliaeth, ac a'u blinasant yn ddirfawr yn aml. Gwedi ymdrech caled, dygodd amryw o'r llwythau hwy i gyflwr o ymddarostyngiad. Eithr, yn mharthau gogleddol gwlad yr addewid, ffurfiodd y gweddill o'r Canaaneaid eu hunain yn freniniaeth gadarn iawn, sef Hazor; ac, o ddeutu A. M. 2720, dan Jabin eu brenin, dygasant yr Heb-

reaid i gaethiwed tros ugain mlynedd. Rhoddodd Deborah a Barac y fath ddadymchweliad i'r deyrnas hon, fel na chlywn am dani yn ychwaneg. O ddeutu 240 o flyneddoedd ar ol hyn, gorphenodd Dafydd bron orchfygu y Canaaneaid, ac ennillodd Jebus neu Jerusalem, un o'u dinasoedd cadarnaf, oddi arnynt. Darostyngodd Pharaoh, brenin yr Aipht, Ganaaneaid Gozer, a rhoddodd hi i Solomon ei fab-yn-nghyfraith. Yr oedd uwchlaw 153,300 o Ganaaneaid ar waith yn y gorchwyl distadl o adeiladu teml Solomon; ac ar yr holl genedl honno, efe a osododd deyrngeddrom; ac nid ymddengys i'r bobl hyn, byth wedi hyny, gael unrhyw ryddid yn mysg yr Israeliaid, er ein bod yn cael gweddillion o honynt ar ol y caethiwed, Num. xiv, a'r xx, a'r xxi. Barn. i, a'r iii, a'r iv. 2 Sam. v. 6—9. 1 Bren. v. 15, 16, a'r ix. 20, 21. Ezra ii. 55, 58. Neh. xi. 3.

Darostyngwyd y Canaaneaid y rhai a ddiangasant rhag caethiwed yr Israeliaid, i hyny gan ereill. Caiff yr hyn a fu tynged arswydus y rhai hyny a breswylient yn ddechreuol yn Syria a Phœnicia, neu a giliasant yno rhag cleddyf Josuah, Dafydd, neu ereill. ei adrodd tan y geiriau hyny. Ffôdd y Girgasiaid, ac ereill o'r Canaaneaid, hwyrach, rhag cleddyf Josuah, a chiliasant i ogledd-dir Affrica, gerllaw Carthage. Dywed *Procopius* iddynt yn gyntaf gilio i'r Aipht, a myned yn mlaen yn raddol i Affrica, a thaenu dros yr holl daleithiau eang hyd gyfyngfor Gibralter, gan gadw eu hen iaith o hyd, heb ond ychydig o gyfnewidiad. Dywed yr awdwr hwn, fod yn yr hen ddinas Tingis, a sylfaenwyd ganddynt hwy, ddwy golofn o feini gwynion, â'r argraff canlynol arnynt, yn iaith a llythyrenau Phœnicia: "Pobl ydym a gadwyd trwy ffoi rhag yr yspeiliwr hwnw *Josuah* mab *Nabe*, yr hwn oedd yn ein hymlid ni." Canlynodd lluoedd dirfawr hwynt o Tyrus, &c. mewn amseroedd canlynol. Yno, gwnaethant ymddangosiad blodeuog, tros rai oesoedd; eithr tros yn agos i 2000 o flyneddoedd a aethant heibio, cafodd y wlad ei gwneud yn ddrych o'r caeth-wasanaeth erchyllaf gan y Rhufeiniaid, y Vandaliaid, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid. Ac nid yw Canaaneaid Tyrus, Sidon, a lleoedd ereill yn Phœnicia, y rhai a blanasant eu hunain yn ynysoedd Môr y Canoldir, wedi diange ychwaith rhag tynged gyffelyb. Cafodd y cyfryw Ganaaneaid, Hefiaid, neu ereill, ag a ddiangasant rhag cleddyf y brenin Dafydd, ac a ffoisant i Bacolia, o du y dehau i Europe, eu dylyn gan y felldith o gaeth-wasanaeth. Y fath agwedd resynus a fu y wladwriaeth honno yndd yn gyffredin! Pa fath laddfeydd dychrynllyd a wnaeth Alexander yn mysg ei thrigolion hi, gan werthu y gorfucheddwyr yn gaeth-weision! Ffôdd rhan o'r Bæotiaid i Heraclea o du y dehau i fôr Euxin; lle, ar ol ymddangosiad mawr-wych dros ennyd, cawsant eu dwyn i gaethiwed gan y Rhufeiniaid, yn nghylch 1860 o flyneddoedd yn ol; ac y maent wedi parhau dan y rhai hyn, a'r Groegiaid, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid, hyd heddyw. Gan ein bod yn tueddu yn gryf i gredu fod y Pelasgiaid Groegaidd, a'r Ebrusciaid yn yr Ital, o wreiddyn Canaaneaidd, y mae yn hawdd sylwi i ba fath ymddarostyngiad gwael y dygwyd y naill, ar ol blaguriad byrhoedlog, gan eu cymmydogion yn nhir Groeg, a'r llall gan y Rhufeiniaid buddugol.

2. *Canaan* oedd enw y wlad lle y preswyliai Canaan a'i biliogaeth. Y mae yn agos i 200, neu yn hytrach 160 o filltiroedd o hyd, o Dan yn y gogledd i Beerseba yn y dehau; ac yn nghylch 80 milltir o led, o'r dwyrain i'r gorllewin; ac felly cynnwysai, yn y cwbl, o ddeutu 9,231,000 cyfar o dir; o ba rai, gallasai pob un o'r 601,730 o ryfelwyr Hebreaidd, y rhai a'i goresgynasant hi, gael o ddeutu 12 cyfar i'w ran. Y mae yn gorwedd yn y 32, y 33, a'r 34 gradd o ledred gogleddol, ac yn y 36 a'r 37 gradd o hydred dwyreiniol oddi wrth Lundain. Y mae Môr y Canoldir o du y gorllewin iddi; Libanus a Syria o du y gogledd; Arabia Garregog, a gwlad yr Ammoniaid, y Moabiaid, a'r Midianiaid, o du y dwyrain; gwlad Edom, ac amalwch Paran o du y dehau; a'r Aipht o du y deheuorllewin. Nid oedd dim ychwaneg na hyn yn arferol o gael ei alw Canaan; a hyn yn unig a adawyd i'r Hebreaid yn *feddiant*; eithr os cymmerwn i mewn yr holl helaethrwydd tiriogaeth a addawyd iddynt fel *ar-*

glwyddiaeth, o'r afon Euphrates o du y gogledd-ddwyrain, i'r afon Nilus yn y dehau-orllewin, Gen. xv. 18—21, Exod. xxiii. 31; a gynnwysai yr holl wledydd hyny a ddarostyngodd Dafydd, sef Syria, Ammon, Moab, Edom, &c. ac, yn yr ystyr hwn, gellir caniattau yn hawdd i Dr. *Shaw* ddysgedig, mai llyngc-lynoedd y Môr Coch oeddynt ei therfynau deheuol hi; a'i bod yn cynnwys gwlad Gosen yn yr Aipht. Beth bynag yw gwlad Canaan, a elwir felly yn briodol, yn awr, pan y mae yn gorwedd dan felldith, a bron yn hollol anniwylliedig, yr oedd hi gynt yn wlad dra hyfryd a ffrwythlon, trwy fendith neilldnol Duw arni. Rhydd Moses ddarluniad godidog o honi yn Deut. viii. 7, mewn amryw ystyriaethau yn rhagori ar wlad yr Aipht, yr hon oedd mor enwog gynt am ei ffrwythlonrwydd; yn enwedig yn rhywiogaeth a nifer ei hanifeiliaid, ac yn ei holew a'i gwin. Yr oedd ei daear mor fras fel na ofynai wrtaith, ac yr oedd yn hawdd ei haredig âg aradr bychau, ac un iau o ychain. Yr oedd y gwinwydd yno yn dwyn ffrwyth ddwywaith, ac weithiau deirgwaith yn y flwyddyn. Yr oedd y coed a'r creigiau yn diferu math o fel a alwent "mel gwyllt," Mal. iii. 4. Dywedir fod y gwenyn mor ami yno, fel y gosodent eu diliau rhwng cangenau y coed, a chlogwyni y creigiau, a hwyrach mai hwn a alwent yn *fel gwyllt*. Yr oedd yr Iorddonen yn rhedeg tua'r dehau trwyddi, ac yn ffurfio y llynoedd Merom a Thiberias; a lluaws o afonydd bychain a nentydd yn rhedeg ar draws y wlad ar bob tu i'r Iorddonen; yn nghyd â lluaws o ddyffrynoedd a bryniau, y rhai a amrywient ei dull a'i gwedd hi yn hyfryd. Y porfeydd breision a ddygent belaethrwydd o laeth a mel. Yr oedd y tiroedd aredig, y rhai, yn ol *Hecateus*, (eithr tybiwn fod ei gyfrif ef yn rhy isel) a ddeuent i yn nghylch 3,000,000 o gyfeiriau, yn dwyn y cnydiau mwyaf toreithiog. Mwngloddiau y mynyddoedd a ddygent amlder o haiarn a phres. Pan yr oedd Duw, trwy wres a gwlawogydd prydlawn, yn cydweithredu â diwyllwyr llafurus y ddaear hon, y mae yn dra hawdd amgyffred pa fodd yr oedd yn gallu cynnal y myrddiynau nifeiriol a breswylient yuddi, Deut. xi. 11, a vi. 10, a'r viii. 7, 8, 9. Os gellir edrych ar un man ar ein daear yn fwy cyssegredig na'i gilydd, Canaan yw y lle. Yno y pererinodd yr hen batrieirch, ac y mae eu llwch yn gorwedd hyd ddydd brawd; yno y bu addoliad Duw dros oesoedd yn cael ei gynnal; ac yno y ganed, y bu byw, ac y dyoddefodd Iachawdwr y byd; gwladeiddiwr o'r wlad hon oedd Tywysog y bywyd; ac yno y cwblhawyd y gwaith y bydd coffa a moli byth am dano; yno y tywalltwyd yr Ysbryd Glan, y planwyd Cristionogrwydd, ac oddi yno y taenoddd ar led dros wyneb y ddaear. Pan, yn y dyddiau diweddaf, y blagura Cristionogrwydd yno yn ogoneddus, hwyrach y bydd y Bibl yn fwy dealladwy i Gristionogion gwlad Canaan nag i neb yn y byd.

Rhoddir hanes am fynyddoedd, afonydd, nentydd, a dyffrynoedd gwlad Canaan, tan eu henwau priodol. Cawn, yn awr, gymmeryd golwg arni fel yr oedd wedi ei dosparthu yn ddeuddeg rhan rhwng y llwythau Hebreaidd. O du y dwyrain i'r Iorddonen y preswyliai y Reubeniaid, y Gadiaid, a'r Manassiaid. Yr oedd rhandir y Reubeniaid yn y parth deheuol o'r wlad, o du y gogledd-ddwyrain i'r Môr Marw, ac o du y gogledd i'r afon Arnon. Yr oedd mewn rhan yn fynyddig iawn, yn cynnwys y bryniau Peor, Nebo, a Pisgah; pa rai, yn awr, a edrychant yn dra anhyfryd. Eu prif drefydd oeddynt Jaazah, Banoth-baal, &c. eithr cymmerodd y Moabiaid feddiant o rai o'r dinasoedd hyn. O du y gogledd i Reuben y gorweddai etifeddiaeth y Gadiaid; eu prif drefydd oeddynt Mahanaim, Penuel, &c. Yma yr oedd y ddaear yn fwy gwastad, a'r tir yn ffrwythlawn iawn. O du y gogledd i Gad y cyflewyd hanner llwyth Manasseh, tiriogaeth pa rai a elwid Galilea Uchaf, neu Galilea y Cenedloedd; ac yr oedd ei hun gymmaint bron â chyfran y ddau lwyth blaenorol. Cynnwysai wlad Basan, Golan, &c. Y prif drefydd oeddynt Salisa, Bosra, Maacah, &c.

O du y gorllewin i'r Iorddonen y cafodd naw llwyth a hanner eu hetifeddiaeth. Ar y terfyn gogleddol, cafodd llwyth Naphtali eu heiddynt hwy yn yr ochr ddwyreiniol; a llwyth

Aser eu heiddynt hwythau yn yr ochr orllewinol. Prif ddinasoedd Naphtali oeddynt Ir-semes, Zidincartau, &c. Yn nhiriogaeth Aser y gorweddai gwlad Cabul, a'r dinasoedd Helcath, Canac, Rehob, Hammon, &c. eithr cadwodd y Phéniciaid ran o honi oddi wrthynt. O du y dehau i'r ddau lwyth hwn, cyrhaeddai rhandir Zebulun o Fôr y Canoldir hyd yr Iorddonen. Eu prif ddinasoedd oeddynt Zarid, Maralah, Dabbeseth, &c. O du y dehau i Zebulun y gorweddai etifeddiaeth Issachar. Ynddi yr oedd mynydd Carmel Ogleddol a Gilboah, a dyffryn Jezreel. Ei phrif ddinasoedd oeddynt Cison, Dabereth, Jarmuth, &c. O du y dehau i Issachar y preswyliai hanner llwyth Manasseh. Eu prif ddinasoedd oeddynt Bethshean, Ibleam, Dor, Endor, &c. O du y dehau i Manasseh yr oedd etifeddiaeth yr Ephraimiaid. Yr oedd hon yn llawn mynyddoedd tra hyfryd, megys Gerizzim, Ebal, Ephraim, &c. Eu prif ddinasoedd oeddynt Saron, Lydda, Elon, y ddwy Beth-horon, &c. Cyrhaeddai tiriogaethau y pedwar llwyth diweddaf hyn o Fôr y Canoldir o du y gorllewin, hyd yr Iorddonen yn y dwyrain; eithr nid oedd un arall yn gwneud felly. O du y dehau i'r parth dwyreiniol o randir Ephraim y gorweddai etifeddiaeth Benjamin. Eu prif ddinasoedd oeddynt Jericho, Beth-hogla, Emec-ceziz, Beth-arabah, &c. O du y gorllewin i randir Benjamin y gorweddai etifeddiaeth Dan. Eu prif ddinasoedd oeddynt Zorah, Estaol, Ir-semes, Saalabbin, &c. a Joppa hwyrach; cymmerwyd rhan o'r rhai hyn allan o randir Judah; ac yr oedd Dan ganddynt hefyd yn y pen gogleddol i wlad yr addewid. O du y dehau i'r Daniaid y cafodd y Simeoniaid eu cyfran yn hollol allan o lwyth Judah. Eu dinasoedd oeddynt Beer-seba, Moladah, Hazarsoal, Balah, &c. Rhandir Judah a orweddai gan mwyaf o du y dwyrain i Simeon, ac o du y dehau i Benjamin. Yr oedd yn dra helaeth, yn cynnwys uwchlaw 90, os nid 100, o ddinasoedd caerog, ar ol tynnu o ddeutu 24 allan i Simeon a Dan. Y mwyaf nodedig oedd Sibnah, Maccedah, Azecah, Bethzur, Tecoah, &c. Yr oedd gwlad y Philistiaid, yr hon a gynnwysai y chwech dinas enwog, sef Gath, Ecron, Asdod, Ascelon, Gaza, a Majuma, i gyd ar derfyn gorllewinol gwlad Canaan, ac ar lan ddehau-ddwyreiniol Môr y Canoldir, yn perthyn hefyd i Judah; eithr er iddi gael ei goresgyn unwaith mewn rhan, etto cadwyd meddiant o honi, gan mwyaf, gan y Philistiaid, Num. xxxii. Jos. xiv. 21. 1 Sam. xxx. 27—31. 1 Cron. ii, a'r vi. Oddi wrth y darlun byr hwn, amlwg yw, fod wyneb gwlad Canaan gynt wedi ei orchuddio â dinasoedd. Yn y rhyfeloedd lluosog y crybwyllir am danynt yn yr ysgrythyr; yn y rhyfel rhwng Groegiaid yr Aipht a Syria, Dan. xi; yn rhyfeloedd y Rhufeiniaid dan Pompey, Vespasian, Trajan, ac ereill; yn y rhyfeloedd rhwng yr amherawdwyr dwyreiniol a'r Persiaid; ac, yn ddiweddaf, yn y rhai hyny a gymmerasant le rhwng y Ffrangcod a'r Tyrciaid, cafodd y wlad hon ei gwneud yn fynych yn fôr o waed. Er's amryw oesoedd a aethant heibio, y mae arwyddion o'r felldith i'w gweled yn amlwg arni yn mhob man. Y mae hi bron yn anialwch anghyfanneddol. O'r rhan fwyaf o'i dinasoedd, nis gallwn olrhain y gweddillion lleiaf. Nid yw, pa fodd bynag, mewn diffyg o olion ei ffrwythlonrwydd gynt.

Gwneir mynych grybwylliadau am Canaan yn y prophwydoliaethau ysgrythyrol; ac fe ymddengys yn eglur, fod llawer o honynt yn aros heb eu cyflawni etto. Hon oedd y wlad, am ba un y dywedwyd wrth Abraham, Gen. xiii. 17. "Cyfod, rhodia trwy y wlad, ar ei hyd, ac ar ei lled; canys i ti y rhoddaf hi." *I ti* y rhoddaf hi, ac *i'th had byth*, ad. 15. Ni fwynhaodd Abraham erioed gymmaint â lled troed o honi, Act. vii. 5. Ie, ni feddiannodd ei had daearol hi ond dros ychydig ennyd, Esa. lxiii. 18. Yr ydym wedi crybwyll eisioes, ei bod hi er's amryw gannoedd o flyneddoedd, yn ddiffeithwch ac yn anialwch; a rhagfynegwyd am hyn yn helaeth gan y prophwydi hyny, pa rai, ar yr un amser, a haerent, y ca gogoniant Canaan ei amlygu etto mewn dull anfeidrol mwy ardderchog nag y gwelwyd ef erioed o'r blaen. Pa fodd a pha bryd y cyflawnir y prophwydoliaethau hyn? Y mae yn ddiweddar wedi dyfod yn dyb gan

lawer, y bydd adferiad yr Iuddewon yn un o effeithiau tra hynod yr ysbryd gwybodaeth a rhyddid sydd yn ymwasgaru yn awr trwy y byd. Ereill a feddyliant, na bydd derbyniad yr Iuddewon yn ddim llai nag *adgyfodiad y meirw*. Pan ddel Crist yn more y diwrnod hwnw, efe a gasgl ei holl wir Israeliaid yn nghyd, i deyrnasu gydag ef fel breninoedd ac offeiriaid ar y ddaear. Yna y bydd Canaan yn ogoneddus,—a'm gwas Dafydd yn dywysog arnynt hwy.

CANCR, math o afiechyd arswydus, sydd yn ysu ac yn madru y cnawd lle y cymmero afael; y mae yn ymdaenu yn gyflym; yn peryglu yr holl gorph; ac nid ellir prin ei feddyginiaethu heb dorri y rhan afiach ymaith. Wrth edrych trwy chwydd-wydr, ymddengys heidiau o bryfed mân, yn ymborthi ar y cnawd, ydynt yr achos o'r ciefyd hwn; ac fod yr heidiau newyddion a fegir gan y rhai hyn, yn ynnill dros y rhanau cyfagos. Cyffelybir cyfeiliornadau ac heresiau i *gancr;* y maent yn ymdaenu yn fuan dros eneidiau dynion, yn eu llygru, ac yn eu difa; y maent yn bwytta bywyd crefydd, a gwedi hyny y ffurfio dduwioldeb, ac yn dwyn distryw ac angau ysbrydol ar ddynion ac eglwysi, ac ar ol hyny, dinystr ar genedlaethau, pa le bynag y goddefir hwynt, 2 Tim. ii. 17.

CANDACE, enw brenines Ethiopia, sef y rhan honno o'r wlad ag oedd yn gorwedd o du y dehau i'r Aipht, tebygol. Dywedir fod yr enw yn arwyddoccau *awdurdod breninol*, a'i fod yn cael ei roddi yn gyffredinol i freninesau Meroc. Dilys yw, fod *Canidac*, yn iaith yr Abyssiniaid, yn arwyddo *llywodraethwr plant*. Dywed *Pliny* i lywodraeth Ethiopia barhau, dros amryw genedlaethau, yn nwylaw breninesau o'r enw *Candace*. Dywedir iddi gael ei dychwelyd i'r ffydd Gristionogol trwy bregethiad ei hiewnuch, Act. viii. 27.

CANGEN *(cang)*. Rhan o bren, Barn. ix. 48. O herwydd eu hymdaeniad, eu hymddangosiad hardd, a'u hawdurdod, cyffelybir yr eglwys a'r genedl Iuddewig i *gangau yn estyn hyd y môr;* ond mor ddychrynllyd y cawsant hwy a'u dinasoedd eu torri i lawr a'u distrywio gan yr Assyriaid! Salm lxxx. 10, 11. Esa. xxx. 17. a'r xxvii. 10, 11. Brenhinoedd a gwyr mawrion a gyffelybir i *gangau;* gwnaut ymddangosiad blodeuog, ac y mae ganddynt eu gosgordd-ddynion a'u deiliaid dan eu *cangau*, sef eu cyfreithiau; ac yn ymddibynu arnynt am eu nawdd a'u cynhaliaeth, Ezec. xvii. 3, a xxxi. 3. Dan. xi. 7, a iv. 12. Dinasoedd, wedi difrodi eu trigolion a'u masnach, a gyffelybir i *gangau gwrthodedig, cangau uchaf* wedi gwywo, neu *gangau llosgedig*, Esa. xvii. 9, a'r xxvii. 10. Yr oedd Joseph yn *gangen ffrwythlon*, neu yn *fab blodeuog*, o herwydd ei lilliogaeth luosog ac anrhydeddus, Gen. xlix. 22. Gelwir plant neu eppil yn gangau, o herwydd eu bod wedi deilliaw oddi wrth eu henafiaid, a'u bod yn anrhydedd, yn gymmorthwy, ac yn gyssur iddynt, Job viii. 16. *Ysgythrwyd cangau* Senacherib â dychryn, pan dorrodd yr Arglwydd ei dywysogion a'i fyddin luosog ymaith, gyda dyrnod ofnadwy, fel dail oddi ar bren, Esa. x. 33. Cyffelybir hawddfyd i *gangenau;* y mae yn ogoneddus, yn ddefnyddiol, ac yn amddiffynol, Dan. iv. 14. "Eithr tydi a fwriwyd allan o'th fedd, fel *cangen* ffiaidd," Esa. xiv. 19. Yr oedd y pren ar ba un y crogid y drwg-weithredwr; y cerrig â pha rai y cai un ei labyddio; y cleddyf â pha un y lleddid un; a'r cadach â pha un y tagid un, yn cael eu cyfrif oll yn ffiaidd gan yr Iuddewon, ac yn cael eu claddu gyda chorph y dienyddiedig, fel y pethau mwyaf adgas.

CANLYN, *(can-glynu)* a arwydda, (1.) Dylyn ar ol un a fyddo wedi myned o'r blaen, 1 Sam. xxv. 27. *Canlyn* yr Arglwydd, neu ddylyn *Oen Duw*, yw cymmeryd arnom broffes gyhoedd o Gristionogrwydd; yr ydym yn dylyn yr Oen pan y cymmerwn ein rhan gyda Christ, fel Oen Duw yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd; pan y byddwn yn dal at athrawiaeth Crist, ac yntau wedi ei groeshoelio; pan y byddwn yn ymlynu wrth y broffes dda hon yn wyneb pob hunan-ymwadiad a dyoddefaint, i ba rai y gall ein gwneud yn ddarostyngedig, Jer. xvii. 16. Dad. xiv. 4. *Dylyn* neu fyned ar ol duwiau dyeithr, yw eu hanrhydeddu ac ymgrymu ger eu

bron mewn dull eilun-addolgar, Barn. ii. 12. Y mae daioni a thrugaredd Duw yn *canlyn* y saint; trwy arferiad o'r rhai hyn, y mae efe yn eu gwylied, yn eu cynnal, ac yn eu cynnorthwyo yn barhaus; y mae yn maddeu eu pechodau, yn eu diogelu rhag peryglon; ac yn cyfrannu gras a gogoniant iddynt, Salm xxiii. 6. Yr ydym yn *dylyn* yr eglwysi, y saint, y gweinidogion neu ereill, pan y byddwn yn eu dynwared hwy yn eu proffes a'u hymarweddiad, 1 Thes. ii. 14. Heb. vi. 12, a'r xiii. 7. 1 Cor. iv. 16. Deut. xxiii. 2. 2 Petr ii. 2. Yr ydym yn *dylyn* neu yn rhodio yn ol ein hysbryd ein hunain, pan yr arweinir ac y tynnir ni, yn ein hegwyddorion neu ein hymarferiadau, gan ein dychymmygion ofer ac annuwiol ein hunain, Ezec. xiii. 3.

CANLLAW, *(can-llaw)* mur a wneid o amgylch penau tai gwastadnen, fel yr oedd eiddo yr Iuddewon a chenedloedd dwyreiniol ereill yn gyffredin, i rwystro neb rhag syrthio drosodd, neu i ymladd â'r gelynion oddi arnynt; neu dichon fod y gair yn arwyddo tyrau, caerau, neu amddiffynfeydd dinasoedd, Jer. v. 10. Cyfrifid pa Iuddew bynag a fyddai heb ganllaw o amgylch ei nen, yn euog o farwolaeth y neb a syrthiai oddi arni, Deut. xxii. 8.

CANOL *(cant-ol)*. 1. Y rhan nesaf i mewn, yr hon sydd cyn agosed i'r naill cithafedd a'r llall, Num. xxxv. 5. Ezec. xlviii. 15. (2.) Yn mysg, Hos. ix. 9. Zeph. iii. 5. Luc ii. 46. (3.) Y dyrfa dewaf, Luc iv. 30. (4.) Y lle mwyaf priodol, Deut. xix. 2. Yr oedd Duw yn rhodio yn mhlith neu yn *nghanol* gwersyll yr Hebreaid; yr oedd ei babell wedi ei sefydlu ac yn cael ei dwyn o amgylch yn eu canol hwynt, Deut. xxiii. 14. Y mae efe yn *nghanol* ei eglwys, ac y mae yr Iesu yn *nghanol* y canwyllbrenau aur: y mae ef yn eu plith trwy ei ordinhadau; y mae yn eu calonau trwy ffydd, ac yn barod i'w cynnorthwyo mewn pob cyfyngder, Zeph. iii. 5. Dad. i. 13. *Canolydd*, cyfryngwr, un mewn sefyllfa ganol rhwng dwy blaid, heb wyro mwy at y naill blaid na'r llall, un yn gyfuwch â'r uwchaf, 1 Tim. ii. 5.

CANT, deg o ddegau; *cant hir* chwe' ugain, *cant byr* pum ugain; cyfansoddir y gair *cánt* weithiau yn lle *cánodd*. (1.) Rhifedi terfynol a phennodol, Gen. xi. 10, a xvii. 17. (2.) Rhifedi mawr anmhennodol, Diar. xvii. 10. Preg. vi. 3.

CANWRIAD, *(cant-gwr)* swyddog yn myddin y Rhufeiniaid, yr hwn a reolai gant o wyr. Daeth un o honynt, mewn ffydd a gostyngeiddrwydd mawr, at yr Iesu i erfyn am iachâd gwyrthiol ei was. Dychwelwyd un arall, o achos y daear-gryn, a'r dygwyddiadau cyffelyb, pa rai a ganlynasant ddyoddefaint a marwolaeth ein Hiachawdwr, Mat. viii. 5, a'r xxvii. 54.

CANWYLL, *(can* gwyn, *gwyll* tywyllwch) llusern, goleuni. Duw yn chwilio Jerusalem â *llusernau* neu ganwyllau, a arwydda ei wybodaeth berffaith am ei hymarweddiad; ei waith yn cospi eu pechodau dirgelaidd; yn chwilio eu cydwybod trwy argyhoeddiadau a rhagluniaethau deffröawl, Zeph. i. 12. Gelwir ewyllys da Duw a'i fendith yn *ganwyll* neu oleuni; o herwydd eu bod yn ein cyfarwyddo, yn ein anrhydeddu, ac yn ein cyssuro, Job xxix. 3. Gelwir y deall rhesymol a'r gydwybod yn *ganwyll;* y maent yn ein chwilio, yn sylwi arnom, yn ein barnu, yn ein cyfarwyddo, ac yn ein hyfforddi, Diar. xx. 27. *Canwyll*, weithiau a arwydda, llwyddiant, hawddfyd, esmwythder, cyssuron, &c. Job xxi. 17. Diar. xiii. 9, a xx. 22, a xxiv. 20. Mat. xxv. 8.

CANWYLLBREN, *(can-gwyllpren)* offeryn i ddal canwyll ynddo. Yn y babell a'r deml, ar gyfer bwrdd y bara gosod, yr oedd canwyllbren aur wedi ei osod ar yr ystlys ddehau, fel na byddai y cyssegr byth yn dywyll. Yr oedd hwn yn gynnwysedig o baladr mawr â chwech o geingciau iddo, ac yr oedd pob cainge wedi ei baddurno, mewn tri man gwahanol, â phadell o waith almonau, cnap, a blodeuyn; y gefeiliau a'r cafnau oeddynt o aur pur, fel y canwyllbren ei hun. Ar ben y paladr a'r ceingciau yr oedd saith o lampau, y rhai a borthid âg olew pur yr olewwydden, ac a oleuid bob hwyr gan yr offeiriaid, y rhai a losgent arogldarth ar yr un amser. Gosododd Solomon ddeg o'r cyfryw yn y deml; pump o'r tu dehau, a phump o'r tu

aswy, o flaen y gafell, 1 Bren. vii. 49. Dywedir fod y canwyllbren a wnaeth Moses yn y babell yn werth £5651 0 9½ o'n harian ni. Onid oedd hwn yn gysgod o'r gwir oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn sydd yn dyfod i'r byd? Nid yn unig y mae Iesu Grist, mewn amryw destunau o'r ysgrythyr, yn cael ei gyffelybu i oleuni yr haul, eithr dywedir mewn un man, "Ti wyt lamp i mi, O Arglwydd, a'r Arglwydd a oleua fy nhywyllwch." Dichon fod aur pur curedig y canwyllbren hwn yn dynodi sancteiddrwydd difrycheulyd, a gwerth anmhrisiadwy yr Iesu, yr hwn a berffeithiwyd trwy ddyoddefiadau. Yr olew, pa un oedd yn meithrin y lampau, sydd yn gysgod o'r Ysbryd Glan, yr hwn a'i henneiniodd ef i bregethu newyddion da i'r rhai addfwyn. Y mae rhifedi y lampau, sef saith, yn gosod allan berffeithrwydd ei oleuni ef. Y cyssegr, lle y tywynnent, yw yr eglwys. Dichon fod y goleuni, yr hwn a defiid o amgylch oddi wrth y canwyllbren hwn, yn gysgod o oleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu, yr hwn sydd yn llewyrchu i galonau yr holl freninol offeiriadaeth; neu oleuni yr ysgrythyrau, y rhai ydynt belydr o Iesu Grist, ac, ar ba rai y gwnawn yn dda fod yn dal, megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll.

Fod y canwyllbren aur, hefyd, yn gysgod o'r *eglwys*, a ymddengys yn dra thebygol, pan yr ystyriom i Zecharias, un o brophwydi yr Hen Destament weled, yn ngweledigaethau Duw, fel arwydd-lun o honi, ganwyllbren aur yn cael ei ddiwallu âg olew euraidd o ddwy olew-wydden; ac i Ioan, pan yr oedd efe yn yr ysbryd, ganfod ein Harchoffeiriad mawr, mewn gwisgoedd offeiriadol, yn rhodio yn nghanol y saith ganwyllbren aur, y rhai oeddynt saith eglwys Asia. Eithr bydded i ni, er prawf pellach, sylwi ar gyffelybrwydd y dodrefnyn cyssegredig hwn i'r eglwys oll, yn nghyd âg, hefyd, i bob eglwys yn wahanredol.

Nyni a gawn, yn gyntaf, ystyried y canwyllbren ei hun. Ei ddyben oedd i dderbyn defnyddiau y goleuni, ac yna i'w wasgaru ef oddi amgylch. Yn gymhwys felly y mae yr eglwys yn derbyn y goleuni, yn y lle cyntaf, ac, yna, yn ei ddal ef allan. Ei ddefnydd oedd aur pur curedig. Gall fod yr eglwys yn lamp ddirmygedig yn meddyliau dynion bydol, ac yn cael ei chyfrif fel llestr pridd; etto, yn ngolwg yr Arglwydd, y mae yn gyffelyb i aur coeth, fe, aur pur ydyw hi, wedi ei glanhau oddi wrth sorod y llygredigaethau a deyrnasent ynddi, trwy waed, ysbryd, a gair Crist. Trwy y moddion hyn, y mae hi yn llestr cymhwys i wasanaeth y Meistr. O ran ei *lun*, yr oedd wedi ei ddosparthu yn chwech o geingciau, y rhai a gyssylltid yn nghyd gan un paladr cyffredin. Y mae hyn yn arwyddoccau cyfrwymiad yr holl eglwysi gwirioneddol a'r credinwyr iachus yn un gymdeithas fawr, yr hyn sydd wedi ei sylfaenu ar eu perthynas gyffredinol âg Iesu Grist, canolbwngc undeb. Dichon fod yr addurniadau, sef yr almonau, y cnapiau, a'r blodau, y rhai a harddent bob un o'r ceingciau, yn dynodi yr amrywiol ddoniau â pha rai y dylai pob eglwys fod wedi ei haddurno, fel y gallo, gyda mwy o fri ac urddas, ddal gair y bywyd allan. Nid oedd y gefeiliau a'r eafnau yn ychwanegiadau mwy angenrheidiol at y canwyllbren aur, nag ydyw ceryddon eglwysig, a rhybuddion brawdol i bob cymdeithas o Gristionogion. Trwy yr offerynau hyn, yr oedd y lampau yn llosgi yn eglur, ac nid oedd llawr y cyssegr yn cael ei ddiwyno. Felly y mae dysgyblaeth eglwys yn foddion rhagorol i gadw lamp goleuni yr efengyl rhag tywyllu, a themi yr Arglwydd rhag cael ei halogi, trwy ormod-rhysedd. Yr *olew* yn llosgi yn saith lamp y canwyllbren, sydd yn gysgod o'r Ysbryd Glan yn ei amrywiol ddoniau, yr hwn sydd yn trigo yn yr eglwys; sydd yn cael ei gymharu i olew, ac i dân; ac am ba un y llefara yr apostol Ioan yn y dull dammegol hwn, pan welodd efe weledigaethau yr Hollalluog; "Ac yr oedd saith o lampau tân yn llosgi ger bron yr orseddfaingc, y rhai ydynt saith ysbryd Duw." Cymmaint â hyna mewn perthynas i'r canwyllbren ei hun. Cawn yn awr daflu cip-olwg ar weinidogaeth yr offeiriaid o ddeutu y llestr sanctaidd hwn. Yr oeddynt hwy i'w ddiwallu ef âg olew, i drwsio y lampau, a'u goleuo bob bore, ac i losgi arogldarth ar yr un amser. Onid allai hyn fod yn ar-

wyddoccau gofal gwyliadwrus Gweinidog y cyssegr a'r gwir dabernacl, yr hwn sydd yn rhodio yn nghanol y saith ganwyllbren aur, yr hwn sydd yn cyfranu iddynt bob cynnorthwyon angenrheidiol o'r enneiniad nefol, yr hwn ni ddiffydd y llin yn mygu, ond sydd yn cadarnhau y pethau sydd yn ol ag ydynt barod i farw; tra, ar yr un amser, y mae efe yn offrymu i Dduw aroglarth hyfryd ei eiriolaeth llwyddiannus ar eu rhan hwynt.

CAPEL, tŷ addoliad cyhoeddus a wneir mewn plwyf yn lle yr eglwys, er cyfleusdra y plwyfolion. Bethel a elwir *capel y brenin*, o blegid fod breninoedd Israel yn addoli y llo aur yno, Amos vii. 13.

CAPERNAUM, *(maes dyddanwch)* prif ddinas yn Galilea. Ni adeiladwyd mo honi, tebygol, nes ar ol caethiwed yr Iuddewon yn Babilon. Yr oedd yn sefyll ar lan orllewinol môr Tiberias, ar gyffiniau Zabulon a Naphtali. Derbyniodd ei henw oddi wrth ffynnon loew oedd yn ei chymmydogaeth. Yma y bu Crist yn aros yn fynych ac yn athrawaethu. Trwy ei gwaith yn mwynhau ei wyrthiau a'i weinidogaeth ef, yr oedd wedi ei *derchafu hyd y nef* mewn breintiau; ac, o herwydd iddi esgeuluso eu defnyddio hwy yn iawn, *darostyngwyd hi hyd yn uffern*, trwy golledigaeth tragywyddol amryw o'i thrigolion; trwy ei dyoddefiadau dychrynllyd oddi wrth y Rhufeiniaid; ac yn ei chyflwr diymgeledd wedi hyny; o herwydd, dywedir nad oes yndd, yn awr, ddim ond ychydig o fythod gwaelion, a physgodwyr yn trigo ynddynt, Mat. xi. 23.

CAPPADOCIA; gwlad sydd â môr Euxin o du y gogledd iddi, Armenia Fwyaf o du y dehau, Galatia a Pamphylia o du y gorllewin, a Cilicia o du y dwyrain. Tebygol i'r wlad hon gael ei phoblogi gan hiliogaeth Togarma. Yr oedd yn enwog am feirch a deadelloedd; ac yn masnachu â'r Tyriaid mewn meirch a milod, Ezec. xxvii. 14. Ymddengys fod Cappadocia, unwaith, yn dalaeth o freniniaeth Lydia. Yn ol *Herodotus*, trosglwyddwyd hi, yn nesaf, i'r Mediaid, ac ynai'r Persiaid, addoliad pa rai a gofleidiodd y trigolion, ac, wedi hyny, ychwanegasant atto ran o eilunaddoliaeth y Groegiaid. Pa fodd y daeth rhai hen awduron i'w galw hwy yn Assyriaid, neu Syriaid Gwynion, nis gwyddom. Yr oedd gan y Cappadociaid freninoedd o'r eiddynt eu hunain, o amser Cyrus, hyd ychydig ar ol genedigaeth ein Hiachawdwr, pan ddarostyngwyd y wlad yn dalaeth Rufeinig. Oddi wrth amherawdwyr Rhufeinig y dwyrain, aeth i ddwylaw y Tyrciaid. Tra y bu paganiaeth yn ffynnu, yr oedd y Cappadociaid yn hynod am eu dryginoni, yn benaf eu hanlladrwydd; eithr planwyd Cristionogrwydd yn foreu yn eu plith, ysgatfydd gan rai a ddychwelwyd trwy bregeth Petr ar ddydd y Pentecost, Act. ii. 9. Ysgrifenodd Petr ei lythyr cyntaf, mewn rhan, at Iuddewon Cristionogol y lle hwn, 1 Petr i. 1. Blodeuodd Cristionogrwydd yn fawr yma unwaith, a bu yn eu mysg luaws o esgobion enwog am lafurio yn ngwaith yr Arglwydd. Gallwn olrhain banes Cristionogrwydd yn y wlad hon, hyd y 9fed ganrif, ac nid yw wedi ei diddymu yn llwyr yma etto.

CAPHTOR, *(afal)* ynys neu wlad. Yr ydym bron yn synnu wrth gael fod *Bochart* ddysgedig yn canlyn lluaws o awduron ereill, trwy gymmeryd hon yn lle Cappadocia ar gyffiniau Colchis, a glan ddeheuol y môr Euxin. Pa feddwl anwadal a allasai ddwyn y Caphtorim, neu y Philistiaid, hiliogaeth Mozraim yn yr Aipht, i'r penderfyniad o gymmeryd eu taith ymaith o wlad mor ffrwythlon i lanau y môr Exin? ac, ar ond ychydig yn rhagor na golwg ar y lle, i deithio yn ol i'r gongl ddehau-orllewinol o wlad Canaan, a sefydlu yno, cyn genedigaeth Abraham, o leiaf cyn pen hir wedi hyny? Gyda llawer mwy ymddangosiad o reswm y dadleu *Calmet* mai ynys Crete oedd Caphtor. Dilys yw, fod Caphtor yn cael ei galw yn ynys, Jer. xlvii. 4. Y LXX ac ysgrifenwyr yr Apocrypha, bob amser, a osodant y Philistiaid allan fel wedi dyfod o le arall. Dilys yw, fod y Cerethiaid, neu y Crethin, yn llwyth o'r Philistiaid, os nad hwn, unwaith, oedd enw pfiodol yr holl genedl, Ezec. xxv. 16. Zeph. ii. 5. 1 Sam. xxx. 14. A phwy na wêl mai yr un yn gymhwys yw y Crethin â'r Cretes neu y Cretiaid, un o'r cenedlaeth au henaf yn ynysoedd Môr y Canoldir? Yr

oedd Crete yn foreu iawn wedi ei llenwi, os nid ei gorlenwi, â thrigolion; ac yr oedd ynddi gant o ddinasoedd mor gynnar â rhyfeloedd Caerdroya, y rhai nid allent fod yn ddiweddarach na dyddiau Jehosaphat, os nad oeddynt yn agos i 300 o flynyddoedd yn gynnarach. Yr unrhyw ydoedd iaith, moesau, arfau, ac eilunod yr hen Gretiaid âg eiddo y Philistiaid. Gelwid Gaza, un o brif ddinasoedd y Philistiaid, Minoa, ar ol Minos, un o freninoedd enwog Crete. Ni ddichon y cyfan o'r ymresymiad hwn, pa fodd bynag, lai na'n hargyhoeddi, i'r Cretiaid a'r Philistiaid darddu oddi wrth yr un gwreiddyn, ac iddynt gynnal ymgystlynaeth gyda'r naill y llall. Ac ymddengys yn fwy rhesymol i gredu, mai trefedigaeth o'r Philistiaid oedd y Cretiaid, na chredu i biliogaeth Mizraim, heb un achos, ymadael â'r Aipht, a mordwyo i Crete, ac felly lenwi yr ynys honno, fel yr oedd yn ofynol iddynt yn nyddiau Abraham, neu cyn hyny, anfon eu huwch-rifedigion yn ol i Canaan.

Yr ysgrifenwyr Iuddewig a ddehonglant Caphtor trwy y gair Caphuteia, wrth ba un y meddylid rhan o'r Aipht Isaf, yn benaf Damietta, neu Damiata, rhwng cangenau y Nilus. Y mae y dyb hon yn mhob ffordd yn debygol. Yma y mae Caphtor, a elwir yn ddigon priodol yn ynys: yma y mae man lle y gall un ddisgwyl cael y Caphtorim a hanasant o Mizraim: yma yr oedd y ddinas Coptus, pa enw a ffurfiwyd, digon tebygol, oddi wrth Caphtor mab Casluhim, a thad y Caphtorim, y rhai oeddynt naill ai yr unrhyw â'r Philistiaid, neu ynte yn frodyr iddynt, Gen. x. 14. Amos ix. 7. Jer. xlvii. 4.

CARBUNCL, gem hardd iawn, o liw coch dwfn, yn gymmysgedig â phorphor, yn ail i'r adamant yn unig o ran ei gwerth, ac mor galed â'r Sapphir. Y mae hi yn gyffredin o ddull onglog. Y mae hi y rhan amlaf o ddeutu pedwaran modfedd o hyd, a'r chwechfed ran o honi o led. Eithr y mae gan frenin Ceylon yn yr India Ddwyreiniol, lle y ceir y fath deccaf, o'r meini hyn, un o ddeutu pedair modfedd o led, a thair o drwch, mor ddysclaer â'r tân. Goddef y carbuncl dân heb y cyfnewidiad lleiaf; eithr pan ddelir hi i fynu gyferbyn â'r haul, cyll ei gwawr brydferth, ac â yn debyg i olosgedd glo heb ei ddiffodd. Y maent yn dra anaml, i'w cael yn unig yn yr India Ddwyreiniol, am a wyddom ni; eithr ymddengys fod brenin Tyrus â'i wisgoedd wedi eu gorchuddio â'r *meini tanllyd* a dysclaer hyn, Ezec. xxviii. 13. Hwn oedd y maen cyntaf yn yr ail rês o feini gwerthfawr yn nwyfroneg yr achoffeiriad, Ex. xxviii. 17.

CARCHAR, *(car, carrio,* am fod drwg-weithredwyr, yn yr amseroedd gynt, yn cael eu dwyn ar garr i'r carcharau, cyffion, &c.) lle i gyfyngu ar ynfydion neu ddrwg-weithredwyr, Luc xxiii. 19. Iddo y cyffeiybir pa beth bynag a duedda i gyfyngu ar ryddid dyn, ac i'w wneud yn waradwyddus a thruenus; megys (1.) Cyfiwr isel, gwael, a chystuddiol, Preg. iv. 14. (2.) Y cyfiwr o attalfa yn mha un y mae Duw yn cadw Satan rhag twyllo dynolryw, Dad. xx. 7. (3.) Y cyfiwr o gaethiwed ysbrydol yn mha un y cedwir pechaduriaid gan felldith y ddeddf, gan Satan, a chan eu chwantau eu hunain, Esa. lxii. 7. (4.) Y bedd, o'r hwn ni all dynion symmud, ac yn mha un y cauir arnynt megys ar ddrwg-weithredwyr, Esa. liii. 8. Hwyrach mai mewn cyfeiriad at y bedd y galwodd Dafydd yr ogof yn mha un yr oedd efe, megys pe buasai wedi ei gladdu yn fyw, yn *garchar*, Salm cxlii. 7. (5.) Uffern, lle y cyfyngir ar bechaduriaid colledig yn waradwyddus ac yn druenus, ond etto yn ddiogel ac yn sicr, 1 Petr iii. 19. Gelwir y cyfryw ag y cauir arnynt yn un o'r rhai hyn, neu ag ydynt mewn cyfiwr caeth, yn *garcharorion*, Esa. xlix. 9. Salm lxix. 33. Job iii. 18. Paul oedd *garcharor Iesu Grist*, sef mewn rhwymau a charchar o herwydd ei ymlyniad wrth wirioneddau Crist a'i achos, Eph. iii. 1. Yr Iuddewon yn Babilon, a'r pechaduriaid hyny a wahodder at Iesu Grist ydynt yn *garcharorion gobeithiol*; yr oedd yr addewid yn diogelu gwaredigaeth i'r blaenaf; y mae hi yn cynnyg gwaredigaeth i'r olaf, Zec. ix. 12.

"Ac a'i rhoddasant yn y *carchardy* yn nhŷ Jonathan yr ysgrifenydd," Jer. xxxvii. 15. Yr oedd, ac y mae etto, yn arferedig

yn y gwleddydd dwyreiniol, i wneud tai gwyr mawrion yn *garcharau*, Gen. xxxix. 20, ïe, yr oedd *carchar* yn y palas breninol ei hun, Jer. xxxii. 2. Nid tai cyffredin, wedi eu hadeiladu i'r dyben hwnw yw y carcharau dwyreiniol; ond rhan o'r tŷ y preswylia y barnwr yndd. Llywydd, neu uchel faer tref, neu gadpen gwyliadwriaeth, a garcharant y cyfryw a gyhuddir, yn eu tai eu hunain; neilluaint ran o bono i'r dyben hwnw, pan osodir hwy yn y swyddau byny, a dewisant yn geidwad y carchar, y dyn mwyaf addas yn eu teuluoedd. Tebygol gwneud tŷ Jonathan yn *garchar*, yn ganlynol i'w wneuthuriad yn ysgrifenydd i'r brenin.

CARCHEMIS, *(dwyn ymaith oen)* dinas ar lan yr afon Euphrates, yn perthyn i Assyria, a'r un, ysgatfydd, â Circesium ar ochr ddwyreiniol yr afon honno. O ddeutu amser cwymp amberodraeth Assyria, cymerodd yr Aiphtiaid feddiant o honi; eithr Nebuchodonozor, drwy orchfygu Pharaoh Necho gerllaw iddi, a'i hynnillodd, ac a dorrodd y gwarchawd-lu yn ddarnau, 2 Cron. xxxv. 20. Esa. x. 9. Jer. xlvi. 1—12.

CARREG, *(car)* *carreg lefain*, neu *carreg lafar*. Cyffelybir Crist a'i eglwys i *garreg fechan* wedi ei thorri o'r mynydd, ond nid â llaw, ac yn cynnyddu yn fynydd mawr yr hwn a lanwodd yr holl ddaear; cafodd ef ei eni o forwyn, ac ymddangosodd mewn cyflwr isel a thlawd; eithr y mae ei ogoniant yn cynnyddu yn raddol, hyd nes y lleinw yr holl ddaear; ei eglwys Gristionogol, er ei bod yn fechan ar y cyntaf, ac wedi ei ffurfio heb gynnorthwy moddion cnawdol, a gynnydda yn raddol hyd nes yr ymestyna tros yr holl ddaear, Dan. ii. 45. Cyffelybir calonau ystyfnig, anhywaith, ac anmhlygedig, na dderbyniant argraphiadau caredigol yn hawdd oddi wrth air neu ragluniaeth Duw, i *gerrig*, Ezec. xi. 19, a xxxvi. 26. 1 Sam. xxv. 27. Marc iv. 5, 16. *Y cerrig yn llefain o'r mur, a'r trawst yn eu hateb*, a arwydda y drygioni erchyll o adeiladu tai â'r hyn a ennillwyd mewn ffordd anghyfiawn, Hab. ii. 11. Bod *carreg heb ei gadael ar garreg*, a *meini gwagedd*, a *gwasgaru* cerrig dros le, a arwydda ddinystr llwyr, a throad Edom neu Idumea yn graig ddiffrwyth, Mat. xxiv. 2. Esa. xxxiv. 11. Salm cxli. 6. Mewn cyfeiriad at arfer y Groegiaid o nodi rhyddhad. un a fyddai wedi ei gyhuddo o ryw fai, â cherrig gwynion, arwydda y *garreg wen* a roddir gan Grist faddeuant llawn, a gwobrwy gogoneddus; neu, beth os yw yn dynodi yr Iesu ei hun? Dad. ii. 17. Anrheg yn ngolwg ei pherchenog sydd gyffelyb i *faen gwerthfawr*; y mae yn cael ei phrisio yn fawr, ac yn tueddu i gaffael i ni pa beth bynag a ddymunem, Diar. xvii. 7. Fel un yn *rhwymo carreg* mewn *tafl*, gan ei gwneuthur yn angbymhwys i'w bwrw ymaith; felly y mae *rhoddi anrhydedd i ffol*, yn llwyr anfuddiol; neu y mae yn waith mor ddiddefnydd ag ydyw taflu maen gwerthfawr i garnedd o gerrig; nes y mae yr anrhydedd hwn wedi ei osod mewn lle mor anmhriodol, a phe rhwymid carreg arw mewn darn o liain porphor teg, Diar. xxvi. 8.

CARIAD, *(cár)* sydd, mewn modd ardderchog, yn nôd arwyddol o Dduw ei hun; Duw *cariad* yw; ac, ynddo ef, nid oes dywyllwch, 1 Ioan iv. 8, 16. Gwnaed amlygiad mawrwych o gariad Duw at ddyn enog, pan garodd efe y byd felly, fel yr anfonodd ei unig-anedig Fab, nid i ddammio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef. Yn y rhodd hynod hon o eiddo Duw, y mae ei gymmeriad, fel Duw y cariad, yn ymddyscleirio; ac, ar yr un amser, garedigrwydd a serch Duw ein Hiachawdwr. Dywed Paul fod cariad Crist uwchlaw gwybodaeth; ac y mae pawb o'r frawdoliaeth, yn eu gradd, â llygaid eu deall wedi eu hagor i amgyffred, gyda yr holl saint, led, hyd, dyfnder, ac uchder y cariad hwn. Rhaid i bawb a glywant y gwirionedd, ei dderbyn, naill ai yn y cariad o bono, neu fod mewn gelyniaeth tu ag atto; am hyny, medd Ioan, pan yn gosod y gelyniaeth hwn mewn cyferbyniad i'r gwirionedd yn nghyd â'r cariad o hono, "Nid fel Cain, yr hwn oedd o'r drwg, &c. yn lleiddiad dyn o'r dechreuad," &c.

Drygioni sydd air yn yr ysgrythyr, yr hwn, er ei defnyddid weithiau i osod *pechod* allan yn gyffredinol, etto sydd i'w ddeall yn fwy manwych, megys "casineb at y gwirionedd;"

am hyny, gelwir teyrnas Anghrist mewn modd nodedig yr *anwir hwnw*, 2 Thes. ii. 4. Yn awr y mae cariad neu serch at y gwirionedd yn egwyddor holloi wahanol oddi wrth ewyllys da neu ddyngarwch cyffredinol; er ei fod yn magu ac yn meithrin pob un o'r ddau. Pa le bynag y mae cariad Crist yn adnabyddus yn y galon, y mae yn cenedlu yr hyn a elwir *cariad at y brodyr*, hyny yw, y rhai hyny a ymddangosant eu bod o'r gwirionedd; ac y mae y cariad hwn yn gweithio trwy yr hyn a elwir *llafur cariad*, yn yr ymarferiad o ddeddf tŷ Crist, yr hon sydd yn *ddeddf cariad*, Mat. xviii. 15—22. Yn awr nid ellir arfer y cariad hwn ond mewn brawdoliaeth Gristionogol; "Os *pecha* dy frawd," &c. a hwn yw y rhwymyn sydd yn perffeithio pob un o eglwysi Crist mewn beddwch a thangnefedd, tra nad yw yn gymhwysiadol at un gymdeithas arall. Y nod yw, gan hyny, trwy ba un yr adnebydd pawb ddysgyblion Crist; ac, o herwydd hyn, y mae ein Harglwydd yn ei alw mewn modd pennodol, ei orchymyn ef; ac y mae ei apostolion mor ofalus i gymhell ufudd-dod iddo ef.

Arferir y gair *cariad* weithiau yn yr ysgrythyr i osod allan serch anianol.

CARIAD-WLEDDOEDD. Cedwid y gwleddoedd hyn gan y prif Gristionogion mewn cof am y swpper diweddaf, yr hwn a wnaeth Iesu Grist gyda'i ddysgyblion, pan y sefydlodd efe y cymmun sanctaidd. Cynhelid hwy yn yr eglwys, tua'r hwyr, ar ol i'r gweddïau cyffredin fyned drosodd, a bod gair yr iachawdwriaeth wedi cael ei glywed. Ar ol gwneuthur hyn, cyd-fyytâi y ffyddloniaid mewn symlrwydd, undeb, a charedigrwydd mawr gyda'u gilydd, yr hyn a ddygasai pob un gydag ef; ac felly nid oedd y cyfoethogion a'r tlodion yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth y naill y llall mewn un modd. Yr arfer hon a fenthycodd y brif eglwys oddi wrth yr Iuddewon crefyddol; y rhai, ar ol iddynt aberthu, a fwyttaent gig yr aberth yn llawen gyda'u gilydd.

Ar ol swpper cymhedrol, cyfrannogent o arwyddion corph a gwaed yr Arglwydd, a rhoddent, y naill i'r llall, *gusan tangnefedd*. Yr arfer hon, er ei bod mor ddaionus a chanmoladwy yn ei dechreuad, a ddirywiodd yn fuan, ac a gamddefnyddiwyd. Achwyna St. Paul yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid, tod, mor fore âg yn ei amser ef, y cyfoethogion yn diystyru y tlodion yn y cynnulleidfaoedd hyn, ac na wnaent ymostwng i gydfwytta â hwynt: "Pan fyddoch chwi gan hyny yn dyfod yn nghyd i'r un lle," medd efe mewn un man, "nid bwytta swpper yr Arglwydd ydyw hyn; canys y mae pob un wrth fwytta yn cymmeryd ei swpper ei hun o'r blaen; ac un sydd â newyn arno, ac arall sydd yn feddw; onid oes gennych dai i fwytta ac i yfed? ai dirmygu yr ydych chwi eglwys Dduw, a gwaradwyddo y rhai nid oes ganddynt? pa beth a ddywedaf wrthych? a ganmolaf fi chwi yn hyn? Nid wyf yn eich canmol." Yr oedd gan yr Iuddewon fath o wleddoedd defosiynol, y rhai oeddynt â rhyw gymmaint o berthynas rhynggddynt a'r gwleddoedd hyn yr ydym yn llefaru am danynt. Ar eu buchel wyliau mawrion, gwnaent wleddoedd i'w teuluoedd, eu cyfeillion, a'u perthynasau: ac i'r rhai hyn gwahoddent yr offeiriaid, y tlodion, a phlant amddifaid, ac anfonent ranau iddynt o'u haberthau. Gwnaent y gwleddoedd hyn yn y deml, a cher bron yr Arglwydd. Ac yr oedd amryw aberthau a blaenffrwythau wedi eu trefnu gan y gyfraith, pa rai a neilldiid i'r perwyl hwn.

CARMEL *(gwinllan Duw)*. 1. Dinas yn sefyll ar fynydd o'r un enw, yn y parth dehenol o etifeddiaeth Judah, o ddeutu deng milltir o du y dehau-ddwyrain i Hebron. Yma y cyfododd Saul golofn goffadwriaethol am ei fuddugoliaeth, pan oedd yn dychwelyd o ladd yr Amaleciaid. Yma yr oedd Nabal y Carmeliad yn trigo; ac yma, dywedir, y bu gwarchawd-lu gan y Rhufeiniaid, yn mhen amryw oesoedd wedi hyny, 1 Sam. xv. 12, a'r xxv. (2.) Mynydd hyfryd, ar lan Môr y Canoldir, o ddeutu 16 milltir o du y gogledd-orllewin o Jezreel, ar y terfyn rhwng Issachar a Manasseh. Yr oedd arno amledd o winwydd ac olew-wydd, a phob coed ffrwythlawn yn tyfu; ac wrth ei droed orllewinol, yr oeddynt yn pysgotta y carmel neu y porphor-

bysg. Yma yr offrymodd Elias ei aberth rhagorol, ac a attebwyd trwy dân o'r nefoedd, ac y gorchymynodd ladd 450 o brophwydi Baal, 1 Bren. xviii. 19—40. Yma y bu y cenedloedd, yn yr oesoedd canlynol, yn addoli duw hynod, heb ddeiw na themi iddo, ond allor yn unig. I'r duw hwn y bu Vespasian yr amheradwdwr Rhufeinaidd yn aberthu; ac ymgynghorodd âg ef, pa un a gai efe yr amherodraeth neu beidio. Oddeutu A.D. 1180, sefydlwyd urdd o frodyr Carmelaidd, pa rai a adeiladasant fonachlog yma, a chymmerent arnynt eu bod yn ganlynwyr meibion y prophwydi a adawyd yma gan Elias. Yr oedd unrhyw le bras a ffrwythlon yn cael ei alw *Carmel* neu *Saron*, Esa. xxxiii. 9, a xxxv. 2. Pen y saint sydd *fel Carmel;* Iesu, eu pen-llywodraethwr a'u brenin, sydd yn anfeidrol uchel, derchafedig, gogoneddus, a ffrwythlawn; gobaith, eu gras penaf, sydd yn myned tu fewn i'r llen, ac iddo rag-olwg helaeth, a hyfryd rhagorol, ac yn ffrwythlawn dros ben mewn gweithredoedd da, Can. vii. 5. Eithr gellir cyfeithu y gair yn *porphor*.

CARN, *(car)* corn, ewin-garn neu wadn troed anifel. "Gwnaf dy *garn* yn haiarn, a'th *garnau* yn brês, Micah iv. 13. Arferiad diweddar, a hollol anhysbys i'r henafiaid, yw pedoli anifeiliaid, gan nad oes neb o honynt yn crybwyll am y fath arfer yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. O herwydd hyn, yr oedd cadernid a sylweddolrwydd carn march, o fwy o bwys iddynt hwy nag i ni, ac yr oedd yn cael ei olygu yn un o'r cynneddfau goreu mewn march da.

CARNEDD, *(carn)* 1. Pentwr o gerrig wedi eu casglu yn nghyd, yn goffadwriaeth am ryw beth hynod, Gen. xxxi. 46. Jos. vii. 26. (2.) Dinas wedi ei hanrheithio, a'i thynnu i lawr, 2 Bren. xix. 25. Esa. xxxvii. 26. Salm lxxix. 1. (3.) Arwyddion wrth ba rai y gellid gwybod neu goño y ffordd, Jer. xxxi. 21.

CARTREF, *(car, tref)* a arwydda trigfa, preswylfod, Exod. xvi. 29. Lef. xviii. 9. Deut. xxiv. 5. (2.) Y bedd, Preg. xii. 5. (3.) Y nefoedd, cartrefle tragywyddol y saint; lle y dywedir eu bod "yn cartrefu gyda yr Arglwydd," 2 Cor. v. 8. Y mae hwn yn gartref llawn, hyfryd, a thragywyddol: y plant yn unig a fydd yno gyda eu Tad nefol; ni bydd gelynion i'w blino, a bydd cystudd a galar wedi ffoi ymaith.

CAS—AU, *(cy-as)* cilwg, dygasedd. Nid ydym i ddeall y gair hwn, bob amser, yn ei ystyr gyfyngaf. Nid arwydda yn fynych ychwaneg na gradd llai o gariad, megys Deut. xxi. 15. "Pan fyddo i wr ddwy o wragedd, un yn gu ac un yn gâs," hyny yw, â chanddo lai o gariad tu ag atti. Felly y dywed ein Hiachawdwr, fod yn rhaid i'r hwn a'i canlynai ef, *gasâu ei dad a'i fam;* hyny yw, y dylai eu caru yn llai na Christ—yn llai na'i iachawdwriaeth ei hun; ni ddylai eu cyfrif o flaen Duw, Luc xiv. 26. Solomon a ddywed, "fod yr hwn sydd yn arbed y wialen yn *casâu* ei fab," Diar. xiii. 24. Tadau yn fynych a arbedant eu plant o herwydd eu cariad gormodol tu ag attynt; eithr nid yw hyn yn brawf cymhwys o serch, sef ymattal oddi wrth eu ceryddu; eu serch hoffaidd sydd mor niweidiol i'w plant, ag y gallai casineb dynion ereill fod; gan eu bod yn attal eddi wrthynt yr hyn a fyddai yn llesol iddynt. Y mae hefyd *gasineb* maleisus at bersonau dynion, ac nid at eu pechodau; felly yr oedd Ahab yn *casâu* Micah prophwyd yr Arglwydd, 1 Bren. xxii. 8. Ac y mae yr annuwiol fel hyn yn *casâu* y cyfiawn, Salm xxxiv. 21. "Y rhai a gasânt y cyfiawn a anrheithir." Y mae hefyd gasineb at bechodau dynion, ac nid at eu personau; felly y mae y cyfiawn yn *casâu* hyd yn nod y wisg halogedig, Judas 23. "Y peth sydd *gâs* genyf, hyny yr wyf yn ei wneuthur," Rhuf. vii. 15. Y mae y duwiolion yn *casâu* pechod, am ei fod yn drosedd o gyfraith Duw.

CASGL—U, *(cas)* cynnull, cryn-hoi, dwyn pethau at eu gilydd. Y mae Crist yn *casglu lili*, pan y bydd yn dwyn ei bobl i gyflwr o ras; pan y bydd yn gweithio, ac yn ymhyfrydu yn eu grasau a'u gweithredoedd da; neu pan y bydd yn eu trosglwyddo trwy farwolaeth i'w ardd nefolaidd fry, Can. vi. 2. Y mae Crist, weithiau, yn dyfod i'w ardd i blannu lili newyddion, ac, weithiau, i gasglu y rhai addfed i Baradwys. Y mae efe yn *casglu* ei fyrrh gyda'i ber-

arogl, ac yn bwytta ei ddil gyda'i fêl, ac yn yfed ei win gyda'i laeth, pan y bydd yn dwyn ei addewidion a'i fendithion yn agos at ei bobl, ac yn cymmeryd hyfrydwch yn eu harferiad o ffydd ynddynt, Can. v. 1. Y mae efe yn *casglu* pechaduriaid atto ei hun, pan y bydd, trwy bregethiad o'i efengyl, a'i Ysbryd Glan, yn eu tynnu yn nerthol ac yn eu huno hwy â'i berson, ac yn eu gosod a'u cadw mewn parch a chyfeillach gydag ef, Mat. xxiii. 37. Y mae y rhai hyny yn *casglu gyda Christ*, ag sydd yn dwyn lleshad gwirioneddol crefydd, ac iachawdwriaeth eneidiau yn mlaen, Mat. xii. 30. Luc xi. 23. Yr oedd *cynnulliad pobloedd* at Judah, o herwydd fod y llwythau Hebreaidd, ar y tair gwyl arbennig, yn myned i fynu i Jerusalem; ac yr oedd, ac y mae eu *cynnulliad* at Siloh, pan yr oedd torfèydd yn gwrandaw yn ddyfal ar ei athrawiaethau ef; a phan y mae lluoedd o'r Cenedloedd, yn benaf, yn credu yndde ac yn rhodio gydag ef, Gen. xlix. 10. Yr oedd *casgliad* beunyddiol y manna ar foreuau y dyddiau gweithio, yn gysgod o'n hymlyniad cynnar a dyfal wrth ordinhadau Crist, a'n gwaith yn derbyn ei berson, ei gyfiawnder, a'i ddoniau, yn rhan i'n heneidiau; ac y mae gan bawb o'r cyfryw a wnant felly hawl cyfartal mewn Crist cyfan, a'i gyfiawnder, Exod. xvi. 26. 2 Cor. viii. 13, 14, 15. Bod enaid un yn cael ei *gasglu* gyda phechaduriaid, a'i fywyd gyda dynion gwaedlyd, yw bod yn gauedig i fynu yn eu cymdeithas hwy, bod yn gyfranog o'u pläau, a chael ei ddwyn i uffern gyda hwynt, Salm xxvi. 9. Yr oedd yr Iuddewon yn *casglu eu marsiandiau* o'r tir, pan y cludasant eu da i fynu i Jerusalem rhag ofn y Caldeaid, a phan yr oeddynt yn parottoi i fyned ar ffoedigaeth, neu i gaethiwed, Jer. x. 17.

CASIA, *(y rhisgl)* math o blanhigyn per ei arogl. Y mae ei flodeuyn yn gyfansoddedig o bump o ddail, wedi eu gosod mewn dull crynnaidd. Yr hadle, yr hwn sydd yn cyfodi o ganol y rhai hyn, sydd yn goden, weithiau yn grynnaidd, ac weithiau yn llydan, ac ynddi amrywiaeth o gelloedd, yn mha rai y mae yr hadau aneirif yn llettya. Crybwylla *Tournefort* am ddeg rhywiogaeth o'r Casia, pump o honynt yn anhyfryd eu harogl. Y mae yn tyfu mewn amryw fanau yn yr India Ddwyreiniol, yn gystal âg yn America. Y casia peraidd, yr hwn y dywedir ei fod yn rhisglyn math o bren, oedd un o'r llysiau dewisol o ba rai y tynnid olew yr enneiniad; ac yr oedd yn cael ei ddefnyddio weithiau i beraroglı gwisgoedd. Yr oedd yn gysgod addas o rasau meddyginiaethol a blasus yr Ysbryd Glan, Exod. xxx. 24. Salm xlv. 8.

CASIPHIA, *(arian)* lle y preswyliai Ido, pennaeth yr Iuddewon, ynddo. Ezra, pan oedd ar ddychwelyd o Babilon i wlad Judea, a anfonodd at Ido i Casiphia, fel y dygai rai offeiriaid yn weinidogion i dŷ yr Arglwydd. Tybia *Calmet* mai lle oedd yn agos i fynydd Caspius, a môr Caspia, rhwng Media a Hyrcania, yn hytrach ymddengys ei fod gerllaw Babilon, Ezra viii. 17.

CASLUHIM, *(gorchudd byrddau)* mab Mizraim, a'i hiliogaeth. Amnilys yw pa le y trigasai; eithr bernir iddynt sefydlu yn y rhan honno o wlad yr Aipht oedd nesaf at Canaan, a alwyd gynt Casiotis, lle yr oedd mynydd Casius. O'r Casluhim yr hanodd y ddwy genedl honno, sef y Philistim a'r Caphtorim, neu y Philistiaid a'r Caphtoriaid, Gen. x. 14. 1 Cron. i. 22.

CASTELL, (*cast*, twr) tŷ cadarn neu amddiffynfa gynnhwys i wrthsefyll ymosodiadau gelynion, Gen. xxv. 16. 2 Cron. xiii. 12. Iesu Grist, yn ei haeddiant anfeidrol, ei allu anorchfygol, a'i ofal dibaid am danynt, yw *castell* a diogelfa ei bobl. Salm xxxi. 3. Deut. xxxii. 21. Micah iv. 8.

CASTOR, a POLUCS oeddynt ddau frawd, y rhai, yn ol y chwedl genedlig, a gyfrifid yn feibion Iau a Leda, ac wedi dyfod o'r un wŷ; o blegyd hyny yr oeddynt yn cael eu darlunio â hanner plisgyn wy ar ben pob un. Yr oedd y morwyr ac ereill yn talu addoliad iddynt ar ol eu marwolaeth, o blegyd eu harwriaeth, ac, am y credent mai hwy oeddynt wedi gwared y môr rhag lladron, a'u bod yn alluog i wneud y dymhestl yn dawel. Cymmerent y myg-darthiadau tanllyd, y rhai a ymddangosant weithiau ar y môr, yn eu lle hwynt; ac os nad ymddang-

osai ond un ar y tro, barnent mai afiwyddiannus a fyddai y fordaith. Eu lluniau hwy oeddynt yr arwydd ar y llong y mordwyodd Paul ynddi i Rufain, Act. xxviii. 11.

CAU, (*ca*, cadw, dal) bolitio, gosod clawr, drws, neu fwlch yn ddiogel. *Cau allan*, yw dodi mewn lle arall, naccâu gwneuthur derbyniad, Num. xii. 14. Gal. iii. 8. *Cau ar un*, a arwydda carchariad neu ddalfa arno, Job xii. 14. Dad. xx. 3. *Cau y llygaid*, a arwydda diystyrwch o foddion argyhoeddiad, Diar. xvi. 30: neu ffieiddiad, Esa. xxxiii. 15. *Cau y gwefusau*, yw llefaru yn brin, Diar. xvii. 28. *Cau llaw*, yw pallu elusen, a naccâu tosturio a chynnorthwyo, Deut. xv. 7. *Cau trugaredd* neu *dosturi*, yw peidio dangos cydymdeimlad, a chynnorthwyo, Salm lxxvii. 9. 1 Ioan iii. 17. *Cau ar weledigaeth* neu *air*, yw ei gelu ef, neu yr ystyr o hono. oddi wrth y rhan fwyaf, Dad. xii. 3, a viii. 26. Y mae y nefoedd *wedi ei chau*, pan mae y gwlaw tymborol, neu ysbrydol, yn cael ei attal, 1 Bren. viii. 35. Dad. xi. 6. Dynion ydynt yn *cau teyrnas nefoedd*, pan y maent yn camddarlunio y ffordd wirioneddol i gyrhaedd dedwyddwch tragywyddol, ac yn rhwystro a digalonni ereill i arfer y moddion priodol er eu hiachawdwriaeth, Mat. xxiii. 13. Y mae dynion yn cael eu *cau mewn annufudd-dod*, pan fyddo Duw, er mwyn cospi eu pechodau blaenorol, yn eu rhoddi yn gyfiawn i fynu i Satan, ac i ddylyn en chwantau llygredig ac afreolus eu hunain, nes y byddont wedi eu sicrhau yn eu diystyrwch a'u hesgeulusdod o Grist a'i Dad, Rhuf. xi. 31. Mae dynion wedi eu *cyd-gau* i'r ffydd, pan y mae holl ordinhadau, a gorchymynion Duw, yn cyd-dueddu i annog dynion i gredu yn Iesu, Mab Duw, fel yr unig Iachawdwr, Gal. iii 23. Y mae y pyrth wedi *eu cau yn yr heolydd*, pan y mae dannedd y gwr ar drengu wedi eu colli, fel nad all prin agor ei wefusau; neu pan y mae holl orchwylion y tŷ, rhwng ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, yn cael eu hattal, Preg. xii. 4.

CAWR, (*ca-gwr*) arwr, gwron, dyn yn rhagori yn mhell ar y maintioli cyffredin. Galwai yr Hebreaid hwy *Nephilim*, o herwydd eu gwaith yn *syrthio* ar ereill mewn modd gorthrechol, ac yn eu hyspeilio o'u heiddo, a'u bywydau, hwyrach; a *Rephaim*, o herwydd fod eu harswyd a'u dyrnodiau yn gwneud dynion yn anfeddyginiaethol, neu yn feirwon. Yr oedd amryw o hiliogaeth gymmysg Seth a Chain yn *gawri* o flaen y dylif; a dichon mai mewn cyfeiriad at y rhai hyn, y mae fod cyfeillion putteiniaid a chrwydriaid oddi wrth ffordd Duw, yn cael eu gosod allan fel yn myned at y Rephaim neu y meirwon, neu yn aros yn eu plith, sef yn uffern, Diar. ii. 18, a ix. 18, a xxi. 16. Mae rhai awduron wedi bod mor ofergoelus â chredu mai hiliogaeth angelion, a merched dynion, oedd y cawri; ac yn casglu eu tyb oddi wrth gyfieithiad y LXXII o'r Hen Destament, sef Gen. vi. 2, lle y dywed rhai adysgrifeniadau fel hyn, *Ac angelion Duw a welsant feibion dynion*, &c. yn lle *weled o feibion Duw*, &c. tra nad oedd Moses yn meddwl dim amgen na theulu Seth, cenedl gyfiawn, pa rai a alwodd efe *meibion Duw*; a'u bod wedi eu llygru yn eu serchiadau at feibion Cain, pa rai sydd yn myned dan yr enw *merched dynion*. Yr oedd hiliogaeth Ham, tros rai cenedlaethau, yn enwog am amryw deuluoedd o gawri. O du y dwyrain i afon yr Iorddonen, yr oedd y Rephaimiaid yn cyfaneddu yn Basan, pa rai a darawodd Cedorlaomer yn Astaroth-carnaim. Ymddengys mai Og brenin Basan, yr hwn a ymladdodd yn erbyn Moses, ac a lwyr orchfygwyd ganddo, oedd y gweddill diweddaf o'r rhai hyn: yr oedd ei wely haiarn ef yn 15 troedfedd a 4½ modfedd o hyd, a bu, am hir amser wedi hyny, yn cael ei gadw yn Rabba yr Ammoniaid, Deut. iii. 11. Yr oedd yr Emiaid a'r Zamzummiaid yn bobl *gawraidd*, pa rai a dorwyd ymaith gan y Moabiaid a'r Ammoniaid, a chafodd eu gwlad ei meddiannu ganddynt, Deut. ii. 9—21. O ddeutu yr un amser, yr oedd lluaws o gawri yn byw yn Hebron, Debir, ac Anab, a manau ereill o fynydd-dir Canaan. Ymddengys mai y teulu mwyaf hynod o honynt oedd yr Anaciaid, neu feibion Anac, o ba rai, Arba y tad, Anac y mab, a'i dri meibion, sef Ahiman, Sesai, a Talmai, oeddynt y mwyaf nodedig. Yr oedd y cawri

hyn yn ddychryn i'r yspiwyr Hebreaidd; ond Josuah, Caleb, ac Othniel. a'u torrasant hwy ymaith, Num, xiii. 21—33. Jos. xi. 21, a xiv. 15, a xv. 13—17. Tybia *Bochart* i ran o'r *Bencanac* hyn ffoi tu a'r gogledd o amgylch Tyrus, ac iddynt roddi yr enw *Phœnicia* i'r wlad. Mwy dilys yw fod cawri o hyd yn aros yn Gaza, Gath, ac Asdod; eithr pa un ai bod gwreiddyn y rhai hyn o'r Canaaneaid neu y Philistiaid, nis gwyddom, Jos. xi. 22. Yn amser Dafydd, cawn deulu o gawri yn Gath, sef Goliath, Suph, neu Sippai, Isbibenob, Lami, ac un arall, yr hwn oedd â chwe' bys ar bob llaw iddo, a chynnifer â hyny ar bob troed: cafodd y rhai hyn oll eu torri ymaith trwy law Dafydd a'i weision, mewn amrywiol frwydrau, 2 Sam. xxi. 1 Cron. xx. Ar ol hyn, ni chlywn ychwaneg am gawri yn Nghanaan. Y mae, nid yn unig yr ysgrythyr, ond pob hen ysgrifenydd, megys *Homer, Herodotus, Diodorus, Pliny, Plutarch, Virgil*, &c. yn mynegu i ni am gawri yn yr oesoedd boreuol; er eu bod, trwy fyned yn ol chwedlau y bobl gyffredin, yn fynych yn gorestyn eu maintioli.

CEBAR, *(egni)* afon yn Caldea, gerllaw i ba un y cafodd Ezeciel amryw o'i weledigaethau, Ezec. i. 1, a iii. 15, 23, a x. 15, 22. Tybir iddi gael ei dosparthu rhwng yr Euphrates a'r Tigris; neu yn hytrach, yr afon honno ag oedd yn tarddu allan yn agos i flaen y Tigris, ac yn rhedeg trwy Mesopotamia, tu a'r dehau-orllewin, ac yn ymarllwys i'r Euphrates ychydig o du y dehau i Carchernis, ydyw.

CEDAR, *(duaidd)* mab Ismael, a thad y Cedariaid, y rhai a drigent yn y parthau deheuol i Arabia Anial, yn gyffredin mewn pebyll o flew geifr wedi eu gwau, ond weithiau mewn pentrefydd, a gogoniant a chyfoeth pa rai oeddynt yn gynnwysedig yn benaf yn eu deadellodd a'u gwartheg, Esa. xxi. 16, a xlii. 11. Ymddengys i Dafydd fod yn llechu yma yn amser erlidigaeth Saul, Salm cxx. 5; eithr mwy dilys yw, fod hiliogaeth Cedar yn masnachu â'r hen Dyriaid mewn defaid a geifr, Ezec. xxvii. 21; ac iddynt gael eu gorthrymu yn arswydus gan yr Assyriaid, a chan y Caldeaid yn eu tro, Esa. xxi. 17. Jer. xlix. 28. Yr eglwys a gyffelybir iddynt, o herwydd ei gwedd wael, a'i düwch ynddi ei hun, ei herlidigaethau, a'i phrofedigaethau, Can. i. 5. *Edr. Ismael.*

CEDEMAH, mab ieuangaf Ismael. Nis gallai efe fod yn dad i'r Cadmoniaid, o herwydd yr oeddynt hwy yn hanfodi cyn ei enedigaeth ef, Gen. xv. 19, a xxv. 15. Crwydrodd ei hiliogaeth o amgylch y parthau dehau-ddwyreiniol i Gilead, a rhoddasant enw, hwyrach, i'r ddinas Cedemoth, gerllaw yr afon Arnon, yr hon a roddwyd, gan y Reubeniaid, i'r Lefiaid o deulu Merari, Deut. ii. 16. Jos. xiii. 18, a xxi. 37.

CEDORLAOMER, *(fel cenedl o gaethion)* brenin Elam, o ddeutu A.M. 2078, a ddarostyngodd deyrnas Sodoma, Gomorrah, Adma, Zeboim, a Zoar. Ar ol iddynt ei wasanaethu ef dros ddeuddeg mlynedd, hwy a wrthryfelasant. Yn y 14eg, efe a lawnfwriadodd i'w darostwng hwynt. Gyda chynnorthwy Amraphel brenin Sinar, Arioc brenin Ellasar, a Tidal brenin Gorim, neu y *cenedloedd*, efe a gychwynodd ei lu yn eu herbyn. I'w hamddifadu hwy o bob cymhorth galluadwy, efe a ymosododd yn gyntaf ar y pennaethiaid cymmydogaethol; a chan arwain ei wyr tua'r dehau, fel y byddai o du y dwyrain iddynt hwy, efe a darawodd y Rephaimiaid, gerllaw tarddiad yr afon Aron, ac a anrheithiodd Astaroth-carnaim; gorchfygodd y Tyriaid yn Ham, yr Emiaid yn Safe-ciriathaim, a'r Horiaid yn mynydd Seir. Wedi myned yn mlaen o du y dehau, hyd nes y daeth i Elparan, efe a ddychwelodd, ac a gyfeiriodd ei hynt tua'r gogledd-ddwyrain. Ar ei ffordd, efe a anrheithiodd wlad yr Amaleciaid, ac a darawodd yr Amoriaid, y rhai a breswylient o ddeutu Hazazontamar. O'r diwedd efe a ymosododd ar fyddinoedd cynghreiriol y teyrnasoedd gwrthryfelgar. Yr oedd maes y frwydr yn llawn o byllau clai; gorchfygwyd byddin y gwrthryfelwyr; a ffôdd y cyfryw a ddiangasant rhag y lladdfa i'r mynyddoedd, sef y rhai hyny a orweddent o du y gogledd-ddwyrain, hwyrach, pa rai a syrthiasant wedi hyny, i ran y Reubeniaid. Cedorlaomer, a'i gynghreiriaid, ar ol anrheithio y

wlad, a dwyn lluaws o gaethion ymaith, a chyfoeth mawr, a gyfeiriasant eu camrau tua'r gogledd, gan fwriadu dychwelyd adref heibio i'r parth dehau-ddwyreiniol o Syria. Eithr Abraham, wedi mynegu iddo fod Lot ei nai, a'i deulu, yn mhlith y caethion, gyda dyrnaid o weision, megys, ag ychydig o Ganaaneaid cynghreiriol, a ganlynodd ar ol y buddugoliaethwyr; a'u goddiweddodd hwy yn Dan, ac a'u gorchfygodd; yna ymlidiodd ar eu hol i Hormah, ychydig o du y gogledd i Damascus, ac adennillodd eu caethion a'u hanrhaith. Myn *Shuckford* mai Ninyas yr Assyriad oedd Cedorlaomer; a myn *Bedford* mai rhaglyw Zameis brenin Assyria oedd efe; eithr, i ni nid ymddengys eu rhesymau yn benderfynol, Gen. xiv.

CEDRON, *(pygddu)* afon sydd yn rhedeg tu a'r dehau-ddwyrain, yn yr ochr ddwyreiniol i Jerusalem, trwy yr hyn a elwir dyffryn Jehosaphat, neu lyn mab Hinom. Gwedi rhedeg ar hyd yr ystlys orllewinol i fynydd yr Olew-wydd, rhyngddo ef a'r ddinas, cyfeiria ei gyrfa tua'r dehau-ddwyrain i'r Môr Marw. Croesodd Dafydd hi wrth ffoi rhag Absalom ei fab, a'r Iesu wrth fyned i ardd Gethsemane, 2 Sam. xv. 23. Ioan xviii. 1. Nid ydyw afon Cedron, er ei bod yn derbyn yr holl aberoedd o amgylch Jerusalem, ond bechan yn gyffredinol, ac weithiau yn sych; eithr, yn amser gwlawogydd a llifeiriant trymion a disymmwth, y mae yn chwyddo yn ddirfawr, ac yn rhedeg gyda nerth mawr; ac, ar y cyfryw achlysuron, dygai ymaith gyda hi holl fudreddi y ddinas, yr hwn a gludid iddi gan y dyfr-ffosydd cyffredin. Y mae y dyffryn trwy ba un y rhed yr afon hon, am o ddeutu 12 militir, yn dra anhyfryd i'r olwg. Gerllaw y pen gorllewinol iddi y llosgodd Asa, Hezeciah, a Josiah, ddeiwau eu hen dadau gwrthgiliedig, 1 Bren. xv. 3. 2 Cron. xxix. 16. 2 Bren. xxiii. 4.

CEDRWYDD, *(cedar-gwydd)* pren tra chyfrifol yn yr ysgrythyrau. Y mae rhai o honynt etto yn tyfu ar fynydd Libanus, eithr ychydig iawn o nifer, o du y dwyrain i *Byblos* a *Tripoli;* ond nid oes un i'w ganfod mewn unrhyw fan arall ar yr holl fynyddoedd hyn. Eithr fod llawer mwy helaethrwydd o honynt, yn y cyn-amseroedd, sydd debygol, gan eu bod yn cael eu defnyddio mewn cymmaint o adeiladau mawrion. Mae y prenau hyn yn hir ac yn braff iawn. Mae amryw yn mysg y rhai a welir yn Libanus y dydd hwn, yn bymtheg ar hugain, a deugain troedfedd, o gylchedd. Y mae y gedrwydden yn bwrw ei changhenau allan o fewn deg neu ddeuddeg troedfedd i'r llawr. Ei changhenau ydynt fawrion, ac yn gryn bell oddi wrth eu gilydd; mae ei dail rywbeth yn debyg i ddail rhôs Mair; mae yn wastad yn wyrddlas, ac yn defnynu math o sudd, i'r hwn y priodolir amrywiol effeithiau. Y mae y coed hyn agos yn anmhydradwy, yn heirdd, yn gelyd, ac yn tueddu at wawr lwyd; maent yn dwyn afal bychan yn debyg i eiddo pinwydd, oddi eithr fod y croenyn allanol yn decach, yn llyfnach, ac heb fod mor agored. Y mae cedrwydd yn tyfu nid yn unig ar fynydd Libanus, eithr mewn rhai manau hefyd yn Affrica, yn ynys Cyprus, ac yn Crete neu Candia. Defnyddid cedrwydd at wneuthur delwau y rhai a amcenid i barhau yn hir. Yr oedd y deml yn Jerusalem, a phalas y brenin Solomon, wedi eu hadeiladu â chedrwydd; ac yr oedd y fath helaethrwydd mawr o honynt yn y deml, fel y mae yn cael ei galw weithiau *Libanus:* "Libanus, agor dy ddorau," Zech. xi. 1. A'r tŷ lle yr oedd Solomon yn byw yn Jerusalem, a elwir tŷ coedwig *Libanus,* 1 Bren. vii. 2. Yr oedd nen teml *Diana* yn Ephesus hefyd o gedrwydd, yn ol yr hanes a gawn am dani oddi wrth *Pliny.* Dywed *Josephus* fod Solomon wedi plannu y fath helaethrwydd o gedrwydd yn ngwlad Judea, fel yr oeddynt mor amled â'r sycamorwydd, y rhai sydd yn dra chyffredin yno. Y mae y gedrwydden yn hoffi lleoedd oerion a mynyddig, ac os torrir ei phen ymaith, hi a wywa.

Y mae y canghenau a fwria hi allan mewn cyfryngau gwahanol a gosodedig, gan leihau yn barhaus wrth fyned i fynu, yn ffurfio, fel pe bai, fath o olwyn, ac yn cyfodi ar ddull bera. Dywed *Bruyn* yn ei hanes ei daith i'r Tir Sanctaidd, fod dail y gedrwydden yn cyfeirio tu ag i fynu, ac fod y ffrwyth yn crogi tuag i waered. Y mae y ffrwyth yn tyfu

yn debyg i afalau Persia, ond yn hwy, yn galetach, ac yn llawnach, ac nid yn hawdd y gellir eu didoli oddi wrth y bonyn. Cynnwysant hadau yn debyg i eiddo y cypreswydden, a bwriant allan fath o ystor tew gludiog, tryloyw, a chryf ei arogl, yr hwn nid yw yn rhedeg, ond yn syrthio bob yn ddefnyn. Dywed yr awdwr hwn i ni, iddo fod mor gywraint â mesur dwy o gedrwydd Libanus, y rhai, iddo ef, a ymddangosent y mwyaf yno, ac iddo gael y naill yn 57 lled llaw o amgylchedd, a'r llall yn 47. Y mae y naturiaethwyr yn dosparthu y cedrwydd i amrywiol rywiogaethau; eithr yr ydym ni yn cyfyngu ein hunain i draethu am gedrwydden Libanus, yr hon yw yr unig un y llefara yr ysgrythyr am dani.

Byddent yn defnyddio y coed hyn, nid yn unig fel trawstiau ac astellod i orchuddio adeiladau, ac i gromlwydo ystafelloedd, eithr gosodent hwy hefyd yn sylwedd eu muriau, a chyflëent hwy a'r cerrig yn nghyd yn y fath fodd, fel y byddai weithiau dair rhes o feini, ac un o gedrwydd, yn cylchynu eu gilydd, 1 Bren. vi. 36, a vii. 12. Ezra vi. 4. Weithiau gosodid yr astellod hyn o'r naill haen o'r mur i'r llall, ac, ac ar bob haen, gwnaent fath o frith-waith.

Yr oeddynt yn barnu, wrth bob tebygoliaeth, fod y gedrwydden yn meddu rhinwedd lanhaol, gan fod Moses yn gorchymyn, wrth buro y gwahangiwyfus, fod i'r coed hyn, yn nghyd âg isop, gael eu defnyddio i wneuthur tusw, â pha un yr oedd y gwahangiwys i gael taeneillu arno. Y dull o wneuthur y tusw hwn oedd fel y canlyn: cymmerent gangen o goed cedr, un arall o isop, ac aderyn glan; rhwyment y cwbl yn nghyd âg ysnoden borphor neu ysgarlad, ond fel y byddai, pa fodd bynag, i ben yr aderyn fod o'r naill ochr i'r ddolen; yna trochent y tusw hwn mewn dwfr lle y cawsai gwaed aderyn glan arall ei ddyhidlo, ac âg ef taenellent y gwahangiwyfus, a chwedi hyny gollyngent yr aderyn byw yn rhydd ar wyneb y maes. Arferent yr un fath dusw bron, oddi gerth nad oedd un aderyn byw wedi ei sicrhau wrtho, yn y taenelliadau a wneid ar ddydd mawr y cymmod gyda gwaed anner goch, Lef. xiv. 4. Num. xix. 6.

Y mae Iesu Grist yn cael ei gyffelybu i *gedrwydden*, o herwydd ei gadernid, ei ragoroldeb, ei uchder gogoneddus, ei gysgod adlonawl, ei brydferthwch gwastadol, ei barhad, ac o herwydd ei ddylanwadau adfywiol a pharhaus. Onid efe yw y defnydd mawr yn adeiladaeth ei eglwys? Ac onid yw efe yn ein puro oddi wrth ein gwaban-glwyf pechadurus, a'n marwolaeth ffiaidd mewn camweddau a phechodau? Can. v. 15. Ezec. xvii. 23. A gyffelybir y saint befyd i *gedrwydd?* Wedi eu gwreiddio a'u sylfaenu yn Nghrist, Craig yr oesoedd, maent yn tyfu i fynu i faintioli gwyr perffaith ynddo ef; y maent yn amgeledd ac yn gadernid i genedlaethau ac eglwysi; ac nid ydynt byth yn gwywo nac yn ymollwng yn hollol dan un dymhestl, Salm xcii. 12. Can. i. 17, a viii. 9. Esa. xli. 19. Yr Assyriaid, yr Amoriaid, a chenedloedd ereill, a gyffelybir i *gedrwydd*, i nodi eu cadernid mawr, eu balchder, a'u llwyddiant, Ezec. xxxi. 3. 8. Amos ii. 9. Breninoedd a gyffelybir i *gedrwydd*, i osod allan eu sefyllfa uchel, eu rhagoroldeb gogoneddus, a'u hamddiffyniad i ereill, 2 Bren. xiv. 9. Ezec. xvii. 3—22. Gwyr mawrion a beilchion a debygir i *gedrwydd*; y maent yn ymddangos, o leiaf iddynt eu hunain, wedi eu sylfaenu yn sier a chadarn; maent yn ymgyfodi mewn blaenoriaeth goruwch ereill, a thros ennyd, yn gwneud ymddangosiad gogoneddus a phrydferth, Esa. ii. 13, a x. 33, 34, a hwyrach Zec. xi. 2.

CEFN, *(cef)* y rhan ol a mwyaf cref o'r corph. *Tu cefn* Duw, a arwydda dagnddiad llai o'i ogoniant a'i bresennoldeb, fel pe gwelai un du cefn gwr, ac nid ei wyneb, lle y mae nodau gwahaniaethol personau i'w canfod yn fwy amlwg, Exod. xxxiii. 23. Y mae efe yn tafiu ein holl bechodau *o'r tu ol i'w gefn*, pan y bydd yn eu maddeu yn gyflawn, fel ag i beidio eu gosod mwyach ar gyfer ei lygaid, i'w cospi, Esa. xxxviii. 17. Salm xc. 8. Jer. xvi. 17. Y *mae efe yn dangos ei wegil* neu ei *gefn* i ddynion, *ac nid ei wyneb*, pan y mae yn eu diystyru, ac yn gommedd gwenu arnynt, neu ddangos hoffedd a serch tu ag attynt, Jer. xvii. 17. Crist yn rhoddi ei *gefn i'r curwyr, a'i gernau i'r rhai o dynnent y blew*, a arwydda ei ymroddiad parod

ac ewyllysgar i ddyoddef er ein mwyn, Esa. l. 6. Y mae dynion yn *troi y warr*, pan y maent yn ffoi o faes y frwydr, Jer. xlviii. 39. Eu gwaith yn troi *eu cefn, gwegil*, neu *war* ar Dduw, neu ei deml, a arwydda eu diystyrwch o hono; a'u hymadawiad graddol, ac, yn fynych, annheimladwy oddi wrth wybodaeth, cariad, proffes, ac ymarferiad o'i wirionedd, Jer. ii. 27, a xxxii. 33. *Eu gwaith yn ei jwrw ef* neu *ei ddeddfau o'r tu ol i'w cefn*, a arwydda eu diystyrwch a'u ffieiddiad eithaf o hono, Ezec. xxiii. 35. Neh. ix. 26. Aredir *cefn* yr eglwys, pan y mae ei haelodau yn cael eu gorthrymu a'u herlid yn greulawn; ond fel y mae aredig yn rhagflaenu hau a medi, felly y mae cystuddiau yr eglwys yn rhagflaenu ei hadfywiad, ei ffrwythlonrwydd, a thragywyddol bwys gogoniant, Salm cxxix. 3. Y mae yr Iuddewon er pan groesboeliasant Crist, a'u *cefnau wedi eu cyd-grymu bob amser*; y mae cadernid eu cenedl, eu llywodraeth, a'u gwyr mawrion wedi darfod; ac y maent yn cael eu llwytho a'u gorthrymu yn erwin gan gaeth-wasanaeth, gormes, a gofid, Salm lxix. 23. Rhuf. xi. 10.

CEILAH *(yn dudmer)*. 1. Dinas yn perthyn i lwyth Judah. Safai o du y gogledd-orllewin i Hebron, ac yn nghylch 16 neu 20 milltir o du y dehau-orllewin i Jerusalem, Jos. xv. 44. Naham neu Acholnaham oedd ei thywysog neu ei phrif berchenog yn nyddiau Josuah, 1 Cron. iv. 19. Achubodd Dafydd hi rhag difrod y Philistiaid yn amser ei alltudiaeth; ac etto, pe arosasai efe ynddi, y trigolion a'i traddodasent ef, yn y modd mwyaf anniolchgar, i ddwylaw Saul, 1 Sam. xxiii. 1—12. Yn amser Nehemiah, yr oedd yn lle go fawr, Neh. iii. 17, 18. Yr oedd yn lle o beth cyfrifoldeb, yn nghylch 400 mlynedd ar ol Crist.

CEILIOG, *(caill)* y gwrryw o'r ehediaid. Y mae ceiliog y domen á'i ben wedi ei addurno á chrib bir gnawdog, ac y mae ganddo ddwy dagell wedi eu gosod gyda'r hyd ar ei gegen. Y mae yn greadur grymus a phrydferth, a'i blu yn fynych wedi eu brithio á lluaws o liwiau heirdd. Cynhyrfa ddynion i godi a gweithio; a chur ei esgyll cyn canu, i ddangos y dylai pawb ddeffroi eu hunain cyn y gallont ddeffroi ereill. Deffry y cysglyd, rhybuddia y gofalus, dychryna y lleidr, cyssura y claf, a bywioga yr ymdeithydd. Gwell ganddo y gronyn haidd na'r perl; felly dewis y dyn anianol y byd o flaen y nef. Bydded i'r rhai a hoffant ymladd ceiliogod ddarllen Rhuf. viii. 19—24. Y mae hen awduron, Groeg a Lladin, yn crybwyll am ganiad y ceiliog ar ddau amser gwahanol o'r nos; y cyntaf oedd ychydig wedi hanner nos, a'r llall yn nghylch torriad y dydd neu dri o'r gloch y bore. Y diweddaf hwn oedd y mwyaf nodedig gan ddynion, fel arwydd o'u cychwyniad i'w gwaith, ac a elwid yn neilluol yn *ganiad y ceiliog*; ac ar yr amser hwn y canodd y ceiliog yr ail waith, wedi i Pedr wadu ei Feistr dair gwaith, Mat. xxvi. 34. Marc xiv. 30. Luc xxii. 34. Ioan xiii. 39.

CEILIOG-RHEDYN, math o bryf gwenwynig o ryw y locust, ond ei fod yn fychan. Ei gyrn ydynt wrychaidd, ei esgyll allanol yn groenllyd, culion, a lled debyg i eiddo ednogyn cyffredin. Y mae llaweroedd o honynt yn fynych mewn gweir-gloddiau, mynyddoedd, a gwrychoedd, a'r gwrrywiaid a gaanant tra pery y tês. Gwnant nyth o'u hymysgaroedd eu hunain i lechu ynddi y gauaf. Bydd minteioedd o honynt yn difa ffrwythau y ddaear, Amos vii. 1. Er's rhai blynyddoedd yn ol, bu heidiau dirfawr o honynt, tros amrywiol gynhauafau, yn difrodi gwlad Languedoe yn Ffrainge; ac yr oedd rhai o honynt yn fodfedd o hyd; ac, weithiau, gorchuddient y ddaear lle yr aent, bedair neu bum modfedd o ddyfnder. Yr oedd y ceiliogod-rhedyn yn cael eu cyfrif yn lân tan y gyfraith, a gallant fod yn gosod allan y saint gweiniaid, y rhai ni fedrant ganu ond pan fyddo tês llwyddiant yn tywynu arnynt, Lef. xi. 22. Er fod ein cyfeithwyr ni yn rhyw fodd wedi gadael y gair Heb. *hageb* yn y lle hwn heb ei gyfeithu, y mae cyfeithwyr y BiblSaisonig wedi ei gyfeithu *grasshopper*; ac y mae yr un gair Hebreëg mewn lleoedd ereill, yn cael ei gyfeithu *ceiliog-rhedyn*, megys yn Num. xiii. 33. Preg. xii. 5. Dynion a gyffelybir á *geiliogod-rhedyn*,

i arwyddo eu gwaelder, eu gwendid, a'u hannheilyngdod: neu o herwydd eu lluosogrwydd, eu heffaith ddinystriol, a bod yn hawdd eu difa, a'u lladd hwythau yn ebrwydd, Num. xiii. 33. Esa. xl. 22. Barn. vi. 5. Nah. iii. 15. Y mae y *ceiliog-rhedyn* yn faich i'r hen wr bron marw; y blinder lleiaf sydd drwm a phoenus iddo; y mae yn anynad, yn faich iddo ei hun, ac yn analluog i oddef un peth, Preg. xii. 5.

CEINIOG; sonir am ddau fath o honynt yn yr ysgrythyr lân. Y *cyffredin* oedd fath Rhufeinaidd, yn gydwerth â saith ceiniog a thair ffyrling o arian Prydain. Yr oedd hyn yn hur i ddyn am ddiwrnod o waith; ac, am hyny, cyffelybir gwobr bywyd tragywyddol, am yr hwn yr ydym yn llafurio yma yn nydd ein bywyd, i *geiniog*, Mat. xx. 1—14. Y *ddwy geiniog* a roddir gan Grist i'w weinidogion, y rhai a gymmerant ofal am ei bobl yn yr eglwys filwriaethus, ydynt ddau destament ei air; neu y gyfraith a'r efengyl; neu ddoniau a rhadau; neu y gwobrwy o ras yma, a gogoniant ar ol hyn, Luc x. 35. *Ceiniog* y cyssegr oedd yn swllt a thair ceiniog o'n harian ni. Hyn oedd y dreth a dalai yr Israeliaid bob blwyddyn at wasanaeth y demi, o fab ugain mlwydd ac uchod. O'r diwedd cymmerodd Cæsar hi i'w gistiau ei hunan.

CEISIO, (*cais*) ymdrechu cael peth, pa un bynag ai trwy chwilio yn ddyfal am dano, Gen. xxxvii. 16, ei ofyn mewn gweddi, Ezra viii. 21, neu trwy ddefnyddio unrhyw foddion ereill a dueddant i roddi i ni fwynhad o hono, Diar. ii. 4. Y mae Duw yn *ceisio* dynion, pan fyddo yn gosod ei serch arnynt, a thrwy gyfiawnder ac eiriolaeth ei Fab, gweinidogaeth ei air, ac effeithioldeb ei Ysbryd, yn dychwelyd ac yn adferu eu heneidiau o'u cyflwr truenus a chyfeiliornus, Ezec. xxxiv. 16. Salm cxix. 176. Luc xv. 4—9, a xix. 10. *Ceisio* Duw, ei enw, neu ei wyneb, ydyw gofyn ei gyfarwyddyd, gweddio am ei drugaredd a'i ras, ac ymorphwys arno fel ein cynnaliwr a'n cyfran, Salm lxiii. 1, a lxxxiii. 16. Y mae rhagrithwyr yn ei *geisio* ef, pan gymmerant arnynt fod yn deimladwy o'u hanghenion, ac i weddio am fwynhad o hono ef a'i drugareddau, Diar. i. 28. Yr oedd yr Iuddewon yn *ceisio* Crist ar ol ei esgyniad, ond nis cawsant ef; yr oeddynt yn meddu dymuniad taer am gael mwynhau ymddangosiad y Messiah, ond bu hyny yn ofer, Ioan viii. 21. *Ceisio ac ymgeisio ág allor*, neu *deml*, yw cyrchu yn fynych at y cyfryw, i ddybenion crefyddol, 2 Cron. i. 5. Deut. xii. 5. Amos v. 5. *Ceisio gweithredoedd* yr Arglwydd, yw ymdrechu am gael deall da ynddynt, Salm cxi. 2. *Ceisio deddfau* Duw, yw ymofyn yn fanwl am eu gwybod, ac ufuddhau iddynt, Salm cxix. 45, 155. *Ceisio barn* neu *ddrygioni*, ydyw ymroddi i ymarferiad o gyflawnder, neu i wneuthur drwg, Esa. i. 17. Diar. xi. 2, a xvii. 19. *Ceisio heddwch* a thangnefedd, yw ymdrechu i'w ddwyn yn mlaen, Salm xxxiv. 14. Jer. xxix. 7. *Ceisio enaid* neu *einioes un*, yw dymuno ac arfer pob moddion gallu adwy tuag at ei ladd a'i ddistrywio, Salm xxxv. 4, a xxxviii. 12.

CELAIN, (*cêl*) burgun, abwy. (1.) Corph marw dyn, neu anifel, Num. xxiv. 29. (2.) Gelwir delwau yn *gelanedd*, o herwydd eu bod yn ddifywyd ac yn ffiaidd, Jer. xvi. 18. *Celanedd* y breninoedd Iuddewig, y rhai oeddynt yn halogi tŷ Duw, ydynt naill ai delwau eilunaddolgar eu breninoedd, neu ynte cyrph meirw wedi cael eu haberthu i Moloch, Ezec. lxiii. 7, 9. Tystion Crist ydynt fel *cyrph* heb eu rhoddi mewn beddau, pan y maent mewn cyflwr egwan a nychlyd iawn, yn cael eu trin yn annynol gan y Pabyddion, ac etto heb gael eu goddef gan Raglunaeth i gael eu dinystrio yn gwbl, Dad. xi. 8, 9. *Celanedd y rhai a wnaethant gamwedd* yn erbyn yr Arglwydd, y rhai nid yw eu pryf yn marw, na'u tân yn diffodd, ydynt yr Iuddewon a'r Anghristiau, y rhai a gawsant eu blino yn ofnadwy gan farnedigaethau dwyfol, a'r colledigion y rhai a boenir dros byth yn uffern, Esa. lxvi. 24. "Pa le bynag y byddo y *gelain*, yno yr ymgasgl yr eryrod." Cafodd y geiriau hyn eu hystyried mewn dau olygiad gwahanol. (1.) Mai pa le bynag y byddai i'r athrawiaeth am Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio, gael ei phregethu, yno y ceid pechaduriaid euog a newynog yn ymdyrru gyda'r

un awyddfryd âg yr ymgasgla eryrod o amgylch celain. (2.) Oddi wrth gymharu y cyd-destun â Job xxxix. 27—30, gellir ystyried y geiriau megys prophwydoliaeth am ddinystr Jerusalem a'r Iuddewon gwrthnysig gan luoedd y Rhufeiniaid, arwydd pa rai ydoedd *Eryr*, Mat. xxiv. 28. Luc xvii. 37.

CELWYDD, (celu-gŵydd, neu gŵyddfod) 1. Anwiredd a ddywedir mewn bwriad i dwyllo, neu i enllibio enw da dyn arall, Barn. xvi. 10. Eph. iv. 25. (2.) Athrawiaeth anwireddus, pan lefarir pyngciau croes i air Duw, 1 Ioan ii. 21. 2 Tim. ii. 18. Rhuf. iii. 7. Condemnir pob math o anwiredd, geudeb, ac ymadroddion deu-ystyr, yn yr ysgrythyr, tan boen damnedigaeth dragywyddol, Exod. xx. 16. Eph. iv. 25. Ni ddylid dywedyd celwydd dros Dduw, neu er ei ogoniant, llai o lawer yn achos dynion, Job xxiii. 7. Y mae darluniad eilunaddolgar o Dduw yn cael ei alw yn *gelwydd*, o herwydd ei fod yn rhoddi arddangosiad ffugiol a thwyllodrus o hono ef, Rhuf. i. 25. Gwyr mawrion, a thai Aczib, ydynt neu oeddynt yn *geudeb* neu *gelwydd*, yn dra ansylweddol, ac yn barod i siomi y cyfryw a ymddiriedant ynddynt, Salm lxii. 9. Micah i. 14.

CEMUEL, *(Duw a gododd)* trydydd mab Nahor, a thad Aram; oddi wrtho ef, tebygol, y tarddodd y Cemeliaid, y rhai oeddynt yn cyfaneddu, medd *Strabo*, o du y dwyrain i Syria a gorllewin i'r Euphrates, Gen. xxii. 21.

CENNAD, *(can)* un yn dwyn cennadwri rhwng plaid a phlaid, Gen. xxxii. 3. 2 Bren. xvi. 7. Cymhwysir yr enw, (1.) At Grist, y gennad a ddewisodd y Tad i gyhoeddi y newyddion da o lawenydd mawr, sef efengyl ei ras, i ddynion, Job xxxiii. 23. (2.) At brophwydi, neu athrawon, y rhai ydynt wedi eu gosod gan yr Arglwydd i fynegu ei ewyllys a'i orchymynion i'w bobl, Mal. ii. 7. a iii. 1. 2 Cor. v. 20, a viii. 23. (3.) At yspiwyr, neu y cyfryw a chwiliant yn ddirgelaidd i ansawdd lleoedd neu fatterion, Jos. vi. 17. Iago ii. 25. (4.) At unrhyw gospedigaeth ddychrynllyd a esyd yr Hollalluog-ar yr annuwiol am eu pechodau, Diar. xvii. 11. "Digofaint y brenin sydd fel *cennad* angau, sef yn ofnadwy iawn, Diar. xvi. 14.

CENEAID, (meddiant diogel) hen genedl yr hon oedd yn trigo yn rhyw le yn anialwch Arabia, rhwng y Môr Marw a llyngclyn Elath, os nid yn mhellach i'r gogledd-orllewin. Ymddengys iddynt ymuno â'r Midianiaid; o herwydd yr oedd Jethro, offeiriad Midian, yn Genead, Barn. i. 16. Addawyd eu gwlad i'r Hebreaid, Gen. xv. 19; eithr, er mwyn Jethro, ymddengys iddynt gael eu harbed yn gyffredinol, a'u bod yn trigo, gan mwyaf, yn mynyddoedd a chreigiau anhygyrch Arabia, Num. xxiv. 21. Ymddengys i'r rhai a breswylient yn nhueddau deheuol Canaan ymgymmysgu â'r Amaleciaid, hwyrach, er gochelyd difrodiadau y Philistiaid; eithr, wrth gyfarwyddyd Saul, pan oedd efe yn arwain ei luoedd i ddyfetha yr Amaleciaid, hwy a ymneillduasant oddi wrthynt, ac ymddengys iddynt ddychwelyd i barthau deheuol rhandir Judah, 1 Sam. xv. 6, a xxvii. 10. cawsant eu blino yn fynych gan eu gelynion, ac, o'r diwedd, caethgludodd yr Assyriaid y rhan fwyaf o honynt i wledydd a orweddent yn fwy i'r dwyrain, Num. xxiv. 21. Un Recab, yr hwn a ddeilliodd, meddyliwn, oddi wrth Hobab brawdyn-nghyfraith Moses, oedd un o dywysogion penaf y Ceneaid, ac a roddodd enw i lwyth o honynt. Ymddengys i'r Recabiaid hyn gael eu badranu yn dri llwyth, sef y Tirathiaid, y Simeathiaid, a'r Sucathiaid: yr oeddynt yn broselytiaid i'r grefydd Iuddewig, ac amryw o honynt a ddylynent yr alwedigaeth o ysgrifenyddion, 1 Cron. ii. 55. Jonadab mab Recab, a chyfaith Jehu, wedi gweled cyflwr arswydus yr Iuddewon y rhai a gyfaneddent mewn dinasoedd yn amser Ahab, Jehoram, &c. ac, hwyrach, wedi sylwi ar rai canlyniadau angeuol o herwydd yfed gwin, a orchymynodd, mewn modd arbenig, i'r Recabiaid beidio byth yfed gwin neu ddiod gadarn, nac adeiladu unrhyw dŷ; ond preswylio mewn pebyll, a phorthi anifeiliaid. Y gorchymyn hwn a gadwasant mor ofalus, fel pan y gorfu arnynt ffoi i Jerusalem, yn amser Zedeciah, yr hyn oedd yn nghylch 300 o flyneddoedd wedi hyny, ac y cymmerodd Jeremiah

hwy i ystafell yn perthyn i'r deml, ac a'u cymmellodd i yfed gwin, darfu iddynt erfyn am gael eu hesgusodi, fel na throseddent orchymyn eu henafiaid. Mynegodd yr Arglwydd ei fawr gymmeradwyaeth o'u hufuddod, ac addawodd eu gwobrwyo â chadwedigaeth parhaus eu teulu, pa un bynag ai yn nghaethiwed Caldea neu yn ngwasgariad presennol y genedl Hebreaidd, Jer. xxxv.

CENATH, (*pryniad*) tref yn perthyn i'r Manassiaid dwyreiniol. Noba, un o honynt a'i hennillodd hi oddi ar y Canaaneaid, ac a'i galwodd ar ei enw ei hun, Num. xxxii. 42. Ymddengys iddi, wedi hyny, ailgaffael ei hen enw, ac y mae yn cael ei gosod gan *Pliny* yn Decapolis, ond gan *Eusebius* yn Trachonitis, o ddeutu pedair milltir o Jogbeha.

CENEDLAETH, yn briodol a arwydda eppiliaeth naturiol creaduriaid. Yn yr ysgrythyr, arwydda (1.) Hanes ffurfiad, achau, hiliogaeth, neu fywyd dyn, Gen. v. 1. *Cenedlaethau* y nefoedd a'r ddaear, ydyw yr hanes am eu ffurfiad, Gen. ii. 4. Llyfr *cenedliad* Iesu Grist, ydyw yr hanes am ei achau, ei enedigaeth, ei fywyd, a'i farwolaeth, Mat. i. 1. Llyfr *cenedlaethau* Adda, yw yr hanes am ei greadigaeth a'i hiliogaeth, Gen. v. 1. (2.) Trefn neilduol o ddiscyniad; ac, oddi wrth hyn, arwydda genedl neu ddosparth o ddynion yn byw yn yr un amser; felly yr oedd 42 o genedlaethau o o Adda hyd Grist, Mat. i. 2—17. Gwelodd Joseph dair *cenedlaeth;* sef ei eiddo ei hun, ei blant, a'i wyrion. Daeth had Abraham allan o'r Aipht yn y *bedwaredd oes,* o blegyd gallai fod Jocebed merch Lefi, neu ereill o'r pedwerydd discyniad etto yn fyw, Gen. l. 22, a xv. 16. *Nid â y genedlaeth hon heibio hyd oni wneler hyn oll;* nid oedd y bobl ag oeddynt yn byw yn amser marwolaeth Crist oll wedi meirw pan ddistrywiwyd Jerusalem, a'r genedl Iuddewig, gan y Rhufeiniaid, Mat. xxiv. 34. Yn amser Crist, yr oedd yr Iuddewon yn *genedlaeth* anffyddlawn, drofäus, a gwrthnysig, Mat. xvii. 17. Act. ii. 42. Y saint ydynt yn *rhywiogaeth etholedig,* yn *genedlaeth* wedi ei chyssegru i'r Arglwydd, ac yn ceisio ei wyneb ef, 1 Pedr ii. 9. Salm xxii. 31, a xxiv. 6. Pan fyddo *cenedlaeth* yn gyfieithiad o'r gair gwreiddiol *dor,* y mae yn arwyddo yn fwyaf priodol *ocs,* megys Exod. iii. 15, a xvii. 16. Salm xc. 1, a xxxiii. 11. Pwy a draetha ei *oes* neu ei *genedlaeth* ef? Pwy a fedr egluro dull ei genedliad gwyrthiol gan ei Dad, neu hyd yn nod beichiogiad y Forwyn arno, ac undeb ei ddwy natur, neu ei adgyfodiad? Neu yn bytrach, pwy a fedr gyfrif y lluaws a ddychwelir atto, yn ganlynol i'w farwolaeth a'i adgyfodiad? Pwy a ddichon amgyffred ei barhad fel Duw, neu ei arosiad tragywyddol fel Duw-dyn? Pwy a fedr draethu drygioni arswydus ei oes, a'r genedlaeth y bu efe yn byw yn eu plith? Esa. liii. 8.

CENEDLOEDD, pob cenedl heblaw yr Iuddewon. Tros amryw oesoedd cyn Crist, yr oedd y cenedloedd hyn yn amddifaid o'r wir grefydd, ac wedi ymroddi i'r anwybodaeth dyfnaf, a'r eilunaddoliaeth, coel-grefydd, a'r beiau mwyaf erchyll ac afresymol. Yr oedd eu dysgedigion penaf, y rhai a gymmerent arnynt eu bod yn ddoethion, yn afresymol gan mwyaf, yn gystal âg ereill; ac yn cydsynio â'r arferion afresymol a gaent yn mhlith eu cydwladwyr, ac, weithiau, yn foddion hyd yn nod i'w dwyn yn mlaen. Yr oeddynt yn estroniaid i ammodau yr addewid, heb Dduw, ac heb obaith yn y byd; yn byw mewn ymddarostyngiad i Satan, ac i'r chwantau mwyaf pechadurus a ffiaidd, ac, yn fynych, annaturiol hefyd, Rhuf. i. 19—32. 1 Cor. vi. 9, 10. Eph. ii. 2, 3, 12, a v. 8. 1 Petr v. 8. Rhagfynegwyd gan Dduw, pa fodd bynag, y bendithid yr holl genedloedd, yn had Abraham; yr ymgynnullent at y Gwaredwr, ac y byddent yn etifeddiaeth iddo, yn cydlawenhau â'i bobl; y caent eu goleuo, a'u hachub ganddo; ac y ceisient ef, &c. Gen. xxii. 18, a xlix. 10. Salm ii. 8. Deut. xxxii. 43. Esa. xlii. 6, 7, a xlix. 5—8, a lx, a xi. 10. Ie, rhagfynegwyd yn neilduol, y byddai i'r Caldeaid, yr Assyriaid, yr Arabiaid, y Philistiaid, yr Aiphtiaid, yr Ethiopiaid, y Tyriaid, triogolion yr ynysoedd, a chyrrau y ddaear, gredu ynddo ef, Salm lxxxviii. 4, a lxvii. 8—11, a lxviii. 31, a xlv. 12. Esa. xix. 18—25, a xxii. 18. Esa. lx. 5, 6, 7, a lxvi.

19. I'r dyben o ddarparu pethau at gyflawniad o'r addewidion hyn, a'r cyffelyb, gadawyd nifer mawr o'r Iuddewon, ar ol caethiwed Caldea, yn wasgaredig yn mysg y Cenedloedd. Cyfeithiwyd yr hen Destament i'r Groeg, yr iaith fwyaf gyffredin yn mhlith y Cenedloedd. Yr oedd son am ymddangosiad yr Iachawdwr yn y cnawd wedi ymdaenu yn mhell ac yn agos yn eu mysg. Pan ddaeth Crist, pregethodd y rhan fynychaf yn Galilea, lle yr oedd lluoedd o Genedloedd; ni ddarfu iddo erioed ganmawl ffydd neb ond eiddo y Cenedloedd; ac ni waharddodd iddynt erioed i wneud ei glod ef yn gyhoeddus. Ar waith y Groegiaid yn ceisio ei weled, efe a led-hysbysodd iddynt, mai ar ol ei farwolaeth a'i adgyfodiad, y cai rhifedi mawr o Genedloedd eu dwyn i'r eglwys, Mat, iv. 17, 18. Ioan xii. 20—24. Er's ychwaneg na 1700 o flynyddoedd a aethant heibio, y mae yr Iuddewon wedi cael eu gwrthod yn gyffredinol; ac eglwys Dduw yn cael ei gwneud i fynu o'r Cenedloedd, 1 Tim. ii. 7. Gal. 2. 7. Fel yr oedd y Cenedloedd gynt yn amddifaid o wybodaeth ac addoliad y gwir Dduw, y mae y gair *cenedl-ddyn*, neu *ethnic*, weithiau yn arwyddo y cyfryw a fyddo oddi allan i'r eglwys, y rhai ydynt annoethion, diddeuwiaidd, eilunaddolgar, &c. felly y mae dynion esgymunedig i gael eu cyfrif genym megys *ethniciaid*, a *phublicanod*; rhaid eu cau allan oddi wrth seliau y cyfammod; ac y mae yn ofynol i ni gadw mewn pob pelider galluadwy oddi wrthynt o ran cydymddyddan hynawsaidd, fel y cywilyddiont am eu drygioni, Mat. xviii. 17. Y *Cenedloedd*, y rhai a fathrant y cyntedd nesaf allan i'r eglwys dros 1260 o flynyddoedd, ydynt y Pabyddion eilunaddolgar, y rhai sydd debyg i'r hen Genedloedd mewn anwybodaeth, eilunaddoliaeth, a choelgrefydd, Dad. xi. 2.

CENEDLU; (1.) Dwyn i fodoliaeth, neu ffurfio oddi wrth had anifeilaidd; felly y mae tadau yn *cenedlu* eu plant, Gen. v. 3. Barn. viii. 30. (2.) Dwyn allan; felly y mae Duw yn *cenedlu* y gwlaw a'r gwlith, Job xxxviii. 28. *Cenedlodd* Duw y Tad ei Fab dwyfol, ein Harglwydd Iesu Grist, yn (1.) Pan gysgododd nerth y Goruchaf y Forwyn, ac yr ymddygodd hithau y peth sanctaidd hwnw a alwyd yn Fab Duw. Hwn oedd dirgelwch mawr duwioldeb, sef Duw wedi ymddangos yn y cnawd. (2.) Pan gyfododd efe ef oddi wrth y meirw, ac a'i gosododd ar ei ddeheulaw, gan ddywedyd, "Fy mab ydwyt ti, myfi heddyw a'th genedlais," Salm ii. 7. Yn yr ystyr hwn, efe yw *unig*-anedig y Tad; ni chenedlwyd un arall o holl feibion Duw felly; yr oedd hyn yn beth *newydd* ar y ddaear. Ac, am hyny, er i Dduw y Mab ymddarostwng i'w gael mewn dull fel dyn; etto ni thybiodd efe yn drais i ymgystadlu â Duw. Yn yr ail ystyr, efe yw y *cyntaf*-anedig o'r brodyr lawer y rhai a gyfodir oddi wrth y meirw, ac a wneir yn gyffelyb i'r Cyntaf-anedig, gan ei weled ef megys ag y mae. Cânt eu cyd-ffurfio â'i ddelw ef; ac os plant, etifeddion hefyd; etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ, Rhuf. viii. 17.

CENEZIAID oeddynt lwyth o'r hen Ganaaneaid, y rhai, ymddengys, a breswylient fynydd-dir Judea. Addawodd Duw eu gwlad i had Abraham, Gen. xv. 19.

CENFIGEN, (*cen-migen*) sydd un o anwydau y galon, trwy ba un yr ydym yn ymofidio ac yn gtwgnach o herwydd doniau, anrhydedd, neu lwyddiant ein cymmydog. Felly Rahel a *genfigenodd* wrth Leah ei chwaer, o herwydd ei ffrwythlonrwydd, Gen. xxxi. 1. Brodyr Joseph a *genfigenasant* wrtho, o herwydd fod ei dad yn ei garu, Gen. xxxvii. 4, 11. Yr Iuddewon a *genfigenasant* wrth Paul a Barnabas, o herwydd eu bod yn pregethu efengyl Crist, Act. xiii. 4, 5. Yr oedd rhai yn pregethu Crist trwy *genfigen* ac ymryson, o anfoddlonrwydd i anrhydedd uchel yr apostol Paul, ac i'r dyben o fino ei ysbryd, a lleihau ei gymmeradwyaeth, Phil. i. 15. Y mae *cenfigen* yn fwy peryglus na llid a digofaint cyhoeddus a chynddeiriog-wyllt, o herwydd ei bod yn fwy parhaus, ac y gwna i ddyn droi ei hun i bob llun, i'r dyben o ddinystrio ei gymmydog, Diar. xxvii. 4. Y mae yn cael ei chyfeirio yn fynych yn erbyn y gweithredoedd mwyaf rhagorol a defnyddiol, Preg. iv. 4. Y mae yn gospedigaeth iddi ei hun, yn *bydrni* i'r esgyrn, ac yn

lladd yr anghall; y mae yn attal bendithion y nef, ac yn poeni yr enaid lle y cyfanedda, hyd yn nod i farwolaeth, Diar. xiv. 30. Job v. 2. *At*, neu *yn erbyn cenfigen* y mae chwant yr ysbryd a gartrefa ynom; y mae ein llygredd anianol yn ein tueddu yn gryf at genfigen; ac y mae Ysbryd Duw sydd yn trigo yn y saint yn eu dwyn allan i'w wrthsefyll, ac i ymdrechu yn ei erbyn, Iago iv. 5. Y pechod hwn sydd yn erbyn y degfed gorchymyn.

CENLLUSG *(can-llusg)*. Ymddengys eu bod yn cael eu ffurfio o ddefnynau o wlaw wedi rhewi yn eu discyniad trwy ganol-barth yr awyr. Y maent yn fynych yn canlyn mellt a tharanau; ac, weithiau, y mae math o sylwedd mygfeinaidd yn gynnwysedig ynddynt. Pan fyddo y defnynau yn dechreu discyn, gwlaw ydynt; wrth syrthio, cyfnewidir hwy gan yr oerfel yn genllusg; fel y mae yn wirionedd ei bod yn gwlawio cenllusg, fel y dywedir yn Exod. ix. 18. Bu llawer o ystormydd o genllusg yn ofnadwy iawn. Coffâ Dr. *Haley* am ystorm o genllusg, yn Ebrill 29, A.D. 1697, yn rhandir Caerlleon a Lancaster, yr hon, dros driugain milltir o hyd, a dwy o led, a wnaeth alanastra mawr iawn, trwy bollti coed, lladd anifeiliaid bychain o bob rhyw, a tharaw i lawr ddynion, ceffylau, &c. yr oedd amryw o'r cerrig o ddeutu pump neu chwe modfedd o amgylchedd, ac yn pwyso o ddeutu hanner pwys bob un. Yn Mai 4, bu ystorm yn rhandir Hartford, cerrig yr hon oeddynt o 10 i 14 modfedd o amgylcheddd. Dywed *Casper Weser* i ni am ystorm o genllusg yn Zurich yn ngwlad y Swiss, yr hon yr oedd ei cherrig, ar ol eu dwyn i beller mawr oddi yno, yn bwys bob un. *Mezeraus*, yn ei hanes am Ffrainge, a goffâ am gawod o genllusg a fu, ar ol tywyllwch arswydus, yn yr Ital, A.D. 1510; yr oedd cerrig hon yn lasaidd, ac mor arswydus eu pwysi, fel y distrywiwyd y rhan fwyaf o'r anifeiliaid ag oeddynt allan o dai. *Cenllusg* ofnadwy oedd un o blâau yr Aipht, Exod. ix. 24; ac â cherrig *cenllusg* arswydus y gorchfygodd Duw luoedd cynghreiriol breninoedd Canaan, Jos. x. 11. Barnedigaethau Duw ar deyrnasoedd a gyffelybir i dymhestl o *genllusg*; mor aml, disymmwth, ac ofnadwy ydynt hwy! a thrwy gyfarwyddyd y Nefoedd, y maent, yn hawdd, yn dyfetha personau a meddiannau dynion, Esa. xxviii. 2, a xxx. 30. Dad. viii. 7, a xi. 17, a xvi. 21.

CERBYD, *(cêr, byd)* 1. Math o gerbydau ysgafn, i ddwyn rhai ar deithiau, Gen. xlvi. 29. (2.) Math o garrau i ryfelwyr ymladd o honynt, ac i dorri rhestrau y gelynion, 1 Bren. xxii. 31. *Cerbydau heiyrn* oeddynt rai â phladyriau heiyrn wedi eu sierhau wrth eu hochrau, fel y gallent, pan eu gyrrid yn ffrochwyllt, dorri i lawr pwy bynag a safai yn eu ffordd. Tynwyd olwynion lluaws mawr o gâd-gerbydau yr Aiphtiaid ymaith gan Dduw, a boddwyd hwythau yn y Môr Coch, Exod. xiv. 7. Collodd y Canaaneaid, y rhai a orchfygodd Josuah gerllaw dyfroedd Merom, lawer iawn o gerbydau, Jos. xi. 4. Yr oedd naw can cerbyd haiarn yn myddin Jabin, dan lywodraeth Sisera, Barn. iv. 3. Yn nechreu teyrnasiad Saul, dygodd y Philistiaid 30,000 o gerbydau i'r maes; eithr yr oedd y rhai hyn yn cynnwys y cyfan o'u mewn pedair-olwynog, a'u cludeion ereill; neu, hwyrach, arwyddant yn hytrach y cyfryw a ymladdent mewn cerbydau, fel yr ymddengys fod y gair yn cael ei gymmeryd, 2 Sam. x. 18. 1 Bren. xx. 21. 1 Cron. xix. 18. Gan i'r Hebreaid gael eu gorchymyn gan Dduw i beidio ymddiried mewn cerbydau a meirch, neu hyd yn nod i'w lluosogi hwynt, buant yn hir o amser cyn eu harfer yn eu rhyfeloedd; ac nid oedd eu gwlad fynyddig hwy, ychwaith, yn addas iawn i ddynt. Pan ymnillodd Dafydd fil o gerbydau oddi ar Hadadezer, efe a losgodd 900 o honynt, ac a dorrodd linynau garrau y meirch, gan gadw ond 100 yn unig iddo ei hun, 2 Sam. viii. 3. Yr oedd gan Solomon 1400 o gerbydau, 1 Bren. x. 26. Ac nid ymddengys i neb ond breninoedd a phen-tywysogion eu harfer, hyd yn nod wedi hyny, mewn rhyfel: yr oedd gan eu breninoedd ddau yn fynych, fel, os torrai un, y gallent farchogaeth yn yr ail, 2 Cron. xxxv. 14. *Rhwymo y cerbyd wrth y buan-farch*, a arwydda ffoi ymaith rhag y gelyn gyda y brys mwyaf, Mic. i. 13. Er mwyn dynwared breninoedd Persia, a chenedl-

oedd ereill, cyssegrodd Manasseh ac ac Amon gerbydau i'r haul; ond Josiah a'u distrywiodd hwynt, 2 Bren. xxiii. 11.

Cerbydau Duw ydynt angelion, rhagluniaethau, a chymmylau, yn ngoruchwyliaeth a symmudiad pa rai y mae efe yn amlygu ei fawredd a'i allu, yn gwrthsefyll ac yn gorchfygu ei gaseion, yn cynnal ac yn diogelu ei bobl, Salm lxviii. 17. Hab. iii. 8. Esa. lxvi. 15. *Cerbyd* Crist *o goed Libanus*, ei lawr o aur, ei byst o arian, ei lenni o borphor, a'i ganol wedi ei balmantu â chariad, ydyw yr hyn y mae efe yn dangos ei ogoniant trwyddo, ac yn gorchfygu ei elynion. Gellir deall yn briodol wrth y cerbyd hwn, bregethiad cyhoedd a buddugoliaethus yr efengyl. Y pyst ydynt er cynnaliaeth a chadernid, ac a gyffelybir i arian, o herwydd y mae gair Duw fel arian wedi ei buro saith waith. Y llawr neu yr eisteddle, ar ba un yr eistedd Crist, sydd yn cyfeirio at y drugareddfa gynt, Salm lxxx. 2; y llenni porphor, neu gochion, ydynt yn arwyddo athrawiaeth cyfiawnbad trwy ei waed, sef ei ufudd-dod a'i ddyoddefaint; a'i ganol, y cariad, y gras, a'r trugaredd a ddangosir ynddo, Can. iii. 9, 10. Y mae Crist yn cael ei gyffelybu i *gerbydau Amminadib*, gan gyfeirio, tebygol, at yryw gerbydwr hynod yn Israel; neu, yn hytrach, fel y gellir cyfeithu y geiriau, *fy enaid*, a'm gosododd ar gerbydau *fy mhobl ewyllysgar*, yn cyfatteb i'r Salm cx. 2, 3.

Y *pedwar cerbyd*, yn dyfod allan oddi rhwng *mynyddoedd pres*, ydynt yn arwyddo y pedair unbenaduriaeth fawr ac enwog; y rhai ydynt, yn ol arfaeth dragywyddol Duw, wedi ymddangos yn y byd, ac, yn eu tro, wedi goresgyn y cenedloedd, er eu bod o ddechreuad bychan, ac wedi profi gwrthwynebiad mawr. Y *cerbyd a'r meirch cochion*, a arwyddoa yr Assyriaid a'r Caldeaid, yn greulon a gwaedlyd; yr un â'r *meirch duon*, y Mediaid a'r Persiaid, weithiau yn dduon eu gwisg, ac yn ffinion arswydus; yr un â'r *meirch gwynion*, y Groegiaid, yn fuddugoliaethus ryfeddol, ac yn goresgyn yr un lleoedd ag a wnaethai y Mediaid a'r Persiaid; yr un â'r meirch gwineu, y Rhufeiniaid a'r Gothiaid, y rhai a wthiasant eu buddugoliaethau yn benaf tua'r dehau. Neu onid all fod y *cerbydau* hyn yn arwyddoccau yr angelion, megys wedi eu gosod ar waith yn nhrefniadau rhagluniaeth, mewn rhyfeloedd ac erlidigaethau gwaedlyd, mewn newyn a heintiau, mewn llawenydd a llwyddiant, ac mewn damweiniau hynod o gymmysgedig? Zec. vi. 1—8.

CERETHIAID, *(lorwyr)*. 1. Y Philistiaid, neu ryw lwyth neilldual o honynt, Zeph. ii. 5. Ezec. xxv. 16. (2.) Gaiwyd gosgordd-lu Dafydd yn *Gerethiaid* a *Phelethiaid*; naill ai o herwydd eu bod wedi eu gwneuthur i fynu, mewn rhan, o'r cyfryw Philistiaid ag a ymunasent âg ef; neu yn hytrach, o herwydd iddynt fod yn cyfaneddu, dros amser, yn mhlith y bobl hyny, a'u bod wedi cymmeryd cynllun eu harfau a'u trefniadau oddi wrth ryw fintai neilldual o'u byddinoedd hwynt, 1 Cron. xviii. 17.

CERITH; yr afon o ba un yr yfai Elias, tra y bu yn cael ei borthi gan gigfrain, 1 Bren. xvii. 3, 4. Bernir ei bod yn rhedeg o'r dwyrain i'r Iorddonen, ychydig o du y deau i Bethsan; eithr myn *Bochart* mai yr un â Canah oedd; a myn *Bunting* ei bod yn rhedeg tua'r dwyrain i'r Iorddonen rhwng Bethel ac Ai.

CERUB, *(megys y rhai uchel)*. Nid un oes pwngc yn yr holl ddaddguddiad dwyfol wedi bod yn achlysur o fwy dadl nag eiddo y *cerubiaid*; ac, yn wir, nid oes un o'r arwyddion cysgodol a arferir yn yr ysgrythyr, â'i ystyr a'i fwriad yn fwy gorchuddiedig gan dywyllwch. Y mae y cerubiaid yn cael eu hystyried, yn gyffredinol, fel math o angelion, neu ysbrydion gwasanaethgar; felly darllenwn Salm xviii. 10. "Marchogodd hefyd ar y *cerub*, ac a ehededodd; ïe, efe a ehededod ar adenydd y gwynt." Y crybwylliad cyntaf am y cerubiaid yn yr ysgrythyr sydd yn Gen. iii. 24, lle y dywedir mai eu swydd yw *cadw y ffordd*, neu *nodi allan y ffordd*, at bren y bywyd. Tan y gair *Angel*, cenfydd y darllenydd pa faint o gyssylltiad sydd rhwng yr angelion â'r eglwysi ar y ddaear, yn gystal âg yn y nefoedd; ac y mae cerubiaid y gogoniant yn gorchuddio y drugareddfa â'u hesgyll, a'u hwynebau tua'r arch, yn

cael eu hystyried gan lawer fel yn golygu dirgelwch mawr duwioldeb, a welwyd gan angelion. Yn (1.) Yn eu gweinyddiad parhaus i Fab Duw, yn ei enedigaeth, profedigaeth, ing, adgyfodiad, ac yn awr yn y nefoedd, y mae mil o filoedd yn amgylchynu ei orsedd. (2.) Yn eu gweinidogaethau i'r rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth; o herwydd i'r eglwys y mae yr angelion yn dymuno edrych, i weled mawr amryw ras Duw. Y mae y diweddar Mr. *Hutchinson* wedi arwain tybiaeth i mewn, mewn mesur mawr, yn newydd, ar y pwngc yn nghylch y cerubiaid; a chan fod ei resymau ef yn gywraint, a'r pwngc yn bwysfawr, cawn yma osod y sylwedd o honynt i mewn. Nid oedd un darluniad o'r *Jehofah* i gael ei wneud oll, ac nid oedd un *ddelw* o hono ef i'w gweled yn y babell na'r deml, i'r hon y gallasai y bobl ymgrymu, yr hyn oedd yn wrthwyneb i arferiad yr holl genedloedd paganaidd. Etto er hyny, yr oedd, yn y babell a'r deml, *luniau arwyddocâol* neu *gysgodol* wedi eu gosod i fynu uwch ben y *drugareddfa*, a elwid *Cerubiaid*, a rhyngddynt, neu ynddynt, yr oedd y Duwdod i drigo neu breswylio, a cher ei fron ef yn y lle hwnw, yr oedd y gwaed i gael ei ddwyn oddi fewn i'r wahan-*len*, ar ddydd y *cymmod*. Er fod dull y cerubiaid hyn mor adnabyddus yn nyddiau Moses, fel yr oedd y gweithwyr, wedi gorchymyn hyny iddynt, yn gallu eu gwneud heb un darluniad arall o honynt ond yr enw; etto bu mor lleied ymofyniad am wybodaeth o'r llun yr oeddynt ynddo gan yr Iuddewon, pan y gwrthryfelasant yn erbyn Duw, ac yr enciliasant oddi wrth burdeb ei addoliad, fel yr ymddengys iddynt ei golli yn hollol, cyn adeiladu o honynt yr ail *deml*. Yr oedd y cerubiaid hyni gael eu curo o'r un darn o aur ag a orchuddiai *arch y dystiolaeth*, a elwid y *drugareddfa*; yr oeddynt i fod â'u hwynebau tua'r *drugareddfa*; yr oedd y gwaed ar ddydd y *cymmod*, i gael ei daenellu ar y *drugareddfa*; rhyngddynt yr oedd Jehofah i drigo, sef i aros rhyngddynt neu ynddynt; oddi yno yr oedd i roddi cyfarwyddiadau ac attebion; a'r lluniau hyn, yn nghyd â'r *drugareddfa* a'r *arch*, oedd holl ddodrefn y *sanctum sanctorum*, neu y *cyssegr sancteiddiaf*, arwydd-lun y preswylfod dwyfol. Gan nad yw y *cerubiaid* yn cael eu darlunio yn gyflawn yn yr banes am ffurfiad ac adeiladaeth y babell na'r deml, a chan y gallasai fod yr offeiriaid, y rhai a'u gwelsent hwy yn y *sanctum sanctorum*, a'r bobl ereill y rhai a'u gwelsent ar barwydydd a muriau y deml, wedi trengu, cyn gorphen yr ail deml yn gyflawn, yr hyn a allasai gynnysgaethu yr luddewon canlynol âg esgus am eu bod heb yr arwydd-luniau hyn yn yr ail deml, ac am esgeuluso y wybodaeth a drosglwyddid trwyddynt, rhyngodd bodd i Dduw ddangos i un o'i brophwydi, sef Ezeciel, mewn gweledigaeth, ar amrywiol amserau, ddull yr *arwydd-luniau* hyn, yr hyn y mae efe, mewn dau le gwahanol, sef pen. i, a x, wedi ei gofnodi yn ofalus. Ac nid ychydig o ryfeddod yw, er fod yr *Iuddewon* o unfryd yn cyfrif Ezeciel yn brophwyd, a bod y manau hyn o'i waith yn ysbrydoledig, etto ni thybiasant erioed yn gymmwys i roddi lle i'r *lluniau* a ddarlunia efe, yn eu teml, neu i ddychymmygu eu hystyr, er y dalient eu bod yn cynnwys y dirgelwch mwyaf pwysig. Y mae y darluniad o'r Creaduriaid, a welwyd gan Ezeciel yn y weledigaeth hon, yn cael ei roddi mor gyflawn, gofalus, a llafurus, fel nad oes modd camsynied rhai o'i brif briodoliaethau. Yr oedd i bob Cerub *bedwar pen*, o leiaf *bedwar wyneb*, a dim ond un *corph*; yr oedd i bob un *ddwylaw* dyn, ac *adenydd*; a'r pedwar wyneb oeddynt, yn *gyntaf*, wyneb *ych*, yr hwn a elwir yn briodol yn *gerub*; yn *ail*, o du y dehau i'r ych, yr oedd wyneb *dyn*; yn *drydydd*, o du y dehau i'r dyn, yr oedd wyneb *llew*; dywedir yn pen. i, 5, 10, fod wyneb y *dyn* a'r *llew* ar y tu dehau, tra y dywedir fod wyneb yr *ych* ar y tu aswy; ac, yn *bedwerydd*, wyneb eryr, heb gymmeryd un sylw o unrhyw gyssylltiad neilldiol rhwng wyneb yr *ych* ac eiddo yr *eryr*. Ac y mae y prophwyd yn cymmeryd cymmaint gofal i adgoffâu, mai y creaduriaid neu y lluniau a osodid allan fel hyn oeddynt y Cerubiaid, a bod y darluniad yn y bennod gyntaf a'r ddegfed yn cyfeirio at yr un Cerubiaid, fel na

ddichon unrhyw amheuaeth fodoli nad yw efe yn darlunio y *cerubiaid* gwirioneddol a osodwyd yn y babell a'r deml; onid ellir tybied i'r darluniad gael ei roddi yn fwriadol er ein twyllo a'n camarwain. Gan ein bod fel hyn yn gwybod, oddi wrth Ezeciel, ddull y *cerubinid*, ac yn gwybod arferiad y cenedloedd henaf, yn neilldiol yr *Aiphtiaid*, o ffurfio lluniau cyfansawdd o'r fath hyn, i ddybenion *arwydd-luniol* neu *gysgodol*, ac oddi wrth weddillion o'u henafiaethau pa rai ydynt ar gael etto, nis gallwn gynnwys un amheuaeth nad oedd yr arddangosiad hwn yn arwyddocaol.

Y mae yn rhaid i'r hwn nad all gredu fod y *cerubiaid* wedi eu gosod yn y *cyssegr sancteiddiaf* i arddangos *un* creadur, cyfansoddedig o *ych*, *dyn*, *llew*, ac *eryr*, ganiattau o angenrheidrwydd, fod wynebau y creaduriaid hyn, wedi eu cyssylltu felly, yn cael eu bwriadu i arwyddoccau amrywiol wedd-nodau, gallu-oedd, neu bersonau, wedi eu cyduno. Gwelwn oddi wrth hen awdwyr, tlysau, a chof-arwyddion ereill, fod yr Aiphtiaid, yn dra mynych, yn arfer gwneuthur corph eu *delw*, neu ddarlun, yn *ddynol*, weithiau gyda phen *llew*, weithiau gydag eiddo *hebog* neu *eryr*, ac weithiau gydag eiddo ych, hwrdd, neu ryw greadur corniog arall. A chan ein bod, oddi wrth arddangosiad gwreiddiol y *cerubiaid*, wedi ei symmud a'i adalw i'w wasanaeth priodol, yn y babell a'r deml, yn gweled fod gan yr henafiaid gynllun oddi wrth ba un y gallasent gymmeryd y darluniadau hyny, y rhai a gamddefnyddiasant hwy yn anferthol, ni a allwn gasglu yn rhesymol, fod y darluniadau hyn, pa rai, yn naturiol ac heb ryw osodiad pennodol, ni ddaethent byth i benau dynion, wedi deilliaw oddi wrth ryw arferiad boreuol, yr hwn oedd â'i amcan yn wahanol oddi wrth yr hyn y gwyrdrowyd ef iddo yn y diwedd. Gan fod arferiad y cenedloedd boreuaf, y rhai a giliasant gyntaf i wasanaethu y *nefoedd*, trwy osod i fynu luniau yr amrywiol greaduriaid o ba rai y gwnaed y *cerubiaid* i fynu, fel arwydd-nodau neu arddulliau o'r amrywiol nerthoedd yn y *nefoedd*, pa rai a addolent hwy, yn brawf cadarn pa beth y bwriedid y lluniau hyny, yn ddechreuol, i'w arddangos; y mae yn dyfod yn angenrheidiol i unrhyw ddyn, yr hwn a fynnai gael boddlonrwydd pellach yn y pwngc hwn, i chwilio yr ysgrythyrau, er gweled pa un a ddichon fod, yn yr amrywiol ymddangosiadau o'r Duwdod a adroddir yno, rai gwedd-nodau cymmwys i gadarnhau neu ddirymu y dybiaeth fod *lluniau* y cerubiaid yn arwyddion o dân, goleuni, ac *awyr*, neu *wynt*. Gan fod y rhai hyn, bob amser, yn nodau o *gyd-ddrychioldeb y Jehofah*, yn arwyddion a ddefnyddid i ddynodi ei ymddangosiad ef; gan i'r rhai hyn fod, yn nghyd neu yn wahanol, yn wrthddrychau o wasanaeth crefyddol y paganiaid boreuaf, o herwydd fod y paganiaid yn cydnabod yr *ych*, y *llew*, a'r *eryr*, fel cysgod-luniau o'r duwiau hyny o'r eiddynt, pa rai, wedi talm o amser, a gam-gymmerasant hwy yn lle yr hyn a fwriedid yn unig i'w osod allan trwyddynt; a chan fod yr *ych*, y *llew*, a'r *eryr*, wedi eu cyssylltu ar ddull *un creadur byw*, ac wedi cael eu cyssegru, fel y gellir dywedyd, yn y *cerubiaid*, i fod yn drigfa i *gyd-ddrychioldeb* Duw yn y *sancteiddiolaf*, ni ddichon un braidd amheu nad oedd y *lluniau* cyssylltiedig yn y *cerubiaid*, y rhai oeddynt yn arwyddion o *dân*, goleuni, ac *awyr*, neu *wynt*, y gyffelybiaeth gyffredin tan ba un y byddai y Duwdod yn arferol o ymddangos, wedi cael eu bwriadu i arddangos y gwedd-nodau neu y personau hyny yn yr *hanfod* dwyfol, pa rai yr oedd y *tân*, y *goleuni*, a'r *awyr*, neu *wynt*, yn tebygu iddynt. Pa angen bynag allasai fod ar ddyn am wybodaeth o wahaniaeth y *personau* yn y Duwdod cyn y Cwymp, etto ymddengys yn ddiddadl nad allasai trefn ei iachawdwriaeth, ar ol ei wrthgiliad, gael ei hysbysu iddo heb ddadguddiad o'r gwirionedd *hwnw*, annirnadwy wrth *oleuni anian*. Nid oedd yn alluadwy iddo wybod pa fodd, neu ar ba gyfrif yr oedd ei bechodau i gael eu maddeu, ac yntau ei ail-osod yn hoffder Duw, heb ddywedyd wrtho fod y Duwdod yn gynnwysedig o *dri* o *Bersonau;* a bod, o'r *tri* hyny, yn ganlynol i gyfamnod a wnaed cyn y Greadigaeth, yr *Ail* i gymmeryd cnawd arno, ac, yn null dyn, i ddyoddef, a thrwy hyny, i

wneud iawn am bechodau dynolryw; a bod y *trydydd* i gadw cymundeb âg eneidiau dynion, er eu harweiniad a'u cyssur. Ac nid oedd alluadwy i ddyn, gydag un math o ddilysrwydd, gadw y *dadguddiad* hwn mewn cof heb ryw goffadwriaeth, ryw fanylwaith neu beth *arwyddluniol* i'w gynnal; neu i edrych i fynu ar y cyfryw *arwyddlun*, gan wybod ei ystyr, heb gyfaddef, yn ddiolchgar, ei rwymedigaeth i'r *personau dwyfol* hyny y rhai yr oedd yn ddyledus iddynt am ei fodoliaeth, ei gyssur, a'i iachawdwriaeth. Nifydd i *Gristion*, erthygl fwyaf pwysig *credo* yr hwn yw i'r Drindod ymuno â dynoliaeth, i'r *Gair* gael ei wneuthur yn gnawd, i un o'r personau yn y Jehofah ddyfod yn *Fab Dyn*, betruso, pan ddywedir wrtho fod dull *dyn*, yn yr arddangosiad o'r Duwdod, a wneid dan *gysgod-luniau* y *cerubiaid*, er addysg a chyssur dynolryw, yn cael ei ychwanegu at y rhai a osodant y *Drindod* allan; a bod y dull *dyn* hwn yn cael ei osod ar y tu dehau i'r *arwyddlun* hwnw sydd yn arddangos y *Tad*, y *Person cyntaf*, y Tân, a'i fod yn cael ei gyssylltu mewn modd neilltuol â'r *Llew*, yr *ail Berson*, y Goleuni. Efe a grêd yn gadarn pa beth y mae y *lluniau* hyn, wedi eu hegluro felly, yn ei osod allan; ac y mae yn rhaid iddo ei ystyried yn gydunol âg ymddarostyngiad a daioni mawr y Duw trugarog, i hysbysu i ddyn, o'r dechreuad, am yr hyn oedd yn perthyn iddo mor agos, a'r hyn, heb *ddadguddiad*, nis gallasai gael un meddyldrych o hono.

Ni ddylid ystyried yr arddangosiad *arwydd-luniol* yn y cerubiaid, yn sengl, neu ar wahan, oddi wrth ei ddull; eithr, at hyny, rhaid ychwanegu y radd oedd ganddo yn y babell, neu y weithred gysgodol i ba un y perthynai. Sylwyd eisoes, fod y cerubiaid i gael eu gwneud o'r un aur pur â'r *drugareddfa*, yr hon yr oeddynt yn ei gorchuddio â hesgyll; a'r cwbl a ddarlunir i ni yn mhellach, yw, eu bod yn sefyll un yn mhob cwrr i'r *drugareddfa*, eu hwynebau yn edrych bob un at eu gilydd, a thua'r *drugareddfa*. Y mae y drugareddfa hon, sef yr yspaid rhwng y ddau *gerub*, yn cael ei darluuio fel lle preswylfod y Duwdod, a'i ymddangosiad: yr oedd efe i drigo rhwng y cerubiaid; ac yr oedd i ymddangos yno mewn *cwmmwl*, ac i fynegu ei ewyllys oddi yno. Heblaw hyn, yr oedd defod sefydlog ac arbenig i gael ei chyflawni unwaith bob blwyddyn, ar ddydd y *cymmod*, ger bron y *drugareddfa*; yr oedd yr offeiriad i ddwyn gwaed y *pech-aberth* oddi fewn i'r *wahan-len*, ac i wneud cymmod âg ef dros yr holl bobl, trwy daenellu y gwaed ar y *drugareddfa*, a saith waith ger ei bron, a dywedir fod y gwaed hwn, wedi ei daenellu felly, yn gwneud iawn. Yr oedd y *gwaed cymmodol*, yn y weithred bwysicaf hon o eiddo y sefydliad *Moesenaidd*, yn cael ei daenellu ar y lle hwnw, sef y drugareddfa, tuag at ba un yr oedd amrywiol wynebau y cerubiaid yn droedig: pe buasent yn gweled, ni chawsent un gwrthddrych arall i edrych arno, ar ddydd arbenig y *cymmod* hwn, ond yr offeiriad yn y wisg sanctaidd, *cysgod* o'r *ail Berson*, neu y *Goleuni*, yn taenellu y gwaed hwn ar y *drugareddfa*, a thuag atti; yr hyn nid allai braidd fethu arddangos i'w meddyliau, mae gwaed, wedi ei daenellu fel hyn, oedd y gwrthddrych yr oedd y *personau* dwyfol, y rhai a osodai y *lluniau* hyn allan, yn edrych arno fel y cymmod, y prid-werth, a'r iawn. Ac os oedd yn angenrheidiol, tuag at wneuthur yr *arwyddlun* hwn yn gyflawn, i arddangos yr holl *bersonau*, fel yn edrych ar y gwaed hwn, ac yn ei gymmeradwyo, yna daeth yn angenrheidiol i wneud dau *gerub* gwahanol, a'u gosod mewn gwahanol gyrrau o'r drugareddfa, fel y gallai wyneb pob llun fod wedi ei droi at y fan yr oedd y gwaed i gaei ei daenellu arno; o herwydd pe na buasai yno ychwaneg nag un *cerub*, nis gallasai ond dau yn unig o'r pedwar wyneb gael eu cyfeirio at y lle yr oedd y gwaed i gael ei daenellu arno; ac, heblaw hyny, buasai pwysfawrogrwydd yr amgylchiad o fod eu hwynebau yn edrych y naill at y llall, yr hyn sydd yn teilyngu ei ystyried yn wahanol, yn cael ei golli. Nid oes dim yn fwy sicr na bod y Duwdod, tan yr oruchwyliaeth *Foesenaidd*, i breswylio, i ymddangos yn nghanol y bobl, yn y fan lle yr oedd efe i osod ei *enw*, y

fan lle, a'r lle yn unig, er canedigaeth pob un arall allan, yr oedd aberth i gael ei offrymu, yr allor i gael ei gosod i fynu, a phob gweithred ddefodol neu gysgodol o grefydd i gael ei chyflawni, ac, yn neilldnol, y fwyaf pwysig o bob rhai ereill yn neu rhwng y *cerubiaid*. Y mae yr hanes a roddir i ni gan Moses am gyhoeddiad yr *efengyl* ar ol y *cwymp*, yn fyr a chynnwysfawr, er y gallasai y *dadgudd iad* fod, ynddo ei hun, yn gyflawn ac eglur iawn. Y mae y gobeithion a roddir am drugaredd yn cael eu coffâu yn yr ymadrodd unigol hwn, sef *had y wraig a yssiga heny surph*; ac nid ydym yn clywed am un peth, sefydliad, nac arddangosiad *arwydd-luniol* arall, oddi gerth gosodiad neu breswyliad y *cerubiaid* o du y dwyrain i *Eden*, ar waith dyn yn cael ei symmud allan o honi. Yn awr, gan mai y drefn sefydledig o iawn a chymmod, y ffordd adnabyddus at *Bren y Bywyd*, oedd trwy ddefnyddio tân mewn poeth-offrymau, a'r cleddyf i dywallt gwaed, yr hyn bethau oeddynt yn rhaid eu cyflawni ger bron *wyneb y Jehofah*, yn preswylio yn neu rhwng y *cerubiaid*, pa beth a rwystra i ni gasglu nad oedd yr arddangosiad y crybwyllir am dano gan Moses, yr un peth o ran y sefydliad a'r gwasanaeth *arwydd-luniol* a gadarnhawyd wedi hyny yn mhlith dynion, âg oedd y cynlluniau a ddangoswyd i Moses a Dafydd, o'r deml a adeiladwyd wedi hyny; ac i Adda, ac ynddo ef i ddynolryw, gael ei addysgu trwy hyny i dywallt gwaed, ac offrymu poeth-offrymau ger bron wynebau y cyfryw luniau *cysgodol* ag a arddangosid y pryd hwnw? Yn ddiddadl, os sefydlwyd tywallt gwaed ac offrymu trwy dân y pryd hwnw, fel yr ydym yn lled sicr y gwnaed, cafodd y dull o gyflawni hyny ei ddangos hefyd. Ac, fel y gwyddom oddi wrth hanes Cain, i'r Jehofah ddewis lle i'w bresennoldeb mwyaf digyfrwng, a elwir ei *wyneb*, ni fydd alluadwy i ni ammeu nad oedd cyfarwyddiadau wedi cael eu rhoddi â pha arwydd-luniau yr oedd y lle hwnw i gael addurno, a pha fodd yr oedd i gael ei hynodi; ac nis gallwn, yn rhesymol, betruso dadgan, mai arwyddlun ei *gyd-ddrychioldeb* ef oedd y *cerubiaid*, y fan lle, dan yr oruchwyliaeth luddewig, yr oedd efe, yn dra dilys, yn eistedd, a'r lle, yn mhob testun dan sylw, y dywedir ei fod yn cyfaneddu. Os oedd, gan hyny, yr arddangosiad cysgodol hwn yn cael ei osod allan, yn ddiattreg ar ol y cwymp, i fynegu a chadw mewn tragywyddol goffadwriaeth, y dadguddiad o drugaredd i ddyn, gallwn, ganfod y dyben ardderchog o'i ddangosiad cyntaf yn Eden; ei sefyllfa anrhydeddus yn y babell a'r deml; a thrwy ba foddion y daeth y cenedl-oedd o hyd i'w harwydd-luniau.

Ei waith yn *eistedd rhwng y cerubiaid*, a arwydda ei bresennoldeb neilldnol yn nghyssegr sancteiddiaf yr luddewon; ac, yn benaf, ei foddlonrwydd a'i hyfrydwch neilldnol yn ein Cyfryngwr; ac yn ei gyflawnder, yr hwn a fawrhaodd y gyfraith; a'i barodrwydd i'w gael gan y sawl a'i ceisiant ef, Salm lxxx. 1. Brenin Tyrus a elwir yn *gerub enneiniog*; yr oedd yn rhoddi diogelwch hyfryd a gogoneddus i'w ddeiliaid, tra yr oedd ei wisgoedd gwychion yn gwneud iddo ddysgleirio megys angel, neu echdywynu fel y cerubiaid euraidd uwch ben yr arch, Ezec. xxviii. 14.

CERYDD—U(*cêr*). 1.Taraw neu gystuddio un er ei lês a'i addysg. A gwrthod derbyn neu ddirmygu *cerydd* neu gosp, yw ei dibrisio, a pheidio diwygio trwyddi mewn un modd, Jer. ii. 30, a v. 3, a vii. 28. Heb. xii. 5. Gelwir dadymchweliad y genedl Iuddewig gan y Caldeaid, yn *gospedigaeth y creulon*, yr oedd yn llym iawn, ac yn cael ei gosod gan offerynau creulon, Jer. xxx. 14. (2.) Cospi mewn digllonedd cyflawn, Lef. xxvi. 28. Fel hyn gosodwyd *cospedigaeth ein heddwch* ni ar Grist; y gospedigaeth honno, trwy ddyoddef pa un yr effeithir ein cymmod â Duw, a osodwyd arno ef, fel ein Mechniydd, Esa. liii. 5. Yr ysgrythyrau ydynt yn fuddiol i *geryddu*; trwy eu hawdurdod nerthol, y maent yn dwysbigo dyn yn ei galon, ac yn gwneud iddo wellhau ei ffyrdd drygionus, 2 Tim. iii. 16.

CESAREA, yr hon s elwid gynt Twr Strato, a adeiladwyd gan Herod Fawr, o anrhydedd i Augustus, ac a alwyd ar ei enw ef. Safai y ddinas hon ar lan Môr y Canoldir,

yn nghylch 76 o filltiroedd o du y gogledd-orllewin i Jerusalem. Poblogwyd hi mewn rhan gan y cenedloedd, ac mewn rhan gan yr Iuddewon, yr hyn, weithiau, a barodd amrysonau dychryllyd rhyngddynt. Yma yr oedd Cornelius yn byw; yma yr yswyd Herod gan bryfed; yma yr oedd Philip y diacon yn byw, gyda'i ddwy ferch; yma y rhagfynegodd Agabus am garcharia Paul yn Jerusalem; ac yma y profwyd Paul ger bron Ffelix a Ffestus, ac yr arosodd yn garcharor ddwy flynedd, Act. x. 1, a xii. 23, a viii. 40, a xxi. 11, a pen. xxiii, a xxiv. Parhaodd eglwys barchus yma hyd y 7fed ganrif. Eithr yn Act. ix. 30, meddylir, hwyrach, Cesarea-Philippi.

CI. Yn ol dosparthiad Linnaus o'r creaduriaid, y mae yr enw hwn yn cynnwys y cŵn teuluol o bob math; megys gwaedgwn, bytheuadgwn, daeargwn, cŵlgwn, corgwn, &c. a'r llwynog a'r blaidd. Y mae pum bys ar eu traed blaen, a phedwar ar eu rhai ol. Yr oedd y rhai hyn oll yn aflan, ac yn cael eu cyfrif gan yr Iuddewon yn dra distadl a dirmygus; ac nid oedd eu gwerth ychwaith i gael ei gyssegru i'r Arglwydd, Deut. xxiii. 18. Arferent y gair *ci*, *ci marw*, neu *ben ci*, i osod allan ddyn tra digyfrif, 2 Bren. viii. 13. 1 Sam. xxiv. 14, a 2 Sam. ix. 8, a iii. 8. Dynion anniwair ac aflan, neu rai a ddychwelant at athrawiaethau ac arferiadau bryntion, neu rai a gyfarthant ar y sawl a gasânt, ac a'u difenwant, a elwir yn *gwn*, Dad. xxii. 15. Deut. xxiii. 18. 2 Petr ii. 22. Diar. xxvi. 11. Salm lix. 6, a xxii. 16. Gau athrawon ydynt yn *gwn*; y mae tueddiad ynddynt at lwybrau ffiaidd; y maent yn *gwn mudion*, nid ydynt yn rhybuddio nac yn addysgu dynion, yn ffyddiawn; y maent yn *gwn diog*, nid ydynt yn esgor eu gwrandawyr drachefn, hyd oni ffurfier Crist yn eu calonau; y maent yn *gwn gwangcus*, nid ydynt byth yn cael digon o bethau bydol; ac y maent wedi ymroddi i gyfarth ar bobl Duw, a'u gwaradwyddo, Phil. iii. 2. Esa. lvi. 10, 12. Cyfrifid y Cenedloedd fel *cwn* gan yr Iuddewon, eithr hwy a gawsant fwytta o'r briwsion a syrthient oddi ar fwrdd yr Iesu, a buant gyfranogion o rai o'i wyrthiau; a *llyfasant ei gornwydydd ef*, cymmwysasant ei ddyoddefiadau er iachâd ac ymborth i'w heneidiau, Mat. xv. 27. Luc xvi. 21. Y mae Satan yn cael ei alw yn *gi*, i nodi ei ddistadledd a'i niweidioldrwydd, i waradwyddo a blino y saint; er fod Duw yn ei wneuthur ef a'i oruchwylwyr yn ddefnyddiol i'w gyrru hwy atto ei hun, Salm xxii. 20.

CICAION. Y mae yn anhawdd dywedyd pa beth oedd y *cicaion* a orchuddiodd ben Jonah gerllaw Ninefeh. Dywed *Jerome* mai prysgen fechan yw, yr hon, yn nhiroedd tywodlyd Canaan, sydd yn tyfu mewn ychydig ddyddiau i gryn uchder, a chyda ei dail mawrion, yn ffurfio cysgod hyfryd. Yr ydys yn awr yn gyffredin yn barnu mai y *Palma Christi*, yr hwn a ellw yr Aiphtiaid *cici*, ydyw. Planhigyn tebyg i lili yw, â'i ddail yn fawrion a llyfnion, â brychau duon arnynt. Dywed *Diosorides* fod math o hono yn tyfu i uchder ffigysbren, a bod ei gorph a'i ganghenau yn genol fel cecysen. Y mae rhai o'r farn mai y rhywiogaeth olaf hon a grybwyllir am dani yn llyfr Jonah, Jon. iv. 6. *Cicaion gwyllion* ydynt blanhigion a ddygant ganghenau a dail, y rhai a ymlusgant ar hyd wyneb y ddaear, fel eiddo cucumerau. Eu ffrwyth sydd o ddull a maintioli eur-afal, yn cynnwys math o sylwedd ysgafn, ond mor chwerw ei archwaeth, fel y cafodd ei alw *bustl y ddaear*, ac y mae yn ddigon i ladd un bron gan ei garthiad angerddol. Barna *Scheuchzer* y gallai mai y ffieren neu y winwydden wen oedd, grawn pa un a gasglodd y prophwyd ieuange, y rhai ydynt yn hyfryd i'r golwg, ond yn chwerwon iawn, ac yn garthiedyddion cryfion, 2 Bren. iv. 39.

CICONIA, math o ehediad. Ei big a'i goesau ydynt yn hirion a chochion. Ei bluf ydynt wynion, oddi eithr fod blaenau ei adenydd, a rhyw ran o'i ben a'i gluniau, yn dduon. Y mae y ciconia o ddeutu maintioli gwydd; ond pan saif yn syth, y mae o ddeutu tair neu bedair troedfedd o uchder. Ymbortha ar lyffaint melynion, seirph, a thrychfilod; y mae yn dra gofalus am ei rieni, ac yn garedig iddynt; nytha yn

y ffynnidwydd uchel yn ngwlad Canaan, o herwydd fod penau y tai yno yn wastad, Salm civ. 17; ond yn Europ, nytha ar dyrau a nenau tai. Aderyn tramwyol ydyw, yr hwn, yn mis Awst, sydd yn gadael y gwleddydd oerion, ac yn dychwelyd yn ol iddynt yn y gwanwyn, Jer. viii. 7. Mae trigolion *Tonningen* yn ymgasglu i lan y môr i'w gweled yn dychwelyd adref, a hynod yw yr olwg arnynt wrth ddyfod o'u hir daith: yr hen adar wedi blino cymmaint, fel y maent yn gorfod marchogaeth ar gefnau y rhai ieuainge. Maent o wasanaeth mawr yn yr Almaen, am eu bod yn difa yr ymlusgiaid gwenwynig, pa rai a fyddent yn dra aml yno oni bai hwynt. Mae dirwy wrth gyfraith y wlad ar y neb a laddo un o honynt. Yr oedd y gyfraith Iuddewig yn eu cyhoeddi yn afiaa, Lef. xi. 19; eithr cyfrifir hwy yn awr yn ymborth blasus. Heblaw y rhai cyffredin, y mae rhywiogaeth o giconiaid duon yn yr Aipht, a elwir *Ibis*, y rhai ydynt hynod am ddifa y seirph a gynnygant ddyfod i'r wlad honno; ac y mae rhywiogaeth o rai llwydion yn Brazil, a elwir *magauri*. Y mae rhai ciconiaid yn nodedig iawn am ddial camweddau a wneir iddynt, hyd yn nod yn mhen hir amser wedi eu gwneler.

CIGFRAN, aderyn ysglyfaethus, afiaa tan y gyfraith, Lef. xi. 15. Y mae o faintioli iar gyffredin, ac o liw du, yn nghyd â du-las. Ei phen sydd fychan, wedi ei wasgu i lawr ar y coryn, a'i wastattâu ar yr ochrau. Y mae ei llygaid yn ddysclaer, mawrion a threiddgar, ac yn gallael canfod o bellder mawr. Ei phig sydd yn gryn hir a thew, yn bytrach yn drumiog ar y cefn, ac yn llym yn y blaen. Nid ydym yn sicr pa un a bod yr hen gigfrain yn gadael neu ynte yn bwrw allan eu cywion o'u nythod, megys yr haera rhai. Y gigfran a anfonodd Noah allan o'r arch i edrych a sychasai y dyfroedd oddi ar wyneb y ddaear, ni ddychwelodd byth atto ef, am y gallai hi gyd-ddwyn â'r cyrph meirwon a nofient ar yr wyneb. Cyffelybiaeth wirioneddol o ddynion cnawdol, cigfranaidd, pa rai a garant wagedd ffol y byd, ac a wrthodant ddyfod at Iesu, fel y caffont fywyd. Gen. viii. 6,7. Er fod y creaduriaid hyn o anian wangcus, hwy a gymhwyswyd gan Dduw, yn groes i anian, i borthi Elias wrth afon Cerith, â bara a chig y bore, ac â bara a chig brydnawn, 1 Bren. xvii. 34. Mae rhai gwrthwynebwyr i'r gwirioneedd yn haeru mai nid cigfrain a borthasant Elias, ond mai marchnadyddion oeddynt, neu drigolion Horeb; nid yw hyny ddim gwell nag ysbeilio Duw o'i ogoniant, a'i wyrthiau rhyfeddol.

CILDDANNEDD *(cil-dant)*, Gallu neu offerynau dynion annuwiol i ddal gafael yn yr hyn sydd ganddynt, neu i wneuthur drygioni creulawn ac ysgeler, a elwir yn *gilddannedd*, Job xxix. 17. Diar. xxx. 14. "Duw a holltodd y cilddant oedd yn yn yr ên, fel y daeth allan ddwfr o hono," Barn. xv. 12. Y mae yn ymddangos, yn ol y cyfeithiad hwn, fod y dwfr wedi tarddu o'r cilddant: ond y mae cryn anhawsder i amgyffred pa fodd y gallai y cilddant barhau i roddi dwfr rai oesoedd wedi hyny, fel y mae y rhan olaf o'r adnod yn dywedyd. Ond y mae sail dda i farnu nad yw y gair Heb. *mactes* yn arwyddo *cilddant*, ond ceudwll neu forter; ac yn lle *yn yr ên*, dylid cyfieithu, *yn Lehi*, fel ar ymyl y ddalen yn rhai Beiblau Saisonaeg. Ac, yn ol hyny, cyfieithid ef fel hyn, "Ond Duw a holltodd y twll morter oedd yn Lehi, fel y daeth dwfr allan o hono." Yr oedd yn beth arferol yn yr oesoedd hyny, ac, etto, yn ngwledydd y dwyrain, i fwydo ŷd, a'i bwyo i ymadael a'i eisyn, mewn ceudyllau tebyg i forter, wedi eu cafnu, tebygol, mewn creigiau.

CILICIA, *(cyffyrddiad)* gwlad yn Asia Leiaf, o du y gogledd i Syria, rhwng y 36ain a'r 40fed gradd o ledred gogleddol. Yr oedd Pamphylia o du y gorllewin iddi; y gilfach Issiaidd o Fôr y Canoldir o du y dehau; mynydd Amanus o du y dwyrain; a rhan o Cappadocia ac Armenia Leiaf o du y gogledd iddi. Yr oedd y tir gan mwyaf yn greigiog, a'r wlad wedi ei hamgylchynu yn y fath fodd gan fynyddoedd, sef Taurus, Amanus, ac ereill, fel nad oedd ond tair ffordd gul i fyned i mewn iddi. Ei phrif ddinasoedd oeddynt Tarsus, lle ganwyd Paul, Soli, Anchiale, Anazarbum, Issus, &c. Ymddengys iddi gael ei phobl-

ogi ar y cyntaf gan Tarsus, ŵyr Japheth, Gen. x. 4; eithr gyrwyd y rhai hyn allan o honi gan Cilix, a'i Pheniciaid o ddeutu amser Dafydd. Sefydlodd lluaws mawr o bobl o Syria, ac, ymddengys, o Persia, yma wedi hyny. Y Ciliciaid oeddynt yn bobl anwar, greulawn, a thwyllodrus, ac â thuedd mawr ynddynt at fôr-ladrad. Ymddengys fod gan-ddynt freninoedd o'r eiddynt eu hunain, tros amrywiol oesoedd, ond eu bod yn ddarostyngedig i wyr Caerdrova, y Lydiaid, y Persiaid, neu y Rhufeiniaid; y diweddaf o ba rai a wnaethant y wlad yn dalaeth. Pregethwyd yr efengyl yno gan Paul; a chasglwyd yno eglwys Gristionogol yn foreu, Act. xi. 30. Yr oedd y Cristionogion yno â llaw ganddynt yn y dadleuon yn nghylch gosodiad y defodau Iuddewig ar y dychweledigion Cenedlig, Act. xv. 23, 41. Parhaodd Cristionogrwydd mewn peth dyscleirdeb yno hyd ddechreuad yr 8fed ganrif, pan gymmerodd y Syriaid feddiant o'r wlad. Gwedi rhai oesoedd, ynnillodd y Tyrciaid hi oddi arnynt hwy; ac y mae yn awr yn rhan o Caramania.

CIMHAM, *(fel hwy)* mab Barzilai y Gileadiad. Er mwyn gwobrwyo caredigrwydd ei dad, Dafydd, ar ei ddychweliad i Jerusalem, ar ol marwolaeth Absalom, a gymmerodd Cimham gydag ef; ac, ymddengys, a roddodd iddo gyfran o dir yn agos i Bethlehem, lle yr adeiladwyd dinas o'r enw Cimham wedi hyny, 2 Sam. xix. 37. 38. Jer. xli. 17.

CINIAW *(cin)*. Arwydda y gair yn fwyaf priodol y *pryd* a fwytteir ganol dydd; ond y mae rhai yn ein gwlad yn ei arfer am *foreu-fwyd*. Y mae darpariad arlwyaeth yr efengyl yn cael ei alw yn *giniaw*; pan wrthododdodd yr Iuddewon gyfrannogi o honi, galwyd y Cenedloedd, a'r Iuddewon a gospwyd yn llymdost am ei gwrthod; felly, yn awr, pawb na wrandawant ar lais cennadau hedd, tra y mae y drws yn agored, a gauir allan yn dragywydd, Mat. xxii. 1—24. Y mae yr efengyl yn bryd helaethlawn i ddiwallu enaid, Esa. xxv. 6, 7. Yn bryd, hefyd, i ffforddolion Sion, Ioan vi, 53. 1 Petr i. 11. Yn bryd i fyned atto bob amser cyn cychwyn i ryfela â byd, cnawd, a diafol.

CINNERETH, *(megys y goleuni)* neu *Cinneroth*, dinas yn llwyth Naphtali, o du y gorllewin i fôr Tiberias, ac o ba un, hyd at y Môr Marw, yr oedd gwastadedd, a elwir hefyd y *rhos, rhosdir*, wrth yr Iorddonen, Deut. iv. 49. Jos. xi. 2, a xix. 35. Barnodd rhai mai yr un oedd â Tiberias; ond y mae *Reland* o feddwl gwahanol. Y mae yn fwy tebygol ei bod yn sefyll yn y lle yr adeiladwyd Capernaum wedi hyny.

CIOS; ynys yn y rhan oglleddddwyreiniol o Fôr y Canoldir, y nesaf at Lesbos, ac yn nghylch deuddeg milltir o'r tir gyferbyn â Smyrna. Aeth Paul heibio iddi pan oedd yn mordwyo tua'r dehau o Mitylene i Samos, Act. xx. 15. Nid ymddengys i un eglwys gael ei phlanu yno am hir amser wedi hyny; hyd yn nod yn y bedwaredd ganrif, yr oedd aberthau dynol mewn arferiad yno; ond, yn yr oesoedd canlynol, cawn fod yno Gristionogion, ac esgob oddi yno yn bresennol yn y Cynghorau cyffredinol. Ac nid vw crefydd yr Iesu wedi ei diwreiddio yn llwyr o honi hyd heddyw. Gelwir y lle yn awr Scio, ac y mae yn cael ei gyfaneddu yn benaf gan wyr Genoa.

CIR. CIR-HARES. CIR-HERES, CIR-HERESETH. (1.) Un o brif ddinasoedd y Moabiaid, a anrheithiwyd gan yr Hebreaid dan Jehoram, 2 Bren. iii. 25: ac a ddistrywiwyd yn mhen hir amser wedi hyny gan yr Assyriad, a chan y Caldeaid, Esa. xv. 1, a xvi. 7, 11. Jer. xlviii. 31. (2.) Cir,-lle yn Media, i'r hon y dygwyd y Syriaid, a rhan o'r Hebreaid, yn gaethion gan yr Assyriaid, ac yr oedd rhai o'i thrigolion yn rhyfela yn myddin Sennacherib yn erbyn Judah, Amos i. 5, a ix. 7. Esa. xxii. 6.

CIRIATHAIM, *(dwy ddinas)* 1. Dinas o du y dwyrain i'r Iorddonen, yn nghylch 10 milltir o du y gorllewin i Medeba. Ymddengys iddi gael ei hadeiladu cyn anrheithiadau Cedorlaomer, Gen. xiv. 5. Tebygol i Sehon ei hynnill oddi ar y Moabiaid, ac i Moses ei hynnill hi oddi arno yntau, a'i rhoddi i'r Reubeniaid; ond adynnillodd y Moabiaid hi drachefn yn mhen amser. Distrywiwyd hi gan y Caldeaid, ond a adeiladwyd drachefn; ac yn nghylch

400 mlynedd ar ol Crist yr oedd yn cael ei galw Ciriatha. Num. xxxii. 37. Jer. xlviii. 12. (2.) *Ciriathaim*, neu *Cartan*, yn llwyth Naphtali, a roddwyd i'r Lefiaid. Jos. xxi. 32. 1 Cron. vi. 76.

CIRIATH-JEARIM, neu CIRIATH-BAAL, neu BAALAH, *(dinas y coed)* dinas yn Judah, yn sefyll mewn neu gerllaw coedwig o ddeutu 9 neu 10 milltir o du y gogledd-orllewin i Jerusalem. Yr oedd hon yn un o ddinasoedd y Gibeoniaid. Yma yr arosodd arch Duw am, hwyrach, o ddeutu 80 neu 90 mlynedd, wedi ei dwyn yn ol o dir y Philistiaid. Jos. ii. 17, a xv. 9, 10. 1 Sam. vii. 1. 1 Cron. xiii.

CISLEU, *(rhyfyg)* y nawfed mis o flwyddyn gyssegredig yr Iuddewon, a'r trydydd o'u hun wladol. Yr oedd yn cynnwys 30 o ddyddiau, ac yn cyfateb i ran o Ragfyr a Thachwedd. Ar y chweched dydd o'r mis hwn, yr Iuddewon a ymprydiant am losgiad plyg-lyfr Jeremiah gan y brenin Jehoiacim; ar y seithfed, cadwant wyl o lawenydd am farwolaeth Herod Fawr; ar y pymthegfed, ymprydiant o herwydd balogiad Antiochus o'r deml; ar yr unfed ar hugain, y mae ganddynt wyl, y cymerant arnynt ei chadw o herwydd gwaith Alexander yn traddodi y Samariaid i'w dwylaw: ar y pummed ar hugain, cadwant wyl y cyssegriad, i goffâu glanhad y deml gan Judas y Maccabead, Zech. vii. 1.

CISON, *(caledrwydd)* yr un, tebygol, â Pagida Ptolemy; afonig y dywedir ei bod yn tarddu yn nyffryn Jezreel, ac yn rhedig bron yn gyfair tua'r gorllewin i Fôr y Canoldir, wrth borthladd Acco, neu Ptolemais. Y mae Dr. *Shaw*, pa fodd bynag, yn gwadu fod ei tharddiad cyn belled i'r dwyrain âg y gesyd rhai ef; ac yn haeru ei bod yn codi yn agos i fynydd Carmel, ac yn rhedeg i'r gogledd-orllewin nes yr êl i'r môr. O herwydd fod llnaws o ffrydiau yn dylifo iddi o'r bryniau cyfagos, y mae yn chwyddo yn ddirfawr yn amser gwlawogydd. O amgylch y pen dwyreiniol iddi y gorchfygwyd llu Jabin; a dygwyd llaweroedd o honynt ymaith gan lifeiriant chwyrnwyllt yr afon hon. Yr oedd yn cael ei galw yr *hen afon*, o herwydd ymddengys ei bod yn enwog yn foreu, ar ryw achlysuron, Barn. v. 21. Salm lxxxiii. 9. Gelwid dinas Cades, yn *Cison* neu *Cision*, hwyrach am ei bod yn sefyll ar lan yr afon hon, neu am fod ei heolydd yn *dirwyn* yma ac acw. Cymhar Jos. xxi. 28, â 1 Cron. vi. 72.

CITTIM, *(cuddiaw)* mab Jafan, ac wyr Japheth, Gen. x. 4. Tebygol mai rhan o'i hiliogaeth ef oedd y Ciliciaid. Crybwylla *Homer* am y Cetii yma, a *Ptolemy* am y taleithiau *Cetes* a *Citis*. Rhai o honynt a symmudasant, tebygol, i ynys Cyprus, lle y sylfaenasant ddinas *Citium*. Hwyrach, befyd, i ran o honynt sylfaenu teyrnas y Lladiniaid, yn yr Ital. Yma, cawn banes am ddinas o'r enw *Cetia;* ac y mae yn nodadwy fod Latium a Cittim â'r un arwyddoccâd iddynt, sef *cuddiaw*. Eithr ymddengys mai prif drigfa hiliogaeth Cittim oedd Macedonia, yr hon a elwid Cittim, yn ol ei enw ef. Pan fwriadodd Nebuchodonozor oresgyn Phenicia, ysgatfydd i'r Tyriaid gael hysbysrwydd am hyny gan ryw forwyr Macedonaidd; neu i ryw Dyriaid, ar ol dinystrio eu dinas ganddo ef, ffoi ymaith i Macedonia. Y mae yn fwy dilys, i Alexander a'i luoedd Macedoniaidd, ddistrywio breniniaeth Tyrus bron yn llwyr, a dwyn llnaws ymaith yn gaethion; iddo ddifrodi Assyria, a dadymchwelyd amberodraeth Persia, Esa. xxiii. 1, 12. Num. xxiv. 23. Y llongau yn mha rai y mordwyodd y cennadau Rhufeinig i'r Aipht, a elwir yn *llongau Cittim;* yr oeddynt, o ran eu llun, fel eiddo y Macedoniaid, ac yn hwylio o borthladd Macedonaidd.

CLADD—U *(cy-lladd)* daearu, priddo. Y mae yr Hebreaid wedi bod, bob amser, yn ofalus iawn yn nghylch *claddu* eu meirw; bod yn amddifad o hyn, a gyfrifid yn ddianrhydedd nid bychan, ïe, y dirmyg penaf a ellid ei wneud i un dyn: ni ommeddid y ddyledswydd olaf hon i neb, hyd yn nod i elynion; ond ni channiatteid hi i hunan-leiddiaid tan ar ol ymachludd haul; a chredid fod eneidiau y cyfryw ddynion yn cael eu bwrw i'r llyngelyn mawr, sef uffern. Yr oedd y gofal neilduol hwn am gladdedigaeth eu meirw yn tarddu oddi wrth y dyb oedd ganddynt am anfarwoldeb yr enaid. Y mae yr ysgrythyr yn bygwth yr annuwiol âg

amddifadiad o'r fraint hon, fel pe byddai yn un o'r trallodion mwyaf a allasai ddygwydd iddynt. "*Os ynnill gwr gant o blant, a byw lawer o flyneddoedd, fel y bo dyddiau ei flyneddoedd yn llawer, os ei enaid ni ddiwellir â daioni, ac oni bydd iddo gladdedigaeth; mi a ddywedaf, mai gwell yw erthyl nag ef*, Preg. vi. 3.

Y mae Jeremiah yn bygwth y breninoedd, yr offeiriaid, a'r gaubrophwydi, y rhai a orchymynasent addoli eilunod, y cai eu hesgyrn eu taflu allan o'u beddau megys tom ar wyneb y maes. Yr un prophwyd a ragfynegodd y cai Jehoiacim brenin Judah, yr hwn a adeiladodd ei dŷ trwy anghyfiawnder, ac a ymroddodd i gybydd-dod, trais, a phob math o ddrygioni, ei gladdu â chladdedigaeth asyn, ac y tefid ef tu hwnt i byrth Jerusalem, i'r ysgarth-ffos gyffredin. Sylwir i Jason yr hwn a ommeddodd ddefodau cladded igaeth i amryw o'r Iuddewon. gael ei drin yn yr un modd ei hun, iddo drengu mewn gwlad ddyeithr, a chael ei fwrw megys celain, ar wyneb y maes, heb gael ei osod hyd yn nod mewn bedd dyeithryn. Yr oedd dynion duwiol yn gwneud rhan o'u crefydd i fod yn gynnwysedig mewn claddu y marw, fel y gwelwn wrth gynllun *Tobit*. Nid oedd un peth wedi ei benderfynu yn neilldiol o ran y lle i gladdu y marw. Yr oedd beddau mewn tref a gwlad, ar y prif-ffyrdd, mewn gerddi a mynyddoedd. Y rhai a berthynent i freninoedd Judah oeddynt yn Jerusalem, a gerddi y brenin. Lled-grybwylla Ezeciel, eu bod yn cael eu cloddio tan y mynydd ar ba un y safai y deml, gan fod Duw yn dywedyd, na chai ei fynydd sanctaidd, o hyny allan, ei halogi gan gyrph meirw eu breninoedd, Ezec. xliii. 9. Yr oedd y bedd a ddarparasai Joseph o Arimathea iddo ei hun, ac yn yr hwn y gosododd efe gorph ein Hiachawdwr mewn gardd. Eiddo Rahel oedd ar y brif-ffordd rhwng Jerusalem a Bethlehem. Eiddo y Maccabeaid yn Modin, ar fryn, o ba le yr oedd yn weledig i bellder mawr ar y môr a'r tir. Claddfëydd breninoedd Israel oeddynt yn Samaria. Samuel a giaddwyd yn ei dŷ ei hun. Moses, Aaron, Eleazar, a Josuah, mewn mynyddoedd. Y brenin Saul, a Deborah, mammaeth Rebeccah, tan goed. Dywedir fod beddau pobl Jerusalem, yn nyffryn *Cedron*. Yno hefyd yr oeddynt yn claddu dyeithriaid. Yr Iuddewon a alwent yr hyn a enwn ni yn fynwent, *Y tŷ a osodwyd i'r rhai byw*, i ddangos eu credyniaeth o anfarwoldeb yr enaid, a'r adgyfodiad; a phan ddeuent yno gan ddwyn corph marw, byddent yn llefaru wrth y rhai oeddynt yn gorwedd yno, megys pe buasent etto yn fyw, ac yn dywedyd, *Benâigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn a'ch creodd, a'ch porthodd, a'ch dygodd i fynu, ac o'r diwedd, yn ei gyfiawnder, a'ch cymmerodd allan o'r byd. Efe a wyr eich rhifedi oll, ac, yn yr amser priodol, a'ch adfywia. Bendigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn sydd yn peri marwolaeth, ac yn adferu bywyd.*

Y mae parch yr Iuddewon i feddau mor fawr, fel yr adeiladant synagogau a thai gweddi yn agos i eiddo gwyr mawrion a phrophwydi. Er cynllun o hyn, y mae ganddynt synagog gerllaw bedd Ezeciel, Zechariah, Mordecai, ac Esther. Ant a gweddiant gerllaw iddynt, gan eu bod wedi eu hynnill i gredu yn effeithioldeb gweddiau dros y meirw, ac eiriolaeth y saint. Y Rabbiniaid a ddysgant, nad yw yn gyfreithlon i ddinystrio beddau, nac aflonyddu gorphwysfa y meirw, trwy gladdu dyn marw arall yn yr un bedd, hyd yn nod yn mhen hir amser wedi hyny; nac i ddwyn dyfr-ffos ar draws y tir claddu cyffredin, neu trwy brif-ffordd, na myned i gasglu briwwydd yno, neu oddef i anifeiliaid bori yno. Pan ddelo yr Iudddwon â'r angladd at y gladdfa, ailadroddant y fendith a gyfarwyddir at y meirw, megys y crybwyllwyd uchod; gosodant y corph ar y ddaear, ac os bydd y marw yn wr cyfrifol, darllenir math o araeth angladdol neu ganmoliaeth iddo ef; yna rhodiant o amgylch y bedd, gan adrodd math o weddi gryn hir, yr hon a alwant *uniondeb y farnedigaeth;* o herwydd eu bod, ynddi, yn talu diolch i Dduw, am ei fod wedi cyhoeddi barnedigaeth gyfiawn mewn perthynas i einioes a chorph y trengedig. Y mae yn dechreu gyda y geiriau hyny yn Deuteronomium xxxii. 4. *Efe yw y graig, perffaith yw ei weithred-*

oedd; yna gosodant gydaid bychan o bridd dan ben y marw, ac, wedi hyny, hoelir a chauir yr arch: os gwrryw a fydd, y mae deg o wyr yn myned ddeg o droion o'i amgylch, ac yn adrodd gweddi dros ei enaid: y mae'r berthynas nesaf iddo yn torri darn o gwrr ei wisg, a'r corph marw yn cael ei ollwng i waered i'r bedd, a'i wyneb tua'r nef; ac yna gwaeddant arno, *Dos mewn heddwch*, neu yn hytrach, *Dos i heddwch*, yn ol y Talmudiaid. Y perthynasau agosaf ydynt y cyntaf i fwrw pridd ar y corph, ar eu hol, pawb a fyddant yn bresennol a wnant yr un peth â'u dwylaw, neu â rhawiau. Gwedi hyn, ymadawant, gan rodio yn wysg eu cefnau, a chyn yr elont allan o'r tir claddu, tynant dammeidiau o laswellt deir-gwaith, a thaflant hwy y tu ol i'w cefnau, gan ddywedyd, *Ti a flodeui fel gwellt y ddaear*, Salm lxxii. 16. Ni sylwasom fod un o'r hen awduron yn crybwyll am ysgrifen ar fedd-feini yr Hebreaid; o herwydd nid yw yr un a gafwyd yn yr Hispaen, yr hon y dywedir ei bod yn eiddo Adoniram, a rhai ereill o awdurdod cyffelyb, yn teilyngu ein sylw. Byddent yn cyfodi bedd-adeiliau mewn coffadwriaeth am arwr, prophwyd, neu ryfelwr: yr oedd y beddrod ei hun yn llefaru yn ddigonol, a byddai coffadwriaeth y person yn cael ei fytholi yn mhlith y bobl. Y brenin Josiah, wrth ddistrywio beddau gau-brophwydi Baal, a'r offeiriaid a berthynent i'r llo aur, a sylwodd ar fedd-faen yn mysg ereill, yr hwn y dywedid ei fod yn eiddo y beddrod a adeiladasid i wr Duw, yr hwn a ddaeth ac a fynegodd i Jeroboam, y llosgai brenin o'r enw Josiah, esgyrn y gau-brophwydi ar yr allor yn Bethel; nid oedd, gan hyny, un bedd-ysgrifen arno. Galwai Absalom ei feddrod, *Tir Absalom*. Y mae yn ddilys nad oedd y beddau a berthynent i'r breninoedd, y rhai oeddynt mewn ogofau a naddesid yn y graig, wedi eu haddurno â beddysgrifau. Dull gosodedig y beddysgrifau a arferir yn awr gan yr luddewon, sydd fel y canlyn: *Y garreg hon sydd wedi ei gosod wrth ben M— mab M— yr hwn a gladdwyd ar y cyfryw ddydd, yn y flwyddyn M—; Gorphwysed yn ngardd Eden, gyda'r holl rai cyfiawn sydd yno er y dechreuad: Amen, Amen, Selah.* Neu yte, *Cladder ei enaid yn ngardd Eden: Amen, Amen, Amen, Selah.* Neu yn amgen, *Y fedd-adail, neu y gol-ofn hon, a gyfodwyd wrth ben yr ardderchoccaf, sanctteiddiaf, a phuraf forwyn, Rebeccah, merch Samuel y Lefiad, yr hon a fu farw mewn gair da ar y cyfryw ddydd o'r mis M—, yn y flwyddyn M—; Cladder ei henaid yn ngardd Eden: Amen, Amen, Amen, Selah.* Eithr nid yw y ffurfiau gosodedig hyn yn hen nac yn unwedd. Dywed *Benjamin* o Tudelah iddo ef, wrth deithio trwy Palestina, sylwi ar yr ysgrifen hon ar fedd Abraham, *Yma y mae beddrod Abraham ein tad bendigedig.* Eithr yn ddiweddar y gwnaed hon.

CLAF, *(cy-llaf)* afiach, anhwylus. Mae y corph yn *glaf*, pan fyddo rhyw afiechyd arno, Gen. xlviii. 1. Mae teyrnas neu genedl yn *glaf* ac yn afiach, pan byddo yn llygredig gan bechod, yn orthrymedig, yn ddyrysedig, ac yn agos i ddinystr, Esa. i. 5. Mic. vi. 13. Hos. v. 13. Y mae enaid yn *glaf*, pan byddo yn cael ei wasgu gan drallod, neu gan angen y pethau y gobethir am danynt, Diar. xiii. 12; pan byddo yn euog a llygredig gan bechod, Mat. ix. 12; pan fyddo yn cael ei boeni gan gariad gwresog at Grist, a hiraeth am gymdeithas âg ef, Can. v. 8; a phan byddo yn cael ei orchfygu a'i orloni â mwynhad melus o Grist a'i gyfawnder, Can. ii. 5.

CLAI, *(llai)* sylwedd daearol, o'r hwn y ffurfir simmant, priddfeini, a llestri y crochenydd, Exod. i. 14, Jer. xviii. 4. Dynion a gyffelybir i *glai;* y mae eu cyrph wedi eu llunio o nono; y maent yn waelion, yn freuon, yn annheilwng, ac yn hawdd eu dryllio, Esa. lxiv. 8. Salm ii. 9. Cyffelybir y wladwriaeth Rufeinig i gymmysgedd o haiarn a *chlai priddlyd*, i ddynodi, er ei bod unwaith yn gadarn iawn, etto y deuai yn egwan, ac y cai ei distrywio yn hawdd gan y Gothiaid, yr Huniaid, y Vandaliaid, a'r Heruli barbaraidd, Dan. ii. 33, 34, 35, &c. Trallod sydd debyg i *bridd* neu *glai tomlyd;* y mae yn anghyssurus iawn, a dynion yn suddo iddo yn raddol, ac nid heb lawer o anhawsdra y gallent ddiange

o hono, Salm xl. 2. Golud, a phob math o fwyniant bydol arall, a gyffelybir i lwyth o *glai tew;* y maent o ychydig werth i enaid anfarwol, ac, yn fynych, yn ei halogi, yn ei gaethiwo, ac yn ei feichiaw, Hab. ii. 6. Y mae y ddaear yn ymnewid fel *clai* y sel; pan y bydd newydd ei haredig, y mae yn barod i dderbyn unrhyw argraph; a phan ddychwelo gwres yr haf, y mae yn cymmeryd arni ymddangosiad prydferth, Job xxxviii. 14.

CLAUDA, *(cloff)* ynys fechan yn Môr y Canoldir, yn gyfagos i Crete, a elwir yn awr Gozo. Hwyliodd Paul a'i gyfeillion heibio iddi yn eu mordaith i Rufain, Act. xxvii. 10.

CLAUDIA *(cloff)* pendefiges o Rufain, yr hon, dywedir, a gafodd ei dychwelyd i'r ffydd Gristionogol trwy weinidogaeth Paul, 2 Tim. iv. 21.

CLAUDIUS CÆSAR; pummed amherawdwr y Rhufeiniaid. Canlynodd Caligula orphwyllog, A.D. 41, a theyrnasodd dair-ar-ddeg o flyneddoedd. Bwriadodd y senedd arddelw y rhyddid a fuasai ganddynt gynt; eithr o achos y fyddin a'r bobl gyffredin, a thrwy gyfrwysdra Herod Agrippa, cafodd Claudius yr orsedd amherodrawl. I nodi ei ddiolchgarwch i Agrippa, efe a roddodd iddo benarglwyddiaeth Judea, a rhoddodd deyrnas Calcisi Herod ei frawd; efe, hefyd, a gadarnhaodd eu breintiau i'r Iuddewon oeddynt yn Alexandria, a maddeuodd i'r rhai a breswylient yn Rhufain am eu gwaith yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus. Yn mhen amser wedi hyny, efe a ddarostyngodd Judea drachefn i fod yn dalaeth Rufeinig, ac a orchymynodd i'r Iuddewon oll ymadael o Rufain. Ni bu ei deyrnasiad yn hynod bron am ddim ond newyn dychrnllyad, ac am ei ofnusrwydd yntau, ac afreoladeth ffiaidd ei wragedd, Messalina ac Agrippina, Act. xi. 28, a xviii. 2.

CLAUDIUS LYSIAS; swyddog ar y wladwriaeth Rufeinig yn Jerusalem. A swm mawr y cafodd efe y *fraint* o fod yn ddinasydd Rhufeinig, Act. xxii. 28. Pan fwriadodd y werin Iuddewig ladd Paul, gwarchodd Lysias ef allan o'u dwylaw hwynt, rhwymodd ef â chadwyni, ac a'i dygodd ymaith i gastell Antonia; yna efe a orchymynodd ffiangellu Paul, fel y gwybyddid hysbysrwydd am ba beth y cyhuddasid ef gan yr Iuddewon; eithr pan fynegwyd iddo mai Rhufeiniad oedd, efe a ymattaliodd; a thranoeth a'i dygodd ef allan i'r cyngor. Gwedi cael o hono fod bywyd Paul mewn perygl oddi wrthynt, efe a'i cipiodd ef drachefn, drwy drais, yn ol i'r castell. Yn fuan ar ol hyn, hysbyswyd iddo fod mwy na deugain o Iuddewon wedi rhwymo eu hunain â diofryd na fwyttaent, ac nad yfent, nes iddynt ladd Paul. Lysias, gan hyny, a'i hanfonodd ef ymaith at Ffelix i Cesarea, dan nawdd gwyliadwriaeth gadarn, Act. xxi, xxii, xxiii.

CLAUAR, heb fod yn oer nac yn frwd. Angel eglwys Laodicea a elwid felly, o blegid nad oedd yn cwbl ddiystyru Crist a'i achos, nac ychwaith yn wresog yn ei garu, ac yn dwyn ei anrhydedd yn mlaen; ac felly yr oedd yn alarllyd a ffiaidd ganddo, Dad. iii. 16.

CLEDDYF, *(lledd)* 1. Arfrhyfel i ddyn i amddiffyn ei hun, neu i ymosod ar y gelyn. (2.) Rhyfel a'r trallodion sydd yn ei ganlyn, Gen. xxxiv. 25. Lef. xxvi. 25. Bu Esau byw wrth ei *gleddyf;* tewy ryfel ac anrhaith y cafodd efe a'i hiliogaeth, sef yr Edomiaid, lawer o'u cynnaliaeth a'u porthiant, Gen. xxvii. 40. A dywedir fod y cleddyf yn *dychwelyd i'w waun,* ac yn *llonydd,* pan byddo trallodion rhyfel yn darfod, Jer. xlvii. 6. Ezec. xxi. 30. (3.) Pob math o farnedigaethau a anfonir er cospi troseddwyr, Deut. xxxii. 41, 42, yn enwedig yr erlidigaeth, yr amryson, a'r drygau ereill a achlysurir trwy wrthwynebiad dynion i'r efengyl, Mat. x. 34. Duw yw *cleddyf* ardderchogrwydd ei bobl, o herwydd mai ganddo ef y maent yn cael eu noddi a'u hamddiffyn, yn ennill y fuddugoliaeth ac yn gorfoleddu ar eu gelynion, Deut. xxxiii. 29. Y mae yr ysgrythyrau yn *gleddyf,* yn *gleddyf llym deufiniog,* ac yn *gleddyf yr Ysbryd;* trwy eu bod yn cael eu trin gan Iesu Grist a'i Ysbryd, a chan weinidogion a saint, y maent yn archolli y gydwybod, yn amddiffyn yr anian newydd, a'r enaid; ac y maent yn ddefnyddiol yn y filwriaeth ysbrydol, i wrthwynebu a gorchfygu pechod, y diafol, a'r byd o ddynion halogedig, rhagrithiol, a

geuffyddiog: hwy ydyw *cleddyf Crist sydd yn dyfod allan o'i enau*, sef oddi wrth ei awdurdod a'i ewyllys; ac y maent *wedi eu gwreygysu ar ei glin*, yn barod i fod yn foddion argyhoeddiad a dychweliad pechaduriaid atto ei hun. Eph. vi. 17. Can. iii. 8. Lad. i. 16, a xix. 15. Salm xlv. 3. Neu hwyrach fod Crist ei hun, o herwydd ei waith yn chwilio, yn argyhoeddi, ac yn gorchfygu annuwiolion, yn cael ei gyffelybu i *gleddyf llym deufinog*, Heb. iv. 11, 12. Y mae awdurdod swyddogion i amddiffyn y diniweid, a chospi yr enog yn cael ei alw yn *gleddyf*, Rhuf. xiii. 4. Salm cxlix. 6. Pawb *a'r a gymmerant gleddyf, a ddyfethir â chleddyf*; hunan-ddialwyr, a'r rhai a geisiant feddiannu awdurdod trwy drais, ydynt yn cael eu dyfetha yn gyffredin yn eu cynnygiadau, Mat. xxvi. 52. Tafod drygionus, ac iaith faleisus a goganllyd, ydynt fel *cleddyfau a gwaywffyn*; y maent yn gweithredu dinystr, ac yn archolli enwau da ac yn tueddu i niweidio eu personau a'u meddiannau, Salm lvii. 4, a lxiv. 3. *Troi min cleddyf un*, yw ei analluogi i amddiffyn ei hun, a'i ddarostwng i drallod a thrueni, Salm lxxxix. 43. *Gyrru y cleddyfau yn sychau*, a'r *gwaywffyn yn bladuriau*, a arwydda gadawiad rhyfel heibio, a mwynhad o hir heddwch, a rhyddid tymhorol neu ysbrydol, yn nghyd â bywiogrwydd, diwydrwydd, a llwyddiant yn llafurio y meusydd, Esa. ii. 4. Doniau a gras, Mic. iv. 3. *Gyrru y sychau yn gleddyfau*, a'r *pladuriau yn waywffyn*, a arwydda y cyfryw ryfel arswydus, ag a fydd yn gofyn cynnorthwy dwylaw pawb yndoo, ac yn achlysur i'r meusydd orwedd yn anniwylliedig, Joel iii. 10. *Beth os y cleddyf a ddibrisia y wialen? ni bydd efe mwy*: beth os bydd i'r Caldeaid cynddeiriog, gan ddiystyru brenin a llywodraethwyr Judah, fyned tros derfynau prawf, a gwneud llwyr ddinystr? ni chaiff ddygwydd felly, Ezec. xxi. 10, 13.

CLEMENT, *(tirion)* Cristion enwog, yr hwn a bregethodd yr efengyl gyda Paul yn Philippi. Ysgrifenodd lythyr rhagorol at yr eglwys yn Corinth: a dychymmygir gan lawer mai efe oedd pedwerydd esgob Rhufain, Phil. iv. 3.

CLEOPHAS, *(yr holl ogoniant)* yr un, tebygol, âg Alpheus. Dywedir ei fod yn frawd i Joseph, tad cyfrifedig ein Hiachawdwr, ac yn wr i Mair, chwaer y forwyn feudigedig, a thad Simon ac Iago Leiaf, Judas, a Joseph, neu Joses cefnderw Crist. Er fod Cleophas a'i deulu yn ddylynwyr i'n Hiachawdwr, etto parhaodd yn anwybodus iawn am y dirgelwch mewn perthynas i'w farwolaeth; a phan ddygwyddodd hyny, aeth i ammau yn fawr ai efe oedd y Messiah. Ar y prydnawn ar ol ei adgyfodiad, pan oedd Cleophas a dysgybl arall yn ymdaith tuag Emmaus, yr hon oedd 60 ystad, neu yn nghylch 8½ milltir o Jerusalem, ac yn ymddyddan â'u gilydd, am yr Iesu, ymunodd yntau ei hun â hwy yn null ymdeithydd: ac a ddangosodd iddynt, allan o'r ysgrythyrau yr angenrheidrwydd o ddyoddefaint y Messiah, mewn trefn iddo gael mynediad i'w ogoniant. Cymhellodd Cleophas ef i swppera gyda hwynt; a thra yr oeddynt yn bwytta hwy a adnabuant mai yr Arglwydd oedd efe; eithr efe a ddiflannodd, trwy fyned ymaith yn ddisymmwth. Brysiodd Cleophas a'i gyfaill yn ol i Jerusalem, a mynegasant i'r dysgyblion, y rhai, yn eu tro, a sylwasant, ei fod wedi ymddangos hefyd i Pedr. Ar eu gwaith yn llefaru, ymddangosodd yr Iesu ei hun yn eu plith, Luc. xxiv. 13—35. Tebygol mai priodor o Galilea oedd Cleophas, yn hytrach nag o Emmaus.

CLOCH. Yr oedd cloch a phomgranad wedi eu gosod, bob yn ail, i grogi o amgylch cwrr isaf mantell las yr archoffeiriad. Yr oedd sain y rhai hyn yn mynegu i'r Iuddewon fod yr offeiriad yn fyw yn y cyssegr; ac yr oedd hefyd yn fath o eiriolaeth cysgodol gyda Duw am ei gadwediguaeth ef. Eithr nid oedd y fantell hon am dano pan âe i'r cyssegr sanctaidd iolaf. Onid all fod y clychau hyn yn arwyddo eiriolaeth a gweinyddiad ein Prynwr o'r efengyl, y rhai ydynt yn gyssylltedig â'i wisg o gyfiawnder, ac yn ymddihnyu arni; a thrwy ei sain nerthol a hyfryd, yn amlygu ei barhad ef mewn bywyd, a'i gyfiwr o gymmeradwyaeth uchel gyda Duw? Exod. xxviii. 32—36.

CLODDIO, *(clawdd)* gwneuthur ffôs, pydew, &c. Y mae Duw yn *cloddio* ac yn *bwrw tail* o amgylch

proffeswyr diffrwyth, pau y mae yn ymdrin â hwy trwy raglunaethau, ordinhadau, a dylanwadau deffrous a dengar, Luc xiii. 8. Fynion annuwiol ydynt yn *cloddio drwg;* y maent yn gwaradwyddo eu cymmydogion am feiau oeddynt o'r blaen yn guddiedig, a chyda phoen mawr yn gwneuthur niweid, Diar. xvi. 27. Y goruchwyliwr anghyfiawn nis *gallai glodaio,* nis gallai wneuthur dim gwasanaeth llafurus, Luc xvi. 3.

CLOFF—NI, *(clo)* un â chlo neu attalfa ar ei gerddediad. Yr oedd *cloffni* yn anghymmwys o dyn i weinyddu yn swydd yr offeiriadaeth, ac yn gwneuthur aberth dan y gyfraith yn anghymmeradwy. Onid oedd hyn yn arwyddo nad oes yn Iesu, ein hoffeiriad a'n haberth mawr ni, ddim diffyg gallu i gyflawni ei waith, na dim parodrwydd i dywys oddi wrth reol y gyfraith mewn meddwl, gair, na gweithred? Lef. xxi. 18. Deut. xv. 21. Dynion gweinion eu cyrph, neu eu deall a'u gras, ac yn petruso rhwng gwahanol feddyliau, a elwir yn *gloffion,* Esa. xxxiii. 23. Heb. xii. 13.

CLORIAN, *(clawr)* tafol, offeryn i hwyso. Pwyso âg un anghywir sydd *ffiaidd* gan yr Arglwydd, Diar. xi. 1. Y mae dynion yn cael eu *pwyso yn y clorianau,* pan y maent yn cael eu profi gan y gyfraith, gair, neu farnedigaethau Duw, a'u daioni neu eu drygioni yn cael ei ddangos yn eglur, Dan. v. 27. Job xxxi. 6. Salm lxii. 9. Y *glorian* yn llaw yr hwn oedd yn eistedd ar y march du a ymddangosodd dan y drydedd sêl, a arwydda uniondeb manwl rhaglunaieth Duw; cywirdeb clodfawr Severus, ac erlidwyr ereill oeddynt yn fyw y pryd hwnw; a'r fath brinder o ymborth, tymhorol ac ysbrydol, fel y gorfu ar ddynion fwytta bara megys wrth bwys, Dad. vi. 5.

CLUST, *(cly)* offeryn y clywed, a'r wybodaeth a dderbynir trwy y moddion hyny. Y gwas yn Israel a wrthodai dderbyn ei ryddid yn y seithfed flwyddyn, a fyddai yn cael tyllu ei glust â mynawyd, wrth ystlys-bost drws ei feistr, fel arwydd ei fod yn aros i'w wasanaethu am byth. Gall hyn fod yn dynodi tylliad clust Crist, sef ei ymrwymiad difrifol i ufudd-dod ewylysgar yn ein lle ni, Exod. xxi. 6. Deut. xv. 16, 17. Eithr gellid cyfeithu y geiriau *oznaim carithi li, Ti â barottoaist i mi dduwy glust;* hyny yw, dynoliaeth ufudd; ac oddi wrth hyn y mae yr ymadrodd yn cael ei gyfeithu, *Corph a ddarperaist i mi,* Heb. x. 5. *Clustiau* Duw, a arwyddant ei wybodaeth o gyflwr ei bobl, ei barodrwydd i ystyried en gofynion, a'u gwaredu oddi wrth eu trallodau a'u gelynion, Psalm xxxiv. 15, a cxvi. 2. Iago v. 4. *Clywed yn y glust,* ydyw cael dywedyd peth yn ddirgeleidd i ni, Mat. x. 27. *Gostwng clust, gogwyddo clust, rhoddi clust,* yw gwrando ac ystyried yn ofalus yr hyn a orchymynir neu a erfynir, a bod yn barod ac ewyllysgar i'w wneuthur, Salm xxxi. 1, a cxvi. 2, a cxxx. 2, a xlix. 1. *Cau clustiau,* a arwydda yr anghydsyniad, yr anmharch, a'r ffieiddiad mwyaf, Esa. xxxiii. 15. *Clustiau agored* ac *ufudd,* a arwydda parodrwydd ac ewyllysgarwch i wrandaw a derbyn addysg, Esa. l. 5, a xlviii. 8. Diar. xxv. 12. *Clustiau wedi trymhau,* a arwydda anghymmwysder i ganfod, neu anmharodrwydd i gofleidio ac ufuddhau i wirioneddau dwyfol, Esa. vi. 10, a xlix. 1. *Clustiau dienwaededig, a chlustiau yn troi ymaith rhag gwrandaw y gyfraith,* neu *glustiau cauad* i ddaioni, sydd yn arwyddo gwrthnysigrwydd, cyndynrwydd, ac anedifeirwch, yr hyn sydd yn anghymhwyso dynion i dderbyn cyngor, neu addysg da, Jer. vi. 10. Act. vii. 51. Diar. xxi. 8, a xxviii. 9. *Clustiau yn merwino,* sydd yn dynodi chwennychiad dirfawr am glywed rhyw beth newydd, ymadroddion cywrain, &c. 2 Tim. iv. 3. Y rhai mae ganddynt *glustiau,* ac *nid ydynt yn clywed,* ydyw dynion y mae ganddynt gyfleusdra i ddysgu gwirioneddau Duw, a chynneddfau naturiol i'w ystyried, ag etto nid ydynt byth yn ymroddi at hyn, Esa. xlii. 20, a xliii. 8. Marc viii. 18.

CLUST-DLYSAU, *(clust-tlws)* addurniadau o aur, arian, &c. a grogid wrth y clustiau. Yr oedd yn beth cyffredin yn ngwledydd y dwyrain i feibion a merched wisgo clust-dlysau, Gen. xxxv. 4. Dwywaith y rhoddwyd hwynt i wneuthur delwau o honynt, Exod. xxxii. 2. Barn. viii. 24—26. Dwy waith yr offrym-

wyd hwy yn offrwm i'r Arglwydd, Exod. xxxv. 22, Num. xxxi. 50.

CLYWED, *(clyw)* rhoddi clust. Bod Duw yn clywed neu yn gwrandaw, a arwydda perffeithrwydd ei wybodaeth o bethau, a'i sylwad arnynt, Salm lxxviii. 21, 59. Jer. viii. 6. Exod. vi. 5.; ei waith yn *gwrandaw* gweddiau, neu yn *gwrandaw* arnynt hwy, a arwydda ei dderbyniad graslawn o honynt, a'i attebiad iddynt, trwy ganiattau yr hyn a ofynir, Job xi. 13. Crist sydd yn llefaru y pethau a *glywodd* gan y Tad, sef y pethau, fel Duw, y mae efe yn eu gwybod gystal a'r Tad; neu, yn hytrach y pethau yr oedd ei ddyndod yn ddysgu gan y Tad, neu mewn perthynas iddo; a'r pethau yr oedd y Tad wedi rhoddi gorchymyn iddo i'w cyhoeddi i ddynion, Ioan viii. 26, 40.

CNAWD, *(cnawd)* a arwydda (1.) Y rhan dyner o ddyn ac anifel, yr hon a bydra neu a lygra yn fuan, Lef. xiii. 11. Salm lxxix. 2. (2.) Pob creadur byw ar wyneb y ddaear; felly daeth *diwedd pob cnawd* ger bron Duw, pan oedd wedi bwriadu, ac ar fyned i ddistrywio dyn ac anifel oddi ar wyneb y ddaear â dylif, Gen. vi. 13. (3.) Dynion yn gyffredinol a elwir yn *gnawd*; y maent mewn rhan o sylwedd *cnawdol*, ac yn barod i gael eu llygru; neu y maent yn hynod wrthnysig mewn drygioni, Ioan xvii. 2. Gen. vi. 3. A *gweuthur cnawd* yn fraich i ni, yw pwyso ar ddynion am gymmorth ac ymwared, Jer. xvii. 5. (4.) Y natur ddynol; felly dywedir fod Crist wedi ei wneuthur yn *gnawd* pan gymmerodd ein natur ni, Ioan i. 14. Act. ii. 30. (5.) Corph gwr neu wraig, a'r rhanau hyny y mae natur yn ein dysgu i'w gorchuddio, Gen. xvii. 11, 14. Lef. xv. Ezec. xvi. 26, a xxiii. 20. (6.) Yr hyn sydd wan ac analluog i gynnorthwyo, Esa. xxxi. 3.; a *chnawd* yn fynych a arwydda y natur ddynol yn ei chyfluwr adfydus a gwan, Gen. vi. 12. Num, xvi. 22. Deut, v. 26. Salm cxlv. 21. Esa. xlix. 26. Act. ii. 17. 1 Cor. i. 29. (7.) Ceraint i ni, neu hyd yn nod rhai o'r un natur â ni, a osodir allan fel *ein cnawd*, Gen. xxxvii. 27. Esa. lviii. 7. Gwr a gwraig wedi ymuno yn y cyfiwr priodasol, ydynt *un cnawd*; y maent yn sefyll mewn agos gyssylltiad â'u gilydd, ac yn meddu yr un awdurdod y naill ar gorph y llall, Gen. ii. 24. Eph. v. 30, 31. Ië, y mae putteindra yn gwneuthur y pleidiau yn *un corph*, neu *un cnawd*, 1 Cor. vi. 15, 16. (8.) Y cyfiwr hwn o fywyd marwol, a'r pethau a berthynant iddo; felly mai i wragedd fiinder yn y *cnawd*, 1 Cor. vii. 28. Cafodd Paul brofedigaethau a chystuddiau yn *ei gnawd*, Gal. iv. 14. Col. i. 24. A dyddiau *cnawd*. Crist, ydyw holl amser ei ddarostyngiad a'i fywyd marwol; a *chorph ei gnawd ef*, ydyw ei natur ddynol yn ei chyfiwr isel ac egwan, Heb. v. 7. Col. i. 22. (9.) Awdurdod yr efengyl ar y gydwybod, a elwir yn galon o *gig*, o herwydd ei bod yn dyner, yn ystwyth, ac yn deimladwy o argraphiadau dwyfol, Ezec. xxxvi. 26. A chalon wedi ei hadnewyddu trwy ras, a elwir yn llechau *cnawdol*, 2 Cor. iii. 3. (10.) Cyfiawnder deddfol, a'r holl wasanaeth seremoniol. Trwy hwn, medd yr apostol, ni chyrhaeddodd Abraham gyfiawnder, Rhuf. iv. 1.; ac y mae yn gofyn i'r Galatiaid, a berffeithid hwy yn y ffordd yma? Gal. iii. 3. (11.) Llygredigaeth ein natur a elwir yn fynych iawn, yn y Testament Newydd yn *gnawd*, i ddangos ei drosglwyddiad trwy genhedliad naturiol, ei wendid a'i waelder, a'i fod yn cael ei gyffroi a'i gynhyrfu yn fawr gan ein haelodau corphorol, Rhuf. vii. 24.; a gelwir dynion yn *gnawd*, o herwydd ei fod yn teyrnasu ac yn llywodraethu ynddynt, Gen. vi. 3. *Cnawd* Crist yw ei natur ddynol; yn hon y rhoddwyd ef i farwolaeth, ond a fywhawyd yn yr *Ysbryd*, 1 Petr iii. 18, a iv. 1; yr oedd hon, yn ei gyfiwr o ymostyngiad, yn agored i farwoldeb, ac yr oedd, ac y mae, yn llen i orchuddio gogoniant ei Ddiwdod, ac yn foddion i ni gael dyfodfa at Dduw, Heb. x. 20; neu ei berson, megys yn cyfanneddu yn ein natur ni; felly y *mae ei gnawd ef yn fwyd yn wir, a'i waed ef yn ddiod yn wir*; y mae ei berson fel Duw-dyn, a'i gyfiawnder gorphenedig, yn rhoddi bywyd, cyssur, macth, a chryfder gwirioneddol, sylweddol, a thragywyddol ein henaidiau, Ioan vi. 55, 56; neu y saint ydynt ei *gnawd*, a'i *esgyrn* ef, am eu bod wedi eu huno âg ef, ac yn

aelodau o'i gorph dirgelaidd, Eph. v. 30. *Cig* breninoedd a phen cadpeniaid, a laddwyd yn nghwmpp Anghrist, yw nid yn unig cig eu cyrph, ond eu teyrnasoedd, eu hanrhydedd, eu hawdurdod, a'u cyfoeth, Dad. xix. 21. *Ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Duw;* nid yw y natur ddynol, yn ei chyflwr brau a llygredig, yn alluog i fwynhau Duw yn ddigyfrwng, 1 Cor. xv. 50. Nid ydym yn cael ein geni drachefn o waed, nac o ewyllys y *cnawd*, h. y. trwy ddiscyniad naturiol oddi wrth rieni duwiol, na thrwy unrhyw feithriniad o'n galluoedd naturiol, pa mor egniol a gofalus bynag y byddo, Ioan i. 13. Nid *cig a gwaed*, hyny yw, moddion dynol yn unig, a ddadguddiodd wir gymmeriad yr Iesu, fel y Crist, Mab y Duw byw, i Petr, Mat. xvi. 17. Paul, pan ei dychwelwyd, nid ymgynghorodd â *chig a gwaed;* nid ymgynghorodd â chyfeillion, tueddiadau, neu olygiadau cnawdol, am yr hyn oedd ei wir leshad a'i ddyledswydd, Gal. i. 16. *Yn y cnawd*, yw naill ai yn y natur ddynol, Rhuf. viii. 3; neu yn y cyflwr marwol a chorphorol presennol, Phil. i. 22, 24; neu yn y corph dynol, Eph. ii. 11, 15. Gal. vi. 12; neu mewn hunan-gyfiawnder, gallu, a doethineb, Phil. iii. 3, 4; neu mewn cyflwr pechadurus a llygredig, Rhuf. viii. 8. *Yn ol y cnawd*, yw naill ai yn ol yr ymddangosiadau allanol, felly yr oedd yr Iuddewon yn barnu am Grist, yn ol ei ymddangosiad gwael allanol, Ioan viii. 15, neu yn ol galluoedd cyffredin natur; felly ganed Ismael *yn ol y cnawd*, Gal. iv. 23; ond yn fwy cyffredin, arwydda, yn ol tueddiadau a chwantau y pechod sydd yn trigo ynom; felly nid yw y saint yn rhodio neu yn rhyfela yn ol y *cnawd*, nac yn *nau i'r cnawd*, Rhuf. viii. 1, 4. 2 Cor. x. 3. Gal. vi. 8. *Pob cnawd* a arwydda naill ai pob dyn, pob creadur, neu pawb ar y ddaear, Gen. ix. 11. Esa. xl. 6; neu y rhan fwyaf o ddynion, Gen. vi. 12; neu y torfeydd mawrion, cenedloedd lawer, Jer. xxv. 31. Esa. lxvi. 16, lluoedd o Iuddewon a Chenedloedd, Joel ii. 28. Luc iii. 6. *Cig sanctaidd*, yw cig yr aberthau, Hag. ii. 12. *Y cig cyssegredig* a aeth ymaith oddi wrthynt; y mae dynion sanctaidd yn cael eu torri ymaith gan angau; yr ydych wedi myned mor halogedig a phe byddech yn Genedloedd dienwaededig, ac, am hyny, Duw a ettyl yn fuan eich gwaith yn offrymu ebyrth, trwy eich dwyn i Babilon, Jer. xi. 15. Chwennych *cnawd* un, neu ei fwytta, yw bod yn barod i'w drin mewn dull maleisus a chreulawn, Job xxxi. 31. Salm xxvii. 2.

CNEIFIO. (1.) Torri y gwallt oddi ar ben, 1 Cor. xi. 6; ond, yn neillduol, gwelleifio y gwlan oddi ar ddefaid. Yn *China*, y maent yn cneifio eu defaid deir-gwaith yn y flwyddyn. Byddai yr Iuddewon yn arfer en cneifio yn Meheñn neu Orphenaf, ac yr oedd ganddynt dai i'r perwyl hwn, a gwledd arbenig ar yr achos, 2 Bren. xii. 14. 1 Sam. xxv. 2—10. 2 Sam. xiii. 23, 24.

CNAU, *(cna)* math o ffrwyth sydd yn gynnwysedig mewn plisgyn caled, megys cnau cyll, castangnau, cnau Ffrengig, cnau yr India, &c. Y rhai a elwir cnau benywaidd yr India ydynt, am ddim a gyddom ni, y mwyaf gwerthfawr o bob cnau, a'r Almaenwyr sydd yn meddu eu holl dreñidaeth yn eu dwylaw eu hunain. Y mae ganddynt bedwar plisgyn gwahanol. Crybwylla *Tournefort* am naw rhywiogaeth o gnau Ffrengig; a diammau fod gwahanol rywiogaethau o'r cnau ereill. Cyffelybir y saint i *gnau;* eu golwg allanol ar y ddaear sydd ddirmygus a gwael; eithr y maent yn cael eu hamddiffyn yn ddiogel, a'u gorchuddio gan ras a chyfiawnder Iesu, ac y maent oll yn werthfawr a gogoneddus o fewn, Can. vi. 11. Salm xlv. 13.

CNU, *(cnu)* hyny o wlan a ddwg un ddafad ar unwaith. A dillad wedi eu gwneuthur o *gnu*, neu wlan ei ddefaid, yr oedd Job yn dilladu yr anghenog, Job xxxi. 20. *Cnu* Gideon, ar yr hwn yr oedd y gwlith yn disgyn yn helaeth, un noswaith, tra byddai yr holl ddaear o'i amgylch yn sych; a'r ail noswaith yr oedd y *cnu* yn sych, tra byddai y llawr oddi amgylch yn wlyb, all fod yn gosod allan y genedl Iuddewig, yr hon oedd yn mwynhau gwlith enaid-ffrwythlonol gair, ordinhadau, a dylanwadau Duw, tra yr oedd y byd Cenedlig yn aros yn amddifad o hon-

ynt; ac ydynt yn awr wedi eu rhoddi i fynu i wywdra a chaledwch ysbrydol, tra mae y Cenedloedd yn mwynhau breintiau helaethion efengyl Crist, Barn. vi. 37—39.

COCH *(co-och)*. Y lliw hwn wedi ei gymhwyso at Grist, megys trwy yr *anner goch* a'i *wisg goch*, sydd yn arwyddo ei ddyoddefiadau gwaedlyd, neu ddadymchweliad gwaedlyd ei elynion, Num. xix. 2. Esa. lxiii, 2. Ond gallai fod lliw *coch* y crwyn hyrddod oedd yn toi y babell, yn gosod allan ddyoddefiadau Crist, yn nghyd âg erlidigaethau a thrallodau ei eglwys, Exod. xxvi. 14, a xxxix. 34. *Cochder* meirch, a *chochder* gwin digofaint Duw, sydd yn arwyddo effeithiau ofnadwy a gwaedlyd barnedigaethau Duw, Salm lxxv. 8. Zech. i. 8, a vi. 2. Dad. vi. 4. Pan briodolir *cochder* i'r eglwys fel gwinwydden, y mae yn arwyddo ei bod yn agored i ddyoddefiadau ac erlidigaethau gwaedlyd, a'i bod yn dwyn ffrwyth cymmeradwy gan Dduw, Esa. xxvii. 2. *Cochder* y ddraig Genedlig, oedd yn arwyddo erlidigaethau creulawn y Cristionogion gan amberawdwyr Rhufain, Dad. xii. 2. *Cochder* llwgr y gwahanglwyf mewn cnawd neu ddillad, a arwydda gwrthodiad digllawn o gerydd, ac amddiffyniad ffromwyllt o feiau, Lef. xiii. 19, 42, 49, a xiv. 37. *Cochder* y *llygaid*, a arwydda helaethrwydd o win, neu fod wedi meddwi arno, Gen. xlix. 12. Diar. xxiii. 29.

COCHL, a arwydda, (1.) Arwisg sydd yn gorchuddio y dillad ereill, 2 Tim.iv.13.(2.)Ffug neu esgus teg, yn celu cybydd-dod, malais, ac anghrediniaeth, 1 Thes. ii. 5. 1 Petr ii. 16. Ioan xv. 22. Dywedir fod Duw yn gwisgo *zel* fel *cochl*; y mae yn ymddangos yn ddysglaer wrth gospi ei elynion, a gwaredu ei bobl, Esa. lix. 17.

COD, (*co-od*) yscrepan, pwrs. Trysorau o feudithion nefol nad ellir eu gwasgaru, eu colli, ac na wyw ant ymaith, a elwir yn *byrsau ni heneiddiant*, Luc xii. 33. Cyfoeth, yn cael ei ddyfetha trwy felldith Duw, sydd fel *cyflog a gasgler i gôd dyllog*; nid yw yn lleshau ei berchenog, ond yn darfod yn ddirgelaidd, yn annisgwyliadwy, ac yn ddisymmwth rhwng ei ddwylaw, Hag. i. 6. Y mae Duw yn gwnio ac yn selio camwedd dynion *mewn cod*, pan y mae yn manwl gofio pob gweithred ac amgylchiad perthynol iddo, mewn trefn i'w cyhuddo, a'u cospi o'i blegyd, Job xiv. 17.

CÔED, a arwyddant, (1.) Coed defnyddiol, Gen. xxii. 6. Arferent *goed* yn danwydd; a *syrthio dan y coed*, ydyw llewygu gan galedwch y gwasanaeth gwaelaf, megys dwyn a chymmynu coed, Galar. v. 13. *Coed Libanus* yw cedrwydd, Can. iii. 9. Byddin yr Assyriaid o flaen Jerusalem oedd megys *coed*, neu *gynnud*, pan dorodd yr Arglwydd, trwy ryw blâ tanllyd, 185,000 o honynt mewn noswaith, Esa. xxx. 33. Athrawiaethau ofer, gweigion, a chelwyddog, y rhai nid allant oddef profiad gair Duw, yr hwn a gyffelybir i dân, ydynt yn cael eu galw yn *goed*, 1 Cor. iii. 12. (2.) Delw a wnaed o goed, Hab. ii. 19. (3.) Coedwig, yw llawer o goed yn cyd-dyfu; neu y man lle y tyfant. Yr oedd amryw *goedwigau* mawrion yn ngwlad Canaan; megys coed Hareth, yn nehendir Judah, 1 Sam. xxii. 5; mynydd Ephraim, Jos. xvii. 18; Bethel, 2 Bren. ii. 14; a Carmel, 2 Bren. xix. 23. O du y dwyrain i afon yr Iorddonen yr oedd coedwig a elwid *coed Ephraim*, o herwydd mai yno y gorchfygodd ac y lladdodd Jephthan luaws o'r Ephraimiaid, 2 Sam. xviii. 6: Barn. xii. 5. Darllenwn hefyd am *goedwig Arabia*, Esa. xxi. 13; ond y fwyaf enwog o'r cwbl oedd coedwig Libanus, yr hon a elwir *coedwig y brenin*, o herwydd i freninoedd Persia ei chymmeryd dan eu gofal neilldiol, Neh. ii. 8. Gelwir byddin yr Assyriaid yn *goed* neu *goedwig*; mor lluosog ac uchelwych oedd eu hymddangosiad! ond mor fuan y cawsant eu hysu gan ddigofaint Duw! Esa. x. 18, 19, a xxxii. 19. Yr Aiphit a'i dinasoedd lluosog, neu ei byddin helaeth tan Pharaoh-neco, a elwir yn *goed*, Jer. xlvi. 23. Y mae Jerusalem yn cael ei galw *coed maes y dehau*; yr oedd yn gorwedd yn agos i'r parth deheuol o wlad Canaan; yr oedd y Caldeaid yn teithio tua'r dehau wrth ddyfod yn ei herbyn, a lluosog iawn oedd ei thai a'i thrigolion, Ezec. xx. 46. Cyffelybir cyfiwr peryglus ac adfydig, i *goed*, lle y mae seirph a

bwystfilod yn aml; a chysgu yn ddiogel mewn *anialwch* a *choedydd*, yw mwynhau y dedwyddwch a'r diogelwch mwyaf cyflawn, Ezec. xxxiv. 25.

COELBREN; unrhyw beth a fwrir, neu a dynir, er mwyn penderfynu rhyw bwngc a fyddo mewn dadl. Galwad ddifrifol ar Dduw ydyw, am gyfryngiad diattreg o'i allu cyfarwyddol, i derfynu y matter; ac, am hyny, ni ddylai gael ei arfer mewn un achos ond a fyddo pwysig a syml, ac nad ellir ei benderfynu yn amgen mewn modd heddychlon; ac y mae i'w arfer gydapharch a gweddi, Diar. xvi. 33, a xviii. 18. Act. i. 24, 25, 26. 1 Sam. xiv. 41. Wrth *goelbren* y penderfynid pa un o'r ddau fwch cymmodol a offrymid, a pha un a fyddai yn ddiangol, Lef. xvi. 8—10. Wrth *goelbren* y rhanwyd gwlad Canaan rhwng y llwythau Hebreaidd, ac y cafodd y Lefiaid eu dinasoedd, ac y penderfynwyd trefn eu gwasanaeth sanctaidd, Num. xxvi. 55, 56, a xxxiii. 54, a xxxiv. Jos. xiv, hyd xxi. 1 Cron. vi. 54, 61, a xxiv, a xxv. Wrth *goelbren* yr etholodd yr Hebreaid y gwyr a aent i geisio troseddwyr Gibeah i'w cospi, ac y cafwyd allan pwy a gymmerasai y diofryd-beth yn Jericho, Barn. xx. 9. Jos. vii. 14—18. Wrth *goelbren* y neillduwyd Saul i deyrnasu ar yr Hebreaid, ac y cafwyd allan mai Jonathan ei fab a archwaethodd y mêl, 1 Sam. x. 19—21, a xiv. 41, 24. Wrth *goelbren* y cafwyd allan mai Jonah oedd achos y dymhestl, ac y nodwyd Matthias i fod yn apostol, Jonah i. 7. Act. i. 24—26. Wrth *goelbren* y rhanai y Cenedloedd eu hyspail, ac y penderfynodd y milwyr halogedig pwy a gai bais Crist, Obad. i. 11. Nah. iii. 10. Salm x. Salm xxii. 19. Haeru fod damwain, yr hyn nid yw ddim amgen na diffyg o fwriad, yn penderfynu unrhyw goelbren, sydd yn beth rhy anghysson i fodau rhesymol i'w gredu. Duw, neu y diafol, ynte a raid fod y cyflafareddwr, i benderfyniad yr hwn y mae y matter yn cael ei gyfeirio trwy y *coelbren*. Y mae Duw yn honni mai ei briodoledd ef yw llywodraethu *coelbrenau*, Diar. xvi. 33. Ac nid ydym yn tybied y ceir nifer mawr, hyd yn nod o chwareuwyr cardiau a ffristial, a addefant Satan fel eu canolwr. Mor wael ynte a phechadurus ydyw arfer coelbrenau mewn oferedd, neu mewn difyrwch a chwarëyddiaeth, neu er cyfarwyddo mewn anturiaethau pechadurus! Ezec. xxi. 18, 19. Esth. iii.

COES. Y mae *coesau* gwr yn cael eu cymmeryd, yn gyffelybiaethol, am ei nerth, Salm cxlvii. 10; a gelwir hwy y *gwyr cryfion*, y rhai ydynt yn crymu, gan eu bod yn gwanychu mewn henaint, Preg. xii. 3. *Coesau* Crist fel *colofnau marmor*, a arwyddant ei gadernid i sefyll tan ba bechod neu gospedigaeth bynag a osodid arno, neu ba ddirfawr bwys gogoniant bynag a roddid iddo; a'i allu i orphen ei holl waith cyfryngol; yn nghyd â'i ragluniaethau doeth a chyfarwydd, a sefydlogrwydd ei deyrnas a'i lywodraeth, Can. v. 15. *Coesau* delw weledigaethol Nebuchodonozor o *haiarn*, a'i thraed â pheth o honynt o haiarn, a pheth o bridd, heb eu cyd-dymheru yn iawn, oedd yn arwyddo cadernid yr amherodraeth Rufeinaidd, gyda'i dau brif-swyddog yn flaenoriaid arni; yr hon, yn mheu llawer o oesoedd, a ddosparthwyd yn amherodraeth ddwyreiniol a gorllewinol, ac a gymmysgwyd, o'r diwedd, â Gothiaid, Huniaid, Vandaliaid, &c. eithr nid ymgorpholodd yn iawn â hwynt, ac ni chadwodd ei chadernid ychwaith, ar ol iddynt ddechreu eu hymgyrchiadau yn llwyddiannus; ond, yn y diwedd, dosparthwyd hi yn ddeg breniniaeth. Gwel *Cyrn*, Dan. ii. 33.

COFIO, a arwydda, (1.) Galw i gof bethau a aethant heibio, Deut. xv. 15. (2.) Dal yn ein meddwl rywbeth i ddyfod a fyddo o bwys, fel y gallom ddarparu ar ei gyfer, neu sylwi arno pan ddelo, Exod. xx. 8. (3.) Meddwl am, ac ystyried, Salm lxiii. 6. Mat. xvi. 9. (4.) Gwneuthur cyfrif, a gwobrwyo, Preg. ix. 15. (5.) Crybwyll mewn ffordd o fawl a chanmoliaeth, 1 Cron. xvi. 12. (6.) Gofalu am beth. Y mae Duw yn *cofio* dynion, pan y bydd yn eu hystyried, yn gofalu am danynt, yn eu gwaredu a'u hachub, yn enwedig ar ol bir oediad, neu attaliad o'i ddewisol drugareddau, Salm lxxiv. 2. Felly efe a *gofiodd* Noah, a'r creaduriaid ereill, pan ddarparodd er eu gwaredigaeth trwy yr arch.

Gen. viii. 1. Efe a *gafiodd* Abraham, pan, mewn attebiad i'w weddi, y gwaredodd efe Lot rhag dinystr Sodoma, Gen. xix. 29. Y mae Duw yn *cofio trugaredd*, pan byddo yn ei harfer mewn modd neilltuol, Salm xxv. 6. Hab. iii. 2. Y mae yn *cofio*, neu yn *crybwyll am bechod* neu *gyfiawnder*, pan byddo yn cospi un, ac yn gwobrwyo y llall, Jer. xxxi. 34. Ezec. xviii. 22, 24. Dynion anghristaidd a drygionus ereill a *gofir*, pan geryddir neu y cospir hwynt am eu pechodau, 3 Ioan x. Salm cxxxvii. 7. Dad. xvi. 19. Y mae dynion yn *cofio Duw*, neu *ei enw*, pan byddont yn meddwl am dano, yn credu ynddo, ac yn gorphwys arno am gymhorth ac ymwared, Salm xx. 7.

COFIADUR, (*cof*) swyddog a fyddai yn ysgrifenu pethau mewn cofrestr, neu lyfr, ac yn coffâu i'r brenin y pethau a fyddai eisiau eu hystyried, 2 Sam. viii. 16, a xx. 24.

COFLEIDIO, (*cof*) mynwesu yn garedig, Gen. xxix. 13. *Cofleidio mab*, yw cael un o'r eiddi ei hun i orwedd yn ei mynwes, 2 Bren. iv. 16. *Cofleidio creigiau*, yw ymgyrchu yn chwannog attynt, am drigfan a chysgod, Job xxiv. 8. *Cofleidio y tommenydd*, ydyw cael ein darostwng i'r tlodi mwyaf a'r gwasanaeth gwaelaf, neu fod corph marw un yn cael ei dafiu i'r cwn, Gal. iv. 5. Crist yn *cofleidio* ei bobl â'i ddeheulaw, a ddengys ei gymmaliaeth caredig a grasol o honynt, ac ymwelladau dyddanus a chyssurol ei Ysbryd â hwynt, Can. ii. 6, a viii. 3. *Cofleidio yr addewidion*, yw ymddiried ynddynt gyda hyfrydwch a gorfoledd, Heb. xi. 13. *Cofleidio doethineb*, ydyw derbyn Crist a'i wirioneddi i'r galon, ac ymhyfrydu yn y gwaith o'i ddylyn ef, Diar. iv. 8.

COFFADWRIAETH (*cof*). Yr hyn a fyddo yn tueddu i ddwyn anrhyw beth neu berson ar gof; enw Duw, sef Jehofah, ydyw ei *goffadwriaeth: ef yn mhob cenedlaeth*; yr enw wrth ba un y coffir am dano, y gelwir arno, y meddylir ac y llefarir am dano, Exod. iii. 15. Arian y cymmod tros yr enaid, y rhan o'y bwyd-offrwm a losgid ar yr allor, a'r thus a ddodid ar y bara gosod, a elwir yn *goffadwriaeth*; yr oeddynt, fel pe buasai, yn dwyn ar gof i Dduw ei gyfammod a'i bobl, a'r trugareddau angenrheidiol i'w dangos i'r Hebreaid; ac yr oeddynt yn dwyn Iesu ar gof iddynt hwythau, megys iawn, offrwm, ac eiriolwr drostynt, Exod. xxx. 16. Lef. ii. 2, a xxiv. 7. Y meini yn nwyfroneg yr archoffeiriad, ac ar ei ysgwydd, oeddynt yn *goffadwriaeth*; yr oeddynt i ddwyn ar gof iddo am weddio yn daer tros y llwythau Hebreaidd; ac megys yn galw am drugareddau oddi wrth Dduw iddynt, Exod. xxviii. 11, 12.

COG; math o aderyn unig, sydd â'i big yn llyfn; ei ffroenau yn crogi ychydig yn mlaen; ei dafod rywbeth yn debyg, o ran ei llun, i saeth; y mae iddo bedwar o fysedd ar ei draed, dau yn mlaen a dau yn ol; ac y mae yn agos cymmaint â chidyll y gwynt. Y mae yn lled hardd, ei ben, ei wddf, a'i gefn yn llwyd, yn nghyd â rhai plu llwyd-dywyll, yr adenydd yn llwyd-dduon, a'r bol yn wyn. Y mae yn ymadael o'n gwlad ni yn niwedd Hydref, ac yn dychwelyd yn ol yn y gwanwyn. Eithr myn *Bochart* ac ereill, mai nid y gôg a feddylir wrth y gair Heb. *shachaph*, ond y fôr-wylan, ehediad o ddeutu maintioli iâr, ond yn ysgafn iawn, Lef. xi. 16.

COHATH, (*cynnull*·*idfa*) ail fab Lefi, a thad Amram, Ishar, Hebron, ac Uzziel. Oddi wrtho ef, trwy Aaron mab Amram, y tarddodd offeiriaid yr Hebreaid. Y gweddill o'i deulu, ar eu hymadawiad o'r Aipht, oeddynt yn 8600 o wrryvaid, 2750 o ba rai oeddynt yn gymhwys at wasanaeth. Yr oeddynt hwy, tan Elizaphan mab Uzziel, yn gwersyllu o du y dehau i'r babell, ac yn teithio ar ol llu Reuben. Eu gorchwyl oedd dwyn yr arch a llestri sanctaidd ereill y babell, ar eu hysgwyddau; ond ni chaniatteid iddynt, tan boen marw olaeth, edrych ar un o honynt, oddi eithr, hwyrach, y noe bres, Exod. vi. 16—25. Num. iii, a iv, a x. 21. Heblaw tair dinas ar ddeg yr offeiriaid, cafodd y Cohathiaid oddi wrth yr Ephraimiaid, Sechem, Gezer, Cibzaim, ac a Joemeon, a Bethoron; oddi wrth y Daniaid, Eltheceh, Gibbethon, Aijalon, a Gathrimmon; oddi wrth y Manasiaid gorllewinol, Tannach a Gathrimmon,

yr hon oedd naill ai yr un âg Aner ac Ibleam, neu a roddwyd yn gyfnewid am danynt wedi hyny, Jos. xxi. 20—26. 1 Cron. vi. 66—70. Yn nyddiau Dafydd, Sebuel, Rehabiah, Jeriah, a Micah, oeddynt ben y Cohathiaid; a Sebuel a Rehabiah, o hiliogaeth Moses, oeddynt yn gofalu am y trysorau cyssegredig. Bu 4400 o hiliogaeth Hebron, ac amryw o'r Ithuriaid, yn swyddogion o du y dwyrain a'r gorllewin i'r Iorddonen, newn matterion gwiadol ac eglwysig, 1 Cron. xxiii. 12—18, a xxvi. 23—32.

COLOFN, a arwydda, (1.) Atteg, i gynnal tŷ neu adeilad, Barn. xvi. 25, 26, 29. (2.) Maen coffadwriaethol am ddyn neu weithred, Gen. xxv. 20. 2 Sam. xviii. 18. *Colofnau y ddaear*, ydynt y sylfaeni neu y creigiau sydd yn ei chynnal ac yn ei chryfhau, Job ix. 6. *Colofnau y nefoedd* ydynt y mynyddoedd, y rhai sydd yn ymddangos i ni megys yn cyrhaedd hyd y nefoedd, Job xxvi. 1. Onid all fod colofnau neu astdlod y babell, a'r ddwy golofn yn rhorth teml Solomon, wedi eu haddurno â rhwyd-waith, a 200 o bomgranadau, yn gosod Iesu allan yn sdydlogrwydd ei berson a'i swydd; ai waith yn cynnal ei eglwys, a'i fod yi foddion gogoneddus o'n dynesiad ai Dduw? Exod. xxvi. 15—30. 1 Bren. vii. 18, 42. Coesau Crist sydd fel *colofnau marmor*, a'i draed fe *colofnau o dân*: mor ddigonol a chadarn i gynnal ei holl achos yn y byd, yw ei allu! mor ofnadwy wrth geryddu ei bobl, a chospi ei elynion, yw ei ymddygiad rhagluniaethol! Ca. v. 15. Dad. x. 1. Y mae yr egwys yn cael ei galw, *colofn a sylfaen y gwirionedd*; ynddi a thrwyddd y mae gwirioneddau Duw yn cael eu cynnal a'u gosod allan ger bron dynion ac angelion, megys yr arferid good cyfreithiau llywodraethwyr gwiadol i fynu ar golofnau, fel y gellid eu darllain gan bawb; neu dicon mai dirgelwch duwioldeb a gr bwyllir am dano yn adn. 16, yw *cospn a sylfaen y gwirionedd*, 1 Tim. iii. 15. Yr oedd yr arferiad o *emeinio colofnau* yn gyffredin iawn tai yr Hen Destament, ac ymddengys fod hyny yn cael ei ystyried fel darn o addoliad sanctaidd iawn, "Bethel, lle'r enneiniaist y golofn," &c. Gen. xxxi. 13. Yn ngeiriau olaf Dafydd, (2 Sam. xxiii. 1.) lle y mae yn eglur ei fod yn llefaru yn mherson y Messiah, dywed ei fod wedi cael ei osod i fynu fel *enneiniog Duw Jacob*. Ni ddarllenwn am ddim a enneiniwyd gan Jacob, ond y colofnau hyn, y rhai, gan hyny, a ymddangosant eu bod yn gysgodau o'r gwir Enneiniog, yr hwn sydd yn Arglwydd ac yn *Grist*; Efe yw y golofn fawr yn nheml Duw; ac y mae yn addaw gosod yr hwn a orchfyga fel colofn yno hefyd. Yr apostolion a chydlafurwyr ereill, y rhai a ymddangosasant fel cynnalwyr ardderchog o achos Crist yn y prif eglwysi, a elwir yn *golofnau*, Gal. ii. 9. Gosodir yr eglwys allan megys yn dyfod i fynu o'r anialwch fel *colofnau mwg*; yr hyn sydd yn dra darluniadol o ymddangosiad eglwys yr Hen Destament yn dyfod i fynu wedi ei pherarogli â'r arogl-darth hwnw oedd yn esgyn oddi ar yr allor aur, Can. iii. 6. Swyddogion a llywodraethwyr duwiol a elwir yn *golofnau* cenedl, Salm lxxv. 3. Doethineb wrth adeiladu ei thŷ, a naddodd ei *saith golofn*, Diar. ix. 2, yr hyn sydd naill ai yn cyfeirio at yr eglwys, fel yn dyoddef, ac yn cael ei chynnal trwy bob un o'r saith amser, neu fel wedi ei gorphen a'i haddurno yn gyfangwbl.

COLOMMEN *(colom)*. Math o adar sydd â'u pigau yn deneu a blaenfain; eu ffroenau yn hir-gul, croenaidd, ac mewn rhan wedi eu gorchuddio; eu tafodau ydynt heb eu rhanu; a'u hwyau yn ddysglaer a heirdd. Nid oes ynddynt fusti; ymborthant ar ronynau pur; maent yn dirion, yn ddiniweid, yn heirdd, yn ffrwythlon, yn ddiamddiffyn, yn cael eu casáu gan adar ysglyfaethus, yn ddiwair i'w cymhariaid, ac yn dueddol iawn i alaru am danynt pan eu collont. Y maent o amrywiol rywiogaethau; megys y golommen gyffredin; yr ysguthan, neu y turtur; colommen y coed; colommen lwyd-ddu America, gyda bron wen; a'r golommen werdd, gyda choesau melynion. Yr oedd pob math o golommenod yn lân tan y gyfraith gynt, ac wedi cael eu gosod, yn nghyd â thurturod, i fod yn aberthau gan dlodion. A thrwy y rhai hyn y gosodid allan Iesu Grist yn ei larieidd-dra, ei burdeb, a dianwadalwch ei gariad, Lef.

i. 14, a v. 7, a xii. 8. Ymddangosodd yr Ysbryd Glan fel *colommen*, ac y mae yn cael ei alw *turtur*, i ddangos ei burdeb, ei hawddgarwch, a'i gariad; a bod ei lais yn yr efengyl yn dwyn rhyw dystiolaeth fod y dyfroedd dylif o ddigofaint dwyfol wedi treio, Mat. iii. 16. Can. ii. 12. Yr eglwys a'i gwir aelodau a gyffelybir i *golommen*, i ddangos eu gwendid naturiol, a'u bod yn agored i ruthrau gelynion eu callineb a'u harddwch ysbrydol; eu bymborthiad pur ar Iesu Grist a'i wirionedd; eu serch diwair atto, a'u galar cwynfanus o herwydd ei absennoldeb; eu llarieiddra, eu diniweidrwydd, eu ffrwythlondeb ysbrydol mewn gweithredoedd da, a'u nefol fyfyrdodau, Salm lxviii. 13. Can. ii. 14. Mat. x. 16. Deg llwyth Israel oeddynt fel *colommen ynfyd heb galon*, pan, o achos caethiwed Assyria, a'u terfysgoedd gwladol eu hunain, yr oeddynt wedi gwanychu, ymollwng, a digaloni, ac heb gymmeryd gofal i ochelyd eu cystuddiau dinystriol. Hos. vii. 11. *Griddfan* neu *drydar fel colommen*, ydyw galaru yn y modd mwyaf chwerw a diobaith, Esa. xxxviii. 14, a lix. 11. Nah. ii. 7.

COLOSSE, (*cerydd*) hen ddinas yn Phrygia Leiaf, ar lan yr afon Lycus, yn agos i'r lle yr oedd yn dechreu rhedeg tan y ddaear, cyn ymarllwys i'r afon Meander. Yr oedd yn lled agos i Laodicea a Hierapolis. Dywedir fod y tair dinas hyn wedi eu distrywio gan ddaeargryn, A.D. 66. Er nad yw yn ymddangos fod Paul erioed yn Colosse, etto, pan yn garcharor yn Rhufain, efe a ysgrifenodd lythyr rhagorol at y Cristiongion yno, yn eu rhybuddio yn erbyn gwag philosophi a defodau coelgreddol ereill, yn dangos rhagoroldeb Crist, a chyflawnder y saint ynddo ef; ac yn eu hannog i gyflawni dyledswyddau eu gwahanol sefyllfaoedd. Hwn a anfonodd efe iddynt trwy law Tychicus ac Onesimus.

COLYN, (*col*) y rhan honno o rai creaduriaid a arferant fel eu harf ymosodol, a thrwyddi a archollant ac a yrrant wenwyn i gnawd eu gelynion. Rhai o'r colynau hyn ydynt yn adfachog, ac felly y mae eu harcholl yn fwy poenus; ac os gyrrir y pryfyn fyddo yn brathu ymaith yn rhy fuan, gad y colyn yn yr archoll. Pechod ydyw *colyn angau*, am ei fod yn gwneuthur angau yn niweidiol a pheryglus i ddynion; ond i'r cyfryw sydd yn Nghrist, tynnwyd y *colyn* hwn trwy ei farwolaeth ef dros bechod; a hwy a ymadawant mewn heddwch i fod gyda'r Arglwydd, 1 Cor. xv. 55, 56. Y *colynau* yn nghynffonau y locustiaid, a arwyddant yr hudoliaethau niweidiol a dinystriol a daenir gan y Pabyddion a'r Saraceniaid, neu ddiffrodiadau niweidiol byddinoedd cyfredin y diweddaf, Dad, ix. 10.

COLL—ADWY. Dywedir fod ffydd, y saint yn werthfawrusach na'r aur *colladwy*, 1 Pet. i. 7. Y mae yr aur yn colli yn ei bwysau wrth ei brofi yn y tân; bob tro y profer ef, y mae rhywfaint yn colli hono; ac hefyd y mae yr holl bethau gwerthfawrocaf a phuraf a fedd y ddaear, megys aur, &c. yn ddarostyngedig i balldod a cholled: ond y mae ffydd y saint yn cael ei mawrygu, ei chadarnhau, ei dwyseiddio, a'i phuro yn ffwrnesi tanllyd profedigaethau.

CONDEMNIO, a arwydda, (1) Euog-farnu un, a'i ddedfrydu i gosb, Deut. xxv. 1. Yn yr ystyr hwn, ni *chondemniodd* Crist y wraig a ddaliwyd mewn godineb, ond llefaodd wrthi megys yr unig un a allai faddeu pechodau, a'r hwn, yn yr un modd, sydd yn cyfiawnhau ei holl bobl, *nid wyf finnau yn dy gondemnio di chwaith, dos, ac na phecha mwyach*, Ioan viii. 10, 11. (2.) Yr achos a'r rheswm o'r cyfryw ddedfryd, Ioan iii. 19. (3.) Y gosp i'r hon y condemnir un, 1 Cor. ii. 32. Luc xxiii. 40. (4.) Barn ffurfiawyll, angharedig, ac anghyfiawn, ar bersonau, amcanion, geiriau, neu weithredoedd dynion, Luc vi. 37. (5.) Tystiolaethu yn erbyn pechod, trwy ymddygiad gwrthwyneb ido; felly yr oedd y Ninefeaid, trwy ju gwrandawiad parod ar rybudd Jonah, yn *condemnio* yr luddewon y rhai a wrthodasant gofleidio Cristiongrwydd, er eu mynych alw atti gan Iesu a'i apostolion, ac er ei bodyn cael ei chadarnhau trwy wyrthiu aneirif, Mat. xii. 41. Jonah iii. Y *condemniad* yr hwn y mae pob dyn annuwiol tano, a phob un o'r ffyddoniaid yn rhydd oddi wrtho, yw y-

huddiad y ddeddf o anwiredd; a dedfryd y gyfraith ddwyfol, yn eu barnu oll i oddef llid Duw digllawn, nes y gwneir boddlonrwydd cyflawn am eu pechodau, a bod y digofaint anfeidrol, cynnwysedig yn y ddedfryd honno, wedi ei gyflawni yn llwyr, Rhuf. v. 16, 18. a viii. 1. Duw a *gondemnïodd bechod yn nghnawd ei Fab*; trwy osod y gosp ddyledus iddo arno ef, yn ein natur ni, efe a ddangosodd yn eglur pa mor ffiaidd a beius ydyw, a lanhaodd ei euogrwydd, ac a ddedfrydodd ei awdurdod, ei halogedigaeth, a'i hanfodiad, i ddinystr cyfangwbl, Rhuf. viii. 3. Col. i. 22. Eph. i. 7.

CONGL, a arwydda, (1.) Cwr eithaf unrhyw beth, megys gwiad gwisg, barf, adeilad, allor, bwrdd. *Congl-au*, neu *bedair congl tir*, a arwydda y cwbl o hono, Num. xxiv. 17. Ezec. vii. 2. Gwahardd wyd i'r Hebreaid dalgrynnu eu penau, trwy eillio, neu dorri *cyrrau* eu barf, fel y gwnai y Cenedloedd coelgrefyddol, Lef. xix. 27. (2.) Rhyw ran dywyll, anwiedig o dŷ neu wlad, Diar. xxi. 9. Esa. xxx. 20. Act. xxvi. 26. Y *gongl* a addaeth allan o Judah, ydoedd naill ai eu prif lywiawdwyr, y rhai oeddynt yn addurno ac yn cadarnhau eu cenedl yn amser Nehemiah, y Maccabeaid, &c. cymhar 1 Sam. xiv. 38, ymyl y ddalen; neu, yn hytrach, Iesu Grist, yr hwn fel y *pen congl-faen*, sydd yn cyssylltu, yn addurno, ac yn cadarnhau ei eglwys, Zech. x. 4. Salm cxviii. 22. Esa. xxviii. 16. Yr oedd *cyrn* a thaenelliad y gwaed ar *bedair congl* yr allor, yn dangos fod yr un ddyfodfa i holl derfynau y ddaear i'r iachawdwriaeth sydd yn Nghrist, Exod. xxvii. 2. Ezec. xlv. 19.

CONSURWR; un sydd, yn enw Duw, yn tynghedu ysbrydion drwg, gyda bwriad i'w bwrw allan o'r rhai fyddo wedi eu meddiannu ganddynt. O herwydd i Grist roddi i'w ddeuddeg apostol, a'i ddeg dysgybl a thriugain, awdurdod i fwrw ysbrydion allan allan, yr hwn, fe ddywedir, a barhaodd yn yr eglwys yn nghylch dau cant o flyneddoedd, cynnygodd meibion Scefa, ac ereill, Pabyddion yn benaf, yn ddrygionus ffugio yr unrhyw; eithr os, ar un amser, y canlynodd effeithiau gwirioneddol ymgeisiadau y cyfryw, rhaid fod hyny trwy eu cynghrair swynol â'r diafol, neu efe â hwynt. Act. xix. 13. Tebyg mai gair sathredig yn y wlad ydoedd *consurwr*, a bod y cyfeithwyr dysgedig wedi ei arfer er mwyn i'r werin ei ddeall; ac onidê, mae *tynghedwr* yn well gair.

COOS, *(coppa)* ynys yn Môr y Canoldir, yn agos i'r pen dehau-orllewinol i Asia Leiaf. Ei phrif ddinas oedd Coos, yr hon a lyngcwyd gan ddaeargryn yn nghylch 400 o flyneddoedd cyn Crist. Esculapius, y duw meddyginiaeth, oedd ei heilun penaf. Brodorion o'r ynys hon oedd yr arliwydd enwog Apelles, a'r clodfawr feddyg Hippocrates. Dechreuwyd math o waith sidan yma yn foreu, yr hwn oedd yn cynnysgaethu pendefigesau anniwair Rhufain â math o deneuwe, trwy ba un yr oedd eu cyrph yn ddigon gweledig. Yr oedd gan drigolion yr ynys hon freinioedd o'r eiddynt eu hunain, mor foreu â theyrnasiad Jehosaphat, os nid yn llawer boreuach. Syrthiasant wedi hyn dan lywodraeth y Persiaid, y Pontiaid, a'r Rhufeiniaid. Mordwyodd Paul heibio yma yn ei fordaith i Jerusalem; ond nid ymddengys fod ynddi un eglwys rai oesoedd wedi hyn. Yn y bedwaredd, y hummed, a'r chweched ganrif, yr ydym yn cael fod yma eglwys wedi ei sefydlu; ond er pan syrthiodd i ddwylaw y Saraceniaid a'r Tyrciaid, ni wnaeth Cristionogaeth, a phob peth arall, ond ymddangosiad gwael ynddi. Gelwir hi yn awr Stancora, neu Lango, Act. xxi. 1.

COPR; metel caled a thrwm, nesaf at aur ac arian, ac estynadwy iawn i edefynau neu wifr. Y mae yn gynnwysedig o losgfaen heb ei dymheru yn dda, arian hyw melynaidd, a halen coch. Ceir ef yn gerrig o amrywiol ddull a lliw. Y mae y copr pur i'w gael yn ronynau, llafnau, neu dalpau. Copr, yn gymysgedig â'r peth a elwir *lapis calaminaris*, a dry yn brês; ac âg ystaen teg, gwna gloch-fetel. Os enneinir copr â *spirit of wine*, ac eurbibau *(orpimcnt)*, daw yn wyn, Ezra viii. 27.

COPYN—OD, *(cop)* pryfed digon adnabyddus, o ba rai y mae pedwar math ar hugain. Y mae rhai o honynt yn flewog trostynt oll; ereill ydynt yn llyfnion; a dywedir fod rhywiogaeth o honynt yn America yn 50 o

weithiau cymmaint â'n rhai ni. Y mae llawer o'r *copynod* yn dra gwenwynig, a'u brathiad, er nad yw ond bychan iawn, sydd beryglus, ac weithiau yn achos o farwolaeth disymmwth. Y mae gan *Tarantula* yr Ital, &c. wyth o lygaid, a'i frathiad sydd dra pheryglus. Nid oes modd i'w feddyginiaethu ond trwy gymhwyso cerddoriaeth at y dyoddefwyr gwallgofus, a pheri iddynt ddawnsio nes y chwysont y gwenwyn allan. Nid yw y brathiad yn wenwynig ond pan fyddo yr hin yn wresog. Y *copynod* a ddodwyant rifedi mawr o wyau, weithiau yn nghylch pump neu chwech cant. I faglu y gwybed, gwnant wëoedd, wedi eu ffurfio o lud sydd yn dyfod allan o'u hymysgaroedd eu hunain; ac wrth eu gweu, gallant daflu eu hunain yn ucbel iawn i'r awyr. Pan ddelir gwybedyn yn y wê hon, y mae y copyn creulawn, yr hwn oedd o'r blaen yn guddiedig, yn rhuthro arno, yn sierhau ei grafangau ynddo, ac yn sugno holl leithder y creadur truan, gan ei adael yn farw. Gwedi y cwbl, canmolir y *copynod* gan rai naturiaethwyr, o herwydd eu callineb, eu gwroldeb, eu hunlondeb, eu cymmedroldeb, a'u glendid. Hyder cnawdol dynion, yn nghyd â'u hymgeisiadau cnawdol i achub eu hunain, a gyffelybir i *wê y pryf copyn*; gwedi y byddo un wedi ymfino ynddynt, pa mor ansylweddol ac annigonol ydynt i bob dyben da! Job viii. 14. Esa. lix. 5.

CORA, *(moel)* cefnderw Moses, mab Ishar, a thad Assir, Elcanah, ac Abiasath. Gan genfigenu o herwydd awdurdod Moses ac Aaron, Cora, yn nghyd â Dathan, ac Abiram, meibion Eliab, ac On mab Peleth, pennaethiaid y Reubeniaid, yn nghyd â 250 o bennaethiaid y gynnulleidfa, a gyd-gyfodasant yn eu herbyn. Ymddengys i On ymwrthod â hwy, ond glynodd y lleill yn nn corph. Edliwiasant, mewn modd trahaus-falch, i Moses ac Aaron, fel pe buasent yn cymmeryd mwy o awdurdod arnynt nag oedd yn perthyn iddynt, gan fod yr holl gynnulleidfa yn sanctaidd i'r Arglwydd. Attebodd Moses, eu bod yn rhy uchelfrydig wrth feio ar gyfarwyddiadau Duw, ac y dangosai yr Arglwydd, y foru, pwy oedd efe yn ganiattau i weinyddu yn yr offeiriadaeth. Cynghorodd Cora, a'r 250 a gyfrinachasant âg ef, i ymddangos gyda'u thuserau yn llawn arogldarth ar yr achos, er mwyn gwneud profiad o'r peth. Gwnaethant felly, a gosodasant dân sanctaidd yn eu thuserau. Casglasent hefyd luaws mawr o'r bobl yn nghyd i gablu Moses ac Aaron, neu, o leiaf, i fod yn dystion o gymmeradwyaeth Duw o'u harogl-darth hwy. Oddi ar gwmmwl goleu yn crogi uwch ben y babell, gorchymynodd Duw i Moses ac Aaron ymneilduo oddi wrth y gynnulleidfa, fel y gallai eu distrywio mewn munudyn. Moses ac Aaron a erfyniasant na ddyfethai yr holl gynnulleidfa, o achos pechod yr ychydig a wnaethent y cynnwrf. Rhoddodd yr Arglwydd eu deisyfiad iddynt, a chyfarwyddodd hwynt i orchymmyn i'r gynnulleidfa ffoi cyn gynted ag y gallent oddi wrth bebyll Cora, Dathan, ac Abiram. Prin yr enciliasant ymaith, pan yr agorodd y ddaear, yn ol rhagddywediad, Moses ei safn, ac y llyngcodd hwy yn fyw, yn nghyd â'u pebyll a'u teuluoedd. Yn y cyfamser, ysodd tân oddi wrth Dduw y 250 wyr a aroglda rthasent gyda Cora, Num. xvi. Ymddengys fod meibion Cora yn ffieiddio mawrfrydigrwydd eu tad, ac iddynt, tebygol, gael achubiaeth gwyrthiol rhag eu dyfetha gyda'r gwrthwynebwyr, a chael aros yn eu swydd sanctaidd, Num. xxvi. 11. Rhai o'u hiliogaeth hwy oedd Samuel, Heman, ac ereill o gantorion sanctaidd y deml yn amser Dafydd; ac iddynt hwy y traddodwyd un-arddeg o'r Salmau i'w canu gyda cherddoriaeth, sef yr 42, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 84, 85, 87, 88. Yr oedd rhai o honynt yn borthorion i'r deml, 1 Cron. xxvi.

CORBAN. Y mae y gair hwn yn dyfod oddi wrth yr Hebraeg *carâb* neu *hecerib*, sef offrymu neu roddi. Y mae yn sefyll am offrwm, neu rodd a gyflwynid i Dduw, neu ei deml. Yr Iuddewon weithiau a dyngent i'r *corban*, neu i'r rhoddion a offrymid i Dduw. Pwy bynag a dyngo i'r rhodd sydd ar yr allor, sydd dan rwymau, neu mewn dyled, Mat. xxiii. 18. Dywed *Theophrastus*, fod y Tyriaid yn gwahardd arfer y cyfryw lwon ag a fyddai briodol i ddyeithriaid, ac yn enwedig y *cor-*

ban, yr hwn, fel y dywed *Josephus*, oedd yn unig mewn arferiad yn mhlith yr Iuddewon.

Y mae Iesu Grist yn edliw i'r Iuddewon, yn yr efengyl, y creulondeb a ddangosent tuag at eu rhieni, ac yn dywedyd, eu bod, i'r dyben o ymesgusodi rhag rhoddi un rhan o'u meddiannau iddynt, yn arfer dywedyd wrthynt, *Bydded yr hyn a ofynir genyf yn gorban*, ac wedi ei gyssegru i Dduw; neu, *Bydded yr hyn oll a allwyf roddi i ti fel corban*, ac wedi ei gyflwyno i Dduw, yn y fath fodd, fel nad yw gyfreithlon i ti na minnau ddefnyddio dim o hono at ein gwasanaeth ein hunain; neu, yn ddiweddaf, *Yr wyf yn tyngu i'r corban*, neu y rhodd a gyflwynir i Dduw, na chynnorthwyaf mo honot mewn unpeth pa bynag. Y mae St. Matthew yn gosod allan, yn lled debyg i'r un modd, yr atteb a roddai plant i'w rhieni; *Rhodd yw pa beth bynag y ceit les oddi wrtho;* hyny yw, bydd yr offrwm a wnaf i Dduw o wasanaeth i ti; yr wyf wedi cyflwyno hyny i Dduw, a ofyni genyf; nid yw mwyach yn eiddot ti na minnau, ond ti a gai fod yn gyfranog o haeddiant fy offrwm.

Josephus a sylwa, fod, yn mhlith yr Hebreaid, weithiau, meibion a merched yn gwneuthur eu hunain yn *gorban;* hyny yw, yn cyssegru eu hunain i Dduw, neu i ryw swyddau yn ei wasanaeth. Pan byddai y cyfryw bersonau yn chwennych ymryddhau oddi wrth y rhwymau a osodasent arnynt eu hunain, neu oddi wrth y swydd i'r hon y byddent wedi ymgyssegru, hwy a roddent swm o arian i'r offeiriad, y mab ddeg siel a deugain, a'r ferch ddeg ar hugain. Ac oni byddent mewn amgylchiadau y gallent dalu y swm pennodol hwn, cydunent â'r offeiriad, a rhoddent iddo yr hyn a'i boddlonai.

Y mae *Philo*, wrth lefaru am y rhai a ymgyssegrent i Dduw, yn adrodd yr hyn a ddywed Moses yn Lef. xxvii. 2, 3, 4, &c. ac yn gofyn beth yw yr achos nad oes, yn hyn oll, ddim ystyriaeth o oedran, meddiannau, neu gymmwysderau y rhai fyddent yn gwneud yr adduned? I hyn y mae yn atteb; yr achos yw, *yn gyntaf*, o herwydd fod yr adduned o'r un teilyngdod, bydded amgylchiadau y sawl a'i gwnelo y peth y byddont. *Yn ail*, nid yw yn weddus i gyfrif y rhai a wnaent addunedau fel y cyfrifwn ni gaeth-weision, y rhai a brisir yn ol eu prydferthwch, eu corpholaeth hardd, neu eu hiechyd da. Y *trydydd* a'r prif reswm yw hwn, fod cyfartalwch amgylchiadau, yr hyn a ddiystyrir gan ddynion, yn cael ei gyfrif a'i ystyried gan Dduw.

Y mae Moses yn llefaru yn mhellach am amrai fath o *gorbanau* neu gyflwyniadau a wneid gan yr Hebreaid, o ryw ran o'u tiroedd, yr hyn a brynid yn ol drachefn; neu os o anifeiliaid y byddai, sancteiddid hi yn y dull gosodedig gan y deddfroddwr, Lef. xxvii. 9, 10, &c. Pan y byddai dyn wedi cyssegru ei holl feddiannau, yr oedd yn waharddedig iddo wneuthur defnydd o ddim o honynt: os byddai y cwbl a ddylasai efe roddi i'w wraig, neu i'w dad a'i fam, wedi ei gyhoeddi yn *gorban*, ni oddefid yn mhellach iddo ganiattau iddynt eu cynnaliaeth angenrheidiol. Yr oeddynt hwy a rwymasent eu hunain â diofryd, yn Actau yr Apostolion, na fwyttaent ac nad yfent nes iddynt ladd Paul, mewn rhyw ystyriaeth, yr gwneud pob peth a berthynai iddynt yn *gorban*. Yr oedd y meibion a goffeir yn yr efengyl, y rhai a ddywedasant fod pob peth yn *gorban* a allai fod yn gynnorthwyol at gynnaliaeth eu tad neu eu mam, wedi eu cyffroi i gyflawni y creulonder hwn gan ryw ryferthwy o lidiogrwydd yn unig; o herwydd, pe gwnaethent felly o gybydd-dod, pa beth a allasent ennill trwy gyflwyno hyny i Dduw ag a nacaent i'w rhieni? Eithr, heb ei gyflwyno i Dduw, yr oeddynt yn foddlon trwy ddywedyd wrthynt i bwy yr oedd yn ddyledus, mai *corban* oedd, ac nad allent hwy gael cyfran ynddo.

I'r dyben o rwyddhau yr arferiad o'r addunedau hyn, y rhai oeddynt mor wrthwynebol i gariad a chrefydd, neu yn bytrach er mwyn cadarnhau ac ychwanegu ysbryd coelgrefyddol yn y bobl, nid oedd y dysgawdwyr Iuddewig yn gofyn iddynt gael eu traethu yn y dull mwyaf ffurfiol; nid oedd o bwys mawr pa un a wneid cymmaint â chrybwyll am y gair *corban*, er fod hyn, gan mwyaf, mewn arferiad, os dywedid rhywbeth a allai ddyfod yn agos at ei ystyr. Y rhai hyn ydynt addunedau,

er yn anmherffaith, felly, o ran y geiriau o honynt, a eilw y Talmudiaid *dyrntolion;* o herwydd fel y mae yn ddigon i gymmeryd llestr erbyn ei ddyrntol i'r dyben i'w gyfodi i fynu, felly, er gwneud adduned yn gyflawn, y mae yn ddigon llefaru unrhyw air a fyddo ynddi; ac os dywedai neb, *Bydded hwnfel.y deml i mi,* neu *fel yr allor,* neu *fel y tân,* neu yn ddiweddaf, *fel yr aberth,* nid oedd y peth i'w adael heb ei gyflawni. Caniattaent hyd yn nod i ddyledwyr dwyllo eu hechwynwyr, trwy gyssegru eu dyled i Dduw, megys pe buasai y peth yn eiddynt hwy ac nid eu hechwynwyr.

Corban a arwydda hefyd trysorfa y deml, yn yr hon y cedwid yr arian a offrymid at wasanaeth y deml. Pan gymmerodd henuriaid yr Iuddewon yr arian a daflasai Judas yn y deml, petrusasant eu bwrw yn y drysorfa, o blegyd eu bod yn werth gwaed; ac yr oedd offrwm o'r fath natur â hyn, yn cael ei gyfrif yn afian. Penderfynasant, gan hyny, i bwrcasu maes â hwynt, i fod yn gladdfa dyeithriaid.

CORIANDER. Planhigyn sydd â'i ffrwyth yn fath o rawn cryuion, yn cynnwys dau hedyn hanner-crwn, o arogl dymunol, ac yn archwaethu yn beraidd. Cyfrifir hwy yn feddyginiaeth ddefnyddiol mewn clefydau gwyntog, a'r doluriau yn y pen a achlysurir ganddynt. Y maent hefyd yn ddefnyddiol i attal y llediewigwst a darymred y gwaed, ac i wasgaru y mânwynuau. Gallai y manna fod fel *had coriander,* o ran ei lun: gan fod y ddau hedyn yn nghyd o ddeutu maintioli pisen, gydag arwyneb llyfn; eithr os yw Moses yn meddwl fod y manna fel had *gad* (yr Heb. am *coriander)* o ran gwyndra ei liw, rhaid mai rhyw blanhigyn arall a feddylir wrth *gad;* o herwydd llwyd yw had coriander, Exod. xvi. 31.

CORINTH, *(llawnder)* prif ddinas Achaia, yn sefyll ar yr *Isthmus,* neu lain o dir sydd yn gwahanu Peloponnesus neu y Morea, oddi wrth Attica o du y gogledd, Lecheum o du y gorllewin, a Cencrea o du y dwyrain, y rhai oeddynt borthladdoedd a maes-dref pellenig yn perthyn iddi. Dywedir iddi gael ei hadeiladu gan *Sisyphus,* taid *Ulysses,* o ddeutu A. M. 2400; eithr os efe oedd ei sylfaenydd, tebygol iddi gael ei hadeiladu 500 o flyneddoedd yn ddiweddarach, yn nyddiau Solomon. Yr oedd twr Corinth, yr hwn a adeiladwyd ar graig anoresgynadwy bron, yn gwneuthur y lle yn dra chadarn; a'i sefyllfa rhwng dau for Groeg, yn peri ei bod yn dra nodedig am olud. Cyfoeth a arweiniodd i mewn falchder, trythyllwch, ac anlladrwydd, i raddau rhyfeddol. Yr oedd ymwerthiad y gwragedd i gyflawni y putteindra mwyaf ffiaidd a chyhoeddus, yn gwneud i fynu ran o addoliad Venus, eu duwies; nid oedd dim llai na mil o butteiniaid wedi eu cyssegru i'r un deml. Hyd o ddeutu A. M. 3200, neu yn ddiweddarach, llywodraethid y Corinthiaid gan freninoedd; ac, am lawer o oesoedd wedi hyny, gan bendefigion. O ddeutu A. M. 3724, cydsyniodd y ddinas hon â chynghrair Achaia. *L. Mummius,* y prif-swyddog Rhufeinaidd, wedi ei gyffroi yn ddirfawr o herwydd i'r Corinthiaid anmharchu ei gennadau, y rhai, ar ol goresgyniad gwlad Groeg, a orchymynasent ddiddymu y cynghrair hwnw, yn A. M. 3858, a ynnillodd eu dinas ac a'i llosgodd yn ulw; y lluaws delwau o wahanol feteloedd a doddwyd ac a gydredasant yn y cynneu hwn, a wnaent yr byn a elwir *pres Corinth,* yr hwn a gyfrifir yn werthfawrusach nag aur. Yn nghylch 46 o flyneddoedd cyn Crist, ailadeiladwyd y ddinas hon gan Julius Cæsar, a phoblogwyd hi â threfedigaeth Rufeinig. Daeth yn fuan yn un o'r dinasoedd harddaf yn nhir Groeg.

Yn nghylch A. D. 52, pregethodd Paul yndd am 18 mis gyda llwyddiant mawr, ac, yn nghanol erlidigaeth nid bychan oddi wrth yr Iuddewon, a blannodd eglwys Gristionogol yno, yr hon sydd wedi parhau, fwy neu lai, hyd yr amseroedd presennol. Yn fuan ar ol ei ymadawiad oddi wrthynt, yn A. D. 54, ymddengys iddo ysgrifenu llythyr caredig attynt, yr hwn nid oedd wedi ei roddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd yn awr wedi ei golli, 1 Cor. v. 9. 2 Cor. x. 10, 11. Cymmerodd amrywiol ymraniadau ac ymbleidiau le yn fuan yn eu plith; rhai yn cymmeryd arnynt fod yn ganlynwyr i Paul, ereill i Petr, ereill i Apolos, ac ereill, gan honni mwy manylwch, yn dy-

wedyd eu bod yn eiddo Crist. Efe, gan hyny, trwy ysbrydoliaeth Duw, a ysgrifenodd attynt lythyr helaeth; yn yr hwn y mae yn ceryddu eu hymraniadau; yn amddiffyn ei swydd a'i ymarweddiad ei hun; yn eu cyfarwyddo pa fodd i esgymmuno y godinebwr; yn eu rhybuddio i ochelyd ymgyfreithio ger bron swyddogion Paganaidd, yn erbyn tramgwyddo eu gilydd, aflendid, annhrefn yn eu priodasau, neu roddi tramgwydd trwy fwytta pethau wedi eu haberthu i eilunod. Y mae yn eu cyfarwyddo i roddi cynnaliaeth addas i'w bugeiliaid ffyddlon; a pha fodd i ddwyn yr addoliad cyhoeddus yn mlaen, yn enwedig swpper yr Arglwydd, gyda pharch a threfn dyledus; a pha fodd i geisio ac arfer doniau ysbrydol; yna y mae yn egluro ac yn amddiffyn athrawiaeth yr adgyfodiad yn helaeth, yr hon yr oedd rhai yn ei hammeu, neu yn ei gwadu; ac yn eu cyfarwyddo pa fodd i barottoi casgliad i'r Cristionogion tlodion yn Judea. Cafodd y llythyr hwn effaith dda iawn arnynt. Yr apostol, gan hyny, a ysgrifenodd un arall attynt, yn yr hwn y mae yn egluro iddynt sylwedd, gogoniant, a thueddiad yr efengyl; yn rhoddi iddynt gyfarwyddiadau i dderbyn y godinebwr, yn awr ar ei ddyfodiad yn ddigon edifeiriol; yn gwasgu arnynt am ddarparu eu casgliad i'r saint yn Judea; a chyda hyder nid bychan, yn llefaru yn erbyn ei wrthwynebwyr drygionus, ac yn amddiffyn nodau ei apostoliaeth. Act. xviii. 1—17.

Yn nghylch A. D. 268, llosgodd yr Heruliaid Corinth yn ulw. Yn A.D. 525, dinystriwyd hi drachefn bron yn llwyr gan ddaeargryn. Yn nghylch A. D. 1180, Roger, brenin Sicily, a'i hennillodd ac a'i banrheithiodd hi. Er A. D. 1488, y mae wedi bod, gan mwyaf, dan lywodraeth y Tyrciaid; ac mor adfeiliedig, fel nad yw ei thrigolion yn dyfod i ddim ychwaneg nag o ddeutu 1500, un hanner o honynt yn Fahometaniaid, a'r hanner arall yn Gristionogion, gydag archesgob yn flaenor arnynt.

CORLAN, *(caeor* dafad, a *llan)* t§, neu gaeadle bychan i'r praidd gyd-orphwys, liw nos neu ar hanner dydd, Esa. xiii. 20. Y wlad y bo cenedl yn ei meddiannu, ac yn cydrigo ynddi, a elwir eu *corlan*, Jer. xxiii. 3. Eglwys ac ordinhadau Crist ydynt fel *corlan*: yno y mae ei ddefaid neu ei bobl yn ymgasglu; y maent yn myned i mewn trwyddo ef, fel eu drws; ac yn cael eu dwyn i undeb agos â'u bugail, ac befyd i gymdeithas felus, ac adfywiad hyfryd, a chyd-orphwys, a chael eu hamgylchynu gan ei amddiffyniad a'i gyfreithiau; a bydd i'r drefn bresennol o eglwys ac ordinhadau gael ei chymmeryd ymaith yn fuan, Ioan x. 1. Bu yr Iuddewon a'r Cenedloedd unwaith mewn dwy gorlan wahanol; ond y mae y mur gwahaniaethol o ddefodau wedi ei dynnu ymaith, a'r ddau wedi dyfod yn un, Ioan x. 16. Ezec. xxxiv. 14.

CORN; gan mai â'u cyrn y mae anifeiliaid yn gwthio eu gelynion ac yn amddiffyn eu hunain, y mae *cyrn* yn arwydd-lun o allu ac awdurdod. *Cyrn* Joseph fel cyrn unicorn, a arwyddant fod awdurdod a llwyddfaeth ei hiliogaeth, yn llwyth Manasseh ac Ephraim, yn fawr a galluog iawn, Deut. xxxiii. 17. Y mae yr annuwiolion yn *derchafu eu cyrn*, pan fyddont yn ymffrostio yn ben-uchel am eu gallu a'u hawdurdod, ac yn bygwth dinystrio ereill: ac y mae eu *cyrn yn cael eu torri*, pan gymmerir eu gallu a'u hawdurdod oddi arnynt, Salm lxxv. 4, 10. Jer xlviii. 25. *Corn* Hannah a dderchafwyd, pan yr anrhydeddodd yr Arglwydd hi mor fawr â rhoddi iddi blentyn i fod yn llywodraethwr yn Israel, 1 Sam. ii. i. Derchafwyd *corn* Dafydd fel corn unicorn, pan dderchafwyd ei deyrnas yn uchel, ac y sefydiwyd ei awdurdod; a phan oedd ei enaid wedi cynnyddu yn ardderchog mewn gras a chyssur, Salm xcii. 10. Dafydd yn cael ei enneinio â *chorn-aid* o olew, pan nad oedd Saul yn cael ei enneinio ond â phiolaid, a allai fod yn nodi helaethrwydd doniau a chadernid llywodraeth Dafydd goruwch eiddo Saul, 1 Sam. x. 1, a xvi. 1. Duw ydyw *corn iachawdwriaeth* ei bobl; trwy ei allu a'i awdurdod, y mae efe yn eu diogelu ac yn eu hachub, yn gwthio ac yn dinystrio eu gelynion, 2 Sam. xxii. 3. Salm xviii. 2. *Cyrn* yr allor oeddynt yn gosod allan awdurdod yr Iesu, a'i allu i achub pechaduriaid o bob cwrr o'r ddaear; ac mewn cyfeiriad at hyn, gelwir ef *corn iachawdwr-*

iaeth, 1 Bren. ii. 28. Luc i. 69; a bod ganddo *saith gorn*, a arwydda perffeithrwydd ei allu a'i awdurdod, Dad. v. 6. Y *cyrn* oeddynt yn dyfod allan o law Duw, yn mha rai yr oedd *cuddiad* ei gryfder ef, ydynt beleidr y dyscleirdeb gogoneddus oedd yn ei ganlyn wrth fynydd Sinai, a'r amlygiadau nerthol o'i allu, yn mha rai ni chafodd ei gadernid ei ddangos er hyny ond mewn rhan, Hab. iii. 4.

Y mae *cyrn* hefyd yn arwyddocau breninoedd a theyrnasoedd; *dau gorn* hwrdd gweledigaethol Daniel, ydynt unol freniniaethau Media a Phersia: *corn hynod* ei fwch geifr rhwng ei lygaid, yw Alexander, brenin cyntaf holl wlad Groeg, yn nghanol ei dywysogion cyfrwys: y *pedwar corn* yn dyfod ar ei ol, yw y pedair teyrnas i ba rai y dosparthwyd yr amherodraeth Roegaidd ar ol ei farwolaeth, sef yr Aipht, Syria, Thracia, a Groeg; y *corn bychan* a ddaeth allan o honynt, yw Antiochus Epiphanes, yr hwn, o ddechreuad gwael a dirmygus, a gyfododd i gymmaint o awdurdod, ac a wnaeth gymmaint o ddrwg yn yr Aipht a Judea; neu Anghrist, Dan. viii. *Deg corn coronog* amherodraeth Rhufain, ac Anghrist, yw y *deg bys*, neu freniniaeth, i ba rai y rhanwyd amherodraeth Rhufain yn y diwedd, a thros ba rai yr estynodd y Pab ei awdurdod, Dad. xii. 3, a xiii. 1, a xvii. 3, 7, 12. Y *pedwar corn* a wasgarasant Judah, oeddynt eu gelynion o bob parth, yn enwedig yr Ammoniaid, yr Arabiaid, y Samariaid, y Philistiaid, a'r Syro-Groegiaid, Zech. i. 21.

CORNCHWIGL *(corn-chwigl)*. Barna *Calmet* mai y cornicill a feddylir wrth y gair Hebrëig *Duchiphath*, yr hwn sydd aderyn o ddeutu maintioli bronfraith. Ei gylfin sydd hir, du, teneu, a lled gam. Y mae ganddo dusw o blu ar ei ben, yr hwn a gyfyd neu a ostwng wrth ei achlysur. Ei goesau ydynt lwydion a gofyrion; ei wddf a'i ddwyfron yn gochaidd; ei esgyll a'i gynffon yn dduon, gyda rhesau gwynion arnynt: ei esgyll yn lled grynnion; a'i ehediad yn araf. Yn y gwledydd gogleddol, nid ydynt i'w gweled ond o amgylch tri mis yn y flwyddyn; yn ystod y rhan arall o honi, tebygol eu bod yn symmud i ryw barthau cynnesach. Ei lun sydd hardd-deg, ond ei lais yn gryglyd ac anmheraidd. Y mae yn nythu yn gyffredin mewn hen adeiladau, neu ar finion ffyrdd. Ereill a feddyliant mai y *Tringa* bronddu, gyda chrib neu dusw crogedig ar ei ben, yw yr aderyn hwn. Aderyn hardd ydyw o ddeutu maintioli colommen, ac yn gyffredin iawn mewn gwledydd corsog trwy y rhan fwyaf o Europe. Ar bob troed, y mae ganddo bedwar bys, wedi eu cyssylltu yn nghyd fel eiddo hwyad. Y mae yn gyfrwys iawn i lithio dynion, neu gŵn, ymaith oddi wrth ei nyth, Lef. xi. 19. Deut. xiv. 18.

CORNELIUS. *(peleidr yr haul)* canwriad yn perthyn i'r fyddin Italaidd. Er mai cenedl-ddyn trwy enedigaeth oedd efe, wedi tarddu, tebygol, o'r *Cornelii* yn Rhufain, etto yr oedd yn ŵr defosiynol, ac, hwyrach, yn broselyt y porth i'r grefydd Iuddewig, ac yn trigo yn Cesarea. Tra yr oedd yn gweddio yn ddifrifol ac yn ymprydio, ymddangosodd angel iddo, a dywedodd wrtho fod ei weddiau a'i elusenau wedi dyfod yn goffadwriaeth ger bron Duw; gorchymynodd iddo anfon i Joppa am Simon Petr, fel y derbyniai, oddi wrtho ef, gyfarwyddiadau pellach am drefn yr iachawdwriaeth. Yn ddiattreg, anfonodd ddau o'i weision i gyrchu Petr. Yr oedd Petr wedi ei barottoi erbyn eu gwahoddiad hwy, trwy weledigaeth o greaduriaid cymmysg, wrth yr hwn beth yr arwyddid iddo fod Duw wedi dewis iddo ei hun bobl o fysg y Cenedloedd; ac na ddylai, gan hyny, wneuthur dim petrusder yn nghylch pregethu yr efengyl iddynt, neu eu derbyn yn aelodau o'r eglwys Gristionogol; efe, gan hyny, trwy gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân, a aeth gyda'r gweision, a thranoeth, o ddeutu hanner dydd, a ddaeth i dŷ Cornelius, yr hwn oedd, yn nghyd â nifer o'i weision, yn disgwyl am ei ddyfodiad. Ymddengys i Cornelius dybied mai y Messiah oedd Petr, ac felly syrthiodd wrth ei draed i'w addoli; eithr gwaharddwyd hyny iddo yn fuan, trwy i Petr ei gyfodi i fynu, a mynegu iddo nad oedd efe ond dyn yn unig. Gwedi i Cornelius adrodd wrth Petr pa fodd y daethai i anfon am dano, a'i fod ef a'i gyfeillion wedi ymgasglu i glywed gair Duw, Petr a'u llonodd hwy âg ymadrodd rhagorol am Iesu y Messiah,

mewn perthynas i'w wyrthiau, dyoddefiadau, adgyfodiad gogoneddus, a'i ddigonolrwydd i wared oddi wrth bechod: yn y cyfamser, er mawr syndod i ganlynwyr Iuddewig Petr, syrthiodd yr Ysbryd Glân, yn ei ddylanwadau gwyrthiol, ar Cornelius a'i gyfeillion Cenedlig, a hwy a lefarasant â thafodau. Ar gynnygiad Petr, bedyddiwyd hwy yn ddiattreg. Cadwodd Cornelius Petr gydag ef dros rai dyddiau. Ar y cyntaf, tramgwyddodd y credinwyr yn Jerusalem am ei fod yn bedyddio y Cenedloedd; eithr, wrth glywed yr holl amgylchiadau, hwy a ogoneddasant Dduw am iddo ganiattau iddynt ffydd ac edifeirwch. Hwn oedd y cynnulliad hynod cyntaf o'r Cenedloedd at Grist; ac hwyrach, i'r deyrnwialen ymadael o Judah, yn gywir yn yr amser hwn, Act. x. a xi. Gen. xlix. 10.

CORNET, math o chwyth-offeryn wedi ei wneuthur o gorn, neu y cyfflelyb, i seinio mewn rhyfel, neu mewn cyssegr-wyliau; eithr gan fod y gair Heb. *shophar* yn cael ei gyfieithu yn gyffredin udgorn, nis gwyddom pa ham y cyfieithir ef byth *cornet*, neu *gorn*, Hos. v. 8; eithr cyfieithir *ceren* neu *carnah* yn briodol iawn *cornet*, Dan. iii. 5, 7, 10.

CORNWYD, *(corn-chwydd)* llynnor, gweli crawnllyd. Dolur poenus yn gwynio ac yn poethi yn erwin, ydyw, Exod. ix. 9, 10, 11. Lef. xiii. 18, 19. Deut. xxviii. 27, 35.

CORON, *(cor*, neu coryn y pen) 1. Math o gappan anrhydeddus a wisgir ar y pen gan freninoedd, ac amherawdwyr, i arwyddo eu mawrhydi a'u hawdurdod, 1 Cron. xx. 2. Mewn cyfeiriad at hyn, coronwyd ein Hiachawdwr bendigedig â drain, Ioan xix. 5. 2. Cappan a roddid yn wobr i un a fuasai fwyaf ymdrechgar i gymmeryd dinas, ennill brwydr, camp, neu ddadl. Nid oedd y cyfryw goronau yn fynych ddim amgen na changau o balmwydd, olew-wydd, lawryf, eiddiorwg, &c. 1 Cor. ix. 25. (3.) Math o gappan a wisgid gan feibion a merched ar ddydd eu dyweddi, yr hwn, ymddengys, a osodid am eu pennau gan eu mam, Can. iii. 11. (4.) Y llinyn hwnw o sidan glas â pha un y sicrhai yr archoffeiriad ei feitr ar ei ben, ar ddalen euraidd yr hwn yr oedd wedi ei naddu *Sancteiddrwydd i'r Arglwydd*, Exod. xxviii. 36, a xxix. 6. (5.) Unrhyw beth a fyddo yn ychwanegu anrhydedd da gogoniant un. Felly yr oedd yr Arglwydd yn *goron gogoniant*, ac *goron ardderchogrwydd* i Judah, yr oedd efe yn eu hamddiffyn, yn eu derchafu, ac yn eu diwygio hwynt, pan oedd y deg llwyth wedi cael eu dwyn i gaethiwed, Esa. xxviii. 5, a 2 Cron. xxix.—xxxii. Yr eglwys sydd yn *goron gogoniant*, ac yn *dalaeth freninol* i Dduw; ynddi, y mae ei ogoniant, ei allu, a'i awdurdod ef yn cael eu dangos yn eglur, Esa. lxii. 3. Zech. ix. 16. *Coron aur* Crist, a'i *goronau lawer*, yw y gallu, yr awdurdod a'r gogoniant cyfryngol a roddwyd iddo gan ei Dad; ei amrywiol fuddugoliaethau a'i arglwyddiaeth uchel, a'r priodoliad o bob mawl ac anrhydedd iddo, gan ei fam, sef yr eglwys, Salm cxxxii. 18. Dad. xix. 12. Can. iii. 11. *Coron* yr eglwys o *ddeuddeg seren*, yw athrawiaethau nefol, goleu, a hyfforddiadol y prophwydi a'r apostolion, y rhai ydynt yn anrhydedd iddi, ac yn nodau o'i sefyllfa freninol, a'i phriodas â Christ, Dad. xii. 1. Y saint ydynt yn *goron* i'w gweinidogion; maent yn addurn ac yn anrhydedd i'w llafur, Phil. iv. 1. 1 Thes. ii 19. *Coron gogoniant*, *bywyd*, a *chyfiawnder* y saint, yw y cyfiwr breninol a gwir anrhydeddus hwnw o ogoniant, bywyd, a sancteiddrwydd, a roddir iddynt trwy gyfiawnder Iesu Grist, Dad. iii. 11, a ii. 10. 1 Petr. v. 4. 2 Tim. iv. 8. Y saint ydynt yn *bwrw eu coronau* ger bron gorsedd-faingc Duw: y maent yn dibrisio eu hunain, a'r hyn oll a feddant, mewn cymhariaeth âg ef; ac yn priodoli eu holl gynhaliaeth, sancteiddrwydd, a dedwyddwch i Grist, ac i Dduw ynddo ef, Dad. iv. 4, 10. Gwraig dda sydd yn *goron*, yn anrhydedd, ac yn achos o gyfoeth a gallu i'w gwr, Diar. xii. 4. Felly y mae plant yn *goron* i'w rhieni, Diar. xvii. 6. *Coron anrhydeddus* yw penllwydni: sef arwydd anrhydeddus o ddoethineb ac awdurdod, Diar xvi. 31, a xx. 29. Cyfoeth sydd *goron* i'r doethion, am ei fod yn ennill iddynt, ac yn eu gosod allan yn anrhydeddus, Diar.

xiv. 24. Y mae anrhydedd, cyfoeth, ac awdurdod, yn cael eu galw yn *goron*, Diar xvii. 6, a xxvii. 4, a iv. 9.

Y *goron hardd*, a roddwyd i'r Iuddewon yn eu cyfammod priodasol â Duw, yr hon a syrthiodd oddi am eu pen yn eu caethiwed, oedd eu henwogrwydd anrhydeddus, eu cyfoeth gogoneddus, a threfn a llywodraeth hardd eu heglwys a'u gwladwriaeth, Ezec. xvi. 12. Galar. v. 6. *Coronau y locustiaid*, dan y pummed udgorn, a arwyddant ogoniant allanol, gallu, ac awdurdod y Saraceniaid yn y dwyrain, a'r offeiriaid Pabaidd yn y gorllewin; a gallant fod yn nodi hefyd gapiau y Saraceniaid wedi eu ffurfio fel *coronau*, a meitrau a chwccyllau aelodau eglwys Rhufain, Dad. ix. 7. *Saith goron* y ddraig goch, ydynt y saith ffurf o lywodraeth a sefydlwyd olynoi yn Rhufain, sef breninoedd, prif gynghoriaid *(consuls)*, *dictators*, dengwriaid *(decemvirs)* tribuniaid, amherawdwyr, breninoedd Paganaidd, Cristionogol, a Gothaidd, neu raglywiaid; ac hefyd, gogoniant mawr y wladwriaeth honno, Dad. xii. 3. *Deg coron* y bwystfil Anghristaidd, ydynt awdurdod a llywodraeth y Pab ar holl ogoniant y deg teyrnas wahanol a ffurfiwyd o amherodraeth Rhufain yn y gorllewin, Dad. xiii. 1.

Coroni a arwydda (1.) Gosod coron ar ben un, 2 Tim. ii 5. (2.) Amddiffyn, cyfoethogi, anrhydeddu, Salm lxv. 11. a ciii. 4. Rhai *coronog* Assyria oeddynt fel locustiaid; eu tywysogion a'u gwyr mawrion oeddynt yn dra lluosog, Nah. iii. 17. Tyrus a elwir yn ddinas *goronog*, o herwydd ei llywodraeth freninol, ei gogoniant mawr, ei hawdurdod, a'i chyfoeth goruwch ereill, Esa. xxiii. 8.

CORPH, sydd naill ai anianol neu ysbrydol. Corph dyn, yn ei gyflwr presennol, a elwir yn *gorph anianol*, i'w wahaniaethu oddi wrth y corph *ysbrydol* a gyfodir yn adgyfodiad y meirw, canys ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Duw. Gelwir halogedigaeth dyn yn *gorph pechod a marwolaeth*. Trwy ddyfodiad pechod i mewn, halogwyd pob cynneddf ac egwyddor mewn dyn; felly dywed Ioan fod y cwbl ag sydd yn y byd yn gynnwysedig yn chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd: trwy weithrediad y chwantau hyn, y mae llygredd yn trigo ynom; am hyny, medd Paul, "Mi a wn nad oes ynof fi (hyny yw, yn fy nghnawd) *ddim* da yn trigo;" ac o herwydd hyn yr oedd yn cael *deddf* yn ei aelodau yn rhyfela yn erbyn ei feddwl, Rhuf. vii. 18. Rhaid i gorph anianol dyn farw, o herwydd pechod, eithr ei ysbryd a fydd byw, o herwydd y cyfiawnder dwyfol. Canlyniad yr holl bechod a'r llygredd sydd mewn dyn, yw marwolaeth; ac effaith cyfiawnder Crist, yw yr adgyfodiad oddi wrth y meirw; trwy un dyn y mae yr adgyfodiad. Effaith pechod sydd yn myned ar bawb, sef bod y corph yn cael ei ddarostwng i lygredigaeth; eithr y mae yr Arglwydd o'r nef yn dyfod i'r dyben gogoneddus o gyfnewid ein cyrph gwael ni i gyffelybiaeth ei gorph gogoneddus ef. Y mae yn dychwelyd i lygredigaeth, caiff ei gyfodi mewn anllygredigaeth, &c. Gwel 1 Cor. xv. yn helaeth ar y pwngc hwn. Ni wyddom beth a fyddwn, neu natur y corph ysbrydol; eithr ni a wyddom y byddwn yn gyffelyb i Fab Duw, yr hwn sydd yn ymddangos yn awr fel *Mab* gogoneddus y *Dyn*, hyny yw, wedi ei ogoneddu yn y natur dynol. Yr ydym yn darllen am *gorph cnawd Crist*, Col. i. 22, sef y corph hwnw am ba un y dywedodd efe, "Hwn yw fy *nghorph*, yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch. Y corph a ddodwyd mewn lle glân o'r tu allan i'r gwersyll, yr hwn ni welodd lygredigaeth. Hwn oedd y corph a ddarparwyd iddo yn mru y wyryf, trwy weithrediad rhyfeddol yr Ysbryd Glân. Y corph a gynnyddodd mewn doethineb a maintioli: y corph y poerwyd arno, a ffiangellwyd, a hoeliwyd wrth y groes, a wânwyd â gwaywffon, ac a dynnwyd yn farw i lawr oddi ar y groes. Yn ddiweddaf, hwn yw y corph a gyfododd o'r bedd ar fore y trydydd dydd, yn yr hwn yr escynodd i'r nefoedd. "Teimlwch fi, a gwelwch: canys nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod gennyf fi," Luc xxiv. 39. Y mae corph arall o eiddo Crist yn cael son am dano, sef ei eglwys, yr hon yw ei gorph, cyflawnder yr hwn

sydd yn cyflawni oll yn oll. Aelodau ydym o'i *gorph* ef, o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef, Eph. i. 23, a v. 30. Yn y cwbl, a adroddir i ni am deml, neu gorph anianol Mab Duw, yr hon a ddinystriwyd, ac mewn tridiau a adeiladwyd drachefn, y mae darlun hynod o'r hyn a berthyn i'w gorph, sef yr eglwys. Am y corph hwnw yn unig y gellir deall yr iaith nodedig a arferir yn Salm cxxxix. 13—17. Holl aelodau ei eglwys oeddynt yn ysgrifenedig yn ei lyfr, pan nad oedd yr un o honynt etto. Eu bod yn cael eu cenedlu drachefn, sydd yn waith rhyfeddol o eiddo Duw. Cystuddiau corph Crist ydynt yn amrywiol; y maent yn myned i'w deyrnas trwy lawer o orthrymderau. Ynddynt hwy y mae arwyddocâd mawr y rhan honno o'r ysgrythyr yn cael ei amlygu, "ni thorrir asgwrn o hono," Ioan xix. 36, yr hon a'i chymharu â Salm xxxiv. 20, a'n tywys ni i feddwl am y gofal graslawn a gymmer y Pen am ei holl aelodau, yn yr holl ddamweiniau a ddygwyddant iddynt. Yn ddiweddaf, gan i gorph anianol Crist gael ei gyfodi, y mae hyn yn ernes sicr o adgyfodiad ei holl waredigion. Holl eglwysi bychain Crist ydynt yn ddarluniadau o'i gorph a'i deml ef, yn unig cyn belled ag y maent yn derbyn eu holl gynhaliaeth ysbrydol oddi wrth y Pen, ac yn cael eu huno â'u gilydd megys un corph trwy y gwirionedd; gan gynnyddu mewn cariad atto ef, yn mhob peth, yr hwn yw y Pen, sef Crist. *Corph* Moses, am yr hwn yr ymddadleuodd y diafol, ydyw naill ai ei gorph naturiol, claddiad dirgelaidd pa un a wrthwynebodd Satan; neu ei seremoniau, diddymiad a newidiad pa rai, dan yr efengyl, a ymdrechodd efe yn wresog i'w dwyn i ben, Judas 9. *Corph y nefoedd* o ddyscleirdeb, yw wyneb gloyw-las digymmylau yr wybr, yn nghyd â'r sêr aneirif a wreichionant yn ysplenydd ynddo, Exod. xxiv. 10. Pechodau ereill ydynt *oddi allan i gorph* dyn; hyny yw, nid yw y corph ond offerynol ynddynt yn unig, ac nid yn wrthddrych iddynt; ond y mae godineb yn *bechod yn erbyn y corph*; y corph yw'r offeryn ynddo, a'r gwrthddrych a halogir trwyddo, 1 Cor. vi. 18.

CORSEN—AU. Y maent yn tyfu mewn lleoedd corsog a dyfrllyd, ac yn wahanol iawn yn eu rhywiogaethau. Nid yw y cyrs cyffredin yn ein gwlad ni o wasanaeth mawr, oddi eithr i doi tai. Y mae papurgyrs yr Aipht, y sugr-gyrs, a chyrs yr Hispaen o ba rai y ffurfir ffyn a pheithynau gwehyddion, yn llawer mwy eu gwerth. (1.) Ffon wedi ei gwneuthur o gorsen; y cyfryw un a roddwyd, mewn ffordd o wawd, yn llaw ein Hiachawdwr, yn lle teyrnwialen; ac â hon yr estynasant yr yspwng, yn llawn o winegr a bustl iddo pan oedd ar y groes, Mat. xxvii. 29, 30, 48. (2.) Mesur o chwe chufydd, neu 11 o droedfeddi, a 2,328 o fodfeddi, Ezec. xl. 3, 5. Crist nis *tyrr y gorsen ysig*, ac *nis diffydd y llin yn mygu*; pa fodd bynag yr ymddangosai ei eglwys yn y byd hwn mewn llawer o wendid, fel mwg llin ar ddiffodd, neu gorsen mor ysig fel y drylliai y cyffyrddiad lleiaf hi, efe a'i cynnal ac a'i cynnorthwya nes y dygo allan farn i fuddugoliaeth, Esa. xlii. 3. Mat. xii. 20. Mewn cyfeiriad at amlder y cyrs oeddynt yn tyfu yn yr Aipht, cyffelybir yr Aiphtiaid a'u brenin i *ffon gorsen*, a *chorsen ddrylliedig*, i ddynodi eu hanalluogrwydd i gynnorthwyo Israel, a'u parodrwydd i'w niweidio, yn nghyd â phawb ereill a ymddiriedent ynddynt am nodded a chynnorthwy, Esa. xxxvi. 6. Ezec. xxix. 6. Deg llwyth Israel oeddynt wedi eu *taro fel corsen*, pan daflwyd hwy yn ol ac yn mlaen o ran eu cyflwr allanol, gan nerth barnedigaethau Duw arnynt, 1 Bren. iv. 15. Nid *corsen yn ysgwyd gan wynt* oedd Ioan Fedyddiwr, nid oedd yn ansefydlog yn ei athrawiaeth neu ei ymarweddiad, ond yn ddiauwadal ac yn ddiysgog yn tystiolaethu am Grist, mai efe oedd y gwir Fessiah addawedig, ac yn dylyn llwybr o sancteiddrwydd manwl, yn wyneb tymestloedd o brofedigaethau, Mat. xi. 7. Luc vii. 24. Y *gorsen fesur* yn ngweledigaeth Ezeciel ac Ioan, a arwydda gair Duw, yn ol pa un y dylai pob peth perthynol i'r eglwys gael ei gyfaddasu; neu y byddai i ragluniaeth Duw, eu nodi a'u hamddiffyn gyda manylrwydd mawr, Ezec. xl. 3, a xlii. 16. Dad. xi. 1, a xxi. 15. *Cyrs Babilon oeddynt wedi eu llosgi â thân*; naill ai yr

oedd y rhai a dyfent ar lan yr afon Euphrates wedi eu hamddifadu o'u gwlybaniaeth pan drowyd y ffrwd o'r neilldu, neu yr oeddynt hwy, neu y rhai a dyfent ar benau y tai, wedi eu llosgi gan y Persiaid, Jer. li. 32.

CORTYN. Yr oedd y babell yn cael ei galw *cortynau*, gan roddi rhan dros y cyfan, 2 Sam. vii. 2. 1 Cron. xvii. 1. Fel yr oedd yr arch yn aros dan *gortynau*, neu mewn pabell, hyd nes yr adeiladwyd y deml, ac y dygwyd hi yno i'w lle trigiannol; felly yr oedd Crist, o'r hwn yr oedd yr arch yn gysgod, mewn gwaeledd a thlodi, heb le i roi ei ben i lawr, ond cael ei ymlid o fan i fan, tra yr oedd yma yn anialwch y byd, hyd nes yr escynodd i'r trigfanau fry, lle mae yn eistedd ar ddeheulaw y Tad.

CORWYNT, *(côr-gwynt)* cylchwynt, trowynt. Rhoddir amrywiol enwau ar y *corwynt*, yn cyfatteb i'w amrywiol briodoliaethau neilldu-ol; geilw yr Indiaid ef *Orancan;* a'r Tyrciaid, *Oliphant*. Y mae hwn yn aml yn y Môr Dwyreiniol, yn nghylch Siam, China, &c. ac yn peri bod morio yn y parthau hyny yn dra pheryglus. Effeithiau y *corwynt* yn y ddwy India ydynt yn ddychrynllyd iawn; yn chwythu i lawr dai; yn diwreiddio coed, ïe, coedwigau cyfain; yn gwneud ceudyllau yn y ddaear, ac yn taflu coed, cerrig, priddfeini, a'r ddaear i bob parth. Dygant ymaith y melinau gwynt mewn munud; a chodant lestri efydd trymion o amryw gannoedd o bwysau, ac a'u drylliant ac a'u eurant yn chwilfriw. Cyfodant ddyfroedd o'r môr, nes agos a dylifo y wlad. Mae yn nghymmydogaeth Mosul yn Arabia hefyd fath o gorwynt yn yr haf a eilw y trigolion *Samiel*, sef y dwyrein-wynt a sonir am dano yn Job xxxvii. 9. Y mae hwn yn gymmysgedig â thân, ac wedi pron yn angheuol i lawer o ymdeithwyr, y rhai, ar ol ei anadlu, ydynt yn syrthio i lawr yn feirw yn y fan, gan losgfëydd tufewnol, a'u cyrph mor ddued a'r glo, a'u cnawd yn syrthio oddi wrth yr esgyrn! Yr unig ffordd o ddihangfa, yw syrthio ar yr wyneb yn union pan welont ef yn dyfod; ac y maent o ddeutu glànau yr afon Tigris yn ennein'o eu erwyn âg olew neu fath o ennaint, a gwydr ar eu llygaid, i geisio ymgadw rhagddo, ond, yn fynych yn methu. Dywedir i'r *Caravan*, sef teithwyr Mahometanaidd i Mecca, golli dwy fil o eneidiau trwy y gwynt-oedd hyn, mewn un noson! Y mae gwlad y Swiss yn agored i gorwynt-oedd erchyll iawn. Y mae taranau a mellt yno mor aml yn y gauaf âg yn yr haf; a chyda y rhai hyn y mae corwyntoedd tra ofnadwy, a godant ddyfroedd o'r llynoedd yn golofnau i'r cwmmwl, ac yn dwyn gyda hwynt gorph mawr o ddwfr, ac yn discyn ar leoedd ereill, nes agos a boddi y wlad. Gelynion creulon a chryfion a gyffelybir i *gorwynt*, Esa. xxviii. 2. Dan. xi. 40. Pethau o fyr barhad a gyffelybir i *gorwynt*, Diar. x. 25. Hos. viii. 7.

COSPEDIGAETH, *(cy-osp)* a arwydda pa beth bynag anhyfryd a osodir ar un am ei feiau, pa un bynag ai mewn ffordd o ddigofaint priodol, neu o gerydd caredig, Galar. iii. 39: ond, pan ei cymmerir yn briodol, arwydda gosodiad cosp o herwydd digofaint haeddiannol, Mat. xxv. 46. Y mae hefyd yn arwyddo cerydd eglwysig, er diwygio a gwellhau troseddwyr, 2 Cor. ii. 6. Yn yr ysgrythyr cawn grybwylliad am amryw o gospedigaethau gwladol, megys (1.) *Ad-daledigaeth*, yn ol pa un yr oedd y troseddwr yn cael ei wasanaethu megys y gwnaethai gam â'i gymmydog, *clais am glais, llyg-ad am lygad, a dant am ddant*, &c.; eithr gellid cyfnewid hyn i ryw foddlondeb arall, megys arian, &c. Exod. xxi. 23, 24, 25. Deut. xix. 21. (2.) *Dirwyo* mewn rhyw gymmaint o werth neu swm o arian. Byddai yr hwn a niweidiasai wraig feichiog, ond heb beri i'w beichiogi fyned oddi wrthi, yr hwn a roddai anair i'w wraig, o herwydd anniwcirdeb cyn priodi, a'r hwn a niweidiai ei was neu ei gymmydog, yn cael ei ddirwyo, Exod. xxi. Deut. xxii. 13—19. I hyn y gellir dwyn pa gyfran bynag o'r ad-daliad oedd uwchlaw y prif gorph, Exod. xxii. Lef. xxvii.; a *dirwy* o dda at wasanaeth y brenin, Ezra vii. 26. (3.) *Fflangellu;* felly yr oedd y caethwas puteinllyd i gael ei gospi. Ond yn mysg yr Iuddewon nid oedd un byth i dderbyn uwchlaw 40 gwialennod ar y tro, Deut. xxv. 1, 2, 3. 2 Cor.

xi. 24. (4.) *Carchariad;* weithiau, yn wir, nid oedd hon yn gospedigaeth briodol; ond yn cael ei defnyddio fel moddion i ddal gafael mewn dynion; felly y carcharoddJoseph bob un o'i ddeg brawd dridiau, a Simeon lawer yn hwy, Gen. xlii. 17—24. Gosodwyd y cablwr, a'r cynnutwr ar y Sabboth, yn ngharchar, hyd nes yr hysbysodd yr Arglwydd eu cospedigaeth, Lef. xxiv. 12. Num. xv. 34. Weithiau yr oedd hon yn gospedigaeth briodol, yn enwedig pan fyddai llymderau o fath arall yn ei chanlyn. Carcharwyd a gosodwyd Joseph mewn gefynau gan Potiphar, Gen. xxxix. 20. Salm cv. 18. Carcharwyd Samson gan y Philistiaid, ac yn y cyfamser tynwyd ei lygaid, a gorfu arno falu yn eu meiin. Cauwyd ar Hosea, Manasseh, Jehoachar, Jehoiachim, a Zedeciah, yn y carchar gan eu gorchfygwyr, a thynwyd llygaid yr olaf ymaith, 2 Bren. xvii. 4. 2 Cron. xxxiii. 11. 2 Bren. xxiv. 12, a xxv. 7—27. Rhoddwyd y prophwyd a geryddodd Asa, Micaiah, Jeremiah, Petr, Ioan, Paul, &c. yn ngharchar o herwydd eu ffyddlondeb. Weithiau, byddai carchariad mewn cryn ryddid; megys pan gafodd Paul gennad i drigo yn ei dŷ ardrethol ei hun, gyda milwr oedd yn ei gadw. Rhwymau, llyffetheiriau, y cyffion, ymborth caled, &c. oeddynt yn gyffredin yn canlyn carchariad. (5.) *Tynnu y llygaid.* Dygwyddodd hyn yn achos Samson a Zedeciah, a bwriadwyd ef i drigolion Jabes-gilead, Exod. xxi. 24. Barn. xvi. 21. 2 Bren. xxv. 7. 1 Sam. xi. 2. (6.) *Torri aelodau neillduol o'r corph ymaith,* megys bodiau y traed a'r dwylaw; felly y darfu i Adonibezec wneud â 70 o'i gyd-freninoedd yn Nghanaan, ac, o'r diwedd, triniwyd yntau felly gan yr Hebreaid, Barn. i. 5, 6, 7. Torwyd dwylaw a thraed Baanah a Recab, y rhai a laddasant Isboseth, ymaith yn gyntaf, ac yna crogwyd hwynt, 2 Sam. iv. 12. (7.) *Tynu y blew ymaith,* oedd ar unwaith yn gospedigaeth warthus a phoenus iawn, Esa. l. 6; felly y cospodd Nehemiah rai a briodasent wragedd eilunaddolgar, Neh. xiii. 24. Yn Athen, wedi y tynid blew godinebwyr ymaith, gosodent ludw llosgedig ar eu crwyn hwynt. (8.) *Lladd â'r cleddyf;* felly y dïenyddiwyd Zeba, Zalmunnah, Adoniah, a Joab, Barn. viii. 21. 1 Bren. ii. 25, 34. (9.) *Croeshoeliad;* yn mha un yr oedd y troseddwr wedi ei estyn allan, a'i rwymo neu ei hoelio wrth y groes, yn crogi yno nes y trengai, Mat. xxvii. (10.) *Crogi.* Yn ol fel y dywed yr Iuddewon, nid oedd neb ond eilunaddolwyr a chablwyr yn cael eu crogi yn eu plith. Crogwyd rhai, megys Haman a'i feibion, a brenin Ai, yn fyw, Esth. vii, a'r ix. Jos. viii. 29. Torwyd pen pobydd Pharaoh yn gyntaf, ac yna crogwyd ef mewn gefynau, Gen. xl. 19. (11.) *Llabyddio yn farw,* oedd gospedigaeth gyffredin iawn. Dywedir ei bod yn cael ei harfer pa bryd bynag y byddai marwolaeth yn benyd, a'r fath o honi heb ei grybwyll; megys yn achos dynion euog o losgach, halogwyr gwragedd wedi eu dyweddio neu briodi, neu trwy drais, neu tra y byddent yn eu dyferlifau; gwrryw-gydwyr, eilun-addolwyr, cablwyr, swynwyr, dewiniaid, halogwyr y Sabboth, plant gwrthryfelgar, &c. (12.) *Llosgi yn fyw.* Y gwr a briodasai, neu a fuasai yn gydgnawd â'r fam a'i merch, neu ferch offeiriad, yr hon a butteiniasai, a gospid fel hyn, Lef. xx. 14, a xxi. 9. Felly y bwriadodd Judah gospi Tamar; ac y cynnygiodd Nebuchodonozor gospi Sadrach, Mesach, ac Abednego, Gen. xxxviii. 24. Dan. iii. 21. (13.) *Taflu dynion oddi ar ben craig,* gyda neu heb faen o amgylch eu gwddf, neu i'r môr. Tafodd Amaziah 10,000 o dywysogion Edom oddi ar ben craig, 2 Cron. xxv. 12. Cynnygiodd pobl Nazareth fwrw ein Hiachawdwr oddi ar ben craig, Luc iv. 29. (14.) *Torri y pen:* felly y marwolaethwyd pobydd Pharaoh; felly y lladdodd Abimelec ei 70 brodyr; ac y lladdodd henuriaid Samaria, wrth orchymyn Jehu, 70 o hiliogaeth Ahâb, ac anfonasant eu penau hwy mewn basgedi iddo ef; ac y lladdodd Herod Ioan, Gen. xl. 19. Barn. ix. 5. 2 Bren. x. 7. Mat. xiv. 10. (15.) *Rhwygo yn ddarnau yn fyw;* felly y drylliodd Gideon gnawd llywodraethwyr Succoth â drain ac â mieri. Dafydd, yn ol ein cyfeithiad ni, a ddrylliodd gnawd yr Ammoniaid, trwy beri iddynt fyned dan lifiau,

ogedi a tywyll heiyrn, neu parodd iddynt tyned drwy yr odynau calch llosgedig. Meddylir hefyd iddo arteithio dwy ran o dair o'r Moabiaid i farwolaeth, Barn. viii. 16. 2 Sam. xii. 31, a viii. 2. (16.) *Dodi rhai o fiuen gwylltfilod*, i gael eu rhwygo yn ddarnau ganddynt; felly y bwriwyd Daniel a'i gyhuddwyr i ffau y llewod, pen. vi. Byddai y Paganiaid yn gosod y prif Gristionogion yn agored i anifeiliaid gwyllt-ion, ac weithiau mewn crwyn anifeiliaid gwyllt-ion, fel y caent eu llarpio yn fwy hwylus ganddynt. Hwyrach i Paul gael ei osod yn agored i anifeiliaid yn Ephesus, 1 Cor. xv. 32. (17.) *Dirdynu neu guro â'r tympanum*; beth oedd y gospedigaeth hon, pa un ai y trestl, blingo yn fyw, neu y pastwynad, nid ydys yn cyduno, Heb. xi. 35. (18.) *Llifo*, gan ddechreu naill ai ar y traed neu y pen; felly y dywedir i Esaiah gael ei ladd gan Manasseh, ac felly y mae yn ddilys i rai Hebreaid duwiol gael eu lladd gan eu herlidwyr, Heb. xi. 37. Dywedir i'r gosp ddychrynllyd hon gael ei dechreuad yn mysg y Caldeaid neu y Persiaid; ac yr oedd yn cael ei harfer, nid amser maith yn ol, yn Morocco, a gwlad y Swiss, os nad yw felly etto. (19.) Weithiau byddai byd yn nod *tai* trosedd wyr yn cael eu dinystrio, a'u gosod yn domenau, Dan. ii. 5, a iii. 29; ac felly y dinystriodd Jehu deml Baal, 2 Bren. x. 26.

COSTREL, *(costr*, yr hyn a ddiffäir) math o gydau crwyn oedd y costrelau gynt, wedi eu gwneud yn gyffredin o grwyn geifr, a'r ochr llewog i mewn, wedi eu gwnio yn nghyd, neu eu pygu yn gadarn; pa hwyaf y defnyddid hwy, gwaeth fyth yr aent, yn enwedig os eu cedwid yn agos i'r tân, Gen. xxi. 14. Jos. ix. 4, 13. *Costrel* Duw, yn yr hon y mae efe yn rhoddi dagrau ei bobl, yw ei sylw caredig a'i goffadwriaeth o'u trallodion; a'i barodrwydd i atteb eu gweddiau, a dial ar eu gelynion, Salm lvi. 8. *Costrelau y nefoedd* ydynt y cymmylau, y rhai a ddaliant ac a dywalltant y gwlaw a'r gwlith allan, fel y gwelo Duw fod yn dda, Job xxxviii. 37. Yn Mat. ix. 16, 18, y mae Crist yn arfer dwy gyffelybiaeth hynod, y rhai ydynt wedi peri llawer o ddadl; sef dodi gwin newydd mewn hen gostrelau, a llain o frethyn newydd at hen ddilledyn. Y dehongliad mwyaf syml a thebygol yw hwn, Fel ag yr oedd yr hen gyfammod yn awr yn barod i ddiflannu ymaith, nad oedd yr ordinhadau oedd efe ar fedr eu gosod i'w eglwys, wedi eu cyfaddasu i anian addoliad yr Hen Destament. Dafydd oedd fel *costrel mewn mwg*, pan oedd wedi treulio ymaith gan ofid a thrallod, ac wedi myned bron yn ddiddefnydd, Salm cxix. 83. Trigolion Jerusalem oeddynt fel *costrelau*, pan dywalltodd Duw iddynt win ei ddigofaint nes y rhwygwyd, neu y dinystriwyd hwynt, Jer. xiii. 12.

COZBI, *(celwyddwr)* merch Sur, tywysog Midian. Daeth hi, yn nghyd â lluaws o ferched ei gwlad i wersyll yr Israeliaid i'w hudo i aflendid ac eilunaddoliaeth; ac, wedi ei dal yn y weithred o odineb gyda Zimri, mab Salu, un o bennaethiaid y Simeoniaid, gwânodd Phinees hwynt eill dau â gwaywffon trwy eu ceudod, yn nghanol eu hymgofleidiadau gwaradwyddus, Num. xxv. 6—15.

CRAIG, *(crai*, nerth, cadernid) carnedd o gerrig wedi eu cyfrwymo naill ai uwch neu islaw wyneb y ddaear. Yr oedd creigiau, yn sefyll yn uwch na gwastadedd y ddaear, yn dra chyffredin yn ngwlad Canaan, ac amryw o honynt oeddynt yn amddiffynfa i'r trigolion mewn amser o berygl. Yn yr ysgrythyr crybwyllir am greigiau Libanus a Hermon yn y gogledd, a chreigiau y mynyddoedd wrth afon Arnon yn y dwyrain, Jer. xviii. 14. Num. xxiii. 9; craig Horeb, yn agos i fynydd Tabor, Barn. vii. 25; a Zoheleth, Bozez, Senah, a Rimmon, yn llwyth Benjamin; a chreigiau Engedi, Adullam, Selah-hammalecoth, ac Etam, yn llwyth Judah; craig Jocthèel yn nhir Edom; ac yn wir yr oedd yr holl wlad yn llawn o greigiau, fel Arabia Garregog; er nad ydym yn darllain yn yr ysgrythyr am ychwaneg yno na chraig Horeb, a Meribah yn Rephidim, ac un Cades. O'r ddwy olaf hyn y diwallodd Duw yr Hebreaid â dwfr y rhan fwyaf o'r amser y buont yn yr anialwch. Yn ol *Thevenot*, *Shaw*, *Pocock*, a theithyddion credadwy ereill, ymddengys mai clogwyn wedi llithro

oddi wrth ystlys mynydd Sinai yw craig Meribah ynRephidim, ac y gorwedd fel carreg fawr rydd yn nghanol y dyffryn. Gronynfaen (*granite*) coch ydyw, mor galed â challestr; ac yn ol *Shaw*, y mae yn nghylch chwe llath bob ffordd; er y dywed *Pocock* ei bod yn 15 troedfedd o hyd, 12 o uchder, a 10 o led; ac y mae 12 twll ynddi, ie, dywed *Pocock* fod 12 yn mhob ochr, o ba rai y tarddodd y dwfr i ddiwallu yr Hebreaid dros 39 o flynedd oedd, ac y mae y garreg wedi treulio lle y bu y dwfr yn rhedeg i waered. Onid oedd y garreg hon yn arwyddocâu yr Iesu, yr hwn oedd fel gwreiddyn o dir sych, ond etto yn Dduw a Chyfryngwr cadarn ac anghyfnewidiol i'w bobl; ac wedi ei daraw â gwialen Moses, ei gyfraith daniliyd, y mae, trwy athrawiaeth y deuddeg apostol, yn cludo bendithion adfywiol i'w eglwys, yn mhob oes ac yspaid o'i chyflwr crwydredig a thragywyddol, Exod. xvii. Nid oedd craig Cades i'w tharaw, ond llefaru wrthi, fel y byddai iddi roddi dwfr; felly, yn y mil blynedd oedd, ni bydd raid ail-groeshoelio yr Iesu, ond yn unig ei bregethu i ddynion, fel y byddo i'w fendithion ddylifo arnynt, Num. xx. 1—13. Gelwir Duw yn *graig*, a *chraig yr oesoedd;* y mae efe yn sylfaen ddofn, gadarn, a difeth, yn ddiogelfa, ac yn ffynnonell bendithion i'w bobl, Salm xviii. 2, 31. Esa. xxvi. 4. Iesu Grist yw y *graig* ar yr hon y mae ei eglwys a'i bobl yn cael eu hadeiladu; efe yn unig sydd yn cynnal eu pwys a'u holl ofalon; efe yw eu noddfa, a'r achos o'u tremiadau helaeth i bethau dwyfol, a'r ffynnonell o bob dylanwadau pureiddiol ac adfywiol iddynt, Esa. xxxii. 2. Mat. vii. 25. O herwydd fod creigiau yn lleoedd diffaeth ac anffrwythlon, Job xxix. 6. Salm xviii. 16, cyffelybir pechaduriaid celyd-galon, a diffrwyth mewn gweithredoedd da, i *greigiau*, Luc viii. 13. O herwydd fod *craig* yn arwyddo cleddiwig, o ba le y cloddir cerrig, cyffelybir Abraham a Sarah, oeddynt unwaith yn debyg o fod heb blant, i *graig* a ffôs, Esa. li. 1.

CREU, CREADIGAETH, CREAWDWR, CREADUR (*cre*, dechreuad neu symmudiad cyntaf). Arwyddocâd y gair *creu*, pa mor amrywiol bynag y cymmwyser ef, yn ddiammau, yw ffurfio peth o ddim, Gen. i. 1. Y Creawdwr yw yr hwn sydd yn ffurfio fel hyn; a'r greadigaeth neu y creadur yw y peth creëdig. Creadigaeth oedd yn waith y Duwdod; ac, am hyny, pan y dywedir am Iesu Grist, *trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd*, yr ydym yn ddilys i ddeall fod ei Dduwdod yn cael ei fynegu fel y Creawdwr, Esa. xlv. 7. Gelwir amrywiol ranau ereill o weithredoedd Duw, yn *greu;* o herwydd fod yr un gallu diderfyn yn angenrheidiol er eu gwneuthur hwýnt. Felly y mae glanhau calon enog dyn, trwy yspryd adnewyddol cyñawnder, yn cael ei alw yn bendant *creu calon lân*, Salm li. 10. Gelwir y Cristionogion yn waith Duw, wedi eu *creu* i weithredoedd da, Eph. ii. 10. Ac ni a gawn, pa mor ogoneddus bynag yr ymddangosodd yCreawdwr Dwyfol yn y greadigaeth gyntaf, neu y mae hyd yn nod yn ei waith yn awr yn cynnal pob peth trwy air ei nerth; fod amlygiad mwy gogoneddus fyth o'i allu a'i Dduwdod tiagywyddol i fod yn y Greadigaeth Newydd. Y mae ei addewid i gael ei chyflawni etto, *wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd!* Nid yw amseroedd adferiad pob peth wedi dyfod etto. Pan orphenir y Baradwys nefol, sef y nefoedd newydd, a'r ddaear newydd, yn y rhai y mae cyflawnder yn cartrefu, 2 Petr iii. 13. Esa. lxv. 17; dyna yr amser y tywyna gogoniant y Creawdwr, gyda dysgleirdeb anfeidrol fwy nag yn Eden ar y cyntaf.

Ond yr oedd y greadigaeth gyntaf yn gysgod nodedig o'r ail; ac os ystyriwn fod Duw wedi bod yn dwyn ei greadigaeth newydd hon yn mlaen er y dydd y pregethodd efe yr efengyl mewn addewid i Adda, ni a ganfyddwn gryn sail i'r farn ganlynol, yr hon sydd wedi cael ei derbyn gan lawer; sef, pan yr adgoffeir yr un peth hwn i ni, 2 Petr iii. 8, yr hwn a ystyria Petr fel matter o bwys na ddylem fod yn anwybodus am dano, fod un dydd gyda'r Arglwydd megys mil o flyneddoedd; a mil o flynedd-oedd megys un dydd (gwel hefyd Salm xc. 4); efe a'n dysga, y bydd, am bob dydd a dreuliwyd yn y greadigaeth gyntaf, mil o flyneddoedd

yn cael eu cymmeryd i fynu yn yr ail: am hyny, gan i Dduw weithio gweithredoedd y greadigaeth gyntaf mewn chwe diwrnod, a gorphwys ar y seithfed, a chael ei adlonni; felly, am chwe mil o flyneddoedd, y câ ei weithredoedd yn y greadigaeth newydd eu dwyn yn mlaen a'u gorphen yn gyflawn, ac ar y seithfed y bydd ei Sabboth, yn yr hwn y cyfranoga ei holl etholedigion. Rhydd *Mr. Brown* y crynodeb byr canlynol i ni o weithredoedd y greadigaeth gyntaf.

Ar y dydd *cyntaf*, Efe a ffurfiodd dreftniant cyffredinol y nefoedd a'r ddaear, ac, tebygol, yr angelion. Nid oedd y ddaear ar y cyntaf ond pentwr anghelfydd, heb lun na phryddferthwch, ac heb breswylwyr na chynnyrch; ond yr oedd yr Ysbryd dwyfol, yn ei ddylanwadau cynhyrfiol, yn ymsymmud ar wyneb tywyll y gymmysgfa ddofn hon. Trwy air, ewyllys, neu dragywyddol Fab Duw, ffurfiwyd a gwahanwyd y goleuni oddi wrth y tywyllwch, i wneuthur dyfyniad olynol o ddydd a nos. Ar yr *ail* ddydd, gwnaeth Duw ffurfafen, ymlediad, neu awyrgylch, i gynnal y dyfroedd yn y cymmylau, ac i'w gwahanu oddi wrth yr hyn oedd oddi tanodd. Ar y *trydydd*, Efe a ddyhysbyddodd y dyfroedd oddi wrth y rhanau daearol o'n trefniant ni, ac a'u casglodd yn foroedd, naill ai yn nghrombil y ddaear, neu yn y cyfryw welyau ar yr wyneb ag a ffurfiodd efe iddynt. Ar y *pedwerydd*, Efe yn mhellach a gasglodd y goleuni yn nghyd, ac a ffurfiodd yr haul, y lloer, a'r sêr, ac a bennododd eu symmudiadau a'u gwasanaeth iddynt. Ar y *pummed*, Efe a ffurfiodd y pysgod o ddwfr, a'r ehediaid o gymmysgedd o ddwfr a daear. Ar y *chwechfed*, Efe a ffurfiodd anifeiliaid, ymlusgiaid, a chorph Adda, allan o bridd y ddaear, a chorph Efa, o asen wedi ei chymmeryd o ystlys Adda; a chynysgaethwyd Adda ac Efa, yn eu ffurfiad, âg eneidiau rhesymol ac anfarwol, Exod. xx. 11. Gen. i. Mae y dysgedigion yn wahanol eu barnau mewn perthynas i ba ddiwrnod o'r flwyddyn y creodd Duw y byd. Mynai *Capellus*, ac ereill, i'r greadigaeth gael ei heffeithioli yn y Gwanwyn, a bod y dydd cyntaf o honi o ddeutu yr 11eg o Ebrill. Eithr o herwydd fod amryw o'r Cenedloedd henaf yn cyfrif dechreuad eu blwyddyn o'r Cynhauaf; ac nad ydym yn gwybod am un cyfrifiad arall hyd ymadawiad yr Iuddewon o'r Aipht; ac o herwydd fod y coed yn dwyn ffrwyth, a'r llysiau hâd, ar ddydd eu creadigaeth, tueddir ni, gydag *Usher* ddysgedig, ac ereill, i feddwl i'r byd gael ei greu yn y Cynhauaf; ond pa un ai ar yr 22ain dydd o Hydref, fel y dywed *Usher*, neu ynte o ddeutu y 1af o Fedi, fel y dywed *Scaliger* a *Spanheim*, ni a adawn beb ei benderfynu, er mai y farn olaf a ymddengys y fwyaf tebygol. Herwydd fod hanes Moses am y greadigaeth yn fyr iawn, cynnygodd *Descartes*, *Thomas Burnet*, *Whiston*, *Buffon*, ac ereill, eglurhad athronyddol, os nad allem ddywedyd weithiau, wrth brofiad o honi; ond gan ein bod yn credu y gwyddai hysbysydd Moses yn well pa fodd yr effeithiolwyd hi, nag un o'r dysgedigion hyn, ni chawn anfoddloni y darllenydd diffrifol â neb o'u hofer-dybiau; a gwyddom y geill y dysgedigion yn hawdd ffurfio meddyliau mor sylweddol â hwythau iddynt eu hunain.

Y mae Iesu Grist yn cael ei alw mewn modd pwysig, *dechreuad creadigaeth* Duw, Dad. iii. 14, nid yn unig fel efe oddi wrth yr hwn y deillia yr holl greadigaeth, ond megys y mae, yndo ei hun, yn ddechreuad neu ben y greadigaeth honno. *Y cyntaf-anedig o'r meirw—cyntaf-anedig pob creadur*, Dad. i. 5. Col. i. 15. Yn Mab y dyn wedi ei ogoneddu, ei gyfodi oddi wrth y meirw, a'i osod i eistedd ar ddeheulaw y Mawredd yn yr uchelder, yr amlygir dechreuad y greadigaeth ogoneddus honno, pa un a osodir allan yn orfoleddus yn adgyfodiad y cyfiawnion, pan yr adgrëir yr *holl dyrfa waredigol o'r llwch, ac y ffurfir eu cyrph yn gyffelyb i'w gorph gogoneddus ef*.

CREADIGAETH, nid yn unig a arwydda y weithred o wneuthur pethau allan o ddim, ond hefyd y creaduriaid neu y pethau a ffurfiwyd o ddim, 2 Petr. iii. 4. Dad. iii. 14. *Creadur*, a arwydda, weithiau, pob peth creëdig, Dad. v. 13; ac weithiau *dynion* yn unig, pa rai a alwai yr Iuddewon y *creadur*, mewn ffordd o ragoriaeth, Marc xvi. 15. Wrth

y *creadur* neu y *greadigaeth*, sydd yn dysgwyl am waredigaeth ogoneddus i ryddid gogoniant plant Duw, myn rhai mai y Cenedloedd Paganaidd a feddylir; ond pa fodd y gwnaed y rhai hyn, o'u hanfodd, yn ddarostyngedig i gaethiwed llygredigaeth; neu pa fodd yr oeddynt yn dysgwyl ac yn gobeithio am waredigaeth trwy yr efengyl, ni allasom erioed ddeall. Onid yw yn haws deall y *creadur* neu y *greadigaeth* am y rhan afresymol o'r byd, yr hon, trwy ragluniaeth Duw, sydd wedi ei darostwng i oferedd, o herwydd pechod dyn, ac yn cael ei defnyddio yn fynych megys offeryn mewn dryginoni, ond, yn y dydd diweddaf, a waredir yn berffaith oddi wrth y gamdriniaeth wael hon, Rhuf. viii. 19—23.

CREFYDD, *(cref-ffydd)* gwir addoliad Duw; gofalus ofn cydwybod, rhag gwneuthur ar fai. (1.) *Crefydd bur a dihalogedig* a ddarlunir gan Iago, i. 27. (2.) Addoliad allanol a seremoniol yr Iuddewon, Act. xxvi. 5. Gal. ii. 13. (3.) Addoliad coelgrefyddol o angelion, Col. ii. 18. Rhai *crefyddol* neu *dduwiol*, ydynt rai a ymroddant i wasanaethu ac addoli Duw; wedi rhoddi eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, a chwedi hyny i'w bobl, Act. xiii. 43, a xvii. 4, 17. Nid yw crefydd yn gynnwysedig mewn enllibio ereill am nad ydynt yn cydweled mewn pyngciau crefyddol, ond mae y gwir Gristion yn feddiannol ar y meddwl sydd yn Nghrist ei hun, ac yn cael gorfoledd ynddo ei hun ac nid mewn arall. Y mae ŷ byd yn myned heibio, a'i chwantau hefyd, ac mae pob crefyddwr yn dymuno cyfarfod yn y nef; am hyny, ni ddylai teithwyr *Sion* amrafaelio ar y ffordd, na bod yn brin lle mae Duw yn helaeth.

CRESCENS, *(tyfadwy)* un o gydbregethwyr Paul, yr hwn a ymadawodd oddi wrtho, tra yr oedd yn Rhufain, i fyned i Galatia, ac, hwyrach, a ddygodd y llythyr ysbrydoledig i'r eglwys hon, 2 Tim. iv. 10.

CRETE, *(cnawdol)* neu *Candia*; ynys yn gorwedd yn Môr y Canoldir, encyd o fordd o du y gogledd i'r Aipht, a gorllewin i Syria, o ddeutu 280 o filltiroedd ei hyd, a 56 ei lled. Poblogwyd hi yn foreu iawn, tebygol, gan Iu o'r Philistiaid, y rhai a ffoisant ymaith o Ganaan yn nyddiau Josuah; ïe, hwyrach, i Caphtorim yr Aipht sefydlu yma mewn rhan, mewn amseroedd henach fyth. Cymerodd lluoedd dirfawr o'r Groegiaid hefyd eu preswylfod i fynu yn yr ynys hon, yn enwedig ar ol rhyfel Caerdroya. Yr oedd Crete yn cynnwys 100 o ddinasoedd, sef Gnossus, Cydon, Cortyna, Dictynna, &c. ac o herwydd hyny gelwid hi Hecatompolis. Ond nid oedd dim yn ei gwneud yn fwy enwog na dygiad ffugiol Iau, un o brif ddiwiau y Cenedloedd, i fynu ynddi: a chyfreithiau Minos, un o'i breninoedd. Yr oedd y trigolion ar y cyntaf yn hynod iawn o herwydd eu hunionddeb; ond daethant yn fwy felly wedi hyny, o herwydd eu celwydd, eu twyll, eu segurdod, eu glythineb, a'u hanniweirdeb. Gynt yr oeddynt yn saethyddion a bwâwyr tra medrus, er nad oes ganddynt yn awr ond y nesaf peth i ddim o'r gelfyddyd honno. Gwedi bod y Cretiaid dan lywodraeth 18 o freninoedd olynol, ffurfiwyd hwy yn werin-wladwriaeth. Ar ol iddynt aros yn y dull hwn dros amryw oesoedd, ac heb erioed wneuthur un math o waith gorchestol, darostyngodd *Metelus* y prif swyddog Rhufeinig hwy, o ddeutu A.M. 3938, trwy ryfel gwaedlyd o ddwy neu dair blynedd ei barhad. Bu Crete yn ddarostyngedig i amherawdwyr Rhufain a Chaercystenyn hyd o ddeutu A.D. 823, pan gymmerodd y Saraceniaid feddiant o honi. Cyn pen hir wedi hyny adynnillodd y Groegiaid hi. O ddeutu A.D. 1205, rhoddodd *Baldwin* y Ffrengcyn, amherawdwr Caercystenyn, hi i *Boniface* iarll Montserrat, yr hwn a'i gwerthodd i'r Venetiaid. Ni buasent hwy yn feistraid arni lawer uwchlaw 400 o flynedd-oedd, pan y daeth y Tyrciaid Ottomanaidd, ar ol gwarchae ar ddinas Candia dros 24 o flyneddoedd, yn llywiawdwyr ar yr holl ynys, A.D. 1649. Pregethwyd yr efengyl yn foreu iawn, a phlanwyd eglwys yma: pennodwyd Titus i osod swyddogion ynddi; ac yma y trodd Paul i mewn ar ei ffordd i Rufain. Byth er hyny, y mae mwy neu lai o Gristionogaeth wedi bod yn y lle hwn, er nad yw yn bresennol bron yn ẹnwog am ddim

yn y byd, Tit. i. 5. Act. xxvii. 9, 10

CREULAWN, *(crau,* gwaed, a *llawn)* gwaedlawn, calon-galed, ffyrnig, gerwin, Gen. xlix. 5, 7. Tosturi y drygionus sydd *greulon;* y mae hyd yn nod eu caredigrwydd yn maglu ac yn lladd eneidiau dynion, Diar. xii. 10. Y mae tosturi yn cael ei alw yn greulondeb yma, yn yr un modd ag y mae gwendid Duw yn cael ei alw yn nerth, neu yn gryfach, a ffolineb Duw yn cael ei alw yn ddoethineb, neu yn ddoethach, na dyn, 1 Cor. i. 25.

CREYR, (*cre,* ysgrech) crychydd; ehediad tal a hir ei wddf. Y mae ei gylfin yn gryn hir, ond yn fyrrach nag eiddo garan. Ei ben yn sydd gribog a bron yn noeth. Nid yw ewin bys canol ei droed yn fylchog. Y mae o'r creyrod dair rhywiogaeth; (1.) Y gyffredin, y rhai ydynt yn pwyso yn nghylch 10 neu 12 pwys, a'u hyd, o'r troed i'r gylfin, o ddeutu pum troedfedd; eu gylfin sydd o liw lled-wyrdd tywyll, yn hir a thaen-fain; eu hesgyll yn fawrion; eu coesau a'u traed yn dduon, gydag ewinedd hirion; eu corn chwyth sydd yn rhedeg i waered yn isel i'r ddwyfron, ac yna yn dychwelyd ar hyd yr un llwybr, ac yn disgyn i'r ysgyfaint. Maent yn byw ar ronynau o ŷd, a'u cig sydd dyner iawn. (2.) Creyrod yr India, y rhai ydynt yn llai eu maintioli, ond bod eu gylfin yn hwy, eu cynffon yn fer, a chroen coch garw ar goppa eu penau. (3.) Creyrod Majorca, y rhai sydd ganddynt grib fel gwrych mochyn ar goryn eu penau. Y mae gan y creyrod lais uchel, a chyn y gauaf, symmudant gyda'r ciconiaid, a dychwelant yn y gwanwyn; ond, pa le y maent yn treulio y tymmor oer, nis gwyddom. Hezeciah, yn ei glefyd, oedd yn *trydar megys garan neu wennol,* weithiau yn gwaeddi yn uchel o herwydd ei boen dirfawr megys *garan,* ac weithiau yn trydar neu yn miwleisio megys *gwennol,* Esa. xxxviii. 14. Yr Iuddewon oeddynt yn fwy hurt na *garanod,* ciconiaid, a thurturod; ni wyddent amser priodol dyledswydd, Jer. viii. 7.

CRISIAL, *(cris,* crawen galed) crisiant. Math o fŵn caled tryloyw, a diliw wrth naturiaeth, o ddull onglog rheolaidd. Nid yw yn ystwyth nac yn wrthneidiol, ac ni thery dân ychwaith o'r dur. Y mae tair rhywiogaeth o risial pur, heblaw yr amryw fath o hono sydd yn gymmysgedig â sylweddau gwahanol ereill. Ceid grisial gynt mewn ynys yn y Môr Coch, a'r cwppanau a'r llestri ereill, a wneid o hono a gyfrifid yn dra gwerthfawr. Crybwylla *Pliny* am un o honynt yn werth £1250 o'n harian ni. I gospi gwyr ei genedlaeth am ryw drosedd yn ei erbyn, drylliodd Nero yr amherawdwr, mewn modd cynddeiriog, ddau gwppan o risial. Ond yn bresennol y mae yn llawer llai ei werth, Job xxviii. 17. Cyffelybir y ffurfafen oedd uwch ben y cerubiaid, y môr o wydr o flaen gorseddfainge Duw, yr afon o ddwfr y bywyd, a goleuni y Jerusalem Newydd, i *risial,* i ddangos eu purdeb, eu dysgleirdeb gogoneddus, a'u heffeithiau llewyrchus, Ezec. i. 22. Dad. iv. 6, a xxii. 1, a xxi. 11.

CRIST IESU, Arglwydd ac Iachawdwr dynolryw. Gelwir ef *Crist,* o herwydd mai Enneiniog yr Arglwydd ydyw, ei Etholedig yn yr hwn y mae ei cnaid yn foddlon. Y Prophwyd, yr Offeiriad, a'r Brenin enneiniedig; îe, y Penrawchlaw pob peth i'w eglwys. Efe yr hwn a sancteiddiodd ac a anfonodd Duw y Tad i'r byd, ac a alwyd yn *Iesu,* o herwydd ei fod yn *gwared* ei bobl oddi wrth eu pechodau. Efe i'r hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth; am yr hwn y pregethodd yr apostolion, a thystiolaeth pa un yw ysbryd yr holl ddadguddiad. Am hyny, gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu hwn a groeshoeliwyd, Act. ii. 36. Efe yw y Duw tragywyddol, yr hwn sydd cyfuwch â'r Tad, ac ni thybiodd yn drais i honni hawl i'r urddas ddwyfol honno. Ni ddichon i undyn a amheua ei fod ef yr unig wir a goruchaf Dduw, mewn cyssondeb â synwyr cyffredin, gydnabod ei hun yn Gristion. Os nad yw yr Iesu yn Dduw Goruchaf, yna gosodwr eilunaddolaeth i fynu oedd, yn annog dynion i'w addoli ef ei hun; a rhaid fod Mahomet, yr hwn a wrthwynebodd y cyfryw addoliad yn wresog, yn ddiwygiwr gwerthfawr! Os nad

yw Crist yn Dduw, gwnaeth yr Iuddewon yn dda i'w groeshoelio megys cablwr hynod, yr hwn oedd yn gwneuthur ei hun yn gystal â Duw; gwnaethant yn dda i erlid ei apostolion, y rhai oeddynt yn ei arddangos ef fel gwrthddrych addoliad. Os nad yw Crist yn Dduw, yna y mae y cyfan o ddirgelwch ein prynedigaeth yn gyfeiliornus ac yn ofer. Pa le yr ymddengys y cariad dwyfol yn anfon Duw mewn enw i'n prynu? neu pa leshad a ddeillia oddi wrth ei farwolaeth i ni, y rhai ydym yn droseddwyr yn erbyn ei Fawrhydi anfeidrol, nid mewn enw, ond mewn gwirionedd? Os nad yw Crist yn Dduw Goruchaf, pa mor dywyll, anwireddus, afresymol, ac amuwiol, y rhaid fod iaith yr Ysbryd Glân, yn enwedig yn yr ymadroddion a berthynant iddo ef yn neilluol? Os nad yw Crist yn Dduw, pa beth yw y grefydd Gristionogol oll ond chwardd-draith a choeg chwarae yn unig, yn yr hon yr ymddengys un yn Dduw, a'r nad yw felly mewn gwirionedd? Pa beth ydyw ei gwyrthiau, ei rhagfynegiadau, a'i dirgelion, ond cyfangorph o swyn-yddiaeth, wedi ei ddychymmygu neu ei effeithioli gan Satan, er dwyn addoliad cableddus creadur yn mlaen?

Yr oedd yn analluadwy i neb, ond Person dwyfol, fod yn Gyfrynghwr, yn Bryniawdwr, yn Fechnïydd, yn Offeiriad, yn Brophwyd, ac yn Frenin, i atteb ein cyfiwr gwrthgiliedig, colledig, euog, du, a gwrthryfelgar. Ac nid oedd yn llai angenrheidiol i'r Person dwyfol hwn gymmeryd atto natur y troseddwyr, ac, yndd, i gyflawni holl waith eu prynedigaeth, Rhuf. viii. 3, 4. Gal. iv. 4, 5. Ni ddichon un peth fod yn fwy hyfryd na sylwi yn mha oiygiadau y mae cyssylltiad personol natur ddwyfol a dynol yn angenrheidiol er cyflawni pob swydd, cynnal pob perthynas, a sefyll yn mhob cyflwr, priodol i'n Pryniawdwr bendigedig. Gosododd Duw ef i fynu yn ei arfaeth, megys Pen y dyrfa waredigol; ac a sefydlodd âg ef holl ammodau eu hiachawdwriaeth, a phob amgylchiad o honi, Salm xl. 6, 7, 8, a lxxxix. 3, 4, &c. Felly darparwyd ein meddyginiaeth cyn ein dinystrio; ac, er's oesoedd aneirif, yr oedd hyfrydwch ein Pryniawdwr gyda meibion dynion, cyn eu ffurfio hwynt.

Nid oedd yn briodol i Fab Duw gymmeryd ein natur ni atto, a dyoddef yn ddiattreg ar ol y cwymp. Nid oedd annigonolrwydd bollol pob moddion ereill er diwygio y byd wedi cael ei amlygu yn gyflawn; nid oedd grym aruthrol pechod wedi cael ei ddadguddio etto yn ddigonol: nid oedd dynion wedi cael digon o rybudd am ei ymddangosiad; ac nid oedd digonolrwydd o ddynion i dystiolaethu am y gweithredoedd, neu i fod yn gyflawnwyr o honynt; na digon o wrthwynebiad i'w orchfygu trwy athrawiaethau y groes. Yr oedd darpariadau, pa fodd bynag, yn cael eu gwneuthur beunydd gogyfer â'r dygwyddiad rhyfeddol hwnw. Trwy luaws o ragfynegiadau cysgodol a geiriol, nodwyd pob amgylchiad yn ei fywyd dyfodol allan, fel y gallai y byd fod wedi ei gymmwyso er gwneuthur profiad trwyadl o'i gymmeriad pa bryd bynag yr ymddangosai. I nodi ei barodrwydd i ymwisgo â'n natur ni, efe a ymddangosodd yn fynych yn null dyn; a benthyciwyd bron pob arddangosiad trawsgymudol o Dduw oddiwrth bethau perthynol i ddynion.

Cyn dechreu y byd, gosodwyd fod i ddysgleirdeb y gogoniant dwyfol gael ei amlygu yn Iesu Grist; am hyny efe a ddywed, Diar. viii, "Er tragywyddoldeb y'm henneiniwyd, a'm hyfrydwch oedd gyda meibion dynion." Yr amlygiad o Dduw yn Nghrist, yw y gwaith anghydmarol hwnw o eiddo Duw, pa un sydd tu hwnt i ymchwiliad dynol. Nis gall rheswm dreiddio iddo, na doethineb dynol ei ddehongli; digon i ni yw gwybod, iddo Ef, yr hwn ni ddichon nef y nefoedd ei amgyffred, ymddangos yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus; ac wedi ei gael mewn dull fel dyn, iddo ddyfod yn ufudd hyd angau, ïe, hyd angau'r groes. Cawn fwrw cip-olwg ar ychydig bethau yn ei fuchedd megys y coffêir am danynt gan yr efengylwyr.

Pan yr oedd y 490 mlynedd y crybwyllwyd am danynt gan yr angel wrth Daniel, yn tynnu at eu terfyn; pan yr oedd y cenedloedd wedi cael eu hysgwyd yn ddigonol trwy ddadymchweliad yr amherodraethau Persiaidd a Groegaidd, a

chyfodiad yr un Rufeinaidd; tra yr oedd yr ail deml yn parhau yn ei gogoniant; pan yr oedd sôn brawychus am gyfodiad disymmwth Iuddew i lywodraethu ar y byd, wedi ymdaenu trwy ran fawr o hono, ac yn agos i chwe mis ar ol beichiogi ar y Bedyddiwr bendigedig, rhagflaenydd ein Hiachawdwr, crybwyllodd yr angel Gabriel wrth y forwyn Fair, y beichiogai hithau trwy nerth yr Ysbryd Glân, ac yr esgorai ar y Messiah addawedig, Gen. xlix. 10. Ezec. xxi. 27. Dan. ix. 24, 25. Hag. ii. 6—16, 21, 22, 23. Mal. iii. 1. Gen. iii. 15. Luc i. 32—35. Yr oedd y forwyn hon wedi cael ei dyweddio i un Joseph, saer. Yr oeddynt eill dau yn ddigon distadl; ond etto o deulu breninol Dafydd, yr hwn oedd yn awr wedi ei ddarostwng. Yn ol achyddiaeth Matthew, trwy ychwanegu y tri a adewir allan yno, yr oedd Joseph yn 32ain o ran tarddiad oddi wrth Dafydd, yn llin freninol Solomon. Yn ol Luc yr oedd Mair, trwy briodi yr hon y daeth Joseph yn fab-yn-nghyfraith i Heli, yn 41ain oddi wrth Dafydd trwy Nathan, a'r 74ain oddi wrth Adda. Ymddengys i lin Solomon a Nathan, meibion Dafydd, ymgyfarfod yn mhersonau Salathiel a Zorobabel; ond hânodd Joseph oddi wrth Abiud, un o feibion henaf Zorobabel; a Mair oddi wrth Rhesa yr ieuangaf. Cyn i Joseph ddynesu atti, er ei fawr anesmwythder, canfu ei bod yn feichiog. Efe a allasai sefyll yn gadarn am ei rhoddi i farwolaeth, yn ol y gyfraith; ond o herwydd ei fod yn wr cyfiawn, ac hwyrach yn gobeithio mai ei threisio a gawsai, neu wedi ei chlywed yn adrodd am hysbysiaeth yr angel Gabriel, efe a benderfynodd i gelu y peth, a rhoddi iddi lythyr ysgar yn gyfrinachol. Eithr tra yr oedd yn meddwl am y pethau hyn, rhybuddiodd angel ei i'w chymmeryd hi adref atto fel ei wraig, o herwydd ei bod yn ddibalog; a thrwy nerth yr Ysbryd Glân, ei bod wedi beichiogi, ac yr esgorai ar y Messiah ac Iachawdwr y byd. Yna Joseph a'i derbyniodd yn llawen, ond nis adnabu efe hi nes yr esgorodd ar ei Phlentyn ardderchog. Trwy y briodas hon, amddiffynwyd anrhydedd y forwyn; yr oedd ganddi un i'w chynnorthwyo, ac i ddarparu ar ei medr yn ei chyfyngderau; a chafodd ei mab dwyfol ddyfodfa rydd i'r gynnulleidfa, ac i bob ordinhad o eiddo yr eglwys Iuddewig, Mat. i. Luc iii. 23--38.

Preswyliai Joseph a Mair yn Nazareth; ond gan nad hwn oedd y lle a bennodasid i enedigaeth y Messiah, parodd cof-restriad o'r deiliaid Rhufeinig, ar yr hwn y sylfaenwyd trethiad wedi hyny, tra yr oedd Cyrenius yn llywodraethu ar Syria, i'r Iuddewon, yn yr amser hwnw yn gwyir, fyned i'r lleoedd a'r tylwythau i ba rai y perthynent yn ddechreuol. Gorfu ar Joseph a Mair, yn awr pan oedd yn agos i'w thymp i esgor, deithio o ddeutu 82 o filltiroedd tua'r dehau i Bethlehem, a rhestrwyd hwy yno, a'u mab tybiedig yn nghofrestr yr amherodraeth, fel rhai o biliogaeth Dafydd. Yr oedd pob lletty yn Methlehem wedi ei orlenwi yn y fath fodd â dyeithriaid, fel y gorfu ar Joseph a Mair orwedd mewn marchdy. Yno yr esgorodd hi ar ei Baban dwyfol; ac, o eisiau crŷd, a'i gosododd i orphwys yn y preseb. Y noson honno, mynegodd angel i'r bugeiliaid, y rhai oeddynt yn gwylied eu praidd mewn maes cyfagos, am enedigaeth yr Iesu; a chanodd lluaws o angelion ereill *anthem* o fawl am râd a thrugaredd Duw i ddynion. Y bugeiliaid a frysiasant i Fethlehem, ac a gawsant y Baban yn y cyflwr distadl y dywedasai yr angel am dano. I anrhydeddu ordinhad Duw, i addef ei hun yn aelod o'r eglwys Iuddewig, ac yn ddyledwr i gyflawni yr holl gyfraith; i dderbyn insel newydd ei Dad o'r cyfammod a wnaed âg ef, ac i ddechreu tywallt ei waed dros bechaduriaid, enwaedwyd ar y Baban dwyfol hwn yn yr 8fed dydd o'i oes, a galwyd ef *Iesu*, neu y *Gwaredwr*, megys y cyfarwyddasai yr angel hwynt cyn ei enedigaeth. Pan, yn mhen o ddeutu 33 o ddyddiau wedi hyn, y presennolodd ei fam ei hun a'r Baban yn y deml, cymmerodd Simeon, sanct nodedig, y plentyn yn ei freichiau, bendithiodd Dduw am ei ymddangosiad, a dymunodd am gael marw yn ddiattreg, o herwydd ei fod wedi gweled yr Iachawdwr mewn cnawd. Rhybuddiodd Mair, fod ei mab wedi ei osod yn gwrymp ac yn godiad i lawer o'r Iuddewon; ac yr achlys-

urai, trwy y driniaeth a ddyoddefai, lawer o ofid iddi hithau. Yn yr awr honno, Anna, prophwyd'es oedranus, a ganfu mai efe oedd y Messiah, ac a fynegodd i'w chyfeillion duwiol am ei fawredd. Ar ol myned i Nazareth, a phenderfynu eu gorchwylion, ymddengys i Joseph a Mair ddychwelyd i Fethlehem i gyfaneddu; gan fwriadu, yn ddiammau, i gydsynio â'r hen brophwydoliaeth am le geni'r Messiah. Ond, wedi eu rhybuddio gan hen ymadroddion Balaam, a phrophwydoliaethau ereill o'r ysgrythyr; wedi eu rhybuddio gan y sôn helaeth am ymddangosiad diatreg y Messiah; wedi eu dychrynu gan yr olwg ar ryw seren hynod; daeth rhai Magi, neu ddoethion o Persia, Caldea, neu Arabia Ddwyreiniol, i ymweled â brenin yr Iuddewon, ac i'w addoli ef, yr hwn oedd newydd ei eni yn awr. Yn Jerusalem, ymofynasant am dano. Cythryblwyd Herod a'i ddeiliaid yn arswydus gan y newydd am enedigaeth y Messiah. Galwyd cynghor yn nghyd, yn yr hwn y cydunwyd mai Bethlehem oedd y lle i fod. Ar ol ymofyniad dirgel pa bryd yr ymddangosasai y seren, a rhoddi gorchymyn iddynt i ddychwelyd a mynegu iddo ef pwy oedd y Baban, gollyngodd Herod hwynt ymaith i fyned i Fethlehem. Prin yr oeddynt wedi ymadael â Jerusalem, pan yr ymddangosodd y seren iddynt yn mharth isaf yr wybren, ac a'u harweiniodd hyd yn nod i letty Joseph a Mair. Aethant yn mlaen yn eu taith mewn llawenydd; ac wedi cael y Baban, addolasant ef, a rhoddasant iddo anrhegion o aur, thus, a myrrh. O herwydd fod Herod yn bwriadu lladd y Plentyn, rhybuddiodd angel y doethion i ddychwelyd adref heb ail-ymweled âg ef; a rhybuddiodd Joseph hefyd. Wedi ei barottoi yn awr i'w daith, trwy yr anrhegion diweddar, i ddwyn y Plentyn a'i fam i'r Aipht, ac i aros yno hyd nes y cai orchymyn pellach, Joseph, yn ddiattreg, a ufuddhaodd. Herod, wedi llidio yn aruthr o herwydd na dychwelasai y doethion i fynegu iddo am y Plentyn, a anfonodd ei luoedd allan, ac a laddodd yr holl fechgyn oeddynt yn Methlehem, a'r lleoedd amgylchynol, fel y gallai fod yn sier o ladd yr Iesu yn eu plith. Ar ol marwolaeth Herod, rhybuddiodd angel Joseph a'i deulu i ddychwelyd i Ganaan. Gwnaethant felly. Parodd creulondeb Archelaus iddynt ofni trigo yn Judea. Trwy gyfarwyddyd Duw, aethant tua'r gogledd, a phreswyliasant yn Nazareth; yr hyn, heb yn wybod iddynt hwy, a gyflawnodd yr hen brophwydoliaeth am fod Crist yn *Notzer*, y *Ceidwad*; neu yn *Netzer*, y *Blaguryn*, Mat. ii. Job vii. 20. Esa. xi. 1.

Pan yn ddeuddeng mlwydd oed, daeth yr Iesu, yn nghyd â'i fam a'i dad cyfrifedig, i gynnal y Pasg. Gwedi myned yr wŷl heibio, dychwelasant hwy, ond efe a arosodd ar ol, ac a ymddyddanodd â'r Rabbiniaid Iuddewig, er syndod i bawb a'i clywsant. Ei rieni, o'r diwedd, wedi methu ei gael, a ddychwelasant i'w geisio ef. Ar y trydydd dydd, hwy a'i cawsant. Ei fam a ofynodd iddo paham y parasai iddi hi a'i gwr ymofyn am dano cyhyd gyda chalonau gofidus? Attebodd yntau, Y gallasent wybod y byddai efe yn nrthddrych gofal ei Dad dwyfol, ac yn ymarfer â'i waith ef. Yna efe, yn y modd mwyaf gostyngedig, a ddychwelodd gyda hwynt i Nazareth; ac, yn ddiaumau, a weithiodd fel saer gyda Joseph. Dywed *Evagrius*, *Paladius*, *Origen*, *Eusebius*, *Athanasius*, a *Jerome*, ei fod yn flyddlon a diwyd yn dylyn yr alwedigaeth honno o 12 i 30 oed; yn y cyfamser, yn cynnyddu mewn doethineb a gras, ac yn ymddwyn yn y fath fodd ag a ynnillai ffafr Duw a dynion, Luc ii.

Yr oedd Ioan Fedyddiwr, ei ragflaenor, yn awr wedi dechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus, gan wneud llwybrau uniawn i Grist, trwy ei fedydd o edifeirwch; pan y daeth Crist, megys gweinidog yr enwaediad, ïe, wedi ei wneuthur dan y ddeddf hôno y daethai i'w chyflawni at Ioan, gan ofyn bedydd, a deisyf arno adael hyny yn awr, o herwydd y sefyllfa yn mha un y safai, megys cyflawnydd y gyfraith honno. Ar yr achlysur hwn, agorwyd y nefoedd; disgynodd yr Ysbryd Glân arno mewn dull colommen heddychlon; a chyhoeddodd y Tad, mai efe oedd ei *anwyl Fab, yn yr hwn* yr oedd wedi cael ei *lwyr foddloni*. Yr Ysbryd Glân, trwy ei ddylanwadau nerthol, a'i harweiniodd ef i'r anial-

wch, sef yr un erchyll hwnw, hwyrach, yn mynyddoedd Quarantana, o du y gogledd i Jericho; neu ynte mynydd Pisgah, o du y dwyrain i'r Iorddonen. Yno y treuliodd 40 diwrnod mewn ympryd a gweddi, i gymmwyso ei hun ar gyfer ei weinidogaeth gyhoeddus. Yma befyd, temtiwyd ef yn rhyfeddol gan Satan, yn enwedig yn niwedd y dyddiau hyny. Pan oedd newyn arno, ymdrechai Satan i'w hudo i ammau ei Faboliaeth, ac i weithredu gwyrth er ei gadwedigaeth ei hun. Yna efe a'i dygodd i Jerusalem, a'i gosododd ar grib uchaf y deml, a cheisiodd ei lithio i fwrw ei hun oddi yno, mewn gobaith am gadwedigaeth dwyfol. Yn nesaf, dygodd ef i fynydd uchel, lle yr arddangosodd iddo holl deyrnasoedd y byd, a'u gogoniant, a chynnygodd eu rhoddi hwy oll iddo, os gwnai ond syrthio i lawr a'i addoli ef. Gyda ffieiddiad, a chyda rhesymau ysgrythyrol, gwrthwynebodd yr Iesu yr hudoliaethau hyn. Gadawodd Satan ef dros amser, ac angelion sanctaidd a ddaethant ac a weiniasant iddo, a'u cyssurasant, ac a roddasant luniaeth iddo, Mat. iii. 4. Luc iv. Gadawodd yr Iesu y anialwch, ac aeth i'r lle yr oedd Ioan yn bedyddio. Nododd Ioan ef allan i'w wrandawyr megys *Oen Duw*, yr hwn a ddaeth i wneud iawn am bechodau y byd, Cenedloedd yn gystal âg Iuddewon. Tranoeth efe a'i nododd eh allan yn yr un modd i Andreas, ac hwyrach i Ioan, dau o'i ddysgyblion. Aethant ar ei ol, ac ymofynasant pa le yr oedd yn lletya. Efe a'u cymmerodd hwynt gydag ef, ac arosasant gydag ef tros y diwrnod hwnnw. Gwedi hysbysu o Andreas iddynt eu bod wedi cael y Messiah, aeth Petr yn nghyd â'i frawd i'w weled ef. Tranoeth yr Iesu, wrth ddychwelyd i Galilea, a gafodd Philip, a deisyfodd arno fyned gydag ef. Philip, wedi cael Nathanael, a fynegodd iddo eu bod wedi cael allan mai yr Iesu o Nazareth oedd y Messiah addawedig. Tybiodd Nathanael ei fod yn beth analluadwy i'r fath fendith ddeilliaw o Nazareth; ond, pan yr oedd yr Iesu yn adgofio iddo am ryw weithredoedd crefyddol tra dirgelaidd, efe a'i cydnabu ef yn Fab Duw, y Gwaredwr dysgwyliedig, Ioan i. 28, 51. Yn awr, gan fod cymmaint o hanes bywyd pur a sanctaidd yr Iesu bendigedig i'w gael yn yr ysgrythyrau dwyfol, bernir mai anfuddiol fyddai ailadrodd ychwaneg o hono yma.

Pa ddirgelion rhyfeddol bynag y sydd yn gynnwysedig yn nghnawdoliaeth, ufudd-dod, a marwolaeth Mab Duw, y mae yn fwy anamgyffredadwy fyth pa fodd y gallai un twyllwr, annysgedig na dysgedig, ffug-lunio cymmeriad mor ardderchog a hawddgar. Pan gymherir genedigaeth, bywyd, marwolaeth, adgyfodiad, a gogoneddiad yr Iesu o Nazareth, a'r amrywiol amgylchiadau o honynt, â'r hen gysgodau a'r prophwydoliaethau, y mae y cydundeb mor eglur a chyflawn, fel y mae yn rhyfedd pa fodd y gallai neb ammau ei Dduwdod. Ei athrawiaethau, ei wyrthiau, a'i adgyfodiad yn cael eu gwirio gan gyfeillion a gelynion; llwyddiant ei efengyl; fe, anghrediniaeth yr Iuddewon; dinystr arswydus eu heglwys a'u cenedl; eu cadwedigaeth wyrthiol yn gorph neilldduedig, yn nghanol eu gwasgariad a'u caledi; a'r holl gau Gristiau a gau Fessiaid a ymddangosasant yn eu plith, ydynt ar unwaith yn cyflawni ei ragddywediadau, ac yn profi ei Dduwdod. Nid allasai, ac nis gall dim, gan hyny, ond anwybodaeth am yr hen brophwydoliaethau a'r defodau, balchder, a dymuniad gwallgofus am waredwr a phennaeth tymhorol i fod yn Fessiah, ogwyddo meddyliau yr Iuddewon i'w wrthod ef. Y moddion sanctaidd trwy ba rai yr ymgadarnhant yn eu hanwybodaeth, mor isel a distadl ydynt! Tros ennyd, hwy, yn anwybodus am amseryddiaeth, a fyrhasant yr amser rhwng eu dychweliad o Babilon a genedigaeth yr Iesu, ac a honnasant nad oedd amser ymddangosiad y Messiah, a ragbenodasid gan y prophwydi, wedi dyfod. Yn nesaf, aethant yn ddyrysedig a rhanedig yn eu syniadau. Rhai a haerent fod ei ddyfodiad yn cael ei oedi, o herwydd eu pechodau hwy; ond pa fodd y gallai pechod fod yn achos o oediad *gwaredu oddi wrth bechod*, nis gwyddent. Ereill a honnent iddo gael ei eni o ddeutu yr amser yr ymadawodd eu teyrnwialen, ac y dinystriwyd eu

dinas a'u teml gan Titus; ond ei fod yn gorwedd yn guddiedig yn mysg y gwahangleifion yn Rhufain, neu yn y Baradwys ddaearol, nes y deuai Elias, ac yr amlygai ef i ddynion. Er's amryw oesoedd a aethant heibio, y mae wedi bod yn arferiad ganddynt i felldithio y gwr a gymmerai arno fwrw amcan yn nghylch amser ymddangosiad y Messiah. Yn lle iawn gymmwyso yr amrywiol brophwydoliaethau at gyflwr deublyg y Messiah, y maent, mewn eithaf syfrdandod, wedi ei hollti ef yn ddau; y naill o hiliogaeth Ephraim, yr hwn, yn nghanol trallodion arswydus, a gynnyg, gyda iluoedd Ephraim, Manasseh, Benjamin, a Gad, i waredu yr Iuddewon, ac a drenga yn ei anturiaeth. Y llall o deulu Dafydd, yr hwn a gyfyd y blaenaf oddi wrth y meirw; a adgyfyd yr Iuddewon ymadawedig; a ailadeilada eu teml yn Jerusalem; a oresgyn yr holl ddaear, ac a lywodraetha arni.

Pan yr ystyriom berthynas person Crist fel Duw-dyn, â'i waith, wrth gyflawni ei swyddau, ac â'i gyflwr o ymddarostyngiad ac o ogoniant; pan yr ystyriom pa fodd y mae Duw yndde, a chydag ef; pa fodd y mae ei holl berffeithrwydd yn cael ei amlygu, a'i wirioneddau eu hegluro ynddo ef; pan yr ystyriom ei amrywiol berthynasau âg arfaethau, cyfammodau, geiriau, ac ordinhadau Duw, ac â'r eglwys; ac â rhagorfreintiau, dyledswyddau, ac addoliad y saint, pa un bynag ai mewn amser neu dragywyddoldeb, y mae genym olwg hyfryd arno, megys POB PETH ac yn MHOB PETH, Col. iii. 11.

Gau-Gristiau, ydynt y cyfryw ag a gymmerant arnynt mai hwy yw y Messiah. Pa luoedd o'r rhai hyn a ymddangosasant yn mhlith yr Iuddewon, i'w cospi am eu gwrthodiad o'r Iesu, a geir ei weled dan y gair *Iuddewon*, Mat. xxiv. 24. Bod *Crist wedi ei ffurfio ynom*, sydd ymadrodd yn cyfeirio at ffurfiad y defnydd anelwig yn y groth; ac ymddengys ei fod yn dynodi, na ddichon ond nerth creadigol hollalluog yn unig ddysgu gwybodaeth y gwirioneddau; ac o herwydd y llefarir am Grist mewn man arall fel yn *trigo ynom trwy ffydd*, nid yw y ffurfiad hwn o Grist yn ddim amgen na'r gwirionedd am Grist yn cael ei gredu yn y galon, a'i gyssylltu âg iachawdwriaeth, Gal. iv. 19. Eph. iii. 17. Yr Iesu a'i bobl, a'u hystyried megys wedi eu huno yn un corph dirgeledig, o ba un efe yw y pen, a hwythau yr aelodau, a elwir *Crist*, 1 Cor. xii. 12.

CRISTIONOGION a gawsant yr enw hwn, o herwydd mai rhai ydynt ag sydd trwy eu proffes a'u hymarweddiad, yn tystiolaethu iddynt fod gyda'r Iesu, yn dysgu ganddo, ac yn cael gorphwysfa i'w heneidiau. Y mae nid yn unig lawer o Anghristiau neu elynion i Grist wedi bod, ond hefyd lawer o Gristionogion gau, yn cymmeryd ffurf duwioldeb ac enw o Gristionogrwydd arnynt, tra y maent yn ddyeithriaid i'w gallu hi. Rhaid fod y Cristion yn cael ei enwi felly, o herwydd ei waith yn credu yn yr hyn a ddadguddia yr ysgrythyrau mewn perthynas i Grist; a hyn yn ymddangos yn ei ufudd-dod i'r *holl bethau* a orchymynodd efe. Nid yw enw o fod yn Gristion yn ddigon, heb fod yn feddiannol ar Ysbryd Crist i'n cyddfurfio yn mhob peth â Christ. Pechaduriaid euog, wedi eu goleuo â gwybodaeth y gwirionedd am Grist, a alwyd gyntaf yn *Gristionogion* yn Antiochia, ac y mae yr enw yn parhau ar drigolion y rhan honno o'r byd a'r sydd yn derbyn athrawiaeth ysgrythyrau y ddau Destament, Act. xi. 26. Nid oes yn awr yn America, un enw arall ar holl broffeswyr Cristionogrwydd yn ddiwahan ond *Cristionogion*. Prysured y dyddiau ag y bydd yr holl wahanol enwau a'r sydd ar broffeswyr y byd, yn cael eu llyngcu yn yr enw mawr a gogoneddus hwn.

CROCHAN, *(croch)* efyddyn. *Gorwedd yn mysg y crochanau*, yw bod mewn cyflwr tra halogedig, caeth, ac adfydus, Salm lxviii. 13. Tynwyd yr Hebreaid oddi wrth *grochanau* a *beichiau*, pan y gwaredwyd hwy oddi wrth eu gwneuthuriad caethwasaidd o briddfeini yn yr Aipht, Salm lxxxi. 6. Jerusalem a gyffelybir i *grochan berwedig*, ar dân yn *wynebu tua y gogledd*: trwy y Caldeaid, fel moddion, y rhai a ddaethant o'r gogledd, y gwarchaewyd ar Jerusalem ac y llosgwyd

hi, a'r trigolion a boenydiwyd hyd angau, megys mewn dwfr berwedig, neu megys mewn crochan sych, ond gwynias, Jer. i. 13. Ezec. xxiv. 3—13. Hi, neu y wladwriaeth Iuddewig, oedd yn gyffelyb i *grochan wedi ei ddifwyno yn llaw y crochenydd;* gan Dduw, y lluniwr o honynt, y dinystriwyd ac y torwyd hwy yn ddarnau trwy y Caldeaid, fel moddion, Jer. xviii. 4. Y *crochan aur*, yn yr hwn yr oedd y manna yn nghadw, a allai fod yn gosod allan ordinhadau gwerthfawr yr efengyl dragywyddol, yn y rhai y mae cyflawnder Crist i'w gael, ac yn gadwedig i'r cenedlaethau ger bron Duw, a than ei olygiad neillduol, Exod. xvi. 33. *Fel y tawdd-lestr i'r arian*, a'r *ffwrnes i'r aur*, h. y. er prawf ac amlygiad y metteloedd hyn, *felly y mae gwr i'w glod;* wrth gymmeriad y rhai sydd yn ei ganmol, ac wrth ei ymddygiad yntau dan ganmolaethau, fe ymddengys pa fath ddyn ydyw, Diar. xxvii. 21.

CROCHENYDD, *(crochan)* un yn gwneuthur crochanau neu lestri o bridd, Jer. xviii. 3. Y mae Duw yn cael ei alw y *Crochenydd;* efe sydd yn llunio ein cyrph o glai, gan ein ffurfio, a gwneuthur â ni, fel y gwelo fod yn dda, Rhuf. ix. 21. Esa. xliv. 8. Gwneir crybwylliad mynych am y *Crochenydd*, yn yr ysgrythyr. Pan y mynnai Duw ddangos ei lywodraeth anymddibynol ar ddynion, a'i awdurdod anwrthwynebol ar eu calonau, y mae yn cyrchu yn fynych at y gyffelybiaeth o *grochenydd*, yr hwn a wna fel y mynno â'i glai; weithiau llestr i barch, ac weithiau rhai i anmharch; yn awr yn ei ffurfio, yn y man yn ei dorri; yn awr yn ei gadw, ac yn y man yn ei wrthod, Salm ii. 9. Rhuf. ix. 21.

CROEN *(crawen*, gorchudd). 1. Gorchudd cnawd rhyw greadur, dyn neu anifel, Lef. vii. 8. Y mae y croen dynol wedi ei orchuddio â math o gen mor fân fel na ddichon y llygad noeth eu canfod, ac y mae pob troedfedd bedaironglog yn cynnwys o ddeutu 144,000,000 o chwysdyllau. Gwisgoedd cyntaf dynion oeddynt o grwyn anifeiliaid, Gen. iii. 21. Prophwydi, saint dan erlidigaethau, a chenedloedd gwylltion, yn fynych wedi hyny, a wisgasant wisgoedd o grwyn, Heb. xi. 37. (2.) Lliw allanol y croen, Jer. xiii. 23. *Blingo y croen*, a arwydda gorthrymmu dynion, hyd na bydd ganddynt ond eu heinioes yn unig wedi ei gadael, Mic. iii. 2, 3. *Diange â chroen y dannedd*, yw diange heb ddim ond y bywyd, wedi cael, fel pe bai, guro y dannedd allan, a phrin fod genau wedi ei adael i gwyno, Job. xix. 20. *Croen am groen*, ydoedd hen ddihareb, yn arwyddo yr achub dyn ei fywyd ei hun yn llawen ar draul marwolaeth perthynasau, neu unrhyw golled allanol arall, Job ii. 4.

CROES-HOELIO, *(cro*, tröad) crwys, crogi. *Crwys* oedd yr hen air am *groes;* mae diareb hyd heddyw yn Mhrydain, am un a fydd wedi marw, sef ei fod dan ei grwys, hyny yw, dan ei groes; dechreuodd hyn yn Nghymru yn amser pabyddiaeth, am fod y pabyddion yn arfer, pan y byddai un o honynt farw, gosod llun y groes ar y corph marw yn y gwely, ac yna dywedent ei fod dan ei *grwys*. Math o grogbren yn gynnwysedig o ddau ddarn o bren wedi eu gosod y naill ar draws y llall ar ddull T neu X. O'r fath gyntaf y dywedir fod yr un y dyoddefodd ein Hiachawdwr arni. Marwolaeth y groes a elwid *croeshoelio*. Gyda'r Groegiaid, ac amrywiol genedloedd ereill, yr oedd yn gospedigaeth gyffredin. Gyda'r Iuddewon nid oedd yn cael ei harfer oll, gan fod crogi ar bren yn ddihenydd o fath wahanol. Gyda'r Rhufeiniaid, yr oedd yn cael ei gyfrif yn drosedd erchyll i ddihenyddio neb o'u dinasyddion yn y modd hwn. Yr oedd, gan hyny, yn weithred nid bechan o eiddo Rhagluniaeth ddwyfol, i drefnu pethau fel y byddai i'r Iesu ddyoddef marwolaeth y groes hon. Yr oedd yn dra chywilyddus, poenus, ac arafaidd. Yn gyntaf, fflangellid y troseddwr yn gyffredin â chyrt, â darnau o esgyrn yn fynych wrth eu blaen. Yn nesaf, dygai ei groes, neu ran o honi i'r dihenyddle. Pan y deuai yno, diosgid ei ddillad oddi am dano, ac naill ai cyn neu ar ei gosod y groes i fynu, rhwymid ei ddwylaw weithiau, ond yn gyffredin hoelid hwy wrth y pren croes, a'i draed wrth y rhan isaf. Yr hoelion

yn cael eu gyrru trwy y rhanau mwyaf teimladwy o'r corph, ac yn cynnal rhan, os nid holl bwys y trosddwr, a wnaent y boenedigaeth yn ira angherddol. Pa fodd bynag, dywedir fod darn o bren rhwng eu nesgeiriau yn fynych yn eu cynnal nwynt. Byddai weithiau ddau neu dri diwrnod wedi myned heibio cyn y trengai y dyoddefydd; ac o herwydd hyn, torwyd esgeiriau y lladron a groeshoeliwyd gyda Christ, fel y prysurid eu marwolaeth: a'r achos pa ham y trengodd yr Iesu mor ebrwydd, oedd gwirfoddolrwydd ei farwolaeth, ac argraff ddigofaint ei Dad arno. Weithiau, pyddai dynion yn cael eu croeshoelio a'u penau i waered. Yn y dull hwn, dywedir, y dymunodd Petr gael ei groeshoelio, er anrhydedd i farwolaeth ei Arglwydd. Byddai ysgrifen yn dangos achos y gospedigaeth, yn gyffredin yn cael ei gosod ar lêch uwch ben y groes, fel y gallai pawb ei gweled. Y mae yn nodadwy fod yr ysgrifen ar un Crist, yn lle ei gyhuddo o fai, yn eglur arwyddo ei ddiniweidrwydd, ac, mai efe oedd y Messiah; ac nid allodd neb gael gan y llywodraethwr Cenedlig ei chyfnewid. Crist a *groeshoeliwyd trwy wendid* ei ddynoliaeth, ond byw y mae trwy nerth Duw; cyfodwyd ef oddi wrth y meirw, ac y mae yn byw byth trwy ei nerth dwyfol ei hun, 2 Cor. xiii. 4, cymhar 1 Petr iii. 18. Y mae yn cael ei *ail-groeshoelio*, pan fydd ei berson neu ei rwyddau yn cael eu diystyru, eu hasâu, a'u cablu, a'i gyfiawnder a'i fengyl eu hollol wrthod. Heb. vi. 6. Y mae yn cael ei *groeshoelio* yn Rhufain, neu yn y wladwriaeth Anghristaidd, pan bydd ei berson, a'i rwyddau yn cael eu dirmygu, ei wirioned ei ŵyrdroi, ei gyfiawnder ei cablu, a'i bobl eu lladd, Dad. xi. 8. Y mae y saint yn cael eu *croeshoelio gyda Christ:* yn ei farwoleth, yr oedd yn eu cynnrychioli nwynt, a thrwy gymmwysiad o'r Ysbryd Glân at eu cydwybodau, y mae yn eu gwneuthur yn feirw i'r deddf, i bechod, ac i'r byd, ac yn addol yn marweiddio eu holl lygredd tufewnol, Gal. ii. 20. Y mae yn hen ddyn, neu eu chwantau llygredig, yn cael eu *croeshoelio* gydag ef; y gyfraith, yr hon yw grym pechod, sydd wedi cael ei lladd trwy ei gyfiawniad ef o honi; a thrwy eu bundeb â'i berson, a'u cyfranogiad o ddybenion a rhinweddau ei gariad pan yn marw, y mae eu pechod tufewnol yn cael ei wanhau yn raddol, a hwythau yn cael eu nerthu trwy yr Ysbryd i fwynhau ei weithredoedd ef, Rhuf. vi. 6. Gal. v. 24. Trwyddo ef a'i groes, y maent hwy yn cael *eu croeshoelio i'r byd*, a'r *byd iddynt hwythau;* trwy eu hymlyniad proffesedig wrtho ef, ac athrawiaeth ei groes, y maent yn myned yn ddirmygus yn ngolwg dynion drygionus a daearol, ac yn cael eu didoli oddi wrthynt; trwy lynu wrth ei berson, a chymmwyso ei gyfiawnder at eu cydwybodau, y mae eu serchiadau a'u cariad at y byd yn cael eu rhyddhau oddi wrtho, ac y mae ef, iddynt hwy, fel drwgweithredwr marw, yr hwn sydd wedi lladd ei enaid, a pheri iddynt hwy ddianrhydeddu eu Duw, Gal. vi. 14.

Y mae holl ddyoddefiadau Crist yn cael eu galw ei *Groes;* o herwydd mai arni y dyoddefodd efe yn y modd mwyaf dychrynllyd, yn ei enaid a'i gorph ar unwaith, Eph. ii. 16. Heb. xii. 2. Athrawiaeth ei ddyoddefiadau a elwir ei *groes* ef, 1 Cor. i. 18. Gal. v. 11, a vi. 12. Gelynion i'w *groes* ef, ynt y rhai a gloddiant oddi tan yr angenrheidrwydd neu y rhinwedd o'i gyfiawnder ef trwy eu hathrawiaeth ddeddfol, eu gofal bydol, neu eu buchedd benrhydd, Phil. iii. 18. Gorthrymderau a gofidiau, yn benaf y rhai a oddefir er mwyn Crist, a elwir yn *groes;* maent yn boenus, yn nychlyd, a chywilydd yn eu canlyn yn ngolwg dynion cnawdol; a *chyfodi y groes hon*, yw ymostwng yn ewyllysgar dani, er cariad at Grist, Mat. xvi. 24.

CROGI, *(crog)* dibynnu. Y mae Duw yn *crogi* y ddaear ar ddyddim; trwy wir allu y mae efe yn ei chadw yn ei lle, fel pelen amgylchynedig, mewn pellder dirfawr, gan y nefoedd weledig, Job xxvi. 7. Ar y ddau orchymyn, sef caru Duw a'n cymmydog, y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn *crogi* neu yn *sefyll;* y mae pob dyledswydd a nodir allan yn y gyfraith a'r prophwydi yn gynnwysedig yn y ddau beth hyn; ac y mae pob hanes, athrawiaeth, add-

ewid, a bygythiad yn tueddu i ddwyn y cariad hwn yn mlaen, Mat. xxii. 40. Yr oedd *crogi* yn hen gospedigaeth, Gen. xl. 22. Jos. viii. 29. Nid oedd y drwgweithredwyr a *grogid* yn Israel i aros ar y pren dros nos. Yr oeddynt yn gysgodau o Grist yn cael ei felldithio a'i groeshoelio drosom, ac o'i waith yn boddloni gofynion y gyfraith dorredig trwy ei farwolaeth, a thrwy hyny yn symmud anwiredd y tir mewn un dydd, Deut. xxi. 23. Gal. iii. 13; o herwydd y mae croeshoelio yn cael ei alw yn *grogi*, Luc xxiii. 39. Act. v. 30.

CRONICL; y gair hwn a arwydda hanes yn coffau am bethau a ddygwyddasant mewn *amseroedd* gynt. Y mae dau lyfr yn yr Hen Destament yn cael eu galw felly. Cynnwysant hanes am yn nghylch 3500 o flyneddoedd, sef o'r greadigaeth, hyd ar ol dychweliad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon; ac adroddant amrywiol o bethau na chrybwyllwyd am danynt yn yr hanesion a ysgrifenasid o'r blaen; ac ychwanegant amgylchiadau ereill; ac, o herwydd hyny, ymddangosant, weithiau fel pe baent yn gwrthddywedyd y blaenaf, er nad ydynt felly mewn gwirionedd. Tebygol mai Ezra a ysgrifenodd y rhan fwyaf o honynt. Ond crybwyllir am lyfr arall o Groniclau yn fynych yn hanes y breninoedd, yr hwn nid oedd ond gwaith dynol, yn mha un yr oedd hanes y genedl Hebreaidd yn cael ei adrodd yn helaethach, 2 Bren. xxiv. 5.

CROTH; y rhan hono o gorph y fam lle y cenedlir ac y meithrinir plant hyd eu genedigaeth, Luc i. 31. *Croth y wawr*, yw y cymmylau a ddyhidlant eu defnynau o wlith; a gall fod yn gosod allan yr eglwys, yn yr oes apostolaidd, yn esgor ar luoedd i Grist, Salm cx. 3.

CRYD; math o afiechyd blin, yn gynnwysedig mewn ymferwad y gwaed, a churiad buan y galon, yn nghyd â gwres dirfawr yn ei ganlyn. Ceir ef yn fynych yn y cyrph iachaf, lle nad oedd dim tueddiad heintus o'r blaen. Yn nechreuad y clefyd hwn, y mae cyfogyddion yn ddefnyddiol iawn. Pa fwyaf llym y bydd y cryd, teneuaf i gyd y dylai yr ymborth fod; ac nid yw waeth pe ymprydiai y claf dros amryw ddyddiau yn ddidor, o herwydd fod cymmeryd lluniaeth yn dueddol o ychwaneguyr afiechyd. Pa bryd bynag y bydd y trwngc yn ffurfio llawer o waelodion, y mae y prif berygl drosodd. Y mae mynych chwythiad y trwyn, heb arllwys dim llysnafedd o hono, yn nghyd â churiad cyflym, ond gwan ac attaliedig o eiddo y galon, yn arwyddion tra anfethedig o ddynesiad angau. Y mae rhywiogaethau yr afiechyd hwn yn lluosog iawn; megys y cryd *dyspeidiol*, y *diddyspaid*, y *beunydd'iol*, &c. Deut. xxviii. 22.

CRYSOLITHUS *(eurfaen)*. Yr un a alwai yr henafiaid felly oedd, tebygol, y *Topaz*. Y gem a elwir yn awr crysolithus, sydd o liw yr aur, ond heb fod yn fawr ei gwerth. Y mae crysolithus Asia yn hardd iawn yn ei gyfiwr pur, ac anfynych y ceir ef yn fwy na phen pin mawr. Un America sydd yn fwy, ac un Europaidd Silesia a Bohemia yn fwy byth, ond y lleiaf ei werth. Crysolithus yr henafiaid oedd y seithfed maen yn sylfaen y Jerusalem Newydd, ac hwyrach, y degfed gem yn nwyfroneg yr archoffeiriad, Dad. xxi. 20.

CRYSOPRASUS, *(eur-gennin-en)* maen gwerthfawr, o liw gwyrdd prydferth, yn gymmysgedig â melyn. Hwn oedd y degfed yn sylfaen y Jerusalem newydd, Dad. xxi. 20.

CUB; gwlad y Cubiaid, tebygol, o du y gogledd-orllewin i'r Aipht: ond myn y cyfeithiad Arabaidd, ac ereill, mai y Nubiaid oeddynt, y rhai a sefydlasant o du y dehau-orllewin i'r Aipht, Ezec. xxx. 5. Nid oes crybwylliad am dani mewn un man arall yn yr ysgrythyrau.

CUCUMER; math o blanhigyn. Ei flodeuyn sydd yn gynnwysedig o un ddalen, yn debyg ei llun i gloch, ac wedi ei dosparthu yn amrywiol ranau; y ffrwyth yn debyg i afal, o ran ffaethder ei fwydion, ac a gynnwys dair cell, lle gosodir yr had lluosog yn ddwy res. Crybwylla *Tournefort* am chwe rhywiogaeth o honynt, o ba rai y gwyn, ac yn enwedig y gwyrdd-las, a gyfrifir yn oreu. Gofynant lawer iawn o wres i'w meithrin. Yr oedd helaethrwydd mawr o honynt yn tyfu yn yr Aipht a Phalestina, lle yr oeddynt yn ymborth cyffredin caethweision a

thlodion y wlad, Esa. i. 8. Num. xi. 5. Cucumerau ydynt yn rhagorol at oeri y cylla; maent yn gyffyr cyffredinol bron mewn meddyginiaethau: ac yn ddefnyddiol mewn twymynau, ac afiechyd yr arenau.

CUDDIO, a arwydda, (1.) Cuddio, cadw yn ddirgel; felly y mae Duw yn cuddio ei orchymynion pan na bydd yn dangos eu hystyr, Salm cxix. 19; a chuddio ei gyfiawnder yn ein calon, yw esgeuluso mewn modd pechadurus ei gyhoeddi a'i fynegu yn ddyladwy, Salm xl. 10. (2.) Trysori; felly y mae y saint yn *cuddio* gair Duw yn eu calonau, pan y trysorant ef yn eu côf, eu barn, eu cydwybod, a'u serchiadau, fel y bydd iddo lywodraethu a rheoli eu holl ymarweddiad mewn calon a bywyd, Salm cxix. 11. (3.) Diogelu; y mae Duw yn *cuddio* ei bobl yn ei babell, yn nirgelfa ei bresennoldeb, a than gysgod ei adenydd; ac y mae yn *lloches* iddynt, pan, wrth arfer ei berffeithderau, y rhydd iddynt y nodded mwyaf diogel ac adfywiol rhag perygl a niweid, Salm xxvii. 5, a xxxii. 7. Y mae Iesu Grist yn *ymguddfa;* tan gysgod ei gyfiawnder y diogelir ni rhag perygl oddi wrth bechod, y diafol, a'r byd, Esa. xxxii. 2. Duw sydd yn *ymguddio*, ac yn *cuddio* ei wyneb, pan y bydd yn peidio dangos ei ogonant a'i ewyllys da, mewn modd caredig, yn ei air, ei ordinhadau, a'i ragluniaeth, Salm lxxxix. 46; ond ei waith yn *cuddio* ei wyneb oddi wrth ein pechodau, a arwydda ei gwbl faddeuant o honynt, Salm li. 9. Y mae yn *cuddio* balchder oddi wrth ddynion, pan y bydd yn eu siommi, ac yn eu hamddifadu o'r peth y byddont yn dueddol i ymffrostio ynddo, Job xxxiii. 17. Y mae Duw yn *cuddio* cystudd dynion *yn ei galon*, pan y bydd ganddo, yn nghaiol cymmwynasau lluosog, fwriad dirgelaidd a sicr i'w cystuddio, Job x. 13. Dynion drygionus a dybiant fod Duw yn *cuddio* ei wyneb; hyny yw, nad yw yn sylwi ac yn dal ar yr hyn a wnant, Salm x. 11. Y mae dynion yn *cuddio* câs â gwefusau celwyddog, pan y byddant yn ei gelu dan ymhoniadau uchel i gardigrwydd a chariad, Diar. x. 18. Dynion yn *ymguddio*, a arwydda eu gwaith yn ffoi i rywle am nawdd a diogelwch, Dad. vi. 16; neu yn gwneuthur ychydig o ymddangosiad, Diar. xxvii. 12; neu, yn naccau dangos caredigrwydd, Esa. lviii. 7. Eu gwaith yn *cuddio* eu pechodau, a arwydda eu gwadiad, eu lleihad, a'u hesgusodiad o honynt, Salm xxxii. 5. Diar. xxviii. 13. Deall dynion sydd yn *ymguddio;* pan y bydd arnynt eisiau ei ddefnyddio, nis gellir ei gael, Esa. xxix. 14. Gelwir pa beth bynag sydd yn ddirgel, ac yn anhawdd i'w wybod neu i'w gael allan, yn *guddiedig;* y saint yw rhai *dirgel* Duw; y mae eu cyflwr a'u breintiau dedwydd yn anadnabyddus i'r byd, ac y maent dan ymgeledd Duw, Salm lxxxiii. 3. Yr efengyl a Christ ydynt yn *drysor* cuddiedig, ac yn ddoethineb *cuddiedig*, am nad adwaenir hwynt gan ddynion anianol, Mat. xiii. 44. 1 Cor. ii. 7.

CUFYDD; cyfelin, y mesur rhwng penelin gwr a blaen ei hirfys. Cyfrifir y cufydd yn gyffredin yn hanner llathen, neu ddeunaw modfedd o hyd; ond yr oedd cufydd cyssegredig yr Iuddewon yn ddyrnfedd yn rhagor, neu yn nghylch 21,888 modfedd, Ezec. xliii. 13. Meddylia rhai fod y cufydd cyssegredig yn ddau cymmaint â'r un cyffredin; a bod y colofnau yn mhorth teml Solomon yn 35 o gufyddau cyffredin, a dim ond 18 o gufyddau cyssegredig o uchder, 1 Bren. vii. 15. 2 Cron. iii. 15: ond gellir cyssoni y testunau hyn mewn modd arall, trwy gymmeryd fod uchder un colofn yn agos i 18 cufydd, ac uchder y ddwy yn nghyd yn 35. Tebygol nad oedd cufydd Caldea ond 18 modfedd, Dan. iii. 1.

CUS *(du)*. 1. Mab henaf Ham, a thad Nimrod, Seba, Hafilah, Sabtah, Raamah, a Sabtecah, a thaid Sebah, a Dedan. Cymmerodd ei hiliogaeth eu trigfanau dechreuol i fynu o du y dwyrain a gorllewin i'r rhan isaf o'r Euphrates; ac yn Arabia, y rhan hyny o honi, yn benaf, a elwir y Ddedwydd, Gen. x. 6—8. (2.) Enw rhai gwledydd, lle yr oedd Cus a'i hiliogaeth yn preswylio, a elwir Ethiopia gan y Groegiaid, a chyfieithwyr ereill. Ymddengys fod yr ysgrythyr yn crybwyll am dair Cus neu Ethiopia; (1.) Cus, Cuth, Cutha, Susiana, yn awr Cuzestan, neu wlad Cus yn Persia, o du y

dwyrain i'r rhan isaf o'r Hidecel neu y Tigris, Gen. ii. 23. Tebygol mai Memnon mab Aurora, neu y wawrddydd, yr hwn a gynnorthwyodd Priamus i amddiffyn Caerdroya, ac a elwir gan *Homer* a *Pindar* yn Ethiopiad, oedd brenin y wlad hon yn yr amseroedd boreuol hyn. Salmaneser neu Esarhadon, wedi gorescyn y wlad, a symmudodd y Cusiaid, neu yn ol dull y Caldeaid o lefaru, y Cuthiaid, o'u gwlad eu hunain, i breswylio yn eiddo deg llwyth Israel, lle y parhasant i addoli eu heilun Nergal. Gwel *Samariaid* a *Nergal*, 2 Bren. xvii. 24. (2.) Cus neu Cusan, o du y gogledd-ddwyrain i'r Môr Coch, yn agos i flaen llyngclyn Elan. Y mae hon yn gyssylltiedig â Midian, ac ysgydwyd hi gan y ddaeargryn a gaulynodd ymddangosiad Duw ar fynydd Sinai, Hab. iii. 7. Ar dueddau y wlad hon yr oeddynt yn cael Topaz rhagorol, Job xxviii. 19. Gelwir Zipporah, gwraig Moses, yn Gusiad neu Ethiopiad, o herwydd mai yno y ganed hi, Num. xii. 1. Pa un ai Ethiopiaid o'r lle hwn, fel yr arwydda eu henw, oedd Cusi y rhedegwr, yr hwn a ddygodd air sicr i Dafydd am farwolaeth ei fab Absalom; Cusi, tad Selamiah; a Cusi, tad y prophwyd Zephaniah, nis gwyddom. Hwyrach mai Ethiopiaid o'r wlad hon oedd y rhai a gyrchasant dan Zerah eu brenin, yn 1,000,000 o nifer, yn erbyn Asa brenin Judah. Ac nid ammau rhai nad brenin ar y wlad hon oedd Zirhacah; ac mai trigolion y wlad hon, a'u cynghreiriaid, wedi eu gadael i gynddaredd yr Assyriaid, y Caldeaid, neu y Persiaid, i'r dyben o ddwyn lleshad yr Iuddewon yn mlaen, oedd yr Ethiopiaid a'r Lybiaid, a roddwyd yn lle yr Iuddewon, 2 Cron. xiv. 2 Bren. xix. Esa. xliii. 3, a xlv. 14. (3.) Cus, Ethiopia, neu Abyssinia, gwlad o du y dehau-orllewin i'r Môr Coch, a dehau i'r Aipht. Gwada *Bochart* ddysgedig yn wir, yn nghyd â *Wells* ac ereill yn hyf na chrybwyllir byth am y wlad hon yn yr ysgrythyr, wrth yr enw Cus neu Ethiopia. Ond pa Ethiopia arall a allasai fod yn derfyn amherodraeth Persia, gan fod y ddwy arall yn gynnwysedig yn ei mynwes hi? Esth. i. 1, a viii. 9, a ix. 1. Pa Ethiopiaid ereill a allasid eu cyssylltu â'r Lybiaid o du y gorllewin i'r Aipht? Dan. xi. 43. Pa Ethiopiaid ereill, heblaw rhai duon Abyssinia, a allasent fod mor hynod o herwydd eu lliw digyfnewid? Jer. xiii. 27. Yn mha beth nid yw taith byddin Abyssiniaidd o'r Aipht, a'i dychweliad yno, yn cyduno gystal âg hanes Zerah a Tirhacah, ag yw teithiad byddin o Arabia? Gan i'r Assyriaid, y Caldeaid, a'r Persiaid, yn eu tro, orescyn yr Aipht, pa beth a'u rhwystrai hwy i ffino Ethiopiaid Abyssinia yn gystal â Cusan? Esa. xviii. a xx. Ezec. xxx. 4, 5. Pwy nis gwyr, i'r addewidion efengylaidd mewn perthynas i Ethiopia, gael eu cyflawni yn llawer mwy ardderchog yn Abyssinia, nac yn Cusan neu Cuzestan? Salm lxviii. 31, a lxxxvii. 4. A gawn ychwanegu fod *Dionysius* yr hen ddaear-ddarlunydd, ac *Eustathius*, y nodiedydd ar Homer, yn eglur yn dosparthu yr Ethiopiaid yn Ddwyreiniol a Gorllewinol, gan fod y Môr Coch rhyngddynt; a haera *Herodotus*, fod gan Xerxes, mab Darius Hystaspis, brenin Persia, Ethiopiaid o Asia ac Affrica yn ei fyddin arswydol. Hwyrach i'r Cusiaid groesi y Môr Coch tua'r gorllewin, oddeutu A.M. 2470.

Ethiopia, o du y dehau i'r Aipht, oedd unwaith yn deyrnas neu amherodraeth eang iawn, yn cynnwys 45 o freniniaethau, yn ol *Pliny*. Yr oedd yn dra mynyddig, ac ni bu yn ddi erioed lawer o ddinasoedd enwog, heblaw Axuma a Meroe, yr hon, dywedir, a allasai ddarparu 250,000 o filwyr, a 400,000 o gelfyddydwyr. Rhai o'r mynyddau ydynt o halen, ac mewn ereill y mae helaethrwydd o fŵn-gloddiau haiarn, copr, ac aur. Prif afon Ethiopia yw y Nilus, i ba un y mae yr holl rai bychain yn rhedeg; ac y mae hon, yn ol rhai awduron credadwy, yn ymranu yn ddwy gaingc, sef y Niger, yr hon sydd yn croesi ardaloedd meithion Affrica tua'r gorllewin; a'r Nilus, yr hon sydd yn rhedeg trwy yr Aipht i Fôr y Canoldir, ac yn chwyddo yn ddirfawr o herwydd y cawodydd anferthol sydd yn discyn yn Ethiopia yn mis Mehefin a Gorphenaf.

Ymddengys i Gusiaid Arabia, gyda rhan o hiliogaeth Joctan, groesi y Môr Coch yn nghyfyngfor Babel-

mandel, yn yr oesoedd boreuaf, o ddeutu amser caethiwed yr Hebreaid yn yr Aipht. Hwyrach i'r Ludim, mewn oesoedd henach fyth, sefydlu yn y wlad honno. Y mae iaith yr Abyssiniaid diweddar yn dynodi ei hun yn eglur fel cangen o'r hen wir Arabaeg. Yr oedd amryw o'u cyfreithiau yn lled debyg i eiddo yr Aiphtiaid, ac ereill yn gyffelyb i arferion yr Arabiaid mwyaf gwareiddiedig. Ham, tad Cus, neu Iau Ammon, oedd eu prif dduw. Ymddengys eu bod yn cael eu rhanu gynt yn lluaws mawr o lwythau, a breninoedd yn eu blaenori. Tebygol ddigon mai Abyssiniad oedd brenines Seba. Haerir bod ganddi fab, o'r enw Menelech, i'r brenin Solomon, yr hwn a gafodd ei addysgu yn y grefydd Iuddewig, a thrwy gynnorthwy rhai athrawon Hebrëig, a'i harweiniodd hi i mewn i Ethiopia. Dilys yw fod yr enwaediad, cadw y seithfed dydd yn Sabbath, a lluaws o ddefodau Iuddewig ereill, yn cael eu harfer gan yr Ethiopiaid hyd gorpb y dydd hwn. Ond y mae yn llawer llai amlwg, fod y pennaethiaid diweddar yno yn deilliaw mewn llinell gywir oddi wrth Solomon. Tebygol i Ethiopiaid Abyssinia gael eu gorchfygu gan Sisac. Yn ystod y rhyfel cartrefol, yr hwn a ddygwyddodd yn yr Aipht, ar ol marwolaeth Sisac, ymddengys i Zerah yr Ethiopiad wneuthur ei hun yn arglwydd ar yr Aipht a Lybia; a phan oedd yn bwriadu ychwanegu Judea at ei lywodraeth, gorchfygwyd ef gan y brenin Asa. Gwedi hyn, adeniliodd yr Aiphtiaid, trwy gynnorthwy 200,000 o Hebreaid neu Ganaaneaid, eu gwlad oddi wrth yr Ethiopiaid. O ddeutu A. M. 3257, darostyngodd So, neu Sabacon, brenin Ethiopia, yr Aipht, yr hon y pryd hwnw a gynnwysai dair neu ychwaneg o wahanol deyrnasoedd, ac aeth mewn cynghrair âg Hosea a'r Israeliaid, yn erbyn brenin Assyria. Arweiniodd Tirhacah, yr un, hwyrach, â Sethon, fyddin yn erbyn Senacerib. Yn mhen amser wedi hyny, Esarhadon, brenin Assyria, wedi ysgeilio yr Aipht, a ddarostyngodd ran fawr o Ethiopia; ac a gadwodd y bobl mewn caethiwed dair blynedd. Adenillasant eu rhyddid; ond Nebuchodonozor, Cyrus, a Cambyses, yn eu troion, a ddifrodasant ran o'r wlad, Esa. xvii, a xx, a xliii 3, a xlv. 14. Ezec. xxx. 4, 5. Cawsant eu blino wedi hyny gan y Rhufeiniaid, ac weithiau difrodid y wlad yn arswydus gan y Galiaid neu y Giagas annynol; ond y maent wedi ymgynnal yn wladwriaeth annibynol, er y dylid peidio gwadu nad yw y Saraceniaid a'r Tyrciaid wedi cwttogi helaethrwydd eu hamerodraeth yn ddirfawr, Dan. xi. 43.

Hwyrach i Gristionogrwydd gael ei harwain i mewn i Ethiopia gan yr eunuch, mor foreu âg amseroedd yr apostolion. Dilys yw fod eglwys Gristionogol o gryn enwogrwydd yma yn y bedwaredd ganrif ar ol genedigaeth ein Hiachawdwr, ac y mae wedi parhau o hyny hyd yn hyn. Y maent, yn wir, yn cymmysgu lluaws o ddefodau Iuddewig â'u Cristionogrwydd: ond y maent yn cymmeryd arnynt gadw y rhai hyn megys arferion naill ai hollol wladol, neu yn llawer îs eu gradd na dyledswyddau y gyfraith Gristionogol. Yn y seithfed ganrif a'r rhai canlynol, meddyliodd y Mahometaniaid am ddwyn eu twyll i mewn i Ethiopia; ond bu eu holl ymgeisiadau, er yn waedlyd, yn ofer, o ran y rhan fwyaf o'r wlad. Yn y ganrif ddiweddaf, meddyliodd y cennadon Pabaidd, wedi denu brenin Ethiopia i'w hochr, am ddwyn eu heilun-addoliaeth a'u coel-grefydd hwythau i mewn: ond ar ol rhyfel cartrefol dychrynllyd o'r achos, gwaharddwyd yn gwbl i'r Pabyddion ddyfod i mewn i'r deyrnas, Salm lxviii. 31, a lxxxvii. 4. Ymddengys y cynnorthwya yr Ethiopiaid yn Arabia, neu ran o'r rhai yn Assyria, yr awdurdodau Mahometanaidd yn eu hymgais i symmud yr Iuddewon o'u gwlad, yn nechreu y Mil Blyneddoeddgogoneddus, Ezec. xxxviii. 5.

Yr Iuddewon a gyffelybir i *Ethiopiaid*, o herwydd eu hanwybodaeth, eu difatterwch, eu greddf sefydlog o bechu, a'u harferion halogedig a Phaganaidd, Amos. ix. 7. Jer. xiii. 23. Cus y Benjaminiad oedd naill ai yn rhyw gyhuddwr drygionus o Dafydd, neu y mae Saul yn cael ei gyffelybu i Ethiopiad o herwydd anian ddu ac erchyll ei ymarweddiad, Salm vii. *titl*

CUSANU (*cu*, hoff). Yr oedd

cusanu, er yn foreu, yn arwydd cyffredin iawn o barch a chyfeillgarwch, Gen. xxvii. 26, 27. 1 Sam. xx. 44. Y mae gan hyny yn cael ei arfer yn addas i fynegu cariad a chymundeb Crist â'i eglwys, Can. i. 1, a iii. 1. O herwydd hyn yr oedd gwaith Judas yn bradychu Crist â chusan, yn gosod allan ei ragrith dwfn; yn yr un modd, cusan bradwraidd Joab pan laddodd efe Amasa. Fel yn gosod allan serch a chariad, yr oedd yr annerchiad â chusan sanctaidd yn cael ei orchymyn gan yr apostolion i'r Cristionogion, Rhuf. xvi. 16. 1 Cor. xvi. 20. Y mae *cusanau* yn yr ysgrythyr hefyd yn gosod allan barch ac ymostyngiad i un o radd uwch, 1 Sam. x. 1. 1 Bren. xix. 18; ac am hyny gelwir ymostyngiad i Iesu Grist, *cusanu y Mab*, Salm ii. 12. Oddi wrth hyn daeth yn nôd o barch ac addoliad i eilunod; byddent naill ai yn cusanu y ddelw ei hun, neu yn cusanu eu llaw yn arwydd o barch iddi, Hos. xiii. 2. Job xxxi. 27.

CWESTIWN: (1.) Gofyniad i'r hwn y disgwylir atteb, o leiaf, mewn ymddangosiad, Mat. xxii. 35. (2.) Cynhenau, daddleuon, 2 Tim. ii. 23. Cwestiynau ydynt naill ai rhai crefyddol, Deut. vi. 20, cableddus, Ioan viii. 48, manylgais, Luc xiii. 23, ynfyd, annysgedig, ac am bethau ofer, Tit. iii. 9, caledion neu anhawdd i'w hatteb, 1 Bren. i. 1, gafaelgar ac â thuedd ynddynt i faglu yr attebydd, Marc. xii. 14, rhagrithiol, Mat. ii. 7, cyhuddol, Neh. ii. 19, ceryddol, 1 Sam. i. 14, nacaol a chadarnhaol, Num. xii. 2, beilchion ac ofer, Mat. xviii.

CWHWFAN, *(cw-hwfan)* ysgwyd rhyw beth oddi amgylch, a'i godi i fynu fel y gwneir â gogr nithio. Yr un gair Hebrëig a gyfieithir *nithio* yn Esa. xxx. 28, ac yn *ysgwyd llaw* yn Esa. xiii. 2, a gyfieithir *cwhwfan* yn yr amryw leoedd ereill yr arferir ef, Exod. xxix. 24.

CWLLTWR *(cyllell-dir)*; y rhan honno o'r aradr sydd yn hollti y tir yn gwysau. Gwneir ef yn gyffredin o haiarn, 1 Sam. xiii. 20.

CWMMIN; planhigyn lled debyg i'r ffenegl, yr hwn sydd yn dwyn ei flodau a'i gangau yn siobynau. Byddai yr Iuddewon yn ei hau yn eu meusydd, ac yn ei ddyrnu â gwialen, Esa. xxviii. 25, 27. Trigolion Malta a'i hauant ef yn yr un modd. Y mae y colommenod yn cymmeryd hyfrydwch mawr i ymborthi arno. Meddylir ei fod yn ddefnyddiol i adferu gwres anianol teirw, meirch, &c.; a'i olew sydd yn feddyginiaeth i'r cryd-cymmalau, y goluddwst, y bendro, &c.

CWMMWL *(cyf-niwl)*. 1. Casgliad o darth, yn derchafu o'r moroedd a'r ddaear, ac yn crogi yn yr awyr, 2 Sam. xxii. 12. (2.) Niwl neu darth, Hos. vi. 4. (3.) Mwg, Lef. xvi. 13. (4.) Y nefoedd, Salm xxxvi. v, a lxviii. 34. (5.) Nifer mawr, Esa. lx. 9. Heb. xii. 1. Y mae Duw yn rhwymo y dyfroedd yn ei *gymmylau*, ac oddi yno yn eu tywallt yn wlaw ar y ddaear, Job xxxviii. 9. Bu cwmmwl, ar ddull colofn, yn crogi uwch ben gwersyll yr Hebreaid yn yr anialwch. Liw dydd, ymddangosai fel niwl, gan eu hamddiffyn rhag gwres yr haul. Liw nos, ymddangosai fel *colofn o dân*, a rhoddai iddynt oleuni. Pan y gwersyllent, crogai uwch eu penau ar y babell; pan y teithient, âi o'u blaen; pan yr aethant trwy y Môr Coch, aeth o'u hol, gan roddi goleuni iddynt; ac o flaen yr Aiphtiaid, gan dywyllu yr awyr iddynt hwy, a'u llanw â braw ac arswyd. Deugain mlynedd y bu yn canlyn yr Hebreaid, nes yr arweiniodd hwynt i wlad yr addewid; ac, y mae yn debyg, a ddiflannodd pan bu farw Moses. Onid oedd hwn yn gysgod o Iesu Grist, fel hyfforddwr, dyddanydd, a gwaredwr mawreddog ac arswydus ei bobl, yn eu taith ddyrys o wlad y cystudd mawr i'r Ganaan nefol, ac fel gorchfygwr a dinystrydd ei elynion? Exod. xiii. 21, a xiv. 20, 24. Mewn cyfeiriad at hyn, dywedir fod Duw yn *creu cwmmwl neu fwg* y dydd, a llewyrch *tân fflamllyd* y nos ar drigfëydd a chymmanfaoedd Sion, pan y bydd yn diogelu, yn arwain, ac yn cyssuro ei bobl mewn modd hynod, Esa. iv. 5. *Cwmmwl y gogoniant*, a grogai uwch ben y drugareddfa, oedd yn arwydd o bresennoldeb mawreddog a rhyfeddol Crist, gyda'i eglwys, 1 Bren. viii. 10.

Y mae Duw yn cael ei gyffelybu i *gwmmwl o wlith* yn ngwres y cynhauaf; ei gyflawnder sydd anchwil-

iadwy; ei agoshad yn gyflym; a'i bresennoldeb yn gyssurus iawn, Esa. xviii. 4. Ymddangosodd Duw yn fynych mewn *cwmmwl*, i nodi ei fawredd, a bod ei ogoniant, ei amcanion, a'i weithredoedd, yn anchwiliadwy, Exod. xiv. 20. Salm civ. 3. Mat. xvii. 5. Y mae efe yn marchog ar y *cymmylau ysgafn*, neu y maent yn *llwch i'w traed*, pan y bydd yn dyfod mewn modd disymmwth ac arswydus, i waredu ei bobl, ac i ddinystrio ei elynion, 2 Sam. xxii. 12. Esa. xix. 1. Nah. i. 3. *Cymmylau a thywyllwch ydynt o amgylch iddo*, pan y bydd ei ragluniaethau yn ddirgelaidd a dychrynllyd iawn, Salm xcvii. 2. Derbyniwyd Crist i fynu i'r nefoedd mewn *cwmmwl*, pan yr escynodd; ac, yn y dydd diweddaf, daw ar y cymmylau, gan eu gwneuthur yn orsedd iddo, tra y bydd yn barnu y byd, Act. i. 9. Dan. vii. 13. Dad. i. 7. Y mae wedi ei *wisgo â chwmmwl*, pan bydd ei weithredoedd yn anamlwg ac arswydus, Dad. x. 1. Ei waith yn *eistedd ar gwmmwl gwyn*, a arwydda yr amlygiad gogoneddus o'i uniondeb, ei sancteiddrwydd, ei allu, a'i awdurdod, yn ngbyflawniad ei farnedigaethau, Dad. xiv. 14, a xx. 11.

Rhagrithwyr a gau athrawon a elwir yn *gymmylau diddwfr;* y maent yn addaw defnyddioldeb; ond gan eu bod heb wir sylweddoldrwydd, gwerth, a gwybodaeth, gyrir hwy oddi amgylch yn hawdd gan eu balchder a'u swydd-ymgais eu hunain, a chan wyntoedd gau athrawiaeth, a phrofedigaethau uffernol, 2 Petr ii. 17. Dynion, yn gyffredinol, ydynt fel *cwmmwl yn darfod;* pan y maent yn byw, nid oes gandd ynt ond ychydig o ddedwyddwch a chyssur gwirioneddol, a'u dyddiau ydynt yn prysuro i ddybenu, Job vii. 9. Pechodau a gyffelybir i *gwmmwl;* mor fawr yw eu rhifedi! ac fel y maent yn tywyllu ein henaid, yn ysgaru rhwng Duw a ni, ac yn rhag-arwyddo tymhestl ei ddigofaint, a thrwy ei faddeuant rhad, trwy dywyniad ei wynebpryd, ac anadliad ei Ysbryd, y rhaid eu gwasgaru hwyut, Esa. xliv. 22. Cystuddiau ydynt fel *cwmmwl;* eu defnyddiau yn amrywiol; eu hanian yn arswydus a dirgelaidd; y maent yn amddifadu dynion o'u gogoniant a'u llawenydd, ac yn fynych yn rhag-arwyddion o golledigaeth dragywyddol, Gal. ii. 1. Ewyllys da brenin sydd megys *cwmmwl gwlaw diweddar*, yn dra defnyddiol a hyfryd, Diar. xvi. 15. Daioni deg llwyth Israel a gyffelybir i *gwmmwl y bore*, a'r *gwlith boreuol;* pa ymddangosiadau bynag o ddiwygiad a fuant yn eu plith dan Jehu, a pha lwyddiant bynag a gawsant dan Joas, a Jeroboam ei fab, neu Pecah, daethant yn fuan i derfyniad, Hos. vi. 4. Byddinoedd a gyffelybir i *gwmmwl*, o herwydd eu rhifedi, a'u bod yn bygwth gorchuddio a distrywio pob peth o amgylch iddynt, Ezec. xxxviii. 9.

CWNINGEN, *(cwn,* pen, nen) yr ysgyfarnog lygad-goch, gyda chynffon fer. Yn ein gwlad ni, y cwningod ydynt yn gyffredin o liw llwyd-ddu ar eu cefnau, a gwyn ar eu boliau, ac y mae ganddynt fânflew teg a defnyddiol iawn: ond nid yw ein cwningod ni yn briodol yn cnoi eu cil, nac yn preswylio mewn creigiau, ac felly nid hwy, tebygol, yw *shaphan* yr ysgrythyr, Lef. xi. 5. Hwyrach mai yr *alijarbuo*, neu lygoden fynyddig yr Arabiaid yw y *shaphan*, y rhai ydynt yn wir yn cnoi eu cil, yn preswylio mewn creigiau, ac yn myned allan yn finteioedd, Salm civ. 18. Diar. xxx. 26. Tybia Dr. *Shaw* mai yr un yw y *shaphan* âg ŵyn yr Israeliaid, y rhai ydynt yn lluosog yn mynydd Libanus, ac yn lled debyg i'n cwningod ni.

CWPPAN, *(cwb,* ceuedd) a arwydda, (1.) Llestr yfed wedi ei wneuthur o aur, o arian, o wydr, o bren, neu y cyffelyb, Gen. xl. 11. (2.) Y gwlybwr cynnwysedig ynddo, 1 Cor. xi. 27. (3.) Cystudd trwm a gofid caled, Esa. li. 17. Mat. xx. 22, 23. Ioan xviii. 11.

CWREL; math o lysieuyn creigiaidd, yr hwn sydd yn tyfu yn y môr, ac heb fod yn llai caled pan y bydd yn y môr nag ydyw wedi ei dynu allan. Y mae yn glynu yn y creigiau wrth wreiddiau nad ydynt prin i'w canfod. Y mae tair rhywiogaeth gyffredinol o hono; y *du* yw y mwyaf prin a gwerthfawr; y *gwyn* nid yw o fawr ddefnydd; ond y *coch* a arferir mewn meddyginiaeth, ac yn baderau ac addurniadau ereill. Y

maent yn cael y *cwrel* yn nghyfyngfor Persia, y Môr Coch, ar dueddau Affrica, a gerllaw Marseilles yn Môr y Canoldir. Byddai y Scythiaid yn ei brynu, gynt, o'r dehau, ac yn masnachu ynddo â'r Tyriaid, Ezec. xxvii. 16. Er gwerthfawroced yw, nid ydyw i'w gystadlu â doethineb, â Iesu Grist, a'i wir grefydd, Job xxviii. 18.

CWSG, *(cws,* gorphwysfa) sydd yn bedwar plyg: (1.) Anianol, pan y mae bywyd y corph anifeilaidd yn parhau, ond ei deimladau mewn mesur mawr yn cael eu rhwymo, i'r dyben o'i adfywio a'i ddadluddedu, Gen. xxviii. 16. (2.) Ysbrydol, yn gynnwysedig mewn anwybodaeth, segurdod, hurtrwydd, a diofalwch, mewn cyflwr neu lwybr pechadurus, Eph. v. 14. Rhuf. xiii. 11. (3.) Gwladol, pan y bydd dynion yn ddiog yn eu gwaith, neu yn esgeulus yn ei gylch, Esa. v. 27. Nah. iii. 18. (4.) *Cwsg* marwolaeth, yn mha un, wedi yr ysgarer eneidiau dynion oddi wrth eu cyrph, y mae y corph yn myned yn gwbl ddideimlad, Jer. li. 39. Dan. xii. 2. Ioan xi. 11. 1 Cor. xv. 51. Bod Duw yn *cysgu,* a arwydda ei ddiofalwch a'i esgeulusdod mewn ymddangosiad i waredu ei bobl, neu i gospi eu gelynion, Salm xliv. 23, a lxxviii. 65. *Myn oeddwn yn cysgu, a'm calon yn effro;* yr oedd fy enaid dan lywodraeth marweidd-dra mawr: etto yr oedd yno weithrediad dirgelaidd o eiddo fy nghydwybod, fy mynuniad, a'm serch tu ag at Grist, Can. v. 2.

CWYN, *(cy-gwyn)* achwyniad, anghyttundeb. *Y mae cwyn rhwng yr Arglwydd a'r Cenedloedd,* sef y mae gwrthddadl ac anghyttundeb rhyngddo, nid yn unig a'r Iuddewon, ond a'r Cenedloedd hefyd, Jer. xxv. 31. Hos. iv. 1, a xii. 2.

CWYR, *(cy-gwyr)* sylwedd digon adnabyddus, a'r hwn y ffurfia y gwenyn eu crwybr. Y mae yn ddefnyddiol at ganwyllau, ac yn hawdd ei doddi; arferir ef hefyd yn fynych i selio llythyrau, Salm xcvii. 5. Calon Crist a doddodd fel *cwyr;* rhyfeddol oedd ei ofid a'i drallod tufewnol, pan yn gorwedd yn nghanol ffiamiau digofaint ei Dad, er ein mwyn ni, Salm xxii. 14. Yr annuwiolion a doddant fel *cwyr,* pan bydd cystuddiau dychrynllyd oddi wrth Dduw digllon, yn eu blino, yn eu poeni, ac yn eu dinystrio, Salm lxviii. 2. Mic. i. 4.

CYBYDD-DOD, *(cwb)* yw chwant gormodol at bethau daearol, neu yr hyn a berthyn i'n cymmydog. Y mae cybydd-dod yn arwain dynion i bob twyll, anghyfiawnder, trais, gorthrymder, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol ereill, y rhai ydynt yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth. Y mae yn cryfhau mewn henaint, pan y bydd bejau ereill yn gwanhau; nid oes byth fodlloni arno; y mae yn gwneuthur dynion yn ffiaidd gan Dduw, ac yn eu bradychu i bechodau a gofidiau aneirif, Salm x. 3. Mic. ii. 2. Deut. xvi. 19. Job xx. 15—17. Diar. i. 19. 1 Tim. vi. 10.

CYD-FWYTTA, a arwydda cyfeillgarwch cymdeithasgar a chywieithas. Yr Iuddewon a'i cyfrifent yn beth anghyfieithlawn a ffiaidd iddynt fod yn *bwytta gyda,* neu yn *cyd-fwytta,* neu yn *cyd-yfed* a'r Cenedloedd. Yr ydoedd mor ffiaidd ganddynt ymgyfeillachu a'r Samariaid, nes y dywedent, "Fod yr hwn a fwyttai ddim a fyddai yn perthyn i Samariad, mor aflan a phe y bwyttai gig moch," Gal. ii. 12. Ioan iv. 9.

CYD-DORIAD. Gelwir yr Iuddewon yn *gyd-doriad,* o herwydd eu bod, dan rith o ymlyniad gwresog wrth yr enwaediad, wedi iddo gael ei ddiddymu trwy farwolaeth ein Hiachawdwr, yn tori eu cnawd, yn rhwygo yr eglwys, ac yn torri eu hunain ymaith oddi wrth fendithion yr efengyl, Phil. iii. 2.

CYDWYBOD, yw yr egwyddor honno yn yr enaid trwy ba un yn benaf y gwahaniaethir dyn oddi wrth yr anifeiliaid a drengant. Planwyd hi ar y cyntaf mewn dyn, pan yr anadlodd ei Wneuthurwr ynddo anadl einioes; a gellir ei darlunio yn briodol, yn adysgrif ddechreuol o'r gyfraith ddwyfol, a helaethwyd wedi hyny gan fys Duw ei hun ar lechau o gerrig. Duw a argraffodd y gyfraith hon ar gydwybod dyn ar y cyntaf; a thrwyddi, y mae efe yn cyfeillachu â'r holl hil ddynol. Yr efengyl sydd yn dyfod gan amserch cydwybod pob dyn yn ngolwg Duw; y mae yn grymuso awdurdod cyfraith natur, yr hon sydd yn mhob dyn; y mae yn gosod ger ei fron y

sierwydd o ddialedd dwyfol megys yn gyssylltiedig â phob troseddiad o'r gyfraith honno; ac y mae yn ei gyfeirio at ymarweddiad sylweddol. Eglurodd yr Arglwydd ei bun y gyfraith hon o eiddo anian, ar ba un y mae y gydwybod yn gwethredu trwy orchymyn, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, â'th holl enaid, â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl, a chár dy gymmydog fel tydi dy hun:" tra y bydd y gydwybod heb ei serio, y mae yn tystiolaethu dros Dduw yn mynwes dyn, mewn perthynas i bob meddwl, gair, a gweithred anghysson â'r cariad dyledus hwn i Dduw a'u cymmydog, ac yn dwyn y *farn* i'w olwg; dyma yw yr hyn a eilw Paul y *gydwybod yn y cyfamser yn cyhuddo, neu yn esgusodi*, Rhuf. ii. 15. Fel yr ydym yn dyfod yn gynnefin â llais y gydwybod, y mae yn colli ei hawdurdod yn raddol. Trwy amryw o noddfëydd celwyddog, yr ydym yn cael ffordd i fogi ei llaith wirioneddol, a phylu llymder ei hargyhoeddiadau; ac helaethrwydd o hyn a bair ei bod wedi ei serio megys â haiarn poeth, 1 Tim. iv. 2. Chwantau annuwiol y byd hwn, mewn amser, a halogant ddyn cyn belled, fel y bydd hyd yn nod ei feddwl a'i gydwybod yn halogedig, Tit. i. 15. Y mae genym ddarlun eglur o'r ymryson rhwng chwant a chydwybod yn Ffelix; gwaith Paul yn ymresymu am gyfiawnder, dirwest, a'r farn a fydd, a ddihunodd ei gydwybod, yr hon a wnaeth iddo grynu, bu yr amryson rhwng ei chwantau, yn gynnaliedig gan resymiadau ei galon, yn gryf yn ddiamau; ond hwy a fuddugoliaethasant, efe a ymlonyddodd gydag, "amser arall myfi a wrandawaf arnat am y peth hwn." Cyfaddefiad Judas, pan y bwriodd y deg darn ar hugain arian i lawr ger bron y Cynghor, gan ddywedyd, "Bradychais waed gwirion," sydd yn ddrych arswydus o gydwybod wedi ei dihuno heb olwg am drugaredd; efe a aeth ac a ymgrogodd. Ni chafodd Esau le i edifeirwch, er iddo ei thaer geisio â dagrau; hwn yw y disgwyl ofnadwy am farnedigaeth a digofaint tanllyd y sonir am dano yn Heb. x. 27. Effaith gyntaf yr efengyl yw dihuno y gydwybod; ei chanlyniadau gwynfydedig, ydynt lonyddwch a hyder bythol. Dyma y tangnefedd hwnw a eilw Crist mewn modd pwysig *ei dangnefedd*, yr hwn ni ddichon y byd ei roddi neu ei gymmeryd ymaith.

Er fod y gydwybod yn gweithredu ar y gyfraith ddwyfol, rheol dragywyddol cyfiawnder; etto y mae yn barnu am ein hymarweddiad, ac yn ei olygu oll, hyd yn nod mewn esamplau lle y dichon ei bod yn camgymmeryd. O herwydd peidio dal yn fanwl a gwahanredol ar iaith yr ysgrythyr yn nghylch y pwngc hwn, y mae Esgob Llandâf, yn ei attebiad i Oes Rheswm *Paine*, (er fod ei waith yn meddu hawl gyfiawn i lawer o glod mewn amrywiol ystyriaethau) wedi gwanychu ei resymeg. Nid yw y gydwybod, pan heb ei llygru a'i serio, byth yn camgymmeryd beth yw ein dyledswydd tuag at Dduw a dyn; ond pan y bydd naill ai wedi ei phylu neu ei halogi, gall ein camdywys o ran y ddau. Drachefn, ni a allwn fod yn gydwybodol, lle, mewn gwirionedd, ni bydd y gydwybod yn rhwymedig; feliy, yn yr eglwysi cyntaf, yr oedd gwahaniaeth yn hanfodi *o ran cydwybod* mewn perthynas i awdurdod cyfraith Moses, bwytta pethau wedi eu haberthu i eilunod, &c. ac yr oedd Paul yn ystyried cydwybod hyd yn nod lle y byddai yn gamsyniol, 1 Cor. x. 29.

Cydwybod; yw y gallu adfyfyriol hwnw o eiddo ein meddwl, pa un sydd yn cymharu ein cynneddfau a'n gweithredoedd â chyfraith Duw, adnabyddus i ni, yn cymmeradwyo yr hyn a ymddengys yn dda, ac yn euog-farnu ac yn ymedliw am yr hyn a ymddengys yn ddrwg, Rhuf. ii. 15. Y mae y gydwybod yn *dda*, pan, wedi ei thaenellu â gwaed Iesu, y bydd yn canfod ewyllys Duw yn eglur, yn cymmell ufudd-dod i'w gyfraith, oddi wrth annogaethau yr efengyl, ac yn cymmeradwyo am yr unrhyw, 1 Tim. i. 5. Y mae yn *bur, wedi ei phuro oddi wrth weithredoedd meirwon*, pan, trwy gymmwysiad o waed Iesu, y bydd wedi ei rhyddhau oddi wrth ddedfryd marwolaeth ddyledus am bechod, wedi ei gwaredu oddi wrth gaethiwed llygredigaeth tufewnol; a thrwy addysg yr Ysbryd Glân, yn cael ei gwneuthur yn oleu yn ei syniadau,

yn sanctaidd yn ei hamcanion, ac yn wrthwynebydd egnïol i bob peth pechadurus, 1 Tim. iii. 9. Heb. ix. 14, a x. 2, 22. Y mae yn *ffyddlawn*, pan y bydd yn cymmeradwyo ac yn collfarnu pethau, fel y byddant yn gydunol â'r gyfraith ddwyfol, neu yn wrthwyneb iddi; ac yn attal yn nerthol oddi wrth bob pechod adnabyddus, Rhuf. ii. 15. Y mae yn *llonydd*, ac yn *ddirwystr*, pan na bydd yn cyhuddo am un toriad gwirfoddol o'r gyfraith ddwyfol; a *byw mewn pob cydwybod dda*, yw ymddwyn yn gydunol â chyfarwyddiadau cydwybod oleu, Act. xxiv. 16, a xxiii. 1. Heb. xiii. 18. Y *mae yn cyd-dystiolaethu â'r Ysbryd Glân*, pan, trwy ei hyfforddiad, y bydd yn dwyn tystiolaeth am gyfiwr ein heneidiau, neu gywirdeb a gwirionedd ein neges a'n dybenion, Rhuf. viii. 16, a ix. 1. Y mae y gydwybod yn *ddrwg*, pan y bydd dan lywodraeth arferion pechadurus, neu gynhyrfiadau gwael ac isel, Heb. x. 22. Y mae yn *halogedig*, pan y bydd wedi ei dallu a'i gwyrdroi, yn barod i alw y da yn ddrwg, a'r drwg yn dda, Tit. i. 15. Y mae *wedi ei serio â haiarn poeth*, pan y bydd yn ddideimlad o addewidion, bygythion, neu ragluniaethau Duw, ac heb ei gorlwytho â'r pechod sydd yn gorwedd ar y corph, 1 Tim. iv. 2. Gwneuthur peth er *mwyn cydwybod*, yw ei wneuthur fel na bydd i'r gydwybod gael ei rhwystro na'i halogi o'i achos, Rhuf. xiii. 5. Bwytta pethau wedi eu haberthu i eilunod, gyda *chydwybod o'r eilun*, yw eu bwytta gyda pharch gostyngedig i'r eilun, fel pe baem yn credu fod rhyw ddwyfolder neu werth ynddo, 1 Cor. viii. 7. Ond gan nad yw cydwybod ond is-lywydd Duw yn unig mewn dynion, nid yw ei chyfarwyddiadau yn rhwymol, yn mhellach nag y byddont yn gydunol â chyfraith Duw. Ac nid yw pan yn iach, neu pan yn gyfeiliornus, yn gweddu i Dduw, yr hwn a all argraphu ei ewyllys megys deddfau anhebgorol.

CYFAILL, *(cyf-aill,* deiliad) a gymmerir am un a gerir ac a berchir genym uwchlaw ereill, i'r hwn y byddwn yn mynegu ein meddyliau yn rhwyddach nag i ereill; a hyny oddi ar ymddiried yn ei gywirdeb, a'i ewyllys da tuag attom. Y mae Solomon yn llyfr ei Ddiarebion, yn rhoddi i lawr gynneddfau cyfaill gwirioneddol, Diar. xvii. 17. "Cyfaill a gâr bob amser;" nid yn unig mewn hawddfyd, ond hefyd mewn adfyd, pen. xviii. 24. "Y mae *cyfaill* a ŷn yn well na brawd;" y mae ef yn fwy diffuant yn y cyflawniad o bob swyddau cyfeillgar. Efe a arfyhoedda, ac a gerydda, pan wêl unrhyw beth o'i le, Diar. 27. 6. "Ffyddlawn yw archollion y caredig;" ei geryddon llymaf a ddeeiliant oddi wrth enaid uniawn, gwir garedig a ffyddlawn. Adwaenir ef wrth ei gyngor da a ffyddlon, yn gystal âg wrth ei gerydd prydlawn, Diar. xxvii. 9. "Olew ac arogl-darth a lawenycha'r galon;" felly y gwna mwynder cyfaill trwy gyngor ffyddlawn; trwy y fath gyngor ag sydd yn dyfod o'i galon a'i enaid, ac sydd yn iaith ei feddyliau mwyaf tufewnol a difrifol. Y mae cymdeithas ac ymddyddan cyfaill yn adfywiad ac yn llonder i ddyn, yr hwn, pan wrtho ei hun, sydd yn drist, yn llwfr, ac yn ofidus, Diar. xxvii. 17. "Haiarn a hoga haiarn, felly gwr a hoga wyneb ei gyfaill."

Wrth *gyfaill* y meddylir weithiau anwylyd tywysog. Husai oedd *gyfaill*, neu anwylyd Dafydd, 1 Sam. xv. 37. Zabud mab Nathan oedd *gyfaill* Solomon, 1 Bren. iv. 5. Ac Ahuzzath oedd *gyfaill* neillduol Abimelec breninGerar, Gen. xxvi. 26.

Cyfaill Duw. Yr enw hwn a roddir yn benaf i Abraham, megys yn 2 Cron. xx. 7. "Onid tydi, ein Duw ni, a roddaist y wlad hon i hâd Abraham dy *gyfaill* yn dragywydd?" Ac yn Esau xli. 8, "Eithr ti Israel wyt hâd Abraham fy *nghyfaill*." Yr apostol Iago hefyd a gryfhawyll am hyn, Iago. ii. 23. "A'r ysgrythyr a gyflawnwyd, yr hon sydd yn dywedyd, Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder; a *chyfaill* Duw y galwyd ef." Rhoddir yr enw hwn iddo, nid yn unig o herwydd i Dduw ymddangos iddo yn fynych, ymddyddan yn gyfeillgar âg ef, a dadguddio cyfrinach iddo, Gen. xviii. 17. "A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf? ond hefyd, o herwydd iddo wneuthur cyfammod o *gyfeillgarwch* tragywyddol âg ef, ac â'i hâd hefyd, Gen. xii. 2, 3, a xvii. 2, 4, 7. ac, yn enwedig, o herwydd iddo ad-

newyddu ei gyfammod âg ef, pan offrymodd ei fab Isaac, ac a'i cadarnhaodd trwy lŵ, a thrwy hyny a'i derbyniodd i agosach *cyfeillgarwch* a chymundeb âg ef ei hun, Gen. xxii. 16, 17. Ac ar y prawf hwn o ufudd-dod Abraham, sef offrymiad ei fab, y mae yr apostol Iago yn adrodd yr ysgrythyr, lle y gelwir Abraham yn *gyfaill* Duw, Iago ii. 22, 23.

Ein Hiachawdwr a eilw ei apostolion yn *gyfeillion*, Ioan xv. 15. "Ond mi a'ch gelwais chwi yn *gyfeillion*;" efe a ychwanega y rheswm pa ham, "o blegid pob peth a'r a glywais gan fy Nhad, a hysbysais i chwi." Fel y bydd dynion yn arfer adrodd eu cynghorion, a'u holl feddwl wrth eu cyfeillion, yn enwedig y pethau a allant fod o ryw bwys a lleshad iddynt i'w gwybod a'u deall: felly y dadguddiais innau i chwithau pa beth bynag sydd yn angenrheidiol er eich addysg, eich swydd, eich cyssur, a'ch iachawdwriaeth. Ac nid yw yr enw hwn yn berthynol i'r apostolion yn unig, ond y mae yn gyffredin gyda hwynt i'r holl wir ffyddloniaid, Can. v. 1. "Bwyttewch *gyfeillion*." *Cyfaill y priodfab*, yw yr hwn sydd yn cyflawni anrhydedd y briodas, ac yn arwain dyweddi ei gyfaill i'r gwely priodasol. Ioan Fedyddiwr, gyda golwg ar Grist a'i eglwys, oedd cyfaill y priodfab; trwy ei bregethiad yr oedd yn parottoi pobl yr Iuddewon i Grist, Ioan iii. 29.

Cyfaill sydd air o gyfarchiad cyffredin, pa un bynag ai i *gyfaill*, neu i elyn. Gelwir yr hwn oedd heb y wisg briodas am dano, *Y cyfaill*, Mat. xxii. 12. A'n Hiachawdwr a eilw Judas fradwr, *Y cyfaill*, Mat. xxvi. 50. Rhai ydynt o'r farn fod yr enw hwn yn cael ei roddi i'r gwestwr mewn ffordd o wawdiaith neu wrthair, yn meddwl y gwrthwyneb i'r hyn a arwydda y gair; neu ei fod yn cael ei alw felly, o herwydd iddo ymddangos i ereill fel cyfaill Crist, neu ei fod felly yn ei gyfrif a'i feddwl ei hun, er yn dwyllodrus, gan mai rhagrithiwr oedd. Pa fodd bynag, o herwydd mai yn mherson yr hwn a wnaeth y wledd y llefarir hyn, y mae yn cael ei gymeryd yn gyffredin yn lle annerchiad arferedig; ac i Grist trwy ganlyn yr un dull mwynaidd o gyfenwi, ac annerchiad cyfeillgar, gyfarch gwell i Judas felly, yr hyn etto a adawodd golyn ar ei ol yn ei gydwybod, yr hwn a wyddai fod ei hun yn wrthwyneb i'r hyn y gelwid ef. Rhoddir yr enw *cyfaill* hefyd i gymmydog, Luc xi. 5. "Pwy o honoch sydd iddo *gyfaill*, ac a â atto hanner nos, ac a ddywed wrtho, *O gyfaill*, moes i mi dair torth yn echwyn."

Amryw ydynt o'r farn, fod yr adnodau a arweinir i mewn ar ddechreu y gair hwn o ysgrefeniadau Solomon, er darlunio cyfaill, yn nghyd â'i gymmeriad, a'i swyddau, yn cyfeirio at gyfaill mawr euog ddyn, sef Iesu Grist, yr hwn a fu farw i'w achub ef.

CYFAMMOD, *(cyf-ammod)* cydundeb rhwng dwy neu ychwaneg o bleidiau, ar delerau sicr. Y mae rhwymedigaeth pob math o gyfammodau yn tarddu oddi wrth *weithred hunan-rwymol* y pleidiau a gyfammodant, megys y mae rhwymedigaeth deddf yn tarddu oddi wrth *awdurdod* y deddf-roddwr. Yn y cyn-amseroedd, yr oedd cyfammodau yn cael eu gwneud gyda difrifwch mawr; lleddid creaduriaid gyda melldithion arswydus ar i Dduw ymddwyn yn yr un modd tuag at y torwr o honynt. Y mae yr ysgrythyr yn cyfeirio at y weithred o ladd llo, ei wahanu yn ddarnau oddi wrth ei gilydd, a myned rhwng y darnau fel arwydd o ddymuniad difrifol am i Dduw *wahanu* torwr y cyfammod *yn ddau*, Jer. xxxiv. 18. Mewn cyfammodau, y mae yn gynnwysedig y pleidiau rhwng pa rai y gwneir y cydundeb; yr ammod, yr hon, pan ei cyflawner, a rydd hawl i'r gwobrwy; yr addewid, yr hon sydd yn dogelu y gwobrwy i'r hwn a gyflawna yr ammod; ac os bydd un o'r pleidiau yn dueddol i fod yn dwyllodrus, ychwanegir bygythiad yn gyffredin, i'w rwystro rhag torri ei delerau. Y gair Hebröig *berith*, a arwydda *dewis*, neu *raniad cyfeillgar*; o herwydd fod pob plaid wrth wneud cyfammod, yn cydsynio mewn modd cyfeillgar, ac felly yn ymrwymo i'r telerau dewisedig; ac o herwydd fod creaduriaid yn arferol o gael eu torri yn ddarnau ar yr achlysur hwnw, y mae gwneuthuriad cyfammodau yn cael ei alw yn fynych yn *doriad* o honynt. Yn y Testament Newydd,

gelwir cyfammod Duw *diathece*, neu destament, o herwydd fod ei holl fendithion yn cael eu cyfranu yn rhad i ni. Gellir cyfeithu y ddau air, yn gyffredinol, yn *sefydliad;* ac fe a ettyb yr arwyddocâd hwn yn mhob man lle yr arferir y geiriau. Yn yr ysgrythyr, darllenwn am amryw gyfammodau rhwng dynion; megys rhwng Abraham, Escol, Aner, a Mamre; rhwng Abraham ac Abimelec; rhwng Jacob a Laban; rhwng teulu Abraham a'r Sechemiaid; rhwng Israel a'r Gibeoniaid; rhwng Dafydd a Jonathan; rhwng Solomon a Hiram; rhwng Asa a Benhadad; rhwng Jehoiada a phennaethiaid yr Iuddewon; rhwng Joas a'i ddeiliaid; rhwng Hosea a'r Assyriaid a'r Aiphtiaid yn eu tro; rhwng Zedeciah a Nebuchodonozor, &c. Gen. xiv. 13, a xxi. 27, a xxvi. 28, a xxxi. 44, a xxxiv, &c. *Ammod* yr Iuddewon *âg angau, a'u cynghrair âg uffern*, oedd eu cyfundeb pechadurus â'r Assyriaid neu yr Aiphtiaid, neu eu hymorphwysiad cnawdol ar y Rhufeiniaid, yr hyn a'u gwnaeth mor ddiogel rhag uffern a dinystr, â phe buasent mewn cynghrair â hwynt, Esa. xxviii. 15, 18.

Pan y bydd cyfammodau rhwng dynion, y mae gan bob plaid awdurdod i dderbyn neu wrthod y telerau. Ond pan y bydd Duw yn un o'r pleidiau, y mae yn anghysson â i fawredd i'r telerau gael eu cynnyg gan greadur; ac nid oes modd i wrthod yr hyn a gynnyga efe, heb bechod neu hunan-niweid. Yn ddiattreg ar ol y dylif, gwnaeth Duw gyfammod o ddiogelwch â Noah a'i deulu, a holl fwystfilod y ddaear, yn cynnwys, na foddid y ddaear byth mwyach â dwfr, ac y dychwelai dydd a nos, haf a gauaf, pryd hau a chynhauaf, o oes i oes, yn eu trefn. O hwn yr oedd yr *enfys* yn insel, Gen. viii. 21, 22, a ix. 9—17. Jer. xxxiii. 20, 25. Efe a wnaeth gyfammod o berchennogaeth âg Abraham, yn cynnwys, y byddai ei hâd ef yn lluosog iawn, ac y caent Ganaan yn etifeddiaeth. Cadarnhaodd hwn i Isaac a Jacob; ac o hono yr oedd yr *enwaediad* yn insel; am ba achos gelwir ef y *cyfammod*, Gen. xiii. 15, 16, 17, a xv. 18, a xvii. 4, 9, 13. Salm cv. 8—11. Neh. ix. 8. Ar Sinai, heblaw cyhoeddi y cyfammod gweithredoedd a gras, er annog yr Hebreaid i ffoi rhag y naill, a cheisio iachawdwriaeth trwy y llall, gwnaeth Duw gyfammod cenedlaethol â'r Hebreaid, yn cynnwys, ei fod yn eu cynmeryd yn bobl briodol iddo ei hun, ac yn rhoddi iddynt fwyniant heddychlon a dedwydd o wlad Canaan, ar yr ammod o'u hufudd-dod i'w gyfreithiau, Exod. xix—xxiv. Deut. vi. 17—19. Y gorchymynion, y rhai oeddynt yn gofyn yr ammod, a elwir *cyfammod Duw*, Deut. iv. 13. Salm xxv. 10. Y genedl Iuddewig, neu eu crefydd, a elwir yn *gyfammod sanctaidd;* y blaenaf oeddynt bobl briodol Duw, a'r diweddaf oedd yn dangos holl sylwedd ei gyfammodau â dynion, Dan. xi. 28. Yr oedd yr holl wasanaeth dan y ddeddf yn fath o insel o'r cyfammod cenedlaethol hwn, Exod. xxiv. Deut. xxvi, a xxvii. Ychydig cyn marwolaeth Moses a Josuah, ac yn nyddiau Asa, Joas, Hezeciah, Josiah, Zedeciah, Ezra, a Nehemiah, adnewyddwyd hwn mewn modd arbenig, ac ymgyflwynodd yr Hebreaid i wasanaethu Duw; ac, yn hyn, dylai eglwysi Crist, dan yr efengyl, eu dynwared hwy, fel y bydd Duw yn rhoddi cyfleusdra, Deut. xxix. Jos. xxiv. 2 Cron. xv, a xxiii, a xxix, a xxxiv. Jer. xxxiv. Ezra x. Neh. ix, a x. Esa. xix. 18, 21. 2 Cor. viii. 5. Gwnaeth Duw gyfammod o archoffeiriadaeth â Phinehas, yn cynnwys, y cai efe a'i deulu, o herwydd ei eiddigedd yn dyfetha dau odinebwr digywilydd, eu bachub, gan mwyaf o honynt, trwy farwolaeth ac adgyfodiad Crist, Num. xxv. 12, 13. Gwnaeth Duw hefyd gyfammod o frenindod â Dafydd, yn cynnwys, y cai efe a'i deulu fod yn freninoedd ac yn llywodraethwyr ar yr Hebreaid, hyd nes y deilliai y Messiah o'i lwynau ef, i fod yn Frenin tragywyddol ar ei eglwys, 2 Sam. xvii. Salm lxxxix. Nad oedd y cyfammodau hyn yn perthynu yn ddigyfrwng i ddedwyddweh tragywyddol; eu bod yn cysgodi daionus bethau i ddyfod, ac nad oedd y rhan fwyaf o honynt yn gyfammodau priodol, ond addewidion yn unig, sydd amlwg i bob ymchwilydd diesgeulus. Y *cyfammodau* i ba rai y bu y Cenedloedd

am hir amser yn ddyeithriaid, ac a berthynent am hir amser i'r Iuddewon, oeddynt, nid yn unig amryw o'r rhai uchod, ond y *cyfammod grâs* hefyd, pa un, o ran yr amrywiol grybwylliadau am dano, a'i wahanol oruchwyliaethau tuag attom ni, a ellir ei alw *cyfammodau yr addewid*, Rhuf. ix. 4. Eph. ii. 12. Y mae priodas yn cael ei galw *cyfammod Duw*, o herwydd fod dynion ynddi, yn ol ei ewyllys ef, yn ymrwymo y naill i'r llall, megys yn ei wyddfod, Diar. ii. 17. Mal. ii. 14.

Y ddau *gyfammod*, y rhai a berthynant i ddedwyddwch tragywyddol dynolryw, ydynt y cyfammod gweithredoedd a'r cyfammod grâs, Gal. iv. 24. Y mae y *cyfammod gweithredoedd*, o herwydd mai nid rhwng cydraddolion y bu ef, ond i'w holl delerau gael eu cynnyg gan y Deddfwr goruchaf, yn fynych yn cael ei alw y *ddeddf*, neu *ddeddf gweithredoedd*, Gal. iii. 10, Rhuf. iii. 27, a vi. 14, a vii. 4, a viii. 2. Gal. ii, 19, a vi. 4. Yn y gorchwyl hwn, y *pleidiau oeddynt* Duw, yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, fel ein Creawdydd, ein penllywodraethwr, yn anfeidrol sanctaidd, mwyn, a gostyngedig; ac Adda, gwr cyfiawn a sanctaidd, yn gwbl alluog i gadw yr holl ddeddf, megys tad a chynnrychiolydd cyffredinol dynolryw. Gwnaed ef trwy *hunanrwymiad* y pleidiau hyn. Yr *ammod* oedd, parhad Adda yn holl ystod ei brofiad, yn yr ufudd-dod mwyaf perffaith a difrycheulyd, i holl gyfraith Duw, ysgrifenedig ar ei galon, ac i'r ddeddf bennodol o ymattaliad oddi wrth y ffrwyth gwaharddedig. Y *gwobrwy* cyssyllteidig wrth yr ufudd-dod hwn oedd ei barhad ef a'i hiliogaeth yn y fath sancteiddrwydd a dedwyddwch perffaith ag oedd ganddo y pryd hwnw, tra y byddent yn aros ar y ddaear; a'u symmudiad, mewn amser dyladwy i'r bröydd nefol, lle y byddent dros byth yn wynfydedig mewn llawn fwynhad o Dduw Tri-yn-Un. Y *gosp* a fygythiwyd am y troseddiad lleiaf o unrhyw orchymyn, oedd dedfryd ddigyfrwng o gollfarniad, yn torri allan yn marwolaeth ysbrydol ei enaid ef ac eiddo ei hiliogaeth, ac yn marwolaeth dymhorol eu cyrph, a marwolaeth dragywyddol yr enaid a'r corph yn uffern dros byth. *Seliau* y cyfammod hwn oeddynt y pren gwybodaeth, a phren y bywyd; os nad allwn ychwanegu hefyd, y Sabbath, a Pharadwys. I'r fath gyfammod â hwn gael ei wneuthur mewn gwirionedd, sydd amlwg. Yma yr ydym yn cael pob peth sydd yn ofynedig mewn cyfammod; sef pleidiau; ammod; cosp, yr hyn sydd yn cynnwys addewid; a seliau, Gen. ii. 16, 17, a iii. Gal. iii. 10, 12. Gelwir ef yn bendant yn *gyfammod*, Gal. ii. 24. Hos. vi. 7, *ymyl dal*. Y mae Adda yn cael ei osod yn bennodol yn gyferbyniol âg Iesu Grist, megys pen ein cyfammod newydd. Heb ganiattau i'r cyfammod hwn gymmeryd lle, y mae yn analluadwy rhoddi rheswm am gyfriñad pechod Adda i'w hiliogaeth, mewn ffordd gysson â chyfiawnder Duw; y mae yn analluadwy rhoddi rheswm am gyfriñad ei bechod cyntaf, ei un *camwedd* ef, yn fwy nag am ei holl droseddau canlynol; neu am gyfriñad ei bechod ef, yn fwy nag am eiddo ein henañaid cyfryngol, Rhuf. v. 12, 19. 1 Cor. xv. 22. Trwy waith Adda yn bwytta o'r ffrwyth gwaharddedig, yr hwn oedd yn cynnwys ynddo droseddiad mwyaf cyffrous o bob rhan o'r gyfraith ddwyfol, torwyd y cyfammod hwn; a dinystriwyd Adda a'i holl hiliogaeth o achos hyny, Gen. iii. Rhuf. v. 12—19. Byddai yn eithaf afresymol i ddychymmygu y gallai y weithred hon o anufudd-dod ddiddymmu rhwymedigaeth y gyfraith ddwyfol, neu rwyman y cyfammod i gadw y gyfraith honno, neu wneuthur dynion yn annibynol ar Dduw, ac yn annyledus i ufuddhau iddo. Daeth dyn yn awr, gan hyny, dan rwymedigaeth i ufudd-dod perffaith, ac i ddyoddef holl gosp y cydundeb troseddedig. Symmudwyd Adda o'i sefyllfa anrhydeddus o ben-cyfammodwr; a deuodd ef a'i holl hiliogaeth dan y gyfraith doredig, pob un yn rhwymedig drosto ei hun, Gal. iii. 10, 12. Arswydus, yn awr, oedd cyflwr dynolryw. Yr oedd yn ofynol i'r rhai hyny ag oeddynt yn gynnrychioledig yn Adda, gael eu dwyn i banfodiaeth, yn eu trefn briodol, yn ol rheddiad y cyfammod; ac nis gallent fod felly heb gyfriñad digyfrwng o'i bechod cyntaf ef, a'i

felldith ddwyfol mewn canlyniad iddo, yn eu darostwng i farwolaeth ysbrydol, dymhorol, a thragywyddol. Yr oedd gofynion y gyfraith, mewn trefn i gael bywyd trwyddynt, wedi myned yn gelyd anfeidrol, ac yn analluadwy i un creadur i'w gyflawni. Gwnaeth llygredd anian pob dyn ef yn elyn ffyrnig i Dduw a'i gyfraith; a'r felldith yn gorwedd ar ei gydwybod, megys gydag effeithioldeb hollalluog, a'i sicrhaodd ef dan awdurdod ei lygredigaeth, fel rhan o'r gosp, Gal. iii. 10. Rhuf. v. 12—19, a viii. 78. Eph. ii. 1, 2, 3, 12. 1 Cor. xv. 56. I ychwanegu at y trueni hwn, yr oedd llygredigaeth ei anian, ei falchder a'i elyniaeth yn erbyn Duw, yn nghyd âg argraph y felldith ar ei gydwybod, yn ei rwymo yn nerthol i geisio dedwyddwch trwy weithredoedd y ddeddf, mewn gwrthwynebiad i unrhyw gynllun arall a allai Duw ei ddadguddio, Rhuf. ix. 31, 32, a x. 3. Gal. iii. 10, a iv. 21. Mat. xix. 16.

O dragywyddoldeb rhagwelodd Duw ein cyflwr dinystriol; a chyn i ni syrthio, sefydlasai holl drefn ein prynedigaeth, mewn cyfammod o râs. Yma, yn wir, ymrwymodd poh un o'r personau dwyfol i wneud ei ran o'r gwaith; ond y cydunodeb a fu ar y cyntaf rhwng y Tad, megys yn cynnal Mawrhydi goruchel yr hanfod ddwyfol; yn Dduw uchel, sanctaidd, a chyfiawn, wedi ei ddigio yn anfeidrol gan bechod, ac yn llawn grâs i bechaduriaid; â'i Fab tragywyddol, megys ein Cyfathrachwr, ein Mechnïydd, a'n Hoffeiriad aberthol, yn cymmychioli ei holl bobl. O herwydd ei bod yn anghysson â pherfeithrwydd Duw, i adferu pechadur er dianrhydeddi i'w gyfraith ddwyfol, gofynwyd i Fab Duw yn ein hanian ni, i ymostwng i'r gyfraith doredig, a chyflawni pob un o'i gorchymynion, fel ammod o'n bywyd tragywyddol. Yr oedd anfethedigrwydd person yr Iesu yn hollol gau allan bob cospedigaeth, am nad allai un toriad o'r ddeddf hanfodi. Ond y mae addewidion y cyfammod hwn yn fawrion a lluosog iawn, wedi eu gwneuthur oll ar y cyntaf iddo ef, a rhai o honynt wedi eu cyflawni yn ddigyfrwng ar ei berson ef, ac ereill ar ei hâd. Yr oedd yr addewidion am ddarpariaeth ar gyfer, a chynnorthwy yn ei waith yn ymddibynu yn hollol ar gariad rhad a goruchel Duw; derbyniad addawedig, a gwobrwy ei waith, trwy ei dderchafiad gogoneddus ef, a'n prynedigaeth dragywyddol ninnau, oeddynt yn ymddibynu yn ddigyfrwng ar ei gyflawniad ef o'r gyfraith doredig yn ein lle, Salm lxxxix. 3, 4, a xl. 6—8. Esa. lii. 13—15, a liii. Mat. iii. 15. Luc xxiv. 26. Phil. ii. 7—10.

Er anrhydeddu ein Pryniawdwr, er diogelu a melusu ein prynedigaeth, rhoddwyd y cyfan o oruchwyliaeth y cyfammod gan y Tad yn ei law ef, fel y gallai ei chyfranu i ddynion pechadurus. Ynddo ef, megys *Ymddiriedolwr*, y mae Duw wedi llettya yr holl fendithion o gyfiawnder; a'r Ysbryd, cyflawnhad, mabwysiad, sancteiddhad, cyssur, a gogoniant anorphenol, Ioan iii. 35. Col. i. 19. Mat. xi. 27. Ioan xvii. 2. Yr holl fendithion hyn y mae efe, fel y *Cymmunwr* mawr, yn eu rhoddi yn rhad i ni bechaduriaid, yn addewidion a chynnygion yr efengyl ogoneddus, Heb. ix. 16, 17. Luc xxii. 29, 30. Fel ein Eiriolwr gyda y Tad, y mae efe, trwy ei gyfryngdod yn effeithio cyflawniad ei *ewyllys diweddaf;* fel Prophwyd a Brenin, y mae yn dadguddio ac yn cyfaddasu yr amrywiol fendithion cynnwysedig ynddi, Ioan xvii. Heb. vii. 25. 1 Ioan, ii. 1. Act. iii. 22, 26, a v. 31. Rhuf. xi. 26.

Tan yr Hen Destament, gweinyddwyd y cyfammod hwn o râs yn allanol trwy addewidion, prophwydoliaethau, aberthau, enwaediad, a'r pasc, yn nghyd â chysgodau, ac ordinhadau ereill. Tan y Newydd, y mae yn cael ei weinyddu yn mhregethiad yr efengyl, bedydd, a swpper yr Arglwydd, yn mha rai y mae grâs ac iachawdwriaeth yn cael eu cynnyg mewn mwy o gyflawnder, eglurdeb, ac effeithioldeb, i bob cenedl, 2 Cor. iii. 6—18. Ond, yn y ddau yspaid hwn o amser, y mae y Cyfryngwr, yn nghyd a'r holl sylwedd, y bendithion, a'r dull o gaffael hawl ynddynt trwy ffydd yn yr unrhyw, heb un gwahaniaeth, Heb. xiii. 6. Gal. iii. 7—14.

Heb wneuthur cyfrifiad o'r amrywiol dybiau a lettyir gan y dysg-

edigion, mewn perthynas i feddwl y gair a gyfneithwn ni *cyfammod*, gellir ei ystyried yn briodol fel yn cynnwys holl fendithion efengyl Crist, a gyfrenir, fel cymmun-rodd, i etifeddion yr addewid. Yn yr Hen Destament yr ydym yn cael, lle y crybwyllir am *wneuthur cyfammod*, y dylai y gair a gyfneithwn ni *gwneuthur*, gael ei droi yn *rhoddi*: "Mi a *roddaf* fy nghyfammod rhyngof a thi," Gen. xvii. 2. Yn mhlith dynion, pan y bydd y pleidiau ymrwymol cyfuwch â'u gilydd, y mae cyfammodau yn cael eu *gwneuthur;* ond Duw yn unig sydd yn *rhoddi* ei gyfammod. Mewn cydsyniad â hyn, pan grybwyllir am gyfammod Duw yn y Testament Newydd, y mae yn cynnwys gair (sef *diathece*) yr hwn bob amser a arwydda weithred person unigol yn trosgl wyddo ei eiddo priodol i un arall. Y dull o ymresymu a fabwysiedir yn y llythyr at yr Hebreaid, yn yr 8fed, y 9fed, a'r 10fed bennod, sydd yn sefydlu, tu hwnt i bob dadl, meddwl ysgrythyrol y gair *cyfammod*. Gweithred Duw ydyw, yn *testamentu*, neu yn *cymmun-roddi* holl fendithion y deyrnas nefol. Er cadarnhau y cyfammod hwnw, tywalltwyd gwaed Iesu Grist, o herwydd nis gallai y Testament fod mewn grym, cyhyd ag y byddai y testamentwr byw. Ymddengys, ynte, mai hwn yw y cyfammod a gyfenwir mewn modd pwysig yn yr ysgrythyr, yn gyfammod Duw; ac, fel yn eglurhaol o ba un, a gwasanaethgar crybwyllir am amryw gyfammodau ereill yn yr ysgrythyr.

Y cyfammod hwn a roddwyd ar y cyntaf fel addewid syml i Adda. Os ystyrir y gair gwreiddiol *berith*, fel yn arwyddoccau *torriymaith;* neu, os ymofynir, pa olygiad a roddid i Addaf o'r dull yn mha un yr oedd y cyfammod i gael ei gadarnhau? gellir atteb yn briodol, fod y gwaed, trwy dywallt yr hwn yr oedd yr addewid i gael ei gwneuthur yn sicr i'w holl had ef, yn cael ei osod ger ei fron yn y sefydliad o aberthu. Y tro cyntaf y cawn grybwylliad neilduol am y gair cyfammod yn yr ysgrythyr, ydyw wrth Noah, Gen. ix. 9, yr hyn sydd yn deilwng o sylw. Gellir dywedyd nad y cyfammod â Noah oedd y cyfammod tragywyddol; ond hwyrach y gellir haeru gyda phriodoldeb fod y cyfammod tragywyddol yn meddu cyssylltiad agos iawn âg ef; ac nis gellir gwadu fod cyfammod Duw, yr hwn a sicr addawai ddiogelwch i bob cnawd, rhag dyfroedd dinystriol y dylif, â Noah, o leiaf yn gynllun tra arwyddoccaol o'r cyfammod mawr, Esa. liv. 9. Yn awr, nid oedd y cyfammod hwn ddim amgen na thrugaredd yn cael ei chyfranu a'i sicrhau i bob cnawd, a hyny yn tarddu oddi wrth yr arogl peraidd a gyfododd oddi wrth offrwm Noah, Gen. viii. 20, 21. Y crybwylliad nesaf am gyfammod sydd wrth Abraham, ac yr ym yn cael yr un meddwl yn gysylltiedig wrth y gair iddo ef, âg y gwelsom eisioes fod ei arwyddocad i Noah ac i'r Hebreaid; sef mai o Iesu Grist, gwir fab yr addewid, a chyfammod y bobl, y deilliai cyfammodau ac addewidion Duw, ac, o ganlyniad, yr holl fendithion a ddylifant i eunog ddyn trwyddo ef. Dyma y cyfammod a wnaeth efe âg Abraham, neu a *roes* iddo; ei lŵ i Isaac, yr hwn a gadarnhaodd i Jacob, ac a roddodd yn ddeddf i Israel. Salm cv. 9, 10, 11. Hyn a barodd i Mair a Zacharias ganu fod Duw, pan oedd y Messias ar gael ei eni, yn cyflawni y drugaredd i Abraham, ïe, ei lŵ, Luc i. 55, 73. Ac am hyny, pan rifodd Duw i Abraham rai o'r bendithion a ddylifent trwy y cyfammod hwn, arweiniwyd Abraham i edrych am ddinas âg iddi sylfaeni, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw, Heb. xi. 10. Ond yn addewidion Duw a gyfammodwyd i Abraham, yr ydym hefyd yn cael ein harwain i edrych am ffynnonell yr hyn a elwir y cyfammod sanctaidd. Arweiniai ni yn mhell tu hwnt i'n terfynau i olrhain yn fanwl y pwnge hwn; digon yw sylwi yma, i Dduw, fel gwystl neu gynllun o'r cyfammod tragywyddol, gymmun-roddi iddo ef a'i had wlad Canaan yn etifeddiaeth; a phau ddymunodd Abraham gael gwybod pa hawl oedd ganddo i etifeddu, Gen. xv. 8, rhoddodd yr Arglwydd iddo olwg helaeth ar angau Crist, fel yr iawn mawr, trwy dywalltiad gwaed yr hwn y cai holl fendithion y Testament eu cadarnhau. Yr Hen oedd yn gysgod o'r Newydd; ac, nes y deuai Crist, yr oedd eglwys Crist i gael ei haddysgu trwyddo y'nghylch

natur y cyfammod newydd, yr hwn a elwir yn *newydd* gyda golwg ar yr *hen*, pa un a ddiflannodd ymaith. Yn awr, pa fodd y gallai cyfammod o weithredoedd, (megys y gelwir yr hen gyfammod) fod yn gyffelybiaeth neu gysgod o'r hyn a ganiatteir ei fod yn gyfammod o râs. Hen gyfammod Duw fel ei rhoddwyd i Abraham, oedd gasgliad o addewidion, yn neilldiol, 1. Am enedigaeth Isaac, yr hwn a fyddai yn etifedd y cyfammod,—i fod yn gyffelybiaeth o enedigaeth Crist, gwir etifedd y cyfammod tragywyddol. 2. Gwaredigaeth o'r caethiwed Aiphtaidd, a barnedigaeth eu gorthrymder, i nodi allan y waredigaeth fawr oddiwrth Anghrist, a barnedigaeth y butain fawr. 3. Etifeddiaeth o wlad Canaan, yr hon oedd yn llifeirio o laeth a mêl, megys gwysti o'r mynediad helaeth a weinyddir i holl Israel Duw, i'r etifeddiaeth yr hon sydd anllygredig a dihalog. Yn awr, yr addewidion hyn a roddwyd i Abraham. 1. Fel cyfammod yn sefyll ar ddim gweithredoedd o un math pa bynag, ond ar air a llŵ Duw, y rhai nis gallai y ddeddf eu diddymu; ac, 2. Fèl ernes o'r geirwiredd Dwyfol yn cyflawni y cyfammod newydd, o ba un yr oedd yr hen i fod yn DDYGIEDYDD I MEWN, Heb. vii. 19. Gan ein bod eisioes wedi estyn yr erthygl hon allan tu hwnt i'r terfynau arferol, ni a oedwn ystyried yn neilldiol y cyssylltiad rhwng yr hen gyfammod a'r gyfraith, a rhwng y cyfammod newydd a'r efengyl, nes y delom at y gair *Cyfraith*, yr hwn gwêl: ond sylwi yn unig, mai megys y cadarnhawyd yr addewid i Adda trwy waed aberth, felly y gwnaed â'r addewidion i Noah ac Abraham, pan eu rhoddwyd fel cyfammod; mewn cyffelyb fodd, gwaed yr ebyrth tan y ddeddf oedd y gwaed trwy ba un y cadarnhêid yr hen gyfammod. "Wele," ebe Moses, "waed y cyfammod, yr hwn a roddodd yr Arglwydd i chwi," Exod. xxiv. 8. "Hwn yw fy ngwaed, o'r Testament Newydd, a dywelltir tros lawer er maddeuant pechodau," ebe ein Harglwydd, pan yn sefydlu ei swpper. Unwaith yn ychwaneg, y mae y cyfammod a wnaeth Duw â Dafydd â llawer o ddywedyd am dano yn yr ysgrythyr. Cyfammod Duw a eglurir yn gyflawn yn Salm lxxxix, 27, 28, 34, 35, 36, &c. lle y cawn nad oedd ddim amgen nag addewidion a llŵ Duw yr eisteddai ei hâd i lywodraethu ar ei orsedd dros byth. Cyfammod Dafydd a gyflawnwyd yn Solomon a'i hâd ar orsedd eu tad Dafydd: ond y mae Dafydd yn ei eiriau olaf, 2 Sam. xxiii. 5—8, yn mynegu fod Duw wedi rhoddi iddo ef, sef gyda'r addewid hon mewn perthynas i'w dŷ daearol, y cyfammod tragywyddol wedi ei luniaethu yn hollol mewn pob peth, ac yn sicr, lle y gorweddai ei holl iachawdwriaeth a'i ddymuniad; ac am hyny, pan aeth yr apostolion ar led i bregethu adgyfodiad Crist a'i escyniad i ogoniant, hwy a bregethasant yr hyn a alwent hwy sicr drugareddau Dafydd.

CYFARTH, *(cyf-arth)* peufer; gwneud sŵn fel ci. Ond gweinidogion sydd fel *cwn mudion*, *heb fedru llefaru*, yw y cyfryw ag nad oes ganddynt gydwybod na gwroldeb i geryddu pechodau dynion, a chyhoeddi gwirioneddau arswydus Crist, Esa. lvi. 10.

CYFARWYDDO, *(cyf-ar-gwydd)*; a arwydda, (1.) Dangos y ffordd i un, Gen. xlvi. 28. (2.) Cyfeirio tuag at un, Job xxxii. 14. Y mae Duw yn *cyfarwyddo* llwybrau a ffyrdd dynion, a'u calonau i'w garu ef ei hun, trwy ei air, ei Ysbryd, a'i ragluniaethau, Diar. xvi. 9. 2 Thes. iii. 5. Y mae doethineb yn fuddiol i *gyfarwyddo* pa fodd i weithredu; cyfiawnder sydd yn *cyfarwyddo*; y mae tueddiad ynddo i gadw dynion mewn gyrfa briodol o fucheldd, Preg. x. 10. Diar. xi. 5. Y mae dynion yn *cyfarwyddo* eu gweddiau at Dduw, pan y byddant, gyda gwybodaeth, ymddiried, a dychryn, yn cyfeirio eu gweddiau atto ef, ac yn dysgwyl cyflawniad o honynt oddi wrtho, Salm v. 3, a cxli. 2.

CYFIAWN, *(cyf-iawn)* a arwydda, (1.) Un sydd yn uniawn a didwyll yn ei weithredoedd a'i ymddiriaethau âg ereill, Luc xxiv. 50. (2.) Y Creawdwr mawr, yr hwn sydd yn hanfodol gywir a chyfiawn, ac yn ffynnon cyfiawnder, Deut. xxxii. 4. (3.) Un sydd yn dra ffyddlawn a geirwir, yn cadw ei air a'i addewid, 1 Ioan i. 9. (4.) Un, yr hwn yn ei fywyd a'i angau,

a attebodd i uniondeb perffaith cyfraith Duw, 1 Petr iii. 8. (5.) I Un sydd yn gyfiawn trwy gyfriñad o gyfiawnder Crist, Rhuf. i. 17. (6.) Un sydd heb ei argyhoeddi yn drwyadl o'i bechadurusrwydd, ac yn gyfiawn yn unig yn ei dyb ei hun, Luc xviii. 9. (7.) Un sydd yn bwyllog, yn addfwyn, ac yn dyner, Mat. i. 19. (8.) Un o dymmer haelionus a thrugarog, Salm xxxii. 26.

CYFIAWNDER, a arwydda, (1.) Y perffeithrwydd banfodol hwnw yn Nuw, trwy ba un y mae efe yn anfeidrol uniawn a chywir yn ei anian, ac yn ei holl ymddygiadau tuag at ei greaduriad, Salm lxxxix. 14. (2.) Y rhinwedd wladwriaethol hon no, o roddi i bob dyn yr hyn sydd yn ddyledus iddo, ac a ellir ei galw, (1.) Yn gyfranedig, yr hyn a berthyn i freninoedd, swyddogion, a rhai mewn awdurdod, Job xx. 14. (2.) Cyfnewidiol, yr hyn sydd yn perthyn i bawb yn eu hymdriniaethau y naill â'r llall, Gen. xviii. 19.

CYFIAWNHAU, a arwydda. (1.) Rhyddhau neu gyhoeddi un yn ddieuog, Diar. xvii. 15. (2.) Dieuogi a rboi rhyddhad i'r pechadur crediniol oddi wrth euogrwydd a chospedigaeth pechod trwy gyfriñad o gyfiawnder Crist, Rhuf. iii. 28, a v. (3.) Cyhoeddi un arall yn llai euog na ni ein hunain, Ezec. xvi. 51. (4.) Cydnabod peth neu berson yn gyfiawn, Mat. xi. 19. Luc vii. 35. (5.) Profi ac amlygu fod un mewn cyflwr cyfiawnhaol, Iago ii. 21. Y *mae hyn yn bedwar-plyg*, (1.) Twyllodrus a gwag-ogoneddgar, Luc x. 19, a xvi. 15. (2.) Gwladwriaethol, Deut. xxv. 1. Esa. v. 23. (3.) Deddfol, Rhuf. iii. 20. Gal. ii. 16. (4.) Efengylaidd, Rhuf. v. 1. *Dywedir fod hyn* yn cael ei gyflawni, (1.) Trwy Grist, Gal. ii. 16. (2.) Trwy râs yn rhâd, Rhuf. iii. 24. Tit. iii. 7. (3.) Trwy ffydd, Gal. iii. 8. (4.) Trwy ei waed ef, Rhuf. v. 9. (5.) Trwy ei wybodaeth ef, Esa. liii. 11. *Cyfiawnhau* ydyw yr hyn sydd yn wrthwyneb i *gondemnio*. Y mae Duw yn cael ei *gyfiawnhau*, pan fydd uniondeb ei ymddygiad yn cael ei ddangos a'i gyhoeddi yn eglur: yr oedd pechod Dafydd yn *cyfiawnhau* Duw; ymddangosodd Duw yn wir gyfiawn yn ei fygwth ac yn ei gospi; ac yr oedd ei gyfaddefiad ef o hono yn *cyfiawnhau* Duw, o herwydd ei fod trwy hyny yn cydnabod sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw yn yr hyn a ddaeth arno am dano, Salm li. 4. Duw a *gyfiawnhaodd* Grist, trwy dderbyn ei wasanaeth yn ein lle, trwy ei ddwyn ef oddi wrth y meirw, a thrwy roddi iddo ogoniant, megys tystiolaeth eglur o'i fod wedi cwbl orphen yr hyn a ofynwyd ganddo fel ein Mechnïydd, Esa. l. 8. Crist *a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd*. Trwy nerth ei anian ddwyfol, efe a gyfododd o'r bedd, fel ein pen cyfiawnhaol; a thrwy ddylanwadau gwyrthiol ac achubol yr Ysbryd Glân, eglurwyd ei fod yn Fab cyfiawn Duw, ac yn Gyfryngwr, yr hwn oedd wedi gorphen y gwaith o gyfiawnder a roddasai y Tad iddo i'w wneuthur, 1 Tim. iii. 16. Y mae Duw yn *cyfiawnhau* dynion, pan fydd yn eu hystyried yn berffaith gyfiawn yn ei olwg fel eu barnwr, wedi eu rhyddhau oddi wrth euogrwydd pechod, wedi eu derbyn i'w hoffder, ac yn meddu hawl i ddedwyddwch diddiwedd, Rhuf. iii. 24, 28, 30, a viii. 33, a v. 9. Ystyrir hwy megys annuwiolion ynddynt eu hunain, Rhuf. iv. 5. Nid yw y cyfiawnhad hwn yn sylfaenedig ar ddim gweithredoedd a wnaed, neu y sydd i'w gwneuthur gennym ni; nis gall un o'r rhai hyn foddloni cyfraith ddigyfnewid Duw, ac y maent oll, yn mhob llun, yn cael eu cau allan o fod yn ddefnydd ein cyfiawnder cyfiawnhaol ger bron Duw, Gal. iii. 10, 12. Rhuf. iii. 20, 24, 28. Gal. ii. 16, ond y mae yn deilliaw oddi wrth râd râs Duw yn hollol, Tit. iii. 7. Rhuf. iii. 24; ac yn sylfaenedig ar gyfiawnder Iesu Grist, megys wedi ei gyflawni yn ein lle, ac yn cael ei gyfrif i'n personau ni, Gal. ii. 16. Rhuf. iii. 24, a v. 9, 19. Phil. iii. 8, 9. Esa. xlv. 24. Jer. xxiii. 6, a xxxiii. 16, ac y mae trwy *ffydd* neu *wybodaeth* o Grist, Gal. iii. 8. Rhuf. v. 1, a iii. 28, a iv. 5. Esa. liii. 11. Y mae gweithredoedd da, o herwydd eu bod yn ffrwythau tra sicr o gyfiawnhad, yn *cyfiawnhau* y saint; maent yn amlygu i'w cydwybodau eu hunain, ac i'r byd, eu bod wedi eu cyfiawnhau ac yn uniawn ger bron Duw, Iago ii. 21—

25. Ein cyfiawnhad ni sydd trwy farwolaeth ac adgyfodiad Crist; ei farwolaeth, ei waed, neu ei gyflawnder, yw y priawerth a'r sylfaen o hono, neu y cyfiawnder ei hun yn yr hwn y cynhelir ni yn gyfiawn ger bron Duw; ac yn ei adgyfodiad, cyfiawnhawyd ef fel ein pen cyhoeddus, a dechreuodd gael ei dderchafu, fel y gallai roddi i ni edifeirwch a maddeuant pechodau, Rhuf. iv. 25, a viii. 34; a *chyfiawnhad bywyd* yw, yn gymmaint a'n bod trwyddo yn meddu hawl i fywyd tragywyddol o sancteiddrwydd a dedwyddwch; a bod holl berffeithderau Duw wedi dwys ymrwymo i gyfranu yr unrhyw i ni, Rhuf. v. 16, 18. Y mae dynion yn *cyfiawnhau* Duw pan byddant yn cydnabod ac yn cyhoeddi cyfiawnder ei ymddygiadau, Luc vii. 29, 35. Y maent yn *cyfiawnhau* eu hunain, pan y dychymmygant eu bod, neu y cyhoeddant eu hunain yn ddifeius yn y cwbl neu mewn rhan, Luc x. 29, a xvi. 15. Y maent yn *cyfiawnhau* ereill, pan y credant eu bod, neu y cyhoeddant hwy yn gyfiawn, Deut. xxv. 1. Diar. xvii. 15; neu, trwy arferiad gwaeth, yn eu dangos ac yn eu hamddiffyn hwy megys yn llai euogion na hwy eu hunain, Ezec. xvi. 51. Jer. iii. 11.

CYFLAWNDER, *(cyf-llawnder). Cyflawn o ddyddiau*, un a fuasai byw yn ddigon hir, cyhyd âg y chwennychai, Gen. xxv. 8. *Yn llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân;* hyny yw, wedi ei gynnysgaethu â mesur helaeth o ffydd ac o ddoniau yr Ysbryd Glân, Act. vi. 5. *Cyflawnder yr amser*, yw yr amser yn mha un yr ymddangosodd y Messiah, yr hwn a sefydlwyd gan Dduw, a addawyd i'r tadau, a ragfynegwyd gan y prophwydi, a ddysgwyliwyd gan yr luddewon eu hunain, ac a hiraethwyd am dano yn ddifrifol gan yr holl ffyddloniaid; cyflawnder yr amser hwn, yw pan ddaeth yr amser hwnw i ben yn gyflawn, Gal. iv. 4. "Pan ddaeth cyflawnder yr amser, danfonodd Duw ei Fab." *Cyflawnder Duw*, yw y cyfryw fesur o berffeithrwydd ac a a dreſnodd Duw i bob un o'i bobl trwy Grist, Eph. iii. 19. "Fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw;" sef fel y cyfranogoch yn y modd mwyaf helaeth o anchwiliadwy olud Crist. Y mae yr eglwys yn cael ei galw, *cyflawnder Crist*, Eph. i. 23. Yr eglwys sydd yn ei wneuthur ef yn Ben cyflawn a pherffaith, ac, hebddi, efe a gyfrifai ei hun yn wag ac anafus, fel pe bai; o herwydd er fod ganddo *gyflawnder* aniaaol a phersonol fel Duw; etto, fel Cyfryngwr, nid yw efe yn gyflawn ac yn berffaith heb ei gorph dirgelaidd (fel nad yw brenin yn gyflawn heb ei ddeiliaid) ond y mae yn derbyn cyflawnder allanol, perthynasol, a dirgeledig, oddi wrth ei aelodau. Ac yna y mae yr eglwys yn amlygu ac yn gosod allan ei *gyflawnder* ef, gan wasanaethu fel llestr gwag iddo i'w lanw, ac i ddangos ei gyflawnder ynddo; a hyn a wna efe, trwy ddwyn pob aelod i'w faintioli cyflawn; trwy wasgaru pob amrywiaeth o ddoniau a grasau yn eu plith; a thrwy eu dwyn oll i'r nef yn y diwedd, fel na byddo un o honynt yn eisiau. Ymddengys fod *cyflawnder* yr Iuddewon a'r Cenedloedd, a grybwyllir yn Rhuf. xi, yn cyfeirio at gasgliad cyffredinol yr holl etholedigion at Grist yn yr adgyfodiad.

CYFLAWNI; a arwydda, gwneuthur yn gyflawn; cwblhau, Gen. l. 3. *Cyflawni* gwaith, yw ei orphen neu ei gwblhau, Mat. iii. 15. *Cyflawni* addewid, bygythiad, neu brophwydoliaeth, yw gwneuthur yr hyn a addawyd, a fygythiwyd, neu a ragddywedwyd, Mat. xxvi. 54. *Cyflawni* cyfraith, gorchymyn, neu ewyllys, yw ufuddhau i'r unrhyw, Rhuf. xiii. 8. *Cyflawni* eirchion a dymuniadau, yw caniattau y pethau a ddymunir, Salm xx. 4, 5. *Cyflawni* chwantau, yw gwneuthur pa weithredoedd drwg bynag y tueddont ni iddynt, Eph. ii. 3. Y mae amser wedi ei *gyflawni*, pan fydd drosodd neu wedi cyflawn ddyfod, Luc i. 57, a ii. 6.

CYFOETHOG, *(cyfoeth)* goludog: (1.) Y rhai y mae ganddynt ardrethi mawrion, a llawnder o bethau da y byd hwn, Gen. xiii. 2. Iago i. 10, 11. (2.) Y cyfryw ag a osodant eu dedwyddwch a'u hyder yn eu llwyddiant allanol, Luc vi. 24. (3.) Y rhai y mae ganddynt helaethrwydd o râs a doniau ysbrydol, a hawl i ddedwyddwch tragywyddol, Iago ii. 5. (4.) Y cyfryw ag

ydynt yn eu barn eu hunain, yn helaethion mewn doniau a grasau ysbrydol, tra y maent etto yn amddifaid o honynt, Dad. iii. 15. (5.) Dynion doethion a theilwng, wedi eu cynnysgaethu yn helaeth â doniau rhagorol, Preg. x. 6. Y mae Duw yn *gyfoethog* ; y mae ganddo bob cyflawnder yndo ei hun, ac y mae efe yn dra pharod i roddi pethau mawrion a da i bechaduriaid, Eph. i. 4.

CYFRAITH (*cyf-rhaith*, deddf osodedig). Ewyllys gyhoeddedig inwchafiad yn rhwymo ei ddeiliaid i gyflawni yr hyn sydd yn foddus ganddo, ac i ochelyd yr hyn sydd yn ei anfoddhau ; ond y mae yr ysgrythyr yn arfer y gair hwn i osod allan yr oeth allan ag sydd yn cyfranu addysg i isafiad, neu yn peri anrhyw rwymedigaeth arno. Yr un yw â gorchymynion, rheolau, neu ddeddfau. Pan y creodd Duw ddyn ar y cyntaf, efe a argraphodd wybodaeth, cariad, ac arswyd ei gyfraith ar ei feddwl. Y mae pechod wedi anffurfio, ond nid wedi llwyr ddileu yr argraph dyfnhaol hwn, o ran gwybodaeth ac arswyd o'r gyfraith ddwyfol, Rhuf. i. 14, 15. Ein cydwybodau a goffânt i ni o hyd ein rhwymedigaeth i greddu yn y Bôd Goruchaf, ei addoli, a'i wasanaethu ; anrhyddeddu ein rhieni a'n llywiawdwyr ; dwyn ein lleshad a'n dedwyddwch gwirioneddol ein hunain yn mlaen mewn amser a thragywyddoldeb, a gwneuthur i ereill megys y dymunem iddynt hwythau wneuthur i ninau, &c. : ond pa fodd y mae cyflawni y pethau hyn yn wirioneddol ac yn gymmeradwy, neu pa fodd y mae cael maddeuant am yr hyn a wnaethom ar fai, ni fynegant i ni. Yn y cyflwr o ddiniweidrwydd, ychwanegodd Duw y cyfreithiau pennodol o gadw y Sabbath, o ymattaliad oddi wrth ffrwyth y pren gwybodaeth, ac o ffrwythlondeb yn y ddaear, a llywodraeth arni, Gen. i. a ii. Ar ol y cwymp, gosodwyd cyfraith yr aberthau i ddyn, Gen. iii. 21. Y mae yr Iuddewon yn crybwyll yn ynych am y saith gorchymyn a osodwyd i Noah a'i deulu. Y cyntaf o'a rai, meddant, oedd yn gorchymyn ymostyngiad i lywodraethwyr ; yr ail yn gwahardd cabledd ; y trydydd yn gwahardd eilun-addoliaeth a choel-grefydd; y pedwerydd yn gwahardd ymlosgach, gwrryw-gydiaeth, gorwedd gydag anifeiliaid, a chyffelyb aflendid ; y pummed yn gwahardd llofruddiaeth ; y chweched yn gwahardd pob math o ladrad ; a'r seithfed yn gwahardd bwytta unrhyw ran o anifel tra y byddai etto yn fyw ; ond nis gallwn ymddibynu yn ddiogel ar eu hanesion am y gyfraith saith-blyg hon, Gen. ix. Gosododd Duw gyfraith yr enwaediad i Abraham a'i deulu, Gen. xvii. I Moses, a'r Hebreaid yn yr anialwch, rhoddodd Duw gorph cyfanaidd triphlyg o gyfreithiau ; sef cyfundraeth *foesol*, yr hon sydd yn rhwymo pawb o ddynolryw yn mhob cenedl ac oes ; un *seremoniol*, yr hon oedd yn rhagnodi defodau eu haddoliad a'u pethau sanctaidd, a thrwy hyny yn cyfeirio at Iesu Grist yn ei berson a'i waith, a bendithion ei eglwys tan y Testament Newydd ac yn y deyrnas nefol : pa rai oeddynt yn rhwymau yn unig, hyd nes y gorphenodd Iesu waith y prynedigaeth, ac y dechreuodd gyfodi ei eglwys efengylaidd. Heb. x. 1, a vii. 9—11. Eph. ii. 15, 16. Col. ii. 14. Gal. v. 2, 3 ; a chyfundraeth *farnedigol* neu *wladwriaethol*, yr hon oedd yn cyfarwyddo llywyddiaeth y genedl Iuddewig, megys tan awdurdod neilduol Duw fel eu prif Swyddog, ac nid oedd hon byth, oddi eithr mewn pethau perthynol i uniondeb moesol, yn rhwymo neb ond y genedl Iuddewig, yn enwedig tra y mwynhasant feddiant o wlad yr addewid.

Cyhoeddwyd y gyfraith foesol yn y modd mwyaf difrifol gan Dduw ei hun, ar ol taranau, mellt, a daeargryn dychrynllyd, ac o ganol fflamiau tân, ac a ddosparthwyd yn ddeg gorchymyn, ac a ysgrifenwyd gan Dduw ei hun, unwaith a thrachefn ar ddwy lech garreg. Pedwar, mewn perthynas i'n dyledswydd tuag at Dduw, a ysgrifenwyd ar y gyntaf, y rhai, o ran sylwedd, a ofynent i ni ei garu ef megys yr Arglwydd ein Duw, â'n holl galon, ein holl enaid, ein holl feddwl, a'n holl nerth. Chwech a ysgrifenwyd ar yr ail, y rhai, mewn sylwedd, a ofynent i ni garu ein cymmydog megys ein hunain, Exod. xix. a xx. a xxxii. a xxxiv. Mat. xxii. 37—39. Yn fwy neilduol, yr oedd y gorch-

ymyn cyntaf yn gosod, mai Duw yn unig a ddylid ei gydnabod, ei addoli, a'i ogoneddu, mewn calon a bywyd, fel y gwir Ddiuw, a'n Duw ni; ac y dylid ymattal oddi wrth bob annuwiaeth, halogedigaeth, ac eilunaddoliaeth. Yr ail oedd yn gosod, y dylai yr holl ordinhadau o addoliad a sefydlwyd gan Ddiuw yn ei air, gael eu derbyn a'u cadw yn bur ac yn gyfan; ac y dylid ffieiddio pob amgyffredion cnawdol am Ddiuw, pob eilunaddoliaeth a choel-grefydd, a chof-adeiliau, neu yr achlysuron o honynt. Y trydydd oedd yn gosod na ddylai enwau, titlau, priodoliaethau, ordinhadau, geiriau, a gweithredoedd Duw, gael eu harfer, heb y cospedigaethau llymaf, ond yn unig mewn modd sanctaidd a pharchus. Y pedwerydd oedd yn gosod, fod pa amseroedd bynag a bennododd Duw yn ei air, yn enwedig un dydd mewn saith, i'w cadw yn ofalus, mewn ymarferiadau ysbrydol, megys yn sanctaidd i'r Arglwydd. Y pummed oedd yn gofyn cadwedigaeth, anrhydedd, a chyflawniad dyledswyddau perthynasol rhwng rhieni a phlant, gwyr a gwragedd, meistriaid a gweision, swyddogion a deiliaid, gweinidogion a phobl; ac, yn ddiweddaf, rhwng uwchafiaid ac isafiaid, mewn oedran, sefyllfa, doniau, neu ras; a rhwng cydraddolion y naill at y llall. Y chwechfed oedd yn gofyn pob ymdrechiadau cyfreithlon i ddiogelu a chadw ein bywydau ein hunain ac eiddo ereill, yn dymhorol, ysbrydol, neu dragywyddol; ac yn gwahardd pob llid, cenfigen, llofruddiaeth, geiriau digllon, meddwdod, a phob peth arall a dueddai er niweid enaid neu gorph. Y seithfed oedd yn gwahardd pob math o butteindra, godineb, ymlosgach, cydorwedd âg anifeiliaid, hunan-halogiad, ac aflendidau ereill, a phob peth mewn calon, ymadrodd, ac ymarweddiad, a dueddai at hyny. Yr wythfed oedd yn gofyn y dylid gwneuthur pob peth cyfreithlon er gwellhau ein sefyllfa allanol ein hunain a'n cymmydogion; ac y dylid ffieiddio pob anghywirdeb, lladrad, ysbeiliad, cribddeiliaeth, gorthrymder, cyssegr-yspail, &c. Y nawfed oedd yn gofyn y gofal mwyaf i gynnal a chadw y gwirionedd, a'n henw da ein hunain ac eiddo ein cymmydog; ac yn gwahardd pob math o anwiredd, celwydd, rhagrith, gweniaeth, gogan, neu iaith waradwyddol. Y degfed oedd yn gwahardd hyd yn nod gwraidd drygioni yn y galon, a'r cynhyrfiadau cyntaf o hono, a phob anfoddlonrwydd, cenfigen, a serchiadau anghymmedrol at ein cymmydog neu unrhyw beth sydd yn eiddo iddo. Gellir ystyried y gorchymynion hyn mewn goleuni triphlyg: (1.) Megys deddfau anian; yn mha olygiad, y maent yn gofyn ufudd-dod perffaith, dan boen cospedigaeth anfeidrol, ond nid ydynt yn rhwymo un gwobrwy o fywyd tragywyddol wrth y cadwad perffaith o honynt. (2.) Megys wedi eu ffurfio yn gyfammod gweithredoedd, yn mha ystyriaeth gelwid hwy *deddf gweithredoedd*, ac y maent yn gofyn ufudd-dod perffaith dan boen marwolaeth tymhorol, ysbrydol, a thragywyddol, ac yn rhwymo gwynfyd tragywyddol wrth y cyflawniad perffaith o honynt, yr hyn, yn ein cyflwr syrthiedig, y mae yn analluadwy i neb o ddynolryw ei wneuthur, Rhuf. x. 5. Gal. iii. 10, 12, 21. Y mae pawb, wrth naturiaeth, dan, ac yn chwennych bod dan y gyfraith hon, ac y maent o'i gweithredoedd hi; o herwydd eu bod, gan eu hanwybodaeth a'u balchder, yn dychymmygu y gallant ei chyflawni, o leiaf, i raddau da; a chan gashau yr Arglwydd Iesu Grist a'i gyflawnder, a holl drefn yr iachawdwriaeth drwyddo, o'u calon, y maent yn glynu wrthi, ac yn dysgwyl am gyrhaedd dedwyddwch trwy ei gweithredoedd hi, Rhuf. ix. 31—33. Rhuf. x. 3. (3.) Megys cyfreithiau Crist, neu reolau dyledswydd yn llaw Iesu Grist fel Cyfryngwr; yn yr ystyr hwn, y maent yn gofyn ufudd-dod perffaith yn y radd uwchaf; ond yn caniattau derbyniad pa ufudd-dod bynag a wneir mewn ffydd; ac nid ydynt yn meddu un cadarnhad o ddigofaint dwyfol, neu wobrwy caethwasaidd; ond yn unig o geryddon tadol am bechod a gwobrwyon graslawn am ddyledswydd; ac yn y cyflwr nefol, ni feddant gadarnhad yn y byd, ac nid oes neb ond ffyddloniaid dan y gyfraith yn y dull hwn, Mat. v. 48. a xi. 30. I Cor. ix. 21. Pa un ai bod y geiriau dwyfol, a gyhoeddwyd oddi ar fynydd Sinai, yn

gosod y cyfammod gras, neu y cyfammod gweithredoedd allan, neu gyfammod cenedlaethol rhwng Duw ac Israel, sydd wedi bod yn achos o ddadl gref. I ni, ymddengys yr holl ddadl yn hawdd i'w thorri. Pan yr ystyriwn y deg gorchymyn megys yn arweinedig i mewn gyda y fath daranau a mellt dychrynllyd, ac megys yn ganlynedig â melldith i'r troseddwr, ymddangosant yn eglur fel adgyhoeddiad o'r cyfammod gweithredoedd, i'r dyben o ddychrynu yr Hebreaid i ffoi oddi wrtho at Iesu y gwaredwr, Exod. xix. a xx. a Deut. xxvii. [a] Pan y golygwn y deg gorchymyn megys yn sylfaenedig ar y rhagymadrodd, ac wedi eu gosod yn nghadw yn yr arch, ac yn ganlynedig gan yr aberthau a defodau ereill wedi eu hystyried yn eu harwyddocâd efengylaidd, ymddengys fod cyhoeddiad o'r cyfammod gras, ac o'r gyfraith, fel rheol bywyd, yn fynwesedig ynddynt. Pan yr ystyriwn y cyfreithiau hyn megys yn ofynol i'w cadw, mewn trefn i ddiogelu mynediad dedwydd i mewn i wlad Canaan, a chyfaneddiad heddychlon ynddi, yr ydym yn eu cymmeryd hwy yn gyfiawn i fynu megys sylwedd cyfammod cenedlaethol rhwng Duw ac Israel.

Y gyfraith seremoniol oedd yn pennodi ac yn trefnu swydd a gwaith yr *Offeiriaid*, y *Lefiaid*, y *Nethiniaid*, y *Nazareaid, a'r Enwaediad*, y *Gwyliau*, yr *Offrymau*, y *Babell*, y *Deml a'i dodrefn, addunedau, puredigaethau, &c.* Gyda golwg ar ddyfal gadwad o honi, yr oedd y gyfraith hon yn iau drom, ac yn ganol-fur; ond gyda golwg ar arwyddocâd ei defodau, yr oedd yn efengyl aneglur, Gal. v. 1. Eph. ii. 14. Col. ii. 17. Y gyfraith farnedigol oedd yn trefnu gorchwylion eu breninoedd, eu barnwyr, eu meusydd, eu priodasau, eu cospedigaethau, &c. Ymddengys fod rhai cyfreithiau perthynol i brynwyr, llofruddion, godinebwyr, dinasoedd noddfa, drwg-weithredwyr crogedig, dyeithriaid, &c. mewn rhan yn seremoniol, ac mewn rhan yn farnedigol. Cymmerid gofal mawr i gadw gwybodaeth am y gyfraith ddwyfol i fynu. Heblaw llechau y deg gorchymyn, y rhai oeddynt yn nghadw yn yr arch, yr oedd adysgrif o lyfrau Moses wedi ei gosod i fynu yn rhywle wrth ystlys yr arch. Dywed yr Iuddewon fod gan bob llwyth adysgrif o honi. Oddi wrth hon, cymmerid adysgrifau ereill. Yr oedd pob brenin yn rhwym i adysgrifenu un iddo ei hun. Yr oedd yr holl gyfraith i gael ei darllain drosodd yn gyhoeddus ar wyl y pebyll, yn mlwyddyn y rhyddhâd, heblaw ei darlleniad ar yr achlysuron cyhoeddus ereill. Ië, gofynid ganddynt i'w lysgrifenu ar eu calonou, a'i dysgu yn ddiwyd i'w plant, Deut. xvii. a xxxi. 19. a vi. a x. Hyd heddyw, y mae gan yr Iuddewon y parch mwyaf i'w cyfraith, gan ddarllain, yn yr hen ddull, rhyw gymmaint o honi bob Sabbath, yn eu synagogau. Y mae y llyfr o honi a arferir yn gyhoeddus, wedi ei ysgrifenu gyda y manylrwydd mwyaf, ac yn cael ei gadw yn ofalus rhag pob peth a dueddai i'w halogi ef. Gwel *Traddodiad*. Gyda chroesgni a rhodres mawr oblegyd ei ddysgeidiaeth yn hanesion yr hen oesoedd, cynnyga *Spenser* brofi nad yw y rhan fwyaf o'r cyfreithiau seremoniol Iuddewig, yn ddim amgen nag efelychiad o arferion yr Aipht; a rhai yn hollol wrthwyneb i ereill, o'r ffieidd-dra a arferid yno, er gwneuthur hwnw yn adgas ganddynt. Fod rhai o'r defodau wedi eu bwriadu i wneuthur arferion gwael y Cenedloedd amgylchynol yn ffiaidd gan yr Hebreaid, nid ydym yn ammau; ond i Dduw ffurfio defodau ei addoliad yn ol eiddo eiluniaddolwyr, ni feiddiwn dybied. Yr oedd ei ddoethineb anfeidrol ei hun, ac anian y pethau a arddangosid trwyddynt, yn brawf-reol o iawn drefn, llawer mwy gweddus i fawredd y Nef. Yr oedd amryw o'r defodau Aiphtaidd yn wahanol i awn etto oddi wrth y rhai Iuddewig; ac mewn perthynas i gyffelybrwydd rhai, y mae yn rhesymol i dybied, i'r Aiphtiaid, yn amser Joseph, Solomon, Hezeciah, neu wedi hyny, eu benthycio oddi wrth yr Hebreaid.

Tybia rhai mai wrth *gyfreithiau, rheolau*, neu *orchymynion* yn llyfrau Moses, y meddylir y gyfraith *foesol*; wrth *ddeddfau*, yr un *seremoniol*; ac wrth *farnedigaethau*, mai y cyfreithiau *barnedigol* a arwyddocceir; ond ni ddeil y sylw hwn bob amser. Dilys yw mai wrth gyfraith,

gorchymyn, rheol, deddf, a barnedigaeth, arferedig yn yr ystyr hwn y meddylir yn fynych yr un peth. Dichon fod yr enw *cyfraith*, neu *orchymyn*, yn dynodi peth fel ewyllys uwchafiad; *deddf* a'i harddengys fel wedi ei hordeinio a'i sefydlu gan awdurdod goruchel; *barnedigaeth* a'i harddengys fel yn llawn doethineb, ac fel y prawf-reol wrth ba un y barna Duw dynion. Y manau hyny o'r ysgrythyr ag sydd yn gofyn unrhyw gynneddf dda ynom, neu weithred dda i'w chyflawni gennym, ydynt y gyfraith mewn ystyr gaeth, Ioan i. 17. Y deg gorchymyn a elwir y *gyfraith*, neu y *gorchymyn*: fe, weithiau gelwir y chwe diweddaf felly, Iago ii. 11. Dad. xxii. 14. Rhuf. ii. 25. a vii. 7, 8, a xiii. 8. Y mae y gorchymyn am garu y naill y llall, yn *hen*, am ei fod yn gynnwysedig yn y gyfraith foesol er y greadigaeth; ac etto y mae yn *newydd*, o herwydd iddo gael ei osod o'r newydd gan ein Hiachawdwr, ei egluro yn ei fywyd ef, a'i gadarnhau gan gymmeliad newydd ei gariad pan yn marw, Ioan ii. 7, 8, a xiii. 14. Y mae holl ffurf y cyfammod rhwng Duw a'r Hebreaid, a'r defodau o addoliad a berthynent iddo, yn cael eu galw *cyfraith*, neu *ddeddf yr ordinhadau*, a *gorchymyn cnawdol*; o herwydd, trwy awdurdod Duw, fod cymmaint o ddefodau, yn enwedig yn perthyn i aberthau, golchiadau cnawdol, &c. yn ofynedig yuddynt, Eph. ii. 15. Gelwir pum llyfr Moses yn *gyfraith*, am eu bod yn llawn o ofynion a gwaharddiadau Duw, Mal. iv. 4. Mat. v. 17; ac o herwydd yr un rheswm y mae yr Hen Destament yn cael ei alw yn *gyfraith*, Ioan x. 34, a xv. 35. 1 Cor. iv. 21. Y mae holl air Duw yn cael ei alw yn *gyfraith*, deddfau, &c. am mai efe yw unig reol ein ffydd a'n hymarweddiad, Salm i. 2, a xix. 7, 8. Gelwir athrawiaethau yr efengyl yn *gyfraith*, a *deddf ffydd*; y maent yn addysgu ac yn hyfforddi dynion; a phan y credir hwynt trwy ffydd, y maent yn annog yn nerthol i ufudd-dod sanctaidd, Esa. ii. 3, a xlii. 4. Rhuf. iii. 27; ac y maent yn *berffaith gyfraith rhyddid*, yn cyhoeddi rhyddhâd a phrynedigaeth perffaith i ni trwy waed mab Duw, ac yn cynhyrfu i ufudd-dod caredig a rhydd iddo ef; neu gellir cymmeryd y *berffaith gyfraith rhyddid* hon, am y gyfraith megys yn rheo yn llaw Crist, yr hon sydd yn hyfryd gan y saint, Iago i. 25. a ii. 12. Dichon fod y *gyfraith* weithiau yn dynodi dyfal gadwad dynion o orchymynion Duw, am fod hyny yn cyfatteb i'r gyfraith a osodir yn yr ysgrythyr, neu a agreffir ar y galon, Rhuf. iii. 21. Gal. iii. 11. Phil. iii. 11. *Gorchymynion dynion* oeddynt draddodiadau yr henuriaid Iuddewig, Mat. xv. 3. Y *gorchymynion*, trwy rodio yn ewyllysgar ar ol pa rai y dinystriodd yr Iuddewon eu hunain, *a'r deddfau nid oeddynt dda* a roddwyd iddynt, oeddynt gyfreithiau eilunaddolgar Jeroboam, Omri, ac Ahab, yn gofyn iddynt addoli yllo aur, Baal, &c. Hos. v. 11. Ezec. xx. 25. Mic. vi. 16.

Y mae gorchymynion a gair Duw yn *gyfraith i fywyd*, ac yn *ddeddfau y bywyd*. Trwy gredu y rhai hyn ac ufuddhau iddynt, yr ydym yn derbyn neu yn meddiannu bywyd tymhorol ac ysbrydol, ac yn cael ein parottoi i fywyd tragywyddol, Rhuf. vii. 10. Ezec. xxxiii. 15. Y mae un yn *ddiddeddf*, pan na bydd dan y ddeddf seremoniol, neu heb fod yn rhwymedig gan y gyfraith, 1 Cor. ix. 21, neu pan y bydd heb wybodaeth o honi, ac yn amddifad o brofiad o'i nerth argyhoeddiadol ar ei gydwybod. Trwy ei grym argyhoeddiadol ar gydwybodau dynion, gwneir iddynt roddi pob disgwyliad am fywyd trwy eu gweithredoedd eu hunain i fynu, a ffoi at Iesu a'i gyfammod newydd am ymwared, Gal. ii. 19. Rhuf. vii. 9. Y *gyfraith yw grym pechod*; y mae y gyfraith megys cyfammod, yn achlysurol yn cyffroi llygredd natur dynion, o herwydd eu bod yn tramgwyddo wrth fanylrwydd ei rheolau, ac anian arswydus ei meliddith; ac y mae y felldith yn eu rhwymo hwy i orwedd dan arglwyddiaeth pechod, fel prif gangben o'u cospedigaeth, 1 Cor. xv. 56. Rhuf. vi. 14. Y mae y *ddeddf* fel cyfammod yn *peri digofaint*; y mae yn ein condemnio i ddigofaint. tragywyddol Duw, ac yn achlysurol yn cynhyrfu ein calon lygredig i ymgynddeiriogi yn ei erbyn fwyfwy, Rhuf. iv. 15. Y mae y ddeddf hon *yn arglwyddiaethu ar ddyn tra*

fyddo hi neu efe byw. Tra y bydd-wn mewn cyssylltiad â hi, ac heb ymbriodi â Christ fel diwedd y ddeddf er cyfiawnder, hi a fydd yn gofyn ufudd-dod perffaith yn barhaus, dan boen digofaint tragywyddol, a bodd-had cyfiawn am y troseddau a weith-redasom eisoes, ac yn cadw awdur-dod cyfiawn i'n melldithio a'n con-demnio i gospedigaethau tragywydd-ol, am y bai lleiaf, Rhuf. vii. 2. Y mae *un wedi marw i'r ddeddf*, ac *wedi ei brynu oddi tani*, trwy gorph neu gyfryngdod Crist, pan, trwy gymmwysiad o gyfiawnder cyf-raith-gyflawnol a mawrhaol yr Iesu at ei berson a'i gydwybod, y mae yn cael ei uno âg ef, ei gyfiawnhau, a'i sefydlu yn anfethedig mewn cyflwr o gyfammod newydd, Rhuf. vii. 4, a vi. 14. Gal. iv. 4, 5. *Nid i'r cyfiawn y rhoddwyd y gyfraith;* ni wnaed hi iddo ef megys cyfammod gweithredoedd, i'w ddychrynu, i'w felldithio, a'i euog-farnu ef; ond *da yw y gyfraith, os arfer dyn hi yn gyfreithlon;* os defnyddia efe hi fel cyfammod i'w yrru at Iesu Grist; a'i defnyddio megys rheol, i'w gyn-hyrfu a'i gyfarwyddo pa foddi rodio yn Nghrist, 1 Tim. i. 8, 9. *Daeth y ddeddf i mewn*, fel yr amlhai y camwedd; parodd cyhoeddiad y ddeddf foesol a seremoniol, oddi ar Sinai, gynnyddiad pechod a thuedd-odd yn gadarn i'w ddwyn i'r amlwg, Rhuf. v. 20. *O blegid troseddau y rhoddwyd hi yn ychwaneg*, hyny yw, i'r dyben i'w hattal a'u dwyn i'w i'r amlwg; ond nis gallai wneu-thur unrhyw gyfnewidiad ar addew-dion rhad gras, o herwydd eu bod hwy wedi ei sefydlu ar gyfiawnder cyfraith-fawrhaol ein Prynwr, Gal. ii. 17—19. Y mae y *gyfraith yn athraw i'n dwyn* at Grist; yr oedd y gyfraith seremoniol yn ei nodi ef allan, ac yn arwain atto, fel diwedd a gwrthgysgod ei holl ddefodau; y mae y gyfraith fel cyfammod wedi ei gymmwyso gan yr Ysbryd Glân, yn ein cynhyrfu i ffoi at Iesu, er caffael nddo ef y cyfiawnder hwnw y mae ni yn ei ofyn, a diange rhag y digof-aint hwnw y mae hi yn ei gyhoeddi, Gal. iv. 24. Y mae Duw yn *dodi ei cyfraith yn meddyliau dynion* ac yn eu hysgrifenu yn eu calonau hwynt, pan, trwy gymwysiad nerthol o'i air, y bydd yn eu sancteiddio hwy eu hunain, ac yn eu gwneuthur yn addfurfiol â'i gyfraith megys rheol, Heb. viii. 10. a x. 16. *Y mae deddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu yn rhyddhau oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth.* Y mae y cyfammod gras, neu yr efengyl, wedi ei chymmwyso yn nerthol gan Ysbryd bywhaol Crist, yn ein rhydd-hau oddi wrth y cyfammod torredig o weithredoedd, yr hwn yw grym, cynhyrfydd, ac amlygwr pechod, ac sy'n condemnio i farwolaeth: y mae nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân megys ynom, ac yn ein huno â Iesu Grist, yn ein rhyddhau oddi wrth lygredigaeth ein hanian, yr hwn yw pechod, ac sy'n cynhyrfu i weithred-oedd pechadurus, ac yn ein gwneu-thur yn agored i farwolaeth, ysbryd-ol, tymhorol, a thragywyddol, Rhuf. viii. 2. Yr egwyddor o ras yn y saint, a elwir *deddf eu meddwl*; trwy gael ei hannog gan olygiadau ar Ddaw yn Nghrist, y mae yn teyrn-asu, ac yn dwyn yr enaid i lawn fwriad o ufudd-dod. Y mae yr eg-wyddor o lygredigaeth mewn dynion yn cael ei galw *deddf pechod*, am ei bod yn hollol bechadurus, ac yn ar-wain i feddyliau, geiriau, a gweith-redoedd pechadurus; ac y mae yn cael ei galw yn *ddeddf yn yr aelod-au*, am ei bod, er cael o honi ei hym-lid oddi ar ei gorsedd yn y galon, yn parhau i nerthol gynhyrfu galluoedd yr enaid ac aelodau y corph i'r hyn sydd afiaa a drygionus, Rhuf vii. 23, 25. *Gorchymyn ar orchymyn, llin ar lin,* &c. a arwydda addysg-iadau yn cael eu cyfranu yn ddognau bychain, a'u hailadrodd yn fynych, megys i blant gweinion eu dealltwr-iaeth, Esa. xxviii. 10.

Sylwyd yn briodol gan y dysgedig *Forbes*, nad yw y gair Hebrëig a gyfieithir *Cyfraith*, a llefaru yn fanwl, yn trosglwyddo y meddwl o awdurdod yn peri neu yn gorchym-yn; ond ei fod wedi ei gymmeryd oddi wrth air yr hwn a arwydda *arddangos, cyfarwyddo, nodi allan y ffordd;* a bod yr holl *ddeddf-au, ordinhadau, gorchymynion*, a *gosodiadau*, yn dyfod bïith dra-phlith tan y gair a gyfieithwn ni *cyf-raith*. Pe cedwid y darluniad yma o'r gair hwn, pa un sydd mor bwysig er deall amryw ranau o'r ysgrythyr, yn fwy gofalus mewn golwg, achubai

hyny lawer o ddyryswch a chamddeall. Sylwad cyffredinol arall yn haeddiannol o ystyriaeth yw, nad ydym wrth *gyfraith Moses*, neu *y gyfraith*, i ddeall *ordinhadau gorchymynol y gyfraith* yn unig, megys cyfraith y gwahanglwyfus, &c.: ond, tan y *gyfraith a'r prophwydi*, y cynnwysir holl ysgrythyrau yr Hen Destament; gwel Ioan xii. 34, a x. 34. 1 Cor. xix. 21. Felly yr ydym yn darllain am ddai neu sylwi ar seremoniau y gyfraith, ond befyd yr oedd bendith yn gyssylltiedig â "myfyrio ar gyfraith Duw ddydd a nos." Pe na byddai y gyfraith ond gorchymynion yn unig, megys na ladratta, na ladd, neu na odineba, ufudd-dod iddynt hwy a ragflaenai yr argyhoeddiadau cydwybod hyny y rhai a darddant oddi wrth dorri y gyfraith; ond nid yw yn hawdd deall pa fodd y gallai y gyfraith honno droi allan yn ffynnonell o *hyfrydwch*, Salm i. 2, 3; *yn well nag aur neu arian*, Salm cxix. 72; neu *roddi mwy o ddeall na phawb athrawon ereill*, Salm cxix. 99; eithr ymddengys mai y gwirioneedd yw, fod y *gyfraith*, yn ei bystyr mwyaf cyffredinol, yn cynnwys holl ddadguddiad yr Hen Destament, yr hwn, yn gydunol â darluniad yr enwog *Forbes*, oedd yn *cyfarwyddo* neu yn *cyfeirio* at Grist, DIWEDD y ddeddf, er cyfiawnder i bob un sydd yn credu; ac, mewn golygiad mwy cyfyng, a gynnwysai yn benaf ddeddf y gorchymynion mewn ordinhadau, yr hon a roddwyd gan Moses, ac o ba un y grâs a'r gwirioneddau ddaethant trwy Iesu Grist.

Gofyniad pwysig iawn a gynnygwyd gan yr apostol Paul, Beth gan hyny yw y ddeddf? ac y mae ei ysgrifeniadau ei hun yn ein cynnysgaethu âg atteb priodol, sef mai peth ydyw *ag a ychwanegwyd at yr addewid*, nid i'w gwrthladd hi, ond i'w gwasanaethu, nid i'w gwrthwynebu hi, ond i'w sefydlu. Pan roddodd Duw y fendith yn nghadw yn nheulu Abraham, efe a gyfranodd i'r teulu hwnw amrywiol ragorfreintiau hyd oni ddelai amser yr addewid yn agos, megys y mabwysiad, y gogoniant, rhoddiad y ddeddf, y cyfammodau, a'r addewid; fel na ddadguddiodd efe ei hun yn y fath fodd i un genedl tan y nef, yn benaf trwy ymddiried iddynt oraclau Duw, neu fel y cyfenwir hwynt, athrawiaeth ei air sanctaidd. Yn awr, yr oraclau hyn a ymddiriedwyd i Moses; canys dywed Stephan i ni, "Efe a dderbyniodd *ymadroddion bywiol* i'w rhoddi i ni gan yr angel yn mynydd Sinai," Act. vii. 38; a phan yr ymofynwn pa beth oedd yr ymadroddion bywiol hyn, ni a gawn nad oeddynt ddim amgen na'r ordinhadau, y deddfau, a'r barnedigaethau hyn, y rhai a elwir yn *wahanredol* yn yr ysgrythyr, *Cyfraith Moses*. Y mae llawer iawn o ymresymiad anysgrythyrol wedi cael ei arwain i mewn gan amryw ysgrifenwyr trwy anystyriaeth o'r pwngc hwn; a dodi *cyfraith Moses* yn wrthwyneb i *efengyl grâs Duw*, sydd wedi bod yn orchwyl llafurus llawer o esbonwyr a gyfrifid yn uniawn-gred. "Yn awr, nyni a wyddom mai da yw y gyfraith, os arfer dyn hi yn *gyfreithlon*;" eithr nid ymddengys ei fod yn arferiad cyfreithlon o honi, i ddywedyd mai cyfammod gweithredoedd oedd cyfraith Moses, neu i'r gyfraith yr hon a fwriadwyd i fod yn fendith, gael ei gwneuthur yn farwolaeth. Diffyg sylwi ar y *gyfraith*, am yr hon y mae yr ysgrythyrau yn lleferu, sydd wedi achlysuro llawer o ddyryswch.

Nis gallwn gael darluniad byrach, eglurach, ac amlycach o gyfraith Moses, nag yn Heb. x. 1. *Y gyfraith oedd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod*; yma yr ydym yn cael yr holl ysgrythyr yn unsain a'r pwngc. Fel bendith a rhagorfraint werthfawr, cyfranodd Duw i'w eglwys a'i bobl hoff, meibion Jacob, gyfraith, yn arddangos cysgod daionus bethau i ddyfod. Efe a ymgyfammododd âg Abraham, gan ddywedyd, "I ti ac i'th hâd y rhoddai y wlad hon, *a gosododd yr unrhyw yn ddeddf i Jacob*," &c. Salm cv. 10. I'r dyben o gadarnhau yr hyn a addawsai, efe a dynodd ddarluniaeth (os gellir arfer y fath ymadrodd ar y pwngc hwn) o randir etifeddiaeth Jacob, trwy osod ger ei fron wlad Canaan, a'r gyfraith gyssylltiedig â meddiant o'r wlad honno, i'r dyben o addysgu ac hyfforddi teulu Abraham yn llwybrau yr Arglwydd. Ni fedd cysgod ddim gwirionedd, nid oes un rhan o sylwedd y corph

a'i pair ef ynddo; etto y mae yn arddangos y corph hwnw yn gywir, felly yn gymmwys y mae y gyfraith. Y cyssylltiad rhwng y gyfraith a roddwyd gan Moses, a'r grâs a'r gwirionedd a ddaethant trwy Iesu Grist, sydd yn gywir yn yr un dull. Cyfraith Moses a ddangosai i'r addolwyr euog pa fodd y dylifai *grâs* i iddyn truenus; ond nid oedd y gyfraith ei hun yn un math o wely yn 'r hwn y gallai y grâs yma ddyfrio. Moses a ddaliodd i fynu ddrych neu wydryn i Israel, yn cynnrychioli ac yn arddangos person gogoneddus a gwaith gorphenedig Iesu Grist; yn awr, er na ddichon i un cysgod ymddangos mewn gwydryn, ond lle y mydd corph, etto nid oes i'r corph anrhyw ymddibyniaeth ar y cysgod. Gellir dywedyd nad yw y *deg gair*, neu ysgrifenwyd ac a gerfiwyd ar gerrig, yn unrhyw gysgod o râs ein Harglwydd Iesu Grist; ond nid yw y *deg gair* hyn yn cael eu galw mewn un lle yn *gyfraith Moses*. Ni feddai Moses y gofal lleiaf yn nghylch gweiniyddiad y gyfraith honno; o blegid y geiriau hyn a barasant hyd yn nod i Moses ofni â chrynu yn ddirfawr. *Y geiriau hyn a lefarodd yr Arglwydd wrth eich holl gynnulleidfa yn y mynydd, o ganol tân, y cwmmwl, a'r tywyllwch, llais uchel,* AC NI CHWANEGODD DIM; *ond ysgrifenodd hwynt ar dwy lech o gerrig*, &c. Deut. v. 22. Y geiriau hyn, er eu bod y sylaen ar ba un y saif yr hen gyfamod, nid ydynt mewn modd yn y byd yn perthyn yn neilldnol i'r gyfraith honno. Canys argraphwyd hwy ar gydwybod dyn ar y cyntaf. Ac y maent yn aros hyd heddyw *mewn* dyn, yn RHEOL DRAGYWYDDOL YFIAWNDER; ac, am hyny, pan yddangosodd Iesu Grist fel cyfrwydd a mawrhawr y gyfraith, a dan yr oedd cyfraith Moses ar ddiddiannu, efe a esyd i lawr y deg gair yn yn eu helaethrwydd mwyaf, fel ail cymundeb rhwng dyn a'i Wneuthurwr. Pan gyhoeddwyd y deg gair hyn fel cyfraith danllyd oddi ar fynydd Sinai, yr effaith cyntaf o honynt oedd dysgu i Israel yr angenrheidrwydd am Gyfryngwr. "*Os gwn* a ychwanegwn giywed llais yr Arglwydd ein Duw mwyach, marw wnawn; nesa di, a chlyw yr hyn oll a ddywed yr Arglwydd ein Duw, a llefara *di* wrthym ni," &c. Deut. v. 25, 27. Ac, yn ganlynol, yr hen gyfammod a gadarnhawyd yn nwylaw y cyfryngwr; pa un, er nad oedd ond adyn tlawd ac euog ei hun, a gynnaliwyd gan Dduw i neshau i'r tywyllwch dudew, ac i dderbyn y deddfau a'r barnedigaethau i Israel. Yn ganlynol, yr ydym yn cael Moses yn ffyddlawn yn ei swydd, trwy draddodi yr hyn a dderbyniasai gan yr angel Jehofa yn y mynydd. Efe a roddai bob amser ei awdurdod tros yr hyn a lefarai, *Fel hyn y dywed yr Arglwydd;* ond galwyd y gyfraith hon yn ddigon priodol yn *gyfraith Moses*, o herwydd i'r eglwys yn yr anicIwch ei derbyn trwy ei weinidogaeth ef.

Pa fwyaf manwl y chwiliwn y gyfraith hon, mwyaf i gyd y cawn ein cymmell i roddi ein cymmeradwyaeth i ddarlun Paul o honi, fel *cysgod daionus bethau*. Yr ordinhad flaenorol yn y *gyfraith* honno oedd ABERTH; ac yn y peth hwn, megys mewn llawer ereill, nid oedd *cyfraith Moses* yn unig ond rheoliddio, yn gydunol â gwasanaeth y cyssegr bydol, yr hyn a orchymynwyd, ac oedd hefyd mewn arferiad yn mhlith saint yr Hen Destament o flaen y gyfraith. Ac y mae hyn yn ein cynnysgaethu â phrawf ychwanegol mai nid *cyfammod o weithredoedd* oedd cyfraith Moses; o herwydd os aberth oedd ei phrif ordinhad, yna yn sicr nid yw mwyach o weithredoedd; pe amgen nid yw grâs mwyach yn râs; ac ordinhad yr hon a brofai yn *efengyl* yn nyddiau Abel, nis gallasai byth weithredu digofaint yn nyddiau Moses. Gan y rhagorai ar ein terfynau i olrhain holl amrywiol ordinhadau y gyfraith, i'r dyben o nodi allan yn mha olygiadau yr oeddynt yn *gysgod* o'r efengyl, ni wnawn ond sylwi yn gyffredinol ar yr aberthau *yn unig* yn y golygiad hwnw. Addawsai Duw drugaredd a maddeuant i euog ddyn, trwy ddyoddefiadau a marwolaeth Hâd y wraig; yr hwn oedd i gael ysigo ei sawdl o blegid ein pechodau ni, ac i gyfodi drachefn y trydydd dydd er ein cyfiawnhad. Er cadw coffadwriaeth o'r dygwyddiad mawr hwn, sefydlwyd yr ordinhad o aberthu; a'r amrywiaeth mawr o'r ab-

erthau hyn a arweiniwyd i mewn i gyfraith Moses, fel *cysgodau* o olud anchwiliadwy Crist, a gwerth rhyfeddol y gwaed hwnw a dywelltid wedi hyny ar y groes er maddeuant pechodau. Yr oedd yn beth cyffredin mewn pob math o aberthau, fod gwaed *(einioes)* yr anifel yn cael ei dywallt; a'r holl gorph, neu ryw ran o hono, yn gyffredinol yr hyn a fyddai fwyaf ennynadwy, sef y gwêr a'r perfedd, a losgid â thân ar yr allor. Y gwaed hwn, gorchymynir yn ofalus ac yn foreu iawn i ymattal oddi wrtho, dywedir mai einioes yr anifel ydyw; y mae yn cael ei ddarlunio fel peth a *haloga* hyd yn nod trwy eu cyffyrddiad âg ef; ac etto gosodir ef ger ein bronau fel y *purwr* mawr; trwyddo ef y cyssegrid, y glanheid, ac y sancteiddid yr allor, yr arch, y sanctaidd sancteiddiolaf, y babell, a'r offeiriaid. Corph yr offrwm oedd yn cael ei ysu gan dân oddi ar yr allor, yr hwn a escynai tua'r nefoedd; ac yndde dywedir i Dduw arogli arogl esmwyth; felly ystyr llythyrenol y gair a gyfleithir *poeth-offrwm*, yw *escyniad*. Ni byddai ond treulio geiriau yn ofer i gymharu y *cysgod* hwn â'r *corph;* y sawl a ewyllysiant weled y pwngc yn cael ei drin yn helaeth, a gant esboniaid rhyfeddol arno yn y llythyr at yr Hebreaid trwyddo oll. Yn yr aberth, yr hwn oedd i gael ei adgyflawni beunydd fel y weithred fwyaf pwysig o grefydd, yr oedd dyn yn derbyn yr ad-gofiadwriaeth gryfaf o'i *euogrwydd*,—o'r *bywyd* hwnw yn lle pa un yr oedd einioes yr aberth yn cael ei chymmeryd,—o'r *tân digofaint* dwyfol hwnw pa un a fuasai yn sicr o'i ddifa ef, pe na chyfryngasai yr hyn a gynnrychiolid trwy y poeth-offrwm; ac o ragoroldeb yr *aberth* a gysgodid, trwy offrymiad pa un yr oedd y Duwdod yn cael ei gymmodi. Ac o blegid hyny yr oedd fod, heblaw yr aberthau dyddiol, misol, a blyneddol gosodedig yn nghyfraith Moses, gorchymyn yn cael ei roddi, pa bryd bynag y byddai pechadur enog mewn angen am lanhad, y gellid gwneud iawn fel hyn yn gysgodol am ei bechod. Heblaw yr *offrwm*, matter pwysig arall, mewn perthynas i ba un y cyfarwyddai y gyfraith, oedd yr *offeiriad* yr hwn a bennodid i ddynesu at yr allor. Pa ham yr oedd *cyfraith* Moses mor fanwl yn darlunio dull ei gyssegriad, ei wisgoedd, a'i swydd? er cysgodi swydd fawr Iesu, Mab Duw, yr hwn a gyssegrwyd i fod yn offeiriad yn dragywydd.

Ni ddichon dim fod yn fwy afresymol na thybied fod Aaron yn *sanct-eiddrwydd i'r Jehofah;* ei fod ef yn lân a dieuog; fod ganddo ef *oleuni* a *pherffeithrwydd* ynddo; fod anwiredd y cyssegr yn faich ag yr oedd efe yn gymmwys i'w ddwyn: o ganlyniad nid oes dim yn fwy eglur na bod Aaron a'i offeiriadaeth, yn yr holl olygiadau hyn yn nghyd â llawer ereill, yn ddim amgen na *chysgodau* o ddaionus bethau i ddyfod. Etto nid *cysgodau* yn unig oeddynt y *cyfreithiau* hyny, y rhai a berthynent i'w haddoliad hwynt; a thueddai i roddi pwys dirfawr a arwydoccâd i gyfraith Moses, pe byddai y meddwl yn cael llai o'i ddyrysu gan raniadau o'r gyfraith, y rhai nis awdurdodir yn yr ysgrythyr. O ba bwys i ni ydyw y cyfreithiau mewn perthynas i anifeiliaid glân ac aflan: halogiad gan gyrph meirw a phethau ereill; cymmysgu llin a gwlan yn eu gwisgoedd; aredig âg ych ac asyn, ac amryw ereill o'r un natur, os ydynt i gael eu hystyried yn unig fel rheolau gweddusrwydd a threfn, a dim ond hyny, nid ydynt ar y goreu ond matterion o *gywreinrwydd;* ond bydded i ni ystyried meddwl y gyfraith yn y cyfryw bynguau, ac yna cawn fod y pethau hyn oll wedi eu bysgrifenu er addysg i ni; a'u bod yn fuddiol i geryddu, i argyhoeddi, ac i hyfforddi mewn cyfiawnder. Er cynllun, dywedid fod cyffwrdd âg unrhyw aflendid neu frynti, celain farw o un math, clwyf neu ddyferlif gwr neu wraig, yn halogi, ac yn attal yr halogedig rhag ymddangos ger bron yr Arglwydd; a bod golchi a thaenellu â gwaed a dwfr yn ddigonol er puro oddi wrth yr aflendidau hyn, a chael derbyniad i wasanaeth Duw. Ni ddichon i un dyn yn ei synwyrau feddwl y gallai aflendid allanol neb, mewn ystyr llythyrenol, halogi y dyn yn ngolwg Duw: Na, medd Crist, yr hyn sydd yn dyfod o'i galon yw yr hyn a haloga mewn gwirionedd, llawer llai y dichon i ni dybied y gallai gwaed teirw a geifr lanhau oddi wrth unhryw halogiad

gwirioneddol; yn y naill a'r llall o'r golygiadau hyn, nid oeddynt hwy nd cysgodau daionus bethau i ddyod. O herwydd fod y pwngc hwn n fynych wedi cael ei arwain yn hy bell, a'i wneuthur yn *anysgrythrol*, y mae wedi myned yn arferad gan lawer i *ddiraddio* unrhyw eth cyffelyb i aralleg yn y dadgudd ad dwyfol; ond nid ydynt hwy yn yfeillion gwirioneddol i ddadgudd ad y rhai a ymddygant felly. Iê, allwn anturio haeru mai ein hanwyodaeth ein hunain sydd yn peri bod eddwl cyffelybiaethol amryw ranau 'r ysgrythyr yn ymddangos yn dyvyll i ni. "Na chau safn yr ych ydd yn dyrnu," 1 Cor, ix. 9, sydd rchymyn eglur iawn o ddynoliaeth; nd ychydig yw yr *esbonwyr* a duddant i wadu fod hyn yn *cysgodi* arpariaeth addas ar gyfer athrawon r eglwys. Pa beth oedd yr enraediad? *Cysgod* oedd, sef arwydd eu insel y cyflawnder y sydd trwy fydd.—Pa beth oedd y Pasc? *Cysod* o Grist ein Pasc ni wedi ei berthu trosom.—Pa beth oedd y abbath, y newydd loerau, a'r gwyluu? *Cysgodau* o'r orphwysfa ragywyddol a swpper neithior yr en. Iê, gellid dangos yn hawdd od y cyfreithiau y rhai a berthynent w llywodraethiad fel cenedl, yn *ysgodau* o lywodraeth a dysgybleth tŷ Duw. Er ein bod wedi mhelaethu yn ddigonol ar y pwngc wn, etto annichonodwy ydyw peidio rybwyll am anghyssondeb y deonglwyr hyny o'r ysgrythyr, y rhai, rth siarad am unrhyw ddefod neu rdinhad neilluol o eiddo y gyfraith, egys y pasc, a gamattânt ei natur ysgodol, a bod, trwyddi, yr efengyl n cael ei phregethu; etto, pan yn styried, mewn ffordd fwy cyffredol, yr hen gyfammod a chyfraith loses, ni phetrusant i'w galw yn yfraith yr hon a ddysgai i ddyn edych am ei bendithion trwy ei *weithedoedd a'i ufudd-dod* ei hun, ac elly yn wrthwyneb i'r efengyl, yr on sydd oll o *rad ras;* ac fel hyn mae pentwr o anghyssondeb ac afesymmoldeb wedi cael ei genedlu. el hyny mae, mewn perthynas i'r hen yfammod, ei fod yn dal i fynu wlad anaan, un nghyd â'i phethau da hi, el gwobrwy am ufudd-dod i lythren y gyfraith. Os felly, nid oedd yn un *cysgod* o'r Ganaan nefol.—Os felly, ni roddwyd bi trwy addewid i Abraham.—Os felly, pa beth a feddylia Moses, Josuah, a Samuel. "Nid am eich cyflawnder, nac am lendid eich dwylaw, y dygodd yr Arglwydd chwi i mewn i feddiannu y tir, ond o herwydd i'r Arglwydd garu eich tadau, a thyngu," &c. "Pobl wargaled ydych chwi;" îe, ail-adroddir yn fynych, iddynt gael eu didreftadu o herwydd ANGHREDINIAETH. Ond ni thalwyd mwy o sylw i lythyren y gyfraith erioed nag ar yr amser y cyhoeddodd ein Harglwydd ei wae uwch ben yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid rhagrithriol; Pa ham? A esgeulusasant hwy lythyren y gyfraith? Na wnaethent. "Yr ydych chwi yn glanhau y tu allan i'r ewppan," &c. "ond chwi a ddygasoch ymaith agoriad gwybodaeth,"—"gwirioneddol y gyfraith:" hwy a ddalient ar weithredoedd y gyfraith gan ei gwneuthur yn *ddeddf gweithredoedd* yn lle *deddf ffydd*. Cyhyd ag y parhasant hwy yn neddfau, barnedigaethau, ac ordinhadau y gyfraith, gan weled "pethau rhyfedd y gyfraith hôno," yn cyteirio at Iesu Grist a'i waith gorphenedig, hwy a fendithiwyd yn eu gweithred; ond pan, gyda sêl tros Dduw, eithr nid yn ol gwybodaeth, y ceisiasant hwy sefydlu eu cyflawnder eu hunain trwy eu hufudd-dod i'r gyfraith, gan golli golwg ar y dyben o honi, hwy a wnaethant eu hunain yn ddarostyngedig i'w melldith hi.

Yr apostolion a gawsant lawer o drafferth yn yr eglwysi cyntefig o herwydd cam-olygiadau ar y *gyfraith*. Yr athrawon luddewaidd a safent ar ufudd-dod i'r gyfraith, fel yn gyssylltiedig â chyflawnhad, gan eglur ddangos eu hanwybodaeth am y gyfraith fel *cysgod*. Yr oedd y gyfraith yn ddefnyddiol cyn amseroedd y diwygiad; ond, ymlynu wrth y gyfraith, wedi i'r hyn a rag-gysgodai y gyfraith ddyfod, oedd mynegu fod rhyw beth *sylweddol* yn y gyfraith honno, a'i bod yn fwy na chysgod. Gallasai fod yn ddefnyddiol er cadarnhau yr hyn a gynnygwyd yma, i gymmeryd peth sylw o amrywiol destunau y rhai a gawsant eu dwyn yn mlaen er cynnaliaeth y golygiad gwrthwynebol o'r pwngc hwn; ond hyn a arweiniai i ehang-

ach maes nag a ganiattâ ein terfynau presennol. Tan y gair *Moses*, cyferfydd y darllenydd â rhai cynnygiadau pellach i egluro y pwngc hwn.

CYFREITHLAWN; cydunol â'r gyfraith. *Y mae pob peth yn gyfreithlawn, ond nid yw pob peth yn lleshau:* y mae yn gyfreithlawn, a'i ystyried yn syml, i fwytta un math o ymborth; ond gall hyny fod yn y fath amgylchiad ag na bydd adeiladaeth ereill yn cael ei ddwyn yn mlaen trwyddo, 1 Cor. vi. 12. Yn ei lewyg, clywodd Paul bethau nad oeddynt *gyfreithlawn i'w hadrodd;* mor ddirgeledig a mawrwych fel nad oedd yn addas i'w mynegu i ddynion yn eu cyflwr corphorol, am nas gallent dderbyn lleshad trwyddynt, 2 Cor. xii. 4.

CYFREITHIWR; un a eglurai y gyfraith luddewig. Y cyfreithwyr oeddynt yn gyffredin yn elynion i'n Hiachawdwr, yn nyddiau ei gnawd, a wrthodasant gyngor Duw yn eu herbyn eu hunain, ac a enogfarnwyd ganddo am rwymo beichiau trymach ar ysgwyddau ereill nag a ewyllysient hwy eu hunain ddwyn, Mat. xxii. 35. Luc vii. 30, a xi. 45—52. Tit. iii. 13.

CYFRANOGI; derbyn dogn neu ran; neu bod â chymdeithas mewn unrhyw beth. *Cyfranogi* o Grist, yw cael rhan o'r bendithion a ddyfinant i enog ddyn trwyddo ef, Heb. iii. 14, a vi. 4. Daeth y Cenedlodd yn *gyd-gyfranogion* â'r Iuddewon o efengyl Crist, Eph. iii. 6; y mae holl bobl Crist yn *gyfranogion* o'r un gobaith, 1 Tim. vi. 2; o'r un dyoddefiadau, 1 Petr iv. 13. 2 Cor. i. 7. 2 Tim i. 8; ac o etifeddiaeth y saint yn y goleuni, Col. i. 12. Trwy obaith yr efengyl, yr ydym yn *cyfranogi* o'r dduwiol anian, 2 Petr i. 4. Y mae *cyfranogi* o bechodau rhai ereill yn waharddedig, Salm l. 18. 1 Tim. v. 22. Eph. v. 11. Dad. xviii. 4. Y mae cymdeithas y frawdoliaeth Gristionogol yn swpper yr Arglwydd, yn cael ei galw yn *gyfranogi* o'r un bara, o'r un phiol, ac o fwrdd yr Arglwydd, 1 Cor. x. 17, 18.

CYMMAL, *(mal,* gogwyddiad allan) cyssylltiad aelodau yn nghyrph creaduriaid, Job xxxi. 22. Wrth *gymmalau a mêr,* yn Heb. iv. 12, y meddylir yr amcanion cadarnaf, y dychymygion a'r tueddiadau dirgelaf yn nghalon dyn; y rhai y mae gair Duw, yn ei awdurdod miniog, argyhoeddiadol, yn cyrhaedd drwodd attynt, yn eu dadguddio, ac yn eu barnu. "*Cymmal* cynhaiaeth." Y mae yr eglwys yn cael ei chyffelybu i'r corph naturiol; Crist yw y pen, a'r credinwyr gwirioneddol ynddo ydynt yr aelodau. Fel yn y corph naturiol, y mae undeb rhwng yr holl aelodau â'u gilydd, ac â'r pen, felly y mae rhyngddynt hwythau â Christ Iesu. Yr Ysbryd Glân, yn benaf, sydd yn cyssylltu yr aelodau â'u gilydd, a'r holl gorph â'r pen. Yn ail, y mae ffydd yn afaelgar yn y pen, ac yn derbyn magwriaeth a chynnaliaeth o bono; a'r hyn y mae ffydd yn ei dderbyn, er adeiladaeth y dyn ei hun, y mae cariad yn ei gyfranu er lleshad ereill hefyd, "yn nerthol weithrediad yn mesur pob rhan." Gan mai ffydd sydd yn derbyn, y mae yn rhaid fod gair ac ordinhadau Crist o fawr werth gan yr holl wir aelodau, trwy ba rai y mae efe yn cyfranu i ffydd o'i gyflawnder mawr ei hun, Eph. iv. 15. Col. ii. 19.

CYMMANFA, *(cyd-man)* amryw yn cyd-gyfarfod yn yr un man. Wrth *gynmanfa* a chynnulleidfa, neu eglwys y rhai cyntaf-anedig, y meddylir yr eglwys Gristionogol, yn cynnwys Iuddewon a Chenedloedd. wedi eu galw yn nghyd trwy yr efengyl, Heb. xii. 23. Yr oedd y gymmanfa, neu y gynnulleidfa yn Israel, yn cael eu galw yn nghyd trwy lais yr udgyrn arian, Num. x. 2, 7. Felly, yn yr un modd y mae *cymmanfa* a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig wedi eu galw âg udgorn arian yr efengyl, i gyd-gyfarfod yn Nghrist, ac enw Crist, yr hwn a wnaeth y ddau (sef Iuddewon a Chenedloedd) yn un âg ef, ac â'u gilydd ynddo, Num. iii. 40.

CYMMEDROLDER, *(cydmedr,* mesur) tymmerusrwydd, sobreiddrwydd. Y gair Gr. *engcrateia,* a gyfieithir *cymmedrolder,* a arwydda hunan-lywodraethiad; sef, bod gan un awdurdod arno ei hun, o ran chwantau a phleserau cnawdol; diweirdeb, sobrwydd, 2 Petr i. 6. Yr un gair a gyfieithir *diwrest,* yn Act. xxiv. 25, a Gal. v. 23.

CYMMERADWY, *(cymmer)* derbyniol, cyfrifol. "Gwnaeth ni

n *gymmeradwy* yn yr anwylyd," Eph. i. 6. Yr anwylyd yw Crist, r hwn sydd anfeidrol anwyl gan y ad, ei anwyl Fab, neu Fab ei gar- ad, Mat. iii. 16. Col. i. 13. Yn- do ef, bendithiodd ni â phob ben- ith ysbrydol; ynddo ef, gwnaeth ni n gymmeradwy, y rhai oeddem ollol anghymmeradwy ynom ein unain. Gan mai ynddo ef yr ydym 'n gymmeradwy, y mae ein cym- neradwyaeth yn sefyll ar sail an- eidrol uchel a derchafedig, ac yn ragywyddol a digyfnewid. Nid dyw yr apostol yn dywedyd, yr wn a'n gwnaeth yn gymmeradwy n ein cariad, yn ein sancteiddrwydd, c. ond *yn yr anwylyd*. Wele! yma gariad a grâs sydd uwchlaw wybodaeth!

CYMMOD, *(bod)* cydfod, hedd- rch. Yr iawn neu y pridwerth i eddychu cyfiawnder Duw, a gwneu- hur i fynu am y trosedd a gyflawn- yd yn ei erbyn trwy bechod, Rhuf. i. 25. Job xxxiii. 24. 2 Ioan ii. . Y gair Heb. *cepher*, a gyfieithir weithiau yn *iawn*, ac weithiau *cym- nod*, a arwydda, *cysgodi, gor- chuddio, taenu dros*. Yr oedd y ymmod cysgodol i gael ei wneuthur rwy daenellu gwaed yr aberth, negys i guddio beiau y troseddwr, Exod. xxix. 33. Yr oedd yma gyn- rychioldeb cywir hynod o waed ac berth Iesu Grist, yr hwn sydd ber- faith a digonol iawn tros bechod. Yn nghysgod hwn y gall pechadur lawd fyw yn ddiogel byth. Yr oedd rhai'y gwnaed y cymmod trostynt 'r gwaed, i fwytta o gig yr aberth; r dangos fod y rhai a gânt Grist rostynt i'w cyflawnhau, i gael Crist nddynt i'w sancteiddio, ac i fod yn ynnaliaeth beunyddiol a pharhaus ddynt, Exod. xxix. 33. Edr. *Gwyl*.

CYMMYDOG, *(cymmwd)* a ar- vydda, (1.) Un yn byw yn yr un ewmmwd, neu yn ein hymyl. 2 Bren. v. 3. (2.) Un y caffom gyfle i vneuthur rhyw leshad iddo, bydded gos neu bell, Mat. xxii. 39. (3.) ydweithiwr, ac a fyddo befyd â herthynas naturiol rhyngddo â ni, Act. vii. 27. (4.) Un a gymmero rugaredd arnom, gan ein gwaredu gyfyngder, er trigo o hono yn hell oddi wrthym, Luc x. 36. (5.) Un a fyddo mewn eisiau, bid ei drig- an ef yn agos neu yn mhell, Diar. iii. 28. Yr Iuddewon, yn gyffredin- ol, yn nyddiau ein Hiachawdwr, a dybient nad oedd neb yn *gymmyd- ogion*, y rhai y dylid eu caru, ond eu cenedl eu hunain, ac y gallent gasáu pawb ereill: eithr dangosodd Crist iddynt fod pawb, hyd yn nod gelynion, yn gymmydogion, ac y dylid dangos cariad a chymmwynas- garwch iddynt, Mat. v. 43—48. Luc x. 29—37.

CYMMYSG. *(mysg)* y naill beth yn mhlith y llall. Wrth y bobl *gym- mysg* yn Exod. xii. 36, y meddylir Aiphtiaid ac ereill, y rhai a gych- wynasant gydag Israel allan o'r Aipht, ac a ddaethant ran o'r ffordd tua Chanaan. Y bobl hyn oeddynt y rhai a ddechreuasant flysio a sôn am ddaioni y wlad y daethient allan o honi, a grwgnach yn erbyn y manna gwyrthiol yr oeddynt yn ei gael yn yr anialwch, gan ei alw yn fanna gwael, Num. xi. 4. Dang- osiad lled eglur o ddynion yn glynu wrth bobl ac achos Duw o ryw ddybenion cnawdol, ac yn amser profedigaeth yn cilio, tan lywodr- aeth eu blys.

CYMMYNU, *(cy-myn)* naddu, ysglodioni, taraw neu hollti coed â chymmynai, neu fwyell gynnud, Deut. xix. 5. 1 Bren. v. 6. Luc iii. 9. Yr oedd cymmynu coed, a gwehynnu dwfr, yn cael eu cyfrif yn swyddau lled waelion gynt, Deut. xxix. 11. Dyma y swydd a roddodd Josuah i'r Gibeoniaid, y rhai a'i twyllasent, Jos. ix. 21, 27.

CYNBLANT, *(cyn-plant)* y plant cyntaf, neu y rhai cyntaf-aned- ig. "A *chynblant* y tlodion a ym- borthant;" sef, y rhai tlotaf, y rhai sydd yn blaenori mewn tlodi, Esa. xiv. 30. Addewid ydyw o'r llawn- der a gai yr Iuddewon ei fwynhau tan lywodraeth Hezeciah, a'r eg- lwys tan lywodraeth Crist.

CYNDYN, *(tyn)* cildyn, gwrth- nysig. *Dyn cyndyn*, sef, dyn wedi ymroi i fynnu ei ffordd ddrygionus ei hun, ac na wrandawo ar ddim rhesymau i'r gwrthwyneb, er pa mor decced a chadarned bynag y fydd- ont, Esa. xxx. 1. Jer. vi. 28. Yr oedd yr Arglwydd, trwy Moses, wedi gorchymyn i Israel, os byddai i wr fab *cyndyn* ac anufudd, na wrandawai ar lais ei rieni, ei ddwyn at yr henuriaid, i dderbyn dedfryd,

ac i gael ei labyddio, Deut. xxi. 18—21. Y mae y pechod hwn yn taro yn erbyn y pummed gorchymyn, yr hwn a ofyn ufudd-dod i rieni. Gellir gweled yma addewid a bygythiad, y naill yn wyneb y llall. Bygythiad i labyddio am gyndynrwydd ac anufudd-dod; ac addewid o hir ddyddiau mewn tir ffrwythlon i'r ufudd, tra byddo y cyndyn yn preswylio erasdir, Salm lxviii. 6.

CYNGOR, *(cyd-gor)* a arwydda, (1.) Addysg, hyfforddiad, Dan. iv. 27. (2.) Bwriad neu feddwl dirgel, Ezra iv. 5. Job x. 3. Cyngor Duw ydyw, (1.) Ei fwriad, neu ei arfaeth, Act. iv. 28. Esa. xlvi. 10. Salm xxxiii. 11. (2.) Ei ewyllys a'i athrawiaeth, mewn perthynas i ffordd iachawdwriaeth i bechaduriaid, Luc vii. 30. (3.) Cyfarwyddyd ei air, cynhyrfiadau ei Ysbryd, ac arweiniad ei ragluniaeth. Salm lxxiii. 24. Dad. iii. 18. *Sefyll yn nghyngor yr Arglwydd*, ydyw bod yn gyfeillgar âg ef, a gwybod ei feddwl a'i ewyllys, Jer. xxiii. 18, 22. *Cynghorwr*, yw un a fydd yn dyfal bwyso achosion, er mwyn eu penderfynu; yn enwedig y cyfryw un ag y bydd breninoedd yn arfer ymgynghori âg ef, Diar. xi. 14. Ezra iv. 5. Un o enwau Crist ydyw *Cynghorwr*; âg ef y sefydlodd ei Dad yn benderfynol holl drefn ein hiachawdwriaeth; ac efe, gan ei fod yn feddiannol ar ddoethineb a gwybodaeth anfesurol, sydd yn cyfarwyddo ac yn cynghori ei bobl yn mhob achos, Esa. ix. 6. Tystiolaethau yr Arglwydd ydynt *gynghorwyr* y saint, â'r rhai y maent yn ymofyn am addysg, ac oddi wrth y rhai y maent yn derbyn cyfarwyddyd yn mhob achos caled ac anhawdd, Sal. cxix. 24.

CYNHAUAF *(cyn-gauaf)*. Y mae y cynhauaf, neu amser torri a chasglu ŷd, &c. yn wahanol fel y byddo y tir a chynnesrwydd y gwleddydd. Yn Nghanaan yr ydoedd yn dechreu yn mis Mawrth, ac yn cael ei orphen tua chanol Mai. Am fod y cynhauaf yn amser o bwys mawr er darparu lluniaeth, y mae unrhyw amser o lafur ennillgar, yn cael ei alw yn *gynhauaf*; am hyny y mae un a gysga amser *cynhauaf* yn peri gwaradwydd iddo ei hun a'i gyfeillion, Diar. x. 5. Amser barnedigaethau dinystriol Duw, trwy ba rai y mae efe yn torri llaweroedd i lawr, ac yn eu dwyn i'r sefyllfa dragywyddol, a gyffelybir i *gynhauaf*; fel hyn yr ydym yn darllain am *gynhauaf* Babilon a Judah, Jer. li. 33. Hos. vi. 11. Pobl wedi addfedu trwy bechod i ddinystr, a gyffelybir i *gynhauaf*, neu gnwd yn barod i gryman digofaint Duw, Esa. xviii. 5. Joel iii. 13. Dad. xiv. 15. Amser hynod am lwyddiant yr efengyl a elwir yn *gynhauaf*, Mat. ix. 37, 38. Ioan iv. 35, 36. Dydd y farn a gyffelybir i *gynhauaf*; y pryd hwnw bydd pob peth yn addfed i ymddattodiad; trefn nattur a gâ ei dadymchwelyd; cyflwr dynion a gyfnewidir yn gwbl; y cyflawnion a gesglir i ysgubor Iesu, ei drigfanau nefol ef, a'r rhai drygionus i dân uffern, Mat. xiii. 30, 39—42. Yr Assyriaid oeddynt fel *cynhauaf wyr*; dinystriasant y Cenedloedd, torasant hwynt i lawr, a lloffasant hyd yn nod y tywysenau, gan dorri ymaith y gweddill a adawyd ar y cyntaf, Esa. xvii. 6.

CYNLLWYN-WR, *(cyn-llwyngwr)* mintai o filwyr, neu lofruddion, wedi eu cyfleu mewn lle dirgel, fel y rhuthront yn annisgwyliadwy ar elyn; megys y pum mil gwyr a osododd Josuah rhwng Bethel ac Ai, Jos. viii. 12; neu y weithred o orwedd i lawr yn llechwrus er ymosod ar un yn ddiarwybod iddo, 2 Cron. xx. 22.

CYNNAL, *(cyd-dal)* a arwydda, (1.) Attegu, dal i fynu, Salm cxix. 116, 117. (2.) Porthi, neu faethu, Gen. l. 21. (3.) Arwain a barnu achosion, Deut. i. 9. Y mae Duw yn cynnal ei bobl mewn blinderau a chystuddiau, (1.) Trwy beidio rhoi arnynt fwy baich nag a allont ei ddwyn, 1 Cor. x. 13. (2.) Trwy eu cyfarwyddo, eu nerthu, eu dyddanu â'i Ysbryd, a'u battal rhag pethau niweidiol iddynt, Esa. xli. 1. 2 Cor. i. 4. "Yn *cynnal* gair y bywyd," Phil. ii. 16. Y mae y geiriau hyn wedi eu benthyca oddi wrth oleudai ar hyd glan y môr, lle y mae goleuni yn cael ei gynnal, i gyfarwyddo y morwyr mewn nosweithiau tywyll, i ochelyd creigiau cyfagos. ac i'w cyfarwyddo i'r porthladd. O'r un cyffelyb ddefnydd y gwedda i bob Cristion fod, yn enwedig gweinidogion y gair, yn dysgleirio megys

goleuadau yn y byd, trwy gynnal gair y bywyd. Gan y dichon rhai fod yn ganwyllbrenau, heb fod yn oleuadau; yn cynnal y goleuni yn athrawiaethol, heb fod y goleuni yn ddynt eu hunain, fel y maent yn oleuni yn yr Arglwydd: y mae yr apostol yn annog y Philipiaid credinol i ddysgleirio megys goleuadau yn y byd.

CYNNAR, *(cyn-dar,* blaenorol) yn foreu, yn amserol. Dwy waith yn y flwyddyn y byddai helaethrwydd o wlaw yn ngwlad Canaan; y cynnaf, sef y *cynnar wlaw,* yn mis Medi, yn fuan ar ol hau; a'r llall, sef y *diweddar wlaw,* yn mis Mawrth, ychydig cyn y cynhauaf, i addfedu yr ŷd. Fel y cynnar a'r diweddar wlaw i'r ddaear, felly y mae yr Arglwydd Iesu, yn ei ymweliadau grasol i'w bobl; yn eu cyssuro ac yn eu ffrwythloni, trwy ei rinwedd achusol ei hun, Deut. xi. 14. Jer. v. 24. Hos. vi. 3. Joel ii. 23.

CYNNEFIN, *(cyd-defin,* breinog) defodol, arferedig. Gellir dywedyd am un wedi *cynnefino* â rhyw beth, neu ryw le, ei fod felly trwy arferiad hir a pharhaus. Pan y mae Jeremiah, neu Duw trwyddo, yn ymliw â'r Iuddewon, am eu hanyweithdra, y mae yn eu cyffelybu "asen wyllt wedi ei *chynnefino* i'r anialwch," Jer. ii. 24. "Y rhai o herwydd *cynnefindra* y mae ganddynt synwyr," &c. Nid babanod, y rhai ydynt annghynefin â gair cyfawnder, sef yr efengyl; ond rhai mewn oedran, y sydd trwy ymarfer ymdrechgar a dyfal mewn gweddi, myfyrdod, astudrwydd, a rwando diwyd, ganddynt ddeall a neddwl parod ac addas i dderbyn rwirioneddau mawrion yr efengyl, c i ymborthi arnynt, fel bwyd cryf, r maeth a chynnaliaeth i'w heneidau, Heb. v. 14.

CYNNEU, *(cynne)* llosgiad tân nawr ar ryw achos arbenig. Byddai r Iuddewon yn arferol o wneuthur *cynneu* o dân ar gladdedigaeth eu reninoedd da; a hyny fel arwydd o arch ac anrhydedd i'w coffadwraeth. Y mae yn debyg y byddai naintioli y tân yn gyfattebol i'r arch a'r bri a fyddai gan y deiliaid w brenin. Os bychan fyddai y arch, bychan fyddai y *cynneu.* 'an oeddynt yn claddu Jehoram ddrygionus, brenin Judah, "ei bobl ni wnaethant iddo *gynneu* megys *cynneu* ei dadau;" yr hyn oedd arwydd o'u diystyrwch o bono, 2 Cron. xxi. 19, 20. Y tu arall, pan oeddynt yn claddu Asa, o barch iddo, "hwy a gynneuasant iddo *gynneu mawr iawn,*" 2 Cron. xvi. 14.

CYNNIWAIR, *(cyd-diwair)* cyrchu neu dramwy yn fynych i le. "*Cynniweiriwch* trwy y pyrth," Esa. lxii. 10. Ewch allan trwy y pyrth yn finteioedd, i barottoi ffordd y bobl. Wele y maent yn dyfod yn lluoedd, â'u hwynebau tua'r eglwys; byddwch ddiwyd, byddwch ffyddlawn i symmud pob rhwystr oddi ar y ffordd, a rhoddwch dderbyniad croesawgar iddynt. Y mae y geiriau fel pe baent yn cael eu llefaru, yn benaf, wrth flaenoriaid, yn wyneb diwygiad mawr.

CYNNRYCHIOL—DEB, *(cyndrych)* gwyddfodol, presennol, Act. xxviii. 2. Esa. lxiii. 9.

CYNNULLEIDFA, *(cyd-dull)* tyrfa, cymmaufa. Yr Israeliaid oeddynt yn neilldnol yn bobl gyfammodol i'r Arglwydd, yn dibynu arno, ac yn ddarostyngedig iddo, Num. xxvii. 17, a xxxi. 16; a "chael torri o'r *gynnulleidfa,*" oedd bod un yn cael ei symmud o'u plith trwy farwolaeth; neu, ynte, yn cael ei ddifreinio trwy esgymmundod, Num. xix. 20. *Cynnulleidfa y meirw,* ydyw pechaduriaid diadgenedledig, neu ddamnedig, Diar. xxi. 16.

CYNNYSGAETH, *(cynnysg)* gwaddol, neu ran a roddir wrth briodi. Galwai yr Hebreaid gynnysgaeth yn *arian prysuriad,* i arwyddo eu bod yn rhwyddhau ac yn prysuro priodas. Dylid gochelyd arian-garwch wrth briodi; sef, bod cariad at y gynnysgaeth yn wresocach na chariad at y person, Gen. xxx. 20. 1 Sam. xviii. 25. Rhoddai y priodfab gynnysgaeth i'r briodasferch, neu i'w thad, yn mhlith yr Hebreaid; felly hefyd yr oedd arfer y Groegiaid a'r hen genedloedd; ac felly y gwnant etto yn ngwledydd y dwyrain.

CYNTAF, *(cynt)* a arwydda, (1.) Yr hyn sydd o flaen ereill, o ran amser neu drefn; felly Petr a alwyd gyntaf i fod yn apostol, ac a enwir gyntaf, Mat. x. 2. Gelwir Adda y dyn *cyntaf,* o blegid ei fod y cyntaf o ran amser a threfn o holl ddynol-

ryw; a golygir ei gynnrychioliad ef o ddynion fel yn flaenorol i eiddo Crist yr hwn yw yr ail Adda, 1 Cor. xv. 45. (2.) Yr hyn sydd yn rhagori ar ereill mewn graddau o ddrygioni neu deilyngdod: felly Paul oedd y pechadur *blaenaf* neu *benaf*, 1 Tim. i. 15, 16; a chyfiawnder Crist ydyw y wisg *flaenaf* neu *orau*, Luc xv. 22. Yn mhlith pob cenedl, yr oedd y gwrrywiaid cyntaf-anedig mewn teuluoedd, am eu bod yn cynnal i fynu anrhydedd y teulu, a rhagor-freintiau neilldnol gwedi eu caniattau iddynt. Yr Hebreaid cyntaf-anedig a gaent ddeuparth o'r etifeddiaeth, yn nghyd â rhagoriaeth ac awdurdod tros eu brodyr. Deut. xxi. 17. 2 Cron. xxi. 3. Dywedir fod ganddynt y swydd o offeiriadu yn y teulu, nes i deulu Aaron a'r Lefiaid gael eu dewis i weinyddu yn eu lle, Lef. viii. a ix. Num. viii. Ond hwyrach nad oeddynt ond gweinyddu yn unig dros eu tadau ar ryw achlysuron. Pan ddinystriodd Duw, trwy ei angel, gyntaf-anedigion yr Aiphtiaid mewn un noswaith, efe, er cadw coffadwriaeth o'r weithred, a ordeiniodd fod i holl wrrywiaid *cyntaf-anedig* yr Hebreaid gael eu cyssegru iddo ef: fod i holl *gyntaf-anedigion* eu hanifeiliaid, a holl *flaen-ffrwyth* eu tir, gael eu rhoddi iddo ef. Yr anrheg hon i Dduw a dueddai i sancteiddio a dwyn ei fendith ar y gweddill. Rhifedi cyntaf-anedigion meibion Israel oedd 22,273, ond cymmerodd yr Arglwydd 22,000 o Lefiaid yn eu lle at ei wasanaeth; a'r 273 dros ben a adbrynwyd am bum sicl bob un, Num. iii. Os byddai cyntaf-anedigion eu hanifeiliaid yn addas i'w haberthu, hwy a aberthid, ond byth cyn y byddent yn saith niwrnod oed: os anaddas i'w haberthu a fyddent, yna prynid hwy er arian, neu ynte cyfnewidid hwy am oen; ac os na phrynid neu gyfnewidid hwy, yna yr oeddynt i gael eu lladd er anrhydedd Duw, ond nid eu hoffrymu, na'u gwaed ei daenellu ar yr allor. Exod. xiii. 12, 13. Num. xviii. 17, 18, 19. Ymddengys nad oedd yn ganiattaol iddynt i roddi ail gyntaf-anedigion eu hanifeiliaid mewn gwaith, na chneifio eiddo eu defaid, na bwytta eu cig gartref, ond i'w dwyn i fynu, a gwledda arnynt ger bron yr Arglwydd ar y gwyliau arbenig, Deut. xii. 17, a xv. 19. Onid oedd y cyntaf-anedigion hyn o ddynion ac anifeiliaid yn cysgodi Crist, *cyntaf-anedig* pob creadur, a'r *cyntaf-anedig* oddi wrth y meirw, yr hwn sydd wedi ei urddasoli uwchlaw pob creadur, ac yn meddiannu deuparth o allu, awdurdod, a chyfiawnder? yr hwn ydyw yr Archoffeiriad mawr a gyssegrwyd yn dragywydd, ac ydyw y cyntaf, yr unig berson a gyfododd erioed, neu a gyfyd byth oddi wrth y meirw trwy ei nerth ei hun; efe yw pen ei holl etholedigion, ceidwad enw ei Dad, a sancteiddrwydd ei bobl. 1 Col. i. 15, 18. Dad. i. 5. Onid oeddynt yn cynnrychioli y saint, y rhai ydynt wedi eu neilldno gan yr Arglwydd i'w wasanaeth; ac, er yn fudron ynddynt eu hunain, y maent wedi eu prynu trwy ufudd-dod a marwolaeth Crist, Oen Duw; a chan gael eu gwneud yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw y Tad, hwy a'i gwasanaethant ef yn ei deml, Heb. xii. 23. Esa. vi. 13. *Cyntaf-anedig angau*, yw marwolaeth felldigedig a thra thruenus neu boenus, Job xviii. 13.

CYNTEDD, *(cyn-tedd*, ehangiad) a arwydda, (1.) Y rhan gaeedig o'r fynedfa i mewn i balas, tŷ, neu babell, Esth. vi. 4. Jer. xxviii. 6. Yr oedd i'r babell un cyntedd, i'r deml ddau, lle y byddai yr offeiriaid a'r Israeliaid yn ymgynnull i addoli Duw, yr hyn a allai fod yn cynnrychioli cyfiwr gostyngedig ac agored Crist a'i bobl; ac, yn gyfattebol i hyn, gelwir lleoedd addoliad cyhoeddus, ordinhadau Duw a chymdeithas âg ef ynddynt, yn *gynteddau* Duw: a *thrigo yn ei gynteddau ef*, yw dylyn yr ordinhadau yn ddyfal, a mwynhau Duw ynddynt, Salm lxv. 4, a lxxxiv. 2, 10. *Y cyntedd o'r tu allan i'r dem*', a adawyd heb ei fesur, ac i gael ei fathru gan y Cenedloedd, ydyw cyfiwr allanol, sefydli d gwladol, a phroffeswyr enwol yn yr eglwys Gristionogol, wedi eu rhoddi i fynu i gael eu cam drin gan y Pabyddion paganaidd, am 1260 o flynyddoedd, Dad. xi. 2. *Cyntedd*, mewn ystyr cyffelybiaethol, a arwydda eglwys Crist, Zech. iii. 7.

CYPRESWYDDEN, pren hynod

am ei uchder, ei gryfder, a'i brydferthwch. Ei ddail ydynt yn wastad yn leision, ei goed yn drymion, yn bêr eu harogl, a bron yn anllygredig. Ffurfid delwau o hono, Esa. xliv. 14. Y Rhufeiniaid a'i cyfrifent yn bren tynghedfenol, ac a'i harferent mewn defodau angladdol. Crybwylla *Tournefort* am dri math o hono; ond nid yw yn cael ei brisio fel ag yr haeddai. Ei ffrwyth sydd yn rhwymol iawn pan ei harferir yn feddyginiaeth; ac y mae yn ddefnyddiol i iachau toriadau y llengig, a chlwyfau y gwsed.

CYPRUS; ynys enwog yn Môr y Canoldir, yn sefyll yn nghylch 100 milltir o du y gogledd i Syria, a 60 o du y dehau-orllewin i Cilicia. Ei hyd o'r dwyrain i'r gorllewin sydd o ddeutu 175 o filltiroedd; a'i lled yn 60; ac, yn ol rhai, dim ond 46. Yr oedd yndi amldra o cypreswydd; ond yr oedd yn dra chywilyddus o blegid anlladrwydd ei thrigolion, gan fod pob gwraig yn rhwymedig wrth y gyfraith i werthu ei hun i wneuthur godineb â dyeithriaid. Yn ol barn *Josephus*, poblogwyd hi ar y cyntaf gan hiliogaeth Cittim. Yr oedd yndi bymtheg o ddinasoedd enwog, sef, Paphos, Citium, Salamis, &c. a chafodd ei dosparthu yn naw o freniniaethau bychain. Darostyngwyd y Cypriaid gan Cyrus. Yn mhen o ddeutu 70 o flyneddoedd wedi hyny, parodd Cimon, y cad-flaenor Athenaidd, i'r Persiaid dynnu eu gwarchawd-luoedd yn ol o Cyprus, ac adferu i'r ynysolion eu rhyddid. Trwy yr heddwch cywilyddus a wnaed gan Antalcidas y Lacedemoniad, amddifadwyd hwy o'u rhyddid, ac a'u darostyngwyd i'w caethiwed blaenorol. Ymddarostyngasant i Alexander, ac i'w galynwyr, yn Syria a'r Aipht, bob yn ail. Yn nghylch A. M. 3950, Claudius ddrygionus, a Cato yr enwog foesolwr, yn y modd mwyaf diffaith, a ddiosgasant Ptolemy brenin Cyprus o'i olud, yr hwn oedd yn werth 1,356,250 o bunnoedd o arian Lloegr, ac hefyd o'i deyrnas: a darostyngasant hi i fod yn dalaeth Rufeinig. Yr luddewon, ar eu gwasgariad, a dyrasant yn lluosog iddi; ond am eu gwaith yn lladd o ddeutu 240,000 o'r trigolion cynhenid, ymlidiwyd hwy allan o honi, o ddeutu A. D. 118. Yn 648, ennillwyd hi gan y Saraceniaid: ond adgymmerwyd hi dra-chefn gan amherawdwr Caercystenyn o ddeutu 957. Yn nghylch 1191, *Richard* brenin Lloegr a'i dygodd trwy drais oddi ar y Tyrciaid Seljuciaidd, ac a'i rhoddodd i Lusignan brenin enwol Jerusalem. Efe a'i hiliogaeth a ddaliasant afael yndi bron am 300 o flyneddoedd; er, am y 50 olaf, eu bod yn talu teyrnged i Sultanau Mamlucaidd yr Aipht. Gwedi i'w linach wrrywiol ef ballu, cymmerodd y Venetiaid feddiant o honi o ddeutu A. D. 1473. Ar ol rhyfel tra ysgeler, dygodd y Tyrciaid hi oddi arnyat hwy, yn 1570. Planwyd Cristionogrwydd yn yr ynys hon, gan ryw rhoaduriaid oddi wrth yr erlidigaeth Iuddewig, ac a gadarnhawyd gan Paul, a Barnabas, a Marc; ac y mae yn parhau, mewn rhyw fesur, hyd heddyw; er, yn bresennol, fod crefydd, yn gystal â'r wlad yn gyfredinol, mewn cyflwr tra thruenus, Act. xi. 19, 20, a xiii. 4—13, a xv. 39.

CYRCHU, *(cwr)* canlyn, erlyn "Yr ydwyf yn *cyrchu* at y nod," Phil. iii. 14. Y gair Groegaidd *dioco*, ag a gyfeithir *cyrchu* yma, a gyfeithir hefyd *erlid*, *rhuthro ar* yn Mat. x. 23, i arwyddfod yn yr apostol yr un awyddfryd yn bresennol yn cyrchu, neu yn gwasgu at y nôd, neu wrth reol osodedig, ag a fuasai ynddo gynt yn erlid y rhai oeddynt yn cyrchu at y nôd y pryd hwnw. Fod ganddo yr un awyddfryd yn *cyrchu* at y nôd, ag a fuasai ganddo yn *cyrchu* ereill o flaen brawdleoedd, ac i'w carcharu.

CYRENE, *(mur)* gwlad yn lled bell yn y gorllewin i'r Aipht, ac yn y dehau i Fôr y Canoldir. Ei phrif ddinasoedd oeddynt Cyrene, Berenice, Arsinoe, Ptolemais, ac Apolonia. Bu y wlad hon, am rai oesoedd, yn ethol ei breniniaedd ei hun, y rhai oeddynt o linach Roegaidd, ac yn ddigon galluog i wrthwynebu Carthage. Brodorion oddi yma oeddynt Eratosthenes yr hanesydd, Calimachus y prydydd, a Simon, yr hwn a gynnorthwyodd yr Iesu i ddwyn ei groes. Yr oedd lluaws mawr o Iuddewon yn Cyrene, llawer o honynt a dderbyniasant y ffydd Gristionogol, ond ereill a safasant yn fileinig yn erbyn y ffordd honno.

Act. ii. 10, a xi. 20, a xiii. 1, a vi. 9. Gwedi bod y wlad hon uwchlaw 1000 o flyneddoedd yn ddarostyngedig i'r Persiaid, yr Aiphtiaid Groegaidd, a'r Rhufeiniaid, cymmerodd y Saraceniaid feddiant o honi, A. D. 640; er pa amser, ni wnaeth Cristionogrwydd ond ymddangosiad gwael ynddi. Rhai o'r tywysogion Mahometanaidd a osodasant freiniaeth i fynu yma, yr hon a barhaodd yn nghylch 350 o flynyddoedd, sef o A. D. 900 hyd 1250, er fod eisteddle y llywodraeth gan mwyaf yn yr Aipht. Yn bresennol, y mae y wlad bron yn anialwch, ac yn perthynu i'r Tyrciaid.

CYRUS, *(yr haul)* mab Cambyses, brenin Persia, o Mandane, merch Ahasferus, brenin y Mediaid. Y chwedl am waith ei daid yn ei bennodi ef i gael ei osod i farwolaeth pan yn faban, ac am ei roddiad allan i, a'i ddygiad i fynu gan fugail, yr ydym ni yn myned heibio iddi, fel yn annheilwng o grediniaeth. Ei rieni a fuant yn dra gofalus yn nghylch ei ddygiad i fynu; ac yn foreu efe a ddangosodd fywiogrwydd, pwyll, a glewder anghyffredin. Pan o ddeutu 12 mlwydd oed, dygodd ei fam ef i lys ei dad. Ei ymddygiad haelfrydig, mwynaidd, ac arwraidd, yn fuan a ennillodd iddo serchiadau y Mediaid. Yn mhen pum mlynedd, efe a ddychwelodd i Persia. Yn nghylch y 40fed flwyddyn o'i oes, cynnorthwyodd Darius y Mediad, ei ewythr, â 30,000 o luoedd Persiaidd. Efe a ddarostyngodd yr Armeniaid gwrthgiliedig. Neriglissar, brenin Babilon, y pryd hwnw a fwriadodd ddarostwng breniniaeth Media; ei fyddin anferth o Fabiloniaid, Lydiaid, Cappadociaid, Cariaid, Phrygiaid, Ciliciaid, a Phaphlagoniaid, a wnaeth gynnyg teg i lyngcu Cyrus a'i ewythr i fynu; ond y llu hwn a orthrechwyd, a Neriglissar a laddwyd. Yn fuan ar ol hyn, Cyrus a'i ewythr, trwy annogaeth Gobrias, a Gadates, dau arglwydd Babilonaidd enciliedig, a ddygasant y rhyfel i fynu bron at byrth Babilon, gan lanw y wlad âg arswyd, difrod, a gwaed. I'w wrthwynebu ef, aeth Belsassar mewn cynghrair â'r Aiphtiaid, y Thraciaid, a holl genedloedd Asia Leiaf, a chyfododd lu o 420,000 o wyr, ar ba rai yr oedd Crœsus, brenin Lydia yn llywydd. Cyrus, gyda llai na hanner y nifer hwnw, a'u gorchfygodd yn gyfangwbl; ymlidiodd Crœsus i Sardis, ei brif-ddinas; ac, ar ol ei hynnill, gorchymynodd i'r trigolion ddwyn iddo ef eu haur a'u harian, ac achub y lle rhag cael ei anrheithio. Crœsus ei hun oedd y cyntaf a ufuddhaodd. Naill ai ei gydsyniad parod, neu ei waith yn ail-adrodd dywediad o eiddo Solon, y doethwr Athenaidd, yn cynnwys nad oedd un dyn yn ddedwydd cyn ei drangcedigaeth, a gyffyrddodd â chalon hael Cyrus yn y fath fodd, fel yr anrhydeddodd efe Crœsus byth ar ol hyny; adferodd iddo holl awdurdod ei freiniaeth, a dygodd ef oddi amgylch gydag ef yn ei holl ymgyrchiadau dylynol, fel cynghorwr a chyfaill. Yna efe a ddarostyngodd yr amrywiol genedloedd a breswylient yn Asia Leiaf, Syria, a rhan o Arabia Ddiffaith; ennillodd Babilon, a rhoddodd derfyn ar amherodraeth y Caldeaid. Gwedi sefydlu o hono eu ffurf newydd o lywodraeth, a dosparthu eu tiriogaethau yn 120 o daleithiau, llywyddiaeth pa rai a draddodwyd i'r cyfryw ag a enwogasent eu hunain yn y rhyfel, Cyrus a adawodd Darius ei ewythr a'i dad-yn-nghyfraith i lywodraethu yr amherodraeth, ac arweiniodd ei luoedd i fuddugoliaethu ar yr Aipht.

Yn mhen dwy flynedd ar ol darostyngiad Babilon, bu farw Darius; a Cyrus, wedi priodi o hono ei unig ferch ef, a ddaeth yn etifedd y goron. Trwy ei fod, hwyrach, wedi darllain y prophwydoliaethau Iuddewig mewn perthynas iddo ei hun, neu yn unig wedi ei rag-derfynu gan ragluniaeth Duw, efe, yn wirfoddol, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, a gyhoeddodd ganiattad i'r caethion Hebreaidd ddychwelyd i'w gwlad, ac ail-adeiladu teml eu Duw. Yn mhen o ddeutu saith mlynedd wedi hyny, yn y 30ain flwyddyn o'i deyrnasiad ar Persia, a'r 70ain o'i oes, efe a fu farw, A. M. 3475, Dan. vii. 5, a viii. 3, 20, a ii. 39. Esa. xlvii. 11, a xli. 2, 3, 25, a xliv. 26—28, a xlv. 1—4, 13. Ezra i, a ii, a iii.

CYSGOD, *(cy-ysgawd)* y drychiolaeth a wnelo unrhyw gorph syllweddol o hono ei hun, trwy fod yn

sefyll rhwng yr haul, neu y goleuni, a rhyw gorph arall. Mewn cyfeiriad at hyn, gelwir yr hen ddefodau luddewig yn *gysgod* daionus bethau i ddyfod; nid oeddynt hwy ond cyfluniau tywyll ac anmherffaith, a chyffelybiaethau disylwedd o ymgnawdoliad dyfodol, ufudd-dod, marwolaeth, adgyfodiad, gogoniant, a bendithion Iesu Grist, ac o ddull a chyfiwr ei eglwys, Heb. x. 1. Megys y mae y cysgod yn canlyn yr haul neu y corph cyfryngol, ac yn amrywio yn barhaus, nes o'r diwedd, hwyrach yn ddisymmwth, y diflanna, cyffelybir ni a'n dyddiau i *gysgod*, er nodi pa mor ansylweddol ydyw ein hymddangosiadau marwol, pa mor fyr ei barhad yw ein bywyd, a disymmwth ein marwolaeth, 1 Cron. xxix. 15. Job xiv. 2. Salm. cix. 23. Megys y mae tywyllwch ac ueglurdeb yn canlyn cysgodau, felly gelwir tywyllwch ofnadwy, trallod, neu farwolaeth, yn *gysgod angau*, Job iii. 5, a xiii. 16, a xxiv. 27. Salm xxiii. 4. Megys y mae, mewn gwledydd cynnes, yn peth hyfryd iawn i gael cysgod rhag poethder annyoddefol yr haul, felly gelwir llywodraeth, nodded, a dyanwadau adfywiol, yn *gysgod*, Galar. iv. 20. Ezec. xxxi. 6. Can. i. 3. Salm xci. 1, a lxiii. 7. Crist a'i Dad a elwir yn *gysgod*, o blegid eu bod yn llywodraethu, yn diogelu, ac yn adfywio personau ac eglwysi, Esa. iv. 6, a xxv. 4, a xxxii. 2. *Gwnewch eich cysgod fel nos, yn nghanol hanner dydd*; ynnhrallodau yr luddewon, noddwch a chuddwch hwynt, Foabiaid, hyd eithaf eich gallu, Esa. xvi. 3. Arwyddion o anghyfannedd-dra a dinystr nesâol, a elwir yn *gysgodau yr hwyr*, Jer. i. 4. *Y cysgodau ydynt yn cilio*, dan y mae defodau yr Hen Destament yn cael eu diddymu; ac, yn y diwedd, pob llygredigaethau, traddion, ac ordinhadau sefydledig, a oddant le i ddydd gogoniant tragyddol, Can. ii. 17.

CYSSEGR, *(cy-segr*, neillduedig) e sancteiddiol. megys, (1.) Y cysegr sancteiddiolaf, lle'r oedd yr arch i pherthynasau, a'r cwmmwl yn rddangos y gogoniant dwyfol, yn efyll, Lef. iv. 6, neu ddodrefn y e sanctaidd hwn, Num. x. 21. 2) Y rhan honno lle yr oedd y canwyllbren aur, bwrdd y bara gosod, allor yr arogl-darth, &c. yn sefyll, 2 Cron. xxvi. 18. (3.) Yr holl babell neu y deml, Jos. xxiv. 26. 2 Cron. xx. 8. Gelwir ef *cyssegr y cadernid*, o herwydd ei fod yn lle cadarn, ac yn hawdd ei amddiffyn, a'i fod yn perthyn i addoli, Gwaith Israel, Dan. xi. 31; yn *gyssegr bydol*, am mai defodau cnawdol a gyflawnid ynddo, a'i fod yn gysgod bydol o ddaionus bethau i ddyfod, Heb. ix. 1. Ië, y mae hyd yn nod y cynteddoedd sanctaidd, lle y byddai y bobl yn dyfod i addoli, weithiau yn cael eu galw y *cyssegr*, Lef. xii. 4. (4.) Unrhyw le pennodol i addoli Duw yn gyhoeddus, Salm lxxiii. 17. (5.) Gwlad Canaan, yr hon oedd yn dir sanctaidd, lle yr oedd pobl Duw yn preswylio, lle yr oedd ei babell a'i demi wedi eu sefydlu, a'i drugareddau yn nghyd â'i bresennoldeb neilldiol yn cael eu mwynhau, Exod. xv. 17. (6.) Y Nefoedd, lle y mae Duw, a'i angelion sanctaidd, a'i saint yn preswylio byth, Salm cii. 29. Heb. viii. 2. (7.) Temlau eilunod a elwir yn *gyssegr*, Esa. xvi. 2. Amos vii. 9.

CYSSEGRU, yw y weithred o neilldio mewn modd difrifol at addoliad a gwasanaeth Duw, ac y mae yn goiygu personau a phethau. Megys y mae yr holl bil ddynol yn halogedig ac ansanctaidd, o herwydd eu bod yn bechaduriaid yn erbyn Duw, y maent wedi cael eu neilliduo yn gyfiawn o wyddfod Duw; canys, yn ei olwg, ni ddichon dim drwg drigo. Nid oes ond un Mab y Dyn sanctaidd yn cael ei grybwyll yn yr ysgrythyr, sef Sanct Duw, Iesu Grist; yr hwn a sancteiddiodd ei hun, fel y byddai i'w holl halogedigion gael eu cyssegru trwyddo ef. Cyssegrwyd a neilliduwyd ef i'r swyddau o Brophwyd, Offeiriad, a Brenin yn eglwys Duw; canys y gyfraith a wnai ddynion â gwendid ynddynt yn archoffeiriaid, eithr gair y llw, yr hwn a fu wedi y gyfraith, a gyssegrodd y Mab, Heb. vii. 28. Oddi wrtho ef, y mae ei holl eglwys yn derbyn eu henneiniad; a chyssegrir hwy am byth fel breninoedd ac fel offeiriaid i Dduw. Eglwys y Duw byw, sydd yn rhywiogaeth etholedig, yn freninol offeiriadaeth, yn genedl sanctaidd, yn bobl briodol, 1 Petr ii. 9. Am

hyny y maent oll wedi eu galw i fod yn saint; a chan eu bod oll wedi eu cyssegru trwy werthfawr waed Crist, megys oen difeius a difrycheulyd, y maent wedi eu galw i sancteiddrwydd mewn pob ymarweddiad a duwioldeb; yn gystal â glendid yn eu cyssylltiad eglwysig, oddi wrth bob allendid cnawd ac ysbryd. Eglwys Crist sydd yn gyfundeb sanctaidd. Yn awr mae yCyssegrwr mawr wedi cyssegru ffordd newydd a bywiol i'w holl waredigion ei gaulyn ef i'r sancteiddiolaf; gelwir hi ffordd sancteiddrwydd; ac er ei bod yn ffordd, yr hon nis geill neb ond gwaredigion yr Arglwydd fyned trosti, etto y mae mor amlwg fel na bydd i'r ffforddolion, pe byddent ynfydion, gyfeiliorni ynddi; y mae wedi ei chyssegru trwy len rwygiedig cnawd Mab Duw; canys Iesu hefyd, fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, a ddyoddefodd y tu allan i'r porth. Er rhag-arwyddo y cyssegriad hwn, llawer o bersonau a phethau a gyssegrwyd yn gysgodol tan y gyfraith.

Yn yr enwaediad ar Abraham, Isaac, a Jacob, a'r cyfammod a wnaed â hwynt; yn eu mynediad trwy y Môr Coch; yn eu hymddangosiad o flaen Duw, a'u gweithred gyfammodol âg ef, wrth fynydd Sinai; ac yn eu hymgyflwyniad arbenig wrth Ebal a Gerizzim, yr oedd yr holl genedl Hebreaidd wedi eu *cyssegru* i fod yn bobl briodol a gweision i Dduw, Gen. xvii. Exod. xiv, a xix—xxvi. Deut. v, xxvi, xxvii, a xxix. I gadw coffadwriaeth o ddinystr cyntaf-anedigion yr Aiphtiaid, *cyssegrid* cyntaf-anedigion Israel, yn ddyn ac yn anifel, i fod yn eiddo yr Arglwydd, Exod. xiii. Trwy olchiad, offrymu aberth, a thaenelliad olew a gwaed, y cyssegrid y Lefiaid yn lle y cynt-af-anedigion; a'r offeiriaid, y babell, y deml, a'r holl ddodrefn i ddefodau gwasanaeth Duw, Exod. xxviii, a xxix. Num. i. 49, 50, a iii. 10, a viii. 2 Cron. ii. 4, a vii. 9. Ezra vi. 16, 17. Y degymau a'r blaen-ffrwythau a *gyssegrid* yn wirioneddol, ond mewn modd llai arbenig, i wasanaeth Duw. Byddai yr Iuddewon yn *cyssegru* eu tai, ac hyd yn nod muriau eu dinasoedd; yr hyn a wneid, tebygol, trwy weddi a diolchgarwch, Deut. xx. 5. Neh. xii. 27. Josuah a *gyssegrodd* y Gibeoniaid, ac aur ac arian Jericho, Jos. vi. 19, a ix. 27. Nid ychydig a gyssegrent eu hunain i wa-anaethu Duw yn null Nazareaid, neu Nethiniaid, Num. vi. Manoah a gyssegrodd Samson ei fab, a Hannah, Samuel ei mab, Barn. xiii. 1 Sam. i. 11, 12. Byddai llawer yn *cyssegru* eu harian, eu maesydd, a'u hanifeiliaid, i'r Arglwydd, Lef. xxvii. Moses, Samuel, Saul, Dafydd, a'i ganlynwyr, a rhyfelwyr ereill, a *gyssegrasant* ran o'r ysbail a gymmerasent yn y frwydr, Num. xxxi. 28—34. 1 Cron. xxvi. 25, 27, 28. 1 Bren. xv. 15. Pan y glanhaodd Judas Maccabeus y deml, o ddeutu A. M. 3840, efe a'i cyssegrodd hi mewn modd arbenig i'w gwasanaeth sanctaidd, ac a osododd wŷl y cyssegriad i gael ei chadw yn ŷnyeddol yn y gauaf, Ioan x. 93.

Gan fod y cysgodau yn awr wedi eu diddymu, ni fedd cyssegriad arbenig eglwysi, monwentydd, llestri at weinyddiad y sacramentau, &c. tan y Testament Newydd, un awdurdod yn ngair Duw, ond y mae wedi deilliaw oddi wrth y dyn pechod.

CYSTUDD, a arwydda pob math o adfyd, gorthrymder, &c. Exod. iii. 7. Job v. 6. Pan rodder cystudd ar bechaduriaid diedifeiriol, y mae yn gospedigaeth gyfiawn iddynt, yn deilliaw oddi wrth ddigofaint cyfiawn Duw, ac a fydd yn ddinystr tragywyddol iddynt, Nah. i. 9. Rhuf. ii. 8. 2 Thes. i. 6. Er fod pechaduriaid edifeiriol sydd yn credu yn Mab Duw, wedi eu gwaredu gandd oddi wrth y digofaint sydd ar ddyfod etto, y mae aml a blin gystuddiau yn eu cyfarfod, fel ceryddon tadol oddi wrth Dduw, ac yn arwydd o'r gariad tuag attynt, ac er lleshad iddynt. Trwy y pethau hyn y mae "yn eu dysgu i wellhau, a'r hol ffrwyth yw tynnu ymaith eu pechod," Esa. xxvii. 9, a xlviii, 17.

CYTTAL, *(cyd-dal)* cyd-fydio cyd-drigo. "Nyni a *gyttaliason* â gwragedd dyeithr," Ezra x. 2 10. Y gair Heb. *isab*, yn y lle hwn a arwydda, trigo yn sefydlog, preswylio, cartrefu. Yr oedd *cytta* gwragedd dyeithr yn beth anghyf reithlon i Israel yn ol deddf Duw "Nac ymgyfathracha â hwynt, n ddod dy ferch i'w fab ef, ac na chym

ner ei ferch ef i'th fab dithau." Y rheswm paham y mae yr Arglwydd yn gorchymyn fel hyn, yw, "canys efe a dry dy fab di oddi ar fy ol i, fel y gwasanaethant ddurwiau dyeithr; felly yr ennyn llid yr Arglwydd i'ch erbyn chwi," &c. Deut. xvii. 3, 4.

CYTHRAUL, *(cy-traul)* enw a roddir ar yr angel syrthiedig. Y mae iddo enw yn Groeg sydd yn cyfatteb yn gwbl i'r gair cythraul yn Gymraeg, sef *Apolyon*, dinystrydd, reuliedydd; yn Hebraeg *Abadon* yw, Dad. ix. 11. Wrth ystyried yr enwau a roddir iddo yn yr ysgrythyr, a c o'u cyd-osod, gwelir mai ysbryd rheddig yw y cythraul, tebygol, o add uchel yn ei sefyllfa ddechreuol, gwybodaeth ehang ganddo, ond yn wbl amddifad o gariad a sancteiddwydd; ac yn llawn llid, malais, a hreulondeb yn erbyn Duw a dyn. reodd Duw ef yn berffaith, yn ogneddus, a *da iawn*, yn mhlith ei mrywiol greaduriaid ereill; ond ni badwodd ei ddechreuad, eithr gadwodd ei drigfa ei hun, ac felly colldd ei holl brydferthwch, ei ogonnt, a'i dduwioldeb; ac wele efe a eth *yn ddrwg iawn*. Trodd y oethineb pur oedd ganddo yn gyfwysdra hudolaidd; trodd ei sanctddrwydd yn aflendid; trodd ei ariad a'i ufudd-dod yn elyniaeth a wrthryfelgarwch. Y mae wedi yned yn ysbryd aflan, ac yn elyn awr i Dduw a'i bobl. Y mae yn ido dynion i bechu yn erbyn Duw, a vedi hyny yn eu cyhuddo am bechu. erchyllâdra a thruenusrwydd ofnlwy pechod! Yr hwn sydd, nid yn ig yn gwneuthur dynion ac angel, y rhai sydd tan ei lywodraeth ef, *fyr* o'r peth oeddynt yn eu creigaeth; ond y sydd yn eu gwneuur yn *gwbl wrthwyneb* i'r peth ddynt, yn mbob peth, Luc ix. 42. at. ix. 34. Dad. ii. 10.

CYWEIRIO, *(cy-gwair)* dodi th mewn trefn, trwsio. "*Cywair* holl wely ef yn ei glefyd," Salm .3. Y mae yr Arglwydd yn cywio, neu yn troi ac yn gwneuthur esmwyth wely y duwiol yn ei fyd, trwy roddi iddo nerth cyfatol, ac amyneddtan ei holl ddydeiadau; trwy amlygu ei gariad lo yn a thrwy ei glefyd; trwy angos iddo y lleshad o'i gystuddau; a thrwy roddi iddo obaith gwynfydedig am waredigaeth gwbl o honynt fel aur wedi ei buro, Rhuf. v. 3, 4, 5. Heb. xii. 5, 6.

CYWILYDD *(cy-gwilydd)*. Nid oedd dim cywilydd, nac achos ei fod, ar ddyn yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd, Gen. ii. 25. Arwydd o anedifeirwch, caledu ac ymlyfnau mewn pechod, ydyw gwrthod cywilyddio, pan fyddo achos cywilydd yn bod, Jer. vi. 15, a viii. 12. Zeph. iii. 5. Da yw bod yn cywilyddio pan fyddom wedi gwneuthur drwg; ond gwell yw bod yn peidio gwneuthur drwg, o'r hyn y mae cywilydd. Y mae rhai gymmaint eu digywilyddra, fel y macnt yn ymogoneddu yn yr hyn y dylent gywilyddio o'i herwydd, sef eu pechod, Diar. xiv. 34. Phil. iii. 19. Judas 13.

CH.

CHERITH, *(torri ymaith)* yr afonig o ba un yr yfodd Elias, tra y bu yn cael ei borthi gan gigfrain, 1 Bren. xvii. 3, 4. Meddylir ei bod yn rhedeg o'r dwyrain i'r Iorddonen, ychydig o du y dehau i Bethsan; ond myn *Bochart* mai yr un â'r afon Canah oedd; a myn *Bunting* ei bod yn rhedeg tua'r dwyrain i'r Iorddonen rhwng Bethel ac Ai.

CHWANNEN, *(chwa*, cyffröad) tryeh-filyn digon adnabyddus, yn peri blinder i amrywiol greaduriaid; ac o ba rai y mae un rhywiogaeth yn chwannog iawn i gynniwair i welyau a feddiennir gan ddynion yn mhymmor yr haf. Y mae Dafydd yn cyffelybu ei hun i un o honynt; yn arwyddo y cai Saul lawer o boen i'w ddal ef; ac mai ychydig a fyddai y budd a dderbyniai trwy hyny, 1 Sam. xxvi. 20.

CHWANT, *(chwan*, cynhyrfiad) blys, y tueddiad anianol wedi ei lygru. Aeth chwant i mewn i galon dyn, pan, dan lywodraeth anghrediniaeth, y daeth efe yn bechadur yn erbyn Duw; yna, wedi llygru yr holl galon, dygwyd dymuniadau cyfreithlon y meddwl i ehaugder pechadurus y CHWANT; a'r ysgrythyrau a sierhant i ni yn awr, mai y cwbl sydd yn y byd yw chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd. Y chwantau hyn wedi ymddwyn, a esgorant ar bechod, a phechod

pan ei gorphener, a derfyna yn marwolaeth, Iago i. 14, 15. 2 Petr i. 4. Rhuf. vii. 7.

CHWAREU, *(chwar,* codiad ebrwydd). 1. Llamsachu, dawnsio, bloeddio, neu ganu: fel hyn y chwaruodd yr Hebreaid o amgylch y llo aur, Exod. xxxii. 6. (2.) Ymladd er difyrwch yr edrychwyr: fel hyn y parodd Abner a Joab i 24 o langciau *chwareu,* nes y lladdwyd hwy oll yn annaturiol, 2 Sam. ii. 14. (3.) Gwneuthur peroriaeth âg offeryn cerdd, Salm xxx. 11, a xxxiii. 3, a c. 4.

CHWEDL, *(chwed,* lleferydd) rhyw ddywediad gwag a disail. Yr oedd gan y Cenedloedd *chwedlau* yn aneirif mewn perthynas i ddechreuad a gorchestion eu duwiau, &c. Nid oedd yr Iuddewon, yn yr oes apostolaidd nemmawr yn ol iddynt am ddychymmygion disail, yn nghylch eu cyfraith eneuol, a thraddodiadau yr henuriaid, &c. 1 Tim. iv. 20. Tit. i. 14. 2 Petr i. 6.

CHWEGR, *(chwag,* hyfryd) mam yn nghyfraith, sef mam gwraig neu ŵr, Ruth i. 14. Mat. viii. 14.

CHWEGRWN, tad yn nghyfraith, Gen. xxxviii. 13.

CHWERTHIN *(chwarth,* troad cylym o'r llais.) Y mae Duw yn *chwerthin* am ben dynion, pan fydd heb ystyried eu blinder, yn dirmygu eu gwrthwynebiad iddo ef a'i bobl, ac yn cymmeryd hyfrydwch yn y gwaith o'u cospi, Job ix. 23. Salm ii. 4, a xxxvii. 3. Diar. i. 26. *Chwerthiniad* dynion a arwydda (1.) Eu gwaith yn llawenychu yn y bendithion a addawir iddynt, neu a feddiennir ganddynt; ac yn eu diogelwch dwyfol rhag trallodion y newyn, yr haint, &c. Gen. xvii. 17, a xxi. 6. Luc vi. 21. Job v. 22. (2.) Eu gorfoledd pechadurus, eu ammheuaeth am gyflawniad Duw o'i addewidion, neu eu diystyrwch o ddynion ereill, Gen. xviii. 12, 13, Luc vi. 25. *Os chwarddwn arnynt hwy, ni chredent; ac ni wnaent hwy i lewyrch fy wyneb syrthio.* Pan yr edrychwn yn siriol arnynt, neu lyd yn nod yr ymddigryfwn yn ddiniweid â hwynt, ni ddeuent yn rhyfygus, neu yn rhy rydd eu hymddygiad tuag attaf, ond tybient fod genyf feddwl difrifol, ac yr oeddynt yn ofni camddefnyddio fy ngwenau, Job xxix. 24. *Ië, wrth chwerthin y bydd blin ar y galon;* yn nghanol gorfoledd pechadurus neu ormodol, fe a frâth cydwybod ddrwg yn fynych, a thrallodion athrist a ddygwyddant, Diar. iv. 13. *Chwerthin sydd yn fyd, ac fel clindarddach drain;* llawenydd ynfyd a gormodol, yn dangos un cyn belled â hyny yn amddifad o reswm, sydd yn beryglus iawn i ymyrraeth âg ef, ac fel y mae yn ddisynwyr, felly y mae yn fyr-hoedlog, Preg. ii. 2, a vii. 6.

CHWERW, *(chwar, codiad buan)* a arwydda yr hyn sydd yn wrthwyneb i felus, ac yn anbyfryd iawn i'r archwaeth, Exod. xv. 23. (2.) Peth pechadurus iawn, anghymmeradwy gan Dduw, a niweidiol i ddynion, Jer. ii. 13. (3.) Peth poenus a gofidus iawn, Amos viii. 10. (4.) Anynad, maleisus, ffyrnig, Iago iii. 14. (5.) Gyda difrifwch a gofid mawr, Zeph. i. 14. Job xxiii. 2. Y dwfr a arferid i brofi godineb a elwir yn *chwerw;* nid cymmaint o ran ei flas ag o ran y canlyniadau ofnadwy a phoenus, os byddai y person yn euog, Num. v. 11. Galar mawr, tristwch, drygioni, dryg-ewyllys, a chenfigen, a elwir yn *chwerwder;* i nodi pa mor anbyfryd a niweidiol ydynt, Esa. xxxviii, 17. Job vii. 11. 1 Sam. i. 10. Act. viii. 23. Heb. xii. 15. Eph. iv. 31.

CHWIBANU, *(chwib,* pibell) seinio yn debyg i chwibanogl. *Hysio* un allan o'i le, yw ei yrru ymaith gyda bloedd o ddiystyfwch ac anmharch, Job xxvii. 23. Yr oedd Babilon a Jerusalem yn *chwibaniad,* pan y gwnaed hwy yn wrthddrychau o watwar mwyaf dirmygus, yn nghanol eu cyfyngder a'u distr, Jer. li. 37, a xiv. 8. Duw yn *chwibanu* ar yr Assyriaid a'r Aiphtiaid, a arwydda ei waith yn eu galw ac yn eu dwyn yn nghyd i ddyfetha y cenedloedd, cyn hawdded âg y bydd dynion mewn rhai manau yn casglu gwenyn â sain chwibanogl, Esa. v. 26, a vii. 18. Ei waith y *chwibanu* ar yr Iuddewon gwasgaredig, a arwydda ei ddygiad esmwyth a nerthol o honynt yn ol yn finteioedd o'u caethiwed yn ngwlad y Caldeaid ac o'u gwasgariad presennol, Zech. x. 8.

CHWILIO, a arwydda, (1.) O rhain yn ofalus, a cheisio yn ddyfal

ldeall peth, Lef. xxvii. 33. Ioan
. 39. (2.) Edrych gyda gofal
nawr, mewn trefn i wybod natur
eth, Num. xiii. 2. (3.) Ceisio,
ael, neu ddal, 1 Sam. xxiii. 23.
Iwaith Duw yn *chwilio* am bethau,
arwydda ei berffaith wybodaeth
m danynt, a'i amlygiad o honynt i
reill, Zech. i. 12. Dad. ii. 23. 1
Cor. ii. 10. Ei waith yn *chwilio* am
dynion, a arwydda ei ofal i'w gwar-
du, neu ei frwdfrydedd i'w cospi yn
ffeithiol, Ezec. xxxiv. 11. Amos
x. 3. Nid wrth *chwilio* y cafodd
Duw eilunaddoliaeth a drygioni yr
uddewon allan, am ei fod mor ag-
red ac amlwg i bawb, fel nad oedd
ngen chwilio am dano, Jer. ii. 24.
Vrth *chwilio* yr henafiaid y medd-
lir ymofyn yn ddyfal i'w barnau,
'r pethau a ddygwyddasant iddynt,
ob viii. 8.

CHWYDU *(chwyd,* bwrw allan).
' mae Duw yn *chwydu* eglwys allan
'i enau, pan, gyda ffieiddiad o'i
hechod, y bydd yn ei rhoddi i fynu
fod yn synagog Satan, Dad. iii. 16.
' mae dynion yn *chwydu cyfoeth,*
an fyddont, er eu tristwch a'u cyw-
ydd, yn gorfod ymadael âg ef, i
reill, Job xx. 15. Diar. xxv. 16.
' mae dynion yn *yfed,* yn *chwydu,*
c yn *syrthio,* pan fydd barnedig-
ethau Duw yn eu gwneuthur yn
'rdan, gwaradwyddus, a thruenus,
er. xxv. 27. Hab. ii. 16. Y mae
ynion yn dychwelyd at eu *chwyd-*
d, pan fyddont yn dychwelyd at eu
arferion pechadurus, y rhai a ad-
wsent unwaith, ac a fuasent yn
ist o'u hachos, Diar. xxvi. 11.
Petr ii. 22. *Ymdrybaeddusant*
eu chwydfa, pan osodwyd hwy
agored i'r cyfyngder mwyaf
varthus, Jer. xlviii. 26. Y mae
yn *chwydu* ei drigolion, pan
ddont yn cael eu bwrw allan o
no yn llidiog, trwy laddfa a
aethiwed, Lef. xviii. 28.

CHWYDDO, *(chwy,* symmudiad)
arwydda, (1.) Cyfodi yn chwys-
enau, neu megys toes lefeinllyd,
ent. viii. 4. (2.) Cyfodi yn uwch
g arferol; felly yr oedd yr Ior-
onen yn *chwyddo,* pan y toddai yr
a ar fynydd Libanus, ac yn llifo
os ei thorlannau, ac felly yn tarfu y
wod o'r prysglwyni gerllaw iddi,
Cron. xii. 15. Yn y modd hwn y
rescynodd y Caldeaid y gwiedydd
o amgylch; ac y gorescynodd y Mediaid Caldea, ac y dinystriasant neu y gyrasant y trigolion allan, Jer. xlix. 19, a l. 44. *Ymchwydd yr Iorddonen* a arwydda trallod dirfawr, trwy ba un nid oes braidd un mynedfa, megys pan gaethgludwyd yr Iuddewon i Babilon, Jer. xii. 5. *Ymchwyddiadau* ydynt ddigofaint ffroen-uchel a chenfigenus at ereill, 2 Cor. xii. 20. *Chwyddedig eiriau* yw ymffrost balchaidd hereticiaid o'u synwyr nodedig; neu eu hiaith uchel chwyddedig, ac heb ystyriddi; neu eu cableddau ysgeler yn erbyn Duw, ei achos, a'i bobl; neu y cyfenwau uchel a gymmerant iddynt eu hunain, ac a roddant i'w hanwyliaid, 2 Petr ii. 18. Judas 16.

CHWYS, *(chwy)* a arwydda, (1.) Y lleithder sydd yn tarthio allan o'r mân-dyllau yn nghorph dyn ac anifel pan dwymno trwy lafur blinderus neu wres, ac hefyd y cyfryw lafur caled ag sydd yn peri chwys, Gen. iii. 19. Ein Hiachawdwr pan yn cael ei wasgu gan bwys digofaint ei Dad, a *chwysodd* megys dafnau mawrion o waed pan yn gorwedd ar y ddaear, ar noswaith oer, Luc xxii. 44. Y mae dychryn wedi peri i ddynion, weithiau, chwysu gwaed. Gweinidogion yr efengyl heb *ymwregysu â'r hyn a baro chwys,* a arwydda nad ydynt dan awdurdod diogi, i wneuthur eu gwaith yn flinderus iddynt; neu eu bod â'u bryd ar hunan-gyfiawnder a choelgreffydd, i weithio pa un allan, nid yw dynion ond chwysu eu llygredigaeth eu hunain allan yn flinderus, Ezec. xliv. 18.

CHWYTHU *(chwy). Anadliad* yr Ysbryd Glân, yw rhoddiad dirgelaidd o'i allu i maes, er argyhoeddi, puro, adfywio, a chyssuro ei bobl, Can. iv. 16. Ioan iii. 8. Gwaith Duw yn *chwythu* ar feddiannau dynion, neu *chwythiad ei Ysbryd* arnynt, a arwydda ei ddistrywiad hawdd, disymmwth, dirgelaidd, a chyflawn o honynt hwy a'u meddiannau, Hag. i. 9. Esa. xl. 7, 24. Mewn perthynas i ryfel, yr oedd *chwythiad yr udgorn,* yn arwyddo agoshad y gelynion; neu alwad i ymfyddino i'w gwrthwynebu, Jer. vi. 1. Hos. v. 8. *Chwythiad yr udgyrn arian,* neu y *cyrn hyrddod,* gan yr offeiriaid wrth Je-

richo, ac ar yr uchel-wyliau a'u cychwyniadau i ryfel, oedd yn rhagddangos pregethiad yr efengyl i orchfygu pob gwrthwynebiad, ac i wahodd pechaduriaid i wledda ar eu gelynion ysbrydol, ac i ryfela yn eu herbyn gyda Christ, Num. x. Jos. vi.

D

DA, a arwydda (1.) Yr hyn sydd gymmwys, ac yn atteb i'w ddyben priodol; felly yr oedd pob peth ar y cyntaf yn *dda* bob yn un; ac yn *dda iawn* mewn cyssylltiad, Gen. i. Nid *da* oedd bod dyn yn unig heb wraig, Gen. ii. 18. Dynion annuwiol a geisiant unrhyw beth *daionus*, hyny yw, a fyddo hyfryd neu gydunol â'u chwantau cnawdol hwy, Salm iv. 6. (2.) Sanctaidd, rhinweddol; felly nid all dynion drygionus wneuthur *daioni*, Salm xiv. 1, 2. Ni a ddylem gilio oddi wrth ddrwg, a gwneuthur *da*, Salm xxxiv. 14. Yr oedd Barnabas yn wr *da*, Act. xi. 24. (3.) Haelionus, trugarog; dros y cyfryw ddyn *da* fe a feiddiai un farw, Rhuf. v. 7. Y mae *daionus* law Duw ar ddynion, pan y bydd yn ymddwyn yn garedig tu ag attynt, Neh. ii. 8. (4.) Buddiol a chyfleus am yr amser hwn; felly yn amser erlidigaeth, nid *da* priodi, 1 Cor. vii. 1. Nid *da* oedd i Moses farnu pob achos o eiddo yr Hebreaid, Exod. xviii. 17. Gwaith Mair yn enneinio Crist a'i hennaint oedd yn weithred *dda*, Mat. xxvi. 10. (5.) Cyfreithlawn i'w arfer; felly y mae pob creadur o eiddo Duw yn *dda*, pan y cymmerir ef trwy dalu diolch, 1 Tim. iv. 4. Y mae rhyddid Cristionogol yn *dda*, pan na byddwn, trwy ei gam-ddefnyddio, yn peri iddo gael ei gablu, Rhuf. xiv. 16. Nid oes neb *da* ond Duw; nid oes neb ond efe yn anfeidrol, annibynol, ac anghyfnewidiol dda; y mae efe yn ddaionus i'w greaduriaid, ac oll yn sanctaidd, a hyfryd annhraethadwy i'r sawl a'i mwynhant ef, Mat. xix. 17. Salm cxix. 68. Crist, a chyflawnder iachawdwriaeth Duw ynddo ef, ydynt y pethau *daionus* a ddylem geisio, ac nad ellir byth eu cymmeryd oddi arnom, Amos v. 14. Mic. vi. 8. Luc x. 42. *Daioni* Duw yw rhagoroldeb hyfryd, yn nghyd â grâs, trugaredd, a haelioni ei natur, a'r bendithion a ddylifant i greaduriaid oddi wrtho, Salm lii. 1. *Daioni* dynion yw eu tueddiadau a'u hymarweddiad sanctaidd, defnyddiol, caredig a hyfryd, Rhuf. xv. 14. Eph. v. 9. Yr hyn a fedd dynion, megys eu dodrefn, eu golud, neu eu hunangyfiawnder a'u hunan-dyb, yw eu *da*, Luc xii. 19. Dad. iii. 17.

DABERATH, *(peth)* dinas yn agos i droed mynydd Tabor, yn ngwastadedd ehang Jezreel. Ai yr un oedd hi â'r hon a roddodd llwyth Issachar i'r Lefiaid, sydd annilys, Jos. xix. 11, 12, a xxi. 28. Yr oedd pentref o'r enw Daberath yn y parthau hyn, nid amser mawr yn ol.

DADGÜDDIO, amlygu peth ag oedd o'r blaen yn guddiedig neu yn anadnabyddus, Rhuf. ii. 5. Y mae Crist yn cael ei *ddadguddio*, pan y bydd Duw yn achubol oleuo meddyliau dynion mewn gwybodaeth achubol o Grist, Gal. i. 16; a phan y bu, trwy farnedigaethau arswydus ar y genedl Iuddewig, yn amlygu ei allu a'i Dduwdod, Luc xvii. 30; a phan y daw yn gyhoeddus, yn y dydd diweddaf, i farnu y byd, 2 Thes. i. 7. Y mae *braich yr Arglwydd yn cael ei ddadguddio*, pan y bydd Crist yn cael ei arddangos yn achubol, a phan y bydd gallu Duw yn ei effeithiau nerthol yn cael ei deimlo yn achubol, pechodau eu maddeu, y gydwybod ei phuro, a'r galon ei chyfnewid, Esa. liii. 1. Y mae ei *gyfiawnder yn cael ei ddadguddio*, pan y bydd ufudd-dod a dyoddefaint Crist, yn mha rai y mae uniondeb anian a chyfraith Duw yn ymddysgleirio, yn cael eu hamlygu a'u cynnyg i bechaduriaid, Esa. lvi. 1. Rhuf. i. 17. Y mae y nefoedd yn *dadguddio anwireddi dynion*, pan y bydd Duw yn ei ddwyn i'r goleuni, ac yn eu cospi yn nodedig am dano, Job xx. 27. Y mae digofaint Duw *yn cael ei ddadguddio o'r nef yn erbyn pob anghyfiawnder*, pan, trwy frathiadau cydwybodau pechaduriaid, a'i farnedigaethau arnynt, y bydd yn eglur ddangos ei anfoddlonrwydd i'w hymddygiadau, Rhuf. i. 18. *Dadguddiwyd y dyn* pabaidd *pechod*, pan yr ymddangosodd efe yn nodedig megys pen yr eglwys, neu megys tywysog gwladol, 2 Thes. ii. 8. Y mae dynion yn *dadguddio*

eu cwyn i Dduw, pan fyddont yn ei osod ger ei fron mewn gweddi, Jer. xi. 20. Trwy ddyfodiad Crist i'r byd, a'r pregethiad o hono yn yr efengyl, *dadguddir* meddyliau llawer o galonau; y mae cydwybodau rhai yn cael eu chwilio yn gyflawn gan ei air ef; ac amryw trwy y prawf a roddant o barch neu gasineb iddo, a fynegant pa beth sydd yn eu calonau, Luc ii. 35. Câ gwaith pob dyn ei broft *a'i ddadguddio trwy dân;* trwy dân gair Duw yn ei broft, trwy brofedigaethau ac erlidigaethau tanllyd, ac yn enwedig trwy y profiad trwyadl yn y farn ddiweddaf, caiff ei anian a'i gynneddf eu harddangos yn amlwg, 1 Cor. iii. 13. Unrhyw amlygiad digyfrwng o feddwl Duw a elwir yn *Ddadguddiad*, Gal. i. 12. 1 Cor. xiv. 6, 26; ond y llyfr diweddaf o'r ysgrythyr, yn mha un yr amlygodd Duw i Ioan yr apostol luaws o bethau perthynol i'w ewyllys a'i arfaeth tuag at yr eglwys, a elwir felly yn neilduol, Dad. i. 1. Ar ol rhagymadrodd a darluniad o weledigaeth a gafodd Ioan o Iesu Grist yn ynys Patmos, cynnwys saith o epistolau at eglwysi Asia, sef Ephesus, Smyrna, Pergamos, Thyatica, Sardis, Philadelphia, a Laodicea, yn mha rai y mae Iesu yn canmawl eu gweithredoedd da, yn ceryddu eu diffygion, yn galw arnynt i ddiwygio, ac yn eu gwroli tan eu profedigaethau, pen. i, ii, iii. Yn pen. iv, a v, cawn arweiniad i mewn i'r rhan brophwydoliaethol o hono, yn cynnwys gweledigaeth o Dduw ar ei orsedd, ac yn cael ei glodfori gan weinidogion a saint; ac o waith Crist yn agor llyfr ei arfaethau â saith sêl iddo, er gorfoledd mawr i'r angelion a'r gwaredigion. Yn pen. vi, y mae genym agoriad chwe sêl, yn arddangos cyflwr yr eglwys, ac amherodraeth Rhufain, o escyniad Crist, hyd ddiwystr y flurf-lywodraeth baganaidd o'r amherodraeth, o ddeutu A.D. 323. Yn pen. vii, y mae darluniad cysgodol o ddiogelwch y saint dan yr udgyrn, a'u dedwydd ymwared allan o'u holl gystuddiau. Yn pen. viii, a ix, y mae agoriad y seithfed sêl, ac udganiad chwech udgorn, trwy ba rai y gosodir anffodau yr eglwys allan, o achos yr Ariaid, Donatiaid, y Morganiaid, y Pabyddion, a'r Saraceniaid; a thynged amherodraeth Rhufain, gan y Gothiaid, y Vandaliaid, yr Huniaid, yr Heruliaid, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid, o A.D. 323, hyd 1866, neu 2016. Yn pen. x, y cawn weledigaeth ragarweiniol arall o Iesu Grist â llyfr bychan agored yn ei law, (gan fod y seliau yn awr wedi eu dattod) yn cynnwys amlygiad pellach o ddygwyddiadau rhagluniaethol. Yn pen. xi, y mae genym olwg ar ddechreuad, awdurdod, parhad, a gwrthwynebiad Anghrist, ac ar ei gwymp, yn nghyd â'r Mil Blyneddoedd gogoneddus; ac felly cyrhaedd o A.D. 606, hyd ddiwedd y 1000 blyneddoedd teyrnasiad y saint; ac o honi, nid yw o pen. xiii, hyd y xxii, ond eglurhad. Yn pen. xii, y mae genym olwg ail-adroddedig ar gyfiwr yr eglwys tan Baganiaeth ac Anghrist. Yn pen. xiii, a xiv, y mae genym olwg ar ddechreuad Anghrist yn ei awdurdod gwladol ac eglwysig, yn nghyd â rhag-arwyddion, rhybuddion, ac arddangosiadau cysgodol o'i ddinystr. Yn pen xv, a xvi, y mae genym y darpariaeth, yn nghyd â thywalltiad phiolau dinystriol llid Duw allan ar Anghrist. Yn pen. xvii, xviii, a xix, y dangosir nodau Anghrist, yn nghyd âg achosion a natur arswydus ei ddadymchweliad, a gofid ei gyfeillion, a gorfoledd y saint o achos hyny. Yn pen. xx, gosodir y Mil Blyneddoedd gogoneddus a'r farn ddiweddaf allan. Yn pen. xxi, a xxii, yr arddangosir ddedwyddwch y Mil Blyneddoedd a'r cyflwr tragwyddol, a chyhoeddiad arswydus o ddigofaint i'r sawl a dynnai oddi wrth eiriau Duw, neu a ychwanegai attynt.

DADLEU, amryson. Y mae Duw yn *dadleu* â dynion, pan y bydd, trwy ei air, ei Ysbryd, a'i ragluniaeth, yn eu hargyhoeddi o'u pechod, ac yn eu ceryddu am dano, neu pan fydd yn eu ceryddu neu yn eu cospi â'i farnedigaethau, Esa. iii. 13. Jer. ii. 9. Y mae efe yn *dadleu dros ei bobl*, pan fydd yn dadguddio eu cyfiawnder, yn uniawni eu cam, ac yn cospi eu gelynion, Salm xxxv. 1, a xliii. 1. Gal. iii. 38. Proffeswyr a *ddadleuant â'u mam*, pan yr ymroddant i arfer pob moddion ennillgar er diwygio eu heglwys neu eu cenedl, Hos. ii. 2.

DADWINO, *(edwin*, gwywol)

pallu, diflannu, heneiddio, treulio, Salm xxxi. 9.

DAEAR, a arwydda (1.) Y corph mawr a thrwm hwnw o bridd, cerrig, &c. pa un sydd yn cynnal ein traed, ac yn gweini maeth i ni, Gen. i. 10. (2.) Y bydysawd cyfan o fôr a thir yn nghyd, Gen. i. 1. (3.) Trigolion y ddaear, Gen. xi. 1. Salm xcvi. 1; neu y rhan annuwiol o honynt, Esa. xi. 4. Dad. xiv. 3. (4.) Rhyw ran o'r ddaear, megys gwlad Judea, amberodraeth Assyria, Babilon, neu Persia; ac mewn rhai o'r manau hyn, buasai yn fwy eglur pe cyfeithasid y gair Hebrêig *erats* yn *tir*, Rhuf. ix. 28. Salm xlviii. 2. Esa. x. 14. Jer. li. 8, 25, 49. Zech. i. 14. Ezra i. 11. (5.) Cyfiwr isel a gwael, Dad. vi. 13, a xii. 13. (6.) Dychymmygion, bwriadau, tymherau, a mwyniant cnawdol, Ioan iii. 31. Dad. xii. 4, a xiii. 11.

Y mae y ddaear agos yn hollol gron; nid yw llinell gyhyddedd ei hydred, neu ei chylch o'r dwyrain i'r gorllewin, ond o ddeutu 107 o filltiroedd yn hwy na llinell gyhyddedd ei lledanedd, o begwn y gogledd i begwn y dehau; ac nid yw y mynyddoedd yn anafu ei dull crynnaidd fymryn mwy nag y gwnai penau pinau bychain ar eur-afal (*lemon*). Ei chylch, gan ganiattâu yn agos i 69½ o filltiroedd i bob un o'r 360 gradd, sydd dros 25,000 o filltiroedd; ei thryfesur sydd yn 7957¾ o filltiroedd; ei harwyneb yn 199½ o fyrddiynau o filltiroedd pedair-onglog; a'i chynnwysiad o ddeutu 264 mil o fyrddiynau o filltiroedd cyfain. Y mae yn nghylch tair rhan o bedair o'n daear ni, os nid llawer yn ychwaneg, yn orchuddiedig gan ddwfr; ac heblaw hyn, y mae dyfnder mawr o ddwfr yn ei chrombil hi, i ba un nid yw wyneb y ddaear ond megys plisgyn; ymddengys i hwn gael ei ddryllio yn amser y dylif, fel y gallai dyfroedd y *dyfnder mawr* ffrydio allan a gorlifo y ddaear. Er, tebygol, fod cyfandir chang yn y Mor-oedd Deheuol, o ba un Holand Newydd yw y parth gogleddol; etto hyd yn hyn nid ydym wedi cael ond yr *Hen* gyfandir allan, yr hwn a gynnwys Asia, Affrica, ac Europe; a'r *Newydd*, yn cynnwys America Ddeheuol a Gogleddol. Y ddau gyfandir hyn yn nghyd, yn ol barn rhai, a gynnwysant yn nghylch 50 neu 54 myrddiwn o filltiroedd pedair-onglog. Dywedir pe dosperthid y cwbl yn 300 o ranau, y byddai i Asia 101, America 90, Affrica 82, ac Europe 27. Ond, ar olygiaeth mwy manwl, daw y rhan gyfaneddol o'n daear ni i 39 myrddiwn o filltiroedd pedair-onglog, a'r moroedd a'r gwledydd anadnabyddus i 160½ o filltiroedd pedair-onglog. Y mae yn nodedig, i'r dyben o gyfartalu y ddaear yn well, pe tynid llinell, ar yr hen gyfandir, o eithafoedd gogledd-ddwyreiniol Tartary i Benrhyn y Gobaith Da, y byddai yn agos yr un faint o dir ar y naill du â'r llall iddi. A'r un peth a ddygwyddai yn America pe tynid llinell, mewn croes gyfeiriad, o flaen dehau-ddwyreiniol Rio de la Plata, i yn mhell tu hwnt i'r llynau, o du y gogledd-orllewin i Canada. Gellir sylwi hefyd, pe ychwanegid amdreigliad dydd ol y ddaear, y chwyddai y môr wrth linell y cyhydedd, ac y gorlifai y tir sych yno: neu, pe lleiheid ef, y gostyngai y môr wrth linell y cyhydedd, a gorlifai y tir sych gerllaw y pegynau. Ïe, pe ychwanegid symmudiad cylchdroawl y ddaear yn fawr iawn, gallai y môr ebedeg ymaith oddi ar y ddaear yn hollol, megys y gwna dwfr oddi ar faen llifo pan y cylchdröir ef yn chwyrn; ond y mae Duw, trwy gyfartaliad priodol o dneddiad canol-bwysol a chanol-ochelol, wedi ei gau i fynu â *dorau*, ïe, hyd yn nod â *dorau a throsolion*, Job xxxviii. 8—10.

Tua 2000 o flyneddoedd yn ol, dechreuwyd meddwl fod yr haul yn sefyll yn llonydd, a bod gan y ddaear symmudiad deublyg, y naill o amgylch ei phegwn ei hun bob dydd, a'r llall o amgylch yr haul unwaith bob blwyddyn. Y goelgrefydd Bagan aidd a Phabyddiaeth a rwystrasant yr athronyddion yn hir rhag olrhain y farn hon yn mhellach. Er amser y Diwygiad y mae wedi ennill tir yn raddol, nes yw wedi dyfod yn dyb cyffredinol pob athronydd synwyrgall.

DAEAR-GRYN, rhyw ysgydwad ofnadwy yn y ddaear, a achlysurir gan symmudiad awyr neu ddwfr, neu gan gynneuad mygfeini yn ei chrombil. Daear-grynfäau ydynt

fath o daranau dan y ddaear. Pe y cymmysgid yr un faint o lwch haiarn a mygtaen *(sulphur)* yn nghyd, a'i wlychu âg ychydig ddwfr, a'i guddio yn y ddaear, parai ysgydwad bychan, cyffelyb i eiddo daear-gryn. Gwledydd lle y mae helaethrwydd o fygfeini, neitr, neu gellystr yn nghrombil y ddaear; a lle y mae amledd o geudyllau mewn creigiau, ydynt fwyaf darostyngedig i ddaear-grynfâau. Weithiau bydd symmudiad daear-grynfâau yn uniawn-syth, yn taflu pethau yn gywir i fynu; weithiau yn gydwastad â'r terfyngylch, yn eu gwthio i'r naill ochr. Daear-grynfâau ydynt un o'r ymddangosiadau mwyaf ofnadwy yn naturiaeth. Mynych y llyngcasant ddinasoedd cyfain, ac y dyfethasant y wlad oddi amgylch. Hwyrach i Sodoma a'i chyd-ddinasoedd gael eu llyngcu gan un, a'u troi yn llyn sefydlog o ddwfr. Yn nyddiau Uzziah, dywedir i ddaear-gryn arswydus yn Jerusalem hollti mynydd yn y gorllewin i'r ddinas ar draws ei hanner, a symmud un rhan o hono o ddeutu hanner milltir o'i lle, Amos i. 1. Zech. xiv. 5. O ddeutu A. D. 19, dadymchwelodd daear-gryn arswydus i 2 neu 13 o ddinasoedd Asia Leiaf. Pan y bu farw ein Hiachawdwr, dygwyddodd daear-gryn ddychrynllyd, yr hon, dywedir, a deimlwyd dros yr holl fyd, ac a rwygodd y creigiau mewn modd goruch-naturiol, Mat. xxvii. 51. Ychydig cyn dinystr Jerusalem, dygwyddod lluaws mawr o ddaear-grynfâau yn Crete, Miletus, Cios, Samos, yn Smyrna a Rhufain, ac yn Campania a Judea. Laodicea, Hierapolis a Colosse yn Asia Leiaf, a ddadymchwelwyd yn llwyr, Mat. xxvii. 7. Y daear-grynfâau mwyaf arswydus yn ddiweddar oeddynt yr un a fu yn Sicily yn y flwyddyn 1692, yn yr hon y trengodd yn nghylch 60,000 o ddynion: ac yn Catanea, ni achubwyd mil o bedair mil ar bymtheg; y rhai a funant yn Jamaica yn y fl. 1692: yr un a fu yn Lima yn y fl. 1687, yn yr hon y trengodd o ddeutu 5000; yr un a fu yn Portugal yn y fl. 1755, yn yr hon y lladdwyd llawer o filoedd; a'r un a fu yn Syria yn y fl. 1759, yn yr hon y trengodd o ddeutu 30,000 o ddynion.

Ymddangosiadau arswydus o eiddo rhagluniaeth, a barnedigaethau dychrynllyd a osodir allan megys *daear-grynfâau*; o herwydd, trwyddynt hwy, y mae mynyddoedd sefydlog, gwladwriaethau, cenedloedd, llywodraethwyr, a chyfreithiau, yn cael eu dadymchwelyd yn llwyr, Salm xviii. 7, a xlvi. 2, a civ. 32. Esa. xxix. 6. Dad. viii 5, a xi. 13, 19, a vi. 12, a xvi. 18.

DAFAD, DEFAID, *(daf*, daioni) math o greaduriaid tra glân, amynedd gar, diniweid, defnyddiol, ac agored i beryglon. Gynt yr oedd mawr olud hyd yn nod breninoedd a thywysogion yn gynnwysedig mewn defaid, geifr, &c. 2 Bren. iii. 4. Mewn rhai gwledydd, dywedir fod eu cynffonau yn fawrion iawn, ac wedi eu gorchuddio trostynt oll â gwêr. Yn Madagascar, pwysa y cynffonau hyn weithiau o ddeutu 16 pwys. Yn Arabia a Syria, y mae rhai o honynt yn dri chufydd o hyd, ac yn pwyso o ddeutu 25 neu 30 pwys; a dywedir fod ganddynt fyrddau ar olwynion bychain oddi tanynt, rhag, wrth lusgo ar y ddaear, iddynt fyned yn gornwydlyd. Dywed *Kinson* fod rhai yn Tartary, â'u cynffonau yn pwyso 80 o bwysau ond prin y gallwn gredu hyn oll. Hyrddod ydynt y defaid gwrryw heb eu dyspaddu, y rhai ydynt yn ymladdwyr ffyrnig ac angerddol. Yn Mesopotamia, yr Ital, &c. y mae y mammogiaid yn dwyn eu hŵyn ddwywaith yn y flwyddyn. Yr oedd yr holl ddefaid a offrymid yn yr hen aberthau, yn arddangos Crist. Cyffelybir ef a'i bobl i *ddefaid* ac *wyn*, i nodi eu diniweidrwydd, eu hamynedd, eu defnyddioldeb, a'u darostyngiad i amrywiol drallodau a gelynion, Esa. liii. 7. Ioan x. 1—26, xxi. 15—17. Crist yw *Oen* Duw, yr hwn a ddarparodd efe, ac aberth pa un a foddlonodd ei gyfiawnder troseddedig yn gyflawn, Ioan i. 29. Dynion yn gyffredinol a gyffelybir i *ddefaid* ac *wyn*, i nodi eu hurtrwydd, eu gwendid, eu darostyngiad i berygl, a'u hangen am lywodraeth, 1 Bren. xxii. 17. Esa. lx. 7. Hos. iv. 16: neu o herwydd eu diniweidrwydd a'u gwiriondeb o ran rhyw bechod neilldiol, 2 Sam. xxii. 17. Pechaduriaid a gyffelybir i *ddefaid*, i arwyddo eu diofalwch, eu parodrwydd i grwydro, eu dar-

ostyngiad i ddinystr, eu hanalluogrwydd i amddiffyn neu ddyfod attynt eu hunain, a'u hangen am gael eu hachub, eu harwain, a'u meithrin gan Iesu y Bugail mawr, Salm xlix. 14. Esa. liii. 6. 1 Petr ii. 25. Luc xv. 4—6. Yr *hyrddod*, y *geifr*, a'r *wyn*, ydynt yn dynodi yr amrywiol ddosparthiadau o bobl mewn gwlad; sef mawrion a galluogion, neu dlodion a gweiniaid, a llai neu fwy diniweid, Esa. xxxiv. 6, 7, a lx. 7. Ezec. xxxiv. 17, a xxxix. 18. Darius, a'i ddwy freiniaeth, sef Persia a Media, a gyffelybir i *hwrdd deugorn*, yn gwthio ei fuddugoliaethau tua'r gogledd, tua'r gorllewin, a thua'r dehau, ond cafodd ei dinystrio gan y Groegiaid, Dan. viii. 3. Gwragedd a gyffelybir i *wyn*, o herwydd eu bod yn fwynion, yn heirdd, ac yn hawdd i'w trin, 2 Sam. xii. 3, 4. Anghrist a gyffelybir i *oen â dau gorn* ganddo; y mae efe yn traws-feddiannu lle Crist, ein haberth mawr ni; y mae yn ffugio gostyngeiddrwydd, defnyddioldeb, a sancteiddrwydd mawr, ac yn honni hawl i awdurdod deublyg, sef gwladol ac eglwysig, Dad. xiii. 11.

Cur-hyrddod oeddynt fath o offer rhyfel a arferid gan yr henafiaid i wneuthur adwyau yn nghaerau dinasoedd. Trawstiau dirfawr eu maint oeddynt, yn gyffelyb i hwylbrenau llongau, â haiarn am eu penau, rywbeth yn debyg i eiddo hwrdd. Gwelir ei grogi â rhaffau wrth drawst croes arall, yn gynnaliedig gan bolion, a'i gydbwyso yn gywir, byddai lluaws o ddynion yn ei wthio yn ol ac yn mlaen, ac felly yn curo ar y gaer â'i ben haiarn ef nes y gwnaent adwy yuddi. Yn y cyfamser, gorchuddid gwthwyr yr hwrdd â math o glawr wedi ei wneuthur o goed a chlwydau, yr hwn a elwid y *vinea*, i'w hamddiffyn rhag piccellau y gwarchaeedig, neu y cerrig a deflid ganddynt. Bu ganddynt, wedi hyny, gur-hyrddod a redent ar olwynion. Pa un ai gan Epæus y Groegwr wrth warchae ar Gaerdroya, neu gan y Carthaginiaid, wrth warchae ar Cadiz, y dyfeisiwyd yr hyrddod hyn, nis gwyddom. Dilys yw nad oes un awdwr o flaen Ezeciel yn crybwyll am danynt, Ezec. iv. 2, a xxi. 20.

DAFYDD *(anwylyd)*. O'r holl enwogion a grybwyllir gan Paul yn Heb. xi. 32, nid oes un yn fwy haeddiannol o'n hystyriaeth na Dafydd, fel cysgod o wir anwylyd yr Arglwydd, a'r gwr yn ol calon Duw; fel yn gyssylltiedig â chyfran fawr o brophwydoliaethau ysgrythyrol, ac fel darlun ardderchog o natur ddynol; neu, a llefaru yn fwy eglur, o bechadur euog wedi cael ei arwain ymaith gan ei chwantau ei hun, a'i lithio, etto yn cael ei gynnal trwy yr efengyl. Yn anwybodus am sylfaen gobaith pechadur; ac heb wybod yr ysgrythyrau, na gallu Duw; y mae hanes Dafydd wedi cael ei gamddefnyddio yn fawr gan y byd hunangyfiawn ar y naill law, a chan yr anghredadyn ar y llaw arall. Rhoddwn y crynodeb canlynol o'i hanes ger bron ein darllenwyr, yr hwn a adroddwn, yn gyntaf, yn ei ddull ysgrythyrol, ac yna a ystyriwn yn fwy neilldiol.

Dafydd oedd fab ieuangaf Jesse, o lwyth Judah, a anwyd yn Bethlehem, A.M. 2919. Dim cynt y gwrthodasai yr Arglwydd Saul, nag yr anfonodd efe Samuel, er mwyn ei gyssuro, i enneinio un o feibion Jesse i'r freiniaeth. Cyflwynwyd saith brawd henaf Dafydd ger bron y prophwyd hwnw, ond addysgwyd ef gan Dduw nad un o honynt hwy oedd y pennadur bwriadol. Dygwyd Dafydd adref oddi wrth y defaid, a thrwy gyfarwyddyd Duw, enneiniwyd ef i fod yn frenin ar Israel pan oedd yn nghylch 22 oed. Ar ol hyn, dychwelodd Dafydd at ei braidd; ond dechreuodd Ysbryd Duw ei gymmwyso ef i'w swydd ddyfodol. Yn y cyfamser ymadawodd ysbryd llywodraeth oddi wrth Saul; ac ysbryd drwg, yr hwn a barai ynddo brudd-glwyf dwfn, a'i blinodd ef. Dygwyd Dafydd, yr hwn oedd yn gerddor rhagorol, i'w ddifyru ef â'i gerddoriaeth. Ei brydfertwch, ei ymarweddiad pwyllog, a'i gerddoriaeth felus, yn ebrwydd a ennillasant iddo ewyllys da Saul, ac efe a ddaeth yn arf-gludydd iddo. O'r diwedd, ymadawodd prudd-glwyf Saul, a Dafydd a ddychwelodd at ei braidd.

Pan ddywedir yn 1 Sam. xvi. 14, i Ysbryd yr Arglwydd gilio oddi wrth Saul, ac i ysbryd drwg oddi wrth yr Arglwydd ei flino, deallwn

i'r Arglwydd attal oddi wrtho effeithiau a dylanwadau cyffredinol ei Ysbryd a roddasid iddo o'r blaen, a'i roddi i fynu i lywodraeth y diafol, a nwydau afreolus ei galon, y rhai, ar amserau, oeddynt yn gweithredu mor gryf arno fel ag i'w yru i fath o wallgofrwydd. Llarieiddiwyd ef ar y cyntaf trwy waith Dafydd yn canu, ond wedi hyny, pan ychwanegodd ei anhwylder, yr oedd ei gerddoriaeth yn ddieffaith, 1 Sam. xvi. 23, a xviii. 10, 11.

Y Philistiaid a ruthrasant i mewn i'r wlad. Tra yr oeddynt hwy a'r Hebreaid yn gwersyllu y naill gyferbyn a'r llall, â dyffryn Elah rhyngddynt, am yspaid deugain niwrnod, presennolodd Goliath ei hun, a chynygodd derfynu y rhyfel trwy ymladd law-law â'r neb a ewyllysiai hyny; a rhoddodd hèr iddynt i ddwyn gwr allan a feiddiai ymosod arno ef. Yr oedd hyd yn nod yr olwg arno yn brawychu yr Hebreaid. O'r diwedd, daeth Dafydd, gan ddwyn lluniaeth i'w dri brawd henaf, y rhai a wasanaethent yn y llu. Gwedi canfod o hono y Philistiad balch hwn yn rhoi hèr i fyddinoedd y gwir Dduw, a chlywed fod merch henaf Saul yn cael ei chynnyg i'r gwr a'i lladdai ef, efe, trwy gyfarwyddyd Duw, a hysbysodd ei barodrwydd i dderbyn yr hèriad. Eliab, ei frawd henaf, yn ffroen-uchel a'i ceryddodd ef; i'r hyn efe a roddodd attebiad mwynaidd. Saul, wedi clywed am ei gynnyg, a anfonodd am dano, ac a'i cynghorodd ef i beidio myned i ymladd âg un mor anghyfartal. Dafydd a attebodd ei fod yn hyderu y rhoddai yr Arglwydd, yr hwn a'i nerthasai i ladd llew ac arth heb unrhyw arfau, y fuddugoliaeth iddo ar y cablwr trahaus hwn. Saul, wedi ei foddio gan yr atteb hwn, a'i gwisgodd ef mewn arfogaeth gyffelyb i eiddo Goliath; ond Dafydd, wedi cael o hono ei bod yn drwm a phwysfawr, a'i diosgodd, ac a gyfarfu â'r cawr heb ddim arfau ond ei dafl-ffon, a phump o gerrig bychain. Diystyrodd Goliath yr olwg arno, ac archodd iddo ddyfod yn nlaen, ac y rhoddai efe ei gnawd ef i ehediaid yr awyr, ac i fwystfilod y ddaear. Attebodd Dafydd ei fod ef wedi dyfod yn ei erbyn yn arfogedig â nawdd a gallu y Duw Israel hwnw pa un a gablasai efe, a byddinoedd yr hwn a hèriasai; ac a dafiodd garreg, yr hon, trwy gyfarwyddyd dwyfol, a dreiddiodd trwy y twll oedd yn helm y cawr, a chan soddi i'w dalcen, a'i dygodd ef ar ei wyneb i'r llawr. Rhedodd Dafydd i fynu atto, ac, â'i gleddyf ei hun, a dorodd ymaith ei ben ef. Yna byddin y Philistiaid a ffoisant, a'r Hebreaid a'u hymlidiasant hwy gyda lladdfa fawr, hyd byrth Ecron, 1 Sam. xvii.

Gan fod barf Dafydd yn awr wedi tyfu, a'i wisg fugeiliaidd am dano, yr oedd efe yn hollol anadnabyddus i Saul ac i Abner tywysog ei lu, nes y mynegodd efe iddynt pwy ydoedd. Meithrinodd Jonathan barch angbyffredin iawn iddo; ond gan i'r gwragedd Hebrëig, yn eu caniadau buddugoliaethus, briodoli lladdedigaeth myrddiwn iddo ef, a dim ond mil i Saul, ennynwyd yn y pennadur eiddigus hwnw elyniaeth anghymmodlawn i'w erbyn; efe, mae'n sicr, a'i cadwodd ef mewn rhyw swydd yn y fyddin, ond, yn fradwrus, a roddodd Merab ei ferch henaf i Adriel y Meholathiad. Gwedi dychwelyd o Saul i'w dŷ, ac heb fod ganddo orchwylion cyhoeddus ar ei law, addfeddiannodd ei bruddglwyf ef, a galwyd Dafydd i'w ddifyru â'i gerddoriaeth. Dwywaith y cynnygodd Saul ei ladd ef âg ergyd â'i waywffon; ond efe a ddiangodd, ac a ymadawodd o'i wydd. Saul, wedi mynegu iddo fod ei ail ferch Michael yn hoffi Dafydd, a feddyliodd am wneuthur hyn yn achlysur i'w ladd ef. Parodd osod cynnygiad o briodas â hi ger bron Dafydd, os dygai efe iddo gant o flaen-grwyn y Philistiaid fel ei chymmysgaeth hi; ond gobeithiai mai trengu a wnai yn yr ymgais. Lladdodd Dafydd ddau cant o'r gelynion llofruddiog hyn i'w genedl, a chyflwynodd eu blaen-grwyn i Saul, yr hwn, o'r achos hwnw, a orfu roddi iddo Michael yn wraig, fel gwobr am ei waith. Yn fuan ar ol hyn, gorchymynodd i Jonathan, ac ereill o wyr ei lys, ladd Dafydd, er ei fod y pryd hwn yn ddaw iddo. Trodd Jonathan hyn heibio am yr amser presennol. Dechreuodd y Philistiaid ryfel newydd yn erbyn Israel, sef tua'r 12fed flwyddyn i Saul; gorchfygodd Dafydd hwynt â lladdfa fawr, a phrin yr oedd wedi dychwel-

yd, pan, tra y difyrai efe Saul â'i delyn, y tafiodd yr adyn cenfigenus ac annaturiol hwnw biccell atto; ac o herwydd iddo ddiange, gorchymynodd i'w wylwyr amgylchynu ei dŷ ef y noson honno, a'i ladd. Michael, wedi mynegu iddi am fwriadau ei thad, a ollyngodd Dafydd i lawr trwy ffenestr; a chan osod delw yn y gwely, a chymmeryd arni ei fod ef yn glaf, a ohiriodd yr amser nes oedd efe wedi myned yn ddigon pell rhag ei oddiweddyd, 1 Sam. xvii. 55, a xviii. 19.

Ffôdd Dafydd i Naioth, o fewn Ramah, lle yr oedd Samuel yn arolygydd athrofa o wyr ieuainge, y rhai a astudient y gyfraith ddwyfol, ac a ymbarottoent i dderbyn dawn prophwydoliaeth. Saul, wedi mynegu iddo pa le yr oedd, a anfonodd ddwy fintai wahanol o gennadau i'w ddal a'i ddwyn ef yn ol. Pa bryd bynag y deuent i'r lle, hwy a ysbrydolid, a dechreuent brophwydo, neu ynte ymunent mewn rhyw fodd amgen yn ngwasanaeth crefyddol yr athrofa. Yn ffin ganddo o herwydd na ddychwelent, aeth Saul yno ei hun, ac effeithiodd y gwirionedd arno yn y fath fodd, fel ag y gorweddodd ar y llawr bron yn noeth, trwy gydol y diwrnod hwnw a'r nos ganlynol. Gallasai hyn ddysgu iddo mai Duw oedd amddiffynwr Dafydd. Dafydd, pan ei gwahoddwyd, a ddychwelodd yn ol; ac a aeth mewn cyfammod arbenig o gyfeillgarwch â Jonathan, yr hwn a addawodd fynegu iddo pa un ai bod ei dad yn bwriadu yn gadarn i'w ladd, neu beidio. Oddi wrth ei gynddaredd o herwydd absennoldeb Dafydd ar ŵyl y newydd loer, gwelodd yn eglur fod ei dad wedi ymsefydlu yn ei feddwl i'w ladd ef; a than esgus myned i'r maes i saethu, aeth a mynegoddd i Dafydd am ei berygl, ac a adnewyddodd eu cyfammod o gyfeillgarwch, 1 Sam. xix. 18—24, a xx.

Byth ar ol hyn, bu Dafydd mewn cyflwr o alltudiaeth o lys ei dad-yn-nghyfraith. Aeth ef, ac ychydig o'i weision, i Nob, yn llwyth Benjamin. Yma Abimelec yr archoffeiriad, heb wybod dim am y rhwyg rhyngddo ef a Saul, a roddodd iddynt y bara gosod i'w diwallu yn eu hangen mawr, a rhoddodd i Dafydd gleddyf Goliath. Hyn a achlysurodd laddiad Abimelec, a holl offeiriaid a thrigolion Nob, oddi eithr Abiathar. Ffôdd Dafydd at Acis brenin Gath, ond wedi cael o hono fod y Philistiaid yn ei adnabod ac yn ei gasâu, am ei waith yn lladd Goliath, efe, yn bechadurus, a gymmerodd arno ynfydu. Gan ymadaw o Gath, efe a aeth i ogof Adulam, yn llwyth Judah, lle y daeth ei frodyr a lluaws o ddryg-ewyllyswyr i lywodraeth Saul, a phobl ynfyd-ddewrion ereill, i gyd yn 400 o rifedi, atto ef, ac a ymrwymasant i sefyll gydag ef. Dygodd Dafydd ei rieni oedranus ymaith, a gosododd hwynt dan amgeledd brenin Moab, yr hwn, hwyrach, oedd yn elyn i Saul. Tebygol mai yn yr amser hwn yr aeth efe i'r gogledd o amgylch mynydd Hermon, ac y priododdd Maacah merch Talmai brenin Geser; ac, ar ei ddychweliad, priododdd Ahinoam y Jezreeles, Salm xlii. 6. 2 Sam. iii. 2, 3. Dilys yw i'r prophwyd Gad ei rybuddio i ddychwelyd i dir Judah. Efe a ufuddhaodd, a thrigodd yn nghoedwig Harath. Yma daeth Abiathar atto ef, ac a fynegodd iddo am ddinystr Nob. Wedi hysbysu iddo fod y Philistiaid yn difrodi Ceilah, un o ddinasoedd Judah, yr hon oedd gerllaw, efe a gyrchodd allan i ymosod arnynt, ac a gymmerodd oddi arnynt yspail gwerthfawr. Saul, yn clywed ei fod yn Ceilah, a frysiodd, gyda rhai gwyr etholedig, i'w ddal ef. Trwy ymgynghori â'r Arglwydd, pa un a fradychai pobl Ceilah ef yn anniolchgar, i Saul, os arosai yn eu dinas, mynegwyd iddo y gwnaent; ac am hyny enciliodd i anialwch Ziph, yn llwyth Judah; i ba le y daeth Jonathan, ac a adnewyddodd eu cyfammod o gyfeillgarwch â'u gilydd. Y Ziphiaid cenfigenus a fynegasant i Saul pa le yr oedd ef, ac yntau a ddaeth i chwilio am dano. Enciliodd Dafydd i anialwch Maon, lle y bu ar fin cael ei ddal, oni buasai i ruthr o eiddo y Philistiaid i'r wlad droi Saul oddi wrth ei erlyniadau llofruddiog, 1 Sam. xxi—xxiii. Salm xxxiv. 52, 53, a lvi. 59.

Yn yr 16eg flwyddyn i Saul, enciliodd Dafydd tua'r dwyrain i anialwch Engedi, yn llwyth Judah, wrth y Môr Marw, a llettyodd ef a'i wyr mewn ogof. Chwiliodd Saul am dano, ac aeth i mewn i'r ogof hon i

esmwythâu ei gorph, neu i gysgu yn ystod gwres y dydd. Rhai o gyfeillion Dafydd a'i cynghorasant ef i ladd Saul, pan yr oedd Rhaglunaieth wedi ei draddodi i'w law ef; ond efe a nacâodd, ac yn unig a dorodd ymaith gwrr ei fantell ef, heb wybod iddo. Pan yr oedd Saul wedi myned encyd o ffordd ymaith, gwaeddodd Dafydd ar ei ol, ac a ymresymodd âg ef mor effeithiol, gan ddangos pa mor amlwg ydoedd, nad oedd efe yn ceisio ei einioes ef, gan na wnaethai ond torri ymaith gwrr ei fantell yn unig, pan y gallasai gymmeryd ei fywyd ymaith. Addefodd Saul gywirdeb yr hyn a ddywedodd, cydnabu ei euogrwydd ei hun, ac erfyniodd ar Dafydd beidio dyfetha ei dylwyth ef pan y deuai yn frenin. Gwedi i Dafydd dyngu wrtho, efe a ymadawodd i'w ogof. Arosasai Dafydd a'i wyr hyd yn awr yn benaf o ddeutu anialwch Maon, yn y parth dehau-ddwyreiniol o etifeddiaeth Judah, a buasai yn amddiffyn deadelloedd Nabal rhag yspeilwyr a chreaduriaid gwyllion. Tra yr oedd Nabal yn cadw ei gneif-wledd, anfonodd Dafydd, gan hyny, rai o'i weision i ofyn anrheg fechan o'r hyn a allai efe ei hebgor hawsaf. Anmbarchodd Nabal y gweision, a darluniodd Dafydd ei hun megys adyn gwael, yr hwn a adawsai wasanaeth y brenin. Dafydd, wedi ei gyffroi o herwydd hyn, yn llidiog a roddodd ei fryd ar ei ddyfetha ef a'i holl dŷ, oni buasai i Abigail ei droi oddi wrth hyny, 1 Sam. xxiv, a xxv.

Y Ziphiaid, yn fawr eu bryd am ryngu bodd Saul, a fynegasant iddo, fod Dafydd a'i wyr yn ymguddio yn mryn Hacilah, gyferbyn a Jesimon. Aeth Saul, gyda 3000 o wyr etholedig, i'w geisio ef. Un noswaith, cyfarchwyliodd Dafydd lu Saul, ac wedi cael o hono eu bod oll yn eu trymgwsg, dygodd ymaith y wâyw-ffon a'r llestr dwfr oedd wrth obenydd Saul. O bellder addas efe a waeddodd, ac a edliwiodd i Abner am wylied ei feistr mor esgeulus, ac a ddangosodd pa mor anghyfiawn ydoedd, i'w gyhuddo ef o fwriadau llofruddiog yn erbyn Saul, pan yr oedd yn awr yr ail waith wedi ei adael ef yn fyw, tra yr oedd gymmaint yn ei allu i'w ladd heb wybod iddo. Cydnabu Saul uniondeb Dafydd yn rhwydd; a chwedi derbyn ei wayw-ffon a'i lestr dwfr yn ol, a ddychwelodd adref i'w dŷ yn Gibeah, 1 Sam. xxvi.

Dafydd, yn ofni y gallai Saul fynnu ei ladd ef ryw amser neu gilydd, a fwriadodd yn rhy fyrbwyll i ymnoddi yn ngwlad y Philistiaid. Acis, brenin Gath, wedi cael prawf digonol o'r amryson rhwng Dafydd a Saul, a roddodd y derbyniad mwyaf caredig iddo, ac a ganiattaodd iddo ef a'i wyr ddinas Siclag, yr hon a ennillasai y Philistiaid oddi ar lwyth Judah, i breswylio ynddi. Tra y buant yn trigo yma, gwnaethant amryw ymosodiadau ar yr Amaleciaid, y Gesuriaid, a'r Gezeriaid, y rhai a breswylient yn y parth gorllewinol o anialwch Arabia, a lladdasant bob un a gyfarfuant âg ef, fel nas gadawid neb i ddwyn cyhuddiadau yn eu herbyn i Acis. Gwnaeth Dafydd anrheg o'r anifeiliaid i Acis, a chymmerodd arno eu bod wedi anrheithio gwlad y Canaaneaid, a pharthau deheuol Judah. Credodd Acis y chwedl hon, a gosododdd gwbl ymddiried yn Dafydd. Efe a'i dygodd ef hyd yn nod i'r rhyfel yn erbyn Saul, ac a addawodd ei wneuthur ef a'i wyr yn ddiffyn-gor iddo; a chymmerodd Dafydd arno fod yn ffyddlon mewn cyfeillgarwch i Acis; ond parodd gwrthwynebiad arglwyddi ereill y Philistiaid i Acis ei anfon ef a'i wyr ymaith o'r fyddin, fel dynion nad ellid ymddiried ynddynt. Oni buasai i Raglunaeth gyfryngu fel hyn, naill ai ymladdasai Dafydd yn bechadurus yn erbyn Israel, neu ymddygasai yn fradwrus tuag at Acis. Ar ei ddychweliad i Siclag, ciliodd lluaws o Fanassiaid cedyrn atto ef, fel y gwnaethai rhai Gadiaid a Benjaminiaid cyn hyny; a da oedd iddi ddygwydd felly: o herwydd yr Amaleciaid, wedi eu cyffroi gan ei ddifrodiadau diweddar, a losgasent Siclag, a ddygasent ei ddwy wraig, sef Ahinoam ac Abigail, a'r lleill o'r bobl yn garcharorion, ac a gludasent ymaith bob peth gwerthfawr. Yr oedd ei wyr wedi ymgynddeiriogi gymmaint, nes y soniasant am ei labyddio ef, fel yr achos o'r anffawd hwn. Ond efe a ymgysurodd yn yr Arglwydd; ac a ymgynghorodd âg ef, pa un a erlidiai efe ar ol yr anrheithwyr, ac a allai efe eu goddiweddyd,

neu beidio? Trwy gyfarwyddyd Duw, efe a erlidiodd ar eu hol. Trwy gael caethwas Aiphtaiid o'r gelynion, yr hwn a gawsai ei sarhau, ac a glafychasai ar y ffordd, yn arweinydd, efe a gafodd yr Amaleciaid wedi ymwasgaru mewn gwledd loddestgar ar hyd wyneb y maes; daeth ar eu gwarthaf yn annisgwyliedig, drylliodd y rhan fwyaf o honynt, achubodd y carcharorion a'r yspail, a chymmerodd anrhaith werthfawr. Gorfu ar ddau cant o'i wyr, o achos blinder, aros wrth afon Besor. Nacaodd y lleill a fuasent yn y frwydr i roddi dim i'r rhai hyn, ond i'w gwragedd a'u plant; ond Dafydd a'u gwnaeth hwy yn gyd-gyfranogion o'r anrhaith â'u brodyr. Ei ran ei hun o'r yspail a ddospartbodd efe yn mysg ei gyfeillion yn Bethel, Ramoth Ddehenol, Jattir, Aroer, Siphmoth, Estemoa, Rachal, Hormah, Corasan, Athac, Hebron, a dinasoedd ereill yn neheudir Judah. Trwy y moddion hyn, efe, ar unwaith, a fynegodd ei ddiolchgarwch am y caredigrwydd a dderbyniasai; ac yn yr amser pervglus hwn, a orchymynodd ei hun i'w nawdd a'u hymgeledd, 1 Sam. xxvii—xxx.

Yn y cyfamser, gorchfygasai y Philistiaid yr Hebreaid yn Gilboa: Saul, a'i dri mab, yn nghyd â lluaws mawr o'i fyddin, a laddwyd. Ar y trydydd dydd wedi y frwydr, dygodd Amaleciad, gan ddisgwyl gwobrwy ganddo, goron Saul i Dafydd, a chymerodd arno ei fod ef yn gymmorthwyol i'w ddienyddu. Gorchymynodd Dafydd i'w ladd ef, am ei fod, trwy ei gyfaddefnad ei hun, yn lleiddiad y brenin. Dangosodd efa'i filwyr dristwch mawr o blegid y newydd am y gorchfygiad hwn; a chyfansoddodd gân alarus o anrhydedd i Saul a Jonathan. Gwedi cael fod y lladdfa, mewn mesur mawr, wedi ei hachlysuro gan saethau y Philistiaid, efe a orchymynodd i wyr Judah gael eu dysgu i drin bwäau, fel y gallent wrthwynebu y gelynion ar yr un telerau, 1 Sam. xxxi. 2 Sam. i. 1 Cron. x.

Trwy gyfarwyddyd Duw, symmudodd Dafydd ei deulu a'i filwyr i Hebron. Yna daeth tywysogion Judah atto, ac a'i henneiniasant ef yn frenin arnynt; ond Abner a wnaeth Isboseth, mab Saul, yn frenin ar y lleill o'r llwythau. Tros rai blyneddoedd, dygwyddodd ymladdfëydd parhaus bron rhwng byddinoedd Isboseth a Dafydd, yn mha rai byddai y diweddaf yn ynnill bob amser. O'r diwedd, tramgwyddodd Abner wrth Isboseth, a dechreuodd ymddyddan â Dafydd, i'r dyben o'i wneuthur ef yn frenin ar holl Israel; ond lladdwyd ef gan Joab cyn dwyn o hono ei amcan i ben. Nododd Dafydd ei ffieiddiad o'r llofruddiaeth hwn yn ddigonol; ond bri Joab gyda'r fyddin a'i hachubodd ef rhag cospedigaetb haeddiannol. Baanah a Rechab, dau Benjaminiad, a laddasant Isboseth, pan oedd yn cysgu ar ei wely. ac a ddygasant ei ben ef i Dafydd, gan ddisgwyl gwobrwy; ond efe, yn gyfiawn, a orchymynodd iddynt gael eu lladd, ac a'u gwnaeth yn gof-arwyddion sefydlog o'i ffieiddiad o'u bradwriaeth a'u llofruddiaeth, 2 Sam. ii—iv.

Llywodraethasai Dafydd eisoes ar lwyth Judah saith mlynedd a hanner, pan yr ymgasglodd 339,822 o wyr arfog o'r gwahanol lwythau i'w wneuthur ef yn frenin ar holl Israel. Efe, gan hyny, a symmudodd tua'r gogledd i Jerusalem; a chydag anhawsdra nid bychan, a ddarostyngodd y Jebusiaid beilchion, y rhai a gadwasent feddiant o honi hyd y pryd hwnw. Gwedi llwyr fwriadu dadymchwelyd ei lywodraeth cyn ei sefydlu, arweiniodd y Philistiaid eu byddinoedd ddwywaith bron hyd furiau Jerusalem, ac a wersyllasant yn nyffryn Rephaim. Tebygol mai yn nghylch yr amser hwn yr oedd y gwarchodlu ganddynt yn Bethlehem, ac y torodd Adino, Eleazar, a Sammah, tri o brif gedyrn Dafydd, trwy eu llu, ac y dygasant ddwfr i Dafydd o ffynnon Bethlehem, o blegid fod yr un o amgylch Jerusalem yn hallt; ond nid yfai efe ef, o herwydd iddynt beryglu eu bywydau wrth ei ddwyn, ond a'i tywalltodd allan fel diod-offrwm o ddiolchgarwch am eu cadwedigaeth. Gan ddal ar gyfarwyddyd ei Dduw, rhoddodd Dafydd i'r gelynion hyn ddau orchfygiad arswydus. Yn nesaf symmudodd arch Duw o Ciriath-jearim, yn llwyth Judah, i'w dwyn i'r babell a ddarparasai efe iddi yn Jerusalem. Yn groes i'r gyfraith, hwy a'i dygasant hi ar fen newydd;

ond o herwydd i Uzzah mab Abinadab gael ei daraw yn farw am estyn ei law mewn modd anystyriol a rhyfygus atti, gadawyd hi yn nhŷ Obed-edom. Yn mhen tri mis ar ol hyn, dygwyd hi gyda difrifoldeb mawr, yn ol y gorchymyn, i fynu i Jerusalem ar ysgwyddau y Leñiaid. Dafydd, wedi ei wisgo âg ephod liain, fel offeiriad cyffredin, a chwareuodd ar yr organ o'i blaen: Michael merch Saul a'i gwelodd ef trwy ffenestr, ac a'i dirmygodd ef yn ei chalon am ei ymddygiad, megys yn rhy wael a dystadl i frenin. Yntau a attebodd, nad oedd efe yn barnu fod unrhyw fynegiad o ddiolchgarwch i Dduw, yr hwn a roddasai iddo ef orsedd ei thad, yn ddystadledd, ond yn hytrach yn anrhydedd, 2 Sam. v, a vi, a xxiii. 15—17. 1 Cron. xii—16. Mwynhaodd Dafydd yn awr heddwch trwyadl, a bwriadodd adeiladu tŷ i arch Duw; am ei fod yn barnu yn anaddas iddi fod mewn gwaeth lletty nag ef ei hun. Nathan y prophwyd a'i hannogodd ef yn yr amcan hwn; ond yr Arglwydd, trwy Nathan, a hysbysodd iddo yn ebrwydd, er ei fod yn cymmeradwyo ei fwriad da, etto ei fod wedi tywallt, ac y tywalltai ormod o waed, i fod â llaw ganddo mewn gorchwyl mor sanctaidd; ond mai ei fab a'i ganlynwr a'i hadeilai: ac y sefydlid ei deulu ar yr orsedd; ac y deilliai y Brenin tragywyddol, sef y Messiah, o'i lwynau ef. Gyda'r diolchgarwch a'r syndod mwyaf, ymlonyddodd Dafydd yn ewyllys Duw, ac ymfoddlonodd gyda darparu trysorfa a defnyddiau er adeiladu y deml, 2 Sam. vii. 1 Cron. xvii.

Yn nghylch A. M. 2960, dechreuodd ryfel â'r Philistiaid, a gosododd y genedl aflonydd honno dan deyrnged iddo. Gwedi ei gyffroi i ddigofain gan y Moabiaid am ladd ei rieni, neu ynte ryw achos arall, efe a ddarostyngodd eu gwlad, difuriodd eu hamddiffynfëydd, a lladdodd y rhan fwyaf o honynt, oddi eithr y cyfryw ag oeddynt angenrheidiol i wrteithio y meusydd. Yn nesaf ymosododd ar y Syriaid yn Zobah, o du y gogleddddwyrain i Damascus, a gorchfygodd Hadadezer; ac yn fuan ar ol hyn, gorchfygodd y fyddin gynghreiriol o Syriaid o Zobah a Damascus, gyda lladdfa fawr, gosododd warchawdluoedd yn eu dinasoedd, a pharodd iddynt dalu teyrnged. Yn nghylch yr un amser, ymosododd ar yr Edomiaid; ac ar y maes yn nyffryn yr Halen, torodd 12,000 o honynt ymaith, a 6000 yn rhagor yn yr ymlidiad; neu torodd Abisai 18,000 ymaith, a Joab 12,000 yn ychwaneg, Salm lx, *titl.* 2 Sam. viii. 1 Cron. xviii. O ddeutu yr amser hwn, sef y 18fed flwyddyn o'i deyrnasiad, y cafodd efe Mephiboseth allan, ac a'i derbyniodd i fyw ar ei fwrdd ei hun, 2 Sam. ix.

O ddeutu A.M. 2967, gwnaed sarhâd i'w gennadau, a anfonesid gydag annerchiadau o gyd-ymofidiad at Hanun brenin yr Ammoniaid, fel pe buasent yspiwyr, ac anfonwyd hwy adref â'u dillad wedi eu torri yn en hanner, hyd eu cluniau, a'u barf wedi ei heillio. Dafydd, wedi ennyn o'i ddigofaint, a ddechreuodd ryfel yn erbyn yr Ammoniaid. Dwywaith y gorchfygodd efe eu byddinoedd hwynt, ei eu bod wedi eu hadgyfnerthu â lluoedd dirfawr o Syriaid. Amryw o fân frenhinoedd Syria a ymostyngasant iddo, 2 Sam. x. 1 Cron. xix.

Yn y drydedd flwyddyn o'r rhyfel, tra yr oedd Joab, ar ol anrheithio y wlad, yn gwersyllu yn erbyn Rabbah y brif ddinas, dygwyddodd i Dafydd yn Jerusalem, ar ol ei hûn, gymmeryd rhodfa brydnawnol ar wastad nen ei dŷ. Efe a ganfu Bathseba, gwraig Urias yr Hethiad, yn ymolchi yn ei gardd. Ei chwantau cnawdol a ennynwyd; efe a anfonodd am dani, ac a'i halogodd. Hithau a feichiogodd, ac a fynegodd iddo am hyny. I ragflaenu dynoethiad eu henogrwydd, galwodd Dafydd am Urias yn ol oddi wrth y fyddin; gwnaeth yr hyn a allai i beri iddo fyned i'w dŷ ei hun, cysgu gyda'i wraig, ac felly cael ei gyfrif yn dad y plentyn. Nis gallai y cyngor brenhinol, na'r wledd ddanteithiol, ddenu Urias i neshau at ei artref ei hun. Dafydd gan hyny a anfonodd y gwron teilwng hwn yn ol, gyda llythyr at Joab, yn gorchymyn iddo fynnu ei ladd ef trwy gleddyf meibion Ammon, tra yr oedd ei wroldeb diofn yn nacâu iddo ymostwng i ffoedigaeth warthus. Yn ol y cyfarwyddyd, cilliwyd oddi wrth Urias yn y gwarchae, ac felly lladdwyd ef gan yr

Ammoniaid. Dafydd, wedi hysbysu iddo am ei farwolaeth ef, a osododd allan nad oedd dim ychwaneg na damwain rhyfel yn yr holl amgylchiad; ac yn ebrwydd ar ol hyn, cymcymerodd Bathseba yn wraig. Y weithred ddrygionus hon a gyffrôdd yr Arglwydd yn ddirfawr, a dramgwyddodd yr Hebreaid duwiol, ac a dynnodd hyd yn nod y Cenedloedd i gablu ffordd Duw. Trwy gyngor Joab, cychwynodd Dafydd gydag adgyfnerthiad cryf o wyr i'w lu, tua Rabbah, yr hon oedd o ddeutu 64 milltir oddi wrth Jerusalem, fel y gallai gael yr anrhydedd o ennill lle mor hynod am ei gadernid; efe a'i hynnillodd trwy ruthr; ac a'i rhoddodd i fynu i ddifrodiad ei filwyr, gan gadw yn unig yr hyn a berthynai i'w brenin iddo ei hun. Rhoddodd y pennaethiaid, a'r mwyaf ffyrnig, y rhai a ddaliasent allan yn ei erbyn ef, i arteithiau tra phoenus, gan rwygo eu cnawd âg erydr, llifau, a bwyill heiyrn, a'u llosgi yn fyw yn eu hodynau priddfeini. Neu, fel y darllain rhai y geiriau, efe a barodd iddynt weithio wrth y llif, wrth naddu cerrig, cloddio mwn-gloddiau heiyrn, torri coed, a gwneuthur priddfeini. Fel hyn y trimiodd efe yr holl Ammoniaid, y rhai nid ymostyngasant iddo yn ewyllysgar, 2 Sam. xii. 1.

Prin yr oedd Dafydd wedi dychwelyd i Jerusalem, A. M. 2970, pan y dygodd Nathan y prophwyd ef, trwy ddammeg, i gollfarnu ei hun yn achos Urias, ac i erfyn maddeuant am ei bechodau. Yn fuan ar ol hyn gorchymynodd Duw i Nathan fynegu iddo, na osodai ei droseddau ef yn agored i gospedigaeth ddigofus a thragywyddol, ond i gerydd arswydus yn y bywyd hwn; y byddai ei blentyn a enillasai trwy odineb farw yn ei febyd: y deuai amryw o'i deulu i ddiwedd disyfyd; y gwrthryfelai un o'i feibion yn ei erbyn; ac y treisid ei wragedd yn gyhoeddus. Trengodd dim llai na phedwar o'i feibion yn yr amryson hwn. Clafychodd y plentyn a genedlasid mewn godineb yn ei febyd, ac er ei weddiau mwyaf difrifol, a'i ympryd am ei fywyd ef, torwyd ef ymaith. Y flwyddyn ganlynol, ymddug Bathseba ail fab i Dafydd, yr hwn a alwodd efe *Solomon:* ond Duw, trwy Nathan y prophwyd a'i galwodd ef *Jedidiah*, sef anwylyd yr Arglwydd, 1 Cron. xx. 2 Sam. xi, a xii. Salm li.

O ddeutu A. M. 2974, a'r 23ain i Dafydd, halogodd ei fab henaf Ammon Tamar ei chwaer, yr hon oedd o'r un fam âg Absalom; yn mhen dwy flynedd, lladdwyd ef gan Absalom o'r achos hwnw. O ddeutu 2981, gyrodd Absalom ei dad, ac yntau yn 62 mlwydd oed, oddi ar ei orsedd, ac a halogodd ddeg o'i ordderchwragedd yn gyhoeddus. Ffôdd diffyn-gor a phrif gyfeillion Dafydd ymaith gydag ef; ond efe a annnogodd Husai, Abiathar, a Zadoc, i weini er ei les ef, trwy aros yn Jerusalem. Aeth ef a'i gyfeillion dros afon Cedron, gan wylo wrth fyned. Ar eu gwaith yn myned heibio i fynydd yr Olew-wydd, cyfarfu Ziba âg ef gyda llwyth dau asyn o ymborth; a thrwy gam-gyhuddo Mephiboseth ei feistr o fwriadu ymddangos yn agwedd brenin, a annogodd Dafydd i wneuthur anrheg o etifeddiaeth Mephiboseth iddo ef. Nid oedd Dafydd ond newydd ddyfod gyferbyn â Bahurim, pan yr anmharchodd Simei ef mewn modd tra anfoneddigaidd, ac a'i melldithiodd yn chwerw, fel anghenfil mwyaf annuwiol a gwaedlyd. Efe a oddefodd y cwbl gyda'r ymostyngiad a'r amynedd mwyaf, gan gymmeryd y driniaeth hon o law ei Ddiw; ac ni chaniattai efe i'w ganlynwyr ymddial ar Simei. Gwedi mynegu o Husai iddo am fwriadau Absalom, efe a ffôdd tu hwnt i'r Iorddonen i Mahanaim, lle y bu Barzilia, Sobi, a Machir, yn ei ddiwallu âg helaethrwydd o ymborth. Yn hyd y gwrthryfel hwn, cyfansoddodd luaws o Salmau rhagorol, megys yr 2il, hwyrach hyd y 7fed; a'r 41ain, y 43ain, y 44ain, a'r 55ain, &c. Erlidiodd Absalom ar ei ol mor gyflym ag y medrai gyda llu arswydus. Gorchfygwyd byddinoedd Absalom, ac yntau ei hun, yn groes i'r gorchymyn a roddasai Dafydd i'w filwyr, a laddwyd. Galarodd Dafydd am ei farwolaeth yn dra chwerw. Ceryddodd Joab ef yn llym am anghalonogi ei gyfeillion a'i fyddinoedd felly, y rhai a achubasent ei fywyd ef, pan yr oedd yr eiddynt eu hunain mewn enbydrwydd. Ar hyn, Dafydd a ymattaliodd rhag galaru, ac a lefarodd yn garedig wrth ei gyfeill-

ion. Yn nesaf, cychwynodd yn mlaen tua Jerusalem, ac anfonodd air at bennaethiaid Judah i ddangos eu brwdfrydedd nodedig ar yr achos hwn; ac addawodd i Amasa ei nai, y swydd o ben tywysog ei luoedd, yn lle Joab, yr hwn a'i hanfoddlonasai ef yn ddirfawr trwy ladd Absalom. Gwyr Judah, wedi eu cynhyrfu gan Amasa, yn ddiattreg a wahoddasant Dafydd yn ol i'w orsedd; a lluoedd a aethant i'w arwain ef adref. Daeth Simei gan flaenori mil o Benjaminiaid, gyda'r cyntaf; a thrwy ei gyfaddefiad rhwydd o'i ymddygiad diweddar, cafodd ei faddeuant ef, yn groes i wrthlgwyn Abisai. Mephiboseth hefyd a gyfarfu â Dafydd, ac a ddieuogodd ei hun o'r cyhuddiad a osodasid yn ei erbyn gan Ziba. Parhaodd ef i fwynhau ewyllys da y brenin, ond ni chafodd ychwaneg na hanner ei etifeddiaeth ei hadferu iddo, tra y caniattawyd i'w was bradwrus fwynhau y rhan arall. I wobrwyo Barzilai y Gileadiad am ei haelioni diweddar, erfyniodd Dafydd arno ddyfod a byw gydag ef yn ei lys: ond gan i'r heu wr wrthod y cynnyg hwn, cymmerodd Dafydd Cimham ei fab gydag ef. Pan y deallodd y llwythau ereill i wyr Judah ddyfod o'u blaen hwy, i ddwyn eu brenin yn ol, anfoddlonasant yn ddirfawr, a bwriwyd ymadroddion llidus allan ar bob tu, yn enwedig gan wyr Judah, am eu bod yn cyfrif eu hunain â chyssylltiad agosach rhyngddynt a Dafydd na'r llwythau ereill. Seba mab Bicri, o lwyth Benjamin, a chân agos i Saul, fel y bernir, a gyffrodd y deg llwyth i wrthryfel newydd: ond Joab, ar ol lladd Amasa, yr hwn, hwyrach, ni osodasid yn gyñawn iawn yn ei swydd, a erlidiodd ar ol Seba, ac yn fuan a roddodd dyben ar ei fywyd, a'i ymgais gwithryfelgar, 2 Sam. 13—20.

Yn nghylch A.M. 3983, cospodd Duw yr Israeliaid â newyn o dair blynedd ei barbad. Dafydd, wedi mynegu o Dduw iddo, mai cosp oedd hyn am bechod Saul a'r bobl, o herwydd lladd y Gibeoniaid yn Nob, fel y bernir, o ddeutu 37 o flyneddoedd o'r blaen, y rhai yr oeddynt yn rhwym, trwy lŵ arbenig, a wnaethid o ddeutu 430 o flyneddoedd cyn hyny, i'w hamddiffyn, a anfonodd am weddillion y bobl hyny, ac a ofynodd iddynt pa iawn a fynent am y cam a wnaed iddynt? Ar eu cais hwy, traddodwyd Armoni a Mephiboseth, meibion Saul o Rispah, ei ordderchwraig, a phum mab Adriel mab Barzilai y Meholathiad, a aned o Merab, ac a ddygwyd i fynu gan Michal merch Saul, i'r Gibeoniaid, a hwy a'u crogasant hwynt ger bron yr Arglwydd yn Gibeah, a'i ddigofaint a lonyddodd. O ddeutu yr amser hwn, neu hwyrach ychydig o'i flaen, y Philistiaid, wedi eu hannog gan deulu o gawri, a wnaethant bedwar ymosodiad gwahanol ar yr Israeliaid; yn un o ba rai bu Dafydd yn debyg o gael ei ladd, oni buasai i Abisai redeg i fynu i'w gynnorthwyo, a lladd y cawr; ar ol hyn ni chaniattai yr Hebreaid i Dafydd fyned i ryfel mwyach, rhag y diffoddai ei farwolaeth eu goleuni, eu gogoniant, a'u cyssur, 2 Sam. xxi, a 1 Cron. xx.

Yn y 36ain flwyddyn i Dafydd, a 4 blynedd cyn ei farwolaeth, pan nad oedd y newyn uchod ond prin wedi peidio, bwriadodd Dafydd yn falchaidd, trwy oddefiad Duw, a hudoliaeth Satan, i fynnu rhifo ei holl ddeiliaid ag oeddynt alluog i ddwyn arfau; a phennodwyd Joab i gymmeryd y cyfrif. Ymresymodd Joab yn erbyn yr amcan hwn, am nad oedd yn gydunol âg addewid Duw i wneuthur yr Hebreaid yn aneirif; ond gorfu arno ymostwng i ewyllys y brenîn. Yn mhen naw mis ac ugain diwrnod, dygodd y cyfrif i mewn. Gwyr Judah oeddynt o gylch 470,000; pa rai, yn nghyd â'u 24,000 o filwyr sefydlog, a wnaent yn agos i 500,000. Gwyr Israel oeddynt yn 800,000; pa rai, yn nghyd âg amryw filoedd anghymmifer, a'r 264,000 o filwyr gwladol, a wnaent yn agos i 1,100,000. Ond ni rifwyd y Leñaid a'r Benjaminiaid, am fod Joab yn casâu yr holl orchwyl o'i galon. Duw, wedi anfoddloni o herwydd ymchwydd calon Dafydd, a gynnygodd iddo, trwy Gad y prophwyd, ei ddewis o dair cospedigaeth, âg addasrwydd ynddynt i leihau nifer ei ddeiliaid; sef naill ai tair blynedd o newyn yn ychwanegol at y tair flaenorol; ffoedigaeth dri mis o flaen eu gelynion; neu haint dridiau yn y tir. Dewisodd Dafydd yr olaf, am ei bod

yn dyfod yn ddigyfrwng o law Duw graslawn. Parhasai o ddeutu naw o oriau, a thorasai 70,000 o ddynion ymaith, pan y canfu Dafydd angel yr Arglwydd yn ysgwyd ei gleddyf uwch ben Jerusalem, ac yn barod i ddistrywio y trigolion. Gyda dífrifwch mawr, efe a erfyniodd am drugaredd a maddeuant; ac ar ol cyfodi allor ar lawr dyrnu Arafnah, y Jebusiad, ac offrymu aberthau arni, y plâ a attaliwyd, 1 Cron. xxi, a 2 Sam. xxiv.

Sylwer yma, yn 2 Sam. xxiv. 13, dywedir i Gad gael ei anfon at Dafydd er peri iddo ystyried pa un ai saith mlynedd o newyn, tri mis o ryfel aflwyddiannus, ai tridiau o haint a ddewisai; ond yn yr un gennadwri fel ei hadroddir yn 1 Cron. xxi. 12, y mae Gad, yn lle saith, yn dywedyd "tair blynedd o newyn." I gyssoni hyn, yr ydys yn barnu fod Gad yn gofyn, a fynai efe estyn y tair blynedd o newyn o achos y Gibeoniaid, hyd oni byddent yn saith, trwy y flwyddyn yn mha un y rhifodd Dafydd y bobl, yr hon oedd y flwyddyn ganlynol ar ol i'r newyn beidio. Felly ni buasai ond tair blynedd, i wneuthur y saith mlynedd i fynu. Yn y golygiad hwn nid oes dim gwahaniaeth rhwng y ddau le.

Yn nghylch A. M. 2988, yr oedd corph oedranus Dafydd yn awr wedi ei ddyhysbyddu gymmaint o'i wres naturiol, neu wedi cael ei daraw â math o barlys, neu ryw glwyf cyffelyb, fel nad allai gynnesu yn ei wely. Yn ol cyngor rhai o'i weision, cawsant iddo Abisag, llangces brydwedd-ol, i gysgu gydag ef, ac i gadw ei gorph mewn tymmer; ond ni bu iddo ef a wnaeth â hi. Yn y cyfamser, fel yr oedd Dafydd yn rhy dyner wrth ei blant, cynnygodd Adoniah ei fab henaf, tebygol, o'r rhai oeddynt y pryd hwnw yn fyw, wneuthur ei hun yn ganlyniedydd iddo, ond rhagflaenwyd-ef; a Solomon a enneiniwyd yn frenin gan Zadoc yr offeiriad, fel yr addawsai Dafydd yn hir cyn hyny i Bathseba ei fam. Yn y rhan ddiweddaf o'i deyrnasiad, gwnaeth Dafydd barotoadau mawrion ar gyfer teml Duw; ac efe a sefydlodd i'r offeiriaid, y Lefiaid, y cantorion, a'r porthorion, eu dosparthiadau a'u sefyllfaoedd priodol yn y gwasanaeth. Gosodwyd ei deyrnas yn y drefn fwyaf rhagorol. O 288,000 o filwyr gwladol sefydlog, yr oedd 24,000 yn gwasanaethu bob mis yn eu tro; a phennodwyd llywodraethwyr ar amryw-iol lwythau Israel, ac ar ystordai, gwinllanoedd, defaid a gwartheg y brenin. Daw hanes am ei *Gedyrn* yn ein ffordd ar ol hyn. Yn deall fod ei farwolaeth yn agos, cadarnhaodd Dafydd eisteddiad Solomon ar yr orseddfaingc; traddododd i'w law gynllun o'r demi, yr hwn a ragnodasid iddo gan Dduw, gydag yn nghylch 46,000 tunell o aur ac arian, heblaw peth anfeidrol o bres, a defnyddiau ereill at ei gwasanaeth hi. Ac ar ol rhoddi amryw orchymynion arbenig, mewn perthynas i'w ymarweddiad crefyddol a gwladol, ac erchi iddo gospi Joab am ei lofruddiaeth ysgeler, a Simei am ei anmharch gwarthus, a thŷwallt allan weddi brophwydoliaethol ar ei ran, efe a anadlodd allan ei anadl olaf; gan fynegu ei hyder cadarn, a'i gyssur cyflawn, yn y cyfammod tragywyddol a wnaed âg ef a'i had. Efe a deyrnasodd saith mlynedd a hanner yn Hebron, a 33 yn Jerusalem. Ysgrifenodd luaws mawr o Psalmau, yn enwedig yn amser ei drallodion a'i gystuddiau trymion. Yr oedd efe yn gysgod hynod o'n Hiachawdwr. Rhoddodd Duw ŷr enw derchafedig o'i *was*, a'r *gwr yn ol ei galon* iddo: ond y mae y dysgawdwyr Iuddewig a dynion annuwiol ereill wedi ei sarhau ef mewn modd eithaf anfoneddigaidd, 2 Sam. xxiii. 1 Bren. i, a ii. 1 Cron. xxii—xxix. Salm lxxii. Act. xiii. 22, 36.

Oddi wrth y crynodeb hwn o'i hanes, bydd yn hawdd nodi i Dduw gyfodi Dafydd i fynu er cynnrychioli mwy brenin ar Israel nag un a lywiodd deyrnwialen yn yr India erioed. Sylwir ar y pethau canlynol, yn mhlith amryw ereill dim llai hynod, yn mha rai y mae natur gysgodol ei hanes yn hawdd i'w chantod.

Hwyrach fod hyd yn nod ei enw, sef *Dafydd*, yr hwn a arwydda *anwylyd*, yn arddangos mai Crist ei wrthgysgod ef a fyddai anwylyd Duw a dynion. Ond y mae yn ddilys fod lle ei cnedigaeth yn cael ei gyfrif bob amser fel yr un â'r fan lle y genid Crist. Onid allai hyn fod yn un rheswm pa ham yr amlygodd

Dafydd (yr hwn oedd yn brophwyd, ac a wyddai ei fod ef ei hun yn gysgod o Grist, ac y genid ef yn yr un pentref) gymmaint hoffder o Bethlehem, fel ag i gael ei feddiannu gan hiraeth gwresog, hyd yn nod am drafiwngc o ddwfr o'i ffynnon hi. Mawr y derchafwyd y pentref bychan hwn trwy fod yn lle genedigol y brenin Dafydd, eithr yn llawer mwy felly trwy enedigaeth Iesu Grist yndde; o herwydd felly y cân y prophwyd: "A thithau Bethlehem Ephrata, er dy fod yn fechan yn mhlith miloedd Judah, *etto* o honot ti y daw allan i mi *un* i fod yn Llywydd yn Israel; yr hwn *yr oedd* ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragywyddoldeb," Mica v. 2.

Oddi wrth le ei enedigaeth, deuwn yn awr at gymmwysderau ei berson, o ran corph a meddwl. Y mae gwridgochni ei wedd yn cael ei nodi yn fanwl iawn gan yr hanesydd sanctaidd. Ac, heblaw prydferthwch ei berson, bu ei gallineb a'i wroldder yn foddion i'w ddwyn i sylw y llys, pan nad oedd ganddo uwch cyfenw na *mab Jesse y Bethlehemiad*. Ond, uwchlaw y cwbl, coronir ei gymmeriad trwy y ganmoliaeth dra helaeth honno y rhyngodd bodd i Dduw ei rhoddi iddo pan y symmudodd efe Saul ymaith, "Cefais wr yn ol fy nghalon, yr hwn a gyflawna fy holl ewyllys," Act. xiii. 22. A pha le y ceir y cymmwysderau ardderchog hyn yn eu perffeithrwydd uchaf, ond yn mherson Mab Dafydd? yr hwn sydd yn wŷn a gwridog, yn rhagori ar ddeng mil, yn decach na meibion dynion, y Duw cadarn, gwas synwyrol yr Arglwydd; ac yn ddiweddaf, yr hwn a "ddaeth i wneuthur dy ewyllys, O Dduw, a'th gyfraith oedd o fewn ei galon," Salm xl. 8. Bydded i ni, yn nesaf, gymbaru eu dyoddefiadau, a chawn gyffelybrwydd rhyfeddol rhyngddynt. Gallem, yn gyntaf, gymmeryd sylw o'i waith yn ymguddio mewn anwogrwydd, am hir amser, yn nhŷ ei dad, lle y bu yn areiliaw y deadelloedd defaid, cyn ei fod yn fugail lynion. Ond er mai anenwogrwydd cyffelyb a fu tynged Iesu Grist am ysbaid hir o flyneddau, pan yr oedd yn preswylio yn nhŷ ei dad; hwyrach nad yw mor gymmwys i grybwyll am hyn dan y pen o gystuddiau Dafydd; o herwydd nis gallwn braidd ammau nad hwn oedd y cyfnod mwyaf dedwydd yn ei holl fywyd, pan y bu yn canlyn y mammogiaid. O'r amser y dechreuodd dynu sylw y byd, pa beth oedd y rhan fwyaf o'i fywyd ond rhyfel parhaus? Ei frawd ei hun a'i hattebodd yn sarrug iawn, er ei rwystro oddi wrth ei anturiaeth gyhoeddus gyntaf, sef y frwydr â Goliath, gan led-grybwyll, mai yr unig beth a'i cymhellodd i ymweled â'r gwersyll yn yr amser hwnw, oedd balchder ac uchder ei galon. Yr hyn sydd yn dwyn i'n cof y derbyniad anfoesgar ac angharedig a gyfarfu ein Prynwr graslawn âg ef oddi wrth ei frodyr yn ol y cnawd; y rhai nis derbyniasant ef, ond a'i llwythasant â'r cyhuddiadau mwyaf adgas, a'r gwaradwyddiadau mwyaf llymion, ac a roddent, bob amser, yr ystyr gwaethaf ar ei eiriau a'i weithredoedd. Dywedir i ni hefyd na chredodd rhai o'i berthynasau agosaf ynddo ef. Ac mewn perthynas i'r erlidigaethau a ddyoddefodd tan deyrnasiad gormesol Saul (y rhai a fuant yn achlysur o gyfansoddiad amryw Psalmau peraidd a drosglwyddwyd hyd yn nod i'n hamseroedd ni) y mae y cyffelybrwydd rhyngddynt âg eiddo Iesu Grist dan deyrnasiad gormesol Herod yn fwy nag y meddyliai un ar yr olwg gyntaf. Ceisir einioes Dafydd gan ei frenin ei hun: a pha beth oedd yr amryson? Ofn ydoedd yr ennillai Dafydd y goron, fel y dadguddiesid i'r prophwyd Samuel: felly yr erlidir Iesu Grist gan Herod brenin Judea, oddi ar y dybiaeth ffol, y gallai efe siommi amcanion uchel y Nefoedd, a thorri ysgrythyrau y prophwydi. Yn achos Dafydd, cigyddiwyd yr offeiriaid diniweid yn Nob mewn modd creulawn; felly y plant gwirion yn Bethlehem yn achos Iesu Grist. "Meliddigedig fyddo eu dig, canys tost *oedd*," Gen. xlix. 7. Ond bu y ddau ormes-deyrn gwaeddedyd yn gyfranogion o'r un llwyddiant; o herwydd fel y bu pob cynnygion i ddal Dafydd yn bersonol yn ofer, felly trôdd dyfais waedlyd Herod yn erbyn bywyd Crist yn ddiffrwyth. Ond tra yr ydym yn coffio Dafydd a'i holl gystuddiau, rhaid i ni beidio anghofio yr un tra hynod hwnw a ddygwyddodd iddo, pan y

parwyd iddo gan fab annaturiol a deiliaid gwrthryfelgar, ffoi o'i ddinas freninol; a chyda'i gyfeillion athrist, aeth dros yr afon Cedron mewn agwedd brudd. Tros yr un afon yr aeth Mab ac Arglwydd Dafydd i'r ardd angheuol honno lle y daliwyd ef, yn nghymdeithas ei apostolion galarus. A'r hyn a fu yn ychwanegiad nid bychan at ei gyfyngder oedd, ddarfod i'w gyfaill mynwesol ei hun, yn yr hwn yr ymddiriedai, ei was a fwyttâi o'i fara, droi yn fradwr, a derchafu ei sawdl yn ei erbyn; amgylchiad yr hwn ni fu yn eisieu yn achos Iesu Grist, pan y bradychwyd ef gan un o'i apostolion. Pwy ni wyr fod yr un ysgrythyrau yn cael eu cymhwyso at Judas yn y Testament Newydd, ag a lefarir am Ahitophel yn yr Hen? "Bydded ei drigfan ef yn ddiffeithwch, a chymmered arall ei esgobaeth ef," Salm cix. 8. Act. i. 20. Gwir yw y gwyddai Mab Dafydd o'r dechreuad pwy a'i bradychaief, yr hyn ni wyddai Dafydd: ond, mewn golygiadau ereill, mae y gyffelybiaeth yn dra agos; canys yr oedd y ddau fradwr melldigedig hyn yn gyffelyb yn eu cymeriadau a'u ffyddlondeb blaenorol, yn gyffelyb yn eu cyfiafan ysgeler, ac yn gyffelyb yn eu diwedd echryslawn.

Gwedi cyfrif rhai o gystuddiau cysgodol Dafydd, deuwn at y gorchestion enwog mewn rhyfel a heddwch, yn mha rai hefyd yr ymddengys ei fod wedi cael ei fwriadu yn arwydd-lun o'r un person gogoneddus. Nid oedd ei fuddugoliaeth ar y Philistiad balch ac anmharchus hwnw, pa un a roddodd hèr i fyddinoedd y Duw byw, y leiaf o'r gweithredoedd nerthol hyny am ba rai y mae efe yn sefyll mewn coffadwriaeth yn nghofrestrau clod. Clywodd ei ddifenwadau cableddus; gwelodd ddychryn anwraidd yr Israeliaid, y rhai oll a ochelent ymladd law-law â'r ymffrostiwr gwag hwn; mynegwyd iddo am y gwobrwyon mawrion a dderbyniai y gorchfygwr oddi wrth y brenin: ac heb ei ddychrynu yn y radd leiaf gan ei olwg greulawn, y mae yn llwyr fwriadu derbyn y cynyg yn enw Duw Israel, yr hwn oedd wedi cael ei anmharchu. Heb ei arfogi â neb offer rhyfel ond ei dafl-ffon ac ychydig gerrig, y mae yn gosod y rhyfelwr ymffrostgar yn gydwastad â'r llawr yn ei farwolaeth; gan ychwanegu yn mhellach yr anfri hwn i'w gelain anferth ei maint, o ddidoli ei ben oddi wrth ei gorph â'i gleddyf ei hun. Byddedi Goliath ymffrostgar yn gysgod o'r diafol, yr hwn sydd â nerth marwolaeth ganddo. Cynnygir gwobrwyo mawr gan Freuin y nef i'r gwr a ymladdo â'r gelyn ofnadwy hwn, ac a'i gorchfygo. Nid anturiodd un dyn, un angel, at y gorchwyl peryglus. Ond Iesu Grist, ar ei ddiscyniad i ymweled â'i frodyr, ac i fwrw golwg ar eu gwersyll, wedi ei gynhyrfu â brwdfrydedd addas dros ogoniant Duw, ac iachawdwriaeth yr hil ddynol, a thros y llawenydd a osodwyd ger ei fron, sydd yn ymbarottoi ar gyfer y frwydr farwol hon. Ei frodyr a'i diystyrasant ef ac a'i anmharchasant, ond nid attaliwyd ef oddi wrth ei fwriad trugarog. Ni fenthycciodd efe unrhyw arfogaeth oddi wrthym ni, o herwydd ni wnaeth ond yn unig cyfraunogi o'n natur egwan a chnawdol; ond trwy ei nerth a'i ddoethineb ei hun, efe a ennillodd y fuddugoliaeth â ffon ei groes; offeryn tra annhebyg! canys Duw oedd ei darian, ei ogoniant, a derchafydd ei ben. "Trwy farwolaeth," yr hwn oedd megys cleddyf y diafol, "efe a ddinystriodd yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo," Heb. ii. 14; ac ymadrodd y prophwyd a gyflawnir, "Mi a'u cadwaf hwynt trwy yr Arglwydd eu Duw, ac nid â bwa, nac â chleddyf, nac â rhyfel, nac â meirch, nac â marchogion y cadwaf hwynt," Hos. i. 7. Gallem sylwi hefyd pa fodd y gallai ei waith yn ynnill amddiffynfa Sion oddi ar y Jebusiaid fod yn gysgod o waith Crist yn gorchfygu yr eglwys Genedlig. Gellir ystyried ei waith yn dymuno cael lle i Dduw Jacob orphwys ynddo, yn yr un goleuni. Dyma, O Iachawdwr! oedd dy fwriad graslawn wrth ymweled â bröydd ein marwolaeth ni, sef caffael lle o orphwysfa yn mhlith biliogaeth bechadurus dynion i'r Duw hwnw, pa un sydd â'i orseddfaingc yn nef y nefoedd, a'r ddaear yn lleithig ei draed; nid i gâffael gorphwysfa gysgodol ar fynydd daearol, neu mewn adeilad sywaddol, ond gorphwysfa wirioneddol, ogoneddus, a thragywyddol yn nhenau dy gorph, sef yr eglwys, fel y pres-

wylio yr Arglwydd Dduw yn eu plith dros byth.

Mawr oedd y gogoniant i ba un y derchafwyd brenin Israel o ddechreuad bychan; a dangosodd calineb ei weinidogaeth, pan y cyfodwyd ef o'r llwch, nad oedd yn anrheilwng o'r fath uchel urddas. Gwir yw, rhaid i ni addef iddo gyflawni amryfuseddau nid bychain mewn rhai gweithredoedd neilduol o lywodd-ddysg; ond mewn perthynas i'r rhan fwyaf o'i ymddygiad, derbyniodd y dystiolaeth anrhydeddus hon, "Efe a'u porthodd hwynt yn ol perffeithrwydd ei galon; ac a'u trinio dd wrth gyfarwyddyd ei ddwylaw," Salm lxxviii. 72. Felly yn gymmwys yr Iachawdwr gostyngedig, yr hwn a allasai ddywedyd mewn gwirionedd, "O Arglwydd, nid ymfalchiodd fy nghalon, ac nid ymddercha fodd fy llygaid," Salm cxxxi. 1, a gyfodwyd o'i gyflwr o ddarostyngiad isel i frigyn uchaf gogoniant, i fod nid yn unig yn ben i'w eglwys, ond i'r Cenedloedd; a'r bobl y rhai nis adwaenant ef, a wneir i wasanaethu ei ewyllys. Ond yn hyn y mae efe yn rhagori yn mhell ar y cysgod, nad yw cofnodau ei dyrnasiad wedi ei llychwyno â'r man du lleiaf, ac "ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd," Esa. ix. 7.

Ni chrybwyllwn, yn y lle olaf, ond am y cyfammod o frenindod y rhyngodd bodd i Dduw ei wneuthur â Dafydd, ac â'i hâd dros byth; cysgod o'r cyfammod hwnw a wnaethai Duw â Christ, fel cynnrychiolydd ei bobl. O! Dafydd, y cyfammod hwn oedd dy gyssur yn dy holl brofedigaethau teuluaidd, a than yr ofnau pruddaidd o wrthgiliad dy ganlyniedydd! O! bydded ef hefyd yn gyssur i ninnau, a llawenyched holl blant Sion yn eu brenin!

DAGON; prif dduw y Philistiaid. Gosodir ef allan yn gyffredin fel dyn ei ranau uchaf, gyda chynffon pysgodyn; a meddylir ei fod yn ddaruniol o Noah, yr hwn a nofiodd yn ôl yn ei arch, ac iddo gael ei enw oddi wrth *dag*, sef pysgodyn; ond myn ereill fod ei enw yn deilliaw oddi wrth *dagan*, sef ŷd; a chyfrifant ef yn ddarlun o Isis yr Aiphtiaid, yr hwn a ddysgodd iddynt i wrteithio y neusydd, a malu blawd. Yn Gaza, ynodd Samson ei deml i lawr ar ben ei holl addolwyr, Barn. xv. 21—30. Yn Asdod, pan osodwyd arch Duw i fynu yn ei deml, fel pe buasai yn anrhaith cyfreithlawn iddo, syrthiodd ei ddelw i lawr o'i blaen: a thorwyd ei ben a chledrau ei ddwylaw ar y trothwy. Am ba achos, ni sathrai ei offeiriaid byth mwyach ar y trothwy, ond neidient drosto, wrth fyned i mewn i'r deml, 1 Sam. v. Yn nghylch A. M. 3840, llosgodd Jonathan y Maccabead hi, a gweddillion byddin y Syriaid, y rhai a ffoisent iddi. Er y pryd hwnw, ni chlywir ychwaneg am fodoliaeth Dagon. Hwyrach mai yr un âg ef oedd *Oducon* duw y Caldeaid.

DAGRAU *(dag*, tywalltiad). 1. Defnynau o wlybaniaeth a syrthiant o'r llygaid pan yn wylaw, Salm vi. 6. (2.) Cystudd a gofid mawr, Salm cxxvi. 5. Esa. xxv. 8.

DAIL (*dai*, cynnyrch). Y mae dail i goed, llyfrau, drysau, &c. Esa. i. 30. Gwisg gyntaf Adda ac Efa o *ddail y ffigysbren*, oedd yn arwyddlun o hunan-gyfiawnder dynion, yr hwn sydd raid iddynt ei ddiosg er gwisgo am danynt yr Arglwydd Iesu, ein haberth gogoneddus, Gen. iii. 7. *Dail* Crist *er iachau y cenedloedd*, ydyw ei swyddau, ei ymddangosiadau, ei air, ei ordinhadau, a'i ddylanwadau, trwy ba rai yr iacheir ein hafiechyd ysbrydol, Dad. xxii. 2. Gelwir proffes o'r wir grefydd yn *ddail*; y mae yn addurniadol ac yn hardd iawn. Yn y saint, nid ydyw hi, a'r dedwyddwch sydd yn ei chanlyn, byth yn gwywo nac yn darfod; ac y mae yn *feddyginiaeth* ac yn foddion gwynfydedig o ddwyn ereill at Grist, er gwellhad ac iechyd eu heneidiau; ond mewn rhagrithwyr, yr Iuddewon, neu ereill, pa mor fuan y mae yn gwywo, ac y mae heb ffrwythau da yn ei chanlyn! Salm i. 5. Jer. xvii. 9. Ezec. xlvii. 12. Mat. xxi. 19. Cyffelybir llwyddiant i *ddeilen*; mor hardd a phrydferth yw dros ennyd! ond mor fuan y mae yn gwywo ac yn diflannu! Dan. iv. 12, 14. I nodi ei gyflwr trallodus, diorphwys, a digyssur, cyffelyba Job ei hun i *ddeilen ysgwydedig a soflyn sych*, Job xiii. 25. Syrthio, neu *wywo fel deilen*, yw cael ein dinystrio, neu golli pob ymddangosiad da, yn ddisymmwth, Esa. xxxiv. 4, a lxiv. 6.

DAL, *(al,* gallu) attal, gafaelyd. Y mae gweinidogion yn *dal dynion,* pan fyddont yn offerynol i'w troi at Grist trwy yr efengyl, Luc v. 10. Act. ii. 14—41. Cymmerai y gau apostolion arnynt fod Paul yn *dal* ei wrandawyr *trwy ddichell,* sef trwy ddefnyddio moddion anghywir i gaffael eu harian, 2 Cor. xii. 16. Y mae y gau athrawon yn *dal* ac yn *tarfu* defaid Crist, trwy eu dyrysu yn eu hamryfusedd, neu gyfodi erlidigaethau yn eu herbyn, Ioan x. 12. Y mae y Cristionogion yn *cynnal* gair y bywyd; y maent hwy, trwy fucheddu yn ei ol, yn rhoddi goleuni ac addysg i ereill, Phil. ii. 16. Eu bod heb *gyfattal* Crist y pen, yw eu gwaith yn esgeuluso tynnu rhinwedd graslawn oddi wrtho ef, a rhoddi ymostyngiad iddo; a'u gwaith yn derbyn saint ac angelion fel cyfryngwyr yn ei le ef, Col. ii. 19.

DALMANUTHA, *(dwfr-lestr darparedig)* dinas o du y dwyrain i fôr Tiberias. Naill ai yr un oedd hi â Magdala, neu yr oedd yn agos iddi; ac o herwydd hyn dywed un efengylwr i Grist a'i ddysgyblion dirio yn mharthau Dalmanutha; a'r llall, iddo dirio yn mharthau Magdala, Marc viii. 10. Mat. xv. 39.

DALMATIA, *(llusern)* talaeth o ben Ilyricum, o du y dwyrain i fôr-gilfach Venice. Gydag anhawsdra nid bychan y darostyngodd y Rhufeiniaid hi. Yn mhen hir amser wedi hyny, difrodwyd hi yn ddychrynllyd gan y Quadi, y Gothiaid, a'r Huniaid. O.A.D. 1076 hyd 1310, bu gan y Dalmatiaid freiniaeth o'r eiddynt eu hunain. Oddigerth gwerin-wladwriaeth fechan Ragusa, y mae Dalmatia yn awr yn ddarostyngedig mewn rhan i'r Venetiaid, ac mewn rhan i'r Tyrciaid. Er pan y bu Titus yn pregethu yr efengyl yma, ni ddiddymwyd y grefydd Gristionogol byth yn llwyr, 2 Tim. iv. 10.

DALL—INEB *(all,* arall). Cymmerir *dallineb* weithiau am amddifadiad gwirioneddol o oleuni, ac, weithiau, am ddim rhagor na thywyllni yr olwg; er enghraifft, yr oedd dallineb y gwr y crybwyllir am dano yn yr efengyl, yr hwn a anesid yn ddall, yn wirioneddol, a chollasai ei olwg yn gyfangwbl. Collodd gwyr *Sodoma,* y rhai a ymdrechent ddyfod o hyd i ddrws tŷ Lot, ac nis gallent, a *Paul,* dros y tri niwrnod cyntaf o'i arosiad yn Damascus, wasanaeth eu golygon dros amser yn unig; swyddau eu llygaid a attaliwyd. Y mae y LXX wedi darlunio y sefyllfa yn mha un yr oedd trigolion *Sodoma* yn hynod dda, trwy fynegu iddynt gael eu taraw âg *aorasia,* fel pe dywedasent âg *avidentia,* neu gydag analluogrwydd gwirioneddol i weled.

Y mae Moses yn gwahardd doddunrhyw beth o flaen y dall gydabwriad o wneuthur iddo syrthio; *nac ddod dramgwydd o flaen y dall,* yn hyn a ellir ei ddeall yn syml a llythyrenol; neu, fel pe gorchymynasai Moses trwy hyn y dynoliaeth a'r caredigrwydd hyny a ddylid eu dangos i'r rhai sydd mewn diffyg oleuni a chyngor, i osod y rhai hyny ar y ffordd ag sydd mewn perygl o grwydro allan o honi, i hyfforddi yn anwybodus, a pheidio tramgwyddo y tylawd a'r gwael, Lef. xix. 14.

Ymddengys fod Moses yn eglurodei feddwl yn Deut. xxvii. 14, lle y dywed efe, *melldigedig yw yr hwn a baro i'r dall gyfeiliorni allan o'r ffordd.*

Y Jebusiaid, mewn ffordd o anmharch i Dafydd a'i wyr, y rhai a warchauent ar Jerusalem, a'i gwatwarasant ef yn y geiriau canlynol: *Ni ddeui di i mewn yma, onithynni ymaith y deillion a'r cloffion,* y rhai a amddiffynant y lle; felpe, mewn gwirionedd, er gwneuthur i'w hanmharch ymddangos yn fwy, y gosodasent bobl o'r fath hyn ar eu muriau; neu, fel pe buasent ynmeddwl nad oeddynt yn cnwennych bod neb ond y deillion a'r cloffion yn amddiffyn eu dinas.

Jerusalem, er hyny, a ennillwyd, a Dafydd ni faddeuodd i neb o'r bobl ddeillion a chloffion y rhai a'i hanmharchasent ef; *efe a darawodd y deillion a'r cloffion y rhai oeddyn gâs gan enaid Dafydd.* Job a ddywed ei fod yn llygaid i'r *dall,* sei fod wedi rhoddi cyngor da i'r saw a safent mewn angen am dano, e fod wedi cymmeryd trafferth i'w gosod hwy yn iawn, y rhai, trwyddiffyg goleuni, a aethent ar gyfeiliorn, Job xxix. 15. Ein Hiachawdwr, bron yn yr un ystyr, a ddywed, *os y dall a dywys y dall,* g *ddau a syrthiant yn y ffos,* Mat

xv. 14. Ei amcan oedd, i ddarlunio rhyfyg y Phariseaid; y rhai, er mor ddall oeddynt yn ffyrdd Duw, etto a gymmerent arnynt dywys ereill. Drachefn, efe a ddywed wrthynt mewn lle arall, mai ei ddyben yn dod i'r byd oedd, *fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion.* A chan i'r Phariseaid ddeall i hyn gael ei ddywedyd gyda golwg arnynt hwy, attebasant, *A ydym ninnau hefyd yn ddeillion?* Efe a attebodd iddynt, *Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod: eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; am hyny y mae eich pechod yn aros,* Ioan ix. 39, 40, 41. Pe buasech yn deimladwy fod arnoch angen goleuni, a phe cyfeiriasech eich wynebau atto ef, yr hwn yw goleuni y byd, chwi a allasech ochelyd y pechod o'i wrthod ef. Un o brif nodau y Messiah y cymmerir sylw o honynt gan y prophwydi, yw, y byddai iddo roddi llygaid i'r *deillion.* Hyn, gan hyny, a gynnygodd Iesu Grist i sylw dysgyblion *Ioan,* y rhai a ddaethent oddi wrth eu meistr i wybod ai efe oedd y person a ddysgwylid. Mynegwch i *Ioan,* medd efe wrthynt, y pethau a glywch ac a welwch; *y mae y deillion yn gweled eilwaith, y byddariaid yn clywed,* &c. Mat. xi. 5. Luc vii. 11. Y mae yr efengylwyr wedi cadw coffadwriaeth am fwy nag un iachâd gwyrthiol a wnaed gan ein Hiachawdwr ar y deillion.

Sylwir yn fynych ar *ddallineb calon* yr *Iuddewon* cyndyn, yn enwedig yn llyfrau y Testament Newydd; gwelodd ein Hiachawdwr ef, ac a flinwyd o'i achos. Rhagfynegodd *Esaiah* am dano; a Duw, yn llefaru wrtho ef am dano, a ddywedodd, *Dos, a dywed wrth y bobl hyn, gan weled y gwelwch, ond ni wybyddwch, brasha galon y bobl hyn, a thrymha eu clustiau, a chau eu llygaid,* Esa. vi. 9, 10. Hyny yw, prophwyda a dywed wrthynt hwy a fyuant fod yn ddeillion a chyndyn, na chant weled na deall pa beth a fwriedir i'r dyben o gaffael iachawdwriaeth iddynt. Y mae barnwyr yn *ddeillion,* pan fydd anwybodaeth, gwobrwyau, neu bleidgarwch, yn eu rhwystro i ganfod yr hyn sydd gyfiawn a chymmwys mewn achos, Exod. xxiii. 8. Y mae athrawon yn *ddeillion,* pan fydd anwybodaeth, anrhydedd, neu elw bydol yn eu hattal i ganfod y gwirionedd dwyfol, perygl bygythiol, a dyledswydd brydlawn, Esa. lvi. 10, a xlii. 19. Mat. xxiii. 16. Y mae pobl yn *ddeillion,* pan fydd gwendid, hunan-dyb, casineb at eu brodyr, neu y cyffelyb, yn eu rhwystro i ganfod pethau dwyfol, 1 Ioan ii. 11.

Tan y gyfraith, nid oedd neb *dall* na *chloff* i weinyddu yn yr offeiriadaeth; nac un anifel *dall* neu *gloff* i gael ei aberthu. Dyben mawr y gyfraith, yn mhob gorchymyn o'r fath, oedd cyfeirio at berffeithrwydd anfeidrol cymmeriad Mab Duw, yr Archoffeiriad mawr a'r aberth difrycheulyd, yr hwn, yn ngolwg Duw, sydd yn werthfawr, Lef. xxi. 18.

DAMASCUS; dinas enwog, a fu dros hir amser yn brif ddinas Syria, yn sefyll yn nghylch 160 o filltiroedd o du y gogledd-ddwyrain i Jerusalem, yn y gwastadedd hyfryd rhwng mynydd Libanus yn y gorllewin, a Hermon yn y dehau. Am fod ei henw, yn ol barn rhai, yn arwyddoccau *gwaed gwr cyflawn,* dychymmygant mai yma y lladdwyd Abel. Yr oedd y ddinas hon mewn bod yn amser Abraham, Gen. xiv. 15. Dywedir ei fod yn teyrnasu ynddi dros ryw gymmaint o amser: ond y mae yn llawer mwy sicr mai priodor o honi oedd Eleazer, ei ben gwas ef, Gen. xv. 2. Tua diwedd teyrnasiad Solomon, gwnaeth Rezon hi yn brif ddinas ei deyrnas, sef Syria, 1 Bren. xi. 24. Ynnillwyd hi gan Jeroboam, mab Joas, brenin Israel, 2 Bren. xiv. 28.

Yn nghylch 100 mlynedd wedi hyny, A. M. 3264, dinystriodd Tiglath-Pileser hi, a dygodd ei thrigolion yn gaethion i Cir, Esa. vii. 4, viii. 4, a ix. 9. Amos i. 3, 4. Rhai a feddyliant i Sennacherib ei hadennill yn ei ymgyrch yn erbyn Hezeciah; ond y mae yn fwy sicr iddi ddyfod yn fuan wedi hyn yn ddinas flodeuog, a chael ei hanrheithio a'i hynnill gan Nebuchodonozor, Jer. xxv. 9, 10, a xlix. 23, 24. Ezec. xxvii. 18. Adfeddiannodd ei dyscleirdeb drachefn, ond bradychwyd hi i luoedd Alexander A. M. 3671, a thrysorau Darius, yn

nghyd â rhan o'i deulu, ynddi. Yn nghylch A. M. 3939, cymmerodd y Rhufeiniaid feddiant o honi. Yn fuan ar ol hyn, cawn hi yn drigfan tywysog Arabaidd, darostyngedig i'r Rhufeiniaid. 2 Cor. xi. 32. O ddeutu A.D. 620, ennillodd *Cosrhoes* brenin Persia hi oddi ar y Rhufeiniaid; ond adennillwyd hi yn fuan; ac yn mhen ychydig flyneddoedd wedi hyn cymmerwyd hi gan y Saraceniaid. Yn ystod yr 11eg, y 12fed, a'r 13eg canrif, gwnaed hi yn fynych yn ddrych o ddifrod a gwaeddywalltiad gan y Tyrciaid Seljuciaidd, y milwyr Europaidd yn Rhyfel y Groes, &c. Zech. ix. 1. Yma y pregethwyd yr efengyl yn foreu gan Ananias, Paul, ac ereill; a pharhaodd yr eglwys Gristionogol ynddi mewn trefn dda, tros bir amser. Ond er ys llawer o oesoedd a aethant heibio, nid oes ond ychydig iawn o Gristionogrwydd priodol i'w gael yno. Yn bresennol, y mae y lle yn meddu peth ardderchogrwydd allanol, a llawer o adfeiliau mawrwych; ond nid yw eu tai yn gyffredin ond ychydig yn well na bythod; a'r dodrefn sydd yn fwy truenus fyth. Y mae yr afon Abanah yn dyfrhau eu gerddi. Ar dywydd gwlawiog, y mae eu heolydd yn llawn llaid a budreddi. Y mae yn nghylch 20,000 o'r trigolion yn gyllellwyr. O Damascus y mae y sidanau *damasc*, y rhosynau, a'r eirin *damasc*, yn dyfod i Europ.

DAMMEG, *(meg*, ymadrodd) gosodiad cyffelybiaethol o wirioneddau allan. Yr oedd gynt yn beth cyffredin iawn gan wyr doethion i draethu eu syniadau mewn dammegion; ond yr oedd yn cael ei gyfrif yn bur anmhriodol i ffyliaid letaru dammegion, Diar. xxvi. 7. Trwy ddammeg y coed yn dewis brenin, y dangosodd Jotham i'r Sechemiaid eu hynfydrwydd yn dewis ei ordderchfrawd Abimelec. A math o ddammegion neu ddychymmygion, y difyrodd Samson ei gyfeillion yn ystod ei wledd briodasol, Barn. ix, a xiv. Trwy ddammeg yr arweiniodd Nathan ei gerydd i Dafydd am ei odineb a'i lofruddiaeth i mewn, ac y denodd y wraig weddw o Tecoah ef i gyrchu Absalom yn ol, 2 Sam. xii, a xiv. Byddai y prophwydi yn fynych, nid yn unig yn arfer iaith ddammegol, er gosod eilunaddolwyr a godineb wyr allan, &c. ond weithiau yn ychwanegu gweithredoedd dammegol; megys pan y rhodiodd Esaiah bron yn noeth, ac wedi diosg ei esgidiau am dair blynedd; y cuddiodd Jeremiah ei wregys wrth yr afon Euphrates; y gorweddodd Ezeciel ger bron ei badell haiarn, yr eilliodd a'i y rhanodd ei wallt, ac y dygodd ddodrefn ei dŷ allan, &c. Esa. xx. Jer. xiii. Ezec. iv. 5, a xii. Math. o ddammegion hefyd oedd lluaws o'u gweledigaethau hwy; megys crochan berwedig a chawell ffigys Jeremiah, &c. Jer. i. a xxiv. Yr amser ein Hiachawdwr, yr oedd y drefn o addysgu trwy ddammegion yn gyffredin iawn. Efe a'i dygodd hi i uchder rhagoroldeb a defnyddioldeb. Fel y mae dammegion yn amliawn yn gosod gwirioneddau allan, megys trwy fath o hanes byr; felly ynddynt, yn enwedig eiddo ein Hiachawdwr, dichon yn fynych fod cyfeiriad at weithredoedd gwirioneddol, yn hyn sydd yn ychwanegu harddwch nid bychan at y ddammeg. Ei ddammeg am deithiau yr ysbryd aflan, ac am yr hauwr, yr efrau, tyfiant yr ydau, yr hedyn mwstard, y surdoes, y trysor cuddiedig, y perl, y rhwyd, y ddau ddyledwr, y Samariad, y glwth goludog, y gweision yn dysgwyl am eu hargiwydd, y ffigys bren ddiffrwyth, y ddafad gyfrgolledig, y darn arian colledig, y mab afradlon, y goruchwyliwr anghyfiawn, Lazarus a'r gwr goludog, y barnwr anghyfiawn, y Pharisead a'r publican, y ddau was y rhai oeddyn ddyledwyr, y llafurwyr, y puntoedd y ddau fab, y winllan wedi ei gosod allan i lafurwyr, y wledd briodasol y deng morwyn, y deg talent, y defaid a'r geifr, ydynt wedi eu tynu oddi wrth bethau amlwg a chyffredin; ac etto mor dderchafedig yw y addysg a gludant! Er deall dammegion, priodol ydyw sylwi, (1. Nad yw yn angenrheidiol fod yr arddangosiad o bethau naturiol mewn dammeg yn wirionedd yn yr ystyr manylaf, o herwydd nid yr amcan yw hysbysu yn nghylch y rhai hyn ond yn nghylch rhyw wirioneddau mwy pwysig: ac nid yw yn angenrheidiol fod pob gweithred mewn dammeg yn gwbl gyfiawn yn yr ystyr gaethaf, 2 Sam. xiv. Luc xvi

1—8. (2.) Rhaid i ni yn benafddal ar gyfeiriad y ddammeg, yr hyn sydd i'w gasglu oddi wrth y cymmwysiad ysbrydol o honi, neu oddi wrth yr arweiniad i mewn iddi, neu ei therfyniad. (3.) Oddi yma y canlyn, nad ydym i ddisgwyl fod pob amgylchiad yn y ddammeg i gael ei atteb gan rywbeth yn yr eglurhad; o herwydd gellir ychwanegu amryw amgylchiadau er mwyn harddwch, neu gyfeiriad yn unig at y peth hwnw oddi wrth ba un y cymmerwyd cynllun y ddammeg. (4.) Etto dichon dammeg hysbysu amryw wirioneddau i ni heblaw y cyfeiriad o honi.

DAMNEDIGAETH, DAMNIO; a arwydda gospedigaeth derfynol a thragywyddol yr annuwiolion, Mat. xxiii. 33. 2 Petr ii. 3. Bydd adgyfodiad y meirw, sef y cyfiawn a'r anghyfiawn; am hyny cymmer y ddamnedigaeth hon le yn yr adgyfodiad, yr hwn, yn ganlynol, a elwir yn *adgyfodiad barn* neu *ddamnedigaeth*, Ioan v. 29; ac yn ol y ddedfryd arswydus, *Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barottowyd i ddiafol ac i'w angelion.* Ymddengys fod y gair yn meddu cyfeiriad neilltuol at wrthodiad o'r efengyl; am ei fod yn dyfod gyda'r hysbysiad dilys hwn, *yr hwn nid yw yn credu, a ddemnir*, Ioan iii. 18. 2 Thes. ii. 11. Y mae yr hwn a wnêl beth y petrusa yn nghylch ei gyfreithlondeb, wedi ei *ddamnio;* sef wedi ei gondemnio yn ei feddwl ei hun, Rhuf. xiv. 23. Bwytta ac yfed yn annheilwng, a elwir bwytta ac yfed *damnedigaeth*, hyny yw *barnedigaeth*. Eglura Mr. *Brown* y geiriau hyn, am fwytta ac yfed *damnedigaeth dragywyddol:* ond nid ymddengys mai hyny yw ystyr y testun, o herwydd er y derbyn pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn dal edigaeth; etto ymddengys yn eglur fod y gair a gyfeithir *damnedigaeth* yn 1 Cor. xi. 20, yn golygu y farnedigaeth honno a grybwyllir yn adn. 30, 31, 32. Yr oedd amryw yn weiniaid ac yn llesg yn eglwys Corinth, fel cospedigaeth a cherydd dwyfol am eu gwaith yn cymmuno yn annheilwng.

DAN, *(barn)*. Pummed mab Jacob, a'r henaf o'i feibion o Bilhah. Ni feddai ond un mab, sef Hushim neu Shuham, Gen. xlvi. 23; etto, pan y daeth y llwyth hwn i fynu o'r Aipht, yn nghylch 210 o flyneddoedd wedi hyny, cynnwysai 62,700, dan lywodraeth Abiezer mab Amisadai; ac yn yr anialwch cynnyddasant hyd yn 64,400. Eu hyspiwr i chwilio ansawdd gwlad yr addewid oedd Ammiel mab Gemali; a'n tywysog i'w rhanu, oedd Bucci, mab Jogli. Yr oeddynt hwy, yn nghyd â llwyth Aser a Naphtali, yn ffurfio y pedwarydd dosparth o wersyll yr Hebreaid yn yr anialwch, ac yn cychwyn yn olaf. Num. i. 12, 39, a xxvi. 43, a xiii. 12, a xxxiv. 22, a viii. 25. Gorweddai eu hetifeddiaeth o du y goglledd-orllewin i Judah; ond cadwodd yr Ammoriaid feddiant o ran fawr o'r is-diroedd, yn enwedig Ajalon a Saalabin, nes i'r llwyth cymmydogaethol, Ephraim, beri iddynt dalu teyrnged, Jos. xix. 40—48. Barn. i. 34, 35. Rhan o'r Daniaid, wedi hysbysu iddynt am ddinas o du y goglledd i Basan, yr hon a ellid yn hawdd ei bennill oddi ar y Canaaneaid, a aethant, yn 600 o rifedi, ac a gymmerasant feddiant o honi, ac a'i galwasant hi Dan, yn ol enw eu tad. Ar eu ffordd yno, yspeiliasant Micah yr Ephraimiad o'i ddelw; ac, yn Dan, gosodasant hi i fynu, a pharasant i'w haddoli, hyd nes y caethgludwyd hwy gan Tiglath-Pileser, Barn. xviii. Deut. xxxiii. 22. Yn ystod gorthrymder y brenin Jabin, y Daniaid, yn ddiystyr o drueni eu brodyr, a ymroddasant i fôr-fasnach, ac a anfonasant eu heiddo ymaith mewn llongau i ryw wlad arall, Barn. v. 17. Samson, un o'r llwyth hwn, pan yn farnwr ar Israel, a faluriodd y Philistiaid yn arswydus, mewn modd mwy dirgeleiddd, ac nid mewn rhyfel cyhoeddus, Gen. xlix. 16, 17. Yr oedd 28,600 o'r Daniaid yn gweini yn amser coroniad Dafydd, 1 Cron. xii. 35. O herwydd fod y llwyth hwn yn gorwedd mor agos i'r Philistiaid, diammeu ei fod yn cael ei flino yn hynod ganddynt.

DAN; dinas o du y dwyrain i darddiad yr Iorddonen, ac o du y dehau i fynydd Libanus. Adeiladwyd hi yn foreu gan y Canaaneaid, a galwyd hi Lais, neu Lesem. Gwedi diwedd rhyfeloedd Josuah, daeth y trigolion yn dra diogel, ac nid ym-

gyssylltent â neb. Hudodd hyn y Daniaid, y rhai oeddynt yn byw yn nghylch 140 o filltiroedd oddi yno tu a'r dehau-orllewin, i ddyfod a chymeryd meddiant o honi. Gerllaw y lle hwn y gorchfygodd Abraham Cedorlaomer a'r breninoedd oeddynt mewn cynghrair âg ef, Gen. xiv. 14. Yma y cafodd eilunaddoliaeth yr Hebreaid ei sefydliad cyhoeddus cyntaf, Barn. xviii. 19, 30, 31. Yma y gosododd Jeroboam un o'i loi aur i fynu, 1 Bren. xii. 29. Benhadad brenin Syria a'i hynnillodd ac a'i hanrheithiodd hi, 1 Bren. xv. 20. Gwedi caethiwed y deg llwyth, ymddengys ei bod yn lle cryn enwog; a bu hi, neu hwyrach llwyth Dan yn gyffredinol, yn dwyn masnach yn mlaen â'r Tyriaid, Ezec. xxvii. 12. Arweiniodd Nebuchodonozor ei luoedd y ffordd hon i orescyn Judea, Jer. iv. 15, a viii. 16. Yn ystod amser ymddarostyngiad ein Hiachawdwr, adeiladodd Philip y tetrarch y lle hwn yn hardd, neu un yn agos iawn atto, ac a'i galwodd Cesarea-Philippi, yr hwn a orweddai yn nghylch taith diwrnod o du y dwyrain i Sidon, a rhywfaint yn ychwaneg na hyny o du y gorllewin i Damascus, Marc viii. 27.

DANIEL *(Duw fy marnwr)*. 1. Mab Dafydd o Abigail, ac hwyrach yr un â Cileab, 2 Sam. iii. 3. 2 Cron. iii. 1. (2.) Offeiriad o deulu Ithamar, yr hwn a ddaeth gydag Ezra o Babilon i Judea, A.M. 3550; ac, yn nghylch 20 mlynedd wedi hyny, a seliodd, tebygol, gyfammod Nehemiah o ddiwygiad, Ezra viii. 2. Neh. x. 6.

(3.) *Daniel*, y prophwyd, oedd o deulu breninol Judah; ac, yn nghyd âg ereill, a gaethgludwyd i Babilon, o ddeutu A. M. 3398. Trwy orchymyn Nebuchodonozor, cafodd ef, yn nghyd â thri o fechgyn ereill, eu dwyn i fynu yn holl ddysgeidiaeth y Caldeaid. Rhoddwyd enwau newyddion arnynt oll, yn arwydd o eu perthynas âg eilunod Babilon. Daniel a alwyd *Beltesassar:* Hananiah, *Sadrach;* Misael, *Mesach;* ac Azariah, *Abednego*. Gosodid i'r rhai hyn, a gwyr ieuainge ereill a ddygid i fynu yn yr un modd, ddogn beunyddiol o fwyd oddi ar fwrdd y brenin ei hun: ond gan fod y cyfryw ymborth mewn rhan yn waharddedig gan y gyfraith Iuddewig, neus yn pesgu eu cnawd yn ormodol, ac hwyrach yn achlysur i'w hudo i eilunaddoliaeth, ac nad oedd, o leiaf, yn gyfaddas i gyfiwr caethion, erfyniodd Daniel a'i dri chyfaill ar y pen-ystafellydd am roddi *ffa* iddynt yn ei le. Efe a naccaodd, rhag i'w gwaith yn ymborthi ar ffa eu gwneuthur i ymddangos yn gulion, ac felly i'w fywyd ef gael ei beryglu; ond Melsar ei raglyw, gwedi eu profi ddeg diwrnod â ffa, a chael eu bod yn edrych yn well na'r rhai a fwytasent o fwyd y brenin, a ganiattaodd ffa iddynt fel lluniaeth cyffredin. Rhagorodd y pedwar yn fuan ar eu cymdeithion mewn tegwch a dysgeidiaeth, a derbyniwyd hwy i sefyll ger bron y brenin. Cafwyd fod eu doethineb yn mhell uwchlaw eiddo holl ddoethion Babilon, Dan. i.

Yr oedd enwogrwydd Daniel am dduwioldeb a doethineb yn fawr iawn, pan nad oedd efe ond llangc, Ezec. xiv. 14, 20, a xxviii. 3. Cynnysgaethodd mynych achlysuron ef â chyfleusdra i amlygu ei ddoethineb. Yn nghylch A. M. 3400 breuddwydiodd Nebuchodonozor am ddelw fawr â'i phen o aur, ei dwyfron a'i breichiau o arian, ei bol a'i morddwydydd o brês, a'i choesau o haiarn, a'i thraed oeddynt beth o honynt o haiarn, a pheth o bridd. Maluriwyd hi gan garreg fechan a dorasid o fynydd nid trwy waith dwylaw, yr hon a gynnyddodd yn raddol yn fynydd mawr, pa un a lanwodd yr holl ddaear. Effeithiodd y breuddwyd hwn yn ddwys arno; ond efe a'i anghofiodd yn fuan. Casgliodd luaws mawr o'i ddoethion yn nghyd; ac o herwydd nad allent fynegu y breuddwyd iddo, na'i ddehongliad, efe a roddodd orchymyn i'w lladd, pa un bynag ai yn bresennol neu yn absennol yr oeddynt. Gosodwyd Daniel a'i dri chyfaill, ev na alwesid hwy i wneuthur profiad o'u medrusrwydd, i farw. Daniel, wedi clywed o hono am y gyfraith waedlyd hon, a erfyniodd ar Arioc, y distain a bennodasid i arolygu y dienyddiad, i oedi ychydig, nes y profai efe a'i gymdeithion i gyflawni dymuniad y brenin. Gwedi i Daniel a'i gyfeillion dreulio rhai oriau mewn ympryd a gweddi, arweiniwyd ef gan Arioc i wydd y brenin;

efe a adroddodd iddo ei freuddwyd am y *ddelw;* a eglurodd y *pen euraidd*, am freiniaeth y Caldeaid ; y *ddwyfron a'r breichiau arian*, am yr unFedo-Persiaidd ; y *bol a'r morddwydyddpres*, am yr un Roegaidd; yr hon, yn fuan ar ol ei chyfodiad, a ddosparthwyd yn ddwy, sef y freiniaeth Syro-Groegaidd a'r Aiphtaidd Roegaidd ; y *coesau a'r traed haiarn*, am yr un Rufeinaidd, yr hon a ranwyd, yn mhen yspaid o amser, yn amherodraeth ddwyreiniol a gorllewinol, ac, yn y diwedd, yn ddeg o wahanol bennaduriaethau ; pa bedair amherodraeth a ddadymchwelid y naill ar ol y llall, er gwneuthur ffordd i ogoniant Crist a'i eglwys i lanw yr holl ddaear. Boddionwyd Nebuchodonozor mor gyfangwbl a'r adroddiad a'r dehongliad hwn o'i freuddwyd, fel y gosododd efe Daniel, yn ddiattreg, yn ben ar ei holl ddoethion, ac, ar ei ddeisyfiad ef, a dderchafodd ei dri chyfaill i leoedd o lywodraeth yn nhalaeth Babilon, Dan. ii. Yn nghylch 16, neu hwyrach 32 o flynedd oedd ar ol hyn, pan ddychwelodd Nebuchodonozor o'r fuddugoliaeth a ennillasai ar Judea, neu yr Aipht, efe a osododd ddelw anferth i fynu yn ngwastadedd Dura, ac a orchymynodd i bawb, cyn gynted ag y clywent sain y gynghanedd ar yr achlysur hwnw, i syrthio i lawr a'i haddoli hi. Naill ai yr oedd Daniel y pryd hwnw yn absennol o Babilon, neu yr oedd ei uchel anrhydedd, a'r gyfran helaeth a fwynhai o ewyllys da y brenin, yn peri i'w elynion ofni ei gyhuddo ef: ond cyhuddwyd Sadrach, Mesach, ac Abednego, a gwysiwyd hwy ger bron y brenin fel euogion. Wrth eu holi, mynegasant eu bwriad i beidio addoli y ddelw, a'u hyder cadarnaf yn ngallu eu Duw i'w gwaredu o'r ffwrn danllyd boeth. Nebuchodonozor, wedi llidio o herwydd eu batteb diysgog, a orchymynodd iddynt gael eu bwrw yn rhwym i'r ffwrn dân, yr hon oedd wedi ei phoethi yn seithwaith poethach nag arferol. Y ffiam a afaelodd yn y rhai a'u bwriasant hwy i mewn, ac a'u llosgodd yn ulw. Ond, trwy gyfryngiad Mab Duw, yr hwn a ymddangosodd yn rhodio gyda hwynt yn y ffwrn, ni chaniattawyd i'r tân ond yn unig llosgi eu rhwymau, eithr dim cymmaint â deifio eu gwisgoedd, neu fewyn o'u penau. Nebuchodonozor, wrth ganfod hyn, a'u galwodd i ddyfod allan ; yr hyn a wnaethant, a derchafwyd hwy i sefyllfaoedd mwy anrhydeddus: a'r brenin a wnaeth orchymyn, Os llefarai neb yn anmharchus am Dduw yr Iuddewon, gallu a mawrhydi pa un oeddynt mor hynod, y rhoddid ef i farwolaeth, ac y tröid ei dŷ yn dommen, Dan. iii. Yn nghylch y 35 flwyddyn o'i deyrnasiad, breuddwydiodd Nebuchodonozor am bren mawr a blodeuog wedi ei dorri i lawr, a dim yn rhagor o hono wedi ei adael ond y boncyff, yr hwn a sierhasid yn y ddaear, i gael ei wlychu â gwlith y nefoedd, nes y cyfnewidid saith amser arno ef. Pan nad allai neb o'r dewiniaid, na'r ymhonwyr ereill i ddoethineb, ei ddehongli, mynegodd Daniel, ar ol gwneuthur rhagarweiniad hardd iddo, a rhoddi cyngor cyfeillgar, i'r brenin, fod ei freuddwyd yn arwyddo yr amddifedid ef o'i reswm a'i urddas breninol, ac y byddai byw, am saith mlynedd, fel bwystfil yn y maes ; gwedi hyny, y dychwelid ei reswm a'i freiniaeth yn ol iddo, Dan. iv.

O ddeutu A. M. 3451, cafodd Daniel ei hun weledigaeth o *bedwar bwystfil* yn dyfod i fynu o'r môr, sef *llew, arth, llewpard*, ac anifel erchyll ac ofnadwy. Angel a fynegodd iddo eu bod yn arwyddoccau yr amherodraethau Caldeaidd, Persiaidd, Groegaidd, a Rhufeinaidd ; yr olaf o ba rai, efe a sierhaodd iddo, a renid yn ei chwymp, yn ddeg breniniaeth, ac a roddai ddechreuad i Anghrist, parhad pa un a fyddai yn 1260 o flynedd oedd, Dan. vii. Yn mhen dwy flynedd wedi hyny, cafodd weledigaeth arall o *hwrdd corniol*, â dau gorn iddo, ac o *fwch geifr*, yr hwn a'i dinystriodd ef. Angel a fynegodd iddo fod yr hwrdd yn arwyddoccau amherodraeth y Mediaid a'r Persiaid ; a'r bwch geifr, amherodraeth y Groegiaid, y rhai, tan Alexander, a ddinystrient y Persiaid, ac, wedi hyny, a renid yn amryw freiniaethau ; un o ba rai, ychydig cyn ei chwymp, a lywodraethid gan Antiochus Epiphanes, gwr hynod am ei frynti, ei fuddugoliaethau, a'i erlidigaeth o'r Iuddewon, a'i ddiddymiad o'u haberth beunydd-

iol, dros 1150 o ddyddiau, neu 2300 ohwyrau a boreuau, Dan. viii. Yn A. M. 3466, anfonwyd am Daniel, trwy gyngor Nitocris, ac eglurodd i Belsassar a gwyr ei lys y llaw-ysgrifen ar y pared, ac a wnaed yn drydydd llywodraethwr yn y deyrnas.

Darius y Mediad, wedi palmantu y ffordd y noson honno, i sefydlu ei amherodraeth newydd, a osododd Daniel yn drydydd llywodraethwr ynddi, ac a fwriadodd ei wneuthur ef yn rhaglyw, nesaf atto ei hun. Y tywysogion Paganaidd a'i casasant ef o achos ei grefydd, ac a ymgynddeiriogasant o herwydd ei ddercharfiad. Yn anobeithio cael dim yn feius yn ei ymarweddiad, oddi eithr mewn perthynas i'w grefydd ef, hwy, yn ddichellgar, a annogasant y brenin Darius i wneuthur cyfraith anghyfnewidiol. Y tefiid pwy bynag a archai arch gan Dduw na dyn, ond gan y brenin ei hun, am yspaid 30 diwrnod, i ffau y llewod, i gael ei larpio ganddynt. Daniel, wedi hysbysu iddo fod y gorchymyn dryginous hwn wedi cael ei gadarnhau, a dybiodd ei bod yn ddyledswydd arno i addef ei waith yn addoli Duw yn fwy cyhoeddus nag o'r blaen. Pan y byddai yn gweddio ar ei Dduw deirgwaith yn y dydd, agorai ei ffenestri tua Jerusalem. Ei elynion, y rhai a'i gwylient ef, a'i daliasant yn fuan, ac a'i dygasant ger bron y brenin i'w gospi. Gwnaeth Darius yr hyn oll a allai i'w waredu ef; ond bu y cwbl yn ofer, o herwydd fod cyfreithiau breninol y Mediaid a'r Persiaid yn anghyfnewidiol. Bwriwyd Daniel i ffau y llewod, ond rhwystroddDuw hwynt rhag gwneuthur niweid iddo. Darius, yr hwn nis gallai gysgu dim y noson ganlynol, o herwydd ei ofid, a ddaeth yn foreu iawn ar y wawr-ddydd draenoeth at y ffau, a chyda llais athrist, a lefodd ar Daniel, ac a ofynodd, A fuasai ei Dduw yn alluog i'w gadw ef rhag y llewod? Gwedi cael o hono ei fod ef yn berffaith ddiogel, efe a orchymynodd ei gyfodi ef allan, a'i gyhuddwyr a'u cyfeillion i gael eu bwrw i'r ffau. Y rhai hyn a ddifaodd y llewod yn ebrwydd, ac a'u drylliasant, cyn eu dyfod i'r gwaelod, Dan. vi.

O ddeutu yr amser hwn, Daniel, yn deall oddi wrth brophwydoliaethau Jeremiah y byddai caethiwed yn Iuddewon yn nghylch 70 o flynedd oedd, ac felly fod eu gwaredigaeth gerllaw, a ymroddodd i ymbryd a gweddi arbenig. Tra yr oedd efe wrth y gorchwyl hwn, daeth yn angel Gabriel, ac a fynegodd iddfod ei weddi yn gymmeradwy; ac yr ymddangosai y Messiah, o ddeutu diwedd y 70 wythnos, neu 490 o flyneddoedd, o fynediad gorchymyn Artaxerxes allan i aiiadeiladu Jerusalem; a thrwy ei farwolaeth, y gwnai gymmod dros bechod, ac y cyflawnai luaws o hen brophwydoliaethau; ac y cospid y genedl Iuddewig, yn fuan ar ol hyny, âg anghyfannedd-dra a thrueni parhaus, Dan. ix.

Yn A. M. 3471, cafodd wedi hyn, weledigaeth o Iesu Grist, fel gwr cyffelyb i brês, wedi ei amgylchynu â gogoniant, yr hon a'i lladdasai ef, bron, â dychryn, oni buasai i angel ei gyssuro. Yr angel hwn a fynegodd iddo, pa fodd y cynnaliesid breninoedd Persia gan Dduw, ac yr attelid hwy rhag gwneuthur niweid i'r Iuddewon; y meddiennid eu hamerodraeth, ar ol teyrnasiad ychydig freninoedd, gan Alexander y Groegiad; y rhenid ei freniniaeth ef ar ol ei farwolaeth, ond nid yn mhlith ei gyfeillion; y cynnaliai ei ganlynwyr yn yr Aipht o du y *dehau*, a Syria o du y *gogledd*, ryfeloedd parhaus â'u gilydd; ac am erlidigaeth Antiochus o'r Iuddewon, a'i ddiwedd truenus yntau; am gyfodiad a chwymp y llywodraethau Anghristaidd a Mahometanaidd; ac am wardedigaeth yr Iuddewon a'u gwasgariad presennol, ac am y farn ddiweddaf, Dan. x. 11, 12.

Y mae dull Daniel o ysgrifenu yn dra eglur: ond ei iaith, o'r 4edd adnod o'r ail bennod, hyd ddiwedd y 7fed, yw y Galdëig; o ran ei bod yn perthyn yn agos i amgylchiadau yr amherodraeth honno. Yr Iuddewon, wedi ymgynddeiriogi am ei fod yn nodi amser dyfodiad y Messiah mor amlwg, a naccânt iddo yr enw o brophwyd; ond y mae ein Hiachawdwr anfethedig yn ei alw felly yn Mat. xxiv. 15. Y mae trefn ei brophwydoliaethau yn hynod eglur; a gallant wasanaethu fel agoriad i weledigaethau y Dadguddiad, ac

amryw yn Esaiah, Ezeciel, &c. Cyfrifwn y ffug chwedl am yr hyn a gymmerodd le rhyngddo a Susannah, ac a Bel a'r Ddraig, yn anuheilwng o'n sylw.

DANNOD, *(annod*, gwarth) edliw. (1.) Ceryddu dynion yn ddifrifol ac yn llym am eu beiau; felly yr edliwiodd ein Hiachawdwr i bobl Capernaum, Bethsaida, a Corazin. am eu beiau, Mat. xi. 20. (2.) Gwawdio a difenwi un yn ei wyneb, Iago i. 5. Barn. viii. 15.

DANT, *(dân*, gwrthddrych llyfn) Dannedd anifeiliaid ydynt y sylweddau celyd hyny a dyfant yn esgyrn eu gên, ac â pha rai y daliant neu y maluriant eu hymborth. Y mae i rai ddannedd blaen yn y ddwy ên; a rhai heb ddim ond mewn un yn unig; ac y mae gan rai fwy nag un rhes o ddannedd yn yr un ên. Y mae gan rai anifeiliaid ysgythr-ddannedd yn nwch na'r lleill, i'r dyben o ymafiyd yn eu hysglyfaeth ac i'w ddal. Hyder ar gyfaill anffyddlawn, sydd megys *dant wedi ei dorri*, sef, fe a ddichon boeni, ond nis gall gnoi; neu *droed wedi tyrfu*, yn boenus, ond nid yn ddefnyddiol; y mae yn niweidio y dynion a'i meddant, Diar. xxv. 19. Pan y mae dynion yn cael eu cyffelybu i fwystfilod gwyllt'ion, eu hymadroddion niweidiol a chywilyddus, yn nghyd â'u gallu a'u medrusrwydd i wneuthur drwg, a elwir yn *ddannedd fel gwayw-ffyn, cleddyfau, a chyllyll*, Job iv. 10. Salm lvii. 4. Diar. xxx. 14; ac y mae Duw yn torri y *dannedd* hyn, pan wnelo ddynion yn analluog i niweidio ereill, Salm lviii. 6; ond y mae efe yn *torri dannedd* ei bobl â cherrig, pan fydd yn eu dwyn i lwybr o ragluniaethau cyfyng, Gal. iii. 16. *Dannedd mawrion o haiarn*, a arwydda allu ofnadwy a pharodrwydd i ddistrywio ereill, Dan. vii. 7. Bod *dincod ar y dannedd*, a arwydda, bod mewn cystudd poenus, Jer. xxxi. 29, 30. Cymmeryd y *cnawd â'r dannedd*, a arwydda, bod wedi anmhwyllo gan boen ac anobaith, Job xiii. 14. *Rhingcian y dannedd*, a arwydda poen a chynddaredd mawr, Mat. viii. 12. Act. vii. 54. *Dannedd* yr eglwys, *fel deadell o ddefaid gwastad-gnaif, ac yn dyfod i fynu o'r olchfa*, ydynt ei gweinidogion sanctaidd, cyttun, a defnyddiol, y rhai a dorant fara y bywyd i'w pobl; neu yr ymarferiadau heirdd, sanctaidd, a chysson, o ffydd a myfyrdod, trwy ba rai y mae y saint yn gwneuthur gwirioneddau Duw yn ymborth ueithrinol i'w heneidiau, Can. iv. 2, a vi. 6.

DARBOD, *(pod*, parottoi) rhagofalu, rhag-ddarparu. "Heb *ddarbod* dros yr eiddo," 1 Tim. v. 8. Heb *ddarbod*, sef heb ragofalu a darparu pethau addas tuag at eu cynnaliaeth. *Dros yr eiddo*, hyny yw, dros ei berthynasau, ei gyfneseifiaid, ei rieni, a'u rhieni hwythau.

DARIUS, neu CYAXARES, y Mediad, oedd fab i Ahasferus neu Astyages, a brawd Mandane mam Cyrus, ac Amyite mam Efil-Merodac brenin Babilon. Gwedi hir ryfel â'r Babiloniaid, cafodd feddiant o'r amherodraeth ar farwolaeth Belsassar nai ei daid. Efe a osododd 120 o lywodraethwyr ar ei deyrnas, a thri o brif olygwyr arnynt hwythau er eu cyfarwyddo, o ba rai yr oedd Daniel yn un. Ar yr achlysur o waredigaeth ryfeddol Daniel oddi wrth y llewod, efe a gyhoeddodd orchymyn, Fod i'w holl ddeiliaid ddangos ofn parchedig rhag Duw yr Iuddewon, Dan. v. 31, a vi, a ix. 1, a xi. 1. Ni theyrnasodd ond prin dwy flynedd yn Babilon cyn iddo farw, yn 64 mlwydd oed, a chanlynwyd ef gan Cyrus ei nai a'i fab-yn-nghyfraith.

DARIUS CODOMANUS, y diweddaf o freninoedd y Persiaid o'r oes honno, Neh. xii. 22, oedd yn ddiammau o haniad breninol, ond yn mbell iawn oddi wrth yr orsedd, ac o sefyllfa dra dystadl. Buasai gynt yn rhedegwr i Darius Ochos; ond am ei waith yn gorchfygu ornestwr eofn a ddaethai allan o lu y gelynion, gwnaed ef yn llywodraethwr ar Armenia. Gwedi lladd Ochus ac Arses breninoedd Persia, y naill ar ol y llall, gosododd Bogoas yr eunuch ef ar yr orsedd Bersiaidd. Ni buasai mewn meddiant o honi yn hir, cyn y torodd Alexander brenin Macedonia, gyda byddin fechan ond tra gwrol, o Roegiaid, i mewn i'w amherodraeth, ac mewn tair brwydr orchestol, a ddadymchwelodd ei fyddinoedd, ac a gymmerodd fedd-

iant o'i deulu a'i amheirodraeth ef. Gwedi casglu o ddeutu 40,000 o filwyr yn nghyd yn Media, bwriadodd anturio pedwaredd ymladdfa âg Alexander, yr hwn a erlidiai ar ei ol; ond Be-us a Nabarzanes, dau o'i raglawiaid, a'i dodasant ef mewn cadwynau, ac a'i cauasant mewn cerbyd cyfyng, ac a enciliasant gyd â'r fyddin i Bactria, o du y dehauddwyrain i Media. Os goddiweddai Alexander hwynt, bwriadent ennill ei fodd trwy draddodi eu meistr iddo; os nad erlidiai Alexander ar eu hol, bwriadent ladd Darius, a chymmeryd y llywodraeth i'w dwylaw eu hunain. Alexander, wedi mynegu iddo am eu bradwriaeth, a'u hymlidiodd hwynt gyda chynddaredd a brys mawr. Pan ganfuant ei fod bron wrth eu sodlau, hwy a frathasant Darius, o herwydd iddo naccau ffoi ymaith gyda hwy ar gefn ceffyl, ac a'u gadawsant yn gwaedu i farwolaeth yn ei gerbyd. Cafodd Alexander ef, ac wylodd wrth ei weled wedi cael ei sarhau fel hyn gan ei weision; ac a anfonodd ei gorph i Sisigambis ei frenines, fel y gallai hi ei gladdu ef yn meddau breninol Persia, Dan. viii. 5, 6, 20, 22.

DARLLAIN *(llen).* Y mae *darlleniad* deublyg o'r ysgrythyrau yn ofynedig; y naill yn ddiirgelaidd a beunyddiol gan bersonau neilduol, pa un bynag ai tywysogion neu ereill, Deut. xvii. 19. Ioan v. 39. y llall yn gyhoeddus, mewn cynnulleidfaoedd o addolwyr proffesedig Duw, Neh. viii. 3.

DARN, *(arn,* rhan) dryll. "Ti a gei *ddarn* o arian, Mat. xvii. 27. Y gair *statera* a arferir yma, oedd ddarn o arian bathol Groegaidd, yn werth 2s. 6c. "Onid yw eich athraw chwi yn talu y *dreth?* yn ol y *Gr.* y *didrachma.* Y *didrachma* ydoedd dreth a ofynid gan bob un tuag at gynnal y deml; oddi wrth ba un yr oedd yr Iesu yn rhydd, fel Mab Duw, tŷ pa un oedd y deml. Gwerth y *didrachma* oedd o ddeutu pymtheg ceiniog. Yr oedd *ystatera* yn werth dau *didrachma*; am hyny yn ddigon dros yr Iesu a Petr.

DARN-GUDDIO, *(cuddio)* cymmeryd y peth a berthyn i arall mewn ffordd ddirgel a lladradaidd. Act. v, 1, 2, 3. Tit. ii. 10.

DAROSTWNG, a arwydda trin gyda diystyrwch; dwyn i waelder a thylodi, Dan. iv. 37. Job xl. 11. Y mae un yn cael ei *ddarostwng* pan fydd yn cael ei amddifadu o anrhydedd a chyfoeth, a'i osod tan dylodi, cystudd, a diystyrwch, Phil. iv. 12. Y mae un yn *ymddarostwng*, pan fydd yn ymddwyn mewn dull isel a difreiniol, fel y gwnaeth Paul pan y llafurioddefe, er ei fod yn bregethwr, â'i ddwylaw ei hun, am ei fara beunyddiol, 2 Cor. xi. 7.

DAWN, a arwydda (1.) Yr hyn a roddir heb unrhyw bris neu rwymedigaeth. Felly Crist yw *dawn anrhaethol Duw;* nis gellir amgyffred na mynegu ei ragoroldeb, ei ddefnyddioldeb, a chyflawnder ei swydd, ei gwfiawnder, a'i iachawdwriaeth, gan unrhyw greadur; ac y mae Duw wedi ei roddi yn rhad drosom fel ein pridwerth, ac yn ei roddi i ni fel ein priod a'n cyfran, 2 Cor. ix. 15. Ei gwfiawnder a'r bendithion a brynwyd trwy hyny, yw y *rhad rodd* a'r *dawn cyfiawnder,* Rhuf. v. 15, 16, 17. Yr Ysbryd Glân, a'i ddylanwadau gwyrthiol, yw *dawn Duw,* Act. viii. 20. Bywyd tragywyddol, swyddau yn yr eglwys, a chymhwysder i'w cyflawni, a phob bendith achubol, a osodir allan megys *doniau.* Y mae y cyfryw o honynt ag sydd, o angenrheidrwydd, yn gyssylltiedig âg undeb â Christ, yn ddoniau a roddir i'w blant, byth i'w hadalw; a'r cyfryw ag sydd wahanadwy oddi wrth wir ras, yn ddoniau a roddir i'r gweision i'w hadalw, Rhuf. vi. 23. Iago i. 17. Salm lxviii. 18. Eph. ii. 8 a iv. 8. Ezec. xlvi. 16, 17. Rhuf. xi. 29. 1 Cor. xii. 1, 4, 9, 28, 31, a xiv. 1, 12. Heb. vi. 4.

DAWNSIO. Nid yw y geiriau gwreiddiol a gyfieithir felly yn ein Bibl au ni, bob amser yn cynnwys y fath ystyr, ond yn unig *llammu o lawenydd,* neu *lawenydd mawr,* Salm xxx. 11. Luc. xv. 25; neu foliannu Duw trwy chwareu ar yr organ, 2 Sam. vi. 14; ac nid yw y gair a gyfieithir y *dawns,* yn arwyddo ychwaneg na mintai o gantorion, Salm cxlix. 3.

DEADELL, *(dead,* didoliad) gyrr o ddefaid, geifr, neu anifeiliaid cyffelyb, yn cydbori. Byddinoedd, cenedloedd, a mixteioedd o ddynion, a gyffelybir i *braidd* neu *ddeadellau;*

y maent yn lluosog, ac yn cael eu harolygu, eu rheoli, ac fel pe bai, eu porthi a'u corlanu gan eu priodol lywiawdwyr, Jer. xlix. 20. a li. 23. Blaenoriaid y praidd, ydynt ddynion nodedig mewn anrhydedd, awdurdod, a chyfoeth, Jer. xxv. 34, 35. Gosodir yr Iuddewon allan megys *deadell yr Arglwydd;* cawsant eu dewis, eu prynu, a'u llywodraethu mewn modd neilduol ganddo ef; fel *deadell brydferth* yr hon a wnae ymddangosiad gogoneddus ar eu gwyliau arbenig hwy, Jer. xiii. 17, 20; fel *praidd sanctaidd*, am eu bod wedi eu neilduo i wasanaeth Duw, ac nid ychydig o honynt wedi eu sancteiddio gan ei Lân Ysbryd, Ezec. xxxvi. 38, ac fel *defaid y lladdfa*, o herwydd eu bod, yn amser Crist, wedi eu condemnio ac yn addfedu i ddialedd dinystriol Duw, Zec. xi. 4. Yr Arglwydd ei hun, a thano ef, eu swyddogion, eu prophwydi, eu hoffeiriaid, a'u hathrawon, oeddynt eu bugeiliaid hwynt, Salm lxxx. 1. Ezec. xxxiv. Cyffelybir yr eglwys i *ddeadell*, oblegid ei bod oll yn perthyn i un Bugail, sef Bugail ac Esgob eneidiau; ac yn addnabod ei lais ef oddiwrth bob dyeithryn; yn ei ganlyn ef yn y llwybr hunan-ymwadol a nododd efe iddynt, yr hwn sydd yn arwain i'w gorlan nefawl; oll yn ymborthi ar yr un borfa, gerllaw y dyfroedd tawel, sef anchwiliadwy olud Crist, yn ngair gwirioneddol yr efengyl; ac oll wedi eu cyduno yn ffydd a gobaith yr iachawdwriaeth gyffredinol, Esa. xl. 11. Act. xx. 28. Cyffelybir gwallt y ddyweddi i *ddeadell* o eifr o fynydd Gilead—mor lluosog, bywiol, a phrydferth ydyw addewidion yr efengyl a addurnant ei phen, sef mawr amryw ras Duw. "A'i holl aelodau, wedi eu cyduno yn y gwirionedd, a ymddangosant fel *deadell* o ddefaid newydd ddyfod o'r olchfa, Can. iv. 1, a vi. 5, 6. Myned â *defaid* a *gwarthegi* i geisio'r Arglwydd, yw offrymu lluaws o aberthau iddo, Hos. v. 6.

DEALL, *(de-gall)* a arwydda gwybod pethau mewn ffordd naturiol, oruwch-naturiol, neu ysbrydol, 2 Sam. iii. 27. Gen. xli. 15. Dan. iv. 19. Salm cxix. 100. 1 Cor. ii. 9—14. (1.) Gwybodaeth doethineb, Exod. xxxi. 3. Diar. ii. 2, 3. (2.) Gallu neu gynneddf yr enaid, â pha un y mae yn canfod gwrthddrychau, Luc xxiv. 45. Eph. iv. 18. *Pobl ddiddeallgar*, ydynt ddynion anwybodus ac anewyllysgar i ddysgu, Esa. xxvii. 11. *Y mae fy neall yn ddiffrwyth;* y mae yr hyn a ddywedaf, pa mor synwyrol a chystal bynag y deallir ef gennyf fi, yn ddiadeiladaeth i ereill, os mewn iaith ddyeithr y llefaraf,, 1 Cor. xiv. 14. Caru Duw â'r deall neu y meddwl, yw ei garu ef yn synwyrol, oddi ar wybodaeth wirioneddol ac ysbrydol am ei ragoroldeb a'i garedigrwydd, Marc xii. 33. Nid hoff gan y ffol *ddeall;* ond bod i'w galon ei dadguddio ei hun; nid yw efe yn ddiffrifol a diwyd yn ei ymgais am wybodaeth a doethineb sylweddol; ond ei ymgais a'i hyfrydwch mawr yw arllwys ei ffolineb allan, gan ei fod yn ddiog i wrandaw, ac yn barod i lefaru, Diar. xviii. 12.

DEBIR, *(gair)* Dinas yn llwyth Judah, yn agos i Hebron. Gelwid hi hefyd Ciriath-sepher, a Ciriath-sannah; o herwydd fod gan y Canaaneaid eisteddle dysgeidiaeth yno. Josuah a'i hynnillodd hi; ond ymddengys i'r Canaaneaid eu hail-feddiannu; a Caleb, i ran yr hwn y syrthiodd, wedi canfod o hono gadernid ei muriau, a'i thrigolion, a roddodd Acsah ei ferch i Othniel am wneuthur yr ymosodiad effeithiol cyntaf arni. Rhoddwyd hi, wedi hyny, i'r offeiriaid, Jos. xi. 39, a xv. 15, 16, a xxi. 15. (2.) Dinas ar gyffiniau llwyth Gad. Myn y LXXII. mai yr un oedd hi â Dibon; ond, yn hytrach yr un oedd â Lodebar, lle y bu Mephiboseth byw yn ei ieuengctid gyda ei gyfaill Machir, Jos. xiii. 26. 2 Sam. ix. 4, 5.

DEBORAH *(gair)*. 1. Mammaeth Rebecca, yr hon a ddaeth gyda hi o Padanaram. Gwedi marwolaeth ei meistres, arosodd gyda'i chydwladesau yn nheulu Jacob. Bu farw yn agos i Bethel, mewn gwth mawr o oedran, ac a gladdwyd dan dderwen, yr hon a alwyd oddi wrth y dygwyddiad hwnw, *Allon-Bacuth*, sef *derwen wylofain*, Gen. xxiv. 59, a xxxv. 8.

(2.) *Deborah;* prophwydes, barnwraig Israel, a gwraig Lapidoth. Trigai dan balm-wydden, rhwng Ramah a Bethel. Wedi Ja-

bin brenin Canaan orthrymmu Israel yn dost am ugain mlynedd, hi a anfonodd am Barac mab Abinoam, gwr o Issachar, yr hwn oedd yn byw yn Cades-Naphtali, ac a'i cyfarwyddodd, oddi wrth Dduw, i gasglu byddin o 10,000 o wyr o feibion Naphtali a Zabulon, y llwythau a orthrymasid yn benaf, a myned i fynydd Tabor, yn mha le y traddodai yr Arglwydd Sisera a llu nerthol Jabin i'w law ef. Efe a naccaodd gynnyg hyn onid âi hi gydag ef; hi a gydsyniodd; ond dywedodd wrtho y cospid ei lyfrdra trwy waith yr Arglwydd yn rhoddi anrhydedd penaf y fuddugoliaeth, sef cwymp y tywysog, yn llaw gwraig. Prin yr oeddynt wedi casglu eu byddinoedd, a myned o Cades i Tabor, pan yr oedd Sisera wrth ei sodlau â llu dirfawr. Ymddengys nad oedd gan bron un o 10,000 o wyr Barac na chleddyf na gwayw-ffon; ond tarawyd y Canaaneaid â'r fath fraw disymmwth, pan y gwelsant yr Hebreaid yn discyn o'r mynydd i ymosod arnynt; bu y lladdfa mor gyffredinol, fel na adawyd un o honynt. Cyfansoddodd Barac a Deborah gân er coffadwriaeth am eu buddugoliaeth, ac i foli Duw o'i hachos; ac i glodfori y tywysogion Hebreaidd, a Jael gwraig Heber y Cenead, am eu hoilferyngarwch ynddi; ac i gondemnio llwyth Aser, Dan, a Reuben, o herwydd eu hanfywiogrwydd, Barn. iv. a v.

DECAPOLIS; gwlad, medd *Lightfoot*, o du y gogledd-ddwyrain i fôr Tiberias; ond os oedd Bethsan yn un o'i dinasoedd hi, gorweddai rhan o honi o du y dehau-orllewin i'r môr hwnw. Gelwid hi Decapolis, o herwydd bod yndd i *ddeg dinas*, sef Bethsan, Gadara, Hippo, Pela, Caphar-Tzemach, Beth-gubron, Caphar-carnaim, Cesarea-Philippi, Orbo, ac un arall nad yw ei henw i'w gael. Rhai a ddywedant mai Damascus oedd; ond yr oedd honno, yn sier, yn rhy bell. Yma y pregethodd yr Iesu, ac yr iachaodd y trigolion cleifion, Mat. iv. 25.

DECHREUAD, a arwydda, (1.) Y rhan gyntaf o amser yn gyffredinol, Gen. i. 1. (2.) Y rhan gyntaf o ryw yspaid neilldiol o amser; megys blwyddyn; neu barhad gwladwriaeth neu freniniaeth yr Hebreaid, Exod. xii. 2. Esa. i. 26. (3.) Y gweithredydd cyntaf, neu yr achos o beth, Num. x. 10. Mic. i. 13. (4.) Yr hyn sydd fwyaf rhagorol, Diar. i. 7, a ix. 10. *O'r dechreuad*, yw (1.) Er tragywyddoldeb, cyn gwneuthur un creadur, Diar. viii. 23. 2 Thes. ii. 13. (2.) Er cychwyniad cyntaf amser, 1 Ioan iii. 8. (3.) Er cychwyniad rhyw yspaid neilldiol o amser, megys gweinidogaeth gyhoeddus Crist, Ioan viii. 25. Gelwir Crist y *dechreuad*. a *dechreuad creaduriaeth Duw*: y mae efe o dragywyddoldeb, ac a roddodd fodoliaeth i amser a phob creadur, Dad. i. 8, a iii. 14. Col. i. 18.

DEDAN *(eu hanwylyd)* 1. Mab Raamab, ac wyr Cus. Tebygol i'w hiliogaeth wladychu o du y gorllewin i lyngclyn Persia yn Arabia Ddedwydd, lle y mae y ddinas Dedan i'w chael etto, Gen. x. 7. (2.) Mab Jocsan, ac wyr Abraham. Efe oedd tad y Dedanim, y Letusim, yr Assurim, a'r Leummim, llwythau a drigent yn Arabia Anial, Gen. xxv. 3. Ai hiliogaeth y gwr hwn a bobl ogasant ddinas Dedan ar gyffiniau gwlad Edom, nis gwyddom. Dilys yw fod y Dedaniaid, yn benaf hiliogaeth yr olaf, yn marchnatta llawer â'r Tyriaid mewn ifori, ebenus, a brethynau gwerthfawr i orchuddio cerbydau, a chawsant eu gorthrymu yn dost gan yr Assyriaid a'r Caldeaid, Ezec. xxvi. 15, 20, a xxv. 13. Esa. xxi. 13. Jer. xxv. 23, a lix. 8.

DEDWYDD, *(dy-ad-gwydd)* llwyddiannus, gwynfydedig. Cymmwysir y gair hwn yn benaf yn yr ysgrythyrau at y cyssur, yr heddwch, a'r llawenydd hwnw, y rhai ydynt yn caniyn derbyniad o'r efengyl. Cyfrifid Israel gynt yn *ddedwydd*, o achos bendith, presennoldeb, ac amddiffyniad eu Duw, Deut. xxxiii. 29. Gelwir y bobl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt, neu yr eglwys wedi ei bendithio â'i bresennoldeb ef, yn *ddedwydd*, Salm cxliv. 15. Y mae y rhai a gerydder yn *ddedwydd*, o herwydd fod cerydd yn brawf o ofal y Nefoedd, Job v. 17. Iago v. 11. 1 Petr iii. 14, a iv. 14.

DEDDFWR, *(deddf-gwr)* gosodwr cyfraith. Y mae Duw neu Crist, *yn ddeddfwr*; ei ewyllys penarglwyddiaethol yw rheol anfeth-

edig ei ymddygiad ; ac y mae efe wedi rhagnodi cyfreithiau i ni yn ei air, Esa. xxxiii. 22. Iago iv. 12, ac efe yw unig Arglwydd ein cydwybod, ewyllys pa un yn hollol sydd yn ei rhwymo i ufudd-dod, a chyfreithiau pa un nid ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw brofiad, gan eu bod yn oruchaf ac anfeidredig. Yr oedd Moses yn *ddeddfwr ;* trwyddo ef y rhoddodd Duw gorph o gyfreithiau i'r Hebreaid ; gelwir y gyfraith ei eiddo ef, a dywedir mai efe a roddodd ei gorchymynion hi, Num. xxi. 18. Deut. xxxiii. 21. Gelwir Dafydd a'i ganlynwyr yn y llywodraeth yn *ddeddfwyr ;* yr oedd ganddynt hwy awdurdod i osod cyfreithiau er rheolaeth wladol y genedl Hebreaidd, Gen. xlix. 10. Salm lx. 7.

DEFNYNNU, syrthio yn araf, megys gwlaw. *Defnyanu* yn yr iaith draws-symmadol, a arwydda, cyfres raddol, barhaus, a hyfryd o eiriau, dylanwadau, neu fendithion, Diar. v. 3. Can. iv. 11, a v. 5, 13. Joel iii. 18. Ymserth gwraig sydd megys *defni parhaus ;* yn blâ dibaid a blin, Diar. xix. 13. Trwy ddiogi lawer y *defnynna* yr adeilad ; y teulu a'r etifeddiaeth a ânt i ddinystr, Preg. x. 18. Ger bron Duw, y mae yr holl genedloedd yn fychain, disylwedd, a dirmygus, megys *defnyn o gelwrn ;* fel mân-lwch y clorianau, yr hwn nid yw yn peri i'r fantol droi ; ac megys diddym, a llai na dim, fe, gwagedd, Esa. xl. 15, 17.

DEFFROI, (*dy-effrawj*) a arwydda, (1.) Ymysgwyd o gwsg naturiol, Gen. xxviii. 16. 1 Bren. xviii. 27. (2.) Ymgyffroi, Barn. v. 12. (3.) Cyfodi o farwolaeth naturiol neu ysbrydol, Ioan xi. 11. Job xiv. 12. Y mae Duw yn *deffro i'r farn a orchymynodd*, pan y bydd mewn modd amlwg ac arddorchog yn amlygu ei allu a'i berffeithderau ereill trwy gospi ei elynion a gwaredu ei bobl, Salm vii. 6. Y mae cleddyf ei gyfiawnder yn *deffro*, pan fydd yn cael ei amlygu yn arswydus mewn cwbl gyflawniad o'r dialedd dyledus i'n pechodau ni, ar Grist, Zech. xiii. 7. Y mae Crist yn cael ei *ddeffroi cyn y mynno*, pan wnelr unrhyw beth i adfonyddu neu rwystro ei gymdeithas deimladwy gyda'i bobl, Can. ii. 7, a iii. 5, a viii. 4. Y mae y gogledd-wynt yn *deffro ac yn chwythu ar ein gardd*, pan fydd yr Ysbryd Glân yn argyhoeddi ein cydwybodau ni, ac eiddo ereill yn yr eglwys mewn modd nerthol, Can. iv. 16 ; ond y mae rhai yn deall y geiriau am ymadawiad trallod a gofid. Yr ydym yn *deffroi* allan o fagl y diafol, yn *deffroi* o herwydd fod ein iachawdwriaeth yn agos, yn *deffroi* fel y rhoddo Crist oleuni i ni, yn *deffroi* i gyfiawnder. Y mae dyn, yn naturiol, yn cysgu o ran ei fatter mawr a phwysig ; yn edrych ar y pethau a welir, ac sydd dymhorol ; y mae efe yn cysgu mewn perthynas i'r rhai na welir ag sydd dragywyddol. Pan ddaeth Ioan gan bregethu bedydd edifeirwch, synnodd wrth weled y Phariseaid yn dyfod atto ; pwy a'ch *rhag-rybuddiodd* i ffoi rhag y llid a fydd ? fel matter o chwithdod. Pan fydd cydwybod dyn wedi ei dychrynu yn briodol gan ofn pethau na welir ; pan fydd angau a'r farn yn dwyn eu dychrynfeydd adref at ei gydwybod, a phan fydd ei sylw, yn nghanol hyn oll, yn cael ei dynnu at gyfiawnder dwyfol Mab Duw, fel yn ddigonol i fod yn ddiddosfa iddo rhag y dymhestl, ac yn ymguddfa rhag y storm, yna deffroir ef i gyfiawnder.

DEG, sydd yn rhif o berffeithrwydd ; a *deng waith*, yw yn fynych, Gen. xxxiv. 7. Num. xiv. 12. Job xix. 3. *Deg punt*, neu *dalent*, a arwyddant amryw ddoniau ac oedfaon, Luc xix. 13. Mat. xxv. 28 ; ond *deng niwrnod o gystudd*, a arwydda yspaid byr ; neu hwyrach ei fod yn gyfeiriad at erlidigaeth Dioclesian am *ddeng mlynedd*, Dad. ii. 10. Gwêl *Cyrn, Coronau. Degfed ran*, a all arwyddo un deyrnas, neu ran fawr o diriogaeth Anghrist, Dad. xi. 13 ; ond yn Esa. vi. 13, arwydda y *degwm*, neu *ddegfed ran*, ychydig bersonau wedi eu cyssegru i wasanaeth Duw.

DEGWM, a arwydda y ddegfed ran o unrhyw beth. Meddyliwn i Dduw led-grybwyll wrth yr hen batrieirch am ei hawl i'r ddegfed rau o'u hennill neu eu cynnyrch. Pan ddychwelodd Abraham o'i fuddugoliaeth ar Cedorlaomer a'r breninoedd oeddynt mewn cynghrair âg ef, rhoddodd i Melchisedec, offeiriad yr

Arglwydd, y *ddegfed* ran o'r anrhaith, Gen. xiv. 2. Cyssegrodd Jacob i Ddiw trwy addunedu, y *ddegfed* ran o'i ennill yn Mesopotamia, Gen. xxviii. 22. Ie, byddai llawer o'r Groegiaid, y Rhufeiniaid, a Chenedloedd ereill, yn cyssegru y *ddegfed* ran o'u meddiannau i wasanaeth eu duwiau. I gadw coffadwriaeth am waith yr Hebreaid yn byw yn yr anialwch a'r omerau, neu ddegfed ran epha o fanna, trefnodd Duw nid yn unig eu bwyd-offrymau with *ddegfed runau* epha o beilliaid, ond yn mheilach efe a drefnodd y matter yn nghylch eu *degwm* yn y modd canlynol: Gwedi tynnu y blaen-ffrwythau, a'u hoffrymau cydfynedol allan, byddai y ddegfed ran o weddill cynnyrch eu hŷd, eu hanifeiliaid, &c. yn cael ei roddi i'r Lefiaid. O hyn, cai yr offeiriaid y ddegfed ran yn eiddo iddynt eu hunain. O'r hyn a fyddai wedi ei adael i'r perchennog, byddai degwm arall yn cael ei godi, ac naill ai mewn gwerth neu eiddo cyffelyb, yn cael ei anfon at wasanaeth y babell a'r deml, a'u gweinidogion, ar y gwyliau arbennig. Bob tair blynedd, byddai degwm arall yn cael ei godi oddi ar y perchenog, at wasanaeth y Lefiaid, yr amddifaid, y gweddwon, a dyeithriaid, os nad yr un oedd hwn â'r ail ddegwm, ac yn unig yn y drydedd flwyddyn yn cael ei gymhwyso i'r gwasanaeth hwn, a'i fwytta gartref yn eu dinasoedd. Nid yw yn ymddangos fod degwm eu llysiau yn ofynedig. Byddai y Phariseaid, pa fodd bynag, yn degymmu eu mintys, eu hanis, a'u cwmin; ac nid yw yr Iesu yn beio arnynt am hyny, ond am esgeuluso pethau trymach, megys trugaredd, barn, a ffydd, tra yr oeddynt mor neilduol fanwl mewn matterion bychain, Deut. xiv. 22—29, a xii. 17. Num. xviii. 20—32. Yn presennol nid yw yr Iuddewon yn gwneuthur ond ychydig iawn o gyfrif o gyfraith y degwm; ac nid oes un awdurdod gan yr offeiriaid dan yr oruchwyliaeth Gristionogol i'w gofyn. O herwydd fod y patrieirch o flaen Moses yn cyssegru eu degwm i'r Arglwydd, meddyliwn ei fod etto yn addas, os bydd modd, i bennodi y ddegfed ran o'n meddiannau i'r Arglwydd, er cynnorthwyo y tlodion, a dybenion duwiol ereill; ac nis gallwn gredu y byddai llawer o anhawsdra gyda y rhan fwyaf i wneuthur felly, pe gosodid pob gormodedd yr ein bwydydd a'n gwisgoedd o'r neilldu. Onid oedd y *degymau* hyn yr gysgodau o gyflawnder yr Iesu, yr cael ei gasglu oddi wrth bob addewid a rhagluniaeth, er cynnal ei bobl, neu a oeddynt bwy yn gysgodau o'n saint, a'u gwasanaeth, wedi eu cyssegru i anrhydedd Duw, ac fel diwalliad diddarfod ei enaid, ac fel yn wasanaethgar i'r rhai o amgylch iddynt?

DEHAU, a arwydda, lle neu wlad yn gorwedd yn y dehau i rywle arall. Felly yr oedd Seba, yr Aipht, ac Arabia, yn *ddehau* gyda golwg ar Canaan, Mat. xii. 42. Dan. viii. 9, a xi. 5. Num. xiii. 29. Obad. xix. Gelwir y parth deheuol o Judea, neu Canaan, y *dehau*. Ezec. xx. 46. Gen. xiii. 1, 3. Y *deheu-dir*, i ba un yr aeth meirch brithion Zecariah allan, a all fod yn arwyddo Affrica, Asia Leiaf, Syria, Palestina, yr Aipht, &c. y rhai a orweddant yn y dehau i'r Ital, Zec. vi. 6. Er mai breninoedd Syro-Groegaidd yr Aipht a Syria, a feddylir wrth freninoedd y *dehau a gogledd*, yn y rhan fwyaf o Dan. xi; etto dichon fod breninoedd y *dehau a gogledd*, y rhai a ymgornient yn erbyn Anghrist yn adn. 40, yn arwyddoccau y Saracenaiid a Sultaniaid yr Aipht, a'r Tyroiaid gogleddol; neu y bydd i'r Ottomaniaid gogleddol, wedi dyfod yn llywodraethwyr ar yr Aipht, a gwledydd deheuol ereill, ddygu dino y Pabyddion. Ond y mae yr eglwys yn cael ei gosod allan megys o *du y dehau* i fynydd, i nodi ei chyflwr tawel, cyssurus, a blodeuog, Ezec. xl. 2.

DEIAL, (oddi wrth y Llad. *Dies*, diwrnod) offeryn i fesur amser, wrth gysgod yr haul. Pa un ai y bobl o du y dwyrain i'r Euphrates, neu yr Iuddewon neu ynte y Pheniciaid a ddychymmygasant yr offeryn hwn gyntaf, sydd ansicr. Ni wyddai y Groegiaid ddim am *ddeialau* cyn amser Anaximander, yr hwn oedd yn gydoeswr â Cyrus. Ac nid oes genym grybwylliad mewn hanesyddiaeth am ddeial yn benach nag eiddo Ahaz. Ac nid oes genym ychwaith air o sôn am *oriau* cyn amser caetu-

iwed Babilon, Dan. v. 5. Tybia rhai gwyr dysgedig nad oedd y *mahaloth*, yr hwn a dry ein cyfeithiad yn *ddeial*, amgen rhês o risiau, ac mai camrau y grisiau oeddynt y graddau. Ereill a ddadleuant mai deial wirioneddol oedd; eithr o ba ddull, pa un ai ddyheddodd, neu nenol, neu ryw ddull arall, nid ydynt yn cyduno. Dilys yw i wyrth gwirioneddol ar y *deial* neu y *gristiau* hyn, nodi sicrwydd adferiad dyfodol Hezeciah i iechyd; ond pa un ai yr haul, neu ei gysgod yn unig, a ddychwelodd ddeg o raddau yn ol, sydd fyth yn achos o wrthddadl. Sylwa y rhai a haerant mai y cysgod yn unig a ddychwelodd yn ol, na chrybwyllir yn 2 Bren. xx, ond yn unig am fynediad y cysgod yn ol; ac y dichon fod yr haul yn hanes Esaiah am y matter hwn, pen. 38, yn cael ei roddi am y cysgod; y gallai y cysgod ddychwelyd yn ol drwy adlewyrchiad pelydr yr haul; y buasai y dydd, pe dychwelasai y haul yn ol yn raddol, yn ddeg neu ugain awr yn hwy nag arferol, ac felly un rhan o'r byd yn cael ei chrasboethi, a'r llall ei hannerrhewi; neu, pe yr aethai yn ei ol yn ddisymmwth, y teimlasai cyfansoddiad naturiaeth ysgydwad anoddefol, yr hyn nis gallai seryddwyr yr amser hwnw lai na sylwi arno; a'i bod yn gwbl ddianghenrhaid i Dduw osod ei hun yn y draul o weithredu gwyrth mor fawr, pan y gallasai adlewyrchiad pelydr yr haul atleb y dyben cystal. I ni, ymddengys y cyfan o'r ymresymiad hwn yn olygus yn hytrach na sylweddol. O blaid mynediad yr haul yn ol, hawdd ydyw sylwi, nad oes un gwyrth yn fwy anhawdd i Dduw na'i gilydd; y dywedir yn bendant wrthym, i'r haul ddychwelyd yn ol; fod yn anhawdd amgyffred pa fodd y gallai y cysgod fyned yn ol heb yr haul; pe gwnaethid y cwbl trwy adlewyrchiad pelydr yr haul yn unig, y buasai yn fatter dirgel, ac na ddychrynasai y Caldeaid, fel yr ymddengys iddynt wneud; ac fod hanesion blyneddol y Chineaid yn hysbysu i ni, i'r blaned Mawrth ddychwelyd amryw raddau yn ol, er mwyn un o'u breninoedd, o ddeutu yr un amser, Esa. xxxviii. 8. 2 Bren. xx. 9—11.

DELW, a arwydda cyffelybiaeth o bethau, fel y mae darluniadau o ddynion. Crist yw *delw y Duw anweledig*; fel Mab Duw, y mae yn meddu yr un nattur â'i Dad, ac yn tebygoli iddo mewn gallu; ac yn ei berson fel Duw-dyn, a'i swydd gyfryngol, y mae yn ddarlun dysclaer o holl berffeithderau Duw, Heb. i. 3. Col. i. 13. Gwnaed dyn ar *ddelw Duw*; y mae yn tebygoli i Dduw yn nattur ysbrydol ac anfarwol ei enaid, ac yn ei wir wybodaeth, ei gyfiawnder, a'i sancteiddrwydd; ac yn ei arglwyddiaeth dros y creaduriaid, Gen. i. 26, 27. Dyn, gyda golwg ar ei wraig, yw *delw Duw*, o ran ei lywodraeth a'i awdurdod, 1 Cor. xi. 7. Genir ni ar *ddelw* Adda; sef yn gyffelyb iddo yn ein dull naturiol, ac yn ein gwrthryfel yn erbyn Duw, Gen. v. 3; ac yr ydym yn dwyn *delw* Crist, ac yn cael ein hadnewyddu yn ei hol, pan y cyfnewidir ein hanian, ac y gwneir ni trwy hyny yn debyg i Dduw mewn gwybodaeth ysbrydol, cyfiawnder, sancteiddrwydd, a phob gras arall, 1 Cor. xv. 49. Col. iii. 10. Condemnir pob math o ddelwau mewn addoliad yn bendant, a gosodir hwy allan fel *dysgawdwyr celwydd*, am nad all un o honynt arddangos y Personau dwyfol yn addas, Exod. xx. 4. Jer. x. 3—16. Hab. ii. 18. Salm. cxv. 4—8, a cxxxv. 15—18. Amryw o ddelwau y cenedloedd o'u duwiau oeddynt yn ddarluniadau cymmysgedig anferthol o greaduriaid dynol ac anifeilaidd. Yr oedd rhai o honynt yn anferth eu maint. *Delw* Belus a gafwyd gan Nebuchodonozor, yn ngwastadedd Dura, oedd yn 90 troedfedd o uchder o leiaf, ac yn 9 troedfedd o drwch, Dan. iii. 1. Yr oedd *delw* Apolo yn ynys Rhodes, yn agos i 128 troedfedd o uchder; a gallai y llongau uchaf, yn yr amseroedd hyny, nofio i mewn rhwng ei chluniau. *Delw* neu *wedd* yr annuwiol, yr hon y mae Duw yn ei dirmygu, yw eu hymddangosiad, eu gogoniant, a'u dedwyddwch allanol, Salm lxxiii. 20. *Delw* y bwystfil yw tebygoliaeth i ffurf yr amherodraeth Bagan aidd, neu gysgod amherodraeth Rhufain yn eiddo yr Almaen, Dad. xiii. 14. 15.

DELLT, (*dell*, holltiad) ffiochenau delltwaith ffenestr. "Yn ymddangos trwy y *dellt*, Can. ii. 9. Yr holl

gysgodau gynt, a holl ordinhadau yr efengyl, ydynt fel *dellt*, trwy ba rai y mae Crist yn ymddangos: ac y mae y duwiolion yn edrych ar ei ogoniant, 2 Cor. iii. 18.

DEMAS, *(poblogaidd)* proffeswr boreuol o Gristionogrwydd, a phregethwr hwyrach, yr hwn a fu dros amser yn wasanaethgar iawn i Paul, pan oedd yn garcharor; ond yn nghylch A. D. 65, gadawodd ef i ddylyn rhyw alwedigaeth fydol fwy ennillgar. Dywedir iddo syrthio i gyfeiliornad Ebion a Cherinthus, y rhai a ddalient nad oedd Crist ond yn unig, Col. iv. 14. 2 Tim. v. 10.

DEMETRIUS, *(yn perthyn i ŷd)* gôf arian yn Ephesus, yr hwn oedd yn gwneuthur cynlluniau bychain o deml Diana yno, gyda'u delw yn gynnwysedig ynddynt. Yn ofidus o herwydd llwyddiant yr efengyl, a'r perygl o golli ei waith, trwy i'r trigolion droi eu cefnau ar eilunaddoliaeth, casglodd dyrfa o'i gydweithwyr yn nghyd, ac a osododd ger eu bronau enbydrwydd eu crefft, a'r eilunaddoliaeth. Yn ddiattreg, ennynwyd hwy gan gynddaredd; a thrwy gynnorthwy y rhan ddyhiraf o'r trigolion, cyfodasant, am rai oriau, ddolef arswydus, *Mawr yw Diana yr Ephesiaid*. Daliasant Aristarchus a Gaius, a chipiasant hwy ger bron yr orsedd, diau, gyda golwg o fynnu eu condemnio hwynt. Pan y canfuant Alexander, y gôf copr hwyrach, tynasant ef i mewn i'r dyrfa; yntau a erfyniodd arnynt wrandaw yr hyn oedd ganddo i ddywedyd drosto ei hun; eithr, pan wybuant mai Iuddew oedd, ac felly yn elyn i'w crefydd hwy, ni wrandawent arno. Yn y cyfamser, cafodd ysgrifenydd lled fawr ei awdurdod yn y ddinas wrandawiad gan y werin. Efe a ddangosodd iddynt gyda mawr wresogrwydd, Nad ellid profi fod y gwyr a ddaliasent yn gablwyr Diana, nac yn yspeilwyr ei theml; fod anrhydedd Diana wedi ei sefydlu yn ddigonol trwy yr holl fyd, a brwdfrydedd yr Ephesiaid dros ei haddoliad yn ddigon adnabyddus; eu bod mewn eithaf perygl o gael eu galw i gyfrif a'u cospi gan y llywodraethwyr Rhufeinig, am y terfysg a wnaethent; os oedd gan Demetrius, neu ryw un arall, hawl yn erbyn neb, y dylent eu dwyn yn rheolaidd ger bron cynnulleidfa gyf reithlawn o swyddogion, ac nid llenwi y ddinas âg annhrefn. Gyda yr ymadroddion mwynaidd a syr wyrol hyn, efe a lonyddodd ac wasgarodd y dyrfa. Pa un a ddy chwelodd y Demetrius hwn wed hyny i'r grefydd Gristionogol, a fod gair da iddo gan bawb, ni gwyddom, Act. xix. 24—40. Ioan 12.

DEOL, *(de-ol)* ysgar a gyrr un allan o'i wlad enedigol, Ezr vii. 26. Eglwys Duw, yn ei chaeth iwed, sydd yn cael ei hystyried fe *deoledig*, Gal. ii. 14. Ond arferi y gair yn dra hynod yn ngwaith Joa yn ei osod yn ngenau mam Absalom 2 Sam. xiv. 13, a 14. Er bod y rhaid i bawb farw, o herwydd ni yw Duw dderbyniwr wynebau rhaid i ni oll fyned fel dyfroedd wed eu tywallt ar y ddaear; etto Duw yn ei ddoethineb anfeidrol, a ddyf eisiodd foddion, fel na yrer ei *her wyr* euog ymaith oddi wrtho. Y efengyl, yr hon sydd yn dwyn bywy ac anfarwoldeb i'r goleuni, a ddyss i ni pa beth yw y moddion hyn.

DERBYN, *(dy-erbyn)* a ar wydda, (1.) Cymmeryd yr hyn roddir, a briodolir, ac a delir i ni neu a osodir yn ein dwylaw, 2 Bren v. 26. (2.) Cynnysgaethu â doniau yr Ysbryd Glan, mwynhau, medd iannu, Act. i. 18. Heb. x. 36 (3.) Croesawu, llettŷa, amgeleddu Act. xxviii. 7. (4.) Cymmeryd y aelod o eglwys neu deulu Duw Rhuf. xiv. 1, 3. (5.) Dal, cyn nwys, 1 Bren. viii. 34. (6.) Cym meryd yn garedig, a dyoddef y amyneddgar, Job ii. 10. Y ma Crist yn *derbyn* gallu, doethineb cadernid, anrhydedd, gogoniant, bendith, pan fyddout yn cael eu pri odoli o'r galon ïddo yn addoliada ei bobl, Dad. v. 12.

DERW. Y mae blodau gwrryw aidd y coed hyn yn ddiffrwyth; on y ffrwyth anelwig a ymddengys a ranau ereill o'r pren, ac a dyf y fês. cnewyllau pa rai a holltant y hawdd yn ddwy ran. Y mae ddeutu ugain rhywiogaeth o dder w ond y mae y prinwydd, o ba rai mae chwe' math, yn amrywio y fawr oddi wrth y lleill. Y mae derw yn goed cysgodfawr o ran e dail, yn araf yn eu twf, yn gelyd

pharhaus iawn yn eu sylwedd, ac a arosant heb waethygu dros amryw oesoedd, os cedwir hwy bob amser yn wlybiou, neu ynte bob amser yn sychion. Yr oedd coed derw yn llusog iawn yn ngwlad Canaan; a rhai Basan a gyfrifid yn oreu. Hwyrach fod y geiriau Hebrëig *elah, ullah*, ac *elon*, yn arwyddo y *turpentine luddewig*, ac mai y gair *allon* yn unig a arferir am *dderwen*. Yr oedd yn arferiad ganddynt i eisteddd dan gysgod derw, 1 Bren. xiii. 14; ac i gladdu danynt, Gen. xxxv. 8. 1 Cron. x. 12; ac i wneuthur delwau eilunaddolgar o honynt, Esa. xliv. 14; ac i addoli delwau danynt, Ezec. vi. 13. Esa. i. 29. Hos. iv. 13. Byddai y Tyriaid yn gwneuthur eu rhwyfau at rwyfo eu llongau o *dderw* tèg *Basan*, Ezec. xxvii. Y mae yr Hebreaid yn cael eu cyffelybu i *dderwen a'i dail yn syrthio;* wedi eu diosg o'u hyder ynddynt eu hunain ac ereill, ac wedi eu hamddifadu o'u hanrhydedd, eu golud, eu llwyddiant, a'u dedwyddwch, Esa. i. 30; etto fel *derwen* neu *lwyfen*, yr hon y mae ei sylwedd ynddi, nis gellid byth eu llwyr ddinystrio gan yr Assyriaid, y Caldeaid, neu y Rhufeiniaid, Esa. vi. 13. Llywiawdwyr, a gwyr mawrion a chedyrn, a gyffelybir i *dderw* uchel a chedyrn *Basan*, i nodi eu gallu, eu cadernid, a'u haddasrwydd ymddangosiadol i amddiffyn ereill, Esa. ii. 13. Zech. xi. 2.

Ymddengys oddi wrth amryw adnodau o'r ysgrythyr, fod *coed*, yn enwedig derw, yn cael eu plannu yn fynych gerllaw lleoedd o addoliad. Y nodau canlynol ar Josuah xxiv. 26, a fyddant, tebygol, yn gymmeradwy gan amryw ddarllenwyr. "A Josuah a gymmerth faen mawr, ac a'i gosododd i fynu yn Sichem; dan y *dderwen* oedd yn agos i gyssegr yr Arglwydd." Yr hanes sydd yn arwain y geiriau hyn i mewn yw hwn: Josuah ychydig cyn ei farwolaeth, a gasglodd holl lwythau Israel yn nghyd yn Sechem neu Sichem, er gwneuthur cyfammod arbenig yno rhyngddynt hwy a'r Arglwydd, "I'w gael ef yn unig iddynt, a pheidio gwasanaethu duwiau ereill ger ei fron ef." Yr hyn a addawsant mewn modd arbenig wneuthur, gan ddywedyd, "Yr Arglwydd ein Duw a wasanaethwn, ac ar ei lais ef y gwrandawn," adn. 24: y mae Josuah er tystiolaeth a choffadwriaeth am yr ymrwymiad hwn, yn cyfodi yn y lle faen mawr neu golofn dan *dderwen* oedd yn *agos* (neu fel y mae yn yr Hebraeg, *yn*) *i gyssegr yr Arglwydd*. Am y *dderwen* hon, neu yn hytrach yn gasgliadol, *quercetum* neu *dderw-lwyn* Sichem, gwneir crybwylliad ddwywaith mewn manau ereill o'r ysgrythyr. O herwydd dyma y fan lle yr eisteddodd Abraham i lawr gyntaf, a'r lle, pan ymddangosodd yr Arglwydd iddo, y cyfododdefe ei allor gyntaf yn ngwlad Canaan wedi iddo ddyfod allan o Haran yno; fel y darllenwn Gen. xii. 6. "Ac Abraham a dramwyodd trwy y tir hyd le Sichem, hyd dderwen (neu dderw-lwyn) Moreh, lle yr ymddangosodd yr Arglwydd iddo, gan ddywedyd, "I'th had di y rhoddaf y tir hwn; ac yntau a adeiladodd yno allor i'r Arglwydd yr hwn a ymddangosodd iddo." A pha le yn fwy cymmwys i hiliogaeth Abraham adnewyddu y cyfammod â'u Duw na'r un y dadguddiodd eu Duw ei gyfammod gyntaf i Abraham eu tad ynddo? Drachefn, yn y lle hwn, yn amseroedd y Barnwyr, o ddeutu 170 o flyneddoedd ar ol marwolaeth Josuah, y gwnaeth y Sechemiaid Abimelech mab Jerubbaal neu Gideon, yn frenin; fel y darllenwn Barn. ix. 6, "i holl wyr Sichem ymgasglu, a holl dŷ Milo, a myned ac urddo Abimelec yn frenin, wrth dderwen y golofn yr hon sydd yn Sechem."

Os dywedwn i arch Duw gael ei chymmeryd allan o'i lle yn Siloh, a'i dwyn i Sichem gan y Lefiaid, yn amser y gynnulleidfa yffredinol hon; etto ni symmudir yr anhawsdra. O herwydd, *yn gyntaf*, Pa fodd y gallai yr arch roddi enw i'r fan lle y safai, a pheri iddo gael ei alw *cyssegr yr Arglwydd?* Neu, *yn ail*, Os oedd yr allor yno gyda hi, pa fodd yr oedd cyfraith Duw yn cael ei chadw, yr hon a ddywed, "Na phlanna i ti lwyn o neb rhyw goed (neu neb rhyw bren) gerllaw allor yr Arglwydd dy Dduw, yr hon a wnai i ti: ac na chyfod iti golofn, yr hyn sydd gan yr Arglwydd dy Dduw," Deut. xvi. 21, 22: tra y mae yma *dderwen* neu *quercetum* yn nghyssegr Duw,

a *cholofn* neu *ddelw* wedi èi chyfodi dani hi. *Yn drydydd*, Rhaid fod y *cyssegr hwn*, pa beth bynag oedd, yn rhywbeth ag oedd yn meddu sefyllfa barhaus a sefydlog, ac nid yn dymmorol a chyfnewidiol; a hyny, o herwydd fod y *dderwen* dan ba un y cyfodwyd y *golofn* hon gan Josuah, yn cael ei bwriadu a'i nodi allan yma ganddo megys trwy nôd parhaus a sefydlog; onidê pa ddyben a fuasai nodi y *dderwen* allan trwyddo ef, os oedd yn gyfryw ag a fyddai yma heddyw, ac nid yforu.

O herwydd y rhesymau hyn, ymddengys mai nid y *babell* lle yr oedd yr arch a'r allor i Israel, a allai y *cyssegr hwn* fod, ond mai rhywbeth amgen oedd: a pha beth a allasai fod, sydd yn awr i'w ymofyn.

Yr hyn a alwent *proseuchec*, neu dŷ gweddi, oedd yr un a adeiladodd yr Israeliaid (o leiaf llwyth Ephraim, yn rhandir pa rai yr oedd) ar ol darostwng y wlad iddynt, yn y fan honno yn gywir yn Sichem lle yr ymddangosodd Duw gyntaf i Abraham, a lle yr adeiladodd efe ei allor gyntaf wedi dyfod o hono i wlad Canaan; yfan lle y dywedodd Duw wrtho, "I'th had y rhoddaf y wlad hon."

Er deall y peth hwn, dylid sylwi, fod gan yr Iuddewon, heblaw eu *pabell* neu eu *teml*, yr hon oedd yr *unig le i aberthu*, ddau fath o *le at ddyledswyddau crefyddol*; y naill a elwid *proseucheu*, y llall *synagogau*. Y gwahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd oedd hyn: y *proseucha* oedd lannerch o dir wedi ei amgylchynu â mur, neu ryw glawdd neu gaead cyffelyb arall, ac yn ben-agored, yn lled debyg i'n cynteddau ni; eu defnydd yn briodol oedd at *weddio*, fel yr arwydda yr enw *Proseuchac*. Y *synagog* oedd yn *œdeficium tectum*, yn adeilad toedig fel y mae ein tai a'n heglwysi ni, lle yr oedd y gyfraith a'r prophwydi yn cael eu darllain a'u hegluro, a'r bobl eu haddysgu mewn pethau dwyfol; yn ol yr ymadrodd hwnw yn Act. xv. 21, "Y mae i Moses yn mhob dinas, er yr hen amseroedd, rai a'i pregethant ef, gan fod yn ei ddarllain yn y synagogau bob Sabbath."

Oddi wrth hyn oll, a llawer o resymau ereill a èllid eu dwyn, ymddengys yn eglur, fod lleoedd at ymgynnull i addoli y Goruchaf gynt, heblaw y deml; ac fod y cyfryw leoedd yn gyffredin dan gysgod coed, megys y darllenwn yn Gen. xxi. 33, i Abraham blannu coed, a galw ar enw yr Arglwydd Dduw tragwyddol.

DEUDDEG. Mewn cyfeiriad at *ddeuddeg* llwyth Israel, yr oedd *deuddeg* torth o fara gosod ar fwrdd y cyssegr; y dewisodd Crist *ddeuddeg* apostol, athrawiaethau pa rai ydynt yn cael eu galw y *deuddeg* seren yn y goron ar ben yr eglwys efengylaidd; y dywedir fod *deuddeg* mil o bob llwyth wedi eu selio; bod i'r Jerusalem newydd *ddeuddeg* porth, a *deuddeg* sylfaen; a bod pren y bywyd yn dwyn *deuddeg* rhyw ffrwyth, Mat. x. Dad. xii. 1, a vii, a xxi, a xxii. 2.

DEUGAIN. Yr oedd yr ysbaid hwn o amser yn cael ei ystyried yn gyssegredig. *Deugain niwrnod* y bu y dwfr dylif yn discyn, Gen. vii. 17; teirgwaith yr ymprydiodd Moses *ddeugain* niwrnod, Deut. ix. 9—25. Exod. xxiv. 18, a xxxiv. 28; mewn *deugain* niwrnod y chwiliodd yr yspiwyr Hebreaidd wlad Canaan, Num. xiii. 25; dros *ddeugain* niwrnod y bu Goliath yn heriaw byddinoedd yr Hebreaid, 1 Sam. xvii. 16; *deugain* niwrnod yr ymprydiodd Elias, 1 Bren. xix. 8; *deugain* niwrnod oedd yr amser a roddwyd i'r Ninifeaid edifarhau, Jonah iii. 3; *deugain* niwrnod y dygodd Ezeciel anwiredd tŷ Judah, diwrnod am flwyddyn, Ezec. iv. 6; *deugain* niwrnod y temtiwyd Crist gan y diafol, Mat. iv. 2. Marc i. 13; *deugain* niwrnod yr arosodd ar y ddaear wedi ei adgyfodiad, Act. i. 3—9; *deugain* mlynedd y temtiodd yr Hebreaid Dduw yn y diffeithwch, Salm xlv. 10; a *deugain* mlynedd ar ol mar wolaeth Crist y dinystriwyd eu teml a'u dinas gan y Rhufeiniaid.

DEUTERONOMIUM. Y diweddaf o bum llyfr Moses. Ei enw a arwydda *ailadroddiad o'r gyfraith*. Gan fod y genedlaeth a ddaeth allan o'r Aipht, yn gyffredinol wedi marw, y mae Moses, ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, yn y llyfr hwn, yn *ailadrodd* sylwedd eu hanes yn yr anialwch, yn nghyd âg amryw o'r cyfreithiau a roddwyd iddynt, ac

yn ychwanegu rhai newyddion; megys am dorri gau brophwydi, a dinasoedd eilunaddolgar ymaith; am wneuthur canllawiau o amgylch nenau eu tai; am gymmodi dros lofruddiaeth ansicr; am dynnu drwg-weithredwyr erogedig i lawr yn yr hwyr; am gospi plant gwrthryfelgar; am wahaniaethu y rhyw iogaethau wrth eu gwisgoedd; am briodas caeth-weision, a gwragedd brodyr wedi meirw; am ysgariaeth; a phrofiad morwyndod; am ladratta dynion; am weision fföedig, &c. pen. i—xxv. Yna y mae yn gorchymyn iddynt ymostwng i Dduw wrth fynydd Ebal a Gerizzim; yn gosod gorchymyn ger eu bronau, mewn modd arbenig; y bendithion a ganlynent eu hufudd-dod i'r cyfreithiau dwyfol; a'r trueni a'u goddiweddai am eu gwrthgiliad a'u gwrthryfel; pa rai ydynt wedi, neu yn cymmeryd lle ar y genedl annedwydd honno, yn eu trallodion gynt, a'u gwasgariad presennol, pen. xxvi—xxxi. Cynnwys, yn nesaf, gân Moses; ei fendith i'r deuddeg llwyth; a hanes ei farwolaeth; y diweddaf o ba rai, hwyrach, a ysgrifenwyd gan ryw law arall, pen. xxxii—xxxiv. Y mae dull y llyfr hwn o eiddo Moses yn fwy derchafedig, a'i ddefnydd, yn benaf y gorchymynion, yn fwy eglur ac ymarferol nag un o'r lleill.

DEWINAW. Y gair Heb. *nachash*, yn briodol a ar wydda *chwilio yn ofalus*, neu *brofi*; a phan ei crybwyllir yn hanes Joseph, dichon nad yw yn arwyddo ychwaneg nag y chwiliai efe yn ofalus am ei gwppan, neu ei fod wedi profi cywirdeb ei frodyr yn ddigonol trwyddo, Gen. xliv. 5, 15: ond yn gyffredinol arwydda cael allan, a rhagfynegu pethau dirgelaidd neu ddyfodol, trwy ryw foddion pechadurus a dieflig. Yr oedd y gelfyddyd o ddewiniaeth mewn arferiad mawr iawn yn mhlith y Caldeaid a chenedloedd dwyreiniol ereill; fe, yn mysg pawb o'r Paganiaid yn mhob oes, ac yn mysg llueedd o Gristionogion enwol, â thueddiad paganaidd ynddynt, yn ymdrechu cyflawni eu diffyg o wybodaeth wirioneddol â'r hyn sydd ddisylwedd a drwg; a bob amser yn barod i ddangos eu hymddarostyngiad i Satan trwy eu gwaith yn cadw ei ordinhadau. Y mae y cyrph a ddefnyddid at ddewiniaeth, yn nghyd â'r ffyrdd o honi, bron yn aneirif, fel y dengys *Cardan* i ni. Nid oedd bron ddim na chamarferid, fel moddion i gyrhaedd y wybodaeth anghyfreithlon ac ansylweddol hon; yn erbyn pa un yr ysgrifenodd *Cicero* ddau lyfr, yn gwrthbrofi y cyfan o honi, megys yn ddisynwyr a gwag. Cynnwysa y Bibl Hebrëig amrywiol eiriau i'w gosod allan, fel (1.) Y *Chartunim*, neu y *swynwyr*, y rhai oeddynt hwyrach eu hathronyddion anianol, y rhai a ychwanegent at eu gwybodaeth am anian, y ffordd i weithredu pethau rhyfeddol trwy gynnorthwyon dieflig. Ië, dilys yw, fod gwefreiddiaeth, a mil o bethau ereill yn y rhan broffadol o athroniaeth, yn dueddol o gael eu hystyried, gan rai o feddyliau gweinion, fel effeithiau gallu dieflig. Yr *Hobreshamim*, yr *Asaphim*, a'r *Mehonemim*, sef y *planedyddion*, y *brudwyr*, a'r *daroganwyr*, oeddynt y cyfryw ag a gymmerent arnynt wybod damweiniau dyfodol trwy sylwi yn graff ar yr wybrenau, y sêr, y cymmylau, a thrwy ddarllain tesni rhai wrth osodiad y planedau ar awr eu genedigaeth. Y *Menahashim*, neu y *rhinwyr*, oeddynt y cyfryw ag a gymmerent arnynt ymgyfeillachu â seirph, a denhongli rhagarwyddion, a gweithredu pethau rhyfeddol trwy ddylanwadau goruwch-naturiol. Y *Mecashephim*, sef y *dewiniaid*, neu y *swynwyr*, ymddengys, oeddynt y cyfryw ag a feddent gelfyddydau anghyfreithlon i niweidio eu cymmydogion, â gwenwyn, neu trwy ryw weithrediadau dieflig. Yr *Hoberim* neu *hudolion* a allent fod y cyfryw ag a gymmerent arnynt attal niweid, neu iachau clefydau, trwy swynion, hyny yw, trwy foddion na feddent un tueddiad naturiol i gyflawni y dyben. Yr *Yidehonim*, sef y *chwiliogod*, neu wyr hysbys, a allent fod y cyfryw ag yr ymgynghorid â hwy mewn perthynas i bethau colledig, neu yn achos clefydau anfeddyginiaethol; neu er cael allan dynghedfenau dyfodol. Y *Cosemim*, neu y *dewiniaid*, a allent fod y cyfryw ag a ymddangosent fel math o brophwydi; eithr pa fodd y daethant o hyd i'w gwybodaeth ffugiol, pa un ai drwy ddal ar ehediad adar, neu trwy edrych i

amysgaroedd anifeiliaid, neu trwy ryw argraffiadau dieflig ar eu meddyliau, &c. nis gallwn gymmaint â dychymmygu. Yr oedd heblaw hyn, rai a *ymgynghorent âg ysbrydion dewiniaeth*, a ddalient gyfathrach cyfeillgar â Satan, ac a ymgynghorent âg ef fel y byddai eu hangen. Ereill oeddynt yn *ymofyn â'rmeirw*, ac yn cymmeryd arnynt gyfodi ac ymgynghori âg ysbrydion ymadawedig dynion. Pa fodd yr oedd yr *Honemim* a'r *Gozerim*, neu y *daroganwyr*, yn cymmeryd arnynt feddu y gelfyddyd o ragfynegu pethau dyfodol, pa un ai trwy dderchafu eu golygon i'r cymmylau, neu trwy ddewiniaeth â gwïail, &c. nis gwyddom. Tebygol fod yr un dyn weithiau yn honni gwybodaeth o'r cyfan, neu y rhan fwyaf o'r celfyddydau a dybir eu bod yn cael eu nodi wrth yr amrywiol enwau uchod; o herwydd hyn y mae yn anhawdd gwybod yr ystyr cywir o honynt. Y mae yr holl gelfyddydau hyn, a phawb a honnant wybodaeth ynddynt, yn waharddedig gan air Duw, Lef. xx. 27. Deut. xviii. 9—13. Esa. viii. 19. Tebygol i *ddewiniaeth* ddechreu yn yr oesoedd boreuaf; pa un ai bod Joseph yn fedrus ynddi neu nad oedd, sydd ansicr. Ond dilys yw, fod swynwyr, yn nghylch 200 o flyneddoedd wedi hyny, yn yr Aipht, y rhai a gymmerent arnynt wneuthur pethau rhyfeddol. Eglur yw, iddynt hwy, trwy eu swynion, wneuthur i'w gwïail ymddangos megys seirph, y dwfr fel gwaed, a dwyn llyffaint i fynu ar wlad yr Aipht, er dynwared Moses. Ond pa un ai eu bod, trwy eu cyfareddion hudolaidd, yn unig yn twyllo llygaid yr edrychwyr, neu fod, trwy effeithiau Satanaidd ar y wïalen, y dwfr, &c. unrhyw gyfnewidiad gwirioneddol yn cael ei weithredu; neu i Dduw, tra yr oeddynt hwy yn arfer eu dewiniaeth, weithredu gwyrth wirioneddol mewn modd pen-arglwyddiaethol i'r dyben o galedu calon Pharaoh, sydd heb ei benderfynu gan ddehonglwyr. Sicr yw fod Moses, er eu holl rithymddangosiad hwy o wneuthur gwyrthiau, yn rhagori yn mhell arnynt; nad oedd pa beth bynag a wnaent, ond ychwanegu at blâau eu gwlad; ac nad oeddynt yn dysgu un athrawiaeth gymmwys i ddal arni, ac i fod yn nôd gwahaniaethol o wyrthiau gwirioneddol, Exod. vii, a viii. Yr oedd *dewiniaid* yn lluosog yn mhlith pobl gwlad Canaan; ac nid ymddengys i'r Hebreaid eu diwreiddio hwynt, hyd ddyddiau Saul; a bu yntau wedi hyny yn ymgynghori â dewines yn Endor, yr hon a gymmerai arni ddwyn Samuel i fynu oddi wrth y meirw, er dangos iddo ei dynged. Yn nyddiau Ahaz, ymdengys ei fod yn beth cyffredin ganddynt i arfer dewiniaeth wrth *ffyn*, Hos. iv. 12; ac i ymofyn â dewiniaid a swynyddion; a byddai lluoedd o honynt, tebygol, yn dyfod attynt o Caldea neu Arabia yn y dwyrain, er mwyn elw, Esa. ii. 6, a viii. 19. Manasseh nid yn unig a fawrhaodd y llwyth uffernol hwn, ond a aeth yn un o honynt ei hun, 2 Bren. xxi. 6. 2 Cron. xxxiii. 6. Fyth hyd heddyw, y mae yr Aiphtiaid yn honni medrusrwydd mawr mewn dewiniaeth; ac nid oedd y Philistiaid lawer yn ol iddynt yn y peth hwn gynt, Esa. ii. 6. Ni fu un pobl yn fwy gwallgofus am dani na'r Caldeaid, Esa. xlvii. 9, 12, 13, a xliv. 25. Pan y daeth Nebuchodonozor i'r rhan ddehau-ddwyreiniol o Syria, efe a ymofynodd trwy dynnu saethau allan o gawell, a thrwy ddelwau, a thrwy edrych mewn amysgaroedd anifeiliaid, pa un ai ar Jerusalem neu Rabbah y gwarchauai efe gyntaf, Ezec. xxi. 21. Yr oedd lluaws o ddewiniaid yn cael eu cynnal yn Babilon ar draul y cyffredin, fel y gallent fod wrth law i ymofyn â hwy mewn pob achos dyrys. Eu hanalluogrwydd i fynegu i Nebuchodonozor un o'i freuddwydion, a dehongli y llall; neu i ddarllain llaw-ysgrifen yr angel ar bared llŷs Belsassar, diammau, a leihaodd eu parch a'u henwogrwydd yn fawr, Dan. ii. 4, a v; ond tebygol i Zoroaster ei adferu o ddeutu amser Darius Hystaspes brenin Persia. Yn Philippi, bu dewines ieuange yn blino Paul a Silas, nes iddynt fwrw y diafol a'i meddiannai allan o honi, Act. xvi. 16—18. Yn Ephesus, dychwelodd lluaws mawr o wneuthurwyr rhodreswaith neu *ddewiniaid* i'r ffydd Gristionogol, a llosgasant eu llyfrau swynyddol, y rhai oeddynt yn werth 50,000 o

ddarnau arian, Act. xix. 19. Pan yr ymdaenodd Cristionogrwydd dros y byd, syrthiodd dewiniaeth yn mhob gwlad dan ddiystyrwch. Yn amser ffyniant Anghrist, adenniloddi ei chymmeriad, a chyfrifid hi o wasanaeth mawr i weithredu y gau ryfeddodau angenrheidiol er sefydliad ei hudoliaethau ef, 2 Thes. ii. 11. Dad. xiii. 14. Hyd yn nod yn mhlith Protestaniaid, y mae y sylw a wneir o ragarwyddion ffawd ac anffawd; yr arferiad o swynion er iachau neu ragfaenu clefydau; y parodrwydd i ymofyn â darlleuwyr tesni, neu rai a honant fedrusrwydd mewn dadguddio pethau a ladrattawyd neu a gollwyd; neu fawrhau taflwyr disiau, neu ddangoswyr chwareyddiaeth llam-ddelwau, &c. yn arwyddo pa mor hoff gan lucedd o ddynion, yw nodi eu hymddarostyngiad i Satan, a'u hymorphwysiad arno.

DEWIS—IAD, *(dew*, gwahaniad) *Dewisiad* mewn creadur a arwydda ei waith, o'i rydd-ewyllys, yn parchu un peth rhagor y llall. Y mae dynion, yn gyffredin, yn chwannog i *ddewis* pethau yn ol yr anian neu y tueddiad sydd yn llywodraethu arnynt. *Dewisodd* Mair y rhan dda, sef Crist a'i iachawdwriaeth, pan yr oedd Judas yn dewis y deg ar hugain arian, ac yn gwerthu Crist am dannynt. Nid yw y rhan dda yn eiddo i neb, na Christ yn briod i neb, ond y sawl sydd yn ei ddewis o flaen pob peth, Luc x. 42, a xxii. 4. Phil. iii. 9. Can. ii. 16.

DIACON. Y mae y gair a gyfieithir felly yn cael ei briodoli i'r cyfryw ag a gyflawnant ryw wasanaeth yn yr eglwys neu y wladwriaeth; megys i Grist, Rhuf. xv. 8; i weinidogion yr efengyl, cyffredinol neu anghyffredinol, 1 Cor. iii. 5. Col. i. 23, 25; i holl ganlynwyr Crist yn ddiwahaniaeth, Ioan xiii. 26. ac i swyddogion gwladol, Rhuf. xiii. 4; ond y mae yn cael ei arfer yn benaf i arwyddoccau swyddog yn yr eglwys, gorchwyl pa un ydoedd cynnorthwyo i ddosparthu yr elfenau wrth fwrdd yr Arglwydd, a gofalu am angenrheidiau y tlodion, ynghyd â gweini iddynt, Phil. i. 1.

Pan yr oedd y dychweledigion i'r ffydd Gristionogol wedi amlhau yn ddirfawr yn Jerusalem, a'r Helheniaid, neu yr Iuddewon a arferent yr iaith Roeg, yn grwgnach o herwydd fod eu gwragedd gweddwon hwy yn cael eu hesgeuluso yn ngweinyddiad yr elusenau sanctaidd, yr apostolion, heb ei ystyried yn beth cymmesur iddynt hwy adael pregethiad parhaus yr efengyl, a ddeisyfasant ar y lluaws dychweledigion i ddewis o'u plith eu hunain seithwyr da eu gair, ac yn llawn o'r Ysbryd Glan, y rhai a ellid eu gosod i drin y gorchwylhwn. Stephan, Philip, Prochorus, Nicanor, Parmenas, Timon, a Nicholus a etholwyd. Y rhai hyn a ordeiniodd yr apostolion trwy weddi ac arddodiad dwylaw, Act. vi. Y mae yn ofynol fod y diaconiaid yn ddiargyhoedd, yn sobr, a ffyddlawn, yn llywodraethu eu teuluoedd eu hunain yn dda, ac yn brofedig, cyn eu hordeinio. Eglur yw fod rhai o'r saith diacon cyntaf wedi hyny yn bregethwyr; ond nid oes gryhwylliad mewn un man yn yr ysgrythyrau sanctaidd fod pregethu yn perthyn i swydd diacon, 1 Tim. iii. 8—12. Tros amryw oesoedd ar ol Crist, ystyrid hwy megys o radd is na henuriaid; ond trwy awdurdod Anghrist, derchafwyd hwy uwchlaw iddynt; ac y maent yn parhau felly yn yr eglwysi Pabaidd a Phreladaidd.

Y mae yn beth pechadurus a chywilyddus fod y swyddogion hyn, dwyfol sefydliad pa rai sydd yn cael ei nodi mor eglur yn yr ysgrythyr, mor fynych yn eisiau mewn cynnulleidfaoedd Cristionogol, dan esgus fod eu holl awdurdod yn trigiannu yn yr henuriaid llywodraethol.

DIAFOL, *(di-gaft)* angel syrthiedig, yn enwedig y penaf o honynt, yr hwn a elwir felly o herwydd ei fod yn gam-gyhuddwr o Dduw a'i bobl, Dad. xii. 9, 10. Yr oedd ac y mae diafiaid yn cael eu haddoli yn eilunod y Paganiaid a'r Pabyddion, Deut. xxxii. 17. Salm cvi. 37. Lef. xvii. 7. Dad. ix. 20, a xviii. 2; ond y maent hwy eu hunain yn crynu wrth yr olwg ar y gwir Dduw, Iago ii. 19. Y mae dynion drwg yn cael eu galw yn *blant diafol*; y maent yn tebygoli i'r ysbrydion drwg hyn mewn malais a gelyniaeth yn erbyn Duw a'i bobl; ac mewn gwaradwydd ac enllib o honynt, ac y maent yn weithredwyr dros Satan ar y ddaear, Ioan viii. 14, a xiii. 2. Act. xiii. 10.

DIAL—EDD, *di-ál*, cêd) a arwydda, (1.) Anfoddlonrwydd diglawn yn ei bryn cam a wnaed neu y tybir iddo gael ei wneud â ni, Jer. xx. 10. (2.) Cerydd cyfiawn am sarhad, 2 Cor. x. 6. (3.) Casineb at bechod, yn cael ei amlygu trwy arfer pob moddion priodol i'w ddinystrio, 2 Cor. vii. 11. Pan briodolir *dial* neu *ddialedd* i Dduw, nid yw yn cynnwys un nwyd bechadurus, ond yn unig tueddiad cyfiawn i gospi drwg-weithredwyr, Act. xxviii. 4; a'r gosp gyfiawn a osodir arnynt, Salm lviii. 10; neu geryddiad o'r bobl, Salm xcix. 8. *I'r Arglwydd y mae dial;* efe yn unig a *all* ddangos ei anfoddlonedd yn gyflawn yn erbyn camweddau; efe yn unig a *fedd hawl* i ddangos cyffroad ei ysbryd yn erbyn y sarhad a wneir iddo ei hun, fel Duw a Phen-llywodraethwr y byd; ac efe a waharddodd i bersonau unigol bob math o ddial am gamweddau a wneir iddynt, Lef. xix. 17, 18. Rhuf. xii. 17, 19; a thrwy gyfraith addaliad, ni chaniattaodd efe, ond gosododd derfynau i ddialedd anghyhoedd, Exod. xxi. 4. Pan byddai y swyddogion yn cospi troseddau, neu pan fyddai y cyfathrachwr yn lladd yr hwn a laddasai ei gyfaill ef yn amryfus, gweithredent megys rhaglawiaid dan Dduw y pen-llywodraethwr, Rhuf. xii. 4. Num. xxxv. 19, 24. Y *gosp* a roddwyd gan Dduw ar y Caldeaid am ddyfetha ei bobl a'i deml, a elwir *dial ei deml* ef, Jer. l. 28.

DIANA, un o dduwiesau enwog y Paganiaid. Yr oedd hi mewn bri neilltuol yn Ephesus. Yr oedd yn un o'r deuddeg goruwch-dduw, ac yn cael ei galw wrth yr amrywiol enwau canlynol, *Hebe, Trivia, Hecata, Diana,* a *Lucina.* Hi oedd *brenines y nef,* sef y lleuad; ac, hwyrach, yr un â *Meni,* rhif-yddes neu dduwies y misoedd, Jer. vii. 18; Ezec. xvi. 25. Esa. lxv. 11, yn *Heb.* Ar y ddaear, galwent hi *Diana* a *Trivia,* duwies heiwriaeth a'r prif-ffyrdd; yn uffern *Hecate* oedd hi; pan yn cynnorthwyo gwragedd wrth esgor, galwent hi *Lucina.* Dywedid ei bod yn ferch Jupiter, a chwaer Apolo; a'i llun oedd helyddes ieuangc â hanner lloer ar ei phen; neu yn orchuddiedig â bronau drosti, a'i sail wedi ei haddurno â phenau ceirw, ychain, a chwn, i nodi ei ffrwythlonrwydd a'i hawdurdod ar helwriaeth. Addolid hi gyda difrifwch mawr yn Ephesus, Act. xix. 27—35.

DIANGC, *(angc)* cilio, ffoi, "Pa fodd y *diangwn* ni, os egeuluswn iechydwriaeth gymmaint?" Heb. ii. 3. Y mae dull yr ymadrodd mewn ffordd o ofyniad, yn sicrhau, yn y modd cadarnaf, na *ddiangwn* ni ddim. Yr iechydwriaeth yw yr unig ffordd i ddiangc rhag cyflawn daledigaeth am drosedd ac anufudddod. Y mae pawb a'i hesgeuluso yn gyflawn, yn sicr, ac yn anocheladwy.

DIANWADALWCH, *(di-an-wadal)* sefydlogrwydd. "*Dianwadalwch* ei gyngor," Heb. vi. 17, 18. Wrth gyngor Duw y mae i ni ddeall ei arfaethiad i anfon ei Fab i'r byd o had Abraham, er bod yn Iachawdwr i etifeddion yr addewid. Mae *dianwadalwch* cyngor Duw, yn tarddu oddi wrth yr hyn yw Duw ynddo ei hun; sef oddi wrth anghyfnewidioldeb ei hanfod; perffeithrwydd ei ddoethineb a'i wybodaeth; anfeidroldeb ei ddaioni; hollalluogrwydd ei allu; ac annibynolrwydd ei benarglwyddiaeth.

DIAREB, *(di-ar-eb)* a arwydda, (1.) Ymadrodd byr, yn cynnwys llawer o synwyr ynddo, Preg. xii. 9. (2.) Araith fer wawdus, Esa. xiv. 4. Y mae dynion neu bethau yn myned yn *ddiareb,* pan y crybwyllir am danynt mewn ffordd o wawd a diystyrwch, 1 Bren. ix. 7. 2 Cron. vii. 20. Yr oedd *diarebion* arferedig iawn gan yr henafiaid, ac yr oeddynt yn gyffredin yn fath o ddammegion byrion, Num. xxi. 27. Llefarodd Solomon 3000 o *ddiarebion;* ond am nad oedd llawer o honynt wedi cael eu bwriadu er-ioed i fod yn rheolau parhaus i'r eglwys, y maent yn awr wedi myned ar goll. Y rhai sydd ar ol heb eu colli, a elwir yn Hebraeg *mishle,* sef dammegion, neu ymadroddion *heirdd, awdurdodol.* Yn llyfr y Diarebion, y mae genym reolau at bob sefyllfa ac amgylchiad mewn bywyd; i freninoedd, gwyr llys, masnachwyr meistraid, gweision, rhieni, plant, &c. Tebygol i Solomon gasglu yn nghyd y 24 pennod gyntaf, a'u gadael mewn ysgrifen; ac i

Hezeciah osod rhyw un i *gopïo* y lleill allan, pen. xxv. 1. Tebygol i Solomon ysgrifenu y Diarebion yn ei ganol oed, pan oedd ei fab Rehoboam yn ieuangc, ac mewn perygl o gael ei hudo gan wragedd putteinllyd a chyfeillion drwg, os nid yn hytrach wedi ei adferiad o'i wrthgiliad trwm trwy ei wragedd annuwiol. Y rhan ddiweddaf o pen. 1, addengys alwad yr efengyl, a'r gofidiau blinion a ddygwyd ar yr Iuddewon ac ereill trwy wrthod yr unrhyw. Yr 8fed, a dechre y 9fed, a gymmwysant ddarluniad o Iesu Grist, yn ei berson, ei swyddau, a'i fendithion. Y gweddill o'r llyfr a berthyn, gan mwyaf, i rinweddau moesol, a'r beiau gwrthwynebol iddynt. Geill pobl ieuainge ddysgu llawer mwy yma mewn perthynas i iawn ymarweddiad, nag mewn 10,000 o ffughanesion, newydd-chwedlau, chwareuon, &c. Y mae y dehonglydd Groegaidd, ac ereill a'i dylynasant, wedi cymmeryd rhyddid anoddefadwy gyda'r llyfr hwn, gan ychwanegu atto lawer o gymmysgedd nad yw yn yr iaith wreiddiol.

DIBEN, *(dy-ben)* diweddiad, terfyniad. "Mae *diben* i'r pethau am danaf fi," Luc xxii. 37; hyny yw, mae cyflawniad buan i bob peth perthynol i mi, ag a ysgrifenwyd gan y prophwydi am danaf. Y pethau oeddynt i'w cyflawni ganddo yn ei gyflwr o ddarostyngiad, angenrheidiol hanfodol er iachawdwriaeth ei bobl.

DIBON, *(deall)* neu Dibon-gad; yr un, hwyrach, â Dimon: ennillodd Sehon hi oddi ar y Moabiaid. Moses, pan y gwersyllodd yr Hebreaid gerllaw iddi, a'i hennillodd, ac a'i rhoddodd i'r Reubeniaid, ond ymrhoddengys i'r Gadiaid ei chael yn gyfnewid am ryw le arall. Syrthiodd wedi hyny i ddwylaw y Moabiaid, a dinystriwyd hi gan yr Assyriaid a'r Caldeaid, Num. xxii. 3, 33. 34, a xxxiii. 45. Jos. xiii. 9. Esa. xv. 2, 9. Jer. xlviii. 18.

DIBRISIO *(di-pris)*. "Efe a'i dibrisiodd ei hun," Phil. ii, 7. Mae y geiriau yn gosod allan weithred rydd, ewyllysgar, rasol, o eiddo Crist tu ag atto ei hun, yn ei ddarostyngiad i'ryfedd at waith y pryn-edigaeth. Ymddangosodd yn y cnawd, a *chymmerodd* arno agwedd gwas, yr hwn ac yntau yn gyfoeth-og, a *aeth* yn dlawd, 1 Tim. iii. 16. 2 Cor. viii. 9.

DIDOI, *(di-toi)* diorchuddio. "A *didoi* y tô a wnaethant lle yr oedd efe," Marc ii. 3. Luc v. 18—20. Mae penau y tai yn y gwledydd dwyreiniol yn *wastad;* yr oedd yr Iesu yn yr ystafell nesaf at nen y tŷ; tebygol fod grisiau oddi allan i fyned i nen y tŷ; a thynasant gymmaint o'r pridd-lechau, sef tô y tŷ, ag oedd angenrheidiol i ollwng i waered y gwely yn yr hwn y gorweddai y dyn claf. Mawr oedd eu ffydd yn yr Iesu, a'u llafurus gariad tuag at y claf.

DIDDANWCH, *(dy-dân,* deniad) cyssur, hyfrydwch. Arwydda y gair y gorphwysdra a'r heddwch hwnw sydd yn deilliaw i'r gydwybod euog oddi wrth y gwirionedd am Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Amddifadwyd meddwl dyn o heddwch pan y daeth yn bechadur yn erbyn Duw; syrthiodd ofn arno, ac aeth i ymguddio: Iesu Grist a ddaeth, fel y gwir Noah *(cyssur)* i'n diddanu ni yn yr olwg ar felldith Duw, i ba un yr oeddym yn agored, Gen. v. 29. Gelwir ar eglwys Duw i gymmeryd cyssur, o herwydd fod yr Arglwydd wedi derbyn yn ddauddyblyg am ei holl bechodau trwy farwolaeth Crist, Esa. xl. 2. Ac am hyny yr oedd saint yr hen Destament yn disgwyl am yr amser pan y rhoddai yr Arglwydd *gyssur* i Sion, Zech. i. 17. Y mae yr Ysbryd Glan yn cael ei alw mewn modd ardderchog y *Diddanydd;* ei swydd yw cyssuro calonau dysgyblion Crist, trwy gymmeryd o bethau Crist, a'u dangos i ni; efe a ddygodd i feddyliau yr apostolion beth a ddywedasai yr Arglwydd wrthynt yn nyddiau ei gnawd; ac y mae yn gweithredu fel Diddanydd hyd heddyw, trwy ddwyn y cyssur a gynnwysa yr ysgrythyrau yn brydlawn i feddwl yr euog, Ioan xiv. 16, 26, a xv. 26.

DIDDARBOD, *(di-darbod)* diofal, diragweliad. "Y rhai wedi *diddarbodi,*" Eph. iv. 19. Y gair Groeg a arwydda y radd eithaf o ddideimladrwydd, anobaith, a difrawder: ac y mae yn gosod allan yr agwedd meddwl mwyaf anystyriol a llygredig; wedi ymroddi i

bechod, o gariad atto, ac anobaith gallael byth ymysgwyd oddi wrtho, 1 Tim. iv. 2.

DIDDYFNU, *(di-dyfnu,* sugno) tynnu oddi wrth y fron. Ymddengys fod plant yr Iuddewon yn cael eu diddyfnu deirgwaith; yn gyntaf oddi wrth y fron, pan y byddent ynghylch tair blwydd oed, neu lawer yn gynt y rhan amlaf; yn ail, oddi wrth y fammaeth yn mhen saith mlynedd; a'r drydedd waith, oddi wrth bethau plentynaidd, pan y byddent yn ddeuddeg oed. Y saint a gyffelybir i blant wedi eu *diddyfnu,* i ddynodi eu gostyngeiddrwydd, eu hyddysgrwydd, eu gwaith yn cadw o fewn terfynau eu sefyllfa eu hunain, a'u boddlonrwydd tawel i ewyllys Duw, Salm cxxxi. 2; neu i ddynodi eu gwendid a'u hanalluogrwydd i gynnorthwyo ac amddiffyn eu hunain, Esa. xi. 8.

DIEITHR, *(dy-eithr)* alltud, estron. (1.) Un wedm gwlad ddyeithr, ac yn mhell o le ei enedigaeth, Gen. xxiii. 4. (2.) Un heb fod yn Iuddew, Exod. xx. 10 Esa. xiv. 1. (3.) Un heb fod o deulu Aaron, Num. iii. 10, a xvi. 40. (4.) Un heb fod o'r cyff a'r teulu breninol, Mat. xvii. 25, 26. (5.) Anadnabyddus, diystyr, Salm lxix. 8. (6.) Heb fod yn eiddo priodol i ni, felly gelwir gwragedd putteinllyd yn *ddyeithriaid* a *gwragedd dyeithr,* Diar. v, 10, 20. *(7.)* Caethiwus, erlidiedig, Obad. xii. Heb. xiii. 2. (8.) Y saint ydynt yn *ddyeithriaid* ar y ddaear; maent wedi eu geni oddi uchod; mae eu hetifeddiaeth a'u hymarweddiad yn y nefoedd, ac nid ydynt ond teithio trwy y byd hwn tua eu cartref nefol; ac y maent yn cael eu sarhau a'u herlid yn fynych gan blant y byd hwn, Salm xxxix. 12. Heb xi. 13. (9.) Paganiaid, a dynion halogedig ac annuwiol, a elwir yn *ddyeithriaid;* y maent yn dyieithriaid i Dduw, i Grist, i'r cyfammod newydd, ac i gymdeithas â Duw; ac y maent yn casáu ac yn ffieiddio pobl Duw, Joel iii. 17. Salm liv. 3. (10.) Gelwir gau athrawon yn *ddyeithriaid,* am nad oes ganddynt hawl i'r alwad a gymmerant arnynt; ac nid yw Crist, na'i bobl, megys eu cyfarwyddwyd ganddo, yn eu cydnabod, nac yn ymgyfeillachu â hwynt, Ioan x. 5. Yr *estroniaid* a fwyttaent gryfder Ephraim, oeddynt y Syriaid a'r Assyriaid, Hos. vii. 9. Y Ziphiaid oeddynt yn *ddyeithriaid;* yr oeddynt yn ddynion drygionus, ac yn anghyfeillgar i Dafydd, er na wyddent am hyd yn nod un tramgwydd a roddasai efe iddynt, Salm liv. 3. Gynt yr oedd llettygarwch a thirionderb tuag at *ddyeithriaid* mewn arferiad mawr. Gan nad oedd ond ychydig o lettyau cyhoeddus yn y gwledydd dwyreiniol, yr oedd yn beth cyffredin gan ddynion cymmwynasgar i gynnyg i ddyeithriaid letty ac amgeledd yn eu tai, Gen. xviii, a xix. Barn. xix; ac nid yw yn un anrhydedd j'r gwledydd gorllewinol fod yr arferiad hwn yn cael ei esgeuluso gymmaint, Heb. xiii. 2. Archiodd Duw i'r Hebreaid ddangos caredigrwydd mawr tuag at ddyeithriaid, y rhai nad oeddynt o'r Cenedloedd melldigedig; a chyda golwg ar loffa y meusydd a'r gwinllanoedd, ac amrywiol o bethau ereill, yr oeddynt i gael eu trin fel yr amddifad a'r weddw, a chael dyfodfa at ordinhadau Duw, a lleshad y dinasoedd noddfa. Onid oedd hyn yn rhagdysgodi y dylai y Cenedloedd a fuant unwaith dros hir amser yn ddyeithriaid iddo ef, gael eu dwyn trwy dyner drugaredd Duw, i gyflwr egluysig, ac i fwynhau bendithion odiaethol y nef? Exod. xxii. 1. Lef. xix. 10. Num. xv. 14, a xix. 10, a xxxv. 19.

DIENBYD, *(di-enbyd)* diogel, diberygl. "Jerusalem a gyfaneddir yn *ddienbyd,*" Zech. xiv. 11.

DIFA, *(dif,* bwriad ymaith) dyfetha, treulio. "Ac wele y berth yn llosgi yn dân, a'r berth heb ei *difa,*" Exod. iii. 2. Duw sydd dân ysol; er hyny, preswylia yn ei eglwys, yr hon yr oedd y berth yn ei harwyddo, yn ddysgiaer, yn ngogoniant ei briodoliaethau, a'i oruchwyliaethau tanllyd, ac etto heb ei *difa,* am ei fod yn preswylio yno gydag ewyllys da, Deut. xxxiii. 16.

DIFEIUS, *(di-bai)* dibechod. "Pe buasai y cyntaf hwnw yn *ddifeius,* ni cheisiasid lle i'r ail," Heb. viii. 7. Wrth y cyntaf hwnw, meddwl yr apostol, cyfammod Sinai; ac wrth yr ail, goruchwyliaeth rasol yr efengyl. Yr oedd y cyntaf yn *ddifeius,* yn sanctaidd, yn gyfiawn,

ac yn dda i ddyben ei osodiad. Cyfammod Duw oedd: am hyny yr oedd yn ddoeth, yn dda, ac yn *ddifeius*. Ond i ddangos pethau gwell y trefnwyd ef; am hyny, yr oedd yn rhy anmherffaith i atteb yn *lle* y pethau *gwell* hyny.

DIFEFL, *(di-fefl)* glân, diwarth. "Yn weithiwr *difefl*." 2 Tim. ii. 15. Gweithiwr *difefl*, sef diwarth i achos Duw, ac athrawiaeth yr efengyl, o ran ei athrawiaeth, ei iawn gyfraniad o honi, ei holl ddull a'i agwedd wrth athrawiaethu; a'i holl rodiad a'i fucheddiad sanctaidd, duwiol, yn addas i'r efengyl, Mat. xxiv. 45. Ioan xvi. 12.

DIFERLIF, *(dyfer-llif)* cerddediad gwaed, hâd, &c. Lef. xii. 7, a xv. 2. Ezec. xxiii. 20. Yr oedd *diferlif* o'r fath hyn yn dra afiaa ac halogedig dan y gyfraith; yr oedd y person, yr hwn yr oedd y cyfryw afiechyd arno, yn afiaahau pob peth y cyffyrddai âg ef: ond nid oedd y fam yn afiaahau ei phlentyn sugno. Onid oedd hyn yn gosod allan bechodau gwarthus, y rhai ydynt yn dra llygredig?

DIFETHA, *(dyfeth)* diddymu, dinystrio. "Na chymmer arnat fod yn rhy ddoeth, paham y'th *ddifethit* dy hun?" Preg. vii. 16. Nis dichon un dyn fod yn rhy ddoeth, yn wirioneddol; ond dichon dyn fod yn rhy ddoeth yn ei olwg ei hun, trwy gamfarnu am dano ei hun, a thybied ei hun yn well nag ydyw, a *difetha* ei hun felly; ac nid oes un ffordd mwy sicr iddo ddifetha ei hun na hon.

DIFLASU *(di-blas)*. "Eithr os *diflasodd* yr halen, â pha beth yr helltir ef?" Mat. v. 13. Os bydd y rhai sydd yn dysgu ereill yn dywyll eu hunain; os bydd y rhai sydd yn diwygio ereill yn anfoesol ac yn annuwiol eu hunain, pa fodd yr adferir hwynt? Maent yn annhebyg i gael eu hadferyd; ond byddant y gwrthddrychau mwyaf diddefnydd a dirmygedig ar wyneb y ddaear; a'u sathru gan ddynion a gânt, a'u bwrw allan gan Dduw, Lef. ii. 13. Ezec. xv. 2, 3. 2 Cor. ii. 14, 15.

DIFFEITHFA, *(di-ffaith,* gwaith) anialwch anghyfanedd. "Addeiladant hefyd yr hen *ddiffeithfa*, &c. Esa. lxi. 4. Eglur yw mai wrth "hen *ddiffeithfa*, anghyfanedd-dra gynt, dinasoedd *diffaith*, ac anghyfanedd-dra llawer oes, "y deallir y cenedloedd dyeithr i Dduw, ac effeithiau ei wirioneddol, a goruchwyliaethau ei ras ar eu calonau, yn nghyd âg eglwysi dirywiedig wedi eu hyspeilio gan elyn pob daioni, o bob peth hardd, gwerthfawr, a dymunol. Mae'r Arglwydd, yn lluosogrwydd ei dosturiaethau, yn addaw ymweled â hwynt yn rasol, i'w harloesi, eu gwrteithio, eu hadnewyddu, a'u ffrwythloni.

DIFFODDI, *(di-ffwdd,* dysclaerdeb) dyhuddo, rhoddi tân allan, Psalm cxviii. 12. Mewn cyfeiriad at hyn, gelwir llonyddiad syched trwy drafiwngc boddhaol o ddiod, yn *ddiffoddiad* neu *doriad* syched, Salm civ. 11. Fel y mae Ysbryd Duw a'i ddigofaint yn cael eu cyffelybu i dân, dywedir eu bod yn cael eu *diffoddi* pan y bydd dylanwadau yr Ysbryd yn cael eu hattal gan ffyniant chwantau pechadurus, 1 Thes. v. 19, a barnedigaethau Duw yn cael eu troi ymaith, Ezec. xx. 48. Y mae plant, fel marwor cyssur i'w rhieni, a breninoedd, fel goleuni teyrnasoedd yn cael eu *diffoddi* pan y torrir hwy ymaith trwy farwolaeth, 2 Sam. xiv, 7, a xxi. 17. Y mae dynion yn *diffoddi* fel llin, pan fydd eu gogoniant a'u gallu i wneuthur niweid yn cael eu cymmeryd yn hawdd oddi arnynt, Esa. xliii. 17. Angerdd y tân a *ddiffoddwyd*, pan nad allai niweidio Sadrach, Mesach, ac Abednego, Heb. xi. 34. Crist ni *ddiffydd* saint gweiniaid fel llin yn mygu; ni ddinystria hwy, ond a'u cefnoga yn dyner, ac a'u cryfha, Esa. xlii. 3.

DIFFUANT, *di-ffuant,* ffug) diledrith, diragrith. "Ffydd *ddiffuant,*" sef ffydd ddiragrith, syml, wirioneddol. Mae pob gras yn wirioneddol yn y rhai a adgenedlir gan yr Ysbryd, ac nid yn ffugiol ac yn ymddangosiadol yn unig. Rhith a ffug sydd gan bawb ereill ar y goreu, fel lamp heb olew, 2 Tim. i. 5. Mat. xxv. 3.

DIFFYG, *(diff,* bwriad ymaith) pall, gwall, eisiau. "Cyflawni diffygion eich ffydd chwi," 1 Thes. iii. 10. Yr hyn sydd yn ol, yr hyn sydd yn eisiau i'ch ffydd chwi. Mae ffydd yn ddiffygiol, naill ai o ran ei gwrthddrychau, neu o ran ei hangawdd ei hun, neu ei chred yn y gwrthddrychau. Mae yn ddiffygiol

o ran ei gwrthddrychau,neu y pethau sydd i'w credu, pan y byddo y deiliad o honi yn anadnabyddus o ryw erthygl o Gristionogrwydd, neu ynte yn canfod yn anghywir am dano. Mae ffydd yn ddiffygiol yn ei hansawdd, neu o ran y gradd o honi, pan fyddo yn wan, yn ddiafael, yn ddifywyd, yn ddiwaith, ac yn ddiffrwyth. Mae y diffyg cyntaf i'w gyflawni trwy agoryd fordd Duw yn fanylach iddynt, Act. xviii. 26. Mae yr ail i gael ei gyflawni trwy rybuddion ac annogaethau. Yr oedd yr apostol yn canfod perygl nid bychan o fod eu ffydd yn ddiffygiol; canys os byddai eu ffydd felly, yr oedd yn rhaid eu bod yn ddiffygiol yn mhob peth.

DIG, *(dy-ig,* cyffroad) llid. Digofaint sydd fath o anfoddlonrwydd angerddol, yn cael ei ddylyn â thueddiad i niweidio neu ddinystrio. Pan y cyfeirir ef yn erbyn pechod, y mae yn sanctaidd a chyfreithlawn, Eph. iv. 26. Pan y cyfeirir ef yn erbyn person ein cymydog, neu yn erbyn creaduriaid diniweid Duw, y mae yn ddrwg a phechadurus, Mat. v. 22. Pan y bydd yn myned yn gryf iawn, gelwir ef *llid.* Pan y bydd yn gwneuthur dyn yn waedwyllt, a bron yn orphwyllog o eisiau cael dinystrio, gelwir ef *cynddaredd.* Pan y bydd yn myned yn fwy tawel a sefydlog, *casineb* yw. Pan y bydd yn sefydlog, yn angerddol, ac hyd yn nod yn gyfeiriedig yn erbyn y cyfryw ag na wnaethant sarhad i ni, *malais* yw. Pan y mae *digofaint, casineb, llid,* a *chynddaredd* yn cael eu priodoli i Dduw, nid ydynt yn dynodi un nwyd bechadurus a therfysglyd; ond yn unig ei gasineb sanctaidd at bechod, a phechaduriaid, a'i anfoddlonrwydd cyfiawn iddynt; a'r prawf o hyny, sydd yn ei fygythion dychrynllyd neu ei farnedigaethau cyfiawn, Salm vi. 1, a vii. 11. Tybiai yr Hebreaid fod digofaint yn cael ei amlygu yn benaf yn y trwyn; ac felly darlunient barodrwydd neu ardfwch i ddigofaint, megys byrdra neu hyd y trwyn, Deut. xxix. 20. Joel ii. 13.

DIGALONI, *(di-calon)* bod yn ddiffywyd a gwan-galon. "Ni phalla efe, ac ni *ddigalona* hyd oni osodo efe farn ar y ddaear," Esa. xlii. 4. Gosodir allan yn y geiriau fawredd person, gwroldeb meddwl, awydd fryd, a ffyddlondeb yr Arglwydd Iesu, yn y gwaith mawr a roddwyd iddo, nes ei orphen. Y gwaith ywgosod barn ar y ddaear; sef cyhoeddi athrawiaeth uniawn a grasol yr efengyl,a'i gosod hi yn neilldwriaethau pechaduriaid, mewn goleu dysclaer uniawn; yn eu calonau, yn ei hol effeithiau dwyfol; ac yn neu bywydau mewn bucheddiad sanctaidd: a hyny nid mewn un cwrr o'r byd, ond ar y *ddaear* yn gyffredinol.

DIGARREGU, *(di-carreg)* symmud cerrig ymaith. "Efe a'i *digarregodd,*" Esa. v. 3. Mae cenedl Israel yn cael ei chyffelybu yma i winllan; a daioni Duw tuag atti yn cael ei gymharu i ofal a thrafferth llafurwr tuag at ei winllan. Cloddia hi, ac a'i diogela rhag i fwystfilod niweidiol ei sathru, ac i'r llwynogod ddifa ei hegin. Mae hefyd yn ei digarregu, fel na byddo i ormod cerrig ei llenwi ac attal cynnydd ei ffrwyth. Felly y darfu i'r Arglwydd gau oddi amgylch y genedl Iuddewig, a'i gwahanu oddi wrth bawb ereill â'i gyfreithiau a'i ordinhadau; ei hamddiffyn â'i ragluniaethau tirion. Dygodd hi i mewn i wlad yr addewid, ac a'i plannodd mewn bryn tra ffrwythlon; *digarregodd* hi trwy yrru y Cenedloedd allan, a'u distrywio o'i blaen; a thrwy ddyfetha a dinystrio eu duwiau o bren a *maen.*

DIGWYDDAW, *(di-cwyddaw,* syrthio) damweiniaw. "Dyro i mi y rhan a *ddigwydd* o'r da," sef y rhan berthynol iddo wrth y cyfreithiau. Wrth gyfreithiau yr Hebreaid a'r Rhufeiniaid, ni allai y penteulu ranu ei feddiannau yn ol ei ewyllys ei hun; ond yr oedd y gyfraith yn pennodi dosparth i bob un o'r meibion. Yr oedd y dyn ieuangc, gan hyny, yn dymuno meddiannu yn ddiattreg, yr hyn a *ddigwyddai* iddo yn fuan, yn ol trefn y gyfraith, Luc xv. 12.

DIGYMMYSG, *(di-cymmysg)* anghymmysg, pur. "Hwn a ŷf o win digofaint Duw yn *ddigymmysg,*" Dad. xiv. 10. Gwin digymmysg, yw gwin pur, heb ei wanhau âg un cymmysgedd: felly llid digymmysg yw llid trwm, annyoddefol, a dychrynllyd. Pwy a ddichon amgyffred beth yw llid Duw yn ddigymmysg! Ond hyn fydd rhan phiol

y rhai a yfasant win llid godineb Babilon Babaidd, adn. 8.

DIHALOGEDIG, *(di-halogedig)* pur, glân. "Crefydd bur a *dihalogedig*," Iago i. 27. Ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, ydyw un o ffrwythau crefydd bur yn y galon. Nid hyn yw y *cwbl* o grefydd; nid hyny yw meddwl yr apostol: ond mae hyn yn perthyn iddi, ac yn tarddu oddi wrthi. Dichon dynion wneuthur hyn heb wir grefydd; ond nis dichon fod crefydd wirioneddol gan neb ger bron Duw a'r Tad, os byddant yn ddidosturi ac yn ddiymgeledd i rai mewn amddifadrwydd a chyfyngderau, Esa. i. 16, 17. Mat. xxv. 36, 43. Job xxxi. 16, 17.

DIHENYDD, *(di-hanu)* un heb ddeilliad neu ddechreuad iddo. "Yr hen *ddihenydd*," Dan. vii. 9, 13. Priodol ystyr y gair *Heb.* yw un *sefydlog*, neu *barhaus* o ddyddiau; un â'i ddyddiau heb fyned a dyfod. Mae yr enw yn dra addas i breswylydd tragywyddoldeb. Un *heddyw tragywyddol* yw hi gyda Duw. Ni bu erioed yn ieuangc, ac nid a byth yn hen; ond y mae Efe y funud hon yr hyn oedd erioed, a'r hyn a fydd byth. Ydwyf yw ei enw; nid hwn, neu byddaf, ond Ydwyf, Salm cii. 27—29. Job x. 5. Heb. i. 12, 13.

DIL, *(di-il)* crwybr. Pa beth bynag sydd felus, hyfryd, a meddyginiaethol, a gyffelybir, yn yr ysgrythyrau, i'r *dil mêl*; megys gair Duw, Salm xix. 10, a cxix. 103; gweddiau, moliant, ac ymadroddion adeiladol y saint, Can. iv. 11; gwirioneddau efengyl Crist, a rhadau ei bobl, Can. v. 1; a gwybodaeth doethineb, Diar. xvi. 21. Gwefusau putteiniaid a ddyferant fel y *dil mêl*, a'u gwefusau sydd lyfnach nag olew; eu hymadrodd sydd fwynaidd, gwenieithus, a deniadol, Diar. v. 3. Y dyn llawn a sathra y *dil mêl*; ond i'r newynog pob peth chwerw sydd felus: dynion llawn o ddaioni yn eu tyb eu hunain, neu yn llawn o ofalon bydol, a sathrant addewidion a bendithion melusaf Duw; ond y sawl sydd yn cydnabod eu hanghenion a'u hannheilyngdod, ydynt yn llawen ac yn ddiolchgar am y briwsion lleiaf, Diar. xxvii. 7.

DILIN *(dil,* gweithrediad curedig—gweithiedig, pur). "A Solomon a wnaeth ddau cant o darianau aur *dilin*," 1 Bren. x. 16. Yn ol yr Heb. aur *profedig*, neu *puredig*; neu aur wedi ei estyn yn ddalenau teneuon, trwy ei guro â morthwylion. Mae yn debygol nad aur i gyd oedd tarianau Solomon, ond coed wedi eu gwisgo âg aur. Nid i ryfel y gwnaed y tarianau hyn, ond er dangos mawr wychder ac ardderchogrwydd breninol, ac i'w dwyn o'i flaen yn achlysurol, 1 Bren. xiv. 25—28. 2 Cron. ix. 15, a xii. 9, 10.

DILYN, *(dy-glynu)* canlyn, erlyn. *Dylyn* yr Arglwydd, neu dylyn Oen Duw, yw gwneuthur addefiad cyhoeddus o Gristionogrwydd: yr ydym yn dylyn yr Oen, pan y byddwn yn cymmeryd ein rhan gyda Christ, megys Oen Duw yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd; pan y byddwn yn dal at athrawiaeth Crist, a hwnw wedi ei groeshoelio; a phan y byddwn yn glynu wrth y broffes dda hon yn wyneb pob hunan-ymwadiad a dyoddefiadau y dichon hi ein dwyn yn agored iddynt, Jer. xvii. 16. Dad. xiv. 4. *Dylyn* duwiau dyeithr, yw eu hanrhydeddu a'u haddoli, Barn. ii. 12. Y mae daioni a thrugaredd Duw yn *dylyn* y saint; yn yr ymarferiad o honynt, y mae yn gwrandaw arnynt, yn eu cynnal, ac yn eu cynnorthwyo yn barhaus; yn maddeu eu pechodau; yn eu hamddiffyn rhag peryglon; ac yn cyfranu gras a gogoniant iddynt, Salm xxiii. 6. Yr ydym yn *dylyn* yr eglwysi, y saint, gweinidogion, neu ereill, pan y byddwn yn eu hefelychu yn eu proffes a'u hymarweddiad, 1 Thes. ii. 14. Heb. vi. 12, a xiii. 7. 1 Cor. iv. 16. Deut. xxiii. 2. 2 Petr. ii. 2. *Dylyn* personau, yw, hefyd, ochri gyda hwynt a'u cynnorthwyo, 2 Sam. ii. 10. 2 Bren. xi. 15. Yr ydym yn *dylyn* ein hysbryd ein hun, pan y byddwn, yn ein hegwyddorion neu arferiadau, yn cael ein harwain a'n tynnu gan ein dychymmygion gweigion ac annuwiol ein hunain, Ezec. xiii. 3. Yr ydym yn *dylyn* pethau, pan y byddwn yn ymdrechu yn ddifrifol i'w cyrhaedd neu eu harferyd, Phil. iii. 12. Rhuf. xiv. 19.

DILLAD, *(dill,* dyblygiad) gwisg, trwsiad. Dywedir nad oedd yr Heb-

reaid yn gwisgo unrhyw ddiliad ond peisiau lliain, gyda llewys mawrion, y rhai a weüid yn fynych, megys y gwnant etto, yn y gwledydd dwyreiniol, fel ag i fod heb eisiau eu gwnio; a'u mantell wlân. Y ddwy wisg yma a wnaent i fynu yr hyn a elwir pâr o ddillad. Byddai y peisiau hyn, y rhai a lanwent le ein crysau ni, yn crogi yn llaes at y llawr, ond pan fyddent yn eu byrhau i gerdded neu weithio. Yr oedd yr ysgrifenyddion yn gwisgo eu heiddynt hwy yn fwy llaes nag arferol, i nodi eu sobrwydd a'u sancteiddrwydd anghyffredin, Luc xx. 46. Byddai tywysogion, yn enwedig breninoedd mawrion ac offeiriaid, yn gyffredinol yn gwisgo *dillad gwynion;* y cyfryw a wisgid hefyd ar achlysuron o lawenydd a gorfoledd mawr, Preg. ix. 8. Yn amser galar, gwisgai dynion yn gyffredin *sachliain,* neu garthen o rawn. Prophwydi, o herwydd eu bod yn alarwyr cyhoeddus, a wisgent yn fynych alarwisg o ryw ddefnydd garw neu groen, 2 Bren. i. 7, 8. Mat. iii. 4. Byddai gau brophwydi, i'r dyben o dwyllo y bobl, yn ymwisgo yn yr un modd, Zech. xiii. 4. Yn mhlith yr Hebreaid ni chaniatteid i'r naill rywiogaeth wisgo yr un fath ddillad âg a arferid gan y llall; am fod hyny yn tueddu i arwain annhrefn a chwantau annaturiol i mewn, Deut. xxii. 5. I ddangos yr anmhriodoldeb o gymmysgu ein gweithredoedd ni âg eiddo ein Hiachawdwr bendigedig, gwaherddid iddynt fynnu gwisgoedd o edafedd, llin, a gwlân, yn gymmysgedig, Lef. xix. 19. Deut. xxii. 11. I'w gwahaniaethu oddi wrth ereill, a pheri iddynt gofio eu cyflwr o ymddarostyngiad cyfammodol i Dduw yn barhaus, gwisgent *eddi,* neu *blethau* o sidan glas, ar bedwar cwrr eu gwisgoedd, Num. xv. 38. Deut. xxii. 12. Mat. ix. 20. Gwisgai y Phariseaid y rhai hyn yn lletach nag arferol, i arwyddo eu hastudrwydd anghyffredin yn cadw y gyfraith, Mat. xxiii. 5. Byddai plant gwyr mawrion â'u dillad yn fynych wedi eu britho âg amryw liwiau, Gen. xxxvii. 3. 2 Sam. xiii. 11. Y mae Esaiah yn darlunio gwisgoedd y gwragedd Iuddewig yn ei amser ef yn helaeth. Eglur yw fod yr addurniadau a'r rhanau hyn o wisgoedd yn wychion a theg: ond yr ydym ni yn awr yn gwbl ansicr am eu dull pennodol Esa. iii. 16—24.

Yr oedd gan yr offeiriaid eu gwisgoedd sanctaidd, y rhai oeddynt o yn arwyddoccau dynoliaeth, swydd a chyfiawnder ein Pryniawdwr.

Yn yr iaith draws-symmudol, gosodir pa beth bynag sydd yn ymlyn wrth un, neu yn ymddangos yn e gyflwr a'i weithredoedd, allan megy *gwisg,* neu *ddilledyn.* Felly y ma y goleuni, y gogoniant, y mawrhydi, y cadernid a'r brwdfrydedd ddengys Duw yn ei oruchwyliaetha rhagluniaethol, yn cael ei galw *ddillad,* Salm civ. 2, a xciii. 1 Esa. lix. 17. Ei *wisgoedd gwyn ion fel eira,* a ddynoda sancteidd rwydd, uniondeb, a gogoniant nattur a'i weithredoedd, Dan. vii. 9 *Gwisgiad* Crist o *gwammol,* a ar wydda fawrhydi a thywyllwch gyfiawniad rhagluniaethol o'i waith Dad. x. i. Ei *ddillad cochion,* a *wisg wedi ei throchi mewn gwaed* a noda ei fuddugoliaeth ar ei elynio anniwygiadol, yn nghyd â'u dinyst gwaedlyd, Esa. lxiii. 1, 2. Dad xix. 13. *Ei wisg liain, yn llaes hyd ei draed,* yw ei urddas a'i fawr hydi, fel Brenin ei eglwys; neu y hytrach ei gyfiawnder, yr hwn syd yn ei orchuddio ef ei hun a'i bobl Dad. i. 13. *Arogl myrr, aloes, chasia, sydd ar ei holl wisgoedd allan o'r palasau ifori, â'r rha y'th lawenhasant.* I'w bobl, y ma ei swydd gyfryngol, ei ddynoliaeth ei gyfiawnder a'i iachawdwriaeth yn meddu y dylanwadau mwyaf ad fyniol a phureiddiol, yn mhell uwch law arogl peraidd gwisgoedd, y rha a orweddasant wedi eu mwg-darthu mewn dillad-gelloedd a osodwyd â ifori; a hyny yn y nefoedd uchod ac yn ei eglwys a'i ordinhadau isod Salm xlv. 8. Cyfiawnder cyfrifedi Iesu sydd yn *wisg:* pan y bydd y cael ei gyfrif i ni, y mae yn pryd ferthu, yn cynnesu, ac yn amgel eddu ein heneidiau, Esa. lxi. 10 *Gwisg briodas* yw, yn yr hon y ma yn rhaid i bawb a ymddangosas wrth swpper neithior yr Oen, gae eu gwisgo; ac, am hyny, y wis addas, yn mha un y dylem ymddango tra yn cyfranogi o'r swpper hwn y awr, yw gwisg ei gyfiawnder e

Mat. xxii. 11. Dad. xix. 9. Y *wisg oreu* yw; y mae yn gynnwysedig o ufudd-dod a dyoddefaint person anfeidrol; yn amddiffyniad tragywyddol rhag pob drwg; yn cymmeradwyo ger bron Duw; ac yn rhoddi hawl i wynfyd diderfyn a thragywyddol, Luc xv. 22. Y mae yr Iesu ei hun yn *wisg i'w gwisgo*; trwy ei gyfiawnder cyfrifedig, a'i ras cyfranedig, y mae yn amgeleddu, yn addurno, ac yn adfywio ein heneidiau; ac ni ddylai fod cywilydd gennym o hono ef, ond yn hytrach ymgoneddu ac ymlawenhau ynddo, Rhuf. xiii. 14. Dad. xii. 1. Y gwisgoedd ag y mae arddelwyr enw Crist i'w cadw yn bur a glan, ydynt ei gyfiawnder ef; â hwnw y maent yn cael eu gwisgo; a phan y byddant, yn eu proffes, yn cyssylltu unrhyw beth â'r cyfiawnder hwnw, fel sail eu gobaith wrth ymddangos ger bron Duw, neu, yn ei hymarweddiad, yn dianrhydeddu eu proffes, y maent yn *halogi eu dillad*. Gosodir y dyrfa waredigol allan megys wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion, yr hyn a eglurir mewn man arall trwy ddywedyd eu bod wedi eu golchi a'u cannu yn ngwaed yr Oen, Dad. vi. 11, a xvi. 15, &c. Y mae y gogoniant nefol yn cael ei alw yn *wisg*, o herwydd y cawn fwynhad cyfiawn ogoneddus, addurnol, ac amgeleddol o hono, 2 Cor. v. 2. Cyfiawnder Job wrth farnu materion oedd iddo ef megys *mantell a choron*; yr oedd yn dwyn cyssur ac anrhydedd iddo, Job xxix. 14. Bod wedi ein *gwisgo â phryfed*, yw bod wedi ein llygru drosom gan glefyd ffiaidd; neu bod croen dyn yn heidio gan bryfed, Job x. 10, a vii. 5. Bod *wedi ein gwisgo â chywilydd* a *melldith*, yw bod yn dra agored i warth, dirmyg, cywilydd, a dinystr, Salm cxxxii. 18, a cix. 18, 19. Bod *wedi ein gwisgo âg iachawdwriaeth a moliant*, yw mwynhau gwaredigaeth, dedwyddwch, a chyssur yn helaeth, Esa. lxi. 3, 10. *Ymwisgo â thrawsder megys â dilledyn*, yw arfer anghyfiawnder a gorthrymder yn ddigywilydd; neu hyd yn nod gydag ymffrost, fel pe bai yn anrhydeddus, Salm lxxiii. 6. Y mae gau athrawon yn rhoddi gwisgoedd defaid am danynt, pan y byddant yn cymmeryd arnynt ymddangos yn dra diniweid, sanctaidd, a defnyddiol, Mat. vii. 15. *Rhwygo dillad*, a arwydda gofid neu ddychryn mawr, Act. xiv. 14. Marc xiv. 63.

DIM (*im*, eithafed). Nid dim ond Duw, nid Duw ond *dim*. "Nid anfeidrol ond *dim*, nid *dim* ond Duw," *Hen Ddiarebion*. Cymmerir y gair *dim* weithiau yn gymmariaethol; felly nid yw ein heinioes ond megys *diddim* ger bron Duw; nid yw yn dwyn un cyfartalrwydd i'w barhad tragywyddol ef, Salm xxxix. 5. Yr holl genedloedd ydynt megys *diddim*, ac yn llai na *dim* ac na gwagedd; nid ydynt yn dwyn un cyfartalrwydd i'w ragoroldeb a'i fawredd annherfynol ef, Esa. xl. 7. Weithiau cymmerir ef yn berthynasol; felly nid oedd Paul *ddim* yn werthfawr yn ei gyfrif ei hun o hono ei hun, 2 Cor. xii. 11. Nid yw enwaediad na dienwaediad *ddim*; nid yw o ddim lleshad i'n gwneuthur yn gymmeradwy ger bron Duw, 1 Cor. vii. 19.

DINAH, (*barnedigaeth*) merch Jacob o Leah. Gwel *Jacob*.

DINAS, (*din-as*) tref gaerog. Ynddynt y mae gan ddynion lawer o fasnach, golud, ac anrhydedd; y maent yn ddarostyngedig i'w priodol lywodraethwyr, ac yn meddu brenincedd rhagorol. Y dinasoedd mwyaf enwog gynt, ond sydd yn awr wedi eu dinystrio, oeddynt Thebes, Memphis, ac Alexandria, yn yr Aipht; Jerusalem a Samaria, yn Canaan; Babilon yn Caldea; Ninefeh yn Assyria; Susan, Persepolis, a Rey, yn Persia; Antiochia yn Syria; Ephesus, Philadelphia, Pergamos, a Chaerdroya, yn Asia Leiaf. Y dinasoedd mwyaf enwog yn bresennol ydynt Cairo, yn yr Aipht; Ispahan, yn Persia; Delhi, yn yr India Ddwyreiniol; Pecyn a Nancyn, yn China; Caer-Cystenyn, yn Twrci; Rhufain, Paris, Caerludd, &c. yn Nghrêd. Y mae Jerusalem yn cael ei galw, Y *ddinas sanctaidd*, *dinas Duw*, *dinas y cyfarfod*; o herwydd yno yr oedd temi Duw wedi cael ei hadeiladu, a'i ordinhadau sanctaidd ac arbenig yn cael eu cadw, Mat. v. 35, a xxvii. 53. Esa. xxxiii. 20. Gelwir hi yn *dref ffyddlon*, yn *ddinas cyfiawnder*, ac yn *ddinas orthrymus*, o herwydd tymmer ei thrigolion, Esa. i. 26. Zeph. iii. 1. Y mae Rhufain yn cael ei

galw yn *ddinas fawr*, o herwydd bod ei thrigolion unwaith yn lluosog iawn, a'u hawdurdod a'u gogoniant yn dra helaeth, Dad. xvii. 18. Gelwir Damascus yn *ddinas moliant a llawenydd*, o herwydd yr helaethrwydd mawr o lawenydd oedd ynddi, yn nghyd â'i hyfrydwch, Jer. xlix. 25. Gosodir y nef allan megys *dinas, dinas âg iddi ddeuddeg sylfaen, dinas sanctaidd:* y fath ogoniant, trefn, diogelwch, a dedwyddwch, a fwynheir yno gan y lluoedd saint a'i cyfanneddant! mor berffaith a pharhaus yw eu cyflwr o wynfydedigrwydd! a'r cyfan o hono wedi ei sylfaenu ar berson a phridwerth Crist! Nid oes neb ond dynion sanctaidd yn myned i mewn iddi un amser, na dim ond *sancteiddrwydd* byth yn cael ei drin ynddi, Heb. xi. 10, 16. Mae yr eglwys ar y ddaear yn cael ei galw yn *ddinas*. Mor brydferth yw ei threfn, ei chyfreithiau, a'i rhagorfreintiau! Duw ei Brenin sydd yn trigo ynddi; angelion ydynt ei gwyliedyddion a'i gwarcheidwaid; y ffyddloniaid ydynt ei rhydd Ddinasyddion hi, yn meddu hawl i holl gyflawnder Duw; ordinhadau dwyfol ydynt *ei heolydd* a'i *rhagfuriau;* Duw ei hun, ei iachawdwriaeth, ei gadwraeth rhagluniaethol, a'i lywodraeth sanctaidd, ydynt ei *muriau;* Iesu ei hun, yw ei *phyrth;* ei llywodraeth a'i dysgyblaeth, yn nghyda'r gair a'r ordinhadau ydynt ei *heolydd*, Esa. lxii. 14. Gelwir hi yn *ddinas fawr;* o herwydd ei helaethrwydd, a rhifedi dirfawr ei haelodau, Dad. xxi. 10; yn *ddinas sanctaidd*, o herwydd sancteiddrwydd ei sylfaenydd, ei chyfreithiau, ei hordinhadau, ei haelodau, a dybeu ei chyfodiad, Heb. xii. 22. Gelwir y sefydliad Anghristiaidd yn *ddinas fawr*, o herwydd ei helaethrwydd a'i hawdurdod mawr, a chyssylltiad rhyfeddol ei haelodau, yn benaf ei hoffeiriaid a'i hymgyfnwynwyr, Dad. xvi. 19, a xi. 8. *Dinasoedd y Cenedloedd a syrthiasant;* distrywiwyd awdurdod a chyfoeth y blaid Anghristiaidd, Fahometanaidd, a Phaganaidd, a dadymchwelwyd lluaws o'u dinasoedd gan ddaeargrynfâau, gwarchaëon, &c. Dad. xvi. 19. Rhoddir enwau dinasoedd, pa un bynag ai cyffredinol neu neilltuol, yn tynyeh yn lle y trigolion, Gen. xxxv. 5. Esa. xiv 31. Jer. xxvi. 2. Cyfoeth ac awdurdod gwr yw *dinas ei gadernid:* ynddynt y mae efe yn ymhyfrydu ac yn hyderu am gynnaliaeth ac amgeledd, Diar. x. 15. Y neb ni bydd ganddo attal ar ei ysbryd ei hun sydd megys *dinas ddrylliog heb gaer;* y mae ef oddi fewn yn llawn annhrefn, ac yn y modd mwyaf truenus, yn agored i bob perygl, Diar. xxv. 28. Amryw wyr dysgedig yd ynt wedi egluro y *ddinas fechan* a waredwyd trwy ddoethineb gwr tlawd doeth, am yr eglwys yn cael ei gwaredu gan Grist; ond hwyrach fod yn well ei hystyried megys gweithred wirioneddol a gymmerodd le *yn* neu *cyn* oes Solomon, Preg. ix. 14, 15. Jeremiah oedd fel *dinas gaerog, colofn haiarn, a mur pres*, yn erbyn y genedl luddewig; gwaredodd Duw ei fywyd a'i hyfdra ffyddlawn, er eu holl fygythion a'u herlidiedigaeth hwynt, Jer. i. 18.

DINIWED, (*di-niwed*) gwirion, diddrwg. "*Diniwed* fel y colommenod," Mat. x. 16. Mae y meistr mawr yn cynghori ei weision ei i fod yn gall fel y seirph i ochelyd peryglon; ond ar yr un pryd, i fod yn ddiniwed, yn *syml*, yn *annichellgar*, ac yn *ddidwyll*, fel y colommenod. Mae y geiriau yn cael eu coffâu fel diareb gyffredin am y creaduriaid hyn. Callineb y sarph heb ddim o'i gwenwyn; sef, callineb diniwed, dibechod, difalais, heb gynnwys llid, na dial, na dichellion drwg; peidio a rhedeg i beryglon yn ffol ac yn rhyfygus; a pheidio eu gochelyd yn bechadurus.

DINYSTRIO (*din-ystriaw*). *Distrywio* neu *ddyfetha* sydd yn arwyddocoau tynnu i lawr neu ddadymchwelyd dinas neu adeilad, Gen. xix. 14. *Yr Arglwydd a ddyfetha y ddinas hon*, Exod. xxxiv. 13. *Dinystriwch eu hallorau hwynt;* hyny yw, Na adewch faen ar faen o honynt, fel y dywed ein Hiachawdwr yn Luc xxi. 6. Hefyd arwydda cymmeryd peth ymaith yn llwyr, fel na byddo mwyach; yn yr ystyr yma y dywedir fod Crist yn *distrywio* pechod, Rhuf. vi. 6. *Fel y dirymer corph pechod:* sef, fel y gwanhaer ac y darostynger ef fwyfwy, nes y caiff ei gymmeryd yn hollol allan o'n hanian. Weithiau

arwydda dwyn dynion i ddinystr a thrueni anadferadwy a chyfangwbl. felly y mae Duw yn distrywio yr annuwiol, Salm xxxvii. 38. *Y troseddwyr a gyd-ddistrywir:* A Job xxi. 30. *Y drygionus a arbedir hyd ddydd dinystr.* Y mae Duw yn gwaredu y drygionus rhag trallodion cyffredin y bywyd hwn i'r dyben o'u distrywio, ac amlygu ei ddialedd yn eu herbyn. Cymmerir ef am gospi troseddwyr â marwolaeth, fel y gwna swyddogion gwladol, Salm ci. 8. *Yn fore y toraf ymaith annuwiolion y tir*, medd *Dafydd.* Mi a ymosodaf ar y gorchwyl hwn gyda y cyfleusdra cyntaf, mor fuan ag yr eisteddaf ar fy ngorsedd, fel y gallwyf ragflaenu felly yr holl ddrwg hwnw a allent hwy, yn amgen, ei wneuthur, ac attal llygriad llawer trwy eu siampl ddrwg hwy; ac anghalonogi a rhwystro fy holl ddeiliaid rhag ymarferiadau cyffelyb. Yr apostol *Paul* a ddywed, Rhuf. xiv. 15, *Na ddistrywia ef â'th fwyd, dros yr hwn y bu Crist farw. Adeiladu* a arwydda codi i fynu, cryfhau, ac annog credinwyr yn eu ffydd a'u proffes, trwy ymdrechu i'w gwneuthur yn fwy doethion, sanctaidd, a gostyngedig, ac i fyw yn fwy er gogoniant Duw. *Yn y gwrthwyneb*, distrywio a arwydda gwneuthur yr hyn a fydd yn tueddu i ddinystr credadyn gwan, trwy ei dynnu i weithredu yn groes i'w gydwybod yn yr arferiad o bethau dibwys, neu trwy roddi iddo gymmaint tramgwydd ag a ddyeithria ei feddwl oddi wrth ei broffes Gristionogol. Yr ysbrydion aflan a ddywedent wrth ein Hiachawdwr, Marc i. 24, *A ddaethost ti i'n dyfetha ni?* hyny yw, Naill ai yr ydwyt wedi dyfod i'n difeddiannu ni; *neu*, a ddaethost ti i gyflawni y farn ddiweddaf arnom, ac i'n rhwymo mewn cadwynau cyn dydd y farn? A dywedir fod Crist trwy ei farwolaeth wedi *dinystrio yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, y diafol*, Heb. ii. 14. Dywedir fod *nerth marwolaeth* gan y diafol, o herwydd ei fod yn hudo dynion i gyflawni pechod, yr hyn yw yr achos haeddiannol o farwolaeth, o herwydd ei fod yn eu cynhyrfu â meddyliau llidiog, ac yn ennyn eu hanwydau, o ba le y deillia cynhenau a rhyfeloedd, y rhai a barant farwolaeth yn effeithiol; o herwydd ei fod amryw weithiau yn ddialeddwr digofaint Duw, ac yn cospi pechaduriaid gwrthryfelgar a diedifeiriol â marwolaeth; o herwydd hyn, medd y *Psalmydd, Anfonodd Duw ar yr* Aiphtiaid *gynddaredd ei lid, llidiogrwydd, a digter, a chyfyngder, trwy anfon* angelion drwg *yn eu plith*, Salm lxxviii. 49. Y mae yn cael ei alw felly hefyd, o herwydd ei fod yn gwneuthur marwolaeth yn fwy ofnadwy i bechaduriaid, trwy ychwanegu eu hofnau euog o frawdle Duw; a gall fod y teitl hwn hefyd yn arwyddoccau ei waith yn poeni pechaduriaid gyda chreulonder didrugaredd yn uffern, yr hyn yw yr ail farwolaeth. Y drygau cospol hyn, y rhai a ddwg Satan ar ddynolryw, ydynt o achos ein hanufudddod ni; a'i gadarn allu mewn profedigaeth a ddeillia oddiwrth ein llygredd tufewnol ni. *Crist*, trwy ei farwolaeth, a dynodd ymaith euogrwydd a gallu pechod; yr euogrwydd, trwy ddyoddef melldith y gyfraith, ac felly yn boddloni cyfiawnder Duw a gawsai gam; a'i allu, *trwy groeshoelio ein hen ddyn ni gydag ef er mwyn dirymu corph pechod*, Rhuf. vi. 6. Ac fel hyn y mae ein Hiachawdwr yn dinystrio llywodraeth greulawn y diafol, trwy ei farwolaeth.

DINYSTR, a gymmerir am farwolaeth dymmorol, Salm xc. 3. *Troi ddyn i ddinystr.* Am farwhâd, 1 Cor. v. 5. *Draddodi y cyfryw un i Satan, i ddinystr y cnawd.* Am ddamnedigaeth, 2 Petr ii. 1. *Ac yn tynnu arnynt eu hunain ddinystr buan.* Hefyd am uffern, y fan lle y poenir yr annuwiol yn dragywyddol, Mat. vii. 13. *Llydan yw y ffordd sydd yn arwain i ddystryw.* Am ddiddymiad neu ddiwreiddiad llwyr, Esth. viii. 6. *Pa fodd y gallaf edrych ar y drygfyd a gaiff fy mhobl?* Am bla difäol, Salm xci. 6. *Y dinystr a ddinystrio ganol dydd.* Ac am glefyd llygredig, poenus, a marwol, 1 Sam. v. 9. *Difa* a arwydda cystuddio, Job ii. 3, *i'w ddifa ef heb achos.*

DIOD, (*iawd*, mynediad yn mlaen) gwlybwr i'w yfed er disychedu, a llonni natur. "Dwfr," medd Dr. *Cheyne*, "yw y ddiod a drefnodd y

Creawdwr mawr yn *g*yffredinol i ddisychedu dyn, ac sydd yn atteb y dyben i dreulio ymborth yn y cylla oreu o ddim. Mae diodydd cryfion a phoethion, yn mhob ystyr, yn anaddas ac yn niweidiol, yn yr arferiad gwastadol o honynt. Trwy boethi y gwaed yn ormod, y maent, yn lle cryfhau, yn gwanhau nattur; yn prysuro yr ymborth yn rhy fuan, cyn y caffo gydferwi yn y llestri er cael y rhinwedd allan o hono; a thrwy hyny yn llenwi y corph â hadau pob afiechyd. Yr oedd gwin a diod gadarn yn waharddedig i'r offeiriaid dan y gyfraith. Yr oeddent yn waharddedig hefyd i'r hwn oedd âg adduned Nazaread arno, Num. vi. 3, 4. Deut. xiv. 26. Luc i. 15. Yr oedd diod offrwm yn cael ei hoffrymu gyda'r bwyd offrwm, yn aml, dan y gyfraith, Num. xv. 5, 7, 11, a xxviii. 7. Lef. iii. 18. Yr oedd y bwyd a'r diod offrymau hyn yn cysgodi llawnder, a rhinwedd y bendithion sydd yn Nghrist; cyssuron a diddanwch yr Ysbryd Glan; a hyfrydwch Duw yn ei bobl trwy Grist, Salm civ. 15, a cxvi. 13. Eph. v. 18. Phil. ii. 27. 2 Tim. iv. 6.

DIODDEF, *(dy-goddef)* ymaros. (1.) Goddef peth, neu ganiattau iddo fod, Gen. xxxi. 7. Lef. xix. 17. (2.) Goddef profedigaethau a marwolaeth, 1 Thes. ii. 2. Heb. ii. 18. *Dioddefiadau* Crist, ydynt naill ai yr hyn a oddefodd efe ei hun, Heb. ii. 10, neu yr hyn a ddioddef ei bobl er ei fwyn, 2 Cor. i. 5. Col. i. 24. *Dioddef gyda Christ*, ac *fel Cristion*, ac *yn ol ewyllys Duw*, yw dioddef mewn cyfiwr o undeb â Christ, mewn ymlyniad ffyddlawn wtho, ac mewn ymorphwysiad arno; dioddef er ei fwyn mewn modd sanctaidd, gostyngedig, addfwyn, ac amyneddgar, Rhuf. viii. 18. 1 Petr iv. 16, 19.

DIODDEFGARWCH, *(dy-goddef)* amynedd, hir-ymaros. "Gan wybod fod gorthrymder yn peri *dioddefgarwch*," Rhuf. v. 3, 4. Mae gorthrymder yn peri dioddefgarwch, nid yndd ac o hono ei hun, ond trwy y golygiadau mae yr Arglwydd yn eu rhoddi i'w bobl ar ei dref'n a'i ddybenion, mewn perthynas iddynt, yn eu diodefadau.

DIOFRYD, *(di-gofryd)* adduned, gwrthodiad trwy lw. *Diofrydbeth*, sef peth wedi ei gyssegru, a'i roddi i'r Arglwydd, neu at wasanaeth sanctaidd, Lef. xxvii. 21, 28. Deut. xiii. 17. Y peth a ddiofrydent i'r Arglwydd, ac i'w wasanaeth, oedd yn cael ei roddi yn anniddymadwy ac yn gyfangwbl iddo; ac am fod Jericho, a'r hyn oll oedd yndd, yn *ddiofrydbeth* i'r Arglwydd, pechodd Achan yn erbyn gorchymyn yr Arglwydd, trwy guddio a chadw dim oedd yndd; a thrwy hyny y blinodd efe Israel yn fawr, ac y tynodd farn dost arno ei hun a'i holl deulu, Jos. vi. 7.

DIOG—I, *(di-awg*, awydd-fryd) swrth, musgrell. Mae dyn, fel pechadur syrthiedig, yn lle caru gogoniant Duw, ac ymroddi i'w ogoneddu yn mhob peth, gyda diwydrwydd, dyfalwch, ac ymeguiad bywiol, yn caru ei esmwythder cnawdol ei hun. Mae y cariad hwn at hunan-esmwythder, yn ymddangos yn neilldiol bechadurus, pan y byddo dyn yn eistedd mewn anegnïad hurt, diofal, ac achos Duw yn dirywio, a chrefydd dan anmharch gwaradwyddus; ac yn ymollwng i'r esmwythdra hwn pan y bydd achosion cyrph ac eneidiau dynion, o bob tu, yn galw am ei gymmorth gyda'r ymeginiad mwyaf bywiog a diwyd. "Nid yn *ddiog* mewn diwydrwydd ŷn wresog yn yr ysbryd; yn gwasanaethu yr Arglwydd," sydd agwedd addas iawn ar weision meistr mor dda, mor anrhydeddus, a gwobrwyol. Caiff y cyfryw weision fyned i mewn i lawenydd eu Harglwydd, tra y byddo y gweision drwg, diog, anffyddlawn, yn cael eu bwrw i'r tywyllwch eithaf, Rhuf. xii. 11. Mat. xxv. 30. Preg. ix. 10. Gal. vi. 9.

DIOLCH *(iolch*, diolchgarwch). Mae diolch yn rhan o addoliad dwyfol, dyledus i'r Arglwydd, o blegid ei Fod, ei berffeithrwydd yndd o hun, a'i fendithion i ni. Nis dichon fod gan un creadur ddim ond a roddo Duw iddo bob munud; ond, o bob creadur, dyn sydd â'r ddyled fwyaf arno i ddiolch. Mae trefn ryfedd y prynedigaeth a sancteiddiad dyn, yn gosod arno rwymedigaethau sydd yn trechu holl ddiolchgarwch pawb hyd byth. Yr oedd aberthau *diolch* gynt dan yr hen oruchwyliaeth, Lef. vii. 12, 15, a xxii. 29. Ein rhes-

ymol wasanaeth ni yw rhoddi ein hunain, ein cyrph a'n heneidiau, yn aberthau byw, sanctaidd, cymmeradwy gan Dduw. Dyma ein rhesymol wasanaeth, ac y mae yn afresymol iawn rhoddi iddo ddim llai. Mae y cwbl yn gymmeradwy ganddo trwy Iesu Grist, Rhuf. xii. 1. Eph. v. 20. 2 Cor. ii. 14. Salm c. 4. Esa. li. 13. Heb. xiii. 15.

DIONYSIUS, *(un y cyffyrddodd Duw âg ef)* yr Areopagiad, neu farnwr yn llys *Areopagus*. Yn ei ieuengetid, dywedir iddo gael ei ddwyn i fynu yn holl ddysgeidiaeth glodfawr Athen; iddo fyned wedi hyny i'r Aipht, i berffeithio ei hun mewn seryddiaeth: a'i fod yn On pan y bu ein Hiachawdwr farw, ac wrth sylwi ar y tywyllwch anarferol, iddo lefain allan, *Naill ai y mae Duw naturiaeth yn dyoddef ei hun, neu yn cyd-ddyoddef âg un sydd yn dyoddef*. Tröwyd ef i'r ffydd gan Paul yn Athen; a dywedir iddo fyned yn efengylwr, a chael ei losgi fel merthyr yn ei oddinas ei hun, A.D. 95. Hwyrach mai ei wraig ef oedd Damaris, y bendefiges a ddychwelwyd o ddeutu yr un amser, Act. xvii. 34.

DIOSG, *(di-osg*, tueddiad oddi wrth) diwisgo, dihatru. *Diosg yr hen ddyn*, a *diosg corph pechodau*, ydynt ymadroddion cyfystyr, ac yn arwyddo y rhan honno o sanctteiddhad, sydd yn gynnwysedig yn marwhad a chroeshoeliad pechod, ac ymwrthodiad cyflawn â holl gorph pechod, yn ei amcanion, ei dueddiadau, ei syniadau, a'i chwantau llygredig. Y gair *diosg*, a arwydda ein bod oll wedi ein gwisgo, wrth naturiaeth, â holl gorph pechodau; hefyd, bod yr Ysbryd Glan yn gweithredu y cyfryw gyfnewidiad yn meddwl y rhai a sanctteiddir, fel maent, o'u gwirfodd, â'u holl galon, yn ymwrthod â'r hen bethau; yn marweiddio gweithredoedd y corph trwy'r Ysbryd; yn croeshoelio y cnawd, a'i wyniau, a'i chwantau, Col. ii. 11, a iii. 9. Eph. iv. 22. Rhuf. viii. 13. Gal. v. 24.

DIOTREPHES *(un a faethwyd gan Dduw)*. Cristion rhagrithiol, yr hwn oedd yn chwennych cael y blaenoriaeth ar bawb ereill yn yr eglwys. Gwnaeth yr hyn oll a allai i wrthwynebu derbyniad y cennadau a anfonwyd gan yr apostol Ioan, a dywedodd yr hyn a fedrai i ddiraddio y gwr mawr hwnw, 3 Ioan 9.

DIRDYNNU, *(dir-tynnu)* dwys-dynnu. "Ereill a *ddirdynwyd*," Heb. xi. 35. Amrywiol ydyw barnau awduron am y dull hwn o gospedigaeth. Y gair *Gr.* a arwydda *curo* yn hytrach na *dirdynnu*. Barna rhai yr arwydda bob un o'r ddau; ac y byddent yn eu *dirdynnu* yn gyntaf, ac wedi hyny yn eu curo â rhyw fath o gwlbrenau, â pha rai y byddent yn ffonodio drwg-weithredwyr ar wadnau eu traed. Mae yn dra amlwg y cyfeiria y geiriau at y rhai a oddefasant yn amser y Macabeaid; yn enwedig y wraig a'i saith mab y rhoddir hanes am danynt yn 2 Mac. vi. 7.

DIRGEL—ION, *(dir-cêl)* cuddiedig, rhin. *Yn y dirgel*, yw yn y cyfryw le a modd ag na wyr ond ychydig am dano, neu lle nad all un gael ei niweidio, Job xl. 13. Salm xxvii. 5. *Dirgelwch Duw* yw (1.) Ei arfaeth mewn perthynas i ddynion a chenedlaethau, a'i resymau am ei waith yn cyfranu ei drugaredd, ac yn tywallt ei farnedigaethau yn y cyfryw ddull ac amser, Deut. xxix. 29. Amos iii. 7. (2.) Ei gymmwynasgarwch a'i fendithion dirgelaidd, ei waith yn eu haddysgu yn nirgelion ei air a'i ragluniaeth, a'i waith yn eu cyfarwyddo, eu llwyddo, a'u hamgeleddu yn eu sefyllfa a'u gwaith, Salm xxv. 14. *Dirgelion* dynion ydynt, (1.) Yr hyn nad yw neu na ddylai ond ychydig ei wybod: y cyfryw ddirgelion a ddadguddia athrodwyr, Diar. xx 19. (2.) Arwyddoccad breuddwyd neu weledigaeth, yr hwn sydd anhawdd ei wybod, Dan. iv. 9. (3.) Eu hamcanion tufewnol, tueddiadau, ymgeisiadau, a'u gweithredoedd, y rhai ynt yn adnabyddus i Dduw a hwy eu hunain yn unig, 1 Cor. xiv. 25. Preg. xii. 14. Rhuf. ii. 16. (4.) Y rhanau hyny o'r corph dynol y mae gwylder yn ofyn i ni eu gorchuddio, Deut. xxv. 11. *Dirgeledigaethau* doethineb, ydynt y dirgelion anadnabyddus a gynnwysir yn y wybodaeth a'r arferiad o wir grefydd, yn enwedig y rhai hyny a berthynant i'r rhagoroldeb dwyfol, Job xi. 6. *Dir-*

gelwch Duw yw y fan lle y bydd ei bresennoldeb neilluol, ond anweledig, megys yn nghanol y fflamau tân ar fynydd Sinai, Salm lxxxi. 7; ac yn y deml, yn benaf ei chyssegr sancteiddiolaf, Ezec. vii. 22; neu ei Grist ef, a chymdeithas agos âg ef, trwy yr hon y mae un yn derbyn addysg anweledig, a dedwyddwch a diogelwch mawr, Salm xci. i, a xxvii. 5. *Dirgelion y deyrnas*, y rhai y dywedodd yr Arglwydd wrth ei ddysgyblion eu bod wedi eu rhoddi iddynt hwy i'w deall, ydynt y dammegion hyny yn neilluol trwy bara yr eglurodd efe nattur y deyrnas honno; amryw a glywsant athrawiaeth Crist, ond ni ddeallasant hi, o herwydd beh ddammeg ni lefarodd efe wrthynt hwy, fel yn gweled y gwelent, &c. Mat. xiii. 11. Marc iv. 11. Y mae yr efengyl yn cael ei galw *dirgelwch* duwiolddeb, 1 Tim. iii. 16. Priodas Crist a'r eglwys yw dirgelwch mawr y cyfammod priodasol, Marc iv. 11. Eph. v. 32. Y byddai y Cenedloedd yn gyd-etifeddion â'r Iuddewon yw y *dirgelwch* hwnw oedd yn guddiedig yn mhrophwydoliaethau yr Hen Destament, ac i ddadguddio pa un yr oedd gan Paul ddeall mawr, Eph. i. 9, a iii. 3, 4, 9. Gorphenir *dirgelwch* Duw, pan y cyflawnir yr holl brophwydoliaethau perthynol i'r eglwys yn gyfangwbl, Dad. x. 7. Y mae Anghrist yn cael ei alw *dirgelwch*, a *dirgelwch anwiredd*; yn y dyn pechod hwnw, y mae gorseddfainge anwiredd a grybwyllir yn Salm cxiv. 20: ac mewn amryw fanau ereill o'r Hen Destament, ac yn enwedig yr Hen Babilon, yn cael ei hamlygu. Y mae ystyr ysgrythyrol y gair *dirgelwch* yn cael ei osod i lawr yn eglur iawn, Dad. i. 20.

DIRMYG—U, *(dir-myg*, parch) diystyrwch, anmharch. "Na ddirmyga gerydd yr Arglwydd," Heb. xii. 5. Yn ol y Groeg, *Nac edrych yn fychan ar gerydd yr Arglwydd.* Nid oes un cerydd ond oddi wrth yr Arglwydd, ac y mae efe yn fawr yn *mhob* peth: edrych yn fach ar y cerydd, yw bychanu y ceryddwr ei hun. Er na byddo un yn dirmygu y cerydd, etto dichon ei fychanu yn ormodol, trwy edrych arno fel peth cyffredin, heb weled llaw Duw yn neilluol ynddo; trwy ymgryfhau yn ddynol ac yn gnawdol dano; trwy fod heb ganfod Duw a'i ddybenion ynddo, yn ei gariad at ei berson, ei gasineb at ei bechod, a'i ddyben grasol yn addysgu mewn hyfforddiadau o sancteiddrwydd a duwioldeb. Yr ydym yn parchu Duw yn ei geryddon, wrth ymostwng yn sanctaidd i'w ewyllys ynddynt; pwyso arno danynt; a chydsynied á dybenion Duw ynddynt: a thrwy ymwrthod a'r achos o'i anfoddlonrwydd sydd yn peri iddo ein ceryddu, Diar. iii. 11. Job v. 17. Dad. iii. 19.

DIRWEST, *(dir-gwest*, gwledd) ymprydd, cythlwng. "Ffydd, addfwynder, dirwest," Gal. v. 22. Un o ffrwythau yr Ysbryd yw. Mae y gras hwnw sydd yn dwyn iachawdwriaeth, yn dysgu dynion i fyw yn sobr, sef, yn gymmedrol, yn wyliadwrus, gan groeshoelio y cnawd, yn nghyd á'i wyniau a'i chwantau.

DIRWY, (*dir*, trais) treth, fforffed. "*Dirwy* o dda," Ezra vii. 26. Deut. xxii. 19. "Gwin y *dirwyol* a yfant," Amos ii. 8.

DIRYMU, *(di-grym)* gwneuthur yn egwan a dinerth. "A *ddirymodd* yn ei gnawd ei hun ddeddf y gorchymynion mewn ordinhadau," Eph. ii. 15. Deddf y gorchymynion mewn ordinhadau oedd y ddeddf seremoniol, yn cynnwys yr holl ddefodau Iuddewig, yn gwahaniaethu yr Iuddewon oddi wrth yr holl Genedloedd, ac yn achos o elyniaeth barhaus rhyngddynt; ar y groes dilëodd Crist hon, trwy aberthu ei hun fel gwrthgysgod a sylwedd y cwbl; trwy ddileu ysgrifenlaw yr ordinhadau, tynodd ymaith achos yr elyniaeth rhwng yr Iuddewon a'r Cenedloedd, a thrwy hyny a ddirymodd, neu a ddiddymodd yr elyniaeth hefyd. Cymmododd y ddau â Duw, ac â'u gilydd hefyd, trwy y groes, neu trwy aberthu ei hun drostynt ar y groes. Nid gwneud yr Iuddewon yn Genedloedd, na'r Cenedloedd yn Iuddewon, ond creu y ddau ynddo ei hun, fel eu pen cyffredin, yn *un dyn newydd*, gan wneuthur heddwch.

DISGYN, *(dis-cyn*, cyfodiad) dyfod i lawr o le uwch i le is, megys o'r nef, neu y cymmylau i'r ddaear; neu o le uwch o ran sefyllfa, i un is yn yr un wlad, neu wahanol, Mat.

xxviii. 2. Salm cxxxiii. 3. Act. xxiv. 1. Y mae Duw yn *disgyn*, neu yn *dyfod i lawr*, pan y bydd rhyw arwydd gweledig o'i bresenoldeb yn symmud tua'r ddaear, Exod. xix. 18. Luc iii. 32. Gwaith Crist yn *disgyn i barthau isaf y ddaear*, a arwydda ei ymddarostyngiad anfeidrol, a'i undeb personol â'i ddynodol ar y ddaear, ac â'i gorph yn y bedd, Eph. iv. 10. Y mae doethineb yn *disgyn*: y mae yn deilliaw oddi wrth Dduw, yr hwn sydd uchel, ac yn cyfaneddu yn y nefoedd, i ddynion ar y ddaear, Iago iii. 15.

DISGLEIRDEB, *(dis-claer)* a arwydda, (1.) Gloywder ysplenydd, megys eiddo yr haul hanner dydd, Amos v. 20. (2.) Rhagoroldeb mawr, yr hwn sydd yn tywynu yn glaerwych o amgylch, Esa. lx. 3. (3.) Liwyddiant a mawredd, y rhai a wnant ddynion yn hynod a pharchedig, Ezec. xxviii. 7. Y mae Crist yn cael ei alw yn seren ddisglaer, o herwydd y gogoniant yn yr hwn yr ymddengys efe, fel Brenin, yn nghyd â'i deyrnas, yn adgyfodiad y cyfiawnion. Pan aned ef yn Frenin yr Iuddewon yn Judea, nid ymddangosodd ei seren ond i ychydig ddoethion o'r dwyrain y rhai a ddaethent i'w addoli ef; ond pan gyfyd y seren honno ar *fore* y dydd mawr, bydd yn weladwy i bob llygad, mewn disgleirdeb anfeidrol: dyma yw yr hyn a eilw Esaiah *disgleirdeb dy gyfodiad*, Esa. lx. 3. Crist yw *disgleirdeb gogoniant ei Dad*; y gogoniant hwnw a ymddangosodd ar Sinai yn y golofn dân, ar y babell, ac yn y sancteiddiolaf; ond pan yr ymddangosodd uniganedig y Tad yn llawn gras a gwirionedd, amlygwyd disgleirdeb yr holl ogoniant cysgodol, Heb. i. 3.

DISGWYL, *(dis-gwyl,* gweled) a arwydda, (1.) Aros yn amyneddgar, gan obeithio ac edrych am, Gen. xlix. 18. Y mae Duw yn *disgwyl i drugarhau;* y mae efe yn cyddwyn yn amyneddgar â phechaduriaid; gyda hyfrydwch a pharodrwydd y mae yn cymmeryd y cyfleusdra cyntaf i gyfranu ei fendithion i'w bobl, ac yn eu hoedi hyd oni ddelo hyny, Esa. xxx. 18. Ein gwaith yn *disgwyl wrth yr Arglwydd*, a arwydda bod ein hedrychiad arno, a'n gobaith ynddo, fel ein hunig noddwr a'n gwaredwr, a'n parodrwydd i ufuddhau iddo, fel ein Harglwydd a'n Brenin, Salm xxv. 3, 5, a xxvii. 14, a cxiii. 2, a cxxx. 5—8, a cxxxi. 3.

DISGYBL; un yn dysgu gan athraw; ysgolhaig, Ioan ix. 28. Yn yr efengylau, arwydda, yn gyffredin, y deuddeg apostol, y rhai a ddysgasant gan Iesu Grist, fel eu hathraw; ond yn yr Actau a'r Epistolau, arwydda unrhyw ganlynwr i Iesu Grist, yr hwn sydd yn ofalus am gael ei ddysgu yn y gwirionedd am dano ef.

DISIGL, *(di-sigl)* digrŷn. "Gan ein bod yn derbyn teyrnas *ddisigl*," Heb. xii. 28. Teyrnas Crist, a goruchwyliaeth yr efengyl o honi; mae hon i barhau yn ddisigl hyd ddiwedd amser. Mae holl deyrnasoedd mawrion y ddaear wedi eu siglo, a'u dryllio yn ddarnau; ïe, llawer o honynt wedi eu cwbl ddiddymu yn dragywyddd. Ond am y deyrnas hon, nis gellir ei siglo mewn un ystyr, na thrwy unrhyw foddion. Tebygol fod hyn yn cael ei briodoli yn y fan yma i deyrnas Crist, yn fwyaf neilldiol, mewn cyferbyniad, i'r oruchwyliaeth Iuddewig, yr hon a siglwyd ac a symmudwyd gan Dduw ei hun: ond mae goruchwyliaeth yr efengyl yn ddisigl, ac yn ddigyfnewid: ni fydd un dull na threfn arall ar ei deyrnas hyd ddiwedd y byd.

DIST, *(dis)* trawst. "Ein *distiau* sydd ffynnidwydd," Can. i. 17. Y tŷ yw yr eglwys yma yn y byd, yn ei haelodau, ei gweinidogion, a'i hordinhadau. Heb benderfynu yn neilldiol beth sydd i'w ddeall wrth swmmerau, a distiau y tŷ hwn, gallwn gasglu oddi wrth y geiriau, fod yr eglwys yn adeilad ogoneddus, gadarn, a pharhaus. Mae cedrwydd a ffynnidwydd yn brenau parhaus, diddarfod; felly y mae gweinidogaeth yr eglwys a'i hordinhadau; ïe, ei holl aelodau, Ioan xi. 26. 1 Bren. vi. 9, 36, a vii. 12, a x. 27.

DISTAIN, *(dis-tain)* goruchwyliwr, ystiwart, Gen. xxxvii. 36, a xxxix. 1, a xl. 3.

DISTRYW, *(di-ystryw)* dinystr, colledigaeth. Job, yn llefaru am fawredd Duw o ran ei wybodaeth a'i allu, a ddywed, "Mae uffern yn noeth ger ei fron ef, ac nid oes dô ar

ddistryw," Job xxvi. 6. Wrth *uffern a ddistryw,* yr un peth a feddylir; *distryw* yw *uffern, distryw* dynion a'u holl gyssuron, dros byth; *distryw* eu cyrph a'u heneidiau; eu parch a'u gwychder, &c.; *distryw* cyflawn o'r cwbl yw, yn ddifeddyginiaeth, ac yn ddiddarfod. I *ddistryw* y mae ffordd lydan pechod yn arwain.

DISYML, (*di-syml*) didwyll, annichellgar. "A Jacob oedd wr *disyml,*" Gen. xxv. 27.

DIWEDD, (*diw*, cwbledd) terfyn, dyben. Arwydda, weithiau, y rhan olaf o ryw yspaid o amser, Mat. xxviii. 1. *A'i diweddd fydd trwy lifeiriant;* dygir distryw hollol y genedl Iuddewig o amgylch trwy farnedigaethau ofnadwy ac anwrthwynebol, Dan. ix. 25. *Diwedd* pob cnawd a ddaeth ger fy mron; hyny yw, y mae eu hamser terfynol yn brysio drosodd; mi a'u distrywiaf hwynt yn hollol, Gen. vi. 13. *Diwedd a ddaeth ar bedair congl y tir;* dinystr terfynol ac anghyfaneddfra ydynt newydd ddyfod ar yr holl wlad, Ezec. vii. 2. Iesu Grist yw y *diwedd,* y mae efe yn aros yn dragywydd, ac yn berffeithydd a dyben pob peth, Dad. xxi. 6. Efe yw *diwedd* y ddeddf er cyflawnder; efe a berffeithiodd y ddeddf seremoniol, am ei fod yn ddyben a sylwedd ei holl gysgodau, ac, am hyny, a'i diddymodd hi; trwy ei ufudd-dod a'i farwolaeth, efe a gyflawnodd y gyfraith foesol, yn ei gorchymynion a'i chospedigaethau; ac, yndd ef, fel eu cyflawnder, y mae y ffyddloniaid yn mwynhau pa beth bynag y mae y gyfraith, fel cyfammod, yn ei ofyn oddi wrthynt, Rhuf. x. 4. *Diwedd* ffydd y saint, yw yr hyn a osodir allan yn yr addewid, ac y maent yn hyderu y cant hyd yn nod iachawdwriaeth dragywyddol eu heneidiau, 1 Petr i. 9. Y mae llŵ yn *ddiwedd* ar bob amryson, am nad oes un pellach ymofyniad i gael ei wneuthur mewn cynghaws, ond y mae pob plaid a fedda law yn y peth, i orphwys yn foddlawn i'r penderfyniad a wnaed trwy lŵ, Heb. vi. 16.

DIWYGIAD, (*di-gwyg*, gwywder) iawniad, gwellhad. "Hyd amser y *diwygiad,*" Heb. ix. 10. Yn ol y Groeg, *hyd amser yr adgyweiriad.* Nid mor addas, medd Dr. *Owen,* yw y gair diwygiad yma: nid diwygio neu wellhau yr addoliad Iuddewig a wnaed, ond ei osod yn gwbl o'r neilldu, pan y dygwyd y trefniadau efengylaidd i mewn. Ond diwygiad oedd, os golygir cyflwr yr eglwys yn gyffredinol, trwy ddwyn i mewn bethau gwell, yn tueddu ac yn cyfeirio yn fwy uniongyrchol at y dybenion mawrion yn ngolwg Duw mewn perthynas i'w eglwys a'i ogoniant ei hun ynddi a thrwyddi.

DIYMMOD, (*di-ymmod*, symmud) disigl, diysgog. "Byddweh sicr a *diymmod,*" 1 Cor. xv. 58, Byddweh sicr, yn sefydlog, yn ddianwadal, yn holl byngciau athrawiaethol y ffydd, ac yn eich ymlyniad wrth Grist, ac yn ei ffyrdd; heb hyny, nis gellwch fod yn helaethion yn ngwaith yr Arglwydd, na llwyddo yn eich eneidiau.

DOCTOR, athraw, dysgawdwr. Pan yr oedd yr Iesu yn ddeuddeng mlwydd oed, cafodd ei rieni ef yn eistedd yn nghanol y doctoriaid yn y deml, yn gwrandaw arnynt, ac yn eu holi hwynt, neu yn ymofyn â hwynt. Byddai y dysgawdwyr yn eistedd yn hanner cylch, a'r dysgyblion yn y canol, wrth eu traed. Byddai y doctoriaid ar y gwyliau arbennig, yn arferol o ddysgu y bobl, yn un o ystafelloedd y deml, yn y gyfraith, yn gyhoeddus, Jer. xxvi. 5, 6, 7, 10. Ioan xviii. 20. Wrth y geiriau hyn y gallwn ganfod dull y doctoriaid yn athrawiaethu, sef eu bod yn egluro y gyfraith, yn holi y dysgadur, ac yn rhoddi rhyddid iddo i ymofyn â hwynt er ychwaneg o hyfforddiad ac eglurdeb.

DODANIM, neu RHODANIM; mab ieuangaf Jafan; yr un, hwyrach, â Dorus mab Neptune, a thad y llwyth Doriaidd o Roegiaid, y rhai a feddiannasant ran o dir Groeg yn Europe, a rhan o barth gorllewinol Asia Leiaf. Myn rhai i'w hiliogaeth breswylio yn ynys Rhodes: ac y mae *Bochart* yn eu llusgo eyn belled â glan yr afon Rhone, o du y dehau-ddwyrain i Ffrainge, Gen. x. 4. 1 Cron. i. 7.

DODREFN, (*dy-go-drefn*) tacl-au tŷ. *Dodrefn y cadarn,* â pha rai y mae yn cadw ei neuadd, sef calonau pechaduriaid, ydyw yr holl lygredigaethau, ar ba rai y mae yn gweithredu, ac yn eu defnyddio i

gynnal ei deyrnas i fynu, er llygru a chaethiwo dynion, a dianrhyddeddu Duw. Nis gallasai y diafol byth drigo yn nghalon dyn, oni bai yr arfau hyn. Pan ddêl un cryfach nag ef arno, sef Crist Iesu, mae yn ei orchfygu, yn dwyn ymaith ei *holl* arfogaeth, ac yn *llwyr* yspeilio ei ddodrefn ef, Mat. xii. 19. Marc iii. 27.

DOEG, (*anesmwyth*) cyhuddwr Abimelec yr archoffeiriad, a'i leiddiad ef a 84 o offeiriaid ereill: tebygol iddo ddyfod i ryw ddiwedd annedwydd, 1 Sam. xxii. 16—18.

DOETH, (*oeth*, tanbaid) a arwydda, (1.) Pwyllog yn nhrefniad pethau, Gen. xli. 33. (2.) Dysgedig, gwybodus, Rhuf. i. 14. Duw yw yr *unig ddoeth;* efe yn unig sydd ganddo ynddo ac o hono ei hun wybodaeth anfeidrol am bob peth, ac yn meddu synwyr anfeidrol er cyfarwyddyd a threfniad pob peth, Rhuf. xvi. 27. 1 Tim. i. 17. (3.) Duwiol, sanctaidd, wedi ei ddysgu gan Ddaw, a'i wneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, Diar. xiii. 14. 2 Tim. iii. 15. (4.) Celfyddydwyr medrus, Exod. xxviii. 3. (5.) Cyfrwys, dichellgar, 2 Sam. xiv. 2. (6.) Wedi ymchwyddo gan dyb dda am eu doethineb eu hunain, 2 Cor. xi. 19. Rhuf. xii. 16. *Doethion* yr Aipht, Caldea, &c. nid yn unig a gynnwysent eu hathronyddion, eu seryddwyr, ac ereill cyfarwydd mewn gwybodaeth anianol, ond hefyd eu *dewiniaid*, Gen. xli. 8. Dan. ii. 10. Pwy oedd y doethion, y rhai, wedi eu cynhyrfu gan yr banesion am ddyfodiad y Messiah, a chan ymddangosiad seren ryfeddol, a ddaethant i ymweled â'n Hiachawdwr yn fuan ar ol ei enedigaeth; pa un ai swynwyr, neu rai o grefydd y magiaid Persiaidd, a gredent mewn dwy egwyddor israddol, y naill yn dda, a'r llall yn ddrwg, ac a ffieiddient ddelwau a themlau, ac a addolent Dduw yn unig trwy yr arwyddlun o dân: neu ai athronyddion yn unig oeddynt, nis gallwn benderfynu. Ac nis gwyddom ronyn gwell o ba wlad y daethant; pa un ai o Persia, Caldea, neu Arabia Ddwyreiniol; na pha faint o amser a gymmerasant yn eu taith; na pha un a aeth y seren ryfeddol o'u blaen yr holl ffordd hyd nes y daethant yn agos i Jerusalem. Ond wedi dyfod o honynt yno, ymofynasant pa le yr oedd *Brenin* yr Iuddewon, oedd *wedi ei eni*, seren yr hwn a welsent yn y dwyrain. Wedi hysbysu iddynt gan Herod, ar ol ymofyn â'i gynghorwyr, mai Bethlehem oedd y lle a nodesid allan yn y brophwydoliaeth i eni y Messiah, prin yr oeddynt wedi ymadael â Jerusalem, pan, er eu mawr lawenydd, yr ymddangosodd y seren iddynt ac a'u cyfarwyddodd at y tŷ. Cyn gynted ag yr aethant i mewn, addolasant ef, a chyflwynasant iddo amrywiol anrhegion, aur, thus, a myrr. Fel hyn y dechreuodd y Cenedloedd ymgynnull at Siloh. Gorchymynasai Herod iddynt ddychwelyd yn ol a mynegu iddo ef pa le y cawsent y Messiah ieuange; ond wedi eu rhybuddio gan angel mewn breuddwyd, aethant ar hyd ffordd arall, a diammeu, a daenasant yr hanes am enedigaeth y Messiah, Mat. ii.

DOETHINEB, (*doeth*) a arwydda (1.) Synwyr a challineb i ganfod beth sydd yn addas neu yn anaddas i'w wneuthur o ran amser, lle, dull, offeryn au, neu ddyben y weithred, Preg. ii. 13. (2.) Gwybodaeth o'r celfyddydau: felly yr oedd Moses yn ddysgedig yn holl *ddoethineb yr Aiphtiaid*, Act. vii. 22. (3.) Parodrwydd i ddychymmygu, a medrusrwydd i ffurfio cywreinwaith: â'r cyfryw *ddoethineb* y cymmwyswyd Bezaleel ac Aholiab i lunio perthynolion y babell, Exod. xxxi. 2, 5. (4.) Cyfrwysdra i ddwyn dichellion yn mlaen: y fath oedd *doethineb* Pharaoh i orthrymu yr Hebreaid, Exod. i. 10: ac eiddo Jonadab, yr hwn a ddyfeisiodd pa fodd y gallai Ammon orwedd gyda'i hanner-chwaer, 2 Sam. xiii. 3. Y tri diweddaf a elwir *doethineb y byd hwn*, 1 Cor. ii. 6. (5.) Cynneddfau a synwyrolèb naturiol: felly ni roddwyd *doethineb* i'r estrys, Job xxxix. 17. (6.) Gwir dduwioldeb, trwy ba un, wedi y dysger dyn gan Ddaw i wybod ei ewyllys, y mae efe yn ceisio yr hyn sydd briodol, ac yn gochelyd yr hyn sydd anmhriodol, ac yn ymdrechu cyflawni pob dyledswydd yn ei hamser mwyaf addas, Salm xc. 12. Job xxviii. 28: y ddoethineb hon sydd *oddi uchod*, yn

rhodd neillduol Duw; sydd *bur*, yn gwneuthur dynion yn ofalus i ochelyd cyfeiliornadau, a phob peth pechadurus, ac i lynu wrth wirionedd a sancteiddrwydd; sydd *heddychlon*, yn tueddu dynion i wneuthur a chadw heddwch âg ereill, cyn belled ag y bydd hyny yn gysson â duwioldeb; *boneddigaidd* yw, yn tueddu dynion i gyd-ddwyn â gwendidau ereill, i faddeu camweddau, ac i ddehongli pob peth yn yr ystyr goreu a oddefo; y mae yn *huwdd ei thrin*, yn peri i ddynion dderbyn annogaethau gair Duw yn ewyllysgar, ac ymostwng i gyngor a rheswm da; y mae yn *llawn trugaredd* a thosturi tuag at y rhai sydd mewn tlodi a chyfyngder, neu a roddasant dramgwydd; y mae yn llawn *ffrwythau da*, caredigrwydd, haelioni, a brawdgarwch: y mae yn *ddiragfarn*, heb gyfrif y naill o flaen y llall o herwydd dybenion cnawdol; ac yn *ddiragrith*, yn tueddu dyn i sancteiddrwydd diffuant, ac i farnu ei hun wrth y gyfraith â pha un y barn efe ereill, Iago iii. 17. (7.) Y mae yr efengyl yn cael ei galw *doethineb*, a *doethineb* Duw mewn dirgelwch, neu *ddoethineb cuddiedig*; y mae yn hysbysu arfaethau a threfniadau doethion Duw mewn perthynas i iachawdwriaeth dynion, ac yn eu gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth. Nis gallasai un creadur ei dadguddio hi. Gynt, yr oedd yn holliol anadnabyddus yn mhlith y cenedloedd Paganaidd, ac wedi ei hamlygu ond yn dywyll i'r Iuddewon mewn cysgodau dirgelaidd; ac nid yw hyd yn nod yn awr wedi cael ei deall yn gyflawn, 1 Cor. ii. 6, 7. (8.) Y mae Crist yn cael ei alw *doethineb*, a *doethineb Duw*; fel Duw, y mae efe yn anfeidrol ddoeth; ac fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y mae *holl drysorau doethineb a gwybodaeth* yn guddiedig ynddo; y mae yn meddu doethineb anfeidrol i drin holl fatterion rhagluniaeth a gras, er dwyn ein hiachawdwriaeth yn mlaen; ynddo ef y rhoddir yr amlygiad mwyaf arddechog a chyflawn o ddoethineb a gwybodaeth Duw: efe a wnaed gan Dduw i ni yn *ddoethineb*; y mae efe yn dadguddio i ni nattur ac ewyllys Duw mewn modd achubol, ac yn ein gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, Diar. iii. 19, a viii, a ix. *Doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei hun*: nad oedd Iesu Grist yn yfwr gwin, neu ddyn glwth, ond un yn berffaith gyfiawn, a'r gwir Fessiah, a gredir yn wirioneddol, a broffesir, ac a brofir trwy ymarferiad ei wir ganlynwyr; a'r efengyl, a gwir dduwioldeb wedi ei sylfaenu arni, a gydnabyddir yn ddigonol i fod yn llawn doethineb, sancteiddrwydd, ac uniondeb; ac a amddiffynir gan y rhai a gyfiwynant eu hunain i ymarfer â duwioldeb yn erbyn holl gabl-eiriau yr annuwiol, Mat. xi. 19. Genau y cyfiawn a *fynega ddoethineb*; pan y mae ymadroddion ereill yn annuwiol neu ofer, bydd ei eiddo ef yn dduwiol a llesiol, yn tarddu oddi ar wybodaeth tufewnol o Dduw, yn troi ar bethau dwyfol fel eu gwrthddrych, ac yn tueddu i wneuthur dynion yn ddoeth i iachawdwriaeth, Salm xxxvii. 30. *Doethineb Duw yn llaw Ezra*, oedd naill ai cyfraith Duw yr hon yr ymdrechai efe gyrhaedd gwybodaeth ynddi, neu ynte ei wybodaeth ynddi, Ezra vii. 25. Y *ddoethineb* oedd gan Solomon, a gynnwysai wybodaeth yn y celfyddydau, a phwyll a challineb i lywodraethu, 1 Bren. iii. 9, 12. Yn *noethineb* Duw, nid adnabu y byd trwy *ddoethineb* mo Dduw; Duw yn ddoeth a'i trefnodd felly, fel na chyrhaeddodd v Paganiaid i wybodaeth wirioneddol ac achubol am Dduw, trwy yr amlygiadau a gawsant o hono yn ngweithredoedd creadigaeth a rhagluniaeth, 1 Cor. i. 21. *Doethineb y byd hwn*, a'i dywysogion yr hon a ddiddymir, yw eu cyfrwysdra cnawdol i drin gorchwylion tymmorol neu wladwriaethol; neu yr egwyddorion perthynol i hyny, y rhai yn fynych a ddygant ddiwystr yn mlaen yn hytrach na diogelu dynion rhagddo, 1 Cor. ii. 7. *Doethineb cnawdol* yw'r ystryw a'r cyfrwysdra cnawdol hwnw, pa un sydd yn tueddu i ddwyn gwasanaeth pechod yn mlaen, 2 Cor. i. 12. *Diau mai chwychwi yw y bobl; a chyda chwi y bydd marw doethineb*; hyny yw, Yr ydych yn dychymmygu mai chwi ydyw yr unig ddynion doeth, a phe byddech chwi feirw, y darfyddai gwybodaeth am bethau dwyfol oddi ar y ddaear; gwawdiaith, Job xii. 2. Y

gwatwarwyr a *gesiasant ddoethineb*, ond nis cânt; ni bydd eu hymgeisiadau am wybodaeth ond yn eu gwneuthur yn fwy gweigion a hunan-dybus, Diar. xiv. 6. Pregethu yr efengyl mewn *doethineb ymadrodd*, neu eiriau o *ddoethineb ddynol*, neu *odidawgrwydd ymadrodd*, ydyw gwneuthur hyny mewn geiriau chwyddedig, ac araethyddiaeth ddynol, ddengar, 1 Cor. ii. 1, 14. a i. 17.

DOL-DIR, (*ol*, hynt) gwastattir. "A bod yr anialwch yn *ddoldir*, a chyfrifir y *doldir* yn goedtir," Esa. xxxii. 15. Effaith tywalltiad yr Ysbryd Glan o'r uchelder, yw troi yr anialwch yn ddoldir, arloesedig, a ffrwythlawn. Wrth yr *anialwch*, deallwn y Cenedloedd, neu bechadduriaid yn eu cyflwr diffrwyth, diras, anghyfiawn, ac annuwiol, dan y cwymp: ar y rhai hyn y mae yr Ysbryd yn cael ei dywallt o'r uchelder, a'r canlyniad yw eu bod yn cael eu cyfnewid a'u sancteiddio; eu dysgu i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn ddduwiol, yn y byd sydd yr awr hon. Barna rhai, gan fod y rhan gyntaf o'r adnod yn golygu galwad y Cenedloedd, fod y rhan olaf yn golygu gwrthodiad yr Iuddewon. Gwel Esa. xxix. 17.

DOR, (*cenedlaeth*) dinas ar lan Môr y Canoldir, â phorthladd perygliis iawn iddi. Safai yn nghylch naw milltir o du y gogledd i Cæsarea yn Palestina, ac ychydig o du y dehau i fynydd Carmel. Goresgynodd Josuah hi, ac a'i rhoddodd i hanner llwyth Manasseh; ond goddefasant hwy i'r Canaaneaid gadw meddiant o honi, Barn. i. 27. Yn mhen hir amser wedi hyn yr oedd yn ddinas gadarn; ac yma y gwarchaëodd Antiochus Sidetes, o ddeutu A. M. 3866, ar Tryphon traws-feddiannydd yr orsedd Græco-Syriaidd, Jos. xii. 23, a xii. 11.

DORCAS, (*ewig*) neu *Tabitha*, gwraig weddw Gristionogol yn Joppa, yr hon oedd yn llawn o elusenau a gweithredoedd da ereill, wedi marw o ryw afiechyd, hi a olchwyd, ac a osodwyd ar astyllen, i'r dyben o'i rhoddi mewn arch. Anfonwyd am Petr, a'r gwragedd gweddwon a safent yn ei ymyl ef oeddynt oll yn wylo, ac yn dangos iddo y gwisgoedd a wnaethai hi iddynt, ac yn adrodd wrtho am ei gweithredoedd haelionus ereill hi. Petr, wedi bwrw y bobl i gyd allan, a gweddio drosti, a orchymynodd iddi gyfodi. Yn ddiattreg, agorodd ei llygaid, ac, wedi iddo ef gynnorthwyo ychydig o honi, safodd i fynu. Yna efe a alwodd ei chymmydogion Cristionogol i mewn, ac a'i cyflwynodd hi iddynt, yn fyw ac yn iach, Act. ix. 36—42.

DOSPARTH, (*gosparth*) rhaniad. Er mwyn iawn drefn yn ngwasanaeth yr Arglwydd, *dosparthodd* Dafydd yr offeiriaid, y Lefiaid, y cantorion, a'r porthorion yn *ddosparthiadau*; ac yr oedd pob dosparth i wasanaethu yn ei gylch. Yr oedd y drefn hon yn ysgafnhau y gwaith, ac yn gofalu na byddai un rhan o hono yn cael ei hesgeuluso: diammau fod y cwbl wedi ei wneuthur trwy gyfarwyddyd a gorchymyn Duw i Dafydd. Bob wythnos yr oedd mil yn dyfod i mewn, a mil yn myned allan, yn eu cylchoedd, 2 Cron. xxiii. 8. 2 Bren. xi. 5, 6, 7.

DOTHAN, dinas a gwlad yn nghylch 12 milltir o du y gogledd i Samaria; ac, yn ol *Bunting*, 44 o du y gogledd i Jerusalem, a 6 o du y gorllewin i Tiberias. Yma y gwerthwyd Joseph i'r Ismaeliaid; ac yma y tarawodd Eliseus y Syriaid, y rhai a ddaethent i'w ddal ef, â dallineb, Gen. xxxvii. 17. 2 Bren. vi. 13.

DRAIN, (*dra*, cynnyrch) enw cyffredin ar lawer iawn o goed neu fanwydd pigog; y fath leiaf a elwir *mieri*; y maent oll yn lled ddiddefnydd o ran eu coed, ond yn danwydd; oll yn anafu cynnyrch y ddaear, ond y maent yn ddefnyddiol iawn i wneuthur gwrychoedd. Yr amledd mawr o ddrain sydd yn goffadwriaeth barhaus o gwymp Adda, Gen. iii. 18. A *drain* y drylliodd Gideon gnawd henuriaid Succoth, Barn. viii. 7, 16. I boeni ein Hiachawdwr, a dangos diystyrwch o'i frenhindod, a'i fod yn dwyn y felldith drosom ni, coronodd ei elynion ef â choron o *ddrain* plethedig, Ioan xix. 2, 5. *Drain* a wnant dân cyflym ac angerddol, ond efe a ddiffydd yn fuan, Salm lviii. 9, a cxviii. 12. *Drain* a mieri yn gorchuddio lle, a arwydda ei fod wedi ei ddwyn i anghyfannedd-dra, Hos. ix. 6, a x. 8. Dynion

drygionus ac annuwiol, y rhai a flinant eu cymmydogion, a'u dyrysant trwy eu dichellion, a attaliant ddefnyddioldeb y saint a gweinidogion ffyddlon, ac a addfedant eu hunain i dân tragywyddol, ac etto ydynt weithiau yn cael eu defnyddio i amddiffyn y duwiolion, a gyffelybir i *ddrain a mieri*, Ezec. ii. 6. Mic. vii. 4. Can. ii. 2. 2 Sam. xxiii. 6. Yr Assyriaid, a gelynion ereill i bobl Duw, oeddynt yn gyffelyb i *ddrain a mieri;* mor flin dros amser! ond mor fuan y difawyd hwy gan dân arswydus barnedigaethau Duw! Esa. x. 17, a xxxiii. 12. Nah. i. 10. Salm xcviii. 12. Y Canaaneaid oeddynt i'r Israeliaid fel *drain* neu *ffrewyllau* yn eu hystlysau, yn *gethri* yn eu llygaid, ac yn *faglau* ac yn *dramgwyddiadau* iddynt, yr oeddynt yn foddion i'w hudo hwynt i bechod, ac yn offernau dialedd Duw yn eu herbyn, Num. xxxiii. 55. Jos. xxiii. 13. Y Sidoniaid oeddynt yn *ysbyddaden bigog* ac yn *ddraenen ofidus* i dŷ Israel; gwnaethant lawer o ddrwg iddynt, Ezec. xxviii. 24. Chwantau annuwiol, gofalon cnawdol, ac ymarferiadau pechadurus, a elwir yn *ddrain a mieri;* y maent yn tarddu o galon greigaidd, yn attal gwir heddwch a lionyddwch, yn tagu had da gair Duw, ac yn foddion o boenau tragywyddol i'r rhai a ymbyfrydant ynddynt, Heb. vi. 8. Jer. iv. 3. Mat. xiii. 7. Gosodir *drain* am anhawsderau a rhwystrau mawrion, y rhai a attaliant gynnydd dynion, fel *cae draen:* felly y *mae drain yn ffordd y diog*, Diar. xv. 19; a *drain sydd yn ffordd y cyndyn;* trallodau a gwrthwynebiadau mawrion a'i disgwyliant ef, Diar. xxii. 25; a *chymmeryd y cynhauaf o blith drain*, yw cymmeryd ffrwyth y maes oddi ar un, er gwaethaf pob attaliad, Job v. 5. Cystuddiau a elwir yn *ddrain*, am eu bod yn pigo, yn blino, ac yn cyfyngu ar ddynion; felly y mae Duw yn cau ffordd dynion i fynu â *drain*, yn eu hattal trwy brofedigaethau a gorthrymderau blinion, Hos. ii. 6. Cafodd Paul *ddraen yn y cnawd*, cennad Satan wedi ei anfon i'w gernodio; blinwyd ef gan ryw gystudd neu brofedigaeth lem, 2 Cor. xii. 7. *Fel draen yn myned i law dyn meddw;* felly y mae diareb yn ngenau yr anghall; y mae, pa mor dda bynag y bydd ynddi ei hun, yn gwneud niweid yn hytrach na lles, Diar. xxvi 9. Yr Assyriaid a orphwysent *yn yr yspyddaid ac yn y perthi* oll, fel ceiliogod rhedyn a locustiaid, pan y taenent ddinystr a difrod yn mhob man trwy ddinasoedd a gwlad Judea, Esa. vii. 19.

DRAIG (*dra*, ffrwyth). Mae y gair hwn yn cyfatteb yn gyffredinol i'r gair Heb. *Tan*, yr hwn a arwydda naill ai pysgodyn, megys y morfil, y crocodil, y morfarch, &c., Gen. i. 24. Job vii. 12; neu seirph mawrion, rhai o honynt yn meddu traed, crafangau, a chribau. Dywed rhai ysgrifenwyr am ddreigiau yn nhir Groeg, heb fod yn wenwynllyd, ac a ellir eu doni; ond gosodir y rhai y llefara y prophwyd am danynt allan fel yn wylltion, niweidiol, a pheryglus. O herwydd fod dreigiau, a chreaduriaid gwenwynllyd ereill yn hoffi llettya yn mysg malurion hen adeiliau, gosodir dinasoedd wedi eu dwyn i anghyfannedd-dra allan fel tyllau a thrigfannau *dreigiau*, Esa. xiii. 22, a xxxiv. 13. Jer. ix. 11. Gelwir Satan yn *ddraig*, o blegid ei allu, ei greulondeb, a'i niweidiolrwydd, Dad. xx. 1. Gormeswyr creulawn, a buddugoliaethwyr, megys breninoedd Assyria a'r Aipht, a gyffelybir i *ddreigiau*, o blegid eu hymddangosiad arswydus a'u creulondeb i ddistrywio, Esa. xxvii. 1, a li. 9. Salm. lxxiv. 13. Ezec. xxix. 3. Amherodraeth Baganaidd Rhufain, sydd yn gyffelyb i *ddraig goch* fawr: trwy annogiad y diafol, hi, yn y modd mwyaf gwaedlyd, a ddifaodd y Cenedloedd, ac a erlidiodd eglwys Duw, Dad. xii. 3. Bwriwyd y *ddraig a'i angelion* allan i'r ddaear, pan y dygwyd awdurdod yr exlidwyr gwaedlyd yn isel, yr alltudiwyd eilunaddoliaeth a choelgrefydd y Paganiaid allan o'r dinasoedd i'r pentrefydd, ac y sathrwyd gallu Satan a'i oruchwylwyr dan draed, Dad. xii. 9. Y mae Anghrist yn *llefaru fel draig;* trwy awdurdod dieflig a Phaganaidd y mae efe yn dysgu, a than y cospedigaethau mwyaf arswydus yn cymmell y cyfeiliornadau, coelgrefydd, ac eilunaddoliaeth mwyaf dieflig a Phaganaidd ar ddynion, Dad. xiii.

5. Dynion annuwiol ydynt gyffelyb i *ddreigiau:* maent yn had yr hen sarph, ac yn llawn o wenwyn pechadurus; a dinystr a thrueni sydd yn eu holl ffyrdd, Esa. xxxv. 7, a lxiii. 20. *Galaru fel dreigiau*, yw galaru yn chwerw iawn, ac yn y modd mwyaf erchyll a sïol: ond rhai a farnant mai y môr-hychod a feddylir yma, y rhai a alarant yn y dôn fwyaf alaethus, Mic. i. 8. Job xxx. 29.

DROPSI, dyfr-glwyf. Math o afiechyd peryglus iawn, a achlysurir gan lawnder annaturiol o fath o ddwfr yn y corph, neu yn gymmysgedig â'r gwaed. Y mae yn wahanol iawn ei rywiogaethau, megys *dropsi* y pen, y ddwyfron, yr ysgyfaint, neu yr holl gorph; ond ei gyflead mwyaf cyffredin yw y rhan isaf o'r bol. Weithiau y mae agerdd y gwlybyrwch hwn mor heintus, fel y bydd iechyd y meddyg a'i tynno mewn perygl. Yn y *dropsi*, bydd y traed a'r coesau yn gyffredin yn chwyddo; y mae diffyg anadl, syched angerddol, ychydig o drwngc, bolrwymedd, &c., hefyd yn cydfynedd âg ef. Yn y dechreu y mae llawer o ymarferiad, cyfnewidiad awyr, carthedigion cryfion, &c., yn llesiol iddo; ond pan fydd wedi myned rhagddo yn mhell, nid oes bron ddim o wasanaeth ond gollwng y dwfr. Ac nid yw hyny yn fynych ddim rhagor na moddion o esmwythder presennol. Y mae hefyd fath o *dropsi* gwyntog a elwir y tabyrddglwyf *(tympany)*, Luc xiv. 2.

DRUSILA, (*gwlithog*) chwaer ieuangaf Agrippa, Bernice, a Mariamne. Cafodd Epiphanes tywysog Comagena yn Syria, addewid am dani yn briod, dan yr ammod iddo gymmeryd ei enwaedu: ond wedi iddo wrthod ymostwng i'r weithred honno, rhoddwyd hi i Azizus brenin Emesa yn Syria, yr hwn a gymmerodd ei enwaedu i'w chael. Ni bu yn hir cyn ymadael âg ef, a phriododd Ffelix rhaglaw Judea, o'r hwn y bu iddi fab a'i enw Agrippa. Cyfrifid hi yn un o ferched harddaf yr oes honno, ond yn ddigon pell o fod yn ddiwair, Act. xxiv. 24.

DRWG, *(rhwg,* dyfais) 1. Yr hyn sydd yn bechadurus ac annuwiol, Preg. ix. 3. Y mae wyneb yr Arglwydd yn erbyn y rhai a wnant *ddrwg*, a *drwg* ni thrig gydag ef, Salm xxxiv. 16, a v. 4. (2.) Yr hyn sydd ffin a niweidiol, Job ii. 11. Salm xxxiv. 21. Yn yr ystyr hwn mae *drwg* yn dyfod oddi wrth yr Arglwydd, Amos iii. 6. Preg. xii. 1. Ac mae dyddiau yn *ddrwg*, yn adfydus, ac yn llawn o orthrymderau, Diar. xv. 15. Preg. xii. 4. Amos vi. 3. Yn yr ystyr hwn hefyd mae rhyw gamweddau oddi wrth ddynion yn cael eu galw yn *ddrwg*, Diar, xvii. 13. Mat. v. 39. Y mae Satan yn cael ei alw yr *un drwg*, neu yr *ysbryd drwg;* efe yw awdwr pob pechod; y mae efe yn gweithredu drygioni yn barhaus, ac yn peri blinder, Ioan xvii. 15. Act. xix. 12. *Amser drwg*, yw tymmor o bechu, o berygl, ac o drallod mawr, Amos v. 13. Mic. ii. 3. Salm xxxvii. 19. Pechod yw y gwaethaf o bob *drygau;* y mae yn elyniaeth cyfeiriol yn erbyn Duw, ac yn tywyllu gogoniant ei berffeithderau; ac yn ffynnon ac achos o'r holl ofidiau a ddeuant ar y creaduriaid, Jer. ii. 13. Y *drwg* y gwaeddwn yn ei erbyn, yw yr hyn sydd bechadurus a'r hyn sydd niweidiol, Mat. vi. 13. 1 Cron. iv. 10.

DRWS, (*rhws*, toriad allan) mynedfa allan ac i mewn i dai, gerddi, &c. ac y mae yn cael ei arfer am un math o foddion mynediad i le, neu ddyfodiad allan o hono. Y mae Crist yn cael ei alw yn *ddrws;* ac yr oedd yn cael ei gysgodi gan *ddrysau* a *phyrth* y babell a'r deml. Efe, yn ei berson a'i swydd gyfryngol, yw yr unig ffordd o ddyfodfa at Dduw. Y rhai sydd yn credu yndd o yn unig, sydd wir aelodau o'i eglwys ef ar y ddaear, ac a dderbynir i'r trigfanau nefol, Ioan x. 9. Yr eglwys efengylaidd sydd yn *ddrws* wedi ei sicrhau âg astyllod cedrwydd; ei gosodiadau ydynt ogoneddus a pharhaus; a thrwyddi y mae lluoedd yn dyfod i bresennoldeb a chymdeithas Duw yn Nghrist, Can. viii. 9. Dynion diog ydynt fel *drws yn troi ar ei golyn;* ymddangosant eu bod yn gwneuthur rhywbeth, ac etto nid ydynt yn cynnyddu mewn un peth da, Diar. xxvi. 11. Y *drws* wrth ba un y mae Crist yn curo, ac yn gofyn am gael dyfod i mewn, yw y deall, y gydwybod, a'r serchiadau, trwy ba rai y mae yn

treiddio i'n calonau. Dad. iii. 20. Can. v. 4. Salm xxiv. 7, 9. Y mae y *drws yn cael ei gau* gwedi yr ei etholedigion Crist i mewn i'r wledd briodasol: pob dyfodfa drugarog at Dduw; goruchwyliaeth yr efengyl, ac ymrysoniadau ei Ysbryd, a beidiant. Ac nis gellir agor y nef i'r rhai a adewir ar ol, Mat. xxv. 10. Luc xiii. 25. Y mae *drws y ffydd* yn cael ei agoryd i'r Cenedloedd, pan y bydd gwahoddiad pendant i gredu yn cael ei osod ger eu bronau yn yr efengyl, a hwythau wedi penderfynu yn ddiysgog i dderbyn Iesu a'i holl gyfiawnder fel rhodd Duw, a'r ffordd o ddyfodfa dan ei nawdd a'i ymgeledd, Act. xiv. 27. Agorwyd *drws* grymus i'r apostolion, a gweinidogion ereill, pan y cawsant gyfleusdra, gyda golwg o lwyddiant, i bregethu y Crist i dorfëydd lluosog, 1 Cor. xvi. 9. 2 Cor. ii. 12. Dad. iii. 8. Y mae *drws ymadrodd* yn cael ei roddi i weinidogion y gair, pan y byddant yn cael eu cynnorthwyo gan Dduw i bregethu yr efengyl gydag eglurdeb, parodrwydd ac hyfder mawr, Col. iv. 3. Y mae gweinidogion yn *myned i mewn trwy y drws*, pan y byddant yn cael galwad rheolaidd oddi wrth Dduw i'w swydd, Ioan x. 1, 2. *Wrth y drws*, neu *o'i flaen*, a arwydda agosrwydd, a pharodrwydd i dystiolaethu yn ein herbyn, dyfod ar ein gwarthaf, neu i'n barnu, Gen. iv. 7. Mat. xxiv. 33. Iago v. 9. Duw yn gwneuthur dyffryn Achor yn *ddrws gobaith*, sydd yn addewid hynod ddarluniadol o obaith yr efengyl. Dyffryn Achor oedd y fan lle y cospwyd Achan; a lle y symmudodd Duw *drallod* Israel, trwy ddial ar y *diofryd*; gan ein haddysgu yn hynod fod y felldith wedi gwneuthur iawn drosti wrth groes Crist, a *drws gobaith* wedi ei agor i'r enog, Hos. ii. 15. Ioan iv.

DRYCH (*dry*, amlygwei). Yn y cynfyd, gwnaent ddrychau o bres caboledig, alcan, ariau, pres ac arian yn gymmysgedig, &c. Ffurfiwyd noe bres y babell o ddrychau, y rhai a offrymasai y gwragedd duwfol. Y mae gair Duw yn cael ei gyffelybu i *ddrych*, yr hwn sydd yn dangos i ni ein cymmeriad gwirioneddol, fel y gwna *drych* ddangos yr wyneb naturiol: ac y mae hyn yn un prawf tufewnol mawr o wiriondedd y Dadguddiad dwyfol, Iago i. 23, 25. Cyffelybir cyfraith Moses i *ddrych*, yn yr hwn yr oedd gogoniant yr Arglwydd yn cael ei osod allan, yn amrywiol ordinhadau cysgodol y gyfraith honno, 2 Cor. iii. 18.

DRYLL, (*rhyll*, hollt) darn, rhan. "Pa wraig a chanddi ddeg *dryll* o arian," Luc xv. 8. Yn ol y Groeg *deg drachma*. Yr oedd pob *drachma* o werth naw ceiniog. Nid oedd cyfoeth y wraig yn fawr, am hyny yr oedd yn rhoddi mwy o werth ar bob darn oedd ganddi; yn trafferthu llawer i chwilio am dano wedi ei golli, ac yn gorfoleddu yn fawr wedi ei gael. Yn y ddammeg y mae yr Arglwydd Iesu yn cyfiawnhau ei hun am ei fod yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwytta gyda hwynt. Ceisio y colledig yr oedd; ac mae hyn yn achos o gymmaint pwys a chanlyniad, fel y mae llawenydd yn ngwydd angelion Duw am un pechadur a edifarhao. Mae gwerth enaid yn fawr yn ngolwg angelion Duw, ac adferiad un pechadur yn peri llawenydd mawr iddynt. Ac os oes llawenydd yn ngwydd angelion Duw, pa faint mwy sydd yn y Duw mawr ei hun! Zeph. iii. 18.

DRYSOR, (*drws*) porthor. Y *drysor* sydd yn agor i'r Arglwydd Iesu, fel ein Bugail ni, yw ei Dad, yr hwn a'i derbyniodd ef i'w swydd: neu yr Ysbryd Glan, yr hwn trwy bregethiad yr efengyl, sydd yn ei arwain ef i mewn i wledydd, ac i galonau ei bobl; neu y prophwydi a Ioan Fedyddiwr, y rhai a ragfynegasant am ei ddyfodiad ef i'r byd, Ioan x. 3.

DU; tywyll, pyg-liw. Pan y priodolir *duwch* i byrth, croen, wyneb, gwisgoedd, arwydda cyfyngder mawr, tristwch a galar chwerw, Jer. viii. 21. a xiv. 2. Joël ii. 6. Mal. iii. 15, yn yr Heb; ond pan briodolir ef i wallt y pen, arwydda harddwch, go-oerder, ac iachusrwydd, Lef. xiii. 37. Can. v. 11. O herwydd eu llygredigaethau arosol a'u dyoddefiadau, mae yr eglwys a phobl Duw yn *ddu*: ond o herwydd ordinhadau Crist, cyfiawnder cyfrifedig, a gras planedig, y maent, ar yr un amser, yn *hawddgar*, Can. i.

5, 6. I nodi eu dychryn, eu hofn, 'u hanuhrefn, gelwir yr Iuddewon a'r Assyriaid yn *barddu*, Joel ii. 6. Nah. ii. 10. Y mae offern yn cael ei galw yn *niwl tywyllwch:* mor arswydus ydyw pob ymddangosiad yno! y fath boenau, dyryswch, anobaith, a thristwch tragywyddol! Judas 13.

DUGIAD, (*ug*, uchafiad) math o lywysogion a lywodraethient yn nysg yr Horiaid, yr Edomiaid, a'r Midianiaid; ac y mae y rhai diweddaf hyn yn cael eu galw *dugiaid* Sehon, o herwydd iddo ef eu dwyn i dalu teyrnged, Gen. xxxvi. 15, 21. Exod. xv. 15. Jos. xiii. 21.

DUR, (*ur*, sylwedd pur) malaen, feris. Haiarn ydyw *dur* wedi ei galedu trwy gymmysgedd o halen a brwmstan, a thrwy ei boethi i radd addas, ac yna ei drochi mewn dwfr oer. Mae yn gofyn gofal a medrusrwydd mawr i'w wneuthur yn galed ieb ei wneuthur yn frau. Yr Ellmyn, y rhai ydynt y mwyaf deallus yn y ffordd hon, a gymmerant arfynt gadw eu celfyddyd yn ddirgelwch mawr. Byddent gynt yn gwneuthur bwäau o ddur a phres, 2 Sam. xxii. 35. Job xx. 24.

DUW (*dy-yw*). Yr Un Goruchaf, Hollalluog, a Thragywyddol, o'r hwn y mae pob peth, a ninau ynddo ef. Pa mor anwybodus bynag yr oedd dynolryw am gymmeriad y *gwir Ddduw*, y mae pawb, yn mhob oes, wedi cyduabod mewn rhyw radd neu gilydd, bodoliaeth Duw. Nid oes, ïe, ni ddichon fod dyn na chred fodoliaeth Duw yn ystyr cyfiawn y gair; er hyny, nad oes Duw, yn cyfatteb i'r hanes ysgrythyrol am dano, y mae pawb, wrth naturiaeth, yn rhy barod i gasglu yn ynfydrwydd eu calonau. Y mae'r Gallu a'r Duwdod Tragywyddol yn amlwg i bawb mewn dwy ffordd, yn annibynol ar y Dadguddiad dwyfol; sef, (1.) Wrth y pethau a wnaed, Rhuf. i. 20. (2.) Wrth yr hyn a deimlwn, Act. xvii. 27, 28; am hyny, hyd yn nod a thybied fod dyn yn ddyeithr i Ddadguddiad, tra y mae dyn yn teimlo ei *fod*, rhaid iddo deimlo fod awdwr i'r bodoliaeth hwnw; tra y mae yn edrych o amgylch iddo, y mae gweithredoedd y greadigaeth yn arddangos y Gallu a'r Duwdod Tragywyddol. Pan y chwanegwn at y profion hyn dystiolaeth cydwybod (tyst dim llai argyhoeddiadol nag un o'r ddau flaenorol) gallwn haeru yn hyf, fod arddelwr annuwiaeth yn dwyllwr hollol. Felly tra y bu rhai yn adeiladu allorau i'r haul a llu y nefoedd, ac ereill, yn fwy didwyll, i'r Duw nad adwaenid, pa le bynag y llefarai dyn wirionedd, efe a addefai fodoliaeth Hanfod Goruchaf, digofaint yr hwn a haeddai ac yr arswydai rhagddo. Y mae chwilio cymmeriad Duw allan, wedi cymmeryd gwybodaeth a dysgeidiaeth dynion i fynu yn mhob oes; cawsant fod y pwngc yn bwysfawr; er fod y gorchwyl yn mhell tu hwnt i'w cyrhaeddiadau hwy, pa mor helaeth bynag, canys pwya all gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Job xi. 7. Heb un rheol arall i'w cyfarwyddo, amgen na'u doethineb eu hunain, pa fwyaf y chwiliasant, mwyaf i gyd yr ymddyrysasant; gan fyned yn ofer yn eu rhesymau, eu calonau anneallus hwynt a dywyllwyd; gan dybied eu bod yn ddoethion, tiriasant mewn ffolineb perffaith. Yn ysgrythyrau y gwirionedd, y mae Duw wedi dadguddio ei hun yn holl ogoniant ei gymmeriad, fel Bod Dwyfol. Mae y cymmeriad hwnw a dywyllwyd ac a gymmylwyd gymmaint gan athronyddion diweddar yn gystal a'r rhai Paganaidd, yn dysgleirio yn ngair Duw gyda llewyrch difrycheulyd. "Yr Arglwydd Dduw, trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o ddaioni a gwirionedd, yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, a heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn," &c. Exod. xxxiv. 6. Pan y cyhoeddwyd y crynodeb hwn o gynneddfau rhagorol Duw i Moses, "efe a frysiodd, ac a ymgrymodd tua'r llawr, ac a *addolodd*," adn. 8. Ac ni addolwyd Duw erioed yn *gymmeradwy*, ond gan y rhai hyny a arweiniwyd i'w addoli ef oddi ar amlygiad o'r cymmeriad hwn. Ond yn fwy neilldiol.

Yr enwau a briodolir i'r Duwdod yn yr ysgrythyrau, ydynt *El*, *Adonai*, a *Jehofah*; ac y mae gan y rhai hyn eu harwyddocâd priodol, yn gyfaddasi'r cymmeriadau yn mha rai y rhyngodd bodd i Dduw ddadguddio ei hun.

Y brif wybodaeth mewn perthynas i'r Duwdod, yr hon nid allasai ond Dadguddiad yn unig ei hamlygu, yw athrawiaeth y Drindod. Oddi wrth air Duw yn unig, gallem ddysgu, er mai *un* yw y Duwdod (Clyw, O Israel; yr Arglwydd ein Duw ni sydd *un* Arglwydd) etto fod yr un Duw hwnw yn cael ei amlygu mewn tri chymmeriad gwahanol, sef y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan. Er fod y gwahaniaeth hwn yn y Duwdod yn golygu yn benaf y gwaith mawr o brynedigaeth dyn, etto yr oedd yn weledig yn ngweithredoedd y greadigaeth, pan yr ymddangosodd yr *Elohim* (y rhif lluosog o *El*) yn gweithio, pob un yn eu gwahanol weithredoedd; i gadarnhau yr hyn, angenrheidiol yn unig ydyw crybwyll, fod y geiriau *Jehofah* ac *Elohim* i'w gweled fwy nag unwaith yn y bennod gyntaf o Genesis, fel enwau y Duwdod. Haerwyd gan rai yn eithaf annheg, fod y gair *Elohim* yn cael ei arfer yn y rhif lluosog, fel y defnyddia gwyr enwog y rhagenwau lluosog *ni* ac *ein*, er gosod allan eu hurddas. Ond i beidio dal ar yr hyn sydd yn gwbl sicr, sef fod iaith yr ysgrythyr, yn mhob enghraifft arall, yn wrthywyneb i'r haeriad hwn, trwy arfer y rhif unigol yn barhaus, pan y bydd y naill neu y llall o'r tri Pherson yn y Duwdod yn llefaru yn wahanredol; ac yn gyffredin yn arfer prif-eiriau (*verbs*) a rhagenwau yn y rhif unigol gyda'r enw lluosog *Elohim;* y mae amryw fanau lle y mae yn analluadwy gwyrdroi ystyr geiriau i'r ystyr hwn; megys, "A Jehofah Elohim a ddywedodd, Wele y dyn sydd megys un o honom ni, i wybod da a drwg," Gen. iii. 22; *un o honom ni*, o angenrheidrwydd ac yn anocheladwy, a arwydda luosogrwydd o bersonau. Nis gall unrhyw ymresymiad ddiddymu nerth yr enghraifft hwn a llawer o'r cyffelyb a ellid eu dwyn, pe caniattai ein terfynau; gan brofi yn unfryd, fod athrawiaeth y Drindod, yn y dadguddiadau boreuaf a wnaeth Duw o hono ei hun i enog ddyn, yn cael ei ddysgu yn eglur. Felly, yn yr adnod a grybwyllwyd eisoes, y mae y gorchymyn mawr yn y gyfraith yn cael ei arwain i mewn gyda'r rhybudd hynod hwn, "Clyw, O Israel, Jehofah, ein Elohim, sydd un Jehofah;" addefir gan bawb mai y gair Jehofah yw yr enw priodol i osod allan yr hyn a ellir ei alw *hanfod* y Duwdod; y mae yn tarddu oddi wrth brifair a arwydda *bod*, ac am hyny yn cynnwys, *Bod, Hanfodiad;* sef yr hwn sydd, oedd, ac sydd i ddyfod. Nis goddef rif lluosog; am hyny, nis gallai fod achos am y mynegiad mai un yw y *Jehofah;* ond fod yr *Elohim*, sef y Jehofah hwnw a ymddangosodd mewn tri chymmeriad gwahanol fel Elohim, er hyny, yn Un Jehofah, sydd yn wirioneddd a *ddadguddiu* yr ysgrythyrau, a *wrthwyneba* anghredinjaeth, ac nas gall rheswm ei amgyffred.

Ymchwiliad manwl i'r ysgrythyrau a ddengys mai y gair *Jehofah* yw yr enw hwnw ar y Duwdod, yn mha un y mae y Dwyfol Dri neu y Duwdod yn cael eu gwahaniaethu; ac felly darllenwn am Enw y Jehofah, *Gair* y Jehofah, ac *Angel* y Jehofah: gan gyfeirio at wahanol weithrediadau ein Duw a'n Hiachawdwr, yr hwn, yn y gwaith mawr o brynu yr euog, a ymddangosodd fel yr Enw, y Gair, a'r Angel, tra na thybiodd yn drais i chwanegu *Jehofah* at y swyddau hyn o'r eiddo. Yn yr un modd y mae amryw adnodau o'r Hen Destament, yn crybwyll am drydydd cymmeriad, gyda phriodoleddau o weithrediad fel person gwahanol, dan yr enw neu y teitl o Ysbryd y *Jehofah*. Ac nid yw lluosogrwydd yr un Duw i'w gael yn y cyfryw enghreifftiau â'r rhai hyn a grybwyllwyd yn awr yn unig; (gwel y gair *Angel*) ond ni chawn, pa fodd bynag, ddal ein darllenwyr ond yn unig tra y crybwyllom yma am yr ail a'r 110 Salm, lle y sonir am Faboliaeth Iesu Grist, a hyny mewn modd a rydd belaeth gadarnhad nad oedd yr addolwyr dan yr Hen Destament yn anhysbys o'r athrawiaeth bwysig hon; fe, ceir brenin Cenedlig gyda syndod yn dywedyd, *Dult y pedwerydd sydd debyg i Fab Duw.*

Y golygiad hwn ar athrawiaeth y Drindod megys ei cynnelir o ben bwy gilydd i ysgrythyrau yr Hen Destament, a'n cynnysgaetha â'r rhesymau mwyaf boddhaol am y dull yn mha un y llefara Crist a'i apostolion am y *Tad*, y *Mab*, a'r *Ysbryd Glan*, fel

Personau gwahanol yn y Duwdod, megys peth digon adnabyddus a dealladwy; ac amgylchiad hynod arall yw, er i'r apostolion gyfarfod â'r fath wrthwynebiad i'w hathrawiaethau, a bod holl ddysgeidiaeth y Cynghor Iuddewig ar waith i'w gwrthddywedyd, etto nid ydym yn cael cymmaint ag un enghraifft o'u bod yn cymmeryd arnynt wrthwynebu athrawiaeth y Drindod, yr hon oedd mor amlwg yn sylfaen y cwbl a ddysgent. Cawn hwynt yn gwadu yn egniol, ïe, yn erlid i farwolaeth, pawb a haerent mai Iesu, yr hwn a roddasid i farwolaeth yn Jerusalem, oedd y *Crist*, neu ei fod yn *Berson Dwyfol:* ond ni chawn hwynt byth yn cadarnhau nad oedd gwahaniaeth personau yn y Duwdod, yr hyn, pe gallasent ei wneuthur, a ddadymchwelasai ar unwaith y cwbl a ddywedai yr apostolion. Yn y cyffelyb fodd, pan holwyd Crist ei hun gan y llywiawdwyr, nid amheuasant mewn modd yn y byd yr athrawiaeth a grybwyllai am *Fab Duw*, er eu bod yn cydnabod bob amser mai gwneuthur ei hun yn *Dduw* oedd hyn, ond arholiou yr archoffeiriaid a redent yn barhaus, "A ydoedd efe yn honni bawl i'r cymmeriad hwn?" . Gan y rhai a fuant yn myfyrio ar darddiad addoliaeth y Paganiaid, yr hwn, mewn pob dull bron ag yr ymddangosodd, sydd wedi bod yn llygriad o'r un Gristionogol, nid ystyrid ef yn sylwad anfuddiol, fod hadau cyntaf eilunaddoliaeth yn addef lluosogrwydd yn y Duwdod. Rahel a ladrattâodd, nid *delw* Duw, ond *delwau*. Nid *Zeraph* ond *Zeraphim* oedd y duw teuluaidd; oddi wrth hyn y deillia y lluosogrwydd duwiau yn ffug chwedlau y Paganiaid; ac nid yw yn anmherthynol i'n perwyl i sylwi yn ychwaneg, fod yn amlwg nad oedd Jupiter eu tywysog ar y cyntaf ond *Jovispater*, neu lygriad o'r gair *Jehofah*.

Dylid gwneuthur rhyw anddiffynliad dros feddiannu cymmaint o'r dalenau cyfyng hyn gan un pwnge neilldu ol; nid oes genym ond un i'w gynnyg, sef ei bwysfawredd. Gydag athrawiaeth y Drindod, y mae y cyfan o'r dadguddiad dwyfol yn sefyll neu yn syrthio; ac, am hyny, dichon y bydd yn awr yn gymmwys i ystyried canlyniadau yr athrawiaeth hon, trwy chwilio y rhesymau a roddir i ni yn yr ysgrythyr am y dirgelwch mawr duwioldeb hwn. "Gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, wedi iddo ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio tywysog eu Hiachawdwriaeth hwy trwy ddioddefiadau," Heb. ii. 10. Er cyflawni y cynllun gogoneddus hwnw, a arfaethwyd mewn dwyfol ras cyn dechreuad y byd, sef yr amlygid gogoniant y Duwdod yn y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan; yr anfonai Duw ei Fab, yn nghyflawnder yr amser, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur, dros ychydig, yn is na'r angelion; y cymmerai afael yn had Abraham, ac y profai farwolaeth yn lle ei euog bobl; y cyfodai, gwedi iddo wneuthur iawn dros ein pechodau trwy ei waed ei hun, drachefn y trydydd dydd, ac y coronid ef â gogoniant ac anrhydedd ar ddeheulaw y Tad, fel Pen pob peth i'w eglwys; y teyrnasai yno ger bron ei henafiaid yn ogoneddus, nes y darostyngai bob llywodraeth, y gorchfygai bob gelyn, y cyflawnai y swydd honno er mwyn pa un y cyfrannogasai o gig a gwaed, ac y rhoddai i fynu y deyrnas wedi ei pherffeithio i Dduw, sef y Tad, fel y byddai Duw oll yn oll. I gyd-weithredu yn y cyflawniad o'r gorchwyl mawr hwn, parottodd yr Ysbryd Glan gorph ein Harglwydd yn mru y Wyryf; cynnaliodd a chyfarwyddodd ef yn yr holl waith a roddodd y Tad iddo i'w wneuthur; ac, yn awr, y mae yn gweithio ar holl lestri trugaredd, gan eu parottoi i'w sefyllfaoedd yn y deyrnas nefol.

Y mae y gwirioneddau mawrion hyn o eiddo Dadguddiad wedi bod, am hir amser, yn ffol'neb i'r doethion. Yr hanes hwn am y Duwdod, nis gallasai doethineb ddynol ei amlygu, ïe, nis gall yn awr ymostwng iddo, o herwydd ei fod tu hwnt i gyrhaeddiad terfynedig ei galluoedd gwcinion hi. Ond, cymharwn Dduw *dadguddiad* â duw *athroniaeth;* meddyliwn ei fod wedi ei wisgo â'r addurniadau harddaf a all doethineb ddynol eu dychymmygu, neu ddysgeidiaeth eu darlunio, seirch gwaelion coeg-ddysglaer ydynt, ar y gorcu, pan eu cymharir â goleuni yr

efengyl ogoneddus, fel y mae yn dysgleirio yn wyneb Iesu Grist. Y mae amlygiad o'r gogoniant dwyfol wrth groes Crist; y mae gogoniant ag sydd yn goleuo cymmeriad Duw a Thad ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist; y mae dysgleirdeb gogoniant o eiddo y Tywysog a'r Iachawdwr derchafedig, yr hwn a wnaeth i ddysgybl Gamaliel syrthio i'r llawr yn grynedig a syn; gall balchder rheswm dynol, a gelyn pob cyfiawnder, yn awr dywyllu y gogoniant hwn yn meddyliau y rhai colledig; ond pan dywyna bore y diwrnod hwnw, am ba un y dywedir, *Wele, y mae efe yn dyfod gyda'r cymmylau, a phob llygad a'i gwel ef*, pob tafod a gyffesa fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad, Dad. i. 7. Phil. ii. 11.

Wrth ffurfio ein meddyl-ddrychau am ragoroldeb gogoneddus y cymmeriad dwyfol, nis gallwn gymmeryd gwell crynodeb o hono, na hwnw a grybwyllwyd eisoes, Exod. xxxiv. 5, 8, yr hwn a gyhoeddwyd mewn attebiad i ddeisyfiad Moses, "Dangos i mi dy ogoniant." Rhaid fod yr olwg sydd genym ar ogoniant unrhyw wrthddrych, yn cyfatteb i'r cyfrif a wnawn o'r gwrthddrych hwnw. Y peth sydd aumhrisiadwy o ran gwerth gan un dyn, sydd dom a cholled gan un arall. Nid yw, gan hyny, i'w ryfeddu, nas gall y coelgrefyddwr hunan-gyfiawn, y moesolwr neu yr athronydd balch, ganfod dim gogoniant yn y cymmeriad hwn o eiddo Duw a gyhoeddwyd i Moses: pa mor gyfiawn y dywed Paul, "Yr hwn nid adnabu neb o dywysogion y byd hwn, onidê ni chroeshoeliasent *Arglwydd y gogoniant*," 1 Cor. ii. 8. Yr adyn euog yr hwn sydd mewn angen am hir-ymaros, trugaredd, a gras diderfyn, yr hwn nid yw yn gweled dim rhyngddo a barn gyfiawn Duw, ond sicrwydd y gwirionedd hwn, sef ei fod yn cadw trugaredd i filoedd, a genfydd ogoniant yn y cymmeriad hwnw yn fwy yspleny dd na'r haul yn dysgleirio yn ei nerth; y cyfryw adyn sydd â llygaid ei ddealltwriaeth wedi eu hagor i weled pa mor ogoneddus y mae yr holl briodoliaethau hyn yn llewyrchu yn Nghrist, a hwnw wedi ei groeshoelio, a ddeall rym iaith Paul, *Na atto Duw i mi ymffrostio ond yn Nghroes ein Harglwydd Iesu Grist*, &c. Gal. vi. 14. Pan y mae yr eglwys yn mynegu ei gobaith fod iachawdwriaeth Duw yn agosbau, Salm lxxxv. 9, 13, ac y trigai gogoniant yn y tir, cân, fel yn darluniо y gogoniant hwnw, "*Trugaredd* a *gwirionedd* a ymgyfarfuant; *cyfiawnder a heddwch* a ymgusanasant." Pa fodd y gall hyn fod? "*Gwirionedd* a dardda o'r ddaear." sef, pan aned Crist, yn yr hwn y mae holl addewidion Duw yn ïe ac yn amen, o'r Forwyn; *Cyfiawnder* a edrych i lawr o'r nefoedd," pan fynegodd y Tad cyfiawn ei fod wedi ei lwyr foddloni; ïe, yr Arglwydd a rydd i *ti ddiunge*." Diolch i Dduw am ei ddawn anuhraethol!

Amryw o athrawon diweddar a feddant dueddiad mawr i fenthyccio cyfenwau uchel-seiniol yr athronydd wrth annerch y Duwdod; y mae yn swnio yn fwy tebyg i'r ysgrythyrau, i annerch Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, wrth yr enw *Tad y trugareddau*, nag wrth un cyfenw rhwysgfawr arall pa bynag. Nid fod angen i'r *Cristion* betruso cymharu cofnodau â'r *athronydd*, hyd yn nod ar ei dir ei hun. Ystyrir gweithredoedd y greadigaeth megys yr amlygiad mawr o'r cymmeriad dwyfol; ac, fel y dywedwyd eisoes, y gweithredoedd hyn a gynnysgaethant dystiolaeth ddiamheuol o'i allu a'i Dduwdod tragywyddol ef; ond y mae yr ysgrythyrau yn agor i ni olygiad mwy helaeth hyd yn nod ar y pwngc hwn nag y breuddwydiodd *Plato* erioed am dano. Arweiniant ni i weled mai y dyben cywir er mwyn pa un yr ymddangosodd y Duwdod fel Tad, Mab, ac Ysbryd Glan, oedd, fel y dysgleiriai eu gogoniant gyda llewyrch dauddyblyg ar y *greadigaeth newydd*. Yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddd faingc a ddywedodd, Wele! yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd, Dad. xxi. 5. A ydyw gallu Duw yn weledig yn ffurfiad dechreuol pob peth, a'u cynnaliaeth: pa faint mwy yr amlygir ef yn adgyfodiad y meirw, pan y seinia yr udgorn diweddaf; pan y gwisg llygredigaeth anllygredigaeth; pan y cyfodir yr holl dyfa waredigol o'r llwch, gyda chyrph wedi eu ffurfio yn debyg i'w Har-

glwydd gogoneddus; pany gorphenir y nefoedd newydd a'r ddaear newydd; mewn gair, pan y cyflewnir dirgelwch Duw, yna y gwelir ei ogoniant crëedigol ef mewn perffeithrwydd. Dywedwyd yn fynych, Os yw y greadigaeth *yn awr* yn ymddangos mor ogoneddus, pa beth a raid ei bod yn Eden; pan ymddangosodd Adda yn berffaith o ddwylaw ei Wneuthurwr, a'r cwbl o amgylch iddo mewn cyssondeb a dedwyddwch? Onid allwn ddwyn y pwngc yn anfeidrol bellach, a dywedyd, Os oedd y gallu crëedigol yn ogoneddus yn y Baradwys gyntaf, pa mor ogoneddus a fydd ef yn yr ail! Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef. Gall dynion, am hyny, siarad mewn ffordd gyffredinol yn nghylch gallu, daioni, a phriodoliaethau ereill Duw: ond oddi wrth yr ysgrythyrau yn unig y gallwn ffurfio unrhyw beth tebyg i feddyl-ddrychau cywir hyd yn nod am y priodoliaethau hyn. Yn wir dywedwyd yn gymmwys, mewn amryw olygiadau, *Yn awr gweled yr ydym trwy ddrych mewn dammeg*, neu *yn dywyll*, 1 Cor. xiii. 12.

Gwedi chwyddo yr erthygl hon yn fwy na chyffredin, rhaid i ni gyfeirio ein darllenwyr at y geiriau priodol am eglurhad mwy neilldiol o'r fath ymadroddion â Duw y *gogoniant*, y *gobaith*, yr *heddwch*, &c. Y mae yn cael ei elw *Duw y duwiau*, megys uwchlaw pawb a elwir yn *dduwiau*, ac a addolir; y *bywiol* a'r *gwir* Dduw, mewn gwrthwynebiad i bob eilunod, &c. Y mae yn cymmeryd iddo ei hun yr enw *Duw Abraham*, *Isaac*, *a Jacob*, ac hefyd Duw Israel, o blegid y cyssylltiad neilldiol a ffurfiodd efe â hwynt o ran ei gyfammod (gwel y gair *Cyfammod*). Weithiau, er mynegu ardderchogrwydd neu ragoroldeb pethau, gosodir hwy allan megys *o Dduw*; felly dywedir fod Moses yn *dlws* i *Dduw*, Act. v. 20. Cedrwydd uchelwych a elwir *prenau yr Arglwydd*, Salm civ. 16. Dychryn mawr a elwir *dychryn Duw*, 1 Sam. xiv. 15. I gynorthwyo ein meddyliau gweinion i ffurfio amgyffrediadau am Dduw, ac i'w cadw bob amser dan argraphiad dwys o'i bresennoldeb a'i natur, priodolir anwydau aneirif perthynol i greaduriaid, yn enwedig dynion, i Dduw; i ddeall pa rai, rhaid i ni gofio yn wastad ei fod ef yn Ysbryd tra phur, a bod yr anwydau hyn yn gosod allan yr hyn, yn ei natur ysbrydol neu ei waith ef, sydd yn cyfatteb iddynt. Felly o herwydd fod *llygaid* mewn dynion yn offerynol i ganfod gwrthddrychau, ac i arwyddo cariad, tosturi, hyfrydwch, neu ddigofaint, rhaid i ni eu hystyried, pan eu priodolir i Dduw, fel yn dynodi ei wybodaeth, ei ddoethineb, ei ewyllys da, neu ei lidiogrwydd. O herwydd fod y *dwylaw* yn offerynau o weithrediad, o gynnaliaeth garedig, o ymgofleidiad serchog, neu i roddi dyrnodiau digllawn, pan briodolir y rhai hyn i Dduw, rhaid eu bod yn dynodi ei allu, a'i ymarferiad caredig neu ddigllawn o hono, &c.

Y mae yr angelion yn cael en galw yn *dduwiau*, o blegid eu natur ragorol, a'u bod yn mynegu meddwl Duw, ac yn cyflawni ei waith fel ei raglawiaid; a gofynir iddynt addoli Crist, pan ddistrywiwyd eilunod y Cenedloedd, Salm xcvii. 7. Heb. i. 6. Gelwir swyddogion gwladol yn *dduwiau*; dylent ymdebygoli yn hynod i Dduw mewn doethineb ac uniondeb; ac, fel ei raglawiaid, y maent yn llywodraethu ar ereill, Exod. xxii, 28. Salm lxxxii. 1. 6. Ioan x. 34. Y mae Moses yn cael ei alw yn *dduw*, o herwydd ei fod yn rhaglaw Duw wrth waredu yr Israeliaid, Exod. iv. 16, a vii. 1. Gelwir Satan yn *dduw y byd hwn*; credir ef, ufuddheir iddo, ac addolir ef, dan amrywiol ddulliau, gan y rhan fwyaf o ddynolryw, 2 Cor. iv. 4. Gelwir eilunod yn *dduwiau*, o herwydd fod eu heiddunwyr yn eu haddoli, eu mawrhau, ac yn ymddiried ynddynt, 1 Bren. xi. 33. *Duwiau dyeithr*, neu *ereill*, ydynt: nid oedd yr Hebreaid, yn y dechreuad, mewn cyfammod â hwynt, Deut. xxxii. 16. Barn. ii. 12; a byddai y mwyaf duwiol yn eu plith, o herwydd eu ffieiddiad o honynt yn gochelyd llefaru eu henwau: ac am hyny gosodent *Boseth* neu *Beseth*, h. y. *cywilydd*, yn lle *Baal*, wrth enwi rhai personau; felly yn lle Esbaal, Meribaal, a Jerubbaal, dywedent Isboseth, Mephiboseth, a Jerubbes-

eth; ac weithiau galwent hwynt Elilim *diddym*, Ezec. xxx. 13. Bol dynion yw eu *duw*, pan y byddant yn gofalu yn benaf i ddarparu ar ei gyfer a'i foddio, Phil. iii. 19.

DUWIOLDEB, *(duw)* a ellir ei ystyried megys yn cynnwys yr holl ddadguddiad, fel y crybwyllwyd yn fyr yn yr erthygl flaenorol; felly, medd Paul, "Mawr yw dirgelwch *duwioldeb*," 1 Tim. iii. 16. Mewn adnodau ereill arferir y gair fel yn gyfystyr â *duwiol*, yr hyn sydd yn deilliaw oddi wrth Dduw; felly *duwiol dristwch*, yw y tristwch nad all neb ond Duw ei beri, ag sydd yn gweithio edifeirwch, 2 Cor. i. 12. *Ofn duwiol*, yw yr ofn hwnw o Dduw pa un yw dechreuad doethineb; a *dyn duwiol*, yw yr hwn sydd yn caru Duw oddi ar deimlad o lawer o faddeuant.

DWFR, *(dwf,* ymlithriad yn mlaen) a arwydda nid yn unig yr hyn a elwir felly yn briodol, ond bron bob math o wlybwr, megys *dagrau*, Jer. ix. 1; *gwlaw*, Job xxii. 11; a *chymmylau*, Salm civ. 3; a phob peth addas i'w *yfed yn ddiod*, 1 Sam. xxv. 11. Esa. xxxiii. 16. Y mae dwfr o natur lanhaol, adfywiol, a iachaol, ac yn rhodd gyffredin a rhad Duw i ddynion; ond y mae ffrydiau o hono weithiau yn drystfawr a dinystriol. Iesu Grist, ei Ysbryd, ac ordinhadau yr efengyl, a gyffelybir i *ddyfroedd tawel*, a *ffrydiau, dwfr bywiol*, neu *ddwfr y bywyd*. Mor helaeth! mor rhad! fel y mae yr Iesu, a'i gyfiawnder, a'i iachawdwriaeth, yr Ysbryd Glan a'i ddylanwadau, a gwirioneddau ac addewidion yr efengyl dragywyddol, yn cael eu cyfaddasu, eu cynnyg, a'u ₤cyfranu i luoedd! ac mor effeithiol, pan eu cymhwyser, y maent yn glanhau cydwybodau, calonau, a bucheddau dynion! fel y maent yn adfywio ein heneidiau, ac yn iachau ein doluriau ysbrydol! fel y maent yn ymdaenu ac yn gorchfygu, yn anwrthwynebol, pob peth a saif ar eu ffordd; fel y maent yn amddiffyn rhag perygl, yn cyfoethogi, ac yn ffrwythloni mewn gweithredoedd da! mor *dawel*, dwfn, hyfryd, a helaeth! ac fel y maent yn cenedlu, yn adferu, yn cynnal, ac yn perffeithio bywyd ysbrydol yn ein heneidiau! fel y maent yn rhedeg yn awr i'n byd Cenedlig anial ni! Can. iv. 15. Dad. xxii. 17. Salm xxiii. 2. Esa. xxxii. 21, a xxxv. 6. Ezec. xlvii. 1—11. Crist a ddaeth trwy *ddwfr* a gwaed; trwy sancteiddrwydd natur, bywyd ufudd, ac angau gwaedlyd; neu gyda chyflawnder o ddylanwadau ysbrydol ac iawn gwaedlyd, er ein cyflawnhau a'n sancteiddio, 1 Ioan v. 6. O herwydd fod yr Iuddewon yn cynnal eu marchnadoedd ₤ysgod ar lan y dwfr, hwyrach fod y *dyfroedd* yn Esa. lv. 1, yn arwyddocau ordinhadau yr efengyl, fel marchnad-leoedd i brynu, h. y. derbyn Iesu Grist a'i gyflawnder yn ystyriol ond yn rhad. Y mae *dyfroedd* gwirioneddau ac ordinhadau dwyfol yn myned yn chwerwon pan y llygrir hwynt â chyfeiliornadau a choelgrefydd, Dad. viii. 11. Beth bynag a fydd yn tueddu i gyssuro, a elwir yn *ddyfroedd*; yr hyfrydwch a fwynha dynion yn y cyflwr priodasol, a elwir yn *ddyfroedd*, a *dyfroedd rhedegog* neu *groywon*, yn llawer mwy hyfryd mewn gwirionedd na phleserau godineb, y rhai a elwir yn *ddyfroedd lladrad*, Diar. v. 15, a ix. 17; a gosodir eilunod allan fel pydewau toredig, *na ddaliant ddwfr*, h. y. nad allant weini dim cynnorthwy neu gyssur gwirioneddol, Jer. ii. 13. Y cyflwr o gaethiwed yn Babilon, a chyflwr natur lygredig, a osodir allan fel *carchar heb ddwfr ynddo*, h. y. dim cyssur gwirioneddol, Zec. ix. 11. Cynnydd toreithiog a gogoniant yr eglwys efengylaidd, a gyffelybir i *ffrwd lifeiriol*; yn y fath dorfeydd, ac yn y fath drefn hyfryd a hardd y daeth y Cenedloedd, er gwaethaf amryw wrthwynebiadau at Iesu a'i wirionedd! Esa. lxvi. 12. Torfeydd o ddynion, megys byddinoedd, erlidwyr, a gyffelybir i *ddyfroedd*; mor lluosog a thrystfawr! fel y maent yn ymdaenu, yn dwyn i lawr, ac yn distrywio pob peth o'u blaen! Dad. xvii. 15. Esa. viii. 7, a xvii. 21. Salm cxxiv. 5. Mae dynion *fel dyfroedd wedi eu tywallt ar y ddaear*; pan fyddont feirw unwaith, nis gellir eu hadferu i fywyd drachefn, ond yn wyrthiol, 2 Sam. xv. 14. Dynion annuwiol ydynt yn *gyflym fel dyfroedd*; ac yn *toddi fel dyfroedd*; nid ydynt i hyderu arnynt; ac mor fuan y derfydd am

danynt, ac y gwthir hwynt i'r cefnfor o lidiogrwydd dwyfol, ac y teimlant dân digofaint Duw! Job xxiv. 18. Salm lviii. 7. Gelynion Job a ddeuent i mewn megys *dwfr trwy adwy lydan*, yn lluoedd aneirif, a chyda nerth mawr, i ûno a dadymchwelyd, Job xxx. 14. Cyngor yn *nghalondyn sydd megys dyfroedd dyfnion;* meddyliau a bwriadau difrifol ydynt yn bur a sefydlog, ac yn anhawdd dyfod o byd iddynt, Diar. xx. 5. Geiriau genau gwr ydynt fel *dyfroedd dyfnion*, a ffynnon doethineb megys *afon yn llifo;* addysgiadau da ydynt yn guddiedig ac adfywiol i eneidiau dynion, Diar. xviii. 4. Y mae barn yn rhedeg fel *dyfroedd*, a chyfiawnder fel *ffrwd gref*, pan y bydd uniondeb a chywirdeb mawr wrth farnu matterion, ac uniondeb a sancteiddrwydd yn cael eu harfer yn mhob lle, ac yn peri i anwiredd gywilyddio i ymddangos, Amos v. 24. DigofaintDuw, dychrynïeydd, sef ofnau a thrallodion mawrion, cystuddiau a phrofedigaethau, a gyffelybir i *ddyfroedd:* mewn pa fath fodd grymus ac anwrthwynebol y maent yn ymosod ar ddynion weithiau! ac mor ofnadwy, dyrys, a dinystriol ydynt! Esa. xxx. 28, 33. Job xxvii. 20. Salm lxix. 1. Can. viii. 7. Fel y mae *dyfroedd* a ffrydiau yn attal y ffordd, gelwir rhwystrau dyfodfa i'r eglwys, i wlad Canaan, yn *ddyfroedd*, Dad. xvi. 12. Esa. xi. 15. Fel y mae *dyfroedd* neu ffrydiau yn llifo o ffynnonau, gelwir plant neu biliogaeth dynion yn *ddyfroedd*, Esa. xlviii. 1. Deut. v. 16.

DYFRHAU, yw, (1.) Gwlychu, Salm vi. 6. Gen. ii. 6. (2.) Cysuro, adfywio, a ffrwythloni; felly y mae Duw yn *dyfrhau* ei eglwys bob moment, trwy gyfraniadau newyddion o'i gariad a'i Ysbryd, Esa. xxvii. 3: ac y mae gweinidogion yn *dyfrhau* yr eglwysi, trwy aml bregethiad o wirioneddau dwyfol iddynt, fel y bydd y garddwyr yn dyfrhau gwelyau y per-lysiau yn amser sychder, 1 Cor. iii. 6—8.

DWYN, cludo, cymmeryd ymaith. "Wedi iddo *ddwyn* meibion lawer i ogoniant," Heb. ii. 10. Y gair *dwyn*, yn y fan yma, a arwydda holl drefniadau a gweithrediadau gras, cariad, a doethineb dwyfol; yn y gorchwyl mawr hwn o ddwyn meibion lawer i ogoniant; yn gyntaf, yn eu gwneuthur yn feibion, ac wedi hyny eu dwyn, nid i Ganaan, ond i *ogoniant*. Yr oedd yn rhaid symmud yr holl rwystrau oddi ar eu ffordd; a chwedi hyny, eu dwyn bob un yn bersonol, o holl ddyfnderoedd pechod, llygredigaeth, a melldith, i ogoniant yn gyflawn. Yr oedd y rhwystrau yn fawrion, sef gofynion cyfiawnder dwyfol, a melldith y ddeddf; holl alluoedd y tywyllwch, a llygredigaethau eu calonau eu hunain; gorthrymderau y byd, a nerth angau. Pwy a fuasai yn cynnwys y fath amcan o ddirfawr bwys, ond Duw!

DWYFRON (*dwy-bron*). 1. Y barwyden neu ran flaen anifel, Exod. xxix. 26. (2.) Didenau neu dethau, Gen. xlix. 25. (3.) Amgeleddau a chynnorthwy, y rhai, fel llaeth, a gryfhant ac a gyssurant, Esa. lx. 16. *Parwyden* ac *ysgwyddog ddehau* yr hedd-offrymau a roddid i'r offeiriaid, a allant fod yn arwyddocau ymborthiad ysbrydol y saint trwy ffydd, ar gariad, arfaethau, a gallu ein Prynwr bendigedig, Num. xviii. 18. *Dwyfron* yr eglwys, yw ei dau Destament ysbrydoledig, ei hordinhadau a'i gweinidogion. Cyffelybir amherodraeth y Persiaid i *ddwyfron* a *breichiau o arian*, i ddynodi y callineb, y dynoliaeth, a'r gwroldeb, trwy ba rai y sylfaenwyd hi, yn nghyd â'i chyfoeth, Dan. ii. 32.

DWYFRONNEG, (1.) Rhan o wisgoedd sanctaidd yr archoffeirad dan y gyfraith. Yr oedd o ddeutu deg modfedd bedair ongl, ac yn gynnwysedig o ddarn dau-ddyblyg o'r un defnydd godidog cyfrodedd â'r ephod. Yr oedd arni ddeuddeg o wahanol feini gwerthfawr, wedi eu gosod mewn boglynau aur, un i bob llwyth o'r Hebreaid. Yr oedd y rhai hyn wedi eu gosod yn bedair rhes; yn yr uchaf yr oedd sardius, topas, a smaragdus, i Reuben, Simeon, a Lefi; yn yr ail yr oedd carbuncl, saphir, ac adamant, i Judah, Dan, a Naphtali; yn y drydedd yr oedd ligur, acat, ac amethyst, i Gad, Aser, ac Issachar; yn yr isaf yr oedd beryl, onics, a jaspis, i Zebulon, Joseph, a Benjamin. Yr oedd hon yn cael ei sicrhau ar ddwyfron

yr archoffeiriad. Wrth y ddau gwrr uchaf, sicrheid hi wrth ei ysgwyddau ef; wrth y ddau oddi tanodd, sicrheid hi wrth wregys yr ephod; wrth ei gwisgo, byddai yn dwyn y deuddeg llwyth, megys ar ei galon, ger bron yr Arglwydd. Gelwir hi *dwyfronneg y farnedigaeth*, am ei bod yn cynnwys yr Urím a'r Thumím, trwy ba raí y byddai Duw yn cyfarfyddo yr Hebreaid mewn achosion o bwys ac anhawsdra. Onid oedd hi yn gosod allan eglwys a gwir aelodau Crist, wedi eu sicrhau yn y cyfammod newydd, a'u gosod megys sêl ar galon Crist, ac yn cael eu cyfiawnyo yn barhaus yn ei eiriolaeth drostynt fry yn y nefoedd? Exod. xxviii. 15—30.

(2.) *Dwyfronneg*, sydd ddarn o arfogaeth amddiffynol i ddiogelu y galon, 1 Bren. xxii. 34. *Dwyfronneg* y saint yw *cyfiawnder* cyfrifedig Crist, yr hwn sydd yn diogelu ein heneidiau rhag melldithion a dychrynfëydd y ddeddf, rhag ofnau caethwasaidd o lid Duw, a rhag piccellau tanllyd profedigaeth, Eph. vii. 14.

DWYRAIN (*dwyr*, cyfodiad). Geilw yr Hebreaid y Dwyrain, *tu blaen;* y Gorllewin, *tu ol;* y Dehau, *y ddeheulaw;* y Gogledd, *yr aswy*, yn ol cyfead gwr a fyddai â'i wyneb tua chodiad haul. Wrth y dwyrain, deallent nid yn unig Arabia Ddiffaith, lle y preswyliai y Midianiaid, y Moabiaid, a'r Ammoniaid, &c., Barn. vi. 3. Job i. 3, ond hefyd Mesopotamia, Caldea, Persia, Assyria, Media, Armenia, a gwledydd ereill a orweddent o du y dwyrain i Canaan. Dywedir am Balaam, Cyrus, a'r Doethion, iddynt ddyfod o'r *dwyrain*, Num. xxiii. 7. Esa. xlvi. 11. Mat. ii. 1; a gelwir yr Assyriaid a'r Caldeaid yn wynt y *dwyrain*, Hos. xii. 1. Jer. xviii. 17. Y mae dehonglwyr wedi gwneuthur cynnwrf mawr pa fodd iygallai Noah a'i feibion *ymdeithio o'r dwyrain*, a dyfod i wlad Sinar. Ond pa mor naturiol oedd iddynt ymdeithio yn y cyfeiriad hwn, pan y mae mynydd Masius, ar ba un y tybir i'r arch orphwys, yn nghylch 100 milltir, neu ddwy radd, o du y dwyrain i Sinar. Bwrier fod y mynydd lle gorphwysodd yr arch, yn y gorllewin, pa mor hawdd oedd i deulu Noah gymmeryd hynt gylchynol, ac, o'r diwedd, symmud tua'r gorllewin? Gen. xi. 2.

DYBLYG. Y mae pobl yr Arglwydd yn derbyn o'i law ef yn *ddau-ddyblyg* am eu holl bechodau. Derbyniodd yr Iuddewon, yn eu caethiwed Caldeaidd, gospedigaeth belaeth, digonol i atteb dybenion Duw gyda hwynt. Yn Nghrist, y mae gan y saint gyflawn foddlonrwydd wedi cael ei roddi am eu pechodau; ac, yn eu personau eu hunain, y maent yn derbyn cerydd cyfaddas, Esa. xl. 2. Cafodd yr Iuddewon yn *ddau-ddyblyg* yn lle eu cywilydd, pan symmudwyd eu trallodion a'u gwaradwydd, ac y canlynodd dedwyddwch a gogoniant mawr, Esa. lxi. 7. Cwppan Anghrist a lenwir yn *ddau-ddyblyg;* bydd barnedigaethau Duw ar y Pabyddion, yn y diwedd, yn fwy arswydus na'r erlidigaeth a gafodd tystion Crist ganddynt hwy, Dad. xviii. 6. *Deuparth*, yw naill ai dau cymmaint ag un arall, Deut. xxi. 17; neu ran fawr iawn, 2 Bren. ii. 9. *Calon* neu *feddwl dau-ddyblyg*, ydyw un yn chwennych dangos tueddiad at ddaioni, ac etto, yn reddfol, yn gwneuthur drygioni gyda hyfrydwch, ac y mae yn wrthwyneb i un sengl, gywir, ffyddlon, a didwyll, Salm xii. 2. Iago i. 8.

DYBRYD, *(dybr)* prudd, anhylon, gwrthun, erchyll. *Cyflafan ddybryd*, gweithred erchyll.

DYCHAN—U, *(dych)* gogan; sên; goganu, enllibio. 1 Petr iv. 4.

DYCHLAM—U, *(dych-llam)* cynhyrfu, ysbongcio, curiad y galon, Job xxxvii. 1.

DYCHWELYD, (*dy-chwel*, trorad) a arwydda, (1.) Myned yn ol i'r lle y daeth un o hono, Exod. xiii. 17. Y mae yr Arglwydd yn *dychwelyd* at ddynion, pan y bydd, ar ol rhyw farnedigaethau a chystuddiau, yn cyfranu bendithion iddynt o'r newydd, Salm vi. 4. Joel ii. 14. Y mae efe yn *dychwelyd i'r uchelder*, pan y bydd, fel barnwr, yn rhoddi dedfryd o blaid ei bobl, ac yn erbyn ei elynion, ac yn amlygu ei awdurdod a'i allu yn y cyflawniad o honi, Salm vii. 7. Y mae dynion yn *dychwelyd* at Dduw, pan y byddant yn edifarhau am eu crwydriad

pechadurus allan o ffordd ei orchymynion, ac yn dechreu o'r newydd ufuddhau iddo a'i wasanaethu, Esa. x. 21. Ezec. xviii. 21. *Dychweliad y ffwyddyn* yw y gwanwyn, pan y byddai yn dechreu o'r newydd yn y tymmor, ac yn nghyfrif cyssegredig yr Iuddewon, 1 Bren. xx. 22. *Trwy ddychwelyd a gorphwys y byddwch gadwedig;* trwy ddychwelyd at Dduw yn Nghrist mewn ffydd ac edifeirwch, a thrwy orphwys yn llonydd arno ef fel eich cadernid a'ch gwaredydd, heb fyned i'r Aipht am gynnorthwy, y byddwch gadwedig, Esa. xxx. 15. *Dychwelant hwy attat ti, ond na ddychwel di attynt hwy;* bydded iddynt wrandaw ar dy eiriau, a dylyn dy gynllun; ond na chyduna di â hwy yn eu ffyrdd, ac na wenieithia iddynt yn eu pechodau, Jer. xv. 19.

DYCHYMMYG, (*dy-cymmyg*, mympwy) tyb, amgyffred. "Gan fwrw *dychymmygion* i lawr," 2 Cor. x. 5. Mae calon dywell dyn yn llawn o ymresymiadau dychymmygol, disail, i gyd yn ymdderchafu yn erbyn gwybodaeth Duw; yn ei wneuthur yn anufudd ac yn gyndyn. Nid oes dim parodrwydd yndde i dderbyn yr efengyl, ond yn hollol i'r gwrthwyneb; mae ei resymau a'i ddychymmygion yn ymgodi yn ei herbyn. Mae yr Ysbryd Glan yn nerthol weithredu trwy yr efengyl, i fwrw yr holl bethau tywyll dychymmygol hyn i lawr, ac yn hyfryd yn caethiwo y meddwl i ufudd-dod Crist.

DYDD, (*ydd*, symmudiad yn mlaen). Dydd *celfyddydol* yw yr yspaid rhwng codiad a machludiad yr haul, a thrwy ei oleuni sydd yn addas at lafurio. Dydd *naturiol*, yw yr amser rhwng un canol nos neu ganol dydd, ac un arall, yn cynnwys 24 o oriau. Y dydd gwladol sy bron yr un; ond ei fod yn dechreu ac yn diwddu yn ol mympwyau gwahanol genedloedd. Yr Hebreaid a ddechreuent eu dydd cyssegredig, os nid eu dydd gwladol, yn yr hwyr, Lef. xxiii. 32. Yr hen Atheniaid, yr Austriaid, y Bohemiaid, y Marcomaniaid, y Silesiaid, yr Italiaid diweddar, a'r Chineaid, a wnant yr un modd. Y Caldeaid, y Persiaid, y Syriaid, a'r Groegiaid diweddar, a'i dechreuant gyda chodiad haul. Yr Aiphtiaid, a bron yr holl rai diweddar yn Europ, a ddechreuant eu dydd ganol nos; yr hen Umbri, a'r Arabiaid, ganol dydd. O herwydd fod yr haul, yn y cylchau pegynol, yn aros dros 24 o oriau neu ragor uwchlaw y terfynglych, ar rai amserau, rhaid fod llai o ddyddiau celfyddydol yn y lleoedd hyn; le, dan y pegynau, nid yw yr holl flwyddyn ond un dydd celfyddydol, gan fod yr haul chwe mis uwchlaw y terfynglych, a'r chwech arall islaw iddo. Yn iaith y prophwydi, rhoddir *dydd* am flwyddyn; ac felly bydd wythnos yn saith mlynedd, mis yn 30, a blwyddyn neu amser yn 360, Ezec. iv. 5, 6. Dan. ix. 24, a vii. 25. Dad. ix. 15, a xi. 3. *Mae un dydd gyda'r Arglwydd megys mil o flynedd oedd, a mil o flynedd oedd megys un dydd.* Y mae parhad Duw heb olynol ddylyniad o funudau; fel nad yw amser hir yn fwy yn ei gyfrif ef, ac mewn cymmariaeth i dragywyddoldeb, nag un byr, 2 Petr iii. 8. O herwydd fod y dydd yn rhan o amser bynod at waith, felly mae rhyw achlysur neilldiol i weithredu trugaredd neu farn yn cael ei alw yn *ddydd* neu *ddiwrnod*, Salm xxxvii. 13. Mal. iv. 1. Jer. l. 4—30. *Dydd yr Arglwydd* yn fynych a arwydda yr amser pan y cyflawna efe ei farnedigaethau ofnadwy, Esa. ii. 12, a xiii. 6. Salm xxxvii. 13. Job xxiv. 1. Zeph. i. 14, 18. *Dydd Crist* yw naill ai dyddiau ei ymddarostyngiad, ac amser ymdaeniad nerthol yr efengyl, Ioan viii. 56; neu yspaid y dinystr Iuddewig, a'r farn ddiweddaf. Mae y dydd wedi ei sefydlu: a mawr ydyw, neu a fydd y gwaith a'r amlygiadau a wnclr ynddo, 2 Petr iii. 12. 1 Cor. iii. 13, a v. 5. Phil, i. 6. Neu y Sabbath Cristionogol, yr hwn sydd wedi cael ei neilldio i goffau am ei adgyfodiad ef, Dad. i. 10. *Diwrnod* dynion, yw naill ai dydd eu genedigaeth, Job i. 4; neu amser cyfleusderau trugarog a llwyddiant, Luc xix. 42. Amos v. 8; neu eu *dydd* neu amser eu dinystr a'u trallod, Salm xxxvii. 13, a cxxxvii. 7. Job iii. 8; neu barhad tragywyddol eu gwynfyd cyflawn, Rhuf. xiii. 12. *Dydd nerth*, yw yr amser hwnw yn mha un y mae Iesu, trwy ei air a'i Ysbryd, yn dychwelyd pechaduriaid atto ei hun yn nerthol, Salm cx. 3 *Dydd dy-*

weddi, yw naill ai y dydd pan y bydd pechadur euog yn profi gyntaf o gymundeb â'i Wneuthurwr, gwaed Crist yn ei lanhau oddi wrth bob pechod, yn mha ystyr y dywed Paul ei fod wedi dyweddio y Corinthiaid i Grist, neu yn fwy priodol, dydd swpper priodas yr Oen, Can. iii. 11. *Dydd lladdedigaeth*, a arwydda amser o wledda dirfawr; megys pan leddid lluaws o ebyrth hedd, neu pan gynnelir rhyw wledd gostfawr, Iago v. 5. *Y dydd dial* yn nghalon Crist, a *blwyddyn ei waredigion*, yw yr amser gosodedig i gospi ei elynion, ac i achub, cynnorthwyo, a chyssuro ei bobl, Esa. lxiii. 4. *Dydd iachawdwriaeth*, neu yr amser cymmeradwy, yw y dydd hwnw yn mha un y mae yr efengyl genym yn swnio yn ein clustiau, Esa. xlix. 8. 2 Cron. vi. 2. Salm cxviii. 23. 1 Thes. v. 5, 8. 2 Petr i. 19. *Dydd prynedigaeth*, yw gwrthgysgod blwyddyn y Jubili, sef y dydd hwnw pan adferir ni i gyflawn feddiant o'n hetifeddiaeth gan ein Cyfathrachwr, Mab Duw, Eph. iv. 30. Gwawriad y *dydd* a grybwyllir yn Can. ii. 17, yw y y dydd hwnw a gyfododd pan ddaeth Haul Cyñawnder allan, yn llawenhau i redeg ei yrfa, â meddyginiaeth yn ei esgyll; dyna y pryd yr ymwelodd y Seren ddydd o'r uchelder á ni; y difiannodd cysgodau yr hen gyfammod ymaith gan ymwasgaru o flaen gwres yr Haul. Ond caiff y testun eglurhad mwy cyflawn yn more yr adgyfodiad; yr amser hwnw difiannа holl gysgodau a thywyllwch yr anialwch hwn, a ni a fyddwn yn oleuni yn yr Arglwydd.

Diwrnod y brenin, yw dydd ei enedigaeth, neu ei goroniad; yr hwn sydd yn arferol o gael ei goffâu yn flyneddol gyda gwleddoedd, llawenydd, a gorfoledd, Hos. vii. 5. *Dydd mawr*, yw amser rhyw beth mawr a rhyfeddol iawn; a hyny naill ai o drugaredd fawr, megys pan ddychwelir yr Iuddewon at yr Arglwydd, Hos. i. 11; neu o drallod a dial mawr, megys ar yr Iuddewon pan gaethgludwyd hwy gan y Caldeaid, a phan eu distrywiwyd bron gan y Rhufeiniaid, Jer. xxx. 7. Joel ii. 31. Mal. iv. 5; ac ar Baganiaeth ac Anghrist yn eu cwymp, Dad. vi. 17, a xvi. 14. Y *dydd hwnw*, mewn prophwydoliaethau, nid arwydda bob amser y dygwyddiadau a grybwyllwyd ychydig o'r blaen, ond rhyw dymmor hynod, megys Esa. xi. 1, a xxvii. 1; neu y farn ddiweddaf, Judas 6. *Heddyw*, a arwydda amser gerllaw, yn gystal â'r un presennol, Deut. ix. 1, a xi. 8. *Heddyw*, Salm ii. 7, a ddynoda amser escyniad Crist i ogoniant, Act. xiii. 33. Y *dyddiau diweddaf*, a arwyddant amser etto i ddyfod yn gyffredinol, Gen. xlix. 1; neu yspaid goruchwyliaeth yr efengyl dan y Testament Newydd, Esa. ii. 1; neu y rhan ddiweddaf o yspaid yr efengyl, 1 Tim. iv. 1. 2 Tim. iii. 1; neu ddyddiau marwolaeth a barn, Iago v. 8. *Diwrnod daionus*, yw un o lwyddiant, gwledda, a gorfoledd, Esth. viii. 17, a ix. 22. *Dydd drwg* neu *chwerw*, yw amser o drallod a chyfyngder, Amos vi. 3, viii. 10. *Heddyw*, a arwydda tymmor presennol o ras, a chyfleusdra iachawdwriaeth, Salm xcv. 7. Heb. iii. 13, a iv. 7. *Mewn un dydd*, a arwydda weithiau yn ddisymmwth, oll ar unwaith. Dad. xviii. 8. *Liw dydd*, a arwydda yn gyhoeddus, neu ar amser gosodedig, 2 Petr ii. 13. Salm xlii. 8; neu mewn amser o drallod ac erlidigaeth boeth, Esa. iv. 6. *Ar hyd y dydd*, yw yn barhaus, yn reddfol, Deut. xxviii. 32. Salm xxv. 5.

DYDDFU, *(dyddf)* gwanychu, llesgâu, llesmeirio, diffygio, Gen. xlvii. 13.

DYDDGWAITH, *(dydd-gwaith)* dydd i weithio ynddo, mewn cyferbyniad i ddydd Sul a dydd gwyl.

DYDDIAU, a arwyddant, (1.) Yspaid parhad peth: felly, *dyddiau* dyniôn ydynt eu holl fywyd, Salm xc. 9. *Dyddiau pren*, a ddynodant yspaid hir a dedwydd, Esa. lxv, 22. *Dyddiau Crist*, a arwyddant amser ei gynnulliad nerthol o'r cenedloedd atto ei hun a llywodraethiad ei bobl, Jer. xxiii. 6. *Dyddiau y nefoedd*, a nodant barhad tragywyddol, Salm xcix. 29. (2.) Y damweiniau a ddygwyddant mewn yspaid o amser, Salm xxxvii. 18, a xxxi. 15, a cxix. 84. Esa. vii. 17. (3.) Dynion mewn gwth o oedran, Esa. xxxii. 7. Y *deng niwrnod* o gystudd yr eglwys, a ddynodant amser byr, neu y deng mlynedd o erlidigaeth, o'

A.D. 302 i 312, Dad. ii. 10. Yr 1260 o ddyddiau teyrnasiad Anghrist, yr hyn yw yr un â 42 o fisoedd, neu amser, amseroedd, a hanner amser, a arwydda 1260 o flyneddoedd, Dad. xi. 2, 3. a xii. 6, 14, a xiii. 6. Dan. vii. 25, a xii. 11, 12. Y ddwy fil a thri chant o ddyddiau halogiad y cyssegr, a ddynodant naill ai cymmaint â hyny o ddyddiau o'r halogiad cyntaf o hono gan Antiochus Epiphanes, hyd ei lanhad perffaith gan Judas y Maccabead; neu yn hytrach, cymmaint â hyny o foreuau a hwyrau, a dim rhagor na 1150 o ddyddiau, Dan. viii. 14. *Dyddiwr*, yw cylafareddwr a farna fatter; neu gyfryngwr, Job ix. 33. Y mae Iesu Grist yn cael ei alw *codiad haul*, sydd yn ymweled â ni o'r uchelder. Trwy ei ymddangosiad yn ein nattur, trwy ei gyfiawnder, ei adgyfodiad, ei amlygiadau achubol o hono ei hun a'i ymddangosiad i farn, y mae yn arwain goleuni a chyssur i mewn; ac yn dwyn i mewn ddydd o oruchwyliaeth yr efengyl, gwybodaeth ysbrydol, cyfiwr grasol, a gogoniant diddiwedd, Luc i. 78.

DYDD-GYLCH, gwasanaeth i'w gyflawni yn mhen cylch o amser. "O *ddydd-gylch* Abia," Luc i. 5, 8. Ymddangsys wrth gymharu 1 Cron. xxiv. 19, â pen. ix. 27, ac â 2 Cron. xxiii. 8, a 1 Bren. xi. 5—7, fod cylchoedd yr offeiriaid yn wythnosol, neu saith diwrnod bob un, a'u bod yn dechreu ac yn diweddu ar y Sabbath. Dosparth Abia oedd yr wythfed (1 Cron. xxiv. 10.) o'r 24 dosparth i ba rai y dosparthodd Dafydd yr offeiriaid.

DYFER—ION—U, defnyn, defnynnu. "Dy wefusau, fy nyweddi, sydd yn *diferu* fel dil mêl," Can. iv. 11, a v. 13. Mae athrawiaethau a gweddiau yr eglwys yn hyfryd, yn iachus, ac yn adeiladol. O helaethrwydd y galon y llefara ei genau yn barhaus; yn diferu yn ddyfal, yn ddidor, ac yn ddiddiwedd, Salm cxix. 10, 103, a xlv. 2. Col. iv. 6.

DYFNDER *(dwfn).* 1. Yr eigion, y môr, a'i ddyfn-leoedd, Job lxi. 31, 32. (2.) Y pentwr cymmysglyd o ddaear a dwfr, Gen. i. 2. (3.) Y casgliad dirfawr o ddyfroedd sydd yn guddiedig yn nghrombil y ddaear, Gen. vii. 11, a viii. 2. (4.) Cystudd dychrynllyd a gorchuddiol ar enaid neu gorff, Salm cxxx. 1, a lxxxviii. 6. Rhuf. viii. 39. (5.) Y bedd, yr hwn a gloddir yn ddwfn yn y ddaear, Rhuf. x. 7. (6.) Daeardy dwfn, lle y bydd un yn suddo mewn tywyllwch, dwfr, neu laid, 2 Cor. xi. 25. (7.) Uffern, yr hon sydd guddiedig, anchwiliadwy, a diwaelod, Luc viii. 31. Diar. ix. 18. Dad. xx, 3. *Dyfnderoedd y môr,* lle mae Duw yn tafiu pechodau ei bobl, ydynt anfeidroldeb ei ras maddeuol, a haeddiant diderfyn gwaed Iesu, trwy ba rai y mae ein hanwireddau yn cael eu maddeu mor berffaith, fel nad ellir eu rhoddi byth mwyach yn ein herbyn, Mic. vii. 19. *Dyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw,* a arwydda eu bod yn anfeidrol ac yn anchwiliadwy, Rhuf. xi. 32. *Dyfnder cariad Iesu,* yw ei ddarostyngiad i achub y pechadur gwaelaf a distadlaf, o ddyfnder uffern, Eph. iii. 18. *Dyfnderoedd Satan,* ynt ddychymmygion tywyll, a gweithredoedd dirgelaidd a chywilyddus, a lunir gan dywyllwyr, Dad. ii. 24. Cyffelybir llu y Caldeaid i *ddyfnder,* o blegid eu rhifedi, eu trwst, a'u buddugoliaethau gorchuddiol, Exec. xxvi. 19. Y gwleddydd a ddifrodwyd gan yr Assyriaid a gyffelybir i *ddyfnder mawr,* o blegid rhifedi eu preswylwyr, eu cymmysgedd, a'u swn rhuadwy, Amos vii. 4. Y rhai hyn, yn gystal â masnach eu hafonydd, sef yr Hidecel, yr Euphrates, &c. a dderchafasant amherodraeth a brenin Assyria, ac a orchuddiwyd â galar pan ddadymchwelwyd hi, Ezec. xxxi. 4, 15. Barnedigaethau Duw ydynt yn *ddyfnder mawr;* maent yn dra dirgelaidd, ac yn anhawdd i'w deall, Salm xxxvi. 6.

DYFOD *(dy-bod).* 1. Tynnu yn agos; neshau at, Exod. xxxiv. 3. (2.) Tarddu oddi wrth, 1 Cron. xxix. 14. (3.) Dygwydd, Ezra ix. 13. Job iv. 5. (4.) Cyrhaedd i, Act. xxvi. 7. (5.) Ymuno â, Diar. i. 11. (6.) Cyffwrdd, Ezec. xliv. 25. (7.) Ymbriodi â, Dan. xi. 6. (8.) Gorwedd gydag un, Gen. xxxviii. 16. (9.) Rhuthro i mewn, ymosod, Gen. xxxiv. 25. (10.) Cyfodi, Num. xxiv. 17. Llefarir am *ddyfodiad* yr Arglwydd mewn amrywiol ystyriaethau yn yr ysgrythyr; yn benaf mewn perthynas

i unrhyw amlygiadau neilldiuol o'i bresennoldeb ef. Y gennad a ddaeth yn ddiysmmwth i'r deml, Mal. iii. 1, pan ymddangosodd Iesu Grist megys gwas cyflawn yr Arglwydd. Gelwir ei waith yn cyflawni ei farnedigaethau cyflawn, yn fynych, ei *ddyfodiad;* ond yn benaf ei ddyfodiad yr ail waith heb bech-aberth er iachawdwriaeth dragywyddol; wele y mae efe yn dyfod gyda'r cymmylau! a phob llygad a'i gwêl ef; y mae yn gorphen y Dadguddiad gyda y sierwydd hwn, "Yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn, sydd yn dywedyd, Yn wir, yr wyf yn *dyfod* ar frys; gwyn ei fyd yr hwn sydd yn gwylio," Mat. xvi. 28, a xxiv. 3, a xxvii. 30. 1 Cor. i. 7. Iago v. 7, 8. 2 Petr iii. 4. Y mae pecaduriaid euog yn *dyfod* at Grist pan fyddant yn *credu* yn eow Mab Duw, gan gael gorphwysfa i'w heneidiau yn ei waith gorphenedig ef. "Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser," Mat. xi. 28. Ioan vi. 35, 36. Heb. xi. 6.

DYFODFA, *(dyfod)* derbyniad rhad. Ein *dyfodfa* i gyfiwr o ras, ac at Dduw, sydd *trwy Grist*, fel ein pridwerth a'n ffordd; *trwy yr Ysbryd*, yn dadguddio i ni berson a chyflawnder Crist; a *thrwy ffydd*, yn rhoddi llawenydd a heddwch wrth gredu yn Nghrist fel Arglwydd ein cyflawnder a'n nerth, Eph. iii. 18. Rhuf. v. 2.

DYFFRYN, *(dyffrhynt)* tir canol rhwng mynyddoedd, pa un bynag ai ar hyd glanau afonydd neu beidio. Mae llawer o ddyffrynoedd yn cael sôn am danynt yn yr ysgrythyrau; megys *dyffryn* Sidim, yn neu yn agos i ba un y safai Sodoma a Gomorrah, Gen. xiv. 3; *dyffryn* Beracah, o du y gorllewin i'r Môr Marw; *dyffryn* Zeboim, gerllaw Jericho, 1 Sam. xiii. 18. 2 Cron. xx. 6; *dyffryn* Zephatha, gerllaw Maresah, 2 Cron. xiv. 10; *dyffryn* Escol, Num. xxxii. 9; *dyffryn* Gerar, Gen. xxvi. 17; *dyffryn* Sorec, lle trigai Dalilah, Barn. xvi. 4; *dyffryn* Aijalon, Jos. x. 12; *dyffryn* y Rephaim, neu y cawri, Esa. xvii. 5; *dyffryn* Elah, lle lladdwyd Goliath, 1 Sam. xxi. 9; *dyffryn* Achor, Jos. vii. 24; *dyffryn* Gibea, Barn. xx. 33; *dyffryn* Tophet, Hinnom, neu y lladdfa, Jer. vii. 32; *dyffryn* y mynyddoedd o amgylch Jerusalem, Zech. xiv. 5; *dyffryn* Jehosaphat, neu y terfyniad, yr un, hwyrach, â Beracach neu Tophet, Joel iii. 14; *dyffryn* Baca, Salm lxxxiv. 6; *dyffryn* Canah, neu y cyrs, Jos. xvi. 8; *dyffryn* Ono, Charasim, neu y crefftwyr, 1 Cron. iv. 14; *dyffryn* Ceziz, Jos. xviii. 24. Y rhai hyn oll oeddynt o du y dehau i Canaan orllewinol. O du y gogledd, cawn *dyffrynoedd* breision gerllaw Samaria, Esa. xxviii. 1; yr un, hwyrach â gwastadedd, neu *ddyffryn* Israel, Jos. xi. 16; *dyffryn* Moreh, rhwng Ebal a Gerizim, Gen. xii. 6; *dyffryn* Meonenim, Barn. iv. 37; *dyffryn* Zaanim, Barn. iv. 11; *dyffryn* Safe, gerllaw Salem, Gen. iv. 17; *dyffryn* Jezreel, Jos. xix. 18; *dyffryn* Megido, 2 Cron. xxxv. 22; *dyffryn* Jiphthael, Jos. xix. 14, 26; *dyffryn* Libanus, Jos. xi. 17. Y rhai tu hwnt i'r Iorddonen oeddynt *dyffryn* Sittim, yr hwn a all fod yn gosod allan y byd Cenedlig diffrwyth, Joel iii. 18; *dyffryn* Abarim, neu y tramwywyr o du y dwyrain i'r Môr Marw, Ezec. xxxix. 11; *dyffryn* Zared, Num. xxi. 12; *dyffryn* Gad, 2 Sam. xxiv. 5; *dyffryn* Succoth, Salm ix. 6; *dyffryn* Mispeh, Jos. xi. 8; *dyffryn* yr Halen, gerllaw Tadmor. Jerusalem, neu wlad Judea, a elwir *glyn gweledigaeth*; o herwydd fod ganddynt orchymynion, ordinhadau, a phrophwydi Duw yn eu plith, Esa. xxii. 1. Rhwystrau ar ffordd taeniad a llwyddiant yr efengyl, a gyffelybir i *buntau:* ac y maent yn cael eu llanw i fynu, pan wneir hwynt yn analluog i attal ei chynnydd, Luc iii. 5. O'r pedwar gair a arfera yr Hebreaid i osod *dyffryn* allan, *nachal* a arwydda un â ffrwd yn rhedeg trwyddo; *ge*, math o bantle crynaidd heb ffrwd, ac *hemec* un eang ac helaeth, neu wastadedd, a *bichath* agoriad cul; ond hwyrach na ddeil y sylwad hwn bob amser.

DYGYFOR, *(cyfor)* ymchwyddo, ymgynnyrfu, cyfodi i fynu, Esa. lvii. 20. Jer. xlvi. 7.

DYHEUO, *(heu)* chwythu yn galed, erthychu. "Y rhai a *ddyheuant* ar ol llwch y ddaear ar ben y tlodion," Amos ii. 7, sef, maent yn chwennych gweled y tlawd a'r truenus yn fwy gorwael a gresynol.

Tmadrodd yn amlygu y creulondeb nwyaf. Gwel 1 Sam. iv. 12. 2 Sam. xiii. 19. Job ii. 12. Salm xix. 26, cix. 16.

DYHUDDO, *(dy-hudd)* diddigio, eddychu. "Pan ddyhuddder fi tuag ttat," Ezec. xvi. 63. Yn yr iawn iae yr Arglwydd yn dyhuddo tuag t bechadur, yn cymmodi âg ef, ac n ei guddio rhag y gosp a haeddai n gyfiawn.

DYLED, *(dyl,* iawn) rhwymedgaeth, gwasanaeth. "*Dyledwyr* ydym, nid i'r cnawd, i fyw yn ol r cnawd, Rhuf. viii. 12. Yr ydym n ddyledwyr mawrion, ond nid i'r nawd, sef i bechod, i'n chwantau lygredig, nac i'r diafol; ond yr ym n ddyledwyr mawrion iawn i Dduw, w gydnabod yn mhob peth; i ddiich yn mhob dim; i'w wasanaethu 'i addoli; i roddi ein hunain yn wbl iddo, gyrph ac eneidiau. Mae in dyled hwn yn feunyddiol, yn arhaus, ac yn dragywyddol.

DYLIF *(dy-llif).* Gwedi cydmbriodi o hiliogaeth Seth âg eppil Cain, a bod pob math o drawsder, laearoldeb, a chnawdolrwydd yn mlhau, cyhoeddodd Duw ddedryd ddinystr, trwy ddylif, yn erbyn dynon, a chreaduriaid ereill y ddaear. Ar ol rhybuddio dynolryw am dano, ros yn nghylch 120 o flynyddoedd, rwy bregethiad Noah, dygwyddodd dylif hwn o fewn i ychydig ddyddau ar ol marwolaeth Methuselah; ac ar yr 17eg o'r ail fis, yr hyn sydd ua diwedd Hydref, y dechreuodd. Ffynnonau y dyfnder mawr a rwygvyd, a ffenestri y nefoedd a agorvyd; hyny yw, rhuthrodd y dyfredd allan o eigionydd cuddiedig yn ghrombil y ddaear, a thywalltodd y ymmylau eu gwlaw i lawr yn ddiaid, fel ffrydiau, dros yspaid 40 iwrnod; ïe, dros 150 o ddyddiau, eu bum mis o amser, cynnyddodd y lylif, o hyd, nes oedd wedi cyfodi yn nghylch 27½ o droedfeddi yn uwch na phen y mynydd uchaf. Trengodd luaws dirfawr o anifeiliaid y tir, ac o ddynion, hwyrach o ddeutu 80,000 o fyrddiynau, neu o ddeutu 80 cymaint o drigolion ag sydd ar y ddaear yn bresennol, yn y dyfroedd. Dim ond Noah a'i deulu, a dau o bob hywiogaeth o anifeiliaid y tir, a radwyd yn yr arch a adeiladasai efe. Tua dechre Ebrill, dechreuodd y dyfroedd dreio, gan ddychwelyd mewn rhan i grombil y ddaear, yr hon oedd y pryd hwnw wedi cael ei dryllio a'i hanffurfio yn fawr, ac escyn i fynu mewn rhan, yn darthion i froydd yr awyr; a thua'i ddiwedd, gorphwysodd yr arch ar fynyddoedd yr Ararat. Tua diwedd Mehefin, gwelwyd penau y mynyddoedd. Yn mhen deugain niwrnod wedi hyny, tua dechre Awst, anfonodd Noah gigfran a cholommen allan, i edrych a sychasai y dyfroedd oddi ar wyneb y ddaear. Yn mhen o ddeutu 14 diwrnod wedi hyny, y golommen, wedi ei hanfon allan y drydedd waith, ni ddychwelodd yn ol mwyach. Tua chanol Medi, dechreuodd y tir sych ymddangos yn y dyffrynoedd; a thua dechre Tachwedd, ar y 27ain dydd o'r ail fis, yr aeth Noah a'i deulu, a'r anifeiliaid allan o'r arch, wedi bod ynddi flwyddyn a deg diwrnod, Gen. vi, vii, a viii.

Nid oes dim achos i ammau am y dylif hwn, nac am ei gyffredinolrwydd ef. Heblaw tystiolaeth Duw yn ei air, y mae genym dystiolaeth *Berosus, Hieronymus, Monaseas, Nicolaus, Meto, Abydenus, Plato,* a'r ehwedl - ysgrifenwyr, *Ovid* a *Lucian,* a hen awdwyr ereill yn mysg y Paganiaid, am dano. Yr oedd gan yr Americaniaid yn Mexico a Pheru draddodiad am dano. Y mae gan y Braminiaid yn yr India Ddwyreiniol draddodiad na achubwyd ond wyth dyn, a dau o bob math o anifeiliaid y tir, rhagddo, trwy ffoi i ben rhyw fryn uchel.

Yn ol y cyfrifiad manylaf, ymddengys yn debygol fod y ddaear y pryd hwnw yn llawer llawnach o drigolion nag yn bresennol, ac felly yr oedd dylif cyffredinol yn angenrheidiol i'w dyfetha hwynt. Gair Duw a haera fod yr holl ddaear, ac hyd yn nod y mynyddoedd uchaf, wedi eu gorchuddio; ac i bob anifel y tir, oddi allan i'r arch, drengu. Os nad oedd y dylif yn gwbl dros y ddaear, pa raid i Noah adeiladu arch i achub ei deulu a'r anifeiliaid? Pa mor hawdd fuasai iddo ef a'i deulu, a'r creaduriaid a fwriedid i gael eu hachub, fyned i ryw gongl heb ei gorchuddio gan y dyfroedd? Pwy na wyr fod coed cyfain wedi suddo i'r ddaear, yn nghyd â dannedd, ac esgyrn anifeiliaid, cregin y môr,

pysgod wedi troi yn gerrig, a thywysenau o ŷd, i'w cael yn yr Ital, Ffraingc, gwlad y Swiss, yr Almaen, Lloegr, a gwledydd ereill, pell oddi wrth Eden, ac hyd yn nod ar beuau mynyddoedd pell oddi wrth y môr? Pa fodd y gallai y rhai hyn ddyfod yno, ond trwy ddylif cyffredinol? Ac nid oes un anhawsdra i gael digonedd o ddwfr i orchuddio y ddaear i'r uchder rhag-grybwylledig. Pwy a ŵyr nad allai y dyfroedd sydd yn nghrombil y ddaear, a'r gwlaw a berir gan yr awyrgylch, fod yn fwy na digon? neu, os nad oedd, beth a rwystrai yr Hollalluog i greu yr hyn o ddwfr oedd angenrheidiol; ac i'w diddymu drachefn, pa bryd bynag y byddai wedi atteb ei ddyben ef? I'r dylif hwn gael ei beri gan dramwyad gwib-seren yn agos i'r ddaear, ac â'i gwres yn chwyddo y moroedd hyd nas gallai eu gwelyau eu cynnwys; ac yn chwyddo y dyfnder mawr, nes iddo rwygo y ddaear yn fil o ddarnau, fel y pistyllai y dyfroedd allan, sydd, i ni, yn ymddangos yn annhebygol. Y fath wres â hwnw, yn sicr, a bobasai y cynddiluwiaid yn fyw. Digon i ni yw, fod y ddaear, y gwyntoedd, a'r moroedd, yn ufuddhau i'r Hollalluog, ac yn gwneuthur fel y myno ef. Ond pan ystyriom fod dannedd, esgyrn, cregin, a gweddillion ereill pysgod i'w cael mor ddwfn yn y ddaear, ac yn yr haenau calettaf, neu hyd yn nod wedi eu bamgylchynu â challestr a mynor, nis gallwn lai na meddwl i'r holl ddaear gael ei rhwygo yn arswydus y pryd hwnw gan ddaear-grynfâau, neu mewn ffordd amgen; ac i'r pysgod fyned i mewn i'r rhwygiadau hyn, yn enwedig pan ddychwelodd dyfroedd y dyfnder mawr i'w priod-leoedd cynwynol; ac i'r hen ddaear, mewn amryw fanau suddo i'r dyfnder, a myned yn wely i'n moroedd gweledig ni, a daear newydd gyfodi allan o waelod y moroedd cynddiluwiaidd. Y cyfryw a chwennychant weled amryw o ddychymmygion synwyrol mewn perthynas i'r dylif hwn, gallant eu cael yn ngwaith *Esgob Burnet, Whiston, Woodward, Buffon*, &c.

DYLLUAN, *(dall-huan,* haul) aderyn o'r rhyw hebogaidd. Y mae ei phig yn fachog, ei phen a'i chrafangau rywbeth yn debyg i eiddo eath, ei choesau yn flewog at y cra angau, ei llygaid yn dduon, mawr ion, a dysglaer; ei llais sydd yn bu anhyfryd a galarus. Y mae llawe iawn o rywiogaethau o ddylluanod sef, y ddylluan fechan, y ddylluan fawr, y ddylluan gorniog, &c. mae y ddylluan gorniog fawr bro cymmaint âg eryr, a'i phlu yn llwyd wynion a gwynion; y ddylluan gorn iog fechan sydd o liw mwy gwineu ddu a rhydlyd; y ddylluan ddigor fechan sydd o ddeutu maintioli col ommen; y mae gan yr un fwya goron o blu heirdd o amgylch e phen, ond nid oes iddi glustiau gwel edig; ei chefn sydd o liw y plwm wedi ei nodi â manau gwynion cledr ei dwyfron a'i bol yn lled wyn wedi eu nodi â manau duon; nid y ei chorph ond prin mwy na chywen ond y mae y twrr mawr o bluf sydd arni yn peri iddi ymddangos gym maint â chapwllt. Llwngc lygoden neu aderyn i gyd ar unwaith, a gwed y treulio y cig yn ei chrombil, cyf oga y blew a'r esgyrn i fynu. Nid yw y dylluanod yn myned ond ych ydig allan liw dydd; ac os gwnant byddant yn ddrych i'r lleill o'r adar Dywedir eu bod yn elynion i'r brain a'u bod yn dystrywio wyau eu gil ydd. Ymgyrchant, yn gyffredin, leoedd anghyfanedd, megys dinas oedd neu dai adfeiliedig, Esa. xiii 21, a xxxiv. 11—15. Jer. l. 39 a gwnant alarnad tra alaethus a erchyll, Mic. i. 8. Hwyrach nad yw y gair Heb. *yahanah* yn ar wyddoccau y *ddylluan*, ond yr es trys fenyw, Job xxx. 29. Esa. xiii 21, a xxxiv. 13. a xliii. 20. Jer v. 39. Mic. i. 8. Lef. xi. 16 Deut. xiv. 15. Galar. iv. 3; a mai sarph dra gwenwynig yw y *cippoz*, Esa. xxxiv. 15. Y mae y saint yn myned fel *dylluanod*, pan wedi y cuddio Duw ei wyneb ac y pellhao eu cyfeillion oddi wrthynt, y gadewir hwy i alaru yn y modd mwyaf amddifad a digalon, Job xxx. 29. Salm cii. 6. Dynion drygionus ydynt gyffelyb i *ddylluanod*; mor anolygus i Dduw a dynion da ydyn hwy! mor dueddol i bellhau oddi wrtho ef a'i bobl! y fath gasâwyr o Haul cyfiawnder, a goleuni gan Duw! ac mor niweidiol i ereill! Esa xliii. 20.

DYMUNIAD, *(unaw)* erfyniad

leisyfiad. "*Dymuniant* yr holl genedloedd a ddaw," Hag. ii. 7. Mae yr Arglwydd Iesu yn dra dymunol ynddo ei hun, ac oll yn hawddgar; nid oes un gwrthddrych yn fwy dymunol i'r holl genedloedd i'w gael; nae yn addas iddynt, yn ddigonol, ac yn *addawedig* iddynt: mae yr amser yn dyfod, pan y caiff yr holl genedloedd ei wir adnabod, ac y bydd yn ddymunol ganddynt; y gwasanaethant ef, ac yr ymfenditbant ynddo, Sal ii, a lxxii.

DYN, *(dy-yn)* gwrryw neu fenyw. Wedi olrhain dechreuad *dynolryw* yn eiddo eu tad cyffredin, yn led helaeth, dan y gair *Adda*, nid yw ond angenrheidiol yn unig i ychwanegu yma, fod holl hiliogaeth Adda yn cael eu llunio mewn anwiredd, a'u hymddwyn mewn pechodau, yn ganlynol i'r trosedd cyntaf, Gen. , a ii, a iii. Rhuf. v. 12—19. Eph. ii. 1—3. Job xiv. 4. Ioan ii. 6. Salm li. 5. Yn y cyflwr yrthiedig hwn, y mae pob dychymygu o eiddo calon dyn yn ddrygonus o'i ieuengctid, a hyny yn barnaus. Y maent yn droseddwyr o'r ru, ac yn myned ar gyfeiliorn, gan ldywedyd celwydd; eu calon sydd wy ei thwyll na dim, ac yn ddrwg iobaith; a'u syniad cnawdol yn elniaeth yn erbyn Duw: allan o'u alon lygredig y daw meddyliau rwg, lladdiadau, putteindra, lladadau, cam-dystiolaethau, cableddu; maent wedi eu llenwi â phob nghyfiawnder, godineb, anwiredd, ybydd-dod, drygioni, cenfigen, llofuddiaeth, cynnen, twyll, drwgnwydau; maent yn hustyngwyr, n athrodwyr, yn gas ganddynt Dduw, yn drahaus, yn feilchion, yn dychymmygwyr drygioni, yn anufudd i rieni, yn anneallus, yn dorwyr mmod, yn angharedig, yn anghymnodlon, yn annhrugarog; maent i'n serch arnynt eu hunain, yn ymfrostwyr, yn gablwyr, yn anniolchar, yn annuwiol, yn enllibaidd, yn nniwair, yn anfwyn, yn ddirmygvyr pob peth da, yn fradwyr, yn vaedwyllt, yn chwyddedig, yn caru nelus-chwant yn fwy nag yn caru Duw; yn annoeth, yn anufudd, yn yfeiliorni, yn gwasanaethu anyw chwantau, yn byw mewn drygoni a chenfigen, yn ddigasog, ac yn asâu eu gilydd. Nid oes neb, yn eu cyflwr anianol, yn gyfiawn, nac oes un; nid oes neb yn deall, ac yn ceisio Duw; aethant i gyd yn llygredig a ffiaidd, i yfed anwiredd fel yr yf yr ych ddwfr; â'u tafodau y gwnaethant dwyll; eu genau sydd yn llawn melldith a chwerwedd; dystryw ac afiwydd sydd yn eu ffyrdd, a ffordd tangnefedd ni adnabuant: nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid, Gen. vi. 5, a viii. 21. Jer. xvii. 9. Rhuf. viii. 7. Mat. xv. 9. Rhuf. i. 29—31. 2 Tim. iii. 2—4. Tit. iii. 3. Salm xiv. Rhuf. iii. 9—18. O achos pechod, gwneir dynion yn druenus; cyfnewidiwyd cyfansoddiad y byd isaf hwn yn fawr; deifir y meusydd gan felldith; llygrir yr awyr gan darthion heintus; a chyfaddasir y gwyntoedd a'r moroedd i lyngcu yr euog. Y mae pawb wrth naturiaeth yn amddifad o hawl wynfyddedig yn Nuw, a chymdeithas âg ef; maent dan ei ŵg a'i felldith: maent yn agored i newyn, rhyfel, haint, tlodi, gwarth, afiechyd, siomedigaeth, llafur, ac i ddallineb meddwl barnedigaethol, calon-galedwch, nwydau gwarthus, annheimladrwydd a dychrynfëydd cydwybod, meddwl anghymmeradwy, a chaethiwed Satan; ac, yn y diwedd, i gael eu gyru ymaith, trwy farwolaeth, yn eu drygioni, a bod yn uffern dros byth mewn poenau: i cael eu cospi á dinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef, Gen. iii. 18, 19. Eph. ii. 12. Salm v. 4, 5, a vii. 10—16. Deut. xxviii. 16—68. 2 Thes. ii. 11, 12. Rhuf. i. 26, 28. Diar. xiv. 32. Dad. xiv. 10, 11. 2 Thes. i. 8, 9. O herwydd fod dyn yn hollol ddiofal ac analluog i ymadferu o'r cyflwr pechadurus a thruenus hwn, parhasai a chynnyddasai ein pechod a'n trueni yn dragywyddol, oni buasai i Dduw Tri-yn-un ddarparu yn raslawn ar gyfer ein hesmwythâd. Cariad Duw y Tad, marwolaeth ac adgyfodiad ei Fab ef Iesu Grist, yn nghyd á gweithrediad yr Ysbryd Glan, a agorasant ddrws o waredigaeth i euog ddyn. (Gwel *Efengyl.*) Er y brynedigaeth fawr hon, y mae drygioni dyn wedi bod yn fawr ar y ddaear. Fel yr oedd dynion yn amihau, yr oedd eu hanfoesoldeb yn cynnyddu: arweiniodd Cain a'ihad ddy-

lif o hiliogaeth i mewn, a thrwy gydymbriodi â hwynt, llygrwyd hiliogaeth Seth. Cynhyrfwyd Duw, yr hwn sydd bob amser yn arferol o gospi hyfforddwyr cyntaf drygioni yn llym, i'w boddi hwynt oll ond Noah a saith enaid arall. Yn fuan ar ol y dylif, wedi i'r rhai a achubasid rhagddo ddechreu adboblogi y ddaear, dechreuodd drygioni adfywio yn ei holl erchylldod; yn drahaus-falch cydfwriadasant yn erbyn yr Arglwydd, i sefydlu eu henw eu hunain, a rhagflaenu eu gwasgariad. Gwedi eu gyrru ar led gan ddialedd cyfiawn y Nefoedd, bwriasant ymaith, yn gyffredin, bob ofn addas a pharchi Dduw. Am o ddeutu 2000 o flyneddoedd, cyfyngwyd gwir addoliad Duw, neu y wir grefydd, bron yn hollol i gyff Abraham; ac am o ddeutu 1520 o flyneddoedd, i'r rhan Hebreaidd o hono. Tra yr oedd pawb ereill o ddynolryw wedi suddo yn yr anwybodaeth fwyaf cywilyddus, y goel-grefydd fwyaf afresymol, a'r eilunaddoliaeth distadlaf, ac yn byw yn y cnawdantau, y trawsedd, a'r llofruddiaeth mwyaf ysgeler ac annaturiol, pa sawl gwaith y gwrthgiliodd yr Hebreaid, yn ynfyd, oddi wrth eu Gwneuthurwr, ac y buant byw fel yCenedloedd! Canlynwyd adgyfodiad ein Hiachawdwr â thaeniad yr efengyl; dychwelwyd lluoedd o Iuddewon a Chenedloedd, yn enwedig o'r diweddaf, at yr Arglwydd. Y rhai sanctaidd hyn a erlidiodd ac a laddodd eu brodyr cenfigenus o ddynolryw, dros yn nghylch 300 o flyneddoedd, yn y modd mwyaf didrugaredd. Wedi eu gwaredu rhag erlidigaethau Paganaidd, ymollyngodd y Cristionogion proffesedig gyda hwynt eu hunain i anwybodaeth, balchder, coelgrefydd, cynnen, ac eilunaddoliaeth; a llawer o honynt wedi cofleidio Arianeth, neu gyfeiliornadau ereill, a erlidiasant ac a laddasant yr ymlynwyr wrth y gwirionedd mewn modd cynddeiriog. Yn ystod y 1260 o flyneddoedd teyrnasiad Anghrist, ni bu neu ni fydd fawr o wahaniaeth rhwng Cristionogion mewn enw a Phaganiaid o ran anwybodaeth, coel-grefydd, eilunaddoliaeth, a halogedigaeth. Yn ddiweddar, dosparthodd gwr dysgedig ddynolryw yn 30 o ranau, a chafodd fod 19 o honynt yn Baganiaid hollol, heb Grist, yn ddyeithriaid i ammodau yr addewid, heb Dduw, ac heb obaith yn y byd. O ddeutu pum rhan o ymlynant wrth dwyll ffiaidd Mahomet; ac yna ni adewir ond chwech yn unig i gynnwys pawb a wisgant yr enw Cristionogol. O'r bummed ran hon o ddynolryw, yn cynnwys y Cristionogion Dwyreiniol o amryw iol enwau, a'r Pabyddion a'r Protestaniaid yn Ewrop ac America, y mae yn anhawdd dywedyd a all y 100fed dyn roddi tystiolaeth addas o'i fod yn meddu gwir wybodaeth ac ofn Duw fel yn cymmodi y byd âg ei ei hun yn Nghrist. Ac nid yw gwaith Duw yn gadael y fath luoedd i rodio yn ol eu chwantau eu hunain fymryn mwy anghysson â'i ddaioni, na'i waith yn goddef yr angelion a syrthiasant i aros yn anmhrynedig, Rhuf. ix. Y mae yn nodadwy, gan i Dduw sylfaenu y byd hwn yn benaer cyflawni ei waith prynedigol, e fod bob amser wedi trefnu dynolryw yn y modd y gwasanaethent oreu er etteb y dybenion o hono. Pan yr oedd lluaws o annuwiolion yn bygwth claddu pob gwybodaeth am gynllun y prynedigaeth, efe a'u boddodd trwy ddylif cyffredinol: pan y bygwthiasant yr un peth drachefn, efe a sefydlodd y wybodaeth am dano mewn un teulu, sef eiddo Jacob, a thrwy y fath luaws o wyrthiau a chyfreithiau, a'i gwnaeth bron yn analluadwy iddynt i'w anghofio. Trwy waith y rhan fwyaf o'r addurniadau cysgodol yn dechreu gwywo cyn gynted ag y cyrhaeddasant eu gogoniant, efe a'u dysgodd hwynt i ddisgwyl y pethau a gysgodid trwyddynt. Trwy amherodraethau yr Assyriaid, y Caldeaid, y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, fel moddion, y rhai a ddisgwyliodd Satan i fod yn gaeran amddiffynol i ddrygioni, efe a wasgarodd yr Iuddewon a rhan o'r Bibl yn mysg y Cenedloedd, ac a'u parottodd yn rhyfeddol ar gyfer taeniad mwy heddychlon o'r efengyl. Ni bu un rhyw lywodraeth, cyfreithiau, cyfammodau, rhwymau naturiaeth, neu ddoleh garwch, yn alluog i attal drygioni dynion. Profwyd llywodraethau, a chospediga ethau o amryw iol ddulliau, er rhagflaenu rhywiogaeth neilldiol o ddrygioni; ond bu y

wbl yn ofer, tra y parhaodd calonau lynion heb eu hadnewyddu. Ac ni wystrodd addysgiadau Duw na lynion y lluaws beiau, er eu bod veithiau wedi peri cyfnewidiad yn u dull hwynt. Trwy lofruddaeth erchyll y sylfaenwyd y rhan wyaf o'r teyrnasoedd eang, megys yr Aiphtaidd, yr Assyriaidd, y Lydaidd, y Galdeaidd, y Bersiaidd, y Roegaidd, y Rufeinaidd, y Saracenaidd, y Dyrcaidd, y Dartaraidd, yr Almaenaidd, yr Hispaenaidd, y Ffrengig, a theyrnasoedd ac amherodrodraethau ereill, a bu y rhan wyaf o honynt eisoes yn gyfranogon o lofruddiaeth a chaethiwed yn yn eu tro. Ac, ar swydus yw meddyl! derchafwyd llofruddion ac ysceilwyr mwyaf nodedig dynolryw, negys Sesostris, Senacherib, Nebuchodonozor, Alexander, Cæsar, Pompey, Lewis XIV. o Ffraingc, a lluaws o'r cyffelyb, fel dynion o leilyngdod rhagorol. Gan fyned eibio i'r amrywiol ddosparthiadau yn mhlith dynion a sylfaenwyd ar u gwahanol raddau o olud neu awlurdod, gwahanol gynnysgaethiadau u meddyliau neu eu hymarweddiad newn bywyd, &c. priodol yw sylwi, u bod yn sefyll ger bron Duw yn ddosparthedig i gyfiawn ac anghyfawn, saint a phechaduriaid. Y lrygionus ydynt y rhai ag sydd fyth n eu cyfiwr naturiol, dan y gyfraith el cyfammod toredig, dan lywodraeth pechod, ac yn etifeddion digofint; er o ran eu golwg allanol, y allant fod dan oruchwyliaeth yr fengyl; y cyfiawn ydynt y cyfryw g sydd, trwy eu hundeb â'r Iesu, n mwynhau cariad a thrugaredd Duw, wedi eu gwaredu o dan deyrnsiad pechod, yn etifeddion iachawdwriaeth, ac yn cael eu gwaredu n gymmwys, trwy sancteiddhad, i ael rhan o etifeddiaeth y saint yn y oleuni. Caniatteir i ni sylwi yn hellach, o'r pum gair a arferir gan r Hebreaid i arwyddoccau dyn, od ADDA yn ei ddynodi ef yn *ddaerol*; Is, a'i dynoda yn *gadarn* a *rwrol*; GEBER, a ddynoda *nerth* a *hagoroldeb cynnyddol*; ENOS, 'i gesyd allan yn *egwan*, *claf*, a *hruenus*; a METH a ddynoda ei *arwoldeb*, neu yn hytrach ei *gymeithasgarwch*. Pan gyssylltir *Adda* ac *Is* mewn cyferbyniad, *Adda*, a arwydda dyn gwael; *Is*, un goludog neu anrhyddedus, Salm xlix. 2. Esa. ii. 7. Y mae Anghrist yn cael ei alw yn *ddyn pechod*. Y rhan fwya fo'r Pabau ydynt anghenfilod, hollol am butteindra, twyll, halogrwydd, a'r cyffelyb. Y mae y grefydd Babaidd yn cynnwys daliadau pechadurus a chyfeiliornus, arferion pechadurus ac aflan o goelgrefydd ac eilunaddoliaeth, a swyddau pechadurus, yn nghyd â swyddogion drygionus; ac, yn ddiweddaf, ei holl dueddiad sydd er cynnyddu drygioni, 2 Thes. ii. 3. *Dynion Duw* ydynt brophwydi neu weinidogion, os nid saint hefyd, yn sanctaidd fel y mae Duw yn sanctaidd, ac wedi ymroddi i wasanaeth Duw, 1 Tim. vi. 11. 2 Tim. iii. 17. *Dyn* anianol, yw un, pa ffordd bynag y bydd ei gynneddfau neu ei fuchedd wedi eu gwellhau, etto nid oes ganddo ras neilluol ac achubol; a *dyn* ysbrydol, yw un wedi ei adnewyddu gan yr Ysbryd Glan yn trigo ynddo, a'i fryd ar ganfod ac archwaethu pethau ysbrydol, 1 Cor. ii. 14, 15. Yr egwyddor o ras yn ein henaid sydd yn cael ei galw yn *ddyn newydd*, *dyn oddi fewn*, *a chuddiedig ddyn*, yn cynnwys amryw rasau neilluol, yn cyfatteb i amrywiol aelodau y corph natturiol; y mae yn llywodraethu ac yn gweithredu yn ddirgelaidd yn ein rhan anweledig, sef ein henaid, ac yn ei gyddfurfio â'i delw ei hun, Eph. iv. 24. Rhuf. vii. 22. Dichon fod y *dyn oddi mewn*, neu y *cuddiedig ddyn*, yn dynodi hefyd yr enaid, Er llygru ein *dyn oddi allan*, er hyny ein *dyn oddi mewn* a adnewyddir o ddydd i ddydd. Er treulio ein cyrph, a gwywo ein hiechyd a'n nerth, er hyny ein henaid a'n hegwyddor dufewnol o ras a fywheir ac a gryfheir beunydd, 2 Cor. iv. 16. Dyfod yn *wr perffaith*, at fesur oedran cyflawnder Crist, yw dyfod i berffeithrwydd cyflawn o wybodaeth, sancteiddrwydd, a chyfiawnder ysbrydol, Eph. iv. 13. Yr egwyddor dufewnol o lygredigaeth a elwir yn *hen ddyn*; y mae yn cynnwys amryw chwantau, y rhai a gyfattebant i aelodau y corph dynol; y mae yn llywodraethu ac yn teyrnasu yn gyfrwys mewn dynion, ac yn ei cyddfurfio âg ef ei hun; ac y mae yn

foreu iawn, a bob amser o flaen gras mewn dynion, felly yn y saint, y mae mewn cyflwr gwywedig a marwol, Col. iii. 10. Y mae dynion yn gwybod *mai dynion ydynt*, pan wneir iddynt deimlo a deall eu hynfydrwydd a'u gwendid eu hunain, Salm ix. 20. *Dywedyd fel dyn*, neu *ar wedd ddynol*, yw tynu cyffelybiaeth neu reswm oddi wrth arferiadau dynion yn eu matterion gwladol, Gal. iii. 15. Nid yw yr efengyl *gan*, neu *yn ol dyn*; nid yw o ddychymmyg dynol, nac yn ymddibynu ar awdurdod dynol, Gal. i. 11. Y mae Crist yn gwneuthur *o'r ddau un dyn newydd*, pan fyddo yn cyssylltu Iuddewon a Chenedloedd, gynt mewn gelyniaeth, yn un eglwys newydd efengylaidd, ac mewn un ffordd newydd o addoliad ysbrydol, Eph. ii. 15. *Deisyfiad dyn yw ei drugaredd ef*; y mae efe, os yn ddoeth, yn deisyf trugaredd a bendith Duw; yn deisyf gallu a chyfleusderau i ddangos caredigrwydd i ereill, a bydd y tueddiad hwn yn ei wneuthur yn gymmeradwy ac anwyl, Diar. xix. 22.

DYNIAWED, *(iaw-ed)* bustach neu eidion blwydd, Mic. vi. 6.

DYNOL, *(dyn)* yn perthyn i ddyn. "Tynais hwynt á rheffynau dynol," Hos. xi. 4. Rheffynau *dynol*, a rhwymau *cariad*, a arwyddant yr un peth. Mae yr Arglwydd yn coffhau ei diriondeb tuag at Ephraim: cymmerodd ef erbyn ei freichiau, fel tad wrth ddysgu ei blentyn i gerdded; arferodd reffynau dynol, ac nid rheffynau *gaifeilaidd*, tuag attynt, gallasai eu gorchymyn gydag awdurdod a bygythiadau; ond, yn lle hyny, denodd hwynt yn garüaidd ac yn dirion, yn y moddd mwyaf addas i'w nattur ddyoddef. Yr oedd yn gofalu na chai yr iau wasgu yn drwm arnynt, i'w dolurio yn ei wasanaeth: a bwriodd attynt fwyd, fel y caent gynnaliaeth a chyssuron, 2 Cor. v. 14. Salm xii. 3. Lef. xxvi. 13. Ioan xii. 32.

DYRCHAFU, *(dyrch)* cyfodi i fwy o uchder, gogoniant, ac urddas, Num. xxiv. 7. Y mae Duw yn *dyrchafu* Crist, trwy ei gyfodi oddi wrth y meirw, ei dderbyn i fynu i'r nef, a thrwy roddi pob awdurdod a barn yn y nefoedd ac ar y ddaear, yn ei law ef, Act. ii. 33. Y mae Duw yn *cyfodi* pob pant, ac yn *cyfodi* prif-ffordd, pan symmudir pob rhwystr i'w waith yn dangos trugaredd, ac y bydd ffordd ei ddyfodiad i wneud i ni ddaioni yn cael ei gwneud yn amlwg ac eglur, Esa. xl. 4, a xlix. 11. Y mae cyrn dynion yn cael eu *dyrchafu*, pan fydd eu hanrhydedd, eu hawdurdod, neu eu hymddiried yn cael eu codi i fwy o enwogrwydd, 1 Sam. ii. 1, 10. Salm xcii. 10. Y mae dynion yn *dyrchafu* Duw, pan y byddant yn dwyn ei ogoniant mynegol yn mlaen, gyda gofal ac egni, ac yn moliannu ei ragoriaethau a'i weithredoedd, Exod. xv. 2. Salm xxxiv. 3, a xcix. 5, 9. Y mae dynion yn *dyrchafu eu hunain*, pan fyddant yn dwyn eu hawdurdod a'u golud eu hunain yn mlaen, neu yn prisio eu hunain uwchlaw ereill, Ezec. xxxix. 15. Mat. xxiii. 12. Y mae Anghrist yn *ymddyrchafu* goruwch pob peth a elwir yn Dduw; y mae efe yn ymddyrchafu *uwchlaw swyddogion gwladol*, gan gymmeryd arno eu gorseddau a'u diorseddu fel y mynno; *uwchlaw angelion*, gan ofyn iddynt, mewn modd rhyfygus, ddwyn y cyfryw eneidiau i'r nefoedd ag a fynno efe, a gorchymyn i'r diaflaid adael person y meddianneding; ac *uwchlaw y gwir Dduw*, trwy gymmeryd arno adael i droseddiadau o'i gyfraith ef fyned yn ddigosp, rhoddi awdurdod i'w air, a llywodraethu ei eglwys trwy reolau o'i eiddo ei hun, &c. 2 Thes. ii. 4.

DYRNAID, *(dwrn)* llonaid llaw. "Bydd dyrnaid o ŷd ar y ddaear," Salm lxxii. 16. Mae y geiriau, yn gyffelybiaethol, yn gosod allan gynnydd teyrnas yr Arglwydd, o ddechreuad bychan iawn, megys *dyrnaid* o ŷd yn mhen y mynyddoedd, lle amlwg iawn, etto lle diffaith, anhebyg iddo gynnyddu llawer, er hynny yn cynnyddu mor rhyfedd, nes byddo yn tebygu i goedwig Libanus.

DYRNU, *(dwrn)* arfer y dwrn, curo ŷd allan o'r dywysen neu y plisg. Y *dyrnu* a gyrhaeddai hyd gynhauaf y grawnwin, a chynhauaf y grawnwin neu sathru y grawn, hyd amser hau; pan na byddai y naill wedi ei orphen cyn dechreu llall, ac felly yn arwyddo llawnder mawr; ac felly goddiweddai yr arddwr y medelwr, a sathrydd y

grawnwin yr hauwr had. Byddai u cynhauaf ŷd hwy yn ein gwanvyn ni, a chynhauaf eu grawnwin n ein Awst ni; a'u pryd hau tua liwedd Hydref, neu ddechreu Tachwedd, Lef. xxvi. 25. Amos ix. 13. 2.) Dygn-ffino, distrywio, Heb. iii. 2. Amos i. 3.* Gosodir Babilon allan fel *llawr dyrnu*, neu yr *ŷd* ar y llawr, i arwyddo nattur ddisymnwth ac arswydus barnedigaethau Duw arni, Esa. xxi. 10. Jer. li. 33. Gosodir yr eglwys allan fel yn dyrnu y mynyddoedd a'r bryniau, ac yn eu nithio i'r gwynt, hyny yw, rwy waith yr Iesu yn gorchfygu a wrthwynebwyr neu wrthwynebad bynag a saif yn ffordd ei deddyddwch a'i dyledswydd hi, Mic. v. 13. Esa. xli. 15.

DYRYS-GOED. "Hynod oedd y ŵr, fel y codasai fwyeill mewn *dyrys-goed*," Salm lxxiv. 5. Wrth y *dyrys-goed*, y meddylir coed cydblethedig cywrain y deml. Yr ystyr yw, mae yn dra amlwg, yr oedd clod a hynodrwydd gynt yn cael eu rhoi i'r gwyr oedd yn adeiladu, ac yn cerfio y deml ogoneddus hon; ond yn awr ei *dryllwyr* sydd yn enwog, y rhai sydd yn bwrw cyssegroedd Duw yn tân, 1 Bren. v. 6. 2 Cron. i. 14.

DYSGU, athrawiaethu, (1.) Peri gwybod, Salm cxix. 26. (2.) Cynghori, cyfarwyddo, Marc viii. 31. Y mae Duw yn *addysgu* dynion trwy eiair, gan gyviro eu barn; trwy ei ysbryd, yn agor eu deall i ganfod pethau dwyfol; athrwy ei ragluniaeth, yn nodi allan beth a wnaethom, neu a ddylem wneuthur, neu beth a ddylem ddisgwyl ar ei law ef, Rhuf. ii. 18. Neh. ix. 20. Jer. vi. 8. Diar. xxiv. 32. Salm xxv. 8, 9. Y mae deheulaw Crist yn *dysgu iddo bethau ofnadwy*, pan y bydd yn cyflawni pethau rhyfeddol ei iachawdwriaeth ei bobl, a dinystr ei elynion, Salm xlv. 4. *Dysgu trwy law Duw*, yw gwneuthur hyny trwy ei gynnorthwy ef, Job xxvii. 11, *Dysgu a'r lysedd*, yw cynhyrfu ereill, trwy ystumiau, i'r hyn sydd warthus i'w fynegu mewn geiriau. Diar. vi. 13.

DYWEDYD, (*gwedyd*) llefaru, adrodd. (1.) Ewyllysio ac erchi gydag awdurdod, gallu, ac effeithioldeb, Gen. i. 3, 6, 9. (2.) Haeru, adrodd. Gen. xxxvii. 20. (3.) Llefain, Barn. xii. 6. (4.) Addaw, Luc xxiii. 43. (5.) Atteb, Exod. iii. 13, 14. (6.) Dysgu, siarhau, Mal. xvii. 10. (7.) Esponio, egluro, Heb. v, 11. (8.) Rhybuddio, Col. iv. 17. (9.) Cyfaddef, cydnabod, Luc xvii. 10.

DYWEDDIO *(dy-gwedd)*. Byddai yn arferiad yn mhlith yr Iuddewon, i'r ddau ddyn ymgyfammodi â'u gilydd, cyn i'w priodas gael ei chyflawni. Byddai hyn yn cael ei wneuthur naill ai trwy ysgrifen, neu trwy roddi darn o arian i'r ddyweddi, yn ngwydd tystion; ac, wrth ei roddi, dywedai y mab ieuange wrth y ferch, "Derbyn y darn hwn yn wystl o'th ymrwymiad i fod yn wraig i mi." Byddai ei derbyniad o'r gwystl yn arwydd o'i hollol gydsyniad a'i bymrwymiad iddo. Yr oedd eu dyweddiad yn eu rhwymo i'w gilydd, er nad oedd yn caniattau iddynt yr un rhyddid â'r cyfammod priodasol. Os byddai i'r ddyweddi droseddu yn erbyn ei hammod, yr oedd i gael ei chospi am odineb, yr un fath â phe buasai yn wraig briodasol, 2 Cor. xi. 2.

E

EBAL a GARIZIM ydynt ddau fynydd yn agos i Sichem, â dyffryn o yn nghylch 200 o gamau rhyngddynt. Y mae Ebal o du y gogledd, a'i ben yn dra llwm a diffrwyth. Garizim sydd o du y dehau, ac yn ffrwythlon a gwyrddlas. Ar y mynyddoedd hyn y gosodwyd yr Hebreaid, chwech llwyth ar bob un, i ddadseinio *Amen* i'r bendithion a'r melldithion a gyhoeddid gan yr offeiriaid, yn y dyffryn rhwng y ddau, Deut. xxvii, a xxviii. Jos. viii. 30—35. Ar fynydd Garizim yr adeiladodd y Samariaid deml wedi hyny, lle y byddent weithiau yn proffesu y gwir Dduw, ac weithiau Jupiter Olympius, un o dduwiau y Groegiaid. Ymddengys mai ar y mynydd hwn y bu ein Hiachawdwr yn ymddiddan â'r wraig o Samaria, Ioan iv. 20.

EBED-MELEC *(gwas y brenin)*. Ethiopiad, gwas y brenin Zedeciah. Wedi iddo glywed am garchariad Jeremiah yn y daeardy llawn o fudreddi heintus, efe a osod-

odd y matter ger bron y brenin mor effeithiol; a bod y prophwyd mewn perygl o gael ei newynu, fel y gorchymynwyd iddo gymmeryd 30 oi wyr gydag ef, a thynu Jeremiah allan o'r daeardy. Ebed-melec, yn ddiattreg a wnaeth felly; a rhag y niweidiai y rhaffau freichiau y prophwyd tra y byddent yn ei dynu ef i fynu, efe a ollyngodd i waered hen garpiau i'w gosod dan ei geseiliau. Gwobrwywyd y weithred hon o garedigrwydd i'r prophwyd yn fuan gan Dduw. Gorchymynodd i Jeremiah ddywedyd wrtho, yr achubid ef yn ddiogel pan ynnillai y Caldeaid y ddinas; a dygwyddodd felly, Jer. xxxviii. 6, 7, &c. a xxxix. 15.

EBEN-EZER, *(maen y cymmorth)* enw y maes lle y gorchfygodd y Philistiaid yr Hebreaid, ac y daliasant yr arch sanctaidd: a lle, wedi hyny, wrth weddi Samuel, y dryliodd yr Arglwydd y Philistiaid â tharanau ac â chenllysg mawrion; ac y rhoddodd waredigaeth hynod i'r Hebreaid. Ar yr achlysur hwn, gosododd Samuel faen i fynu, a rhoddodd iddo yr enw hwn, i arwyddo mai yr Arglwydd a'u cynnorthwyasai hwynt; ac oddi wrtho ef y derbyniodd yr holl faes cyfagos ei enw. Dywedir ei fod yn nghylch 40 milltir o du y dehau-orllewin i Siloh, 1 Sam. iv. 1, a vii. 12.

EBENUS, math o goed celyd, trymion. Mae y coed hyn o amryw liwiau, sef duon, cochion, a gwyrddion; ond y muchudd-dduon a gyfrifir y goreu. Maent yn tyfu yn yr India Ddwyreiniol; o ynys Madagascar a St. Maurice y dygir y rhan fwyaf o honynt i Ewrop, Ezec. xxvii. 15.

EBRAN, *(eb-ran)* porthiant anifeiliaid. "Dy ychain a'th asynod a borant *ebran* pur," Esa. xxx. 24. Wrth yr ychain a'r asynod, trwy lafur pa rai mae ereill yn cael cynnaliaeth, deallwn, diammeu, y rhai sydd yn poeni, neu yn llafurio yn y gair a'r athrawiaeth; y rhai sydd yn ymborthi eu hunain, ac yn ganlynol, yn porthi ereill, sef praidd Duw, ag ymadrodd iachus. Mae hon yn addewid dra gwerthfawr i'r eglwys, efe a addawodd y byddai ei gweinidogion yn iachus yn y ffydd, ac mewn profiad ysbrydol o ddyfnion bethau Duw; a thrwy hyny, yn gryfion i lafurio ac i borthi defaid Crist, 1 Tim. v. 17, a vi. 3. Tit. i. 8. Ioan xxi. 16, 17.

ECRON, *(diffrwyth)* un o brif ddinasoedd y Philistiaid. Safai o amgylch 34 o filltiroedd o du y gorllewin i Jerusalem, deng milltir o du y dehau-orllewin, neu fel y dywed rhai, o du y gogledd-orllewin i Gath, a 14 o du y gogledd i Asdod. Rhoddwyd hi yn gyntaf i lwyth Judah, ac wedi hyny i lwyth Dan, Jos. xv. 45, a xix. 43. Llwythau Judah a Simeon a'i hennillasant oddi ar y Philistiaid ar ol marwolaeth Josuah, Barn. i. 18; ond adennillodd y Philistiaid hi yn fuan. Yma yr oedd yr eilun Baalzebub yn cael ei addoli, 2 Bren. i. 2. Yr Ecroniaid a annogasant gyntaf i anfon arch Duw yn ol i'r Israeliaid, 1 Sam. v. 10. Anrheithiwyd Ecron gan yr Assyriaid, ac, wedi hyny, gan y Caldeaid; blinwyd y trigolion yn ddirfawr wrth y newydd am waith Alexander yn difrodi Tyrus. O'r diwedd, darostyngodd yr Iuddewon Maccabeaidd hi. Pregethwyd yr efengyl yma yn foreu, Amos i. 8. Zeph. ii. 4. Zech. ix. 7.

EDAU, yr hyn a nyddir o sidan, o lîn, neu o wlan, i wneuthur defnyddiau o honynt. Mae gwefusau yr eglwys "fel *edau* ysgarlad," Can. iv. 3. Offrynau ymadrodd ydynt y gwefusau. Wrth y gwefusau, gan hyny, mae i ni ddeall ei hathrawiaethau, ei hyfforddiadau, ei gweddiau, a'i diolch; mae y rhai hyn yn hardd, yn weddaidd, ac yn beraidd, trwy ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glan, a'i fydd yn Iesu Grist, 1 Cor. i. 17, 18, a ii. 4, 12, 13.

EDEN *(hyfrydwch)*. 1. Gwlad ar lan yr afon Euphrates, ychydig o du y gogledd i'r fan lle y mae yn rhedeg i lyngclyn Persia, ac yn agos i Haran a Gozan, 2 Bren. xix. 12, 13. Yma y mae etto y ddaear frasaf yn yr amberodraeth Dyrciaidd, ac un o'r lleoedd mwyaf hyfryd yn holl naturiaeth, pe gwrteithid ef yn iawn. Yma, tebygol, y safai y Baradwys ddaearol, yn y fan lle yr ymuna yr Euphrates â'r Hidecel, neu y Tigris, yn un afon; yr hon, ychydig yn is i waered, sydd yn ymranu yn ddwy ffrwd; y Pison, yr hon sydd yn *amgylchynu*, neu yn hytrach yn *rhedeg*

trwy y parth dwyreiniol i Hafilah, gwlad o du y gogledd-ddwyrain i Arabia Ddedwydd; a Gihon, yr hon sydd yn rhedeg trwy y rhan orllewinol i Cus, Ethiopia, neu Cuzestan yn Persia. Hyd yma yr estynodd yr Assyriaid eu buddugoliaethau. *Meibion Eden*, y rhai oeddynt o fewn Telassar, a arwydda trigolion Eden, yn preswylio yn nhalaeth Telassar; neu a osodasent eu hunain mewn rhyw dŵr cadarn, i amddiffyn eu hunain rhag difrodiadau yr Assyriaid. Yr oedd pobl Eden yn masnachu â'r Tyriaid, Gen. ii. 8—15. Esa. xxxvii. 12. Ezec. xxvii. 23. (2.) Y lle ffrwythlon hwnw yn Syria, rhwng Libanus ac Antilibanus; ac a elwid Cælo-Syria, neu Syria Gau. Wrth *dai Eden*, gellir meddwl rhyw balasau hyfryd oeddynt gan freninoedd Syria yno, Amos i. 5. O herwydd fod Eden mor hyfryd a ffrwythlawn, unrhyw wlad hyfryd a ffrwythlawn a gyffelybir i *Eden*, neu a elwir ar ei henw, Esa. li. 3. Ezec. xixxii. 13, a xxxi. 9, 16, 18. Joel ii. 3.

EDER, (1.) Dinas yn Judah, Jos. xv. 21. (2.) Mab Musi, 1 Cron. xxiii. 23.

EDFRYD, *(ed-bryd)* adferyd, edryd. Y gair hwn yn Mat. xvii. 11, a Marc ix. 12, a arwydda, medd *Campbell*, *adferyd* neu *orphen*. Yn yr ystyr diweddaf y mae yn golygu y gair yno, ac yn cyfieithu y lle, "I *orphen* y cwbl, rhaid i Elias yn wir ddyfod yn gyntaf;" sef, i *orphen* yn gyflawn yr hen oruchwyliaeth. Felly y mae yn barnu y dylid cyfeithu yr un gair yn Act. iii. 21. "Yn amseroedd *cyflawniad* pob peth;" yn lle, "yn amseroedd *adferiad* pob peth."

EDIFARHAU, yw cyfnewid y meddwl, gyda gofid, at beth a dybir yn fwy cymmwys, Mat. xxi. 29. Y mae Duw yn *edifarhau*, nid trwy gyfnewid ei feddwl, ei serch, neu ei arfaeth, ond trwy gyfnewid ei ddull o weithredu; felly efe a *edifarhaodd* wneuthur o hono ddyn, neu wneud Saul yn frenin, pan y cyfnewidiodd drefn ei ragluniaeth tuag attynt, fel un wedi cwbl benderfynu i'w distrywio a'u tynnu i lawr, Gen. vi. 6, 7. 1 Sam. xv. 11. Ei waith yn *edifarhau am ei weision*, neu ei *edifeirwch yn cyd-gynneu*, a arwydda ei fod yn cyfodi i fynu, yn dosturiol, er eu gwaredigaeth, wedi iddo ymddangos fel pe buasai wedi llwyr fwriadu i'w distrywio yn y byd, Deut. xxxii. 36. Salm cxxxv. 14. Hos. xi. 8. Ei waith yn *edifarhau am y drwg* a fygythiasai, neu y *da* a addawsai yn ammodol, a arwydda ei fod yn peidio gosod y naill, neu gyfranu y llall, Salm cvi. 45. Jer. xviii. 10. Ei ddoniau a'i alwedigaeth ef ydynt *ddiedifarus*; nis gellir eu galw neu eu cymmeryd byth yn ol, o herwydd fod ei gariad a'i ffyddlondeb yn eu gwneuthur yn anghyfnewidiol, Rhuf. xi. 29. Edifeirwch dynion yw, (1.) Cyfnewidiad eu meddwl, gan ddymunoyn ddifrifol am i rywbeth a wnaethant, gael ei ddadwneud. Ni chafodd Isaac le i *edifeirwch*, er i Esau ei cheisio gyd â dagrau, ac iddo yntau ei hun ei hewyllysio yn ddifrifol, etto nis gallai mewn un modd adalw bendith Jacob, a'i throsglwyddo i Esau, Heb. xii. 17. Neu gyfnewidiad barn am y Messiah, neu weithredoedd pechadurus, &c. Mat. iii. 2, a iv. 17. (2.) Edifeirwch deddfol, trwy ba un y mae dyn yn dwys-ofidio am bechod, ac yn troi oddi wrtho at rith allanol o grefydd, yn unig o achos y niweid a wnaeth, neu y mae'n debyg o wneuthur iddo; felly y mae drwgweithredwr, yr hwn sydd fyth yn caru ei bechod, yn edifarhau am ei wneuthur, o herwydd ei fod yn ei ddwyn ef i gospedigaeth: felly *edifarhaodd* Judas am ei waith yn bradychu ei Feistr, o herwydd iddo weled y dygai hyny ef i warth a phoen tragywyddol, Mat. xxvii. 3. (3.) Edifeirwch efengylaidd, yr hwn sydd ras achubol a weithir yn enaid pechadur gan air ac Ysbryd Duw, trwy ba un, oddi ar olwg a theimlad o bechod fel yn adgas gan Dduw, yn llofruddiog i Grist, ac yn halogedig i'w enaid ei hun, ac oddi ar ystyriaeth o gariad Duw yn Nghrist, y mae efe, gyda gofid a chasineb at ei holl bechodau gwybodus, yn troi oddi wrthynt at Dduw fel ei Iachawdwr, ei ran, a'i Arglwydd, gyda llwyr-fwriad ac ymdrech i ufuddhau o'r newydd. Hwn a elwir *edifeirwch tuag at Dduw*, am ein bod, trwyddo, yn troi oddi wrth bechod atto ef; ac *edifeirwch i fywyd*, am ei fod yn deillio oddi wrth ein bywyd

ysbrydol, ac yn ei amlygu, yn ei chwanegu yn feunyddiol, ac yn arwain ac yn parottoi i fywyd tragwyddol, Mat. iii. 2. Act. iii. 9, a xx. 21, a xi. 18. Yn mhob un o'r rhai hyn, rhaid fod ffydd gyfattebol yn rhagflaenu edifeirwch; rhaid i ffydd yn y ddeddf ragflaenu edifeirwch deddfol, Rhuf. iii. 19; a rhaid i ffydd yn yr efengyl ragflaenu edifeirwch efengylaidd. Rhaid i ni yn gyntaf edrych trwy ffydd ar Iesu, ac yna *galaru; rhaid i'r hwn sydd yn dyfod at Ddiw gredu*, a dyfod trwy Grist fel y ffordd; a pheth bynnag *nad yw o ffydd, pechod yw*, Zech. xii. 10. Heb. xi. 6. Ioan xiv. 6. Rhuf. xiv. 23. Ond cry-bwyllir weithiau am edifeirwch yn gyntaf, hwyrach, o herwydd mai edifeirwch yw y dyben, a ffydd yw y moddion, Act. xx. 21; neu yn yr ymadrodd hwn, *Edifarhewch a credwch yr efengyl*, yr ystyr all fod, Cyfnewidiwch eich syniadau cnawdol am y Messiah a'i deyrnas, a chredwch wirioneddau a chynnygion yr efengyl, Marc i. 15. Y mae edifeirwch yn ffrwyth anhebgorol angenrheidiol o faddeuant pechod mewn cyfiawnhad, Ezec. xvi. 62, 63, a xxxvi. 25—31; yn rhan o iachawdwriaeth ddechreuedig, ac yn rhagbarottoad i raddau cyflawn o iachawdwriaeth, Luc xiii. 3, 5.

EDLIW—IODD, *(ed-liw)* dannod, lliwied, ymhèrio, Mat. xi. 20, a xxvii. 44.

EDNOD, *(edn)* adar, 1 Bren. iv. 23.

EDOM, neu ESAU, mab henaf Isaac. Galwyd ef Esau, o herwydd ei fod yn flewog fel gwr yn ei gyflawn faintioli pan aned ef; ac *Edom*, hwyrach, o herwydd fod ei flew a gwedd ei wyneb yn *goch*; ac yn henaf o herwydd iddo werthu ei enedigaeth-fraint am bryd o gawl *coch*. Ganwyd ef A. M. 2173. Wedi iddo gymmyddu, ymroddodd yn henaf i hela. Ei waith yn diwallu ei dad mor fynych â helwriaeth, a barodd iddo fagu serch neilltuol atto; tra yr oedd Jacob o dymmer mwy addfwyn a llonydd, ac yn aros llawer gartref yn y babell, yn anwylyd Rebeccah en mam. Un diwrnod, wedi i Jacob barottoi iddo ei hun ychydig gawl o fresych cochion, dychwelodd Esau o'i helwriaeth, ar drengu gan newyn. Gofynodd i Jacob am gael yfed ychydig o'r cawl coch hwnw. Jacob a naccaodd, oni ymwrthodai Esau yn ddiattreg â'i enedigaeth-fraint iddo ef. Esau, gan ddiystyru y breintiau cyssyltiedig wrth yr enedigaeth-fraint, a ymwrthododd â hi, a fwyttaodd ei gawl, ac a aeth i'w ffordd yn ddigon diystyr, Gen. xxv. 24—34.

Pan oedd Esau yn 40 mlwydd oed, efe, er mawr ofid i'w rieni, a briododd ddwy o wragedd annuwiol, o ferched y Canaaneaid: y naill oedd Judith, merch Beeri yr Hethiad; a'r llall Adah, neu Basemath, merch Elon yr Hethiad. O ddeutu 30 o flyneddoedd wedi hyny, Isaac, yn cydnabod ei hun yn agos i farw, a fwriadodd roddi i Esau ei fendith olaf. I beri iddi fod yn fwy tyner, gorchymynodd i Esau hela helfa, a gwneuthur iddo flasus-fwyd, y fath a garai. Esau a gymmerodd ei offer, ac a aeth i'r maes i hela. Rebecca, yn deall oddi wrth Dduw fod y fendith wedi cael ei bwriadu ganddo i Jacob, a ddefnyddiodd foddion nad oeddynt gyfiawnadwy iawn i'w chael iddo ef. Pan ddychwelodd Esau, cafodd fod Jacob wedi ymrithio ar ei lun, ac ennill prif fendith ei dad. Gyda dagrau a chwynofain chwerw, efe a geisiodd gan ei dad i'w fendithio yntau befyd. Isaac, wedi ei gynnyrfu gan ei ddolefain galarus, a ddywedodd wrtho, er ei fod wedi cyfranu ei fendithion mwyaf dewisol, yn anniddymadwy, i Jacob, etto yr etifeddai yntau wlad yn cael ei hadfywio gan y gwlith, ac mewn rhai manau, yn ddaear fras; y byddai byw wrth ei gleddyf, y rhyfelai ef a'i hiliogaeth lawer, ac y gwasanaethai ei frawd a'i hiliogaeth; ond y byddai amser pan y torent eu hiau hwynt oddi am eu gyddfau. Ennynodd llid Esau yn ddirfawr o herwydd y dull twyllodrus trwy ba un yr amddifadasai Jacob ef o'i enedigaeth-fraint a'i fendith, a bwriadodd ymddial, trwy ei ladd, tra y galarai y cyfeillion am ei dad, marwolaeth pa un a ddisgwyliai efe yn feunyddiol. Yn y cyfamser, pan welodd ma drwg oedd ei briodasau blaenorol yn ngolwg ei rieni, efe, i'w boddio, a sierhau ei bawl i'r hyn a addawsid Abraham, a gymmerodd Mahalath neu Basemath merch Ismael, yr

wraig iddo, at ei wragedd ereill, a chan symmud oddi wrth ei rieni i fynydd Seir, lle yr oedd gweddill yr Horiaid yn preswylio, efe a briododdAholibamah, merch Anah, un o ben tywysogion y llwyth hwnw, Gen. xxvi. 34, 35, a xxvii, a xxviii. 6—9, a xxxvi.

Ffôdd Jacob i Padan-aram, i ochelyd digofaint Esau. Pan ddychwelodd adref, yn mhen ugain mlynedd wedi hyny, efe a anfonodd genadau âg anrhegion i'w ddyhuddo ef. Esau, gyda 400 o wyr arfog, a gychwynodd o Seir i gyfarfod â Jacob, gyda bwriad, tebygol, i'w ddistrywio ef, a'r hyn oll a feddai. Pan gyfarfuant o du y dehau-ddwyrain i fŵr Galilea, yr oedd Rhagluniaeth wedi llarieiddio tymmer Esau, ac efe a gyfarchodd Jacob yn dra charedig; a chyda gradd o anhawsdra y derbyniodd efe yr anrhegion a barotoîsai Jacob iddo, am y tybiai fod ganddo lawer iawn o anifeiliaid eisoes. Gwahoddodd Jacob i fynydd Seir, a chynnygodd ei wasanaeth iddo i'w arwain yno; ond Jacob, yn y modd mwyaf gostyngedig, a naccaodd ei dderbyn. Yn nghylch A.M. 2292, cawn Jacob ac Esau yn cydgynnorthwyo i gladdu eu tad: ac ymddengys eu bod eill dau, y pryd hwnw, yn preswylio yn nehau Canaan, ond am nad allai y wlad gynnwys yr holl anifeiliaid perthynol iddynt, dychwelodd Esau drachefn i fynydd Seir, Gen. xxxii, a xxxiii, a xxxv. 29, a xxxvi. 6, 7.

Hiliogaeth Esau a elwid yn Edomiaid, ac yr oeddynt yn bobl chwannog iawn i ryfel ac yspeilio. Yr oedd i Esau bump o feibion; sef Eliphaz, mab Adah, Reuel, mab Mahalath; a Jeus, Jaalam, a Cora, meibion Aholibamah. Yr oedd i Eliphaz saith o feibion; sef Zeman, Onar, Zepho, Cenaz, Cora, Gatam, ac Amalec. Yr oedd i Reuel bedwar o feibion; sef Nahath, Zerah, Sammah, a Mizzah. Yr un ar ddeg hyn, yn nghyd â thri mab Aholibamah, oeddynt yn ddugiaid yn ngwlad Edom. Yr Edomiaid a gyd-briodasant â'r Horiaid, ac, o'r diwedd, a lyngcasant y bobl hyny i fynu. Er i Dduw felldithio yr Edomiaid i fod yn gaethweision i Satan, etto, yn yr nes foreuol hono, tra yr oedd yr Hebreaid yn dyoddef y caethiwed creulonaf, yr oeddynt hwy yn genedl nerthol a than lywodraeth wyth o freninoedd olynol; sef Bela, mab Beor; Jobab, mab Terah o Bozrah, Husam, o wlad Teman; Hadad, yr hwn a orchfygodd y Midianiaid yn ngwlad Moab; Samlah o Masrecah; Saul o Reheboth; Baalhanan, mab Acbor, a Hadar o ddinas Pau; ond rhai a feddyliant yn hytrach mai brenincedd yr hen Horiaid oedd y rhai hyn. O ddeutu amser ymdeithiau yr Hebreaid yn yr anialwch, yr oedd gan yr Edomiaid un-ar-ddeg o ddugiaid; sef Timnah, Aliah, Jetheth, Aholibamah, Elah, Pinon, Cenaz, Teman, Mibzar, Magdiel, ac Iran. Ond, hwyrach, i arswyd y llu erwydredig hwnw beri iddynt ymuno drachefn dan un brenin. Tebygol mai at y penadur hwn yr anfonodd Moses gennadau i ddeisyf am gennad i fyned trwy ei wlad. Y fynedfa a naccawyd. Pan anfonodd Moses ail gennadwri, yn addaw y talent am bob peth a ofynent, casgl- odd brenin Edom fyddin i'w rhwystro: ond ymddengys i'r Edomiaid edifarhau, ac iddynt roddi ymborth iddynt am arian, Gen. xxxvi. 1 Cron. i. 35—54. Num. xx. 14—21. Deut. ii. 28, 29. Tros o ddeutu 400 o flynedd oedd wedi hyn, ni chlywn ychwaneg am yr Edomiaid; ond, tebygol, iddynt ymroddi i fasnach, ar fôr a thir. Elath ac Ezion-Geber oeddynt eu porthladdoedd ar fin y Môr Coch. Yn uchder eu llwyddiant, rhoddasant ryw dramgwydd i Dafydd. Efe a drôdd ei arfau yn eu herbyn; lladdwyd 18,000 o honynt, ac anrheithiodd Joab y wlad, a darostyngodd yr holl deyrnas dan iau yr Hebreaid. Hadad eu tywysog a ffôdd i'r Aipht; a chan ddychwelyd yn nyddiau Solomon, a osododd deyrnas i fynu o du y dehau-ddwyrain i wlad Edom; ond ymddengys iddi gael ei darostwng yn ebrwydd gan yr Iuddewon. Llywodraethwyd yr Edomiaid gan raglawiaid dan freninoedd Judah. Ymddengys i'r Moabiaid dorri i mewn i'w gwlad yn fuan ar ol hyn, a llosgi esgyrn eu brenin yn ulw. Ymunasant yn y cynghrair mawr yn erbyn Jehosaphat; ond lladdwyd hwy gan y rhai yr oeddynt mewn cynghrair â hwynt; sef y Moabiaid a'r Ammoniaid, 2 1 Sam. viii. 14. Bren. xi. 14—25, a

xxii. 47. 2 Bren. iii. Amos ii. 1. 2 Cron. xx. Salm cxxxiii.

Arol eu bod am 150 o flyneddoedd yn ddarostyngedig i'r Hebreaid, bwriasant yr iau ymaith, a gosodasant frenin o'r eiddynt eu hunain i fynu, A. M. 3115. Jehoram brenin Judah a gynnygodd i'w darostwng, ond ni lwyddodd. O ddeutu A. M. 3280, Amaziah, i ddial am eu gwaith yn prynu yr Hebreaid oddi wrth y Philistiaid a'r Tyriaid i fod yn gaethweision, neu ryw anmharch o'r fath, a ruthrodd i'w gwlad, a ynnillodd Sela eu prif ddinas, a darawodd 10,000 o honynt, ac a daflodd 10,000 arall o ben y graig yr adeiladesid eu dinas arni, a dygodd eu duwiau ymaith. Uzziah ei fab a ymosododd arnynt drachefn, ac a ennillodd Elath prif ddinas eu masnach ar y môr; ond Rezin brenin Syria a'i hadenynillodd hi, yn nyddiau Ahaz, 2 Cron. xxi. 8. Amos i. 6—9. 2 Bren. xiv. 7. 2 Cron. xxvi. 2, a xxviii. 17. 2 Bren. xvi. 6.

Yr Assyriaid dan Senacherib, neu ei fab Esarhadon a ddifrodasant eu gwlad yn erchyll, ac a ddinystriasant Bozrah eu prif ddinas. Pan oedd y Caldeaid yn gwarchae ar Jerusalem, yr Edomiaid a ymunasant â hwynt, ac a'u hannogasant i ddynoethi y ddinas a'r deml hyd at eu sylfaen; ond prin yr aethai pum mlynedd heibio, cyn i'r Caldeaid lwyr ddifrodi eu gwlad. Ymunodd y rhai a drigent yn y parthau dehenol â gwyr Nebaioth, a chymmerodd y rhai oeddynt yn y parthau gogleddol feddiant o bwthau dehenol rhandir Simeon a Judah; er pa amser, cafodd eu gwlad ei melldithio i anffrwythlondeb a sychder parhaus. Darius Hystaspes a orchymynodd iddynt roddi i fynu i'r Iuddewon y rhan honno o'u gwlad a feddiannasent hwy; ond pa effaith a gafodd y gorchymyn hwn, nis gwyddom. Yn nghylch A. M. 3840, Judas Maccabeus a'u trallododd yn ddifawr. Yn nghylch A. M. 3874, Ioan Hyrcanus a'u gorchfygodd yn hollol, ac a'u cymmellodd i ymgorpholi â'r genedl Iuddewig. Ychydig cyn ynnill Jerusalem gan Titus Vespasian, enciliodd llu o Edomiaid oddi wrth yr Iuddewon, ac a aethant ymaith yn llwythog âg yspail; er pa amser, darfu am eu henw o blith dynion, Esa. xxi. 11, a xxxiv. Salm cxxxvii. 7. Jer. ix. 25, 26, a xxv. 9—21, a xxvii. 3, a xlix. 7—22. Gal. iv. 21. 22. Ezec. xxv. 12—14, a xxxii. 29, a xxxv, a xxxvi. 2—35. Joel iii. 19. Amos i. 11, 12, a ix. 12. Obad. i. Mal. i. 3, 4. Esa. xi. 4. *Edom a Moab, a phennaf meibion Ammon, a ddiangant o'i law ef;* ni ddarostyngir yr Arabiaid, a hanasant o Ismael ac a breswyliant yn y gwleddydd hyn, gan y Tyrciaid, Dan. xi. 42. Am fod yr Edomiaid yn elynion creulon i'r Iuddewon, gelwir gelynion yr eglwys, o ba fath bynag, y rhai a ddarostyngir gan Grist, wrth yr enw *Edom* a *Bozrah*, Esa. lxiii. 1.

EDOM, neu IDUMEA, gwlad yr Edomiaid. Yr oedd yn gorwedd o du y dehau a dehau-ddwyrain i etifeddiaeth Judah, ac yn cyrhaedd weithiau i lyngelyn Elan y Môr Coch. Yr oedd yn wlad dra mynyddig, yn cynnwys mynydd *Seir a Hor*. Ei phrif ddinasoedd oeddynt Selah, Bozrah, Elath, ac Eziongeber; ac yr oedd yn cynnwys taleithiau Uz, Dedan, Teman, &c. Pan gymmerodd yr Edomiaid feddiant o barthau dehenol gwlad Canaan, gelwid honno *Idumea*, Marc iii. 8. Gynt yr oedd Idumea yn cael ei mwydo â gwlith y nefoedd, ac yr oedd yn wlad ŷd a gwin. Yn awr, ac er ys amryw oesoedd a aethant heibio, y mae wedi bod yn anialwch erchyll, mor gras gau sychder, fel nad all braidd na deadelloedd bori, na'r llysiau calettaf dyfu yno; ac mor llawn o ddreigiau a gwiberod, fel y bydd teithiwr mewn perygl bob munud o gael ei frathu ganddynt, Gen. xxvii. 39. Mal. i. 3, 4.

EDRYCH, (*ed-rhych*) golygu, syllu. (1.) Cymmeryd sylw manwl o beth, Lef. xiii. 5. (2.) Deall yn gyflawn a dadguddio, Dad. v. 4, 5. (3.) Dewis, Act. vi. 3. (4.) Gofalu am, Luc viii. 18, a xvii. 3, a xxi. 34. (5.) Credu ac ymddiried yn, Esa. xvii. 7, 8. Gwaith Duw yn *edrych* ar ddynion, a arwydda ei berffaith wybodaeth am eu hymddygiad; ei ofal am danynt, a'i diriondeb iddynt, Salm liii. 2. Galar. iii. 50; ei gymmeradwyaeth hyfryd o'u grasau, Can. vi. 13; neu ei

ddiofalwch ymddangosiadol am danynt, fel pe na byddai ond edrychydd yn unig, Hab. i. 13. Salm xxxv. 17; neu ei waith yn eu dychrynu ac yn eu cospi, Exod. xiv. 24. Gwaith dynion yn *edrych* ar Dduw neu Grist, a arwydda eu tremiad arno trwy ffydd yn ei ragoriaethau a'i berthynasau trwy y cyfammod newydd, yn deisyf am bob bendith ysbrydol ganddo, ac hefyd eu bod yn ei olygu fel eu cynllun, Salm v. 3, a xxiv. 5. Esa. xvii. 7, a xlv. 22. Jonah ii. 4. Heb. xii. 2. *Nac edrychwch arnaf, am fy mod yn ddu, ac am i'r haul edrych arnaf:* Nac edrychwch arnaf gyda dirmyg, na digllonedd; nac edrychwch yn unig ar fy ngwendidau, a'm profedigaethau, ac felly tramgwyddo wrth greiydd o'm hachos i: canys profedigaethau a'm cystuddiasant yn ddirfawr, Can. i. 6. *Edrychiad* pechadurus yr Edomiaid ar yr Israeliaid, oedd eu gwaith yn ymhyfrydu i'w gweled yn cael eu lladd, a'u dinasoedd yn cael eu llosgi â thân, a'u gwaith yn annog y Caldeaid i greulondeb, Obad. xii.

EDREI *(crug mawr).* 1. Prif ddinas breninaieth Basan, yn agos i ba un y gorchfygwyd Og. Wedi hyny, hi a roddwyd i hanner llwyth Manasseh, tu hwnt i'r forddonen. Jos. xiii. 31. (2.) Dinas yn Naphtali, Jos. xix. 37. Bu yno Esgob Cristionogol am rai oesoedd.

EDUMA, pentref, deuddeg milltir o du y dwyrain i Sichem.

EDUTH, *(tystiolaeth)* titl Salm 60 a 80, naill ai nód cerddoriaeth, yn awr yn anhysbys i ni; neu, arwydda fod y Salmau yn cynnwys tystiolaeth Dafydd am ei ffydd yn Nuw, a'i ddiolchgarwch iddo am ei waredigaethau, i'w canu gan offeiriaid Duw o flaen ei arch yn y cyssegr.

EDDI, *(gdd)* penau edafedd; rhidens, amaerwy. Yr oedd gorchymyn i feibion Israel wneuthur iddynt *eddi* ar odre eu dillad, a rhoddi pleth o sidan glas ar eddi y godre. Y dyben o hono oedd, iddynt edrych arno, er dal mewn cóf holl orchymynion yr Arglwydd, i'w gwneuthur hwynt, Num. xv. 38. Deut. xxii. 12. Mat. xxiii. 5. A sidan glas yr oeddynt yn clymu yr eddi yn siobynau ar bedwar cwrr eu harwisgoedd. Un o'r siobynau hyn a feddylir wrth *ymyl* gwisg yr Arglwydd Iesu, yr hwn a gyfflurfiodd yn mhob peth â gorchymyn Duw, Mat. ix. 20, a xiv. 36. Marc vi. 56. Luc viii. 44. Fel arwydd o sancteiddrwydd ac ufudd-dod mwy manwl na chyffredin i'r gorchymyn dwyfol, y Phariseaid a wnaent ymylwaith *(siobynau)* eu gwisgoedd yn helaeth, neu, *siobynau eu gwisgoedd yn fawrion,* Mat. xxiii. 5.

EFA, enw y ddynes gyntaf, a mam pob dyn byw. Duw, wedi creu y dyn, a dwyn creaduriaid y tir ac ehediaid yr awyr ger ei fron ef, ni chafodd yn eu plith oll amgeledd cymmwys iddo. Efe, gan hyny, a barodd i drymgwsg syrthio arno, ac, allan o'i ystlys, a ffurfiodd ddynes hardd, ac a'i rhoddodd i Adda yn wraig. I ddangos fod eu dechreuad o'r llwch, a'r undeb serch oedd rhyngddynt, galwodd Duw hwynt eill dau Adda; ond Adda a'i galwodd hi *Ischa,* neu wrrywes, o blegid mai o wr y cymmerwyd hi, a'i bod yn ddarlun o hono. Ni buasent byw yn nghyd nemmawr o amser, cyn i Satan ddyfod at y wraig, o genfigen at eu gwynfyd, a'i darbwyllo i fwytta o'r ffrwyth gwaharddedig, yr hyn a wnaeth, a'i gwr mewn canlyniad. I ddangos ei ffieiddiad o bechod, condemniodd Duw hi a'i heppil fenywaidd i luaws o gystuddiau poenus wrth ddwyn plant, ac i raddau pellach o ymostyngiad i'w gwyr. Ar ol dadguddio adferiad dyn trwy Grist, galwodd Adda ei henw *Hafah,* neu Efa, canys hi oedd i fod yn fam pob dyn byw. Hi, yn fuan wedi eu bwriad allan o Baradwys, a feichiogodd ac a esgorodd ar fab. Yn tybied iddi gael yr had addawedig, yssigwr siol y sarph, yr Arglwydd, y Prynwr, galwodd ei enw ef Cain, yr hyn a arwydda *meddiant.* Yn fuan ar ol hyn, esgorodd ar ail fab, ac a alwodd ei enw ef Abel, neu *wagedd.* Ac yn mhen hir amser wedi hyn, pan oedd Abel newydd gael ei ladd, hi a esgorodd ar Seth, yr hwn a gyfrifodd hi yn had a roddasid iddi yn lle Abel. Gwel *Adda.* Gen. ii, a iii, a iv. 2 Cron. xi. 3. 1 Tim. ii. 13—15.

EFENGYL, yn ol y Groeg a arwydda *newydd da;* a'r Efengyl, a elwir felly mewn modd nodedig, yw y newydd da o lawenydd mawr fod

Ceidwad wedi ei eni yn ninas Dafydd, sef Crist yr Arglwydd. Yr *efengyl* sydd yn ddadguddiad graslawn o'r nef, o drefn Duw yn Nghrist yn achub pechadur rhag y llid a fydd. Y mae y gair yn mynegu y ffordd yn mha un y mae drws trugaredd yn cael ei agor i'r euog, trwy i *newydd da* gael ei ddwyn i'w glustiau; o herwydd y ffydd yr hon sydd er cadwedigaeth yr enaid, a ddaw trwy *glywed*. Ac, am hyny, er fod yr efengyl yn cael ei chymmwyso yn neilltuol at y gair a roddodd yr Arglwydd ei hun, ac a daenodd lluaws mawr ar led, Act. x. 37; etto yr un newydd da oedd, mewn gwirionedd, ag a ddygwyd i glustiau yr holl saint dan yr Hen Destament, ac mewn ffydd yn mha un y buont hwy feirw, Pwy a gredodd i'n hymadrodd? ac i bwy y dadguddiwyd braich yr Arglwydd? Esa. liii. 1; a dywedir i ni, i'r ysgrythyr *rag*efengylu i Abraham, Gal. iii. 8, am fod y felldith ddwyfol yn cyrhaedd at holl hiliogaeth Adda, ac yn dyfod i'r gydwybod gyd âg awdurdod Duw; y mae yn gofyn cyfuwch awdurdod i esmwythâu meddwl euog dyn; am hyny, gan i'r efengyl gael ei phregethu i'r saint dan yr Hen Destament, Heb. iv. 2, naill ai dadguddiwyd hi yn ddigyfrwng oddi wrth yr Arglwydd ei hun, neu trwy enau ei brophwydi, i ba rai y gorchymynwyd i ddywedyd, *Fel hyn y dywed yr Arglwydd*. Yr efengyl, dan yr Hen Destament, oedd gair yr addewid; dan y Newydd, y cyhoeddiad fod y peth da a addawyd i'r tadau yn awr wedi cael ei gyflawni. Swydd fawr Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu, oedd pregethu y *newydd da* am ffwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd, yn gydunol â phrophwydoliaethau yr Hen Destament, Esa. lxi. 6. Luc iv. 18. Er cyflawni y swydd hon, efe a ymddangosodd fel gwas cyfiawn y Tad, gyda'r Ysbryd, y Jehofah, arno. Ei orchwyl oedd pregethu yr efengyl i'r tlodion; iachâu y drylliedig o galon; cyhoeddi gwaredigaeth i'r caethion; caffaeliad golwg i'r deillion; a gollwng y rhai yssig yn rhyddion, &c. Hon yw efengyl Iesu Grist, wrth bregethu pa un efe a aeth oddi amgylch gan wneuthur daioni, a rhoi gwystlon o'i heffeithiau bendigedig, trwy iachâu pob math o anechyd yn mhlith y bobl. Efe a amlygodd nattur yr efengyl honno, o herwydd daeth at ddeiliaid cyfrgolledig tŷ Israel. Efe a eglurodd ei phen-arglwyddiaeth hi, o herwydd llanwodd y *newynog* â phethau da yr efengyl, ac anfonodd y *cyfoethogion* ymaith yn weigion. Efe a ymddangos yn ngwir ysbryd y brophwydoliaeth hon, "O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, ïe, yr hwn nid oes arian ganddo," &c. Esa. lv. 1; ac felly cawn fod ei ganlynwyr yn ei weinidogaeth bersonol yn gynllun cymmwys iawn o'r rhai a ymddangosasant fel cyfeillion penaf yr efengyl byth wedi hyny: "Y publicanod a'r pechaduriaid a neshasant atto ef, a'r rhai hyny o'i gynnulleidfa a ymddangosent i wrandaw arno gyda hyfrydwch, oeddynt y "bobl gyffredin." Ei ganlynwyr, yn gyffredin, oeddynt y deillion a'r cloffion, a'i ganmolwyr (os gallwn gymmwyso y gair felly) oeddynt blant bychain. Er fod holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig ynddo ef, ac y gallai beri i gyfarfodydd y doctoriaid synnu wrth ei ofyniadau a'i attebion; er y gallai roddi y Saduceaid athronyddol yn ddistaw pan y mynai, a gwneuthur y fath attebion, fel na feiddiai un dyn ofyn dim iddo, etto y ddysgeidiaeth fawr a ymddangosai yn ei gylch oedd, "medru llefaru gair mewn pryd wrth y diffygiol," yr hyn a eilw y prophwyd *tafod y dysgedig*, Esa. l. 2. Dysgeidiaeth ryfedd yn wir! llefaru heddweh wrth gydwybod euog. Yn awr, ymddangosodd hyn oll o'i amgylch wrth bregethu *ei efengyl*; ac, am hyny, y mae yn nôd gwahaniaethol o'r efengyl honno. Efe a draddododd yr efengyl honno, megys oddi wrth awdurdod dwyfol, ac felly y rhai a'i clywsant ef a synasant, o herwydd efe a'u dysgai fel *un âg awdurdod ganddo*, sef *Duw*; o'r achos hwn, tystiolaethodd hyd yn nod y swyddogion a antonwyd i'w ddal ef, *na lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn*. Yn awr, tra yn arfer awdurdod Duw, efe a bregethodd yr efengyl gyda mawrhydi: "Cyfod, maddeuwyd i ti dy aml bechodau." Efe, ar bob amser, a ddysgai ei apostolion,

a'r rhai ereill a wrandawent arno, mewn perthynas i'r gwerth anfeidrol am ba un y pregethai efe y newydd da hwn: *Rhaid i Fab y dyn ddyoddef llawer o bethau; ei gwrthodedig, ac addgyfodi y trydydd dydd*: tra fyddai yn galw y blinderog a'r trwm-lwythog i ddyfod atto ef i gael gorphwysdra i'w heneidiau, efe a'u cyfeiriai yn ddiattreg at ei groes; efe a amlygai yn barhaus, nas gallai iachâu y dryllieddig o galon oni thrwy i'w galon ei hun gael ei chystuddio yn drwm o'i fewn; mai trwy farwolaeth yn unig y gallai efe waredu y rhai, trwy ofn marwolaeth, oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed.

'Gwedi i'r Apostol mawr orphen ei bregethiad ar y ddaear, a sefydlu gwirioneddau y cwbl a ddywedasai trwy ei adgyfodiad oddi wrth y meirw, efe a escynodd i'r nefoedd, gan adael hyn gyda'i apostolion, fel ei orchymyn arbennig, "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr *efengyl* i bob creadur, y neb a gredo a fydd cadwedig, ond y neb ni chredo a ddemnir." Y *trysor* hwn, sef yr Efengyl, a roddwyd y pryd hwnw mewn llestri pridd, fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw; felly pan âi yr apostolion o amgylch i bregethu, byddent yn ofalus ar fod i hyn ymddangos, "nad oeddynt yn pregethu eu hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd," &c. Dygasant dystiolaeth yn hyf, yn wyneb pob gwrthwynebiad i'r efengyl a ymddiriedasid iddynt. Yn mhregethau yr apostolion, megys eu coffëir yn Actau yr apostolion, cawn y corph goreu o ddiuwinyddiaeth, a'r cynlluniau mwyaf perffaith o bregethau a ddangoswyd i'r byd erioed. "Bydded hysbys i chwi, *ha* wyr frodyr, mai trwy hwn (Crist Iesu) yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau." Gellir edrych yr adnodau canlynol, fel yn gosod ger ein bron, yn y modd egluraf, (1.) Beth yw yr efengyl; ac (2.) Beth oedd y dull apostolaidd o bregethu yr efengyl, Act. ii. 14—40, a iii. 13—26, a iv. 9—12, a vii. 1—53, a x. 34—44, a xiii. 17—44, &c. At y rhai hyn y cyfeiriwn, yn lle dodi rheolau ysgol-dduwinyddion am bregethu yr efengyl i mewn. Pan agorai yr Arglwydd galonau rhyw rai i ddal ar yr efengyl fel y pregethid hi gan yr apostolion, "gweithredai yn effeithiol, gan droi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at y Duw byw;" a'r byddai naill ai yn arogl bywyd i fywyd, neu farwolaeth i farwolaeth iddynt. Crybwyllasom eisoes, er nad oedd yr efengyl, yn ngenau yr apostolion, yn ymddangos ond mewn llestri pridd, y rhai oeddynt i adfeilio yn fuan; ettto, yr hyn a bregethent hwy, oedd yr un efengyl ogoneddus ag a bregethodd yr Arglwydd ei hun; Petr a'i geilw "gair Duw, yr hwn sydd yn byw ac yn aros yn dragywydd:" er fod y llestri a'i cynnwysai yn llygredig, etto, yr oedd yr efengyl, hyd yn nod yn eu genau hwy yn "had anllygredig y gair." Yn ganlynol, cawn i'r Arglwydd ddwyn tystiolaeth i'w efengyl, fel ei' pregethid gan yr apostolion, mewn amrywiol ffyrdd. Cyn iddo ymadael â hwynt, efe a addawodd y canlynai yr addewidion hyn: "Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; ac â thafodau newyddion y llefarant; seirph a godant ymaith; ac ar y cleiñon y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach," Marc xvi. 17, 18. Yn awr, yr oedd y doniau anghyffredin hyn, y rhai a ganlynent bregethiad yr efengyl gan yr apostolion a'r Cristionogion cyntaf, yn atteb dyben deublyg. (1.) Yr oeddynt yn *wyrthiau*, yn profi fod gallu Duw gyda'r efengyl; a'r apostolion a gymmerent lawer o boen i attal y neb ag oeddynt dystion o'r gwyrthiau hyn, rhag tybied mai trwy eu nerth eu hunain neu eu duwioldeb y gwnaethent hwynt; ffydd Iesu Grist, neu yr efengyl, oedd y gwirioneddhwnw ag yr oedd gallu Duw yn cyflyned âg ef, Act. iii. 12—16. (2.) Yr oeddynt yn *arwyddion*; o herwydd eu bod yn nodi allan effeithiau bendigedig yr efengyl. A ydoedd bwriad cythreuliaid allan yn canlyn gyda'r efengyl? *Arwyddai* mai trwy yr efengyl y bwrid tywysog y cythreuliaid ei hun allan, ac y distrywid ei holl weithredoedd. "A bu rhyfel yn y nef, Michael a'i angelion a ryfelasant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd a'i bangelion hithau; ac ni orfuant, a'u lle hwynt nis cafwyd mwyach yn y nef. A *bwriwyd allan* y ddraig fawr, yr hen sarph, yr hwn a elwir

Diafol a Satan, yr hwn sydd yn twyllo yr holl fyd; efe a fwriwyd allan i'r ddaear, a'i angelion gydag ef. Ac mi a glywais lef uchel yn dywedyd yn y nef, Yr awr hon y daeth iachawdwriaeth, a nerth, a theyrnas ein Duw ni, a gallu ei Grist ef; canys cyhuddwr ein brodyr a fwriwyd i'r llawr, Dad. xii. 7—13.

Y mae yr efengyl bob amser mewn cyssyltiad â rhodiad ac ymarweddiad addas iddi; y mae yn dysgu i bawb a'i hadwaenant i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd drwg presennol; ac i ddisgwyl am obaith gwynfyddedig ac ymddangosiad gogoneddus ein Duw a'n Hiachawdwr. Bydd bob amser yn cenedlu yr hyn a eilw Paul, *ymneilltuaeth i efengyl Crist.* Cymmer pawb a gânt orphwysfa yn Nghrist ei iau ef arnynt, yr hon sydd esmwyth, a'i faich ef, yr hwn sydd ysgafn, Mat. xi. 28, 29. Ond eglurir y rhan hon o'r pwngc oreu trwy ystyried amryw ymadroddion a arferir yn yr ysgrythyr, fel yn ddarluniadol o'r efengyl.

Y mae yn cael ei galw *efengyl y deyrnas*, o herwydd mai hi yw y wialen neu y deyrn-wialen trwy ba un y gosododd Iesu Grist ei deyrnas i fynu, ac y bydd yn ei llywodraethu ac yn trin ei matterion hyd y diwedd. Y mae teyrnas Crist yn cynnwys y gymmanfa gyffredinol yn y nef, a'i bobl ewyllysgar ar y ddaear; yn awr, y mae yr efengyl yn briodol i'r deyrnas honno. Pale bynag y credir yr efengyl yn y galon, hi a weithia yno fel gair y brenin yn erbyn yr hwn nid oes dim cyfodi i fynu; am hyny, brenin y deyrnas a ddywed, nid wrth ddisgwyl y daw teyrnas Duw, ond *o'ch mewn* chwi y mae; felly pa le bynag y bydd yr efengyl, yno y mae teyrnas, neu reol ac awdurdod Crist. Pan roes Crist awdurdod i'w apostolion i bregethu yr efengyl, efe a ychwanega, *gan eu dysgu i gadw pob peth a orchymynais i chwi;* felly yn mha le bynag y bydd yr efengyl yn trigo, yno y bydd awdurdod Iesu Grist yn trigo; darostyngir y gydwybod i'w awdurdod, a hi a grŷn wrth bob gair o'i eiddo. Y mae yn cael ei galw hefyd *efengyl Duw*, Rhuf. i. 1, o blegid ei bod yn deilliaw oddi wrth gariad Duw, ac yn amlygiad mawr o'i gariad at ddyn euog. *Efengyl gras Duw*, o blegid mai *gras* yw prif bwngc yr efengyl. (Gwel *Gras.*) *Efengyl Crist*, o blegid, fel y dywed Paul, mai efengyl Duw am ei Fab, Iesu Grist, ein Harglwydd yw. *Efengyl ein hiachawdwriaeth*, o blegid mai trwyddi y mae iachawdwriaeth fawr Duw yn dylifo i'r euog.

Y gair *efengyl* a arferir hefyd weithiau i osod allan yr adroddiad banesiol am yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu, hyd y dydd y derbyniwyd ef i fynu i'r nef; yn yr ystyr hwn y mae y cyfryw ymadroddion â *dechre efengyl Iesu Grist, Yr efengyl yn ol Mathew*, &c. i gael eu deall.

EFENGYLWR, pregethwr yr efengyl. Yr oedd y rhai a gyfenwid yn efengylwyr yn nesaf mewn trefn at yr apostolion, ac yn cael eu hanfon ganddynt, nid i sefydlu mewn un man, ond i deithio trwy yr eglwysi ieuainge o'r enwad Cristionogol, ac ordeinio swyddogion cyffredin, a gorphen yr hyn a ddechreuasai yr apostolion. O'r fath hyn oedd Philip y diacon, Timotheus, Titus, Marc, Silas, &c. Act. xxi. 8. Ymddengys fod rhai yn y swydd anghyffredin hon mor ddiweddar âg amser Trajan, o ddeutu A. D. 116. Rhoddir yr enw i bedwar ysgrifenydd ysbrydoledig bywyd a marwolaeth ein Hiachawdwr, y rhai ydynt, yn wir, y newyddion mwyaf hyfryd i ddynion pechadurus a dinystriol.

EFIL-MERODAC, neu *Merodac yr ynfyd*, mab a chanlynwr Nebuchodonozor. Dywedir iddo lywodraethu yr amherodraeth yn amser gwallgofrwydd ei dad, ac, wedi hyny, iddo gael ei roddi yn ngharchar o blegid ei gam-drefniad, lle y bu cyfeillach rhyngddo â Jehoiacim brenin Judah; ac, am hyny, efe a'i dygodd allan ac a ddyrchodd ei ben cyn gynted ag y daeth i'r orsedd, Jer. lii. 31. PriodODD Nitocris, merch Astyages brenin Media, un o'r mwyaf bywiog a synwyrol o'r rhywiogaeth; yr hon a gynghorodd Belsassar ei mab i alw Daniel i ddarllain yr ysgrifenlaw ar y pared. Trwy ddifrodiad nwyfus o ran o diricgaethau Media, efe a barodd ryfel rhwng y ddwy

deyrnas, yr hwn a ddiweddodd yn ninystr y Caldeaid. Wediiddo deyrnasu yn nghylch dwy flynedd, neu yn hytrach ymdreiglo mewn syrthni a drygioni c'yd â hyny, lladdwyd efgan Neriglissar ei frawd yn nghyfraith, yr hwn a ddaeth i'r orsedd ar ei ol.

EFRAU *(e-bre)*. Pa lysieuyn a feddylir wrth y gair Gr. *zizania*, a gyfeithir *efrau*, mae yn anhawdd penderfynu; hwyrach ei fod yn fwy adnabyddus yn y gwledydd hyny na chyda ni. Cyffelybir dynion annuwiol i *efrau;* maent yn tyfu i fynu yn mysg y saint, yn lled debyg iddynt, ac yn dra niweidiol, ond nis gellir eu didoli yn gyflawn hyd y dydd diweddaf, pan y cant eu bwrw i'r tân tragywyddol, Mat. xiii. 24—44.

EFRYDD, *(e-brydd)* anafus, un â diffyg neu wedi colli rhyw aelod. "Ymgasglodd *efrydd*ion yn fy erbyn," Salm xxxv. 15. Yn ol yr Hebraeg, *tarawyddion*, neu rai yn *taraw*. Cynnwys y geiriau ddesgrifiad prophwydoliaethol o *ffiangelliad* yr Arglwydd Iesu.

EGIN, *(cin)* blaen-dardd. "A'r gwinwydd a'u *hegin grawn*.—Y mae i'n gwinllanoedd *egin grawn*," Can. ii. 13, 15, a vii. 12.

EGLAH, *(anner)* un o wragedd a mam Ithream, 2 Sam. iii. 5.

EGLAIM, neu GALIM, neu EGALA, neu EGALIM, dinas tu hwnt i'r Iorddonen, o du y dwyrain i'r Môr Marw, yn ngwlad Moab, 1 Sam. xxv. 44. Esa. xv. 8.

EGLON *(cerhyd crwn)*. 1. Brenin Moab, yr hwn a orthrymodd Israel 18 mlynedd. Efe, yn nghyd â meibion Ammon ac Amalec, a aeth ac a darawodd Israel, ac a feddiannodd ddinas y Palmwydd, sef, Jericho, neu En-gedi. Cyfododd yr Arglwydd Ehwd i wared Israel oddi wrth orthrymder Eglon, Barn. iii. 12, 13, 15. (2.) Dinas yn Judah, Jos. xv. 29.

EGLWYS *(e-glwys*, glan). Arferid y gair a gyfeithir felly gynt i arwyddo unrhyw gynnulleidfa gyhoeddus o ddynion, i ymgynghori yn nghylch lleshad cyffredin dinas neu wladwriaeth: ac, weithiau, rhoddid ef i gynnulleidfa anghyfreithlon, Act. xix, 22, 39, 41, yn y Gr. Haerir fod y lle o ymgynnulliad sanctaidd yn cael ei alw felly yn 1 Cor. xi. 18, 22, a xvi. 34; ond, yn y ddau destun hyn, gellir deall y gair o'r goreu am y *gynnulleidfa wedi ymgasglu*. Gyda golwg ar gynnulleidfaoedd sanctaidd, arferir y gair i arwyddo cymdeithas o ddynion, wedi eu galw gan Dduw trwy yr efengyl, allan o'r byd sydd yn gorwedd mewn drygioni, i ffydd, cymdeithas, ufudd-dod, ac addoliad yr Arglwydd Crist, a Duw ynddo ef. Gyda golwg ar ba ystyr, y mae y gair yn cael ei gymmeryd yn fwy neu lai helaeth. Arwydda, (1.) Yr holl gorph o etholedigion, wedi eu huno dan Grist eu Pen, Col. i. 18. (2.) Canlynwyr ac addolwyr Crist, mewn talaeth neu ddinas neilldiol, megys Ephesus, Smyrna, Jerusalem, Rhufain, &c. Dad. ii, a iii. (3.) Corph neilldiol o ddynion a fyddant arferol o gydgyfarfod yn yr un lle, i broffesu, addoli, a gwasanaethu yr Arglwydd Crist, Rhuf. xvi. 5. Col. iv. 15. Yn mhob un o'r ddau ystyr olaf hyn, y mae y bobl, yn nghyd â'u llywodraethwyr, yn cael eu galw yn eglwys, Act. viii. 3, a xiv. 23. (4.) Cynnulleidfa o lywodraethwyr sanctaidd wedi ymgyfarfod yn enw ac awdurdod Crist, i gyflawni ei gyfreithiau, a llywodraethu ei bobl, mewn cymmanfa, dinas, neu dalaeth, Mat. xviii. 19.

O ddechre y byd hyd ei ddiwedd, y mae yr eglwys i barhau; ac y mae yn gymdeithas ysbrydol, sanctaidd, rheolaidd, a mwy neu lai gweledig. O herwydd mai perthynas â Christ, ac â'r naill y llall ynddo ef, yw ffurf gyfansoddol eglwys, y mae eglwys yr Hen Destament a'r Newydd yn cyduno mewn pethau hanfodol; er eu bod, yn nefodau allanol eu haddoliad, ac amryw amgylchiadau ereill, yn gwahaniaethu yn ddirfawr. Yn mhob oes, Iesu Grist yw sylfaen a phen yr eglwys; ei ddadguddiedigaethau ydynt ei rheolau rhwymol o gyfarwyddyd; ei ogoniant ef, a gogoniant Duw ynddo ef, ac iachawdwriaeth ysbrydol a thragywyddol dynion trwyddo, ydynt ddybenion ei sefydliad. Pechaduriaid enog, wedi eu bendithio â gwybodaeth a chariad y gwirionedd, yn cyffesu â'r genau yr Arglwydd Iesu, ac yn credu yn y galon mai Duw a'i cyfododdef oddi wrth y meirw; eu cydwybodau wedi cael eu darostwng iddo ef, ac iddo ef yn unig, fel eu

hun Arglwydd, yn dal yr un ffydd, ac yn rhodio yn ei ordinhadau, ydynt yr unig aelodau o'r eglwys ei, Eph. i. 22, a iv. 4, 5, 6. Col. ii. 17. Eph. ii. 20. Esa. viii. 20. Ioan v. 39. Eph. iii. 21, a v. 25—27. Heb. iii. 1, 6.

Tros 2500 o flyneddoedd, ymddengys nad oedd gan yr eglwys lywodraethwyr neu swyddogion cyfredin; ond y penau teuluoedd patriarchaidd oeddynt yr athrawon a'r offeiriaid, Gen. xviii. 19. Job i. 5. Dros y rhan fwyaf o'r amser hwnw, nid oedd ynddi lawer o ordinhadau nac aelodau. Dros 1530 o flyneddoedd wedi hyny, yr oedd hi wedi ei chyfyngu, gan mwyaf, i'r genedl Iuddewig: ei hordinhadau seremoniol oedd yn dra lluosog, a'r dadguddiedigaethau a roddwyd iddi yn aml ac eglur iawn. Ei hathrawon a'i llywodraethwyr oeddynt brophwydi, offeiriaid, a Lefiaid. Yn ystod rhan fawr o'r ddau amser hwn, yr oedd gweledigaethau Duw yn fynych iawn.

Dros rai oesoedd, bu rhaglunaeth Duw yn parottoi pethau er gosod eglwys y Testament Newydd i fynu, yn benaf yn mhlith y Cenedloedd. Gwasgarwyd yr Iuddewon i lnaws o fanau beblaw eu gwlad eu hunain. At eu gwasanaeth hwy, cyfeithwyd yr Hen Destament i'r Groeg, iaith ag oedd y pryd hwnw yn ffynnu yn ddirfawr yn y byd. Pan anwyd yr Iesu, arweiniwyd y doethion yn wyrthiol i'w addoli ef; a, diammau, dygasant y newydd adref am ei ymgnawdoliad. Yn ystod ei fywyd, credodd y wraig o Samaria, y canwriad, y wraig o Syro-Phenicia, ac eraill o'r Cenedloedd yndo ef. Lluaws o Roegiaid oeddynt yn ewyllysio ei weled ef. Ac y mae yn nodadwy, iddo ef bregethu, gan mwyaf, yn Galilea, a manau lle yr oedd lluoedd o'r Cenedloedd yn gymmysgedig â'r Iuddewon. Wedi ei adgyfodiad, bu cyfnewidiad mawr yn agwedd ei eglwys. Gynt, yr oedd ei sancteiddiolaf, a holl wasanaeth ei chyssegr, yn amlwg yn perthyni fynydd teimladwy; ond pan escynodd Crist i'r uchelder, efe a symmudodd eisteddle addoliad i'r nefoedd ei hun; dileodd ei holl ordinhadau bydol ac egwyddorol, y rhai oeddynt yn awr wedi myned yn llesg a thlodion, ac ysbrydolodd ei apostolion i gyfnewid cyssegrfeydd bychain iddo yn mhlith holl genedloedd y byd. Trwy y athrawiaeth a bregethodd yr apostolion, yn nghyd â gweithrediadau nerthol a doniau yr Ysbryd Glan lluoedd yn Judea ac yn yr holl wledydd oddiamgylch a ddychwelwyd yn fuan at Grist. Planwyd eglwysi yn Arabia, yr Aipht, Ethiopia, a Barbari, tua'r dehau a'r gorllewin; yn Caldea, Mesopotamia, Armenia, Assyria, a Persia, tua'r dwyrain; yn Phenicia, Syria, Asia Leiaf, Thracia, Macedonia, Tir Groeg, Illyricum, yr Ital, a'r Hispaen, tua'r gogledd. Yn ystod yr oes apostolaidd, yr oedd ffurf yr eglwys Gristionogol yn wir ogoneddus. Yr apostolion ac ereill a gyda diwydrwydd, hyfdra, a zêl rhyfeddol, a gyhoeddasant wirioneddau yr efengyl, ac oeddynt yn siamplau i'r ffyddloniaid mewn ffydd sancteiddrwydd, a chariad. Yr oedd y dychweledigion at Gristionogrwydd yn credu yr efengyl, ac yn rhoddeu hunain, a'r oll a feddent i fynu yn galonog, i anrhydedd a gwasanaeth awdurdod, llywodraeth, a threfniad yr Arglwydd Iesu, fel eu Pen, e Hiachawdwr, a'u Brenin; gan wadd annuwioldeb, a chwantau bydol; byw yn sobr, yn gyfnawn, ac y dduwiol: yr oeddynt yn caru e gilydd, ac yn barod i ddodi eu heinioes i lawr dros y brodyr. Gwirioneedd, beddwch, sancteiddrwydd, threfn, oeddynt wedi eu huno yn hyfryd yn mhob man: iachusrwydd yn y ffydd, symlrwydd addoliad ef engylaidd, ymarferiad diduedd ddysgyblaeth, a phurdeb ymarweddiad, oeddynt yn ffynnu yn hynod Y Cristionogion, wedi ffarfio e hegwyddorion yn ofalus, nid wrth orchymynion dynion, ond wrth a anghyfeiliornadwy Duw, a dderbyn iasant y gwirioneedd yn y cariad a'r gallu o hono; ymdrechasant y ddifrifol o blaid y ffydd a roddwyunwaith i'r saint: cadwasant unde yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd dygasant feichiau eu gilydd; gochelasant yn ofalus i osod tramgwydd iadau o flaen ereill; parhasant y ddiysgog yn athrawiaeth yr apostol ion, ac yn nghymdeithas eu gilydd ac i dorri bara, ac mewn gweddiau dalient yn ofalus ar ddyledswyddau perthynasol; ac yn mha sefyllfaoedd

ynag y gosodid hwy, yno yr arosent gyda Duw, Act. ii. 41—47, a v. 31, 34. Salm xxii, a xlv, a xcviii. Esa. xi, a xxxv, a xlix, a liv. 55, a lx, &c. Dad. vi. 2.

EGWYDDOR, *(e-gwyddor)* cyn-sail. Y mae *egwyddorion y byd hwn*, Col. ii. 2, neu felly gelwir hwynt, Gal. iv. 3, *egwyddorion llesg a thlodion*, yn teilyngu peth rstyriaeth; o herwydd fod amryw esponwyr yn llefaru am addoliad yr Hen Destament mewn modd tra anrsgrythyrol, oddi wrth eu hanwybodeth am y pwnge hwn. *Egwyddorion bydol* sydd ymadrodd tra larluniadol o'r amryw ordinhadau naswdol cyn amseroedd y diwygiad. Amcan mawr yr egwyddorion hyn oedd dysgu i'r ysgolheigion athrawaeth Crist. Y mae y pwnge y owriedid hwy i'w egluro yn amywiol; sef gogoniant ei berson; hagoroldeb ei waith; neu, yn yr, yr oedd *amryw ras Duw* yn gofyn llawer o egwyddorion bydol 'w egluro. Fel, gyda phlant, y mae lythyrenau yn ffurfio geiriau; geiriau, ymadroddion; a thrwy ymadoddion, gellir egluro unrhyw wnge; felly, trwy amrywiol orchmynion, ordinhadau, deddfau, a arnedigaethau y gyfraith, yr egurid y gwirioneddau pwysig mewn perthynas i Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio, O ran natur ei berson, el Duw wedi ymddangos yn y nawd, arweinid hwy at y Golofn Dwmmwl, y *Shecinah*; eu haberthau a eglurent natur ei iawn ef; amywiaeth yr aberthau hyn a'i dysgai a fodd y mae gwaed Iesu Grist, y Mab, yn glanhau oddi wrth bob pechod; ac, i beidio bod yn faith, y maent n cael yn yr egwyddorion hyn gyneilian athrawiaeth Crist, o athrawaethau bedyddiau hyd y rhai hyn am r adgyfodiad oddi wrth y meirw, a'r arn dragywyddol. Yn awr yr holl gwyddorion hyn oeddynt o awdurod dwyfol; a gorchymynid i eglwys Duw ddal arnynt, gan ei bod yn risio ei dedwyddwch tragywyddol; m hyny, nis gellid byth eu galw n *llesg*, neu *dlodion*, dan yr hen yfammod. Ond pan ddaeth cyfawnder yr amser, Duw a ddanfonodd ei Fab i ryddhau oddi wrth wymedigaethau y gyfraith hon. Nid edd ar y rhai hyny, o fiaen llygaid pa rai y portreiadwyd Iesu Grist wedi ei groeshoelio, angen am waed teirw a geifr i'w haddysgu yn nghylch y ffordd i'r sancteiddiolaf; nid oedd ar y rhai hyny a ddysgasent eu Cristionogrwydd oddi wrth *Ysbryd* yr egwyddorion hyn, angen am y *cnawd* i'w perffeithio; ac felly yr oedd, fod hyd yn nod yr ordinhad o enwaediad, am ba un y dywedwyd, *Yr enaid hwnw a dorir ymaith o fysg fy mhobl*, (sef, yr hwn a esgeulusai yr enwaediad,) wedi myned mor llesg a thlawd, fel yr oedd yr hwn a enwaedid yn dyfod yn ddyledwr i gadw yr holl gyfraith. Paham? o herwydd fod marwolaeth Crist, yr hwn yr oedd yr ordinhad honno yn ei nodi allan megys i ddyfod, wedi cael ei gyflawni yn Jerusalem.

EHEDEG, (*hĕd*) ehedfan. Gwaith Duw yn *ehedeg*, a arwydda mynediad cyflym ei ragluniaeth i waredu a chysuro ei bobl, neu i ddistrywio eu gelynion, Salm xviii. 10, Esa. xxxi. 5. Gwaith yr angelion yn *ehedeg*, a arwydda modd bywiog a buan yn yr hwn y cyflawnant ewyllys Duw, Esa. vi. 2. Yn eu dychweliad o Babilon, neu o'u gwasgariad presennol, yr Iuddewon a *chedasant*, neu a *ehedant*, *ar ysgwyddau* eu gelynion. Y rhai a'u cashaent unwaith, a'u cynnorthwyant neu a ddarostyngir ganddynt, Esa. xi. 14. Y mae dynion yn *ehedeg ymaith* trwy farwolaeth; maent yn cael eu torri ymaith yn hawdd a disymmwth, eyn iddynt ddechreu byw yn iawn, Salm xc. 10.

EHUD, (hud, twyll) byrbwyll, digynghor, disynwyr. "Yr *ehud* a goelia bob gair," Diar. vi. 15, 18.

EHWD, *(moliannwr)* mab Gera, Benjaminiad; gwr llaw-chwith, neu yn hytrach anafus o'i law ddehau. Gorthrymasai Eglon brenin Moab, yn ngbyd â meibion Ammon ac Amalec, yr Israeliaid yn dost, o A.M. 2661 i 2679, a gwneuthai Jericho yn breswylfa gyffredinol iddo ei hun. Yr oedd yn arferiad gan yr Hebreaid i anfon eu teyrnged neu eu hanrhegion i Eglon, ac Ehwd a benodwyd i'w chyflwyno. Trwy gyfarwyddyd Duw, efe a luniasai waredigaeth ei genedl, ac i'r dyben hwnw, a guddiasai ddager ddeufiniog dan ei ddillad. Dim cynt y cyf-

lwynasai efe ei anrheg ac y gollyngasai ymaith y rhai oeddynt yn ei dwyn, nag y dychwelodd efe at y brenin Eglon, ac y dywedodd wrtho, fod ganddo gennadwri oddi wrth Dduw atto ef. Gorehymynwyd i'r holl Foabiaid oeddynt yn sefyll ar fin myned allan; ac Eglon, er mor dew oedd, a safodd ar ei draed. Brathodd Ehwd ef â'i ddager yn ei botten; a chan ei adael yn gwaedu i farwolaeth, efe a glodd ddrws yr ystafell, ac a ddygodd yr agoriadau ymaith. Gweision Eglon a ddychymygasant fod eu meistr yn esmwythâu ei gorph, neu yn cymmeryd ei hûn brydnawnol, ac felly disgwyliasant yn hir cyn iddynt ryfygu agor y drws âg allwedd arall. Yn y cyfamser, diangodd Ehwd i fynydd Ephraim, ac a gasglodd yr hyn a allai o feibion Israel; â'r rhai hyn efe a enillodd rydau yr Iorddonen, i rwystro y Moabiaid i ddychwelyd, a tharawodd o honynt 10,000 o wyr nerthol, ac adferodd Israel i'w rhyddid. Barn. iii. 15—30.

EIDDIGUS, *(eiddig)* tra chwannog i ddrwg dybied GODINEB, neu berygl. *Eiddigedd* neu *sêl* Duw, a arwydda ei anymddiried yn ei greaduriaid; ei fawr ofal am ei bobl a'i ordinhadau, a'i barodrwydd i gospi y neb a'u niweidio hwynt, Exod. xx. 5. Zech. i. 14. Zeph. i. 18. *Eiddigedd* sanctaidd Paul dros y Corinthiaid, oedd ei ofal difrifol am eu llwyddiant, ac ofn poenus rhag eu bod wedi, neu y gallent wneuthur rhywbeth yn feius, 2 Cor. xi. 2. 3. *Eiddigedd*, y saint, creulawn fel y bedd, yw eu dymuniaid difrifol am fwynhau cymdeithas â Christ, ac ofn poenus rhag ei golli, Can. viii. 6.

EIRA, *(air*, dyscleirdeb) a ffurfir o darth wedi rhewi yn yr awyr. Y mae yn feddal, ac weithiau yn llydan fel cnuûau o wlan, Salm cxlvii. 16. Y mae ef a gwlaw yn bethau tra anmhrydlawn yn yr haf neu y cynhauaf, Diar. xxvi. 1. Y mae yn bur a gwyn iawn; a gwneir ei glaerder a'i burdeb yn arwyddion o ryddhad oddiwrth eu ogrwyddpechod a llygredigaeth, Salm li. 7. Eza. i. 18; ac o ogoniant a rhagoroldeb aberth Crist, Galar. iv. 7. Gwaith Duw yn gwasgaru breninoedd Canaan, a'u byddinoedd, oedd yn *wyn fel eira* yn Salmon; yr oedd y rhagluniaeth yn dra chyfiawn a gogoeddus; a'r celaneddau yn gorwe yn lluosog ar wyneb y maes, Sal lxviii. 15. Bu Duw weithiau gwneuthur *eira* yn offeryn o'i far gan gladdu dinasoedd a byddinoe yn ei ganol, Job xxxviii. 22, 2 Cyfrifir *dwfr eira* yn rhagorol ymolchi âg ef, Job ix. 30; neu i a fywio y ddaear, a'i ffrwythloni, Ez lv. 10; o leiaf cyfrifid dwfr eira Li anus yn ddiod ragorol ac adfywio Cyffelybir Duw i *eira Libanus*, a *dyfroedd oerion rhedegog* sydd dyfod o hono, mor ddefnyddiol i a fywio dynion yn y gwledydd poethi hyn; o herwydd, mor hyfryd, m adfywiol yw ei ddaioni a'i ras! mor ynfyd o beth yw ei wrthod ef mwyn mwynderau ereill! neu gell cyfieithu y geiriau, *A wrthyd dd ddyfroedd pur*, yn dyfod o *graig* am *eira* toddedig *Libanus*, oll y gymmysgedig â llaid! A gloddia hwy byth ddyfroedd budron llifeiant i fynu, yn hytrach na dyfroed yn llifo o ffynnon? h. y. A wrthy dynion y gwir Dduw byth, am hyn sydd dom a cholled yn unig, Je xviii. 14, 15.

EIRIACH, *(air,)* arbed, god ef. "Nac *eiriach* ef," Deut. xi 8. Esa. ix. 19.

EIRIOLWR, *(air-iwl,)* dad euwr achosion ger bron brawdle. mae Iesu Grist yn cael ei alw e *Heiriolwr gyd a'r Tad*. Trwy ymddangosiad parhaus yn ngwyd Duw drosom, y mae yn gwneuthu ein gweddiau a'n gwasanaeth y gymmeradwy; y mae yn atteb y holl gyhuddiadau a ddichon cyfrai a chyfiawnder Duw, Satan, a'n cy wybodau ein hunain, eu gosod yn e herbyn; y mae yn olrhain ein hav ysbrydol i fendithion y cyfammo newydd, ac yn mynnu ein derbynia gwirioneddol a thragywyddol o hon ynt, 1 Ioan ii. 2. Y mae yr Ysbry Glan yn cael ei alw yn *eiriolwr* Mewn gwrthwynebiad i'r meddylia a rydd Satan, y byd, a'n chwants ein hunain yn ein calonau, y mae y dadleu achos Crist ger bron llŷs e cydwybodau, ac yn daer am idd gael anrhydedd a meddiant dyladw yn ein calonau a'n bywydau; thrwy ein dysgu i weddio, a'n cy arwyddo a'n nerthu i'w dylyn hwy wrth ras Duw, y mae yn erfy

rosom ni ăg ocheneidiau annhraeth-
dwy, loan xiv. 26. yn y Gr. Rhuf.
ii. 26.

EISTEDD, seddu. Agwedd
orphorol digon adnabyddus, a arf-
rir wrth orphwys, Gen. xviii. 11;
rth fwytta bwyd, Gen. xxxvii.
5; wrth roddi barn, Ruth. iv. 1.
Bren. ii. 12; mewn tristwch,
zra ix. 1, 4; wrth ddysgu a
wrando ar addysg, Mat. xxii. 2.
uc. x. 29; wrth ymprydio a
weddio, 2 Sam. vii. 18. Barn.
x. 26; wrth dderbyn Swpper yr
rglwydd, Mat. xxvi. 20. *Eis-
edd*, hefyd a arwydda parhad sef-
dlog, Mic. iv. 4. 2 Bren. v. 3.
ct. lviii. 28. *Eistedd gydag un*,
arwydda cyfeillgarwch cyfrinachol
g ef, Salm xxvi. 5. *Eistedd yn y
lwch*, neu yn *y tywyllwch*, a ar-
ydda bod mewn tlodi, dirmyg,
nwybodaeth, a thrallod mawr, Esa.
lvii. 1. Luc i. 79. Mic. iii. 8. *Eistedd*
r orseddfeingciau, a arwydda go-
oniant, gallu, ac awdurdod sefydlog,
lat. xix. 28. Pan briodolir *eistedd*
Dduw, neu i Grist fel Cyfrynwr,
rwydda eu gorphwysfa a'u haw-
nrdod tawel, Salm xxix. 10, a
lvii. 8; neu eu gwaith yn barnu ac
n cospi dynion, Dan. vii. 9. 26.
oel iii. 12. Mat. xxvi. 64. Gwaith
Crist yn *eistedd* ar ddeheulaw Duw,
arwydda ei feddiant sefydlog a
orphwyslawn o'r gymdeithas agosaf
t Dduw, a'i awdurdod parhaus i
ywodraethu yr eglwys, a phob peth
erthynol iddi, Salm cx. 1. Eph.
20. Y mae y saint yn *cyd eistedd
n y nefolion leoedd*; yn Nghrist
u pen, y maent eisoes yn berchen-
gion o'r gogoniant nefol, a chânt ei
wynhau yu fuan yn ei personau eu
unain, Eph. ii. 6. Gwaith Ang-
rist *yn eistedd yn nheml Duw*, a
rwydda ei drigiad yn yr Eglwys,
'i ymhoniad i lywodraethu cydwyb-
dau ei haelodau, 1 Thes. ii. 4.

EISTEDDFA—LE, lle i eistedd
rno, er gorphwys, neu farnu achos-
on, 1 Sam. iv. 18. Job xxix 7.
Eisteddfa fawrwech i frenin eis-
edd arni, wrth dderbyn gwriogaeth
i ddeiliaid, neu wrth roddi gwran-
awiad i gennadau, a gwneuthur
yñawnder rhwng gŵr a gŵr, a
lwir GORSEDDFAINGC. Yr oedd
an Solomon un ardderchog iawn;
r oedd oll o ifori, ac wedi ei gwisgo
ăg aur; yr oedd iddi chwech o risiau,
ar ddeuddeg pen pa rai yr oedd
llewod cerfiedig; y pen oedd yn grwn
o'r tu ol; ac yr oedd iddi ddwy gan-
llaw, yn gynnaliedig gan ddau
lew cerfiedig, 1 Bren. x. 18, 19.
Y mae *eisteddfa trais* yn neshau,
pan fydd dynion yn cynnal llysoedd,
ac yn arfer eu hawdurdod, i wneud
anghyñawnder a thrawsedd, Amos
vi. 3. *Eistedd yn eisteddfa gwat-
warwyr*, yw cynnal cyfrinach
greddfol a sefydlog â hwynt, a
gweithredu yn ol ei dull gyda hyf-
rydwch, Salm i. 1.

EITHAF, (*aith,*) pellaf. Y mae
Crist yn achub hyd yr *eithaf*; y mae
yn achub yn sicr, yn hollol, yn gyf-
lawn, yn berffaith, ac yn barhaus;
neu y mae efe, trwy bridwerth an-
feidrol, yn achub oddi wrth enog-
rwydd, halogedigaeth, a thrueni an-
feidrol, ac yn dwyn i'r graddau
uchaf o ddedwyddwch, ac yn cadw
ynddo i bob tragywyddoldeb, Heb.
vii. 25. Daeth digofaint ar yr Iudd-
ewon hyd yr *eithaf*; bu eu dinystr
yn ẽangfaith, bron yn gyffredinol
mewn helaethrwydd, yn dra dychryn-
illyd mewn gradd, ac yn ddidor mewn
parhad, 1 Thes. ii. 16.

ELAH *(llw)*. 1. Mab Baasa, a
brenhin Israel. Gwedi iddo deyrn-
asu oddeutu dau fis, lladdwyd ef a'i
deulu gan Zimri ei was, 1 Bren.
xvi. 8—14. (2.) Dyffryn yn y parth
dehau-orllewinol o wlad Canaan, lle
y lladdwyd Goliath, 1 Sam. xvii.
19.

ELAM, (*dyn ieuangc,*) mab
henaf Sem, yr hwn a roddodd enw
i Elam neu Elymais yn Persia, a
hiliogaeth pa un a breswyliasant yn-
ddi, a'r Elamitiaid ynt yr un â'r Per-
siaid. Pa un ai Elymais yn Persia
oedd yr Elam hòno, ar ba un yr oedd
Cedorlaomer yn frenin, nid ydys yn
cyduno. Tybia *Raleigh*, a *Gill*, &c.
ei fod yn beth annhebygol yr ymdeith-
asai brenin Persiaidd cyn belled i
ddarostwng, neu adennill y pum
dinas, sef Sodom, Gomorrah, &c.
a bod yr Elam hon, ar ba un yr oedd
efe yn frenin, yn rhyw le yn Arabia,
neu Syria, lle gallai fod trefedigaeth
o'r Elamitiaid: ond pan sylwir fod
brenin Sinar, yr hon a orweddai o
du y gorllewin i Persia, yn un o
gynghreiriaid Cedorlaomer, nid ym
yn gweled un rheswm am ymadael

oddi wrth y farn gyffredin. Gen. x. 22, a xiv. 1. Elam hefyd yw enw dau ddyn neu le yn Judea, i ba rai y perthynai 2508 o'r, caethion Iuddewig, y rhai a ddychwelasant o Babilon, Ezra ii. 7, 31.

ELATH, (*caderait,*) dinas yn gorwedd yn y pen gogleddol i lynge-lyn dwyreiniol y Môr Côch. Dafydd a'i hennilodd hi oddiar yr Edomiaid; a sefydlodd ef a'i fab for-fasnach fawr ynddi. Yn ngylch 150 o flyneddoedd wedi hyny, ail-feddiannodd yr Edomiaid eu breiniaeth, ac Elah gyda hi. Ymddengys i Hazael y buddugoliaethwr Syriaidd arwain ei lu cyn belled â hyn i'r dehau, a goresgyn Elah, i'r dyben o achub masnach y Môr Côch i'w genedl ei hun: ond Uzziah brenin Judah a'i hynnillodd, ac a'i hail adeiladodd hi. Yn nyddiau Ahaz, Rezin brenin Syria a'i hail-feddiannodd, ac a yrodd yr Iuddewon allan o honi. Ar ol amrywiol gyfnewidiadau dan yr Assyriaid, y Caldeaid, y Persiaid, a Ptolemiaid yr Aipht, syrthiodd i ddwylaw y Rhufeiniaid, 2 Bren: xiv. 22, xvi. 6.

EL-BETHEL, ac EL-ELOHE ISRAEL, enwau dwy allor, a adeiladwyd gan Jacob wedi ei ddychweliad i wlad Canaan. Y cyntaf a arwyddai, fod Duw byth yn *Dduw Bethel* iddo ef, trwy gyflawni yr addewidion a wnaed yno; a'r ail, mai y *Duw cadarn* oedd yn wrthddrych addoliad iddo ef a'i hiliogaeth, Gen. xxxv. 7, 20.

ELCANAH *(eiddigedd Duw).* Yr oedd amryw o hiliogaeth Cora, yn gystal ag ereill, o'r enw hwn: ond y mwyaf hynod yw mab Jehoram, gwr Hannah a Pheninnah, a thad Samuel, 1 Cron vi. 26, 27, 34, 36. 1 Sam. i. 1, 2.

ELDAD, a MEDAD, a bennodwyd gan Dduw i fod o rifedi 70 cynnorthwywyr Moses, a wrthodasant y swydd o ran gwylder gostyngedig, tebygol, ac a drigasant yn y gwersyll: ond ysbryd prophwydoliaeth, yr hwn oedd yn nod o ddewisiad Duw, a orphwysodd arnynt yno. Josuah, yn sylwi ar hyn, ac yn ofni y gallai fod yn foddion i leihau anrhydedd Moses, a archodd iddo eu gwahardd; ond Moses a attebodd, y byddai yn llawen ganddo pe buasai holl gynnulleidfa Israel wedi ei gwneuthur yn brophwydi, Num. xi. 24—30.

ELEALEH, (*escyniad Duw*) dinas a roddodd Moses i'r Reubeniaid. Gorweddai o ddeutu milltir Hesbon, a chyda hi, a ymnillwyngan y Moabiaid; a thra yr oedd yn meddiant, anrheithiwyd hi y dost gan yr Assyriaid a'r Caldeaid, Num. xxxii. 37. Eza. xv. 4. Jer. xlviii. 34.

ELEAZAR, *(cymmorth Duw)* 1. Trydydd mab Aaron. Yn mhen hir amser ar ol marwolaeth ei dda frawd henaf, efe a ganlynodd Aaron ei dad yn y swydd archoffeiriadol. Wedi bod yn cynnorthwyo Josuah yn ranu gwlad Canaan, a chyflawni swydd archoffeiriad o ddeutu 23 flyneddoedd yn Siloh, bu farw chladdwyd ef mewn bryn a berthynai i Phinees ei fab a'i ganlynwr. Odd eithr yr ychydig amser o yn nghylch 120 o flyneddoedd, neu rywfaint yn rhagor, er urddas tŷ Eli, parhaodd yr archoffeiriadaeth yn nheulu Eleazar hyd ar ol marwolaeth Crist; a yn amser Dafydd, yr oedd 16 deuparth o offeiriaid o hono, pan naoedd ond wyth wedi eu ffurfio o deulu Ithamar, Num. xx. 26, 27, 28, xxxiv. 17. Jos. xxiv. 33. Cron. 24.

2. *Eleazar,* mab Dodo yr Ahohiad, a'r ail o dri chedyrn Dafydd. Yn Ephes-Dammin; pan ffodd gyfeillion oddi wrtho, efe a safodd dir, ac a barhaodd yn lladd y Philistiaid, nes glynu o'i law wrth y cleddyf; a gwnaeth y fath ddifrod o'r gelynion, fel pan ddychwelodd y Hebreaid atto, nid oedd ganddyn ddim i'w wneuthur ond anrheithio. Yn nghyd â Sammoth, mab Agee yr Harariad, efe a amddiffynodd fae llawn o haidd cystal, fel y ffodd Philistiaid o'u blaen, 2 Sam. xxii 9—12. 1 Cron. xi. 12—14.

ELHANAN, *(trugaredd Duw* mab Dodo o Bethlehem, un o gedyrn Dafydd, 1 Cron. xi. 26.

2. Mab Jair, neu Jaare-oregim yr hwn a laddodd Cami brawd Goliath yn Gob, 1 Cron. xx. 5. 2 Sam xxi. 19.

ELI, (*derchafael*) archoffeiriad Iuddewig o deulu Ithamar, yr hwn a farnodd Israel ar ol Abdon. Pahaps trosglwyddwyd yr archoffeiriaeth iddo ef o deulu Eleazar, pa ai o herwydd trosedd yr archoffeiriad trwy aberthu merch Jepthah

eu ryw achos arall, nid yw hysbys: nd, sier yw, i'r trosglwyddiad ymmeryd lle trwy drefniad Duw, 1 am. ii. 30. Yr oedd efe yn ŵr awiol ei hun, ond ei feibion Hophni Phinees oeddynt yn aunuwiol wn; halogent y gwragedd a ymasglent i addoli Duw wrth ddrws abell y cyfarfod; gofynent eu rhan 'r hedd-offrymau, neu yr aberthau ros bechod, cyn y llosgai y brasder: ynent fwy nag a fyddai ddyledus ldynt, a chig anmrwd yn lle cig erw; ac os gwrthodai neb, eu rweision a'u cymmernt trwy nerth. Iu hymarweddiad balogedig a gynyrfodd luaws o'r Hebreaid i attal u hoffrymau. Eli eu tad, a'u ceryddd hwynt; ond mor dyner, fel na hymmerasant ofal i ddiwygio. Trwy rophwyd, cyhuddodd yr Arglwydd li a'i feibion o'r cam-arferiadau rchyllaf yn ei addoliad; ac Eli ei un o anrhydeddu ei feibion uwchaw Duw. Arwyddodd er ei fod vedi addaw parhad yr archoffeiriadaeth yn ei deulu ef yn ammodol, tto, gan eu bod wedi ymddwyn mor drygionus, y terfynai eu llwyddiant 'u hawdurdod yn fuan, ac na byddai eb o honynt byw yn hen; y gwelai Eli ei hun ei wlad wedi cael ei gorscyn gan elyuion dyeithr; y cymerid yr arch; y byddai ei ddau ab farw yn yr un dydd; y rhoddid r archoffeiriadaeth i deulu arall a yddai yn fwy ffyddlawn; i'r hwn yr mgrymai had Eli yn isel am damaid o fara, neu y dogn gwaelaf o mborth. Yn mhen rhai blyneddau vedi hyn, sierhaodd yr Arglwydd, rwy Samuel ieuange, yn mhellach Eli am ddinystr neshaol ei deulu, ac ai ofer fyddai ceisio gwneud iawn m eu pechodau trwy aberth. Deryniodd Eli y bygythion hyn gydag mostyngiad mawr i'r ewyllys ddwyol, i Sam. ii. 3.

Y barnedigaethau cyfiawn ac arwydus hyn a gawsant gyflawniad uan. Torodd y Philistiaid i mewn r wlad, gorchfygasant yr Hebreaid, lladdasant 4,000 o honynt. Yr Hebreaid a ddychymygasant y byddai r arch fel math o gyfaredd i'w amddiffyn, ac anfonasant am dani r gwersyll; ond yn fuan ar ol hyn, erbyniasant faeddiad tra gwaedd: 30,000 o honynt, yn nghyd a Hophni a Phinees a laddwyd; a'r arch a ddaliwyd, ac a ddygwyd ymaith. Eli, wedi mynegu iddo am y pethau hyn, gyda gofid a syndod, a syrthiodd oddiar ei eisteddle ac a dorodd ei wddf, yn y 98ed flwyddyn o'i oedran, a'r 40ed flwyddyn o'i lywodraeth. Gwraig Phinees, wedi clywed am yr anffodau hyn a'r rhai blaenorol, a ddaliwyd gan wewyr; ac, yn nghanol gwasgfeuon gofid, a esgorodd ar fab, yr hwn a alwodd hi Ichabod; i'arwyddo fod y gogoniant wedi ymadael oddi wrth Israel, gan fod arch Duw wedi ei dal. Bu farw yn ddiattreg. Ahibub, brawd Ichabod, a ganlynodd ei daid, a chanlynwyd ef gan Ahiab ei fab, ac yntau gan Abimelech ei frawd; holl deulu pa un a laddwyd mewn modd creulawn, gan Saul, oddigerth Abiathar; a Zadoc o deulu Eleazar, a wnaed yn archoffeiriad yn ei le ef. O ddeutu 43 o flyneddoedd wedi hyny, Solomon a ddiswyddodd Abiathar. Wedi hyny, bu gweddillion teulu Eli yn byw mewn cyflwr gwael ac yn isel anrhynt. *Bydded i rieni difraw, a phawb ag sydd yn cynnwys pechodau yn erbyn a allent eu hattal, ystyried hyn,* 1 Sam. iv, a xiv. 3, a 22. 1 Bren. i. a iii.

ELI, *eli,* (neu *Eloi, Eloi,*) *lama sabachthani,* dolef Syro-Caldeaidd ein Harglwydd ar y groes. Y mae wedi cael ei chymmeryd o ddechre y Salm xxii. ac yn arwyddo, *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist!* Hwyrach i'n Hiachawdwr adrodd ychwaneg o'r Salm, er nad yw hyny wedi cael ei nodi gan yr efengylwyr, Mat. xxvii. 46. Marc xv. 34.

ELI, (*el*) ennaint. "Ira hefyd dy lygaid âg eli llygaid, fel y gwelych," Dad. iii. 18. Wrth *lygaid* yr eglwys yma y meddylir ei deall, a'i gwybodaeth o bethau Duw; nid oedd yn gweled yn gywir ac yn eglur. Wrth *eli* llygaid y mae i ni ddeall yr Ysbryd Glan yn ei weithrediadau cadwedigol, yn dwyn dyn i adnabyddiaeth o hono, a'i anghenion ysbrydol. Yr hwn sydd heb ei oleuo gan yr Ysbryd, nid yw yn gweled angen am Grist a'r bendithion ynddo; am hyny nid yw yn canfod dim gogoniant na gwerth ynddynt. Prynu eli llygaid, yw gweddio am ŵano, ei dderbyn, a'i ddefnyddio, heb yr effeithiau eglurhaol ac iachusol

hyn nid yw pawb ond deillion; a chamsyniol yn eu barnau am danynt eu hunain a'u cyflyrau.

ELIACIM, *(Duw yr adgyfodiad)* mab Hilciah. Efe a ddaeth ar ol Sebna fel pen trysorydd, a phenteulu i frenin Hezeciah. Efe, yn nghyd â Sebna yr ysgrifenydd, a Joab mab Asaph y cofiadur, a anfonwyd yn genhadau at Sennacherib i ofyn heddwch. Nis gallent gael dim ond eu difrio gan Rabsaceh tywysog ei lu; ac felly, heb roddi attebiad iddo, a ddychwelasant at y brenin gan wylo â'u dillad yn rhwygedig. Yn fuan wedi hyny, anfonwyd y ddau gyntaf, yn nghyd â rhai o henuriaid Judah, at Esaiah i ofyn ei weddiau difrifol dros y ddinas. 2 Bren. xviii 26—37, a xix. 2. Esa. xxii. 20, a xxxvi. 18, a xxxvii. 22. Onid oedd efe yn gysgod o Iesu ein Pen gwladwriaethol mawr ni, yr hwn sydd yn flaenor ar holl deulu Duw? Onid yw Efe yn ganlynwr Adda fradwrus? Onid Efe yw y cennadwr heddwch mawr, yr hwn, pan welodd efe Jerusalem, a wylodd uwch ei phen? Onid yw trefnwr ffyddlawn, cynnaliaeth, a gogoniant pob peth yn yr eglwys?

ELIAS, *(Duw yr Arglwydd)* y Thesbiad, brodor o Thisbe, dinas yn Gilead, tu hwnt ir Iorddonen, a phrophwyd hynod. O ddeutu A.M. 3092, sicrhaodd i'r brenin Ahab na byddai gwlith na gwlaw ar y ddaear, am amryw flyneddoedd, ond fel y gweddiai efe am dano. Y sychder a ddechreuodd. Elias trwy gyfarwyddyd Duw, a ymguddiodd wrth afon Cerith, yr hon sydd yn ymarllwys i gwrr uchaf Mor Genesaret o du y dwyrain. Yno yr yfai o'r afon, ac y cafodd ei borthi yn wyrthiol â bara a chig, yr hwn a ddygai cigfrain iddo bob bore a phrydnawn; a pha un, diammau, a gyrchent hwy oddiar fwrdd rhyw bendefig. Pa hyd y bu wrth afon Cerith, anhawdd yw dywedyd; ond wedi sychu o honi, efe a aeth, yn ol cyfarwyddyd Duw, ac a drigodd gyda gwraig weddw Genhedlig o Sarepta, neu Sarephath, Obad. xx. Ar ei waith yn myned i mewn i'r ddinas, cyfarfu â'r wraig weddw dlawd hon yn casglu ychydig friw-wydd, i driu llonaid llaw o flawd ac ychydig olew iddi hi a'i mab, fel eu gwledd olaf; gan nad oedd ganddi, ac na wyddai pa le i ga[illegible] ychwaneg o ymborth. Dymunod[illegible] Elias arni ddwyn ychydig ddwfr idd[illegible] ef mewn llestr i'w yfed. Ar ei gwait[illegible] yn myned i'w gyrchu, efe a alwod[illegible] ar ei hol, ac a orchymynodd id[illegible] ddwyn ychydig fara befyd. Hitha[illegible] a fynegodd iddo am ei chyflwr tru[illegible] enus ei hun a'i mab. Elias a orch[illegible] ymynodd iddi wneuthur teisen fecha[illegible] iddo ef yn gyntaf, ac yna, trin pet[illegible] iddi ei hun a'i phlentyn; o herwyd[illegible] na threuliai ei dyrnaid blawd, a[illegible] hychydig olew, nes y dychwela[illegible] helaethrwydd i'r wlad. Y wrai[illegible] weddw Sidonaidd a gredodd [illegible] prophwyd, a ufuddhaodd i'w orch[illegible] ymyn, ac a'i derbyniodd ef i'w th[illegible] o wedi ei fod yn aros gyda hi y[illegible] nhylch dwy flynedd, hyd oni ddaet[illegible] gwlaw ar y wlad hono, er na ddaeth[illegible] etto ar wlad Israel, bu ei bunig fa[illegible] farw. Yn flinedig gan ofid, hi [illegible] achwynodd fod Elias wedi dyfod [illegible] gonfâu i Israel ei phechodau, ac i lad[illegible] ei mab. Yntau a gymmerodd y plen[illegible] tyn, a'i gosododd ar ei wely ei hun[illegible] a ymestynodd arno, ac a erfyniodd y[illegible] ddifrifol ar yr Arglwydd ei adferu e[illegible] i fywyd. Caniattawyd ei oddymunia[illegible] yn ddioed, 1 Bren. 17.

Pan oedd y sychder a'r newyn[illegible] wedi parhau tair blynedd a hanner[illegible] gorchymynodd yr Arglwydd i Elia[illegible] ymddangos ger bron Ahab, a myn[illegible] egu iddo am ddychweliad y gwlaw[illegible] Tra yr oedd gweision Ahab wed[illegible] ymwasgaru ar hyd y wlad, i chwili[illegible] am laswellt i'r anifeiliaid oeddynt yn[illegible] fyw, cyfarfu Elias âg Obadiah u[illegible] o'r rhai penaf, ac a archodd idd[illegible] fyned i fynegu i'w feistr fod arno e[illegible] eisiau ei weled. Obadiah a attebodd[illegible] fod Ahab, gyda bwriadau gwaedlyd[illegible] wedi chwilio yr holl deyrnas, a'r[illegible] teyrnasoedd cyfagos, am dano; [illegible] thra yr âi efe i fynegu i Ahab, y[illegible] dygai Ysbryd yr Arglwydd efe ym[illegible] aith; ac Ahab yn llawn cynddaredd[illegible] a'i lladdai ef yn ei le; yr hyn, efe a[illegible] erfyniai na fyddai felly, am y buasa[illegible] efe yn noddwr defnyddiol o broph[illegible] wydi yr Arglwydd, a trwy borth[illegible] cant o honynt, mewn glan agof, [illegible] bara a dwfr. Sicrhaodd Elias yr[illegible] bendant, nad oedd achos iddo ddych[illegible] rynu rhag hyny mewn un modd, am[illegible] ei fod ef yn bwriadu yn ddiysgog [illegible] ymddangos i Ahab. Credodd Obad[illegible] iah ef, a mynegodd i Ahab, yr hwn

a frysiodd i'r'man lle yr oedd Elias, ac a ofynodd iddo, Ai efe oedd yr hwn a ddaeth i Israel? Elias a atteb-odd, mai nid efe, ond y brenin ei hun a'i deulu, trwy eu heilunaddoliaeth a'u drygioni, a ddygasent y plâau hyn ar y genedl. Parodd yn mhellach gasglu pobl Israel, yn nghyd â 450 o brophwyd Baal, â 400 o rai y llwyni, yn ddiattreg i fynydd Carmel, fel y gallent benderfynu y ddadl, pa un ai *Jehofah* neu ynte Baal oedd y gwir Dduw. Pan oeddynt wedi ymgynnull yn nghyd, Elias a ger-yddodd yr Israeliaid am gloffi rhwng dau feddwl, ac a erfyniodd arnynt fyned ar ol pa un bynag o'r ddau ag oedd, mewn gwirionedd, yn feddian-nol ar Dduwdod. Tra y safai y bobl yn ddistaw, efe a osododdger eu bronau, er mai efe oedd yr unig brophwyd i *Jehofah* yn bresennol yno, etto ei fod yn foddlon i wneud prawf cyhoeddus o allu ei Dduw, mewn gwrthwynebiad i bawb o 450 o brophwydi Baal. Cynnygodd ar fod i bob un o'r ddwy blaid offrymu bustach yn aberth, a pha un bynag o'r Duwiau, *Jehofah* neu Baal, a attebai weddi trwy losgi eu haberth â thân o'r nefoedd, mai hwnw a addolid fel y gwir Dduw. Y bobl a ymlonyddasant yn y cynnygiad hesymol hwn.

Prophwydi Baal a gyfodasant eu hallor, a aberthasant eu bustach, ac a'i gosodasant ar yr allor, gan alw ar eu duw am dân nefawl i'w ddifa. Baal yn parhau i droi y clust hyddar at eu gweddiau, hwythau a lamas-ant ar yr allor, a dorrasant ac a rathasant eu cyrph er ennill ei lostur i; ac yn y modd mwyaf dif-ifol a erfyniasant arno ganiattau eu deisyfiad. Elias hefyd a'u gwat-varodd hwynt, ac a archodd iddynt y vaeddi â llef uchel, o herwydd fod eu duw, yn sier, naill ai yn mhell, neu ar ryw daith, neu ynte wedi yrthio mewn trymgwsg. Wedi i prophwydi Baal dreulio dros hanner diwrnod yn y modd gwallgofus hwn, corchymynodd Elias i'r bobl wran-law arno ef. Gyda deuddeg carreg, un dros bob llwyth yn Israel, efe a adgyweiriodd allor ddryllieddig i *Je-hofah*, ar ba un yr arferid gynt aberthu, cyn gwneuthur y deml. Wedi lladd ei fustach, efe a osododd y cig arni, ond ni roddodd dân dano. Yn efe a orchymynodd i'r bobl ddwyn dau gelyrnaid o ddwfr a thywallt ar ei aberth ef. Gwnaeth-ant felly nes oedd y cig, y coed oeddynt dano, a'r allor wedi eu trochi mewn gwlybaniaeth, ac hyd yn nod y ffos o amgylch yn llawn hyd yr ymyl. Yn nesaf, efe a ym-ostyngodd i ddeisyf ar yr Arglwydd am amlygiad o'i allu, trwy ddifa ei aberth ef. Prin yr oedd wedi dech-reu, pan yr ysodd tân o'r nefoedd y cig, y coed, y cerrig, a gwyneb y ddaear, ac a leibiodd y dwfr oedd yn y ffos. Yn synedig o herwydd y wyrth, yr holl bobl a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a lefasant, *Yr Ar-glwydd efe sydd Dduw*. Yna Elias a orchymynodd ddal a lladd proph-wydi Baal: Tra yr oedd Ahab yn edrych, ymafaelasant ynddynt, ac wedi eu llusgo at droed y bryn, hwy a'u lladdasant hwynt wrth yr afon Cison, yn ol y gyfraith yn Deut. xviii. 20. Wedi symmud ymaith y prif achosion hyn o'r sychder new-ynllyd, Elias a fynegodd i Ahab y gallai yn awr ddisgwyl gwlaw bel-aethlawn. Yna efe a ddychwelodd, ac a ymgrymmodd ar y mynydd mewn gweddi am dano; a gorchym-ynodd i'w lange, Gehazi, hwyrach, edrych beth a welai yn cyfodi o'r mor cyfagos. Y seithfed waith, y gwas a fynegodd iddo ei fod yn gwel-ed cwmmwl bychan fel cledr llaw gwr yn derchafu allan o hono. Elias a orchymynodd iddo ddeisyf ar Ahab rwymo ei gerbyd, a marchog-aeth ar frys i Jezreel, rhag i'r gwlaw ei attal. Gwregysodd Elias ei lwynau, a rhedodd o flaen y brenin hyd borth y ddinas. Yn y cyfamser, bu gwlaw helaethlawn, a tharanau dychrynllyd yn ei ddylyn, os gallwn gredu hanesion blyneddol Tyrus gan *Menander*, 2 Bren. xviii. Hyn oedd yn y 16 flwyddyn i Ahab, yr hon oedd y 13 i Jehosaphat.

ELIASIB, (*Duw a ddychwel*) ŵyr Josuah yr archoffeiriad. Efe a adeiladodd ran o fur Jerusalem. Yr oedd yn gyfathrachwr i Tobiah yr Ammoniad, hwyrach trwy briodi ei ferch ef; a chan ei fod yn archoff-eiriad, parottôdd, yn ddrygionus, ystafell, i'r cenedl-ddyn hwnw yn y deml, Neh. iii. 1, a xiii. 4, 7.

ELIEZER (*Duw yn gymhorth*). Syriad o Damascus oedd ei dad, teb-

ygol, ond ganwyd ef ei hun yn nheulu Abraham; ac ymddengys ei fod unwaith wedi cael ei fwriadu yn etifedd iddo, Gen. xv. 2. Pan fwriadodd Abraham fynnu gwraig i'w fab Isaac, efe a rwymodd Eliezer trwy lw arbenig, na ddygai ef iddo neb o'r Canaaneaid, ond un o'i berthynasau ef yn Mesopotamia; ac a'i rhybuddiodd rhag gwneuthur unrhyw beth yn tueddu i beri i Isaac ddychwelyd i Mesopotamia; ac a'i hanfonodd ymaith i Nachor, dinas yno, yr hon allai fod ynj nghylch 460 o filltiroedd o du y gogledddwyrain i Hebron. Pan ddaeth yn agos i'r ddinas, efe a ddiscynodd wrth ffynnon ddwfr, i'r hon y byddai merched ieuainge y lle yn arfer dyfod fore a hwyr; yno yr arosodd i adloni ei hun a'i gamelod. Yn bryderus am gyfarwyddyd dwyfol, efe a ddercheafodd ei galon at Dduw mewn gweddi, ac a ymbiliodd ar i'r Arglwydd ddangos y forwyn addas i Isaac, trwy ei gwaith yn cynnyg tynnu dwfr i'w gamelod ef, pan na byddai efe wedi deisyf arni i wneuthur hyny, ond iddo ei hun yn unig. Daeth Rebecca at y ffynnon. Prin yr oedd Eliezer wedi deisyf arni dynu ychydig ddwfr iddo ef, pan y cynnygodd hi dynu er dyfrhau ei gamelod hefyd. Wedi ei foddio gan ei thegwch, a chael ei bod yn nith i'w feistr, efe a'i hanrhegodd â phâr o glust-dlysau aur, yn hanner siel eu pwys, neu yn nghylch *wns*, a dwy freichled i'w dwylaw hi, y rhai oeddynt yn bum cymmaint eu gwerth; ac a ofynodd a allai efe fod gamelod gael lletty yn nhŷ ei thad? Hithau a attebodd, y gallent. Tra yr oedd hi yn brysio ymaith i fynegu i deulu ei thad, Eliezer a ddychwelodd ei gyduabyddiaeth ddiolchgar i Dduw am roddi iddo ei arwydd dymunedig. Daeth Laban brawd Rebecca ar frys, ac a'i harweiniodd ef yn garedig i'r tŷ. Prin yr oedd wedi eistedd i lawr, pan y mynegodd efe iddynt pwy oedd: pa olud oedd gan ei feistr, ag a fwriadai gyfranu i Isaac; a pha fodd y gorchymynasai iddo ef fynnu gwraig gymmwys i Isaac; a pha arwydd a dderbyniasai oddi wrth Dduw mai Rebecca oedd yr un; mewn perthynas i'r hon, efe a ddeisyfai attebiad pennodol, cyn y bwyttai nac yr yfai, Bethuel ei thad, a Laban ei brawd, a attebasant, eu bod yn gweled fod peth wedi ei benderfynu gan Dduw ac na feiddient hwy ei wrthsefyll. Ar ol derchafu ei galon i fynu o newydd at Dduw mewn diolchgarwch, anrhegodd Eliezer i Rebecca dlysau arian a thlysau aur a gwisgoedd heirdd a ddygasai efe gydag e a rhoddodd i'w mam a'i brawd amryw o anrhegion gwerthfawr. Bore dranoeth, efe a fu daer am oliwn Rebecca ymaith gyd ag ef. Ychyfeillion oeddynt yn wrthwynebu iddi fyned ymaith mor fuan; ond y oedd hi ei hun am ymadawiad dia treg. Am hyny hwy a barottoisant bob peth, ac a gychwynasant; a mewn ychydig ddyddiau wedi hyn a ddaethant yn ddiogel gerllaw Beersheba, lle y trigai Isaac y pryd hwnw, Gen. xxiv.

(2.) *Eliezer*, mab Dodafah o Maresah, prophwyd a ragfynegodd Jehosaphat, y dryllid y fasnach lynges yr hon a adeiladasai efe mewn cyssylltiad âg Ahaziah annuwiol gan dymhestl, yn ei mordaith i Tarsus, 2 Cron. xx. 37.

ELIHU, (1.) Mab Barachel Buziad, o genedl Ram, neu hiliogaeth Nachor brawd Abraham, o Bu ei ail fab. Pan oedd Job yn ei gyngnder, ymwelodd Elihu âg e Gwrandawodd ar y ddadl rhyngdd ef a'i dri chyfaill, Eliphas, Bildad a Zophar, a chafodd ei anfoddloni y fawr gan y ddwy blaid. Anfoddlodd wrth y cyfeillion, am eu honiadau cryfion fod Job yn rhagrithiwr a nuwiol, pan oedd mor lleied ganddynt ddywedyd er cynnal eu cyhuddiad Anfoddlonodd wrth Job am fwrw allan, yn ei amddiffyniadau, amryw o ymadroddion anweddaidd, âg aroshunan-gyfiawnhad a chyhuddiad rhagluniaeth Duw, megys yn erwin dost ac anghyfiawn, arnynt. O herwydd ei fod yn ieuangach na hwy disgwyliodd yn amyneddgar hyd nad oedd gan ei gyfeillion ddim ychwanegu i ddywedyd. Yna efe a'i led-gryfwyliodd fod ei lawnder o fatterion yn ei gymhell i lefaru o blaid Duw. Gan awodd gyflwr Job heb ei benderfyniad a'i ceryddodd ef yn llym am ymddygiad beius, a'i ymadroddion byrbwyll yn ei gystudd; ac, yn modd mwyaf ardderchog a chyffrous a osododd allan fawredd pen- a glwyddiaethol, purdeb perffaith, u

iondeb anfeidrol, a doethineb Duw; a pha mor fynych yr oedd yn gwneuthur trallod a chyfyngder yn foddion o ddiwygiad dynion; ac a alwodd yn ddifrifol ar Job i ddisgwyl wrtho ef am waredigaeth, Job xxxii—xxxvii.

Meddyliwyd gan lawer, fod, yn Eilhu, ein sylw yn cael ei dynnu at Fab Duw ei hun. Y seiliau ar ba rai y delir y dyb hon ydynt, (1.) Yr enw; *Elihu* a arwydda, *Hwn yw fy Nuw ei hun.* (2.) Crybwyllir yn neilluol am dri chyfaill Job, Eliphaz, Bildad, a Zophar, fel yn dyfod atto, i'w gysuro, ond ni chrybwyllir am Elihu hyd y 32 bennod hon; dywed wrth Job yn pen. xxxiii. 6, "Wele fi, yn ol dy ddymuniad di, yn lle Duw." Cawn y dymuniad hwn yn cael ei fynegu deir-gwaith gan Job, yn pen. ix. 34. 35, a xiii. 20, 21, a xxxi. 35. Yn mhob un o ba fanau, efe a ddymuna am gael gweled yr Hollalluog mewn dull dynol, fel na ddychrynai ei *ddychryn* ef. (3.) Llefara am dano ei hun fel gwaith neilluol ysbryd Duw yn pen. xxxiii. 4. *Yn ddiweddaf,* ar derfyniad araith hynod Elihu, yn pen. xxxvii. 22, efe a arfera y geiriau canlynol: "Hindda (neu fel y gellir dangos fod y geiriau yn arwyddoccau, y *Shechinah,* Ezec. i. 4.) a ddaw o'r gogledd-wynt, y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy". Ac yn ganlynol, yn diattreg ar ol hyny, yn pen. xxxviii. 1, "Yr Arglwydd a atteb-odd Job allan o'r corwynt". Barned ein darllenwyr drostynt eu hunain.

ELIM, (*dyffrynoedd*) lle yn yr ochr ddwyreiniol i lyngclyn gorllewinol y Môr Coch, ychydig o du y dwyrain i Tor, a gogledd-orllewin i Sinai; ond myn *Pocock* ei fod 30 o filltiroedd yn mhellach i'r gogledd-orllewin, wrth Corondel. Yn Elim y gwersyllodd yr Hebreaid, ac y cawsant 12 ffynnon o ddwfr, a 70 o balmwydd; y rhai a allent fod yn arwyddion cysgodol o'r 12 apostol, ar 70 dysgybl a anfonwyd allan gan ein Hiachawdwr. *Dr. Shaw* a ddywed fod y ffynnonau wedi lleihau yn awr i naw, ond fod y palmwydd wedi cynnyddu i oddeutu 2000.

ELIPHAS, mab Esau o Adah. Ymddengys mai nid hwn, ond yn hytrach ei ŵyr o Teman, a fu yn ymweled â Job. O herwydd mai efe a lefarodd gyntaf yn y ddadl, tebygol yw mai efe oedd yr un llawer hŷn o oedran na thad Job, Job xv. 10. Ar ol cydnabo dymddangosiad dysglaer blaenorol Job mewn crefydd, y mae yn llêd grybwyll ei ddrwgdybiaeth am ei ragrith ef. Oddi wrth weledigaeth a gafodd, ac oddi wrth sylw profiadol, y mae yn ceisio dangos, mai pechaduriaid ysgeler yn unig a gospa mewn modd anghyffredin; ac y mae yn cymhell Job i edifarhau am ei ragrith a'i ddrygioni, ac y gwaredai Duw ef, Job ii. 11, a iv, a v, a xv, a xxii, a xlii.

ELISAH, mab Jafan. Tebygol i'w hiliogaeth boblogi Æolia yn Asia Leiaf, ac, wedi hyny, ardal Elis, ac Alisium yn Peloponesus, yn awr y Morea, yn nhir Groeg. Yr oeddynt yn masgnachu â'r Tyriaid mewn porphor ac ysgarlad, am fod llawer iawn o'r porphor-bysgod yn cael eu dal wrth enau yr afon Eurotas, Gen. x. 14. 1 Cron. i. 7. Ezec. xxvii. 7.

ELISABETH, *(Duw yn gyflawnder)* un o dylwyth Aaron, gwraig Zecharias, a mam Ioan Fedyddiwr. Bu, am hir amser, yn anmhlantadwy; ond, trwy ddylanwad goruwch-naturiol, o'r diwedd hi a feichiogodd. Ar hyn, hi a ymguddiodd bum mis. Pan gyfarfu hi â'r Wyryf fendigaid, yn fuan wedi iddi feichiogi ar y Messiah, llammodd plentyn Elisabeth yn ei chroth, a hithau ei hun a dorrodd allan i ganmoliaeth orfoleddus o'r Wyryf, ei chyfnither, Luc i. 40—44.

ELISAPHAN, mab Uzziel, a chefnderw Moses. Efe oedd prif hyfforddwr y Cohathiaid yn yr anialwch, Num. iii. 30. Efe, yn nghyd â'i frawd Mishael, yn ol cyfarwyddyd Moses, a ddygasant gyrph meirw Nadab ac Abihu i'w beddau, Lef. x. 4. Yr oedd yn nghylch 200 o'i hiliogaeth yn bresennol, pan ddygodd Dafydd arch Duw i Jerusalem, 1 Cron. xv. 8.

ELISEUS, *(iachawdwriaeth Duw)* priodor o Abel-meholah, mab Saphat, dysgybl a chanlynwr Elias; yr hwn, trwy gyfarwyddyd dwyfol, pan gafodd efe ef yn aredig â deuddeg cwpl o ychain o'i flaen, a fwriodd ei fantell arno, fel crybwylliad o'i alwad i fod yn ddysgybl iddo, ac yn brophwyd i'r Arglwydd ar ei ol. Ar ol myned adref yn gyntaf, a chanu yn

iach i'w rieni, Eliseus a ddychwelodd, ac wedi lladd cwpl o ychain a gwneuthur gwledd i'r gweision, efe a aeth ar ol Elias, 1 Bren. xix. 16—21. Gwedi bod yn dyst o drosglwyddiad y prophwyd mawr hwnw, derbyniodd gyfran llawer helaethach o'r cyffelyb ddylanwadau ysbrydol na phrophwydi ereill y pryd hwnw. Pan ddychwelodd efe i Jericho wedi esceiniad ei feistr, efe a darawodd ddyfroedd yr Iorddonen â'r fantell a syrthiasai oddi wrtho ef; ond, i'w argyhoeddi na feddai mantell y prophwyd mwyaf unrhyw alluoedd gwyrthiol yn ei chanlyn, ni ymranodd yr afon. Efe a'i tarawodd eilwaith â'r fantell, gan lefain *Pa le mae Arglwydd Duw Elias?* Y ffrwd a wahanwyd, ac efe a aeth drosodd ar dir sych. Wrth weled y wyrth hon, sierhawyd i'r prophwydi ieuainge yn Jericho fod ysbryd Elias yn gorphwys arno ef, a hwy a ddaethant ac a ymgrymasant iddo hyd lawer fel eu penaeth. Yr un pobl hyn a gawsant, trwy eu taerineb, ei gennad ef i chwilio am Elias; er iddo sierhau iddynt mai ofer y byddai hyny. Pan ddaeth i Jericho, achwynodd y trigolion, er mor hyfryd oedd ansawdd eu dinas, etto fod eu dwfr yn ddrwg, a'r tir yn ddiffaith; yr hyn bethau a ddeilliasant, meddyliwn, oddi wrth felldith Josuah. Eliseus a alwodd am phiol newydd, a chan ei llanw â halen, a'i bwriodd ef i'r ffynnonell, ac a ddywedodd wrthynt, na chaent dir diffrwyth na dwfr drwg mwyach. A dywedir fod y ffynnon hon, hyd heddyw, nid yn unig yn ddwfr rhagorol, ond yn ffrwythloni y tir o amgylch. Pan aeth efe i fynu i Bethel, plant halogedig y lle, hwyrach trwy annogaeth eu rhieni, a'i gwatwarasant ef, ac a archasant iddo fyned i fynu i'r nefoedd, fel y tystiolaethai efe fod ei feistr wedi gwneuthur; *Dos i fynu, moelyn; dos i fynu, moelyn.* I gospi y plant hyn, a'r rhieni a'u dygasant i fynu mor ddrwg, efe a drodd yn ei ol ac a'u melldithiodd yn enw yr Arglwydd: ar hyn dwy arthes a ddaethant allan o'r goedwig gyfagos, ac a ddrylliasant 42 o honynt, 2 Bren. ii.

Efe a ganlynodd y brenhinoedd cynghreiriol, sef Jehoram brenin Israel, Jehosaphat brenin Judah, a brenin Edom, y rhai a aethant i ddarostwng y Moabiaid gwrthryfelgar. Pan oedd y dyddioedd hyn bron a chael eu lladd gan syched, daeth y brenin Jehoram a Jehosaphat atto ef am ymwared. Efe, yn ddigllawn, a orchymynodd i Jehoram fyned at brophwydi ei dad a'i fam eilunaddolgar; a sierhaodd iddo, oni buasai er mwyn Jehosaphat, na edrychasai efe arno ef. Wedi i'w dymmer lonyddu trwy gân cerddor, ac i'r Ysbryd Glan syrthio ar ei ysbryd tawel, efe a sierhaodd iddynt, y llenwid y ffosydd a orchmynasai ef iddynt eu cloddio, â dwfr er eu hadfywiad, heb na gwynt na gwlaw. Y noson hòno, llanwyd y ffosydd, a'r bobl a yfasant eu llonaid. Yn fuan ar ol hyn, achwynodd gwraig weddw prophwyd wrtho ef, fod echwynwr ei gŵr yn bwriadu gwerthu ei dau fab i ddigolledu ei hun. Eliseus, wedi mynegu iddo am ystenaid fechan o olew yn ei thŷ hi, a amlhaodd yr olew mewn modd mor wyrthiol, fel y llanwodd yr holl lestri a allai hi echwyna. Gorchymynodd y prophwyd iddi werthu hwn, a thalu ei dyled, a byw ar y gweddill. Oherwydd ei fod yn tramwyo yn fynych i Sunem, derbyniodd gwraig oludog yno ef yn garedig, ac a barottodd ystafell iddo. Trwy weddi efe a gafodd fab iw lettywraig anmhlantadwy, ac wedi hyny, a'i hadferodd ef i fywyd. Pan yn ystod y newyn, y gwnaethai prophwyd ieuange yn Gilgal gawl o fresych gwyllt ion, llysieuyn chwerw yn y radd uchaf, dim cynt y profodd ei gyd-brophwydi ef, nag y gwaeddasant allan fod gwenwyn ynddo; ond trwy fwrw ychydig flawd i'r crochan, symmudodd Eliseus flas chwerw ac ansawdd niweidiol y cawl. Yn nghylch yr un amser, efe, yn wyrthiol, a chwanegodd rinwedd 20 torth fechan o haidd, fel y bwyttaodd uwchlaw cant o ddynion o honynt, ac a adawsant weddill, 2 Bren. iii, a iv.

Yn nghylch A.M. 3110, daeth Naaman tywysog llu brenin Syria atto i gael ei iachau o'i wahanglwyf. I ddarostwng y penaeth balch, ni wnai Eliseus gymaint âg ymddiddan âg ef, nac edrych arno; ond anfonodd orchymyn iddo i ymolchi saith waith yn yr Iorddonen. Naaman yn cael fod y cyngor hwn, er mor ddrwg

cymmerwyd ar y cyntaf, yn effeithiol, a ddychwelodd, ac a gymmygodd iddo roddion mawrion; ond ni fynnai Eliseus ddim. Pan redodd Gehazi ei was cyhyddlyd, ar ol y Syriad, a chymmerodd oddi wrtho ddwy dalent o arian, neu yn nghylch £684 7s. 6d. o arian Lloegr, a dau bâr o ddillad, yna dadguddiodd Duw y twyll i Eliseus; efe a geryddodd Gehazi yn llym am hyn, ac a sierhaodd iddo, y glynai y gwahanglwyf wrtho ef a'i deulu. Yn fuan ar ol hyn, aeth y prophwydi ieuainge i dorri coed ar lan yr Iorddonen. Un o honynt a ollyngodd ben ei fwyall, yr hon oedd fenthyg, i syrthio i'r ffrwd ddofn. Eliseus, trwy daflu pren i'r dwfr yn agos i'r fan lle yr oedd, a berodd i ben y fwyall nofio, ac felly adferwyd hi. O herwydd fod y prophwyd yn bysbysu i Jehoram am y maglau a osodai y Syriaid iddo, y rhai oeddynt y pryd hwnw yn anrheithio y wlad, fel y gallai eu gochelyd, Benhadad, wedi mynegu iddo am hyn, a anfonodd wyr i'w ddal ef; ond gosgordd o angelion a'i hamgylchynasant ac a'i hamdiffynasant ef a'i was dychrynedig. Ar ei ddeisyfiad tarawodd yr Arglwydd luoedd yr Assyriaid â dallineb hannerog. Yna Eliseus a aeth i fynu attynt, ac a fynegodd iddynt nad hwnw oedd y lle y gallent weled y gwr a geisient, ac a gynnygodd i'w harwain hwynt. Efe a'u harweiniodd hwynt i ganol Samaria, lle, ar ei ddeisyfiad ef, yr agorodd Duw eu llygaid. Pan welsant lle yr oeddynt, ni ddisgwyliasant ddim ond marwolaeth; ond Eliseus a osododd o flaen y brenin Jehoram, y byddai yn fwy annynol i'w lladd hwynt na phe buasent wedi ymostwng fel carcharorion; ac, yn ol cyfarwyddyd y prophwyd, efe a osododd fara a dwfr ger eu bronau, ac a'u hanfonodd yn ol at eu harglwydd. Y ddamwain hon a rwystrodd y Syriaid rhag anrheithio gwlad Israel yn finteioedd bychain, 1 Bren. v. a vi.

Oddeutu A.M. 3114, pan warchaeodd Benhadad ar Samaria, nes oedd pen asian asyn yn cael ei werthu er yn nghylch deg punt, a mesur bychan iawn o *yd-bys* mân, os nid *tom colommenod*, er yn nghylch deuddeg swllt, Jehoram, wedi tramgwyddo wrth Eliseus, fel pe buasai efe wedi dwyn y drygfyd hwn arnynt, neu o leiaf, o herwydd na waredasai efe hwynt rhagddo, a anfonodd gennad i'w ladd ef; ond y prophwyd, wedi ei rybuddio gan Dduw, a orchymynodd gau y drws hyd nes y deuai y brenin ei hun i fynu. Pan ddaeth, ac achwyn yn ddiriaid o herwydd cyfyngder y ddinas, sierhaodd Eliseus iddo, cyn y terfynai 24 o oriau, y byddai y fath helaethrwydd yn Samaria, fel y gwerthid Sat, yr hyn sydd yn fwy na pheccaid Saesonig, o beilliaid, a dau o haidd, am lai na hanner coron. Rhyw dywysog ag oedd yn bresennol a wawdiodd y prophwyd, ac a haerodd fod hyny yn analluadwy, oni byddai i Dduw wlawio ŷd i lawr o'r nefoedd. Y prophwyd a ddywedodd y cai weled yr helaethrwydd â'i lygaid, ond na fwyttai o hono. Dygwyddodd felly; o herwydd y tywysog hwnw a sathrwyd i farwolaeth yn y porth, gan y bobl a ddygent yr anrhaith o wersyll y Syriaid i'r ddinas, 2 Bren. vi, a vii.

Oddeutu A.M. 3119, aeth Eliseus i Damascus, i gyhoeddi Hazael yn frenin ar Syria, fel, ymddengys, y gorchymynasai Elias iddo. Hazael, yr hwn oedd y pryd hwnw yn dywysog llu y brenin, a anfonwyd atto âg anrhegion gwerthfawr, i ofyn a fyddai Benhadad, yr hwn oedd yn glaf, byw. Yn ol ein darlleniad ni, dywedodd Eliseus wrth Hazael y gallai Benhadad fyw, o ran ei glefyd, o herwydd nad oedd yn farwol, ond ettо, er hyny, y byddai farw trwy foddion ereill; ond darlleniad y testun yn ol yr Hebraeg yw, *Diau nis byddi byw, o herwydd yr Arglwydd a ddangosodd i mi y bydd efe marw yn ddiau.* Yna efe a dorodd allan i wylo ar ei waith yn edrych ar Hazael, ac a ddywedodd wrtho, ei fod yn gwneuthur felly o herwydd rhagolwg ar y drygau a ddygai efe ar yr Israeliaid, pan y deuai yn frenin ar Syria. O ddeutu yr un amser, efe a anfonodd brophwyd ieuange i eneinio Jehu i fod yn frenin ar Israel, fel y byddai iddo dorri tŷ eilunaddolgar Ahab ymaith. O ddeutu A.M. 3165, Eliseus a glafychodd. Daeth Joas brenin Israel i ymweled âg ef, ac wylodd wrth weled noddwr a chynnalydd prophwydol y deyrnas mewn cyfwr marwol! Efe a orchymynoddi'r brenin gymmeryd bwa a saethau, a saethu tua'r dwyrain,

gan ychwanegu fod hyny yn rhagarwydd o waredigaeth oddi tan iau y Syriaid, ac o fuddugoliaeth ogoneddus arnynt yn Aphec. Yna efe a ddeisyfodd ar y brenin daro y ddaear â'i saethau ereill. Gwnaeth felly deirgwaith, ac a beidiodd. Y prophwyd a geryddodd y brenin gyda pheth angerdd ysbryd, o herwydd na tharawodd y ddaear bump neu chwech o weithiau, fel y byddai iddo orchfygu hyd byddinoedd y Syriaid mor aml â hyny, tra yn awr na orchfygai hwynt ond teirgwaith. Yn fuan ar ol hyn, Eliseus a fu farw, ac a gladdwyd; a minteioedd y Moabiaid a ddaethant i'r wlad, a phan oeddynt yn cladu gwr, wele, canfuant dorf, ac a fwriasant y gwr i feddrod Eliseus. A phan aeth y gwr i lawr, a chyffwrdd âg esgyrn Eliseus, efe a ddadebrodd, ac a gyfododd ar ei draed, 2 Bren. viii, ix, a xiii.

Ai Iesu yw gwrthgysgod mawr yr hen brophwyd hwn? Mor arbenig oedd ei alwad at ei waith! mor helaeth ei arlwyaeth! a thrwy ba fath wyrthiau lluosog y cadarnhawyd ei anfoniad ef! Gan ddyfod ar ol Elias y Testament Newydd, egwyddorwyd ef, mewn modd arbenig ar lan yr Iorddonen. Trwy farwolaeth, efe a ranodd y llifeiriant o ddigofaint, a'r Iorddonen o drallodion. Trwy ei gyfammod o *halen*, y mae yn gwella hau y dwfr chwerw a'r tir diffrwyth o orchymynion a meliddithion y gyfraith, ac aml gystuddiau. Y mae efe yn gwneuthur i ffrydiau o ras yr efengyl dori allan yn y diffeithwch i bechaduriaid ar ddarfod am danynt. Y byd diffrwyth hwn a wna efe yn llawen fam Cristionogion, a'r rhai hyn yn ffrwythlawn mewn gweithredoedd da. Y mae efe yn amlhau eu holew o ras, hyd na byddo ychwaneg o le i'w dderbyn. Trwy ei air, efe, yn fynych, a adfywiodd y meirw yn natturiol, ac i amryw o'r fath y rhoddodd ei farwolaeth ollyngdod o'u beddau. Trwy ei weddiau a'i farwolaeth, y fath luoedd a fywhâ efe o'r rhai oeddynt yn feirw mewn camweddau a phechodau! y fath luaws o Genedloedd a iachâ efe o'u gwahanglwyf pechod, trwy olchiad yn ei waed! Fel y mae efe yn meiusu eu cyfran chwerw o brofedigaethau; yn cyfodi eu hysbrydoedd soddedig; ac yn eu diwallu yn helaeth pan ar newynu! Onid efe yw cadernid, *cerbydau a marchogion* ei eglwys, yr hwn sydd yn rhoddi iddynt eu buddugoliaethau, ac yn dadymchwelyd eu gelynion o amgylch, fel y byddo yn tueddu i'w lles? Mor wresog ei sêl dros Dduw; a thyner ei dosturi tuag at ddynion amddifaid, truenus, nychlyd, caeth, a thrallodedig! Ei watwarwyr a ddryllir pan nad oes waredydd: gweinidogion, y rhai, gan ddynwared Gehazi, ydynt yn pregethu er mwyn budr elw, a drengant yn waradwyddus yn eu pechodau: y cyfryw a ganlynant ei ordinhadau gydag amcanion drygionus, a darewir â dallineb ysbrydol: y rhai a ddiystyrant ei gyflawnder addawedig, a gant ei weled â'u llygaid, ond byth ni chant fwytta o hono. Y fath ddialedd hyd yr eithaf a ddaeth ar Judas, yr hwn a'i bradychodd, ac ar yr Iuddewon y rhai a ddifenwasant, a'i hanghredasant, ac a'i herlidiasant!

ELNATHAN, *(rhodd Duw)* mab Achbor, a thad Nehusta mab Joachim, brenin Judah. Anfonwyd ef i gyrchu Uriah y prophwyd yn ol o'r Aipht i gael ei ladd; ac efe, heb lwyddo, a ddeisyfodd ar Jehoiachim i beidio llosgi y llyfr yn cynnwys prophwydoliaethau Jeremiah, 2Bren. xxiv. 8. Jer. xxvi. 22, a xxxvi. 12.

ELON *(derwen)*. 1. Mab Zabulon, tad yr Eloniaid, Num. xxvi. 26. (2.) Un o farnwyr Israel, o hiliogaeth Zabulon; efe a farnodd ei genedl ddeng mlynedd, o yn nghylch A. M. 2830 i 2840, ac a gladdwyd yn Ajalon, Barn. xii. 11, 12. (3.) Elon, neu Elon-beth-hanan, dinas yn etifeddiaeth Dan, Jos. xix. 43.

ELUL, y chweched mis o'r flwyddyn gyssegredig Iuddewig, a'r 12fed o'r un wladol: y mae yn cyfateb i ran o'n Hawst a'n Medi ni, âg yndda 29 o ddyddiau. Ar yr 17eg dydd, yr Iuddewon a ymprydiant am yr anffodau a ddygwyddasant iddynt ar ddychweliad yr yspiwyr, Num. xiv; ar yr 21ain, neu yr 22ain, cadwant wledd o goffadwriaeth am eu gwaith yn cludo coed i'r deml, i losgi yr aberthau; ar y 25ain, adgoffânt gyssegriad Nefemiah o furiau Jerusalem, Neh. xii. 28.

ELUSEN, *(elus*, rhodd) yr hyn a roir yn gardod i'r tlodion, Mat. vi. 1—4. Yn yr Hebraeg, y mae yn cael ei

galw *cyfiawnder*. Y mae i gael ei rhoddi o bethau sydd yn gyfiawn yn eiddo i ni ein hunain, ac fel dyled i'r dlodion, nid er eu mwyn eu hunain, ond yr Arglwydd, Luc ii. 41, a xii. 33. Yn y Groeg, y gair a arwydda *trugaredd*; y mae i gael ei rhoddi oddi wrth egwyddor o wir gariad a thosturi at wrthddrychau anghenus, Act. x. 2, 4, a xxiv. 17.

ELW, (*al*, cynnyrch) ennill, budd, lles. "Marw sydd *elw*," Phil. i. 21. Mae yn gymmaint elw âg yw anfarwoldeb yn rhagori ar farwoldeb; anllygredigaeth yn rhagori ar lygredigaeth; bod yn berffaith, yn rhagori ar fod yn griddfan mewn ymladdfëydd â chorph y farwolaeth; a bod gyda Christ yn y trigfanau nefol, a'i weled megys ag y mae, yn rhagori ar fod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd, a'i weled trwy ddrych mewn dammeg; yn gymmaint â bod yn berffaith gyda chyfeillion wedi eu perffeithio, yn rhagori ar fod yn nghanol gelynion, yn glwyfus, yn aml, ar faes y gwaed, Heb. xii. 23. Ioan xiv. 2, 3, 4.

EMIAID, (*pobloedd*) hen drigolion gwlad Canaan, tua'r parth dwyreiniol a gogledd-ddwyreiniol i'r Môr Marw. Hanasant, tebygol, o Ham, ac yr oeddynt yn bobl luosog, fawrion, a rhyfelgar iawn. Rhoddodd Cedorlaomer faethgen arswydus iddynt yn Safeh-Ciriathaim, Gen. xiv. 5. Jos. xiii. 19—21. Ymddengys i Anah yr Horiad ymosod hefyd ar ôntai o honynt, a'u torri ymaith, Gen. xxxvi. 24. Y Moabiaid a dorasant y rhan fwyaf o honynt ymaith, ac a ymgorpholasant â'r lleill; ond cymmerasant feddiant o'u holl wlad hwynt, Deut. ii. 10, 11.

EMMAUS, pentref yn nghylch wyth milltir o du y gorllewin i Jerusalem. I hwn yr oedd Cleopas a dysgybl arall yn myned, pan gyfarfu Crist â hwynt; yma y swpperodd efe gyda hwynt, ac yr amlygodd ei hun iddynt, Luc xxiv. 13—32. Yma yr ydoedd baddon poethion, rhinweddmeddyginiaethol pa rai a ddywedir ei roddi iddynt trwy waith Crist yn golchi ei draed ynddynt: ond Julian y gwrthgiliwr, o gasineb at ein Hiachawdwr, a barodd iddynt gael eu hattal. Yr oedd dinas o'r enw Emmaus, yn agos i Lyda, ac yn nghylch 22 milltir o du y gogledd-orllewin i Jerusalem. Galwyd hi, wedi hyny, Nicapolis. Yr oedd hefyd le arall o'r un enw, yn agos i Tiberias. Ymddengys i bob un o'r tri dderbyn eu henw oddi wrth eu *baddon poethion*.

ENAID, (*en-aid*) a anrwydda, (1.) Y sylwedd ysbrydol, rhesymol, ac anfarwol hwnw mewn dynion, pa un sydd yn eu gwahaniaethu oddi wrth anifeiliaid, ac yn eu galluogi i feddwl ac ymresymu, Mat. x. 28; ac felly gogoniant dynion eill fod eu henaid, Salm lvii. 8. Gen. xlix. 6. (2.) Yr holl ddyn, yn gynnwysedig o gorph ac enaid, o ba un yr enaid yw y rhan fwyaf rhagorol, Gen. xiv. 21, a xii, 5. (3.) Y bywyd dynol, yr hwn a ddechreuir trwy dywalltiad yr enaid i mewn i'r corph, ac a beidia trwy ei ymadawiad, Salm xxxiii. 19, a vii. 5. 1 Thes. ii. 8. (4.) Serch, dymunfad; felly yr oedd enaid Jonathan wedi ymglymu wrth *enaid* Dafydd, 1 Sam. xviii. 1. Pan fydd *enaid* ac *ysbryd* yn gyssylltiedig, *enaid* a arwydda yr ewyllys a'r serchiadau, ac *ysbryd* a arwydda y deall a'r gydwybod, 1 Thes. v. 23. Heb. iv. 12. (5) Galwai yr Iuddewon gyrph meirw yn *eneidiau*, o blegid eu bod unwaith yn breswylfod iddynt, Num. ix. 6, a vi. 6, yn yr *Heb. Enaid* Duw yw ei hun, ei natur, ei ewyllys, neu ei hyfrydwch, Jer. vi. 8. a v. 9, Esa. i. 14, Heb. x. 38. *Enaid* Crist, yr hwn sydd yn ei osod ar gerbydau Aminadib, neu yn ei wneuthur megys arnynt, yw ei gariad gwresog at ei bobl, yr hwn sydd yn peri iddo sylwi ar eu grasau a'u gweddiau, a phrysuro i'w cymmorth, Can. vi. 12. Ni adewi fy *enaid yn uffern*; ni chedwi fy enaid yn nghanol trallodion anoddefadwy, na'm corph yn y bedd, Salm xvi. 10. Y mae Anghrist yn marsiando yn *nghyrph ac eneidiau dynion*, yn ngweddillion cyrph meirw, a thrwy werthu ysgrifau maddeuant, gwaredigaethau o'r purdan, &c. i eneidiau dynion, Dad. xviii. 13. Y swyddogion, yn benaf y tywysog, ydynt enaid byddin, a'r milwyr cyfredin ydynt y *corph*, Esa. x. 18. Caru, neu wneuthur unrhyw beth â'r *enaid*, yw ei wneuthur gyda y gwesogrwydd a'r serch mwyaf, Can. i. 7. Luc i. 46. Salm lxi. 10, a xxv. 1.

ENDOR, (*ffynnon cenedlaeth*) dinas yn hanner llwyth gorllewinol Manasseh, yn nghylch pedair milltir o du y dehau-ddwyrain i fynydd Tabor. Gerllaw iddi y gorchfygwyd llu Jabin gan Barac, Salm lxxxiii. 11. Ac yma y trigai y ddewines y bu Saul yn ymgynghori â hi cyn y frwydr angheuol yn Gilboah, 1 Sam. xxviii. 7. Yr oedd yn lle cryn helaeth o ddeutu 300 o flyneddoedd ar ol Crist.

ENEGLAIM. Y gair *Heb. Hen*, neu *En*, yr hwn a ddodir mor fynych o flaen enwau lleoedd, a arwydda *ffynnon;* ac ymddengys i'r lleoedd hyn gael eu galw felly, o herwydd fod yno ryw ffynnon hynod. Hwyrach mai yr un yw Eneglaim âg Eglaim, neu Agelim; yr hon oedd o du y dwyrain i'r môr Marw, yn nghylch wyth milltir o du y gogledd i Ar, ac ar gyfer Engedi. *Pysgodwyr yn sefyll ar y Mor Marw o Engedi hyd Eneglaim*, a arwydda gweinidogion yn llafurio yn ngwaith yr efengyl o'r naill gwr i'r byd i'r llall, Ezec. xlvii. 10.

ENFYS, (*en-bys*) nid yw hwn byth i'w weled ond pan fydd yr haul yw tywynu, ac mewn gwrthwyneb-iad cywir iddo, ac a ffurfir gan wrth-doriad ei belydr ar gwmmwl dyfrllyd; ac nis gall yr haul ychwaith ffurfio y fath wrth-doriad os bydd dros 42 o raddau uwch law y terfyngylch, am y bydd ei wrth-doriad y pryd hwnw yn is na'r ddaear. Amgylchynir yr enfys dysglaer yn fynych âg un mwy gwanaidd a thywyll mewn ychydig bellder oddi wrtho, yr hwn sydd yn fwy o ehangder. Y mae befyd fath o enfys yn cael ei ffurfio gan wrth-doriad goleuni y lloer, neu y môr cynddeiriog; ond y mae y rhai diweddaf hyn â'u breich-iau yn cyfeirio i fynu. Gall un ffurfio math o enfys celfyddydol, trwy grogi darn o frethyn du gyferbyn â'r haul, a chan droi ei gefn at yr haul a'i wyneb at y brethyn, pared i ddwfr syrthio fel cawod o wlaw rhyngddo âg ef; fel hyn ffurfir enfys yn y defnynau. Pa un ai bod yr enfys cyffredin yr hwn a dardda oddi wrth achosion naturiol, yn ymddangos cyn y dylif, nid ydys yn cyduno. Hwyrach nad oedd; ac yna yr oedd yn ymddangos yn arwydd mwy hynod ac effeithiol i gadarnhau ffydd Noah yn yr addewid ddwyfol, na ddych-welai y dylif byth mwyach i orch-uddio y byd. Dilys yw nad yw pob agwedd ar gwmmwl gwlawog yn addas i beri enfys; a phwy a wyr nad allai y cymmylau, cyn y dylif, fod wedi eu cyfieu felly bob amser, fel ag i beidio ffurfio un. Y mae ei ymddangosiad, er yn arferedig yn awr, yn parhau fyth yn arwydd dwyfol, na foddir y ddaear mwyach â dylif cyffredinol, Gen. ix. 8—17. Cyffelybir y cyfammod gras i *enfys o amgylch gorsedd-faingc Duw ac o amgylch pen Crist*; yr amlyg-iad gogoneddus hwn o ragoroldeb Haul y cyfiawnder, trwy ba un y goleuir ein holl gymmylau o drallod a thrueni, yw ein diogelwch diambeu-ol rhag dialedd llifeiriol Duw, ac y mae yr Iesu a'i Dad bob amser yn ymhyfrydu ynddo yn ngoruchwyl-iaeth eu rhagluniaeth, Dad. iv. 3, a x. 1.

EN-GEDI (*ffynnon dedwyddwch*) a elwid weithiau, Hazazon-tamar, o herwydd y lluosogrwydd o balm-wydd oedd o'i hamgylch. Gorweddai yn nghylch 37½ o filitiroedd o du y dehau-ddwyrain i Jerusalem; o du y dehau i Jericho, rhwng pa un â hi yr oedd dyffryn hyfryd; ac yn agos i lan ddehau-orllewinol y Môr Marw: er fod ereill yn ei gosod yn y tu dehau-orllewinol iddo. Yr oedd ynddi amledd o winllanoedd rhagorol, lle y tyfai camphir a phalmwydd, Can. i. 14. Hon, hwyrach, oedd *dinas y palmwydd* a enwillwyd gan y Mo-abiaid â'r Amaleciaid. Barn. iii. 13. Adeiladwyd hi yn foreu, ac a feddiannwyd gan yr Amoriaid, ac a yspeiliwyd gan Cedorlaomer, Gen. xiv. 7. Rhoddwyd hi i lwyth Judah, Jos. xv. 62. Yma y bu Dafydd, yn ei ailtudaeth dan Saul, yn trigo, dros amser, mewn ogofëydd, 1 Sam. xxiv. 1. Yma y gwersyllodd llu cynghreiriol yr Ammoniaid a'r Mo-abiaid, y rhai a ddaethant yn erbyn Jehosaphat, 2 Cron. xx. 2.

EN-HACCORE, (*ffynnon y geilwad*) enw y ffynnon a agorwyd yn wyrthiol i dorri y syched dirfawr a flinodd Samson wrth ladd mil o'r Philistiaid â gên asyn, Barn. xv. 9—19.

ENNEINIO *(enain)* tywallt en-naint ar un. Yr oedd enneinio yn arferiad hen iawn; ac yn dra ar-

wyddoccaol o wirioneddau pwysig yr efengyl. Yr esampl gynt a gawn o hono yn yr ysgrythyr yw eiddo Jacob yn Bethel, Gen. xxviii. 18, lle y dywedir i ni iddo *enneinio* (trwy dywallt olew ar) y garreg a fuasai dan ei ben; efe a'i gosododdi hi yn golofn, ac ychwanega "y golofn hon a fydd yn dŷ Duw;" yr ydym yn cael pan y mae Duw yn ei annerch ef, Gen. xxxi. 13, ei fod yn cymeryd sylw neilluol o'r hyn a wnaethai Jacob yn Bethel "lle yr *enneiniaist* y golofn." &c. Rhaid fod y garreg hon a enneiniodd Jacob yn golygu y golofn fawr yn nheml Duw, sef Iesu Grist ei hun, a'r holl eglwys fel yn cyfranogi gydag ef yn ei enneiniad. Yr oedd enneiniadau yn fynych iawn dan y gyfraith, ac yn perthynu i ddynion a phethau. Pan fyddai breninoedd, offeiriaid, neu brophwydi yn cael eu neilldu i'w swyddau, o herwydd fod y swyddau yn sanctaidd, a'r rhai y byddent yn cael eu cyfranu iddynt yn gyssegredig; yr oedd y swyddau, a'r rhai a'u cyflawnent wedi eu sancteiddio o ran pureiddiad y cnawd, o herwydd eu bod yn ei gysgodi "Ef yr hwn a sancteiddiodd y Tad ac a anfonodd i'r byd" i weinyddu yn y swyddau mawrion hyn yn eglwys Duw, Exod. xxviii. 41. 1 Sam. ix. 16, a 1 Bren. xix. 16. O'r achos hwn y galwyd yr Iesu yn *Grist* yr Arglwydd, ei *Fessiah*, neu ei *Enneiniog* ef. Enneiniwyd ef â'r Ysbryd Glan, gwrthgysgod mawr holl olew yr enneiniad dan y gyfraith. (1.) Pan ddiscynodd yr Ysbryd Glan arno yn ei fedydd mewn agwedd gorphorol, ac y clybuwyd llais y Tad yn mynegu, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.* Ond enneiniwyd ef *uwchlaw ei holl gyfeillion*, fel yr *Enneiniog* mawr, ar ei adgyfodiad oddi wrth y meirw; dyna y pryd y cyssegrwyd ef, nid yn unig yn Arglwydd, ond yn *Grist* iefyd. Rhoddodd y Tad iddo yr Ysbryd dros ben mesur; yr amser hwnw yr aroglodd ei wisgoedd o fyrr, sloes, a chasai, allan o'r palasau fori, Salm xlv. 7. Aaron a'i feibion a enneiniwyd âg olew peraidd iawn, ond yr oedd ei arogl yn aneirdrol lai nag eiddo yr hwn a dywalltwyd (i ddwyn y cyffelybiaeth yn mlaen) ar gorph gogoneddus Iesu Grist, pan enneiniwyd ef ar fynydd Sion sanctaidd. Teimlwyd effeithiau enneiniad y brif Golofn yn Jerusalem; ar ddydd y Pentecost, enneiniwyd yr holl adeilad â'r Ysbryd Glan megys gwynt nerthol yn rhuthro. Yn awr, er nad yw pob Bethel yn cael ei henneinio yn y dull anarferol ag y cafodd yr eglwys yn Jerusalem; o herwydd ymddangosodd olew yr enneiniad yn y tŷ hwnw yn gystal ag yn yr holl eglwysi cyntaf yn ystod dyddiau yr apostolion, yn gydfynedol âg arwyddion, rhyfeddodau, ac amryw wyrthiau, y rhai oeddynt oll ddoniau yr Ysbryd Glan; etto rhaid i bob eglwys i Grist gael ei henneinio. Nodir dull yr enneiniad hwn allan yn ngweledigaeth Zechariah, Zech. iv. 11, 14. Yno, y mae yn amlwg fod ysgrythyrau yr Hen Destament â'r Newydd yn cael eu hystyried fel y *ddau enneiniog*, y rhai sydd yn sefyll ger bron Arglwydd yr holl ddaear; neu y ddau bingcyn neu y ddwy bibell y rhai sydd yn tywallt olew euraidd allan o honynt eu hunain. Y mae yr ysgrythyrau fel hyn yn cael eu hystyried fel y moddion trwy ba rai yr enneinia Arglwydd yr holl ddaear ei amrywiol Bethelau. Pan fydd unrhyw bechadur euog yn cael ei ddysgu i alw Iesu yn Arglwydd; trwy fod llygaid ei ddeall wedi cael eu hagor i ddeall yr ysgrythyrau, y mae yn cael ei *enneinio*; a'r gwirioneddhwnw a ddwg yr ysgrythyrau i'w olwg, sydd yn puro ei galon trwy ffydd; ac felly, gan i Grist gael ei enneinio yn Frenin, Offeiriad, a Phrophwyd, y mae ei holl saint yn profi eu bod wedi derbyn enneiniad oddi wrth y Sanct, trwy fod eu cydwybodau yn ddarostyngedig iddo fel eu Brenin, eu Llywydd, eu Hoffeiriad, eu Heiriolwr gyda Duw, a'u Prophwyd, o enau pa un y maent yn dysgu beunydd, gan ddisgwyl wrth bysteiddrws, a rhyfeddu o herwydd y geiriau graslawn a ddeuant allan o'i enau. Am hyny gelwir holl ddysgyblion Crist yn *saint*, a *brawdoliaeth sanctaidd;* o herwydd gan mai *un* yw yr Ysbryd, pa mor amrywiol bynag ei weithreddjadau, y mae bob amser yn llefaru yr un peth; ac am hyny ceir pawb a gyfranogant o'r *un Ysbryd* yn cadw *undeb* yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd, gwel Cor. xii. 1—14; ac

felly, pa un bynag ai Iuddewon neu Roegwyr, caethion neu ryddion, pa mor wrthwynebol bynag y byddent yn eu dygiad i fynu, eu herlyniadau, eu gwybodaeth, neu eu cyrhaeddiadau bydol, etto y maent oll yn *un* yn Nghrist Iesu.

ENOCH *(cyflwynedig)* (1.) Mab Cain, yn ol enw pa un y galwodd ei dad y ddinas a adeiladodd efe yn nhir Nod, o du y dwyrain i Eden, lle y cawn y ddinas Anuchtha, a lle y gesyd *Pliny* a *Ptolemy* yr Henochir: ond hwyrach i'r enwau hyn ddeilliaw oddi wrth yr un canlynol, Gen. iv. 17. (2.) Mab Jared, a thad Methuselah. Hanes y patriarch hwn sydd bwysig yn wir! Y mae ei hanes, er yn dra byr, yn teilyngu llawer o ystyriaeth. Daeth Enoch i'r byd yn y dull arferol, a chyflawnodd ddyledswyddau perthynasol cyfredin bywyd tra y bu yn aros ynddo. Yr oedd ganddo deulu lluosog; ond efe a rodiodd gyda Duw. Yr oedd yn un o henafiaid mawrion yr hil ddynol; yn dorch yn nghadwyn gadarn rhagluniaeth, yr hon oedd yn dwyn y cyfnod rhyfedd hwnw yn mlaen yn raddol, pan y deuai y cyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer, y diweddaf mewn amser, ond y cyntaf mewn urddas, er ein hiachawdwriaeth. Ganwyd Enoch A.M. 622; ac ni bu Adda farw ond 57 o flyneddoedd cyn symmudiad Enoch. Yr oeddynt yn gyfoeswyr, am 308 o flyneddoedd; a chafodd gyfleusdra i glywed gan Adda, yr hyn oll a ddadguddiasai Duw iddo ef. A hyn, wrth fyned yn mlaen, a ddengys un dyben pwysig o hir-hoedledd y patriarchiaid. O herwydd nad oedd un dadguddiad ysgrifenedig, gallai y tad addysgu ei blant, o'r seithfed neu yr wythfed genhedlaeth, yn y pethau a ddadguddiesid iddo ef yn ddigyfrwng, hwyrach oddi wrth ffynnon pob gwirionedd. Y mae Enoch yn enwog hyd yn nod mewn hanesyddiaeth Baganaidd. Yr ysgrifenwyr dwyreiniol, Arabaidd a Phersiaidd, a wnant lawer o gynnwrf yn nghylch y prophwyd Enoch neu Edris, fel y galwant ef. Dywedant iddo dderbyn 30 o gyfrolau o'r nefoedd, yn llawn o wybodaeth ddirgelaidd. Y mae llyfr yn cael ei briodoli iddo, ond dilys yw nad ei eiddo ef ydyw; ond ysgrifenwyd ef naill ai gan ryw Iuddew hygoelus cyn dyfodiad Crist, neu ynte gan Gristion penffol yn fuan ar ol hyny. Am o ddeutu 1000 o flyneddoedd, cladd wyd ef mewn anghof, nes i *Joseph Scaliger*, o ddeutu 200 o flyneddoedd yn ol, adferu rhan o hono. Y mae, yn ddisynwyr yn dal, i'r angelion, cyn y dylif, gan weled merched prydferth dynion, eu cymmeryd yn wragedd, cenedlu yr hen gawri o honynt, ac arwain eilunaddoliaeth, planed yddiaeth, a chelfyddydau anghyfreithlawn ereill, i mewn i'r byd. Nid yw yn ymddangos iddo ef ysgrifenu dim; ond prophwydodd am y farn ddiweddaf, y deuai yr Arglwydd gyda myrddiwn o'i saint neu ei angelion, i lwyr-argyhoeddi yr annuwiolion am eu geiriau caledion, a gweithredoedd eu hannuwioldeb, ac i'w cospi am danynt. Gallasai y brophwydoliaeth hon gael ei throsglwyddo i Judas trwy draddodiad, ac i'r Ysbryd Glan sicrhau iddo mai nid ffugiol oedd, Gen. v. 18—24. Heb. xi. 5. Judas xiv. 15. Y mae yr hanes ysgrythyrol am dano yn fyr iawn, *efe a rodiodd gyda Duw*. "A ddichon dau rodio yn nghyd, heb fod yn gyttun." Na allant. Rhaid, gan hyny, i rodiad gyda Duw ddechreu mewn cymmod gyda Duw; ac nid yw yr ysgrythyr yn cydnabod un ffordd arall o gymmod ond yr hon a eglura Paul trwy ddyweddyd, *Trwy ffydd* y rhodiodd Enoch gyda Duw, &c. Heb. xi. 5. Yn mhob oes o'r byd, yr un gwrthddrych sydd gan ffydd. O Abel i waered hyd yr ieuangaf o'r prophwyd; o'r pysgodwyr y rhai a adawsant eu rhwydau, hyd heddyw, y mae y ffydd hon fyth â'i golwg ar yr Arglwydd a'r Iachawdwr Iesu Grist fel yn marw dros ein pechodau, ac yn adgyfodi er ein cyfiawnhad.

Y mae pwngc arall yn ei hanes a ofyn ein hystyriaeth; *ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symmud*; yr hyn a eglura Paul, *efe a symmudwyd fel na welai farwolaeth*. Diddymiad deddfau rheolaidd ac unffurfiol anian, neu y dyspeidiad a'r cyfnewidiad achlysurol o honynt, yd ynt y naill fel y llall yn brofion o allu dwyfol. Efe, yr hwn a ddywedodd wrth Adda, "Pridd ydwyt, ac i'r pridd y dychweli," a gymerodd Enoch atto ei hun, a ddi-

iiddymodd y ddedfryd farwol, ac, rth wneuthur felly, a ddysgodd lwys Duw, fod ffydd yn Nuw yn ssylltiedig â gobaith adgyfodiad y eirw. Yn mhen 57 mlynedd wedi osod yr Adda cyntaf yn y llwch, eth Enoch i wyddfod digyfrwng uw heb brofi marwolaeth, yr hyn edd rag-olwg a chynllun o'r fudd-goliaeth derfynol a ennilla yr Ail dda ar y gelyn diweddaf, sef Angau.

ENOS, mab Seth, a thad Cainan, anwyd A. M. 235. Ei enw a ar-ydda y teimlad a feddai ei dad o *rueni* dynolryw, o achos pechod. n ei ddyddiau ef, *dechreuodd* ynion *alw ar enw yr Arglwydd*, yny yw, y cyfryw ag a ffieiddient ppil annuwiol Cain, a ffurfiasant eu unain yn gynnulleidfaoedd cyhoedd-s i addoli. Hwyrach, befyd, cyn i farwolaeth yn A. M. 1140 i hiliog-eth Seth ddechreu *halogi enw yr Arglwydd*, trwy gyd-ymbriodi âg iliogaeth Cain.

ENROGEL (*ffynnon y panwr*). Ymddengys mai yr un oedd hon â ffynnon y Ddraig, neu ffynnon y Brenin; neu yn hytrach ffynnon Si-oah, yehydig o du y dehau-orllewin ddinas Dafydd, ac o'r tu allan i orth y ffynnon. Dichon ei bod yn maes y panwr, neu gerllaw iddo, rwy yr hwn y dylifai pistyll y llyn uchaf, Jos. xv. 7. Esa. vii. 3. Yma yr ymguddiodd Abimaas a Jo-nathan i gael gwybodaeth am gyng-horion Absalom yn erbyn ei dad, 2 Sam. xvii. 17; a gerllaw iddi y gwnaeth Adoniah wledd i Abiathar, Joab, a'r lleill a'i cynnorthwyent yn ei draws-lywodraeth, 1 Bren. i. 9. Rhai a osodant Enrogel yn y tu dwyrain i Jerusalem, yn agos i droed mynydd Sion, ac, yna, yr un ydyw, tebygol, â llyn Siloam.

ENW, (*nw*) yw, yn briodol, yr hyn y gelwir person neu beth wrtho, 'w wahaniaethu oddi wrth arall. Mae llawer iawn o'r enwau personau a'r lleoedd crybwylledig yn yr ys-grythyr wedi eu sylfaenu ar, ac yn mynegu, rhyw achlysur neilldiol. Mae y rhai a ddechreuant neu a ddieddant yn *El*, neu a ddechreu-ant â *Je*, *Jeho*, neu a ddiweddant yn *Jah*, yn dwyn perthynas â Duw. Gan fod i lawer o bersonau a pheth-au, wahanol enwau, nid yw ryfedd eu bod yn cael eu galw, weithiau, wrth y naill enw, ac weithiau wrth enw arall. Felly y mae tad yn nghyfraith Moses yn cael ei alw Je-thro a Reuel; mab ieuangaf Isaac, Jacob ac Israel; ŵyr Jehosaphat, Jehoahaz, Ahaziah, ac Azariah, &c. Rhai llythyrenau hefyd, yn enwedig llafariaid, E am A, &c. a newidir yn sillafiad yr un gair, megys *Gos-hum* neu *Geshem*; *Achan* neu *Achar*. Y mae *enw* pan ei priod-olir i Dduw neu Grist, yn cynnwys pa beth bynag y bydd yn amlygu ei hun trwyddo. Enw Duw a arwydda (1.) Efe ei hun, Salm xxix. 2, a xxxiv. 3, a lxi. 5. (2.) Ei ditlau, Exod. iii. 13, 14, a vi. 1. (3.) Ei briodoliaethau neu ei gynneddfau, Exod. xxxiii. 19, a xxxiv. 6, 7. (4.) Ei air, Salm v. 11. Act. ix. 15. (5.) Ei addoliad a'i wasanaeth, 1 Bren. v. 5. Mal. i. 6. (6). Ei ewyllys a'i arfaeth mewn perthynas i'n hiachawdwriaeth, yn nghyd â'i ras a'i drugaredd sydd yn cael eu hamlygu trwy hyny, Salm xxii. 22. Ioan xvi. 26. (7.) Ei nerth i gyn-northwyo, 1 Sam. xvii. 45. Salm xxi. 1, 7. (8.) Ei ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni, a amlygir yn ngweithredoedd creaduriaeth a rhag-luniaeth, Salm viii. 1, 9. (9.) Ei awdurdod oruchel, Mic. v. 4. (10.) Ei anrhydedd, ei ogoniant, a'i glod, lxxvi. 1. *Enw* Crist a arwydda, (1.) Efe ei hun, yr hyn ydyw mewn gwirionedd; megys Rhyfeddol, Duw cadarn, Duw gyda ni, Esa. vii. 14, a ix. 6. (2.) Ei ditlau, megys Ach-ubwr, Prophwyd, Offeiriad, Brenin, &c. Mat. i. 21. Dad. xix. 14. (3.) Ei awdurdod oruchel, Mat. vii. 22. Act. iv. 7. (4.) Ei air a'i efengyl, a phroffes o honynt, Act. ix. 15. Mat. x. 22, a xix. 29. Dad. ii. 13. (5.) Ei dderchafiad i'r anrhyd-edd, y gallu, a'r gogoniant mwyaf goruchel, fel ein Cyfryngwr, Phil. ii. 9, 10. *Enwau* dynion a ar-wyddant, (1.) Yr enwadau neilldiol hyny y gelwir hwynt arnynt yn gyff-redin, Luc i. 60. (2.) Y personau eu hunain, Luc x. 20. Dad. iii. 4, a xi. 11. *Gr.* (3.) Cymmeriad, drwg neu dda, Diar. xxii. 1. Deut. xxii. 14. (4.) Anrhydedd, gogon-iant, enwogrwydd, Deut. xxvi. 19. Zeph. ii. 20. 2 Cron. xxvi. 8, 15. (5.) Cof neu goffadwriaeth, Deut. xxix. 29. (6.) Hiliogaeth trwy ba

rai y cedwir enwogrwydd dyn i fynu, Deut. xxv. 7. Esa. lxvi. 22.

ENWAEDIAD, *(enwaed)* toriad y blaen-groen ymaith. Y mae dyben yr ordinhad hynod hon yn dra theilwng o ystyriaeth, fel yn gyssylltiedig âg athrawiaethau pwysig o'r ysgrythyr. Yr hanes byraf, ac, ar yr un pryd, y mwyaf cywir am yr ordinhad hon, a gawn yn Rhuf. iv. 11, lle y gelwir hi yn *arwydd neu insel cyfiawnder y ffydd.* Nid oes dim wedi bod yn ffynnon helaethach o gyfeiliornad, na chamsyniadau am yr enwaediad, fel pe buasai ya ordinhad gnawdol, yn briodol i had Abraham yn ol y cnawd, ac yn arwydd neu ditl i etifeddiaeth o Ganaan ddaearol. Ni ddichon dim fod yn fwy anysgrythyrol. Er fod enwaediad yn ordinhad bwysig iawn yn yr addoliad cysgodol Moesenaidd, nid oedd yn briodol i had Abraham yn ol y cnawd; o herwydd enwaedwyd ar bawb yn nheulu Abraham, ar Eliezer, ac ar y 300 dyeithriaid, yn nghyd â phlant Abraham. Y mae yr enwaediad yndda ei hun yn ordinhad hynod gysgodol o'r gwirionedd canlynol, sef y torid had Abraham ymaith, felly yn rhag-gysgodi enwaediad ei gnawd ef trwy farwolaeth; ac yr oedd pob dyn mewn oedran a ymostyngai i'r ordinhad hon, yn proffesu ei ffydd yn y gwirionedd a osodai hi allan; ac felly hefyd, yr oedd yn cyfatteb i eglwys yr Hen Destament, gyda dwfr beddyd yn awr. Dros y 38 mlynedd olaf o'u harosiad yn yr anialwch, ni enwaedwyd ar blant yr Hebreaid. Nid oedd mor angenrheidiol yno i'w gwahaniaethu hwynt oddi wrth ereill; ac yr oedd eu symmudiadau mynych a disymmwth o'r naill fan i'r llall yn gwneuthur hyn yn llai cyfleus; eithr tybiwn mai amcan penaf rhwystriad yr ordinhad hon oedd nodi rhwystr cyfiawniad addewid gyfammodol Duw, o roddi Canaan iddynt. Yn fuan wedi mynediad yr Iuddewon trwy yr Iorddonen, enwaedwyd ar eu holl wrrywiaid; y mae hyn yn cael ei alw yn enwaediad o honynt yr *ail waith*; ac, ar yr achlysur hwn, adfywiwyd y sefydliad drachefn, wedi ei fod am hir amser yn anarferedig; ac yr oedd *yn dreigliad o waradwydd yr Aipht ymaith:* Duw, trwy hyny, a

anlygodd eu bod yn bodl ryddio iddo ef, ac yn etifeddion gwlad y addewid, ac a symmudodd odd wrthynt yr hyn a gyfrifent yn gywir ydd yr Aiphtiaid, Jos. v. 1—10.

Gwedi i'r enwaediad barhau ddeutu 1930 o flynyddoedd, diddym wyd ef trwy farwolaeth ac adgyfod iad ein Hiachawdwr: a daeth yr ar feriad o hono, fel yn gyssylltiedig â iachawdwriaeth, yn bechadurus, blegid ei fod yn arwyddo na wnaetha Crist iawn am bechod; felly yr oed bod yn enwaededig, mewn gwirion edd, yn wrthodiad o hono ef a gwae ei groes: ac yr oedd yr hwn a *en waediad yn ddyledwr i'r holl ddeddf* yn rhwym i'w chyflawni drosto hun, ac na leshai Crist ddim iddo; a yr oedd dychweliad atti, oddi wrth ffydd yr efengyl, yn syrthiad ymaith oddiwrth athrawiaethau gras, ac oddi wrth ymddibyniad ar rad drugared Duw, fel sail ein hiachawdwriaeth 1 Cor. vii. 18. Gal. v. 2, 3. Trwy bregethu yr enwaediad gochelai gau-apostolion erlidigaeth oddi wrth yr Iuddewon, Gal. v. 11, a vi. 12, 13 Pan enwaedodd Paul ar Timotheus mam pa un oedd Iuddewes, efe wnaeth hyny o herwydd cydwybodau gweinion yr Iuddewon, rhai oeddynt heb eu rhyddhau etto drwy awdurdod dwyfol oddi wrth y ordinhad honno: ond nid enwaedodd efe ar Titus, fel y gallai ddangos ei greddiniaeth nad oedd enwaediad mwyach yn ordinhad rwymol i Dduw Act. xvi. 3. O herwydd fod en waediad yn un o'r prif ordinhadau yn y ddeddf seremoniol, y mae yn cael ei roddi weithiau am y cadwa o'r cyfan o honi, Act. xv. 1. herwydd fod yr Iuddewon, trwy y ddefod hon, yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth ereill, gelwir hwy yr *enwaediad*, a'r Cenedloedd y *dienwaediad*. Rhuf. iv. 9, 11. Y ma *enwaediad yn gwneuthur lles*, y ddefnydd fel sêl o'r cyfammod, a felly yn amlygu undeb dyn â Christ ond os troseddwr y ddeddf a fydd aeth ei *enwaediad yn ddienwaediad*, nid yw o un lleshad i'w ddedd wyddwch presennol na thragwyddol; ac os Cenedloedd dienwaededig a gadwant y ddeddf, eu *dienwaediad a gyfrifir yn enwaediad* maent yn cael eu derbyn mor ewyllysgar gan Dduw, a'u gwneuthur y

dedwydd, â phe buasent yn luddwon enwaededig, Rhuf. ii. 25, 26. *Yr all enwaediad ddim, na dienwediad;* nid oes un dyn yn cael i gymmeradwyo fymryn yn gynt an Dduw, neu ei achub ganddo, o erwydd ei fod yn Iuddew neu Genldl-ddyn. Gal. v. 6, a vi. 15. 1 Cor. vii. 19.

Hebław *enwediad* allanol y *nawd*, crybwyllir am un tufewnol, r hwn yw y peth a arwyddocceid an y llall. Y mae yn gynnwysedig n y gwir enwediad hwnw trwy y fydd sydd o weithredïad Duw: nwaediad yn y cnawd oedd yn arvydd o enwediad yn yr Ysbryd; m hyny, pa le bynag y credir y wirionedd a arwyddocceir yn yr rdinhad honno, yn y galon, y mae galon honno wedi cael ei henwaedu: "Yr enwaediad ydym ni," medd Paul wrth y Philippiaid dienwaedig, (gwel pen. iii. 2, 3,) "y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn ysbryd yr hyn oll oedd yr enwediad nawdol yn ei rag-gysgodi," &c.

Yr oedd ffrwythau coed yr Hebreaid yn *ddienwaededig*, neu halogedig, am dair blynedd wedi y dechreuent eu dwyn, i goffau cwymp Adda, ac i nodi allau pa mor halogedig yw y mwynderau hyny y deuwn yn rhy esmwyth o hyd iddynt, Lef. xix. 23. Cadwodd yr holl genedloedd a hanasant o Abraham, heblaw yr Edomiaid, hwyrach, yr arferiad o enwaedu i fynu. Yr Arabiaid a'r Tyrciaid y rhai a'i dysgasant ef ganddynt hwy, ydynt fyth yn cadw yr arferiad o hono: ond nid yw yn orchymynedig mewn un man yn y Coran neu eu Bibl; ac nid oes ganddynt amser sefydledig am dano: ac anaml ei cyflawnir nes y bydd y plentyn o leiaf yn bump neu chwech mlwydd oed. Y mae yr Iuddewon, gyda mawr sêl, a lluaws o ddefodau annheilwng o'u hail-haddrodd, yn ei arfer etto. Dywedir fod y brodorion mewn rhai manau yn yr India Orllewinol yn ei arfer yn ddiweddar. Y mae yn fwy sicr ei fod yn cael ei arfer gan yr offeiriaid Aiphtiaidd; a'i fod yn cael ei arfer er's hir amser yn Abyssinia, hwyrach er dyddiau Solomon.

EPAPHRAS, priodor o Colosse, a phregethwr ffyddlawn a llafurus yn mhlith y trigolion yno, a thrwy lafur pa un y dychwelwyd amryw o honynt at Grist. Pan oedd Paul yn Rhufain, aeth Epaphras o Phrygia i ymweled âg ef, ac a fu, am beth amser, yn gyd-garcharor âg ef. Gwedi deall fod y gau-athrawon wedi llygru a thrallodi llawer o'r Cristionogion yn Colosse, yn ei absennoldeb, gosododdd yr achos o flaen Paul, yr hwn, trwy gyfarwyddyd Duw, a ysgrifenodd lythyr attynt, i iawn-drefnu y pethau hyn. Dywedir iddo ddyoddef merthyrdod yn Colosse, Col. i. 7, a iv. 12.

EPAPHRODITUS, *(prydferth)* pregethwr enwog y ffydd Gristionogol yn Philippi. Anfonwyd ef gan y ffyddloniaid yno, gyda chyfran o arian i Paul, pan yn garcharor yn Rhufain, ac hefyd i'w gynnorthwyo hyd eithaf ei allu. Cyflawnodd ei swydd gyda y fath ofal a sêl, fel y dygodd arno ei hun afiechyd, yr hwn a fu debyg o'i amddifadu o'i fywyd; ond wedi iddo gael ei adferu trwy drugaredd, efe a ddychwelodd adref ar frys, o herwydd iddo glywed fod y Philippiaid mewn tristwch mawr o'i achos, a dygodd gydag ef epistol Paul at yr eglwys honno, Phil. ii. xxv, a vi. 18.

EPICURIAID, plaid o athronyddion Cenedlig, canlynwyr athrawiaeth un Epicurus, Atheniad, yr hwn a flodeuodd yn nghylch A.M. 3700. Dalient i'r byd gael ei ffurfio, nid gan Dduw, na chydag unrhyw fwriad, ond trwy ymgynnulliad damweiniol mân-ronynau. Gwadent fod Duw yn llywodraethu y byd, neu yn y modd lleiaf yn ymddarostwng i ymbyraeth â'r creaduriaid isod. Gwadent anfarwoldeb yr enaid, a bodoliaeth angelion. Dalient fod dedwyddwch yn gynnwysedig mewn digrifwch cnawdol; ond gosodai rhai o honynt yr hyfrydwch hwn yn nhawelwch a llawenydd y meddwl yn deilliaw oddi wrth arferiad o rinweddau moesol, yr hon, fel y meddylia rhai, oedd gwir egwyddor Epicurus: ereill a'i dealient ef yn yr ystyr gwaethaf, ac a osodent eu dedwyddwch mewn meluswedd buchedd, sef bwytta, yfed, godineb, a phob gwrhydri annuwiol.

EPISTOL, neu LYTHYR, y gelwir yr hyn yr hysbysa un ei feddwl ynddo wrth ei gyfaill, yn mhell oddi wrtho. Holl air Duw yw

ei epistol ysbrydoledig attom ni. Traddododdd Iesu Grist i Ioan, yn ynys Patmos, saith o *epistolau*, i gael eu hanfon at saith eglwys Asia, wedi eu ffurfio yn gywir fel yr oedd eu hachosion yn gofyn, Dad. ii, a iii. Y mae un-ar-hugain o lyfrau y Testament Newydd yn cael eu galw yn *epistolau;* y pedwar-ar-ddeg cyntaf a ysgrifenwyd gan Paul; y saith ereill a ysgrifenwyd, un gan Iago, dau arall gan Petr, tri gan Ioan, ac un gan Judas. Paham y gelwir y saith olaf hyn yn *gyffredinol*, nid yw mor hawdd i benderfynu; pa un ai o herwydd nad ysgrifenwyd y pedwar cyntaf o honynt a'r diweddaf at un eglwys yn neilldiol, neu o herwydd iddynt gyfarfod yn hawdd â derbyniad cyffredinol yn mhlith Cristionogion; eithr gan nad ymddengys fod yr enw hwn o awdurdod ysbrydoledig, dylem roddi llai o drafferth i ni eiu hunain i wybod yr achos o hono. Y Corinthiaid oeddynt *lythyr* Paul, *yn ysgrifenedig yn ei galon, yr hwn a ddeallid ac a ddarllenid gan bob dyn, yn amlwg i bawb mai llythyr Crist oeddynt, wedi ei ysgrifenu ä'r Ysbryd yn llechau cnawdol y galon:* yr oedd eu dychweliad yn ganmoliaeth ddwyfol i'w weinidogaeth, yn dra hyfryd ganddo ei hun, ac yn amlwg i bob sylwydd; ac yn mha beth yr ymddangosai dylanwadau nerthol Iesu Grist a'i Ysbryd yn amlwg, yn ysgrifenu ei gyfraith yn eu calonau, 2 Cor. iii. 2, 3.

EPPA, *(ab)* creadur pedwar-troediog, yn lled debyg i'r llun dynol. Y mae ei wyneb yn noeth, a'i grafangau fel ewinedd dyn. O'r holl wahanol rywiogaethau o eppaod, y rhai a elwir *Satyrs* ydynt y tebycaf i ddyn; ac, gynt, addolid hwy fel duwiau; nid oes iddynt gynffon, ac y maent yn o debyg i hen wr anhardd. Yr *Ourang Outang*, neu yr eppa wyneb-ddu, yr hwn a elwir y gwyllt, yw y nesaf yn ei debygolrwydd i ddynolryw; a'r nesaf at hwnw yw y *Baboon*, neu yr eppa trawsychog, gyda chynffon fer. Nid yw y rhywiau ereill o eppaod mor debyg i'r rhywiogaeth ddynol; ond o herwydd eu bod yn dra hawdd i'w trin, y mae dynion yn eu dysgu i gyflawni llawer o ystrangcbau, er dynwared dynion. Eu dynwarediad o honynt wrth olchi llygaid â dwfr glud, neu fel, n wisgo esgidiau yn llawn glud, w eu gadael yn fwriadol iddynt, a b iddynt gael eu dal. Gynt, yr oe yr Aiphtiaid yn addoli eppaod; a maent yn cael eu haddoli etto mev amryw leoedd yn yr India Ddwy einiol. Yn mysg pethau dyeithr anghyffredin, dygai llongau Solom ifori ac *eppaod* o Ophir, 1 Bren v. 2

EPHA, *(hinedig)* 1. Mab he Midian: rhoddodd ei enw i ddin neu wlad o du y dehau-ddwyrain Mor Marw, lle y crybwyllа *Ptole* am ddinas o'r enw Ippos; yr oe yn y lle hwn amlder o gamelod dromedariaid, Gen. xxv. 4. Es lx. 6. (2.) Sych-fesur yn mhlith Iuddewon. Ymddengys ei fod yr o ran cynnwysiad â'r *Bath*.

EPHER, *(llwch)* ail fab Midia 1 Cron. i. 33. Pa un a boblogo ei hiliogaeth ynys *Urphe* yn y M Coch, neu *Orpha* yn Diarbec, sy ansicr. *Polyhestor* a *Cleodam* a ddywedant iddo orchfygu Lybi a'i galw *Affrica:* a dywedir hef fod Hercules gydag ef yn yr antu iaeth hon.

EPHESUS, *(dymuniad)* gynt o'r dinasoedd mwyaf enwog yn A Leiaf. Dywedir iddi gael ei hade adu gan Ephesus pendefiges Am zonaidd, neu Androclus mab Codr brenin Athen, mor foreu â dyddi Dafydd, neu, yn ol ereill, yn llaw boreuach. Safai ar lan yr afon Ca ter, o ddeutu 23 milltir o du y gogle i Miletus, a 63 o du y gorllewin i L odicea: ac, yn mysg y Paganiaid, oedd yn benaf yn enwog am de ardderchog i Diana. Dywedir bod yn 425 o droedfeddi o hyd, 2 o led; ei nen yn gynnaliedig gan 1 o golofnau, 70 o droedfeddi o uchd 27 o ba rai oeddynt wedi eu cerfio gywrain, a'r lleill wedi eu cabo Tynwyd cynllun y deml hon gan Ctesiphon; ac er ei hadeiladu draul holl Asia Leiaf, etto buw 220 o flynyddoedd, os nid ychwane cyn ei gorphen. Rhoddwyd hi dân saith o weithiau. O ddeutu 3 o flynyddoedd cyn genedigaeth Hiachawdwr, un Erostratus, gwanobeithio gwneuthur ei hun enwog trwy un peth da, a'i llosgo er gwneuthur ei hun yn enwog ddrygioni. Pa fodd bynag adeil

wyd hi drachefn. Yn fuan wedi hyny, Lysimachus a ail-adeiladôdd yr holl ddinas mewn lle mwy cyfleus, ac yn nês at y deml. Cyn amser Alexander, yr oedd gan Ephesus freiniooedd o'i heiddo ei hun. Cymmerwyd hi gan Antiochus Fawr, o Syria. Gwedi iddi syrthio i ddwylaw y Rhufeiniaid, y preswylwyr a enciliasant at Mithridates brenin Pontus, ac o blegid hyny, a yspeiliwyd ac a drethwyd yn ddychrynllyd gan Syla, y cadfridog Rhufeiniaidd. Distrywiwyd hi gan ddaeargryn, A.D. 19, ond hi a ail-adeiliwyd yn fuan. Difrodwyd hi yn erwin wedi hyny, olynol, gan y Saraceniaid, y Tartariaid, a'r Tyrciaid, fel nad yw yn awr ond pentref adfeiliog, yn cynnwys o ddeutu 40 neu 50 o dai, a hen gastell.

Yr *Ephesiaid* oedd yn hynod am ddewiniaeth a swynyddiaeth. Y tro cyntaf yr aeth Paul yno, yn nghylch A.D. 54, nid arosodd yno nemawr o ddyddiau, ond yr oedd Apolos yn pregethu yno tua'r un amser, Act. xviii. 19, 22. Rai misoedd ar ol hyny dychwelodd Paul yno, ac a bregethodd, gyda chryn lwyddiant, am dair blynedd, hyd A.D. 57. Rhai o'r Iuddewon crwydraidd, meibion Scefa, y rhai oedd gonsurwyr, a gymmerasant arnynt enwi enw yr Arglwydd Iesu Grist uwch ben y rhai oedd âg ysbrydion drwg ynddynt: ond un dyn yr oedd yr ysbryd drwg ynddo, a ruthrodd arnynt, ac a'u gorchfygodd, ac a fu drwm yn eu herbyn; a hwythau a ffoisant allan o'r tŷ, yn noethion ac yn archolledig; ofn a syrthiodd ar yr holl Iuddewon a'r Groegiaid, y rhai oedd yn preswylio yn Ephesus, ac enw yr Arglwydd Iesu a fawrygwyd. Amryw o'r rhai a wnaethent rodreswaith, neu *manylwaith* swynyddiaeth, a ddygasant eu llyfrau yn nghyd, ac a'u llosgasant yn ngwydd pawb; a hwy a fwriasant eu gwerth hwynt, ac a'u cawsant yn ddeng mil a deugain o ddarnau arian—£5000 o'n harian ni, medd *Macknight*—£6250, medd *Brown:* beth bynag, yr oeddynt o werth mawr. Ychydig wedi hyn y mae Demetrius, gôf arian, yn codi terfysg mawr yn erbyn Paul; ar hyn Paul a ymadawodd i fyned i Macedonia. Rai blynedd wedi hyny, Paul, yn ei daith ddiweddaf i Jerusalem, a anfonodd o Miletus am henuriaid yr eglwys atto. Gwedi gorchymyn praidd Duw iddynt, e[illegible]rhybuddio am gau athrawon, a gweddio gyda hwynt, ymadawodd â hwynt gyda galar mawr. Yn mhen pump neu chwech mlynedd wedi hyny, pan oedd yn garcharor yn Rhufain, ysgrifenodd lythyr rhagorol attynt. Mae yn gosod allan yndodo athrawiaethau yr efengyl yn rheolaidd, ac yn dra eglur, yn eu holl ddyfnderoedd, eu cyflawnder a'u rhadlonrwydd; eu cyssyltiad â'u gilydd, a'u heffeithiau sanctaidd ar eneidiau pawb a'u gwir gredant. Mae yn cynnwys crynodeb o egwyddorion y grefydd Gristionogol, mwyaf cadarn a goleu a welir un amser.

EPHES-DAMMIM, neu PAS-DAMMIM, *(defnyn o waed)* lle yn Judah, rhwng Shochoh ac Azecah, tebygol, o'r tu gorllewinol i ddyffryn Elah. Yma yr oedd y Philistiaid yn gwersyllu, pan yr oedd Goliath yn sarhau yr Hebreaid, 1 Sam. xvii. 1, 2, 19; yma yr ymgasglodd y Philistiaid wedi hyny, ar ol coroniad Dafydd, pan y gwnaeth Eleazar a Shammah, cedyrn Dafydd, y fath laddfa arswydus o'u byddinoedd, 2 Sam. xxiii. 11, &c. 1 Cron. xi. 13, 14, 18.

EPHLAL, *(barnu)* mab Zabad, 1 Cron. ii. 37.

EPHOD, *(rhwymo, gwregysu)* gwisg fer uchaf a wisgid gan yr offeiriaid Iuddewig, ryw beth yn null gŷnau bach ein benywaid ni, os heb lewys. Eiddo yr offeiriaid cyffredin oedd o liain diwaith, 1 Sam. xxii. 18. Eiddo yr archoffeiriad oedd wisg ddrudfawr o liain main cyfrodedd neu gottwm, wedi ei gwneud o aur, sidan glas, porphor, ac ysgarlad. Ar ei dwy ysgwydd yr oedd dau faen gwerthfawr, ac enwau y deuddeg llwyth Israel yn gerfiedig arnynt. Ar y darn hwnw ag oedd yn groes i'w fynwes, yr oedd dwyfronneg cyflawnder wedi ei sichrau â'r Urim a'r Thummim, yn mha un y dadguddiai yr Arglwydd ei feddwl i'w bobl; goris pa un, yr oedd yr ephod wedi ei sierhau ar gorph yr offeiriad â rhwymyn cywrain, Exod. xxviii. Onid oedd yr ephod hon yn arwyddoccâu dynoliaeth, swydd gyfryngol, a chyflawnder ein Prynwr?

Weithiau yr oedd personau heb fod yn swydd offeiriaid, pan yn gweinyddu yn nghylch pethau sanctaidd, yn gwisgo ephodau. Samuel, pan yn blentyn, a Dafydd, pan yn mynedgyda yr arch i Jerusalem, oeddynt âg *ephod liain* am danynt, 1 Sam. ii. 18. 2 Sam. vi. 14. Pa beth oedd Gideon yn amcanu wrth *epiod* gostfawr, pa un a ffurfiasai efe hi yn ddifeddwl fel yn goffadwriaeth am ei fuddugoliaethau; neu ynte, wedi cael ei bennodi unwaith i offrymu aberth, iddo ddychymygu ei hun yn fath o offeiriad, a'i gwneud er gwybod medŵl Duw, nid ydym yn gwybod; eithr y mae yn sicr ddarfod i'r Hebreaid yn bechadurus ei haddoli, Barn. viii. 27. Ychydig cyn dinystr Jerusalem, y brenin Agrippa a ganiattaodd i'r Lefiaid wisgo ephod o liain: ond, am o ddeutu 1700 o flyneddau a aethant heibio, y mae y genedl hon wedi bod heb ephod, a phob arwydd arall o bobl neillduol Duw, Hos. iii. 5.

EPHRAIM, (*ffrwythlawn*) mab ieuangaf Joseph, o Asenath merch Potiphar, a aned o ddeutu A. M. 2293. Joseph a'i cyflwynodd ef a'i frawd Manasseh i Jacob ei dad pan ar fin marw, i'w bendithio ganddo. I arwyddo y byddai llwyth Ephraim yn fwy lluosog a nerthol, croesodd Jacob ei ddwylaw, gan osod y llaw ddehau ar ben Ephraim, a'r aswy ar ben Manasseh: ac ni fynai y patriarch newid ei ddwylaw; a rhoddodd fel ei reswm, ei wybodaeth sicr, er y byddai llwyth Manasseh yn fawr a lluosog, eto y byddai llwyth Ephraim yn llawer mwy felly, Gen. xlviii. 8—22. Ei feibion Suthelah, Becher, a Tahan, neu Tahath, oeddynt benau teuluoedd lluosog, Num. xxvi. 35, 36. Yr oedd iddo feibion ereill, sef, Zabad, Ezer, ac Elead, Bered, ac Eladah, y tri cyntaf o ba rai, yn nghyd â Suthelah, a laddwyd gan y Philistiaid o Gath, yn eu gwaith yn ceisio amddiffyn eu praidd rhag yr yspeilwyr hyn. Bu yn ffin iawn o herwydd colli ei blant, a chan i fab ddygwydd cael ei eni iddo yn nghylch yr amser hwnw, galwodd ei enw ef *Beriah*, i arwyddo, iddi fyned yn *ddrwg* ar ei dŷ. Bu iddo hefyd ferch, hiliogaeth pa un a adeiladodd y ddwy Bethhoron ac Uzzensherah, 1 Cron. vii. 20—27. Pan ddaeth Israel o'r Aipht yr oedd yr Ephraimiaid yn rhif 40,500; eu cadben oedd Elisama ma Ammihud; eu hyspiwr oedd Josua mab Nun; Cemuel mab Ziphtan oedd eu penaeth yn rhanu y wlad Yr oeddynt wedi lleihau 8000 yn y anialwch, Num. ii. 18, 19, a xiii 8, a xxvi. 37, a xxxiv. 24. Y oedd Ephraim, Manasseh, a Benja min, yn gwersyllu tu ol i'r babell ac yr oeddynt yn cychwyn ar ol y arch; am hyny dywedir ei fod yn e harwain, ac yn cyfodi ei nerth o'r *blaen*, Num. ii. 18—24, a x. 21— 24. Salm lxxx. 1, 2. Yn ngwla Canaan, yr oedd rhandir Ephrain yn nghanol y wlad, a Môr y Canol dir o du y gorllewin, a'r Iorddonen du y dwyrain iddi. Pan oedd Debo rah, prophwydes o'r llwyth hwn, y barnu Israel, ac y cyfodoodd ryfel y erbyn Jabin, anfonwyd mintai o'r Ephraimiaid i ymosod ar yr Amalec iaid, y rhai, ymddengys, oeddynt y arwain eu lluoedd yn mlaen i ddi frodi debeudir Israel, neu i ymuno Sisera. Pan orchfygodd Gideon fydd inoedd Midian, yr Ephraimiaid a' dwrdiasent ef yn dost, am na alwasa hwynt i'w gynnorthwyo yn gynnar ach; ond efe a'u heddychodd â geir iau arafaidd, gan osod allan, fod e gwaith yn dal Oreb a Zeeb eu pen tywysogion, ac yn lladd y fath nife dirfawr o ffoaduriaid, yn fwy pwysig ac anrhydeddus, na'r fuddugoliaeth hon oll. Pan gyfodoodd Jephthah fyddin yn erbyn yr Ammoniaid, efe a wahoddodd yr Ephraimiaid i ymuno âg ef, ond hwy a wrthodasant. Pan, hebeu cymmorth hwy, y gorch fygodd efe y gelynion, aeth lluoedd dirfawr o honynt dros yr Iorddonen, ac a sarhasant ei fyddinoedd, mewn modd anfoesgar, fel haid o ffoaduriaid, ac a fygwthiasant losgi ei dŷ am ei ben. Gwedi ei gyffroi gan y cyfryw ymddygiad anfoneddigaidd, rhuthrodd ef a'i fyddinoedd arnynt, ac a'u gyrodd oll ar ffô; a char gymmeryd rhydau yr Iorddonen o'e blaen, hwy a laddasant bawb a'r a ddeallent mai Ephraimiaid oeddynt, trwy eu gwaith yn llefaru *Sibboleth* yn lle *Shibboleth*. Cwympodd honynt 42,000 yr amser hwn. Yn fuan ar ol hyn, bu Abdon, Ephraimiad, yn barnu Israel wyth mlynedd, Barn. v. 12, a vii. 24, 25, a

viii. 1—3, a xii. Tros yn nghylch 320 o flyneddoedd, bu pabell Duw yn llettya yn Siloh, yn llwyth Ephraim. Yn y rhyfel yn mha un y dygwyd hi ymaith gan y Philistiaid, ymddengys i'r Ephraimiaid, er eu bod yn dra arfog, ymddwyn gyda y llyfrdra mwyaf, Jos. xviii. 1. 1 Sam. iv. Salm lxxviii. 6. Yr oedd 20,800 o wyr cedyrn o'r llwyth hwn yn coroni Dafydd: yn ei deyrnasiad ef, Hosea mab Azariah oedd eu rhaglaw, a Helas y Peloniad eu pen-cadpen, 1 Cron. xii. 30, a xxvii. 10, 20. Ni ddygwyddodd dim hynod yn llwyth Ephraim ar ol hyn, nes i Jeroboam, un o honynt, eu hudo hwy a naw ereill o lwythau Israel, i osod breniniaeth wahanol i fynu iddo ef, yr hon a barhaodd 254 o flynyddoedd, sef o A. M. 3029 i 3283. Yr oedd y rhan fwyaf, os nid pawb, o'r breninoedd o'r llwyth hwn, a'r dinasoedd breninol, sef Sichem a Samaria, a berthynent iddo. Yr oedd un o'r lloi aur wedi ei osod yn Bethel, dinas arall ynddo. Gan i'r llwyth hwn Ephraim wneud ymddangosiad mor nodedig yn mysg y deg, gelwid, yn aml, y cwbl wrth yr enw hwn, yn enwedig yn amser Hosea, 2 Cron. xxv. 7. Esa. xxviii. Hos. iv. 5, 6.

Ephraim, hefyd enw (1.) Dinas yn agos i Bethel, ac yn nghylch wyth milltir o Jerusalem. Abiah a'i cymmerodd oddi ar Jeroboam, 2 Cron. xiii. 19. Yma, tebygol, y cuddiodd ein Hiachawdwr pan yr oedd yr Iuddewon yn ceisio ei einioes, Ioan xi. 54; ac yn agos i hon yr oedd Baal-hazor, lle y cadwai Absalom ei ddeadellau, 2 Sam. xiii. 23. (2.) Mynydd, yn nhiriogaeth y llwyth hwn, yn agos i'r terfyn deheuol iddo. Yma y trigai Micah yr ilun-wneuthurwr, a'r Lefiad yr awn a ddarniodd ei wraig, ac Elcanah tad Samuel, 1 Sam. i. 1. Barn. xvii. 1, a xix. 1. (3.) Coedwig tu hwnt i'r Iorddonen, yn agos i Mahanaim, lle y gorchfygwyd byddin Absalom; yr hon, ymddengys, a elwid felly, o herwydd lladdfa yr Ephraimiaid gan Jephtha, yn neu gerllaw y lle hwn, 2 Sam. xviii. 6. (4.) Ymddengys fod yr enw hwn yn cael ei oddi ar holl wlad y deg llwyth, Jer. xxxi. 6, a l. 19.

EPHRATA, neu EPHRATH, (*ffrwythlawn*) gelwir Bethlehem felly, Gen. xxxv. 16, 19; ond pa un ai Ephrata, lle y clywodd Dafydd am yr arch, yw mynydd Ephraim, lle y clywodd efe iddi gael ei gosod unwaith yn Siloh; neu Bethlehem, lle y clywsai yn fynych am dani, nis gwyddom. Dilys yw fod yr Ephraimiaid yn cael eu galw yn Ephrateaid, Barn. xii. 5. Elcanah tad Samuel, a Jeroboam, oeddynt Ephrateaid, am eu bod yn preswylio yn mynydd Ephraim, 1 Sam. i. 1. 1 Bren. xi. 26. A gelwid Jesse felly o herwydd ei fod yn trigo yn Bethlehem-Ephrata, 1 Sam. xvi. 12.

EPHRON (*llwch*). 1. Hethiad, yr hwn, yn haelionus, a gynnygodd i Abraham faes Machpelah yn feddiant beddrod yn rhodd, a braidd y gellid cael ganddo gymmeryd arian am dano, Gen. xxiii. (2.) Mynydd ag amryw ddinasoedd yn sefyll arno; ond pa un ai mynydd Ephraim oedd neu beidio, nis gallwn ddywedyd, Jos. xv. 9.

ER, (*gwyliedydd*) mab cyntafanedig Judah, yr hwn oedd ddrygionus yn ngolwg yr Arglwydd, a'r Arglwydd a'i lladdodd ef, Gen. xxxviii. 7.

ERAN, (*eu gwyliadwriaeth*) mab Suthelah o lwyth Ephraim, tad yr Eraniaid.

ERASTUS, (*hawddgar*) goruchwyliwr dinas Corinth. Gwedi iddo roddi ei swydd i fynu, efe a aeth gyda Paul i Ephesus, ac a anfonwyd gyda Timotheus i Macedonia, i barottoi, tebygol, yr elusen i'r Cristionogion tlodion yn Judea. Pan yr ysgrifenodd Paul ei epistol at y Rhufeiniaid, ac am rai blynyddoedd wedi hyny, yr oedd Erastus yn Corinth, Act. xix. 22. Rhuf. xvi. 23. 2 Tim. iv. 10. Rhai a'i gwnant ef yn un o esgobion Macedonia, ac yn ferthyr yn Philippi; ac ereill, ar seiliau cwbl mor egwan, a'i gwnant ef yn esgob Paneas, gerllaw tarddiad yr Iorddonen.

ERCHYLL, (*erch*) hyll, ofnadwy. "Gwelais yn nhŷ Israel beth *erchyll*; sef eu heilunaddoliaeth, eu putteindra oddi wrth yr Arglwydd; yr hwn y mae yr Arglwydd yn gyfiawn yn edrych arno gyda'r ffieidddra mwyaf, Jer. v. 30, a xxiii. 14. Hos. vi. 10.

ERECH, dinas yn Caldea, a ad-

eiladwyd gan Nimrod, a tebygol yr un âg Araca *Ptolemy* yn Susiana, ar lan ddwyreiniol y Tigris, Gen. x. 10.

ERFYN, (*myn*) dymuno, deisyf. "Yr ydym yn *erfyn* dros Grist," 2 Cor. v. 20. Cennadau Crist ydym, ac yr ydym yn *erfyn* drosto, yn ei enw, ac yn ei le. Mae efe fry yn y nefoedd yn eiriol, yr ydym ninnau yma yn y byd drosto, ac yn ei le, yn *erfyn* ar fyd o bechaduriaid, Cymmoder chwi â Duw. Nid traddodi cennadwri oerllyd yr oeddynt; ond yn ffyddlon dros yr hwn a'u hanfonodd, ac yn eiddigus dros ei ogoniant, ac yn llawn cariad at eneidiau pechaduriaid: yr oedd eu holl enaid yn y gwaith, ac â'u holl galon yr oeddynt yn ymgais am lwyddo, Mat. x, 40. Diar. i. 24.

ERI, y pummed mab i Gad, a thad yr Eriaid, Gen. xlvi. 15. Num. xxvi. 15.

ERLID (*eryl*) ceisio a defnyddio pob achlysur i wneud niweid i un, yn enwedig o achos ei ymlyniad diysgog wrth wirioneddau a ffyrdd Duw, Job xix. 22. Mat. v. 11. Ismael a *erlidiodd* Isaac trwy ei watwor a'i ddirmygu, Gal. iv. 29. Y mae Duw yn *erlid* dynion, pan fydd yn eu dylyn â'i farnedigaethau yn mhob lle a chyflwr y maent ynddynt, Gal. iii. 66. Salm xxxv. 6. Y mae Crist yn cael ei *erlid*, pan fydd ei bobl, y rhai ydynt mewn undeb âg ef, ac yn anwyl ganddo, yn cael eu gwaradwyddo, eu hanrheithio, a'u lladd o'i achos ef, Act, ix. 4. Er fod erlidigaeth er mwyn cydwybod yn wrthwyneb i anian Cristionogrwydd, etto y mae y rhai a ymhonant iddi wedi bod yn fynych iawn, er atteb eu dybenion cnawdol eu hunain, yn erlid eu cyd-broffeswyr.

ERNES, (*ern*) gwystl. *Ernes* yw rhywbeth a roddir mewn llaw un er sicrwydd y bydd i'r ychwaneg a addawyd gael ei roddi mewn amser cymmeradwy. Y mae yn gwahaniaethu oddi wrth wystl, am nad ydyw i'w ddychwelyd pan wneir cyflawn daliad. Yr Ysbryd Glan, a'i ddylanwadau, ydynt *ernes ein hetifeddiaeth*; maent o'r un anian, er nad ydynt o'r un gradd o gymmwysiad â'n dedwyddwch tragwyddol; ac y maent yn rhoddi i ni sicrwydd, y cyfrenir hwynt, mewn amser dyladwy, 2 Cor. i. 22, a v. 5. Eph. i. 14.

ERYR, (*er-yr*) un o'r prif adar ysglyfaethus. Y mae iddo gylfin eryr a bachog. Y mae i'w draed dri o fodiau yn mlaen, ac un yn ol. Y mae yn gweled neu yn arogli celaneddau meirwon o bellder mawr. Y mae yn torri esgyrn ei ysglyfaeth i ddyfod at y mêr. Bob blwyddyn y mae yn bwrw ei bluf, ac yn mynedbron yn noeth ac yn foel, ac yna yn adnewyddu ei ieuengctid, trwy gael gwisg o bluf newydd. Y mae yr eryrod yn dra thyner o'u cywion; cymmerant hwynt ar eu hadenydd pan yn weiniaid ac ofnus. Y maent yn ehedeg yn uchel ac yn fuan, yn nythu mewn creigiau, ac yn gyffredinol yn byw yn hir. Y mae llawer iawn o rywiogaethau o eryrod, megys eryrod llwydion, eryrod gwineuon, eryrod cynffon-wynion, &c. Mae yr eryr cyffredin o ddeutu maintioli *twrci*, ac o liw haiarnaidd; y tafod yn debyg i eiddo dyn; y genau yn fawr; y llygaid yn suddedig yn y pen, ond yn fawrion, dysclaer, a threiddiol; yr adenydd yn fawrion; y coesau yn blufog; y traed yn felynaidd; a'r ewinedd yn ddu-leision, yn hirion, cymmwys i gymmeryd gafael diogel mewn unrhyw beth, Job xxxix. 27—30. Salm cxiii. 5. Deut. xxii. 11.

Yr un ydyw y fwltur-eryr, efallai, â chiconia y mynydd. Gelwir y ciconiaid a ymborthant ar y celaneddau a'r budreddi o amgylch Cairo yn yr Aipht, gan yr Arabiaid, *Rachama*, yr hyn yw enw yr ehediad hwn yn gymmwys yn yr Hebraeg; ac yn arwyddo ei fod yn llawn tosturi a chyd-ymdeimlad at ei gywion, fel y mae yr eryrod a'r fwlturod; a dywedir y porthant hwynt weithiau â'u gwaed eu hunain, yn hytrach na dyoddef iddynt drengu o newyn. Pe byddem yn sicr fod Targum Jonathan, y cyfeithiad Syriaidd, ac ysgrifenwyr y Talmud, yn iawn alw yr ehediad hwn Seracrac, tueddid ni, gyda Dr. *Shaw*, i'w gymmeryd am Sagareg yr Arabiaid; yr hwn sydd fath o ysgrech y coed, â chefn llwyddu iddo; ei ben, ei wddf, a'i fol yn las-oleu; ei adenydd a'i gynffon â manau glas-ddyfnion arnynt; a'i swn yn ysgrechlyd. Rhai a gymmerant y *Racham* am ddelor y coed,

tynerwch pa un at ei rieni oedranus, sydd yn dra hynod.

Bernir yn gyffredin mai y fôrwennol, neu y môr-eryr, sydd i'w ddeall wrth y gair *Heb. Hozniah.* Y mae iddo wddf mawr a phraff, adenydd ceimion, a chynffon lydan, ac yn cynniwair i lanau y môr ac ynysoedd. Pan y cenfydd bysgodyn yn y dwfr, rhuthra i waered, a chyrcha ef i fynu. Cyn y bydd ei gywion yn eu llawn bluf, dywedir ei fod yn gwneuthur iddynt syllu ar yr haul, ac yn lladd, neu yn bwrw allan o'r nyth, y rhai a amneidiant, neu sydd â'u llygaid yn ddyfrllyd. *Bochart* a fyn mai yr eryr du yw, yr hwn, er y lleiaf o ran maintioli, yw y cryfaf o'r rhywiogaeth eryraidd.

Bernir hefyd fod y *Pheres* neu yr Wydd-walch o ryw yr eryr Dywedir y cloddia gyrph meirw i fynu, ac y tyr eu hesgyrn, fel y gallo ymborthi ar y mêr; a'i fod yn cymeryd y cywion eryrod i fynu, y rhai a fwrir ymaith gan eu rhieni. Myn rhai mai y bôd tin-wyn, un o rywiogaeth yr hebog, yw yr ehediad hwn. Yr oedd pob adar o ryw yr eryr yn aflan dan y gyfraith, a gallant fod yn gosod allan ddynion drygionus, llawn o ddoethineb cnawdol, balchder, gwangc, a malais dinystriol, Lef. xi. 13, 18. Deut. xiv. 12, 13, 17.

Yr oedd Duw yn castellu dros yr yr Hebreaid, ac yn eu dwyn megys ar *adenydd eryrod;* efe a'u calonogodd, a'u cynnaliodd, a'u diogelodd, ac a'u cyfarwyddodd hwynt yn eu taith trwy yr anialwch, Exod. xix. 14. Deut. xxxii. 11. Y mae Iesu Grist yn cael ei osod allan fel *eryr mawr:* mor fawr ei uchder, ei allu, a'i wybodaeth! ac âg adenydd ei berfFeithderau a'i ragluniaeth, y dygir ac y diogelir ei bobl rhag dinystr, Dad. xii. 14. Breninoedd buddugoliaethus Assyria, yr Aipht, a Babilon, a gyffelybir i *eryrod,* o blegid eu hawdurdod a'u llywodraeth, ac o blegid eu gorthrymiad ysglyfaethus, eu hanrheitbiad, a'u lloffuddiaeth o genedloedd a phobloedd, Hos. viii. 1. Ezec. xvii. 3. 7. Dywedir fod gan luoedd y Caldeaid *adenydd eryr,* a'u bod yn *fuain fel eryrod;* gyda chyflymdra mawr y gorescynasant ac y distrywiasant y cenedloedd, Dan. vii. 4. Hab. i. 8. Jer. iv. 13, a xlviii. 40. Galar. iv. 19. Byddinoedd y Rhufeiniaid a gyffelybir i *eryrod;* yr oedd eu banieri wedi eu nodi â llun *eryr;* yr oeddynt yn difrodi ac yn lladd y cenedloedd; a chan ddyfod o bell, hwy a ddistrywiasant genedl lygredig yr Iuddewon yn arswydus, Deut. xxviii. 49. Mat. xxiv. 28. Luc xvii. 37. Yr Edomiaid a *ymddercha fasant* ac *a osodasant eu nyth cyn uched â'r eryr;* meddyliasant ddiogelu eu hunain trwy greigiau, bron anhygyrch, eu gwlad, Jer. xlix. 16. Obad. iv. *Helaethu moelder fel eryrod,* yw bod wedi ein hamddifadu o bob cyssur, diogelwch, a deddwyddwch, a'n gorthrymu â thristwch a gofid er achos hwnw, Mic. i. 16. Bywyd a chyfoeth a ânt heibio fel *eryrod yn ehedeg;* maent yn myned ymaith yn fuan, ac nis gellir eu hattal yn eu hynt: golud a *eheda ymaith tua'r wybr,* i gyhuddo ei gamddefnyddwyr diweddar o flaen Duw, ac i ddarbyn gorchymyn newydd i bwy yr â, Job ix. 26. Diar. xxiii. 5.

ESAIAH, *(iachawdwriaeth yr Arglwydd)* y prophwyd, mab Amos; a dywedir, ond heb un sail debygol, ei fod yn gefnderw i'r brenin Uzziah; yn y rhan ddiweddaf o deyrnasiad pa un y dechreuodd efe ei brophwydoliaethau. Hwyrach i'r pum pennod gyntaf gael eu traethu cyn marwolaeth y brenin hwnw. Yn mlwyddyn marwolaeth Uzziah, cafodd weledigaeth ogoneddus o'n Pryniawdwr, yn cael ei ganlyn a'i foli gan angelion seraphaidd a gweinidogion. Mewn hunan-ymddarostyngiad mawr, efe a alarodd o herwydd ei fleidd-dra ei hun; ond seraph, wedi cyffwrdd â'i enau, â marworyn oddi ar yr allor, a arwyddodd, fod ei halogrwydd wedi cael ei lanhau ymaith. Yn ewyllysgar, cynnygodd ei hun i'r gwaith prophwydoliaethol, a mynegwyd iddo, y byddai ei bregethiad yn achlysur o galedi a dinystrio ei wrandawyr, nes y gwnaid y wlad bron yn gwbl anghyfanedd gan yr Assyriaid. Pan roddwyd Ahaz a'i bobl mewn dychryn o herwydd dfrodiadau Pecah a Resin, Esaiah a ddywedodd wrth Ahaz, nad oedd ganddo un achos i ofni y breninoedd hyn, o herwydd fod eu distryw hwy a'u teyrnasoedd

gerllaw. Pan naccaodd Ahaz ofyn am arwydd o gadwedigaeth ei deyrnas, rhoddodd Dnw iddo yr arwydd o ddyfodiad y Messiah o'r teulu breninol Iuddewig, fel sicrwydd anfethedig o honi. Gan gyfeirio at Seargasab, ei blentyn yn ei freichiau, efe a ddywedodd wrth Ahaz, cyn y deuai y plentyn hwnw i oedran pwyll, y byddai Syria a'r deg llwyth yn amddifaid o frenin. Efe, pa fodd bynag, a ddywedodd wrtho, y gosodai yr Assyriaid wlad Judea bron yn anghyfanedd, pan y distrywient deyrnas Israel. Cafodd Esaiah fab arall, yr hwn y gorchymynodd yr Arglwydd iddo i'w alw Maher-salal-has-baz; hyny yw, gan *brysuro i'r yspail, brysia i'r anrhaith:* efe a sicrhaodd i'r Iuddewon, ger bron tystion, cyn y byddai y plentyn hwnw yn alluog i alw, *Fy nhad* neu *Fy mam,* y dinystrid teyrnasoedd Syria a Samaria gan yr Assyriaid: a chyn pen hir wedi hyny, y dygid Judah i fin dinystr, pen. i—viii. Pan flinwyd Hezeciah yn dost gan glefyd corphorol, a chan ymgyrchiadau yr Assyriaid, Esaiah a weddiodd drosto, a'i cyfarwyddodd, ac a'i cyssurodd; ond prophwydodd drachefn, o herwydd ei wagedd, y byddai ei had yn ystafellyd llon yn llŷs brenin Babilon. Pan oedd byddin Sargon yn gwarchae ar Asdod, Esaiah, trwy rodio yn droed-noeth, ac âg ychydig ddillad am dano dros dair blynedd a ragddangosodd gyflwr truenus yr Aiphtiaid a'r Ethiopiaid dros dair blynedd dan iau yr Assyriaid, Esa. xxxvi—xxxix, a xx. Ond er cymmwysderau rhagorol Esaiah i'w waith, a'i gyflawniad ffyddlawn o hono, bychan a fu ei lwyddiant, Esa. xlix. 1—5. Gwedi iddo brophwydo 45, neu yn hytrach 60 o flyneddoedd, lladdwyd ef, hwyrach trwy gael ei dorri â llif, neu bu farw o farwolaeth naturiol, tu a dechre teyrnasiad Manasseh.

Hanesiaeth wahanol Esaiah am deyrnasiad y brenin Uzziah oedd yn anysbrydoledig, tebygol, ac yn awr y mae wedi myned ar goll, 2 Cron. xxvi. 22. Y mae ei brophwydoliaeth ysbrydoledig yn aros. Y mae y rhan gyntaf o honi yn gynnwysedig o fynegiadau am bechod, a bygythion o farnedigaethau: y 27 pennod ddiweddaf, yn nghyd â pen. iv, xi, xii, xxv, xxxii, a xxxv, a gynnwys aut addewidion gwerthfawr, yn ben af. Yn pen. i, ii, iii, a v, y tuedd nod cyffredin yw gosod allan y anniolchgarwch, yr anffrwythlon deb mewn gweithredoedd da, yr eil unaddoliaeth, yr halogrwydd, balch der y benywod, y gorthrymder, meddwdod, y gwyro barn, &c. a oeddynt yn mhlith yr Hebreaid; ac ragfynegu eu trallodion arswydu gan yr Assyriaid, y Caldeaid, neu Rhufeiniaid. Hyn hefyd yw tuedd nod pen. vii. 17—25, a viii, a ix a xxii, a xxiv, a xxvii. 7—11, xxviii, a xxix, a xxx. 1—17, xxxi. 1—3, a lix, a lxv, a lxvi Yn pen. vii. 5—9, a viii. 4, a ix 8—21, a xvii, y mae yn rhagfynegu dinystr Syria, a theyrnas y deg llwyth; a gofidiau y Philistiaid, pen xiv. 29, 30, 31; y Moabiaid, pen xv, a xvi, a xxv. 10; yr Aiphtiaid a'r Ethiopiaid, pen. xviii, xix, xx yr Arabiaid, pen. xxi. 13—17; y Edomiaid, pen. xx. 11, 12, a xxxiv Tyrus, pen. xxiii; yr Assyriaid ge bron Jerusalem, pen. x. xiv. 24—27, a xviii. 12, 13, a xxvii. 1, xxx, 27—33, a xxxi. 4—9, a xxxiii a xxxvii; a'r Caldeaid, pen. xiii, xiv, a xxi. 1—10, a xliii. 14, xlv. 1—4, a xlvi. 1, 2, 11, a xlvii Yn nghanol y cyhoeddiadau hyn ddigofaint, y mae genym amryw addewidion hyfryd am brynedigaeth a theyrnas ogoneddus y Messiah megys pen. i. 18, 25, 27, a ii. 1—5, a iv. 2, 6, a vii. 14, a viii. 14 a ix. 6, 7, a xi, a xii, xxv, a xxvi a xxviii. 16, a xxxv, &c. O pen 40 hyd y diwedd, crybwyllir yn fyn ych yn achlysurol am waredigaeth yr Iuddewon o Babilon, a gwagedd eilunod; ond y prif ergyd yw rhag fynegu am gnawdoliaeth, dyoddef iadau, a gogoniant y Messiah; gos odiad yr eglwys efengylaidd i fynu yn mhlith y Cenedloedd; gwrthod iad yr Iuddewon, a'u hadferiad dyfodol. Y mae iaith y prophwyd hwn yn dderchafedig yn y radd uchaf, a' olygiadau yn dra efengylaidd.

ESAR-HADON, *(rhwymiad)* mab a chanlynwr Senacherib. Efe yn cael fod y deyrnas ar fin dinystr ar ei escyniad i'r orsedd, A. M. 3296, a arosodd gartref, gan sefydlu e awdurdod y ffordd oreu a allai. O ddeutu y 29ain flwyddyn o'i deyrn-

asiad, efe, naill ai trwy gryfder, neu trwy etifeddiaeth, a gafodd freiniaeth Babilon, ac a gymmerodd ei drigfan i fynu yno. Gwedi myned yn gadarn trwy yr ychwanegiad hwn at ei lywodraeth, efe a arweiniodd ei lu tua'r gorllewin, a ynnillodd Jerusalem, ac a ddygodd Manasseh yn garcharor i Babilon. Darostyngodd hefyd yr Aiphtiaid, a'r Ethiopiaid, a difrododd wlad Edom; a hwyrach i Tartan ei brif gadpen ynnill Asdod. Trosglwyddodd y gweddill o'r deg llwyth a'r Syriaid i'r parthau dwyreiniol o'i amherodraeth; ac a ddygod dddynion o Cutha, ac o Afa, ac o Sepharfaim, a thaleithiau dwyreiniol ereill a ddarostyngasai efe, i boblogi y wlad yn eu lle. Gwel *Samariaid*. Gwedi teyrnasiad gogoneddus am 42 o flynedd-oedd, bu farw; a'i fab Saosduchin a deyrnasodd yn ei le ef. Tebygol mai Esarhadon yw y Sardanapalus y crybwyllir am dano gan *Clearchus*, yr hwn a fu farw mewn henaint mawr, Esa. xxxvii. 38, a xix. 23, a xviii. 19, a xx. 1. Nah. iii. 8, 10. 2 Cron. xxxiii. 11. 2 Bren. xvii. 24—28. Ezra iv. 2, 10.

ESAU. Gwel *Edom*.

ESBAN, (*tân y mab*) mab Dison, ac ŵyr Esau, Gen. xxxvi. 26.

ESBON, neu OZNI, pedwerydd mab Gad, a thad tylwyth yr Ozniaid, Gen. xlvi. 16. Num. xxvi. 16.

ESCOL, (*grawn-swp*) un o gynghreirwyr Abraham, yr hwn a'i cynnorthwyodd eî yn erbyn Cedorlaomer. Hwyrach i ddyfryn Escol, yn nhiriogaeth deheuol Judah, gael ei enw oddi wrtho ef; er ei bod yn fwy tebygol iddo gael ei alw felly, oddi wrth y *grawn-sypiau* mawrion a ddygodd Caleb a Josuah oddi yno, pan aethant i yspio y wlad, Gen. xiv. 24. Num. xiii. 24.

ESEC (*cynnen*). 1. Yr enw a roddodd Isaac ar y ffynnon y bu gweiliaid Gerar yn ymgynhennu â hwy. Gweiliaid Isaac yn ei chylch, Gen. xxvi. 24. (2.) Mab Molah, 1 Cron. viii, 30.

ESEAN, (*cynnulfiedig*) dinas yn Judah, Jos. xv. 52.

ESGEULUSO (*es-cael*). "Duw wedi *esgeuluso* amseroedd yr anwybodaeth hon," Act. xvii. 30. Nid oedd Duw, yn holl amseroedd yr anwybodaeth hon, er amldra a ffieidd-dra y pechodau, yn edrych arnynt i'w cospi o'u plegid, a'u hollol ddinystrio. Neu ynte yr oedd yn eu *hesgeuluso* mewn cymmariaeth, heb roddi y fath alwad daer a chyffredinol ar y Cenedloedd ag y mae yn bresennol trwy yr efengyl, i edifarhau a derbyn maddeuant pechodau.

ESGID (*es-cid*). Yn mhlith yr Hebreaid, yr oedd caeth-weision yn rhodio yn droed-noeth; ereill yn gyffredin, a orchuddient eu traed a'u coesau, pan yr aent allan; a'u pendefigesau a orchuddient y rhanau hyn â defnyddiau gwerthfawr a harddwych, Can. vii. 1. Ezec. xvi. 10; ond ymddengys nad oedd eu hesgidiau, yn gyffredinol, o fawr werth, ac felly mae *pâr o esgidiau* yn arwyddo gwobr bychan iawn, Amos ii. 6. Tebygol fod eu milwyr yn fynych yn gwisgo *esgidiau o haiarn a phrês;* ac hyd heddyw, gwisga llawer o bobl y dwyrain ddalenau o haiarn ar sodlau a gwadn blaen eu hesgidiau; ond bod *esgidiau* Ase, o *haiarn a phrês*, a arwydda yr helaethrwydd o'r metteloedd hyn oedd yn eu tiriogaeth, a'u nerth i orchfygu a malurio eu gelynion, Deut. xxxiii. 25. Gwaith yr Hebreaid yn bwytta y pasc cyntaf â'u *hesgidiau am eu traed*, eu *lwynau wedi eu gwregysu*, a'u *ffyn yn eu dwylaw*, a arwyddai eu bod i gychwyn i'w taith yn ddioed wedi hyny, Exod. xii. 11. *Diosg esgidiau*, a arwydda parch i bresennoldeb Duw, Exod. iii. 5. Jos. v. 5. Bod *heb esgidiau*, neu *yn droed-noeth*, a arwydda galar, ymddarostyngiad a chaethiwed, 2 Sam. xv. 30. Ezec. xxiv. 17. Esa. xx. 2, 4. *Diosg esgid, a'i rhoddi i arall*, oedd yn arwydd o roddiad hawl i fynu iddo, Ruth iv. 7. Ond gwaith gwraig weddw yn dattod esgidiau yr hwn a wrthodasai i'w phriodi oddi am ei droed, a chyfodi hâd i'w frawd a fuasai farw, oedd yn arwyddo ei fod yn haeddu cael ei drin fel caethwas, neu ryw waeldduyn dirmygus, Deut. xxv. 9. *Dwyn neu ddattod esgidiau un*, a arwydda gwneuthur y gwasanaeth gwaelaf iddo, Mat. iii. 11. Luc iii. 16. Dafydd a *fwriodd ei esgid dros Edom*, pan gymmerodd efe feddiant o'r wlad, ac y trimiodd y y bobl fel caeth-weision, Salm lx. 8, a cviii. 9. Y mae y saint â'u *traed yn deg mewn esgidiau*, âg

esgidiau o grwyn daear-foch ganddynt, ac wedi eu gwisgo âg *esgidiau parottoad efengyl tangnefedd*, pan, trwy wirioneddau yr efengyl, y rhyddheir, y nerthir, ac y parottoir eu heneidiau i bob ufudd-dod sanctaidd, Can. vii. 1. Ezec. xvi. 10. Eph. vi. 15.

ESGOB, neu AROLYGWR. Y mae trefnwyr, neu gyfarwyddwyr unrhyw ddarn o waith, yn cael eu galw yn y Testament Newydd, yn arolygwyr o hono. Felly Joseph oedd golygwr tŷ Potiphar, yr hwn a ofalai am ddarparu pethau angenrheidiol, a bod y gweision yn myned yn iawn yn nghylch eu gwaith, Gen. xxxix. 4. Dywedir i'r enw gael ei roddi gyntaf i olygwyr pwysau a mesurau yn y farchnad, y rhai a edrychent pa beth a brynid ac a werthid. Dilys yw, yn mhob gwaith pwysig, megys adeiladu ac adgyweirio y deml, fod arolygwyr i lywodraethu a chyfarwyddo y gweithwyr, 2 Cron. ii. 18, a xxxi. 13. Dan y Testament Newydd, cyfyngir yr enw *esgob*, neu arolygwr, i lywodraethwyr ysbrydol. A phan ei priodolir i ddynion yn unig, nid yw byth yn arwyddoccâu ychwaneg na bugail neu henuriad. Mewn un lle nid oes neb ond diaconiaid yn cael eu nodi fel yn ïs-raddol i *esgobion*, Phil. i. 1. 1 Tim. iii. Y mae yr un personau yn cael eu galw yn *esgobion ac yn henuriaid*, neu bresbyteriaid, Act. xx. 17, 28. Tit. i. 5, 7. 1 Petr v. 1, 2. Yr enw a gynnwysai, mai eu gwaith oedd gwylied dros y bobl, gofalu am danynt, a'u haddysgu. Nid oedd un dyn i gael ei dderbyn i'r swydd, oni byddai yn ddiargyhoedd, yn wr un wraig, yn wyliadwrus, yn sobr, yn weddaidd; yn llettygar, yn athrawaidd; nid yn wingar, nid yn darawydd, nid yn budr-elwa; eithr yn dirion, yn anymladdgar, yn ddiariangar, 1 Tim. iii. Tit. ii. Mae Iesu Grist yn cael ei alw yn *Esgob eneidiau:* wedi ei anfon gan ei Dad, y mae efe yn addysgu yn ysbrydol ac effeithiol, yn gwylied dros eneidiau ei bobl, ac yn eu llywodraethu, 1 Petr ii. 25.

Cydunir gan *Dodwel, Stillingfleet*, ac ereill o'r Esgobion mwyaf dysgedig, nad oes i swydd esgob, uwchlaw bugeiliaid ereill yn yr eglwys, un sail yn ngair Duw. Yn ystod y tair canrif gyntaf o Gristionogrwydd, yr oedd bugeiliaid cynulleidfaoedd neilluol yn cael eu galw felly; ond yr enw a roddwyd mewn ffordd o ragoroldeb iddo ef, yr hwn, o herwydd ei oedran neu ei oruwch-wybodaeth i wahaniaethu rhwng pethau, a fyddai yn blaenori yn eu llysoedd. Yn y bedwaredd ganrif, a'r rhai canlynol, dechreuodd dirgelwch Anghrist weithio; a'r cyfryw oedd swydd-ymgais yr offeiriaid yn y dinasoedd mwyaf enwog, fel na orphwysent byth, gan dyrru eu hurddau dychymygol y naill uwchlaw y llall, nes i'w Sancteiddrwydd escyn i'r brig, fel eu *pen cyffredinol*. Ni fedd neb o'r eglwysi diwygiedig, heblaw Lloegr a'r Iwerddon, esgobion arglwyddaidd, a elwir yn briodol felly; ond yr eglwysi Pabaidd a Groegaidd ydynt yn eu meddu.

ESGOR, *(es-cor)* dwyn baban i'r byd. Mae aunuwiolion yn *esgor* ar wagedd, ar gelwydd, ar wynt, yn arwydd o nad yw eu holl boen a'u llafur yn atteb un dyben llesiol, iddynt hwy eu hunain, nac i neb arall. Maent yn *ymddwyn*, ac yn *beichiogi*, ac yn *esgor*, sef, maent yn llawn trafferth, a gofidiau; ond gwynt, gwagedd, celwydd, ac anwiredd yw yr holl ffrwyth. Niddaw dim allan o honynt, ond yr hyn sydd yn cyfatteb i'r meddwl llygredig tywyll, sydd ynddynt, Iago i. 15.

ESGUS—ODI, *(es-cus)* asswyn, cyfrith, diffyniad. "Ond yr awr hon nid oes ganddynt *esgus* am eu pechod," Ioan xv. 22. Mae pardonrwydd mawr mewn pechaduriaid diedifeiriol, i *esgusodi* eu hunain; ond mae eglurdeb, graslonrwydd, a daioni yr efengyl, yn gwneud pawb a'i clywant yn fwy diesgus na neb: ac i gymmaru â'u pechodau hwy, nid yw pechodau ereill yn deilwng eu galw yn bechodau, mewn ystyr; "Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod," mewn cymmariaeth i'r hyn sydd arnynt yn bresennol, trwy eu casineb attaf fi, a'm geiriau, Ioan xv. 16, 17, 18. Luc xiv. 19. Rhuf. ii. 15.

ESGYN, *(es-cyn)* cyfodi yn uwch mewn lle neu urddas; myned neu ddringo i fynu, Jos. vi. 5. O herwydd fod hanfod Duw yn bresennol yn mhob man, y mae yn analluog o symmudiad; niddichon ei *escyniad*,

gan hyny, feddwl ychwaneg na symmudiad neu ymadawiad rhyw arwydd gweledig o'i bresennoldeb tu ag i fynu, xxxv. 13. Gwaith Crist yn *myned i fynu i Jerusalem*, a arwydda ei fynediad i'r ddinas mewn anrhydedd a bri, Luc xix. 28. Ei waith yn *escyn i'r nef*, tra yr oedd yn aros yn ei gyflwr o ddarostyngiad, a arwydda ei berffaith wybodaeth o bob peth nefol; o holl berffeithderau, dirgelion, ac arfaethau Duw, Ioan iii, 13. Yn mhob man arall, arwydda ei *escyniad i'r nef*, mynediad ei nattur ddynol yno, yn mhen deugain diwrnod wedi ei adgyfodiad, Eph. iv. 8. *Escyniad* a *discyniad angelion* ar ysgol Jacob, neu ar *Fab y dyn*, sydd yn arwyddo eu hedrychiad difrifol i ddirgelwch cnawdoliaeth a gwaith cyfryngol ein Hiachawdwr; a'u gweinidogaeth fywiog iddo ef a'i bobl, Gen. xxviii. 12. Ioan i. 51. Yr angel yn *escyn oddi wrth godiad haul*, â sêl y Duw byw ganddo, yw Iesu Grist yn derchafu ei enw yn raddol, ac yn dangos ei ogoniant o Judea yn y dwyrain, hyd barthau gorllewinol y byd; a thrwy ei air a'i Ysbryd yn selio ei bobl hyd ddydd prynedigaeth, Dad. vii. 2. Rhai a feddyliant mai Cystenyn, Cristion proffesedig yw, yn gorchymyn i'w lywiawdwyr yn mhob man i fynnu heddwch i'r Cristiongion. *Escyniad mwg yr aberthau seremoniol, a'r arogl-darth, ac escyniad mwg yr arogl-darth i i fynu ger bron Duw, o law yr angel*, a arwydda pa mor beraidd a chymmeradwy yw aberth, haeddiant, a chyfryngdod Crist gan ei Dad; a pha mor effeithiol ydynt i ennill ei gariad a'i fendithion i ni, Dad. viii. 4. *Escyn i fynydd Duw*, Salm xxiv. 3, sydd yn golygu adgyfodiad ac escyniad Crist i'r cysegr nefol. *Escyniad* brenin y Caldeaid i'r nefoedd, a arwydda ei waith yn derchafu ei hun i awdurdod, anrhydedd, a mawrhydi tra rhagorol, Esa. xiv. 13. *Escyniad y bwystfil o'r pydew diwaelod*, a arwydda Anghrist yn cael gallu ac awdurdod mawr, trwy ddyfais a chynnorthwy Satan, a'i oruchwylwyr, Dad. xi. 7. Tystion adfywiedig Crist a *escynant i fynu i'r nefoedd mewn cwmmwl;* yn nghanol annhrefn arswydus, hwy, mewn modd rhyfeddol a osodant eu hunain mewn cyflwr eglwysig gogoneddus, ac, ynddo, a fwynhant wybodaeth, purdeb, anrhydedd, diogelwch, a chymdeithas helaeth â Duw, Dad. xi. 12.

ESGYNFA, *(escyn)* grisiau i *escyn* ar hyd-ddynt. Yr hwn a adeilada ei *escynfëydd* yn y nefoedd," Amos ix. 6. Wrth *escynfëydd* yr Arglwydd yn y nefoedd, mae i ni ddeall yr awyrol barthau, neu y bydoedd nefol, y rhai ydynt y naill uwch ben y llall, ag sydd fel escynfëydd i'r palas fry, nef y nefoedd. Mae ganddo dº ardderchog uwchlaw y pellenau dysclaer, a'u cylchau sydd uwch eu penau, ac nid ydynt ond megys grisiau neu escynfëydd i hwnw, Ioan xiv. ii. 3. 2 Cor. v. 1.

ESMWYTHDRA, *(esmwyth)* gorphwysiad, tawelwch. *"Esmwythdra* y rhai anghall a'u lladd;" o blegid eu hanwybodaeth, eu hanystyriaeth, a'u calon-galedwch, yw yr achos o'u hesmwythdra, ac nid gwir waredigaeth o'u perygl mawr a'u trueni. Maent yn sicr, yn hyn, yn dra anghall, sef eu bod yn esmwythâu eu hunain mewn cyflwr drwg, ac nid yn cael eu hesmwythâu gan Grist, trwy symmudfa cyflwr, Diar. i. 32. Bydd dydd y farn yn ddydd o anesmwythder i'r holl bechaduriaid diedifeiriol, a diffydd yn Nghrist; ond bydd yn esmwythach ar rai na'i gilydd.

ESROM, mab Phares, a thad Aram: un o henafiaid Crist, Ruth iv. 18. Mat. i. 3. Luc iii. 33.

ESTHER, neu HADASSAH, *(dirgel)* o lwyth Benjamin, merch Abihael, ewythr Mordecai. O herwydd i'w rhieni farw pan ydoedd hi ond plentyn, Mordecai ei chefnderw a'i magodd hi. Pan gasglodd Ahasferus langcesau teg yr olwg ei amherodraeth, fel y gallai ddewis brenines iddo yn lle Fasthi, dygwyd Esther yn eu plith. Gosodwyd ystafellydd i ofalu am dani, a pharottoi pob peth angenrheidiol iddi. Saith o forwynion hefyd a weinyddent iddi, ac a'i cynnorthwyent. Gwedi cyflawni dyddiau ei phuredigaeth âg olew myrr, a pher-aroglau, arweiniwyd hi yn ei thro i dº y brenin. Wedi ei foddhau yn ddirfawr gan ei glendid, a'i hymarweddiad gweddus, rhoddodd y goron freiniol ar ei phen, ac a'i gwnaeth yn frenines yn lle Fasthi.

Darparwyd gwledd fawr er anrhydedd i'r briodas: a'r brenin a roddodd luaws o anrhegion gwerthfawr i'r frenines a'i gwahoddedigion. Efe hefyd a ryddhaodd luaws dirfawr o garcharorion, ac a faddeuodd i'w ddeiliaid ran helaeth o'i ardreth. Esther, yn ol cynghor Mordecai, a guddiodd ei dechreuad luddewig yn hollol; ond, wedi mynegu iddi am gydfwriad yn erbyn y brenin gan ddau o'i ystafellyddion, hi a hysbysodd iddo ef, Esth. ii.

Ar waith Haman yn cael y gorchymyn breninol er dinystr cyffredinol yr Iuddewon, Mordecai, trwy Hatae, un o'i chanlynwyr, a fynegodd i Esther, ac a erfyniodd arni eiriol ar ei gwr, y brenin. Hithau a ddychwelodd attebiad iddo na alwasid hi i wydd y brenin er's deng niwrnod ar hugain bellach, a bod neshau atto yn ddialwad yn berygl bywyd iddi. Mordecai a ddychwelodd attebiad iddi, yn erfyn arni eiriol drostynt, bydded y perygl y peth a fyddai: efe a led-grybwyllodd fod Duw, tebygol, wedi ei chyfodi i'w sefyllfa uchel i'r cyfryw ddyben, ac os arosai hi yn llonydd, y deuai gwaredigaeth i'r Iuddewon o ryw le arall, ac y cyfrgolled hi a'i chyfeillion. Y genuadwri hon a barodd iddi lwyr fwriadu i eiriol drostynt, costiai yr hyn a gostiai. Gwedi iddi hi a'i llangcesau, a'r lleill o'r Iuddewon yn Susan, dreulio tri diwrnod mewn ympryd a gweddi arbenig am fendith ar ei hanturiaeth, hi, ar y trydydd, mewn gwisg dra arddechog, a neshaodd i wydd y brenin heb un galwad. Dim cynt y canfu efe hi yn sefyll yn y llys nesaf i mewn, nac, yn ngwresogrwydd ei serch, yr estynodd efe y deyrn-wialen aur atti, fel arwydd o'i ewyllys da, ac a ofynodd iddi ei deisyfiad, am y caniatteid ef hyd hanner ei freniniaeth. Fel y gallai hi ymlusgo i'w ffafr ef yn fwy effeithiol, cyn iddi grybwyll am ei neges, hi yn unig a erfyniodd ar y brenin a Haman ei anrhydeddu hi a'u presennoldeb yn y wledd a arlwyasai. Cafodd ei deisyfiad; a thra yr oedd y wledd yn parhau, Ahasferus a ofynodd iddi am ei deisyfiad drachefn. Hi a erfyniodd yn unig ar iddo ef a Haman ganiattan iddi eu presennoldeb mewn ail gyfeddach. Ei dymuniad a ganiattawyd yn ewyllysgar. Tra yr oeddynt yn eistedd wrth yn ail wledd hon, y brenin, yn llawen e galon gan win, a ofynodd iddi unwaith yn ychwaneg, pa beth oedd e deisyfiad, ac y caniatteid ef hyd hanner ei freniniaeth. Hithau a erfyniodd arno am ymddiffyn ei bywyd hi, a bywydau ei phobl, y rhai, er niweid y cyllidau cyffredin, oeddynt wedi cael eu diofrydu i ddinystr. Efe, yn ddiattreg, a ofynodd am yr awdwr, a mynegwyd iddo mai Haman ag oedd yno yn bresennol ydoedd. Terfynodd y dadguddiad yn ninystr disymmwth Haman a'i holl deulu; a'i etifeddiaeth a roddwyd i Esther, yr hon a wnaeth Mordecai yn oruchwyliwr arni. Nis gallai y gyfraith yn erbyn yr Iuddewon, yn ol gosodiadau y Mediaid a'r Persiaid, y rhai a gyfrifent orchymynion breninol yn anghyfnewidiol, gael eu hadalw; ond Esther, a Mordecai, yn awr yn brif weinidog yn lle Haman, a ysgrifenodd at yr Iuddewon, yn holl daleithiau yr amherodraeth, i amddiffyn eu hunain ar y dydd gosodedig i'w dinystrio. Y llythyrau hyny a ddigalonasant y cenedloedd rhag cyfodi; ac o'r rhai a geisiasant gyflawni y gyflafan, lladdodd yr Iuddewon 75,800, ond ni chymmerasant feddiant o un rhan o'r yspail. I goffau y waredigaeth ryfeddol hon, gosododd Esther a Mordecai yr Iuddewon i gadw bob blwyddyn *Gwyl* y Pwrim, ar y dydd a nodasid allan i'w dis-trywio.

Y dygwyddiadau hyn a goffeir yn y llyfr a enwyd oddi wrth Esther, o herwydd mai hi ydyw ei brif destun. Pwy oedd yr awdwr, pa un a'i Ezra, Mordecai, neu ryw un arall, sydd yn gwbl ansicr. Ni bu Iuddew erioed mewn amheuaeth am ei ddwyfol awdurdod, er na chrybwyllir am enw Duw ynddo; na Christion erioed, hwyrach: o herwydd er nad yw canonau *Melito* ac *Athanasius* yn crybwyll am dano, etto tebygol eu bod yn ei gynnwys dan Ezra. Gwel *Apocrypha*.

ESTRYS, yw y talaf o'r holl adar; mai ei uchder, pan y safo yn syth, yn saith neu wyth troedfedd. Y mae ei wddf yn nghylch 4 neu 5 rhychwant o hyd: ei goesau ydynt hirion a noethion; nid oes ganddo ond dau fawd ar bob troed, eill dau yn troi yn mlaen; ond ei adenydd ydynt fyr-

ion, ac yn gwasanaethu yn hytrach fel hwyliau nag i ehedeg. Gyda chynnorthwy y rhai hyn, efe a flaenia y march cyflymaf, ac yn y cyfamser a luchia gerrig yn ol yn erbyn ei ganlynwyr. Mae ei bluf yn werthfawr, ac yn cael eu defnyddio yn addurniadau mewn hetiau, gwelyau, cylchedau, ac maent o amryw liwiau, ac wedi eu ffurfio yn siobynau heirdd. Y mae yn dra ffol, a hawdd i'w dwyllo. Dywedir os geill guddio ei ben mewn dyrysni, y dychymyga fod y cwbl yn ddiogel hollol. Pe gorchuddiai dyn ei hun mewn croen estrys, a dal ffrwythau neu hadau allan iddo, efe a'u derbyniai hwynt, ac felly y gellir ei ddal. Y mae yr estrysiaid yn gwneuthur swn tra athrist ac erchyll, yn ddiofal iawn am ei cywion, yn dodwy eu hwyau yn y tywod, ac yn eu gadael yno i gael eu deor gan yr haul, hwyrach yn anghofio pa le y dodwyd hwynt, Job xxxix. 13—18. Galar. iv. 3. Ei hwyau, o ba rai y mae yn dodwy o 16 i 20, neu hyd yn nod o 30 i 50 yn yr un tymhor, ydynt mor fawr- ion fel y gwna yr Ethiopiaid lestri yfed o'r plisg. Dywedir nad yw yr estrysiaid yn eistedd ar en hwyau i'w deor, etto fod y gwrryw a'r fenyw yn eu gwylio ar gylch: a phan yrrir hwy ymaith, nis gallant ddyfod o hyd iddynt drachefn; ac yn fynych ceir eu cywion wedi hamer newynu. Y maent, yn benaf, yn cyniwair i leoedd anial, Esa. xiii. 21; yr oeddynt yn lled aml yn Arabia, ac yn lluosog iawn yn Ethiopia, ac mae yr Ethiopiaid yn arfer ymborthi arnynt; ond dywedir fod eu cig yn sychlyd. Mae rhai o honynt mor gryfion, fel y mae yr Arabiaid yn marchogaeth ar eu cefnau. Y mae y gair *Heb. yanah* a gyfieithir *estrysiaid* yn Galar. iv. 3, yn cael ei gyfieithu *dylluanod*, yn Lef. xi. 16. Deut. xiv. 15. Job xxx. 29. Esa. xiii. 20, ac yn cael eu cyfrif yn mhlith creaduriaid afian. Mae y dylluanod yn greulawn; bwyttant eu hwyau eu hunain, neu hyd yn nod eu cywion, fel y gwnaeth y gwragedd â'r plant yn ngwarchaëedigaeth Jerusalem.

ESTYN (*es-tyn*). (1.) Hwyhau, taenu allan, Esa. lxiv. 13. Gwaith Duw yn *estyn ei fraich allan*, a arwydda ei amlygiad nodedig o'i allu, Act. iv. 30; neu ei daer wahoddiad i bechaduriaid ddyfod i gymdeithas ei Fab, Diar. i. 24. Gwaith dynion yn *estyn eu dwylaw* at Dduw neu eilunod, a arwydda addoliad o honynt, megys â dwylaw wedi eu derchafu, a disgwyliad am ddaioni oddi wrthynt, Salm lxviii. 31, a lxxxviii. 9, a xliv. 20. *Estyn y llaw yn erbyn* un, yw gwrthryfela, neu geisio ei ddinystrio, Job xv. 25. Luc xxii. 53. *Estyn y ddwylaw* i'r anghenus, a arwydda dymuniad a pharodrwydd i ddiwallu eu hanghenion, Diar. xxxi. 20. *Estyn y gwadd allan*, a arwydda anwylder, rhodres, a balchder. Esa. iii. 16. *Ymestyn ar welyau ifori*, a bwytta ŵyn a lloi pasgedig, a arwydda byw mewn diogelwch, esmwythder, a thrythyllwch, Amos vi. 4.

ETAM, (*eu haderyn*) dinas yn Judah, rhwng Bethlehem a Tecoah, yr hon a gadarnhaodd Rehoboam, 2 Cron. xi. 16. Yn agos iddi yr oedd craig, i ben yr hon yr aeth Samson, wedi iddo losgi (d byw y Philistiaid, Barn. xv. 5. O ffynnon nodedig yn agos i'r lle hwn, hwyrach *ffynnon y gerddi*, y dygodd Pilat, ac fe allai Solomon yn hir o'i flaen, ddwfr trwy ddwfr-ffosydd i ddinas Jerusalem.

ETIFEDD, (*tifedd*) un yn dyfod i etifeddiaeth dyn arall ar ol ei farwolaeth; ac hyd yn nod gelynion yn dyfod ar ol pobl, wedi eu gyrru allan o'u tir eu hunain, a elwir eu *hetifeddion*, Jer. xlix. 2. Mic. i. 15. Crist yw *etifedd pob peth*; fel mab Duw y mae ganddo hawl ogyfuwch â'i Dad i bob peth; fel Cyfryngwr y mae ganddo ei bobl, a phob peth, wedi cael eu rhoddi yn ei law, i'w trefnu er eu lles, Mat. xxi. 38. Heb. i. 2. Mae y saint yn *etifeddion* yr addewid; yn *etifeddion* cyfiawnder; yn *etifeddion* iechydwriaeth; yn *etifeddion* gras y bywyd; yn *etifeddion* y deyrnas; yn *etifeddion* y byd; yn *etifeddion* i Dduw; a chyd-etifeddion â Christ; fel, wedi eu huno â Christ, a thrwy rinwedd ei farwolaeth, y mae ganddynt yr hawl fwyaf rhydd ac anrhydeddus i holl addewidion, bendithion, creaduriaid, a chyflawnder Duw, Heb. i. 14, a vi. 17, a xi. 7. Rhuf. iv. 12, a viii. 17. Iago ii. 5, 1 Petr iii. 7. Ond hwyrach bod Abraham yn *etifedd y byd*, yn arwyddo fod

Canaan wedi cael ei chymmynu gan Dduw i'w hâd ef, Rhuf. iv. 13. Llawforwyn yn *aeres i'w meistres*, nis gellir cyd-ddwyn â hi, o blegid ei balchder annyoddefol, Diar. xxx. 25.

ETIFEDDIAETH, yw yr hyn a feddianno un trwy dreftadaeth, neu ryw hawl gyfiawn; a phan enniller hi ar frys trwy foddion anghyfreithlon, y mae mellidth Duw yn ei chanlyn, yr hyn a bair iddi dreulio ymaith yn fuan, Diar. xx. 21. Yr Iuddewon, gwlad Canaan, a'r saint yn gyffredinol, ydynt yn *etifeddiaeth* Duw, o blegid ei hawl neilldnol iddynt, ei ofal am danynt, a'i bresennoldeb gyda hwynt; ac efe a roddodd Canaan yn rhad i Abraham a'i had, Salm lxxviii. 62, a lxxxix. 1, a xciv. 14. 1 Petr v. 3. Duw ei hun, a'i iachawdwriaeth dragywyddol, ydyw *etifeddiaeth* ei bobl, i ba un, trwy Iesu ei Fab y mae ganddynt hawl rydd ac anrhyddeddus, ac ar ba un y maent yn byw, ac yn mba un y maent yn ymhyfrydu ac yn gorfoleddu, Salm xvi. 5. Jer. iii. 19. 1 Petr. i. 4. Yr Iuddewon a *etifeddasant ynddynt eu hunain*, pan wrthodwyd hwy gan Dduw, yr amddifadwyd hwy o'u mwyniant gwladol ac eglwysig, ac y gadewid hwy i ofalu drostynt eu hunain dan faich eu cospedigaeth haeddiannol, Ezec xxii. 16. *Etifeddiaeth* cynnulleidfa Jacob, yw naill ai yr Israeliaid, y rhai oeddynt yn *etifeddiaeth* i Dduw, neu y gyfraith, yr hon a roddodd Duw iddynt fel meddiant gwerthfawr, Deut. xxxiii. 4. Duw oedd *etifeddiaeth* y Leñaid; yr oeddynt yn byw ar ei offrymau ef, Deut. x. 9. Tystiolaethau Duw ydynt *etifeddiaeth* ei bobl; maent o fawr werth, ac y maent yn ymhyfrydu ynddynt, ac yn byw arnynt Salm cxix. 111. Plant ydynt *etifeddiaeth a gwobr* Duw; y mae efe yn eu rhoddi yn rhad i rieni, a dylent hwythau eu cyssegru yn llawen i Dduw, Salm cxxvii. 3. Cospedigaethau dychrynllyd, a gwae diddiwedd ydynt *etifeddiaeth* yr annuwiol; mae yn dyfod i dynt trwy eu cyssylltiad âg Adda syrthiedig, a'r difafol, fel eu tadau: ac yn cael ei rhoddi iddynt fel eu cyfran gyfiawn gan Dduw Tad yr ysbrydoedd, Job xx. 29, a xxvii. 13.

ETIFEDDU, yw (1.) Meddiannu trwy hawl treftadaeth, Barn. xxi. 16. (2.) Cymmeryd meddiant o beth, a'i fwynhau, Num. xxxii. 19. Y mae Duw yn *etifeddu* yr holl genedloedd, pan fydd yn peri iddynt dderbyn ei Fab, rhodio ynddo, a'i wasanaethu, Salm lxxxii. 8. Y mae Crist yn peri *etifeddu* yr etifeddiaethau anghyfanneddol, pan fydd yn codi hâd i fynu iddo ei hun yn y byd Cenedlig, Esa. xlix. 8. Y mae hâd ei eglwys yn *etifeddu* y Cenedloedd pan fydd lluaws o Genedloedd, dan yr efengyl, yn cael eu dychwelyd at Grist, trwy lafur yr apostolion ac ereill, Esa. liv. 3. Y mae y saint yn *etifeddu* y ddaear, yn *etifeddu* yr addewidion, a phobpeth: trwy Grist, fel eu tad ysbrydol, y mae ganddynt hawl rydd ac anrhyddeddus, a meddiant o babeth bynag, mewn amser neu dragywyddoldeb, a ddichon dueddu i'w lleshad gwirioneddol, Mat. v. 5. Heb. vi. 12. Dad. xxi. 7. Y mae dynion annuwiol yn *etifeddu* celwydd, ffolineb, neu wynt, pan y derbyniant siommedigaethau, sef gwobr eu pechodau, a'r hyn sydd yn gwbl ansylweddol, trystfawr, a niweidiol, Jer. xvi. 19. Diar. xiv. 18, a xi. 29.

ETHAM, *(eu nerth)* trydedd gwersyllfa yr Hebreaid wedi eu hymadawiad o'r Aipht. Yr oedd yn gorwedd yn agos i ben gogledd-orllewinol y Môr Coch; a gelwid yr anialwch, o du y dwyrain a gorllewin i'r Môr Coch wrth ei henw, Hwyrach mai yr un â *Buthum* neu *Buthus* ydyw, Exod. xiii. 20.

ETHAN *(cryf)*. 1. Mab Zerah, mab Judah, 1 Cron. ii. 6. (2.) Mab Cisi, o hiliogaeth Merari. Yr oedd efe yn un o'r gwyr doethaf yn ei oes, heblaw Solomon, ac yn ben-cerdd yn ngwasanaeth y deml; bu fyw i oedran mawr, ac ysgrifenodd yr 89eg Salm, ar yr achlysur o wrthgiliad y deg llwyth, 1 Bren. iv. 31. 1 Cron. vi. 44., a xv. 17. Os yr un oedd efe â Jeduthun, yr oedd iddo chwech o feibion, sef Gedaliah, Zeri, Jesaiah, Hesabiah, Metathiah, a Simei; y rhai oeddynt benau cynnifer â hyny o ddosparthiadau o gantorion yn y deml, 1 Cron. xxv, 3, 17. Rhoddwyd amryw o'r Salmau i'w ddwylaw ef a'i feibion, i'w canu ganddynt, 1 Cron. xvi. 41, 42. Sal. xxxix. a lxii. &c.

ETHANIM, *(cryf)* y seithfed mis 'r flwyddyn gyssegredig, a'r cyntaf flwyddyn wladol yr Iuddewon. Ar l y Caethiwed galwyd ef Tizri. Ar dydd cyntaf o hono, cedwid gwyl r udgyrn; ar y trydydd, ymprydi m farwolaeth Gedaliah, Zech. viii. 9; ar y pummed, ymprydi am farwlaeth rhai doctoriaid, a'r ddedryd yn erbyn gwneuthurwyr y llo ur; ar y degfed, gwyl y cymod; ar y pymthegfed, a'r saith iwrnod canlynol, gwyl y pebyll; c ar y trydydd-ar-bugain, gwledd o rfoledd am ail draddodiad y gyfraith Moses, ar ba un y darllenant fenithion Moses i'r llwythau, a banes ei arwolaeth. Yr oedd 30 o ddyddiau n y mis hwn, ac yr oedd yn atteb newn rhan i Medi, ac mewn rhan i dydref. Yn y mis hwn y cyssegryd teml Solomon, 1 Bren. viii. 2.

ETHIOPIA. Gwel *Cus*.

ETHNIG, un o'r Cenedloedd, newn cyferbyniad i un o'r genedl nddewig.

ETHOL, *(e-tol)* dethol, dewis. *Ethol* yw dewis rhyw beth, neu ryw e, neu ryw bersonau o blith ereill, i yw ddybenion, swyddau, gwasanaeth, neu waith neilluol, yn ngolwg r *etholwr*. Arwydda fod ganddo *awl* i ddewis, *ewyllys rydd* yn ewis, a *dybenion* i'w hatteb trwy yny. Ond, yn fwyaf neilduol, y air *etholedig*, neu *etholedigion*, a efarir yn (1.) Am Grist, yr hwn, er ragywyddoldeb, a etholwyd gan y ad, i fod yn ben-cyfammodwr i'w obl, ac yn Gyfryngwr ac yn Fechlydd i'w prynu a'u gwaredu, Esa. lii. 1. Luc xxiii. 35. (2.) Am yr ngelion, y rhai a *ddewisodd* Duw o lith ereill, o herwydd cadw o honnt eu dechreuad, i fod yn gyfranogon o ddedwyddwch tragywyddol. 3.) Am genedl Israel, yr hon a *etholodd* ac a neilluodd yr Arglwydd o lith y cenedloedd ereill, i fod yn egwys ac yn bobl iddo, Esa. xlv. 4, a i. 5, a ix. 22. Salm cv. 43. Yr edd Jerusalem yn *etholedig*; sefdlwyd arni gan Dduw i fwynhau r arwyddion neilluol o'i bresenoldeb, sef y deml, yr aberthau, &c. Bren. xi. 13. Apostolion a gweinlogion ydynt yn *etholedig*; gan yr su ei hun yn unig, neu ganddo ef i bobl mewn cyssyltiad, y tarewir rnynt, ac y didolir hwynt oddi wrth ereill, i ddwyn a chyflawni eu swydd sanctaidd, Act. x. 41.

EULUN, neu EILUN; unrhyw beth a addolir yn lle y gwir Dduw; ac yn neilluol delw neu lun gwir neu gau Dduw, 1 Ioan v. 21. 1 Cor. viii. 1. Gosodir eilunod allan yn yr ysgrythyr fel *dychrynfëydd* y dylai dynion arswydo rhagddynt, 2 Cron. xv. 16, yn yr *Heb.*; megys *poenau gofidus*, Salm cvi. 36. Esa. xlv. 16. *Heb.*; megys *tom-dduwiau*, Deut. xxix. 17, ac mewn yn nghylch chwech a deugain o leoedd ereill; megys *tramgwyddiadau*, Zeph. i. 3, *Heb.*; megys *peth cywilyddus*, Jer. xi. 13, *Heb.* megys *diddim*, *gwagedd*, Lef. xix. 4, *Heb.*; 2 Cor. viii. 4; *duwiau dyeithr*, *duwiau newyddion*, duwiau newydd gyfodi, y rhai nid arferasai yr Hebreaid à hwynt, Deut. xxxii. 16, 17. Rhai awduron dysgedig a dybiant i eilunaddoliaeth, neu addoliad gau-dduwiau, neu y gwir Dduw trwy ddelwau neu ddychymygion dynol, ddechreu cyn y dylif; a rhai a ofer siaradant mai Enos a'i harweiniodd i mewn gyntaf, o herwydd y dywedir mai yn ei ddyddiau ef y dechreuodd dynion *alw ar*, neu *halogi* enw yr Arglwydd. Yn fuan ar ol y dylif, yr oedd yr holl fyd bron wedi syfydu ar eilunaddoliaeth. Gwasanaethodd teulu tad Abraham dduwiau dyeithr tu hwnt i'r afon Euphrates. Eglur yw fod gan Laban eilunod, y rhai a ddygodd Rahel, yr hon, ymddengys, oedd yn eu caru yn fawr, gyda hi. Y rhai hyn yn nghyd âg eilunod ereill a gadwesid gan rai o'i deulu, a gnddiodd Jacob dan dderwen, fel na byddai iddynt eu defnyddio mwyach, Jos. xxiv. 2. Gen. xxxi. 30, a xxxv. 2—4. Tebygol mai yr haul, y lloer, a'r ser, oeddynt wrthddrychau cyntaf eilunaddoliaeth cyhoeddus dynion, a hwyrach fod y tân yn cael ei addoli fel arwydd-lun o'r haul, Job xxxi. 26—28. Yr eilunod crybwylledig yn yr ysgrythyr, ydynt y Teraphim, Lloi Aur, Baal, Bel, Baalpeor, Baalberith, Beelzebub, Moloch, Anamalech, Adramalech, Remphan, Dagon, Nergal, Azima, Nibhez, Tartac, Rimmon, Nisroc, Tammuz, Sesach, Nebo, Meni, Gad, Mahuzzim, *duw y nerthoedd*, neu nawdd-dduwiau y Pabyddion, Astaroth a Sucoth-benoth; amryw o ba rai ydynt, diam-

mau, yr un dau wahanol enwau. Yn mhen talm o amser, rhieni neu ryw freniuedd enwog wedi meirw, creaduriaid o wahanol rywiogaethau, megys eppaod, teirw, a'r cyffelyb; planhigion, meini, ac, yn ddiweddaf, pa beth bynag a hoffai dynion, megys putteiniaid, neu hyd yn nod bodau dychymmygol, a ddaethant i fod yn wrthddrychau addoliad. Meddyliau dynion, wedi gadael eu gwir orphwysfa yn y Goruchaf, ac yn methu cael gorphwysfa mewn un eilun, a chwangasant ereill; o herwydd hyn, tra yr oedd gan bob cenedl bron eilunod priodol iddynt eu hunain, yr oeddynt yn barod i ddderbyn eiddo eu cymmydogion. Ac ni wnaeth eu ymhoniadau uchaf i wybodaeth athronyddol, yn y mesur lleiaf, ddiwygio un wlad. Yr Aiphtiaid, er eu bod yn fawr eu bri am ddoethineb, a addolent deirw brythion, giachod, cennin, winwyn, &c. Yr oedd gan y Groegiaid oddeutu 30,000 o ddduwiau. Y Gomeriaid a wnaent ddduwiau o'u hen freniuedd ac ereill. Ac nid oedd y Caldeaid, y Rhufeiniaid, y Chineaid, &c. fymryn llai afresymol. Ni phetrusent balogi y serchiadau mwyaf naturiol, trwy ladd lluaws o'u cymmydogion a'u plant, dan esgus eu haberthu i'w duwiau. Rhai o genedloedd yr Almaen, Scandinavia, a Tartary, a ddychymmygent mai marwolaeth ddisyfyd mewn rhyfel, neu trwy hunan-lofruddiaeth, oedd y ffordd briodol o ddyfodfa i fwynhad o'u duwiau mewn byd arall. Mewn amseroedd llawer diweddarach, aberthwyd yn nghylch 64,080 o ddynion wrth gyssegru un deml eilunaddolgar, yn yspaid pedwar diwrnod, yn Neheudir America.

Ni bu gan yr Hebreaid erioed eilunod o'u heiddynt eu hunain, ond hwy a gymmerasant eiddo cenedloedd ereill o'u hamgylch. Eu parodrwydd i addoli y llo aur wrth fynydd Sinai sydd yn ein tueddu yn gryf i feddwl eu bod yn euog o'r cyfryw ffeidd-dra yn yr Aipht, Exod xxxii. Ezec xx. 7, 8. Wedi hyny malwysiadasant eilunod y Moabiaid, yr Ammoniaid, y Canaaneaid, y Syriaid, &c. Yn yr 862 o flynyddoedd y trigasant yn Nghanaan, cyn y caethiwed Caldeaidd, addlithrasant 11 neu 15 o weithiau i eilunaddoliaeth, Barn. ii. hyd at 2 Bren. xxiv. Bu yn grefydd sefydledig, am hir amser, yn nheyrnasiad y deg llwyth: ac anfynych y bu teyrnas Judah yn gwbl rydd oddi wrthi, o herwydd mai anaml y byddai yr uchelfeydd eilunaddolgar wedi eu distrywio yn llwyr, 2 Bren. xvii. Jer. iii. Ezec. xvi. 20, 23. Er eu dychweliad o Babilon, yr Iuddewon yn gyffredin a ffeiddiant eilunod, ac y maent wedi dyoddef llawer o galedi o'r achos. Y Mahometaniaid, befyd, a gymmerant arnynt fod yn wresog iawn yn erbyn eilunaddoliaeth. Y maes gwaith y Pabyddion yn addoli Mair y Forwyn ac aneirif saint ac angelion ereill, a'r bara yn swpper yr Arglwydd, a chreeiriau a delwau, yn draingwydd nid bychan iddynt, ac yn eu tueddu i ystyried Cristionogrwydd fel math o eilunaddoliaeth. Ac yn wir, nid yw y Cristionogion yn yr eglwys Roegaidd, a'u cymmeryd yn gyffredinol, nemawr rhyddach oddi wrth eilunaddoliaeth na'r Pabyddion. Y mae cybydd-dod, yn mha un y cynnwysir gosodiad o'r galon ar bethau bydol yn lle ar Dduw, a phob gofal anghymmedrol am y bol, neu gariad pechadurus at unrhyw greadur, neu ymddiried ynddo, yn *eilunaddoliaeth* yn nghyfrif Duw, ac yn nodi dyn yn eilun-addolwr, fel pe bai yn addoli eilunod, Eph. v. 5. Col. iii. 5. Phil. iii. 19.

EUNUCH, (*gweiy-geidwad*) un ag sydd wrth naturiaeth, neu trwy law weithrediad, wedi ei amddifadu o'i alluoedd cenedlawl. Y cyfryw a gawsant er's amryw oesoedd, eu defnyddio yn fynych yn y parthau dwyreiniol o'r byd, yn enwedig i wylied gwelyau tywysogion a thywysogesau: oddi wrth hyny daeth yr enw i gael ei roddi i'r cyfryw swyddogion ag a wasanaethent yn nghyntedd oedd tufewnol yn nghyd âg ystafelloedd breniuoedd, hyd yn nod pan y byddent heb eu dyspaddu: megys i Potiphar, yr hwn oedd ganddo wraig, Gen. xxxvii. 36, *Heb.* O herwydd fod yr arfer o wneuthur dynion yn eunuchiaid yn erbyn deddf wreiddiol natur, gwaharddodd Duw hi i'w bobl gynt, ac a lusodd bawb o'r fath o swyddau gwladol yn eu plith, Deut. xxiii. 1; a chyfrifid hwy fel *prenau crimion* diddefnydd, am nas gallent genedlu plant, Esa. lvi. 3

Yr ydym yn cael, pa fodd bynag, fod gan eu breninoedd yn fynych eunuchiaid yn eu gwasanaeth, 1 Sam. viii. 13. 1 Cron. xxviii. 1, *Heb.* 1 Bren. xxii. 9. a 2 Bren, ix. 32, a xxiv. 12, 15. Bu rhai o deulu breninol Judah yn gweini fel eunuchiaid yn llys Babilon, Esa. xxxix. 7. Ebed-melec, eunuch Ethiopaidd, a dynodd Jeremiah allan o'i garchar, Jer. xxxviii. 7—13. Eunuch arall o Ethiopia, gwas y frenines Candace, wedi dyfod i addoli yn Jerusalem, fel *proselyt* i'r grefydd Iuddewig, a drowyd, ar ei ddychweliad adref, i'r ffydd Gristionogol, gan Philip; a bernir iddo ei harwain i mewn i'w wlad ei hun, Act. viii. 27, 39. Y mae rhai yn cael eu *geni yn eunuchiaid*, heb unrhyw dueddiad erioed o ran natur at y gwely priodasol. Y mae ereill yn *gwneud eu hunain yn eunuchiaid* er mwyn teyrnas nefoedd; sef, yn ymgadw oddi wrth briodi, yn nghyd a'i ddyrifwch a'i ofalon, er mwyn ymroddiad mwy cyflawn a diranedig i'r Arglwydd a'i waith.

EUODIAS a **SYNTYCHE**, dwy wraig enwog yn eglwys Philippi, y rhai, yn eu sefyllfa hwy, a gynnorthwysasant yr apostol Paul yn ddirfawr i daenu y ffydd Gristionogol. Gwedi i ryw ymrafael ddygwydd rhyngddynt, y mae efe yn attolygu arnynt yn wresog i ymgymmodi a'u gilydd, a byw mewn perffaith gydgordiad, Phil. iv. 2.

EUOG, (*eu*) cyhuddedig o droseddau a osodant yn agored i gospedigaeth, Gen. xlii. 21. Y mae yr hwn a ballo mewn un pwnge o'r ddeddf, yn *euog o'r cwbl*; o dorri holl orchymynion Duw: y mae efe yn sathru yr awdurdod sydd yn sefydlu, ac yn pallu yn y cariad hwnw sydd yn cyflawni yr holl gyfraith, Iago ii. 10. Y mae cyfranogwr anneilwng o swpper yr Arglwydd, yn *euog o gorph a gwaed* yr Arglwydd; y mae efe yn gyhuddedig o'r trosedd erchyll o ail-groeshoelio Crist, a chynnyg yr anmharch mwyaf i'w berson a'i gyfiawnder, a osodir allan gan arwyddion yr ordinhad honno, 1 Cor. xi. 27. Bod yn *euog o farwolaeth*, yw bod yn gyhuddedig o drosedd, yr hwn sydd yn haeddu marwolaeth trwy law y swyddog gwladol, Mat. xxvi. 66. Yr Iuddewon a gyfrifent yr hwn a dyngai i'r rhodd a fyddai ar yr allor, yn *euog* neu *mewn dyled*; hyny yw, yn rhwym i gyflawni ei lw neu ei addunedd, Mat. xxiii. 18.

EUPHRATES, (*ffrwythlawn*) yr afon fwyaf nodedig yn Asia orllewinol. Mae ei tharddiad yn mynyddoedd gogledd-ddwyreiniol Armenia. Am eucyd o ffordd cyfeiria ei hynt tua'r gorllewin; ac wedi hyny wrth droed mynydd Taurus, hwylia ei thaith tua'r dehau, ac ar ol derbyn y Melas, yr hon sydd yn llifo iddi bron o gongl ogledd-orllewinol Asia Leiaf, rhed ar hyd ochr ddwyreiniol Syria ac Arabia Anial. Ymddengys fod, gynt, cainge o'r Euphrates yn troi i'r dwyrain, ac yn ymarllwys i'r Hedecel neu y Tigris, yn Seleucia. Rhwng y canghenau hyn y cloddiodd Nebuchodonozor ddyfr-ffos fawr, a elwid Nahar-malcah, neu yr *afon freninol*. Yn bresennol, medi dyfrhau o honi dal-eithiau Irac, neu yr hen Galdea, a thalaeth Auxa, y mae yn llifo yn arafaidd tua dimas Ario, lle y mae adlifiad cryf llyngclyn Persia yn attal ei dyfroedd. Yn nghylch 30 o filltiroedd yn mhellach i'r dehau y mae yn ymuno a'r Tigris, ychydig uwchlaw y fan lle y tybir y safai yr hen Baradwys: yn nghylch 60 o filltiroedd yn mhellach i'r dehau y maent yn ymarllwys i lyngclyn Persia; ond pa un ai yn un neu yn ddwy ffrwd yn awr, nis gwyddom yn sier. Y mae yr afon hon yn gyffredin yn arafaidd yn ei rhedegfa, ac etto nid ydyw mor fordwyol hyd yn nod i lestri bychain, ag y gallai un ddisgwyl; ond hyn sydd o achos diogi y bobl a breswyliant gerllaw iddi, trwy beidio digarregu ei gwely, a goddef iddi yn y gwastad-dir ymraeu yn gymmaint o ffrydiau, fel y bydd y morwyr yn fynych yn methu gwybod pa un a gymmerant. Mae ei rhedegfa, gan mwyaf, yn dra hyfryd, trwy wastadedd ffrwythlawn, a'i cheulanau wedi eu haddurno â gwyrdd-lesni parhaus yr helyg, y palmwydd, a'r porfëydd brasion. Ei dwfr sydd, yn gyffredin, yn fudr a lleidiog; ond wedi y sefydla, neu yr hidler ef, mae yn dra iachus; a, chan yr Arabiaid, yn caelei farnu yn feddyginiaeth gyffredinol rhag pob anfiechyd. Wrth fyned trwy rai diff-

eith-leoedd, try ei wawr yn felen, a'i archwaeth yn anhyfryd; y cyntaf o ba briodoleddau sydd yn ei wahaniaethu, wedi y rhedo rai milltiroedd i lyngclyn Persia. Nid yw yr afon hon yn ddofn na llydan, oddi eithr pan fydd wedi chwyddo gan doddiad blyneddol yr eira ar fynyddoedd Armenia.

Y mae yr Arabiaid yn dosparthu yr afon hon i'r fwyaf a'r leiaf; y fwyaf, meddant, sydd yn syrthio i'r Tigris, gerllaw y dinasoedd Ambar a Felugah; a'r leiaf, yr hon, yn fynych, yw y ffrwd fwyaf, ar ol ffurfio y morfëydd Nabatheaidd o du y dwyrain i Arabia Anial, sydd yn ymarllwys i'r Tigris yn Carnah. I ragflaenu gorchuddiad blyneddol y wlad gyfagos gan orlifiad dinystriol y Tigris a'r Euphrates, cynnygwyd yn fynych i ranu eu ffrydiau hwy yn amrywiol o rai bychain; ond nid yw y cynngion hyn, hyd yma, wedi ateb llawer o ddyben. Yr Euphrates oedd terfyn gogledd-ddwyreiniol yr arglwyddiaeth helaeth a addawyd i'r Israeliaid, ac i ba un ni chyrhaeddodd bron erioed ond yn nyddiau Dafydd, Solomon, a Jeroboam yr ail, Gen. xv. 18. Exod. xxiii. 31. Yr awdurdodau Mahometanaidd a gyffelybir i'r afon *Euphrates*; y mae yr afon hòno wedi bod yn fath o ganolbwynt i'w hargliwyddiaeth; maent hwy wedi bod yn rhwystr hynod ar ffordd taeniad yr efengyl yn y dwyrain; ond cyn dechre y Mil blynedd-oedd, dygir hwy i lawr, Dad. xvi. 12. Byddinoedd yr Assyriaid y rhai a orescynasant Judea, dan Senacherib ac Esarhadon, a gyffelybir i'r *Euphrates* pan yn gorlifo ei cheulanau; yr oeddynt yn taenu dros y gwledydd amgylchynol, ac yn eu distrywio, Esa. viii. 6, 7.

EUROCLYDON, *(tymhestl ddwyreiniol)* math o gorwynt yn chwythu o'r gogledd-ddwyrain, tra pheryglus i longau, am ei fod yn syrthio arnynt yn ddisymmwth, yn peri iddynt newid eu hynt, ac weithiau i suddo, Act. xxvii. 14. Y mae yn gyffredin yn Mòr y Canoldir, ac yn adnabyddus i'n morwyr ni wrth yr enw *Levanter*.

EUTYCHUS, *(ffawdus)* gwr ieuange yn Troas, yr hwn a eisteddai mewn ffenestr tra yr oedd Paul yn pregethu hyd hanner nos, wedi ei orchfygu gan gwsg, a gwympodd lawr o'r drydedd lloft, ac a gyfodwyd i fynu yn farw; ond wedi i Paul syrthio arno a'i gofleidio, efe a adfywiodd ac a ddychwelodd at y gymdeithas, Act. xx. 9—12.

EWIG, *(ew-ig)* creadur pedwar carnol deadellog. Mae eu cyrn yn ganghenog, ac yn syrthio ymaith yn flynyddol; maent ar y cyntaf yn flewog, ond wedi hyny yn myned yn llyfnion. Ni fedd y fenyw gyrn ond anfynych. Yr amrywiol greaduriaid o rywiogaeth yr ewig, ydynt yr *hydd*, yr *iwrch*, y *rein-deer*, yr *elc* yr *afr-ddanas*, y *march-ddanas* &c. Mae y creaduriaid hyn yn byw yn hoedlog; ac, yn enwedig pan yn ieuainge, maent yn hardd ac yn serchog iawn. Y mae ynddynt wrthwynebiad mawr i seirph, a bwyttant luaws o honynt. Dywedir hefyd fod tuedd iad mawr mewn seirph i ymlynu wrth eu cyrph a'u brathu, pan y cânt hwy yn cysgu. Mae eu sychedu yn dra chryf a gofidus. Maent yn ofnus iawn, yn gyflym, ac yn llamu yn mhell. Yr oeddynt yn ganiattaol i'w bwytta, gan y gyfraith seremoniol, Lef. xi. 3. Deut. xiv. 5. 1 Brenin iv. 23. Mae yr ewygod yn llydnu gyda phoen dirfawr; a dywedir eu bod yn cael eu cynnorthwyo gan swrn taranau, Job xxxix. 1—4. Y mae Crist yn cael ei gyffelybu i *ewig iwrch*, neu *lwdn hydd*, i osod allan ogoniant ei berson, ei gariad at ei eglwys, a'i frys yn dyfod i'w hachub gan lamu ar y mynyddoedd, Can. ii. 9, 17, a viii. 14. Salm xxii. *titl* Dywfron yr eglwys, sef ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, a gyffelybir i *ddau lwdn iwrch o eff elliaid*, Can. iv. 5, a vii. 3. Y Gwragedd a gyffelybir i *ewigod* a *iyrchod*, i nodi eu hardd wch a'u serch, a'r hyfrydwch a ddylai ei gwyr gymmeryd ynddynt, Diar. v. 19. Tynghedu trwy yr *iyrchod a'r ewigod*, yw erfyn ac attolygu trwy bob peth hardd a dymunol, ac e mwyn Crist a'i bobl, Can. ii. 7, a iii. 5.

Dr. Shaw a feddylia mai yr arth wyllt yw y *Yachmur* yr hwn a gyf

eithwn ni *hydd;* ond hwyrach mai
rr elc, math o ewig goch, ydyw yn
ıytrach. Efe a farna mai yr ante-
ope, math o afr o ddeutu maintioli
ewig, a feddyfir wrth yr Heb. *Tzebi,*
rr hwn a gyfneithwn ni *iwrch.* Mae
air rhywiogaeth o'r antelope, dwy
n Affrica, ac un arall yn yr India,
yrn pa rai ydynt yn dyfod allan
'u talcenau, ac ydynt weithiau yn
ghylch tair troedfedd o hyd.

EWYLLYS, *(ewyll)* a arwydda, (1.) Y gallu hwnw o eiddo ein hen-
eidiau trwy ba un yr ydym yn dewis
neu yn gwrthod gwrthddrychau yn
rhydd. Nis gall, pa fodd bynag,
ddewis dim da yn ysbrydol, nes yr
adnewydder hi gan Ysbryd Crist,
Rhuf. viii. 7, 8. *Ewyllys y cnawd,*
rw tueddiadau a chwantau calon
neb ei hadnewyddu, Eph. ii. 5. (2.) Y
oeth a ddewisir gan yr ewyllys; felly
ewyllys gelynion, yw y drwg a
hweunychant i ddyn, neu a luniant
yn ei erbyn, Salm xxvii. 12. *Ewyllys* Duw a arwydda, (1.) Ei allu
naturiol i ddewis neu wrthod, Rhuf.
x. 14. (2.) Ei fwriad a'i arfaeth,
yr hon yw ei reol yn ei holl weithred-
oedd. Eph. 11. (3.) Ei air, ei gyf-
reithiau, a chyhoeddiadau yr efengyl,
rwy ba rai y mae efe yn hysbysu i
ni yr hyn a ewyllysia gyfranu i ni;
neu yr hyn a ddylem wneuthur mewn
ufudd-dod iddo, Mat. vii. 21. Rhuf.
xii. 2. (4.) Ei garedigrwydd a'i
liriondeb dadguddiedig i ni yn ei
weithredoedd grasol, Deut. xxxii.
16. Luc ii. 14. Ein sancteiddhad
ni yw *ewyllys Duw:* mae wedi
cael ei arfaethu, ei addaw a'i or-
chymyn ganddo, 1 Thes. iv. 3. Y
mae Duw yn *ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig,* a'u dyfod i wybod-
aeth y gwirionedd: mae yn bwriadu
achub dynion o bob math; ac mae
gwaith pob dyn yn ymgais am wyb-
odaeth ysbrydol ac iachawdwriaeth
yn unol â'i orchymyn, 1 Tim. ii. 4.
Yr oedd gan Grist *ewyllys* ddeublyg;
an yn *ddwyfol,* yr un fath âg eiddo
ei Dad; a'r llall yn *ddynol,* am ba
ıin y dywed efe wrth ei Dad, Nid fy
ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler,
Mat. xxvi. 39. *Ewyllysio,* yw, (1.)
Dewis a dymuno, Phil, ii. 13. (2.)
Gofyn gyda hyfdra, Ioan xvii. 24.
(3.) Gorchymyn gydag awdurdod,
Ioan xxi. 23. (4.) Caniattau, Iago
v. 15. Nid yw etholedigaeth dynion i iachawdwriaeth o'r *hwn sydd yn ewyllysio, nac o'r hwn sydd yn rhedeg;* nid ydyw i'w chael trwy eu tueddiadau mwyaf awyddus, neu eu hymdrechiadau mwyaf difrifol gyda golwg ar yr hyn sydd dda, ond y mae yn tarddu oddi wrth ras penarglwyddiaethol a thrugaredd Duw yn unig, Rhuf. ix. 16.

EWYN—U, (o *aw* dwfr, a gwyn) distrych y don. *Malu ewyn,* sydd yn gosod allan gynddaredd, neu boen blin oddi mewn, Marc. ix. 18. Y mae twyllwyr yn *ewynu allan eu cywilydd eu hunain,* pan, o herwydd llygredd eu calon, a'u cynddaredd yn erbyn Crist a'i ffyrdd, y byddant yn cyhoeddi eu hathrawiaethau ofer a chyfeiliornus, ac yn ymroddi i'r arferion mwyaf cywilyddus, Judas 13. Brenin Samaria a dorwyd ymaith fel *ewyn ar ddwfr.* Rhai o'u breninoedd a laddwyd mewn modd creulawn; ac Hosea y diweddaf a ddinystriwyd yn hawdd ac yn ebrwydd, neu a ddarostyngwyd i'r caeth-wasanaeth mwyaf distadl. Hos. x. 7.

EXODUS, ail lyfr Moses, a alwyd felly o herwydd yr adrodda hanes *ymadawiad* yr Israeliaid *allan* o'r Aipht. Y mae yn traethu am weithredoedd Israel dros yn nghylch 145 o flyneddoedd, sef o farwolaeth Joseph, A.M. 2369, hyd osodiad y babell i fynu yn yr anialwch, A.M. 2514; yn enwedig am orthrymder Pharaoh, caethiwed a chymmydd rhyfeddol yr Israeliaid yn yr Aipht; gwaith yr Arglwydd yn anfon Moses ac Aaron i'w gwaredu; y deg pla a osodwyd ar yr Aiphtiaid am naccâu eu gollwng ymaith; a dinystr eu brenin a'i fyddin yn y Môr Coch; ymadawiad yr Israeliaid allan o'r Aipht; eu Mynediad dihangol trwy y môr; eu cynnaliaeth rhyfeddol â dwfr wedi ei bereiddio, neu ddwfr o graig sych, ac â bara o'r nefoedd; gwaith Duw yn cyhoeddi ac yn rhoddi ei gyfraith iddynt ar fynydd Sinai, a'u gwneuthuriad a'u haddoliad hwythau o'r llo aur; y cyfarwyddiadau mewn perthynas i'r babell; a chyssegriad offeiriaid; yr offrymau dros y babell, a'i gosodiad gwirioneddol i fynu.

Boivin, a dysgedigion ereill, a haerant i'r Hebreaid ymdeithio dros 430 o flyneddoedd yn yr Aipht; a

bod, rhwng marwolaeth Joseph, a dechreuad yr hanesiaeth yn llyfr Exodus, cyfwng o yn nghylch 250 o flyneddoedd, yn mha rai y gwnaeth yr Israeliaid eu hunain yn feistriaid ar yr Aipht Isaf, ac a ffurfiasant y linach a eilw Manetho *Hyoses*, neu freninoedd bugeiliaidd. Ephraim a'i hiliogaeth yn bennaethiaid arnynt; o'r diwedd, wedi syrthio o honynt i eilunaddoliaeth, rhoddodd Duw hwy i fynu i ddwylaw yr Aiphtiaid genedigol, y rhai, wedi iddynt eu darostwng, a'u gorthrymasant yn arswydus. Hanes y gweithredoedd hyn, meddant, a gynnwysid yn llyfr *rhyfeloedd yr Arglwydd*, llyfr *Jaser*, a llyfrau ereill sydd wedi myned ar goll yn awr. Ond yr ydym yn meddwl, na chaiff neb a ystyrio fod Moses yn ŵyr i Lefi, yr hwn a aeth i'r Aipht pan oedd rhwng 40 a 50 mlwydd oed, ac nad oedd efe ond 80 pan ddygodd Israel allan o'r Aipht, Exod. vi. 20. ei hun yn dueddol i gredu y boneddigion dysgedig hyn.

EZECIEL, *(nerth Duw)* mab Buzi, prophwyd ac offeiriad, yr hwn a ddygwyd yn gaeth i Babilon gyda Jehoiacim brenin Judah, Yn A.M. 3409, yn y bummed flwyddyn o'i gaethiwed, a'r ddegfed-ar-hugain o'i oedran, neu o'r 18fed i Josiah, pan gadwyd y pasg mawr, fel yr oedd efe yn mysg y caethion, wrth yr afon Cebar yn Caldea, yr Arglwydd a ymddangosodd iddo, ar orsedd gynaliedig gan gerubiaid ac olwynion yn arwyddoccau angelion a rhagluniaethau cyfuewidiol, neu weinidogion ac eglwysi, ac a'i cyfarwyddodd ef i fyned a mynegu ei feddwl i'r Iuddewon caethion. Ymddangosodd iddo oddeutu yr un amser, blyg-lyfr yn llawn o fygwthiion galarus o farnedigaethau trymion, yr hwn y gorchymnwyd iddo ei *fwytta*, hyny yw, ei ystyried yn ddifrifol, a'i ddeall yn drwyadl. Gwedi iddo aros saith diwrnod arall gyda'i gyd-gaethion, yr Arglwydd a'i gwnaeth ef yn wyliedydd, neu brophwyd i dŷ Israel: gan sierhau iddo na wrandawent ar yr hyn a ddywedai; ac y delid ac y rhwymid ef fel yufydyn, Ezec. i. 2, a 3.

Pan ganodd efe ei hun, trwy gyfarwyddyd dwyfol, yn ei dŷ gorchymynodd Duw iddo ddesgrifio, neu lunio dinas Jerusalem ar brudd-lech, a dodi padell, fel mur baiarn, rhyng ddo a'r llun o'r ddinas; yna gorwedd o'i blaen, ar ei ystlys a-wy, 390 o ddyddiau, am y 390 o flynyddoedd pechod y deg llwyth, a 40 diwrnod eilwaith ar ei ystlys ddehau, am 40 mlynedd anwiredd Judah. Yr oedd hyn yn arwyddoccau, mai trwy warchaëedigaeth gynddeiriog phenderfynol y Caldeaid ar Jerusalem a'u hennilliad o honi, y dieliam bechodau Israel, o amser gosodiad y lloi i fynu yn Bethel a Dan hyd y dydd hwnw, ac am bechodau Judah, yn ystod y rhan ddrygionus deyrnasiad Manasseh, yn nghyd â'r blyneddoedd a aethent heibio er marwolaeth Josiah. Neu onid allai arwyddoccau hefyd, wedi y gwarchâai y Caldeaid arni 390 o ddyddiau y gwarchaëent arni drachefn, ac yn mhen 40 diwrnod, y gwnaent eu hunain yn feistriaid arni! Tra yr oedd efe fel hyn yn gorwedd ar ei ystlys gorchymynodd iddo wneuthur bara iddo ei hun o wenith, haidd, ffa, ffacbys, milet, a chorbys; ac nail ai rhoddi tân dano, neu ei rwbio drosodd â thail tom dynion; ond ai ei waith yn mynegu yr anewyllys garwch mwyaf i'r pwnge diweddaf caniattawyd iddo ddefnyddio biswai gwarthegyn yn ei le. Trwy y bara hwn, a'i ddull, ef o'i fwytta, y rhagysgodid darostyngiad yr Iuddewon i fyw ar ymborth gwael ac aflan, yr ddognau bychain, ac yn nghanol ofnau dirfawr o berygl, Ezec. iv.

Yn nesaf cyfarwyddwyd ef i eillio ei wallt, i'w ranu yn dair rhan, a llosgi un rhan, torri rhan arall â chleddyf neu gyllell o'i amgylch, a heblaw ychydig flew, y rhai yr oedd efe i'w cymmeryd a'u llosgi yn tân. Hyn oedd yn arwyddoy dinystrid yr Iuddewon mewn rhan gan y newyn a'r haint, mewn rhan gan gleddyf y Caldeaid, ac y dygid rhan arall gaethiwed, ac y gwasgerid hwynt yn mhlith y Cenedloedd; yn unig gadewid ychydig o'r rhai dihangol yn y tir, y rhai, trwy eu ffolineb, a ddeuent yn ben-tewyn, yn foddion i ennyn digofaint y Caldeaid yn erbyn holl genedl yr Iuddewon. Yn fuan ar ol hyn, rhoddwyd iddo i rag-fynegu amrywiaeth o farnedigaethau neilluol yn eu herbyn. Yn y flwyddyn ganlynol, dygwyd ef yn yr ysbryd i

Jerusalem, a chafodd weledigaeth o'r eilunaddoliaeth fiaidd ag oedd yn ffynnu yno ; ac o bump o wyr, dan gyfarwyddyd Iesu Grist, wedi eu gosod i ladd y trigolion, oddi eithr y rhai oeddynt wedi ymroddi i alaru a gofidio o herwydd pechodau cynnyddol y tir. Efe hefyd, yn ei weledigaeth a welodd yr Arglwydd Iesu yn bwrw tân ei ddigofaint, oddi rhwng y cerubiaid, ar y ddinas ddrygionus. Ar yr un amser, ysbrydolwyd ef i draethu amryw fygythion arswydus o'u dinystr, a rhai addewidion am eu hadferiad trugaredog, pen. v—xi.

Gwedi i'r ysbryd ei drosglwyddo yn ol i Caldea, gorchymynwyd iddo gan Dduw i gloddio trwy fur ei dŷ, a dwyn ei ddodrefn allan yn yr hwyr, pan y byddai yn dywyll, trwy y twll ; ac i fwytta ei fara dan grynu. Hyn oedd yn rhag-gysgodi ffoedigaeth warthus Zedeciah o Jerusalem, a'r drygau oeddynt yn dyfod ar y genedl ddewig. Ar ol hyn, efe a lefarodd yn erbyn y prophwydi celwyddog, a'r henuriaid rhagrithiol, y rhai oeddynt yn gyd-gaethion âg ef; ac a sicrhaodd iddynt fod bwriad Duw i ddadymchwelyd y gwladwriaeth Iuddewig yn anniddymadwy, a'r amser o hono gerllaw, pen. xii—xiv. Trwy gyffelybiaeth o *winwydden ddiffrwyth*, a *gwraig*, wedi ei dyweddio yn raslawn, yn troi yn *buttain*, efe a gysgododdd allan ddrygioni yr Iuddewon, a chyfiawnhaer eu dinystr neshaol ; at ba un y mae yn ychwanegu rhai addewidion am drugaredd, pen. xv, a xvi. Trwy ddammeg y *ddau eryr*, a'u hymyraeth â changau cedr-wydden, efe a ddengys pa mor gyfiawn y cospai y Caldeaid Zedeciah a'i ddeiliaid, am eu hannerchiad bradwrus at frenin yr Aipht ; ac ar ol rhagfynegiad am gnawdoliaeth a gallu y Messiah, mae efe yn amddiffyn cyfiawnder yr holl drallodion oeddynt i ddyfod arnynt hwy, pen. xvii, a xviii. Trwy ddal y *llewod ieuaingc*, y mae efe yn nodi allan ddiwedd annedwydd y pedwar brenin a ddaethant i'r orsedd ar ol Josiah, pen. xix. Y mae yn ail-adrodd troseddau y genedl mewn pesoedd blaenorol, a'u camddefnydd o'r bendithion a bentyrrasai Duw arnynt ; y mae yn rhagfynegu am warchaëedigaeth Jerusalem fel yn agos gerllaw ; yn ail-adrodd beiau erchyll ei thrigolion ; ac yn dangos fod eu pechodau y rhai a gyffroisant Dduw yn eu herbyn, yn fwy ysgeler nag eiddo Sodom ac Israel, pen. xx—xxiii.

Yn A.M. 3414, er ei fod o ddeutu 600 milltir o bellder oddi yno efe, a fynegodd i'w gyd-gaethion, fod Nebuchodonozor, o fewn corph y dydd hwnw, wedi gwarchae ar Jerusalem, ac y difâid y trigolion annuwiol yndd, fel y berwir cig mewn crochan, ac y toddid y ddinas ei hun fel pres a ddinystrir. Y noson honno, bu farw ei wraig, ond gwaharddwyd iddo ef wylo am dani. Hyn oedd yn arwyddoccâu, yr amddifedid yr Iuddewon yn fuan o'u teml, eu gosodedigaethau gwhadol ac eglwysig, a phob peth anwyl ganddynt, heb gael caniattâd gymmaint ag i alaru am yr unrhyw, pen. xxiv.

Gwedi iddo ragfynegu am ddadymchweliad breniniaethau Ammon, Moab, Edom, y Philistiaid, y Tyriaid, a'r Aiphtiaid, trwy law y Caldeaid, rhybuddiwyd ef drachefn mewn modd arbenig am ei ddyledswydd, fel gwyliedydd ysbrydol i'r Iuddewon ; ac, wedi clywed am ddinystr Jerusalem, ei enau a agorwyd. Efe, yn y modd mwyaf hyfryd, a ragfynegodd am ddyfodiad y Messiah, fel eu brenin a'u bugail ysbrydol ; eu gwaredigaeth o Babilon, ac o'u gwasgariad presennol ; cyssylltiad tangneddfau eu llwythau ; purdeb eu haddoliad ; dinystr eu gelynion, yn enwedig Gog a Magog, neu y Tyrciaid ; a'u sefydliad dedwydd a sanctaidd yn eu gwlad eu hunain yn y dyddiau diweddaf : a thrwy yr hanes cysgodol am danynt, eu tir, eu teml, a'u llwythau, y mae yn darlunio cyflwr yr eglwys efengylaidd, yn yr oes apostolaidd, ond yn benaf yn y Mil Blynedd oedd, pen. xxv—xlviii. Dechreuodd Ezeciel brophwydo chwe blynedd cyn dinystr Jerusalem gan Nebuchodonozor, ac a barhaodd o leiaf 16 o flynedd oedd ar ei ol, pen. i. 1, gyda xl. 1, a xxix. 17. Wrth argyhoeddi am bechod, y mae efe yn fynych yn dra eglur ; ond y mae yn fwy aml ei weledigaethau dammegol na'r lleill o'r prophwydi. Y mae y rhai sydd yn y bennod gyntaf ac yn y naw pennod diweddaf, yn cael eu cyfrif mor

dywyll gan yr Iuddewon, fel y maent yn gwahardd i'w darllain, nes y byddont yn 30 mlwyad oed. Yr hanes am ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, yn nghyd â lluaws o bethau a adroddir am dano gan yr Iuddewon, y tadau Cristionogol, ac ysgrifenwyr Mahometanaidd, ydynt yn rhy annilys a dychymmygol i gael lle yn y gwaith hwn. Hwyrach y gallai Zoroaster, neu Zerdust, diwygiwr mawr y grefydd Fagiaidd yn mhlith y Persiaid, fod unwaith yn un o'i ddysgyblion, a gwrthgilio drachefn at Baganiaeth.

EZEL, *(ffordd-ddangosydd)* y fan lle y cyfarfu Dafydd â Jonathan, i dderbyn hysbysiaeth am amcanion Saul. Dywedir ei fod yn nghylch 19 o filltroedd o du y dwyrain i Jerusalem, a 7½ o du y gorllewin i'r Iorddonen; ond prin y gallwn ni gredu ei fod cyn belled o Gibeah, lle y trigai Saul, 1 Sam. xx. 19.

EZER *(trysor)*. 1. Tad Husah, o Judah, 1 Cron. iv. 4. (2.) Offeiriad a ddychwelodd o Babilon, Neh. xii. 42. (3.) Mab Seir yr Horiad, Gen. xxxvi. 21, 27.

EZION-GEBER, *(asgwrn cefn dyn)* dinas yn ngwlad Edom, ar lyngclyn dwyreiniol y Môr Coch. Yn ol Dr. *Shaw*, safai o du y gorllewin i'r llyngclyn, o ddeutu 60 milltir o du y gogledd i Sinai, a 30 neu ychwaneg o du y dehau i Eloth, yr hyn a ymddengys yn fwy nag a ganiattâ yr ysgrythyr, pan y dywed ei bod *wrth* Elath. Cyn belled â hyn yn ol yr enciliodd yr Hebreaid gwrthryfelgar, wedi bod yn cyffwrdd â chyffiniau deheuol gwlad yr Edomiaid, Num. xxxiii. 35. Yma y parottôdd Solomon ei lynges, ac a'i hanfonodd i Ophir am aur; am ba achos y geilw yr Arabiaid hi, y *Porthladd euraidd*. Ar y trum o greigiau, fel asgwrn cefn dyn, o flaen ei phorthladd, y drylliwyd cyflynges Jehosaphat ac Ahaziah gan dymhestl, 1 Bren. xxii. 48.

EZRA, *(cymmorth)* mab Seraiah, yr hwn, tebygol, oedd yr archoffeiriad a laddwyd wrth losgi y deml, offeiriad ac ysgrifenydd perfaith yn neddf ei Dduw. Pa un a ddaeth efe i Judea gyda Zerubbabel, a dychwelyd drachefn i Babilon, nid ydym yn sicr. Amlwg yw i Artaxerxes Longimanus brenin Persia, ei anfon ef i Judea yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad, gydag awdurdod breinol i iawn-drefnu eglwys a gwlad wriaeth yr Iuddewon, yn ol cyfraith Duw. Lluaws mawr a gychwynasant gydag ef. Wrth yr afon Ahafa efe a wersyllodd, ac a anfonodd yn o am offeiriaid a Lefiaid. Gwedi dyfod 258 o honynt i fynu, cadwasant yn ympryd arbenig, i ymbil am gyfarwyddyd ac amddiffyniad Duw, ar nad oedd Ezra yn dewis gofyn i'r brenin am fyddin i'w canymdoi. Ymefe a draddododd i ddwylaw ei brganglynwyr, gyfrif o'r aur a'r aria a roddasai y brenin er gwasanaeth y deml, yr hyn oedd werth yn nghylch £80,000. Mewn o ddeutu pedwar mis, daethant, 1775 o rifedi, i Jerusalem, Ezra vii, a viii.

Yno efe a ddeallodd fod lluaw mawr o'r Iuddewon wedi cyd-ymbriodi â gwragedd cenedlig. Ar o cyfaddefiad arbenig o bechodau bobl, ac ymbiliad gostyngedig a Dduw i attal ei lid, efe a anfonodd gyhoeddiad allan, yn gorchymyn i'r holl Iuddewon trwy y wlad, dan boen esgymmundod, a dirwy o'u da ymgasglu, a diwygio y camwedd hwn. Gwedi iddynt ymgasglu, efa'u gwnaeth yn deimladwy o'u pechod, ac a'u rhwymodd trwy gyfammod i ymwrthod âg ef; ond o achos y gwlaw mawr, gosodwyd swyddwyr i weled y peth yn cael ei orphen. Mewn ysbaid tri mis, gwnaethant ymofyniad manwl, ac yn nghylch 113 o offeiriaid, Lefiaid, ac Iuddewon ereill, a ysgarasant oddi wrth eu gwragedd dyeithr, er bod iddynt blant o rai o honynt. Nid yw yr ymddangos iddynt roddi eu plant ymaith, ond eu dwyn i fynu yn ofalus yn y grefydd Iuddewig, Ezra ix, a x. Am 13 o flynedd oedd, parhaodd Ezra yn flaenor yn yr eglwys a'r wladwriaeth Iuddewig. Gwedi i Nehemiah ddyfod, ac ail-adeiladu muriau Jerusalem, Ezra, gydachynnorthwy 26 o Lefiaid, a ddarllenodd ac a eglurodd y gyfraith i'r bobl, fel yr oeddynt yn ymgynnull dros wyth diwrnod gwyl y pebyll o'r bore hyd yr hwyr: yr hyn a ganlynwyd â chyfaddefiad o'u pechodau, ac adnewyddiad o'u cyfammod â Duw, Neh. viii, ix, a x. Tebygol yw mai Ezra a ysgrifenodd y llyfr a elwir wrth ei enw; yr hyn, yn

nghyd â'r rhan fwyaf o'r gweithredoedd a adroddwn dan y gair hwn, a rydd hanes am ddychweliad yr Iuddewon o Babilon; eu gwaith yn sylfaenu ac yn gorphen yr ail deml, er gwaethaf y rhwystrau a fwriodd y Samariaid ac ereill o flaen y gwaith, pen. i—vi. Am ei fod o pen. iv. 8, hyd y vii. 27, yn adrodd, gan mwyaf, gorchwylion yr amberodraeth, mae yr iaith yn Galdëig; y gweddill o'r llyfr sydd yn yr Hebraeg. Bernir yn gyffredin mai efe hefyd a ysgrifenodd ddau lyfr y Cronicl, ac eiddo Nehemiah ac Esther. Derbyniodd i'r gofrestr sanctaidd y llyfrau hyny a gai efe yn deilwng o'r anrhydedd, ac weithiau newidiodd yr hen enwau, ac ychwanegodd ymadroddion er gwneud rhai lleoedd yn fwy dealladwy. Ond pa un a chwanegodd efe y llythyren Samariaidd yn lle yr un Galdëig, a arferir yn awr yn ein Beiblau Hebraeg ni, sydd beth anhawdd i'w benderfynu.

EZRAHIAD *(dyeithr)*. Yr oedd dau o'r enw hwn, sef Heman ac Ethan, Salm lxxxviii, a lxxxix, *titl*. Yr oedd Heman ac Ethan, meibion Zerah, mab Judah y Patriarch, 1 Cron. ii. 4, 6. Hefyd Heman ac Ethan o lwyth Lefi, cantorion, 1 Cron. xv. 17, 19, a xvi. 42. Gelwir y cyntaf Ezrahiaid, am eu bod o hiliogaeth Zerah, tebygol; ac oeddynt yn byw yn amser Dafydd neu Solomon.

F

FASTI, *(yn yfed)* gwraig Ahasferus, Est. i. 9. Yr oedd yn wraig o lendid mawr; ond am iddi anufuddhau i'r brenin i ddangos ei hun i'r tywysogion, efe a'i bwriodd ymaith yn ddigofus iawn; a hyn a agorodd ffordd i Esther, caeth-ferch o Judah, i gael ei lle, a bod yn wraig i'r brenin. Gwel *Esther*.

FERMILION, math o bridd coch a arferir gan liwyddion i addurno ystafelloedd, Jer. xxii. 14; neu i liwio delwau, Ezec. xxiii. 14. Ond hwyrach mai *cinnabar* yr Arabiaid, yr hwn sydd hefyd yn lliw coch, a feddylir wrth y gair Hebrëig *Sasar*. Stokins, a rhai awduron dysgedig ereill, a'i cyfeithant *indigo*.

FWLTUR, aderyn mawr o ryw-ogaeth yr eryr. Mae chwe math o fwlturod, wyth medd *Linnæus*. Mae iddynt yddfau hirion, bron yn ddibluf; ond eu coesau ydynt yn blufiog at eu traed, ar bob un o ba rai y mae ganddynt bedwar o fodiau, tri yn mlaen ac un yn ol. Nythant mewn creigiau uchel, a dywedir y byddant byw yn nghylch 100 mlynedd. Y mae iddynt olygon cyflym iawn, i'w cyfarwyddo at eu hysglyfaeth. Cynniweiriant i leoedd diffaith, ac maent yn caru ymborthi ar gnawd dynol, ond nid ymborthant ar ddim yn fyw. Dywedir eu bod yn canlyn byddinoedd i ryfel, yn disgwyl am laddedigaeth a gwaed, ac yr aroglant gelain 50 milltir oddi wrtho. Maent yn elynion mawrion i seirph, a phorthant eu cywion â'u gwaed eu hunain, os bydd achos, Lef. xi. 14. Deut. xxviii. 7. Job xxviii. 7. Esa. xxxiv. 15.

FF

FFALSDER, twyll, anwiredd. Yr Iuddewon a feddyliasant *lechudan ffalsder*, pan ymddiriedasant am eu diogelwch i eilun-dduwiau, cynghreirian pechadurus â'u cymmydogion Cenedlig, cydsyniad bradwrus â'r gelyn, dychymmygion ystrywgar, ac ar y galw a'r golud a ennillasent trwy foddion twyllodrus, Esa. xxviii. 15.

FFAU, *(ffa)* gwâl, lloches. Mae Ninefeh yn cael ei galw yn *ffau llew wedi ei llenwi âg ysglyfaeth*, am fod yr amherawdwyr buddugoliaethus a lywodraethent yno yn mysned allan o honi fel llewod, i ddistrywio y cenedloedd oddi amgylch, ac i gyfoethogi y ddinas â'u hyspail, Nah. ii. 12.

FFAWYDD, *(ffaw*, rhagoroldeb) sydd yn tyfu i uchder mawr; maent yn sythion iawn, ac yn ddiganghenau yn y bôn; ac yn llawn o fath o lud a elwir ystor; ac yn wyrddion haf a gauaf. Mae eu ffrwyth yn lled debyg i afalau y pinwydd, ond yn ddiddefnydd fel ymborth. Yr oedd y prenau hyn yn cael eu harfer gynt i wneuthur offer cerdd, adeiladu, ac yn ddefnyddiau at longau. Y mae pobl yr Arglwydd yn cael eu cyffelybu i *ffawydd*, o blegid eu hireiddra a'u cynnydd mewn gras, Esa. xli. 19, a lv. 13, a lx. 21.

CLAUDIUS FFELIX. Efe a

ganlynodd Cumanus, fel rhaglaw dros y Rhufeiniaid, yn llywodraeth Judea; denodd Drusila i ysgaru a'i gwr, Azizus, brenin Emesa, a'i briodi ef; anfonodd yn garcharor i Rufain, Eleazar, ysbeiliwr hynod, yr hwn a gyflawnasai ddifrodiadau mawrion yn y wlad; mynodd farwolaethu Jonathan yr archoffeiriad, am iddo gymmeryd rhydd-did i'w rybuddio ef am ei ddyledswydd; gorchfygodd o ddeutu 4000 o ddyhirwyr llofruddiog, a flaenorid gan dwyllwr Aiphtaidd, y rhai a gydeasent eu hunain ar fynydd yr Olewwydd, Act. xxi, 38. Dygwyd Paul ger bron Ffelix yn Cesarea, lle yr oedd efe yn preswylio; ac er y cwbl a allai Tertulus a'i gynnorthwywyr ddywedyd, triniwyd ef ganddo gyda thynerwch nid bychan. Naccaodd wrandaw ar eu cyhuddiadau, nes y deuai Lysias y pen cadpen, yr hwn a'i hanfonodd ef gyda gwylwyr, i waered: caniattaodd i'w gyfeillion ei weled ef yn y carchar, a gwneud iddo bob gwasanaeth a allent. Yn gobeithio y prynent hwy ei ryddhad ef, anfonai am Paul yn fynych, ac a ymddiddanai âg ef. Ar un o'r achlysuron hyn, Paul a ddifyrodd Ffelix, a Drusila ei wraig, Iuddewes halogedig, âg ymadrodd yn nghylch dirwest, cyfawnder, a'r farn a fydd, nes y gwnaeth cydwybod effrôedig Ffelix iddo grynu; ond, i ochelyd argyhoeddiad ychwanegol, efe a ddymunodd ar Paul roddi heibio, a myned i'w garchar. ac y galwai efe am dano ar amser mwy cyfaddas. A. D. 60, ad-alwyd ef i Rufain, a Ffestus a anfonwyd yn ei le. Er mwyn gwneuthur cymmwynas i'r Iuddewon, efe a adawodd Paul yn rhwym; hyn, pa fodd bynag nid attebodd un dyben da iddo; llawer o honynt a'i caniynasant ef i Rufain, ac a achwynasant arno o blegid ei orthrymder a'i greulondeb. Cospasid ef â marwolaeth, oni buasai i'w frawd Palas, trwy ei gymmeradwyaeth yn y llys, achub ei fywyd, Act. xxiii. 24.

FFENESTR, (*ffen*, awyr, *estyr*, saethu allan) adwy ddigon adnabyddus i ollwng y goleuni i mewn i dai. Dellt rhwyllog oeddynt y ffenestri, neu rwyd-waith o wyfr ynddynt, cyn i wydr ddyfod i arferiad, Barn. v. 28. 2 Bren. i. 2. Ordinhadau Duw ydyut yn cael eu galw yn *ffenestri* a *delit*; trwyddyn hwy fel moddion, y mae ei eglwys y cael ei goleuo yn y byd hwn, a thrwyhyny y mae Crist a'i bobl yn cydgyf arfod, ac yn gweled y naill y llall Can. ii. 9. Esa. lx. 9, a liv. 12 *Ffenestri* cyfyng y deml oeddyn yn gosod yr ordinhadau hyn allan fe yn rhoddi ond graddau bychain oleuni yn y cyfiwr seremoniol, a byd yn nod yn yr un milwriaethus a bod y naill ar gyfer y llall a ar wydda fod amrywiol ordinhadau, o arferir hwy yn ddyladwy, yn tafl goleuni ar eu gilydd, 1 Bren. vi. 4 a vii. 4. Y mae tyllau ein llygai yn cael eu galw *ffenestri*, o blegi ein bod yn derbyn y goleuni trwy ddynt, Preg. xii. 3. Y cymmylau yn enwedig pan fyddant yn tywallt gwlaw yn bistylloedd, a elwir *ffenestri y nefoedd*; ond dichon fod gair *Heb. aruboth* yn arwyddoccau *rheieidr*, neu *ddwfr-ddiscynfëydd* Gen. vii. 11, a viii. 2. Mewn cyf eiriad at y geiriau hyn, dywedir fo *ffenestri y nefoedd* yn cael eu hagor, pan fydd Duw yn cyfranu ei fendithion i ddynion mewn gradd hel aeth, Mal. iii. 10; neu pan fydd y tywallt barnedigaethau dychrynllyd ac aruthrol arnynt, Esa. xxiv. 18.

FFERAU, (*ffy-er*) migwrn, meilwn, meinedd y goes, Ezec. xlvii. 3 Act. iii. 7.

PORCIUS FFESTUS a ganlynodd Ffelix yn llywodraeth Judea Pan ddaeth efe gyntaf i Jerusalem rhai o bennaethiaid yr Iuddewon a ddeisyfasant arno roddi barn yn erbyn Paul, yr hwn a adawsai Ffelix yn ngharchar; neu, o leiaf, roddgorchymyn i'w ddwyn ef i Jerusalem Ffestus, hwyrach yn anwybodus o'r bwriad i'w ladd ef ar y ffordd, a naccaodd eu deisyfiad, ac a ddywedodd wrthynt, nad oedd arfer y Rhufeiniaid i roddi un dyn i'w ddyfetha nes cael o'r cyhuddol ei gyhuddwyr yn ei wyneb, a chael lle amddiffyn ei hun rhag y cwyn. Gorchymynodd iddynt ddyfod i waered i Cesarea, ac yr ystyriai efe eu cyhuddiad. Aethant i waered mewn ychydig ddyddiau; ac wedi iddyn osod eu cwyn yn erbyn Paul, caniattawyd iddo yntau amddiffyn e hun. Ffestus, hwyrach wedi wobrwyo ganddynt, a ddangosod

lueddiad i anfon Paul i Jerusalem, ond rhagflaenwyd hyny trwy apeliad Paul at Cæsar. Yn mhen amser wedi hyny, ar ddymuniad Agrippa, caniattaodd Ffestus i Paul wneuthur amddiffyniad pellach, fel y gallai efe ysgrifenu yn fwy cyflawn at yr amherawdwr mewn perthynas 'w achos. Pan roddodd Paul banes am ei droedigaeth, a'i alwad i'r apostoliaeth, Ffestus, yn anwybodus am y pethau hyn, a daerodd fod ei ddysg helaeth wedi ei yrru yn ynfyd; ac yn fuan wedi hyny a'i hanfonodd ef i Rufain, Act. xxv. Bu Ffestus yn ûra ymdrechgar i ddiddymu y mintcioedd lluosog o ysgeilwyr a llofruddion ag oeddynt y pryd hwnw yn blino Judea. Efe hefyd a ddiddymodd swynwyr hynod, yr hwn a dynasai luoedd o bobl ar ei ol i'r diffeithwch. Gwedi iddo fwynhau y swydd honno o ddeutu dwy flynedd, bu farw, ac a ganlynwyd gan Nero Albinus.

FFIAIDD—DRA, (*ffi*, bwriad ymaith) unrhyw beth tra atgas a gwrthwynebllyd, megys cig afiau, a pheth a aberthid i eilunod, Lef. vi. 18. Esa. lxvi. 17. Mae pechod yn cael ei alw yn *ffieidd-dra*, neu yn *ffieidddra:* y mae yn wrthwyneb i berffeithrwydd Duw a'i gyfraith; yn halogi dynion yn ngolwg Duw, ac a ddylai gael ei gasáu, ei ffieiddio, ei ochelyd, a'i wrthwynebu genym ninnau, Esa. lxvi. 3. Jer. xliv. 4. Gau athrawiaethau, a gweithredoedd hyll neu anweddaidd, gwrthwyneb hyd yn nod i oleuni nattur, a elwir yn *ffieidd-dra;* maent yn atgas a ffiaidd yn ngolwg Duw a'i bobl sanctaidd, Dad. xvii. 4. Eilunod a'u haddoliad a elwir yn *ffieidd-dra*. Nid yn unig y mae eilunaddoliaeth yn atgas yndo ei hun, ac yn gwneud dynion yn ffiaidd yn ngolwg Duw, ond y mae llawer o ddefodau halogedig ac anweddaidd yn nglŷn wrtho, 1 Bren. xi. 7. Deut. viii. 26, a xii. 31. Y mae eilunod yn cael eu galw yn *ffieidd-dra y llygaid*, am fod llygaid eu haddolwyr yn cael eu difyru yn fynych ganddynt, ac, mewn addoliad yn cael eu derchafu i fynu attynt, Ezec. xx. 7, 8. Eilunaddolwyr a dynion beilchion ydynt yn *ffieidd-dra*, yn ffieidd-gas gan Dduw, a phob dynion da, Esa. xli. 24. Diar. xvi. 5. Arogl-darth sydd *ffiaidd gan Dduw*, a'r uchel-wyl gyfarfod yn *anwiredd*. Yr oedd cadwad y defodau, luddewig, heb ymorphwysiad ar Grist trwy ffydd, ac ymdrech cyffredinol am gyddfurfiad a'r gyfraith foesol; neu gadwad y defodau hyn yn unig, wedi iddynt gael eu dileu dan yr efengyl, yn dra ffiaidd a phechadurus, yn nghyfrif Duw, Esa. i. 13, a lxvi. 3. Mae aberthau a gweddiau yr annuwiolion yn *ffiaidd*, am fod eu hegwyddorion, eu dull, a'u dybenion yn bechadurus, Diar. xv. 8, a xxviii. 9. Tebygol fod bugeiliaid yn *ffieiddd ra gan yr Aiphtiaid*, o herwydd i fintai o ddveithriaid, a elwid *bugeiliaid*, ychydig cyn hyny, o Ethiopia neu Arabia, dorri i mewn i'r wlad, a'i gorthrymu yn dost; neu o herwydd i'r wlad gael ei blino yn erwin o achos Abraham a Sarah ei wraig, Gen. xlvi. 34. Yr oedd yr Hebreaid yn aberthu *ffieidd-dra yr Aiphtiaid*, hyny yw, eu hanifeiliaid cyssegredig, eu hychain, eu geifr, eu hŵyn, eu hyrddod, y rhai a addolai yr Aiphtiaid, ac a dybient yn hollol anghyfreithlon i'w hoffrymu, Exod. viii. 26. Y *ffieidd-dra* anrheithiol a arwydda, (1.) Llun mochyn ar yr allor brês; neu ddelw Jupiter Olympius yn y deml Iuddewig, yr hon a osodoodd Antiochus Epiphanes i fynu er attal addoliad Duw, Dan. xi. 1. (2.) Byddinoedd y Rhufeiniaid, yn gyfansoddedig o eilunaddolwyr Cenedlig, y rhai oedd ganddynt luniau eilunod ac amherawdwyr ar eu banerau; a pha rai, er eu bod yn dra ffiaidd gan yr Iuddewon, a aethant i mewn i'r deml, ac a'u llosgasant, ac a daenasant ddifrod ac anghyfanedd-dra trwy eu gwlad, Dan. ix. 27. Mat. xxiv. 15. (3.) Anghrist, yr hwn sydd yn halogi ac yn anrheithio eglwys Duw yn erchyll, Dan. xii. 11.

FFIGYS, ydynt ffrwythau digon adnabyddus a thra hyfryd, ac o wasanaeth nid bychan mewn meddyginiaeth. Pan yn llawn ireidd-dra, y maent yn rhagorol i addfedu cornwydydd, ac i iachâu briwiau, yn fynyglog, &c. Ond fel y byddai i'r rhinwedd iachäol ymddangos yn oruwch-naturiol, cyfarwyddwyd Hezeciah i roddi swp, nid o ffigys irion, ond sychion, wrth ei gornwyd, fel yr adferid ef o hono, 2 Bren. xx. 7.

Gogoniant Samaria a gyffelybir i *ffigys cynnar*, y rhai a lwngc dyn pan welo hwynt, i arwyddo pa mor fuan y dinystrid hi, Esa. xxviii. 4. Yr Iuddewon duwiol a gyffelybir i *ffigys yr addfediad cyntaf*, ac i *ffigys da*, i nodi eu defnyddioldeb, a hyfrydwch Duw ynddynt, Hos. ix. 16. Jer. xxiv. 2. Mic. vii. 1. Ereill a gyffelybir i *ffigys drwg*, i ddynodi eu dryganiaeth, eu hannefnyddioldeb, a'u banbyfrydwch, Jer. xxiv. 1. I arwyddo pa mor hawdd yr ennillai ac y dinystriai y Caldeaid a'r Mediaid ddinasoedd ac amddiffynfëydd yr Assyriaid, cyffelybir hwy i *ffigyswydd sy'n syrthio* gan addfedrwydd i safn y bwyttäwr, Nah. iii. 12. *Ffigys irion*, a arwyddant ddechreuadau a chychwyniadau cyntaf gras yn eneidiau dynion, Can. ii. 13.

FFIGYS-BREN. Mae hwn yn dwyn blodau gwrrywaidd a benywaidd, ar wahan, ac ar amrywiol ranau o'r ffrwyth. Mae'y ffigysbren yn cynnwys sylwedd llaethog neu olewaidd; y diffyg neu ormodedd o ba un sydd yn ei wneud yn ddiffrwyth. Pan fydd y sudd hwn yn ddiffygiol, y mae yr arolygwr yn ei feddyginiaethu â thom a dwfr peraidd; pan fydd yn ormodol, efe a ofala i beri i ran o hono ddiflanu yn darth. Y mae i'r ffigysbren ddail mawrion, ac y mae yn fawr ei hun: mae rhai yn yr India Ddwyreiniol yn alluog i gysgodi 50, neu fel y dywed ereill, 400 o wyr meirch; â dail y fath ffigysbren â hwn, tebygol, y gorchuddiodd ein rhieni cyntaf eu noethni, Gen. iii. 7.

Y saint a gyffelybir i *ffigysbrenau*; mae ganddynt ar unwaith broffes hyfryd ac ymarweddiad defnyddiol, maent yn cyd-gerdded â'u gilydd; maent yn nodded i genedloedd; a'u ffrwythau da ydynt yn foddus yn ngolwg Duw a dynion da, Can. ii. 13. Y genedl luddewig a gymharir i *ffigysbren ddiffrwyth*, yn cael ei arbed flwyddyn arall ar ddeisyfiad y gwinllanydd. Pan ddaeth ein Hiachawdwr i'r byd, ac yr arferodd ei weinidogaeth gyhoeddus yn ei plith am dair blynedd ac ychwaneg, mor ddiffrwyth oeddynt hwy mewn gweithredoedd da, ac mor addfed i ddinystr! ond trwy ei eiriolaeth, a gweddiau ei apostolion, arbedwyd hwy ennyd yn rhagor, nes y gwelwyd na chawsai pregethiad yr efengyl un effaith dda ar y rhan fwyaf o honynt; a thorwydd hwy ymaith drachefn â dinystr arswydus, Luc xiii. 6—9. Yr oeddynt yn cael eu cysgodi hefyd gan y *ffigys-bren* â dail teg arno, ond heb ffrwyth, yr hwn a felldithiodd yr Iesu i ddiffrwythdeb a gwywdeb; gwnaent lawer iawn o ymddangosiadau teg o sancteiddrwydd a sêl, ond yr oeddynt yn amddifaid o weithredoedd da, ac yn gwrthod credu yn y Messiah addawedig a'i dderbyn, Mat. xxi. 19. Yr efengylwr Marc a ddywed wrth perthynas i'r pren hwn, *nad oedd amser ffigys eito*: paham ynte y meilldithiodd eiu Hiachawdwr ef am ei ddiffrwythder? Er dattod yr anhawsdra hwn, rhai a gyfieithant yr ymadrodd, *canys nid oedd yn ffwyddyn ffigys*; ond y mae hyn yn hytrach yn yehwanegu y dyryswch; o herwydd pa ham gan hyny y meilldithiai eiu Hiachawdwr y pren o eisiau ffigys? Ereill gan hyny a gyfieithant y geiriau *canys nid oedd yn amser ffigys lle yr oedd efe*: ond i sefydlu y darlleniad hwn, rhaid cyfnewid yr attaiadau a'r accenion, yr hyn, hwyrach, a fyddai yn ormod rhyddid i gymmeryd gyda'r testun gwreiddiol cyssegredig. Ond pa ham nad allwn ei ddeall, *nad oedd hi yn amser i gasglu ffigys?* ac felly gellid disgwyl fod rhai ar y pren hwn. Neu, er nad oedd yn amser cyffredin ffigys, o herwydd ei bod yn mis Mawrth, etto, gan fod ffrwyth y ffigys-brenau yn hytrach yn gymmaroch na'u dail, gallesid disgwyl fod ffrwyth addfed ar y pren hwn, pan oedd arno gymmaint o ddail mawrion; ei fod yn un o'r rhai hyny sydd yn dwyn y ffigys addfed cyntaf, neu yn un o'r prenau hyny, y rhai, yn ol *Pliny*, ydynt bob amser yn wyrdd-leision, a rhan o'u ffrwyth yn addfed, pan nad yw y gweddill ond blaen-darddu, Marc xi. 3.

FFLAM, (*ffla*, didoliad oddi wrth) eirias, goddaith. Mae yr Arglwydd yn cael ei gyffelybu idôi: mor ddyscläer yw ei ogoniant! ac mor arswydus a dinystriol i'w elynion ydynt ei allu a'i ddigofaint, Esa. x. 17. Angelion ydynt fel *ffamau*; eu symmudiadau ynt gyflym; eu hym-

ddangosiad yn ddychrynllyd; ac y maent yn difa gelynion Duw yn ofnadwy fawn, Salm civ. 4. Sychder, yr hwn a ddeifia ac a ysa wellt, ŷd, a llysiau ereill; barnedigaethau Duw y rhai a finant ac a ddifant bersonau, teuluoedd, a chenedlaethau yn arswydus; a'i orseddfainge ofnadwy a mawreddog; yn nghyd â phoenau uffern, y rhai a ddychrynant ac a ofidiant yr annuwiolion yn ofnadwy dros byth, a elwir yn *ffiamau*, Can. viii. 6. Joel i. 19. Dan. vii. 9, 11, Luc xvi. 24,

FFLANGELL, math o ffrewyll wedi ei gwneuthur o raffau, careiau, neu wiail. Gwaharddwyd i'r Iuddewon roddi deugain gwialennod ar y tro; ond os byddai y trosedd yn cael ei gyfrif yn fawr, rhoddent y gwialennodau yn fwy gerwin, Deut. xxv. 1—3. 2 Cor. xi. 24. Y Rabbiaid a baerant fod pob trosedd sydd â'i gospedigaeth heb ei hysbysu, yn haeddu fflangelliad, ac nad oedd yn cael ei gyfrif yn waradwyddus; ond *Philo* yr Iuddew a'i gesyd allan fel yn ddim llai annyoddefol i ŵr rhydd na marwolaeth. Y person a fflangellid, wedi ei ddynoethi i'w hanner, a rwymid gerfydd ei ddwylaw wrth bawl isel, ac yna a dderbyniai y gwialennodau ar ei gefn plygedig. Byddai troseddwyr tybiedig yn cael eu fflangellu weithiau i'r dyben o beri iddynt gyfaddef eu dryganiaeth, Act. x. 1, 24. Fflangellodd Pilat yr Iesu i'r dyben o ryngu bodd yr Iuddewon, ac felly ennill eu cydsyniad i beidio ei groeshoelio ef, Ioan xix. 1, 4, 6. Enllibiau a gwaradwyddiadau poenus a elwir yn *ffrewyll y tafod*, Job v. 21. Gwaith Duw yn cerydduu ei bobl, ac yn cospi ei elynion, a elwir yn *ffiangell*, Heb. xii. 6. Job ix. 23. Esa. x. 26.

FFOI, (*ffo*) a arwydda (1.) Brysio ymaith, megys rhag gelyn erlidiol, Mat. viii. 33. (2.) Rhedeg ar frys rhag perygl i noddfa neu ymguddfan, Gen. xxvii. 43. Y mae dynion yn *ffoi* rhag godineb, rhag chwantau ieuengctid, bydol-frydedd, a phethau ereill pechadurus, pan, dan deimlad o berygl, y byddant yn gochelyd pob profedigaeth iddynt, neu ymddangosiad o honynt, neu neshad attynt, 1 Cor. vi. 9. 2 Tim. ii. 22.. 1 Tim. vi. 11. Yr ydym yn *ffoi* at Dduw neu Grist, pan, dan deimlad o euogrwydd, balogedigaeth, perygl, neu gyfyngder, yr ydym, gyda chywilydd, ofn, brys, a gobaith o gynnorthwy, yn cyfeirio atto ef fel ein noddfa a'n gwaredwr, Salm cxliii. 9. Heb. vi. 18. Cysgodau a gofidiau ydynt yn *ffoi ymaith*: yn symmud yn ebrwydd, yn hawdd, ac am byth, Can. ii. 17. Esa. li. 11. Y mae dynion yn *ffoi* rhag llew, ac arth yn cyfarfod â hwy; neu yn myned i'r tŷ, a sarph yn eu brathu; yn *ffoi* oddi wrth arfau haiarn, a'r bwa dur yn eu trywanu; ac yn *ffoi* rhag trwst dychryn, ac yn syrthio yn y ffos; a'r hwn a gyfodo o ganol y ffos yn cael ei ddal yn y fagl; pan, wrth ymdrechu i ddiangc rhag un perygl a chystudd, y byddant yn syrthio i arall yn waeth fyth, Amos v. 19. Job xx. 24. Esa. xxiv. 18. Y mae llofruddion yn *ffoi i'r pwll*; yr rhedeg yn gyflym i'w dinystr eu hunain; ac yn fynych, gan ddychrynfeydd eu cydwybodau eu hunain, yn cael ei gyrru yn mlaen i gospedigaethau, yma ac ar ol hyn, Diar. xxviii. 17.

FFOL, (*ffo-yl*) neu ddyn ynfyd, yw un sydd yn wrthwyneb i ddoeth a dysgedig, ac yn gweithredu yn groes iddo, neu fel pe byddai heb synwyr na rheswm. 1 Sam. xxvi. 21. Sam. iii. 3. Y mae yn anhawdd iawn gwellhau dynion ffol o'u ffolineb, hyd yn nod pe ceryddid ac y cystuddid hwy yn drwm o'r achos, fel pe caent eu pwyo mewn morter, Diar. xxvii. 22. Y mae dynion annuwiol yn cael eu galw yn fynych yn *ffolion*, neu *ynfydion*; maent yn gweithredu yn groes i bob rheswm cywir; maent yn dymuno na byddai un Duw; maent yn ymorphwys ar Satan, ar y byd, a'u calonau eu hunain, y twyllwyr hynod hyny; maent yn cyfrif pethau gwael, ofer, a thymhorol, o flaen rhai pwysig, dwyfol, a thragywyddol: mewn gwrthwynebiad i rybuddion ac ymrysoniadau y Nefoedd, maent yn dwyn eu dinystr eu hunain yn mlaen yn llafurus, Salm xiv. 1, a xlix. 10, a phob man, bron, yn llyfr y Diarebion. Y mae y saint yn cael eu galw yn *ffolion*, neu *ynfydion*, o blegid eu pechadurusrwydd arosol; ac maent yn fynych yn gweithredu yn anwybodus, ac yn groes i'w dyledswydd a'u lleshad, Luc xxiv. 25.

Salm lxxiii. 22, ac y maent hwy, yn gystal â'r apostolion, yn cael eu cyfrif yn *ffol bethau*, gan ddynion annuwiol a bydol, 1 Cor. i. 27, a iv. 10. Y rhai a edliwiant i'w cymmydogion, fel pe baent *ynfydion* annoeth a direswm, neu waelion anghymmeradwy, ydynt mewn perygl o dân uffern, Mat. v. 22. Pa beth bynag sydd heb reswm da, ac heb atteb dybenion pwysig gogoniant Duw, a lleshad gwirioneddol a thragywyddol dynion sydd *ffol;* ac o herwydd hyny darllenwn am ymadrodd *ffol*, chwantau *ynfyd*, cwestiynau *ynfyd*, &c., Eph. v. 4. 1 Tim. vi. 9. Tit. iii. 9. "Na atteb ynfyd yn ol ei ynfydrwydd, rhag dyfod yn gyffelyb iddo; atteb ynfyd yn ol ei ynfydrwydd, rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun:" ni ddylem un amser atteb ynfyd mewn modd ynfyd, ac weithiau peidio ei atteb oll: ond y mae yn gymmwys weithiau: i'w atteb mewn modd doeth, er dangos ynfydrwydd yr hyn a ddywed, fel y byddo i'w waith yn ymfalchio, yn nghyd â niweid ereill, gael eu rhagflaenu, Diar. xxvi. 4, 5.

FFOLINEB, a arwydda ymddwyn, neu barodrwydd i ymddwyn, mewn modd ffol a phechadurus: ychydig iawn o hyn a all wneud enw gwr, arddechog o herwydd doethineb, yn wael ac adgas iawn, Preg. x. 1. Y rhai hyny ydynt *ynfydion* ag sydd yn hunan-dybus, yn gyndeiniog a digllawn; yn siarad llawer, ac yn barod i fyned i amryson, ac yn ei chyfrif yn ddigrifwch i enllibio eu cymmydogion, neu i wneuthur drygioni; neu y rhai a gashânt gerydd ac addysg, ac ydynt yn dra thueddol i atteb matter cyn iddynt ei glywed a'i ystyried yn gyflawn; ac ydynt yn dra chwannog i chwerthin a llawenydd, Diar. i. 7, 22. Preg. vii. 4, 6, &c. Pechod, ac yn enwedig beiau gwaradwyddus, a elwir yn *ynfydrwydd;* trwy hwn, ag sydd yn groes i'n rheswm a'n lleshad, yr ydym yn dianrhydeddu Duw, ac yn gwneuthur ein hunain yn anenwog a thruenus, Marc vii. 22. Gen. xxxiv. 7. Jos. vii. 15. Barn. xx. 6. Trwy eu hanwybodaeth a'u hynfydrwydd, mae yr annuwiolion yn cyfrif Iesu Grist wedi ei groeshoelio, pethau ysbrydol, a phregethiad o'r efengyl, yn *ffolineb*, sef yn ddistadl, disynwyr, ac afresymol, 1 Cor. i. 18, 21, 23, a ii. 14; ond y mae yr llyn o Dduw a gyfrifant hwy yn *ffolineb* â mwy o ddoethineb ynddo na'u holl ddychymygion cyfrwys hwy; ac y mae doethineb, cyfrwysdra, a dychymygion cnawdol dynion, yn cael eu cyfrif yn *ffolineb* gan Dduw, 1 Cor. i. 25. Gosododd Duw *ynfydrwydd* yn erbyn ei angelion, pan fwriodd efe y rhai ni chadwasant eu dechreuad i lawr, Job iv. 18.

FFOLEN, *(ffol)* pedrain, clun. *Ffolenau aur*, sef darnau o aur, a *llun eu ffolenau* arnynt, sef y rhanau hyny o'u cyrph ag oeddynt dan farn Duw o blegid yr arch. Tebygol yw, mai y lledewygwst *(piles)* oedd y plâ y tarawodd Duw y Philistiaid âg ef, 1 Sam. vi. 4, 5.

FFOLOG *(ffol)* dynes ffol, disynwyr. "Y *ffolog* a'i tyn ef (ei thŷ) i lawr â'i dwylaw," Diar. xiv. 1. Gwraig ddoeth synwyrol, trwy iawn drefniad ar achosion ei theulu, sydd yn peri llwyddiant mawr a pharhaus ar y teulu y mae yn perthyn iddo; ond y *ffolog*, trwy ei rhodres, ei segurdod, ei hannoethineb, ei melyswedd, a'i gwastraff, sydd yn dinystrio teulu; îe, er bod ei gwr yn gymhedrol ac yn ddiwyd, a bod y teulu yn llwyddiannus pan y daeth iddo: y mae fel pe bai yn ei dynnu i lawr â'i dwylaw. Gwell yw cynnysgaeth *yn* y wraig na chyd â'r wraig, 1 Bren. xvi. 31, a xxi. 24, 25.

FFON, *(ffy-on)* llaw-ffon, cwlbren. *Ffon* yr Arglwydd Iesu i gyssuro ei bobl fel eu bugail, yw gwirioneddau cynnaiaethol yr efengyl, trwy ba rai y mae yn eu cynnal, eu dyddanu, ac yn eu cyfarfwyddo. Maent yn llesg ac yn weinion, yn analluog i gynnal eu hunain; mae gwirioneddau mawrion a sicr yr efengyl yn gwbl addas iddynt, yn wyneb eu holl drueni, yn mhob ystyr, ac yn mhob amgylchiad; trwy amlygiad iddynt o'r gwirioneddau am dano ei hun, a'u nerthu i'w credu, ac i bwyso arnynt, mae yn eu cyssuro yn effeithiol, ac yn eu cynnal pan rodiont yn nghanol peryglon, gelynion, ac ofnau dychrynllyd. *Ffon* yw hon na thyrr byth, ac ni phydra; mae mor gadarn ac mor barhaus â Duw ei hun; mae wedi ei rhoddi i

bechaduriaid, ac nid yw yn adwaen neb arall, Salm xxiii. 3. Rhuf. xv. 4.

FFORCHOGI (*fforch*). ffwrch, cigwain, holltineu gwahanu yr ewin. Nid oedd yr Iuddewon i fwytta o'r anifeiliaid ond yr hwn a hollto yr ewin, ac a fforchogo hollt yr ewinedd, ac a gno ei gil: nid wedi hollti *oddi arnodd* yn unig, fel troed ci, &c. ond wedi *fforchogi drwyddo*, yn ddau ewin, fel traed yr ych, a'r ddafad, &c. Mae trydydd math o draed, sef rhai heb hollti, megys traed march, &c. Y canol yn unig oedd lân ac yn fwyttaedig, Lef. xi. 3, 26. Deut. xiv. 4, 5, 6, &c. Diamman fod y deddfau hyn yn nghylch yr anifeiliaid glân ac aflan i'w golygu, nid yn unig yn ymarferol i'r Iuddewon, ond hefyd yn addysgiadol i ninau, ac yn dangos amrywiol gynneddfau dynion glân ac aflan; mae hyn yn eglur oddi wrth weledigaeth Petr, Act. x. 12, 28. *Fforchogi* yr ewin, gan hyny, a ddichon arwyddo iawn ddeall yn ngwirioneddau Duw, gwahaniaethu rhwng y pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt, megys y gyfraith a'r efengyl; cyfeiliornadau a gwirioneddau: ac yn iawn droedio at wirionedd yr efengyl, Gal. ii. 12, 14. Salm i. 1. Diar. ix. 6. 2 Cor. vi. 17.

FFORDD, (*ffor*, mynedfa) llwybr, heol. (1.) Ffordd i rodio ynddi, 1 Bren. xviii. 6. (2.) Dull o ffurfiad neu weithrediad; pa fodd y gweithreda yr Ysbryd wrth ein ffurfio, neu pa fodd yr unir ein henaid â'n corph, Ioan iii. 8. Preg. xi. 5. *Llwybrau* neu *ffyrdd* Duw, ydynt ei weithredoedd o greadigaeth, Job xl. 19; goruchwyliaeth ei ragluniaeth, yn yr hon y rhodia efe tuag at ei greaduriaid, Salm xxv. 10. Esa. lv. 8, 9; neu y cymmylau y rhai a ddefnynant ei wlaw ef, Salm lxv. 11; neu ei wirioneddau a'i orchymynion, yn mha rai y gofyn efe i ddynion rodio, Salm xvii. 5. Crist yw y *ffordd*, ac y mae efe, yn nghyd â threfn yr iachawdwriaeth, yn *ffordd newydd a byw'iol*. Efe yw yr achos baeddiannol a chynllun ein nesâd at Dduw: ac yn y ffordd o undeb a chymdeithas âg ef, y cyfiawnheir, y sanctteiddir, ac y parottoir ni i'r nefoedd. Y mae y ffordd hon yn canlyn ffordd yr hen gyfammod o ddedwyddwch trwy ein gweithredoedd ein hunain: ac y mae hi bob amser yn un, a thrwyddi yr âwn o gyflwr o bechod a thrueni i gyflwr o wynfyd anorphenol, Ioan xiv. 6. Heb. x. 20. Cyfreithiau ac athrawiaethau Duw ydynt *ffordd y gwirioneedd*, yn hollol wir yddynt eu hunain, a chyda chalon ac ymarweddiad didwyll a chywir y rhaid i ni rodio ynddynt, ac felly y deuwn i ddedwyddwch gwirioneddol a thragywyddol, 2 Pedr ii. 2. *Llwybrau a ffyrdd* dynion, ydynt eu hymarweddiad a'u gorchwylion da neu ddrwg; neu yr amgylchiadau mewn bywyd yr âut hwy drwyddynt, Diar. ii. 20. Esa. ix. 7. Galar. iii. 9. *Ffordd yr Arglwydd sydd gadernid i'r perffaith*: y mae Iesu yn rhoddi iddo gadernid ysbrydol; rhagluniaethau ac ordinhadau dwyfol a wnant leshad iddo; ac mae ei llwybrau sanctaidd yn tueddu i gadarnhau a dyddanu ei enaid, Diar. x. 29. Llwybrau y cyfiawn ydynt *lwybrau barn*, uniondeb, a bywyd; mae ei yrfa grefyddol wedi ei dewis yn ddoeth, ac mae efe yn ddidwyll ac uniawn wrth ei dylyn: yn ei rodiad presennol, y mae ganddo fywyd ysbrydol yma, ac a gyrhaedd fywyd tragywyddol ar ol hyn, Esa. xl. 14. Diar. ii. 13, a v. 6. Y mae Duw yn gwneuthur *ffordd* neu *lwybr uniawn*, pan y bydd yn symmud pob peth a duedda i rwystro ei ogoniant a'i efengyl, Esa. xlii. 16, a xl. 3, 4; neu ddedwyddwch ei bobl, Jer. xxxi. 9. Y mae *llwybrau* Crist yn cael eu huniawni, pan barottoir pethau ar gyfer ei ymddangosiad cyhoeddus ar y ddaear, Mat. iii. 3. Y mae dynion yn gwneud llwybrau uniawn i'w traed, fel na throer y cloff allan o'r ffordd, pan y byddant yn cymmeryd gofal yn nghylch ychwanegu at reolau gair Duw, neu dynnu oddi wrthynt, ac yn ymdrechu rhodio yn gyfattebol iddynt, rhag i neb dramgwyddo wrth grefydd o'u hachos hwynt, Heb. xii. 13. Y mae dynion yn methu *cael eu llwybrau*, pan na allant gyflawni eu hamcanion, Hos. ii. 6. Myned yn *ffordd* un, yw dylyn ei siampl, Judas 11. Yn Iuddewon â aethant yn *ffordd Assyria a'r Aipht*, pan yr oeddynt yr hoffi ymgynghreirio â hwynt, ac yn ymddibynu arnynt am gynnaliaeth, Jer. ii. 18. Tŷ putteiniaid yw y

ffordd i uffern, am y bydd i'r rhan fwyaf a ymweithredant â'r cyfryw, etifeddu damnedigaeth dragywyddol, Diar. vii. 27. Y rhai hyny yn y *prif-ffyrdd* a'r *caeau* a wahoddwyd at Grist, a allant fod y Cenedloedd, neu y gwaethaf a'r gwaelaf o ddynion, Luc xiv. 13. *Arwyddion ffordd*, ydynt nodau a osodir i fynu ar fin y ffordd, neu groes-ffordd, i gyfarwyddo ymdeithwyr. I galonogi yr Iuddewon yn y gobaith am ddychweliad o Babilon, gorchymynwyd iddynt osod arwyddion ffordd i fynu ar eu gwaith yn myned iddi, i gyfarwyddo eu plant pa fodd i gael y ffordd yn ol, Jer. xxxi. 21.

FFORDDOLION, (*ffordd*) teithwyr, ymdeithwyr, Barn. v. 6. Job xxxi. 32. Jer. ix. 2. Galar. ii. 12. Ezec. xxxix. 14

FFORTUNATUS. Nid oes gwybodaeth ychwaneg am y gwr hwn, nag iddo, yn nghyd â Stephanas ac Achaicus, ddyfod i ymweled â Paul oddi wrth eglwys Corinth, a'i lonni yn fawr, 1 Cor. xvi. 15, 17.

FFOS—YDD, (*ffy-os*) clawdd, rŷch, rhigol, pydew, camlas. "Os y dall a dywys y dall, y ddau a syrthiant yn y *ffos*, Mat. xv. 14. sef, syrthiant i gyfeiliornadau, i ddrwgfucheddau, ac i uffern yn y diwedd.

FFREWYLL—AU—U, (*ffraw*) ffangell, chwip. "Pan ddel *ffrewyll llifeiriol*, ni ddaw attom ni." Esa xxviii. 15. Wrth *ffrewyll llifeiriol* deallwn byddoedd yn llifeirio, ac yn myned drosodd, Dan. xi. 10, y rhai ydynt yn *ffrewyllau* yn llaw yr Arglwydd, i ffiangellu plant dynion am eu hanwireddau. "Ac a'ch *ffrewyllant* chwi yn eu synagogau, Mat. x. 17. Yr oedd tri o swyddwyr yn perthyn i bob Synagog, y rhai a roddent farn ar achosion gwladol; ac yr oedd ffrewyllu yn un o'r cospedigaethau a roddent ar ddrwg weithredwyr, Mat. xxiii. 34. Act. xxii. 19. Yn y synagogau y derbyniodd Paul bum gwaith, ddeugain gwialennod onid un, 2 Cor. xi. 24.

FFRIO, crasu, poethi, golosgi, cras-boethi. "Y badell *ffrio*," 1 Cron. xxiii. 29. Mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *crasu*, yn Lef. vii. 12. Yr oedd gwaith yr offeiriaid yn *ffrio*, neu yn *crasu* y bwyd offrwm, yn gysgodol o ddyoddefiadau poethlyd yr Arglwydd Iesu, pan roddodd ei hun yn offrwm i Dduw drosom, Eph. v. 2.

FFROEN—AU—IAD (*ffraw*). Ffroenau ydynt dyllau y trwyn. Yn yr iaith Hebraeg, darluniir nwydau yr enaid oddi wrth eu heffeithiau ar y corph; felly yr un gair *Heb.* sy am y trwyn a'r ffroenau âg am ddigofaint; am fod y nwyd hwnnw, neu y diffyg o hono, yn effeithio ar y trwyn a'r ffroenau. Nid yn unig mae y ffroenau yn poethi, pan fyddo y dyn yn ddigofus, 2 Sam. xxii. 16, ond hefyd maent yn byrhau; am hyny y gelwir gwr digllawn, *ffroenau byrion*, sef, un yn wastadol yn byrhau ei ffroenau trwy ddigofaint, Diar. xiv. 17. Yn y gwrthwyneb, un yn *ymgadw rhag digofaint, diog i ddigofaint, hwyrfrydig i ddig*, a elwir *ffroenau hirion*; ac yn y golygiad hwn a briodolir i ddyn, Diar. xiv. 29, a xv. 18, a xvi. 32, a xix. 11.

FFROM—ASANT—ODD, (*ffro*) brochus, digllawn, cyffröus, sorr, anfoddog. "A *ffrommasant* yn ei herbyn hi," Marc xiv. 5. "Hwy a *ffromusant* yn eu calonau," Act. vii. 54. Yn y ddau fan, medd *Suicer*, y mae y gair yn nodi dirfawr boethder meddwl; ac yn dangos gymmaint oedd eu gelyniaeth yn erbyn Crist, ei efengyl, a'i bobl. Yr elvniaeth rhwng y ddwy had yw y peth cryfaf rhwng plant dynion ar y ddaear. Mae yn anghymmodol, yn greulon, ac yn farwol; yn gorchfygu holl resymau dynol, a holl gyiymau a serchiadau y natur ddynol; ac oni bai fod llaw orchfygol Duw ar hâd y sarph, a'i amddiffynfa o amgylch ei bobl, ni byddai modd i'r un ddaear eu cynnwys.

FFROSTIO, (*ffros*, codiad disymmwth) parchu peth yn fawr, a siarad yn helaeth am dano, 2 Cron. xxv. 19. Y mae y saint yn *ymffrostio* yn Nuw, neu yn *ymorfoleddu* yn Nghrist, pan fyddant yn llawenychu ynddo, yn ei brisio yn fawr, ac yn ei ganmol; ac yn cyhoeddi y pethau mawrion a wnaeth efe erddynt yn uchel, Salm xxxiv. 2. Esa. xlv. 25. Y mae pechaduriaid yn *ymorfoleddu yn Nuw* a'i gyfraith, pan fyddont yn ymffrostio fod Duw yn perthyn iddynt, a bod ei air gauddynt, a'u bod yn ufuddhau iddo, Rhuf. ii. 17, 23. *Ymffrostio* neu

orfoleddu ynom ein hunain, neu mewn drygioni, sydd bechadurus, 1 Cor. i. 29. Salm x. 3. *Na fyddwch ffrostwyr a chelwyddog yn erbyn y gwirionedd:* na chymmerwch arnoch, mewn modd balchaidd a thwyllodrus, fod genych wir ddoethineb a sêl dros Ddnw, pan nad ydynt genych, Iago iii. 14.

FFRWD, (*ffrw*) nant, cornant, afonig, cenllif, ffrydlif. *Ffrwd*, yn gyffelybiaethol, a arwydda yn aml, belaethrwydd, lluosogrwydd; rhyw beth yn ymdaenu yn helaeth ac yn gryf, ac yn myned drosodd yn anorchfygol. "Mi a estynaf iddi heddwch fel afon, a gogoniant y Cenedloedd fel *ffrwd* lifeiriol," Esa. lxvi. 12. Rheded cyñawnder fel *ffrwd* gref, yn anwrthwynebol, yn ffrwythloni, ac yn cyssuro yn mhob man lle y delo, ac anghyñawnder yn cael ei orchfygu yn nghalonau a bucheddau plant dynion, Amos v. 24.

FFRWST, brys, tra-ffull; terfysg, cythrwfl, Exod. xii. 11. Salm xxxi. 22, a xlviii. 5, a lxviii. 12.

FFRWYN, (*ffrwy*) genfa, attalfa. Yn ei lle, byddent weithiau yn arfer corden wedi ei thynnu trwy y ffroenau, i arwain a llywodraethu camelod, mulod, &c. Mae attalféydd rhagluniaeth nerthol Duw yn cael eu galw ei *ffrwyn* a'i *fach*. *Y ffrwyn yn ngenau y bobloedd, yn eu gyrru ar gyfeiliorn*, yw gwaith Duw yn goddef i'r Assyriaid gael eu camarwain gan eu cynghorion ffol, fel na byddai iddynt byth gyñawni eu hamcan bwriadol yn erbyn Jerusalem, Esa. xxxvii. 29, a xxx. 28. Y mae attalféydd cyfraith, dynoliaeth, a gwylder, yn cael eu galw yn *ffrwyn*; a'i *gollwng*, yw gweithredu heb ystyriaeth o un o'r rhai hyn, Job xxx. 11. *Gwaed yn dyfod hyd at ffrwyuau y meirch*, sydd yn arwyddo lladdfa arswydus yr Anghristiaid yn mrwydr Armagedon, neu o ddeutu yr amser hwnw, Dad. xiv. 20.

FFRWYTH, (*ffrwy*, ymegniad dwys) pa beth bynag a effeithir gan unrhyw achos. *Ffrwythau* y ddaear ydynt yn laswellt, ŷd, coed, llysiau; *ffrwythau* planhigion yw eu grawn, eu hafalau, &c.; *ffrwythau* anifeiliaid yw eu rhai bach. Y mae plant yn cael eu galw *ffrwyth* y corph, neu y bru, Deut. xxviii. 4. Salm cxxvii. 3. I ragflaenu niweid i goed ffrwythlawn, trwy dynnu eu ffrwyth yn rhy gynnar; i ddiogelu y goreu i'r Arglwydd ar y bedwaredd flwyddyn; i gadw coffadwriaeth am ddyfodiad pechod i mewn trwy y ffrwyth gwaharddedig; ac i ddysgu i ni ffrwyno ein chwantau; yr oedd yr Iuddewon i gyfrif ffrwythau eu coed yn afiau am dair blynedd, ac yn y bedwaredd flwyddyn yr oeddynt i fod yn eiddo i'r Arglwydd, Lef. xix. 23. Crist yw *ffrwyth y ddaear*; ei gorph dynol a darddodd o honi, Esa. iv. 2. Y *deuddeg rhyw ffrwyth* a ddwg efe, y rhai ydynt yn well nag aur, ydyw ei amrywiol fendithion o gyñawnder, heddwch, maddeuant, derbyniad, mabwysiad, sancteiddhad, cyssur a gogoniant tragywyddol, yn ddigon i holl lwythau ei Israel ffyddlon, Dad. xxii. 2. Can. ii. 3. Diar. viii. 19. *Ffrwythau yr Ysbryd* a gyfrifir, Gal. v. 22, 24. Eph. v. 9. Rhuf. i. 13. Col. i. 6.

FFUN, (*ffy-un*) anadl, chwyth, Gen. vii. 22.

FFUNUD, (*ffun*) dull, ffurf, llun, gosgedd, modd:—*pu ffunud*, sef, pa fodd; *yr un ffunud*, sef yr un dull, yr un lun, Deut. xii. 22. Esa. xxiv. 2. "Beth bynag y mae efe yn ei wneuthur, hyny hefyd y mae y Mab yr *un ffunud* yn ei wneuthur," Ioan v. 19. Nid oes neb a ddichon weithredu yr *un ffunud*, *yn gwbl yr un fath* â Duw, ond Duw ei hun; mae y Mab gan hyny yn Dduw gogyfuwch â'r Tad, o'r un hanfod a pherffeithrwydd. Mae y gair hwn, *yr un ffunud*, yn cadarnhau Duwdod Crist tu hwnt i bob dadl. Cawn orair arall hefyd yn adn. 23, yn profi yn gadarn yr un pwngc pwysfawr, sef, *fel*. "Fel yr anrhydeddai pawb y Mab, *fel* y maent yn anrhydeddu y Tad;" sef, gyda'r un parch, yn yr un modd, hyd eithaf eu gallnoedd, yn barhaus, ac yn ddiddarfod. Y cabledd mwyaf fyddai anrhydeddu neb *fel* Duw, ond Duw ei hun; gan hyny, mae y Mab yn Dduw *fel* y Tad, heb ddim gwahaniaeth hanfod na phriodoliaethau. Mae y gorair *felly*, yn adn. 21, â'r un effaith ac ystyr iddo: "Megys y mae y Tad yn cyfodi y meirw, ac yn eu bywhau, *felly* hefyd mae y Mab yn bywhau y rha a fynno." Gogyfuweb bersonau ydynt yn yr un han-

fod, ac am hyny yn gweithredu yn yr *un ffunud*.

FFURF, (*ffur*) llun, tebygoliaeth, Job iv. 16. Yr oedd Crist yn *ffurf* Duw, ac etto cymmerodd arno *agwedd* gwas; yr oedd efe yn wir Dduw, mewn natur yr un âg ef, ac yn ei berson yn gyffelyb i'w Dad; ond efe a ddaeth mewn gwirionedd yn gaethwas i'r gyfraith doredig yn ein lle, Phil. ii. 6, 7. *Ffurf ymadroddion iachus*, yw y corph neu gyfundraith o wirioneddau dwyfol, 2 Tim. i. 13. *Ffurf duwioldeb*, heb ei grym hi, yw ymddangosiad allanol o wir grefydd ac addoliad Duw, heb brofiad o allu achubol a gras Duw yn ein calonau, 2 Tim. iii. 5. *Ffurfio*, yw rhoddi bodoliaeth neu lun i beth, Gen. ii. 7.

FFURFAFEN (*ffurf-men.*) Y gair Hebrëig *raccah*, a arwydda peth wedi ei ledu allan; fel y lledir arian yn ddalenau, neu megys canadlen. Y mae yn cynnwys nid yn unig yr awyrgylch, neu y corph o AWYR yn yr hwn yr ydym yn anadlu, yr eheda yr adar, ac y symmud y cymmylau; ond hefyd yr wybren neu yr awyr honno yn mha un y gosodwyd yr haul, y lloer, a'r sêr, gan Dduw. Y mae bro isaf y ffurfafen yn wasanaethgar er gwahanu dwfr y cymmylau uwchlaw iddi, oddi wrth ddwfr y môr islaw iddi. Gen. i. 6, 7, 14, 20. *Y ffurfafen uwch ben* y cerubiaid, a than orseddfainge Duw, bedd yn ymddangos yn debyg i'r awyr, ac a allai fod yn arwyddo yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist, Ezec. i. 22—26, a x. 2.

FFWRN, (*ffwr*) a arwydda, (1.) Tân mawr i doddi a phuro metteloedd; neu i losgi drwg-weithredwyr, Gen. xix. 28. Dan. iii. 6—23. (2.) Le o gaethiwed creulawn a phoenus; felly y mae yr Aipht yn cael ei galw *ffwrn*, neu *ffwrn haiarn* i'r Hebreaid, Deut. iv. 20. Jer. xi. 4. Esa. xlviii. 10. (3.) Barnedigaethau a chystuddiau tra phoenus a blinderus, trwy ba rai y profir ac y coethir y cyfiawnion oddi wrth bechod, ac y difäir yr annuwiolion fel sorod, Esa. xxxi. 9, a xlviii. 10. (4.) Cospedigaethau ofnadwy a phoenus yr annuwiolion yn uffern, Mat. xiii. 42.

FFYDD. O'r holl eiriau a'r ymadroddion a ddeuant dan ein sylw yn y gwaith hwn, nid ymddengys un mwy pwysig na'r hwn yr ydym yn myned yn ei gylch yn awr. Er yr holl wawd a'r diystyrwch y mae yn agored iddynt oddi wrth y doethion a'r deallus, y mae y FFYDD ddiffuant ac anllygredig, yn erthygl dra phwysig yn y dadguddiad dwyfol. "Heb *ffydd* anmhosibl yw rhyngu bodd Duw," Heb. xi. 6. "Yn wir, yn wir," medd yr Arglwydd Iesu, "yr hwn sydd yn *credu* ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol," Ioan vi. 47. "Y neb a *gredo* a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo a gondemnir," Marc xvi. 16. Yr ydym yn ddigon sicr, "nad oes ffydd gan bawb," 2 Thes. iii. 2; a "phan ddêl Mab y dyn, y bydd ffydd yn brin iawn ar y ddaear." Am hyny, gan fod ffydd yn werthfawr, Luc xviii. 8, îe, yn berl o uchel bris, esgusodir ni wrth chwilio, gyda mwy na manylrwydd cyffredin, yr hanes ysgrythyrol am FFYDD. *Ffydd* a arwydda yn briodol (1.) Crediniaeth o'r gwirionedd, a chydsyniad âg ef, ar awdurdod un arall, ac y mae yn wrthwyneb i *amheuaeth*, Mat. xiv. 31. Y mae y ffydd honno a olyga bethau dwyfol naill ai yn (1.) *Hanesiol*, trwy ba un yr ydym yn cydsynio â gwirioneddau y dadguddiad dwyfol, fel math o dystiolaeth sicr ac anfethedig; mae hon pan y byddo heb weithredoedd yn *farw*, Iago ii. 17; o'r fath hyn yw ffydd y cythreuliaid, Iago ii. 19. (2.) Ffydd *amserol*, trwy ba un, gyda rhyw radd o serch, yr ydym yn derbyn gwirioneddau dwyfol, megys yn sicr a da; ond yn fuan yn colli yr holl argraffiad drachefn, am na wreiddiasant erioed yn y galon; y cyfryw ydyw ffydd gwrandawyr yr efengyl, y rhai a gyffelybir i dir creigiog, Mat. xi. 24. (3.) Ffydd i weithredu *gwyrthiau*, trwy ba un, o herwydd rhyw argraffiad dwyfol, y dygir un i gredu y gweithreda Duw y fath wyrth neillduol trwyddo ef fel moddion, neu ar ei gorph ef: *ffydd i symmud mynyddoedd*, sydd o'r fath gyntaf; a ffydd i *gael ein hiachâu*, sydd o'r fath olaf, 1 Cor. xiii. 2. Act. xiv. 9. (4.) Ffydd *achubol* yw y gynneddf, yr egwyddor, neu y rodd raslawn honno, a weithir yn y galon gan Ysbryd Duw, yn cymmeryd o bethau Crist, ac yn eu dangos i ni, trwy ba

un yr ydym yn derbyn ac yn ymorphwys ar Grist yn unig am iachawdwriaeth, fel y mae yn cael ei gynnyg i ni yn yr efengyl. Trwy hon yr ydym, ar dystiolaeth cyfraith Duw, yn credu ein bod yn hollol bechadurus, colledig, a dinystriol, heb Iesu Grist; ar dystiolaeth ei efengyl yn credu fod Crist, bob ffordd, yn ddigonol ac addas i'n hachub; ei fod yn cael ei gynnyg yn ddidwyll i ni, fel dynion colledig a phechadurus; a bod gennym trwy drefniad ei Dad, a'i gynygiad o hono ei hun, hawl ddwyfol i'w gymmeryd a'i ddefnyddio at holl ddybenion ein hiachawdwriaeth; ac felly ymddiried ynddo ac ymorphwys arno ef a'i gyfnawnder, fel sylfaen iachawdwriaeth i ni yn neilduol. Trwy y ffydd hon yr unir ni â'i berson ef, fel ein pen a'n priod ysbrydol, ac y preswylia efe yn ein calonau; y llesheir ni trwy ei gyfnawnder a'i gyfiawnder ef; a thrwy iawn ddefnydd o honi y deuwn yn *hyf* ger bron Duw, ac yn fywiog yn ei wasanaeth, Eph. iii. 7. Gal. ii. 20. Trwy y ffydd hon y *cyfiawnheir* ac yr *achubir* ni, am ein bod yn derbyn, yn addewidion yr efengyl, Crist a'i gyfiawnder, er cyfiawniad pob iachawdwriaeth, Rhuf. v. 1. Eph. ii. 8. Y mae yn *puro y galon*, trwy dderbyn a chymhwyso gwaed, Ysbryd, a gras Iesu yn gyfiwynedig yn yr addewid, Act. xv. 9; y mae yn gweithio *trwy gariad;* yn cynhyrfu at Iesu Grist, ac yn tynnu rhinwedd oddi wrtho, er cyfiawniad pob gair a gweithred dda, Gal. v. 6. Hon yw *ffydd etholedigion* Duw, am nad oes neb ond hwy yn cael eu gwneud yn gyfranogion o honi, Tit. i. 1; a hwy yn unig ydynt *yn y ffydd*, 2 Cor. xiii. 5, ac o'r *ffydd*, hyny yw, yn feddiannol arni, ac yn gweithredu yn ol ei hegwyddorion hi, Gal. iii. 7. Ffydd, fel greddf neu egwyddor sydd yn cael ei phlanu yn mhob plentyn adgenedlig, hyd yn nod er nad allai gair Duw fod yn foddion o'i adgenedliad, ac nad allant hwythau weithredu ffydd arno, am ei fod yn anadnabyddus iddynt; ac fel greddf neu egwyddor, dywedir ei bod i'w *chael* genym a'i chadw, 2 Petr. i. 1. 2 Tim. iv. 7; ei bod yn *aros ac yn trigo* ynom, 1 Cor. xiii. 13. 1 Tim. i. 5. Eph. iii. 17; ei bod yn *cynnyddu*, Luc xvii. 5. 2 Cor. x. 15; ei bod yn *gweithio*, Gal. v. 6. Iago. ii. 22.

2. Y mae *ffydd* yn cael ei chymmeryd am y gwrthddrych a greda ffydd; pa un bynag ai athrawiaethau yr efengyl yn gyffredinol; y ffydd hon a *anrheithiodd* Paul unwaith, neu a erlidiodd, ac wedi hyny a *bregethodd*, Gal. i. 23. Act. xxiv. 24; neu addewidion Duw am y Messiah a'i ras, yn mha rai yr oedd ei ffyddlondeb yn cael ei wystlo am gyflawniad; *hon* nis gall anghrediniaeth dynion ei *gwneuthur yn ofer* neu yn ddieffaith, Rhuf. iii. 3; neu Crist, sylwedd yr efengyl a'r addewidion. Ei waith ef yn dyfod ac yn cyflawni pob cyfiawnder a ddygodd rydd-did oddi wrth y gyfraith seremoniol i mewn; a'i waith yn dyfod i'r galon sydd yn rhyddhau oddi wrth gaethiwed i'r gyfraith fel cyfammod, Gal. iii. 23, a *chredu* yn ei gyfiawnder ef, yr hwn sydd yn gyfrifedig i ni, a gyfiawnhâ ein personau ger bron Duw, fel barnwr; o herwydd cyflawnder heb weithredoedd yw, ac am hyny nid ein greddf ni, neu ein gweithred o gredu, Rhuf. iv. 3, 5, 6.

3. *Ffydd* a arwydda proffes gyhoeddus o wirioneddau yr efengyl, yn tarddu oddi wrth grediniaeth, ac ymddiried cadarn ynddynt. Yn yr ystyr hwn, yr oedd *ffydd* y Cristionogion Rhufeinaidd yn gyhoeddus trwy yr holl fyd, Rhuf. i. 8.

4. Barn neilduol am gyfreithlondeb neu anghyfreithlondeb rhyw beth dibwys yuddo ei hun. Hon y mae un i'w chadw iddo ei hun, heb fiino yr eglwys yn ei chylch; ac heb y cyfryw dyb am gyfreithlondeb pethau dibwys y mae dyn yn pechu wrth ei harfer, Rhuf. xiv. 22, 23.

5. Y mae yn arwyddo ffyddlondeb i gyflawni addewidion neu ymddiried. Yr Hebreaid oeddynt bobl yn mha rai nid oedd *ffyddlondeb*; ni chredent air Duw wrthynt, ac nid oeddynt yn ofalus i gyflawni eu haddunedau a'u rhwymedigaethau iddo ef, Deut. xxxii. 20. Y mae cyflawnder Duw yn cael ei ddadguddio o *ffydd i ffydd;* o addewid ffyddlawn Duw, i'r gras o ffydd yn ein calonau, i'w dderbyn trwy hyny; o ffydd saint yr Hen Destament, i eddo y rhai dan y Newydd; o un radd a gweithred o ffydd i un arall; neu onid ellid cyfleithu y geiriau, *Cyfiawnder Duw*

trwy ffydd u ddadguddir i ffydd? Rhuf. i. 17.

FFYDDLAWN, a briodolir mewn modd neilltuol i'r rhai a broffesant ac a ymddangosant eu bod o'r *ffydd;* felly darllenwn am frodyr *ffyddlawn,* Col. i. 2; ond y mae yn cael ei briodoli yn benaf i awdwr a pherffeithydd y ffydd; yr hwn sydd yn archoffeiriad ffyddlawn, Heb. xi. 17; yn dyst ffyddlawn, Dad. i. 5, a iii. 14. Efe, mewn modd arddercbog, ydyw y gwr ffyddlawn aml ei fendithion, Diar. xxviii. 20. Y rhai hyny a weithredant ac a ddaliant broffes y ffydd yn sicr, ydynt hefyd yn *ffyddlawn;* Moses a fu ffyddlawn megys gwas, Heb. iii. 2, hyny yw, efe a weithredoedd yn ffyddlawn trwy draddodi i eglwys yr Hen Destament vr hyn oll a ddywedodd yr Arglwydd wrtho; yn yr un modd, y swyddogion hyny ac ereill yn yr eglwys, y rhai a weithredent yn ffyddlawn mewn unrhyw oruchwyliaeth a elwid yn *ffyddlawn:* felly Sylvanus ac Onesimus a elwir yn frodyr *ffyddlawn,* Col. iv. 9, a i. Petr. v. 12. Bu Antipas yn ferthyr *ffyddlawn,* efe a ddaliodd y ffydd hyd y diwedd, Dad. ii. 13, ac y mae yr holl dyrfa waredigol, y rhai a gaulynant yr oen, yn *ffyddlawn,* Dad. xvii. 14. Y mae yr efengyl, mewn modd ardderchog, yn cael ei galw yn AIR FFYDDLAWN, gan ei bod yn air iddo ef yr hwn nid all fod yn gelwyddog, yn wrthwyneb i bob chwedl gyfrwys, 1 Tim. i. 15; ac am hyny llefarir am ffyddlondeb Duw, fel yn gyssylltiedig â sicrwydd y gair hwnw, megys wedi cael ei sefydlu yn y nefoedd, Salm lxxxix. 1, 2. Y mae addoliad yr eglwys yn cael ei alw yn fynegiad o'r ffyddlondeb dwyfol, Salm xcii. 1.

FFYNNON (*ffwn*). Yn y parthau deheuol o wlad Canaan, yn gystal â'r rhan fwyaf o Arabia, ac mewn amryw fanau yn Affrica, &c. yr oedd yn anhawdd dyfod o hyd i ddwfr ffynnon, o herwydd hyny y dygwyddodd cymmaint o ymrysonau yn eu cylch, Gen, xxi. a xxvi. Exod. ii. Yn nyffryn Baca, ymddengys nad oedd ffynnonau, ond llynnau a ddalient ddwfr gwlaw, Salm lxxxiv. Y ffynnonau mwyaf enwog y darllenwn am danynt yn yr ysgrythyrau oeddynt un Abraham yn Beer-seba; un Hagar yn Beerlahai-roi; ffynnonau Isaac, sef Sitnah, Ezec, a Rehoboth; un Laban, yn Haran; un Jacob, gerllaw Sechem, Gen. xvi, a xxi, a xxvi. Ioaniv. 6; rhai Elim, Exod. xv. 27; ffynnon Beer, o du y dwyrain i'r Môr Marw, Num. xxi. 16, 17, 18; un Bethlehem, 1 Cron. xi. 17, 18; *ffynnon y gerddi,* tebygol, wrth droed mynydd Libanus. o ddeutu chwe milltir o du y gogledd i Tripoli; a *ffynnon y dyfroedd byw,* o ddeutu milltir o du y dehau i Tyrus, Can. iv. 15; yn nghyd â ffynnon Gihon ac Enrogel yn Jerusalem; a ffynnod Samson, Enhaccore, Barn. xv. 19. 1 Bren. i. 9, 38. Cloddiodd Uzziah lawer iawn o ffynnonau, 2 Cron. xxvi. 10. Y *ffynnonau uchaf* a'r *ffynnonau isaf,* y rhai a roddodd Caleb i'w ferched, oeddynt ddau faes yn llawn ffynnonau, Barn. i. 15. Y mae yr un honno a elwir *ffynnon* Joseph yn yr Aipht, yn nghylch 276 o droedfeddi neu 49 gwrhyd o ddyfnder; a'r dwfr yn cael ei dynnu i fynu â math o beiriant tra chywrain a weithir gan ychain, rhai o honynt yn mhell islaw wyneb y ddaear, a'r lleill arni.

O'r holl gyffelybiaethau trwy ba rai y cysgodwyd person a gwaith Crist gynt, nid oedd un yn fwy nodedig na'r ffynnonau dwfr: ymddiddan ein Harglwydd â'r wraig o Samaria a rydd oleuni mawr ar y pwnge hwn, Oddi wrth yr hyn a gymmerodd le rhyngddynt, gallwn ddysgu fod rhoddiad ffynnonau yn rhodd werthfawr, ac yn cyfeirio at rodd Duw, sef Iesu Grist, y wir ffynnon o'r hon yn unig y mae y dwfr sydd yn tarddu i fywyd tragywyddol, yn llifo. Rhagfynegwyd am dano gan y prophwydi fel y *ffynnon o ddyfroedd bywiol;* a cheryddir anghrediniaeth yr Iuddewon, a'u balchder hunan-gyfiawn, dan y gyffelybiaeth o'u bod yn gadael y *ffynnon fawr* ac *annyhysbyddadwy* hon, ac yn cloddio iddynt eu hunain bydewau toredig a gweigion, na ddaliant ddwfr, Jer. ii. 13. Y mae ffynnon bob amser yn meddu cyflawnder ynddi ei hun, ni fwriedir pydew ond i gynnwys yr hyn a roddir ynddo: y mae rhybudd y prophwyd yn nerthol, ac yn gymmwysiadol at hunan-gyfiawnder o bob math, ac yn mhob oes. Y mae

Iesu Grist yn cael ei addoli fel *ffynnon* y bywyd, Salm xxxvi. 9, a gellir darllain Salm lxxxiv. 5, 6, yn gywir, "Gwyn ei fyd y dyn y mae ei gadernid *ynot*," (sef yn Iesu Grist, Brenin a Duw yr eglwys) "a'th ffyrdd yn ei galon." Ffyrdd Crist yn ei iachawdwriaeth fawr yn unig a allant gynnal yr eglwys yn ei thaith; "y rhai yn myned trwy ddyffryn Baca, a'i gwnant *Ef* yn ffynnon iddynt; y gwlaw hefyd a leinw y llynnau." Y mae hefyd gloffni mawr yn nghyfieithiad, Can. iv. 15; yn y tair adnod flaenorol, buasai Crist yn clodfori ei eglwys, fel gardd *gauedig* i'r hon nis gallai un creadur gwyllt neu ddiinystriol fyned; fel ffynnon *seliedig*, dyfrodd pa un nis gallai neb eu halogi; y canlyniad oedd hyn, y dygai ei ardd bob math o ffrwythau hyfryd: mewn attebiad i'r holl ganmoliaethau hyn oddi wrth ei Harglwydd, y mae hi yn torri allan mewn bloedd orfoleddus, "*O tydi* ffynnon y gerddi! *O tydi* ffynnon y dyfroedd byw!" &c. &c. gan weddio am ei dirion ddylanwadau, fel yr unig ffynnonell o unrhyw beth hyfryd o'i hamgylch. Y mae yn aros fel gobaith gogoneddus ei saint, "I'r hwn sydd sychedig, y rhoddaf o ffynnon dwfr y bywyd yn rhad," Dad. xxi. 6.

Yr oedd y golchiadau dan y gyfraith yn gysgodau o'r golchiad a all dwfr y ffynnon hon yn unig ei effeithio. Nis gellir cael dwfr y ffynnon hon ond yn yr ysgrythyrau, am hyny dywedir fod Crist yn ein sancteiddio ac yn ei glanhau ni â'r olchfâ ddwfr *trwy y gair*, Eph. v. 26. Rhagfynegir yn Joel iii. 18, "y *daw* ffynnon allan o dŷ yr Arglwydd, ac a ddyfrha ddyffryn Sittim (neu y gwrthgilwyr)."

Y mae *ffynnonau* yn cael eu cymmeryd am blant neu hiliogaeth, Diar. v. 16. "Tardded dy ffynnonau allan:" bydded eich hiliogaeth yn lluosog. Yn y fan hon, rhoddir *ffynnonau* am *ffrydiau* neu *afonydd* yn tarddu allan o honynt, trwy draws-enwad o'r achos yn lle yr effaith. Yn yr un ystyr yr arferir ef yn Deut. xxxii. 28. "*Ffynnon* Jacob a fydd mewn tir ŷd a gwin;" hyny yw, y bobl a ddeilliant oddi wrth Jacob. Gellir rhoddi yr enw o *ffynnonau* yn fwy cymmwys i blant, am eu bod yn *afonydd* gyda golwg ar eu rhieni, felly, pan dyfont i fynu, y maent hwythau hefyd yn dyfod yn *ffynnonau* i'w plant. Yn Diar. v. 18, rhoddir *ffynnon* am wraig. "Bydded dy ffynnon yn fendigedig." Bendithier dy wraig â phlant; o herwydd fod dieppiledd yn cael ei gyfrif yn felldith a gwaradwydd yn mhlith yr Israeliaid; neu bydded hi yn fendith a chyssur i ti, ac nid yn felldith a magl, fel y bydd puttain: neu gwneler hi yn ddedwydd trwy fwynhad o'th gymdeithas, a'th ymlyniad wrthi yn unig.

Wrth *ffynnonell* a *ffynnon* yn Hos. xiii. 15, y meddylir cyflwr llwyddiannus, a'r holl fendithion a ymddangosant i fod yn barhaus; "Ei ffynnonell a sych, a'i ffynnon a â yn hesp." Y mae *ffynnon* yn cael ei chymmeryd am gylla deheuol y galon, yr hwn yw ffynnonell bywyd, a'r ysbrydoedd bywydol, Preg. xii. 6. "Cyn torri y piser gerllaw y ffynnon." Gellir dywedyd hyn pan na bydd y gwythienau yn dychwelyd y gwaed i'r galon, ond yn goddef iddo sefyll yn llonydd ac oeri o'n mewn; o ba le y deillia yr oerder hwnw yn y rhanau allanol, yr hwn sydd yn rhagflaenor agos o farwolaeth. *Ffynnonell y gwaed*, ydyw gwaed dyn a afieshawyd gan gollied o waed, pa un bynag ai naturiol neu beidio, Lef. xx. 18. Marc v. 29.

FFYNNIDWYDD. Edr. *Ffawydd*. "Ein distiau sydd *ffynnidwydd*," Can. i. 17. Anhawdd yw penderfynu pa bren a feddylir wrth y gair *Heb. bereth* arferedig yn unig yn y fan hon: y *Cypress-wydden*, medd rhai. Wrth y tŷ, yn ddiammau, mae i ni ddeall eglwys Duw; mae y tŷ hwn yn mhob ystyr wedi ei wneuthur o'r defnyddiau goreu, a mwyaf parhaus, gan ei fod yn adeiladaeth dragywyddol, ac i fod yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd, Eph. ii. 22.

FFYNNU, (*ffwn*) llwyddo, tyccio. Y bobl a adwaenant eu Duw a fyddant gryfion, ac a *ffynant*, Dan. xi. 32. Y mae gwir adnabyddiaeth o Dduw yn effeithio yn rhyfedd ar y rhai sydd yn ei meddiannu: mae golwg ar ei fawredd a'i ddaioni, ei anfeidrol gariad a'i ddoethineb yn nhrefn yr iachawdwriaeth, yn eu

cryfhau, ac maent yn cynnyddu fel lloi pasgedig. Mal. vi. 3.

FFYRLING, oddi wrth *fourthing* neu *fourthling*, a lygrwyd i *farthing*, sef y *bedwaredd* ran o geiniog Lloegr, yr arian bath lleiaf yn y deyrnas hon yn bresennol. Rhydd ein cyfieithwyr ni y Cymraeg hwn i *Assarius a Quadrans;* ond yr oedd y rhai hyn yn wahanol; yr assarius oedd y ddegfed ran o geiniog Rufeinaidd, ac yn werth tair ffyrling o'n harian ni, Mat. x. 29. Y *quadrans* oedd yr un â dwy hatling, ac felly y mae o ddeutu y bummed ran o'n ffyrling ni, Marc xii. 42.

G

GAAL, *(ffieidd-dra)* mab Ebed, Canaanead, tebygol, ac hwyrach yn un o hiliogaeth Hamor, hen frenin Sichem. Pan ddechreuodd pobl y ddinas honno fagu angharíad at Abimelech, daeth Gaal ac a breswyliodd yn eu plith, ac a ychwanegodd yr amryson. Dan ei gyfarwyddyd ef, anrheithiasant y meusydd a'r gwinllanoedd cyfagos, ac, yn nghanol eu cyfeddach, a felldithiasant Abimelech. Gaal, er ennyn eu cynddaredd, a ddywedodd, Pa fath ynfydyn ydyw yr Abimelech hwn, gordderchfab Hebrëig, fel y gwasanaethem ni ef? Gwnawn i ni un o hiliogaeth Hamor, tad y ddinas, yn ben arnom. Efe, yn drahaus, a ddymunodd arnynt i'w wneuthur ef yn gadben, ac y diorseddai efe Abimelech yn ebrwydd. Zebul, rhaglaw Abimelech yn y ddinas, a hysbysodd iddo yr holl bethau hyn. Bore dranoeth, efe a ymddangosodd gyda llu o wyr ar y bryniau cyfagos. Dros ennyd, Zebul a fwriodd hud ar Gaal, fel pe cymmerai efe benau y mynyddoedd yn lle gwyr; ond pan nad allai ragrithio yn hwy efe a edliwiodd iddo, ac a orchymynodd am fyned o hono ef, yr hwn a ymffrostiasai yn ddiweddar am ei oruchafiaeth, ac ymladd âg Abimelec. Gwedi gorchfygu Gaal a'i gyfeillion, anfonodd Zebul hwynt allan o Sichem, Barn. ix. 26—41.

GAAS, *(cynnwrf)* mynydd yn rhandir Ephraim, o du y dehau i Timnath-Serah. Wrth droed y mynydd hwn, tebygol, yr oedd *afon* neu *ddyffryn Gaas*, lle y ganed Hidai neu Hurai, un o gedyrn Dafydd, Jos. xxiv. 30. 2 Sam. xxiv. 30. 1 Cron. xi. 33.

GABBATHA, *(uchel)* rhyw fan yn nadleudy Pilat, o ba le y cyhoeddodd efe farn marwolaeth ar ein Hiachawdwr. Tebygol mai eisteddfa neu rodfa lled dderchafedig oedd, wedi ei phalmantu â cherrig; ac, o herwydd hyny, a elwid y *palmant*, Ioan xix. 13.

GABRIEL, *(Duw yw fy nerth)* un o angelion penaf Duw. Am dair wythnos efe a safodd yn erbyn tywysog Persia; naill ai rhyw angel drwg oedd yn llŷs Persia, neu yn hytrach brenin Persia, cynghorion pa un yn erbyn yr Iuddewon a wrthwynebodd ac a ddiddymodd efe; ac yn y cyfamser, a brysurodd ddinystr Persia, Dan. x. 13, 20. Efe a eglurodd i Daniel ei weledigaethau o'r pedwar anifel, o'r hwrdd a'r afr; efe a fynegodd amser ymddangosiad ein Hiachawdwr ar y ddaear, ei farwolaeth, a'r canlyniadau arswydus o hono i'r genedl Iuddewig. Efe a hysbysodd iddo ddinystr amherodraeth Persia; a'r rhyfeloedd rhwng breninoedd Groegaidd yr Aipht a Syria; a chyfyngder yr Iuddewon dan Antiochus Epiphanes; a chyfodiad a chwymp Anghrist; ac adfyd presennol, yn nghyd âg adferiad dyfodol yr Iuddewon, Dan. vii—xii. Efe a fynegodd i Zecharias am enedigaeth ei fab, Ioan Fedyddiwr, ac am ei gosp yntau, sef mudaniaeth, nes y genid y plentyn. Efe, wedi hyny, a fynegodd i Mair y Forwyn am ei beichiogiad ar y Messiah, yn nghyd â'i enedigaeth; ac a ddywedodd wrthi, fod ei chares Elizabeth yn awr yn y chwechfed mis o'i beichiogrwydd. Efe a annogodd Joseph i gymmeryd ei wraig, i ffoi i'r Aipht, ac iddychwelyd oddi yno wedi marwolaeth Herod, Luc i. Mat. i, a ii.

GADAEL *(ga*, didoliad) 1. Ymadaw oddi wrth, Job xiv. 14; peidio preswylio gyda, Gen. ii. 24; peidio ymhelaethu yn mhellach ar, Heb. vi. 1. (2.) Goddef i aros ar ol, Exod. xvi. 19. Lef. vii. 15. Joel ii. 14. Dichon Duw *adael* ei bobl fel ag i dynnu ei bresennoldeb teimladwy a'i gyssuro ymaith dros amser; ond ni *âd* efe hwynt, fel ag i dorri ei berthynas gyfammodol â hwynt, fel eu Duw, eu Hiachawdwr, a'u rhan yn dra-

gywydd; neu, fel ag i attal oddi wrthynt yr adgyflenwadau parhaus o ddylanwadau graslawn sydd yn angenrheidiol er cynnal bodoliaeth eu hanian newydd, Salm cxli. 8. Heb. xiii. 5. Mae rhieni wrth farw yn *gadael eu hamddifaid* i Ddiuw, pan y maent, trwy weddi daer y ffydd, yn eu gorchymyn i'w ofal, ac yn ymddiried yn ei addewid, y bydd iddo eu cadw, eu cyfarwyddo, a darparu erddynt, Jer. xlix. 11.

GAD, mab Zilpah, llaw-forwyn Lea; a alwyd felly, i arwyddocáu fod *tyrfa*, neu *ffyniant*, yn dyfod, Gen. xxx. 9, 10, 11. Yr oedd iddo saith o feibion, sef Zephion, Haggai, Suni, Esbon, Eri, Arodi, ac Areli; y rhai oeddynt oll yn dadau tylwythau lluosog, Gen. xlvi. 16. Num. xxvi. 15—18. Pan ddaeth y llwyth hwn allan o'r Aipht, dan eu tywysog Eliasaph mab Deuel, yr oedd eu rhifedi yn 45,650, ond lleihasant 5,150 yn yr anialwch. Eu hyspiwr i edrych ansawdd gwlad yr addewid, oedd Geuel mab Machi, Num. xiii. 15. Hwy, yn nghyd â'r Reubeniaid a erfyniasant am eu hetifeddiaeth gan Moses, ac a'i cawsant ganddo, o du y dwyrain i'r Iorddonen, rhwng y Reubeniaid yn y dehau, a'r Manasseaid yn y gogledd, Deut. xxxii, a xxxiii. 20, 21. Eu rhyfelwyr a gynnorthwyasant i orescyn gwlad Canaan, o du y gorllewin i'r Iorddonen; ac oddi ar fynydd Ebal, rhoddasant eu cydsyniad i felldithion y gyfraith, Jos. i. 12, a iv. 12. Deut. xxvii. 13. Yn mhen saith mlynedd, dychwelasant i'w cartref-leoedd, Jos. xxii. Un ar ddeg o gadpeniaid o'r llwyth hwn, gan nofio dros yr Iorddonen, a hi wedi llifo dros ei holl genlanau, a ddaethant at Dafydd i'r amddiffynfa, ac a orchfygasant rai Arabiaid neu Philistiaid a gawsent yn nyffryn yr Iorddonen; ac yr oedd lluaws mawr o honynt yn bresennol pan goronwyd Dafydd i fod yn frenin ar Israel, 1 Cron. xii. 8—15, 37, 38. Yr oedd sefyllfa y Gadiaid yn eu gosod yn agored i lawer o flinder oddi wrth y Syriaid a'r Arabiaid; ond yn y diwedd, hwy a gawsant y goreu yn fynych. O ddeutu amser Jeroboam yr ail, torasant ymaith lu o'r Hagariaid Arabaidd, a meddiannasant eu hanifeiliaid a'u gwlad. Pan drosglwyddodd Tiglath-Pileser y Gadiaid a'r Reubeniaid i Assyria, yr Ammoniaid a'r Moabiaid a feddiannasant eu gwlad, 1 Cron. vi. 18—26. Jer. xlix. 1, a xlviii. 18—24.

2. *Gad*, prophwyd a fu yn gydymmaith i Dafydd yn ei erlidigaeth gan Saul, ac ar oi hyny. Yn y flwyddyn gyntaf o alltudiaeth Dafydd, rhybuddiodd Gad ef oddi wrth Dduw i ddychwelyd o wlad Moab i wlad Judah, 1 Sam. xxii. 5. Pan rifodd Dafydd y bobl, Gad, yn enw yr Arglwydd, a roddodd iddo ei ddewisiad o dair barn, sef newyn, haint, neu ryfel; a phan ddewisasai Dafydd yr haint, a thrwy weddi ostyngedig, a gawsai ei byrhau, Gad, trwy gyfarwyddyd dwyfol, a orchymynodd iddo adeiladu allor yn llawr-dyrnu Arafnah y Jebusiad. Ysgrifenodd *Gad* hanes bywyd Dafydd, 2 Sam. xxiv. 1 Cron. xxi, a xxix. 29. Gad oedd hefyd yr enw a roddid i wlad y Gadiaid, ac i'r afon Arnon yr hon oedd yn rhedeg trwy ran o honi, 1 Sam. xiii. 7. 2 Sam. xxiv. 5.

GADARA, *(cauedig)* dinas enwog, prif-ddinas Perea, medd *Joseph-us*, yn nghylch wyth militir o du y dwyrain i for Tiberias; ac ynddi y gosododdd Pompey, o ddeutu A. M. 3948, un o'r pum prif-lys Iuddewig i fynu. Yr oedd y Gadareniaid a breswylient ynddi, cymmysg o Iuddewon a Chenedloedd, yn porthi llawer iawn o foch; neu o herwydd eu bod yn byw ar gyffiniau y Cenedloedd, porthent hwy i'w gwerthu i'r Cenedloedd. Pan oddefodd Crist, wrth iachâu dau ddieflig, i'r diafliaid fyned i'w cenfaint foch, hwy a attolygasant ar ein Hiachawdwr ymadael â'u gwlad; ac, yn mhen o ddeutu 40 mlynedd wedi hyny, llosgwyd eu dinas yn ulw gan y Rhufeiniaid, Marc v. Luc viii. 26. Mathew yn pen. viii. 28, a eilw hon gwlad y *Gergasiaid*, o herwydd mai Gergasa oedd enw y wlad lle y safai Gadara, neu ei bod yn ddinas agos i Gadara; ac i Grist iachâu y ddau ddieflig ar y terfyn rhwng y ddwy, neu mewn lle cyffredin i'r naill fel y llall.

GAFR, *(gaf)* creadur pedwartroediog, deadellog, yn lled debyg i'r ddafad o ran maintioli, ond â chyrn ceuol a sythion iddi, yn plygu ychydig tuag yn ol; ac yn orchuddiedig

à blew llwyd-dduon, y rhai a nyddir, ac a wneir yn frethyn mewn rhai gwledydd dwyreiniol, y fath ag oedd yn un o lenni y babell. Y mae y geifr hefyd yn hynod o herwydd eu barf hir; maent yn chwannog iawn i anlladrwydd; ac weithiau yn arogli yn drwm iawn: bwyttânt seirph a llysiau gwenwynig: ond y mae eu llaeth yn feddyginiaethol iawn i rai a fyddant yn weinion a darfodedig: maent yn lled niweidiol i ydau a phlanhigion: a'u cnoad a ddifwyna dwf coed: dywedir y gwna eu gwaed lanhau haiarn rhydlyd, ac y meddalha y maen adamant. Y mae i'r geifr gwylltion yn fynych fwy cyrn, ac y maent mor gyflym, fel y gallant redeg ar ochrau creigiau, a llamu o'r naill i'r llall. Dan y gyfraith, yr oedd y geifr yn lân, ac yn cael eu harfer yn fynych yn lle oen; ond yr oeddynt yn cael eu harfer yn neilldnol yn yr aberthau dros bechod, Num. vii, a xxix. Onid oedd y geifr aberthedig hyn an arddangos Iesu, fel, yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, yn Feclinïydd dros y troseddwyr, ac wedi ei gyfrif gyda hwynt, yn cael ei aberthu drosom ni?

Tywysogion a gwyr mawrion a gyffelybir i *fychod geifr*, sydd â'u cerddediad yn hardd iawn: mae eu sefyllfa yn gofyn iddynt fyned o flaen ereill, a'u llwodraethu mewn modd rheolaidd: ond och, mor fynych y maent yn anniwair, yn halogedig, yn anhyfryd, ac yn ddrygionus! Zech. x. 3. Jer. l. 8. Y Groegiaid, y rhai a elwid hefyd Egeaid, hyny yw *pobl afraidd*, a gyffelybir i *fwch geifr* âg un corn; yr hwn, beb gyflwrdd â'r ddaear, a redodd yn erbyn, ac a sathrodd hwrdd corniog. Dan Alexander eu pennaeth, hwy, gyda chyflymder anghredadwy, a deithiasant i Asia, ac a ddadymchwelasant amherodraeth y Persiaid, Dan. viii. 5. Cythreuliaid a dynion annuwiol a gyffelybir i *eifr*; mor wael, niweidiol, a chwannog i ddringo mewn balchder a hunan-dyb ydynt hwy! Lef. xvii. 7, yn yr *Heb.* 2 Cron. xi. 15, yn yr *Heb.* Mat. xxv. 33.

GAGENDOR, (*gagen-tor*) toriad mawr o eiddo y mòr i'r tir sych, megys yn nghyfyngfor y *Fforth*; neu rwygiad mawr yn y ddaear. Y *gagendor mawr a sicrhawyd* rhwng Abraham a'r gwr goludog a arwydda y pellder mawr sydd rhwng nefoedd a daear, a'r rhwystrau ansymmudadwy i ddyfod o'r naill i'r llall, Luc xvi. 26.

GAIR *(ga-ir)*. 1. Ymadrodd yn mynegu chwedl, erfyniad, gorchymyn, neu addewid, Gen. xxxvii. 14, xliv. 28. Exod. viii. 13. 2 Sam. vii. 25. Nid yw teyrnas Duw mewn *gair* neu *ymadrodd*, ond mewn nerth. Nid yw Duw yn cyfodi ei eglwys trwy eiriau yn unig, ond trwy ddylanwadau hollalluog ei Ysbryd, 1 Cor. iv. 20. Nid yw dynion yn caru *ar air nac ar dafod* yn unig, ond mewn gweithred a gwirioneedd, pan fyddant yn dangos eu cariad, nid yn benaf mewn ymadroddion mwyniaw, ond mewn gweithredoedd caredig, 1 Ioan iii. 18. (2.) Y peth am ba un yr ymadroddir; felly y mae y matter o enedigaeth Ioan Fedyddiwr yn cael ei alw yn *air*, Luc i. 68. "Wrth bwy y mynegaist ymadrodd? ac ysbryd pwy a ddaeth allan o honot ti? Oni wyddost ti ei fod ef wrth yr hwn y llefarwch yn gwybod y cwbl a ddywedasoch, ac nad yw ei amgylchiadau yn addas i'r fath ymadrodd? onid ydych yn bytrach wedi ail-adrodd yr hyn a ddywedodd Eliphas, na llefaru dan gyfarwyddyd Ysbryd Duw! a pha galondid a roddasoch chwi erioed i'm hysbryd dihoenllyd? Job xxvi. 4. *Gair Duw* yw (1.) Iesu Grist, yr hwn, gan y dehongliad Caldeaidd, a chan yr apostolion ac ereill, a elwir y GAIR. Y mae efe yn wir ddelw ei Dad, fel y mae geiriau o'n meddyliau. Efe a lefarodd drosom yn y cyngbor hedd: efe a lefarodd bob peth i fodoliaeth yn y greadigaeth; efe a lefarodd wrth yr hen batriarchiaid a'r prophwydi; ef a bregethodd yr efengyl yn nyddiau ei gnawd; y mae efe yn llefaru dros ddynion yn ei eiriolaeth; ac yn llefaru wrth eu calonau yn nydd ei nerth; ac efe yw gwrthddrych mawr yr hyn a lefarir yn yr ysgrythyr, Ioan i. 1—14. Dad. xix. 13. (2.) *Ewyllys* ddadgoddiedig Duw yn yr ysgrythyr, sef yr athrawiaethau, y gorchymynion, y bygythion, yr hanesion, a'r rhagddyweidiadau, Dad. xix. 9. Rhuf. ix. 6, a hwn, yn benaf yr efengyl, yw *gair Crist*, am mai efe yw ei awdwr, ei wrthddrych, a'i ddyben

penaf, Col. iii. 16. *Gair cyfiawnder*, am mai ynddo y dadguddir cyfiawnder Crist i ni, fel unig bridwerth ein hiachawdwriaeth; ac am ei fod yn ein dysgu i ddylyn cyfiawnder, ffydd, a chariad, Heb. v. 13. *Gair y ffydd* yw, sef mynegiad o wirioneddau dwyfol, i'w derbyn a'u credu genym fel sylfaen ein hawl i iachawdwriaeth, Rhuf. x. 8. *Gair yr iachawdwriaeth* yw, am ei fod yn dadguddio ac yn cynnyg cyfiawn iachawdwriaeth i ni, a thrwy ei gredu a'i ddefnyddio, y gwneir ni yn berchennogion o iachawdwriaeth ddechreuedig, ac a'n darperir ar gyfer gogoniant tragywyddol, Act. xiii. 6. *Gair y fuchedd hon* yw; y mae yn cael ei bregethu yn awr i ddynion, a thrwyddo y deuant yn gyfranogion o fywyd tragywyddol, Act. v. 20. *Gair gras Duw*, a gair y bywyd, neu y *bywyd tragywyddol*, yw naill ai Crist ei hun, yr hwn sydd yn cael ei roddi yn rhad i fod yn Iachawdwr i ni, a thrwy yr hwn yr ydym yn derbyn ein bywyd ysbrydol a thragywyddol, neu gair addewidion Duw yn yr efengyl, yr hwn sydd yn mynegu ac yn cludo bendithion rhad Duw i ddynion, er bywhad ac iachawdwriaeth tragywyddol eu heneidiau, Act. xx. 32. 1 Ioan i. 1. Ioan vi. 68. Phil. ii. 16. *Gair y llw*, yw hen ardystiad a chyhoeddiad Duw, y byddai Crist yn offeiriad yn dragywydd, Heb. vii. 28. *Gair doethineb* a *gwybodaeth*, yw cynneddf ardderchog yn addasu dyn i gymmeryd i fynu a chyhoeddi pethau dwyfol mewn modd doeth, 1 Cor. xii. 8.

GAIUS, *(duerol)* Cristion enwog, a fedyddiwyd gan Paul yn Corinth, yn nhŷ pa un yr arosai Paul pan yr ysgrifenodd at y Rhufeiniaid. Efe a anfonodd ei annerchiad attynt. Aeth ef ac Aristarchus, eill dau yn Facedoniaid gwreiddiol, gyda Paul i Ephesus, lle, yn y cythrwfl a gyfodwyd gan Demetrius, y llusgwyd hwy o'u lletty i'r farchnadfa; ond ymddengys na dderbyniasant un niwed hynod, 1 Cor. i. 14. Rhuf. xvi. 23. Act. xix. 29. Ai yr un oedd hwn â Gaius o Dderbe, Act. xx. 4: neu y person llettygar hwnw yr ysgrifenodd Ioan ei epistol atto, nid yw hysbys.

GALAR—NAD *(gal-ar)*. Pan ddywedir fod pyrth, muriau, rhagfuriau, Libanus, a phrif-ffyrdd, gwin newydd, neu wlad yn *galaru* neu yn *wylofain*, arwydda eu bod mewn cyflwr alaethus a thruenus iawn, yn amddifaid o drigolion neu deithwyr, neu yn adfeiliedig, Esa. iii. 16, a xxiv. 4. Galar. i. 4, ii. 8, Ezec. xxxi. 5. *Galar*, *wylofain*, *cwynfan*, a arwydda (1.) Gofid, a'r mynegiadau o hono, pa un bynag ai duwiol, Mat. v. 4. Esa. lxvi. 10; crefyddol ac arbenig, Ezra. x. 6; neu naturiol, Gen. xxiii. 2, a l. 3; neu anobeithiol, megys yn uffern, Mat. xxiii. 13, a xxiv. 30. (2.) Barnedigaethau a chystuddiau, y rhai a barant ofid a thristwch, Ezec. ii. 10. *Galarnad* hefyd a arwydda araeth yn mha un y griddfenir o herwydd rhyw drueni neu golled, 2 Cron. xxxv. 25. Ar farwolaeth eu perthynasau neu eu cyfeillion, byddai yr Hebreaid yn dangos pob arwyddion o alar a fedrent; byddent yn galaru weithiau dros lawer o wythnosau, megys 30 diwrnod am Aaron, a chymmaint â hyny am Moses: ond yr amser cyffredin o alaru oedd saith diwrnod; cyhyd â hyny y galarodd trigolion Jabes-Gilead am Saul, Num. xx. 29. Deut. xxxiv. 8. 1 Sam. xxxi. 13. Yn ystod yr amser hwn o alar, byddent yn rhwygo eu dillad, yn curo eu dwyfron, yn ymprydio, ac yn gorwedd ar y ddaear, ac yn myned yn draednoeth: bwyttaent ar y ddaear; a pha ymborth bynag a gymmerent, a gyfrifid yn aflan, ac a halogai bawb a gyfranogai o hono, Hos. ix. 4. Ni wisgent am danynt, ni eillient eu barfau, ni thorent eu hewinedd, ac ni chyfarchent well i neb; byddai eu hwyneb au a'u penau yn orchuddiedig; yr oedd ganddynt alarwyr at y perwyl hwnw, yn wyr a gwragedd, y rhai a wnaent grefft o honi, ac a fedrent godi yr ysgrechfeydd a'r udfâau mwyaf alaethus; ac a arferent felddibio y dyddiau ar ba rai y dygwyddasai rhyw aflwydd hynod, Amos v. 16. Jer. ix. 17. Job iii. 8. Byddent yn dra galarus ar ol uniganed ig, neu gyntaf-anedig, am fod eu marwolaeth yn torri ymaith goffadwriaeth eu teulu, Zech. xii. 10. Ni byddai i offeiriad alaru ond am ei gyfnesaf; ond nid oedd i'r archoffeiriad wneuthur hyny chwaith, Lef. xxi. 1—12. Ar ol marwolaeth y rhai

na byddai cyfeillion ar ol i alaru am danynt, byddai rhyw bersonau cyfrifol yn y lle yn gwneuthur rhan cyfeillion galarus, ac yn cael eu cysuro yn yr un modd. Cyfrifid ef yn waith duwiol iawn i gyssuro galarwyr; a phan ddeuent at y galarwyr, safent oddi amgylch iddynt, deg mewn rhes, a chan nesâu attynt bob yn un, dymunent am gyssur iddynt o'r nef. Os eisteddent, ar y ddaear y byddai hyny, a chai y galarwr y prif eisteddle. Nid oedd y cyfeillion yn dyfod attynt nes ar ol claddedigaeth y marw, ac nid yn aml hyd y tryddydd neu y pedwerydd dydd ar ol ei farwolaeth, Ioan xi. 19, 39. Byddent weithiau yn myned at y beddau i alaru, fel y gwna y gwragedd yn ngwlad y Tyrciaid hyd heddyw. Yr oedd gan yr Iuddewon fath o weddi, neu yn hytrach bendithiad o Dduw, fel adgyfodwr y meirw, yr hon a adroddent ar eu gwaith yn galaru, neu hyd yn nod yn myned heibio i feddau eu meirw. Ni feiddiai yr Iuddewon yn Caldea *alaru ac wylo*, ond *ocheneidiant bob un wrth eu gilydd;* nid oedd iddynt alaru o herwydd eu trueni yn gyhoeddus, ond gwnaent hyny yn ddirgel, Ezec. xxiv. 23.

GALATIA, talaeth yn Asia Leiaf, a derfynir o du y gorllewin gan Phrygia; o du y gogledd gan Paphlagonia; o du y dwyrain gan yr afon Halys; ac o du y dehau gan Lycaonia. Yr oedd ynddi, yn y cynoesoedd, 22 o ddinasoedd enwog, sef Gordium, Ancyra y brif ddinas, Pessinus, Synope, &c. Derbyniodd ei henw oddi wrth y Galiaid neu y Galatæ, y rhai pan orleuwyd Ffrainc eu gwlad, a'r lleoedd cyfagos, â thrigolion, ar ol difrodi yr Ital a thir Groeg, a aethant i Asia, ac a anrheithiasant cyn belled i'r dehau â Babilon; ond wedi i 120,000 o honynt gael eu gorchfygu yno gan ddyrnaid o Iuddewon, ac i Attalus breninPergamus,eu gyrru o'i diriogaethau, bwy a sefydlasant yma. Am rai oesoedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr, ac hyd yn nod am 400 o flynyddoedd wedi hyny, llefarent yr un iaith bron ag a arferid y pryd hwnw yn Triers yn Ffrainge. Yn nghylch A. M. 3824, y Rhufeiniaid a ddifrodasant Galatia; ac yn nghylch A. D. 25, a'i darostyngasant hi, a rhai lleoedd cyfagos, yn dalaeth Rufeiniaidd. Yn nghylch A. D. 266, anrheithiwyd hi yn ofnadwy gan y Gothiaid. Ar ol y Rhufeiniaid, daeth y Saraceniaid a'r Tyrciaid yn llywodraethwyr ar y wlad hon. Pregethwyd yr efengyl a phlanwyd Cristionogrwydd yma gan yr apostol Paul, Act. xvi. 6, a xviii. 23. Gal. i. 2. Prin yr oedd wedi gadael y wlad, pan y cyffrôdd rhyw athrawon Iuddewaidd y bobl i'w ddirmygu ef, ac i geisio cyfiawnhad trwy weithredoedd y ddeddf, a chadwad y defodau Iuddewig. I amddiffyn ei apostoliaeth, i wrthbrofi y cyfeiliornadau hyn, ac i hyffordd'y Galatiaid yn nghylch dyledswyddau heddychlawn ac addas Cristionogrwydd, efe a ysgrifenodd attynt lythyr rhagorol. Dros yn nghylch 900 o flyneddoedd, bu eglwys Galatia yn flagurog. Cawn hanes am lawer iawn o esgobion, a rhai cynghorfâau neu gymmanfâau a gynnaliwyd yn eu plith; ond er ys 900 o flyneddoedd a aethant heibio, y mae gorthrymder y Saraceniaid a'r Tyrciaid Mahometanaidd, gwedi cladu Cristionogrwydd bron mewn anghof hollol.

GALBANUM, math o lud bras, neu lysieuyn perarogl, ac un o'r defnyddiau yn arogl-darth sanctaidd yr Iuddewon, Exod. xxx. 34. Tynid ef o blanhigyn lled debyg i'r ffennigl mwyaf; yr hwn sydd yn tyfu ar fynydd Amanus yn Syria. Yr oedd, tebygol, yn wahanol oddi wrth ein *galbanum* dryg-sawrus ni.

GALILEA, *(lerfyn)* tiriogaeth cang a ffrwythlawn yn y parthau gogleddol i wlad Canaan. Yr oedd y *Galilea isaf* yn gorwedd o du y gorllewin i'r Iorddonen a môr Tiberias; ac yn cynnwys rhandiroedd Issachar, Zabulon, Naphtali, ac Aser. Yr oedd Galilea uchaf yn gorwedd o du y dwyrain i'r Iorddonen, ac yn cymmeryd i mewn ran fawr o etifeddiaeth hanner llwyth dwyreiniol Manasseh, neu ychwaneg. Gelwid hi *Galilea y Cenedloedd*, am ei bod ar gyffiniau Syria ac Arabia, gwledydd y Cenedloedd: ac ymddengys fod llawer iawn o'r Cenedloedd yn gwladychu gyda'r Iuddewon ynddi. Rhoddodd Solomon 20 dinas o *Galilea isaf*, a elwid gwlad Cabul, i Hiram brenin Tyrus: ac yma y ganwyd Jonah a Nahum y

prophwydi. Benhadad, ac yn mhell ar ei ol ef, Tiglath-Pileser, a anrheithiasant wlad Galilea yn ddychrynllyd, 1 Bren. ix. 11, a xv. 20. 2 Bren. xiv. 25, a xv. 29. Nah. i. 1. Gwedi dychweliad yr Iuddewon o Babilon, cadwodd y Samariaiaid feddiant o Samaria, neu randir Ephraim a'r Manassiaid gorllewinol; ond yr Iuddewon a ymdaenasant i Galilea, ac i'r wlad a elwid Perea tu hwnt i'r Iorddonen. Yn Galilea y dygwyd ein Hiachawdwr, a'r rhan fwyaf o'i ddysgyblion i fynu; ac yma yn benaf y pregethodd efe ac y gwnaeth ei wyrthiau. Yma y gweddnewidiwyd ef, ac y gwelwyd ef wedi hyny gan 500 o'i ganlynwyr wedi iddo adgyfodi oddi wrth y meirw; ac, oddi wrth y wlad hon, yr oedd efe a hwy, weithiau, yn cael eu galw Galileaid, Luc xxiii. 6. Act. ii. 7. Esa. ix. 2. 3.

Nid oedd y Galileaid, yn gyffredin, yn dwyn enw da am eu crefydd, Ioan vii. 52; ond yr oeddynt yn dra diarswyd a dewr. Hwy oeddynt y cyntaf a wrthryfelasant yn erbyn y Rhufeiniaid, ac, o herwydd hyny, a ddygasant drallodion dychrynllyd o warchaëon, difrodiadau, a thywalltiad gwaed arnynt eu hunain. Yn nghylch A. D. 10, neu yn gynt, un Judas, priodor o Golan yn Galilea *uchaf*, a annogodd lawer o'r bobl i wrthsefyll codiad y dreth Rufeinig, er mwyn pa un y cofrestrasid hwy yn nghylch deng mlynedd cyn hyny. Ffurfiasant eu hunain yn fath o blaid, dan yr enw Galileaid. Dalient yr un syniadau, bron, â'r Phariseaid; ond yr oeddynt yn fwy bywiog yn y cyflawniad o honynt. Barnent yn beth hollol annheilwng i Hebrëwr dalu treth i'r Cenedloedd. Y rhai hyn a ddechreuasant y rhyfel â'r Rhufeiniaid, yr hwn ni ddiffoddwyd bron byth yn llwyr, nes i'r genedl Iuddewig gael ei dinystrio. Byddai hyd yn nod pobl mwyaf llonydd a diniwaid yn dyoddef yn fynych, fel pe buasent o'r blaid hon. Pan yr oedd rhai o'r Galileaid yn addoli Duw yn Jerusalem ar un o'r gwyliau arbenig, Pilat a'u lladdodd hwy yn greulawn, yn nghyntedd y deml, ac a gymmysgodd eu gwaed yn nghyd â'u haberthau! I wneuthur ein Hiachawdwr yn agored i gosp, y mae ei gyhuddwyr, yn ei osod allan ger bron Pilat fel Galilead, yr hwn oedd yn myned oddi amgylch gan gynhyrfu y genedl i wrthryfela, ac yn gwahardd rhoddi teyrnged i Cæsar, Luc xiii. 1, a xxiii. 2.

GALIM, (*rhai yn pentyrru*) dinas yn llwyth Benjamin, yn nghylch tair neu bedair milltir o du y gogledd i Jerusalem, ac yn agos i Anathoth. Yma yr oedd Phalti gwr Michal merch Saul a gwraig Dafydd, yn byw; ac yma y dychrynwyd y trigolion yn ddirfawr, ac a anrheithiwyd gan fyddinoedd Sennacherib, 1 Sam. xxv. 44. Esa. x. 30.

GALIO, (*un yn byw ar laeth*) brawd Seneca y moesolwr enwog, a mab mabwysiadol Lucius Junius Galio, oddi wrth yr hwn y derbyniodd ei enw. Dan yr amherawdwyr Claudius a Nero, gwnaed ef yn rhaglaw Rhufeinaidd yn Achaia. O ddeutu A. D. 54, yr Iuddewon, wedi cynddeiriogi wrth waith Paul yn dychwelyd llawer o'r Corinthiaid i fod yn Gristionogion, a'i llusgasant ef i frawdle Galio, fel yn euog o ddysgu dynion i addoli Duw yn erbyn deddf y Rhufeiniaid; fel yr oedd Paul ar fedr atteb drosto ei hun, Galio, yr hwn oedd o dymmer dra hynaws a charuaidd, a ddywedodd yn dawel wrth yr Iuddewon, pe buasai eu cyhuddiadau o anian gamweddus, y barnasai efe ei hun yn rhwym i roddi gwrandawiad iddynt; ond gan y perthynent yn unig i ddadleuon ofer yn nghylch eu cyfraith, gorchymynodd iddynt fyned yn ddiattreg allan o'i wydd. Y Groegiaid Paganaidd, yn llawen ganddynt gael cyfleusdra i sarhau yr Iuddewon, a gymmerasant Sosthenes yr arch-synagogydd, ac a'i curasant o flaen y frawdle, heb i Galio ofalu am y peth, Act. xviii. 12—17. Nid llawer o flynyddoedd wedi hyn, lladdwyd Galio a'i frawd trwy orchymyn Nero.

GALW, (1.) Enwi person neu beth. Cael ein galw neu ein henwi gan un, yw ennill enw oddi wrtho. Enw Jacob a *alwyd ar* feibion Joseph pan enwyd hwy yn Israeliaid, ac y dechreuodd pob un o honynt fod yn dad i lwyth, Gen. xlviii. 16. Y mae dynion yn cael eu *galw ar* enw Duw neu Grist, pan elwir hwy yn ganlynwyr neu bobl iddo, neu eu gelwir yn Gristionogion oddi wrth Grist, Iago ii. 7. Act. xi. 26.

(2.) Gwahodd, erchi, deisyf, Exod. ii. 7. (3.) Gosod mewn swydd; yr hwn a lefarir, yn gyntaf, am Iesu Grist, swyddog mawr y Tad; a Phrophwyd, Offeiriad, a Brenin ei eglwys. Galwyd ef i fod yn *Brophwyd*, o herwydd Prophwyd a gyfyd yr Arglwydd eich Duw i chwi, fel myfi, ac arno ef y gwrandewch, medd Moses. Deut. xviii. 18. Pan y gwedd-newidiwyd Crist ger bron ei ddysgyblion ar y mynydd, wele lef oddi wrth y rhagorol Ogoniant yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, gwrandewch arno ef. Efe a *alwyd* i fod yn Frenin, pan enneiniwyd ef, mewn modd cyssegredig, i'r swydd honno ar sanctaidd fynydd Sion, Salm ii. 6. Ei alwad i'r offeiriadaeth a eglurir, Heb. iii. 5. Paul a brofa ei alwad oddi wrth ddau destun, Salm cx. 4. *Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, Ti wyt offeiriad yn ol urdd Melchisedec.* Drachefn, efe yr hwn a ddywedodd wrtho, Salm ii. 7, *Fy mab ydwyt ti*, &c. a fynegodd ei alwad. O herwydd fel yr oedd yr offeiriadaeth, yn y cyn-amseroedd, yn perthyn i'r cyntaf-anedig, felly cyhoeddwyd Crist y gwir Gyntaf-anedig, yr hwn a arferai y swydd honno. Yn *ail*, llefarir am *alwedigaeth* dynion, y rhai a elwid i gyflawni swyddau, megys cysgodau o Moses; am hyny, yr oedd y cyfryw alwedigaethau yn anrhydedd arbenig; er na feiddiai un dyn honni hawl iddynt oni byddai wedi ei alw gan Dduw, fel yr oedd Aaron. (4.) Creu; dwyn pethau trwy air yn unig: gweithred o eiddo yr ewyllys. Rhuf. iv. 17. Exec. xxxvi. 29. (5.) *Gwedi eu galw i fod yn sanctaidd*, 2 Petr i. 3. Y mae holl etifeddion y nefoedd wedi eu bwriadu i'r anrhydedd hwnw; a hyn a ymddengys trwy eu bod yn cael eu *galw*. Gellir ystyried yr alwedigaeth hon fel iaith yr efengyl wrth bawb sydd yn ei chlywed; *canlyn fi*, gwel Marc ii. 14. "Cyfod di, fy anwylyd, a thyred di, fy mhryderth," Can. ii. 13. Abraham a *alwyd* i fyned allan i fan yr hwn yr oedd efe, wedi hyny, i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac efe a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned, Heb. xi. 18. Y mae Crist, Cadpen iachawdwriaeth, yn galw ei holl filwyr i gymmeryd eu croes i fynu, i gymmeryd rhan benderfynol gyda'i achos ef. Y mae efe yn eu *galw* i'w ganlyn ef i ogoniant; am hyny y mae yr un Gristionogol yn *alwedigaeth uchel*, Phil. iii. 14; yn *alwedigaeth nefol*, Heb. iii. 1. Bydd pawb sydd yn ufuddhau i'r alwedigaeth hon yn adnabyddus; o herwydd, megys y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, &c. 1 Petr i. 15. (6.) Gwahodd a thynu pechaduriaid i gyflwr o undeb âg Iesu Grist, trwy bregethiad y gair, a gweithrediad, yr Ysbryd Glan. Ynddi, y mae y person yn cael ei argyhoeddio'i bechadurusrwydd a'i drueni; ei feddwl yn cael ei oleuo yn ngwybodaeth Crist, megys yn alluog ac ewyllysgar i'w achub ef; ei ewyllys yn cael ei hadnewyddu; ac felly y mae yn cael ei annog a'i nerthu i goffleidio Iesu Grist fel y cynnygir ef iddo yn yr efengyl. Yr alwedigaeth hon sydd *yn ol arfaeth Duw*, gyda golwg ar y personau, yr amser, a'r dull o honi, Rhuf. viii. 28. 2 Tim. i. 9. Y mae yn ben-arglwyddiaethol a rhydd, nid llawer o rai doethion, galluog, neu foneddig a alwyd, 1 Cor. i. 26, 27. Y mae yn *uchel*, yn tarddu oddi wrth y Goruchaf Dduw, ac yn ein gwneuthur yn gyfranogion o'r gogoniant a'r dedwyddwch uchaf, Phil. iii. 14. Y mae yn *sanctaidd* yn ei Hawdwr, ei moddion, a'i dyben. O herwydd ein bod yn cael ein galw trwy nerth gogoneddus a rhinwedd hollalluog gras Duw, felly gelwir ni i *ogoniant a rhinwedd*, i sancteiddrwydd a dedwyddwch, 2 Petr i. 3. Y mae yr *nefol*, yn dyfod oddi uchod, yn perfogol ynom am y nefoedd, ac yn partoi oddi, 2 Petr iii. 1; ac yn *ddiedifarus*, am na fwrw Duw neb ymaith byth ag sydd wedi cael unwaith eu tynnu atto, ef, Rhuf. xi. 29. (7.) Addef neu gydnabod, Heb. ii. 11 (8.) Cyfrif, Esa. lviii. 13. Mal. iii. 15 (9.) Cyhoeddi, Joel ii. 15. *Galw Duw yn dyst ar ein henaid*, yw appelio atto ef mewn modd arbenig 2 Cor. i. 23. *Galw ar Dduw*, yw eaddoli, yn enwedig trwy weddi mawl, Salm l. 15, a cv. 1. Hwyrach fod *galw ar enw yr Arglwydd* yn arwyddoccau ei addoli ef mewn cynnulleidfaoedd cyhoeddus; a rha a gyfeithant y geiriau, i *halogi enw yr Arglwydd*. Y mae gorchwylion

cyfreithlawn yn dyfod dan yr enw *galwedigaeth* yn y gair; mae dyn-ion yn cael eu gwahodd attynt, a'u darparu erddynt, gan ragluniaeth, 1 Cor. vii. 20.

GALLU, *(ga-all)* 1. Cadernid neu nerth, Hos. xii. 3. (2.) Rhagorfraint, Ioan i. 12. Y mae Duw yn cael ei alw yn *allu*, o blegid ei nerth a'i awdurdod annherfynol, Mat. xxvi. 64. Y mae Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn cael ei alw *gallu Duw:* yn nghyfansoddiad ei berson, Duw-dyn, ac yn ei swydd, a'r cyflawniad o honi, wrth brynu, maddeu i bechaduriaid, a'u dychwelyd, y mae nerth ac awdurdod Duw yn cael eu hamlygu yn rhyfeddol, 1 Cor. i. 24. Y mae gan Grist bob *gallu ac awdurdod* wedi cael eu rhoddi iddo yn y nef ac ar y ddaear; mae ganddo eiriolaeth fyth-lwyddiannus; mae ganddo awdurdod i anfon yr Ysbryd Glan i'r eglwys, ac i beri i angelion a phob creadur weithredu mewn gwasanaethgarwch i alwedigaeth, dychweliad, a sancteiddhad ei bobl, Mat. xxviii. 18.

GAMALIEL, *(gwobr Duw)* Pharisead nodedig, a doctor o'r gyfraith Iuddewig, wrth draed pa un y dygwyd Paul i fynu. Pan, cyn pen hir ar ol escyniad ein Hiachawdwr, yr oedd y cynghor Iuddewaidd ar fedr lladd yr Apostolion, Gamaliel a gynghorodd i'w gadael hwy yn llonydd; o herwydd os twyllwyr oeddynt, eu hynfydrwydd a ymddangosai yn fuan, a'u dyfais a ddiddymid, megys y dygwyddasai yn achos Judas a Theudas; ond os oedd eu hachos o Dduw, ni fyddai pob gwrthwynebiad iddo yn ddim llai nag ymladd yn erbyn Duw. Gyda yr ymadrodd hwn, efe a ogwyddodd fryd y cynghor i arbed eu bywydau, Act. xxii. 3, a v. 34—40. Dywedir fod Gamaliel yn fab i Hilel enwog, ac yn ewythr i Nicodemus, a thros 32 o flyneddoedd yn llywydd y Sanhedrim Iuddewig. Nid yw yr hyn a adroddir yn mhellach am ei ddychweliad at Gristionogrwydd, a'r rhan a gymmerodd yn ngladdedigaeth anrhydeddus Stephan, ond dywediadau anuheilwng o'n sylw.

GAMMADIAID. Nid corrod o gufydd eu hyd oeddynt, fel yr haerodd rhai, ond trigolion rhyw le yn Phœnicia: naill ai Ancon, yn Hebraeg *Gamad*, cufydd; neu *Gammade*, yr hon a eilw *Pliny* yn llygredig *Gammale*. Gwasanaethent fel milwyr yn nhyrau Tyrus; a *Hiler*, yn ei Onomasticon, a feddylia fod eu henw yn cynnwys mai dynion llawchwith oeddynt, Ezec. xxvii. 11.

GARDD, *(gar)* lle cauedig, ac wedi ei wrteithio yn dda, er dwyn llysiau, blodau, a choed ffrwythlawn i fynu. *Gardd* Eden oedd fwyaf enwog, ac y mae yn cael ei galw *gardd yr Arglwydd*, am mai efe a'i plannodd, Gen. ii. 7, a xiii. 10. Joel ii. 3. Yn amser Esaiah, yr Iuddewon a aberthient mewn gerddi ar allorau pridd-feini, ac a gyflawnent lawer o buredigaethau annuwiol, Esa. i. 29, a lxv. 3, a lxvi. 17. Cyffelybir yr eglwys i *ardd;* y mae hi wedi cael ei chymmeryd oddi wrth y tir diffrwyth o ddynolryw pechadurus. Nid yn naturiol, ond trwy blaniad gras-lawn Duw y mae pob peth yn ddefnyddiol ynddi; ynddi y mae amryw o saint gwerthfawr, y lili, y llysiau, a'r prenau cyflawnder hyn, ac yn mhob un o honynt y mae gardd i Dduw, wedi ei phlannu â grasau gweithredoedd da. Y mae hi yn cael ei llywodraethu gan ordinhadau a chyfreithiau dwyfol; yn cael ei chau o amgylch âg amgeledd a llywodraeth ddwyfol; yn cael ei dyfrhau â gwlaw, gwlith, ac afon cariad, gair, a dylanwadau ysbrydol Duw; ac yn cael ei glanhau oddi wrth lygredigaethau gan weinidogion a rhagluniaethau. Gan mai Iesu sydd yn ei phlannu ac yn ei pherchenogi, y mae ef, felly, yn cymmeryd hyfrydwch mawr ynddi; a'i holl dueddiad hithau sydd i'w anrhydeddu ef. Ac y mae yn cael ei galw *gerddi* o blegid ei hamrywiol gynnulleidfaoedd addolgar, Can. iv. 16, a v. 1, a viii. 12.

GARLANTAU, math o goronau a wneid o flodau, ysnodenau, &c. Yr oedd y rhai hyny a ddygwyd gan offeiriad Jupiter, yn cael eu bwriadu, tebygol, i goroni yr ych a arfaethid yn aberth, yn yr un dull ag y coronai yr Iuddewon eu hoffrwm o flaen-ffrwythau â changau olewwydd, Act. xiv. 13.

GARLLEG, planhigyn sydd â'i flodeuyn o rywiogaeth y lili, ac yn cynnwys chwech o ddail, gyda bywullyn yn y canol, yr hwn o'r diwedd

a ddaw yn ffrwyth crynnaidd, wedi ei ddospartliu yn dair cell gogrom, pob un yn cynnwys hadau o'r un llun. Y blodau ydynt yn ymgasglu yn benau crynion, a'r gwreiddiau a orchuddir â math o groen. Y mae *Tournefort* yn crybwyll am 38 math o arlleg. Y mae yn feddyginiaeth dra bywiog a threiddgar; a dylid ei arferu pan yn iraidd ac yn llawn o nôdd. Y mae yn ddefnyddiol i ladd llyngyr yn y bol, i iachau y coluddwst ac attaliad dwfr, ac i ddwyn tafiiad o'r cylla mewn diffyg anadl, a gormwyth y ddwyfron yn mlaen; ond os cymmerir ef yn rhy helaeth ar un achos, y mae yn dueddol i beri ennynfa yn y coluddion. Pa un ai bod yr un hwnw a ymborthid cymmaint arno, ac hyd yn nod a addolid yn yr Aipht, yn meddu yr un rhinwedd â'r eiddom ni, nis gwyddom, Num. 11. 5.

GARW, anllyfn, gerwin. *Dyffryn garw*, yw un sydd yn anwastad, heb ei lafurio, ac yn llawn o ddrain a mieri, Deut. xxi. 4. Trwy weinidogaeth Ioan Fedyddiwr, gwnaed y lleoedd gŵyr-geimion yn uniawn, a'r ffyrdd *geirwon* yn wastad; dynion, hyd yn nod y gwaethaf, a ddarparwyd i ystyried person, gwyrthiau, ac athrawiaeth Crist, Esa. xl. 4. Luc iii. 5. *Gwynt garw*, yw un cryf a thymhestlog, ac sydd yn arwyddlun o gystuddiau trymion ac anwrthwynebadwy, Esa. xxvii. 8. Lindys, geirw, a gwisgoedd *geirwon*, ydynt rai ag sydd yn ffewog a chedennog, Jer. ii. 27. Dan. viii. 21. Zech. xiii. 4.

GATH, neu **GETH**, trigolion pa un a elwid Gethiaid, oedd yn ddinas enwog o eiddo y Philistiaid, ynghylch 14 o filltiroedd o du y dehau i Joppa, pump o Ecron, a 32 o du y gorllewin i Jerusalem. Yr oedd yn hen iawn: canys tra yr oedd y patriarch Ephraim etto yn fyw, yn nghylch A. M. 2360, gwnaeth gwyr Gath ruthr ar wlad Gosen, dygasant ran o anifeiliaid yr Hebreaid ymaith, a lladdasant amryw o feibion Ephraim, ond gyrwyd hwy yn ei hol gan y Benjaminiaid, 1 Cron. vi. 21, a viii. 13. Yma y ganed Goliath a'i frodyr cawraidd. Achis, at yr hwn y ffodd Dafydd ddwywaith am ddiogelwch, oedd yn frenin arni, 1 Sam. xvii, a xxi, a xxvii. Yn nghylch wyth neu ddeng mlynedd wedi hyny, Dafydd a'i gorescynodd, 2 Sam. viii. 1, 2. Rehoboam a'i cadarnhaodd i Judah, 2 Cron. xi. 8. O ddeutu amser Jeboram, ymddengys iddi gael ei hadennill gan y Philistiaid: ond Hazael brenin Syria a'i hennillodd ac a'i dinystriodd hi, 2 Bren. xii. 17. Uzziah a'i hennillodd oddi ar y Philistiaid, ac a dorodd i lawr ei mur, 2 Cron. xxvi. 6: ond hwy a'i hennilladsant yn ol dan deyrnasiad Abaz, ac Hezeciah a'i hennillodd drachefn i Judah, 2 Bren. xviii. 8. Gwedi pa amser, ymddengys mai bychan a fu ei benwogrwydd. Yn nghylch 780 o flyneddoedd yn ol, adeiladodd Ffulc, brenin Jerusalem, gastell ar ei hadfeiliau.

GATH-HEPHER, dinas yn Galilea, enwog fel lle genedigaeth y prophwyd Jonah, Jos. xix. 13. 2 Bren. xiv. 25. *Jerome* a ddywed ei bod ddwy filltir o Sephoris neu Diocesarea. Yr oedd dwy *Gath-rimmon*; un yn rhandir Dan, o du y gorllewin i Jerusalem, ac un arall yn rhandir hanner llwyth gorllewinol Manasseh; y ddwy a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Cohath, Jos. xxi. 24, 25. Mewn gwlad mor llawn o winllanoedd ag oedd Canaan, nid rhaid i ni ryfeddu wrth gael amryw ddinasoedd o'r enw Gath, neu *winwasg*.

GAU, *(ga-au)* ffugiol, celwyddog. *Gau Gristiau* oeddynt y cyfryw Iuddewon neu ereill a'r a gymmerent arnynt mai hwy oeddynt y gwir Fessiah, Mat. xxiv. 24. *Gau-brophwydi*, oeddynt y rhai, dan esgus gorchymyn oddi wrth Dduw, a gyhoeddent gyfeiliornadau, a ragfynegent anwiredd, neu a gynhyrfent i ddrygioni, Mat. vii. 15. 2 Cor. xi. 13. *Gau-dystion* ydynt y rhai, er mwyn elw, anrhydedd, neu y cyffelyb ddybenion cnawdol, a led-fynegant neu a haerant anwiredd, Mat. xxvi. 59. *Gau lwybrau* ydynt arferion pechadurus heb fod yn cyduno â phrawf-faen gwirionedd Duw, ac a dwyllant y troseddwr i ddinystr tragywyddol, Salm cxix. 104.

GAUAF, *(gau-af)* y tymmor oer pan y mae y meusydd a'r coed yn wywedig a'r tymhestloedd yn fynych. Yn nghanol-barth y ddaear, a elwir y cylch poeth, yr hwn sydd yn nghylch 3270 o filltiroedd o led o'r gogledd i'r

dehau, y mae ganddynt yn gyffrediu ddau auaf bob blwyddyn, ond y maent eill dau yn gynnes iawn. Mewn gwledydd agos i'r pegynau, y mae ganddynt yr hyn a gyfrifem ni yn auaf parhaus; ïe, hyd yn nod yn *Sweden*, gallai un ddywedyd fod naw mis yn auaf gerwin, a'r cyfan o weddill y flwyddyn sydd yn haf. Mewn rhai manau, y mae y gauaf mor hynod oer, fel y bydd bron yn analluadwy i ddyn ddiangc rhag cael ei rewi i farwolaeth, Gen. viii. 22. Hyd yn nod yn Canaan, yr oedd gan wyr mawrion eu tai cynnes erbyn y gauaf, yn gystal â rhai oerion erbyn yr haf, Jer. xxxvi. 22. Amos iii. 15. Amseroedd o brofedigaeth, erlidigaeth, a chyfyngder, a gyffelybir i *auaf*, neu dichon fod *haf* a gauaf yn arwyddo trwy gydol y flwyddyn, yn barhaus, Zech. xiv. 8. *Y gauaf a aeth heibio, a'r gwlaw a basiodd, ac a aeth ymaith*, hyny yw, y mae amser oer, tywyll, a diffrwyth y seremoniau wedi myned heibio, a'r tymhestloedd o ddigofaint dwyfol wedi cael eu dyhysbyddu yn gyflawn ar Grist; y mae gauaf diffrwyth diadgenedledigaeth, a'r melldithion yn gorwedd ar y gydwybod, drosodd; y mae dyddiau marweidd-dra, anffrwythlondeb, ac erlidigaeth yn yr eglwys, a phrofedigaeth, gwrthgiliad, a gofid neu hurtrwydd ysbrydol yn yr enaid, drosodd, Can. ii. 11. *Gauafu*, yw byw neu aros trwy y gauaf, Esa. xviii. 6.

GAZA, *(cadarn)*. 1. Dinas yn llwyth Ephraim, enw gwirioneddol pa un, hwyrach, oedd Adazzah, 1 Cron. vii. 28. (2.) Dinas gerllaw i gwrr dehau-orllewinol gwlad Canaan, ac yn nghylch dwy filltir a hanner oddi wrth Fôr y Canoldir, 60 o du y dehau-orllewin i Jerusalem, a 157 o du y gogledd-orllewin i Elath. Yr oedd hi, gynt, yn ddinas y Philistiaid, ond a roddwyd i lwyth Judah, y rhai a'i gorescynasant, yn nghyd âg Ascelon ac Ecron, ar ol marwolaeth Josuah, Barn. i. 18. Ond y Philistiaid a'i hadennillasant hi, ac a gadwasant feddiant o honi hyd deyrnasiad Dafydd. Samson a ddygodd ei phyrth ymaith ar ei ysgwyddau bron i Hebron, ac, wedi hyny, a garcharwyd ac a fu farw ynddi, gyda llawer o'r trigolion a elwid Gaziaid, neu Gazathiaid, Barn. xvi. Dafydd a'i darostyngodd hi. O ddeutu 150 o flyneddoedd wedi hyny, y Gaziaid a wrthryfelasant; ac yn amser aflwyddiant Judah, hwy a werthasant neu a fradychasant lawer o'r Iuddewon i'r Edomiaid. Pa un ai Uzziah neu Hezeciah a'i hadennillodd hi, nid yw sicr; ond ymddengys i Salmanezer neu Sennacherib breninoedd Assyria ei hynnill, a llosgi rhan o honi â than, Amos i. 6, 7. Pharaoh-Necho, brenin yr Aipht, a gymmerodd feddiant o honi, Jer. xlvii. 1. Yn fuan wedi hyny, syrthiodd i ddwylaw y Caldeaid, ac, ar eu hol hwy, i'r Persiaid. O ddeutu A. M. 3670, Alexander a'i hennillodd, ar ol gwarchäedigaeth o chwe mis; ac, yn y modd mwyaf creulawn, a lusgodd lywydd gwrol byddinoedd y Persiaid o amgylch iddi yn fyw, ac a ddistrywiodd y lle, Zeph. ii. 4. Zech. ix. 5. Tebygol nad adeiladwyd hi byth wedi hyny, Act. viii. 26. Y Gaza, yr hon a berthynai i bennaduriaid Groegaidd yr Aipht, ac a anrheithiwyd gan Antiochus Fawr, a'r hon a draisgipiodd y cad-flaenoriaid Maccabeaidd amryw weithiau oddi ar y Groegiaid Syriaidd, a'r hon a wnaed yn gydwastad â'r llawr gan Alexander Janeus brenin yr Iuddewon, ond a ailadeiladwyd gan Gabinus y Rhufeiniwr, ac a roddwyd gan Augustus yr amherawdwr i Herod Fawr, oedd, tebygol, Gaza Fechan neu Majuma, yr hon a safai o ddeutu tair milltir oddi wrth y llall ar lan y môr, ac a fuasai yn borthladd iddi. Yma yr oedd y bobl yn Baganiaid cyndyn, a chanddynt dduw hynod a elwid *Maruas*, yr hwn a addolid mewn teml fawrwych. *Reland*, yn nghyd â rhai ereill, a feddyliant fod y Gaza newydd hon yn sefyll yn agos i'r fan lle yr oedd yr hen ddinas, ac yn hollol wahanol oddi wrth Majuma. Yn ystod y chwech canrif cyntaf o Gristionogrwydd, ymddengys fod eglwys yn y lle hwn; a chrybwyllir am esgobion Gaza fel yn bresennol yn amryw o'r hen gynghorau. Yma yr adeiladodd Cystenyn eglwys uchelwych, ac a alwodd y ddinas Constantia, oddi wrth enw ei fab, ac a'i gwnaeth yn ddinas rydd: ond Julian a'i hamddifadodd o'i holl ragorfreintiau, yn nghylch 30 neu 40 mlynedd wedi hyny. Rhai a ddywedant

ei bod yn bresennol mewn cyflwr lled flodeuog; ond os felly, rhaid fod hyny wediy fl. 1707, pan y gwelodd Syr Paul Lucas hi heb fod nemawr gwell na charnedd o adfeiliau, gydag o ddeutu 400 o bobl dlodion yn nythu yn eu plith.

GEBAL, *(Ierfyn)* yr oedd ei thrigolion yn y cynghrair mawr yn erbyn Jehosaphat brenin Judah. Ymddengys fod dwy Gebal, y naill o du y dehau i Canaan, yr un â gwlad Amalec. Y cyfeithiad Caldëig a Samariaidd a alwant fynydd Seir, *Gebla.* Josephus a grybwylla am y *Gobelitis,* neu *Gobolitis.* a Stephanus am *Gebalene* yn y parthau hyn. Y llall oedd yn fynydd a dinas, hwyrach yr un â Byblus yn Phœnicia. Pliny a'i geilw *Gebale;* ac y mae yn cael ei galw yn awr *Gibyle.* Hon oedd gwlad y Gibliaid, Jos. xiii. 5. Oddi yma y cafodd Solomon ei naddwyr cerrig Tyriaidd, neu Gibliaid, 1 Bren. v. 18. Henuriaid Gebal oedd ar waith yn adgyweirio, ac yn adeiladu llongau Tyrus, Ezec. xxvii. 9. Yr oedd Byblus, gynt, yn ddinas ardderchog, ac mewn enw mawr, o herwydd teml i Adonis neu Tamuz ynddi: ond, yn awr, er fod iddi gaer a chlawdd o'i hamgylch, gyda rhai tyrau pedair-onglog; y mae yn lle tlawd iawn, hynod am ddim bron ond adfeiliau ucheliwych rhai colofnau heirdd, yn wasgaredig i fynu ac i waered yn eu gerddi.

GEDALIAH, *(Duwyw fy mawredd)* mab Ahicam, tywysog Iuddewaidd, yr hwn a aethai drosodd at y Caldeaid ychydig cyn dinystr Jerusalem. Nebuzaradan, y cad-flaenor Caldeaidd, a'i gwnaeth ef yn llywydd ar y bobl dlodion a adawsid yn ngwlad Judea. Aeth Jeremiah a Baruch atto i Mispah orllewinol: a llawer o'r Iuddewon, y rhai a ffoisent i wlad Moab ac Ammon, a ddaethant ac a ddodasant eu hunain dan ei amddiffyniad ef; efe a'sicr addawodd iddynt ddiogelwch, os bydd ent byw yn heddychol. Ismael, mab Nethaniah, wedi ei gynhyrfu gan Baalis brenin yr Ammoniaid, a ddaeth i'w ladd, ac i osod ei hun i fynu yn frenin. Cafodd Gedaliah hysbysrwydd prydlawn am y bwriad erchyll hwn, ond barnodd mai celwydd a ddywedid wrtho, a chroesawodd Ismael a'i gyfeillion yn haelionus. Prin yr oedd y wledd wedi ei gorphen, pan y lladdodd Ismael a'i wyr Gedaliah, a phawb a gafwyd yno gydag ef yr amser hwnw, pa un bynag ai Iuddewon ai Caldeaid. Gweddill yr Iuddewon, y rhai oeddynt dan ei amddiffyniad ef, yn ofni rhag y priodolai Nebuchodonozor laddedigaeth ei raglaw iddynt hwy, a giliasant i'r Aipht; er dim a allai y prophwyd Jeremiah ddywedyd i'w hattal, 2 Bren. xxv. 22. Jer. xl—xlii.

GEDER, yr un, tebygol, â Gederah a Gedor. Ymddengys mai gerllaw iddi y tarawodd y Simeoniaid yr Amaleciaid; ac felly rhaid ei bod yn ddinas o amgylch cwrr dehau-orllewinol gwlad Canaan, Jos. xii. 13, a xv. 58. 1 Cron. iv. 39.

GEDEROTH, a **GEDERAH,** neu **GEDOROTHAIM,** dwy ddinas yn llwyth Judah; y flaenaf o ba rai, yn gorwedd yn y gwastadedd o du y dehau-orllewin i Jerusalem, a ennillwyd gan y Philistiaid yn nheyrnasiad Ahaz, Jos. xv. 21, 36. 2 Cron. xxviii.

GEFEILLIAID, *(gaf-ell)* dau wedi eu geni yr un amser. *Dwyn dau oen,* neu *efeilliaid,* a arwyda ffrwythlonrwydd mawr yn nychweliad dynion at Grist, neu mewn gweithredoedd da, Can. iv. 2.

GEHAZI, *(dyffryn gweledigaeth)* Tebygol ei fod, unwaith, yn was Elias. Dilys yw iddo fod yn canlyn Eliseus dros beth amser. Efe a gymygodd iachâu mab y Sunamëes, trwy osod ffon ei feistr arno: yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi hyny, ei drachwant i arian a'i hudodd ef i redeg ar ol Naaman y gwahanglwyfus a iachesid, yr hwn a ollyngasai ei feistr ymaith yn rhad, a gofyn peth arian a dillad ganddo yn enw ei feistr: efe a gafodd yn ewyllysgar ychwaneg nag a ofynodd: ond Eliseus, wedi ei gyffroi yn ddirfawr o herwydd ei ymddygiad, a'i ceryddodd: a thrwy felldith arswydus, a'i gosododd ef a'i biliogaeth dan y gwahanglwyf. Glynodd y pla wrtho yn ddiattreg, ac yna gadawodd wasanaeth Eliseus. Ond ymddengys iddo fod, o ddeutu pum neu chwe blynedd wedi hyny, yn ymddiddan â Jehoram brenin Israel am wyrthiau ei feistr, 2 Bren iv, a v, a viii.

GELE *(gel).* Y mae dau fath o

honynt, ac a wahaniaethir oddi wrth eu gilydd wrth eu maintioli, ac hefyd wrth eu golygiad arwynebol. Y fwyaf a gynnydda i bum modfedd o hyd, ac y mae dau ei thorr yn felen, ac yn ddu ar ei chefn. Y mae torr y leiaf yn werdd-dduaidd, ac felly hefyd y mae y cefn â llinell lydan o'r un lliw, a phob ochr i honno linell gochaidd. Hon yw y rhyw a ddylid ei harferyd yn feddyginiaethol. Cyn rhoddi y gele wrth y croen, dylid ei chymmeryd allan o'r dwfr, a'i chadw am awr mewn cwppan gwag, i waghau ei hun, fel y byddo sychedig. Cyn ei rhoddi wrth y croen, dylai y fan gael ei rwbio yn dda, nes y byddo yn boeth ac yn goch. Dylid golchi yr archoll â dwfr, neu win cynnes, ac iachâ yn fuan o hono ei hun. "I'r *gele* y mae dwy ferch," Diar. xxx. 15. Wrth y ddwy ferch, y deall rhai y ddwy big sydd yn ei thafod i sugno y gwaed, ac nis digonir bi. Cyffelyb iddynt hwy yw cribddeilwyr cybyddlyd; nid oes dim digoni arnynt, pa un bynag ai chwennych pethau y byd i'w trysori y byddont, neu ynte i'w gwario i borthi llygredigaethau annigonadwy. Hos. iv. 18. Mic. vii. 3.

GELYN *(gal)* gwrthwynebwr, un y sydd yn ein casbau, ac yn ceisio ein niweidio, Exod. xxiii. 4. Y mae Duw yn myned yn *elyn* i ddynion, pan y bydd yn eu hymlid hwy â'i farnedigaethau digllawn, 1 Sam. xxviii. 16. Meddyliodd Job ei fod ef yn yn *elyn* iddo, pan y cystuddiodd efe ef yn drwm, Job xxxiii. 10. Dynion annuwiol a gyfrifant athrawon ffyddlawn yn *elynion*, gan ddychymmygu eu bod yn gweithredu o gasineb, wrth geryddu a gwrthwynebu eu ffyrdd drygionus hwy, 1 Bren. xxi. 20. Gal. iv. 16. Y mae Satan yn *elyn* i Dduw a'i greaduriaid; y mae efe yn ceisio eu dianrhydedd a'u dinystr hwy, Mat. xiii. 25, 28. Dynion annuwiol ydynt yn *elynion* i Dduw; y maent yn ei gashau ef â'u holl galon, ac yn gwneuthur yr hyn a allant i ddianrhydeddu ei enw, a dinystrio ei achos, Rhuf. v. 10. Y Philistiaid, y Syriaid, y Moabiaid, &c. oeddynt yn *elynion* i Israel, o herwydd iddynt gyfodi arfau i fynu i'w gwrthwynebu, eu niweidio, a'u dinystrio hwy, 1 Sam. ii. 32. 2 Sam. xxii. 38. Angau a elwir yn *elyn*; y mae yn distrywio yr annuwiol mewn gwirionedd, y mae yn dychrynu y saint, a thros ennyd, yn cadw eu cyrph oddi wrth y gogoniant nefol, 1 Cor. xv. 26.

GEMARIAH, *(cyflawniad yr Arglwydd)*. Mab Hilciah, yr hwn a anfonodd Zedeciah brenin Judah, gydag Elasa mab Saphan, at frenin Babilon, i ddwyn y deyrnged iddo, Jer. xxix. 3, 4.

GEM, *(em, tlws)* addurn gwerthfawr a drud o aur, arian, &c. Arferid gemau ar y talcen, y trwyn, y clust, a'r llaw; neu hyd yn nod yn ngwasanaeth eilunod, Ezec. xvi. 14, 17. Pobl Duw ydynt ei *emau*, neu ei drysor priodol; y maent yn anwyl ganddo, ac yn cael eu gwneud yn heirdd trwy ei gyfiawnder a'i ras ef; y mae efe yn eu diogelu hwy yn ofalus; a thrwyddynt hwy y mae yn dangos ei anrhydedd, ei fawredd, a'i olud, Mal. iii. 17. Gwefusau gwybodaeth ydynt fel *gem werthfawr;* ymadrodd doeth a synwyrol sydd werthfawr ac anrhydeddus, Diar. xx. 15. Benyw lân heb synwyr sydd fel *gem aur* yn nhrwyn hwch; nid yw hi yn gwneud ond ymddangosiad gwael a choegaidd, ac y mae yn iselhau ei glendid trwy ei harferiadau bryntion, Diar. xi. 22.

GENAU *(ge-en)*. Y genau, y gwefusau, a'r tafod, ydynt yn ddigon adnabyddus yn eu hystyr naturiol; yn unig gosodir *genau* weithiau am ran neillduol o hono, megys y geg, tafod y genau, &c. ac mewn iaith ffiguraidd y mae iddynt mewn amryw bethau yr un ystyr. Fel y mae y *genau* yn arwyddo unrhyw ddrws neu fynediad i mewn i beth, neu allan o beth; gwefus a arwydda ei fin neu ei ymyl ef, 2 Bren. ii. 13; a'r *tafod*, y parth eithaf o hono. Esa. xi. 15. *Genau* weithiau a arwydda y dymuniad neu y chwant, am y diwallir y chwant naturiol trwy y genau, Salm ciii. 5. Y tri gair yn fynych iawn a ddynodant iaith neu ymadrodd. Job xix. 16, a ii. 10. Diar. xii. 18; ac weithiau *tafod* a arwydda iaith neillduol, 1 Cor. xiv. 5; neu hyd yn nod y dynion a lefarant mewn amrywiol ieithoedd, Dad. vii. 9, a x. 11. *Genau* neu *wefusau* yn cael eu priodoli i

Dduw neu Grist, a ddynodant ei ewyllys, ei awdurdod, ei air, neu ei addewid, Esa. i. 20. Job xi. 5. Can. i. 2. *Gwefusau* Crist *ydynt fel lili, yn diferu myrr diferol*; a'i *enau sydd felus odiaeth*: mor hyfryd, adfywiol, iachus, a ffrwythlonol i ein henaid, ydynt ei ordinhadau, ei eirian, ei addewidion, a'i amlygiadau o'i gariad! Can. v. 13, 15. Bod cyfraith Duw yn ein *genau* neu ar ein *tafod*, yw ymhyfrydu ynddi, ac ymddiddan llawer am dani, Exod. xiii. 9. Jos. i. 8. 2 Sam. xxiii. 2. Nesâu at Dduw â'r *genau*, a'i anrhydeddu ef â'r *gwefusau*, yw gwneuthur ymddangosiad allanol o dduwioldeb, o grefydd a mawl, tra na bydd dim parch iddo ef yn y galon, Esa. xxix. 13. Mat. xv. 8. *Tafod twyllodrus* neu *ddau-eiriog* yw hwnw a draetha bethau anwireddus, twyllodrus, ac anghysson, Zeph. iii. 13. 1 Tim. iii. 8. *Tafod iach*, yw ymadrodd y sydd yn dangos calon gywir, ac yn tueddu er adeiladaeth ereill, Diar. xv. 4. *Tafod attaliedig* neu *wyliedig*, yw un a gedwir oddi wrth iaith bechadurus, ddigllawn, neu sarhaus, Iago i. 26. Salm xxxix. 1, a cxli. 3. *Tafod wedi ei ddofi*, yw un a attelir oddi wrth iaith ddrwg, ac a gymmwysir at un dda, Iago iii. 8. *Tafod esmwyth* yw ymadrodd mwynaidd a chyweithas, Diar. xxv. 15. *Tafod y dysgedig*, yw gallu i lefaru, er argyhoeddiad, adeiladaeth, a chyssur eneidiau dynion, Esa. l. 4. *Genau taeogaidd* yw un yn llawn o wrthddadleuon ffyrnig ac ymadrodd anufudd, Diar. iv. 24. *Genau llyfn*, yw un llawn o iaith dyner a gweniethus, Diar. v. 3. *Gwefusau halogedig* ydynt y cyfryw ag y sydd wedi eu haflanhau gan eiriau pechadurus, Esa. vi. 5. *Gwefusau poeth* a ddynodant iaith deg a phryddferth, neu ymddiddan mewn ymddangosiad yn llawn o gariad, Diar. xxvi. 23. *Genau y ffol* sydd *yn wialen balchder*, sydd *yn ddinystr agos*, ac sydd yn *ddinystr* ei berchennog; ymadroddion drygionus a ffol, yn falchaidd, a ffinant gymmydogion, ac a ddinystriant y llefarwr ei hunan, Diar. x. 14, a xiv. 3, a xviii. 7. *Agor y genau*, yw peri i un lefaru, Num. xxii. 28; neu lefaru, Esa. liii. 7; neu lefaru gyda rhwyddineb ac hyfdra cyflawn, Salm cix. 2. Job iii. 1; neu wrando yn ystyriol, fel yr agora byddariaid eu genau i gynnorthwyo eu clyw, ac i ddymuno yn ddifrifol, Salm cxix. 131. *Lledu y safn neu y gwefusau*, yw siarad yn fyrbwyll, yn ymffrostus, ac yn edliwgar, Salm xxxv. 21. Diar. xiii. 3; neu wrandaw gyda y sylw mwyaf, gan chwennych addysg yn ddifrifol, Job xxix. 23; neu ddymuno boddlonrwydd a bendithion i'n henaid yn daer, Salm lxxxi. 10. Y ddaear a *agorodd ei safn*, pan y rhwygodd ar wahan ac y gwnaed gagendor, Num. xvi. 32. Y mae uffern yn *agor ei safn*, pan y bydd lluoedd yn myned iddi, Esa. v. 14. *Attal neu gau y genau*, neu *gadw drwsy genau*, a arwydda teimlad o euogrwydd, cywilydd, attafiad ymadrodd, neu analluogrwydd i lefaru, Rhuf. iii. 19. Salm lxiii. 11. Mic. vii. 5. Preg. xii. 4. Y mae anwiredd yn *cau ei safn*, pan y bydd dynion drygionus yn cael eu hattal rhag arfer eu hawdurdod, ac yn gywilydd ganddynt i bechu yn gyhoeddus, Salm cvii. 42. *Rhoddi y llaw ar y genau*, a bod y *clustiau wedi byddaru*, yw cael ein taraw yn fud gan gywilydd ac arswyd, Mic. vii. 16. Rhoddi *cuaad ar y genau* neu y *gwefusau*, a arwydda cywilydd a gofid, Lef. xiii. 45. Ezec. xxiv. 17, 20. Mic. iii. 7. *Attal y gwefusau*, yw lleferu ychydig, ac yn brydlawn; fel y mae *geiriau y gwefusau*, ymadrodd ofer a segur, ac ymffrost gwag heb ymarferiad, yn tueddu yn unig i dlodi, Diar. x. 19, a xiv. 23. *Gosod y genau yn erbyn y nefoedd*, yw lleferu yn ffroen-uchel ac yn gableddus, heb ofn Duw na dynion, Salm lxxii, 9. *Hogi y tafod*, yw enllibio, cablu, a difenwi gyda diwydrwydd a bywiogrwydd mawr, Salm lxiv. 3. *Cnoi y tafod* neu *ringcian y dannedd*, sydd yn mynegu poen, cynddaredd, ac anobaith mawr, Dad. xvi. 10. *Tan y tafod* neu y *gwefusau*, neu *yn y genau*, weithiau a ddynoda yn y galon, ond fel ag i fod yn barod i gael ei draethu gan y tafod neu y gwefusau, Salm x, 7. a cxl. 3. Weithiau rhoddir y *tafod* am y galon, Salm lii. 2.

Y mae Duw yn gwahanu *tafodau* dynion, pan y bydd yn rhwystro eu

cydfwriadau yn erbyn ei bobl, a'u herlidigaethau o honynt, Salm lv. 9. *Gwefusau yr* eglwys ydynt *fel edau ysgarlad; yn diferu fel dil mêl;* ac y mae mêl a llaeth *dan ei'thafod;* y mae ei gweinidogion, y rhai a draethant wirionedd dwyfol, wedi cael eu golchi yn ngbariad gwaedlyd Iesu, ac yn llefaru yn benaf am dano, ac yn cyfranu gwirioneddau gwerthfawr a melus yr efengyl, er adeiladaeth eneidiau; a gweddi, mawl, cyd-ymddyddan, a cheryddbrawdol y saint, ydynt yn cael eu cyflawni trwy ffydd mewn Prynwr croeshoeliedig, ac yn tueddu yn fawr er adeiladaeth a chyssur ereill, Can. iv. 3, 11. Y mae eu *genau yn gwared,* ac yn *digoni;* eu gweddiau a'u haddysgiadau duwiol ydynt yn foddion iachawdwriaeth a chyssur i ereill, Diar. xii. 6, a xiv. 7. *Allan o enau* tystion Crist y mae tân yn myned allan i ddyfetha eu gelynion: yn ol eu gweddiau, eu gobeithion, a'u mynegiadau hwy y mae dialedd dwyfol yn cael ei gyflawni ar Anghrist, Dad. xi. 5. *Safn y ddraig a'r bwystfil a'r gau brophwyd,* yw awdurdod, dylanwad, neu athrawiaeth Satan, yr amherodraeth Rufeinaidd bagan-aidd, Anghrist, a Mahomet, Dad. xii. 16, a xiii. 2, a xvi. 13. Y mae gan y Tyrciaid allu *yn eu safn, ac yn eu cynffonau;* yn eu harfau tân arswydus, a'u gwyr traed lluosog, neu yn eu milwyr a'u gau-athrawon, Dad. ix. 17, 18, 19. Duw a *ddifroda dafod* môr yr Aipht, trwy symmud pob rhwystr i ddychweliad y Cenedloedd, neu attalfa i adalw yr Iuddewon i'w gwlad eu hunain, ac i gyflwr eglwysig. Esa. xi. 15.

GENESIS. Yr Hebreaid a'i galwant ef, a llyfrau ereill Moses, oddi wrth y gair neu y geiriau cyntaf ynddynt; ond y Groegiaid a'i galwant ef Genesis, neu *genediad;* o herwydd ei fod yn adrodd hanes y greaduriaeth, ac yn nghylch 24 o genedlaethau a hanasant o Addaf. Y mae yn cyrhaedd i 2369 o flyneddoedd, sef o ddechre y byd hyd farwolaeth Joseph; yn mynegu i ni am wneuthuriad Duw o'r byd; am gyflwr dedwydd a chwymp dyn; am ymdaeniad dynolryw yn llinach Cain lleiddiad Abel, a Seth; am ddechreuad crefydd a gwrthgiliad cyffredinol oddi wrthi; am y dylif, gwaredigaeth teulu Noah trwy'r arch, a'u gwaith yn adbobli y byd; am wreiddyn cenedloedd y ddaear, ac adeiladu Babel; am fywyd, a marwolaeth, a hiliogaeth Nachor, Lot, Abraham, Isaac, Esau, Jacob, a Joseph. Gallasai Moses gael sicrwydd dynol am y rhan fwyaf o'r pethau a goffâ efe yn y llyfr hwn. Ó achos eu hir oesau, gallasai Addaf hysbysu i Methuselah; yntau i Sem; Sem i Isaac; Isaac i Lefi,ŵyr pa un oedd Moses. Eithr nid hyn, ond cynhyrfiad digyfeiliorn yr Ysbryd Glân, oedd y sail briodol ar ba un yr aeth efe yn mlaen, ac er mwyn yr hwn yr ydym i gredu ei adroddiad. Nid oes un hanes ond hwn yn gweini unrhyw fynegiad, tebygol, am hen bethau; ac y mae hwn yn meddu cyd-dystioleath bron pob dernyn o hanesiaeth sydd gennym; megys eiddo *Abydenus, Berosus, Megasthenes, Polyhystor, Nicolaus,* &c. Pa un a ysgrifenodd Moses y llyfr hwn tra yn Midian, neu yn hytrach pan yr arweiniodd efe yr Hebreaid trwy yr anialwch, nid ydys yn cyduno.

GENEDIGAETH; 1. Dyfodiad plentyn allan o groth ei fam, Preg. vii. 1. (2.) Y plentyn neu y defnydd anelwig yr esgorwyd arno, Job iii. 16. Dechreuad Israel a'n cyflwr pechadurus ninau wrth naturiaeth, a elwir yn *enedigaeth o wlad Canaan;* nid oedd eu dechreuad hwy yn well nag eiddo y Cenedloedd gwaethaf; ac yr oedd ganddynt yr un arferion a deddfau llygredig; ac yr ydym yn cael ein geni yn halogedig gan bechod, dan y felldith ddwyfol, ac yn agored i gospedigaeth gyfiawn, Ezec. xvi. 3. Y mae diwygiad mewn tir, neu gynnydd rhyfeddol yr eglwys yn cael ei alw yn *enedigaeth.* Trallod ac anhawsdra sydd wrth ei ddwyn ef i ben, a buddiol ac hyfryd yw y ffrwyth o hono, Esa. lxvi. 9, a xxvi. 18. Y *plant a ddaethant hyd yr enedigaeth, ond nid oes grym i esgor:* ein diwygiad dechreuedig a attaliwyd gan ddifrod yr Assyriaid; neu yn hytrach, ein cyflwr a ddygwyd i'r fath gyfyngder, fel, oni chyfrynga Duw yn ddiattreg, ni a ddinystrir, Esa. xxxvii. 3. Llefarir llawer am yr enedigaeth newydd yn yr ysgryth-

yr. "Oddi eithr *geni* dyn *drachefn*, ni ddichon efe weled teyrnas nefoedd," Ioan iii. 5. "O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirionedd," Iago i. 18. Y mae yr adenedigaeth, neu yr enedigaeth newyddhon wedi rhoddi dechreuad i lawer o ymarferiadau hunan-gyfiawn. Pan y bydd gair gwirionedd yr efengyl yn goleuo meddwl tywyll dyn, y mae egwyddor newydd o fywyd ynddo. Os oes neb yn Nghrist Iesu, y mae efe yn greadur newydd. Pa mor syml bynag ydyw yr efengyl, ni ddichon dim llai na gallu dwyfol yn cydfyned â'r ysgrythyr fendithio unrhyw bechadur euog â gwybodaeth achubol o'r gwirionedd. Fel hyn, Crist yw dechreuad y greadigaeth newydd. *Wedi ein geni nid o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, eithr o Dduw*; wedi ein mabwysiadu i deulu Duw, nid o herwydd ein bod wedi hanu o batricirch sanctaidd, neu yn cyfranogi o'r enwaediad neu yr aberthau, neu o herwydd unrhyw ddoniau naturiol, neu feithriniad o alluoedd naturiol, neu megys yn gweithredu yn ol annogaethau dynol, Ioani. 13. Ismael a *aned yn ol y cnawd*, trwy nerth anian; Isaac, *yn ol yr Ysbryd*, trwy ddylanwad gwyrthiol Ysbryd Duw, pan oedd Sarah ei fam, wrth naturiaeth, yn rhy hen i esgor, Gal. iv. 23, 29.

GENNESARET, gwlad neu ddinas o du y gorllewin i for Tiberias, Mat. xiv. 34.

GENNI, (*gan*) gweddu, cynnwys, Ioan viii. 37.

GERAH; yr ugeinfed ran o sicl. Y bath Iuddewig lleiaf ydoedd, Exod. xxx. 13.

GERAR, hen ddinas o eiddo y Philistiaid, yn rhyw le yn y parth dehau-orllewinol i wlad Canaan, rhwng Cades a Sur, ac nid yn nebpell o Beerseba, nac o Gaza. Yr oedd ei thiriogaethau yn cyrhaedd i Arabia Garregog. Llywodraethid hi gan freninoedd o'r enw Abimelech, bugeiliaid pa rai a fuant yn ofidus iawn i weision Abraham ac Isaac, Gen. x. 19, a xx. a xxvi.

GERSON, (*allfudiad*) mab henaf Lefi. Ar yr ymadawiad o'r Aipht, cynnwysai ei deulu 7500 o wrrywaid, 2630 o ba rai oeddynt yn gymmwys i ryfel. Cyflëwyd hwy wrth y pen gorllewinol i'r babell yn yr ialwch, ac a'u llywodraethwyd gan Eliasaph, mab Jael. Eu gwaith oedd dwyn llenni a chortynau y babell, fel y gorchymynai Ithamar iddynt, Num. iii. 21—25, a iv. 24—28. Pan ddaethant i Ganaan, rhoddwyd 13 o ddinasoedd iddynt, sef Golan a Beesterah, oddi wrth hanner llwyth dwyreiniol Manasseh; oddi wrth Issachar, Cison, Dabarah, Iarmuth, ac Engannim; oddi wrth Aser, Misal, Abdon, Helcath, a Rehob; oddi wrth Naphtali, Cedes, Hamnathdor, a Cartan, yn nghyd â'u maesdrefydd, rhai o enwau pa rai a newidiwyd, neu hwyrach cyfnewidiwyd y dinasoedd am ereill, Jos. xxi. 17—33. 1 Cron. vi. 71—76. O herwydd fod teulu Gerson yn cynnwys dwy ganghen, yr oedd gan eiddo Laadan yn bennaethiaid arnynt, yn nyddiau Dafydd, Jehiel, Zetham, Joel, Selomith, Haziel, a Haran; a chan eiddo Simei, Jahath, Zenath, Jeus, a Beriah, 1 Cron. xxiii. 7—11. Meibion Jehiel, sef Setham, a Joel, oeddynt yn arolygwyr y trysorau yn nhŷ yr Arglwydd, 1 Cron. xxvi. 21, 22.

GESUR, (*golwg y dyffryn*) 1. Dinas neu wlad o du y dehau i Damascus, a thu y dwyrain i'r Iorddonen. Pa un ai Canaaneaid neu Syriaid oedd y Gesuriaid, nid yw yn eglur. Ni yrrodd Moses na Josuah hwy allan; ond Jair, Manassiad gwrol, a'u darostyngodd hwy, Jos. xiii. 11, 12. 1 Cron. ii. 23. Er hyny, yr oedd ganddynt hwy a'u cymmydogion, y Maacathiaid, freninoedd o'u heiddynt eu hunain yn nyddiau Dafydd. Talmai oedd yn teyrnasu, y pryd hwnw, yn Gesur, merch yr hwn, Maachah, a briododd Dafydd, a bu iddo ei fab Absalom o honi. Bu y Gesuriaid yn ddarostyngedig i Isboseth; ac i Gesur y ffodd Absalom, wedi iddo ladd ei frawd, 2 Sam. xiii. 27. (2.) Gesur, neu Gesuri, lle yn y tu dehau-ddwyrain i wlad y Philistiaid; preswylwyr y lle hwn a laddodd Dafydd a'i filwyr, pan yr oedd efe yn trigo yn Siclag, Jos. xiii. 2. 1 Sam. xxvii. 8.

GETHSEMANE, (*dyffryn yr olew*) pentref bychan ar fynydd yr Olew-wydd, a lle, ymddengys, yr oedd *olew-wryf*. Yma yr ymneillduai ein Hiachawdwr weithiau o Je-

rusalem, ac mewn gardd berthynol iddo y bu yn ei ing chwerw, ac y daliwyd ef gan Judas a'i fyddin, Mat. xxvi. 36—50.

GEUDEB, (*gau*) twyll, celwydd. "*Geudeb* yw meibion gwyr." Salm lxii. 9. Wrth *feibion dynion*, a *meibion gwyr*, y deallir pob math o ddyniou, gwreng a boneddig, isel radd ac uchel radd, y tlawd a'r cyfoethog; i'w gosod oll gyda eu gilydd yn y glorian i'w pwyso, a gwegi, *tarth neu anadl*, neu *ewyn dwfr*, yn y pen arall, y maent yn nghyd yn ysgafnach na hwnw. Nid oes dim yn yr holl greadigaeth yn ysgafnach na hwynt.

GEZER; dinas yn agos i Joppa, yn y gongl ddehau-orllewinol i randir Ephraim: ond y Canaaneaid a gadwasant feddiant o honi dros amryw oesoedd, Barn. i. 29. Yr oedd Geser arall yn y tu dehau-orllewinol i wlad Canaan, preswylwyr pa un a darawodd Dafydd a'i filwyr, 1 Sam. xxvii. 8. Hwyrach mai trefedigaeth o Gezer ogleddol oedd y Gezeriaid hyn, ac iddynt newid enw Gezer i Gerar. Y Gezeriaid, neu y Gerariaid hyn, ydynt, tebygol, y Gereaid a'r Gerenniaid yn amser y Maccabeaid. Pa un ai Gezer ddeheuol, neu yn hytrach, ogleddol, a ennillodd Pharaoh, breuin yr Aipht, oddi ar y Canaaneaid, ac a losgodd â than, ac a roddodd megys cynnysgaeth gyda'i ferch i Solomon, yr hwn a'i hadgyweiriodd hi, nid yw yn gwbl sicr, 1 Bren. ix. 15, 16.

GIBBETHON, (*ei dderchafiad*) dinas yn llwyth Dan a roddwyd i'r Lefiaid, Jos. xxi. 23. Gorweddai ar gyffiniau y Philistiaid. Ymddengys i'r Lefiaid ymadael â hi, neu gael ei gyrru allan o honi gan Jereboam mab Nebat. Yn fuan wedi hyn, cymmerodd y Philistiaid feddiant o honi. Ymgeisiodd Nadab mab Jeroboam, ac Elah mab Baasa, i'w hennill hi oddi arnynt hwy; ond y mae yn debygol iddi barhau yn eu dwylaw hwy hyd deyrnasiad Jeroboam yr ail, 1 Bren. xv. 27, a xvi. 15.

GIBEAH; dinas a roddwyd ar y cyntaf i lwyth Judah, ond drachefn i'r Benjaminiaid; neu yr oedd dwy neu ychwaneg o ddinasoedd o'r enw hwn. Dilys yw fod lle a elwid Gibeah, neu y *Bryn*, gerllaw Ciriath-jearim, Jos. xv. 57, a xviii. 28. 1 Sam. vii. 1, a 2 Sam. vi. 3, 4. Gibeah, yn llwyth Benjamin, oedd yn nghylch pedair neu chwech milltir o du y gogledd i Jerusalem, ar fryn. Cyn pen hir ar ol marwolaeth Josuah, yr oedd ei thrigolion wedi myned yn bynod o lygredig a drygionus. Lefiad o fynydd Ephraim a aethai i Bethlehem Judah i ddwyn ei ordderch-wraig butteinllyd yn ol; ei rhieni hi a'i daliasant ef yno rai dyddiau; ond wedi dyfod ymaith o hono o'r diwedd gyda'i ordderch-wraig, ni fynent hwy lettya gyda Chanaaneaid Jebus, ond gwthiasant yn mlaen i Gibeah. Mor anghroesawgar oedd ei thrigolion, fel na chynygodd neb letty iddynt. Gwr hen, o fynydd Ephraim, ymdeithydd, o'r diwedd, a'u gwahoddodd hwy i'w dŷ. Prin y swpperasant, pan y ceisiodd y trigolion anllad y gwr dyeithr, fel y gallent wneuthur cam â'i gorph mewn dull cwbl annaturiol. Pan nad allai unrhyw erfyniad lwyddo, y gwr hen a gynnygodd iddynt ei ferch ei hun, morwyn, a gwraig y Lefiad; y ddiweddaf a fwriwyd allan mewn gwirionedd, a hwy a wnaethant gam â hi, nes ydoedd ar fin marw. Y boreu dranoeth ei gwr a'i cafodd yn farw ar y trothwy, a dygodd ei chelain adref gydag ef; a chan ei ranu yn ddeuddeg darn, a anfonodd ddarn gyda chennad, i bob llwyth, fel y gallent gael eu hennyn gan deimlad o'r cam a gawsai, ac y cyfarfyddent i ddial yr unrhyw. Pan yr ymgasglasant hwy yn Mispeh, dinas yn llwyth Ephraim, yn nghylch wyth milltir o du y gogledd i Gibeah, y Lefiad hwn a fynegodd y matter am ei ddrwg-driniaeth yn Gibeah. O herwydd i'r Benjaminiaid gymmeryd plaid ysgelerwyr Gibeah, y llwyth hwnw a ddinystriwyd bron yn hollol, Barn. xix. a xx. *Dyddiau Gibeah*, a ddynodant amser pan y gwneir ac yr ymddiffynir y drygioni mwyaf cywilyddus, Hos. ix. 9, a x. 9. Llosgwyd Gibeah y pryd hwnw, ond ail-adeiladwyd hi, a bu yn breswylfod freninol y brenin Saul, ac yma y crogodd y Gibeoniaid saith o'i feibion ef. 1 Sam. x. 29, a xv. 34. 2 Sam, xxi. 6. Ei thrigolion hi a ffoisant rhag ofn byddin Sennacherib, Esa. x. 29. Hos. v. 8.

GIBEON—IAID, (*bryn*) dinas yn

sefyll ar fryn yn nghylch pum milltir o du y gogledd i Jerusalem. Gerllaw iddi y gwlawiodd yr Arglwydd genllysg, ac y saethodd fellt ar y Canaaneaid tra y safai yr haul uwch ei phen; ac i gadw coffadwriaeth am hyn, ymddengys i faen mawr gael ei gyfodi yno, Jos. x. 10. Esa. xxviii. 21. 2 Sam. xx. 8. Yn agos iddi yr ymgyfarfu gwyr Dafydd ac Isboseth, ac y lladdwyd Asahel, 2 Sam. ii. 13, a iii. 30. Yma y safai y babell ac allor y poeth-offrwm o ddeutu yr amser hwnw a chwedi hyny, 1 Cron. xxi, 29, 30. 1 Bren. iii. 3, 4; ac yn mhen hir amser ar ol hyn y daliwyd Ismael mab Nethaniah, ac yr adenillwyd ei gaethglud ef, Jer. xli. 12. Priodor o honi oedd Hananiah y gau brophwyd, Jer. xxviii. 1. Yn amser Josuah, yr Hefiaid, y rhai a breswylient yn Gibeon, Chephirah, Beeroth, a Chiriath-jearim, wedi eu dychrynu o herwydd mynediad gwyrthiol yr Hebreaid trwy yr Iorddonen, a'u cymmeriad o Jericho ac Ai, a ddaethant i'w cyfarfod wedi eu gwisgo mewn hen ddillad, a chyda lluniaeth sych a brithlwyd, megys pe daethent o wlad bell, wedi eu dychrynu o herwydd dadymchweliad yr Amoriaid tu hwnt i'r Iorddonen; ac a erfyniasant arnynt fyned mewn cynghrair â hwynt. Wedi gwneuthur rhai gwrthddadleuon, y tywysogion Hebreaidd, heb ymgynghori â'r Arglwydd, a gymaethant gyfammod â hwy, ac a gyfranogasant o'u hymborth, fel tystiolaeth o'u cyfeillgarwch. Ar y trydydd dydd wedi hyny, yr Hebreaid a ganfuant eu camgymeriad, trwy ddyfod i'w dinasoedd hwy. Wedi edliw iddynt eu twyll, y Gibeoniaid a ddadleuasant, fel esgus, y perygl o lwyr ddinystr oedd yn crogi uwch en penau. Yn ol geiriau y cyfammod, eu bywydau a arbedwyd; ond Josuah a'u rhoddodd hwy at y gwaith caeth-wasaidd, eithr cyssegredig, o gymmynu coed a gwehynu dwfr i dŷ Duw. Pump o'r cenedloedd cymmydogaethol yn ddiattreg a gyfodasant arfau yn eu herbyn am ymostwng i'r Israeliaid; ond Josuah a'u hamddiffynodd hwy, ac a dorrodd eu gelynion ymaith, Jos. ix, a x. Saul, a'i ddeiliaid trwy ei orchymyn ef, dan esgus o serch at y genedl Hebreaidd, a laddodd lawer oedd o honynt. Yn mhen hir amser ar ol marwolaeth Saul, cospodd Duw yr Hebreaid â thair blynedd o newyn; ac ni symmudwyd ef nes i'r Gibeoniaid, trwy ganiattâd Dafydd, grogi saith o feibion Saul ger bron yr Arglwydd yn Gibeah, 2 Sam. xxi. Cyn, neu wedi hyn, y Gibeoniaid a'r cyfryw ereill a ymroddasant, neu a roddwyd gan Dafydd, Solomon, neu ereill, at wasanaeth caethwasaidd y babell, neu y deml, a elwid *Nethiniaid*. Caethgludwyd hwy gyda'r Iuddewon i Babilon; ac ymddengys i'r rhan fwyaf o honynt fwynhau bywyd esmwythach na phe yr arosent yn Casiphia a'r lleoedd oddi amgylch; ond dychwelodd 392 gyda Zorobabel, a 220 gydag Ezra, ac a drigasant yn Ophel yn Jerusalem, a lleoedd ereill; a Ziha a Gispa oeddynt gyfarwyddwyr iddynt, Lef. xxvii. 1—8. Ezra. ii. 58, a viii. 20. Neh. iii. 26, a x. 28, a xi. 21. O herwydd eu bod yn awr yn rhy anaml at eu gwaith, yr Iuddewon a bennodasant fath o wŷl, yn mha un y dygasant goed at y deml. A oedd y Nethiniaid hyn yn cynddrychioli Iesu, megys, o herwydd ein twyll ni, wedi ei roddi at wasanaeth isaf yr eglwys, ac megys darparwr yr hyn sydd angenrheidiol i lanhau ac ennyn ein hoffrymau ysbrydol? Neu, a oeddynt hwy yn cysgodi gweinidogion a saint yn eu gwaith isel a llafurus, yn foddlawn i fod yn bob peth, a gwneuthur pob peth, er gwasanaeth Crist, yn yr hwn y maent yn byw yn agos at Dduw?

GIDEON, *(drylliwr)* mab Joas, o hanner llwyth gorllewinol Manasseh, a dinas Ophrah. Gwedi i'r Midianiaid a'u cynghreirwyr, o yn nghylch A.M. 2752 hyd 2759, fod yn gorthrymmu yr Hebreaid yn dost, gan ddinystrio eu cnydau, a meddiannu eu hanifeiliaid, yr Hebreaid a waeddasant ar yr Arglwydd. Trwy ei brophwyd, efe a'u ceryddodd hwy am eu camddefnydd anniolchgar o waredigaethau blaenorol; ond a ymddangosodd i Gideon, fel yr oedd yn dyrnu gwenith mewn lle dirgel; ac a gadarnhaodd iddo, er ei waeledd ei a'i deulu, y byddai iddo waredu Israel o'u caethiwed presennol. I gadarnhau ei ffydd yn hyn, efe, â chyffyrddiad ei ffon, a barodd i dân ddyfod o'r graig ac ysu y myn gafr lladdedig, a'r teisenau croywon, oll wedi eu

gwlychu âg isgell, yr hwn a roddasai Gideon, wrth ei orchymyn ef, arnynt. Pan aeth yr Arglwydd ymaith o'i olwg, arswydodd Gideon yn ddirfawr rhag marwolaeth ddiattreg, o herwydd iddo weled angel: ond sicrhawyd iddo gan Dduw, nad oedd efe mewn unrhyw berygl. Efe, yn ddioed, a adeiladodd allor i'r Arglwydd, ac a'i galwodd JEHOFAH SALOM, sef, *yr Arglwydd a berfeithia*, neu *a enfyn heddwch*. Y noson honno, cyfarwyddodd Duw ef i dorri y llwyn i lawr, a distrywio yr allor yr hon a gyfodasai ei gymmydogion i Baal, ac adeiladu allor i Dduw ar y graig lle yr ysasai y tân gwyrthiol ei ddarpariaeth, ac offrymu un o fustych ei dad arni. Gyda chynnorthwy deg o weision ei dad, efe a gyflawnodd y gorchymynion hyn yn fanwl. Gwedi ymgreuloni o herwydd hyn, ei gyd-ddinasyddion a geisiasant ei einioes ef; ond Joas ei dad a wrth-ddangosodd mai anweddaidd i bobl gyfammodol yr Arglwydd oedd dadleu dros Baal; a'i hod yn fwy rhesymoli bob un a wnaeth hyny gael ei ladd; ac os oedd Baal yn Dduw mewn gwirionedd, y dylai efe arfer ei allu i gospi yr hwn a fwriasai ei allor i lawr; ac efe a alwodd ei fab Jerubaal, sef *dadleued Baal âg ef*. Pan y deallodd fod y Midianiaid, agos 200,000 o nifer, gwedi croesi yr Iorddonen tua'r gorllewin, ac yn gwersyllu yn nyffryn Jezreel, nid yn neppell oddi yno, Gideon, wedi ei lenwi o Ysbryd Duw, a udganodd mewn udgorn, ac a gasglodd ei gyfeillion yr Abiezriaid; trwy gennadau, efe a geisiodd gan lwythau Manasseh, Aser, Zabulon, a Naphtali, i'w gyfarfod ef, er ymosod ar y Midianiaid. Yr oedd ganddo yn fuan lu o 32,000 o wyr. Trwy arwydd deublyg, sef gwlitho ar gnu o wlân, tra yr oedd y ddaear oddi amgylch yn sych; a thrachefn, gwlitho ar y ddaear, tra yr oedd y cnu yn sych, yr ymostyngodd yr Arglwydd i gadarnhau ei feddwl ammhêus.

Fel hyn, yn sicr o fuddugoliaeth, arweiniodd Gideon ei luoedd yn gywir tuag at y Midianiaid. Wrth ffynnon Harod, profwyd ei ffydd ef ddwy waith. Gorchymynodd Duw iddo rybuddio ei lu, fod i bob un ag oedd, yn y radd leiaf, yn ofnus, ddychwelyd adref; 22,000 a ymadawsant, a 10,000 a arosasant. Fel y dangosid yn fwy cyflawn fod y fuddugoliaeth yn gwbl o Dduw, gorchymynwyd iddo yn mhellach beri i'w holl bobl yfed o'r afon, heb arfer unrhyw lestr. Ar y prawf hwn, ni leibiodd ond 300 y dwfr gan godi eu llaw at eu genau. Y rhai hyn yn unig a gadwyd, a'r lleill oll a anfonwyd adref. Gorchymynodd i'r 300 hyn ddarparu lluniaeth dros rai dyddiau, a phob un udgorn, a lamp wedi ei chuddio mewn piser gwag. Nid ydym yn clywed dim am arfau. Yn y nos, Gideon, trwy gyfarwyddyd Duw, a aeth i wersyll y Midianiaid, yn nghyd â Phurah ei langc; yno efe a glywodd un yn adrodd ei freuddwyd wrth y llall, i dorth haidd, gan dreiglo o'r bryn, ddymchwelyd eu pabell; pa freuddwyd a ddeongloddd y llall am waith Gideon yn gorescyn y Midianiaid. Gwedi ei gefnogi trwy hyn, Gideon a frysiodd yn ol at ei wyr; a chan orchymyn iddynt i'w ddynwared ef ei hun, hwy, yn dair byddin, a ymosodasant ar wersyll Midian ar wahanol ystlysau. Gideon, yn ddisymmwth a waeddodd, "Cleddyf yr Arglwydd a Gideon!" a chan ddryllio ei biser, a'i bwriodd ef a'i lamp ar y llawr, ac a udganodd yn ei udgorn; ei holl wyr a wnaethant yr un peth. Gwedi eu llenwi â dychryn, y Midianiaid a ffoisant, a chan gymmeryd eu cyfeillion yn lle gelynion yn y tywyllwch, hwy a laddasant y naill y llall. Y Manassiaid, yr Aseriaid, a'r Naphtaliaid, a ymlidiasant ar ol y ffoaduriaid. Gwedi eu cynnyrfu gan gennadau Gideon, yr Ephraimiaid a ennillasant rydau yr Iorddonen, ac a laddasant Oreb a Zeeb, dau o dywysogion y Midianiaid. Lladdwyd 120,000 o'r Midianiaid; 15,000 a arosasant etto yn un corph, ac a aethant dros yr Iorddonen gyda Zeba a Salmuna eu tywysogion. Gideon a ymlidiodd yn dynn ar eu hol. Gan fod ei wyr yn ddiffygiol, efe a ddymunodd ar henuriaid Penuel a Succoth, wrth fyned heibio, i roddi lluniaeth iddynt; ond hwy, gan ei gyfrif yn ynfyd i erlid ar ol y Midianiaid, gyda y fath ddymnaid o wyr, a wrthodasant roddi ymborth i'w lu ef. Efe a ddaliodd y Midianiaid yn Carcor, yn agos i wlad Ammon; a chymmerodd y breninoedd yn garcharorion, ac a holol ddiu-

ystriodd eu byddin. Ar ei ddychweliad i'r gorllewin, efe a geryddodd y ddwy ddinas am eu creulondeb a'u hanuharch. A drain a mieri efe a ddrylliodd gnawd tywysogion Succoth; efe a laddodd bennaethiaid Penuel, ac a ddistrywiodd eu gwlad. Gwedi cael o bono i Zeba a Salmuna ladd rhai o'i gyfeillion neu ei berthynasau yn mynydd Ephraim, efe a orchymynodd i'w fab Jether eu lladd hwythau; ond gan i'r llangc ofni, efe a wnaeth hyny ei hun. Gyda geiriau tirion efe a dawelodd yr Ephraimiaid beilchion, y rhai a achwynasant am na wahoddasai eu cynnorthwy hwy yn gynnarach. Yr Hebreaid a gymygasant iddo ef a'i hiliogaeth, arglwyddiaeth ar eu cenedl; ond efe, yn ddiweol, a'i gwrthododd; ac a ddywedodd wrthynt, mai yr Arglwydd oedd eu hunig benaeth cyfiawn. Ar ei ddymuniad, hwy a roddasant iddo glust-dlysau eu hysglyfaeth, y rhai a ddaethant i 1700 sicl o aur, neu £2380 o'n harian ni, heblaw addurniadau ereill. O'r rhai hyn Gideon a wnaeth ephod, ac a'i gosododd yn Ophrah. Pa un ai dychymygu a wnaeth fod y gorchymyn a gafodd i offrymu aberth, yn ei osod ef yn offeiriad, neu a oedd efe yn bwriadu ymgynghori à Duw trwy yr ephod hwn, neu, a oedd yn ei fwriadu yn unig fel arwydd coffadwriaethol o'r fuddugoliaeth, nis gwyddom; ond efe a drôdd allan yn addlysur o eilunaddoliaeth i Israel, ac o ddinystr i'w deulu yntau. Gwedi barnu Israel 40 mlynedd, bu farw yn nghylch A.M 2798, gan adael ar ei ol 70 o feibion, pa rai a laddwyd oll yn ddiffaith gan ei ordderch-fab Abimelec, Barn. vi. vii, a viii.

A oedd ein Gwaredwr yn cael ei rag-gysgodi gan Gideon? Mor ddistadl ei gyflwr o ymddarostyngiad! ond pemodol, arbenig, a phryddlawn ei alwad at ei waith, a gwyrthiol y cadaruhâd o hono! Mor bwysig ac angenrheidiol ei waith o'n hiachawdwriaeth ni! Gyda pha fath awyddfryd tanllyd yr offrymodd efe ei aberth, y dadymchwelodd eilunaddoliaeth, ac y mae yn adferu gwir gariad a gwasanaeth Duw! Trwy ychydig o bregethwyr gweinion a diarfog, yn seinio udgorn yr efengyl ac yn amlygu ei goleuni a'i thân o'u llestri pridd, efe a orchfygodd bechod, Satan, a'r byd, a'u gweision llusosog. Mor garedig y mae efe yn ein gwahodd i gyfranogi âg ef yn ei fuddugoliaethau! mor dirion y mae efe yn heddychu ei gyfeillion afresymol! a pha ddial arswydus a esyd efe ar ei ddirmygwyr, o Judah a Rhufain; ac a wna ar bawb o'r cyfryw a wrthodant ddiwallu ei bobl dlodion yn amser en hangen.

GIHON (*gorwyllt*). 1. Un o bedwar pen neu gaingc yr afon oedd yn dyfrhau gardd Eden, ac yn amgylchu neu yn rhedeg ar hyd ymyl holl wlad Cush. Yr Arabiaid a alwant yr afon honno a rêd tua'r gogledd-orllewin i fôr Caspia, ac sydd yn derfyn gogledd-ddwyreiniol Persia ddiweddar, yn Gihon; ond nis gall hon fod yn Gihon yr ysgrythyr. Barna *Calmet* a *Reland* mai yr afon Araxes yw y Gihon, yr hon gan darddu yn Armenia, yn agos i flaen yr Euphrates, sydd yn rhedeg tua'r dwyrain i fôr Caspia: *Calfin, Scaliger*, ac ereill, a fynant mai caingc orllewinol ffrwd gymmysgedig yr Euphrates a'r Tigris yw hi. Y mae yn ddiogel genym fod *Bochart, Wells*, &c. yn fwy ar yr iawn, y rhai a farnant mai y gaingc ddwyreiniol yr hon sydd yn rhedeg ar hyd ystlys orllewinol *Cush*, Susiana, neu Chusistan, yw Gihon, Gen. ii. 13. (2.) Ffynnon neu ffrwd hynod o du y gorllewin i Jerusalem, yn agos i ba un yr enneiniwyd Solomon, 1 Bren. i. 33; a chaingc neu ffrwd uchaf neu fwyaf deheuol pa un a argaeodd Hezeciah y tu fewn i'r muriau, neu a ddygodd yn ddirgel i'r ddinas, pan yr oedd yn ofni gwarchaead gan yr Assyriaid, 2 Cron. xxxii. 4, 30.

GILBOA, (*cylch ymofyniad*). mynydd hynod o herwydd gorchfygiad yr Hebreaid, a lladdiad Saul a'i dri mab: gorweddai yn nghylch 60 milltir o du y gogledd i Jerusalem, a 6 o du y gorllewin i Bethshan, yn y dehau i ddyffryn Jezreel. Er i Dafydd, yn ei farwnad, ddymuno i'w ffrwythlondeb ar ferol gael ei droi yn ddiffrwythdra a sychder; ettо teithwyr a sierhant i ni fod gwlaw a gwlith yn syrthio arno cystal âg ar leoedd ereill, 1 Sam. xxviii. 4, a xxxi. 2. 2 Sam. i. 6, 21.

GILEAD (*carnedd y dystiolaeth*) 1. Mab Machir ac wyr Manasseh.

Ei feibion oeddynt Jezer, Helec, Asriel, Sechem, Semida, a Hepher, o ba rai y bu iddo eppil lluosog, y rhai a wladychasant tu hwnt i'r Iorddonen, Num. xxvi. 30, 31, 32, a xxxii. 40. (2.) Tad Jephtha, yr hwn a feddai deulu lluosog, ac a allai fod o hiliogaeth y blaenaf, Barn. xi. 1, 2. (3.) Trum nodedig o fynyddoedd, yn cyrhaedd bron yr holl ffordd o Libanus i wlad Moab, yn lled bell o du y dwyrain i'r Iorddonen. Pa un ai oddi wrth *Galeed*, neu *garnedd tystiolaeth* Jacob, y cafodd ei enw dechreuol: neu oddi wrth Gilead mab Machir; dilys yw fod yr holl wlad berthynol i'r Hebreaid, o du y dwyrain i'r Iorddonen, a pha un a gymerwysai Perea, Golan, Basan, a Trachonites, yn cael ei galw weithiau Gilead, a'r bobl Gileadiaid, Num. xxxii. 3, 26; ond y parth gogleddol o'r mynydd-dir a elwid yn fwyaf priodol *Gilead*, Num. xxxii. 1. Yr oedd Gilead yn nodedig am y balm goreu, Jer. viii. 21, a xlvi. 11, a li. 8; ac am y borfa fwyaf ragorol; ac o herwydd hyn, cyffelybir cyfiwr llwyddiannus i *brofedigaeth Gilead*, Can. iv. 1. Mic. vii. 14. Zech. x. 10. Jer. l. 19. Yn amser Jephthah, annhreithliwyd hi yn arswydus gan yr Ammoniaid, y rhai a honasant hawl i ran fawr o honi; ac ymddengys iddynt feddwl am adnewyddu eu hawl ffugiol yn nyddiau Saul. Nid nes ar ol marwolaeth Isboseth y bu Dafydd yn frenin yma. Difrodwyd hi yn fynych yn ddychrynllyd gan y Syriaid, dan Benhadad ac Hazael. Pan y caethgludodd yr Assyriaid yr Hebreaid, meddianwyd hi yn gyffredinol gan yr Ammoniaid a'r Moabiaid. Ar ol caethiwo y Caldeaid, yr Iuddewon, gyda chymmysgedd o Genedloedd, a gyfanneddasant ynddi, Barn. xi. 2 Sam. ii. 9. Salm. lx. 7. Amos i. 3, 13. Nid ydym yn coño am unrhyw wyr enwog o'r wlad hon, oddi eithr Jair, Jephthah, Ibzan, ac Elias. (4.) Dinas a elwid *Ramoth-Gilead*, a Ramoth-Mizpeh; dinas gadarn yn agos i'r fan lle yr ymgyfammododd Jacob â Laban, a pha un oedd yn derfyn dwyreiniol llwyth Gad. Dinas y Lefiaid, a dinas noddfa ydoedd, Jos. xx. 8, a xxi. 37. Ymddengys ei bod yn nodedig am eilun-addoliaeth, Hos. vi. 8, a xii. 11; fel yr oedd am farnedigaethau Duw, gan ei bod yn brif asgwrn amryson rhwng y Syriaid a'r Hebreaid, yn nyddiau Ahab a Jehu, &c. 1 Bren. xxii. 2 Bren. viii, a ix. *Chwi* deulu breninol Judah, ydych i mi *fel Gilead* a *phen Libanus*; hyny yw, er eich bod chwi mewn cyflwr mor flodeuog ac uchelwych â phorfëydd Gilead, neu gedrwydd Libanus, myfi a'ch gwnaf yn ddiffeithwch, ac a'ch distrywiaf chwi, Jer. xxii. 6. Benjamin a *feddianna Gilead*; y llwyth hwnw a fu unwaith mor wan, a lwydda yn ddirfawr; rhan o honynt, ar ol caethiwed y Caldeaid, neu eu gwasgariad presennol, a etifeddant y wlad o du y dwyrain i'r Iorddonen, Obad. xix.

GILGAL(*treigl*). 1. Lle enwog, o ddeutu tair milltir o du y gorllewin i'r Iorddonen, a hwyrach o ddeutu cymmaint â hyny o Jericho. Yma y gwersyllodd Josuah am ennyd o amser wedi iddo fyned trwy yr Iorddonen; a thrwy enwaedu ar y bobl, a *threiglo* eu gwaradwydd ymaith, a roddodd enw i'r fan. Adeiladwyd yma ddinas. Yma y cadarnhawyd ei deyrnas i Saul, ac y crybwyllwyd wrtho am ei wrthodiad, ac y darniwyd Agag brenin Amalec o flaen ei wyneb, 1 Sam. xi, a xv. Yn amser Samuel, yr oedd yma allor wedi ei chyfodi, ac aberthau yn cael eu hoffrymu arni, 1 Sam. xi. 15, a xv. 33. Pa un a oedd parch eilun-addoligar yn cael ei dalu i'r lle, neu unrhyw eilun wedi ei osod i fynu yn amser Ehwd, oddi wrth yr hwn, hwyrach, y meddyliodd Eglon ei fod yn dwyn ei gennadwri, nid yw sier; ond tuag amser adfeiliad teyrnas y deg llwyth, yr oedd eilunod yn cael eu haddoli yma, Barn. iii. 19. Hos. iv. 15. Amos iv. 4, a v. 5. (2.) Dinas neu wlad yn nghylch chwe milltir o du y gogledd i Antipatris, ac hen freniniaeth pa un oedd yn gymmwysedig o amrywiol genedloedd neu lwythau, Jos. xii. 23. Yr oedd pentref a elwid Galgulis o ddeutu y fan hon, 400 o flyneddoedd ar ol Crist.

GIRGASIAID; llwyth o'r hen Ganaaneaid, Jos. xxiv. 11. Dywedir i ran o honynt ffoi ymaith i Affrica Ogleddol: a *Procopius* a ddywed i ni am hen golofn yn y wlad honno, arysgrifen pa un a arwyddai i'r trigolion ffoi rhag wyneb Josuah

y difrodwr. Hwyrach mai gweddill o honynt oedd y Girgesiaid yn nhu y dwyrain i fôr Tiberias. Gwel *Gadara*.

GITTITH, yn nhitl Salm viii, lxxxi, a lxxxiv, a feddylir gan rai ei fod yn enw offeryn cerdd a ddyfeisiwyd yn Gath; gan ereill, ei fod yn arwyddo *gwin-wryf*, a bod y Salmau hyn yn cael eu canu ar ol cynhauaf y gwin; ereill a feddyliant eu bod yn cael eu canu gan wyryfon a anwyd yn Gath; ereill, iddynt gael eu cyfansoddi ar orchfygiad Goliath y Githiad; ond y mae hyn yn dra annhebygol.

GITHIAID; trigolion Gath, Jos. xiii. 3. Hwyrach i Obed-Edom ac Ittai, cyfeillion Dafydd, gael eu galw Githiaid, o herwydd iddynt gyrchu atto ef yn Gath; neu o herwydd mai genedigion oeddynt o Gittaim, dinas yn llwyth Benjamin, i'r hon y ffodd y Beerothiad ar ol marwolaeth Saul, a pha un a ail-adeiladwyd wedi y caethiwed, 2 Sam. vi. 10, a xv. 19, a iv. 3. Neh. xi. 33,

GLAN; PUR. (1.) Rhydd oddi wrth fudreddi naturiol, ûs, neu sorod, Diar. xiv. 4. (2.) Rhydd oddi wrth halogrwydd seremoniol, Lef. x. 14. Rhuf. xiv. 20. (3.) Rhydd oddi wrth fudreddi moesol, llygredigaeth, ac oferedd, Job xiv. 4, a xxv. 5. (4.) Diniweid; cyfiawn; rhydd oddi wrth euogrwydd, Act. xviii. 6, a xx. 26. Y mae gwin yn *bur*, pan heb ei gymmysgu â dwfr, Deut. xxxii. 14. Y mae mettel yn *bur*, pan heb ddim sorod. Y mae olew, myrr, a thus, yn *bur*, pan heb unrhyw sothach neu gymmysgedd, Exod. xxv. 17, 31. Y mae ebran neu rawn yn *bur*, pan y bydd heb ûs neu dywod, Esa. xxx. 24. Y mae bwydydd yn *lân*, pan yn gyfreithlon i'w harfer. Yr oedd yr hen aberthau, offeiriaid, a dynion ereill yn *lân*, pan heb halogrwydd seremoniol, Ezra vi. 20. Yr oedd purdeb y saint yn gynnwysedig yn mod eu calonau wedi eu puro oddi wrth gydwybod ddrwg trwy adgyfodiad Crist, Diar. xx. 9. Job xvii, 9. 1 Tim. i, 5. Mat. v. 8. *Pur yw pob peth i'r rhai pur:* i'r rhai hyny y sydd â'u cydwybod a'u calon wedi eu puro trwy waed ac Ysbryd Iesu, y mae pob bwydydd yn gyfreithlon, Tit. 1. 15. *Rhoddwch elusen, a phob peth sydd lân i chwi;* trowch eich twyll yn onestrwydd a chariad, ac yna nid rhaid i chwi ofni bwytta â dwylaw heb eu golchi, Luc xi. 41. *Purdeb* gweddi, sydd yn gorwedd yn ei gwaith yn tarddu o *galon bur*, ac yn deisyf pethau cyfreithlon i ddybenion cyfreithlon, Job xvi. 17. *Purdeb* gair, cyfraith, crefydd, ac ofn Duw, sydd yn gorwedd mewn rhydd-did oddi wrth gyfeiliornad ac halogrwydd pechadurus, Salm xiii. 6, a xix. 8. Iago i. 27. *Glendid* gwaed ac Ysbryd Crist, sydd yn gorwedd yn eu purdeb cynnwynol anfeidrol, a'u rhinwedd diderfyn i garthu ein heuogrwydd a'n llygredd ymaith, Ezec. xxxvi 25.

GLANHAU, PURO; gwneud yn bur neu lân. (1.) Gwneud yn rhydd oddi wrth fudreddi naturiol neu sorod, Marc vii. 19. Mal. iii. 3. (2.) Cyssegru i wasanaeth sanctaidd, a rhyddhau oddi wrth halogrwydd seremoniol, Ezec. xliii. 20, 26. Lef. viii. 15. Num. viii. 12. (3.) Symmud euogrwydd pechod, trwy gymmwysiad o waed Iesu, Heb. ix. 14. 1 Ioan i. 9; a'i rym a'i halogrwydd ef, trwy yr adenedigaeth a sancteiddiad trwy air Crist, *Yr awr hon yr ydych chwi yn lân, trwy y gair a lefarais i wrthych*, Ioan xv. 3. Tit. iii. 5. Y mae Crist yn *puro* ein pechodau, trwy wneud iawn drostynt â'i waed, Heb. i. 3. Y mae efe a'i Dad hefyd yn *glanhau* dynion, trwy gymmwysiad nerthol o'i waed a'i Ysbryd trwy ei air fel moddion, Ezec. xxxvi. 25. Dad. i. 5. Yr ydym yn *glanhau* ein hunain oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd, trwy gynnal purdeb y cyfundod Cristionogol, 1 Petr i. 22. *Dyrnodiau a lanhâ gelloedd y bol;* ceryddon dwyfol ydynt yn ddefnyddiol er ein darostwng ni dan alluog law Duw, Diar. xx. 30. Esa. xxvii. 9. Y mae gwlad yn cael ei *phuro*, pan y bydd dynion annuwiol, y rhai a'i halogant hi, yn cael eu distrywio, 2 Cron. xxxiv. 3. (6.) Yr oedd y drefn o buredigaeth oddi wrth halogrwydd seremoniol yn dra gwahanol mewn dull: ond yr oeddynt oll yn arddangos glanhad gradd ol ein cydwybod, calon, a bywyd, trwy air, gwaed, ac Ysbryd Iesu Grist. Efe, yr hwn a offrymai fwch y pech-aberth, neu a daenellai ei

waed; efe, yr hwn a arweiniai y bwch dihangol i'r anialwch; efe, yr hwn a losgai gig y pech-aberth dros yr archoffeiriad, neu y gynnulleidfa; a'r dyn neu y dilledyn, a ddrwgdybid yn unig o'r gwahanglwyf, a burid trwy olchiad unigol mewn dwfr. Y llestr pres, yn mha un y berwasid cig y pech-aberth, oedd i gael ei *olchi* a'i *ysgwrio* mewn dwfr, Lef. xvi, a vi. 28. a xiii, a xiv. Efe, yr hwn a losgai yr anner goch, neu a fwriai y coed cedr, yr ysgarlad, neu yr isop i'r tân; efe, yr hwn a ddygai ei lludw; efe, yr hwn a daenellai, neu yn ddianghenrhaid a gyffyrddai â'r dwfr neilldueaeth; efe, yr hwn a fwyttaodd neu a gyffyrddodd âg unrhyw ran o gelain anifel afian; efe, yr hwn a ddefnyddiodd y gwelypriodas, neu y dygwyddodd unrhyw halogiad anfoddoi iddo liw nos; efe, yr hwn mewn unrhyw ffordd a nesasai at ddiferlif, neu a halogasid trwy un ag oedd âg ef arno, a ymolchai mewn dwfr, ac a arosai yn afian hyd yr hwyr, Num. xix. Lef. xi, a xv. Deut. xiv, a xxiii.

I buro gwraig yr hon a esgorasai ar blentyn, yr oedd hi i offrymu oen, turtur, neu gyw colomen, yn offrwm poeth, a thurtur neu gyw colomen yn aberth dros bechod. I lanhau yr halogrwydd a gawsid trwy gyrph meirw; yr oedd y tŷ a'r dodrefn, ar ol bod yn afian saith diwrnod, i gael eu taenellu à'r dwfr neilldueaeth; ac yr oedd y dyn i gael ei daenellu âg ef ar y trydydd a'r seithfed dydd, Lef. xii. Num. xix. Pan y glanheid un oddi wrth y gwahanglwyf, yr oedd efe i gael ei daenellu saith waith à chymmysgedd o ddwfr, gwaed aderyn lladdedig, coed cedr, ysgarlad, ac isop. Ar y dydd cyntaf, golchai ei holl gorph a'i ddillad mewn dwfr, ac eilliai ei holl flew ymaith; ar y seithfed, ail-wnai ei olchiad a'i eilliad; ar yr wythfed, offrymai dri oen yn boeth-offrwm, yn aberth dros gamwedd, ac yn bech-aberth; neu os tlawd a fyddai, turtur neu gyw colomen yn boeth-offrwm, ac un arall yn bech-aberth. Yr oedd cyrrau isaf ei glust ddehau, bawd ei law ddehau, a bawd ei droed dehau, i gael eu henneinio â gwaed ei offrwm dros gamwedd, ac yna â rhan o'i log o olew a'i canlynai ef. Yr oedd taenelliad y gwahanglwyfus â'r cymysgedd rhag-grybwylledig o ddwfr, gwaed aderyn, cedr, ysgarlad, ac isop, yn ei wneuthur yn lân, Lef. xiv.

Yr henuriaid luddewig a ychwanegent lawer iawn o buredigaethau coel-grefyddol; megys Golchi y dwylaw i fynu at ben yr elin o flaen bwyd; golchi ystenau, cwpanau, a byrddau, Marc vii. 2—8.

GLASWELLTYN. Y llysieuyn digon adnabyddus hwnw ar ba un yr ymbortha yr anifeiliaid, y deadellau, &c. a pha un sydd yn addurno ein meusydd, ac yn adfywio ein golwg â'i wyrddlasni, a phob sypyn o'r hwn sydd, trwy ragluniaeth ryfedd Duw, yn amrywiol, Salm civ. 14. Y mae dynion yn gyffelyb i *laswellt;* mor fynych y maent yn blodeuo mewn lluosogrwydd a llwyddiant! ac etto mor fuan y gwywant trwy gystudd a thristwch; neu y torrir hwy i lawr trwy adfyd a marwolaeth! 2 Bren. xix. 26. Esa. xl. 6, 7. Dynion annuwiol ydynt fel *glaswellt pen tai;* gwnant ymddangosiad rhodresgar a blodeuog dros amser byr, ac etto pan ddêl yr awel leiaf o adfyd, mor druenus yw eu cyflwr! ac o ba cyn lleied ddefnydd ydynt hwy! Salm cxxxi. 6. Dan yr udgorn cyntaf, y glaswellt a losgwyd; lluoedd blodeuog o'r bobl gyffredin yn amherodraeth Rhufain a dlodwyd ac a ddistrywiwyd gan y Gothiaid, &c. Lluoedd o Gristionogion proffesedig a lygrwyd gan gau-grefydd Arius, ac a wnaed yn ddiffrwyd er anrhydedd Duw, neu adeiladaeth ereill, Dad. viii. 7. *Y glaswellt, y pethau gwyrddlas,* a'r *prenau,* na niweidiwyd gan locustiaid v pummed udgorn, a eill arwyddo y gwir ddduwiolion a'r gweiniogion a achubwyd yn rhyfeddol rhag y Saraceniaid ysglyfaethus, a rhag twyll ac erlidigaeth yr offeiriaid Anghristaidd, Dad. ix. 4.

GLIN, *(gal-in)* nid yn unig a arwydda y rhan honno o'r corph a elwir felly, ond yr holl gorph, rhan yn cael ei rhoddi am y cwbl, Salm cix. 24; neu am ddynion; felly *gliniau gweiniaid* ydynt yn dynodi dynion gweiniaid a digyssur, Job iv. 4. Heb. xii. 12. Esa. xxxv. 3. *Plygu y gliniau* i un, a arwydda addoliad iddo, neu weddi arno, 1 Bren. xix. 18. Eph. iii. 14; neu

ofyn ganddo a bod mewn ymostyngiad iddo, Gen. xli. 43. Phil. ii. 10. Maethu neu *ddyddanu ar liniau*, yw maethu yn serchiadol, fel y gwna mam â'i phlentyn, Gen. xxx. 3, a 1. 23. Esa. lxvi, 12. *Gliniau yn curo* y naill wrth y llall, sydd yn mynegu braw a dychryn anarferol, Dan. v. 6.

GLYN, (*llyn*) pant, dyffryn. "*Glyn* gweledigaeth," Esa. xxii. 1. Wrth y *glyn* hwn y meddylir Jerusalem, lle y byddent yn cael dadgudd iad dwyfol, a gweledigaethau prophwydoliaethol, yn benaf; a lle yr oedd Duw yn amlygu ei hun yn y sanctei ddiolaf. Yr oedd y ddinas Jerusalem wedi ei hadeiladu ar ddau fryn gyferbyn â'u gilydd, sef Sion ac Acra, a glyn llydan rhynggdynt, medd *Josephus*.

GLYNU, (*glyn*) ymlynu. *Glynu wrth yr Arglwydd*, sydd ymadrodd tra darluniadol o ymroddiad pechadur enog i'r Arglwydd, am ei fod yn cael ynddo iachawdwriaeth gyflawn, a'i holl ddymuniad; yn glynu wrtho ef yn wyneb gwrthwynebiad ac hudoliaethau, ac yn glynu wrtho ef yn ei holl addoliad a'i wasanaeth, Act. xi. 23.

GOB, (*derchafael*) man ar derfyn y Philistiaid, lle y rhoddodd yr Hebreaid i'r Philistiaid ddau ddymchweliad nodedig, ac y lladdasant ddau o'u cawri hwynt. Yn lle Gob, y mae genym *Gezer* mewn adnod arall: yr hyn a ddengys nad oedd Gob a Gezer neppell oddi wrth eu gilydd, os nad yr un oeddynt, 2 Sam. xxi. 18, 19. 1 Cron. xx. 4.

GOBAITH, (*go-paith*, rhagolwg) a arwydda, (1.) Disgwyliad hyderus am fwynhad rhyw beth daionus mewn amser i ddyfod, Job xi. 18. Luc iii. 15. *Gobaith* y saint, sydd yn ddisgwyliad c adarnam bob daioni mewn amser a thragywyddoldeb, wedi ei sylfaenu ar addewidion, perthynasau, a pherffeithderau Duw; ac ar swydd, cyfiawnder, ac eiriolaeth Crist; mae ganddo wrthddrych anfeidrol werthfawr, sylfaen anfethadwy, ac effaith calon lanhaol, 1 Ioan iii. 3: ac y mae yn cael ei alw *gobaith yr efengyl*, am ei cenedlir trwy yr efengyl fel moddion, a'i fod wedi ei sylfaenu ar fynegiadau ac addewidion yr efengyl, Col. i. 23. *Gobaith iachawdwriaeth*, am mai gwaredigaeth oddi wrth bechod a thrueni, a mwynhad o sancteiddrwydd a dedwyddwch, yw y peth y gobeithir am dano, 1 Thes. v. 8: ac y mae yn *obaith bywiol*, yn tarddu oddi wrth fywyd ysbrydol, ac yn gwneuthur dyn yn weithgar a bywiog mewn gweithredoedd da, 1 Petr i. 3; a *gobaith* da, am fod iddo sylfaen, gwrthddrych, ac effeithiau da, 2 Thes. ii. 16. (2.) Yr hyn y gobeithir am dano, Jer. xxix. 11, yn *Heb.* felly Crist, o ran ei ddyfodiad yn y cnawd, oedd *gobaith Israel*, Act. xxviii. 20. Bywyd tragywyddol a elwir y *gobaith gwynfydedig*, *gobaith cyfiawnder*, wedi ei sylfaenu ar gyfiawnder Crist, ac y sydd yn dwyn gweithredoedd da, Gal. v. 5; a *gobaith wedi ei roddi i gadw* yn y nefoedd, Col. i. 5: a *gobaith*, hyny yw, y peth y gobeithir am dano, a *oedir*, a wanha y galon wrth hiraethu am dano, Diar. xiii. 12. (3.) Sylfaen gobaith: felly Ethiopia oedd *gobaith* neu didsgwyliad yr Iuddewon; hwy a ddi-gwyliasant gynnorthwy oddi wrthynt yn erbyn yr Assyriaid, Esa. xx. 5. Duw a Christ ydyw *gobaith* ei bobl; hwy ydyw sylfaen eu gobaith; a'r mwynhad cyflawn o Dduw yn Nghrist yw swm yr holl ddaioni y gobeithir am dano, 1 Tim. i. 1. Jer. l. 7, a xxiii. 13: ond yn yr adnod ddiweddaf hon, gellid darllain y gair, y *llyn golchi*; cymhar Zach. xiii. 1. Eu pobl ydynt *obaith, llawenydd, a choron* gweinidogion, pan y disgwyliant eu cael hwy yn ddigrifwch ac anrhydedd iddynt yn nydd y farn, 1 Thes. ii. 19. Abraham yn erbyn *gobaith* a gredodd dan *obaith*; a obeithiodd am fab, er fod rhagluniaeth yn ymddangos yn hir fel yn naccâu un iddo, Rhuf. iv. 18.

GOBRWY, (*gob*, cynnalydd) 1. Yr hyn a eunillir trwy wasanaeth, neu fel cynnaliaeth gweinidogion, 1 Tim. v. 18. 2 Cor. xi, 8; a'r hyn a ennillir trwy weithredoedd pechadurus a elwir *gwobr anghyfiawnder*, 2 Petr ii. 15. (2.) Ffrwyth llafur dynion, Preg. ix. 5. (3.) Rhoddir gobrwy i farnwr am ei gymmwynas mewn cynghaws, Deut. xxvii. 25. *Gwobr* y duwiol oddi wrth Dduw, yw y bendithion a gyfrana efe iddynt yn ganlynol i'w gweithredoedd da, ac yn enwedig y

rhodd anhaeddedig o fywyd tragwyddol yn y nefoedd, yr hwn a gyfrenir iddynt o drugaredd Duw, a thrwy gyfiawnder Iesu Grist, Mat. v. 12. *Gobrwy yr annuwiolion*, neu *gyflog* eu *pechod*, yw y gosp ofnadwy a chyfiawn honno o farwolaeth dymmorol, ysbrydol, a thragywyddol; pa un a rydd Duw arnynt, Salm xci. 2. Plant ydynt *wobr Duw*, y rhai a gyfrana efe fel bendith i rieni, neu pa rai a gyfiwyna rhieni i Ddiw fel cydnabyddiaeth o'i garedigrwydd, Salm cxxvii. 3. Moliant a pharch uchel gan ddynion, yw *gwobr* ymddangosiadau rhagrithiol o grefydd, Mat. vi. 2, 5. Yr Iuddewon a *hoffent wobrwy ar bob llawr-dyrnu ŷd*; fel putteiniaid yn barod i ymwerthu ar loriau-dyrnu ŷd neu ryw le, ac am fesur o ŷd neu dammaid o fara, hwy a briodolent eu cnydau toreithiog i'w heilunod, ac a roddent iddynt ddegymau o'r cwbl a fyddai ganddynt, ac yr oeddynt yn barod i ymgyssylltu âg eilunod unrhyw wlad o amgylch, er mwyn yr elw mwyaf distadl, Hos. ix. 1.

GODINEB, (*god*, gŵyrad oddi wrth) sydd naill ai *naturiol*, yr hwn, pan ei cymmerir mewn ystyr helaeth, a gynnwys bob math o anniwcirdeb yn y galon, ymadrodd neu ymarweddiad, pa un bynag ai torpriodas, llosgach, a phob math o chwant annaturiol, &c. Exod. xx. 14. Ond a'i gymmeryd mewn ystyr caeth, y mae yn dynodi affeindid rhwng gwr a gwraig, ac un o honynt neu y ddau yn briod â pherson arall: fel hyn y rhaid i ni ei ddeall pan y gosodir marwolaeth fel cosp, ac nad oedd y personau yn berthynasau agos, Lef. xx. 10. Os byddai un o'r personau wedi ei ddyweddio, yr oedd y trosedd a'r gosp yr un â phe buasai yn briod, Deut. xxii. 22—27. Llosgach Reuben â Bilhah yw y weithred gyntaf o odineb y darllenwn am dani. Yn mhlith y Cenedloedd, yr oedd, am hir amser, yn cael ei gyfrif yn drosedd ysgeler, Gen. xx. 9. Tros o ddeutu 500 o flynyddoedd, ni ddarllenwn ond am ychydig neu ddim esamplau o hono yn y wladwriaeth Rufeinig. Ac nid ymddengys ei fod yn gyffredinol nes i'w prydyddion ddarlunio eu duwiau megys bodau tra anllad.

Pennododd Duw drefn i'r Iuddewon i'w ddadguddio ef, pa mor ddirgelaidd bynag ei cyflawnid. Pan y byddai gwr yn drwg-dybied ffyddlondeb ei wraig, efe a'i rhybuddiai hi i ochelyd cyfeillach gyfrinachol â'i chariad-fab drwg-dybiedig: os hi nid ufuddhâi, dygid hi ger bron barnwyr y lle, a'r arwyddion o'r halogrwydd a fynegid. Os hi a barhâi i haeru ei glendid, profid hi trwy y dwfr eiddigedd. Dygid hi at le y babell a'r demi, ac a holid ger bron y Cynghor mawr, neu y sanhedrim. Os hi a barhâi i wadu, dygid hi at borth dwyreiniol y cyntedd allanol, a cher bron lluaws dirfawr o'i rhywiogaeth ei hun, yn wisgedig mewn dû, yr offeiriad, mewn modd arbenig, a'i tynghedai i ddywedyd y gwirionedd; ac a ddangosai ei pherygl wrth yfed y dwfr eiddigedd os oedd hi yn euog. Hithau a ddywedai AMEN; yn cynnwys dymuniad arbenig i ddialedd ddisgyn arni os oedd yn euog. Yr offeiriad a ysgrifenai y tynghediad a'r felldith ar ddarn o femrwm neu risglyn pren: yna efe a lanwai lestr pridd newydd â dwfr sanctaidd o un o'r cawgiau cyssegredig, neu hwyrach â'r dwfr puredigaeth; cymmysgai âg ef beth llwch wedi ei gymmeryd oddi ar lawr y babell neu y demi: ac wedi darllain yr ysgrifen i'r wraig, a derbyn ei llaii-adroddiad o Amen, efe a olchai yr inge allan, â pha un yr ysgrifenasid y tynghediad a'r felldith, i'r cymmysgedd o lwch a dwfr: yn y cyfamser, offeiriad arall a rwygai gwrr uchaf ei gwisgoedd, a ddioganodd am ei phen, a annhrefnai ei gwallt, a wregysai ei gwisgoedd hanner-rhwygiedig islaw ei dwyfron, ac a gyflwynai iddi yn nghylch pwys a hanner o flawd haidd mewn padell ffrio, heb olew nac arogl-darth, i nodi pa mor anhyfryd gan Dduw oedd yr achlysur o'r offrwm hwn. Yna yr offeiriad, yr hwn a barottoisai y dwfr chwerw, a barai iddi i'w yfed; a roddai y badell gyda'r blawd yn ei llaw, a gynhyrfai ychydig arno, ac a losgai ran o hono ar allor y poeth-offrwm.

Os y wraig a fyddai ddieuog, y trafiwnge hwn a gadarnhâi ei hiechyd, ac a'i gwnai yn ffrwythlawn; ond os euog, hi yn ddiattreg a welwai; ei llygaid a neidient allan o'i phen; ei chroth a chwyddai; ei morddwyd-

ydd a budrent; a gwthid hi allan o'r cyntedd, fel na halogid ef gan ei marwolaeth waradwyddus. Dywedir fod ei chariad-fab, pa cyn belled bynag y byddai, yn cael ei gystuddio ar yr un amser mewn modd cyffelyb: ond os byddai y gwr yn euog o buteindra, haerir nad oedd y dwfr chwerw yn cael un effaith, Num. v. 12—31.

Dygwyd gwraig wedi ei dal yn y weithred o odineb gan yr Iuddewon at Iesu Grist, i brofi a faglai efe ei hun trwy gyflawni rhan barnwr gwladol, wrth roddi dedfryd yn ei herbyn; neu wrth-ddywedyd cyfraith Moses, wrth ei gollwng ymaith yn ddigosp. Efe a orchymynodd i'r cyhuddwr, dieuog o drosedd cyffelyb, daflu y garreg gyntaf atti: eu cydwybodau, wedi eu deffroi gan ei allu dwyfol, a ddygasant eu heuogrwydd adref attynt, a hwy a aethant ymaith yn ddedig gan gywilydd. Yr Iesu, yn cael na chondemniasai neb o honynt hi, efe, i dystiolaethu mai dyben ei ddyfodiad oedd nid i gondemnio ond achub pechaduriaid, ac i ddysgu ei weinidogion i beidio ymyrraeth â barnedigaethau gwladol, ni chondemniodd hi; ond a'i rhybuddiodd i ochel y cyffelyb ddrygioni am yr amser i ddyfod, Ioan viii. 1—3.

Cafodd awdurdod dwyfol yr hanes hwn am yr odinebwraig ei ammau yn fawr. Y mae yn eisiau mewn amryw o'r hen gyfeithiadau, ac mewn llawer o'r adysgrifau Groegaidd: mewn rhai adysgrifau, mae i'w gael yn niwedd yr 21ain o Luc; mewn ereill, yn niwedd Ioan; ac ae mewn ereill y mae wedi ei osod fel nod ar ymyl y ddalen yn yr 8fed o Ioan. Ymddengys fod llawer o'r tadau Groegaidd yn anwybodus am ei awdurdod. Ond y mae y dystiolaeth o'i blaid yn fwy cadarn fyth. Y mae ef gan *Tatian*, yr hwn oedd yn byw o ddeutu A. D. 160, a chan *Ammonius*, yr hwn a flodeuodd o ddeutu A. D. 220, yn eu cyssondeb â'r pedair efengyl. *Athanasius* a'r holl dadau Lladinaidd a'i cydnabyddant ef. Y mae i'w gael yn yr 16eg llaw-ysgrif a olygwyd gan *Robert Stephan*, yn y cwbl ond un o'r 17 a olygwyd gan *Beza*, ac mewn nwchlaw 100 a olygwyd gan *Mill*.

Godineb yn yr ysgrythyrau prophwydol, a gymmerir yn fynych yn gyffelybiaethol, ac a arwydda eilunaddoliaeth ac ymgiliad oddi wrth Dduw, trwy ba rai y mae dynion yn halogi eu hunain yn ffiaidd, ac, yn ddrygionus, yn torri eu perthynas egiwysig a chyfammodol â Duw, Hos. ii. 2. Ezec. xiv, a xxiii.

GODRE, *(god-rhe*, symmudiad cyflym) y rhan honno o'r arwisgoedd y sydd islaw y gwregys. Gwr *yn lledu ei odre* neu *ei aden dros wraig*, a arwydda ei waith yn ei chymmeryd dan ei ofal a'i ymgeledd, ac i fod yn briod iddo, Ruth iii. 9. Duw yn *lledu ei odre* dros yr Hebreaid, a arwydda ei waith yn eu cymmeryd i berthynas eglwysig neilldnol âg ef ei hun, ac yn rhoddi iddynt ei amgeledd caredig ac amrhyddeddus: ei fod yn *lledu ei odre* dros ei etholedigion, a arwydda ei waith yn eu hnno â Christ, yn eu gwisgo â'i gyfiawnder ef, ac yn rhoddi iddynt ei amgeledd a'i gyssur ysbrydol, Ezec. xvi. 8. Yr oedd Jerusalem âg affiendid a gwaed yn *ei godre;* ei phechodau digywilydd oeddynt yn cael eu harwyddo yn ei chystuddiau gwaradwyddus, Gal. i. 9. Jer. ii. 34. Yr Arglwydd a *ddynoethodd odre yr Iuddewon* dros eu hwynebau, pan symmudodd efe bob gorchudd o'u pechod, ac y darostyngwyd hwy am dano i'r cyflwr iselaf a mwyaf cywilyddus, Jer. xiii. 26. Gwaith gwr yn *dynoethi godre ei dad*, a arwydda ei ymddygiad anniwair â'i lys-fam, Deut. xxii. 30.

GODDIWES *(go-diw*, terfyn. (1.) Dyfod o hyd i'r cyfryw a aethent ymaith o'r blaen, Exod. xv. 9. (2.) Gafaelu yn, Salm xviii. 37. Y mae un yn cael ei *oddiwes ar ryw fai*, pan y deil profedigaethau ef, ac y tynant ef i ryw air neu weithred bechadurus yn ddiarwybod iddo, Gal. v. 1. Y mae y cleddyf yn *goddiwes* dynion, pan y dêl y gelyn arnynt, ac y lleddir, y clwyfir, y caethgludir, neu y darostyngir hwy i drueni mewn rhyw fodd neu gilydd, Jer. xlii. 16. Y mae bendithion yn *goddiwes* dynion, pan y cyfrenir hwy iddynt; a chyflawnder, drwg, neu felldithion, yn eu *goddiwes*, pan y dêl eu cosp ddyledus a bygwthiedig arnynt, Deut. xxviii. 2, 15. Esa. lix. 9. Y mae dydd y farn yn *goddiwes* dynion, pan, er eu holl ddifrawder am dano, a'u

dymuniad a'u hymgais i'w ochelyd, y mae yn dyfod arnynt, 1 Thes. v. 4. Y rhyfel yn Gibeah *ni oddiweddodd* blant anwiredd. Ni ymosododd yr Hebreaid ar y Benjaminiaid Sodomaidd yn Gibeah gyda brwd-frydedd dyledus a sanctaidd; ac ni chymerasant ofal i dorri ymaith y troseddwyr o'r fath hyny neu y cyffelyb, pa le bynag y ceid hwynt, Hos. x. 9.

GOF *(of,* cyfiwr elfenol peth). 1. Gweithydd mewn metteloedd, megys aur, arian, haiarn, &c. Act. xix. 24. (2.) Cyflawnwr barnedigaethau Duw, Esa. liv. 16.

GOFAL, *(mal,* briwiad) meddwl a phryder yn nghylch peth. Rhaglunïaeth Duw tuag at ei greaduriaid, yn enwedig ei bobl, a elwir ei *ofal* am danynt. Y mae efe yn ystyried eu hachosion, yn cynnal eubodoliaeth a'u gallnoedd, yn llywodraethu eu gweithredoedd, ac yn dwyn eu llwyddiant yn mlaen, Mat. vi. 26, 30. 1 Cor. ix. 9. 1 Petr v. 7. Gofal dynion sydd naill ai, (1.) *Cyfreithlawn.* Y mae gofal angenrheidiol yn nghylch matterion y bywyd hwn, a mwy fyth yn nghylch y bywyd i ddyfod, 2 Cor. xii. 11, a olyga *ofal* y Corinthiaid yn eu dysgyblaeth, Phil. ii. 20, *gofal* am holl fatterion yr eglwysi. (2.) *Anghyfreithlawn;* gormod prinder yn nghylch matterion bydol. "Martha, Martha, *gofalus* a thrafferthus wyt yn nghylch llawer o bethau," Luc x. 41. Mat. vi. 34. Y gofal pechadurus hwn a all gyrhaedd at bob amgylchiad mewn bywyd, ac am hyny y maent yn cael eu galw *gofalon y byd hwn,* Mat. xiii. 22, y rhai ydynt yn tagu y gair, ac y mae yn myned yn ddiffrwyth. Bwytta bara mewn *gofal,* yw gwneuthur hyny mewn cyfyngder tost, a than ddisgwyliad am farnedigaethau ofnadwy, Ezec. iv. 16, a xii. 18, 19. *Nid ydym ni yn gofalu am atteb it' yn y peth hwn;* nid rhaid i ni roddi atteb mewn geiriau, gan ein bod yn barod i amlygu ein penderfyniad sefydlog i ddyoddef, Dan. iii. 16.

GOFER, *(go-mer,* ffrydio) nant, cornant, afonig, Diar. xxv. 26.

GOFWYO, *(go-mwy)* ymweled. *Amser gofwy,* sef yr amser y byddo Duw yn *ymweled* â chenedl neu ddynion am eu pechodau, Jer. x. 15, a xi. 23.

GOFYN, *(go-myn)* a arwydda, (1.) Holi, Gen. xxxii. 29. (2.) Ceisio, Gen. xxxiv. 11. (3.) Ymgynghori, Esa. xxx. 2. (4.) Gweddio am, Ioan xv. 7. (5.) Cyhuddo, Salm xxxv. 11. Gwaith Crist yn *gofyn* gan y Tad, a arwydda ei ewyllysgarwch a'i ddymuniad i fwynhau bywyd a gogoniant tragywyddol yn ei ddyndod; ac i luaws o ddeiliaid dedwydd dano, megys Brenin yn Sion; a'i waith yn dadleu yn ein natur ni am fendithion rhad i'r rhai hyn, fel gwobrwy dyledus am ei ufudd-dod hyd angau, Salm ii. 8, a xxi. 4. Yr ydym yn gofyn dan gydnabyddiaeth o'n hannheilyngdod ein hunain, ac yn credu yn ei anfeidrol werth Ef yr hwn a ddywedodd, "pa beth bynag a ofynoch yn fy enw i, hyny a wnaf;" gofyn *mewn ffydd,* oedd, yn ddechreuol, yn golygu ffydd gwyrthiau, Ioan xiv. 13. Iago i. 6. Yr ydym yn *gofyn ar gam,* pan y byddwn yn gweddio am yr hyn nis gorchymynodd neu a addawodd Duw; pan y byddwn yn deisyf unrhyw beth mewn modd anwybodus, diofal, ac anghrediniol; neu yn ei geisio er atteb rhyw ddyben annheilwng a phechadurus, Iago iv. 3. Y genedlaeth yr hon *ni ymofynodd am* Grist, ac ni alwodd ar ei enw ef, ydyw y Cenedloedd, y rhai, dan yr Hen Destament, oeddynt yn amddifaid o wybodaeth am Grist, yn ddiddymuniad am dano, ac heb broffesu parch iddo ef, Esa. lxv. 1. Yr *ydym yn gofyn i'r anifeiliaid, yr ehediaid, a'r pysgod, a'r ddaear, fel y mynegant i ni,* pan y byddom yn sylwi yn ddifrifol pa fodd y mae y gallu, y doethineb, a'r daioni dwyfol, yn cael eu hamlygu yn eu creadigaeth, cadwraeth, a llywodraeth, Job xii. 7, 8.

GOG a MAGOG. Gog a ddichon fod yn arwyddo y llywydd; a Magog, pan yn gyssyltiedig âg ef, a all fod yn dynodi y bobl. Ail fab Japheth oedd Magog, ac a roddodd enw i'w had; ynddengys i'w hiliogaeth ef boblogi *Tartary,* gwlad ëang yn y parthau gogleddol o Asia, a rhan o Ewrop, yn cyrhaedd, mewn hyd, o'r gorllewin i'r dwyrain, o ddeutu 5000 o filltiroedd; ac mewn lled, o'r gogledd i'r dehau, o ddeutu 2700; y rhan fwyaf o ba un yn bresennol a berthyn i amherodraeth

Rwssia. Yr hen Dartariaid a alwent eu hunain *Mogli*, neu *Magogli*, neu *Mungli*, neu *Mungugli*, sef plant Magog. Gelwir yr amherodraeth Dartaraidd yn yr India Ddwyreiniol amherodraeth *Mogul*, a'r wlad *Mogulistan*, neu wlad y *Moguliaid*. Gelwir llwyth o Dartariaid dwyreiniol etto *Munguliaid* neu *Moungaliaid*. Amryw o enwau lleoedd yn yr hen *Dartary* a gadwant olion o Gog a Magog. Y daear-ddarlunydd Arabaidd a eilw *Tartary* ogleddol, yn awr *Siberia*, gwlad *Gug* neu *Magiug*; ac a ddywed ei bod yn cael ei gwahanu gan fynyddoedd arswydus oddi wrth y rhan arall o'r byd; tybiwn ei fod yn meddwl y bryniau Vercaturiaidd, pa rai, dros y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ydynt yn fynych yn doedig gan eira amryw wrhydau o ddyfnder. Hwyrach fod mynydd Caucasus yn cael ei alw yn ddechreuol Gog-hasen, sef *amddiffynfa Gog*; a'r Palus Meotis, o du y gogledd i fôr Euxine, *Magotis*. Yr hiliogaeth hon o eiddo Magog, dan yr amrywiol enwau Scythiaid, Gothiaid, Huniaid, Tartariaid, Moguliaid, a Thyrciaid, a wnaeth waith dychrynllyd ar y ddaear.

O ddeutu A. M. 3400, gwnaeth y Scythiaid ruthr arswydus i Asia orllewinol, gan ei difrodi hi, nes i freiniyr Aipht, trwy anrhegion a gwenaith, eu troi yn ol rhag dyfod i mewn i'w deyrnas. Arosodd lluaws dirfawr o honynt yn Media am o ddeutu 28 o flyneddoedd, nes i'r rhan fwyaf o honynt, o leiaf eu pennaethiaid, gael eu dieneidio yn ddirgel. Yn mron o ddeutu yr un amser, ymddengys iddynt orchfygu rhan o China. O ddeutu A. M. 3500, aethant i ryfel â Darius Hystaspis. Tua 3670, taflasant y diystyrwch mwyaf ar Alexander Fawr. Ryw amser cyn genedigaeth ein Hiachawdwr, y Daciaid a ddechreuasant ddifrodi y parth gogledd-ddwyreiniol o amherodraeth Rhufain; ond darostyngwyd hwy gan Trajan, o ddeutu A. D. 110. Y Samariaid a ddechreuasant eu difrodiadau ar yr Almaen, &c. o ddeutu A. D. 69; a darostyngwyd hwy mewn rhan gan yr Huniaid o ddeutu 450, a'r gweddill gan y Gothiaid o ddeutu 500. Dechreuodd yr yr Alaniaid ddifrodi Media, o ddeutu A.D.70; ac Ewrop yn 120, ac o'r diwedd sefydlasant yn Hispaen o ddeutu 409. Gwedi i'r Vandaliaid, y rhai a ddechreuasant yn A. D. 166, ddifrodi o'r Almaen i orllewin yr Hispaen, hwy a aethant dros Fôr y Canoldir, ac a sefydlasant freiniaeth gadarn yn y gogledd i Affrica; a chan ddyfod allan oddi yno, hwy a ddifrodasant Sicily; ac yn 455, a ennillasant ac a anrheithiasant Rufain: ond o ddeutu 536, darostyngwyd hwy gan yr amherawdwr Justinian, os nid cyn hyny. O ddeutu A.D. 269, y Gepidæ a ddechreuasant anrheithio; ac o ddeutu 572, darostyngwyd hwy gan y Lombardiaid, canys o honynt eu hunain, y rhai a ddechreuasant eu difrodiadau o ddeutu 500: ac yn mhen 68 o flyneddoedd wedi hyn a sefydlasant freiniaeth yn yr Ital, yr hon a ddarostyngwyd gan Siarl Fawr yn 774. O ddeutu A.D. 85, y Sueviaid a ddechreuasant eu difrodiadau, a sefydlasant yn yr Hispaen 409, ac a ddarostyngwyd gan y Gothiaid, 586. O ddeutu 215, neu yn hytrach yn gynnarach, y Getæ neu y Gothiaid, a ddechreuasant eu difrodiadau. Yn 410, hwy a ennillasant Rufain; ac yn nghylch yr un amser a ymsefydlasant yn yr Ital, Hispaen, &c. O ddeutu 250, y Ffrangcod a ddechreuasant eu difrod; ac o ddeutu 420 a sefydlasant yn Galia, a elwir yn awr Ffraingc. O ddeutu 275, y Burgundi a ddechreuasant anrheithio, ac a ddarostyngwyd gan y Ffrangcod o ddeutu 534. Yr Heruliaid a ddechreuasant eu difrod o ddeutu 256, ac a ddistrywiasant amherodraeth Rhufain yn 476; ond o fewn can mlynedd wedi hyny a ddarostyngwyd gan Justinian a'r Gothiaid. Pa un a oedd y Saxoniaid, y rhai a wnaethant ryfeloedd mor ddychrynllyd yn yr Almaen, ac mewn rhan a aethant i mewn i Brydain, a chan ladd y trigolion, a sefydlasant yn eu lle, o wreiddyn Tartaraidd yn gwir, nis gwyddom. O A.D. 376 hyd 560, yr Huniaid a gyflawnasant ddifrodiadau arswydus, ac o'r diwedd a sefydlasant yn Hungary: o ddeutu yr un amser, llwyth arall o honynt a orthrymodd freiniaeth Persia yn ofnadwy. O tua 485 hyd 1396, y Bulgariaid a fynychasant eu difrodiadau o barth dwyreiniol amherodraeth Rhufain, nes o'r diwedd y darostyngwyd hwy gan

y Tyrciaid Ottomaidd. Tra y gadawodd y lluoedd anwar hyn eu gwleydd genedigol bron yn angyfannedd, hwy, trwy restr hirfaith o lofruddiaethau, a wnaethant holl barthau gorllewinol Ewrop yn gigyddfa berffaith, ac yn ddiffeithwch mewn cymhariaeth; a arweiniasant eu hiaith eu hunain, y drefn wriogaethol, chwarëuyddiaethau annynol, profion, &c. i mewn. O ddeutu A.D. 1000. Mahomet gyda lluaws o Dartariaid, a sefydlodd amherodraeth y Gaznevidiaid, yn yr India Ddwyreiniol, yr hon, am rai oesoedd, a barhaodd yn gadarn a blodeuog. Tuag amser adfeiliad amherodraeth yr Arabiaid neu y Saraceniaid, ymdywalitodd lluaws dirfawr o Dyrciaid i Armenia, Persia, a Mesopotamia. Yn y rhan ddiweddaf o'r 11eg ganrif, y Tyrciaid Seljuciaidd a osodasant bedair breininiaeth i fynu gerllaw yr Euphrates, sef, Bagdad yn 1055, Damascus ac Aleppo yn 1079, ac Iconium yn 1080; ond un Bagdad a sylfaenwyd gan Tangro-lipix, neu Tangrul-Beg, ac yn cyrhaedd dros Persia, oedd y fwyaf hynod. Cydymrysonau y breininiaethau hyn, yn nghyd â theithiau a rhyfeloedd yr Ewropiaid, er adeunill Canaan oddi ar y Mahometaiaid, a'u hanallnogasant hwy rhag helaethu eu gallu yn y 12fed a'r 13eg ganrif. O ddeutu 1260, Jenghiz Can, a'i feibion, a'u Tartariaid dwyreiniol, o ddechreuadau bychain, a anrheithiasant ac a orchfygasant y rhan fwyaf o Asia, a pharthau dwyreiniol Ewrop, cyn belled â chyffiniau yr Almaen, ac a osodasant dair amherodraeth gadarn i fynu, sef rhai China a Persia yn Asia, ac un Cipjac yn Ewrop, heblaw pennaduriaethau bychain yn yr India, &c.: ond ni pharhaodd un o'r rhai hyn uwchlaw naw neu ddeg cenedlaeth mewn unrhyw radd o ogoniant. O ddeutu yr amseroedd hyn, y Tyrcomaniaid a sefydlasant deyrnas yn Armenia, yr hon, am rai oesoedd, a fu yn enwog; ac oedd ychydig cyn ei dinystr yn gadarn fawn. I ochelyd y Tartariaid ysglyfaethus, Soliman Shah. un o'r Gaz, neu Dyrciaid o'r radd iselaf, yn nghyd â'i dri mab, a gynnygodd fyned dros yr Euphrates tua'r gorllewin, ond boddwyd ef; a'i ddau henaf a ddychwelasant ac a ymostyngasant i'r gelyn. Ortogrul, yr ieuangaf, yn nghyd â'i dri mab, Condoz, Sarubani, ac Othman, ryw amser wedi hyny, a aeth dros yr afon, ac wedi cael o hono ymsefydlu o du y gorllewin i Armenia, gan amherawdwr Iconium, lluaws o ddeiliaid y pedair breininiaeth Dyrcaidd a ymunasant âg ef, trwy gynnorthwy pa rai efe a ennillodd amryw fuddugoliaethau ar y Tartariaid crwydrol, ac ar y Cristionogion. Y Tyrciaid hyn, yn awr a elwid Ottomiaid, a ddechreuasant eu difrodiadau ar y Cristionogion, o du y gorllewin i'r Euphrates, o ddeutu 1281, neu, yn ol ereill, yn 1302. Cynnyddasant yn raddol i luaws dirfawr, yn enwedig o wyr meirch, sef yn agos, weithiau, i fyrddiwn ar y tro: eu gwisgoedd a'u llummanau oeddynt yn leision, ysgarlad, neu felynion; yr oeddynt yn ddewr, ffyrnig, creulawn, a gwaedlyd ofnadwy; ac aruthrol eu maint oeddynt yr arfau tân a ddefnyddiasant hwy yn gynnar wrth warchae ar ddinasoedd. Tros 391, neu 396 o flyneddoedd, mewn iaith brophwydol *blwyddyn, mis, diwrnod*. ac *awr*, hwy, gan mwyaf, a lwyddasant yn ddirfawr, yn neilldiol yn erbyn y Cristionogion; ac a wnaethant eu hunain yn feistriaid ar barthau gorllewinol Asia, parthau gogleddol Affrica, a pharthau dehau-ddwyreiniol Ewrop, gyda lluaws o ynysoedd yn Môr y Canoldir: a thrwy eu llofruddiaeth a'u gorthrymder, a wnaethant y gwledydd hyn, oedd unwaith mor ffrwythlawn a phoblog, gan mwyaf yn ddiffeithwch, mewn cymhariaeth. Yn lle miloedd o ddinasoedd poblog ag oedd yn eu hamerodraeth ëang, yn awr yn unig Caercystenyn yn Ewrop, Smyrna, Bagdad, Aleppo, a Scanderoon yn Asia, a Cairo yn yr Aipht, a deilyngant fawr o sylw. Er y fl. 1572, ni wnaethant un buddugoliaeth newydd: ac er amser heddwch Carlowitz, yn 1698, ni ymgeisiasant nemawr yn nghylch hyny. O ddeutu dechreuad y Mil Blyneddoedd, newyddion o'r gogledd a'r dwyrain, hwyrach am ymgyrchiadau y Rwssiaid neu y Persiaid, a barant iddynt fawr anesmwythder. Prin y bydd yr Iuddewon wedi adsefydlu yn ngwlad Canaan, pan, fel y disgwyliwn, y cynnyga y Tyrciaid,

gyda chymmorthwy y Rwssiaid, neu gynghreirwyr Tartaraidd ereill, a thrwy y Persiaid, Arabiaid, ac Affriciaid, i'w dilettya hwynt, ond, trwy gyd-amrysonau a dialedd hwnod Duw, hwy a drengant yn eu cynnyg, ac a adawant eu celaneddau i'w cladду, a'u hyspail i'w fwynhau gan yr Iuddewon. O ddeutu diwedd y Mil Blyneddoedd, hwy a'u pleidwyr, neu ddynion o dymher gyffelyb, a wnant ymgniad dychrynllyd yn erbyn yr eglwys, ond trengant yn druenus ynddo.

O ddeutu A.D. 1400, Tamerlane, gyda llu dirfawr o Dartariaid, a anrheithiodd Asia orllewinol, a fu yn fflangell arswydus i'r Tyrciaid Ottomaidd, ac a sylfaenodd ddwy amherodraeth, sef Persia a Mogulistan; y diweddaf o ba rai a lywodraethir gan ei hiliogaeth ef hyd heddyw. O ddeutu A.D. 1640, y Tartariaid dwyreiniol, yn amser rhyfel cartrefol a wnaethant eu hunain yn feistriaid ar China, ac ydynt yn parhau felly fyth; fel ag y mae gan hiliogaeth Magog holl Asia bron, a rhan fawr o Ewrop yn eu dwylaw yn bresennol. Lluoedd o'r Tartariaid hyn a ddychwelasant eisioes at yr Arglwydd; ac yn y Mil Blyneddoedd, gobeithiwn y bydd eu troedigaeth yn llawer mwy cyffredinol, Gen. ix. 27. Zec. vi. 7. Dad. ix. 12—21. Dan. xi. 40—44. Ezec. xxxviii. a xxxix. Dad. xx. 7—10. Esa. xliii. 6.

GOGLEDD, (go, *cledd*, y llaw chwith) a DEHAU a gryhwyllir yn yr ysgrythyrau am leoedd o ran eu sefyllfa mewn perthynas i wlad Canaan, mewn ffordd o fynediad i mewn iddi, neu i ryw le arall y llefarir am dano yn y testun: felly yr oedd Syria yn y *gogledd* i Canaan, a'r Aipht yn y *dehau* iddi, Dan. xi. 1—43. Assyria a Babilon oeddynt yn y *gogledd* i Judea, naill ai o ran eu sefyllfa, neu o herwydd i'w byddinoedd dorri i mewn i wlad Canaan o'r gogledd, Jer. iii. 12, a vi. 1, a Media a orweddai yn y tu *gogledd-ddwyreiniol* i Babilon, Jer. l. 3. *Gogledd* Ewrop, a *gogledd-ddwyrain* Tartary, ydynt yn arwyddo *gogledd* y Tyrciaid Ottomaidd, Dan. xi. 44. Yr *un a gyfodwyd o'r gogledd* i fod yn fuddugoliaethwr cadarn, yw naill ai Nebuchodonozor, neu yn hytrach, Cyrus; neu Cystenyn Fawr, yr hwn a gyfodwyd o Brydain i waredu yr eglwys Gristionogol, Esa. xli. 25. Dywedaf *wrth y gogledd*, dod; ac *wrth y dehau*, nac attal; dwg fy meibion o bell, a'm merched o eithaf y ddaear. Dygaf yr Hebreaid o'r holl wledydd, pa un bynag ai yn y gogledd neu yn y dehau i wlad Canaan, ac a'u sefydlaf yn eu tir eu hunain; ac o wledydd yn y ddau tu i Ganaan, megys o Asia Leiaf, Ewrop, a Tartary, &c. *yn y gogledd*, ac o'r Aipht ac Abyssinia, &c. *yn y dehau*, y troir lluoedd at Grist, Esa. xliii. 6. Hwyrach fod ystafelloedd gweledigaethol Ezeciel *tua'r gogledd*, yn arwyddo yr eglwysi Protestanaidd yn Europ ac America Ogleddol, Ezec. xliii. 11, 13. Y gorchymyn i fyned allan i ffordd porth y dehau, os deuid i mewn ar hyd ffordd porth y *gogledd*; ac i fyned allan ar hyd ffordd porth y gogledd, os y deuid i mewn ar hyd ffordd porth y *dehau* a all fod yn arwyddo y dylai Cristionogion fyned yn mlaen yn gywir yn eu ffordd o sancteiddrwydd, pa an bynag a gyfarfyddant âg hawddfyd neu adfyd yndді, Ezec. xlvi. 9.

GOGLUD, (*go-clud*) hyder, ymddiried, Diar. xi. 28.

GOGONIANT, (*go-goniant*, rhwysg) amlygiad o odidogrwydd, 2 Cor. iii. 7; ac yn yr ysgrythyrau, arferir ef mewn amrywiol olygiadau. Y *gogoniant* a ystyrir mewn modd ardderchog, fel cysgod o'r cyddrychioldeb dwyfol, neu yn hytrach y cyd-ddrychioldeb dwyfol ei hun. Y mae yr eglwys yn dadgan ei gobaith, Salm lxxxv. 9, "y trigai gogoniant yn ei thir hi;" ac Ioan a dystiolaetha i'r gogoniant hwn gael ei amlygu yn pabellu mewn cig a gwaed, ac iddynt hwy ei weled ef, gogoniant megys yr unig-anedig oddi wrth y Tad, &c. Ioan i. 14. Cyn dyddiau Moses, nid ymddengys fod unrhyw fan neilldiol lle y rhagddangosid yr amlygrwydd o'r gogoniant hwn; ond cynted ag y gwaredwyd Israel allan o'r Aipht, discynodd gogoniant yr Arglwydd, fel yn amddiffyniad ar y babell hon i Zion, sef y golofn gwmmwl; a thân a aeth o flaen, ac a arweiniodd y llu gwaredigol, Exod. xiii. 21. "Yr Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt," &c. Yr un Arglwydd hwnw, go-

goniant pa un y dywed Ioan i ni ei weled. Pa fath ymddangosiad gogoneddus a wnaeth lluoedd Jacob, yn teithio yn orfoleddus trwy yr anialwch, gyda gogoniant yr Arglwydd yn eu dylyn? Yr oedd arch y cyfammod yn cael ei galw *gogoniant* yr Arglwydd, o herwydd ei bod yn cynddrychioli *Duw wedi ymddangos yn y cnawd*; am hyny, ebe mam Ichabod, pan y daliwyd yr arch, "y *gogoniant* a ymadawodd," 1 Sam. iv. 21. Ymddengys hefyd mai yr arch oedd y *gogoniant* y cyfeirir atto yn Rhuf. ix. 4. Gan hyny, pan y gorphenwyd y babell, y *Shecinah*, neu yr amlygiad gweledig o'r gogoniant dwyfol, a lanwodd y babell ac a breswyliodd ar yr arch, rhwng y cerubiaid, yn arwyddo y gorphwysai y gogoniant dwyfol ar y dyn Crist Iesu; ac o herwydd hyn, byddai addoliad eglwys yr Hen Destament yn cael ei gyfeirio atto Ef, yr hwn a breswyliai rhwng y Cerubiaid, Exod. xxix. 43. Pan y cyssegrodd Solomon y deml, cwmmwl y gogoniant dwyfol a lanwodd y tŷ yn y fath fodd, fel nad allai yr offeiriaid sefyll i weini yndo, 1 Bren. viii. 11. Hwn yw yr achos ein bod yn cael y prophwydi y rhai a brophwydasant wedi i'r gogoniant yn wir ymadael, yn addaw y byddai gogoniant yr ail dŷ yn fwy na gogoniant y cyntaf, Hag. ii. 3, 7, 9; ac y mae Duw yn addaw bod yn fur o dân o amgylch, ac yn ogoniant yn y canol, Zec. ii. 5. Deisyfodd Moses am gael gweled y gogoniant hwn, Exod. xxxiii. 18, ond nid oedd yr amser wedi dyfod etto pan y gellid ei amlygu, fel ag i ddyn euog weled a byw. Esaiah a ragfynegodd am y dyddiau pan y dadguddid gogoniant yr Arglwydd, Esa. xl. 5; a phan yr ymddangosodd Iesu Grist ar y ddaear, yna y *tywynodd dysgleirdeb y gogoniant dwyfol a gwir lun ei berson ef allan*, Heb. i. 3. Pan y gwaharddwyd i Israel gynt wneud unrhyw ddelw neu gyffelybiaeth o Dduw, cyfarwyddwyd hwy at y lluniau a grybwyllasom, fel yr unig ddarluniad o Dduw: ac, am hyny, pan y troisant hwy o'r neilldu at eilunaddoliaeth, dywedir iddynt newid eu gogoniant i lun eidion yn pori glaswellt, Salm cvi. 20. Yn gydunol â hyn oll, pan y cymmerodd Simeon ei Arglwydd mabanaidd yn ei freichiau, efe a'i geilw ef, "y goleuni a oleuai y Cenedloedd, a *gogoniant* dy bobl Israel," Luc ii. 32. Gellir gofyn pa fodd yr oedd ymddangosiad Iesu Grist yn cyfatteb i'r titl hwn, Y GOGONIANT? Yr oedd efe yn wael a dirmygedig; heb na phryd na thegwch fel y dymunid ef; heb unrhyw ddisgleirdeb na nod allanol o ogoniant o'i amgylch. Efe a ymddangosodd yn ogoneddus, o herwydd fod gogoniant yr unig-anedig oddi wrth y Tad yn tywynu ynddo ef. Yr oedd y gogoniant yn ddwyfol; DYSGLEIRDEB yr holl ymddangosiadau gogoneddus a wnaethai Duw gynt; a gwir LUN y cwbl a gysgodasid dan y gyfraith; yn gymmaint ag na feddai gogoniant lluniau yr Hen Destament ddim gogoniant, o herwydd y gogoniant tra rhagorol, sef, pan yr ymddangosodd *discleirdeb* y gogoniant dwyfol; ac nid oedd yn unig ond troi y lluniau neu y cysgodau hyn i'r GWIR LUN, fel y gellid deall eu hystyr. Y Tad a ogoneddodd ei Fab Iesu Grist ar y mynydd sanctaidd; ac efe a amlygodd ei ogoniant ei hun trwy y gwyrthiau a gyflawnodd.

Gogoniant a gymmerir yn lle gwychder a mawredd bydol, yr hyn a wna freiniuoedd yn ogoneddus ger bron dynion, Mat. vi. 29. Solomon yn ei holl ogoniant, yn ei holl ddysgleirdeb, ac yn ei holl addurniadau drudfawr, nid oedd mor hardd â'r lili. Felly cyfoeth, awdurdod, adeiladau, a gwisgoedd gorwych, y rhai y mae dynion yn barod i'w mawrygu, a'r rhai a wnant eu perchenogion yn ogoneddus o flaen dynion, a elwir yn yr ysgrythyr, *gogoniant*, Salm xlcix. 16.

Gogoniant a roddir am yr eglwys, yr hon y mae Duw yn ei gwneuthur yn ogoneddus, nid yn unig yn ei olwg ei hun, eithr yn ngolwg y byd hefyd, Esa. iv. 5. *Gogoniant* a gymmerir am y gwnfyddedigrwydd annhraethadwy, llawenydd a dedwyddwch y saint yn y nefoedd, Salm lxxiii. 24. "Arweinia fi â'th gyngor, ac wedi hyny y'm dygi i ogoniant." Y mae Duw yn addaw bod i'w eglwys "yn fur o dân o'i hamgylch, ac yn ogoniant yn ei chanol," Zech. ii. 5. Y gwyrthiau a wnaeth ein Hiachawdwr, a amlygent ei ogoniant, neu ei allu dwyfol, Ioan ii. 11. *Gogoniant*

yr Arglwydd a ddadguddir," Esa. xi. 5, hyny yw, gallu a daioni gogoneddus Duw a amlygir yn ngwaredigaeth yr Iuddewon o Babilon, ond yn fwy neilldiol yn mhryneidigaeth pob cenedl trwy ein Harglwydd Iesu Grist. "Pa un bynag ai bwytta ai yfed, ai beth bynag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw, 1 Cor. x. 31."

GOGR, (*gog*, ysgogiad) offeryn i wahanu manion pylor, &c. oddi wrth y breision; neu i buro ŷd oddi wrth ûs, graian, neu rawn ysgafn. Y mae Duw yn *gogryn* ei bobl mewn *gogr*, pan y bydd, trwy ei farnedigaethau yn eu gwasgaru a'u tafiu hwy nes y didolir yr holl bechaduriaid oddi wrthynt, Amos ix. 9. Efe a *ogrynodd* yr Assyriaid â *gogr oferedd*, yr hwn y mae pob peth yn myned trwyddo, pan y torrodd efe bron eu holl lu hwy ymaith, Esa. xxx. 28. Y mae Satan yn *gogryn* dynion fel gwenith, pan y bydd yn eu temtio a'u blino hwy, gan ymdrechu ysgwyd eu gras allan o'u calon, nes ydynt mewn perygl ymddangosiadol o golli y cwbl, Luc xxii. 31.

GOGWYDDO, (*go-cwydd*, syrthio) pwyso i lawr, gwyro. Y mae y clust yn cael ei *gogwyddo*, pan y bydd yn gwrando yn ystyriol, Diar. v. 13. Y mae y galon yn cael ei *gogwyddo*, pan y bydd yn serchu, yn chwennych, neu yn ymdrechu yn ddifrifol, Barn. ix. 3. Y mae tŷ y buttain yn *gogwyro* neu yn *gogwyddo* at angau. Gwaith dynion yn cyrchu iddo, neu yn ymfoddhau mewn putteindra, sydd yn cadarnhau marwolaeth ysbrydol, ac yn prysuro marwolaeth dymhorol a thragywyddol, Diar. ii. 18.

GOLAN (*tramwyfa*) dinas enwog o du y dwyrain i Fôr Tiberias, yr hon a berthynai i Manasseh, a roddwyd i'r Lefiaid, ac oedd yn ddinas noddfa, ac a gyfranodd enw i diriogaeth Golan neu Gaulanites, yr hwn a gyrhaeddai o Perea yn y dehau i Libanus yn y gogledd, Deut. iv. 43. Jos. xxi. 27. Yn nghylch 300 o flyneddoedd ar ol Crist yr oedd yn lle cryn fawr.

GOLEUNI, (*gwawl*, gwawriad) sydd yn sylwedd tra rhyfeddol a hyfryd. Ei symmudiad sydd yn gyflym iawn, a dywedir ei fod yn ehedeg o ddeutu deg myrddiwn o filltiroedd mewn mynyd. Y mae yn gwneud cyrph ereill yn weledig a dymunol, Preg. xi. 7. Gwedi i Dduw ffurfio y nefoedd, a sylwedd y ddaear, efe a ffurfiodd oleuni; a thrwy ei gymmwys mewn math o gymmwl goleu, yn symmud o amgylch y ddaear, neu fod y ddaear yn symmud o'i amgylch ef, efe a wahanodd rhyngddo â'r tywyllwch. Ar y pedwerydd dydd, efe a greodd yr haul, y lloer, a'r ser, i fod yn foddion i gyfrann y goleuni hwn i'n byd isaf ni; ac y maent hwy, yn nghyd â phob peth arall a ducddant i roddi, trosglwyddo, neu dderbyn y goleuni, megys ffenestri, llygaid, golwg, canhwyllau, a dychweliad y dydd, &c. yn cael eu galw *goleuadau*, Gen. i. 3, 16. 1 Bren. vii. 5. Salm xxxviii. 10. Job xxiv. 14. Duw *goleuni* yw; y mae ei anian yn anfeidrol bur a gogoneddus; y mae ganddo bob doethineb, rhagoroldeb, a defnyddioldeb; ac y mae yn awdwr pob gwybodaeth a chyssur i'w greaduriaid, 1 Ioan i. 5. Esa. x. 17. Salm xxvii. 1. Y mae efe yn trigo *yn y goleuni*, yn meddiannu ei ragoriaethau ei hun; *yn* Nghrist; ac yn cael ei amlygu yn eglur *yn* ei air a'i weithredoedd, 1 Ioan i. 7. Crist yw y *goleuni*; efe yw ffynnon pob goleuni a gwybodaeth, naturiol, ysbrydol, a thragywyddol, ac ynddo y canfyddwn ni bob peth o bwys, Luc ii. 32. *Goleuni wyneb Duw*, neu *oleuni yr Arglwydd*, yw yr addysg a roddir ganddo, yr amlygiadau o'i ogoniant a'i gariad, cyssuron ei Ysbryd, a gorfoledd ei iachawdwriaeth, Salm iv. 6. Esa. ii. 5. Barnedigaethau Duw ŷnt *fel y goleuni yn myned allan*; ei gyfreithiau ydynt oleu ac eglur, a'i ddedfrydau a'i gospedigaethau ydynt gyflawn, pur, cyflym, ac anwrthwynebadwy, Hos. vi. 4. Breninoedd da a elwir yn *oleuni*, i ddynodi eu dyscleirdeb hyfryd, a'r cyngor a'r cyssur a dderbynia eu deiliaid oddi wrthynt, 2 Sam. xxi. 6. Mab, neu ganlyniedydd, a elwir yn *oleuni*, am ei fod yn anrhydeddu ac yn cadw ei henafiaid mewn golwg, 1 Bren. xi. 36. Gair Duw, yn neilduol yr efengyl, sydd yn *oleuni* neu *lamp*; y mae yn dadguddio i ni bethau dwyfol a thragywyddol, ac yn ein tywys i ogoniant a gwynfyd, Salm cix. 105. Mat. iv. 6. Y wy-

bodaeth achubol a berir gan air Duw yn ein calon, sydd yn *oleuni;* yr ydym, trwyddo, yn canfod y gwrthddrychau mwyaf gogoneddus a thragywyddol, ac yn cael ein gwneud yn ddoethion i iachawdwriaeth. Llwyddiant, llawenydd, neu gyssur, a elwir yn *oleuni*, a *goleuni y bywyd*, i arddangos ei ragoroldeb, ei burdeb, ei wybodaeth, a'i gyssur, Col. i. 12. Holl gyfwr y saint trwy y cyfammod newydd, a elwir yn *rhyfeddol oleuni*. Y fath wybodaeth, cyssur, a dedwyddwch, a gyfrenir ynddo! 1 Petr ii. 9. Y mae *goleuni* y saint *yn llewyrchu fwy fwy hyd ganol dydd*, pan y bydd eu doniau a'u grasau tufewnol yn cynyddu fwy-fwy, ac yn cael eu hamlygu fwy-fwy yn eu hymarweddiad sanctaidd, Mat. v. 16. Diar. iv. 18. Y mae eu *goleuni yn llawenhau*, pan y bydd eu gwybodaeth ddofn, eu gras, a'u gweithredoedd da yn hyfrydwch iddynt eu hunain ac ereill, ac yn cynnyddu yn raddol mewn dyscleirdeb, Diar. xiii. 9, a xv. 30. *Goleuni* neu *lewyrch y llvand a fydd fel goleuni yr haul, a goleuni yr haul a fydd saith mwy, megys goleuni saith niwrnod*. Mawr a fydd cyssur yr Iuddewon, pan eu gwaredir oddi wrth yr Assyriaid, ac oddi wrth eu caethiwed Caldeaidd, &c.; a llawer uwch na hwnw dan yr Hen Destament, a fydd gwybodaeth a chyssur ysbrydol eglwys y Testament Newydd, yn yr oes apostolaidd a mil-blyneddol, Esa. xxx. 26.

GOLCHI (*gol*, amdoi). Yr oedd yn dra arferedig gan y cenedloedd dwyreiniol. Am eu bod yn rhodio yn droednoeth, neu â sandalau yn unig am eu traed, arferent er glanweithdra, a diluddediad, olchi eu traed pan y deuent o daith, Gen. xviii. 4, a xxiv. 32, a xliii. 24. Yn gyffredinol, caethweision a olchent eiddo y teulu; yn unig y byddai merched, yn aml, yn golchi traed eu rhieni. *Golchi traed y saint* gan hyny oedd yn arwyddo gostyngeiddrwydd a charedigrwydd mawr, 1 Tim. v. 10. Y fath gariad ac ymostyngiad ynte a ddangosodd ein Hiachawdwr, trwy olchi traed eu ddysgyblion! Ioan xiii. 1—8. Yr Iuddewon coel-grefyddol a olchent eu dwylaw i fynu at ben yr elin cyn y cymmerent eu lluniaeth, ac hyd yn nod a olchent eu gwelyau ar ba rai yr eisteddasent wrth fwytta, a'u byrddau, Marc vii. 3, 4. Y *golchiad* seremoniol o ddillad a chnawd, oedd yn arwyddo ein gwaith yn golchi gwisgoedd ein troedigaeth yn ngwaed a chyfiawnder Crist, yn ymddibynu ar hwnw, er cuddio holl frychau ein bywyd, a bod yn unig sail o'n cymmeradwyaeth ger bron Duw, a'n bod yn cael ein tueddu trwyddo i edifarhau am ein pechodau a dychwelyd oddi wrthynt at Dduw, Exod. xix. 10. Dad. vii. 14. Holl *olchiadau* yr offeiriaid a'r aberthau, oeddynt yn arwyddo purdeb difrycheulyd Crist, a'n cyfiawnhâd a'n sancteiddhâd ninau trwy ei waed a'i Ysbryd, Heb. ix. 10. Gwaith Duw neu Grist yn *golchi* dynion, a arwydda eu symmudiad o'u heuogrwydd a'u halogedigaeth pechadurus, trwy gymmwysiad o air, gwaed, ac Ysbryd Crist, Ioan xiii. 8. Esa. iv. 4. Salm li. 2, 7. Ac y mae bedydd yn *golchi ymaith bechod*, am ei fod yn arddangos, yn seilio, ac yn cymmwyso gwaed ac Ysbryd Crist, er symmud euogrwydd, grym, ac halogedigaeth pechod, yr hyn a elwir *golchiad yr adenedigaeth*, Act. xxii. 16. Tit. iii. 5. Gwaith dynion yn *golchi* eu hunain, a arwydda (1.) Eu gosodiad o'u rhagoriaethau eu hunain allan yn y modd mwyaf harddwych, Ezec. xxiii. 40; neu (2.) Eu hymdrechiadau deddfol i lanhau neu buro eu hunain; er yr hyn oll, Duw a'u trocha yn y pwll, gan wneuthur eu pechodau yn amlwg yn y cystuddiau a osodir arnynt, Job ix. 30. Jer. ii. 22. (3.) Eu cymmwysiad o air, cyfiawnder, ac Ysbryd Iesu, a'u hymdrech dan ei ddylanwadau ef i fawrhau gweithrediad y corph, Esa. i. 16. Jer. iv. 14. Golchi *camrau* âg ymenyn, a gwisgoedd mewn gwin, a arwydda llawnder mawr o'r pethau hyn, neu o gyssuron cyffelyb, Job xxix. 6. Gen. xlix. 11. Llygaid wedi eu *golchi â llaeth*, ydynt rai ag sydd yn dra eglur a dyscleer, Can. v. 12. Moab oedd *crochan golchi* Dafydd, a ddarostyngwyd ganddo ef i gyflwr tra isel a chaeth-wasaidd, Salm lx. 8.

GOLIATH; *(mynediad drosodd)* cawr hynod o Gath, uchder pa un oedd yn chwech cufydd a rhychwant, neu 11 troedfedd a phedair

modfedd. Ei helm bres a bwysai yn nghylch 15 pwys, un *wns* ar bymtheg bob un; ei darian, neu dorch, a osodasid rhwng ei ysgwyddau i amddiffyn ei wddf, yn nghylch 30; ei waywffon oedd yn nghylch 26 troedfedd o hyd, a'i blaen yn nghylch 38 pwys; a'i gleddyf yn 4; ei fottasau am ei draed yn 30; a'i lurig yn 156; ac felly ei holl arfogaeth oedd yn 273 pwys. Yn Ephes-dammim, efe, am 40 diwrnod, a aeth allan o wersyll y Philistiaid, ac yn drahausfalch a hêriodd yr Hebreaid i ddwyn gwr a feiddiai ymladd âg ef: efe a gymnygodd ddodi ymostyngiad y naill genedl i'r llall ar y fuddugoliaeth yn y fath ornest. Yr Hebreaid a ddychrynasant hyd yn nod wrth yr olwg; ond Dafydd, gan ddyfod i'r gwersyll, a feiddiodd ymosod arno â ffon-dafl, ac ychydig gerrig bychain. Gyda diystyrwch, Goliath a'i rhegodd ef trwy ei eilunod, ac a archodd iddo ddyfod yn mlaen, ac y rhoddai efe ei gnawd i eheidiaid yr awyr; yn y cyfamser, Dafydd a dafiodd garreg, yr hon, gan dreiddio trwy y twll a wnaethid i lygad y cawr, neu tra yr oedd yn dynoethi ei dalcen mewn dirmyg i'w wrthwynebwr egwan, a soddodd yn ei ben, ac a'i dygodd ef ar ei wyneb i'r llawr. Yna Dafydd a redodd i fynu atto, ac, â'i gleddyf ei hun, a dorodd ei ben ef ymaith: ac, hwyrach, ar yr achlysur o'r fuddugoliaeth hon, a gyfansoddodd y 9fed a'r 144 Salm, l Sam xvii. Pedwar o'i frodyr, wedi hyny, a laddwyd gan gedyrn Dafydd, 2 Sam. xxi. 2 Cron. xx.

GOLUD; *(gol)* alaf. cyfoeth. Arwydda y gair (1.) Helaethrwydd, pa un bynag ai o bethau da allanol, Gen. xxxvi. 7. Job xxi. 13. Preg. v. 19; neu o fendithion ysbrydol a thragywyddol, Luc xvi. 11; neu, mewn swm, llwyddiant a lleshad yr enaid neu y corph, 1 Cor. x. 24. *Golud Duw* yw ei gyflawnder anfeidrol o ddoethineb, gallu, trugaredd, gras, a gogoniant, Eph. i. 7, 18; a ii. 7; neu effeithiau ei allu a'i ddaioni, y rhai oll a berthynant iddo ef fel eu perchenog, Salm civ. 24. *Golud Crist* yw ei luoedd diderfyn o fendithion ysbrydol a thragywyddol cymmwys i'w cyfranu i bechaduriaid, Eph. iii. 8. *Golud gogoniant yr efengyl*, yw y dirgelion rhyfeddol a ddadguddir yn nghyd â'r bendithion anfeidrol a gynnygir ynddi, y rhai a'n gwnant yn dra gogoneddus, Col. i. 27. Cwymp neu leihad yr Iuddewon, eu cystuddiau a'u bwriad allan o eglwys Dduw, oedd yn *olud i'r Cenedloedd*; a achlysurodd iddynt gofleidio ordinhadau gwerthfawr yr efengyl, ac i lawer o honynt gael eu derbyn i gyflwr cyfoethogol o gymdeithas â Duw, Rhuf. xi. 12.

GOLWG, *(gawl)* sydd naill ai (1.) Y gallu neu y weithred o ganfod yr hon sydd *naturiol*, â'r llygad corphorol, Mat. xi. 5; neu *resymol*, â'r meddwl, Heb. iv. 13; neu *rasiawn*, yn golygu Crist, a Duw yndo ef, trwy ddrych yr ysgrythyr, ac ordinhadau yr efengyl, Luc. iv. 18. 2 Cor. iii. 18; neu yr olwg ddigyfrwng o Dduw yn y nef, o ran pa un nid yw ein gwybodaeth bresennol ond fel tywyllwch, 2 Cor. v. 7. (2.) Y gwrthddrych a ganfyddir, yn benaf os yn rhyfeddol a hynod, Luc xxi. 11, a xxiii. 48. Exod. iii. 3 *Yn ngolwg*, neu *yn ngolwg un*, yw bod yn weledig; ger bron un, ac yn ei wyddfod; neu yn hollol adnabyddus i un; neu yn nghyfrif un, Esa. xi. 3. Diar. i. 17. Heb. iv. 13. Amlygiadau o Dduw, neu bethau byd arall, neu amlygiadau cysgodol o bethau i ddyfod, ac hyd yn nod mynegiadau wrth y glust, a elwir *gweledigaethau* neu *olygfeydd*, Esa. i. 1, a xxi. 2. Yn y dull hwn yr ymddangosodd Crist yn fynych dan yr Hen Destament, ac y dadguddiodd ei ewyllys; ac i Stephan, Paul, ac Ioan, dan y Newydd, Act. vii. 60. Dad i. a iv. &c.; ond ymddengys nad amlygodd y Tad ei hun erioed mewn unrhyw gyffelybiaeth weledig, Ioan i. 18. Angelion hefyd a ymddangosasant mewn gweledigaethau Mat. xxviii. 1 Bren. xix. Ac o herwydd fod y prophwydi yn cael gweledigaethau, ac yn gwybod mwy nag ereill, gelwid hwy gynt *gweledyddion*, 1 Sam. ix. 9.

GOMER, *(cyflawn)* mab henaf Japheth. Efe, diammau, oedd tad y Gomerianiaid, y Gomeriaid, a'r Cimmeriid, neu y Cimbri, y rhai, yn y prif oesoedd, a breswylient yn Phrygia, Galatia, &c. ac yma, yn yr ene Asganus, llychlyn Asgania, a mor Asgania neu Euxin, yr ydym yn cael olion o'i fab Asgenaz. Gwedi cyfaneddu o honynt am rai oesoedd o

ddeutu Phrygia a Georgia, hwy, naill ai heibio i ben dwyreiniol y môr Euxin, neu trwy groesi yr Hellespont, a dreiddiasant i Ewrop, ac a boblogasant y gwledydd a elwir yn awr y Pwyl, Hungary, Almaen, Gwlad y Swiss, Ffrainc, Hispaen, Portugal, a Phrydain, os nid hefyd ran o Scandinavia. Nid ymddengys, ychwaith, fod yr hen Ysgotiaid a'r Gwyddelod o wreiddyn gwahanol.

GOPHER. Pa un ai y gedrwydden, y boevswydden, y pinwydden, y ffynidwydden, y pren *turpentine*, y plân-wydden Indiaidd, neu yn hytrach y cypres-wydden oedd, nid ydys yn cyduno. Dilys yw i Noah adeiladu ei arch o hono; a bod y cypres yn goed parhaus ac addas iawn at longau; ac yr oeddynt mor aml o amgylch Babilon, fel yr adeiladodd Alexander lynges gyfan o honynt, Gen. vi. 4.

GORCHFYGU *(gorch-mygu)* a arwydda (1.) Llwyddo yn erbyn; cymmeryd ymaith nerth, a darostwng gallu gelynion, Dan. vii. 14. Mal. iv. 3. (2.) Dwyn i ufudd-dod ac ymostyngiad, Phil. iii. 21. 1. Cor. xv. 28. (3.) Gwrteithiaw; llywodraethu ar, Gen. i. 28. Iesu Grist a *orchfygodd* y byd.

GORCHUDD, *(gor-cudd)* llengel. I arwyddo eu gwylder, a'u hymostyngiad parchus i'w gwyr, byddai gwragedd, yn enwedig yn y dwyrain, yn arferol o wisgo gorchudd ar eu hwynebau, Gen. xxiv. 65. Esa. iii. 23. Tebygol mai â'r cyfryw y cynghorai Paul wragedd y Corinthiaid i guddio eu hunain yn y cynnulleiddfaoedd cyhoeddus wrth addoli, 1 Cor. xi. 3—10. Cuddiodd Moses ei wyneb â gorchudd fel na frawychid yr Hebreaid, neu ddallid eu llygaid gan ei ddysgleirdeb, wedi iddo ddyfod i waered ddiweddaf o fynydd Sinai, Exod. xxxiv. 33. Yr ydoedd yn arwyddo tywyllwch ei ddeddfau seremoniol ef. Taenid gorchudd ar wynebau rhai wedi eu barnu i'w colli. Est. vii. 8. Y mae gorchudd y ddeddf seremoniol wedi ei ddileu yn Nghrist, am mai ynddo ef y cyflawnwyd ei holl ddefodau hi, 2 Cor. iii. 13, 14. Ond y mae y *gorchudd hwn yn aros hyd heddyw* ar y genedl Iuddewig, am eu bod yn glynu wrthi, ac felly yn dallu ac yn caledu eu hunain yn erbyn Crist; ond pan yr ymchwel y genedl honno, â'u calonau deillion, at yr Arglwydd, hwy a ffeiddiant y defodau diddymedig hyn, ac a gofleidiant yr efengyl, 2 Cor. iii. 15, 16. *Gorchudd* yr eglwys a ddygwyd oddi arni gan y gwylwyr, yw ei hathrawiaeth o gyfiawnder cyfiawnhaol, a'i chymmeriad hawddgar, Can. v. 7. *Y gorchudd* sydd yn gorchuddio yr holl bobloedd, yr hwn a ddifa Iesu, yw eu hanwybodaeth, eu hanghrediniaeth, eu cyfeiliornadau, a nodau o gollfarniad dwyfol, Esa. xxv. 7.

GORCHWYL, *(gor-chwyl)* achos, gweithred. "Ymddiriedwyd i mi am y *gorchwyl*," neu, yn ol y *Gr.* am *oruchwyliaeth*, 1 Cor. ix. 17. Y mae yr Arglwydd wedi fy ngosod yn oruchwyliwr, ac ymddiriedwyd i minau am oruchwyliaeth; ac yr wyf yn gyfrifol i Dduw am y dull y cyflawnwyf hi. Os y gwnaf hyn o'm bodd, y mae i mi wobr; ond os o'm hanfodd, yr ydwyf wedi fy ngosod yn oruchwyliwr, ac ymddiriedwyd i mi am y gorchwyl.

GORCHYMYN, *(gor-cy-myn)* a gyfeirir (1.) At Dduw, *gorchymyn* yr hwn *a gyrhaedd at y ddaear*, Salm xxxiii. 9. *At y nefoedd*, Salm cxlviii. 5. *At ei bobl*, Exod. xxxiv. 11. *At elynion yr eglwys*, Galar. i. 17. *At y cymmylau*, Esa. v. 4. *At seirph*, Amos ix. 3. *At ysbrydion aflan*, Marc i. 27. Y mae yn arwyddo, (1.) Ei awdurdod a'i allu ar ei greaduriaid, Salm cxlviii. 5. (2.) Ei ewyllys a'i barodrwydd i gynnorthwyo ei blant ei hun mewn cyfyngderau, Salm xlii. 8. (3.) I ofyn ufudd-dod dyladwy i'w gyfreithiau, Deut. xi. 22. (4.) I effeithioli ein gwaith, Salm xliv. 4. (5.) I ogwydo a chynnorthwyo, Job xxxvi. 10. (6.) I attal, Esa v. 6. (7.) I drefnu neu sefydlu yn ddiysgog, Salm xxxiii. 9. (8.) I gynhyrfu trwy ei ragluniaeth, Esa. xiii. 3. (9.) I roddi a chyfranu, Lef. xxv. 21. Cynnwysa y gair hwn addysg, rhagfynegiad, cyngor, a chyssur; cymhâr Mat. xi. 1. â Mat. x. 6, 17, 26, 40.

2. At ddyn, megis rhieni yn gorchymyn eu plant, Gen. xviii. 19, a 1. 16. Llywodraethwyr eu swyddwyr, Jos. i. 10. Breninoedd eu deiliaid, 2 Cron. xiv. 4. Bugeiliaid eu pobl, 2 Thes. iii. 4, 6. Abrahâm *a orchymynodd* i'w blant a'i dylwyth, trwy

eu dysgu mewn perthynas i'r amlygiadau dyfodol o gyfiawnder a barn yn marwolaeth Crist, Gen. xviii. 19. Y mae Duw yn *gorchymyn* ei feudith pan y bydd yn ei chyfranu, canys diedifarus yw doniau Duw; os efe a fendithia, pwy a all felldithio? Deut. xxviii. 8. Salm xiii. 8. a cxxxiii. 3. Y mae Iesu Grist yn cael ei wahaniaethu, mewn modd ardderchog, fel blaenor a *gorchymynwr* neu *athraw* ei bobl, Esa. lv. 4. yr hwn sydd yn gorchymyn gwaredigaethau i bawb, ac yn arwain ei feibion lawer i ogoniant.

GORDDERCH—ION, *(gorddderch)* yn ol awduron Lladinaidd, a arwydda, dynes a fyddo yn cydfyw â dyn fel ei wraig, er ei bod heb briodi âg ef; ond yr ysgrifenwyr sanctaidd a ystyriant ordderch fel gwraig gyfreithlon i ddyn, er ei bod heb ymuno âg ef yn ol y defodau a'r rhwysgfawredd cyffredin; gwraig o'r ail radd, yn îs na mam neu arglwyddes y teulu. Nid oedd plant y gordderchion yn etifeddu meddiannau eu tad; ond gallai y tad, yn amser ei fywyd roddi anrhegion iddynt, a darparu erddynt. Felly, o herwydd mai Isaac oedd mab Abraham o Sarah ei wraig gyfreithlawn, efe oedd ei unig etifedd, ac yr oedd y plant a fuant iddo o Hagar a Keturah wedi eu cau allan oddi wrth unrhyw gyfran o'i olud ef, etto efe a roddodd iddynt anrhegion yn ystod ei fywyd. Am fod aml-wreigaeth yn ganiattaol yn mhlith yr Iuddewon, yr oedd yn beth cwbl gyffredin i weled amryw wragedd a gordderchion mewn un teulu. Yr oedd gan Dafydd saith o wragedd, a deg o ordderchion; yr oedd gan Solomon saith gant o wragedd, y rhai oeddynt oll yn freninesau, a thri chant o ordderchion. Ond er pan y diddymwyd aml-wreigaeth gan Iesu Grist, ac y dygwyd priodas i'w sefydliad cyntefig, y mae y cam-arferiad o ordderchion wedi cael ei gondemnio, a'i adael heibio gan Gristionogion; er hyn oll, bu priodasau dirgelaidd yn cael eu goddef yn hir, a'r gwragedd a briodid felly, a elwid yn gyffredin, *gordderchion*.

GORDDIOG, *(gor-diog)* tra diog, segurllyd. "Boliau gorddiog," Tit. i. 12. sef boliau llusgenaidd, musgrell, fel anifeiliaid wedi gorlenwi eu hunain, ac yn anaddas i waith.

GOREU, *(gor)* a arwydda y mwyaf rhagorol, gwerthfawr, cyfleus, prydferth, cyfiawn, Exod. xxii. 5. Gen. xliii. 11. 1 Sam. xv. 9, &c. offrymau derchafael, a thaledigaeth, oeddynt i fod o'r pethau *goreu* cyfattebol iddynt, Num. xviii. 29. Exod. xxii. 5. Cyfiwr *goreu* dyn, yw ei gyfiwr o ddiniweidrwydd; ei amser penaf o iechyd a chryfder; a'i amgylchiadau mwyaf sefydlog o anrhydedd, digrifwch, neu gyfoeth, Salm xxxix. 5. Y *wisg oreu*, yw cyfiawnder cyfrifedig Crist, yr hwn, yn ei ddechreuad, harddwch, parhad, a defnyddioldeb, sydd yn rhagori yn mhell ar bob peth arall, Luc xv. 22. Y *doniau goreu*, ydynt y rhai ag sydd fwyaf defnyddiol er anrhydeddu Duw, a gwneud da i ddynion, 1 Cor. xii. 31.

GORFLWCH, *(gor-blwch)* ffiol, cwppan, mail, 1 Cron. xxviii. 17. Can. vii. 2.

GORFOD, *(gor-bod)* gorchfygu, buddugoliaethu. "Ac y *gorfyddech* pan y'th farner," Rhuf. iii. 4. Mae pechaduriaid mor rhyfygus â barnu Duw; ei farnu yn annhirion, yn anghyfiawn, ac yn gelwyddog: ond ymddengys yn ddigon buddugoliaethus, a rhydd oddi wrth eu camfarn.

GORFOLEDD, *(gor-mawl)* sydd nwyd hyfryd yn tarddu oddi wrth feddiant a deimlir, neu obaith o feddiannu rhyw beth hyfryd neu werthfawr: a'r dangosiad o hono mewn mawl, llawenydd, &c. 1 Cron. xii. 46. Gorfoledd sydd naill ai (1.) *Dwyfol*, pa un a arwydda yr hyfrydwch anfeidrol hwnw a'gymmer Duw yn ei bobl neu ei waith, ac i wneud daioni i'r anrhyw, a'u cynnal, Esa. lxii. 5. Zeph. iii. 14. Salm civ. 31. (2.) *Naturiol*, yn mysg creaduriaid, yn gymwysedig mewn duwioldeb naturiol, ac yn deilliaw oddi wrth ryw hyfrydwch neu leshad allanol, Diar. xxiii. 24. (3.) *Ysbrydol*, yn cael ei gynhyrfu gan yr Ysbryd Glan, ac yn cyfodi oddiar undeb â Duw yn Nghrist, meddiant o hono, a gobaith i'w fwynhau am byth; ac y mae yn cael ei ddylyn gan ddifrifoldeb hyfryd wrth weithredu er ei anrhydedd, Gal. v. 22. Felly y mae y saint yn *llawenychu* yn

Nghrist, neu yn Nuw; y maent yn cymmeryd hyfrydwch yn eu cyssylltiad âg ef, ac yn ymffrostio ynddo; y maent yn ei glodfori am ei garedigrwydd iddynt, ac am yr hyn ydyw ef yndda ei hun, Luc i. 47. *Gorfoledd eu gobaith*, yw eu golygfadau hyfryd, eu hymffrost sanctaidd, a'u mawl siriol, o achos eu parhad anfethedig, a'u dedwyddwch tragywyddol, Heb. iii. 6. *Gorfoledd* sant *yndda ei hun*, a arwydda ei foddlonrwydd tufewnol yn nhystioiaeth cydwybod dda, Gal. vi. 4. (4.) *Cysgodaidd a rhagrithiol*, yn cyfodi oddi wrth ffug-dybiaeth am berthynas a chymdeithas â Duw, a gobaith disail am fwynhad tragywyddol o hono ef, Mat. xiii. 20. (5.) *Pechadurus*, pan y bydd dynion yn llawenhau yn eu pechodau, Diar. xv. 20.; ac y mae hyd yn nod llawenydd neu orfoledd cnawdol yn myned yn bechadurus, os y bydd yn ormodol, neu yn cymmeryd lle pan y bydd Duw yn galw i alaru a gofidio, Esa. xxii. 3. Hauwyd *llawenydd* i'r rhai uniawn, a'u gobaith sydd *lawenydd*: hyfrydwch ysbrydol, a gorfoledd diddiwedd a ddarparwyd iddynt, ac a fwynheir ganddynt, megis y disgwyliant, Salm xcvii. 11. Diar. x. 28.

GORIS, *(is)* isod, tan, tanodd. "Goris ynys fach." Act. xxvii. 16.

GORLLEWIN, *(gor-llewin,)* achludd, ymachludd haul. Am fod Môr y Canoldir, (neu y *mor mawr*, fel y gelwir ef yn Jos. xiv.) ar gyffiniau gwlad Canaan, galwai yr Hebreaid y gorllewin, y *mor*, weithiau *hwyr*, neu y *cyfnos*; a gwynt y gorllewin a alwent *gwynt y mor*, o'r un achos.

GORMES, *(gorm)* gorthrymiad, trais. "Myfi a argyhoeddaf er eich mwyn chwi yr *ormes*." Mal. iii. 11. Yn ol yr *Heb.* y *difrodwr*, *difŵr*. Wrth y difrodwr y meddylir y locust, y lindys, neu ryw greaduriaid ereill a fyddant yn difa ffrwythau y ddaear. Oni attal Duw hwynt, y maent yn sicr o ddifa y bendithion; ond y mae gan Ddduw awdurdod gyflawn arnynt, ac ni wnant ond a oddefo efe iddynt.

GORPHEN, *(gor-pen)* cwblhau, diweddu. Ychydig cyn i'r Iesu roddi i fynu yr ysbryd ar y groes, efe a lefodd â llef uchel, *Gorphenwyd*; hyny yw, Dyoddefiadau fy enaid a ddiweddwyd, ac y mae fy marwolaeth gerllaw; ac felly y mae cyflawnder angenrheidiol i gyflawni y cyfammod newydd, ac iachawdwriaeth pechaduriaid euog o ddynolryw wedi ei berffeithio; y mae gorchymynion y ddeddf doredig wedi eu hatteb yn gwbl: y mae arwyddocad y defodau seremoniol wedi ei gyflawni; ac yn awr y mae eu rhwymedigaeth yn darfod, a'r cyfammod Iuddewig o neillduolrwydd wedi ei orphen am byth, Ioan xix. 30.

GORPHWYSFA *(gor-pwys)*. 1. Peidiad â llafur, Exod. v. 5. Peidiad â rhyfel cyhoeddus, Jos. xiv. 15. (3.) Peidiad âg arddwriaeth ac amaethyddiaeth, Lef. xxv. 5. (4.) Cyflwr o beddwch a chymmod â Duw a chydwybodau dynion eu hunain, Mat. xi. 29. Heb. iv. 3. (5.) Tawelwch llonydd y meddwl, yn cael ei beri gan gariad Duw wedi ei dywallt ar led yn ein calonau, a thrwy waith yr Ysbryd Glan yn tystioiaethu wrth ein cydwybod am ein cyflawnhad, cymmod, adenedigaeth, mabwysiad, a hawl sicr i ogoniant tragywyddol; ac yn cael ei ganlyn âg ymorphwysiad siriol ar yr addewidion, ac ymostyngiad i ragluniaethau Duw, Salm cxvi. 7. (6.) *Gorphwysfa* hefyd a arwydda sefydliad beddychlawn a chyssurus, y fath ag oedd gwlad Canaan i'r Hebreaid, a'r deml i'r arch, Deut. iii. 20. Salm cxxxii. 8, 14. Crist, yn ei berson, swyddau, perthynasau, cyflawnder, gallu, a chariad, ac yn ei addewidion, sydd yn *orphwysfa* ac *esmwythder*, y rhai, os eu cymmwysir ac eu defnyddir, a roddant hyfrydwch a thawelwch tra melus i ddynion, Esa. xxviii. 12. *Gorphwysfa* Crist *sydd yn ogoniant*: ei eglwys efengylaidd, a chyflwr ei gyfammod newydd, yn yr hwn y mwynha ei bobl esmwythder a llonyddwch hyfryd, sydd yn ffrwyth ei allu gogoneddus a'i gariad gwaedlyd, ac sydd yn ogoneddus yn ei ansawdd a'i ddybenion, Esa. xi. 10. *Yr orphwysfa sydd yn ol i bobl Ddŵw*, yw cyflwr efengylaidd yr eglwys, yn mha un y mwynha dynion rydd-did oddi wrth wasanaeth beichiol y ddeddf seremoniol, ac y cant Iesu a'i addewidion hyfryd wedi eu dangos yn eglur iddynt; a'r cyflwr nefol, yn yr hwn y bydd y saint am byth yn rhyddion oddi wrth

bechod, tristwch, profedigaeth, a thrallod neu lafur, ac am byth yn ymddigrifu yn eu cyflawn fwynhad o Dduw yn Nghrist, a chydymffurfiad âg ef, Heb. iv. 9. Canaan a'r deml a elwir yn *orphwysfa* Duw, o herwydd mai yno yr oedd arwyddion ei bresennoldeb yn trigo, a'r flaenaf a roddwyd ganddo i'r Hebreaid i gyfaneddu ynddi, Heb. iii. 11. Salm cxxxii. 14; ond nid oedd hi yn *orphwysfa iddynt hwy*, o herwydd iddi gael ei *halogi* pan y bwriodd Duw hwy allan o honi, Mic. ii. 10. Damascus oedd *gorphwysfa digofaint Duw*; ei farnedigaethau a arosasant yn hir arni, Zec. ix. 1.

GORSEDD, (*gor-sedd*) teyrngadair. "A hwy a ruthrasant yn unfryd i'r *orsedd*. Nad ymroddai efe i fyned i'r *orsedd*," Act. xix. 29, 31. Yn ol y *Gr.* i'r *theatron* neu *gampfa*. Y Theatron yn mhlith y Groegiaid oedd adeilad helaeth er dangos golygfëydd cyhoeddus, chwarëyddiaethau, &c. ac nid hyny yn unig, ond hefyd i gynnal cymmanfaoedd cyhoeddus ar achosion pwysfawr. Temi Bacchus yn Athen oedd y *theatron* cyntaf yn y byd; hwyrach fod y *theatron* yn Ephesus yn rhan o deml Diana. Anaddas, tebygol, y cyfeithir ef yn ein cyfeithiad ni, *gorsedd*. Oni fuasai golygfa, neu *gampfa* yn well?

GORSÍN, (*gor-sin*) ystlys-bost drws, Exod. xxi. 16. Ezec. xliii. 8.

GORTHRYMU, (*gor-trwm*) trallodi, cystuddio. Y mae dynion yn *gorthrymu* y naill y llall, pan y byddant yn dwyllodrus, neu trwy drais, yn cymmeryd eu meddiannau oddi wrthynt, Lef. xxv. 14. Mal. iii. 5. Job xx. 19. 1 Thes. iv. 6; neu pan y byddant yn eu blino ac yn eu caethiwo yn dost, Deut. xxviii. 29. Exod. iii. 9. Y mae Satan yn *gorthrymu* dynion, pan y bydd, trwy brofedigaeth neu feddiant, yn eu poeni hwy yn arswydus, Act. x. 38.

GORUCHAFIAETH, (*goruchaf*) derchafiaeth. "Fod gweddiau dros bawb sydd mewn *goruchafiaeth*," 1 Tim. ii. 2, sef mewn swyddau goruchel, a llywodraeth, neu arglwyddiaeth ganddynt dan y brenin. Yn y cyn-oesoedd, yr oedd yr Iuddewon yn gweddio dros dywysogion Paganaidd, y rhai yr oeddynt mewn caethiwed danynt; ac yr oedd hyn wedi ei orchymyn i dduon gan Dduw, Ezra vi. 10. Jer. xxix. 7. Barn. i. 10. 11.

GORUCHWYLIWR, (*gor-uchwyl, gwr*) swyddog mewn teuluoedd mawrion, yr hwn sydd â threfniad achosion y teulu, a'r gweision ereill, fel ei waith, Gen. xv. 2. a xliii. 19. Gweiniogion ydynt *oruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw:* y maent wedi eu gosod i bregethu gwirioneddau Duw, a chyfranu seiliau y cyfammod newydd, yn nghyd â llywodraeth a dysgyblaeth yr eglwys, i'w pobl, fel y bydd er gogoniant Duw a'u hadeiladaeth hwy, 1 Cor. iv. 1. Y saint ydynt *oruchwylwyr;* ymddiriedodd Duw iddynt ddoniau, gras, a chyfleusderau aml i wneud daioni, y rhai a ddylent hwy eu trin er ei anrhydedd ef, a'u lleshad eu hunain, Luc xvi. 1, 2. 1 Petr iv. 10.

GOSEN (*neshad*). 1. Talaeth dra ffrwythlawn yn y parth gogledd-ddwyreiniol i wlad yr Aipht, a chan mwyaf, os nad yn gwbl, o du y dwyrain i'r afon Nilus. Yma y preswyliodd yr Hebreaid dros 200 o flyneddoedd, Gen. xlvii. 5. (2.) Gwlad a orweddai yn agos i Gibeon, yr hon, hwyrach, oedd yn ffrwythlawn, fel y llall yn yr Aipht, Jos. x. 41. Yma, tebygol, y safai dinas Gosen, yr hon a berthynai i lwyth Judah, Jos. xv. 51.

GOSOD (*go-sawd*). 1. Sefydlu mewn lle, Gen. i. 17. (2.) Nodi allan, cyfodi i fynu, Exod. xix. 12. (3.) Pennodi, Gen. xli. 33, 41. *Gosod* yr Arglwydd ger ein bron, yw parchi ei awdurdod, bywa megys yn ei ŵydd, dylyn ei gynllun, ymddiried ynddo fel ein cynnorthwywr a'n hymgeleddwr, ac ymdrechu i'w fwynhau ef fel ein cyfran, Salm xvi. 8. *Gosod* peth ger bron un, yw ei egluro, ei ddangos, yn enwedig fel y gallo gymmeryd ei ddewis, Exod. xxi. 1. Deut. xi. 26. *Gosod allan*, yw amlygu, Rhuf. iii. 25; neu bregethu, Act. xvii. 18. *Gosod y galon ar beth*, yw ei ystyried yn ddyfal, Exod. vii. 23.

GOSTEG, (*gos-teg*) dystawrwydd. *Gosteg yn y nef* megys dros hanner awr, a arwydda y tawelwch a fu yn yr eglwys Gristionogol, rhwng A.D. 323 a 338, Dad. viii. 1. Y mae Duw yn *gostegu*, pan y bydd yn oedi caniattau deisyf-

iadau ei bobl, Salm xxviii. 1 ; neu i gospi yr annuwiolion am eu pechodau, Salm lxxxiii. 1.

GOSTYNGEDIG, *(gos-twng)* a arwydda bod yn isel yn ein meddyliau ger bron Duw, a chyfrif ereill yn well na ni ein hunain, Job xxii. 29. Iago iv. 6. *Gostyngeiddrwydd* sydd yn gynnwysedig mewn bod gennym feddyliau isel am danom ein hunain, a theimlad dwfn o'n hanheilyngdod a'n gwendid, a'n gwaith yn rhodio yn gyfattebol. Y mae y dymher hon yn foddhaol gan Dduw, ac yn ein parottoi i dderbyn graddau pellach o gymdeithas âg ef, a bendithion oddi wrtho, Diar. xv. 33, a xxii. 4.

GOZAN, *(porja)* enw afon, a hefyd y wlad gyfagos, yr hon a orchfygodd yr Assyriaid, ac i ba le y trosglwyddasant ran o ddeg llwyth Israel, Esa. xxxvii. 12. 2 Bren. xvii. 6 ; ond pa un ai yr *Elon Gosine*, gerllaw tarddiad yr afon Tigris, yr hon a eilw *Ptolemy*, Gausinites yn Mesopotamia, oedd ; neu fan yn Media, lle y gesyd *Ptolemy* dalaeth Gauzan a'r ddinas Gauzania, nis gallwn benderfynu.

GRADD, *(rhadd)* a arwydda, (1.) Rhan, neu ddosparth o ddeial ; neu rîs o led-dring, 2 Bren. xx. 9. (2.) Cyflwr, trefn, urdd, 1 Cron. xv, 18. Salm lxii. 9. Mewn cyfeiriad at yr arfer o roddi yr eisteddleoedd uchaf mewn ysgolion i'r ysgolhaig goreu, dywedir fod diaconiaid yn ennill iddynt eu hunain *radd dda*, pan, trwy eu hymarferiad addas o'u swydd, y byddant yn cael llawer o anrhydedd a chymmeriad, 1 Tim. iii. 13.

GRADDAU. Gwahaniaethir pymtheg o Salmau wrth y cyfenw, *Salmau y Graddau ;* sef, o'r 120 hyd 134, y ddwy yn gynnwysedig. Y testun Hebrëig a ddarllain yn unig, *Cân yr Escyniadau :* Junius a Tremelius a gyfeithant y cyfenw hwn, *Cân y Rhagoriaethau*, neu *Gân Ragorol :* o herwydd y defnydd rhagorol a gynnwysant, fel y mae gwyr ardderchog yn cael eu galw, *gwyr o uchel radd*, 1 Cron. xvii. 17. Rhai a'u galwant, *Cânau y derchafiad*, o herwydd, meddant hwy, yr oeddynt yn cael eu canu â llais derchafedig, neu o herwydd fod y llais yn cael ei gyfodi yn nechreu pob Salm.

GRAS, dawn neu rodd rad. Y gair *gras* a arwydda yn gyffredinol y pethau canlynol: (1.) Daioni, cariad, cymmwynasgarwch Duw tuag at ddynion, neu ddynion at eu gilydd, a hyny yn hollol rad, gwirfoddol, ac anhaeddiannol yn y gwrthddrych o'r daioni hwnw, Rhuf. xi. 6. 1 Cor. xii. 9. Eph. i. 2, 6, 7. (2.) Trwy draws-enwad, a arwydda unrhyw fendith, anrheg, neu rodd, yn amlygu caredigrwydd, ac yn deilliaw o ewyllys da, Ioan i. 14, 16. Yn yr ystyr hwn y mae y dawn cyfiawnder yn cael ei alw yn *ras*, Rhuf. v. 20. a iii. 24. (3.) Cyflwr o gymmod a heddwch â Duw, trwy gyfrifiad o'r cyfiawnder hwnw, adn. 2. Bod *dan ras* yw bod dan oruchwyliaeth cyfammod grasol Duw yn Nghrist ; a than lywodraeth sanctaidd rasol egwyddor o ras, yr hon a eilw yr apostol, *deddf ei jeddwl*, Rhuf. vi. 14. a vii. 23. Cynnyddu mewn *gras* yw cynnyddu mewn sancteiddrwydd tufewnol, mewn doniau ysbrydol, a rhodiad sanctaidd, a duwioldeb, 2 Pedr iii. 18. Yn yr ystyr hwn y rhydd Duw *ras a gogoniant*, Salm lxxxiv. 11. (4.) Yr holl ddedwyddwch, cyssur, dyddanwch, a'r cyflawnder o fendithion sydd yn Nghrist i'w bobl yn y byd hwn, a'r un sydd yn dyfod, a elwir yn *ras* yn aml, am mai o rad gariad a haelioni Duw y mae y cwbl yn tarddu, Rhuf. v. 15, 17. 1 Cor. xvi. 23. 2 Cor. xiii. 13. Gal. v. 4. Eph. vi. 24. Phil. iv. 23. Col. iv. 18. 1 Thes. v. 28. 2 Thes. iii. 18. Yn 1 Petr. i. 10, *gras* a arwydda yr iachawdwriaeth, am ei bod i gyd yn hollol yn tarddu o ras Duw ; adn. 13, *gras* a arwydda gogoniant tragywyddol, yn ei holl gyflawnder, o blegid yr un rheswm. (5.) Y mae swyddau sanctaidd, a doniau addas iddynt, pa un ai gwyrthiol ai cyffredinol, yn cael eu galw yn *ras*, am mai rhodd rad neilltuol i'r personau eu hunain, ac i'r eglwys, yw eu bod yn cael eu gosod yn y cyfryw swyddau, ac yn cael cynnorthwyon addas i gyflawni y gwaith perthynol iddynt, Eph. iii. 2, 8, a iv. 7. Rhuf. i. 5, a xii. 3, 6, a xv. 15, 16. 1 Cor. iii. 10. Gal. ii. 7, 8, 9.

GROEG. Yn Hebraeg *Javan ;* gwlad yn y parth dehau-ddwyreiniol o Ewrop. Yr oedd, yn yr ystyr helaethaf, yn cynnwys Peleponnes-

sus, neu y Morea, Achaia, Thessaly, Macedonia, os nid Epirus hefyd o du y gorllewin i Macedonia, &c.; ond pan ei cymmerid yn fwy cyfyng, ni chymmwysai ond y tair flaenaf. Yr oedd yn gorwedd rhwng y 36 a'r 43 gradd o ledred, a rhwng y 19 a'r 27 gradd o hydred dwyreiniol; ac yn nghylch 400 milltir o'r dehau i'r gogledd, a 356 o'r dwyrain i'r gorllewin. Poblogwyd hi, tebygol, yn fuan wedi y dylif. Yn amser rhyfel Caerdroya, yr hwn a gyfrifir o ddeutu 900 o flynyddoedd cyn Crist, yr oedd yn boblog iawn, ac wedi ei dosparthu yn lluaws aneirif bron o daleithiau bychain, tebyg i eiddo y Canaaneaid yn amser Josuah. Mewn oesoedd canlynol, cawn ynddi o ddeutu 48 o daleithiau, pa rai oll a gysylltodd Philip brenin Macedonia, ac Alexander ei fab, yn un. Teyrnasoedd neu daleithiau Sicyon, Argos, Attica neu Athen, Bœotia, Arcadia, Thessaly, Phocis, Corinth, Lacedemon, Elis, Actolia, Locris, Doris, Achaia, a Macedonia, oeddynt y mwyaf hynod.

Tad y Groegiaid oedd Javan, pedwarydd mab Japheth: ei feibion oeddynt Elisa, Tarsis, Cittim, a Dodanim: ei hiliogaeth a elwid gynt Ioanes, neu Iones: ymddengys iddynt sefydlu, ar y cyntaf, yn y parthau gorllewinol i Asia Leiaf, lle yr arosodd rhan o honynt fyth; ac i ba le y dychwelodd ereill mewn oesoedd canlynol o wlad Groeg, ac a ffurfiasant daleithiau Groegaidd yn Asia Leiaf o'u hamrywiol lwythau, sef yr Ioniaid, Æoliaid, a'r Doriaid. Lluaws o honynt mewn amseroedd boreuol iawn, a aethant drosodd i Ewrop, hwyrach trwy groesi yr Hellespont, ac a sefydlasant yn nhir Groeg. Rhai o'r Phœniciaid, Aiphtiaid, ac hwyrach ereill, wedi eu gyrru allan o'u gwledydd eu hunain, a ddaethant drachefn, ac a sefydlasant yn eu plith: hwy, er gwaethaf lluaws o ryfeloedd cartrefol, a amlhasant yn ddirfawr, ac a ymdaenasant i bron bob ynys a glan o Fôr y Canoldir; rhan o honynt a breswyliasant yn y parth dwyreiniol o'r Ital; ereill yn Marseilles yn nheudir Ffrainge; a rhai o honynt a sefydlasant yn Cyrene a'r Aipht, yn Arabia.

Gwedi byw o honynt am hir amser mewn cyflwr o anwybodaeth a gwladeidd-dra, dechreuwyd myfyrio ar athroniaeth yn eu plith, o ddeutu chwech neu saith can mlynedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr; a gwnaethant gynnydd mawr ynddi, yn benaf yn eu tyb eu hunain: ond er fod eu moesau yn llai anwar, nid oedd eu moesolrwydd, ar y cyfan, wedi gwellhau bron fymryn. Dywedir fod ganddynt yn nghylch 30,000 o eilunod. Masnachent â'r Tyriaid, ac weithiau prynent ganddynt Iddewon i fod yn gaeth-weision, Ezec. xxvii. 6, 7, 13. Joel iii. 6.

Gwedi i ryfeloedd meithion a thra mynych rhwng y Lacedemoniaid a'r Atheniaid, eu pryf lwythau, a rhyfel y Phociaid, a Bœotiaid, &c. a'u rhydd-did mewn moesau, wanychu y rhai a gyfaneddent yn mharthau deheuol gwlad Groeg yn ddirfawr, y Macedoniaid a'u darostyngasant hwynt, A. M. 3666. Ond eu rhyfeloedd estronol oeddynt yn fwy noddedig fyth. O ddeutu A. M. 3100, hwy, ar ol rhyfel o gylch deng mlynedd, a ddinystrasant freiniaeth gadarn Caerdroya. O ddeutu 400 o flynyddoedd wedi hyny, yr Ioniaid yn Asia Leiaf, a giliasant oddi wrth y Persiaid; a'r Groegiaid yn Ewrop, yn neilldiol yr Atheniaid a'r Lacedemoniaid, ar amrywiol achlysuron, ac weithiau fel un corph, a gymmerasant eu plaid hwynt. Wedi ei gyffroi o herwydd hyn, Darius Hystaspes, a Xerxes ei fab, gyda llu dirfawr, a fwriadasant eu distrywio hwy yn llwyr: nid ychydig o dir Groeg a anrheithiwyd, ac Athen a losgwyd ddwywaith. Dros o ddeutu 200 o flynyddoedd, mewn rhan trwy gynnorthwyo yr Aiphtiaid, ac mewn rhan trwy ddifrodi tiriogaethau y Persiaid yn Asia, y cynnygodd y Groegiaid ymddial am y drimiaeth hon.

Mor gynted ag y gwnaethai Philip brenin Macedonia, a'i fab Alexander, eu hunain yn feistriaid ar wlad Groeg, cwbl fwriadwyd i ddadymchwelyd amherodraeth Persia. O ddeutu A. M. 3670, arweiniodd Alexander fyddin o 35,000 o Roegiaid i Asia. Gyda y rhai hyn, yn y tair brwydr fawr, sef Granicus, Issus, ac Arbella, efe, gyda dim colled bron, a orchfygodd fyddinoedd y Persiaid, pa rai oeddynt, ymddengys, yn y ddwy ymladdfa gyntaf, o ddeutu pum neu chwe chan mil; ac yn y ddiweddaf, yn

ddeg, neu un can mil ar ddeg o wyr. Mewn chwe blynedd, efe a orescynodd amherodraeth y Persiaid, a rhan o'r India, ac a fu farw, gan adael amherodraeth ar ei ol o 4000 o filltiroedd o hyd. Ni chafodd neb o'i berthynasau neu ei hiliogaeth, feddiant heddychlon o un rhan o honi; ac yn mhen o ddeutu 15 mlynedd, yr oeddynt oll wedi eu lladd. Roxana un o'i wragedd, a laddodd Statira, merch Darius, un arall o honynt, ac a fwriodd ei chorph i bydew. Olympias ei fam a laddodd Aridæus ei ordderch-frawd, ac Eurydice ei wraig; a chyn pen hir wedi hyn, lladdwyd hithau, er dial arni, gan filwyr Cassander. Roxana, ac Alexander Ægus ei mab, yr hwn a gyfenwasid yn frenin am o ddeutu 14 mlynedd, ac a gymmaliesid gan Eumenes, y gwr rhyfeddol hwnw o ran gwroldeb a medrusrwydd, a laddwyd gan Cassander yn ddirgelaidd; yr hwn, o ddeutu blwyddyn wedi hyny, a laddodd Hercules, un arall o feibion Alexander, a'i fam Barsina. Y teulu breninol fel hyn wedi ei ddiddymu, ac Antigonus wedi ei ddarostwng, dosparthwyd yr amherodraeth yn bedair rhan. Lysimachus a gafodd Bithynia, Thrace, a'r parthau gogleddol; Cassander, gwlad Groeg, a'r parthau gorllewinol; Ptolemy, yr Aipht, a gwledydd y dehau; a Seleucus Nicator, Syria, a'r parthau dwyreiniol. Yr un a berthynai i Lysimachus a gymmerwyd oddi arno yn mhen ychydig flynyddoedd, ac yna, nid oedd ond tair rhan yn aros. Unbenaeth gwlad Groeg, ar ol amryw ryfeloedd, a holltwyd, cyn pen hir wedi hyny, yn daleithiau, sef Macedonia, Achaia, Natolia, &c. a'r rhan fwyaf o honi a ddarostyngwyd gan y Rhufeiniaid, o ddeutu 148 o flynyddoedd cyn genedigaeth cin Hiachawdwr.

Ond *dwy fordduyd* yr amherodraeth grothog hon unwaith a barhasant yn hwy. Ptolemy Lagus, brenin Groegaidd cyntaf yr Aipht, yn y dehau, oedd yn gadarn iawn. Yr oedd tan ei lywodraeth, yr Aipht, Canaan, Phœnicia, Caria, Syria Geuol, rhan o Arabia, holl Cyprus, ac amryw o'r ynysoedd Ægeaidd. Seleucus Nicator, brenin Groegaidd cyntaf Syria, yn y gogledd, oedd fyth yn fwy cadarn: yr oedd efe yn bennaeth yr holl wledydd o'r Hellespont i'r tu hwnt i'r afon Indus; ac ar ol marwolaeth Lysimachus, a lywodraethodd ar Thrace a Macedonia. Antiochus Soter ei fab, a'i canlynodd ef, rhyfeloedd yr hwn â'r Galiaid, Bithyniaid, a brenin Pergamus, a wanychasant ei deyrnas. Gwedi hlino o Ptolemy Philadelphus yn yr Aipht, ac Antiochus Theos yn Syria, ar eu hir ryfel â'u gilydd, dyfeisiwyd ffordd i ymheddychu: dygodd Philadelphus ei ferch Bernice gydag ef i Syria, ac annogodd Antiochus i ysgaru ei wraig Laodice, a'i phriodi hi, a sefydlu coron Syria ar ei phlant. Dim cynt y bu Philadelphus farw, nag yr ysgarodd Antiochus Bernice, ac adalwodd Laodice, a sefydlodd y goron ar ei mab Seleucus Calinicus. I rwystro ei gwr rhag newid ei feddwl, parodd Laodice iddo gael ei wenwyno yn fuan. Seleucus a'i canlynodd ef o ddeutu A. M. 3758. Bernice, a'i phlentyn, a'r Aiphtiaid y rhai a weinyddent iddi, a laddwyd oll, cyn y gallai lluoedd Asia Leiaf ddyfod i'w chynnorthwy. I ddial ei marwolaeth, Ptolemy Euergetes, brenin yr Aipht, a dorodd i mewn i deyrnas Syria, darostyngodd y rhan fwyaf o honi, lladdodd Laodice, cymmerodd lawer o yspail, adennillodd o ddeutu 2500 o eilunod yr Aiphtiaid, y rhai a ddygasai Cambyses a Phersiaid ereill o'r Aipht, ac a'u gosododd hwy yn eu temlau. Ar ei ddychweliad trwy wlad Canaan, efe a offrymodd aberth arbenig o ddiolchgarwch i Dduw yr Iuddewon yn Jerusalem. O herwydd i gythrwfl cartrefol beri i Ptolemy adael Syria, efe a wnaeth gynghrair â Seleucus: ond y tywysog annedwydd hwnw a flinwyd yn dost gan ei frawd Hierax, a chan Attalus ac Eumenes o Pergamus; ac o'r diwedd a gymmerwyd yn gaeth gan y Parthiaid. Seleucus, Ceraunus, ac Antiochus Fawr, ei feibion, a ffurfiasant fwriad i ymddial ar Ptolemy, ac adennill y taleithiau a ddygasai efe trwy drais oddi ar eu tad. Bu Ceraunus farw cyn gwneuthur o hono ddim teilwng o sylw: Antiochus a'i canlynodd ef, A.M. 3781. Gydag anhawsdra mawr, efe a ddarostyngodd fyddinoedd Molon y gwrthryfelwr. Ptolemy Philopater o'r Aipht a roddodd iddo ddadymchweliad arswydus yn Raphia gerllaw congl

ogledd-ddwyreiniol yr Aipht, ac a barodd iddo roddi Canaan a Syria Geuol i fynu. Pan y golygodd Ptolemy gyfŵr y taleithiau hyn, efe a offrymodd ebyrth yn Jerusalem; ond wedi cael ei laddias gan yr Iuddewon, neu ei ddychrynu gan Ddnw rhag myned i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf, efe a feithrinodd gynddaredd arswydus yn erbyn yr Iuddewon, ac a barodd i yn nghylch deugain neu driugain mil o'r rhai a breswylient yn yr Aipht gael eu lladd yn annynol. Efe a ganiattasai heddwch i Antiochus mor rhwydd, fel y gallai gael amser i ymdroi yn ei anlladrwydd âg Agathoclea, a'i brawd Agathocles. Gwedi tramgwyddo wrth ei ymddygiad gwarthus, lluaws o'i ddeiliaid a wrthryfelasant; ac efe fu a farw yn fuan o'i drythyllwch. Ei fab Ptolemy Epiphanes, plentyn pedair neu bum mlwydd oed, a'i canlynodd ef. Antiochus Fawr, wedi darostwng Achæus y gwrthryfelwr, a gydunodd â Philip brenin Macedonia i oresceyn arglwyddiaethau Ptolemy ieuange, a'u rhanu hwy rhyngddynt eu hunain. Yn y cyfamser, yr Aiphtiaid, wedi anfoddloni yn ddirfawr o herwydd fod eu pennaeth ieuange o dan warcheidiaeth Agathocles, oeddynt yn barod i wrthryfela; ac amryw derfysgoedd a ddygwyddasant mewn gwirionedd. Yr Alexandriaid a gyfodasant arfau, ac a roddasant Agathocles, Agathoclea, a'u mam, a'u cymdeithion, i farwolaeth. Llawer o'r Iuddewon a wrthgiliasant at Antiochus; ond Scopas, y cadfridog Aiphtaidd, a'u ceryddodd hwy yn lled chwerw yn ebrwydd; ac a ddygodd Canaan a Syria Geuol i'w hymostyngiad arferol. Antiochus, gyda llu mawr, a gyfarfu âg ef wrth ffynnonau yr Iorddonen, ac a orchfygodd yr Aiphtiaid; ac, er y cwbl a allai Scopas, a thair byddin newydd a anfonesid i'w gynnorthwyo ef, wneud, a ddarostyngodd Phœnicia, Canaan, a Syria Geuol. Yr Iuddewon a ymostyngasant yn llawen, ac a'i cynnorthwyasant ef â lluniaeth; ac efe a'u hanrhydeddodd hwy a'u crefydd â chymmwynasau nodedig iawn. Gan gymmeryd lluaws o honynt gyd âg ef, cyfeiriodd ei hynt tua'r Aipht, gyda bwriad i'w gorescyn; ond yn ofni y gallai hyn gyffroi y Rhufeiniaid, y rhai oeddynt yn awr yn warcheidwaid Ptolemy ieuange; neu yn tueddu i wneud rhyfel â rhai o gyngbreirwyr y Rhufeiniaid yn Asia, efe a lwyr-fwriadodd i ennill yr Aipht trwy ddiehell. Ar ol gwobrwyo ei ferch brydferth Cleopatra er bradychu ei gwr, efe a'i priododd hi â Ptolemy, ac a roddodd Phœnicia, Canaan, a Syria Geuol, yn gynnysgaeth iddi; er, ymddengys, na roddodd efe hwy erioed i fynu mewn gwirionedd: ond ei fwriadau yn erbyn yr Aipht a siomwyd. Cadfridogion Ptolemy a'i drwgdybiasant ef, ac felly buant ar eu gwyliadwriaeth; a Cleopatra a gynnaliodd achos ei gwr yn ffyddlawn. Antiochus, wedi ymgynddeiriogi o herwydd y siomedigaeth hon, a barottodd 300 o longau, a llu arswydus, gyda pha rai y goresecynodd efe luaws o fanau yn arfordiroedd Asia Leiaf, Thrace, a gwlad Groeg; ac a ennillodd Samos, Eubœa, ac amryw ynysodd ereill yn Môr y Canoldir. Gwedi clywed o hono am farwolaeth Ptolemy, efe a barottodd i afaelu yn mreniniaeth yr Aipht; ond tymhesti ddychrynllyd, a marwolaeth Scopas y bradwr, a'i rhagfiaenasant ef. Gwedi ei gynhyrfu gan Hannibal, efe, a rhai Groegiaid yn Ewrop, a ddechreuasant ryfel yn erbyn y Rhufeiniaid. I ddial y sarhad hwn, a'r niwaid a wnaethai efe i'w cynghreirwyr, hwy a ymosodasant arno. Acilius a orthrechodd ei lu ef yn ngwlad Groeg, ac a'i gyrodd yn gwbl allan o Ewrop; Livius ac Aimilius, ar wahanol amserau, a'i gorchfygasant ef ar y môr. Lucius Scipio, gyda 30,000 o wyr, a orthrechodd ei fyddin yn Magnesia, a laddodd 54,000 o honynt, a'i diosgodd ef o'i holl diriogaeth yn Asia Leiaf, o'r tu yma i fynydd Taurus; ac a'i dyfarnodd i dalu 12,000 o dalentau arian, i ddwyn traul y Rhufeiniaid wrth ryfela âg ef. Gwedi ei orchuddio gan gywilydd, efe a encilfodd i barthau tufewnol ei freniniaeth; ac wrth gynnyg yspeilio temi Jupiter yn Elymais, am arian i dalu i'r Rhufeiniaid, efe a laddwyd gan y werinos gynddeiriog.

Ni bu teyrnasiad byr Seleucus Philopater ei fab yn hynod am ddim ond codi trethi, ac ymgais o eiddo Heliodorus ei weinidog, i yspeilio temi Jerusalem. am arian i dalu y ddyled Rufeinaidd. Torwyd ef ym-

aith, nid yn ngbythrwfi ei ddeiliaid, nac mewn rhyfel cyhoeddus â'i elynion, ond trwy ei wenwyno gan Heliodorus ei oruchwyliwr bradwrus. Ac ni chanlynodd Demetrius ei fab ef, ond Antiochus ei frawd, yr hwn a fuasai yn hir yn wystl yn Rhufain; er sicrhau taliad y ddyled i'r senedd; ac un o'r dynion mwyaf dybir, gorphwyllog, a drygionus a anadlodd erioed. Trwy wenieithio i'r Rhufeiniaid er ei noddi, trwy wenieithio i Emenes brenin Pergamus er ei gynnorthwyo, a thrwy wenieithio i'r deiliaid Syriaidd, efe a gafodd y goron yn heddychlawn. Yn fuan gorchfygodd luoedd Heliodorus y trais-feddiannydd; Demetrius y gwir etifedd, a Ptolemy, brenin ieuangc yr Aipht, gwarcheidwaid pa un a honnent hawl i deyrnas Syria trwy ei fam; a thrwy ei gyfraniad dirfawr o anrhegion, efe a ennillodd galonau ei bobl. Eulæus a Lenæus, gweinyddwyr i Ptolemy Philometor ieuangc, a ofynasant yn gyfiawn iddo ef y taleithiau a benodasid fel cynnysgaeth i'w fam. Gwedi digio o herwydd hyn, Antiochus, ar ol golygu ac adgyweirio amddiffynfeydd y lleoedd hyn, a arweiniodd lu cymhedrol tua'r Aipht; ac ar derfyn gogledd-ddwyreiniol y wlad honno, a orchfygodd gadfridogion yr Aiphtiaid: ond am nad oedd y fuddugoliaeth yn gyflawn, dychwelodd yn ol i'w deyrnas ei hun. Y flwyddyn nesaf, rhuthrodd i mewn i'r Aipht, ac, oddi eithr Alexandria, a ddifrododd y rhan fwyaf o honi; a chafodd Cyprus ei thraddodi iddo yn fradwrus gan Macron. Ptolemy, dygiad pa un i fynu a fuasai mor fenywaidd, nis gallai wneud bron ddim yn yr amser hwn o gyfyngder. Hwyrach iddo gael ei gymmeryd yn garcharor gan y Syriaid. Dilys yw iddo ef ac Antiochus, ewythr iddo, gyfarfod a gwledda yn nghyd. Tra nad oedd y naill na'r llall yn bwriadu cyflawniad, hwy a aethant mewn cynghrair â'u gilydd; ac a siomwyd ei ill dau yn eu hamcanion. Ar ei ddychweliad adref, cyflawnodd Antiochus y llofruddiaeth a'r cyssegrladrad mwyaf arswydus yn Jerusalem, a lladdwyd 40,000, a gwnaed 40,000 yn gaeth-weision. Yn y cyfamser, yr Alexandriaid yn gweled Philometor eu brenin yn gwbl wrth ewyllys Antiochus, a wnaethant Ptolemy Physcon yn frenin yn ei le ef. Tan esgus o adferu Philometor, Antiochus a dorodd drachefn i mewn i'r Aipht; ond gan nad oedd alluog i ddarostwng yr Alexandriaid, efe a adawodd y wlad, gan ddisgwyl y treuliai y ddau frawd ei nerth hi yn gwbl trwy eu rhyfelocdd cartrefol, ac felly y deuai y cyfan yn ysglyfaeth hawdd iddo ef. Hwy, yn drwgdybied ei fwriadau, a gydunasant i deyrnasu yn nghyd. Gwedi ei gyffroi o herwydd hyn, efe a ruthrodd drachefn i'r Aipht, ac a anrheithiodd ran fawr o honi: ond Popilius, a chennadau ereill o Rufain, yn dyfod mewn llongau Macedonaidd, a orchymynasant iddo beidio, os oedd yn prisio ewyllys da eu gwladwriaeth hwynt. Gwedi ei fratbu gan gynddaredd o herwydd y siomedigaeth hon, a'i gyffroi gan neilduolrwydd y grefydd luddewig, yn nghyd â pheth sarhad a wnaethant hwy iddo, cyflawnodd waith arswydus yn Judea. Efe, o'r blaen, a droisai eu harchoffeiriaid allan wrth ei ewyllys, ac a werthasai y swydd i'r cynnygwr uchaf; ond yn awr attaliodd y beunyddiol aberth, gwnaeth y demi yn olygfa o eilunaddoliaeth ac aniniweirdeb, a chymhellodd yr Iuddewon i fwytta cig moch; a dangosodd fwriad i dorri ymaith bob copi o'r ysgrythyrau, a phob addolwr Duw. Yn y cyfamser, yr Armeniaid, y Persiaid, ac ereill o'i ddeiliaid, a wrthryfelasant. Y rhai cyntaf a ddarostyngwyd yn hawdd, ond y mileinlu Persiaidd a roddasant gilgwthiad iddo ar ei waith yn cynnyg yspeilio eu teml. Pan glywodd ar ei ddychweliad tua Babilon fod yr Iuddewon wedi gorchfygu Lysias ei brif gadben a'i luoedd, efe a addunedodd i'w diwreiddio hwy yn gwbl oddi ar wyneb y ddaear. Bron yn ddiattreg tarawyd ef â chlefyd arswydus; ei gnawd a heidiodd gan bryfed, a bydrodd, ac a syrthiodd ymaith yn dammeidiau. Gwedi ei argyhoeddi mai ei erlidigaeth o'r Iuddewon oedd yr achos o hyn, efe a wnaeth addunedau arbenig i roddi iddynt iawn ac ewyllys da, ac adferu eu crefydd; ond yr oedd y cwbl yn ofer; y boen a'r drygsawr a osodasant derfyn ar ei einioes.

Am o ddeutu 100 o flyneddoedd yn ychwaneg, parhaodd breniniaeth y Groegiaid yn Syria, yn nghanol

amrafael a thruenusrwydd i'r radd uchaf, ac a feddianwyd gan y Rhufeiniaid o ddeutu A. M. 3939. Y freniniaeth Aiphtaidd a ddihoenodd am o ddeutu 35 o flyneddoedd yn hwy; ac yna syrthiodd i'r un dwylaw. Pan ddaeth yr amherodraeth Rufeinig i gael ei dosparthu yn ddwyreiniol a gorllewinol, o ddeutu A. D. 338, syrthiodd y rhan fwyaf o'r hyn a feddiannasai y Groegiaid erioed, oddi eithr Parthia, i ddwylaw amherawdwr y dwyrain, yr hwn, yn gyffredinol, a breswyliai yn Caercystenyn. Meddiannodd y Saraceniaid ran fawr o'r hyn a berthynai unwaith i'r Groegiaid. Y Tyrciaid Ottomaidd ydynt yn bresennol yn llywodraethu bron ar y cyfan o honi: ond y mae lluoedd dirfawr o'r Groegiaid fyth yn byw yn eu plith, mewn cyflwr digon truenus, Gen. ix. 27. Zec. iii. 3, 6. Dan. ii. 32, 39. Dan. ii. 32, 39. Dan. vii. 6, a viii. 5—25, a x. 20, a xi. 2—35. Zec. ix. 13. Dan. vii. 7, 12.

Lawer o amser cyn ymgnawdoliad ein Hiachawdwr, cyfieithwyd ysgrifeniadau yr Hen Destament i'r Groeg, yr hwn a elwir Cyfieithiad y Deg a Thriugain. Hwn yw y cyfieithiad a arferwyd gan yr apostolion, ac yn ngeiriau pa un y maent yn coffau yn eu hysgrifeniadau, ysgrythyrau yr Hen Destament. Planwyd eglwysi Cristionogol bron yn mhob man yn y tiriogaethau Groegaidd. Y mae lluoedd o honynt hyd heddyw yn dal yr enw Cristionogol, Esa. lx. 19. 1 Cor. i. 24. Yr holl Genedloedd a elwir weithiau *Groegiaid*, Rhuf. x. 12. Gal. iii. 28: a'r luddewon, y rhai a ddarllœnent ysgrythyrau yr Hen Destament yn y Groeg, a elwir *Groegiaid*, neu *Helenistiaid*, Act. vi. 1.

GRUDD, (*gru*) y rhan honno o'r wyneb dynol sydd yn eisteddfod neillduol harddwch a gwyledd. A *thuraw ar y rudd*, neu *dynu ei blew*, a arwydda ar unwaith ddirmyg a chreulondeb, 1 Bren. xxii. 24. Esa. l. 6. Mic. v. 1. *Gruddiau* Crist *fel gwely pêr-lysiau*, a arwydda harddwch hyfryd ac enaidiadfywiol ei berson, ei ymostyngiad, ac amlygiad o'i bresennoldeb dwyfol, Can. v. 13.

GRUG, (*rhug*, pigyn) prysgen digon adnabyddus a dŷf mewn morfëydd diffrwyth: *ni wêl pan ddêl daioni;* nid yw yn biodeuo yn y gwanwyn, ond tua diwedd yr haf. Cyffelybir dynion iddo, am eu bod yn annigonol a diystyrllyd, ac nad ydynt yn cynnyddu mewn gwir dduwioldeb yn nghanol rhagluniaethau trugarog Duw, Jer. xvii. 6. Y mae hefyd yn arddangosiad o ddynion mewn cyflwr amddifad a chuddiedig, Jer. xlviii. 6.

GRWGNACH, (*grwgn*) tuchan ac achwyn yn ddigllawn o herwydd person neu beth a dybir yn niweidiol, Ioan vi. 41. 61. Y mae grwgnachrwydd greddfol yn arwydd o galon ddrwg, Judas 16. Yn ofnadwy y cospodd yr Arglwydd y grwgnachiadau a wnaed drachefn a thrachefn gan yr Hebreaid yn yr anialwch; ac ettto lle yr amlhaodd pechod, yma y rhagor-amlhaodd gras, Exod. v, a xiv, a xvi, a xxi. Salm lxxviii, a cvi.

GUR-BAAL, (*ieuangc o'r hwn sydd yn llywodraethu*) lle yn Arabia Garregog, o du y dehau i wlad Canaan, ac hwyrach yr un â Petra, prif ddinas yr Arabiaid. Gorchfygwyd ei thrigolion hi gan luoedd Uzziah, 2 Cron. xxvi. 7.

GWADU (*gwa*). Naccau gwirioneddcyhuddiad neu haeriad, Gen. xviii. 13. Mat. xxvi. 34; *Nis gall* Duw *wadu ei hun;* nis gall weithredu na llefaru yn anaddas i'w hanfod ei hun, neu yn anaddas i'r nodweddau graslawn a gymmerodd, neu yr addewidion a wnaeth ef, 2 Thes. ii. 13. Y mae dynion yn *gwadu* Duw neu Grist, neu ei enw, pan y byddant yn eu profles neu eu hymarferiad, yn gwadu mai efe yw y gwir Dduw, Iachawdwr, cyfran, llywodraethwr, a dyben diweddaf eu heneidiau, Job xxxi. 28. Act. iii. 13, 14. Y maent yn *gwaduy ffydd*, pan y byddant yn coffeidio cyfeiliornadau, yn ymroddi i ymarweddiad diog a drygionus, ac felly yn amlygu eu hanghredíniaeth o wirioneddau yr ysgrythyr, a'u gwrthwynebiad iddynt, 1 Tim. v. 8. Dad. ii. 13. Y mae dynion yn *ymwadu â hwy eu hunain*, pan y byddant yn gwrthod ymorphwys ar eu cyfiawnder eu hunain fel sylfaen eu dedwyddwch; neu gael eu harwain gan eu doethineb eu hunain, neu eu llywodraethu gan eu hewyllys neu eu serchiadadau eu

hunain; neu geisio cyflawni gweithredoedd da yn eu nerth eu hunain; ond derbyn Iesu Grist fel rhodd rad Duw, i fod *oll yn oll* iddynt, a dibrisio eu hesmwythdra, eu helw, a'u digrifwch eu hunain, er mwyn Crist, Mat. xvi. 24.

GWADD, (*gwad*) creadur bychan pedwar-troediog, yr hwn a ymguddia yn y ddaear, ac sydd â'i draed wedi eu ffurfio i gloddio; y mae ei lygaid yn fychain iawn, ac o herwydd hyn creda y cyffredin ei fod yn ddall. *Tuflu eilunod i'r wadd ac i'r ystlumod*, yw eu gadael i ddynion anwybodus, adgas, a bydol, neu yn hytrach eu taflu ymaith gyda y dystyrwch mwyaf, Esa. ii. 20.

GWAE (*gwa*). Y gair hwn a arwydda trallod blin: cyfodiad Pabyddiaeth a Mahometaniaeth, y 396 o flynyddoedd difrod y Tyrciaid Ottomaidd, a dadymchweliad arswydus Pabyddiaeth a Mahometaniaeth, ydynt y tair *gwae* ddychrynllyd, y rhai, dan y pummed, y chwechfed, a'r seithfed udgorn dadguddiadol, a syrthiant ar drigolion y ddaear, Dad. viii. 13, a ix. 12, a xi. 44. *Gwae*, melldithion, a bygythion, a arwydda neshad rhyw drallod blin, Mat. xxiii. 13—29.

GWAED, (*gwae*) a arwydda (1.) Llif-nodd coch a gylchyna trwy wythienau corph dyn ac anifel, ac a weinydda er bywyd a maeth pob aelod, 1 Bren. xxi. 19. (2.) Marwolaeth neu lofruddiaeth, yn nghyd â'r euogrwydd o hono, Gen. iv. 10. Mat. xxvii. 4. (3.) Effaith llofruddiaeth, yn nghyd â'r gosp ddyledus iddo, neu ryw droseddau dinystriol ereill, Mat. xxvii. 25. Act. xviii. 6. (4.) Yr hyn a emmilir trwy gymmeryd einioes y dieuog ymaith, Act. i. 19. Nah. iii. 10. Hab. ii. 12. (5.) Achyddiaeth naturiol, yr hon sydd yn dechreu ac yn tarddu o'r gwaed, Ioan i. 13. Act. xvii. 26; ond yn yr adnod flaenaf, geill hefyd gynnwys enwediad ac aberthau. (6.) Sudd y grawnwin, yr hwn sydd yn cylchynu trwyddynt fel gwaed; ac sydd yn fynych yn gochaidd ei liw, Gen. lxix. 11. (7.) *Gwaed teirw a geifr*, ac aberthau ereill dan gyfraith Moses; yr oeddynt oll yn rhag-gysgodi (8.) GWAED CRIST, megys oen difeius a difrycheulyd, yr hwn a dywalltwyd dros lawer er maddeuant pechodau. Y mae yr einioes yn y gwaed; am hyny yr oedd yn cael ei gyfrif yn sanctaidd neilldnol, megys rhodd Duw. Cyfyngid tywalltiad gwaed y greadigaeth anifeilaidd, cyn y dylif, i aberthau; gwedi y dylif, rhoddwyd y cig i ddyn trwy ganiatad arbenig oddi wrth ei Wneuthurwr. Yr oedd, o'r dechreuad, yn drosedd arbenig yn erbyn Duw i dywallt gwaed; o herwydd hyn y disgynodd y fath gospedigaeth arswydus ar Cain. Barn llawer yw, nad eill unrhyw gyfraith ddynol sefydlu tywalltiad gwaed am un sarhad arall ond llofruddiaeth. "Pwy bynag a dywallto waed dyn, *gan ddyn* y tywelltir ei waed yntau," sydd yn awdurdod digonol i gospi llofruddiaeth â marwolaeth; ond yr oedd cyfraith Moses yn cospi pob camwedd a throsedd arall yn erbyn cymdeithas neu eiddo priodol mewn dull arall. Pan y tywalltwyd gwaed Crist ar y groes, cadarnhawyd y cyfammod newydd; a thrwy ei farwolaeth, gwnaed yr etifeddiaeth a adawodd yn ei lythyr cymmun yn sier i'w holl had; y mae gan hyny yn cael ei alw *gwaed y cyfammod*, Zec. ix. 11. Heb. xiii. 20. *Gwaed y taeneliad* sydd enw arall tra darluniol o'r gwaed hwn, Heb. xii. 25, o herwydd ei fod yn wrthgysgod y gwaed hwnw, trwy daeneliad pa un ar ystlys-byst drysau yr Israeliaid, yr oeddynt yn ddiogel rhag yr angel dinystriol, ac hefyd o'r gwaed hwnw â pha un y *taeneilodd* Moses y llyfr a'r holl bobl. Gwaherddir *gwaed* yn fynych i'w fwytta, cyn y gyfraith, dan y gyfraith, a chan yr apostolion. Bod *yn ei waed*, a arwydda cyflwr afian a diymgeledd naturiol; neu gyflwr isel a llygredig, Ezec. xvi. 6. *Yfed gwaed*, yw cael digoni â lladdedigaeth, Ezec. xxxix. 18. Esa. xlix. 26. Num. xxiii. 24. Rhoddi *gwaed i uni yfed*, a arwydda cael ei ladd yn greulawn, Dad. xvi. 6. Ezec. xvi. 38. Golchi neu drochi traed un yn *ngwaed* ereill, neu fod tafodau cwn yn cael eu trochi ynddo, a arwydda y dialedd ofnadwy a syrth ar elynion Crist a'i bobl, Salm lxviii. 23, a lviii. 10. *Dyn gwaedlyd*, a ddynoda un creulawn ac euog o dywalltiad gwaed, neu yn awyddus i hyny, 2 Sam. xvi. 7. Yn fynych dywedir *gwaedau* yn y rhif lluosog, yn yr Hebraeg, i ar-

wyddo aml lofruddiaeth, neu un dra erchyll, Gen. iv. 10. 2 Sam. iii. 28, a xvi. 7. 2 Bren. ix. 26. Esa. i. 15, a xxvi. 21, a xxxiii. 15. Ezec. xvi. 9, a xviii. 13. Hos. iv. 2. "Mi a gymmeraf ymaith ei *waed* o'i enau, a'i ffieidd-dra oddi rhwng ei ddanedd." Y Philistiaid a fyddant mewn diffyg o hyn allan o allu a thueddiad i ladd a difrodi yn eu dull arferol; ac ni pharhant yn eu heilun-addoliaeth, ond cospir hwy yn ofnadwy o'i achos, Zec. ix. 7.

GWAEDD, *(gwae)* bloedd, dolef. Y mae *gwaedd* a *gwaeddi* yn arwyddo (1.) Pechadurusrwydd ac euogrwydd mawr, Gen. xxvii. 34. Exod. ii. 23, a iii. 7, a xxii. 23. (3.) Taerineb mewn gweddi, 1 Sam. vii. 8, 9. Salm xviii. 6, a lxxxiv. 2, a lxxxviii. 1, a cxx. 1. Diar. ii. 3.

GWAEL *(gwa)*. 1. Peth o ddim pris neu werth, Deut. xxv. 3. Jer. xxix. 17. (2.) Distadl, llygredig, Phil. iii. 21. (3.) Dirmygedig, trallodedig, Galar. i. 11. (4.) Garw, aflan, ffiaidd, Iago ii. 2. (5.) Ansanctaidd, tra drygionus, a ffiaidd, Rhuf. i. 26. Salm xv. 4, a xii. 8. *Yn wael*; mewn modd dirmygus a gwarthus, 2 Sam. i. 21.

GWAELOD, *(gwael)* y rhan isaf. Y *gwaelod* neu y *past* lle y gwelodd Zechariah yn ei weledigaeth y *myrtwydd*, a ddichon fod yn dynodi gwlad isel a gwastad Babilon, neu gyflwr cystuddiol yr Iuddewon ynu, yn eu caethiwed, neu wedi hyny; a chyfran drallodus y saint yn gyffredinol, Zec. i. 8. Y mae uffern *heb waelod*. Y fath luoedd a gynnwysa! Mor arswydus ac anchwiliadwy, a byth-ychwanegol, hwyrach, ydynt ei dychrynfeydd a'i phoenau! Dad. ix. 1.

GWAG *(gwa)*. Y mae llestr, nant, neu bydew, yn *wag*, pan na bydd dim ynddo, Barn. vii. 16. Y mae dinas, gwlad, neu ddaear, yn *wag*, pan beb drigolion, Nah. ii. 10. Esa. xxiv. 3. Y mae dynion yn *weigion*, pan y byddont yn dlodion, heb gyfoeth, Ruth. i. 21; heb wobrwy, Gen. xxxi. 42; heb offrwm, Exod. xxiii. 15. 1 Sam. vi. 3; ac yn ddiweddaf, heb unrhyw beth da, Luc i. 53. Ruth. iii. 17.

GWAGEDD, *(gwag)* a arwydda 1. Peth ofer a diddefnydd, Preg. i. 2. (2.) Cyfnewidiol a llygredig, Rhuf. viii. 20. (3.) Drygioni, celwydd, Salm cxix. 37, a iv. 2, a xii. 2. (4.) Balchder, ysgafnder, ac anwadalwch, Eph. iv. 17. (5.) Llafur diffrwyth, cystudd, truenusrwydd, Salm lxxviii. 33. Job vii. 3, 16. Eilunod ydynt *wagedd* ac *oferedd celwydd*; ni feddant ddiwddod gwirioneddol; nis gall eu gwasanaeth hwy wneuthur unrhyw ddaioni gwirioneddol, fel yr haerir, Jer. ii. 5. Ioan ii. 8. Act. xiv. 15. Trysorau a gesglir trwy ddywedyd celwydd, ydynt *wagedi a chwelir yma ac accw*, gan y neb sydd yn ceisio angau; y maent yn dra ansier ac ansefydlog, ac yn tueddu i ddistrywio eu perchenogion, Diar. xxi. 6.

GWAHANGLWYFUS; un yn cael ei fiino gan y *gwahanglwyf*. Yr oedd y gwahangleifion yn cael eu *gwahanu* oddi wrth gymdeithas pobl ereill, ac o herwydd hyn ffurfient un o'u heiddynt eu hunain. Cawn bedwar o honynt yn nghyd felly, yn nyddiau Eliseus, a deg dro arall, yn nyddiau ein Hiachawdwr, 2 Bren. vii. 8. Luc xvii. 12. Y mae y gwahanglwyf yn ddeublyg mewn rhyw neu radd. Eiddo yr Iuddewon, oedd, tebygol, yn lled gyffelyb i'r *elephantiasis*, neu wahanglwyf yr Arabiaid, yr Aiphtiaid, &c. yr hwn a dygwyd i'r Ital, ac a ffynnodd yno o ddeutu triugain mlynedd cyn genedigaeth ein Hiachawdwr. Y mae yn cymmyddu yn benaf mewn ardaloedd cynnes. Dechreua oddi fewn i'r corph, a bwrw allan wlyby rwch gorllyd, yr hwn sydd yn llygru y tu allan iddo, gan ei orchuddio a math o gen gwynion, ac, yn gyffredinol, âg ysfa dra phoenus yn ei ganlyn. Y mae y claf yn myned yn gryglyd; y gwaed yn gymmysgedig â gronynau gwynaidd, a'r rhan feddalaidd o hono mor sych fel y berwa gwinegr i fynu pan ei tywallter arno, ac ni thodda halen pan ei cymhwysir atto, ac wedi ei gyfrwymo mor gadarn â llinynau anweledig, fel y nofia plwm wedi ei losgi yn bylor ar y wyneb, pan ei tafler iddo; y mae y gwallt yn myned yn anhyblyg, ac os ei tynnir, dug gnawd pwdr gydag ef; y mae y llygaid yn troi yn gochion a ffiamllyd, yn gyffelyb i eiddo cath; y tafod yn myned yn sych, du, chwyddedig, cornwydlyd, a rhychog; y gwyneb yn tebygu i löyn wedi hanner ei losgi,

ac wedi ei nodi a chnappau celyd, yn wyrdd yn y gwaelod, a gwyn ar y wyneb. Y mae y corph yn myned mor wresog, fel y bydd afal anaeddfed, a ddalier ond am awr yn y llaw, wedi gwywo a chrychu yn fawr; y mae y rhanau clwyfus yn myned yn ddideimlad, ac o'r diweddy trwyn, y bysedd, y dirgel-leoedd, &c. yn syrthio ymaith wedi pydru. Yn y 10fed a'r 11fed ganrif, yr oedd y clefyd ofnadwy hwn yn aml yn Ewrop, wedi ei ddwyn i mewn, tybiwn, gan yr Arabiaid a'r Mooriaid; a dywedir fod yn nghylch 15,000 neu yn hytrach, yn ol *Mathew Paris*, 9000 o ysbyttai i wahangleifion yn Ewrop yn yr amseroedd hyny. Yn bresennol anaml y gwelir ef, oni feddyliwn fod y chwantach-glwyf yn fath o hono. Ryw amser yn ol, blinodd gwahanglwyf cyffelyb i eiddo yr Affriciaid, drigolion Barbadoes, yn ofnadwy, yn neilluol y dynion duon.

Yr Iuddewon yn gyffredinol a dybient fod y gwahanglwyf yn cael ei osod gan Dduw, fel cosp am ryw fai ysgeler. Am edliw i Moses, rhaglaw nodedig Duw, ei briodas â gwraig o Ethiopia, y llygrwyd Miriam: am gaffaeliad bradwrus ac anghyfiawn o ddillad ac arian, y tarawyd Gehazi; am ryfygu yn halogedig i offrymu arogl-darth, y cospwyd y brenin Uzziah âg ef, Num. xii. 2 Bren. v. 2 Cron. xxvi. Nid ymddengys fod yr Iuddewon yn cymhwyso unrhyw gyfferi atto, ond disgwylient am ei iachad yn unig oddi wrth Dduw. Pan y rhyngai bodd iddo ef, yr hwn a anfonasai y pla alaethus hwn, i'w symmud drachefn, cyrchid y gwahanglwyfus at yr offeiriad, neu yn hytrach yr offeiriad at y gwahanglwyfus; a phan, ar edrychiad manwl, yr ymddangosai fod yr iachad wedi ei weithredu mewn gwirionedd, cyhoeddid ef yn lân; ond nid heb arfer amryw ddefodau glanhaol ar y dydd cyntaf, y seithfed, a'r wythfed. Iesu Grist yw yr offeiriad hwnw at ba un y mae yr enaid gwahanglwyfus yn cael ei ddwyn, neu yn hytrach a ymostyngodd i ddyfod attom ni, y rhai nid allem fyned atto ef; o herwydd ein bod yn halogedig yn ein gwaed o'r tu allan i'r gwersyll, yn estroniaid oddi wrth wladwriaeth Israel. Efe a ddaeth, nid yn unig i lanhau y rhai ag ydynt eisioes wedi eu hiachau, fel yr offeiriad deddfol, ond i'w hiachau hwy, y rhai, heb ei law gynnorthwyol ef, oeddynt yn gwbl anfeddyginiaethol.

GWAITH, (*gwai*, symmudiad) 1. Llafur tymhorol, y cyfryw a ellir ei gyflawni yn y chwech diwrnod llafurio, Exod. xx. 9. (2.) Un math o weithrediad ar feddwl, gair, neu weithred, Preg. xii. 14. (3.) Gorchwylyn ghyffredin neu wyrthiol, Ioan vii. 21 (4.) Y peth a effeithir trwy unrhyw weithrediad neu ddylanwad; felly y mae yr holl greaduriaid yn *waith* dwylaw Duw, Job xxxiv. 19. (5.) Y defnyddiau er ffurfio effaith allan o honynt, yn enwedig, er adeiladu, Diar. xxiv. 27. (6.) Cyflog neu wobrwy gweithred, Lef. xix. 13. Job vii. 2. Dad. xiv. 13. GWEITHIO a arwydda (1.) Gweithredu, ffurfio, trefnu, neu gynnal pethau, 1 Cor. xii. 6. Iago i. 3. Salm lii. 2. (2.) Parottoi, gwneud yn gymmwys; felly y mae Duw yn *gweithio* gogoniant i'w bobl, ac y mae efe yn eu gweithio i gymmwysder iddo, 2 Cor. v. 5. *Gweithio* barnedigaethau Duw, yw ufuddhau i'w gyfreithiau, cadw ei ordinhadau, ac ymostwng yn ddyladwy dan ei ddyrnodiau, Zeph. ii. 2. Y mae pob peth yn *cyd-weithio* er daioni i'r saint: eu trallodion ydynt yn *gweithio* iddynt ddirfawr a thragywyddol bwys gogoniant; y mae Duw, trwy ei drefniad doeth o honynt, a thrwy ei ddylanwadau cydfynedol â hwy, yn gwneuthur iddynt gydredeg er eu dychrynu a'u cynhyrfu at ei dyledswydd yma, ac i'w parottoi ar gyfer y gogoniant dyfodol yn ol hyn, Rhuf. viii. 28. 2 Cor. iv. 17. *Gweithiwr* yw (1.) Un a lafuria mewn rhyw lawalwedigaeth, Esa. xl. 19. (2.) Gweinidog, yr hwn sydd yn llafurio yn galed i bregethu yr efengyl, 2 Tim. ii. 15.

GWALCH, (*gwa*) aderyn digon adnabyddus. Y mae naw neu ddeg rhywiogaeth o honynt, sef hebogiaid, cudyllod, ilymystynau, &c. Y mae y gweilch yn graff eu llygaid, yn gyflym en ehediad, yn ysglyfgar, ac yn ddewr iawn. Arfera dynion hwy yn fynych i ddal adar, ysgyfarnogod, &c. Yn y gauaf y maent yn myned ymaith i ardaloedd cynhesach. Yr oeddynt yn afiau dan y gyfraith, Lef. x. 16. Deut. xiv. 15.

GWALLT, *(gwall, gwagder)* briger. Ni chaniatteid i'r Hebreaid dalgrynu godre eu gwallt, na gwneuthur moelni ar eu penau yn ol arfer y Cenedloedd, Deut. xiv. 1; ond dywedir fod yr offeiriaid, tra y gweinyddent yn y deml, yn gwelleifio blew eu barfau unwaith bob pythefnos. Nid oedd y Nazareaid byth i dorri eu gwallt yn ystod dyddiau eu haddunedi. Samson, wedi torri ei adduned, trwy oddef i'w wallt gael ei eillio. Duw a'i hamddifadodd ef o'i nerth digyffelyb, Num. vi. 5—9. Barn. xvi; ond pan y cyflawnid dyddiau eu haddunedi, byddai y Nazareaid yn ei eillio wrth ddrws pabell y cyfarfod, ac yn ei roddi ar y tân oedd dan yr aberth hedd, Num. vi. 18, 19. Act. xviii. 18.

Gwallt du oedd yn arwydd o harddwch a chryfder, Can. v. 11. Yr oedd *gwallt gwyn*, neu *wallt fel gwlan pur*, yn arwyddo synwyroldeb, henaint, doethineb, Dad. i. 14. Dan. vii. 9.

GWAMMAL, *(gwam-bâl)* anwadal, ansefydlog, anwastad, Barn. ix. 4.

GWANU, *(gwa-an)* trywanu, brathu, tvllu, Zec. xii. 10. Dad. i. 7.

GWAN *(gwa).* 1. O ychydig nerth mewn corph neu enaid, Mat. xxvi. 41. 1 Thes. v. 14. Un *gwan yn y ffydd*, yw un na fedd ond ychydig wybodaeth, a chrediniaeth egwan yn athrawiaethau yr efengyl, Rhuf. xiv. 1. Y mae cydwybod yn *wan*, pan na bydd ond graddau bychain o farn ynddi, 1 Cor. viii. 7. Dywedir fod gan ddynion *ddwylaw llesg*, a *gliniau gweiniaid*, pan na bydd ganddynt ond ychydig wrolder a nerth, Esa. xxxv. 3; ac y mae dynion yn *wan eu dwylaw*, pan na bydd ganddynt na chyngor, gwrolder, na nerth i wrthsefyll gelyn, 2 Sam. xvii. 2. Y mae yn cael ei *wannau* trwy dramgwyddiadau, yn cael ei ddyrysu mewn barn, a'i flino, ei ddiguloni, a'i anghyssuro, Rhuf. xiv. 21. Yr *gweiniaid*, Paul a ddeuai megys *gwan;* efe a gydymdeimlai â'u gwendid, ac a ymostyngai iddo, 1 Cor. ix. 22. *(2.)* O ddim nerth; felly y mae marwolaeth yn cael ei alw yn *wendid*, 1 Cor. xv. 43.

GWARADWYDD *(gwaradgwydd).* 1. Cymmeriad drwg un, yr hwn a gafodd, trwy ei weithredoedd drwg ei hun, neu a achlysurwyd trwy gam-gyhuddiad, edliwiaeth ffyrnig, neu watwar enllibus, Diar. vi. 33. Esa. li. 7. Ezec. xxxvi. 3. Y mae dynion neu bethau yn *warthrudd*, pan y llwythir hwy â gweddnodau drwg, ac eu gwneir yn ddiareb gyffredin, Salm xxii. 6, a lxxxix. 41. Pechod yw *gwaradwydd* neu *gwylydd unrhyw bobl;* y mae yn warth iddynt, ac yn tueddu i'w gwneuthur yn ddirmygedig, Diar. ixv. 43.

GWAREDU—WR, *(gwar)* achub, noddi. Y mae hwn yn un o'r cyfeirwau mwyaf gogoneddus wrth ba rai y gwahaniaethir Cadben mawr ein hiachawdwriaeth, *y Gwaredydd rhag y llid a fydd.* Efe a ddaeth yn pregethu *gwaredigaeth* i'w gaethion, Luc iv. 18. Y waredigaeth o'r Aipht, Babilon, &c. oeddynt oll yn gysgodol o'r waredigaeth fawr hon; a Moses, Josuah, Gideon, a'r holl waredwyr ereill dan yr Hen Destament, oeddynt yn gysgodau o Iesu Grist yn y swydd fawr hon. Y mae efe yn eu gwaredu hwynt, y rhai, trwy ofn marwolaeth, oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed, Heb. ii. 15. Genedigaeth plant, a gwaredigaeth rhag clefydau, perygl-on, a gelynion, a grybwyllir yn fynych yn yr ysgrythyr.

GWARTHEG, *(gwarth)* buwchod. Dynion nerthol, beilchion, goludog, hwyrach yn benaf, pendefigesau, a elwir *gwartheg Basan*, i ddynodi eu hurtrwydd, eu hafreolaeth, a'u hanlladrwydd, Amos iv. 1. *Y saith o wartheg tewion*, y rhai a welodd Pharaoh yn ei freuddwyd, oeddynt yn cynddrychioli saith mlynedd o lewndid mawr, a'r *saith o wartheg culion*, saith mlynedd o newyn, Gen. xli. 2, 4, 10—21, 26, 27.

GWAS *(gwa-as).* Yr oedd llawer math o weision gan yr Hebreaid. 1. Yr oedd rhai yn gaeth-weision dros eu holl fywyd, ac a brynid ac a werthid gan eu meistriaid wrth eu hewyllys. Y cyfryw oedd yr estroniaid a brynid neu a gymmerid mewn rhyfel, Lef. xxv. 44, &c. Y cyfryw hefyd a elwir *cyrph*, o herwydd nad oedd llymder eu meistriaid yn cyrhaedd yn mhellach na'u cyrph, Dad. xviii. 3, yn y *Gr.* (2.) Caeth-was Hebreaidd, yr hwn, ar y cyntaf, nid ellid ei rwymo ond dros chwe mlynedd, ac yn niwedd hyny yr oedd i fyned yn rhydd oddi wrth ei feistr;

ond os y gommeddai fyned yn rhydd, ei feistr, gyda mynawyd, a dyllai ei glust wrth y ddôr, fel arwydd nas gallai gael ei rydd-did mwyach, o leiaf hyd flwyddyn y jubil. Os tarawai meistr gaeth-was nes y byddai farw efe a gospid yn unig, nid a ddyfarnid i gael ei farwolaethu. Os y corniai ych gaeth-was i farwolaeth, y perchen a dalai 30 sicl o arian, fel pris am dano, a'r ych a labyddid. Os y tarawai meistr lygad caeth-was allan, yr oedd efe i roddi iddo ei rydd-did fel iawn. Ni feddai morwynion ddim hawl i fyned yn rhydd yn y seithfed flwyddyn; ond os halogasai meistr, neu y dyweddiasai efe neu ei fab gaeth-forwyn, a pheidio ei chadw fel ei wraig, yr oedd hi i gaffael ei rhydd-did, fel iawn am y camwedd a wnaed â hi, Exod. xxi. 1—11, 20, 24, 26, 27. Deut. xv. 1—18. *(3.) Gweision cyflog*, tymhor gwasanaeth pa rai, ynddengys, yn gyffredinol, oedd am dair blynedd lawn; ac felly yr oedd gwas am chwe blynedd yn werth dau was cyflog, Job vii. 1. Esa. xvi. 14. Deut. xx. 18. Fel nad oedd cyflog-ddynion o blith y Cenedloedd yn bwytta y pasg, felly ni chaniatteid i'r Hebreaid o deuluoedd ereill, wedi eu cyflogi i deulu yr offeiriaid, fwytta o'r ymborth sanctaidd; ond yr oedd pob math o weision i gael eu cyflog mor gynted ag y byddai ddyledus, Lef. xix. 13. Onid oedd y rhai hyn yn arddangos ymhonwyr cnawdol ac bunanoli wasanaeth Crist, y rhai ni feddant hawl wirioneddol i seiliau y cyfammod newydd, neu gymdeithas â Duw; a'r rhai sydd â'u rhan yn y bywyd presennol hwn, Exod. xii. 40. Lef. xxii. 10. (4.) *Gweision ewyllysgar*; felly yr oedd Josuah yn was i Moses, Eliseus i Elias; a'r apostolion i Grist. (5.) Deiliaid tywysog, yn enwedig os byddent wedi eu darostwng i fath o gaeth-wasanaeth, ydynt yn *weision*, 2 Sam. xiii. 6.

Gweision Duw ydynt (1.) Crist, yr hwn, mewn ufudd-dod i'w ewyllys, a gymmerodd ein nattur arno, a gyflawnodd y gyfraith yn ein lle, ac sydd yn gweinyddu bendithion y cyfammod i ni, Esa. xlii. 1. a xlix. 3. (2.) Y rhai a elwir at ryw orchwyl neillduol yn yr eglwys neu y wladwriaeth; felly yr oedd Moses a Paul yn *weision* iddo ef, Deut. xxxiv. 5. Rhuf. i. 1. (3.) Offerynau nodedig yn llaw yr Arglwydd, er trugaredd neu farn; felly yr oedd Nebuchodonozor a Cyrus yn *weision* iddo, Jer. xxv. 9. Esa. lv. 1. (4.) Y saint, y rhai ydynt yn *weision ufudd-dod a chyfiawnder*, o herwydd eu bod wedi eu rhyddhau oddi wrth gaeth-wasanaeth pechod a Satan, ac yn ufuddhau, yn gwasanaethu, ac yn addoli Duw mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder, Rhuf. vi. 16—20.

GWASANAETH, yw ymostyngiad neu ufudd-dod i uwchafiaid, neu fod yn ddefnyddiol fel moddion i atteb rhyw ddybeu. Y mae *gwasanaeth* yn bedwar-plyg: (1.) Gwladol, fel eiddo gwas yn cyflawni gorchwyl ei feistr a osodwyd fel dyledswydd arno, Gen. xxix. 27. (2.) Pechadurus; felly yr ydym yn gwasanaethu chwantau tufewnol, trwy ymostwng iddynt, a gweithredu ar eu hol, Tit. iii. 3. Eph. ii. 3. (3.) Crefyddol, pan, wedi ymroddi o honom i gyfraith Duw fel ein rheol rwymedigol, y byddwn yn ymdrechu i weithredu ar eu hol, yn ein swydd a'n sefyllfa, ac yn ei addoli ef fel ein Harglwydd goruchel a'n cyfran, Jos. xxii. 5, a xxiv. 15. Y gwasanaeth hwn sydd i gael ei gyflawni yn yr ysbryd, Rhuf. i. 9; heb ofn caeth-wasaidd o hono ef, eithr un mabaidd, Luc i. 74. Salm ii. 11, gyda llawenydd, Salm c. 2, ac mewn newydd-deb buchedd, Rhuf. vii. 6. (4.) Eilunaddolgar, pan y bydd un â'i galon wedi ymroddi i'r creaduriaid, neu yn eu haddoli yn allanol, Mat. vi. 24. Rhuf. i. 25. *Golwg wasanaeth*, yw yr un hwnw a ofala gweision i'w gyflawni pan y bydd eu meistr yn bresennol, tra y maent yn esgeuluso ei waith pan y bydd yn absennol, Eph. vi. 6. Yr henuriaid a gynghorasant Rehoboam i *wasanaethu* yr Hebreaid, hyny yw, i ufuddhau ychydig i'w mympwyau, trwy lefaru a gweithredu yn dirion tuag attynt, 1 Bren. xii. 7.

GWASGARU *(gwu-ysgar)* 1. Chwalu, ysgaru, Job xxxvii. 11. (2.) Gyrru i wahanol leoedd, Salm lxviii. 30. (3.) Dadymchwelyd, gorchfygu, annbrefnu, dinystrio, Salm lxviii. 14. Luc i. 51. (4.) Rhanu yn haelionus i'r tlodion, Salm cxii. 9.

GWASTADEDD, *(gwastad)* brodir. Mae yr *anwastad* yn cael ei wneud yn *wastadedd*, pan fyddo pob

pant yn cael ei gyfodi, a phob mynydd a bryn yn cael eu gostwng. Mewn ystyr ysbrydol y mae y geiriau yn ddiammau i'w deall: ac y mae hyny yn cael ei gyflawni pan y byddo cyfeiliornadau mewn athrawiaeth yn cael eu diwygio; ysbryd uniawn yn cael ei adnewyddu oddi fewn dynion; a'u bywydau yn cael eu gwastattau yn gyfattebol i reolau sanctaidd y gair, Esa. xl. 4.

GWATWAR (*gwad-gwar*) 1. Gwawdio, chwerthin am ben un, 2 Cron. xxxvi. 16. (2.) Cellwair yn llawen â; felly y ffyliaid a watwarant gamwedd, Diar. xiv. 9. (3.) Treisio, neu gamddefnyddio gwraig, Gen. xxxix. 17. Y mae Duw yn *gwatwar ofn dynion*, pan y bydd, heb dosturi, yn dwyn ei ddyrnodiau arswydus o farnedigaeth arnynt, Diar. i. 26. *Ni watwarir* Duw; ni thwyllir ac ni chydgamir âg ef. Os dynion a fyddant byw mewn pechod, hwy a gant yn sier eu cospi am byth, Gal. vi. 7. Y mae dynion yn gwatwar Duw, pan y byddant, yn eu geiriau neu eu hymarweddiad, yn cellwair â'i fodoliaeth, ei arfaethau, ei eiriau, ei weithredoedd, ei ordinhadau, ei weinidogion, neu ei bobl, Job xiii. 9. *Gwatwarus* yw gwin, a *therfysgaidd* yw diod gadarn; y mae, os ei hyfir i ormodedd, yn twyllo dynion ac yn eu gwneud yn ddianrhydeddus, yn annedwydd, ac yn gynddeiriog, Diar. xx. 1. *Gwatwarwyr*, ydyw y cyfryw a ymroddant yn reddfol i wawdio a chellwair â phethau ysbrydol a dwyfol, ac i hudo dynion â geiriau tywyllodrus, Esa. xxxiii. 22. Judas 18.

GWAUDD, (*gwu-udd*) merch yn nghyfraith, neu wraig mab. Y mae halogi *gwaudd*, trwy gydorwedd â hi, yn bechod ysgeler, Lef. xviii. 15, a xx. 12. Ezec. xxii. 11.

GWAWR, (*gwa-wr*) llug y dydd. "Mab y *wawr ddydd*," sef y blaned Venus, y seren fore, Esa. xiv. 12. Brenin Babilon a feddylir wrth y geiriau, *seren fore*, neu *mab y wawr ddydd*. Fel y mae y seren neu y blaned fore yn rhagbri ar y sêr ereill yn ei dysgleirdeb, a'i heglurdeb, felly yr oedd brenin Babilon yn mhlith tywysogion ereill y byd; ond er ei wychder, efe a syrthiodd; îe, syrthiodd i beidio codi mwy: felly y gwna hefyd holl elynion Duw a'i eglwys.

GWAYWFFON, (*gwayw-ffon*) llost, piccell. Ymddengys fod hon yn y cynfyd yn ddernyn cyffredin o arfogaeth filwraidd; ac am hyny gelwid eu milwyr yn *ffynwewyr*. Act. xxiii. 23. Breninoedd a phencadbeniaid a'u harferent hwyrach yn lle llummanau, 1 Sam. xxvi. 7. Jos. viii. 26. Weithiau rhoddir *gwaywffon* am bob math o arfau ymosodol, Nah. iii. 3. *Gwaywffon* Duw yw ei farnedigaethau dinystriol, neu ei daran-follttau ffiamllyd, Hab. iii. 11. Tyrfa y *gwaywffyn*, neu anifeiliaid y cyrs, yw pobl greulawn a drygionus, Salm lxviii. 30.

GWDDF, (*gw*, dynesiad) mwnwgl, (1.) Y rhan honno o gorph dyn ac anifel rhwng y pen a'r ysgwyddau, Barn. 5. 30. (2.) Y pen a'r gwddf yn nghyd, Deut. xxi. 4. (3.) Y galon; ac felly y mae *gwar-galed* a *gwar-syth* yn arwyddo cyndyn-rwydd dynion mewn pechod, eu cariad atto, a'u hymarferiad o hono, Neh. ix. 29. Salm lxxv. 5. Esa. xlviii. 4. (4.) Yr holl ddyn, ac felly bod *tau* neu *rwymau ar y gwddf*, a arwydda bod mewn caledi a chaethiwed, Deut. xxviii. 48. Esa. lii. 2. Jer. xxvii. 2. Y mae gwddf yr eglwys fel *twr o ifori*, neu *dwr Dafydd, yr hwn a adeiladwyd yn dŷ arfau, ar ba un y croga mil o dariannau y cedyrn*. Pa mor brydferth, uniawn, teg, sefydlog, cadarn, addurnol, a diwalledig âg arfogaeth ysbrydol, yw yr ysgrythyrau a'r ordinhadau, y rhai a wnant yr eglwys! a ffydd yr hon sydd yn uno pob sant neilldnol â Christ y pen, ac y maent mor ddefnyddiol yn eu gwaith yn derbyn maeth oddi wrtho, neu yn anadlu gweddi a moliant allan iddo! Can. iv. 4, 9, a vii. 4.

GWEDD-NEWID, YMNEWID, yw troi i lun arall. I roddi i'n Iachawdwr flaen-broflad o'i ogoniant dyfodol, ac i gadarnhau rhai o'i ddysgyblion rhag tramgwyddo o herwydd ei ddyoddefiadau ef ar ol hyny, efe, fel yr oedd yn gweddio, a weddnewidiwyd yn ogoneddus ar y mynydd, Mat. xvii. 2. Marc ix. 2. Luc ix. 29. Y mae Mathew a Marc yn dywedyd, mai wedi chwech diwr nod ar ol yr ymddiddan y bu hyn; ond y mae Luc yn dywedyd, mai yn nghylch *wyth* diwrnod wedi y geiriau hyn y gwedd-newidiwyd ef. Y

mae y tri efengylwr yn gysson â'u gilydd, ond bod Luc yn golygu y diwrnod y bu yr ymddiddan, a diwrnod y gwedd-newidiad, a Mathew a Marc yn golygu y chwech diwrnod rhyngddynt. Y mae dynion yn cael eu *hymnewid* trwy adnewyddiad eu meddyliau, pan y bydd eu banian yn cael ei newid o'i chyffelybrwydd i Satan i ddelw Duw, mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd, a'u hymarferiad yn cael ei wneud yn gyddfurfiol â'i gyfraith ef, Rhuf. xii. 2. Y mae Satan yn *ymrithio yn angel y goleuni*, pan y bydd yn denu i bethau dan rith o wybodaeth, sancteiddrwydd, rhyddid ysbrydol, a chymdeithas arbenig â Duw; ac y mae ei weinidogion yn *ymrithio* fel apostolion Crist, pan y byddant yn ymhoni i anfoniad anghyffredin oddi wrth Dduw, ac yn meddu ymddangosiadau mawrion o ddifrifolder, brwdfrydedd, a duwioldeb, 2 Cor. xi. 13—15.

GWEDDIO, (*gwedd*) gofyn, deisyf. Y mae ein gweddiau ar Dduw yn cynnwys offrymu ein deisyfiadau calonog iddo ef, naill ai mewn geiriau neu heb ddynt, gyda chyfaddefiad o'n pechodau, a chydnabyddiaeth ddidolchgar am ei drugareddau. Y maent naill ai yn ddirgel neu gyhoeddus, ac naill ai yn cyfeirio at gyfraniad pethau daionus, neu ragfaeniad pethau drwg, Dan. ix. Y maent i'w gwneuthur dros bob math o ddynion byw, ond nid dros y meirw, cyfiawn pa rai nis gellir ei newid, 1 Tim. ii. 1, 2. Y maent i fod am bethau cyduno l âg ewyllys Duw, a ddadgudd-iwyd yn ei orchymyn neu ei addewid, 1 Ioan v. 14; ac i gael eu rhoddi i fynu yn enw Crist, megys yr Eiriolwr gyda'r Tad, a'r unig sail o obaith. Arweiniwyd ffurfiau o weddi yn fore iawn i mewn i'r eglwys, ond heb unrhyw awdurdod oddi wrth yr ysgrythyr. Er fod y weddi a wahaniaethir wrth yr enw *gweddi yr Arglwydd*, yn ffurf ragorol o weddi, ond efe a rydd i ni yr amcan o honi, *fel hyn gweddiwch chwi*; ac nid oes genym y dystiolaeth leiaf am waith yr apostolion yn ei harfer fel ffurf. Y mae hi yn gynllun addas o *weddi*: ac yn cludo cerydd nerthol i'r *gymmysgedd* ddefodol ddiweddar o *annerchiadau* uchel-seiniol, y rhai a elwir *gweddiau*. Y mae pob peth y dichon adyn euog fod mewn augen am dano, yuddi; ond nid ydyw mewn un modd wedi ei chyfaddasu i unrhyw ddosparth o'r rhai hyny a feddyliant y gwrandewir hwy am eu hami eiriau. Yr ymadroddion canlynol ydynt i'w cael yn yr ysgrythyrau megys yn gymmysiadol at weddi. Y mae yn cael ei galw yn *ofyn*, Ioan xv. 16; yn *geisio a churo*, Mat. vii. 7; yn *dderchafu yr enaid, tywallt y galon allan*, Salm xxv. 1, a lxii. 8; yn *edrych i fynu at Dduw*, ac *ymddiddan âg ef*, Salm v. 3. Job xv. 4. yn yr *yr Heb.*; yn *gydymdrechu â Duw*, Rhuf. xv. 30; yn *ymaflyd yn Nuw*, Esa. lxiv. 7; yn *fyfyrdod*, Salm v. 1; yn *ymofyn*, Gen. xxv. 22; yn *oweddi*, 1 Sam. vii. 8; yn *ucheneidio, ewynfan, ochain, wylo*, Salm xii. 5, a lv. 2, a vi. 6. Joel. ii. 17; yn *llefain*, Galar. iii. 56. Weithiau gosodir gweddi allan trwy yr ystumiau a arferir yn ddi, megys *sefyll, syrthio i lawr*, Deut. ix. 18; *plygu y glin*, Eph. iii. 14; *lledu, estyn*, neu *godi y ddwylaw*, Exod. ix. 29, a xvii. 11. Job xxi. 13.

GWEDDW, (*gwedd*) gwraig y mae ei gwr wedi marw. Mwy na 200 o flyneddoedd cyn rhoddi y gyfraith, gwragedd gweddwon, gwyr pa rai a'u gadawsent hwy yn ddiblant, a briodent eu brawd ieuangaf anmhriod, i godi hâd i'r un marw: felly Tamar a briododdd ddau fab hynaf Judah, a chafodd y trydydd ei addaw iddi, Gen. xxxviii. 6, 11. Trwy y gyfraith Foesenaidd, yr oedd hyn yn orchymynedig yn benuodol, Deut. xxv. 5, 6, &c.

GWEFUS, (*gwe-bus*) min, gwefl. *Edr.* Genau.

GWEHYNYDD, (*gwe-hyn*) tywalltwr, gwaghawr, tynuwr, Deut. xxix. 11.

GWEINIDOGAETH. Y mae yr efengyl yn cael ei galw *gweinidogaeth y cymmod*, 2 Cor. v. 18, 19. Nid oes dim yn deilwng i'w alw yn *weinidogaeth yr efengyl*, ond gweinidogaeth y cymmod; sef, dadgudddiad, eglurhad, a chyhoeddiad o drefn fawr y cymmod; ac nid oes neb yn addas i'w galw yn gennadon dros Grist, ond y rhai sydd yn ei wneud yn orchwyl penaf eu gweinidogaeth i eglurhau a dadgudddio y drefn hon. Dyben eu gweinidogaeth, yw dwyn pechaduriaid at Dduw

yn Nghrist; ac am fod y pechaduriaid yn gyndyn, a'r achos o'r pwys mwyaf, y maent hwythau yn daer, *yn erfyn* dros Grist, ac yn ysbryd Crist. Y maent am lwyddo yn hyn; ac onide, bydd eu gwaith i gyd yn ofer.

GWELED (*gwel*). 1. Golygu neu ganfod â'r llygaid, Exod. xxiii. 5. (2.) Clywed, Exod. xx. 18. Dad. i. 12. (3.) Teimlo, Salm xc. 15. Ie, y mae *gweled* yn cael ei roddi am yr holl synwyrau ereill, am ei fod yn un o'r moddion mwyaf rhagorol i ni gael gwybodaeth. (4.) Edrych ar bethau gyda sylw gofalus, Mat. xxii. 11. (5.) Adnabod; dysgu trwy sylw naturiol, Gen. xxvii. 14; trwy broñad, Exod. v. 19. Rhuf. vii. 23; trwy ddadguddiad dwyfol, Esa. ii. 1; neu trwy gredu gair Duw, ac ymorphwys arno, Ioan xiv. 9. Heb. xi. 27; neu trwy fwynhau amlygiadau digyfrwng o'i ogoniant yn y nefoedd, Job xix. 26. (6.) Cael digon o wybodaeth, fel ag i beidio gweled dim angen am addysg, Ioan ix. 41. (7.) Mwynhau; meddiannu, Ioan iii. 3. (8.) Talu ymweliad, 1 Sam. xv. 35. (9.) Cyd-ddwyn â, Ezra. iv. 14. (10.) Gochelyd, Dad. xix. 10. Gwaith Duw yn *gweled* dynion neu bethau, a arwydda ei berffaith wybodaeth am danynt fel yn cael ei nodi mewn ffordd o gymmeradwyaeth, tosturi, neu ofal, neu mewn rhyw ffordd o gasineb, ac o barottoad i gospi, Gen. i. 4. 2 Bren. xix. 16. Gen. vi. 5. Gwaith Crist yn cael ei *weled gan angelion*, a arwydda nid yn unig eu hedwychiad diysgog arno yn ei gyflwr o ddarostyngiad, ond eu holl waith o weinidogaeth iddo ef a'i bobl, megys yndd o, ac yn ddarostyngedig iddo, 1 Tim. iii. 16.

GWELEDYDD, (*gweled*) un yn cael gweledigaethau yn wirioneddol oddi wrth Dduw, megys Samuel, Sadoc, Gad, 1 Sam. ix. 9, 11, 19. Yr oedd gweledydd, wrth ei swydd, i fod fel llygaid i ereill, i hysbysu yr hyn oedd yn ei weled, i'r dyben iddynt gyrchu atto, neu i'w ochelyd, fel y byddai nattur y peth. Gallasai yr Arglwydd hysbysu i bob un, yn ol ei amgylchiad, yr hyn oedd yn angenrheidiol iddo ei wybod; yn lle hyny, gwelodd fod yn dda, gyfodi *un* i fod yn weledydd i *lawer*, yn yr amryw-iol oesoedd; a hyny, yn ddiammau, er cyfeirio meddyliau yr eglwys yn mhob oes, at y prophwyd mawr, Iesu Grist, trwy ba un y mae yr holl ddadguddiad cyflawn o feddwl Duw wedi cael ei roddi i'r eglwys, Esa. i. 1, a xx. 8. Ezec. i. 1. Dan. ii. 19.

GWELY (*gwâl*). 1. Lle i gysgu neu orphwys arno, 2 Sam. iv. 5. (2.) Darn bychan o dir wedi ei godi i flodau neu bêr-lysiau, Can. vi. 2. Y *gwely dihalogedig*, yw yr arferiad cyfreithlon o'r cyflwr priodasol, Heb. xiii. 4. Y *gwely yn rhy fyr* i ymestyn ynddo, a'r *cwrlid yn rhy gul* i ymdroi ynddo, yw cynlluniau cnawdol yr Iuddewon o gynghrair â'r Aiphtiaid, a'r cyffelyb, y rhai nid allent ennill dim gorphwysfa sylweddol, dim diogelwch cyflawn iddynt; a'r ffyrdd cnawdol a hunan-gyfiawn a arfera pechaduriaid er caffael dedwyddwch, y rhai nid allent weini dim cyssur, esmwythdra, na diogelwch gwirioneddol i'w henaid, Esa. xxviii. 20. Cystudd blin a elwir yn *wely*; ynddo y mae dynion yn cael eu cyfyngu yn nghanol afluoyddwch ac anesmwythdra, a'u gwneud yn anweithgar, Dad. ii. 22. Y bedd, yn benaf i'r rhai cyflawn, a elwir yn *wely*: yno y mae eu cyrph yn aros mewn esmwythder, ac yn treulio yr amser yn annheimladwy, Esa. lvii. 2. Fel yr oedd dynion gynt yn arfer eistedd neu orwedd ar welyau wrth eu gwleddoedd, gwaith yr Iuddewon yn *gorwedd ar welyau ifori, ac yn ymestyn ar eu glythau*, a arwydda eu trythyllwch a'u hesmwythdra cnawdol, Amos vi. 4. Eu gwaith yn *helaethu eu gwely*, a arwydda eu cynnydd mewn putteindra ysbrydol neu eilunaddoliaeth, a'u cynghreiriau pechadurus â'r cenedloedd o amgylch, Esa. lvii. 8.

GWELWLAS, *(gwelw-glas)* glas gwan. Lliw fel glaswellt wedi eu llosgi gan wres yr haul, yn y gwleddydd poethion dcheuol; neu liw y clai. "Ac wele farch *gwelwlas*; ac enw yr hwn oedd yn eistedd arno oedd marwolaeth, ac uffern oedd yn canlyn dydag ef," Dad. vi. 8.

GWELL (*gwe-ell*). 1. Mwy gwerthfawr; i'w ddewis yn flaenaf, Preg. ix. 4, 16, 18. (2.) Mwy cymmeradwy, 1 Sam. xv. 2. (3.) Galluoccach a doethach, Dan. i. 20. (4.) Mwy cyfleus, 1 Cor. vii. 38. (5.)

Hawddach, Mat. xviii. 6. (6.) Mwy manteisiol, Phil. i. 23. (7.) Mwy diogel, Salm cxviii. 8. (8.) Mwy cyssurus, Diar. xv. 16, 17.

Y mae cariad Duw yn *well na bywyd*, yn fwy melus, hyfryd, buddiol, sier, ac anrhydeddus, Salm lxiii. 3. Y mae *cariad* Crist *yn well na gwin;* ni allwn fyned yn bechadurus yn rhy bell mewn dymuniad am dano, neu hyfrydwch ynddo; y mae yn cael ei fwynhau, heb arian ac heb werth; nid yw byth yn colli ei felusdra a'i rinwedd. Yn y llythyr at yr Hebreaid, y mae y gair hwn yn cael ei arfer yn fynych wrth gymharu yr hen gyfammod â'r newydd; sef aberthau *gwell*, gwaed *gwell*, addewidion *gwell*, pethau *gwell*, a chyfammod *gwell;* yr hwn sydd ymadrodd priodol i'r llythyr hwn, ac yn deillaw oddi wrth yr athrawiaeth a gadarnhâ yr apostol yno. Yr Hebreaid crediniol oeddynt wedi ymbriodi yn fawr â'r hen gyfammod, o herwydd ei awdurdod uchel a'i sefydliad; yr addewidion mawrion cyssylltiedig âg ef, a ddallasant eu meddyliau hwy o ran gwir fwriad y cyfammod hwnw; ac y mae Paul yn cymmeryd poen mawr i arddangos pa mor belled y mae y newydd yn rhagori ar yr hen yn ei nattur, ei fendithion, a'i addewidion.

GWELLT, (*gwe-ell*) pob math ar lysieuyn; ir-wellt, porfa; ymborth anifeiliaid, Gen. xxiv. 25. Barn. xix. 19. Num. xxii. 4.

GWENGCI (*gwangc*). Y mae y creaduriaid hyn o ddau fath, sef gwengci y tŷ a gwengci y maes, neu y carlwm; y maent yn dra chyfrwys, ac, er yn fychain o faintioli, yn dra chryfion: y maent yn elynion i seirph, gwaddod, llygod mawrion a bychain, ac ddim yn gyfeillion i adar dofaidd; hwy a chwai ẽant âg ysgyfarnogod, nes iddynt eu blino, ac yna lladdant hwynt; y maent yn cnoi yn waeth na chi, pan y cyffroir hwynt. Dywedir fod y benywod yn cludo eu rhai ieuainge beunydd o'r naill fan i'r llall, fel na byddo i neb eu dal. Yr oeddynt yn aflan dan y gyfraith seremoniol, Lef. xi. 29.

GWENITH, (*gwen-ith,*) ŷd digon adnabyddus o herwydd ei galedrwydd a'i sylwedd hyfryd a magwriaethol. Y mae rhan o hono yn tyfu a cholion hirion wrth ei dywysen, a rhan o hono hebddynt. Yr Iuddewon a ddechreuent eu cynhauaf gwenith o ddeutu y Sulgwyn; a'u hysgrifenwyr a ddywedant fod eu gwenith goreu yn tyfu yn Miehmas, Mezonichah, ac Ephraim; ond ymddengys fod gwenith Minnith a Pannag bob mymryn cystal, Ezec. xxvii. 17. Gyda ni, heuir y gwenith yn gyffredinol yn niwedd y cynhauaf, ac y mae 10 neu 11 mis yn y maes. Iesu Grist sydd yn *ronyn o wenith;* mor sylweddol, parhaus, a galluog i ddyoddef gauaf cystudd yw efe! a pha fath ffrwythau gwerthfawr, maethlawn, a hyfryd o gyflawnder a bendithion, a ddwg efe i ddynion, yn ganlynol i'w farwolaeth a'i adgyfodiad, Ioan xii. 24. Y mae y saint yn cael eu galw yn *wenith*, i nodi eu rhagoroldeb, eu defnyddioldeb, a'u ffrwythau da, cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist, Mat. iii. 13. Y mae gair Duw yn cael ei gyffelybu i *wenith;* mor felus, sylweddol, a maethlawn, yw cyflawnder Iesu a gynnwysir ynddo, ac a gyfrenir i'n heneidiau! Jer. xxiii. 28. Cael ein *bwyda â brasder gwenith*, yw meddiannu dedwyddwch, a chyssur mawr, Salm lxxxi. 16, Yr Iuddewon a *hauasant wenith*, ac a *fedasant ddrain;* pan na wnaeth eu cynlluniau doethion mewn ymddangosiad, o gynghrair â'r Aipht, a chenedloedd ereill, a'r cyffelyb, ond cynnyddu eu blinder a'u trueni yn y diwedd, Jer. xii. 13.

GWENNOL, (*gwen-dol*) math o adar duaidd, a rhai manau llwyddduon dan eu bolau. Eu llais sydd wichlyd, Esa. xxxviii. 14. Eu golwg yn graffus, a'u chediad yn anwastad iawn. Y maent yn adeiladu eu nythod o glai, ac yn gyffredinol mewn mwg-dyllau eithaf anghyfannedd; a dywedir, o fwyddyn i fwyddyn yn yr un man. Y mae y gwennoliaid yn adar tramwyol, Jer. viii. 7. Diar. xxvi. 2. Yn y gwanwyn a'r haf y maent yn aros mewn gwledydd oerion, ac yn encilio i rai cynnes yn y cynhauaf a'r gauaf, a dywedir eu bod yn deor yn mhob un o honynt; ond y mae lluoedd dirfawr o honynt yn aros mewn gwledydd oerion trwy y gauaf, mewn cyflwr merwinllyd, yn yr hwn y crogant yn sypiau mewn tyllau muriau, ceulanau afonydd, neu byd yn nod dan y dwfr mewn morfëydd a llynau. Am ei bod yn an-

nhebygol iawn yr adeilada gwennoliaid neu adar tô eu nythod yn yr allor, ar ba un y llosgid yr aberthau bob dydd, Salm lxxxiv. 3, rhaid yr arwydda yr ymadrodd yn unig naill ai bod eu nythod yn agos i'r allor; neu beth os cyfeithir y geiriau fel ag i arwyddo fod enaid y Salmydd yn hiraethu mor serchogaidd am allorau, neu ordinhadau cyhoeddus Duw, ag y gwna yr adar am ddychwelyd i'w nythod, neu at eu cywion? Hwyrach fod y gair Heb. *deror*, yn arwyddo yr ysgnthan, neu y golommen wyllt, Diar. xxvi. 2.

GWENWYN (*gwan-gwyn*), Fod llawer o lysiau, a mwn, yn wenwynllyd, megys cegid, *arsenic*, &c. sydd bur hysbys; ond yr hyn a eilw yr ysgrythyr yn wenwyn yw y gwlybwr hwnw a drosglwydda aspiaid, seirph, dreigiau, gwiberod, &c. trwy eu colynau, i ladd creaduriaid ereill. Y peth sydd farwol a gwenwynllyd i rai creaduriaid, sydd yn gwbl ddiniweid, ac yn feddyginiaethol i ereill. Drygioni mewn gau athrawiaeth, ymadroddion llygredig, neu ffyrdd annuwiol, a gyffelybir i *wenwyn;* mor niweidiol a marwol i neiaidiau a chyrff dynion ydyw! fel y mae pechaduriaid yn ymlyfrydu ynddo, ac yn hoffi llygru ereill âg ef! fel y mae ef ganddynt *yn* neu *dan* eu gwefusau neu eu tafod, yn eu calonau, a bob amser yn barod i gael ei daflu allan! Deut. xxxii. 33. Salm lviii. 4. Rhuf. iii. 13. Iago iii. 8.

GWENYNEN, (*gwên,*) trychfilyn bychan a ffurfir o bryfyn, a rhyfedd iawn am ei fedrusrwydd a'i ddiwydrwydd yn casglu mêl a chŵyr o flodau. Y mae i'r gwenyn bedair o adenydd; y mae eu cynffonau wedi eu golymu â cholynau, trwy ba rai y taflant fath o nôdd gwenwynllyd allan; a pha rai, am eu bod yn fachog, a adewir yn fynych yn yr archoll. Y mae wyth neu naw rhywiogaeth o wenyn gwyllt'on, y rhai a lettyant mewn coed a meusydd; ond y wenynen gyffredin sydd wedi tynnu mwyaf o sylw dynolryw; eu cywreinrwydd yn casglu ac yn cludo eu mêl a'u cŵyr, yn ffurfio ei diliau, yn dosparthu eu llafur, yn cospi y segurwyr, ac yn canlyn sŵad cyfarwyddol eu harweiniyddion, sydd i'w synnu yn fawr. Anfynych y maent yn niweidio neb â'u colynau; nes y cyffroir hwy unwaith. Yn mysg y gwenyn cyffredin hyn y mae i'w sylwi (1.) Y *fam-frenines*, yr hon sydd rywbeth yn hwy a chochach na'r lleill. Y mae hi yn dodwy yn y diliau, ac felly yn dêor haid newydd, o ddeutu 10 neu 20 mil, hwyrach, mewn blwyddyn. Nid oes ond un, dwy, neu dair brenines mewn cwch. (2.) Y *begegyr*, y rhai a lechant o amgylch y diliau, yn gwneud ychydig neu ddim, ac yn fynych a ddyoddefant farwolaeth fel gwobrwy am eu segurdod. (3.) Y gwenyn *llafurus*, y rhai a gasglant y cŵyr a'r mêl, ac a gyfodant y diliau; a pha rai ydynt y mwyaf lluosog o lawer. Yr oedd Assyria, Canaan, &c. yn nodedig iawn am luosogrwydd eu gwenyn; pa greaduriaid oeddynt yn afian dan y gyfraith, er nad oedd eu mêl felly, Lef. xi. 23. Byddinoedd yr Amoriaid, yr Assyriaid, a gelynion Dafydd, a gyffelybir i *wenyn*. Mor ddirfawr eu rhifedi! mor ewyllysgar y canlynasant sî, neu alwad rhagluniaeth ddwyfol! mor gyflym y teithiasant! ac mor drwm y blinasant wrthddrychau eu casineb! Deut. i. 44. Esa. vii. 18. Salm cxviii. 12. Yr haid wenyn, yr hon, yn groes i naturiaeth, a osododd i fynu ei thrigfa yn ysgerbwd y llew, ac a achlysurodd ddychymmyg Samson, sydd yn amgylchiad rhy hynod i fyned heibio iddo yn ddisylw. Cyfodwyd Samson i fynu i fod yn gysgod o Grist, fel y dangosir yn fwy cyflawn dan y gair Samson. Pan y dywedodd efe yn ddammegol, "allan o'r bwyttawr y daeth allan fwyd, ac allan o'r cryf y daeth allan felusdra." gan gyfeirio at ei waith yn lladd y llew, &c. efe a gynnygodd y dychymmyg hwnw, pa un sydd wedi dyrysu amryw hebiaw cyfeillion Samson—sef Iachawdwr yn marw i orchfygu—o'r bedd i ddwyn ffrwyth i fywyd tragywyddol. Cadben Iachawdwriaeth yn gryfach na'r llew, yn dinystrio yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, yw y wir agoriad i'r pwngc hwn, Barn. xiv. 8.

GWERSYLL, (*gwer-syll*) arosle byddin dan yr awyr agored, 1 Sam. xiv. 7. Nis gallai dim fod wedi ei reoleiddio yn fwy manwl na gwersyll yr Hebreaid yn yr anialwch. Yr oedd y babell wedi ei gosod yn y

canol. Moses, Aaron, a'u teuluoedd a wersyllent o du y dwyrain. O du y dehau yr oedd y Cohathiaid; o du y gorllewin, y Gersoniaid: ac o du y gogledd, y Merariaid. Fel hyn yr oedd y babell wedi ei hamgylchynu gan y Lefiaid, y rhai a weinyddent ynddi. O flaen y babell, o du y dwyrain iddi, yr oedd gwersyll Judah, Issacar, a Zabulon, yn cynnwys 186,400 o wyr addas i ryfel: o du y dehau, gwersyll Reuben, Simeon, a Gad, yn cynnwys 151,400: o du y gorllewin, gwersyll Ephraim, Manasseh, a Benjamin, yn cynnwys 108,100: ac o du y gogledd, yr oedd gwersyll Dan, Aser, a Naphtali, yn cynnwys 157,600. Yr oedd gwersylloedd y Groegiaid, ond yn neilldiol y Rhufeiniaid, wedi eu ffurfio yn lled debyg i eiddo yr Hebreaid. Pan y cychwynai yr Israeliaid, yr oeddynt yn cael tri rhybudd gan yr udgyrn arian; un, i osod eu clud ar eu cefnau; y llall, i ymgasglu at eu llumanau; a'r trydydd, i gychwyn i'w taith. Gwersyll Juda a gychwynai gyntaf; yna tynid y babell i lawr; a'r Gersoniaid a'r Merariaid, wedi gosod yr astellod ar fenni, a ganlynent. Ar yr ail rybudd, cychwynai gwersyll Reuben; ac yna y Cohathiaid a ganlynent, â dodrefn mwyaf cyssegredig y babell ar eu hysgwyddau. Yn nesaf, canlynai gwersyll Ephraim, Salm lxxx. 1, 2, ac eiddo Dan yn olaf, Num. i. 2, a iv. 10.

GWERSYLLU, yw gosod pebyll i fynu i lettya ynddynt ar ddull byddin, neu i warchae ar ddinas, Num. i. 50. 1 Sam. xi. 1. Y mae Duw a'i angelion yn *gwersyllu* o amgylch ei bobl, pan y byddant yn gwyliaw drostynt, ac yn rhoddi diogelwch nodedig iddynt, Zec. ix. 8. Salm xxxiv. 7.

GWERTH — U, *(gwêr,)* pris, bri ar beth. *Gwerth* ein prynedigaeth, yw cyfiawnder Iesu Grist, 1 Cor. vi. 20. *Y gwerth yn llaw ffyliaid*, yw y cynnygion gweithfawr o iachawdwriaeth, y rhai, trwy falchder a diogi, a ddiystyrant ac a esgeulusant hwy, Diar. xvii. 16. Yn mhlith yr Hebreaid, yr oedd gan rieni awdurdod i *werthu* eu plant yn gaethweision. Echwynwyr hefyd a werthent ddyledwyr analluog i dalu, a'u plant, nes y caent daledigaeth; ac weithiau gweithai dyn ei hun; ond yr oedd yn drosedd angheuol i ladratta dyn a'i werthu ef, Exod. xxi. 7—16. 1 Tim. i. 10. Gwel *Gwas*. Gwaith Duw yn *gwerthu* ei ras a'i fendithion, a arwydda ei gyfranaiad doeth, ond rhad o bonynt i'r rhai sydd mewn angen am danynt, ac a'u derbyniant yn ewyllysgar, Mat. xxv. 9. Y mae efe yn *gwerthu* ei bobl broffesedig, pan, er gospi eu pechodau, y bydd yn eu rhoddi i fynu i gael eu blino a'u caethiwo gan eu gelynion, Deut. xxxii. 20. Barn. ii. 14. Y mae dynion yn *gwerthu cymmaint oll ag a feddant*, i brynu y peri o uchel bris, pan y byddant yn cyfrif Crist a'i gyfiawnder o flaen pob peth arall, ac yn foddlon i ymadael â'u chwantau pechadurus, a phob peth bydol, i fwynhau yr unrhyw, ac i fyw er ei anrhydedd, Mat. xiii. 46. Y mae dynion yn *gwerthu* y gwir, pan y byddant yn diystyru ac yn gwrthod gwirioneddau ysbrydoledig Duw yn eu proffes neu ymarferiad, er mwyn rhyw esmwythdra cnawdol, digrifwch, anrhydedd, neu elw, Diar. xxiii. 23. Y mae dynion yn *ymwerthu* i wneuthur drygioni, pan y byddant yn ymroddi yn wirfoddol, enaid a chorph, i fod yn gaeth-weision i'w tueddiadau pechadurus eu hunain, ac i Satan a'i oruchwylwyr, gan dreulio eu doethineb, eu nerth, a'u hamser yn ei wasanaeth, 1 Bren. xxi. 20. 2 Bren. xvii. 17. Y mae y saint wedi eu *gwerthu dan bechod*, pan, ar ol eu gorchfygu gan eu llygredigaethau tufewnol, y gorfydd arnynt feddwl a gweithredu mewn modd tra chyffelyb i eiddo caethweision pechod, Rhuf. vii. 14. Gwaith Esau yn *gwerthu* ei enedigaeth-fraint oedd yn bechadurus iawn, am ei fod yn cynnwys diystyrwch o'r Messiah addawedig a'r eglwys, ac o'r rhagorfreintiau o fabwysiad ysbrydol a bywyd tragywyddol, Heb. xii. 16.

GWEHYDD, yw un a weithia wëoedd o lian, o ba rai yr edafedd a redant o ben i ben a elwir yr *ystaf*, a'r edafedd a redant o ochr i ochr ydynt yr *awe;* ond ymddengys, oddi wrth yr hanes sydd genym am bais ddiwniad ein Hiachawdwr, eu bod y pryd hwnw yn deall y gelfyddyd o wau llian yn y ffordd y gwnawn

ni hosanau, ïe hwyrach fod ganddynt wŷddion i wneuthur gwisgoedd heb unrhyw wniad oll. Y mae Hezeciah yn cyffelybu gwaith Duw yn torri ei hoedl ef ymaith i'r *gwenŷdd yn torri ei wê* allan o'r gwŷdd pan y bydd wedi ei gorphen, Esa. xxxviii. 12.

GWIALEN (*gwi-al*). 1. *Gwialen*, yn ei harwyddoccad gwreiddiol, yw brigyn, neu gangen fechan o bren; a gelwir Iesu Grist yn *wialen* neu gangen, Esa. xi. 1; ac felly y mae y gair Heb. *shebet*, yr hwn a gyfieithwn ni weithiau *gwialen*, Gen. xxx. 37, yn cael ei arfer hefyd am *lwythau*, o herwydd eu bod yn tyfu fel cangenau o wreiddyn cyffredin. A dau bren Judah ac Ephraim yn myned yn *un*, a arwydda gyssylltiad llwythau Judah a Benjamin, y rhai oeddynt un freniniaeth, ac eiddo Ephraim a'i gymdeithion, y rhai a ffurfient un arall, Ezec, xxxvii. 15—22. (2.) Yn llaw un yn rhodio, arwydda *ffon*, i'w gynnal a'i alluogi i orphen y daith. A'r rhai hyn yr arferai yr Hebreaid gynt ddewinio pa lwybr a ganlynent, Hos. iv. 12: ac mewn cyfeiriad at hyn, gelwir yr ymborth a gynnalia ddynion mewn bywyd a gweithrediad, yn *ffon*, Esa. iii. 1. Yr Aiphtiaid oeddynt yn *ffon* gorsen i dŷ Israel, hyny yw, cynghreirwyr ar ba rai yr ymddibynent, ond etto a fethent eu cynnal yn amser angen, Ezec. xix. 6. (3.) Yn llaw bugail, arwydda ei fach â pha un y cyfarwydda ac y deil y cyfryw o'r ddeadell ag a fyno, Lef. xxvii. 32. *Ffyn hyfrydwch a rhwymau* Crist, y rhai a dorrodd efe gyda golwg ar yr Iuddewon, oeddynt ei ofal neilluol am danynt fel eu Bugail, a'u cyssylltiad brawdol â'a gilydd, yr hwn a fuasai yn ogoniant a chynnaliaeth iddynt; ac, wedi dattod pa un, hwy, nid yn unig a gollasant eu cyfiwr eglwysig, ond a syrthiasant i'r fath amrysonau cynddeiriog ag a brysurodd eu dinystr, Zec. xii. 10—14. (4.) Yn llaw tir-feidrydd, arwydda ei fesur i fesuraw maesydd; ac felly y mae y peth mesuredig yn cael ei alw *y wialen;* felly gelwir y genedl Iuddewig. *gwialen etifeddiaeth Duw*, am eu bod wedi cael eu neilduo i fod yn eiddo priodol iddo ef, Salm lxxiv. 2: neu gellid cyfieithu y gair, *llwyth*, Jer. x. 16. (5.) Yn llaw dyrnwr, arwydda ffust, neu ffon-ddyrnu, Esa. xxvii. 12; ac mewn cyfeiriad at hyn, yn llaw dyn tramgwyddedig, arwydda offeryn i guro, ceryddu, neu gospi y troseddwr, Diar. xxiii. 13. Ac mewn cyfeiriad at y cerydd hwn, y mae cerydd a chospedigaeth eglwysig yn cael eu galw *gwialen*, Mic. vi. 9, a vii. 14. 1 Cor. iv. 21. Diar. xxix. 15. Ceryddon Duw ar ei bobl a elwir *gwialen ddynol*, am eu bod yn cael eu gosod gyda charedigrwydd a thosturi tad, 2 Sam. vii. 14. (6.) Yn llaw rhyfelwr, arwydda ei fyrllysg-ffon, ei wayw-ffon, neu ei law-ffon, 2 Sam. xxiv. 21. (7.) Yn llaw llywydd, *teyrnwialen*, neu arwydd o awdurdod yw, i gyfarwyddo, llywodraethu, ceryddu, a gobrwyo, Esth. viii. 4; ac, o herwydd hyn, rhoddir hi am allu ac awdurdod, Esa. xiv. 5; ac hefyd am y llywodraethwyr eu hunain; felly lle y mae genym *shebah* mewn un man, y mae genym *farnwyr*, yn y lle cyfattebol. Cymhar 2 Sam. vii. 7, â 1 Cron. xvii. 6; a thywysogion Judah a elwir *gwiail*, o herwydd mai gydag awdurdod y llywodraethasant ac y ceryddasant hwy ereill, Ezec. xix. 14.

Gwialen nerth Crist a anfonwyd allan o Sion, yw yr efengyl yn cael ei dilyn â dylanwadau gwyrthiol ac achubol, er troedigaeth awdurdodol lluoedd, a chynnaliaeth a chyfarwyddyd i'r saint, Salm cx. 2.

GWIBEROD, math o seirph, y rhai nid ydynt bron byth uwchlaw tair troedfedd a naw modfedd o hyd, a modfedd o drwch, eu penau yn wastad, a'u trwynau yn debyg i eiddo mochyn. Tra y mae gan seirph ereill ddwy rês o ddannedd, ni fedd y gwiberod ond un, yn cynnwys 16 o rai bychain yn nhob gên; ac y mae gan y gwiberod gwrryw o leiaf ddau ddant mawr, y rhai, wedi eu codi i fynu pan y byddant yn ddiglawn, eu brathiad a ddefnyna wenwyn i'r archoll. Y mae cu cyrph naill ai o liw lludyd neu felyn, â manau llwydion birion arnynt, a'r cèn dan eu boliau ydynt o liw dur wedi ei gaboli yn dda. Y benywod a ddygant eu rhai bach o ddeutu 20 ar y tro, ac un bob dydd, wedi eu hamdoi yn fyw mewn crwyn bychain, y rhai a dorant o ddeutu y trydydd dydd wedi hyny, Esa. xxx. 6. Dywedir fod dyfeisiadau drygion-

us a chnawdol dynion a'u cyfeiliornadau yn *torri allan yn wiber*, pan y byddant yn terfynu yn ninystr poenus eu dyfeiswyr, neu yn ngwarth ac erlidigaeth y sawl a ymdrechant i'w gwrthwynebu a'u diddymu, Esa. lix. 5. *Tafod gwiber a'i lladd ef;* efe a fydd farw o farwolaeth sicr, ddisyfyd, a phoenus, Job xx. 16.

GWINWYDDEN, (*gwin-wydd*) prysgen ëang-ymdaenol, yr hon sydd yn dwyn y grawn allan o ba rai y gwesgir gwin. Dygir gwinwydd, naill ai trwy gyffion neu ddarnau bron wedi eu claddu yn y ddaear. Y mae yn nghylch 20 math o winwydd, ac i gyd yn cynnyddu oreu mewn gwledydd deheuol, cynnes, a sych. Y maent yn hawdd i'w niweidio gan rew, o achos eu nòdd teneu. Y mae llawer iawn o lafur yn angenrheidiol i drin gwinwydd; o herwydd y mae eu ceinciau mor weiniaid, fel y rhaid eu hattegu wrth furiau, coed, polion, &c,. Ac nid yw eu coed yn ûda i ddim ond tân, os y byddant yn ddiffrwyth. Hwyrach mai Noah oedd y cyntaf a driniodd winwydd, ac a wasgodd eu grawn. Gen. ix. 20. Yr oeddynt yn aml iawn yn ngwlad Canaan gynt, yn enwedig yn rhandir Judah, Gen. xlix. 11; ac y mae llawer o honynt yn bresennol yn yr Ital, Ffraingc, Hispaen, Portugal, &c. ac y mae rhai yn Lloegr. Y mae rhai gwinwydd yn dwyn syppiau tra mawrion o rawn. Y swp hwnw a ddygodd yr yspÿwyr Hebreaidd o Escol, oedd yn cael ei ddwyn ar drosol rhwng dau o honynt, Num. xiii. 23; ac yr ydym yn darllain am sypiau yno o ddeutu 25 pwys.

Y mae Iesu Grist yn cael ei gyffelybu i *winwydden*, yn cael ei alw y *wir winwydden*. Gwedi ei blannu a'i drin gan ei Dad, fel yr ymdaenodd ac y dygodd efe ffrwythau cyfiawnder! ac wedi ei sathru yn ngwin-wryf digofaint ei Dad, pa fath *win* melus, adfywiol, newydd, bythgroyw, goreu, neu loyw, a chymysgedig o gyfiawnder perffaith, addewidion efengylaidd, dylanwadau, a bendithion tragywyddol, a ddygir i ddynion gweiniaid, afiach, ac athrist! Ioan xv. 1. Diar. ix. 2, 5. Esa. xxv. 6, a lv. 1. Mat. xxvi. 29. Y mae yr eglwys yn cael ei galw *gwinllan*. Duw y perchennog a blanodd yr Iuddewon ynddi gyntaf fel ei winwydden, ac a roddodd iddynt ei babell neu ei deml fel eu *gwinwryf*, a'i oraclau, ei ordinhadau, a'i fendithion. Efe a *osododd y winllan hon allani lafurwyr*, ac a anfonodd y prophwydi, ac yn ddiweddaf ei Fab, i geisio eu ffrwythau da hwy; ond wedi i'r rhai hyn gael sarhad a drwgdriniaeth ganddynt, efe a roddodd eu gwladwriaeth eglwysig i'r Cenedloedd, ac y mae mewn amrywiol dymhorau o amser a bywyd, yn galw dynion i lafurio ynddi, Esa. v. 1—7. Mat. xxi. 28—45. Luc xiii. 6, 7. Mat. xx. 1—16. *Gwinllan y gwin coch* ydyw, yn cael ei chadw a'i dyfrhau nos a dydd gan yr Arglwydd; yn nghanol erlidigaethau gwaedlyd a thrallodion blinion, y mae Duw, trwy ei ddylanwadau achubol a bywiog, yn peri i'w bobl ddwyn y gorau o ffrwythau, i'w ogoniant ef, a'u lleshad eu hunain, Esa. xxvii. 2, 3.

GWINGO, (*gwing*) sydd gyffelybiaeth wedi ei chymmeryd oddi wrth farch porthiannus, neu greadur cyffelyb, yn ymdaflu â'i sodlau yn erbyn ei berchennog pan y bydd yn rhoddi ymborth iddo, yn ei symbylu yn mlaen, neu y cyffelyb. *Gwingo* yn erbyn Duw, yw gwrthryfela yn gyndyn yn ei erbyn, Deut. xxxii. 15. Yr oedd yn galed i Paul *wingo yn erbyn y symbylau;* yr oedd nid yn unig yn beth' afiwyddiannus, ond yn anfeidrol afresymol a pheryglus i wrthryfela yn nwyfus a chynddeiriog yn erbyn yr Hollalluog Dduw, er symbylu, poeni, a dinystrio ei enaid ei hun, Act. ix. 5.

GWIR(*gw-ir*). 1. Sylweddol; felly Duw yw yr *unig wir Dduw;* efe yn unig sydd yn meddiannu perffeithrwydd anfeidrol. (2.) Nid yn gelwyddog; ffyddlawn; didwyll; y mae Duw yn *eirwir*, a *phob dyn yn gelwyddog;* nis geill Duw fod yn euog o unrhyw dwyll neu anwiredd, a cheir pob un a'i gwrthddywedo ef yn gelwyddog, Rhuf. iii. 4. Yr oedd brodyr Joseph yn *wyr cywir*, y rhai ni cheisient dwyllo, Gen. xlii. 11. *Calon gywir*, yw un â chanddi ras sylweddol, ac sydd yn uniawn a didwyll, Heb. x. 22. (3.) Y mwyaf rhagorol: felly Crist yw y *gwir fara*, Ioan vi. 32; y *wir winwydden*, Ioan xv. 1; y *gwir oleuni*, Ioan i. 9. Y mae gair Duw yn *wir*, ac *yn wirion-*

edd; y mae yn gwbl gysson â'r pethau am ba rai y llefara, a'r naill ran o hono â'r llall; ac ni chaiff unrhyw addewid, bygythiad, neu raddyweddiad o bono, ei adael heb ei gyflawni, Salm cxix. 151. Y mae ei farnedigaethau yn *wir,* am mai ynddynt hwy y mae efe yn cyflawni ei air, yn dangos ei gywirdeb, ac yn amlygu ei ffyddlondeb, Dad. xvi. 7. Ac *yn wir,* neu *mewn gwirionedd,* yw, (1.) Yn sicr a diau, yn ddiddwyll, Luc xx. 21. (2.) Yn gywir; heb fêth, Mat. xvii. 11. Jer. iii. 23. *Gwirionedd* yw, (1.) Yr hyn sydd groes i gelwydd a chyfeiliornad: yn yr ystyr hwn, y mae cyfraith ac efengyl Duw yn *wirionedd,* Salm cxix. 151. Gal. iii. 1. (2) Yr hyn sydd gywir a sylweddol, yn groes i'r hyn sydd gysgodol a chyffelybiaethol; felly y *gwirionedd* a ddaeth trwy Iesu Grist, hyny yw, y sylweddau gogoneddus a gysgodwyd gan y cyffelybiaethau, a gyflawnwyd yn ei gnawdoliaeth, ei gyflawnder, ei eiriolaeth, a'i lywodraeth, Ioan i. 17. (3.) Cywirdeb didwyll, yn groes i ragrith, Ioan iv. 24. (4.) Ffyddlondeb, neu wirionedd, yn cyflawni yr hyn y mae un yn rhwym iddo, trwy air, dyled neu berthynas, Salm xxxi. 5. *Gwirionedd* Duw, yw ei ddiragrithrwydd a'i ffyddlondeb, Salm lxxi. 22; neu ei ewyllys ddadguddiedig, yn yr hon, mewn ffordd o ufudd-dod iddi, y mae ei bobl yn rhodio, Salm xxvi. 3. Ei weithredoedd ef ydyn *wirionedd a barn;* y maent yn gyflawniad cymmwys o'i air, ac o'i berthynasau â dynion, ac oll yn cael eu cyflawni mewn doethineb anfeidrol, Salm cxi. 7. Y mae efe yn torri dynion ymaith *yn ei wirionedd,* pan y bydd yn gwneuthur hyny wrth gyflawni ei ragddyweddiadau, a'i addewidion neu fygythion, Salm liv. 5. Iesu Grist yw y GWIRIONEDD; y mae efe yn cynnwys pob rhagoriaethau gwirioneddol ynddo ei hun, y mae efe yn llawn o gywiredd a ffyddlondeb difeth i Dduw a dynion; efe yw sylwedd yr holl hen gysgodau; efe yw sylwedd neu ganolbwynt pob peth pwysig mewn hanesyddiaeth sanctaidd, cyfraith, neu efengyl, Ioan xiv. 6. Y mae y *gwirionedd* yn yr Iesu; y mae yn ymgyfarfod ynddo, ac yn cael ei arddangos yn ddiddwyll a diragrith yn ei berson, ei swydd, a'i waith, Eph. iv. 21. *Gwneuthur gwirionedd,* yw proffesu ac ymarfer yr hyn a orchymyn gair Duw, gyda chywirdeb ac undeb tufewnol, Ioan iii. 21. *Attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder,* yw gweithredu yn groes i wirionedd gair Duw, a amlygwyd i'r gydwybod, ac, mewn rhyw radd, a argraphwyd arni, trwy awdurdod cynnyddol chwantau pechadurus, Rhuf. i. 18.

GWIRFODD, (*gwir-bodd*) yn ewyllysgar. "Os o'n *wirfodd* y pechwn," Heb. x. 26. Y pechod a feddylir yma yw ymwrthodiad hollol â Christionogrwydd, a phob proffes o honi, ac ymarferiadau perthynol iddi; a hyny wedi derbyn gwybodaeth y gwirionedd, sef athrawiaeth yr efengyl. Nid trwy anwybodaeth, na thrwy ryw brofedigaeth ddisyfyd, na thrwy ofnau a bygythion, yn peri rhagrith, ac argeliad dros yr amser presennol, a'r galon yn glynu wrth y gwirionedd; ond yn *wybodus,* yn *wirfoddol,* ac o gasineb at y gwirionedd, yn ei wrthod, ac yn ymadael â phob proffes o hono.

GWISG, (*gwi-isg*) dilledyn. Dywedir nad oedd yr Hebreaid yn gwisgo dim dillad ereill ond eu peisiau llian, â llewys mawrion, y rhai a weuid yn fynych, fel y maent etto yn y gwledydd dwyreiniol yn ddiwniad; a'u mentyll gwlan. Y ddwy hyn a wnaent bâr o ddillad. Eu peisiau, y rhai a lanwent le ein crysau ni, a grogent i waered at y llawr, ond pan fyddent wedi eu byrhau i rodio neu weithio yn fwy rhydd a chyfleus. Yr ysgrifenyddion a wisgent y rhai hyn yn *hwy* nag arferol i nodi eu dwysder a'u sancteiddrwydd anghyffredin, Luc xx. 45. Tywysogion, yn enwedig breninoedd mawrion ac offeiriaid, yn gyffredinol a wisgent *ddillad gwynion;* y fath hyny a wisgid hefyd ar achlysuron o lawenydd a gorfoledd mawr, Preg. ix. 8. Wrth alaru, dynion yn gyffredinol a wisgent *sachlian,* neu garthen flewog. Prophwydi, gan eu bod yn alarwyr proffesedig, yn fynych a wisgent alarwisg o ddefnydd garw neu groen, 2 Bren. i. 7, 8. Mat. iii. 4. Gau brophwydi, i'r dyben o dwyllo y bobl, a ymwisgent yn yr un dull, Zech. xiii. 4. Yn mhlith yr Hebreaid, ni chaniatteid i'r naill rywiogaeth wisgo yr un fath ddillad âg a arferid gan y llall; am fod hyny yn tueddu i arwain

annhrefn a chwantau annaturiol i mewn, Deut. xxii. 5. I nodi yr anmhriodoldeb o gymmysgu ein gweithredoedd âg eiddo ein Hiachawdwr bendigedig, gwaharddwyd iddynt i fynnu gwisgoedd cymmysgedig o edafedd llin a gwlan yn nghyd, Lef, xix. 19. Deut. xxii. 11. I'w gwahaniaethu hwy oddi wrth bobl ereill, a pheri iddynt goño yn barhaus am eu cyflwr o ymostyngiad cyfammodol i Dduw, gwisgent *siobynau*, neu *eddi* ar bedwar cwrr eu dillad; a *phleth* o sidan glas ar eddi y godre, Num. xv. 38. Deut. xxii. 12. Mat. ix. 20. Y rhai hyn a wisgai y Phariseaid yn fwy nag arferol, i nodi eu diwydrwydd anghyffredin yn cadw y gyfraith, Mat. xxiii. 5. Byddai plant gwyr mawrion yn fynych â'u dillad wedi eu britho âg amryw liwiau, Gen. xxxvii. 3. 2 Sam. xiii. 18. Y mae Esaiah yn darlunio gwisgoedd y gwragedd luddewig yn ei amser ef yn helaeth. Eglur yw fod yr addurniadau a'r rhanau hyn o'u gwisgoedd yn harddwych a theg; ond yr ydym ni yn awr yn gwbl ansicr am eu dull, Esa. iii. 16—24.

GWLAD (*gw-llad*). 1. Teyrnas neu dalaeth, Gen. xiv. 7. (2.) Y rhan honno o deyrnas neu dalaeth y sydd yn gorwedd tu allan i'r dinasoedd, Esa. i. 7. (3.) Y bobl a breswyliant mewn gwlad, Mat. iii. 5. Y mae y nefoedd yn cael ei galw yn *wlad*, mewn cyfeiriad at wlad Canaan.

GWLADEIDDIO, (*gwlad*) cywilyddio, gwrido, cochi, Jer. xiv. 3.

GWLAN, (*gw-llan*) gwisg y ddafad. Yn yr hen oesoedd, byddent yn tynnu y gwlan oddi ar y ddafad, er yn fyw; ac felly galwai y Rhufeiniaid y cnu a ddygid gan ddafad ar unwaith, *vellus* neu y *tyniad*. Yn China, y mae y defaid yn cael eu cneifio deirgwaith bob blwyddyn, Gynt, y gwlan goreu a geid o amgylch Damascus, Ezec. xxviii. 18; yn awr gwlan yr Hispaen a gyfrifir y goreu yn Ewrop. Mewn gwledydd naill ai rhy oerion neu rhy boethion, y mae y gwlan yn arw neu fyr. Coelgrefydd, syrthni cnawdol, a hunan-gyfiawnder ydynt fel *gwlan* a bair chwys; mor halogedig a blin!

GWLAW (*gwl-aw*) yw y tarth gwlyb sydd yn escyn i fynu gan wres yr haul, pa un, wedi ei gydgasglu yn gymmylau, a syrthia ar y ddaear yn ddefnynau; a phan y bydd yn rhewi yn neu cyn ei syrthiad, gelwir ef *cenllusg* neu *eira*. Pan y bydd yn syrthio i lawr yn bistylloedd, dywedir fod *ffenestri*, neu ddyfr-ddorau y nefoedd yn cael eu *hagor*. Yn amser sychder, gosodir y ddaear allan fel yn llefain ar y nefoedd, a'r nefoedd neu y cymmylau yn llefain ar Dduw, am ei ganiattad i dywallt eu trysorau gwlybion yn wlaw a gwlith ar y ddaear, Hos. ii. 21. Yn yr Aipbt Uchaf, nid yw ond anfynych yn gwlawio dim oll. Mewn rhai parthau o amberodraeth Persia, nid yw yn gwlawio ond ychydig dros wyth mis olynol. Yn Syria a Barbary, nid oes ond ychydig wlaw dros yr holl haf. Yn ngwlad Canaan, yr oeddynt yn gyffredinol yn cael gwlaw helaeth ddwywaith yn y flwyddyn. Y gwlaw cynnar a ddygwyddai o ddeutu mis Medi, a'r diweddar o ddeutu dechreu Mawrth, ychydig o flaen eu cynhauaf, Joel ii. 23. Zech. x. 1. Y mae y gwlaw, pan yn brydlawn, yn *gawodydd bendith*, Ezec. xxxiv. 26.

GWLEDD, *(gw-lledd)* cyfeddach. '*Gwledd* yn y mynydd hwn,' Esa xxv. 6. *Gwledd* a arwydda *heddwch* rhwng y pleidiau yn gwledda, a phob plaid wrth ei bodd yn cydlawenhau; hefyd llawnder o fendithion; a chyda hyny rhyddid ac iechyd i'w mwynhau. Effeithiau trefn Duw yn Nghrist er iachawdwriaeth pechaduriaid, yw y wledd hon. *Gwledd* sanctaidd ac ysbrydol yw, gan mai ar fynydd Sion y mae yr arlwy, lle yr oedd Duw yn mhlith ei bobl yn cael ei addoli.

GWLITH *(gwl-ith)* tarth tew gwlyb yn disevn ar y ddaear, yn benaf pan y bydd yr haul oddi tan y terfyngylch. Mewn gwledydd poethion, lle na bydd yn gwlawio ond anfynych, y mae gwlithoedd trymion yn adfywio ac yn gwlychu y ddaear yn ddirfawr; o herwydd hyny yr oedd rhoddi *gwlith* yn cael ei gyfrif yn fendith fawr, a'i attal, yn y gwrthwyneb, yn felldith drom, Deut. xxxiii. 13. 2 Sam. i. 21.

GWR, *(gw-wr)* gwrryw. *Gwr Duw*, sef prophwyd Duw; *gwr i Dduw*, sef gwr i wasanaeth Duw, Deut. xxxiii. 1. 1 Sam. ii. 27. Dyled gwyr tu ag at eu gwragedd, yw eu caru

megys eu cyrph eu hunain, ac megys y carodd Crist yr eglwys; *glynu* wrth eu gwragedd, ac wrthynt hwy yn unig; rhoddi parch iddynt megys i'r llestr gwanaf, ac nid eu diystyru am eu bod felly; cydgyfaneddu â hwynt, a chyflawni yn ffyddlon eu hammodau priodasol, Eph. v. 24, 28. Gen. ii. 24. 1 Petr iii. 7. Col. iii. 19.

GWRACH—IAIDD, *(gwr)* yn perthyn i, neu yn arferedig gan benwrach; neu hen ddynes ddisynwyr ac annuwiol. "Eithr gâd heibio halogedig a *gwrachiaidd* chwedlau," 1 Tim. iv. 7. Chwedlau croes i eiriau y ffydd, athrawiaeth dda, ac ymarfer o dduwioldeb, adn. 6. Chwedlau anwir, dychymmygol, disylwedd, diddefnydd, diles, a halogedig: y cyfryw yw yr holl chwedlau anghristiaidd, yn nghylch addoliad saint ac angelion; gwyrthiau a chreiriau y saint, gwahardd priodi, ac ymattal oddi wrth fwydydd, &c. Dyma y pethau, a'u cyffelyb, sydd gan y diafol i lygru meddyliau dynion, a'u cadw oddiwrth y gwirionedd—pethau i'w gwrthod a'u ffieiddio ydynt.

GWRAIDD *(rhaidd).* 1. Y rhan honno o blanhigyn sydd wedi ei sicrhau yn y ddaear, Job xiv. 8. (2.) Sylfaen yr hon sydd yn sefydlu y peth a adeiladir arni, Job xxviii. 9. (3.) Y peth a fyddo yn rhoddi tarddiad i unrhyw beth arall; felly ariangarwch yw *gwreiddyn* neu yr achos o bob drwg, 4 Tim. vi. 10.

GWRAIG, *(gwr-aig)* merch, benyw. "Ni halogwyd y rai hyn â *gwragedd,* canys gwyryfon ydynt," Dad. xiv. 4. Halogi â *gwragedd,* a arwydda ymgyssylltu â hwy yn anghyfreithlon, ac yn odinebus. Y mae yr Arglwydd, yn aml, yn yr ysgrythyrau, yn galw eilunaddoliaeth yn *odineb,* neu yn *butteindra;* dynion yn torri eu hammod â Duw, ac yn addoli ac yn gwasanaethu eilunod, Jer. iii. 8. Ezec. xxxiii. 2, 3. Hos. i. 2. Hyny a feddylir yn y lle hwn; "Gwyryfon ydynt," y maent yn bur ac yn ddiwair fel gwyryfon; yn derbyn ac yn cadw athrawiaeth bur; addoliad pur, heb ddefodau dynol yn gymmysgedig âg ef; cariad diragrith, a bywydau sanctaidd.

GWRANDAW, *(gwr-andaw)* clywed. Y mae yr Arglwydd Iesu yn cynghori, nid yn unig pa fodd y *gwrandawom,* ond hefyd pa beth, Marc iv. 24. Gair yr Arglwydd, sef yr *holl* air, ac yn ddigymmysg, yn unig sydd i ni *wrandaw* arno a'i gredu. Y mae efengyl arall, *philosophy* a gwag dwyll, heresiau dinystriol, ymadrodd yn ysu fel canc'r, etto yn y byd; pethau i'w gochelyd ydynt fel y gwenwyn mwyaf marwol. Trwy glywed *gair Duw* yn unig, y mae ffydd yn cael ei chenedlu; a *didwyll* laeth y gair yn unig, sydd yn peri cynnydd, Rhuf. x. 17. 1 Petr ii. 2.

GWRDD, *(wrdd)* cryf, cadarn, pybyr, Salm xxii. 12.

GWREGYS *(gwrag).* O herwydd fod yr Iuddewon, a chenedloedd dwyreiniol ereill yn gwisgo math o ddillad rhyddion, byddent yn gwneud defnydd mawr o *wregysau* i dynhau eu gwisgoedd, a'u haddasu i weithio neu rodio, Ioan xiii. 4. 1 Bren. xviii. 46; ac yr oedd rhai o honynt yn werthfawr a chywrain, Diar. xxxi. 24. Yr oeddynt yn aml yn fawrion a cheuol, rywbeth yn debyg i groen sarph neu lysowen; ac a arferid fel eu pyrsau, i ddwyn eu harian, Mat. x. 9. Mewn amser o alar, byddai yr Iuddewon yn rhoddi eu gwregysau costus heibio, ac yn ymwregysu â sachlian, rhaffau, neu y cyffelyb, Esa. iii. 24, a xxiii. 12. Rhai prophwydi, megys Elias ac Ioan Fedyddiwr, y rhai a broffesent alar parhaus, a wisgent wregysau o ledr garw, 2 Bren. i. 8. Mat. iii. 4. *Gwregysau* gweision â pha rai y tynhaent eu dillad lleision, oeddynt tebygol yn eirwon, Luc xii. 37, a xvii. 8. Nid oedd *gwregysau* y milwyr Hebreaidd, â pha rai y gwregysent eu harfau am danynt, yn myned o amgylch eu hysgwyddau yn yr un dull â'r Groegiaid, ond o amgylch eu lwynau, a thybid eu bod yn eu cryfhau hwynt, Neh. iv. 18. Ezec. xxiii. 15. Yr oeddynt yn gyffredinol yn werthfawr, yn enwedig eiddo câdfaenoriaid; ac o herwydd hyny, gwnaeth Jonathan anrheg o'i *wregys* i Dafydd, 1 Sam. xviii. 4; ac y mae Joab yn gosod *gwregys* allan fel gobrwy gwerthfawr, 2 Sam. xviii. 11. *Gwregys* yr offeiriaid, o lein yr archoffeiriad, oedd o lian main cyfrodedd, wedi ei weithio âg aur, sidan glas, porphor, ac ysgarlad, Exod.

xxviii. 4, 8. *Josephus* a ddywed ei fod yn myned ddwywaith o amgylch eu cyrph, ac yn cael ei sierhau y tu blaen iddynt, a'i gyrrau yn crogi i lawr at eu traed. Gwaith Duw yn *ymwregysu*, a arwydda ei roddiad o amlygiadau nodedig o'i nerth hollalluog, a'i barodrwydd i weithredu, Salm xciii. 1, a lxv. 6. Y mae y saint â'u *lwynau wedi eu gwregysu*, pan y byddant mewn parodrwydd parhaus i dderbyn bendithion neillduol Duw, ac ufuddhau i'w gyfreithiau, Luc xii. 35. 1 Petr i. 13. Y mae eu *lwynau wedi eu hamgylch-wregysu â gwirioned*, pan y byddant wedi eu sefydlu yn drwyadl mewn ffydd a phrofiad o'r gwirioned dwyfol; wedi eu llenwi â chywiredd ac uniondeb tufewnol: ac yn gwneud sylw manwl ar eu haddewidion a'u haddunedau; mor rhagorol y mae hyny yn eu cymhwyso i ymladd rhyfeloedd yr Arglwydd! Eph. vi. 14. Y saith angel sydd yn tywallt y phiolau dinystriol allan ar Anghrist, ydynt wedi eu *gwregysu â gwregysau aur;* y maent wedi eu cynnysgaethu yn gyflawn â nerth a gwroldeb, yn barod i'w gwaith, ac yn awyddus ynddo, Dad. xv. 6.

GWREICHION, (*gwraich*) tenyn, tânen, marwydos, ulw. "Yn eich amgylchu eich hunain â *gwreichion.*" Esa. l. 11. Cynneu tân ac amgylchynu eu hunain â gwreichion, a rhodio wrth lewyrch eu tân, a arwydda dilyn eu dychymmygion, eu cyfiawnder, eu doethineb, a'u nerth eu hunain am ddiogelwch a chyssur, yn lle byw trwy ffydd ac ymddiried yn yr Arglwydd; eu siommi a gânt, ac mewn gofid y gorweddant yn y diwedd. Neu ynte, cynneu tân a arwydda cyffroi erlidigaethau, fel y darfu i'r Iuddewon yn erbyn Crist a'i apostolion, yr hyn a ddiweddodd yn eu dinystr eu hunain.

GWRENG, (*eng*) dyn cyffredin, un o'r werin. "Yn gystal *gwreng* a boneddig," Salm xlix. 2. Yn ol yr Hebraeg, *meibion Addaf*, a *meibion gwr*. Y mae pawb yn gyfrifedig i Dduw, ac y mae ef yn ddigon mawr i alw pawb, ac nid yw yn edrych heibio y gwaelaf. Y mae ein cyfeithwyr ni wedi gwahaniaethu rhwng ystyr y geiriau *meibion Addaf*, a *meibion gwyr*, fel pe arwyddai y cyntaf *isafiaid*, a'r diweddaf *uchafiaid*.

GWRES, (*ês*) twymder, poethni. "Yn *wresog* yn yr ysbryd," Act. xviii. 25. Y mae bod yn *wresog* yn yr ysbryd, yn groes i farweidd-dra, cysgadrwydd, difatterwch, a diofalwch, a diegnïad, yn ngwaith Duw. Effaith gweithrediadau tanllyd yr Ysbryd Glan, yr hwn a gymharir i dân, ar yr enaid yw'r gwres sanctaiddhwn.

GWRIOGAETH, (*gwriawg*) ymostyngiad. "Treth *wriogaeth*," 1 Bren. ix. 21. Arwydda y gair Hebrëig a gyfeithir yma *gwriogaeth*, bob amser, *cyllid o wyr*, wedi eu neilluo oddi wrth ereill i wneud rhyw gaethwaith.

GWRTHOD (*gwrth*). 1. Bwrw ymaith, gadael, Jer. vii. 29, a xiv. 19. (2.) Gommedd caniattau deisyfiad, Marc vi. 26. Cyhuddwyr cyndyn o ordinhadau yr efengyl, pa un bynag ai Iuddewon neu Genedloedd, ydynt yn *wrthodedig fel tir diffrwyth;* y maent yn cael eu hamddifadu o ymdrechiadau Ysbryd Duw, ac o ordinhadau dwyfol, a'u gosod yn agored i ddinystr tymhorol neu dragywyddol, neu y ddau, Heb. vi. 8.

GWRTHRYFEL, (*gwrth-rhyfel*) bwrw ymaith awdurdod, neu wneud rhyfel yn erbyn uwchafiad, Num. xvi. 1, 2. 2 Sam. xv. 20. Y mae dynion yn *gwrthryfela* yn erbyn Duw, pan y byddant yn diystyru ei awdurdod, ac yn gwneuthur yr hyn a warafuna efe, Num. xiv. 9. Y maent yn *gwrthryfela yn erbyn ei Ysbryd*, pan y byddant yn gwrthsefyll ei gynhyrfiadau, ac yn esgeuluso ei geryddon, Esa. lxiii. 10. Y maent yn *gwrthryfela yn erbyn ei air*, pan y byddant yn gwrthod credu ei addewidion, derbyn ei gynnygion, neu ufuddhau i'w gyfreithiau, Salm cvii. 11.

GWRTHWYNEBU, (*gwrth-gwyneb*) ymdrechu trwy air neu weithred yn erbyn un neu beth. Y mae dynion yn *gwrthwynebu* eu hunain, pan y byddant yn dal tybiau, ac yn dylyn arferion croes i'w proffes eu hunain, neu groes i'r ysgrythyrau, y rhai a gydnabyddant hwy fel unig brawf-faen eu ffydd a'u hymarferiad, 2 Tim. ii. 25. Y mae Anghrist yn *gwrthwynebu pob peth a elwir yn Dduw;* yn gosod ei hun i fynu yn

erbyn, neu uwchlaw duwiau y Paganiaid; ïe, yr angelion a gweinidogion; ïe, Iesu Grist a'i Dad, trwy osod cyfreithiau gwrthwynebol, swyddau, &c. 2 Thes. ii. 4. *Gwrthwyneb gwybodaeth, a gamenwir felly*, yw egwyddorion cyfeiliornus *philosophy* y Paganiaid, megys bod yn alluadwy i Forwyn ymddwyn Mab; neu i'r meirw gael eu cyfodi; neu yr ofer-dybiau trwy ba rai yr oedd y Gnostiaid, dan ffug o fawr wybodaeth, yn gwrthwynebu symlrwydd yr efengyl, 1 Tim. vi. 20. Y mae Duw yn *gwrthwynebu* y beilchion, trwy ddiddymu eu hamcanion a'u hymdrechiadau, siomi eu gobeithion, a chospi eu drygioni, Iago iv. 6. 1 Petr v. 5. Y mae Satan yn *gwrthwynebu* dynion, pan y bydd yn eu cyhuddo hwy wrth Dduw, a thrwy eu blino a'u hudo, yn eu rhwystro hwy i wneuthur daioni, Zec. iii. 1. Nid yw dynion da yn *gwrthwynebu* eu herlidwyr drygionus, trwy ymladd yn ffyrnig yn eu herbyn, a thalu drwg am ddrwg, Iago v. 6. Mat. v. 39; ond y maent yn *gwrthwynebu hyd at waed, ganymdrechu yn erbyn pechod*, yn dewis yn hytrach golli eu bywydau, nag ymostwng i unrhyw ddeddf neu arferiad drygionus, Heb. xii. 4. Y maent yn *gwrthwynebu Satan*, trwy wylio, gweddio, ac ymdrechu yn erbyn ei brofedigaethau, Iago iv. 7. 1 Petr v. 9. Y mae dynion annuwiol yn *gwrthwynebu yr Ysbryd Glan*, pan y byddant yn gwrthsefyll ei argyhoeddiadau, ac yn diystyru ei weithrediadau gwyrthiol, Act. vi. 10, a vii. 51. Y maent yn *gwrthsefyll y gwirionedd*, pan y byddant yn dadlau yn ei erbyn, ac yn gweithredu yn groes iddo, 2 Tim. iii. 8. Y maent yn *gwrthwynebu swyddogion*, pan y byddant yn gwrthryfela yn erbyn eu personau neu eu hawdurdod, ac yn anufuddhau i'w cyfreithiau, neu yn eu diystyru, Rhuf. xiii. 2.

GWYBEDYN, *(gwib)* trychfilyn bychan gofidus, yr hwn sydd yn fynych yn ehedeg o amgylch canwyllau goleuedig, nes y llosgo ei hun. Rai troion parodd heidiau mawrion o honynt i bobl adael eu gwlad. Y cyfryw ag sydd ofalus yn nghylch pethau ofer neu fychain, tra y byddant yn ymroddi i bethau pechadurus yn amlwg a gwarthus, a ddywedir eu bod yn *hidlo gwybedyn, ac yn llyngcu camel*, Mat. xxiii. 24.

GWYBOD, *(gwy-bod)* a arwydda (1.) Deall neu ganfod, Ruth iii. 11. (2.) Cael profiad o beth, 2 Cor. v. 21. (3.) Cydnabod; cymmeryd sylw o beth, cymmeradwyo, ymhyfrydu yn, a dangos parch nodedig i un, Esa. lv. 5. 1 Cor. viii. 3. Ioan x. 27. Amos. iii. 2. Gen. xxxix. 6. 1 Thes. v. 12.

GWYBODAETH, a arwydda (1.) Dealldwriaeth anfeidrol Duw, trwy ba un y mae yn canfod ac yn amgyffred ei hun, a phob peth galluadwy neu wirioneddol, yn berffaith, 1 Sam. ii. 3. (2.) Gwybodaeth fyfyrdodol, trwy yr hon y mae gan un amgyffred rhesymol yn unig o bethau naturiol neu ddwyfol, heb unrhyw ffydd yn Nuw, na chariad atto, yn cael eu hachlysuro neu eu cryfhau trwy hyny, 1 Cor. viii. 1. Rhuf. i. 21. Preg. i. 18. Y mae y saint wedi eu cyfoethogi â *phob gwybodaeth*; y maent wedi eu gwneud yn ddoethion i iachawdwriaeth, ac yn gwybod pob peth o bwys mewn perthynas iddi, Rhuf. xv. 14. 1 Cor. i. 5. 1 Ioan ii. 20. *Trwy wybodaeth* y gwaredir y cyfiawn; trwy ddoethineb anfeidrol Duw, eu ffydd, eu gwybodaeth ysbrydol, a'u callineb hwy fel moddion, y diangant hwy rhag trallod, neu y deuant alian o hono, Diar. xi. 9.

GWYDR *(gwyd)*. Yn ol *Pliny* a *Tacitus*, y Phœniciaid oeddynt ddyfeiswyr cyntaf gwydr. Yn ol *Diodorus*, byddai yr Ethiopiaid, yn y cynoesoedd, yn cadw eu cyrph meirw mewn gwydrau mawrion. Priodolir dyfeisiad llosg-wydrau yn gyffredin i Archimedes, o ynys Sicily, yr hwn oedd yn byw o ddeutu 200 o flyneddoedd cyn Crist; ond dywed *Abulphazaj*, awdwr Arabaidd, y gwyddai yr Aiphtiaid am dano cyn pen hir wedi y dylif. Y mae y Jerusalem Newydd yn cael ei chyffelybu i wydr gloyw, o herwydd ei phurdeb a'i gogoniant ysplenydd, Dad. xxi. 18. Gosodir y dyrfa waredigol allan fel yn sefyll ar fôr o wydr ar ol ennill eu buddugoliaeth, yn cyfeirio, tebygol, at gyflawnder dwyfol, a chariad annherfynol Mab Duw, trwy ba rai yr ydym yn fwy na chongcwerwyr, Dad. iv. 6, a xv. 2.

GWYFYN, *(gwyf)* math o drych-

filyn y sydd yn ddiarwybod yn difwyno yr hyn y mae yn llettya ynddo. Y mae rhai gwyfon yn trigo mewn dillad, ac yn eu bwytta; ereill yn trigo mewn blodau a dail, ac yn eu hysu; a dywedir, hwyrach heb sail, fod rhai yn nythu mewn muriau, ac yn bwytta hyd yn nod eu sylwedd. Y mae rhai gwyfon yn amdoi eu hunain mewn math o sidan, yr hwn a weuant allan o'u hymysgaroedd eu hunain. Mellditbion dirgel, neu farnedigaethau, y rhai, yn ddiarwybod, a lygrant enwau da neu feddiannau dynion, a gyffelybir i *wyfyn*, Esa. l. 9, a li. 8. Y mae Duw yn cyffelybu ei hun i *wyfyn* a *phydredd*, o herwydd iddo, trwy ei farnedigaethau, wanychu yr luddewon yn raddol a diarwybod, a'u gwneuthur hwy yn ddirmygedig, Hos. v. 12. Y mae y dyn annuwiol yn adeiladu ei dŷ *fel y gwyfyn*; y mae efe yn ei adeiladu trwy gybydd-dod a gofal pryderus; yn dychymmygu fod ei gyfran yn hyfryd, ond mor hawdd y mae barnedigaethau Duw yn ei llosgi, neu yn ei ysgwyd ef allan o honi! Job xxvii. 18. Y mae arddderchogrwydd, gogoniant, a golud dyn, yn treulio fel *gwyfyn*; y maent yn cael eu difa yn ddirgel a diarwybod, ond yn ebrwydd, Salm xxxix. 11.

GWYL. I gadw coffadwriaeth fythol am weithredoedd nerthol Duw; i beri ymlyniad yn yr Hebreaid wrth y wir grefydd, trwy arferiad mynych o ddefodau dwyfol ei sefydliad; i ganiattau iddynt fynych gyfleusderau o addysg yn ei gyfreithiau, ac o orphwysfa, difyrwch, ac adnewyddiad cydnabyddiaeth o'u brodyr; ond yn benaf i rag-gysgodi daionus bethau i ddyfod, gyda golwg ar Iesu Grist a'i gyflawnder, pennododd Duw amryw-iol o amseroedd cyssegredig neu wyliau. Heblaw yr oriau gweddi, boreuol a phrydnawnol, yr aberth beunyddiol, ar Sabbath wythnosol, yr oedd ganddynt *wyliau* misol y Newydd Loer; rhai blyneddol y Pasg, a'r Bara Croyw; y Pentecost; yr Udgyrn; gwyl y Cymmod: a gwyl y Pebyll; y flwyddyn Sabbathaidd o Ryddhad; a blwyddyn y Jubili. Yr oedd ganddynt hefyd, mewn amseroedd diweddarach, wyl y Pwrim, a'r Cyssegriad; ond nid oedd y naill na'r llall o osodiad dwyfol.

GWYLIO *(gwel)*. 1. Cadw yn effro, Mat. xxvi. 40. (2.) Ysgrwyd diogelwch cnawdol a phechadurus ymaith, a chymmeryd y gofal mwyaf rhag i bechod, Satan, neu y byd, ein twyllo, ein gorchfygu, a'n niweidio ni: hyn a elwir bod yn *wyliadwrus*. 1 Petr v. 8. Dad. iii, 2. (3.) Aros a disgwyl am beth yn dyfod, gyda dymuniad awyddus, Galar. iv. 17, fel y gwna gweision am ddychweliad eu meistr, Luc xii. 37. (4.) Sylwi ar, a gwarchad peth yn ofalus, fel na byddo iddo wneuthur na derbyn niweid. Felly y mae bugeiliaid yn *gwylio* eu praidd, i'w rhagflaenu i fyned ar gyfeiliorn, neu niweidio yr ŷd, neu gael eu niweidio gan fwystfilod gwyllt ion, Luc ii. 8. Gwaith Duw yn *gwylio*, a arwydda ei sylw manwl o ymarweddiad dynion, Job xiv. 16; ei barodrwydd amyneddgar a'i ofal i gyssuro ei bobl, Jer. xxxi. 28; a'i gyflawniad amyneddgar, ond sicr, o'i farnedigaethau yn yr amser cymhwysaf. Jer. xliv. 27. Gwaith gweinidogion yn *gwylio* dros eneidiau dynion, a arwydda eu gofal awyddus a bywiog i ddal ar y perygl y mae dynion ynddo, ac i'w rhybuddio am dano, a'u hymdrech difrifol i ddwyn eu sancteiddrwydd, eu diogelwch, a'u dedwyddwch yn mlaen, ac i gerydduu a diwygio aelodau eglwysig afreolus, Heb. xiii. 17. Gwaith y saint yn *gwylio*, sydd yn dynodi eu bod yn ysgwyd diogelwch cnawdol ymaith; eu disgwyliad hiraethlawn am ymweliadau graslawn Crist, a'i ail ddyfodiad; eu cadwad diesgeulus o'u calonau, gofal i ganfod profedigaethau o bell, ac i ragflaenu iddynt gael eu darostwng gan bechod, Satan, neu y byd, Dad. xvi. 13. Luc xii. 37. *Gwylio at, ac mewn gweddi*, yw cadw ein calonau yn ofalus mewn tymmer addas i weddio, edrych yn awyddus am, a gafaelu yn mhob cyfleusdra addas i hyny; a thra yn gweddio, gwylied rhag meddyliau gwibiog; ac ar ol gweddi, aros am yr atteb a ganiatteir iddi, a dal yn ofalus arno, Col. iv. 2. Eph. vi. 18. ¶Yr oedd gelynion Crist yn ei *wylied* ef, ac y mae yr annuwiol yn *gwylio* ar y cyfiawn, gan edrych yn awyddus am unrhyw fantais yn eu herbyn, neu gyfle i wneuthur niweid iddynt, Luc xx. 20. Salm xxxvii. 32. Yr oedd y diwedd yn *gwylio* am yr luddewon, pan yr oedd eu dinystr

yn barod i'w gorddiwes hwynt, Ezec. vii. 6. Y mae yr angelion yn cael eu galw yn *wyliedyddion*, i arwyddo eu parodrwydd i ufuddhau i ewyllys Duw, a golygu y Cenedloedd, yn benaf yr eglwys, Dan. iv. 16. Y mae y Caldeaid yn cael eu galw yn *wylwyr*; yr oeddynt yn aros am eu cyfleusdra i ddistrywio y cenedloedd, ac yn gafaelu ynddo; yr oeddynt yn myned yn mlaen gyda phwyll yn eu rhyfeloedd, ac yr oedd eu gwarchaëadau ar ddinasoedd mor drefnus a phenderfynol, fel nad allai ond ychydig ddiange, Jer. iv. 16.

GWYLIADWRIAETH, yw, (1.) Gwarchawdlu wedi eu gosod i sylwi ar symmudiadau gelyn, neu i gadw trefn mewn dinas, neu i gadw adneu, Jer. li. 12. Neh. iv. 9. Mat. xxviii. 11. Ac y mae y rhai a gadwant wyliadwriaeth mewn dinas neu wersyll, yn cael eu galw yn *wylwyr*, 2 Bren. ix. 18. Gweinidogion, ac hwyrach hefyd llywodraethwyr yn y wladwriaeth, a elwir yn *wylwyr*; yn nos amser, y mae, neu fe ddylai gweinidogion wylied dros yr eglwys ac eneidiau dynion, canfod peryglon ysbrydol, a'u rhybuddio hwy yn ffyddlawn am danynt; ac y mae y swyddogion i edrych a chymmeryd pob moddion priodol i'w rhagflaenu, Can. xxxiii, a v. 7. Ezec. iii. 17. Esa. lii. 8. (2.) Y fan neu y sefyllfa lle y mae y wyliadwriaeth yn cael ei chadw, yr hwn sydd yn cael ei alw hefyd y *Gwyl-dwr*, Hab. ii. 1. (3.) Cyflawniad gwylwyr o'u dyledswydd, yn gwneuthur yr hyn a allant i ganfod a rhagflaenu perygl neu golled, 2 Bren. xi. 6. Luc ii. 8. (4.) Yr amser yn mha un y bydd dosparth neilldiuol o ddynion yn cadw gwyliadwriaeth ar unwaith, mewn dinas neu wersyll. Ymddengys fod y nos unwaith yn cael ei rhanu yn dair gwyliadwriaeth, pob un yn cynnwys pedair awr; sef y wyliadwriaeth hwyr, y ganol, a'r wyliadwriaeth fore, Barn. vii. 19. Exod. xiv. 24; ond gwedi hyny y Groegiaid a'r Rhufeiniaid a esmwythaent ar eu gwylwyr yn mhen tair awr bob un, ac a wnaethant bedair gwyliadwriaeth o'r nos, Luc xii. 38. Marc vi. 48.

GWYLL, *(gw-yll)* tywyllwch. "Yr *wyll* a orphwys yno," Esa. xxxiv. 14. Rhyw aderyn nos a feddylir wrth y gair Heb. *lilith*, y dylluan rudd, neu aderyn y corph.

GWYLLT, a arwydda (1.) Anof, ffyrnig, Job xiii. 15. (2.) Didriniaeth. Felly gosodir allan winwydd, bresych, grawn, ac olew-wydd, fel yn *wylltion*, 2 Bren. iv. 35, 39. Esa. x. 2. Rhuf. xi. 17; a *mêl gwyllt*, yw y cyfryw a geir mewn meusydd, creigiau, neu goed, Mat. iii. 4. Ismael oedd yn *ddyn gwyllt*, neu yn *ddyn gwyllt rhydd*; y mae efe a'i had wedi bod, yn gyffredinol, yn fath o bobl anwar, yn yspeilwyr pawb o amgylch iddynt, ond heb fod erioed yn ddarostyngedig i neb, Gen. xvi. 10.

GWYN, *(gwy)* càn, claerwyn. Am ei fod y llaw puraf a mwyaf dysclaer, y mae yn cael ei arfer yn fynych i osod allan beth bynag sydd yn bur a gogoneddus. Bod gan Dduw *wallt gwyn* fel gwlân, a dillad *gwynion*, a'i fod yn marchogaeth ar gwmmwl *gwyn*, sydd yn dynodi ei henafiaeth, ei ddoethineb, ei sancteiddrwydd, ac uniondeb ei ymddygiad rhagluniaethol, Dan. vii. 9. Esa. Esa. xix. 1. Dad. xiv. 14. Y mae Crist yn *wyn*, yn bur yn ei Dduwdod, yn sanctaidd, wedi ei dderchafu yn uchel, ac yn llawn cariad.

GWYNFYD, *(gwyn-byd)* cynddaredd, gwylltineb. *Gwynfydau*, Gal. v. 2. Y gair Groeg a arwydda *cynnwrf angherddol y meddwl*, pa un bynag ai sanctaidd ai pechadurus fyddo y cynnwrf a'r poethder hwnw; y mae yn aml yn cael ei gyfeithu, neu yn hytrach yn cael ei adael heb ei gyfeithu, *zêl*, Ioan ii. 17. 2 Cor. Cor. vii. 7, 11, a ix. 2. Un o ffrwythau yr Ysbryd yw y poethder hwn pan fyddo yn sanctaidd; ac un o ffrwythau y cnawd yw pan fyddo yn bechadurus ac anaddas.

GWYNT, *(gwy)* ymdaflad teimladwy o eiddo yr awyr, trwy ba un y mae mesur helaeth o honi yn dylifo o'r naill fan i'r llall. Y gwyntoedd a elwir *trade winds* ydynt naill ai y rhai a chwythant yn wastad o'r dwyrain i'r gorllewin, neu ynte a chwythant dri neu chwech mis o un pwynt, a chyhyd â hyny o'r pwynt arall i'r nefoedd. Lle mae yr awyr gan wres yr haul neu foddion ereill yn cael ei theneuhau fwyaf, yno y mae y rhan dewaf o'r awyr bellenig yn gogwyddo ei hynt; ac felly y mae awyr dra theneuedig yn darogan

tymhestl. Nid yw y *trade winds* a gyfarfyddir ar y cefnfor mawr, yn benaf ar yr un Tawelog, yn chwythu yn union o'r dwyrain i'r gorllewin, neu o'r gorllewin i'r dwyrain, ond yn ystlysu tua llinyn y cyhydedd, lle y mae yr awyr fwyaf teneuedig. Y teneuhad hwn o eiddo yr awyr dan linyn y cyhydedd, meddyliwn, yw hefyd yr achos paham y mae cymmaint o wlaw yn dygwydd yn y cylch poeth yn nhymmor yr haf, gan fod y cymmylau o leoedd ereill yn ymdywallt i'r parth hwnw lle y mae y gwres wedi teneuhau yr awyr mor fawr. Y mae y gwyntoedd yn chwythu bron yn wastad oddi ar y môr, mewn gwledydd tra phoethion. Gwyntoedd oddi ar y môr ydynt gynnesaf yn y gauaf, ac oeraf yn yr haf; a gwyntoedd oddi ar y tir ydynt oeraf yn y gauaf, a phoethaf yn yr haf. Gwyntoedd yn chwythu dros fynyddoedd wedi eu gorchuddio âg eira, neu dros wledydd oerion, ydynt, trwy hyny, yn oerach. Mewn gwahanol wleddydd, y mae y gwynt yn fynych mewn gwahanol, neu hyd yn nod mewn cyferbyniol bwyntiau ar yr un amser; ac y mae gwynt y gogledd neu y deau yn wlyb neu yn sych. Diar. xxv. 23. *Corwynt*, yw awel gref, ac allan o un o honynt y llefarodd yr Arglwydd wrth Job, Esa. xxi. 1. Job xxxvii. 9, a xxxviii. 1.

Y mae yr Ysbryd Glan yn cael ei gyffelybu i *wynt* neu *wyntoedd;* mor anamgyffredadwy ydyw ei natur; ac mor hunan-gynhyrfiol, grymus, argyhoeddiadol, bywhaol, cyssurus, a phureidd iol yw eiddylanwadau! Onid all y *gogleddwynt* fod yn cysgodi ei weithrediadau argyhoeddiadol, a'r *deheuwynt* ei rai adfywiol a chyssurus ef? Ioan iii. 8. Can. iv. 16. Ezec. xxxvii.

GWYNTYLL, *(gwynt)* offeryn i nithio ŷd. Ymddengys fod ganddynt ddau fath o honynt, un â dannedd, â'r hon y troent yr ŷd i fynu i'r gwynt, fel y byddai i'r ûs gael ei chwythu ymaith; un arall a wnai wynt, os y byddai yr awyr yn dawel, Esa. xxx. 24. Barnedigaethau Duw a gyffelybir i *wyntyll;* y mae efe, trwy ddynt, yn troi dynion a chenedloedd i fynu i awelon ei ddialedd, ac yn eu chwalu a'u gwasgaru hwy o blegid eu drygioni, Jer. xv. 7.

GWŶR—O, cam, erwin. Y mae o ystyr croes i uniawn, uniondeb, cyfiawn; megys *gwyro* barn, sef gwneuthur camfarn, barn anghyfiawn, anuniawn. Yr oedd penaethiaid Israel yn ffieiddio barn, sef barn gyfiawn, ac yn *gwyro* pob uniondeb i anghyfiawnder, Mic. iii. 9. Exod. xxiii. 6. Deut. xvi. 19. 1 Sam. viii. 3.

GWYRDD *(gwyr)*. Am mai *gwyrdd* yw lliw y gwellt iraidd, y mae yn cael ei ddefnyddio fel arwyddlun o hyfrydwch, llwyddiant, llawnder o gyfoeth, gras, neu gyssur. Y mae Iesu Grist yn cael ei alw yn bren *îr*, neu *wyrdd-las*, i nodi ei gyfiawnder annherfynol ac annysbyddadwy o ras, a rhinwedd ffrwythlonol, Luc xxiii. 31. Hos. xiv. 8. Y mae y saint yn goed *gwyrddion*, neu bethau *gwyrdd-leision;* y maent fyth yn dal Ysbrydy gras, ac yn cynnyddu mewn gras a gweithredoedd da; ac yn hyfryd i edrych arnynt, Salm lii. 8. Dad. ix. 4. Dynion helaeth eu llwyddiant, eu banrhydedd, a'u golud, a elwir yn brenau *îr*, Ezec. xvii. 24, a xx. 47.

GWŶRYF *(gwyr)*. I ddiogelu diweirdeb eu merched ieuainge, nes y caent ganiattad cyfreithlawn i fyned at eu gwyr, byddai yr Iuddewon, a chenedloedd dwyreiniol ereill, yn eu cadw hwy, mewn dull, yn gauedig i fynu, os y goddefai eu hamgylchiadau hyny; ac y mae hyd yn nod enw gwyryf yn mhlith yr Hebreaid, yn arwyddoccau *cuddiedig*, *celedig:* hyn oedd yn peri yr anhawsdra i Amnon mab Dafydd halogi Tamar ei chwaer, 2 Sam. xiii. 2. Hwyrach fod merched ieuainge yn cael eu galw yn *wyryfon* mewn rhai testunau, er nad oeddynt yn briodol felly, Joel i. 8.

GWYRTH, *(gwyr)* effaith rhyfeddol, uwchlaw, neu wrthwyneb i ddeddfau anian. Haeru nas gall fod gwyrthiau, o herwydd fod deddfau anian wedi cael eu sefydlu gan yr ewyllys dwyfol, ac felly yn *dda iawn*, yw cadwyno yr Hollalluog, yn hurt a chableddus, fel caethwas wrth drefn ail achosion. Haeru na ddylai dim gwyrthiau gael eu credu, am eubod yn wrthwyneb i sylw cyffredinol dynolryw, sydd yn dangos hurtrwydd yn y radd uchaf. Os nad oedd gwyrthiau yn wrthwyneb i sylw cyffredinol dynolryw, nis gallent fod yn wyrthiau mewn un modd, na chael un eff-

aith fel y cyfryw. Nid yw tystiolaeth naccaol myrddiynau aneirif am ddygwyddiad yr hwn y caniattaer eu bod hwy yn absennol o le ei gyflawniad ar yr amser, o ddim grym oll. Nid yw gwyrthiau fymrym mwy amlygiadau gwirioneddol o allu Duw, na chadwraeth a llywodraeth gyffredinol pethau; ond y maent yn ymegnïad o'i allu mewn modd anarferol, i ddychrynu y byd, ac atteb rhyw ddyben pwysfawr. Am nad ydym yn alluog i ddeall pa mor belled y geill nerthoedd ail achosion fyned, neu nerth angelion drwg gyrhaedd, nid yw Duw wedi caniattau i ni orphwys y prawf o wirioneedd dadguddiad ar wyrthiau yn unig, ond i chwilio hefyd yr athrawiaeth a gadarnheir trwyddynt, pa un a ydyw yn deilwng o Dduw, neu beidio. Ac nid yw y gwyrthiau trwy ba rai y cadarnhaodd efe anfoniad prif gyhoeddwyr ei ddadguddiad, yn ychydig, neu mewn un modd yn amheus, ond yn lluaws, ac oll o'r fath afreolaidd, nid wedi eu gwneuthur er cadarnhau unrhyw beth ofer neu ddistadl, na'u gwrthddywedyd gan oruwch allu; a'r rhan fwyaf o honynt yn y modd mwyaf cyhoeddus, ger bron cyfeillion a gelynion. Llawer o honynt a adwnaed yn fynych: yr oeddynt yn cyduno er sefydlu corph o grefydd, anrhydeddus i Dduw, ac annhraethadwy ddefnyddiol i ddynion, wedi ei chyfaddasu i'w gwneuthur hwy yn ddedwydd yn y cyflwr hwn a'r un i ddyfod. Ac ni wnaeth y gweithredwyr o honynt unrhyw ymffrost falch o'r gorchestion rhyfeddol hyn. Nid oedd y gwyrthiau a haerir iddynt gael eu gwneud gan *Apolonius* a *Vespasian*, yn amlwg uwchlaw gallu ail achosion, ac ni feddwn unrhyw dystiolaeth briodol am y gweithredoedd, ond adroddiad unig pleidwyr brwdfrydig neu wenieithwyr. Mae y gwyrthiau y rhai yr honna y Pabyddion hawl iddynt, naill ai yn perthynu i goegbethau anrheilwng o'r cyfryngiad dwyfol, neu wedi cael eu cyflawni ger bron dynion wedi suddo mewn dwfn anwybodaeth, ac yn analluog i'w profi, neu ger bron dynion wedi llwyr fwriadu, deued a ddelai, i'w credu hwynt. Ni ragorodd dim o'r fath dwyllodrus ar orchestion y swynwyr Aiphtaidd: ond yr oedd gwyrthiau Moses yn eu meistroli hwynt; ei wïalen ef, pan ei tröed yn sarph, a lyngcodd eu gwïail hwy, y rhai a draws-ffurfiwyd yn yr un modd. Dygodd ef lawer o blâau gwyrthiol alian, y rhai nis gallent hwy. Yr oedd gwyrthiau ein Hiachawdwr mor rhagorol yn eu nattur, mor ddaionus yn eu tueddiad, mor ddwyfol yn eu dull, trwy gyffyrddiad neu air, mor gyflawn yn eu tystiolaeth, ger bron miloedd o gyfeillion a gelynion, ac mor gyfattebol i'r hen brophwydoliaethau am y Messiah, ac mor gyfeiriol er cadarnhau y corph mwyaf derchafedig a daionus o athrawiaethau a deddfau, a'r hanes am danynt mor eglur a syml, ac yn agored i bronad ei elynion gwaethaf, fel nas geill dim ond diffyg gallu i'w chwilio a'u hamgyffred, neu gasineb calon atto ef a'i ffyrdd, ein rhwystro i'w credu hwy a'r efengyl a gadarnheir trwyddynt. Pan y mae ffurf gwir grefydd wedi cael ei sefydlu unwaith yn y byd, nid oes angen am barhad gwyrthiau er ei chadarnhad; am fod dynion eisioes wedi cael eu rhybuddio yn ddigonol i'w hystyried hi, ac anfoniad ei chyhoeddwyr ei dystiolaethu yn ddigonol; ac y mae ffyniant y wir grefydd, yn wrthwyneb i dueddiadau ac ymdrechiadau dynion, gyda chyflawniad y prophwydoliaethau, yn canlyn yn eu lle hwynt. Gwyrthiau Moses oeddynt yn gyffelyb i'w gyfraith danllyd, gan mwyaf yn ddyfethol a dinystriol; ond gwyrthiau Crist, fel ei efengyl, oeddynt bron yn hollol o'r fath ddaionus.

GYNT, yr amser a aeth heibio. "Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt," Mat. v. 21. Y mae y rhan fwyaf o lawer o'r cyfeithiadau yn yr amrywiol ieithoedd yn cyduno i gyfeithu y geiriau fel hyn, "Clywsoch ddywedyd *wrth* y rhai gynt," sef yn neilldnol wrth eu tadau ar fynydd Sinai.

TERFYN Y GYFROL GYNTAF.

ARGRAFFWYD GAN J. COX, ABERYSTWYTH.

Edward Evans his

Book 1846